



This is a digital copy of a book that was preserved for generations on library shelves before it was carefully scanned by Google as part of a project to make the world's books discoverable online.

It has survived long enough for the copyright to expire and the book to enter the public domain. A public domain book is one that was never subject to copyright or whose legal copyright term has expired. Whether a book is in the public domain may vary country to country. Public domain books are our gateways to the past, representing a wealth of history, culture and knowledge that's often difficult to discover.

Marks, notations and other marginalia present in the original volume will appear in this file - a reminder of this book's long journey from the publisher to a library and finally to you.

### **Usage guidelines**

Google is proud to partner with libraries to digitize public domain materials and make them widely accessible. Public domain books belong to the public and we are merely their custodians. Nevertheless, this work is expensive, so in order to keep providing this resource, we have taken steps to prevent abuse by commercial parties, including placing technical restrictions on automated querying.

We also ask that you:

- + *Make non-commercial use of the files* We designed Google Book Search for use by individuals, and we request that you use these files for personal, non-commercial purposes.
- + *Refrain from automated querying* Do not send automated queries of any sort to Google's system: If you are conducting research on machine translation, optical character recognition or other areas where access to a large amount of text is helpful, please contact us. We encourage the use of public domain materials for these purposes and may be able to help.
- + *Maintain attribution* The Google "watermark" you see on each file is essential for informing people about this project and helping them find additional materials through Google Book Search. Please do not remove it.
- + *Keep it legal* Whatever your use, remember that you are responsible for ensuring that what you are doing is legal. Do not assume that just because we believe a book is in the public domain for users in the United States, that the work is also in the public domain for users in other countries. Whether a book is still in copyright varies from country to country, and we can't offer guidance on whether any specific use of any specific book is allowed. Please do not assume that a book's appearance in Google Book Search means it can be used in any manner anywhere in the world. Copyright infringement liability can be quite severe.

### **About Google Book Search**

Google's mission is to organize the world's information and to make it universally accessible and useful. Google Book Search helps readers discover the world's books while helping authors and publishers reach new audiences. You can search through the full text of this book on the web at <http://books.google.com/>



*Trysorfa y plant. Cyfrol  
1(rhif. 1-3), 2(rhif. 20-24), 4-69*

Calvinistic Methodists

Per. 14198. € .  $\frac{159}{1812-5}$



Per. 14198. €.

150  
1812-5











# TRYSORFA Y PLANT:

CYHOEDDIAD MISOL I'Y BUCENCTYD,



GYFUNDEB Y METHODISTIAID CALFINAIDD.

YR AIL GYFROL.

1863.

TREFFYNNON:  
CYHOEDDWDYD (DROS Y CYFUNDEB) GAN P. M. EVANS.

—  
MDOCCLXIII.



# RHAGYMDRODD.

---



ANWYL DDARLLENWYR,—

Wele DRYSORFA Y PLANT wedi cyrhaedd pen ei dwyflwydd, ac y mae yn rhwymedig arnom i ddiolch yn gynhes i ohebwy'r, dosbarthwyr, a darllenwyr, am eu cynnorthwy a'u ffyddlondeb. Da genym allu hysbysu fod y cylchrediad wedi dal i gynnyddu yn raddol o'r dechreu. Mae yn awr oddeutu *pymtheng mil* yn cael eu gwerthu bob mis. Mae hyn yn gylchrediad da ar gyhoeddiad bychan Cymreig, a'r mwyaf, dybygem, o holl gyhoeddiadau y Dywysogaeth. Ond pan ystyriom fod aelodau eglwysig y cyfundeb, heb son am eu teuluoedd a'r cynulleidfaoedd, ymhell dros gan' mil, y mae yn amlwg y byddai yn hawdd, trwy un cydymdrech cyffredinol, ar droad y flwyddyn, ddyblu y cylchrediad presennol. Nid yw yn gweddu i ni ganmawl y cyhoeddiad, ond credwn y gallai pregethwyr yr efengyl, athrawon yr Ysgol Sabbothol, a rhieni plant, wneyd gwasanaeth da i achos yr efengyl wrth roddi y geiniogwerth hon yn fisol yn llaw pob plentyn. Mae cymhelliadau newyddion hefyd ynglŷn â hi y flwyddyn ddyfodol. Gostyngir ychydig eto ar ei phris i'r Cyfarfodydd *Misol*, fel y gallo y dosbarthwr gael ychydig ychwaneg am ei lafur; a rhoddir nifer mawr o WOBRWYON i'r plant am ateb cwestiynau o'r Ysgrythyrau, yn ystod y flwyddyn. Yn awr, ewyllyswyr da, gadewch i holl blant y cyfundeb, o leiaf, gael gwybod am dani, a chyfleusdra i ddyfod yn dderbynwyr iddi. Ddarllenwyr ieuainc,—chwi am weithio—mynwch bob un dderbyniwr newydd i'ch cyhoeddiad, ac anfonwch atom i hysbysu eich llwyddiant.

Gyda dymuniad am i fendith y Nefoedd eich canlyn, y gorphwysa,

Yr eiddoch yn gywir,

Y GOLYGYDD,

a'r

CYHOEDDWR.

Trefor, Rhagfyr, 1863.



# CYNNWYSIAD.

## RHYDDIAETH.

	Tu dal.
A gaf fi fyn'd i chwareu!...	77
America yn rhybudd i Brydain	169
Anfon Cusan i'r Nefoedd ...	79
<b>ATHBONIAETH PETHAU CY-</b>	
<b>FFREDIN—</b>	
Llwydrew ... ..	90
Y Gwaed ... ..	152
Yr Awyr ... ..	243
A wnewch chwi ei dalu yn ôl?	327
Beth yw ystyr y gair, John?	53
Bil y <i>Shoeblock</i> ... ..	32
Brasluniau ... 29, 132, 225,	281
Briwsion o'r "Eglwys"...	287
Calenig y Plant ... ..	1, 136, 166
Candace y Gaethes Ddu ... ..	303
Carlo a'i Feistr ... ..	302
Catecism i'r Plant ... ..	305
Cloch Angau y Poteli ... ..	50
Clogyn y Meddwyn ... ..	246
Cnau i'w tori ... ..	80
Colledion a achosir gan Feddwod ... ..	4
Crist yn eiriol drosom ... ..	285
Cyfrif Blynnyddol y Bibl Gymdeithas ... ..	192
Cynghorion i Blant ... ..	195
Cyntaf oll y bydd drosodd ... ..	45
Dadl Plentyn am ei Fwyd... ..	165
Dadl y Meirch ... ..	142
Dim newydd dan haul... ..	262
Diolch am Gwrw, 'nhad ... ..	66
Dosbarth y Biblau 89, 151, 206,	251
Dr. Livingstone ... ..	35
Duw yn gweled ... ..	173
<b>YDDANION—</b>	
Haelfrydedd y <i>Shoeblocks</i> ...	28
Tarddiad y Tybaco ... ..	28
Hamlet a'r Brenin ... ..	28
Rhywbeth yn galw ... ..	55
Caru ac nid curo ... ..	55
Bedd neu Bulpud ... ..	56

	Tu dal.
Yr Hanner Coron drwg ... ..	56
Y Wialen Fedw ... ..	56
Ystyriwch y Brain ... ..	56
Diffodd yr Ysbryd ... ..	56
Cicio TRYSORFA Y PLANT...	84
Arian yn erbyn Amser... ..	84
Siomi y Diafol ... ..	84
Maddeuant ... ..	84
Yr hen Leuadau... ..	112
Dim drwg yn yr Het ... ..	112
Diffyg defnyddiau ... ..	140
Gorchest ... ..	140
Mab cân hyned a'i dad ... ..	140
Cadw at y Lythyren ... ..	168
Drannoeth y Meddwi ... ..	168
<i>Sign</i> Tafarn ... ..	168
Eisien dau Nadolig ... ..	168
Byw lân gyda Duw ... ..	196
'Fuaswn i ddim yn ei wneyd	196
Ymladd ac yn y seiat ... ..	196
Cwestiwn anhawdd ... ..	224
Dim gwialen fawr yn y nefoedd ... ..	224
Dwy ddynes nodedig America	224
Dillad yn tyfu ... ..	252
A all y magnelau ganu? ... ..	252
Ottiwell Wood ... ..	280
Dirwes ... ..	280
Ceffylau Pregethwyr... ..	280
Tafu yr <i>Inkstand</i> at ben y Diafol ... ..	280
Tarfu yr Ysbryd Drwg ... ..	308
Y ffordd gyda chybydd ... ..	308
Cyweirio y gwely ... ..	308
Trysori yn y nef ... ..	328
Atebiad annysgwyladwy ... ..	328
Cerydd Plentyn... ..	328
Dyfais John i groesi yr afon	109
Ein Hysgol a'n Tywysog ... ..	113
Ein Mary bach ... ..	108
<b>ENWOGION YR OES—</b>	
Arglwydd Palmerston ... ..	232
Arglwydd Russell... ..	290
Richard Cobden... ..	313

	Tu dal.		Tu dal.
Esboniadau Ysgrythyrol i'r		Yr Aelwyd Gartref ... ..	93
Plant ... ..	104, 139, 313	Perffaith Gyfraith Rhyddid...	124
Fi a 'Ngheffyl ... ..	309	Bedyddiad Lydia a'i Theulu	125
Ffoedora ... ..	63	Yr Eglwys ... ..	287
Ffordd newydd i gludo Llyth-		Llwllyfr Caniadaeth—Ail ran	292
yrau ... ..	53	Ehediadu Byrion ... ..	292
Ffrynd fy mam a finnau ..	270	Dammeg y Mab Afradlon ...	326
Gadael a pheidio gadael ...	22	Dedwyddwch Teuluaidd ...	326
Gair olaf Duc Wellington ...	134	Llythyr i DRYSORFA Y PLANT o	
Gair wrth hoffwyr y glec ...	49	Smyrna ... ..	38
Gallu y Glo... ..	152	Llythyr Plentyn o'r Môr Tawel	299
Gardd y Plant Breninol ...	164	Madagascar a'r Bibl ... ..	177
Geneth nawmlwydd oed ar ei llw	120	Mae'n sicr o gyrrhaedd yno ...	277
George bach a'r Adsain ...	301	Mantell nice i fyn'd at Iesu Grist	148
George Stephenson ... ..	95, 187	Martin Luther a Duc George ...	314
Gofynwch i'r Lleuad ... ..	34	Mawredd yn beth i'w ennill	205
Gwaredigaeth ryfeddol Bach-		Modryb Nansen Roger... ..	149
genyn ... ..	122	Myned i nofio ar y Sabbath ...	237
Gweddï y Plentyn Amddifad ...	146	Na, mi starfa yn gyntaf ...	17
Gweled a mwynhâu ... ..	230	Napoleon Buonaparte a'r Ci... ..	13
Gwell cast na hyny ... ..	301	'Nhad, fyddwch chwi byth yn	
GWRSI I'R LLENOR IEUANC—		gweddïo?... ..	220
Darllen yn dda ... ..	27	Ni y plant ... ..	2
Ysgrifenu yn dda ... ..	48	Ofn gweled Duw ... ..	172
Ysgrifenu llythyrau... ..	110	Oriau olaf Golyddan ... ..	18
Cyfeirio llythyrau... ..	162	Pedair adnod Martha fach... ..	51
Gwneuthuriad TRYSORFA Y		Pregethau i'r Plant ... ..	57, 85, 141
PLANT ... ..	15, 43	Pregeth i Famau ... ..	197, 228
Hanes fy human—		Pregeth y Pysgotwr ... ..	80
Ymadawiad â'm cartref ...	126	Priodi ... ..	248
Ennill a cholli ... ..	155	Prynwch eich <i>Cherries</i> eich	
Diangfa ... ..	183	human ... ..	258
Y llongdrylliad ... ..	211	Pwy chwipia chi, 'Nhad? ...	223
Digon o le ... ..	239	Pwy weddia dros of?... ..	284
Cartref unig ... ..	267	Radama wedi ei ladd ... ..	251
Tröedigaeth ... ..	321	Rhodd i Blentyn Amddifad ...	194
Hannah Ellis wrth fyw ac wrth		Rhyddid y Caethwas ... ..	70
farw ... ..	250	Robin Bola Coch ... ..	11
Huw Huws y Go' a Ninnau 24,		Sami a'i <i>Sums</i> ... ..	207
71, 101, 158, 215, 271,	316	Sut i ddysgu Darllen Cerddor-	
James ac Arian y Genadaeth ...	222	iaeth... ..	9
John Bach a'r Dyn Meddw ...	318	Tân yn adferu Cymraeg ...	61
Kattie Sumner ... ..	264	Tom bach y Negro yn gweddïo	54
<i>Lucifer Matches</i> ... ..	276	Tom Thumb a'i Wraig ... ..	112
Luther a Melancthon ... ..	312	Tŷ gweddï i'r holl bobloedd	245
Llinyn, y penaf o ddifyrion		Wedi dysgu yr holl Destament	317
plentyn ... ..	278	Y Bachgen a'r Botel... ..	209
LLYFRAU NEWYDDION—		Y bachgen a'r ysbryd canadol	180
Llwllyfr Caniadaeth ... ..	92		

	Tu dal.		Tu dal.
Y bachgen bach a'r <i>Snowdrops</i>	236	Calfaria ... ..	88
Y Bachgen Mud a'r Gweinidog	83	Canëon Gwladol Cymru—	
Y Bachgen Tlawd a'r Gweinidog	147	Serch hudol ... ..	5
Y Belen yn yr Het ... ..	201	Er myn'd ymhell o Walia wên	60
Y Bibl a'r Twll ynddo ... ..	67	Rhosyn yr haf ... ..	116
Y Bibl neu Regu ... ..	244	Y march a'r gwddw brith	116
Y Cloff a'r Diog... ..	306	Byddwn yn rhydd ... ..	178
Y Cwningod ... ..	118	Mae John yn myn'd i Loegr	203
Y Cychaid Bechgyn ... ..	91	Cân TRYSORFA Y PLANT	291
Y Dyn Meddw ... ..	294	Cân y Fam wrth fagu ei Maban	327
Y Ddafad ... ..	135	Cân yr Eneth Ddall ... ..	145
Y Ferch Ddall a'r Genadaeth	190	Cewch eto deimlo'r haulwen	79
Y Fwltur ... ..	274	Cofiwch Dici bach... ..	247
Y Ffordd i fod yn fawr ... ..	193	Cwyn y Bachgen Du... ..	231
Y Gigfran ... ..	174	Cyflymdra y Meddwl Dynol	37
Y Goleudy ... ..	82	Chwedl y Gath a'r Celliog ...	107
Y grisiau cyntaf i'r crogbren	293		
Y Gweinidog a'i Gaethwas ...	296	Dafydd bach ... ..	119
Y Llew ... ..	78	DALEN I'R BEIRDD IBUAINC—	
Y Llewpard ... ..	162	Gofyniad ... ..	40
Y Llythyr yn cyhuddo ... ..	311	Dirwest ... ..	40
Y Mochyn yn curo y Ci ...	46	Adgofion mebyd ... ..	40
Y <i>Newfoundland</i> a'r Plant ...	5	Y nefoedd ... ..	41
Yn rhy fawr i ufuddhâu i'w fam	307	Anne Hughes, Llanberis ...	41
Y Nyth a'r Adar Bach ... ..	106	Y Bibl .. ..	41
Y Penaeth Paganaid ... ..	18	Gweddio ... ..	41
Y Plant a'r Blodau ... ..	182	Gallu Duw yw hi ... ..	189
Y Plant na ddaw daioni o honynt	279	Aderyn du pigfelyn ... ..	189
Yr Aderyn Du ... ..	62	Erfyniad am grefydd ... ..	190
Yr Addoliad Teuluaid ... ..	23	Mary Jane Morton ... ..	190
Yr Eneth wyth oed ar ei gwely marw ... ..	69	Emyn Genadol ... ..	296
Yr hen Robert Stephenson ...	42	Llyfr yr Ysgol Sul ... ..	297
Yr Hen Wraig a'r Gweinidog	266	I'r DRYSORFA... ..	297
Yr Het y cnôwyd ei hymyl ...	194	Cofia dy Grêawdwr ... ..	297
Y Rhinoceros ... ..	219	Y Duwiol ... ..	297
Yr Ymweliad cyntaf a'r diw- eddaf ... ..	98	Marwolaeth Crist ... ..	297
Yr Ysgol Ddyddiol ... ..	154	Crefydd Foreuol ... ..	298
Ysbrydion y Cwpan ... ..	14	Y Bachgen amddifad ... ..	298
Y <i>Sweep</i> Bach a'r Gŵr Boneddig	208	Codi'n fore ... ..	298
Y Teigr ... ..	286	Y Bibl... ..	298
Y Zebra ... ..	231	Iesu ... ..	298
		Y plentyn drwg... ..	299
		Dechreu marw a dechreu byw	219
		Dedwydd oriau Mebyd ... ..	68
		Deffrowch ynghyd... ..	295
		Diolch y Plant am eu TRYSORFA	52
		Dirwest a Thybaco ... ..	47
		'Does dim ond eisieu dechreu	125
		Dydd y Briodas ... ..	158
		Dymuniad olaf y plentyn ...	117
		Fy anwyl Fam fy hunan ... ..	191
		Fy Nai bach ... ..	278
		Gochel, gochel! ... ..	161
		Gweddi Hwyrrol i'r rhai bychain	165
		Gwenol gyntaf y tymmor ...	130

## BARDDONIAETH.

Adgofion Mebyd ... ..	218
Addysg Rhieni ... ..	51
Amddiffynfa y Cristion ... ..	244
Anthem Tywysog Cymru ...	31, 312
Araeth yr Eneth Fach ... ..	263
Beth brynaf & 'Ngheiniog? ...	195
Beth yw'r Son? ... ..	100
Bu farw y Meddwyn ... ..	21



	Tu dal.		Tu dal.
Gwersi Arian... ..	93	U Larsing ... ..	286
Gwobr am Gyfleithiad ...	187, 247	Y Bachgen amddifad yn marw	200
Hanes yr Iesu ... ..	167	Y Bachgen bach dall ... ..	236
Hosannah i Fab Dafydd ...	179	Y Bachgen Gwyddelig a'r Offeir- iad ... ..	242
Iesu Grist ymhlith y Doctoriaid	94	Y Beddrod Breninol ... ..	105
Mary bach ... ..	54	Y Brithyll a'r Ieuanc ... ..	261
Mary fach y Siop ... ..	164	Y Cryd ... ..	221
Mae nodwydd y cwmpawd tua'r gogledd o hyd ... ..	227	Y Ddioid a yfaf ... ..	134
Mae'r <i>Band of Hope</i> yn codi ...	136	Y Gareg yn ateb ... ..	289
Mae'r Lili fach wen ... ..	325	Y Meddwyn ... ..	33
Mae'r Ysgol Sabbothol ... ..	181	Y Milwyr a'r Gelyn ... ..	166
Meddwdod a Dirwest ... ..	121	Ymson Mair ... ..	150
Mis Awst ... ..	207	Y Plentyn a'r Iesu ... ..	175
Os wyt am fyn'd yn ddyn ...	147	Yr A B C, &c... ..	49
Palas Sydenham... ..	126	Yr Aderyn Bronfraith ... ..	104
Pa le y mae fy Nhad? ... ..	311	Yr Henwr Dall ... ..	315
Pan na bo dŵr mae gwynt ...	89	Yr Oenig a'r Ysmotyn Du ...	275
Pan oedd fy Mam yn fyw ...	13	Ywen y Fynwent ... ..	124
Penderfynwch fod yn rhywbeth	45	Y Wenynen ... ..	250
Priodas Tywysog Cymru... ..	142		
Profiad plentyn da ... ..	300	—	
Rhaid marw fy hunan .. ..	279	TŌNAU.	
Rhyddid y Caethwas ... ..	71	Cartref y Meddwyn a Chartref y Dirwestwr ... ..	138
Rhyfeddodau mwy nag eiddo Llundain... ..	97	Duw sydd yn fy ngweled i ...	10
Sarah Jane ... ..	283	Rhaid i mi beidio digio fy mam	76
Traddodiad Beddgelert ... ..	320	'Rwy'n methu peidio wyllo ...	176
TRYSORFA Y PLANT ... ..	73	Tu draw i'r Afon ... ..	234
Tywysog Cymru ... ..	293		



## TRYSORFA Y PLANT.

RHIF. I.]

IONAWR, 1862.

[CYF. I.

### GAIR AT Y PLANT.

**I**Y ANWYL GYFELLION,—Gan fy mod yn ymwelydd dyeithr, ac na welsoch fy wyneb o'r blaen, mae yn iawn i mi adrödd fy neges wrthyich. Gwnaf hyny mewn chwech o benau.

1. Dysgu gwirioneddau i chwi o'r Bibl, ac am y Bibl, mewn ffordd mor syml ac eglur ag y gallwyf.

2. Gosod eich traed ar ben y ffordd at wahanol gangenau gwybodaeth gyffredinol.

3. Rhoddi hanesion byr, a chryno, i chwi am sefydliadau, dyfeisiau, a dynion enwog, fel y byddo genych ryw syniad am bob peth, a phob dyn, y clywsoch lawer o son am danynt.

4. Rhoddi hanes ymddygiadau dewr, rhinweddol, a duwiol, mewn plant, er mwyn eich cyffroi chwithau i ymddygiadau cyffelyb.

5. Adrodd ystoriau difyr a phert wrthyich, er mwyn tynu eich bryd at ddarllen, fel y deloch yn ddarllenwyr da, ac yn hoff o lyfrau.

6. Egluraf lawer o'm gwersi i chwi â'r darluniau goreu allaf gael, fel y byddo yn hawddach i chwi eu deall a'u cofio.

.Dyna fy neges; ac ynglŷn â hi y mae genyf bum' cynghor i'w rhoddi i chwi;—

1. *Dysgwch ddarllen fy ngwersi yn dda.* Heb hyny nis gellwch eu deall, na chael pleser trwyddynt. Bydd gallu darllen yn dda yn fwy o werth i chwi na chan' punt y flwyddyn.

2. *Darllenwch fy ngwersi i gyd.* Bydd yn hawdd i chwi wneyd hyny, gan na fydd ond gwaith dwyawr neu dair mewn mis.

3. *Darllenwch hwynt allan* ar yr aelwyd, pan fyddo amser gan eraill i wrando arnoch. Darllenwch hwynt hefyd, pan gewch gyfleusdra, i'r plant sydd yn chwareu gyda chwi. Cesglwch hwynt yn dŵr o'ch cwmpas, a darllenwch yn uchel a chllir: bydd hyny yn llawn cystal difyrwch i chwi a chwareu set o farbles, o binâu, neu o bêl.

4. *Gwnewch ddefnydd o'r darluniau.* Y ffordd oreu i edrych ar y darluniau yw, trwy gau un llygad, ac edrych â'r llall trwy eich dwrn, neu trwy ddarn o bapyr wedi ei rollo. Peidiwch edrych yn rhy graff; ond deliwch i edrych yn ddigon hir, ac yna daw y darlun yn fwy clir i'r golwg.

5. *Copiwch y gwersi fyddwch yn hoffi oreu,* er mwyn arfer eich hunain i ysgrifenu a sillebu yn gywir.

Dyna fy nghyngorion. Nid oes genyf yn awr ond dymuno "*blwyddyn newydd dda*" a phob llwyddiant i chwi—dymuno i'm gwersi brofi yn fuddiol i chwi, ac i Dduw pob gras eich bendithio.

Ydwyf, yr eiddoch yn wir,

TRYSORFA Y PLANT.



## Y TABERNAACL YN YR ANIALWCH.

### PENNOD I.

**M**AE dau beth yn gwneyd hanes Israel yn yr anialwch yn ddyddorol. Y peth cyntaf yw y gwyrthiau a'r holl ryfeddodau cysylltiedig a'u taith. Nid ysgrifenyd un *novel* erioed a chymaint o amgylchiadau rhyfeddol a chyffrous ynddi, ag sydd yn yr hanes gwirioneddol hwn. Y peth arall yw y berthynas bwysig sydd rhwng defodau crefyddol Israel a datguddiad yr efengyl. Nid


oedd y Tabernacl a'i holl wasanaeth ond cysgod o Grist. Ac y mae yn anmhosibl deall y Testament Newydd yn dda heb ei ddal yn ngwyneb addoliad y Tabernacl yn yr anialwch. Mae hyn yn ddigon o reswm i'r darllenydd am y pennodau fwriedir roddi ar y testun. Ac y mae yn llon genym ei hysbysu fod genym gyfres o ddarluniau rhagorol er egluro y Tabernacl, ei gelfi, a'i ddefodau. A diammheu y trosglwydda y darluniau syniad mwy clir o'r pethau hyn, nag a allai y darllenydd cyffredin ei gael wrth ddarllen llyfr Exodus ddwsin o weithiau drosodd.

Tair mil tri chant a thair ar ddeg a deugain o flynyddoedd yn ol (1491 cyn Crist), y daeth Israel allan o gaethiwed yr Aipht, lle y buont yn preswyllo am bedwar cant a deg ar hugain o flynyddoedd. Arweiniodd Duw hwynt allan â'i golofn gwmwl; holltodd y môr o'u blaen, a dygodd hwynt drwyddo yn droedsych. Daeth Pharaoh a'i luoedd i'w hymlid; ond edrychodd Duw arnynt o'r cwmwl nes eu dyrysu, a boddwyd hwy oll yn ngwaelod y môr.

“Edrychodd yr Arglwydd o le ei ogoniant,  
A'r miloedd yn nhrochion y llif a suddasant!  
Chwythwch yr udgryn ar aelgerth Baalsephon,  
Mae Israel yn rhydd a Pharaoh yn yr eigion.”

Yr oedd nifer meibion Israel yn myned allan o'r Aipht, yn ol barn amryw, tua dwy filiwn a hanner o eneidiau; tua chymaint arall a nifer trigolion Cymru; neu gynifer a holl drigolion Llundain; ac yr oedd eu hanifeiliaid yn ddirifedi. Cynnwysent oll dri llwyth ar ddeg; ond gan fod Ephraim a Manasseh yn cael eu hystyried yn cynnrychioli Joseph, gelwir hwy yn gyffredin “y deuddeg llwyth.”

Arweiniodd yr Arglwydd y dyrfa fawr i'r “anialwch gwag erchyll,” gyda chwmwl o fwg y dydd, a chwmwl o dân y nos; rhoddodd fanna o'r nefoedd yn fwyd iddynt, a gwnaeth i afonydd darddu allan o'r graig i'w disychedu, a chyn hir daethant at dŵr o fynyddoedd a elwid Horeb. Gwersyllasant wrth odre un o honynt a elwid Sinai, a disgynodd Duw ar ei ben gan wneyd gorsedd iddo ei hun o hono. Crynodd y mynydd ar ei sylfeini wrth ddisgyniad Duw, a dychrynodd yr holl bobl wrth glywed ei lef, o'r cwmwl neillduol a döai y mynydd, yn cyhoeddi y deg gorchymyn, y rhai a ysgrifenydd wedi hyny ar y llechau. Gwaeddodd y bobl, “Llefared Moses, ac nid Duw, rhag i ni farw.” Gwrandawodd yr Arglwydd arnynt, a rhoddodd y gweddill o'r cyfreithiau iddynt trwy enau “Moses ei was.” Gorchymynodd ymysg pethau eraill, i Dabernacl, neu babell gael ei chodi yn ol y portreiad a ddangoswyd i Moses yn y mynydd, lle y gallai Ef ddyfod i aros, ac i breswyllo yn eu mysg. Yr oedd y portreiad yn hynod o fanwl, a siars bendant i fod yn ofalus i wneuthur pobpeth yn ei ol.



Y GWERSYLL.

Y darlun cyntaf a roddwn yw y GWERSYLL, ynghyd a sefyllfa y llwythau yn ol eu gwersylliad o amgylch y tabernacl. Bernir eu bod yn llenwi cylch o ddeuddeng mildir. Mae y cwmwl yn crogi uwchben yr holl wersyll, wrth symudiad yr hwn yr oeddent i gychwyn, ac i aros wrth ei arosiad yntau. Yr oedd hefyd yn gysgod gwerthfawr iddynt rhag gwres llosgedig yr haul. Gwelir y Tabernacl yn y canol a'r mwg yn codi o hono. Y linell nesaf i mewn yw pebyll y Lefiaid, y rhai oeddent i gadw gwyliadwriaeth y babell; gorchymynwyd iddynt breswyllo rhwng pabell y dystiolaeth a'r llwythau eraill, "fel na byddai llid yn erbyn cynnull-eidfa meibion Israel." Y chwech pabell a welir o fewn y lle gwag, ar y tu dehau, oeddent pabell Moses; pabell Aaron yr Archoffeiriad; a phebyll pedwar mab Aaron, y rhai oeddent yr offeiriad penaf. Yr oedd y llwythau eraill yn gwersyllu yn drefnus o amgylch, tu allan i linell y Lefiaid; tri llwyth i'r dwyrain, tri i'r gorllewin, tri i'r gogledd, a thri i'r dehau; a phob llwyth âg un wyneb iddo at y gwagle lle yr oedd y Tabernacl. Yr oedd lluman, neu faner pob llwyth, a'i enw arni, wedi ei chodi o'i faen, ac yn wynebu y Tabernacl.

Y tri llwyth tua'r dwyrain (ar y llaw ddehau yn y darlun) yw Judah, Issachar, a Zabulon; y tri tua'r gorllewin (ar y llaw aswy) yw Ephraim, Manasseh, a Benjamin; y tri tua'r dehau (nesaf atoch) yw Reuben, Simeon, a Gad; a'r tri tua'r gogledd yw Dan, Aser, a Naphtali. (Gwel y pennodau cyntaf yn Numeri).

Mae disgrifiad Balaam o'r gwersyll yn rhagorol:—"Canys o ben y creigiau y gwelaf ef, ac o'r bryniau yr edrychaf arno; wele bobl yn preswyllo eu hun, ac heb eu cyfrif ynghyd a'r cenedloedd. Pwy a rif lwch Jacob, a rhifedi pedwaredd ran Israel? Mor hyfryd yw dy bebyll di, O Jacob! dy gyfanneddau di, O Israel! Ymestynant fel dyffrynoedd, ac fel gerddi wrth afon, fel aloewydd a blanodd yr Arglwydd, fel y cedrwydd wrth ddyfroedd. Duw a'i dyg ef allan o'r Aipht; megys nerth unicorn sydd iddo; efe a fwyty y cenedloedd, ei elynion, ac a ddryllia eu hesgyrn, ac â'i saethau y gwana efe hwynt. Efe a gryma, ac a orwedd fel llew, ac fel llew mawr; pwy a'i cyfyd ef? Bendigedig fydd dy fendithwyr, a mellldigedig dy feldithwyr." (Num. xxiii. 9, 10, a xxiv. 5, 6, 8, 9.

CADW FY NGORCHYMYNION A BYDD  
FYW; A'M CYFRAITH FEL CANWYLL DY  
LYGAB. RHWYM HWYNT AM DY FYS-  
EDD; YSGRIFENA HWYNT AR LECH DY  
GALON.—DIAR vii. 2, 3.

## CYNGHOR TAD I'W BLENTYN.

*(Y Syniadau o Shakspeare.)*

**A**RGRAFFA ar dy galon  
 Y geiriau hyn heb goll;—  
 Paid byth a rhoddi tafod  
 I dy feddyliau oll.  
 Paid troi anaddfed feddwl  
 Yn weithred fyrbwyll chwaith;  
 Fel hyn ti wnai ochelyd  
 Aml ofid ar dy daith.

Bob amser bydd gyfeillgar,  
 Ond nid difoes o hy';  
 A chadw dy gyfeillion  
 Profedig genyt sy:  
 Hwy cydia wrth dy enaid  
 A chedyrn fachau dur;  
 I wneyd cyfeillion newydd  
 Paid bod mewn gormod cur.

Paid rhoi dy fys mewn terfysg,  
 Os gelli ei ysgoi;  
 Os *rhaid*—dal fel bo d' elyn  
 Yn d' ochel di a ffoi.  
 Rho glust i bawb, i wrando,  
 Dy lais i ambell un;  
 A derbyn farnau pobdyn,  
 Ond cadw 'th farn dy hun.

Gwel fod dy wisg yn wastad  
 Yn ol dy gôd dy hun;  
 Yn dda—ond nid yn goegfalch,  
 Waith 'sbonia 'r wisg y dyn.  
 Paid ceisio, na rhoi benthg  
 I neb o dan y nef;  
 Waith aml y collir benthg,  
 A'r cyfaill gydag ef.

Ond uwchlaw pobpeth arall,—  
 Mae 'th lwydd wrth hyn ynglŷn,  
 Bydd byth, ymhob amgylchiad  
*Yn fyddlawn i' dy hun.*  
 Ac yna fe ganlyna,  
 Fel nos yn canlyn dydd,  
 Na byddi yn anffyddlawn  
 Byth, byth, i gaeth na rhydd.

## JOHN BRENTIUS A'I ERLIDWYR.

**B**R oedd John Brentius, y diwygiwr Germanaidd enwog, yn weinidog ar gynulleidfa yn nhref Hall, pan ddaeth milwyr Spain i'r wlad hono i erlid a dyfetha y Protestaniaid, yn y flwyddyn 1547. Aeth Brentius at y penswyddog i ofyn ei ryddid, fel swyddog eglwysig, i beidio lletya y milwyr. Ond pan ddychwelodd, yr oedd y milwyr yn ceisio tori ei ddrws i fyned i mewn at ei wraig a'i blant; a chododd un o honynt ei fwyall, a bygythiodd ei ladd yn y fan os na ch'ai y drws ei agoryd. Agorwyd y drws, a rhoddodd Brentius ymborth o flaen y milwyr. Tra fu y milwyr yn bwyta, diogelodd y gŵr ei baprau, anfonodd ei deulu ymaith, ac aeth yntau allan, gan adael ei dŷ i'r milwyr.

Drannoeth daeth esgob Spainaidd yno, trôdd y milwyr allan, a chymerodd feddiant o'r tŷ. Wrth chwilio y llyfrgell cafodd afael ar baprau Protestanaidd, y rhai a farnwyd yn ddigonol i gondemni y diwygiwr. Anfonwyd llythyr ar led yn gorchymyn dal Brentius, a gorfu iddo grwydro am nosweithiau mewn coedydd anial, tra yr oedd y milwyr rheibus yn hela pob congl o'r dref am ei fywyd. Wedi i'r milwyr ymadael, dychwelodd Brentius i'w dŷ, ond yr oedd wedi ei yspeilio o bob peth. Drannoeth daeth cenad eilwaith i'r dref oddiwrth yr ymherawdwr, yn gorchymyn dwyn Brentius ato ef yn fyw neu farw. Yr oedd wedi eistedd i lawr wrth ei fwrdd tlodaidd i fwyta tamaid sych, pan anfonodd cyfaill air ato,—“Ffo, Brentius, yn ddioedi!” Cododd yn y fan, a ffôdd i'r goedwig gyfagos; ac yno y bu am wythnosau, yn treulio y dydd yn y coed, ac yn dychwelyd yn lladradaidd yn nyfnder y nos at ei deulu gorthrymedig. O'r diwedd cymerodd Ulrich, Duc Wurtemberg, y ffoadur enwog dan ei nawdd, a gorchymynodd i'w ysgrifenydd ei ddwyn i le diogel. “Ond,” eb efe, “na ddywedwch wrthyf pa le y dodwch ef, fel y gallwyf dyngu wrth yr ymherawdwr, os bydd achos, na wn pa le y mae.” Cyflêwyd Brentius i gastell anial Wittlingen, mewn ardal fynyddig, ac yno yr ysgrifennodd ei esboniad ar y drydedd Salm ar hugain.

Cyn hir gwelwyd nad oedd yn ddiogel yno eilwaith, a thrwy ganiatâd y Duc ffôdd i Basle. Cafodd lonyddwch yno am dro, ac ysgrifennodd ei sylwadau ar Esaiah. Bu ei wraig, yr hon oedd yn awr yn Stuttgart, farw, a beiddiodd yntau y perygl o fyned i weled ei blant bychain. Nid cynt y cyrhaeddodd yno nag yr oedd haid o yspiwyr milwrol yn ei ganlyn. Deallodd y Duc, ac anfonodd lythyr dirgelaid, at Brentius, yn ceisio ganddo fod ar ei wyliadwriaeth, a chymeryd y cyfle cyntaf i ffoi. Cymerodd Brentius, druan tlawd, dorth o fara dan ei gesail, a cherddodd yn hwylus tua'r dref uchaf. Trôdd i mewn i'r drws cyntaf a gafodd yn agored, ac aeth i fyny y grisiau yn ddirgel, ac ymguddiodd mewn cornel yn nen y tŷ. Yr oedd gwylwyr yn awr yn cadw pyrth y ddinas, a gorchymynwyd i'r milwyr chwilio yn fanwl bob tŷ yn y dref, heb esgeuluso gwely, na chist, nac arall. Felly



gwnaed, a pharhâodd yr ymchwiliad bedwar diwrnod ar ddeg, a Brentius yn ei guddfan, heb neb ond ei Dad nefol yn gwybod pa le yr oedd. Clywai y bobl ar yr heol yn dywedyd yn awr ac eilwaith,—“Diolch i Dduw! y maent heb ei gael eto;” a dywedai yntau “Amen” o eigion calon. Ar y dydd olaf, sef y pedwerydd dydd ar ddeg, daeth y milwyr i mewn i'r tŷ lle yr oedd Brentius yn ymguddio. Clywai eu trwst a'u bygythion pan yn myned o ystafell i ystafell, ac yn chwilio y gwelyau, y cistiau, a'r cypbyrddau. Yr oedd ef ar ei liniau yn gweddio. Yn y man wele hwynt yn esgyn i'r groglofft dywell lle yr ymguddiai. Gall y darlennydd ddychymygu beth allai ei deimladau fod, pan oedd y milwyr yn procio eu picellau trwy y prysgwydd oedd o'i amgylch; a gorfu iddo symud unwaith, onidê buasai wedi cael ei frathu. Ac O! mor llawen ydoedd i glywed un yn dyweyd, “Nid yw efe yma,” a'u gweled yn troi allan. Y dydd hwnw gadawodd y milwyr y dref, yn benderfynol nad oedd Brentius yno.

Ond y mae y peth rhyfeddaf eto heb ei ddyweyd, sef y modd y cafodd Brentius ei gynnal am y pedwar diwrnod ar ddeg y bu yn ymguddio yn nen y tŷ. Clywsom o'r blaen am gigfrain yn porthi Elias ar lân anial yr afon; clywsom am gorfran (*jackdaw*) yn porthi Dolanscius yn ngharchar Prague; ac nid llai rhyfedd oedd i Brentius gael ei borthi gan iar, mewn modd hynod, dros ystad amser ei ymguddiad. Daeth iar i mewn i'r nengell lle y llechai y dydd cyntaf yr aeth yno, a dodwodd ŵy wrth ei draed, ac aeth ymaith heb glochdran, fel y bydd ieir yn arfer ar ol dodwy. Oblegid pe cadwasai y swn arferol, buasid yn ei gael allan. Derbyniodd Brentius yr ŵy fel rhodd oddiwrth Dduw, a bwytaodd ef gyda darn bychan o'r dorth—cyhŷd ag y parhâodd hono. Daeth yr iar i'r un fan bob dydd, a dodwodd, gan fyned ymaith yn ddystaw; ac felly y cynnaliwyd Brentius dduwiol yn fyw yn ei noddfa. Ni ddaeth yr iar ar y dydd yr ymadawodd y milwyr, a deallodd Brentius am eu hymadawiad trwy glywed y bobl yn siarad ar yr ystrŷd. Yna aeth allan, ac ymddangosodd i'r Duc, a synodd hwnw yn fawr pan ddealloddei hanes. Dywedodd y Duc nad oedd yn bosibl ei gadw fel dyn cyhoeddus, a gwnaeth ef yn bentrefwr yn Hornberg, dan yr enw Engster, lle y cafodd lonydd am ddwy flynedd. Wedi gwneuthur cyttundeb heddwch, cafodd ef ryddid, ac ymaffodd eilwaith gyda llawenydd mawr yn ei waith gweinidogaethol. Bu yn arweinydd y diwygiad yn Wurtemberg, a'i lafur yn hynod lwyddiannus.

PAN WEDDIOCH, DYWEDWCH, EIN  
TAD, YR HWN WYT YN Y NEFOEDD.  
—Luc xi, 2.



TYFU YN FERCH FAWR.

**T**N diwrnod ocheneidiai Jane, "O! fel y carwn dyfu yn ferch fawr! Pa faint yw fy hŷd yn awr, tybed?" Gyda hyn rhedodd allan i'r ardd lle yr oedd John a Tomy bach, ei brodyr, yn chwareu."

"John," ebe, "dewch yma, mesurwch fi ;—wnewch chwi, John"?

"Wel sefwch fan yma, â'ch cefn ar y wal," ebe John, "i weled a ydych hyd at y twll yma. Llathen sydd i'r fan yma, waith gwelais fy nhad yn ei fesur y dydd o'r blaen. Ha! Jane, pŵy fnasai yn meddwl? Yr ydych dipyn bach yn uwch nag ef."

"Na, na, mae hi yn eich twyllo, John," ebe Tomy bach, "mae yn codi ar flaen ei thraed. Ho, ho, 'dyw hyna ddim yn deg, Jane."

"Wyddwn i ddim nad oedd ef yn iawn i mi godi mor uchel ag y gallwn," ebe Jane, dan agor ei llygaid gleision, ac edrych mor ddiniwed a'r oen. "Pe bawn i yn sefyll ar flaen fy nhraed o hyd fe allai y tyfwn i yn gynt ; ac yr wyf fi am dyfu yn fuan."

"Jane," ebe ei thad, yr hwn oedd yn awr wedi dyfod i'r ardd, "y mae llawer heblaw chwi am ddal eu penau yn uwch nag y dylent. Yr wyf fi yn hoffi fy merch fach yn y maint ydyw—mae mewn maintioli hapus i neidio ar lin ei thad, neu farchogaeth ar ei ysgwydd."

"Ond pe bawn i yn fenyw, fel fy mam, fyddai dim raid i mi wneyd llawer o bethau wedi'n. Fyddai dim raid myned i'r ysgol, a dysgu spelian, a *geography*, ac *arithmetic*—yr hen eiriau cās yna."

Y fath ddymuniad ffol!" ebai ei brawd. "Byddai yn rhaid i chwi wedi'n wau, a gwnio, a gweithio, ac eistedd i lawr i wrando pobl yn siarad mor hir, ac mor araf; ac nis gallech redeg, a neidio, a chwareu fel hyn wedi'n. Charwn i ddim bod fel 'nhad, a cherdded o hyd mor araf ag ef, am un peth yn y byd." A chyda'r gair yr oedd yn cymeryd rhedegfa, ac yn taflu un pen dros y llall ar y gwely meillion.

"A ydych chi yn deall, Jane fach," ebe ei thad, gan ei chodi ar ei lin, "fod yn rhaid i bethau eraill, heblaw eich corff bychan, dyfu cyn y gellwch ddyfod yn fenyw fel eich mama?"

"Beth?" gofynai.

"Rhaid i'ch meddwl dyfu. Rhaid i chwi ymroddi i fyned i'r ysgol ac i ddysgu, er mwyn i'ch meddwl dyfu mor gyflym a'ch corff. Ac y mae llawer o bethau genych i'w dysgu heblaw gwersi yr ysgol. Bod yn ferch fach ufudd, ostyngedig, ac yn serchog i bawb. Peth annymunol yw gweled merched wedi tyfu i fyny o ran eu cyrff, ac heb gynnyddu nemawr mewn ymddygiad gweddus a rhinweddol.

"Ac y mae un peth, fy nghariad bach, o fwy pwys na'r cwbl i chwi i dyfu ynddo. Rhaid i'ch calon dyfu; tyfu mewn cariad at Iesu Grist, yr hwn a ddaeth o'r nefoedd, ac a fendithiodd blant bychain. Rhaid i chwi dyfu mewn cariad at bawb o'ch cwmpas, a charu gwneyd daioni, fel y byddoch yn rhyngu bodd Duw. Carwn weled fy mhlentyn wedi tyfu yn fenyw mewn pethau fel hyn."

"Oh dear!" ocheneidiai Jane; "ni feddyliais erioed am yr holl bethau yna. Y fath amser hir raid gael i dyfu yn yr holl bethau yna!"

"Yr ydych chi yn ei weled yn hir, fe allai, wrth edrych ymlaen, ond bydd yn fyr iawn i edrych yn ôl arno. Yn awr cofiwch, fy mhlant, fod mwy o bwys mewn bod yn dda nag mewn bod yn fawr. A wyddoch chi beth oedd maint Goliah?"

"Mae mam yn dyweyd ei fod dros ddeg troedfedd—cuwch a phen drws yr ysgubor!" ebe John.

"A oedd ef yn ddyn da?"

"Nac oedd; eilunaddolwr ydoedd, ac yr oedd yn cablu Duw a'i bobl."

"Beth arall wyddoch chi am dano?"

"Lladdodd Dafydd ef gyda ffondafi a chareg."

"Pwy oedd Paul?"

"Apostol Iesu Grist," meddai y tri ar unwaith. "Mae mam yn dyweyd," ebe Jane, "mai ei lythyrau ef i geisio gan ddynion fod yn dda yw llawer o'r Testament."

"A wyddoch chi beth yw ystyr ei enw? Dywedir mai ystyr y gair Paul yw *bychan*; ac iddo yntau gael ei alw felly am ei fod yn ddyn bychan. Ond er ei fod yn fach, yr oedd yn dduwiol iawn.

"Yn awr cofiwch hyn; ni waeth pa un ai bach ai mawr fydd dynion os byddant yn ddynion da. A phan fyddwch yn meddwl am dyfu, cofiwch am yr adnod hono:—'A'r Iesu a gynnyddodd mewn doethineb a chorffolaeth, a ffafr gyda Duw a dynion.'"

BRENIN ITALI A'R DYN TLAWD.

**T**N diwrnod yr oedd Victor Emanuel, brenin Itali, wedi myned allan i hela o fewn ychydig filldiroedd i ddinas Florence. Crwydrodd oddiwrth ei gwmpeini a daeth i ffordd gul a garw; yno gwelai *donkey-cart*, a'r olwyn wedi suddo mor ddwfn i'r llaid fel y methai yr asyn a'r dyn ei syflyd. Pan welodd y gyrrwr y brenin draw, gwaeddodd arno i ddyfod i'w helpu i godi y cart o'r pwll, heb feddwl dim mai y brenin ydoedd. "Gwnaf, gwnaf," ebe'r brenin, a hwyliodd ei gamrau at y dyn tlawd, yr hwn oedd yn chwys a llaid drosto. "Beth gaf ei wneyd?" gofynai'r brenin. "Rhoddwch eich ysgwydd wrth yr olwyn yna, tra fyddwyf fi yn arwain pen yr asyn," ebe'r gyrrwr. Gwnaeth y brenin fel y ceis-iwyd ganddo; gosododd ei ysgwydd nerthol wrth yr olwyn leidiog, ac mewn mynyd yr oedd y cart yn symud ymlaen, a'r gŵr druan wedi ei waredu o'i brofedigaeth. "Dyn anwyl ydych," ebe'r gyrrwr, "yr wyf yn dra diolchgar i chwi, a byddai yn dda genyf wybod eich enw. Attolwg, pw ydych?" "Y brenin ydwyf," ebe ei Fawrhydi yn dawel, gan sychu ei dalcen. Gwridodd y dyn tlawd wrth y gair, edrychai yn derfysglyd, a cheisiai wneyd esgusawd. "Peidiwch gwneyd eich hunan yn anesmwyth, fy nghyfaill," ebe'r brenin, "y mae yn bleser genyf i'ch cynnorthwyo yn eich profedigaeth. A oes plant genych?" "Oes, fy arglwydd, y mae genyf saith," ebe'r llafurwr, "a'r wraig a finnau, dyna naw." "Ac a ydych chi yn gallu cael digon o fara i gynnifer genau?" gofynai y brenin mewn tōn garedig. "Wel, eich Mawrhydi, yr ydym yn gwneyd fel y gallom," ebe'r gŵr. "Pan fyddo peth i'w gael, yr ydym yn bwyta ein gwala, a phan na bydd, yr ydym yn gwneyd hebddo." "Cymerwch hwn, fy nghyfaill da," ebe'r brenin, gan estyn darn aur o ugain *franc* iddo, "a phrynwch ginio da i chwi a'ch teulu." Yna cerddodd y brenin ymaith.

Dyma esiampl ragoroll oddiwrth frenin; mae darllen yr hanesyn yn iechyd i'r galon; a gobeithio y cenedla deimlad cyffelyb o gar-edigrwydd yn mynwes pob un a'i darlleno.



MOLI DŴ Y PETH CYNTAF Y BORE.

GAN VICER PRITCHARD.

**G**OCHEL feddwl dim â'th galon,  
 Gochel edrych â'th olygon,  
 Gochel dd'wedyd dim â'th enau,  
 Nes moliannu Duw y borau.

Rho iddo flaenffrwyth dy wir galon,  
 Blaenffrwyth d' eiriau a'th feddylion;

Duw a fyn y ffrwythau cyntaf,  
Ni fyn Duw na'r ail na'r olaf.

Cyntaf peth a wna 'r uchedydd,  
Moli Duw pan toro 'r wawrddydd ;  
Cyntaf peth a ddylai dynion,  
Moli Duw o ddyfnder calon.

Robin bach, cyn gwlycho 'i enau,  
A gân i'r Arglwydd Salm y borau,  
Am ei gadw 'r nos rhag niwed,  
Er fod gwely hwnw 'n galed.

Llawer dyn, yn waeth na'r 'deryn,  
Gwyn\* o'i wely megys mochyn,  
Heb gydnabod Crist ei Geidwad,  
Na rhoi diolch am ei warchad.


\*gwyd.

Peth c'wilyddus i blant dynion  
Fod yn waeth na'r adar gwylltion,  
Sy 'n clodfori, nos a borau,  
Duw, mor ddyfal am ei ddoniau.




### IAITH ANWEDDUS.

**M**AE cymaint o gysylltiad rhwng geiriau a meddyliau ag sydd rhwng meddyliau a gweithredoedd. Mae y gweithredoedd nid yn unig yn amlygiad o'r meddyliau, ond y mae gallu ynddyntsydd yn actio yn ôl ar yr enaid, ac yn gadael ysmotyn llygredig arno. Mae y gŵr ieuanc a ymostynga i arfer un gair drwg a llygredig, nid yn unig yn profi fod ysmotyn llygredig ar ei feddwl, ond y mae trwy ei lefaru yn eangu yr ysmotyn hwnw, ac yn ei enynu, nes, trwy hir ymarferiad, y llygra ac y dystrywia yr holl enaid. Byddwch ofalus am eich geiriau yn gystal a'ch gweithredoedd. Os gellwch lywodraethu y tafod, fel ag i ymgadw rhag dyweyd un gair anmhrifodol, dewch yn fuan yn alluog i lywodraethu y meddwl, a'i gadw rhag llygredigaeth. Peidiwch byth a dyweyd yr un gair yn unlle ag y byddai arnoch gywilydd i'w ddyweyd yn mhresennoldeb y ddynes fwyaf goethedig, neu y dyn mwyaf crefyddol.



Y PLANT, UFUDDHEWCH I'CH RHIENTI YMHOB PETH; CANYS  
HYN SYDD YN RHYNGU BODD I'R ARGWLWYDD YN DDA.—  
COLOSSIAID iii. 20.



## TWR LLUNDAIN.

## PENNOD I.—RHAGYMDRODD.

**L**UNDAIN yw y lle rhyfeddaf yn y byd ; a dylai pawb, os bydd amgylchiadau yn caniatáu, fyned ar dro i weled prifddinas y ddaear. Ond cyn myned yno dylent ofalu am le i aros, ac am arweinydd cyfarwydd i'w harwain, a nodi allan y prif lleoedd i ymweled a hwynt. Ymysg y lleoedd hyn y mae y Palas Gwydr, y *British Museum*, y *National Gallery*, Monachlog Westminster, Eglwys St. Paul, ac yn arbenig Tŵr Llundain. Nid oes neb a foeddia ddychwelyd o'r brifddinas heb dalu ymweliad â'r Tŵr, yr hwn y gwelir ei ddarlun uwch ben yr ysgrif hon. Bydd gwybod ychydig o'i hanes rhyfedd yn fantais i'r darlennydd ieuanc erbyn ymweled âg ef, ac yn peri iddo deimlo mwy o ddyddordeb yndo.

Mae y Tŵr yn sefyll ar ychydig o godiad tir, yr hwn a elwir Bryn y Tŵr, ar làn ogleddol yr afon Thames, ychydig ialaw Pont Llundain. Bernir fod hen amddiffynfa rhyfel yn sefyll yn y fan hono oddiar amser y Rhufeiniaid, er ys pymtheg cant neu ddwy fil o flynyddoedd. Ond nid oedd un adeilad o bwys yno cyn amser William y Gorchfygwr, a'i blant, William Rufus a Henry I., rhwng saith ac wyth cant o flynyddoedd yn ol. Oddiar y pryd hwnw mae y Tŵr wedi bod yn un o'r lleoedd hynotaf yn y deyrnas, a'r dygwyddiadau mwyaf rhyfedd a dychrynlyd yn gysylltiedig âg ef. Yno y bu llysoedd breninol yn cyfarfod mewn rhwysg ; yno y bu tywysogion a thywysogesau yn gwledda mewn

hoen a gorfoledd ar wyliau eu priodas, ac yn aros eu coroniad; yno y bu clerigwyr a phendefigion enwog yn dihoeni am fisoedd a blynyddoedd yn y ddaeargell; yno y cyflawnwyd y llofruddiadau mwyaf erchyll; ac yno y torwyd penau Anne Boleyn, More, Cromwell, Jane Grey, a channoedd o enwogion eraill, y rhai y mae eu gweddillion yn awr yn llechu o fewn ei gaerau.

Ni pherthyn i'r amcan sydd genym mewn golwg rod-di desgrifiad o'r adeilad. Gwelir wrth y darlun fod un adeilad mawr tyrog yn y canol, yr hwn a elwir y Tŵr Gwŷn, a'i fod yn gylchynedig gan liaws o dyrau eraill, y rhai ydynt oll yn dwyn enwau penodol. Yr amcan sydd genym yma, ydyw rhoddi pennodau bychain ar y dygwyddiadau hynotaf a gymerasant le yn y Tŵr; a bydd ein darllenwyr ieuainc yn debyg o gyfaddef fod y ffeithiau yn fwy hynod a chyffrous na nemawr o *novels* a ddarllenasant erioed.



### GWRON BACH YR YSGOL GARPIOG.

**M**AE llawer o'n darllenwyr ieuainc heb fawr ddychymyg am ddyoddefiadau dynion tlawd; rhydd yr hanes canlynol rhyw syniad iddynt am hyn.

Ar fy ymweliad rhyw dro âg Ysgolion Carpiog Llundain, daethum yn hoff iawn o un bachgen bach, oddeutu deuddeg mlwydd oed, yr hwn a feddai wynebpryd rhydd ac agored, ond oedd ychydig yn fudr ac mewn dillad carpiog. Yr oedd yn prysur ddarllen y Testament; safai yn awr ac eilwaith, a gofynai y cwestiynau mwyaf dyrys i'w athraw, fel na allaswn ddal heb wenu wrth ei wrando. Yr oedd ei sylwadau ymarferol ar ranau o'r ysgrythyr yn rhai, pe buasant yn cael eu gwisgo mewn iaith hyawdl, a fuasant yn glod i ddynion dysgedig. Yr oedd ynddo y fath galon haelfrydig fel yr oedd yn llewyrchu trwy y baw a'r carpiâu. Eisteddais i lawr i holi ychydig arno ef; gofynais iddo,

“Pa le, a pha fodd yr ydych yn byw?”

“Yn rhywle y gallaf, a rhywffordd y gallaf,” meddai.

“Wel, beth yw eich gwaith, neu pa beth ydych yn wneyd i gael eich bywioliaeth?”

I'r hyn yr atebodd, mai gwerthu *watercresses*.

“Yr wyf yn codi am ddau o'r gloch y boreu,” meddai, “a cherdded tair neu bedair milldir, ac weithiau saith neu wyth, i'r dref i brynu basgedaid o honynt. Yr wyf yn cael basgedaid am swllt; ac wrth waeddi trwy y dydd, yr wyf weithiau yn gwerthu un arall, yr hyn sydd yn talu am fy mwyd a'm lletty.” Gofynais iddo,

“A ydych yn gallu byw ar swllt y dydd?”

“Gallaf yn weddol iawn,” meddai; “yr wyf yn prynu crystyn o fara ac yn myned i gysgu dan un o fwâu Pont Llundain, neu lawr yn y porthladd, mewn basged neu focs.”

Gyda hyn ddaeth yr Arolygwr ymlaen, cymerais ei fraich, a dywedodd wrthyf, "Mae y bachgen bach oeddech yn siarad âg ef yn awr yn dod yma bob nos i ddsygu darllen; ac er nas gall fyned i gysgu cyn deg o'r gloch, a'i fod yn gorfod codi am ddau o'r gloch y bore, y mae bob amser yn brydlawn. Nid oes llawer o amser er pan gafodd ei fam ei charcharu am ôlddyled yn ei hardreth; y swm oedd yn eisieu oedd deg swllt. A bu y bachgen bach yna bron newynu ei hun, a bron rhewi wrth gysgu allan bob nos, er mwyn sefyll arian o'i ennill prin i gael ei fam allan o'r carchar."

Aethum yn fy ol at y bachgen i siarad âg ef eilwaith, ac yn fy ngolwg i yr oedd yn fwy gwron na *Wellington* neu *Napoleon*.

### GAIR WRTH FERCHED IEUAINC.

**F**ELLIR ystyried benywod, fel blodau, yn wenau crëadigaeth, wedi eu bwriadu i sirioli dyn ar ei daith trwy fywyd; ac fel blodau, y mae rhaid iddynt roddi eu perarogl, onidê amddifadir hwy o'r attyniad ag y maent wedi eu breintio âg ef.

Yn nhrefn Rhagluniaeth, y mae rhan fawr o ddedwyddwch dyn wedi ei ymddiried i ofal benyw, ac y mae gweinyddiad priodol o'r ymddiried hwnw yn cyfranau yn helaeth i'w dedwyddwch daearol ei hunan; ond y mae llawer o ferched ieuainc yn porthi eu hunain âg opiniynau ffol gyda golwg ar garu—y maent mor ffol a meddwl fod yn rhaid iddynt "gwympto mewn cariad," neu "fod yn glaf o gariad," gyda phob segurddyn ffol fyddo yn gwisgo côt yn ol y fflasiwn, neu a fyddo o ymddangosiad gweddol dda ac yn talu sylw neillduol iddynt. Nid oes gan reswm, barn, nac ystyriaeth, yn ol eu tyb hwy, ddim a wnelont â chariad; felly y maent yn ymollwng i'w teimladau, ac yn rhoddi eu cwmpeini i ddynion ieuainc, yn ddjystyr o rybudd, cynghor, neu erfyniad. Dirmygir tristwch tad, a dagrau mam, ac yn fynych atebir hwynt â geiriau chwerwon. Defnyddia eu cariadau eiriau gweniethus, ac y maent hwythau, fel y prifyn ffol, yn chwareu o gylch y *lamp* angeuol, yn goddef eu hunain i gael eu swyno i ganol trueni. Ddarllenydd, gochelwch y fath esiamplau! Ciliwch oddiwrth y fath dybiau gau. Deallwch fod eich serchiadau dan eich awdurdod eich hun; fod serchiadau pur yn sylfaenedig ar barch; mai rhinweddu teilwng mewn dyn yn unig all sicrhâu parhâd cariad priodasol; ac os nad yw y pethau hyn ynddo, nid oes gan eich serch yr un sylfaen; twyllodrus yw, ac nis gall barhâu. Ffrwynwch, gan hyny, eich serchiadau yn egniol; cyst i chwi lawer llai o boen i'w mygu yn eu dechreuad, na nychu trwy flynyddoedd o ofidiau ag sydd yn rhwym o ganlyn priodas anghymharus. Gyda phob merch ieuainc, y cwestiwn mawr ddylai fod mewn perthynas i'r hwn sydd yn cynnyg ei hunan iddi, yw, "A YDYW EF YN DEILWNG O FY SERCHIADAU?" Ei hamcan cyntaf ddylai fod i ben-



derfynu hyny. Dylai sylwi arno yn fanwl a meddylgar, astudio ei gymeriad, fel yr amlygir ef yn ei wynebpryd, ei eiriau, ei ysbryd, a'i weithredoedd. Dylai, trwy ei rhieni, fynu gwybod ei hanes flaenorol, a gwybod, yn enwedig, a yw wedi bod yn fab ufudd ac yn frawd caredig. Mae y peth olaf hwn yn brawf o'r mwyaf pwysig, er yr esgulisir ef yn gyffredin; ond yr wyf yn dra sicr, am y gŵr ieuanc nad oedd yn fab serchog ac yn frawd cariadus na fydd, ac nas gall fod, yn ŵr da.



## Y DDANNODD.

Allan o "ORIAU'R BORE," gan JOHN CEIRIOG HUGHES.

**D**MAE hi 'n anhodd  
Dyodde 'r ddannodd:

20 o gyllyll yn brathu 'n erchyll,  
20 o gleddyfau yn gwneyd doluriau,  
20 o weill poethion â blaenau meinion,  
20 o ellyllon yn gyru hoelion,

Ac 20 haint, mewn un daint:

Dyna 100 mewn un dant.

Ar ol *addition*,  
Treiwch *subtraction*,  
Tynwch y dant.



## CWESTIYNAU PLENTYN.

**G**OFYNAI mab i bregethwr yn Morganwg, yr hwn sydd o bedair i bum' mlwydd oed, y cwestiynau canlynol i'w dad y dydd o'r blaen:

"Pwy wnaeth y cymylau, nhad?"

"Duw, fy mhlentyn," oedd yr ateb.

"Sut y maent yn sefyll, nhad—a yw ef wedi eu cylymu wrth y top?"

Chwarddodd y tad, heb wybod am dipyn beth i'w ateb. Yn y man dyma y plentyn myfyrgar yn gofyn cwestiwn arall;—


"Ai Duw wnaeth bob peth?"

"Ie, bob peth."

"Wel, pwy a'i gwnaeth ef?"

Methodd y tad a boddio ei hun na'r plentyn wrth geisio ateb hwn; a chyfaddefa mai yr holwr cwestiynau caletaf a gwrddodd erioed yw John bach.

Y FEL-Y-GWELA'-I-FOD-YN-DDA.

 WELAIS flaidd, er ys ychydig yn ol, meddai ysgrifenydd Americanaidd. Yr oedd yn cnoi asgwrn yn ei gell. Estynodd cyfaill ei umbrela yn erbyn barau ei ffau, ac O! mor gynddeiriog y melltenai ei lygaid. Dangosai ei ddannedd, rhuai yn frawychus, a neidiodd tuag at y dyn, nes peri iddo neidio yn ôl mewn dychryn.

Dywedwn innau wrthyf fy hun, "Pe cai hwna ddim ond ei ollwng yn rhydd i'r ystrôd, gwnelai bastai o'r bechgyn a'r merched mewn amser bach."

"Ond y mae créadur llawn mor beryglus a'r blaidd yn rhedeg yn rhydd ymysg y plant," ebe cyfaill wrth fy mhenelin.

"Aiê!" ebe fi, gan edrych o gwmpas mewn syndod. "Pa le y mae?"

"Y Fel-y-gwela'-i-fod-yn-dda," ebe yntau, gan chwerrthin.

"Y Fel-y-gwela'-i-fod-yn-dda!" meddylion innau, gan deimlo fy mod yn gyfarwydd â'r enw. Tybiais mai cellwair ydoedd. Ond wedi ystyried am dipyn, dywedais,—“gwn beth mae yn ei feddwl,—yr ysbryd cyndyn a gwrthnysig sydd yn arwain llawer bachgen a merch i ddirmygu cynghorion da, a dyweyd, “Mi wnaf fel y gwelaf fod yn dda.” Dyna fe. Mae Fel-y-gwela'-i-fod-yn-dda yn flaidd, yn wir. Mae yn dystrywio llawer o blant yn ddiddadl.”

Yna meddyliais am rai pethau oedd Fel-y-gwela'-i-fod-yn-dda wedi eu gwneyd. Cofiais yn y fan am Wil Crusty, yr hwn a anfonwyd gan ei dad un diwrnod i'r felin gyda cheffyl a wagen. Fel yr oedd yn gadael y buarth, dywedodd ei dad wrtho;—

“Wil, paid myned trwy yr afon heddyw, mae gormod o ddwfr ynddi; dos i lawr i'r bont,” Craciodd Wil ei chwip, ac ymaith âg ef gan sibrd, “Gwnaf fi fel y gwela' i fod yn dda am hyny.”

Trôdd ben y cheffyl i'r rhyd. Gwelodd hen ffarmwr oedd gerllaw ef, a gwaeddodd,


“Wil, paid croesi y rhyd, mae yn rhy beryglus.”

“Gwnaf fi fel y gwela' i fod yn dda, yr hen frawd,” ebe Wil, a gyrodd ymlaen. Aeth i ganol yr afon; ond yr oedd y dwfr yn drwm iawn. Colodd y cheffyl ei draed, a dygwyd ef ymaith gyda'r llif. Syrthiodd y bachgen oddiar ymyl y cart, carwyd ef ymaith gan yr afon, a thafwyd ef dros gored fawr oedd gerllaw nes oedd ei esgyrn yn ddrylliau. Lladdwyd ef gan y Fel-y-gwela'-i-fod-yn-dda, mor greulawn a phe buasai y blaidd wedi ei ollwng yn rhydd a rhuthro arno.

Ac nid Wil yw yr unig un a laddwyd ganddo. Mae wedi lladd miloedd ar filoedd. Mae yn ymhyfrydu mewn gyru plant i ddiystyr. Onid yw yn créadur peryglus?

Garech chiwi gyfarfod âg ef eto? Na wnewch, dybygwn i. Eto ofawyf fod rhai o honoch wedi ei gyfarfod, ac wedi rhoi llety iddo yn eich mynwes; oblegid nid yw y Fel-y-gwela'-i-fod-yn-dda yn fwy na llai nag ystyfnigrwydd yn nghalon plentyn.

## Y PLENTYN UFUDD.


 WYN fyd y plentyn sydd bob cam  
 I'w dad a'i fam yn ufudd;  
 Caiff fyw yn ddedwydd yn y byd,  
 A gwynfyd yn dragywydd.

Bydd Duw i hwn yn dirion Dad,  
 Fe gaiff o'i rad drugaredd:  
 Mewn henaint teg i'r beddrod ä,  
 Mewn hyder a thangnefedd.


Yr olaf ddydd yr Iesu mwyn  
 A'i geilw 'n addfwyn ato;  
 Pan myrdd myrddiynau ger ei fron,  
 Fe estyn goron iddo.

Cartrefu yn y nefoedd lân,  
 A seinio cân dragywydd,  
 Ymhlith angelion pur a saint,  
 Fydd braint y *Plentyn ufudd*.

GLAN COLLEN.



## GORMOD O ONESTRWYDD.


 YGODD boneddwr o'r wlad ei fab i'r dref, a gosododd ef gyda  
 masnachwr yno. Aeth pob peth ymlaen am dro yn ddigon  
 dymunol. Ond un diwrnod, pan oedd y bachgen wedi gwerthu  
 gŵn sidan i foneddiges, pan oedd yn ei rolïo i'w osod mewn  
 papyr, gwelodd fod drwg yn y sidan. Dywedodd wrth y fonedd-  
 iges, "Madam, yr wyf yn ei ystyried yn ddyledswydd arnaf i'ch  
 hysbysu, mae ychydig o anaf ar y sidan." Gwrthododd y fonedd-  
 iges ef, a chollwyd y fargen o'r herwydd. Clywodd meist'r y  
 bachgen y sylw a wnaeth wrth y foneddiges; a beth, dybygech  
 chwi, a wnaeth? Ei ganmawl, a dyweyd, "Dyma fachgen gonest,  
 ag y gallaf ymddiried ynddo?" Nage. Ysgrifnodd at ei dad yn  
 ddioed i geisio ganddo ddyfod i'w gyrchu adref, "oblegid," meddai,  
 "ni wna byth fasnachwr."

Tarawyd calon y tad pan dderbyniodd y llythyr, oblegid yr  
 oedd wedi codi ei fachgen i fyny gyda'r gofal a'r manylwech  
 mwyaf. Prysurodd tua'r ddinas, er cael gwybod beth oedd di-  
 ffygion y bachgen. "Wel," ebe y tad wrth y masnachwr, "a yw  
 y bachgen ddim yn debyg o wneyd?"

*Masnachydd.* "Nac ydyw—nid oes dim ffalsder ynddo. Y dydd  
 o'r blaen dywedodd wrth foneddiges oedd yn prynu ganddo fod  
 anaf ar y sidan, a chollwyd y fargen. Dylai prynwyr ofalu eu  
 hunain am y pethau a brynant. Os nad allant weled diffygion  
 eu hunain, ynfydrwydd yw i mi eu dangos iddynt."

*Tad.* "Ai hyn yw holl ddiffyg y bachgen?"

*Masnachydd.* "Ië, y mae yn dda iawn ymhobpeth arall."

*Tad.* "Felly y mae genyf fwy o olwg arno nag erioed. Yr wyf yn ddiolchgar i chwi am fy hysbysu o hyn. Ni chaniatawn iddo fod ddiwrnod yn hŵy yn *eich siop chwi* am y byd."

### CALLINEB CŴN.

**M**AE llawer iawn o son ac ysgrifenu y dyddiau hyn am synwyr a challineb cŵn; ac y mae yr hanesion yn ddyddorol a difyrlawn. Mae y cŵn yn un o'r creaduriaid direswm mwyaf serchog ac anwyl. Mae plant yn gyffredin yn hoff iawn o gŵn, a chŵn yn fwy tyner a charedig i blant nag i neb. Bydd yn dda genym gael ystoriau byr am gŵn hynod ac enwog i'w gosod yn NHRYSORFA Y PLANT. Mae y Saeson yn ysgrifenu llawer am gŵn hynod o gall yn Lloegr; beth, ai nid oes cŵn mor gall yn Nghymru? Diau fod. Ac y mae plant da a meddylgar yn gweled daioni yr Arglwydd yn nghallineb a gwasanaethgarwch a ffyddlondeb y cŵ. Mae y cŵ yn fynych, nid yn unig yn deall *gair*, ond yn deall *edrychiad*, ei feistr. Dywed naturiaethwyr nad oes ymhlith y creaduriaid direswm, ond y cŵ a'r elephant, a fedrant ddarllen *llygad* dyn. Mae yr hanes canlynol yn cael ei gadarnhâu gan dystion cyfrifol.

Yr oedd cŵ mawr nerthol unwaith, yr hwn oedd yn gyfeillgar iawn â'i feistr, ac â'i gymydogion, ac yr oedd yn derbyn ceiniog bob bore gan ei feistr i fyned i brynu brecwast iddo ei hun. Dysgwyliai y cŵ am y geiniog ar yr awr benodol, bob bore; a'r foment y derbyniai hi, trotiai â hi yn ei ddannedd tua siop y cigydd. Yr oedd hwnw yn deall neges ei gwsmeriad pedwar-troediog yn dda; felly derbyniai y geiniog, a rhoddai ddarn o gig yn gyfnewid am dani, yr hyn oedd brecwast y cŵ. Yr oedd y prynwr a'r gwerthwr yn cario eu trafodaeth ymlaen yn hynod o drefnus a boddhâol o bob ochr. Ond ymhen amser symudodd y cigydd, a daeth cigydd dyeithr i fyw yn ei le. Daeth y cŵ â'r geiniog i hwnw yr un modd; ond tafodd y cigydd hi i'r *till*, a gyrodd y cŵ allan heb roddi dim iddo am dani. Collodd *Prince*, druan, ei frecwast y bore hwnw, ac yr oedd ei olwg braidd yn ddigalon trwy y dydd. Bore drannoeth, dyma'r cŵ eto, yn ol ei arfer, â'r geiniog i'r siop; dododd hi ar y llawr, a gosododd ei bawen arni. Pan gynygiodd y cigydd fyned â'r geiniog ymaith, dangosodd *Prince* ei ddannedd iddo, a chwyrnodd, nes ei ddychrynu i ddangos tipyn mwy o onest-rydd. Felly torodd ddarn o gig, a thafodd ef ar y bloeyn iddo. Ymafodd y cŵ yn y geiniog â'i ddannedd, ac mewn moment cododd y cig eilwaith i'w safn, ac aeth ymaith gyda'r cŵg a'r geiniog. Fel hyn daeth â phethau drachefn i'w lle, a gadawodd y cigydd i fwynhâu credyd twyll y dydd blaenorol, heb yr elw. *Well done, Prince! onidê?*



## Y CWPANAID DWFR.

**A**R ddiwrnod tesog yn yr haf, rhedodd George bach i'r tŷ, a dywedodd yn wyllt, "Mam, mam, mae hen ddyn ar yr heol fan yna, yn eistedd ar hen foncyn; a gâf fi yru Prince (y cî) arno?"

"Am beth?" gofynai Esther ei chwaer.

"O," ebai George, "achos, fe allai y daw yma, a'n llyncu ni."

"Y fath ffolineb, George, ydych yn siarad," ebe ei fam. "Ewch allan, Esther, ac edrychwch os oes eisieu rhywbeth arno. Fe allai ei fod wedi blino ar ol teithio trwy y dydd dros y mynydd."

"F'alle mai tadcu rhywun yw, ond f'alle, mam?" ebe Esther. "A garech chwi, George, i rywun hysian y cî ar eich tadcu chwi?"

Rhedodd Esther at y glwyd oedd yn arwain allan o'r buarth, edrychai rhwng bârau y glwyd, a gwelai ef yn eistedd dan gysgod pren. "Garech chwi gael rhywbeth?" gwaeddai yr eneth.

"A ddewch chwi i mewn i'n cegin ni i orphwys?"


"Diolch i chwi, cariad," ebe yr hen ŵr, yn siriol; "byddwn yn ddiolchgar iawn i chwi am ddracht o ddwfr."

Rhedodd Esther fel ewig yn ôl i'r tŷ, a dywedodd, "Mam! galwodd fi cariad, ac y mae yn 'mofyn dŵr i'w yfed. Aiff 'cariad' â dŵr iddo 'nawr, yn *fresh* o'r ffynnon."


Rhododd ei mam y llestr iddi; aeth i'r ffynnon i gael ei llonaid a ddwfr; ac ymhen dau fynydd yr oedd yn ei gyflwyno i'r teithiwr

lluddedig. Wrth weled Esther yn sefyll yn ddiogel o'i flaen, ac yn siarad âg ef, mentrodd Mary fach, ei chwaer, fyned ati, a George hefyd; ond yr oedd ef yn cuddio yn llechwraidd ac ofnus y tu cefn i'w chwaer. Yr oedd Prince hefyd wedi eu canlyn, ac yn syllu mor ddyddorol a neb.

"Yr wyf yn ddiolchgar iawn i chwi," ebe y teithiwr blin, ar ol drachtio o'r llestr. "Dwfr hyfryd yw. A wyddoch chwi beth ddywedodd Iesu Grist unwaith am gwpanaid o ddwfr?" "Na wn i," ebe Esther. "Pwy bynag a roddo gwpanaid o ddwfr i un o'm dysgyblion, ni chyll efe ei wobrl!" Yr wyf fi yn rhoddi fy mendith i chwi, anwyl eneth; a gobeithio y bydd bendith yr Arglwydd yn gorphwys arnoch hefyd."



ENGLYNION CYFARCHIADOL I'R IEUENCTYD.

 FNI Duw yn fwy na dyn,—yw 'r rhinwedd  
A gorona blentyn;  
Cynnyddu, tyfu at hyn,  
Sydd alwad oes i'w ddilyn.

O'ch mebyd, chwi y meibion,—yn zelog,  
Pŵerwylwch yn Sion!  
Er rhyddid oes, rhodded Ion  
Wir grefydd i'r gwryfion.

Casáu caniadau cnawdol—fo i chwi,  
Neu fuchedd annuwiol;  
Gyda 'r grechwen lawen lol,  
Na suddwch yn fasweddol.

Na fyddwch byth yn feddwon,—nid diogel  
Ymhel â'r ymylon:  
Diafrad fwriad a fo,  
Na flaswch wan felusion.

Byw heb gasanu 'r bibell,—a wneloch,  
Hen eilun y llogell;  
Foesau gwael, café eisien gwell  
Ar bobun drwy ei babell.

Na chyrhaedded chwara'yddiaeth,—i'ch calon,  
Uwch coledd gwybodaeth:  
Na foed i chwi fwydo chwaeth,  
Ar garu gwag ragoriaeth.

Rhagoriaethau gau i gyd,—yw cynnyrch  
Cae hunan-uchelfryd:  
Gwylder, nid balochder y byd,  
Duedda at ddedwyddyd.

Nid dull y corff, na dillad,—sidanaidd,  
 Esysd union godiad;  
 Ond rheidiol yw fod rhodiad  
 Cywir at foddloni 'r wlad.

Yn gynnwl iawn, o ganlyniad,—gwyliwch  
 Rhag gwaelu 'ch nodweddiad;  
 Gwir ddiwyll lân gerddediad,  
 Difrychau ar lyfrau 'r wlad.

'N awr er byw ar war y byd,—i gychwyn  
 Rhaid gochel seguryd;  
 Celloedd llawn a gawn i gyd  
 O dan do y dyn diwyd.

Arferer yn bur forau,—â chrefydd,  
 A'i chryfion ffynnonau:  
 Anrhydeddus rhoi dyddiau  
 Goreu 'r oes i gario 'r iau.

JOHN HOWELL.

*Pencoed.*

## MORWYNIG FECHAN YN DYCHWELYD TEULU.

CLYWSOM weinidog Cymreig yn adrodd yr hanesyn canlynol ar ei bregeth yn ddiweddar, yr hyn a ddygwyddodd o fewn cylch ei lafur gweinidogaethol, ac yr oedd y forwynig yn aelod yn ei eglwys. Llances ddwy ar bymtheg oed oedd Mary, a chyttunodd i fyned yn "forwyn leiaf" i ffermdy lle y trigai teulu cwbl anghrefyddol. Beiwyd y ferch am fyned i'r fath le, a rhoddwyd llawer o gynghorion iddi yn yr eglwys wrth rodli llythyr ymadawol iddi. Cynnwysai y teulu ŵr a gwraig, pedwar mab, ac un ferch. Yr oedd y ferch newydd ddyfod adref o'r ysgol, a chyn hir cymerwyd hi yn glaf mewn twymyn beryglus. Bu yn gorwedd am wythnosau; ac un diwrnod, yn atebiad i holiadau y tad, dywedodd y meddyg ei fod yn tybied na fuasai yn gwella, ac y buasai yn well i'r tad wneyd yr oll a allai i oleuo ei meddwl am ei chyflwr, ac am y byd oedd yn myned iddo. Dechreuodd y tad wyllo; ac yn y man, mewn modd cynnil, dywedodd wrth ei ferch am ei marw. Dychrynodd hono yn fawr, a dywedodd wrth ei thad;—

"Nhad! gyrwch am bobl i weddio drosaf."

"Ie, fy mhlentyn," meddai y tad, "ond pwy ddaw i weddio yma? Yr wyf wedi ffraeo â'r 'ffeiriad,'—ddaw ef ddim; ac am y crefyddwyr yna, yr wyf yn arfer dyweyd mai haid o ragrithwyr ydynt oll—felly ddaw neb, pe ceisiwn ganddynt."

Clywodd Mary y forwyn fechan yr ymddyddan, a dywedodd yn wylaidd,

"Meistr, fe ddelai ein gweinidog ni yma ar hanner gair, pe anfonech ato."

"A wyt ti yn meddwl hyny, Mary?"

"Delai yn wir."

Gyrwyd Mary i gyrchu y gweinidog, ac ymhen awr yr oedd wrth erchwyn gwely y claf. Yno y bu yn ymddyddan, yn cynghori, yn darllen, ac yn gweddio, a'r holl deulu yn y pryder a'r wylofain mwyaf. Yn ffodus, camsyniodd y meddyg yn ei hachos; ac er iddi fod ar fin marw, trôdd i wella, ac ymhen misoedd yr oedd wedi dyfod yn gwbl iach; ond ni wellhâodd argraffiadau y gwirionedd ar ei meddwl. Dechreuodd chwilio y Bibl a gweddio ei hunan; rhoddodd ei hunan i'r Arglwydd ac i'w eglwys, a chafodd Mary gyfeilles i fyned i dŷ yr Arglwydd ac i ddychwelyd. Penderfynodd y ddwy eneth ieuanc weddio eu goreu dros y teulu. Ymhen pedwar mis, yr oedd y pedwar mab yn cael eu derbyn yn aelodau i'r eglwys gyda'u gilydd, gan y gweinidog fu yn gweddio wrth erchwyn gwely eu chwaer. Ymhen mis arall, dacw'r fam yn eu canlyn; ac erbyn hyn, mae y tad, yntau yn olaf, wedi eu canlyn, ac yn gweddio gyda'i deulu nos a bore ar ei aelwyd gartref. Bellach, mae y teulu oll wedi eu cyfnewid, a hyny trwy offeryniaeth y forwynig ieuanc.



## YSTORIAU I'R DARLLENWYR IEUENGAF.

**MR. GOLYGYDD**,—Gobeithio y maddeuwch fy hyfdra yn anfon atoch ar y fath neges. Mae wedi bod yn betruster mawr yma cyn i mi benderfynu gwneyd. Ond o'r diwedd dyma fi yn beiddio cynnyg anfon ysgrifau bychain i DRYSORFA Y PLANT. Rhaid i chwi gofio nad wyf ond geneth ieuanc, heb gynnyg ar y fath orchwyl erioed o'r blaen. Ond gan fy mod wedi treulio blynyddoedd bellach yn rhyw fath o athrawes yn yr Ysgol Sabbothol, ac felly wedi dyfod i deimlo anwyldeb mawr at y plant sydd o bryd i bryd dan fy ngofal, yr wyf wedi fy nhueddu i ysgrifenu ystoriau bychain i'w rhoi yn nghyhoeddiad y plant. Cewch chwi roi y titl a fynoch iddynt; ac os byddwch yn eu gosod i mewn, gadawaf ddigon o le rhwng y llinellau, fel y galloch wella tipyn ar ambell air, a rhoi yf' attalnodau, os gwelwch yn dda. Yr ystori gyntaf sydd genyf i'w hadrodd yw un am

### GYFFESU I RIENI.

**M**AE bechyn a merched bach, yn fynych, a llawer o rai hynach, fe allai, yn cael eu tueddu ar ol gwneyd drwg, i'w guddio cyhyd ag y gallont oddiwrth eu rhieni.

Ni feddylant byth am fyned atynt i gyffesu unrhyw ddrwg, hyd nes y caffo eu rhieni hwynt allan. Y mae hyn yn ddiffyg mawr mewn cymeriad, ac yn fynych yn paratoi ffordd i ddrwg mwy. Y mae'r dygwyddiad canlynol yn mywyd bachgen bach



oddentu chwech oed, yn dangos ymddygiad gwahanol, a theilwng iawn o'i efelychu.

Unwaith yr oedd wedi ei adael gyda'i dadcu a'i famgu, yn absenoldeb ei dad a'i fam.

Un diwrnod nid oedd mor dda ei dymher ag arfer, ac yr oedd pobpeth bychan yn ei flino.

Y canlyniad oedd iddo cyn nos fyned yn anufudd, a gweinyddwyd y cerydd anghenrheidiol arno. Y boreu canlynol yr oedd yn ofidus iawn am ei anufudd-dod. Gwelodd ei famgu arwydd o edifeirwch yn ei lygad. Cyfröwyd hi i dosturi, a dywedodd wrtho, "Os byddwch yn fachgen da y gweddill o'r amser y bydd eich tad yn absennol, ni ddywedaf wrtho am eich drwg ddoe."

Atebodd y bachgen bach ei famgu yn y geiriau gwrol hyn, "Os na ddywedwch chwi wrtho, dywedaf fi, o herwydd yr wyf bob amser yn dyweyd wrth fy nhad os byddaf wedi bod yn ddrwg."

Onid oedd hyna yn ardderchog? Yr oedd yn gwneyd calon ei dad yn llawen wrth glywed hyny wedi d'od adref. Yn wir yr oedd y bachgen wedi cyffesu ei drosedd cyn bod ei famgu wedi dyweyd yr hanes. Os ydyw yn fachgen afreolus ac angharedig wrth natur, gallai y parodrwydd hwn i gyffesu ei fai, yn lle ei guddio, ei gadw rhag dystryw. Y mae yn eithaf sicr y bydd y bachgen neu y ferch a ymdrecha i guddio ei weithredoedd drwg, yn fwy tebyg o bara i wneyd drygioni na'r hwn a'i cyffesa. Fe allai eich bod chwi, fy narllenwyr ieuainc, yn meddwl fod cyffesu yn ddiraddiad arnoch. Mae llawer sydd yn hyn na chwi o'r un meddwl; ond y maent yn cyfeiliorni. A ddiraddiodd y plentyn gwrol uchod ei hunan wrth gyffesu ei ddrwg? Onid oedd ei famgu yn meddwl yn uwch am dano o herwydd hyny? Ai nid oedd ei dad yn ei garu yn fwy o herwydd hyny? A ydyw ef ddim yn ymddangos i chwi yn well, ac yn fwy ardderchog bachgen, mewn canlyniad i hyny? Nid oes ond un ateb i'r gofyniadau hyn. Nid yw cyffesiad un amser yn ddiraddiad; ond y mae celu yn ddiraddiad, pryd bynag, a pha le bynag, yr arferir ef.

Cofiwch, ynte, fod yr hwn a gela ei weithredoedd drwg yn dwyllwr ac yn rhagrithiwr.

JANE.



## ANADL DDRWG.

**D**MAE lluoedd o bobl yn dyoddef gan anadl ddrwg, heb fod hyny yn cael ei achosi gan ddannedd pydredig, neu ddiffyg gofal o'r genau. Gall yr arogl annymunol ddyfod o'r ysgyfaint neu y cylla; ond, yn fwyaf cyffredin o lawer, y mae yn dechreu yn y cylla, ac y mae a ganlyn yn feddyginiaeth sicr a buan:—Tair awr ar ol pryd bwyd, cymerwch lonaid llwy dê fawr o *solution* o chwe' rhan o *chlorate of potash* mewn 120 rhan o ddwfr wedi ei felysu, a golchwch eich genau yn dda gyda'r cyfryw.



## Y DYN YN Y LLEUAD.

HWI glywsoch, on'd do, am “y dyn yn y lleuad?” Mae pob dyn a phlentyn wedi bod yn edrych arno ar y noswaith loergan, â'r baich drain ar ei gefn, a'i gŵ bach yn ei ochr. Y traddodiad am dano, fel y cafodd yr ysgrifenydd ef pan yn blentyn gan ei dad, sydd fel hyn:—



Aeth dyn anystyriol unwaith, ar ddydd yr Arglwydd, i dori baich o ddrain i gau bwlch yn nghlawdd ei gae. A phan oedd yn dwyn y baich ar ei gefn, codwyd ef a'r drain a'r cŵ i'r lleuad, fel y gwelir hwy yn awr, a hyny yn farnol am ei waith yn troseddu y Sabbath.

Nid ydym am i'r darllenydd gredu y traddodiad yma, oblegid, er y gall fod yn hen iawn, nid yw ond dychymyg a ddyfeisiwyd gan rywun er difyru ei gyfeillion wrth ei adrodd. Mae yn wir fod llawer o'r dynion mwyaf dysgedig yn credu fod trigolion yn byw yn y lleuad, ond nid rhai wedi eu symud yno o'r byd hwn.

Mae dychymyg wedi bod yn fywiog yn dynodi y nefoedd serenol â darluniau dynion a chreoduriaid eraill. Gwnaed hyn yn benaf gan hen seryddwyr yr Aipht a Chaldea. Felly y dynodir arwyddion y Sidydd gan yr Hwrdd, y Tarw, y Pysg, a'r cyffelyb. Mae yn bosibl mai arwyddluniau yw y rhai hyn yn cyfeirio at y gwahanol dymmorau. Ond y mae pob parth o'r nefoedd yn cael ei adnabod trwy ddarluniau dynion ac anifeiliaid. Felly “Arcturus a'i feibion”—yr Arth Mawr, a'r Arth Bychan, &c. Gallai fod dychymyg bywiog yn canfod tebygolrwydd i'r creadur a ddynoda yn sefyllfa y ser yn y parth hwnw. Beth bynag, nid oedd anghen dychymyg anarferol o fywiog i wneyd ffurf dyn gyda baich o ddrain, a chŵ bach wrth ei ochr, o ffurf y rhanau tywyll sydd i'w gwyled ar wyneb y lloer. Ac y mae yn ddigon tebyg bellach y cludir y dychymyg hwn ymlaen eto o genedlaeth i genedlaeth, ac y bydd plant olaf y mil blynnydoedd yn syllu ar y lloer gron yn nosio entrych y ffurfafen, ac yn siarad â'u gilydd am “y dyn yn y lleuad.”

## O! DE'WCH YN AWR.

*(Ar y Mesur poblogaidd—"Away to School.")*

 ! DE'WCH i ddysgu geiriau Duw,  
 O! de'wch, O! de'wch yn awr;  
 Eich braint a'ch dyled penaf yw,  
 O! de'wch, O! de'wch yn awr:  
 Fe 'ch dysgir yn ei eiriau Ef  
 I ochel uffern, ennill nef;  
 O! de'wch, O! de'wch yn awr.


I ganu clod ein Harglwydd da,  
 O! de'wch, O! de'wch yn awr;  
 Drwy Iesu Grist ein derbyn wna,  
 O! de'wch, O! de'wch yn awr;  
 Try mwyniant byd yn siomiant trist,  
 I geisio golud crefydd Crist  
 O! de'wch, O! de'wch yn awr.

RHYDDERCH O FON.

*Rhyl.*

## YMDDYDDAN YR AELWYD.

## YSTORI FER.

 R noswaith, pan oedd y tad a'r fam a phedwar neu bump o blant ar yr aelwyd, a John bach yn brysur yn adrodd gorchestion a dygwyddiadau y diwrnod, ac yn para i siarad yn hir, gwaeddodd ei dad,—“Ystori fer, John.”

“Yr oedd fy meistr yn dyweyd yn yr Ysgol heddyw,” meddai Dafydd, “fod hyawdledd yn gynnwysedig mewn llawer o synwyr wedi ei daclu mewn ychydig o eiriau, a'r geiriau hyny wedi eu trefnu yn dda.”

“Chlywodd John ddim o'r wers yna; beth bynag, nid yw yn ei hactio heno. Byddai yn dda i chwi gofio y wers bob amser, a cheisio dyweyd llawer mewn ychydig o eiriau. Bydd yn arbediad ar amser ac ar iaith. Rhoddaf i chwi enghraifft hynod o liaws o atebion heb unrhyw air afreidiol.

“Yr oedd teithiwr unwaith wedi talu ymweliad âg un o blannig-feydd newydd America, a gofynodd i un o'r bobl oedd yno, (Rhaid i mi roddi yr atebion yn Saesoneg, fel y llefarwyd hwynt)—

“Pwy biau y tir yma, gyfaill?”

“*Mogg's*,” oedd yr atebiad.

“Pa fath dir ydyw?”

“*Bogs*.”

“O ba ddefnyddiau ydych yn adeiladu?”

“*Logs*.”

“Pa fath hinsawdd sydd yma?”

“Fogs.”

“Pa fath fwyd ydych yn gael yma?”

“Hogs.”

“Pa fath gymydogion sydd genych?”

“Frogs.”

“Sut yr ydych yn amddiffyn eich hunain?”

“Dogs.”

Yr oedd y fam a'r plant wedi tori allan i chwerrthin er ys meityn.

“Dyna i chwi dasg, John,” ebe'r tad, “i ateb cynifer o gwest-  
yngau gyda chàn lleied o eiriau. Gallaf rhoddi enghraifft arall  
eto i chwi, os mynwch.”

“Mynwn, wir, dada,” ebe un o'r rhai ieuengaf oedd wedi cael  
blas ar y chwerrthin.

“Wel, darllenais unwaith am lywydd yn arwain ei fyddin i  
faes y gwaed, a dyma ei holl araeth;—“Fy nghyfeillion gwrol, a  
welwch chwi y dynion acw?” gan gyfeirio at y gelynon. “Y  
cwbl sydd genyf i'w ddyweyd, os na leddwch chwi hwynt, lladd-  
ant hwy chwi.” Llongyfarchwyd ei araeth fer a chynnwysfawr  
gan yr holl fyddin, cyffrowyd eu hysbryd, a gorchfygasant y gelyn.

“Mae yn werth i chwi, fy mhlant anwyl, i arfer ystori fer pe na  
bae ond er mwyn arbed amser. Gwnewch yn fawr o amser, a defn-  
yddiwch ef at ei ddyben priodol; oblegid o amser mae bywyd  
yn cael ei wneyd i fyny.”

Gyda hyn yr oedd y cloc yn taro. Edrychodd y tad ar y cloc,  
a dywedodd, “Os dechreu'som ein hymddyddan gyda digrifwch,  
gadewch i ni gael ei ddiweddu gyda doethineb. Caiff y cloc fod  
yn athraw i ni. Pe buasai yn berchen ar dafod, dywedasai  
wrthym;—

“R wyf yn llafurio nos a dydd  
I dd'weyd o hyd'pa awr a fydd;  
Fel'r wyf yn gweini i chwi heb goll,  
Gwas'naethwch chwithau'r Arglwydd oll.”



## ANTHEM GENEDLAETHOL GYMREIG.

(Ton—“Glan Meddwod Mwyn.”)

### GAN CEIRIOG.

**I** WISGO aur-goron y byd ar ei phen,  
Hir oes i Frenines yr Hen Ynys Wen;  
I chwyfio prif faner y byd ar y dôn,  
Hir oes i Frenines yr hen ynys hon!  
Ar sêdd ansigledig, O Fuddug! bydd fyw,  
Yn nghalon dy ddeiliaid, dan nodded dy Dduw;  
A bydded Brenines yr hen Ynys Wen  
Yn fendith i'r ddaear, dan fendith y Nen.

Mae llanw cerddoriaeth yn d'od fel y môr,  
 Mae pawb yn y gydgan, mae pawb yn y côr ;  
 Mae calon wrth galon yn curo 'n y gân,  
 Hir oes i'r Frenines ddihalog a glân ;  
 Mae codiad y dwylaw a churiad y traed,  
 A'r fanllef yn d'wedyd—Hir, hir y parhäed !  
 A bydded Brenines yr hen Ynys Wen  
 Yn fendith i'r ddaear, dan fendith y Nen.


Mae calon Plumlumon yn adsain o bell,  
 A chreigiau 'r Eryri yn dy'weyd—Henffych well !  
 Maddeued cyfeillion, os ydym ni am  
 Roi HIROES I'R TYWYSOG yn anthem ei fam !  
 Mewn oesol gadernid, mewn hawddfyd a hedd,  
 Yn nghanol Brythoniaid, O ! safed dy sedd !  
 A bydded Brenines yr hen Ynys Wen  
 Yn fendith i'r ddaear, dan fendith y Nen.

*Cyfeithiad o'r uchod gan yr Awdwr.*

To wear her gold crown and benignantly smile,  
 Long life to the Queen of the beautiful Isle ;  
 Long life to Victoria, the Queen of the free,  
 And may her white banner float over the sea !  
 Thy throne—may it ever immovably stand ;  
 Thy name—be it cherished all over the land.  
 A bydded Brenines yr hen Ynys Wen  
 Yn fendith i'r ddaear, dan fendith y Nen.

The tide of sweet music advance in its might,  
 And all in the swell of the chorus unite ;  
 And "calon wrth galon" beat warm in the song,  
 Fair Queen of the Island, live happy and long ;  
 The cheers of the millions, the sweet beaming smile,  
 Salute thee and welcome thee, Queen of the Isle.  
 A bydded Brenines yr hen Ynys Wen  
 Yn fendith i'r ddaear, dan fendith y Nen.

The voice of Plinlimmon cries, *Welcome profound!*  
 The hills of Snowdonia re-echo the sound ;  
 And in the bold anthem, dear Prince, there shall be  
 One loud and warm welcome, sweet welcome to thee.  
 May peace and may plenty attend thy long reign,  
 Thy throne in the hearts of the Cymry remain !  
 A bydded Brenines yr hen Ynys Wen  
 Yn fendith i'r ddaear, dan fendith y Nen.





# TRYSORFA Y PLANT.

RHIF. II.]

CHWEFROR, 1862.

[CYF. I.

## PEDWAR BACHGEN BABILON.

“Ac ni chafwyd o honynt oll un fel Daniel, Hananiah, Missael, ac Azariah.”—DANIEL i. 19.

**PAE** darllenwyr ieuainc TRYSORFA Y PLANT yn gyfarwydd â hanes “y bechgyn hyn ill pedwar.” Mae rhan helaeth o Lyfr Daniel yn cael ei ddefnyddio i roddi eu hanes. Dygwyd hwy o Jerusalem i Babilon, yn rhywfath o garcharorion rhyfel, gan Nebuchodonosor, pan oeddent o ddeuddeg i bymtheg mlwydd oed. Y ffordd y daethant i gymaint bri yn Babilon oedd, trwy waith y brenin yn perigwneyd ymchwiliad am lanciau golygus o ran ymddangosiad, a gobeithiol o ran cynneddfau a gwybod-aeth, er mwyn eu dwyn i fyny yn llys y brenin, at bwrpas neillduol yn perthyn i'r deyrnas. Ymhlith y lliaws a ddewiswyd rhoddir enwau y pedwar hyn, trwy iddynt godi i fwy o hynod-rwydd na neb o'u cyfeillion. Pan ddaeth tair blynedd y ddysgyblaeth a'r prawf i ben, a phan ddygwyd y llanciau ger bron y brenin i edrych drostynt a'u harholi, cafwyd hwynt “yn ddeg gwell na'r holl ddewiniaid, a'r astronomyddion, oedd o fewn holl freniniaeth Babilon.”

Edrycher ychydig ar *gymeriad*, *profedigaethau*, a *llwyddiant* y bechgyn dyeithr hyn, yn ninas fawr Babilon, i weled a oes ynddynt rai gwersi pwrpasol i'n darllenwyr ieuainc.

**EU CYMERIAD.** *Yr oeddent d'u bryd ar geisio gwybodaeth.* Rhai o'r fath oedd y brenin yn galw am danynt. Pe buasant wedi treulio eu dyddiau boreuaf yn segur ac ofer, ni chawsent eu dewis i'r dyrchafiad hwn. Fel hyn y mae bob amser. Y plant a'r bobl ieuainc gweithgar a llafurus am wybodaeth, o fysg y rhai hyn y mae dynion at bob gwasanaeth o bwys yn cael eu dewis. I fysg y rhai hyn y mae dynion yn myned i chwilio am *ddyn* iddynt hwy, ac o fysg y rhai hyn y mae yr Arglwydd yn dewis ei *ddyn* yntau. Eithriadau yw fod Duw na dynion yn dewis dyn i unrhyw gylch o bwys, ond o fysg y dosbarth o bobl ieuainc sydd yn feddylgar a llafurus. Mae hanes y Bibl, a holl hanesiaeth eglwysig a gwladol, yn brofion o'r gwirionedd hwn.

Trueni dauddyblyg yw fod cynifer o bobl ieuainc yn treulio adeg oreu eu hoes i ddim pwrpas; gadael gwanwyn bywyd i fyned heibio heb geisio gwrteithio, aredig, na hau, ond gadael i bob chwyn, danadl, a mieri, dyfu yn ddirwystr yn eu tir. Maent fel hyn yn cadw eu hunain dan bob anfanteision, ac yn llenwi cwpan chwerw iddynt eu hunain erbyn hydref eu hoes.

Pa le bynag y gweloch *ddyn* ieuanc yn segura ei amser, yn esgeuloso dysgyblu ei feddwl, ac ystorio ei hun â gwybodaeth; yn treulio ei oriau hamddenol gyda'r cwmni llawen i ofer-siarad, yn crwydro ar hyd yr heolydd, ac yn mynychu tafarndai a chwareudai, heb un *nôd* ganddo o'i flaen wrth fyw,—gellir ysgrifenu ar ei dalcen, "*Ni ragori di.*" Ond cymered yr ymroddgar gysur yn ei boen a'i lafur, "canys efe a ddaw i anrhydedd." Bobl ieuainc! ymunwch â'r dosbarth ag y mae Duw yn dewis ei enwogion allan o hono.

*Bechgyn ymlynol wrth eu crefydd* oedd y pedwar hyn. Yr oeddent wedi derbyn addysg grefyddol gartref, wedi eu hyfforddi yn mhen y ffordd, wedi eu gwreiddio yn nghrefydd eu tadau, wedi bod yn wrthddrychau gweddiau rhieni ac eglwys, ac wedi bod yn cydaddoli Duw yn ei deml. Profir hyn yn eu gwaith yn gwrthod ymhalogi trwy fwyta bwyd ac yfed gwin y brenin. Yr oedd cael y fath gynnyg i fwyta o ddanteithion bord y brenin, yn demtasiwn gref i fechgyn ieuainc yn yr amgylchiadau hyn. Ond safasant fel gwŷr yn ei herbyn. Gallai fod yno fwydydd ag a waherddid gan eu crefydd. Tebyg eu bod wedi clywed geiriau Solomon droion, "Nac edrych ar y gwin pan fyddo coch; yn y diwedd efe a frath fel y sarph, ac a biga fel y neidr." Ofnent y perygl o dori y gorchymyn, a chwareu â'r demtasiwn. Tebyg iawn fod syniadau o'r fath yn eu bryd, tra yr oedd Daniel yn enau drostyn yn dadleu gyda'r penystafellydd na fyddai raid iddynt ymhalogi. Yr oedd yn well ganddynt wneyd unrhyw aberth, a byw ar ffa a dwfr yn lle y danteithfwyd, yn hytrach nag i'w crefydd gael dyoddef y cam lleiaf.

**EU PROFEDIGAETHAU.** Pedwar bachgen ieuanc oeddent, mewn gwlad estronol, heb lygad tad na mam, na chyfaill, i'w gwylio; a'u crefydd yn ymddangos megys yn taro yn erbyn eu dyrchafiad a'u manteision bydol. Yr oedd gorchymyn y brenin ei hun yn myn-

ed ar draws eu hegwyddorion, a pheth oedd pedwar llanc eiddil i fyned yn erbyn y fath orchymyn? Ond penderfynasant lynu wrth eu cydwybod a'u Duw, a gadael i bethau fyned fel yr elent. Ac y mae eu hymddygiad rhagorol yn para i lewyrchu yn y byd hyd heddyw; y mae yn wers ac yn esiampl i holl ieuenctyd oesau dyfodol y ddaear.

Temtasiynau cyffelyb i eiddo y bechgyn yn Babilon yw temtasiynau cyffredin ieuenctyd ein hoes nianau: symud o gartref, cydymffurfio âg arferion llygredig yr oes, ac yn enwedig ymollwng i yfed diodydd cynhyrfus. Dyma ben ffordd dinystr pobl ieuainc. Gellid dyddio dechreuad gwrthgiliad a dinystr miloedd o ddyinion ieuainc Cymru i ddydd eu symudiad o gartref i'r brifddinas, neu rai o drefi Cymru a Lloegr.

Pan ddisgynodd y llanc yn nghanol dyeithriaid, a dyfod i gyffyrddiad â firwd o ddylanwad newydd croes, teimlodd ei fod yn wan, a dechreuodd betruso. Yr oedd yn barod i ddywedyd, "Os glynaf wrth fy nghrefydd yma, chwarddant am fy mhen; os cadwaf i fyny ddifrifoldeb crefydd y tu cefn i'r *counter*, yn y swyddfa, neu ymysg fy nghydweithwyr, gwatwarant fi. Os af ar fy ngliniau wrth erchwyn fy ngwely yn ngwydd fy nghyfaill diweddi—os ymgadwaf o'r cwmni llawen pan yn myned i le o ddifyrwrch llygredig, byddaf yn destun cân iddynt." Dyma "awr y brofedigaeth" i lawer un, ac y mae ei dyngهد ddyfodol yn troi ar sut y deil dani. Dyma ymgyrch ag y mae peth mwy ei bwys yn y chwareu ynddi yn fynych na gorsedd ddaearol. Mae yr holl fyd ysbrydol yn edrych arni—Duw a'i angelion ar y naill law, a diafol a'i angelion ar y llaw arall; y maent yn gwylio yn bryderus sut y try yr ymrysonfa, oblegid y mae ganddynt hwy *interest* yn yr achos. Try yn fynych o blaid yr enaid, o blaid crefydd a Duw; ond y mae yn troi yn fynych hefyd o blaid Satan a phechod, a'r gŵr ieuanc yn cael ei gollu i bob rhinwedd, daioni, a dedwyddwch.

Yr oedd y nant yn cadw ei chyfeiriad ei hun yn brydferth hyd nes iddi daro ar draws yr afon; ond collodd ef yn yr afon, a dygwyd hi ymaith gan lifeiriant cryfach. Felly y mae yn dygwydd gyda llawer bachgen a geneth ieuanc, pan ddeuant i gyffyrddiad â dylanwad nerthol a llygredig y ddinas neu y dref, collant eu cyfeiriad cychwynol, a dygir hwynt ymaith gan "y lliaws i wneuthur drwg."

Pa sawl Cymro ieuanc gobeithiol sydd wedi darfod am dano fel hyn? Gallen lenwi llawer TRYSORFA âg enghreifftiau o fewn cylech ein gwybodaeth. Y bachgen hoff a fagwyd mor anwyl yn myn-wes y teulu mwyaf serchog a chrefyddol. Mil o weithiau y bu yn eistedd fel angel bychan ar lin ei dad. Bu cael cusan ar ei fôch dyner yn fwy o werth gan ei fam na phe cawasai blwyf i'w meddiant. Nid oedd dim yn mryd ei rieni ond cael goreuon y ddau fyd iddo: y tamaid goreu, y dillad harddaf, yr ysgol oreu; ei arwain mor ofalus a chyson i'r Ysgol Sul ac i foddion gras. Ni bu pall ar gynghorion iddo, na gweddiau drosto. Ac O! faint oedd



llawenydd y tad a'r fam wrth weled arwyddion duwioldeb ynddo —ei hoffder o'r Bibl a gorsedd gras! Gyda'r fath orfoledd diolchgar yr edrychent ar yr arwyddion gobeithiol y delai o ryw wasanaeth gydag achos Iesu Grist! Ond pan symudwyd y bachgen yna o'i hen gynnefin, ac y tafwyd ef i ganol amgylchiadau newyddion; pan ildiodd yntau yn raddol i ddylanwad y cysylltiadau a'r cwmni, ac y llaesodd ei afaelion yn ei ddyledswyddau crefyddol, dechreuodd ei draed lithro. Aeth rhagddo o gam i gam, nes iddo yn y diwedd gael ei hunan yn gaethwas i'w flysiau, a'i bechodau fel rhaffau heiyryn am dano. Torodd galon ei fam, a gwnaeth i'w dad syrthio mewn gofid i'r bedd. Bu yntau farw ar wely caled y carchar, heb gâr na chyfaill yn agos; ei bechodau yn gwasgu yn drwm arno, a thân euogrwydd wedi gwneyd ei gydwybod eisoes yn fflam; y byd tragwyddol yn ymagor am dano, ac yntau yn suddo iddo, “heb obaith, ac heb Dduw yn y byd.”

Bobl ieuainc, cymerwch bedwar bachgen Babilon yn esiampl. Mae eich hamgylchiadau yn gyffelyb. Y mae y rhan fwyaf o ddarllenwyr TRYSORFA Y PLANT, o drugaredd, wedi cael cychwyniad hefyd yn yr iawn gyfeiriad. Mae gofal mawr wedi bod am danoch, gweddïau fyrdd wedi esgyn i'r nefoedd ar eich rhan, llawer deigr yn brwd wedi bod yn rhychio gruddïau tad a mam, yn nghanol dystawrwydd y nos, mewn pryder yn eich cylch, pryd nad oedd yr un llygad yn ei weled ond llygad Duw. A raid i'r cwbl fyned yn ofer? Chwi sydd i ateb y cwestiwn. A raid i gymaint o lafur a dagrau fyned am ddim? A gaiff y diafol lwyddo yn eich dymchweliad? Ewch ar eich gliniau ger bron Duw, ac atebwch yn benderfynol, *Na chaff!* NA CHAFFF!

EU LLWYDDIANT. Daeth y pedwar bachgen ymroddgar a ffyddlawn i fyny uwchlaw eu holl gyfeillion. “Cafwyd hwy yn ddeg gwell” na phawb eraill. “Am hyny y safasant hwy ger bron y brenin.” Yma cyflawnwyd gair y gŵr doeth, “A weli di ŵr diesgeulus yn ei orchwyl? efe a saif ger bron breninoedd, ac nid ger bron rhai iselradd.” Mae hyn yn dangos,—

*Nad yw crefydd yn un anfantais i ddyrchafiad mewn umrhwyngylch.* Yn wir, y mae yn dra manteisiol i hyny. Y dynion mwyaf crefyddol, fel rheol, yw y rhai mwyaf llwyddiannus ymhob cylch cyfrifol; y byd hwn yn gystal a'r byd a ddaw. Crefydd sydd yn trefnu ychydig ar annhrefn dyn; yn gwneyd y balch yn ostyngedig, y cyndyn yn ufudd, ac yn dyfod a'r ynfyd ato ei hun. Nid oes dim fel crefydd i gasglu holl allnoedd a theimladau yr enaid i actio arno ei hun, er ei ddysgyblu. Crefydd yn unig fedr sefydlu y serchiadau ar wrthddrych priodol; crefydd sydd yn meddu y dylanwad mwyaf ar amgylchiadau y byd hwn, i'w darostwng at wasanaeth y dyn, a chrefydd yn unig biau holl drysorau a dylanwad y byd tragwyddol. “Mae ganddi addewid o'r bywyd sydd yr awr hon, ac o'r hwn a fydd.”

Crefydd fu moddion dyrchafiad Joseph, yn nhŷ Putiphar, yn y carchar, ac yn y llys; ei greffydd gododd Dafydd oddiar ol y defaid i'r orsedd; a chrefydd ddyrchafodd bedwar bachgen Babilon.

Buasent yn osgoi peth dirmyg a cholled, fe allai, pe gwadasent eu crefydd; ond buasai y golled yn llawer mwy na'r ennill. Gallasent gadw heddwch y brenin, ond collasent heddwch eu Duw. Ond wrth ddal at eu crefydd cadwasant y ddau: cawsant ffafir y brenin, a chawsant gwmni eu Harglwydd yn y ffwrn dân, ac yn ffiau y llewod. Dyma oedd nerth y bechgyn yn Babilon, a dyma yw nerth bechgyn crefyddol Cymru—teimlo bod Duw yn nerth ac yn gefn iddynt.

Anfonodd brenin unwaith am gleddyf milwr dewr oedd yn ei fyddin, iddo gael golwg ar arf oedd wedi gwneyd cymaint o wrhydri. Ac wedi ei gael i'w law dywedai, "Ni welaf ddim gwahan-iaeth rhyngddo a rhyw gleddyf arall." "Fe allai hyny," ebe'r milwr; "os ydych am ddeall y dirgelwch, edrychwch ar y llaw sydd yn ei drin, ac ar y fraich a'r galon sydd o'r tu ol iddo: y rhei'ny sydd yn rhoi cyfrif am y gorchestion a'r buddugoliaethau." Dyma y rheswm mawr am nerth a llwyddiant y gŵr ieuanc crefyddol; mae Duw tu cefn iddo. Os ydych yn teimlo yn wan, ddarllenwyr hoff, cwmpwch yn ôl ar eich nerth. "Ymnerthwch yn yr Arglwydd, ac yn nghadernid ei allu ef."

HOLIADAU'R BACHGEN CLAF.

“**I**Y mam, 'r wy 'n eich clywed yn sôn am lywiawdwr,  
Am dduciaid, breninoedd, ac am ymherawdwr,  
Yn eistedd mewn mawredd ar wych orseddfeinciau,  
Yn gwisgo hardd goron o aur ac o berlau:  
A ydyw fy Iesu, fy Nghrist a'm Gwaredydd,  
Yn fwy na'r rhai hyn, â'u coronau ysplenydd?”  
“O! ydyw, fy machgen, efe yw Crëawdwr  
Pob duc, a phob brenin, a phob ymherawdwr.”

“Clywch eto, fy mam, clywais sôn am angelion,  
Cerubiaid, seraphiaid, mewn gwisgoedd clauerwynion,  
Fod un o'r rhai hyn yn fwy cryf fil o weithiau  
Na byddin o filwyr pan f'ont ar eu goreu:  
A ydyw fy Iesu, fy Mhrynwr bendigaidd,  
Yn gryfach nag angel, yn fwy na 'r cerubiaid!”  
“O! ydyw, fy machgen, efe rodd fodolaeth  
Pob angel a cherub drwy 'r faith grëadigaeth.”

“O! fy mam, a wna un mor fawr ag yw 'm Iesu  
Lon-dderbyn bachgenyn sy 'n aml yn pechu?  
A gâf fi fyn'd ato i nef y gogoniant,  
I gann anthemau i'w glodydd a'i foliant?  
Mae 'm calon yn caru ymddyddan am dano,  
Ond myrdd mwy y carwn gael myn'd i'r nef ato—  
A gâf fi fy mam?”

“Cei, cei, f' anwyl blentyn,  
Mae 'n agor ei freichiau yn llawen i'th dderbyn.”

Rhyl.

RHYDDERCH O FON.



Y TABERNACL A'I GYNTEDD.

## Y TABERNAEL YN YR ANIALWCH.

## PENNOD II.


**DEILADWYD** y Tabernacl yma gyntaf yn anialwch Sinai, aros bymitheg cant (1490) o flynyddoedd cyn Crist. Dygwyd yr holl draul trwy gyfraniadau gwirfoddol y bobl; a bernir nad oedd traul y Tabernacl, ynghyd a gwisgoedd yr offeiriaid, yn dalim llai na dau gant a hanner o filoedd o bunnau (£250,000). Eto yr cyfryw oedd haelfrydedd y bobl, fel yr oedd eu rhoddion yn llawer mwy na digon at y pwrpas, a gorfu i Moses gyhoeddi trwy y gwrsyll am iddynt attal eu dwylaw;—"Na wnaed na gwr na gwrtaig waith mwy tuag at offrwm y cysegr; felly yr attaliwyd y beirddag dwyn mwy, canys yr oedd digon o ddefnydd i'r holl waith fy wneuthur, a gweddill."

Yn ddiwedd swm yr aur, yr arian, a'r pres a ddygwyd, yn aruthrol. Bernir Dr. Kitto ei fod dros werth dau gant a thair ar ddeg o filoedd o bunnau (£213,320) o'n harian ni. Adeiladwyd y Tabernacl o "gwrta Sittim"—coed o'r mwyaf caled a pharhâus. Bernir mai y Tabernacl hwn, y bu meibion Israel yn addoli o'i amgylch yn yr anialwch, oedd y Tabernacl a arferid yn amser Dafydd a Solomon, hyd agoriad y Deml, yr hyn a gynnwysai agos bum' cant o flynyddoedd.

Oedd yr Arglwydd fesuriad y Tabernacl mewn cufyddau. Mesur phaniaeth barn am hŷd y cufydd; barna Dr. Kitto ac eraill mai un fodfedd ar hugain ydoedd. Rhoddwn yma fras ddeddf o'r Tabernacl a'i gynteddoedd. Gwneir sylw manylach ar y colofnau: mewn rhifynau dyfodol, a chyfeirir y darlennydd at Exod. 25, a'r ddwy bennod ganlynol, am ddesgrifiad o'r holl fasnachau.

Yn y darlun, gwelir fod cyntedd o amgylch y Tabernacl. Yr oedd hwn yn mesur can' cufydd o hŷd, a hanner can' lled,—neu oddeutu 60 llath wrth 30. Yr oedd y caud hwn o amgylch y cyntedd yn cael ei wneyd gan driugain o golofnau wedi bob ochr, yn y ffordd hwyaf, a deg yn y ddau ben, yn y ffordd gulaf. Yr oedd lleni o lian main cyfrodedd yn crogi wrth ysgafnau ar y colofnau hyn; ac y mae rhai yn meddwl mai hwyddwaith oeddent, fel y dengys y darlun, fel y gallai hwyddu tu allan weled yr hyn oedd yn myned ymlaen o'r tu allan.

Oedd y colofnau hyn wedi eu gwneuthur o goed Sittim, wedi eu llylchu âg arian, a'u penau yn arian, a'u morteisiau yn hwyddwaith hwy ar eu penau mewn mortais bres, a sicrhëid hwyddu yn y ddaear eilwaith gyda phinau a chortynau, fel y gwelir wrth y darlun. Yn y pen dwyreiniol yr oedd caeadlen neu ddrws y cyntedd, yn ugain cufydd o fesuriad, wedi ei gwneyd yn ardderchog â nodwydd, o sidan glas, porphor, ac ysgarlad, a lian main. A gwelir yn y darlun ddau offeiriad yn dal y



COLOFN Y CYNTEDD.

gaeadlen yn agored. Yr oedd hŷd y colofnau, neu uchder y caudad o amgylch y cyntedd, tua naw troedfedd.

Yn y pen gorllewinol i'r cyntedd y saif y Tabernacl, neu Babell y Cyfarfod. Yr oedd yn mesur tua deunaw llath o hŷd wrth chwech o léd, a chwech o uchder. Adeiledid hi ág estyllod, agorchuddid hi ág amryw orchuddiadau. Yr oedd yn cael ei rhanu o fewn yn ddwy ystafell, gan len fawr; a gelwid yr ystafelloedd, "y cysegr sanctaidd," a'r "cysegr sancteiddiolaf." Ceir gweled eto beth sydd o'u mewn.

O flaen wyneb y Tabernacl y mae y noe bres, â dwfr ynndi, i'r offeiriaid gael golchi eu dwylaw a'u traed ynndi cyn myned i mewn i babell y cyfarfod.

Yn nesaf gwelir "allor y poethoffrwm," ar yr hon yr offrymai yr archoffeiriad oen hwyr a bore dros bechod y genedl, ac yr oedd tân gwastadol yn cael ei gadw arni gan ddarnau o'r creaduriaid iawnol. Offrymid gwaed a chnawd y creaduriaid yma, i wneyd cymmod â Duw dros y bobl. Yn y darlun gwelir Aaron yr archoffeiriad yn offrymu yr oen ar yr allor. Mae ei bedwar mab, fel offeiriaid cynnorthwyol, yn sefyll wrth droed yr allor; ac y mae deuddeg o henuriaid Israel, fel cynnrychiolwyr y genedl, yn ffurfio hanner cylch o'r tu ol iddynt, mewn agwedd ymostyngar.

Mae yr allor, a'r offeiriad, a'r aberth, yn cyfeirio at Grist a'i groes—yr Oen difeius a difrycheulyd, yr hwn a'i hoffrymodd ei hun yn aberth i Dduw trosom ni, ac a'n cymmododd ni ág ef trwy waed ei groes.



## PENDERFYNIAD TRWY GYDYMDEIMLAD.

**P**R oedd offeiriad a boneddiges ieuanc wedi gwneyd eu meddyliau i fyny fod trigolion yn byw yn y lleuad. Felly cymerasant yspïenddrych nerthol, a cheisiasant ddarganfod pa fath bobl oedd yno. Edrychodd y foneddiges ymlaenaf trwy y drych, a dywedodd, "Os nad wyf yn camsynied, yr wyf yn gweled dau gysgod; y maent yn gogwyddo at eu gilydd, ac nid wyf yn amnheu nad dau ddedwydd yn caru ydynt." Yn y man rhoddodd yr offeiriad ei lygad yn y drych, ac wedi syllu am dro, dywedodd, "Carwyr, madam! nage, nage; gwelaf hwynt yn eghur; y ddau gysgod acw ydynt ddau glochdŷ eglwys gadeiriol." Mae Hawer heblaw y ddau uchod yn penderfynu achosion ar yr un egwyddor.

## TYSTION CRISTIONOGAETH.

“Chwi yw fy nhystion.”

**B**WRIADWN roddi dan y titl hwn gyfres o esiamplau byr o nerth crefydd ar y meddwl, mewn unigrwydd, mewn cystuddiau, ac yn wyneb anghen a thragywyddoldeb. Y ffordd fwyaf effeithiol i wneyd hyn yw, gadael i ddynion enwog, o ran galluoedd, dysg, a chrefydd, siarad drostynt eu hunain. A gobeithiwn y gâd yr esiamplau hyn argraffiadau dwfn ar feddwl y darlennydd ieuanc, o wagder pleserau y byd hwn, ac o ragoriaeth a gwerth duwioldeb.

## I. IGNATIUS,

Un o dadau hynafol yr eglwys oedd Ignatius, a aned yn Syria, ac a ddygwyd i fyny dan ofal yr apostol Ioan. Tua'r flwyddyn 67 o oed Crist, gwnaed ef yn esgob Antioch. Parhâodd i lenwi y swydd uchel yn y lle hwn am dros ddeugain mlynedd, ac yr oedd ei lafur a'i ymroddiad, a'i zel o blaid yr efengyl, yn dwyn ei enw ar hŷd a llêd y gwledydd.

Dewiswyd y dyn rhagorol hwn gan yr ymherawdwr Trajan i'w boenydio a'i ladd, er dychrynu a digaloni y Cristionogion yn Rhufain. Condemniwyd ef i farw oblegid ei ffydd yn Nghrist; a phenderfynwyd ei dafu i ganol haid o fwystfilod gwylltion i'w ddyfetha. Ond yn lle ei ddigaloni, cyfröwyd ef gan y ddedfryd hon i fwy o wroldeb a diolchgarwch nag erioed. “Yr wyf yn diolch i ti, O Arglwydd,” meddai, “am ymostwng i'm hanrhydeddu â'th gamad, ac am i ti fy nghyfrif i yn deilwng, gyda Paul dy apostol, i ddyoddef rhwymau.”

Ar ei ffordd i Rufain, ysgrifennodd lythyr at ei gyd-gristionogion yno, i'w darparu i gyd-ddwyn â'i ddyoddefiadau, a'i gynnorthwyo â'u gweddian. “Gweddïwch drosol,” meddai, “am i Dduw roddi nerth mewnol ac allanol i mi, fel y gallwyf, nid yn unig ddywneyd yn dda, ond gwneyd yn dda; nid yn unig fel y galwont, ond fel y caffont, fi yn Gristion.” Yn yr olwg ar wobr ei ddyoddefiadau, torodd allan, “Yn awr, yn wir, yr wyf yn dechreu bod yn ddyagybl. Nid wyf yn rhoddi pwys mewn dim gwledig nac anweledig, mewn cymhariaeth i gael rhan yn Iesu Grist.” Ac yn y teimlad cysurus a diysgog hwn yr ydoedd pan ruthrodd y bwystfilod rhabus arno, ac y darniasant ef yn dameidiau.

## II. POLYCARP.

Ganwyd Polycarp yn nyddiau Nero, ac iddo ef y cyflwynodd Ignatius ofal yr eglwys yn Antioch. Cododd ei ysbryd gweithgar a Christionogol yntau yn fuan yn nôd i greulondeb ei elynion. Yn y flwyddyn 167, sef amser yr erlidigaeth danllyd hono yn Smyrna, codwyd y cri cyffredinol, “Dalier Polycarp.” Cymerwyd

ef i fyny, dygwyd ef ger bron y rhaglaw, a cheisiwyd ganddo ddirmygu Crist, ac achub ei fywyd. Ond ei ateb oedd,—“Yr wyf wedi gwasanaethu Crist am bedwar ugain a chwech o flynyddoedd, ac ni ddrygodd fi erioed na'm gadael; pa fodd gan hyny y gallaf gablu fy Mrenin a'm Hiachawdwr?”

Pan ddygwyd ef at yr ystanc, aeth y dienyddwr i'w hoelio, fel y byddid yn arfer. Ond dywedodd yr hen Gristion penwyn, “Gadewch fi fel yr ydwyf; mae yr hwn a roddodd nerth i mi i ddyfod i'r tân, yn abl rhoi nerth i mi i sefyll eto yn ddiysgog yn ei ganol, fel nad oes achos am wasanaeth yr hoelion.”


Yn ei weddi olaf ar yr ystanc, dywedai,—“O Arglwydd Dduw Hollalluog, Tad ein Harglwydd Iesu Grist, trwy yr Hwn y derbyniasom wybodaeth am danat; Duw angelion, a thywysogaethau, a phob creadur, ac yn enwedig yr holl rai cyfiawn sydd yn byw ger dy fron. Yr wyf yn diolch i ti am ganiatáu yn rasol y dydd heddyw a'r awr hon, a rhoddi i mi y rhagorffaint ogoneddus o gael dyoddef drosot. Yr wyf yn diolch i ti ac yn dy addoli, trwy dy anwyl Fab; i'r hwn, gyda thi, a'r Ysbryd Glân, y byddo gogoniant, yn awr a byth. Amen!” Yn fuan ar ol hyn, dyrchafodd ei ysbryd o'r fflamau at ei Waredwr.



### GWEDDIAU HWYR A BOREU.

(Mae pob plentyn *geirwir* i gael dysgu y ddwy weddi hyn, a'u hadroddi cyn cysgu ac wrth godi; ond dim un bachgen na geneth *sydd yn arfer dyweyd celwydd*).

#### GWEDDI CYN CYSGU.

 AD imi, Iesu, guddio 'mhen  
O dan dy aden heno;  
Ac mewn tangnefedd huno wnafl,  
Dan obaith y caf ddeffro.

#### GWEDDI WRTH GODI.

Gofalodd Iesu Grist yn dda,  
Am danaf tra yn cysgu;  
Wyf finnau heddyw, trwy ei ras,  
Am fyw i'w wasanaethu.

GLAN COLLEN.



QDEN YR ARGLWYDD YW DECHREHAD GW  
-DIAREBION I.



TWR LLUNDAIN.

PENNOD II.—LLOFRUDDIAD Y DDAU DYWYSOG IEUANC.

**I**N y flwyddyn 1483 y llofruddiwyd y brenin ieuanc, Edward V., yr hwn nad oedd ond tair ar ddeg oed, a Duc York, brawd ieuengach iddo, a hyny trwy orchymyn eu hewythr, Duc Gloucester, yr hwn a wnaed wedi hyny yn frenin, dan yr enw Richard III. Mae hanes yr amgylchiad dyeithr ac echryslawn fel y canlyn.

Pan fu farw Edward IV., yr oedd ei frawd, Duc Gloucester, ar gyffiniau Ysgotland; a Thywysog Cymru, yr hwn oedd i gael ei goroni yn frenin ar ol ei dad, yn nghastell Ludlow, dan addysg a gofal ei ewythr (brawd ei fam), Iarll Rivers; ac yr oedd Duc York, mab ieuengaf Edward, gyda'i fam a'r teulu yn Llundain.

Penderfynwyd dwyn y brenin ieuanc i Lundain yn ddioed, i gael ei goroni. Yr oedd hyn yn mis Ebrill. Pan oedd Edward, a Rivers, a'u gosgordd, ar eu taith, daeth Richard, Duc Gloucester, i'w cyfarfod, gyda llu o wŷr, dan rith cynnorthwyo yn nghoroniad ei nai; ond gwyliodd y cyfleusdra, a thafodd Iarll Rivers a'i gymdeithion i garchar, a dygodd y bachgen Edward i'r Tŵr, yn ol yr arfer cyn coroni. Pan glywodd y frenines am garchariad ei brawd, dychrynodd, a rhedodd hi a'i theulu am noddod i eglwys Westminster; oblegid nis gallesid drygu neb a redai i le cysegredig am ddiogelwch.

Hyd yn hyn yr oedd Duc Gloucester yn proffesu bod yn zelog o blaid y brenin ieuanc, ac yr oedd wedi cael ei benodi yn amddi-



ffynydd y deyrnas dros ystod ei febyd. Ond cyn hir dechreuwyd ei ammheu, a daeth ei ragrith fwyfwy i'r golwg. Yr oedd eisieu ar y Duc gael o hyd i'r tywysog ieuanc hefyd, Duc York, a gyrodd genadau at ei fam i Westminster i'w gyrchu. Bu yn anhawdd iawn gan ei fam ymadael âg ef, eto ofnai y buasai gwrthod cais Richard yn arwain i ganlyniadau gwaeth. Wedi cofleidio y plentyn, yr hwn oedd tua deng mlwydd oed, ei gusanu, a gwlychu ei wyneb â'i dagrau, cyflwynodd ef i'r cenadau, ac ni welodd ei wyneb ef mwy. Dygasant ef at ei frawd, y brenin ieuanc, i'r Tŵr; ac yr oeddent yn llawen i gyfarfod â'u gilydd, heb feddwl fawr, druan bach, am y d ynghed dost oedd yn eu haros!

Wedi cael y ddau dywysog i'w law, yn lle coroni ei nai, yr hwn oedd gwir etifedd y goron, mynodd Gloucester y goron ar ei ben ei hun. Galwyd ef Richard III., ac aeth ef a'i wraig ar daith freninol trwy barthau o'r deyrnas, yn ol yr arferiad gyffredin. Ar y daith hon dealodd fod teimlad cryf yn y wlad o blaid ei nai, ac anfonodd o gymydogiaeth Gloucester (Caerloyw) un John Green, â llythyr yn ei law at Syr Robert Brackenbury, ceidwad y Tŵr, yn ceisio ganddo roddi y ddau dywysog i farwolaeth yn rhyw ffordd. Dychnynodd Syr Robert rhag y fath weithred ysgeler, a gwrthododd ufuddhâu.

Gyrodd Richard eilwaith Syr James Tyrrel, meistr ei feirch, gydag awdurdod i fynu gofal y Tŵr i'w law am noswaith. Cynlluniodd Tyrrel i lofruddio y tywysogion yn eu gwely y nos, heb dywallt gwaed. Cyflogodd ddau ddyhiryn creulawn, o'r enw Miles Forest a John Dighton, i gyflawni y weithred. Aeth y ddau frawd diniwed i'w gwely fel arfer; symudwyd eu gwylwyr ymaith oddiar y ffordd; ac yn nyfnder y nos aeth Miles a Dighton i fyni yn ddystaw dros y grisiau; agorasant ddrws eu hystafell, ac edrychasant yn eu gwynebau, y rhai oeddent yn cysgu yn esmwyth. Plygasant y gwely plu yn ddwbl, a rholiasant ef drostynt. Bu y rhai bychain yn ymgreinio ac yn ymdrech yn galed am anadl, ond yr oedd y ddau lofrudd creulawn yn gwasgu arnynt yn ddiidrugaredd, ac felly y gwnaethant nes i ysbrydoedd y ddau ehedeg ymaith at y Duw a'u rhoes.

Ar ol cael sicrwydd eu bod wedi marw, galwasant Tyrrel i mewn i'w gweled. Yna torwyd bedd iddynt wrth waelod y grisiau, a chladdwyd hwynt o'r golwg. Dywedir i esgyrn y ddau dywysog gael eu cloddio i fyni yn amser Charles II., ac i'r penadur hwnw orchymyn eu claddu eilwaith; ac y mae cofadail farmor wedi ei chodi iddynt yn monarchlog Westminster. Mae Shakspeare yn gosod allan yr hanes yn darawiadol. Mewn ymddyddau âg ef ei hun, dywed Tyrrel;—

“ Mae'r weithred waedlyd bellach wedi'i gwneyd;  
Cyflafan dost ac erchyll, na fu'r wlad  
Erioed o'r blaen yn euog o'r fath un.  
Dighton a Forest a gyflogais i  
I ddwyn o gylch y fath gigyddlaeth oech;  
Er mai dyhirod ynt, a gwaedlyd gwa,

Toddent gan dynerwch, a chwyddai 'u bron;  
 Wylent fel plant wrth dd'weyd eu hanes prudd.  
 'Fel hyn,' medd Dighton, 'cysgai 'r meibion mwyn'—  
 'Fel hyn,' medd Forest, 'gorweddent gôl yn nghôl,  
 O fewn y breichiau alabaster bach;  
 Eu gwefusau, fel pedwar rhosyn coch,  
 Mewn tagwch haf, cusanai 'r naill y llall.  
 'R oedd llyfr gweddi ar eu gobenydd gwŷn,  
 Yr hwn fu bron a gwneyd im' edifarhau;  
 Ond O! —' fan yma tewi wnaeth;  
 Dywedodd Dighton eto,— 'Mygasom  
 Yr ardderchoaf o weithiau natur,  
 Yr hwn, o berffeithrwydd crëadigaeth cyn'—  
 Ond, aethant, gyda chydwybod euog,  
 Nis gallent siarad,—gadewais i y ddau  
 I fyn'd â'r newydd at y gwaedlyd deyrn.'"

Ymhen dwy flynedd ar ol hyn, lladdwyd Richard III. yn mwrdr gofiadwy "Maes Bosworth," a thafwyd ei gorff gwaedlyd yn anmharchus ar draws cefn ceffyl, i'w ddwyn i'w gladdu. Felly talodd Rhagluniaeth iddo am ei greulondeb.



"RESIGNATION" CHATTERTON.

**AB** i glochydd eglwys *Redcliff*, Bristol, oedd Thomas Chatterton, y bardd ieuanic athrylithgar, uchelfrydig, balch, ac anffodus;—

"The marvelous boy,  
 The sleepless soul that perished in his pride."

Yr oedd ei fryd wedi ei lyncu yn hollol gan hynafiaethau, paent-waith, a barddoniaeth. Crwydrai o amgylch y ddinas fel ysbryd estronol, gan syllu ar ei holl ryfeddodau. Gorweddaï ar ei gefn ar hyd y llechweddau, a phenau y banciau, yn ngolwg eglwys *Redcliff*—golwg yr hon oedd yn cyffroi ei holl enaid, ac yn ei dafu i ryw fath o lesmair dedwydd. Cyfansoddaï yn rhydd a da yn un ar ddeg oed. Symudodd i Lundain; gosododd nôd uchel o'i flaen; yr oedd ei galon yn crychferwi gan uchelgais; meithrinai obeithion fyrdd yn ei fynwes; a gweithiai ei ffordd i fyni yn rhwydd yn erbyn pob rhwystrau. Ond nid oedd ei daith ond ber ar gefnfor marwoldeb. Syrthiodd i gwmni drwg; drachtiodd ei enaid gwancus egwyddorion gwenwynlyd anffyddiaeth; dygodd y rhai hyny drueni dygn, ac anobaith du, i mewn gyda hwy, yr hyn a'i gwnaeth yn ddibris ac ynfyd. Dacw ei gwch yn hëbio ar frigau y tönau dyrchafedig, ac yntau wedi tynu ei law oddiar y llyw, ac wedi taffu ei gwmpas dros y bwrdd i'r tönau. Eistedda yn dawel-ryfygus, â'i freichiau yn mhlêth, i wylïed y canlyniad. Mae yr ystorm yn curu ei lestr, ac yn ei hyrddio o'i blaen

fel mellten. Dacw ei gwch yn chwilfriw mân ar ddannedd y graig ddu, a Chatterton, druan, wedi ei golli. Wedi gweithio ei ffordd trwy gymaint o dlodi, anafanteision, a gwrthwynebiadau, cymerodd, ar awr bruddglwyfus, ddôs o *arsenic*, a bu farw yn *ddwy ar bymtheg* oed! yn un o'r beirdd goreu o'i oedran ag sydd â hanes am dano. Cyfansoddodd ei *Resignation* (Ymroddiad i Dduw) cyn cymeryd y gwenwyn. Dyma gyfieithiad rhydd a brysiog o hono;—

O Dduw! 'r hwn sydd â'i dwrf yn crynu 'r nef,  
Y byd yn noeth o dan ei olwg ef;  
Atat, fy unig Graig, ehedaf fi,  
Am gariad mewn cyfiawnder molaf di.

Dirgelion dyrys dy ewyllys gref,  
A holl gysgodion pur oleuni 'r nef,  
Ynt uwchlaw trem a chyrhaeddiadau dyn;  
Ond cyfiawn yw yr hyn wna Duw ei hun.

O dysga fi, pan ddelo 'r gyfyng awr,  
A chwerw ing i chwyddo 'r deigrin mawr,—  
'Lonyddu 'mhoen, ac adde 'th nerthol rym,  
I garu 'th dda, ac ofni 'th iawnder llym.

Os ceisia rhywbeth arall ond tydi  
Reolaeth èang yn fy mynwes i,  
Gall Hollwybodaeth wel'd y drwg pan ddaw,  
A threm trugaredd yru 'r achos draw.

Gan hyny, pam y cwyni, f' enaid cu?  
Y ceisi 'n llwfr gell mewn tywyllwch du?  
Ymysgwyd o'th bruddglwyfni dwfn a blin,  
Waith i ddedwyddwch creodd Duw bob dyn.

Ond, dynol yw y fynwes hon bob awr,—  
'R' ochenaidd ddyrch, a'r deigrin syrth i lawr,  
A gwanaidd gynhwrf fy mywolion gwyl  
Fynegant oll, fod f' enaid mewn anhwyl.

Ond eto, fy ngwroldeb 'mostwng wnaeth,—  
Diolchaf 'n awr i'r hwn ollyngo 'r saeth,—  
Lonyddo 'mron,—dd'wed wrth f' ochenaidd, "ust!"  
Attalio ffrydlif fy ngofidiau trist.

Y fantell nosawl a chaddugol sydd  
Yn taenu dros fy ysbryd dwfn a phrudd,  
Ddiflana 'n llwyr o flsen y bore wawr  
Ddadguddia Dduw, fy Haul, fy Ngobaith mawr.

YMHOB LLE Y MAE LLYGAID YR ARGHWYDD, YN  
CANFOD Y DRYGIONUS A'R DAIONUS.—DIAR. XV. 3.



OES EISIEU BACHGEN ARNOCH CHWI, SYR?

“**E**S eisieu bachgen arnoch chwi, Syr?” gofynai bachgenyn wyth mlwydd oed, o’r enw George, i glerc trwsiadus mewn swyddfa fawr.

“*Eisieu bachgen!* pam,—pa le mae’r bachgen sydd âg eisieu gwaith?” gofynai’r clerc, gan edrych yn syn a hanner dirmygus ar y gŵr bach.

“*Fi, syr,*” atebai George.

“Edrychwch yma, foneddigion,” ebe y clerc wrth ei gymdeithion yn y swyddfa, “dyma i chwi gawr o ddydd yn gofyn am waith. Dyma Goliah ei hun, ’does dim dadl. Dyma ŵr i wneyd holl orchwylion y swyddfa ei hun.”

Casglodd tŵr o’r ysgrifweision o amgylch y llanc, ac edrychent arno dan chwerthin a hanner cellwair; ond safai George yn eu canol yn llawn o fwriad difrifol, heb ddeall paham y gwneient ef yn destun chwerthin.

“Beth ellwch chwi wneyd?” gofynai un.

“Gellwch redeg i’r post, wrth gwrs,” ebe un arall.

“Gall, a chario parseli anferth ar ei ysgwydd,” ebe y trydydd.

“Ust! ust! foneddigion,” ebe’r prif glerc, yr hwn oedd yn hynach na’r lleill, ac wedi bod am beth amser yn syllu ar George trwy ei spectol. “Ust! peidiwch chwerthin am ben y plentyn. Gadewch i mi siarad âg ef.” Yna dywedodd wrtho mewn tŵn garedig, “Yr ydych yn rhy ieuanc i weithio, fy mhlentyn. Pwy a’ch anfonodd yma?”

"Dyfod fy hunan wnaethum, syr. Mae 'nhad a 'mam wedi myned i'r nefoedd. Mae fy modryb yn dlawd, ac y mae arnaf eisieu ennill tipyn i'w helpu. Yr wyf fi yn gryf iawn, syr, a gweithiaf yn galed. A welwch chwi yn dda, syr, roi gwaith i mi?"

Dywedodd hyn gyda'r fath ddifrifoldeb syml ag a roddodd at-talfa ar chwerthin pawb. Yn wir, dygodd ddagrau i bob llygad. Edrychent ar y bachgenyn gwrol yn awr gyda thosturi a pharch; a thynodd un o honynt swllt o'i boced, gosododd ef ar y ddesc, a cheisiodd gan y lleill ddilyn ei esiampl. Gwnaethant felly. Yna cymerodd yr arian, ac estynodd hwynt i George, gan ddyweyd,—

"Yr ydych yn rhy fychan i'ch cyflogi yma, fy machgen i. Ond cymerwch yr arian hyn, ac wedi i chwi dyfu dipyn yn fwy, fe allai y gallwn gael rhywbeth i chwi wneyd."

Edrychai George yn ddifrifol ar yr arian, ond ni chyffyrddai â hwynt.

"Paham na chymerwch yr arian?" gofynai'r clerc.


"Os gwelwch yn dda, syr, nid bachgen yn cardota ydwyf," ebe George. "Eisieu ennill rhywbeth sydd arnaf fi i helpu talu fy modryb am fy nghadw."

"Bachgen bach ardderchog ydych," ebe'r clerc hynaf. "Yr ydym yn rhoddi yr arian i chwi, nid am y meddyliwn mai cardotyn ydych, ond am ein bod yn caru eich hysbryd. Ni welwyd bachgenyn o'ch bath chwi erioed yn gardotyn. Cymerwch yr arian, fy machgen, a rhodded Duw i chwi a'ch modryb gael gweled gwell dyddiau!"

Cymerodd George yr arian, gosododd hwynt yn ofalus yn ei boced fechan, ac aeth adref yn hwylus. Parodd i'w fodryb chwerthin, er cymaint oedd ei thlodi, wrth adrodd iddi ei hanes yn y swyddfa. Ac nid oedd y carydd a roddodd iddo am fyned i edrych am waith heb ei chenad ond pur ysafn.

Y fath ysbryd rhagorol ddangosodd George yn yr amgylchiad hwn, onidê? Ysbryd cyffelyb i hwn sydd yn codi bechgyn i fyny i fri a defnyddioldeb. Yr oedd yn bur hawdd prophwydo dyfodol George, dim ond cael cipolwg arno yn yr amgylchiad hwn. Mae George erbyn hyn wedi dyfod yn arluniwr rhagorol, a'i glod wedi ymledu trwy amryw ieithoedd. Dylai plant feithrin yr ysbryd i ddyfod i helpu eu hunain mor fore ag y gallont. Bydd hyn yn foddion i'w tynu allan, a bydd yn hawddach iddynt ymdaro os collant eu rhieni yn ieuainc. Dysgwch, gan hyny, ddarllenwyr ieuainc, gynnorthwyo eich hunain; ond gofelwch wneyd hyny bob amser yn ol cydsyniad a chyfarwyddyd eich rhieni, neu eich perthynasau agosaf.

### Y TYWYSOG ALBERT.

U y Tywysog Albert, gŵr y Frenines Victoria, farw nos Sadwrn, Rhagfyr 14, 1861, ac ni ddangoswyd mwy o alar ar ol un pendefig yn y wlad hon, yn yr oes bresennol. Fe allai y

carai ein darllenwyr ieuainc wybod ychydig o hanes y Tywysog ; a da genym allu ychwanegu fod ei garitor cyffredinol yn esiampl gwerth ei ddangos, a'i efelychu gan holl ddeiliaid Victoria. Ceis-iwn ateb yn fyr, ynte, pwy ydoedd Albert, pa fath un ydoedd, beth a wnaeth, a sut y bu farw ac y claddwyd ef.

**PWY YDOEDD?** Ei enw yn ei hŷd oedd Franz August Karl Emanuel Albert, Duc Saxe Coburg Gotha, yn Germany. Mae yn disgyn o deulu hynafol y Margraves o Meissen, y rhai oeddent yn Brotestaniaid enwog, ac yr oedd yn gefnder i Victoria, o du ei mam. Ganwyd ef yn nghastell Rosenau, Awst 26ain, 1819; felly yr oedd dri mis yn ieuengach na'r Frenines, ac ychydig dros 42ain oed yn marw. Aeth i Brifysgol Bonn, fel efrdydd y gyfraith, yn 1837, ac ennillodd ei lafur a'i gynnydd glod nid bychan iddo. Ni fyddai byth yn aros yn ei wely ar ol chwech o'r gloch yn y bore, a dilynai ei efrydiaeth hyd saith yn yr hwyr, ond ei fod yn cymeryd tair awr i orphwys ganol dydd. Yn Gorphenaf, 1838, daeth ef a'i dad drosodd i Loegr, i fod yn bresennol ar achlysur coroniad Victoria, a dyna'r pryd y gwelodd y Tywysog a'r Frenines eu gilydd gyntaf. Talodd y Tywysog ymweliad arall â'r wlad hon y flwyddyn ganlynol; ac ar ol ei ymadawiad, hysbysodd y Frenines i'w Chynghor ei bwriad i briodi, yr hyn a dderbynwyd gyda llawenydd mawr. Cymerodd y briodas le Chwefror 10, 1840, a phenododd y llywodraeth y swm o ddeng mil ar hugain o bunnau y flwyddyn iddo at ei gynnalïaeth. Ac o hyny hyd heddyw, y mae y cysylltiad wedi bod y mwyaf dymunol. Ni fu un aelwyd freninol yn y wlad hon, oddiar adeg ei sefydliad, yn feithrinfa i gymaint o ddedwyddwch teuluaid, addysg, moesau da, a chrefydd.

**PA FATH UN YDOEDD?** O ran ei gorff, yr oedd yn ddyn glân, o faintoli cyffredin, gwallt yn tynu at y melyn, gwyneb crwn, a chnawd goleu. Mae ei ferch henaf (Tywysoges Prwsia) yn debyg yn ei gwyneb i'w thad; ond y mae Tywysog Cymru yn fwy tebyg i'w fam. O ran ei feddwl, yr oedd Albert yn ddyn o alluoedd a chynneddfau rhagorol; yn hoff o'r celfyddydau, yn arluniwr mawr, ac yn deall cerddoriaeth yn dda. Fel ysgolor, yr oedd wedi derbyn lliaws o ditlau uchel. Gwnaed ef yn Ganghellydd Prifysgol Cambridge; cafodd y graddau o LL.D. (*Doctor of Laws*), D.C.L. (*Doctor of Civil Law*), a D.Ph. (*Doctor of Philosophy*). Yr oedd yn gefnogwr gwresog i sefydliadau gwyddonol a dyngarol y wlad, ac yn gwario symiau mawrion yn ffynyddol er eu cynnorthwyo. Fel gŵr a thad yr oedd yn dyner, yn serchog, a gofalus. Er ei fod y pendeig blaenaf yn y deyrnas, ac yn ŵr i'r Frenines ei hun, yr oedd yn anmhosibl iddo ddangos mwy o ddoethineb yn ei ymddygiadau tuag at holl faterion y deyrnas. Ni ddygwyd achwyniad arno erioed am ymyriad anmhriodol gan y Cynghor, y Senedd, na'r wlad. Dangosodd y gofal mwyaf yn addysgiad ei deulu ffiosog, nid yn unig mewn gwybodaeth gyffredinol, ond mewn gwybodaeth Ysgrythyrol a chrefyddol. Mae profion lliosog i'w cael hefyd ei fod yn ddyn tra chrefyddol. Yr

arwyddair a ddewisiodd i'w osod ar y *Royal Exchange* yw yr adnod hono,—“Eiddo yr Arglwydd yw y ddaear a'i chyflawnder.” Pe chwiliasid holl lyfrau y byd ni chawsid arwyddair mwy priodol. Y mae cerflun ardderchog wedi ei osod ar ben grisiau ystafell y Frenines yn Windsor; cerflun o'r brenin duwiol ac ieuanc Edward VI. ydyw, yn dal Bibl agored yn ei law aswy, ac yn cyfeirio at y geiriau canlynol â'r deyrnwialen sydd yn ei law ddehau,—“Mab wyth mlwydd oedd Josiah pan aeth efe yn frenin, ac un mlynedd ar ddeg ar hugain y teyrnasodd efe yn Jerusalem. Ac efe a wnaeth yr hyn oedd uniawn yn ngolwg yr Arglwydd, ac a rodiodd yn holl ffyrdd Dafydd ei dad, ac ni thrôdd ar y llaw ddehau nac ar y llaw aswy.” Gwnaed y cerflun hwn ar ddymuniad y Tywysog Albert, er addysg ei fab, Tywysog Cymru, yr hyn sydd yn awgrymu gwrs bwysig iddo ar gyfer ei sefyllfa ddyfodol. Mae pob trem a gafwyd ar fywyd teuluaidd y teulu breninol, yn profi fod y tad a'r fam â'u holl fryd ar godi eu plant i fyny yn ofn yr Arglwydd. Pan fu y ferch henaf—Tywysoges Coron Prwssia—dan arholiad gan Archesgob Canterbury ychydig cyn iddi briodi, synwyd ef gan faint ei gwybodaeth Ysgrythyrol. Gofynnodd iddi,

“Pwy fu yn eich dysgu yn y Bibl?”

“*Fy mam!*” oedd ateb y Dywysoges.

Dyna esiampl dda i holl famau y wlad gan y pen coronog.

SUT Y BU FARW. Cymerwyd ef yn glaf mewn twymyn oddeutu pythefnos cyn marw. Yr oedd wedi dyweyd yn ddiweddar wrth ei gyfeillion, nad oedd yn meddwl y buasai fyw hyd hanner cant oed. A'r dydd Mercher cyn iddo farw, pan oedd ei feddygon yn coleddu gobaith cryf am ei adferiad, dywedodd y Tywysog nad oedd ef yn credu y gwellasai. Yr oedd ei wraig a'i blant oll, ond dau, o amgylch ei wely y noswaith y bu farw, a dywedir ei fod yn adrodd y geiriau hyny drosodd a throsodd yn ei fynyddau olaf,—

“Rock of ages, cleft for me,  
Let me hide myself in thee, &c.”

CLADDWYD ef yn y feddgell freninol yn yr eglwys berthynol i gastell Windsor, hyd nes y gwneir bedd iddo yn ngardd palas Frogmore—palas mam y Frenines, yr hwn sydd heb fod ymhell o Windsor. Gwnaeth y Dywysoges Alice blethwisg o flodau i'w gosod ar ei thad yn yr arch, a gosododd ddarlun o'i mam yn ei ddwyllaw. Bendith ar yr eneth am y fath arwyddion o'i serch! Bellach mae y Frenines yn weddw, a'i phlant yn amddifaid; gweddiwch drostynt, ddarllenwyr, dan ganu yn mhennillion Ceiriog,—

“Yn ei galarwisg ddu,  
Mae'r wlad yn edrych fry  
At orsedd nen;  
O Nefoedd, bydd yn rhan,  
O Arglwydd, nertha'r gwan,  
A chynnal tua'r lân  
Ein gweddw ben!

Ar weddw Prydain Fawr,  
 O Arglwydd, gwena i lawr  
 Trwy niwl y glŷn ;  
 Mae anghen 'n gwylio 'r bedd,  
 Yn ddu ei wisg a'i wedd,  
 O! gyr i wyllo 'r sedd  
 Dy angel gwŷn !”



TYB NAPOLEON BUONAPARTE AM GRIST.

**D**ARLUN bychan yw yr uchod o Napoleon ar greigiau St. Helena, yr ynys i ba un yr alltudiwyd ef gan Loegr ar ol brwydr Waterloo. Un diwrnod, pan yn nhir ei alltudiaeth, dywedodd wrth Count de Montholon,—“Yr wyf yn adnabod dynion, ac yr wyf yn dyweyd wrthyh nad dyn oedd Iesu Grist. Mae crefydd Crist yn ddirgelwch, sydd yn ymgynnal trwy ei nerth ei hun, ac yn gynnrych meddwl uwchlaw dynol. Cawn ynddi hynodion neillduol a roddasant fod i gyfres o eiriau a gweithrediadau anadnabyddus o'r blaen. Nid athronydd oedd Crist, oblegid gwyrthiau oedd ei broffon, ac yr oedd ei ddysgyblion o'r dechreu yn ei addoli.

“Sylfaenodd Alexander, Cæsar, Charlemagne, a finnau, ymherodraethau ; ond ar ba sylfeini y gosodem ni grëadigaethau ein hathrylith ? Ar rym naturiol. Ond sylfaenodd Iesu Grist ymherodraeth ar gariad ; ac y mae miliynau o ddynion, y fynyd hon, yn barod i farw drosto !

“Yr wyf fi yn marw cyn fy amser, a rhoddir fy nghorff yn ôl i'r ddaear, i fyned yn fwyd i bryfed. Y cyfryw yw tynghed yr hwn a alwyd yn Napoleon Fawr. Y fath agendor sydd rhwng fy nirgelwch dwfn i a thragywyddol deyrnas Crist, yr hon a gyhoeddir, a gerir, a addolir, ac sydd yn ymestyn dros wyneb yr holl ddaear !”

Trôdd wedi'n at y Cadfridog Bertrand, a dywedodd, “Os nad ydych chi yn canfod fod Iesu Grist yn Dduw, ni wnaethum yn iawn i'ch apwyntio chi yn gadfridog.”



## CWYMP RHAIADR LODORE.

(*Cyfieithiad—ni wyddom gan bwy—o waith y Bardd Seisomig*).

**M**AE 'n disgyn yn heini,  
 Mae 'n dod yn gwreichioni,  
 Byrlymu, byrlymu,  
 Llonyddu, tywyllu;  
 Mae 'n mygu, ewynu,  
 Mewn llid yn terfysgu;  
 Mae 'n brysio yn hyf,  
 Fel gwron yn gryf,  
 Fel rhyfel elfenau  
 'N ogofau y creigiau,  
 Yn hedeg ar chwyf,  
 Yn llifo yn llif.  
 Cyfodi a neidio,  
 Gwylltio a chwympo,  
 Ymsuddo, ymlusgo,  
 Ymchwyddo a lluchio,  
 Treiglo a niwlo,  
 Ymsaethio a gwlawio,  
 Chwyldroi ac ysgubo,  
 Crycheiddio, pistylle,  
 Gwrthdroi a gwrthdaro,  
 Fel blaidd yn y bendro.  
 Ymgasglu, ymledu,  
 Crynhoi a gwasgaru,  
 Rhyfeddu, dychrynu,  
 Syfrdanu, madroni,  
 Penfeddwi, ymdd'rysu,  
 Byddaru a dallu,  
 Byth, byth, heb ddiweddu,

A'r séisian arswydol yn seiniau tragwyddol.

Mae 'n rhuthro, encilio,  
 Mae 'n curo, mae 'n siglo,  
 Mae 'n rhuo, mae 'n bloeddio,  
 Mae 'n uno, mae 'n mado,  
 Mae 'n llonydd, mae 'n cyffro,  
 Byth, byth, nid yw 'n blino.  
 Mae 'n gwingo, mae 'n lleisio,  
 Llais cadarn, llais egwan,  
 Llais gwron, llais baban;  
 Mae 'n chwyrru, mae 'n chwiban,  
 Mae 'n ffrydiau, mae 'n gyfan,  
 Mae 'n hoew, mae 'n aflan,  
 Mae 'n canu, mae 'n chwiban,  
 Mae 'n ingan, mae 'n wban,  
 Yn gylchoedd diderfyn,  
 Yn ngolwg y werin.

Mae 'n fefnach, mae 'n lletach,  
 Adgasach, hawddgarach,

Cyflymach, arafach,  
 Yn oerach, yn dwymach,  
 Yn dduach, yn wynach,  
 Tywyllach, goleuach,  
 Fel yna mae'r ffurfiau,  
 Rhai eraill a fydd,  
 A myrdd o agweddau  
 Yn ystod y dydd.

Mae'n rhewi, mae'n toddi,  
 Diferu, piboni,  
 Mae'n berwi, mae'n poeri,  
 Taenellu a throchi,  
 Chwyrndroi ac yn nyddu,  
 Sirioli a gwgw,  
 Cyrehdynu a thafu,  
 Crochweiddi fel rhegi,  
 A bygwth ein boddi,  
 Gân chwythu a chwydu;  
 Ac yna fel milgi,  
 Yn rhedeg i'r môr;  
 Fel yna mae'r dyfroedd  
 Yn *Rhaiad* LODORE.

### ADDYSG YR HEOL.

**H**MWELODD cenadwr trefol, ychydig amser yn ol, â charcharor oedd yn y carchar yn aros ei brawi. "Syr," ebe y carcharor, â'r dagrau yn treiglo dros ei ruddiau, "cevais i addysg da ar fy aelwyd gartref,—addysg yr heol fu yn ddinystyr i mi. Arferwn redeg allan o'r tŷ heb wybod i'm rhieni, a myned ar hyd yr heol-ydd gyda bechgyn eraill, ac yno y dysgais fod yn ddrwg. Ar yr heol y dysgais ymocio, ar yr heol y dysgais regu, ar yr heol y dysgais *gamblo*, ar yr heol y dysgais yspeilio. O! syr, ar yr heol mae y diafol yn llercian i gyflawni dinystyr y bobl ieuainc."

Gochelwch yr heol a'i haddysg, ddarllenwyr ieuainc!

### BACHGEN ARDDERCHOG MEWN DILLAD CARPIOG.

**B**ACHGEN wrth y llall, "Pam na fnasit yn cymeryd peth o'r afalau, fachgen? nid oedd neb yn gweled." "Oedd, yr oeddwn i fy hunan yno yn gweled," ebe'r bachgen gwrol, "ac ni charwn byth weled fy hunan yn gwneyd y fath beth." Nid oedd ond dillad carpiog am y llanc hwn, ond yr oedd ysbryd rhagorol ynddo, ac yr oedd ei wyneb hardd a gonest yn awgrymu hyny. Cofiwch nas gellwch wneyd dim heb fod Daw a chwithau eich hunain yn gweled.



### ROBERT HALL, YN DYCHWELYD O'R YSGOL.

**D**ID nad yw y rhan amlaf o ddarllenwyr TRYSORFA Y PLANT wedi clywed am enw Robert Hall; ac nid rhyfedd, gan ei fod yn un o bregethwyr enwocaf Lloegr yn nechreuad y ganrif hon. Gan fod Hall yn ddyn mor ragorol a phwysig yn ei oes, a bod ganddo gynifer o lyfrau wedi eu gadael ar ei ol, dylai ein darllenwyr ieuainc fod yn gwybod rhywbeth am dano. Nodwn yma ychydig o ffeithiau ei hanes, ac ychydig o ystorïau am dano a fyddant yn fwyaf tarawiadol i feddyliau y plant.

#### EI FEBYD.

Ganwyd ef yn Arnsby, gerllaw Leicester, Mai 2, 1764—cant ond dwy o flynyddau yn ol. Mab ydoedd i weinidog y Bedyddwyr, o'r un enw, o'r pentref hwnw. Yr oedd Robert yr ieuengaf o bedwar ar ddeg o blant, ac yn blentyn o gyfansoddiad gwanaidd iawn, fel nad oedd neb yn meddwl y buasai fyw i weled oedran gŵr. Ond os oedd ei gorff yn wan, yr oedd ei feddwl yn gryf. Dysgodd lythrenau yr egwyddor oddiar y ceryg beddau wrth gapel ei dad, cyn ei fod yn gallu siarad yn eglur. Yr ysgolion cyntaf y bu ynddynt a gedwid gan ddwy hen wraig yn y gymydogeath. Yn yr haf, ar ol bod yr ysgol drosodd, elai â'i lyfrau i'r fynwent, gorweddaï ar y glaswellt, a thaenai ei lyfrau oddiamgylch; ac yno yr arosai yn eu chwilio a'u darllen nes y gorfodai y nos ef i fyned adref.

Pan yn chwech oed, cafodd fyned i ysgol yn Wigston, bedair milldir oddicartref, gyda brawd hynach iddo, a bechgyn eraill o'r ardal. Yr oedd y ffordd yn hir iawn i "Bob" bach wanaidd i'w cherdded, ac yr oedd yntau yn cael ei flino gan boen dirfawr yn ei gefn, yr hwn a barhâodd dros ystod ei oes. Weithiau byddai yn gorfod gorwedd i lawr ar y ffordd, ac weithiau eraill byddai ei frawd John, a'r ysgoleigion eraill, yn ei gario ar eu hysgwyddau bob yn ail, fel y gwelir yn y darlun uchod; a byddai yntau yn talu iddynt am eu caredigrwydd trwy adrodd ystoriau difyr, a dyweyd wrthynt y pethau y darllenai am danynt yn y llyfrau. Daeth ei awydd am ddarllen yn anniwalladwy, ac yr oedd yn ymhoffi yn y llyfrau mwyaf dwfn ac anhawdd eu deall. Erbyn ei fod oddeutu naw mlwydd oed, yr oedd wedi darllen gweithiau Edwards, America, ar "Yr Ewyllys," a'r "Serchiadau," a "Chyf-atebiaeth Butler."

Pan tuag un ar ddeg oed, yr oedd wedi myned heibio ei feistr, fel y gorfu i hwnw ei yru adref. Yr oedd yn byw mor grefyddol hefyd trwy y blynyddau, ac mor hoff o weddio, fel y dywedai hen forwyn i'w dad am dano,—“Atebaf fi dros fy anwyl Bob, ei fod yn adnabod yr Arglwydd cyn ei fod yn saith oed.”

#### EI WEINIDOGAETH.

Pan yn 14eg oed, derbyniwyd ef yn aelod eglwysig, a'r flwyddyn ganlynol anfonwyd ef i athrofa y Bedyddwyr yn Bristol. Yno yr oedd yn astudio duwinyddiaeth, pan osodwyd ef i draddodi pregeth am y waith gyntaf yn *vestry* Capel Broad Mead, oddiwrth 1 Tim. iv. 10. Ar ol dechreu yn o lewyrchus, yn fuan aeth yn dywyllwch dudew arno. Yn y man safodd yn fud, rhoddodd ei ddwyllaw ar ei wyneb, a dywedodd, “O! mi gollais fy holl ddrych-feddyliau!” ac eisteddodd i lawr mewn cywilydd. Gosodwyd arno i wneyd ail gynnyg yr wythnos ganlynol; ond methodd yr ail waith, a rheddodd allan o'r *vestry* mewn mwy o flinder a chywilydd nag o'r blaen. Ymneillduodd i'w ystafell, a dywedodd,—“Os na wna hyn fi yn ostyngedig, mae yn rhaid i'r diafol fy nghael.” Ond er methu unwaith ac eilwaith, ni ddigalonodd. Aeth ati drachefn, a phregethodd nes oedd calonau ei wrandawr yn llosgi, a pharhâodd am agos hanner can' mlynedd yn un o brif bregethwyr ei oes.

Y gofal eglwysig cyntaf a gymerodd oedd yn Bristol, mewn undeb â'i hen athraw, Dr. Caleb Evans. Oddiyno symudodd i Cambridge, lle y bu yn llafurio yn llwyddiannus am lawer o flynyddoedd. Symudodd eilwaith i Leicester; ac oddiyno eilwaith yn 1825, ar farwolaeth Dr. Ryland, i gapel Broad Mead, Bristol, lle y dechreuodd ar ei lafur gweinidogaethol. Bu farw Chwef. 21, 1831, yn saith a thriugain oed, gan ddywedyd, “Tyred, Arglwydd Iesu—tyred!”

#### YSTORIAU AM DANO.

Mewn ymddyddan â chyfaill unwaith, gofynai Mr. Hall, “A oeddech chwi yn adwaen Mr. —?” “Oeddyn yn dda,” ebe y

cyfaill. "A wyddech chwi ei fod yn hoff iawn o frandi a dŵr?" "Na wyddwn." "Wel, felly yr oedd; ac yr oedd hynny wedi codi o'i hoffder i adrodd ystoriau digrif. Fel yr oedd yn heneiddio, yr oedd ei ysbrydoedd anifeillaidd yn llesghâu, a'i ystoriau yntau yn myned yn fwy marwaidd; ac i wneyd y diffyg i fyny cymerodd help cynhyrriad y brandi a'r dŵr. Ychydig o frandi, a llawer o ddŵr, ydoedd ar y dechreu; ond daeth i'w yfed gryfach gryfach, nes aeth y brandi yn berffaith feistr arno. Yr oedd yn rhaid iddo ei gael yn y bore; a pha bryd bynag y galwai gyda mi, nis gallasai aros pum' mynyd cyn ceisio llymaid o frandi a dŵr. Gan ei fod yn hynach na mi, yr oedd yn anhawdd genyf ddyweyd dim wrtho; ond o'r diwedd penderfynais wneyd cynnygiad ar ei war-edu. Pan alwodd gyda fi y tro nesaf, gofynodd fel arfer,—

"Gyfaill Hall, diolchaf i chwi am lasaid o frandi a dŵr."

"Gelwch bethau wrth eu henwau priodol," ebe ffinnau, "a chewch faint a fynoch."

"Beth," ebai y gŵr, "ai ni roddais yr enw iawn? Gofynais am lymaid o frandi a dŵr."

"Ie, dyna'r enw arferol, ond nid dyna'r enw priodol. Gofynwch am lasaid o dân gwlybyrol, a damnedigaeth ddiestylliedig, a chewch alwyn o hono."

Gwelwodd y dyn fel y wâl; bu yn fud am fynyd, yna dywedodd, "Frawd Hall, yr wyf yn diolch i chwi o waelod fy nghalon;" ac ni chyffyrddodd â'r brandi a'r dŵr byth mwy.

Pan oedd Mr. Hall yn treulio noswaith yn nhŷ cyfaill, aeth boneddiges oedd yno ar ymweliad â geneth fechan bedair oed i'w gwely. Dychwelodd ymhen tua hanner awr, a chlywodd Mr. Hall hi yn dyweyd wrth ei chyfeilles, "Mae wedi cysgu. Rhoddais fy nghap nos ar fy mhen, a gorweddais wrth ei hochr, ac yna ymollyngodd i gwsag yn dawel."

"Esgusodwch fi, madam," ebai Hall; a ydych yn dymuno i'ch plentyn dyfu i fyny yn gelwyddog?"

"O, nac wyf, mewn un modd, syr; byddai yn chwith iawn genyf weled y fath beth."

"Wel, goddefwch i mi ddyweyd na ddylech *actio* celwydd o'i blaen; mae plant yn sylwi yn fanylach nag y meddyliciech; a dysganwch yn fuan fod cymeryd arnom wneyd peth nad ydym yn feddwl wneyd, yn gystal celwydd a phe dywedid peth nad yw yn bod." Dywedodd hyn yn dyner, eto gyda'r fath ddifrifwch nad allai y fam byth ei anghofio.

Gofynwyd i Hall unwaith beth oedd yn ei feddwl am ymosodiad Tom Paine ar y Bibl; atebodd yntau, "Yr wyf yn meddwl ei fod mor annhraethadwy ddirmygus a phe byddai i lygoden geisio cnoi maith aden archangel."

Pan oedd Christmas Evans yn aros am dro yn Bristol, siaradai â Mr. Hall am ragoriaethau yr iaith Gymraeg; ac ychwanegodd, "Buasai yn dda genyf, Mr. Hall, pe buasai holl weithiau Dr. Gill

wedi eu hysgrifenu yn Gymraeg." "Buasai yn dda genyf finnau, syr," ebe Mr. Hall; "buasai yn dda gan fy nghalon; felly buaswn erioed heb eu darllen. Nid ydynt ond cyfandir o laid, syr!"



## YSTORIAU I'R DARLLENWYR IEUENGAF.

### II.

#### DYODDEF CAM YN WELL NA GWNEUTHUR CAM.

**D**MAE hen chwedl yn dyweyd fod dafad wedi ei dyfarnu i oddef cymaint oddiwrth grëaduriaid eraill, fel ag y penderfynodd unwaith fyned at Jupiter, i ddymuno arno i'w chynorthwyo yn ei thrueni, ac i ganiatáu iddi ryw hunanamddiffyniad.

"Gwnaf," meddai Jupiter; "yr wyf yn gweled dy fod yn ddi-amddiffyn; gâd i ni dreio ei wella. Beth gaf fi wneyd i ti? Rhoddaf i ti ddant teigr, a chrafanc y fwltur."

"O na," meddai'r ddafad, "nid wyf yn dymuno cael fy nghyfrif fel un o'r crëaduriaid rheibus hyny."

"O'r goreu, ynte; tywalltaf wenwyn i dy dafod, a thi gei ei gyfranu i bob un a ddelo i gyffyrddiad â'th dafod gwenwynig."

"O na, paid a gwneyd felly," meddai'r ddafad fwynaid, "nid wyf am fod fel un o hiliogaeth y sarph ddychrynlyd, yn cael fy nghasáu gan bawb ymhob man."

"Wel," meddai Jupiter, "rhoddaf gymr ar dy dalcen, a nerth i dy wddf."

"O na, nid felly, fy nhad tirion; fe allai y tueddir fi felly i gornio fel y bwch gafr."

"Wel," meddai Jupiter, "y mae yn rhaid i ti ddrygu eraill, cyn y gall eraill ofni dy ddrygu di."

"Rhaid ef?" ocheneidiai y ddafad, "gan hyny, fy nhad tirion. gâd i mi fod fel yr wyf. Fe allai y cynnyrchai'r gallu i wneyd drwg y dymuniad ynof am ei gyflawni; ac y mae yn well dyoddef cam na gwneuthur cam."

Felly Jupiter a fendithiodd y ddafad ddiniwed, ac anghofiodd y ddafad achwyn.

Yn awr, fy anwyl blant bychain, a wnewch chwi gosio y wers bwysig sydd yn y chwedl hon? Pan fyddoch ar yr aelwyd gyda'ch brodyr a'ch chwiorydd; neu pan fyddoch yn yr ysgol gyda'ch cyfeillion; neu pan fyddoch yn chwaraeu yn yr ardd neu ar y twyn,—cofiwch chwedl y ddafad a Jupiter, a phenderfyniad y ddafad, sef *fod yn well dyoddef cam na gwneuthur cam*. Mae yn well i arall ddyweyd anwiredd arnoch chwi, nag i chwi ddyweyd anwiredd ar arall. Mae yn well i arall ddwyn eich llyfr, neu eich tegan, oddiarnoch chwi, nag i chwi ddwyn eiddo un arall. Mae yn well i arall eich taro chwi, nag i chwi daro un arall. Dyna fel

mae Iesu Grist yn dysgu. Trowch i'r bummed bennod o Matthew, a chewch eiriau fel hyn yno:—"Na wrthwynebwbwch ddrwg; ond pwy bynag a'th darawo ar y naill gern, cynnyg y llall iddo hefyd. Cerwch eich gelynyon, bendithiwch y rhai a'ch melldithiant, gwnewch dda i'r sawl a'ch casant, a gweddiwch dros y rhai a wnel niwed i chwi, ac a'ch erlidiant."

Ac fel hyny yr oedd Iesu Grist yn gwneyd ei hunan. Yr oedd ef o hyd yn dyoddef cam, ond nid oedd byth yn gwnauthur cam, nac yn talu y cam yn ôl. Dyma fel dywed yr adnod:—"Yr hwn, pan ddifenwyd, ni ddifenwodd drachefn; pan ddyoddefodd, ni fygythiodd." Gwnewch chwithau, fy mhlant anwyl, yr un fath.

JANE.

## HUW HUWS Y GO' A NINNAU.

### NOSON I.

**M**R. GOLYGYDD,—Diolch yn fawr i chwi a'r Cyhoeddwr am wneyd y rhifyn cyntaf o DRYSORFA Y PLANT mor ddyddorol, addysgiadol, a hardd. Huw Huws y go' ddaeth â'r rhifyn i'n tŷ ni, ac mae wedi ein boddloni yn fawr. Aeth fy mrawd bach, Wmffre, i ddysgu y pennill i'r "Ddannodd;" ac er ei fod ar y pryd yn dyoddef gan boen yn ei ddant, dysgodd y pennill a cholodd y boen.

Mae Huw Huws wedi addaw dyfod unwaith yn y mis i'n dysgu ni ynghylch y Deg Gorchymyn; ac os cydsyniwch, Mr. Gol, fe anfonaf yn awr a phryd arall, i'r DRYSORFA bach, hanes byr o'r ymddyddan fu rhyngom. Un difyr dros ben ydyw yr hen wr, ac y mae wedi caniatâu i mi anfon ei hanes i DRYSORFA Y PLANT, os boddlonwch chwi, Syr, i hyny. Dyma ein hymddyddan cyntaf ar y Gorchymynion:—

"Wel, mechgyn i," ebe Huw Huws, gan dynu ei law fawr, galed, dros ei dalcen, "fe ddywedaf ychydig o hanes yr Israaeliaid yn myned allan o'r Aipht; fe wna hyny ein harwain at y gorchymynion a gawsant gan Dduw. Dros dair mil o flynyddau yn ol y cychwynasant o'r Aipht, yn orymdaith na welwyd ei bath cyn nac ar ol hyny. Yr oedd tua dwy filiwn a hanner o eneidiau, ynghyd a llawer iawn o anifeiliaid. Wyddoch chwi beth! golygfa ryfedd fuasai eu gweled yn myned allan, a Moses yn gadben yn blaenu y llu. Fel y gwyddoch, i wlad Canaan yr oeddynt yn myned; ac yr oedd y daith yn un faith, a'r ffordd yn ddyrys; ond, —

"Pwy oedd yn deall y ffordd? oedd yna *finger-posts* yr amser hwnw, Huw Huws?" gofynai Wmffre.

"Taw, machgen i," ebe 'nhad; "nid ydyw gofyn cwestiynau ar draws Huw Huws yn foneddigaidd—edrych ar dy chwaer, mor lonydd mae hi."

“Wel, wel,” dywedai y gôf parchus, gan fyned ymlaen â'r hanes, “mi fyddaf fi yn hoffi clywed plant yn gofyn cwestiynau buddiol; canys dangosa hyny eu bod yn gwranddo, ac yn ceisio deall. Na, mae yn debyg, Wmffre, nad oedd yn y llu neb yn gyfarwydd â'r ffordd. Nid oedd, ychwaith, yr un *finger-post*, na chàreg filldir, y pryd hwnw; ond gofalodd y Duw a'u gwaredodd o'r Aipht roddi arweinydd diffael iddynt. Arweinydd rhyfedd iawn oedd hwnw hefyd; rhywbeth tebyg i golofn o fêg gwÿn. Beth mae y Bibl yn ei alw, Efa, 'ngeneth i?”

“Colofn niwl,” atebai Efa.

“Iê, siŵr; ac yr oedd hon i'w harwain y dydd, a cholofn o dân i'w cyfarwyddo y nos. Wel, y mae y llu yn cychwyn, ac yn teithio ymlaen hyd nes y daethant at y Môr Coch. Ond yma y daeth yn helynt dôst arnynt. Pharaoh a'i lu yn dilyn ar eu hol, a chreigiau—creigiau,—beth y gelwir hwy? mae nghôf i yn gwaelu, welwch chwi.”

“Pihahiroth,” ebe Efa.

“*Well done*, Efa bach; côf da iawn sydd genyt ti. Meithrin o, 'ngeneth i, a daw yn gryfach, fel y daeth fy mraich innau drwy *handlo* y morthwyl. Ond, at yr hanes; yr oedd y creigiau hyll ac uchel yn eu dychrynu, gelynyon lawer o'u hol, a'r môr llydan o'u blaen! Beth oeddynt i wneyd? Nid oedd na chychod iddynt nofio, na phont iddynt gerdded drosti. Beth, ynte, raid wneyd?”

“Yn wir,” ebe Wmffre, “pe buaswn i yno, mi —”

“Wmffre anwyl, paid a rhwystro Huw Huws,” ebe mam.

“Wel,” meddai yr hen ŵr, gan fyned ymlaen; “cawsant orchymyn i gerdded ymlaen i'r dŵr, a dacw hwy yn myned, y naill ar ol y llall;—maent yn ymyl y dŵr—mae hwnw yn ddwfn, ac yn donog; sut ar y ddaear yr ä y plant bach drwyddo?”

“Ûst!” ebe nhad, “dyna rywun yn curo y drws.” Aed i edrych pwy oedd yno, a chlywyd rhywun yn dyweyd, “Mae John Williams, Fferm isa', eisio Huw Huws mewn mynyd, ynghylch yr aradr.” “Wel, nos dawch i gyd,” ebe Huw Huws; “deuaf yma eto i fyned ymlaen gyda'r hanes.”

“Iê, a brysiwch, da chwi,” gwaeddai Wmffre; a “chofiwch chwi frysio, Huw Huws,” medd Efa.

*Sir Fflint.*

O'N TY NI.

## MAER LLUNDAIN YN GADEIRYDD CWRDD DIRWESTOL.

YNNALIWYD cyfarfod Dirwestol yn niwedd mis Rhagfyr diweddfaf yn yr *Egyptian Hall*, Llundain, yr Arglwydd Faer yn y gadair, pryd yr anerchwyd y cyfarfod gan y boneddigion, Samuel Gurney, A.S., Samuel Morley, B. Scott, Trysorydd y ddinas, Dr. Carpenter, ac enwogion eraill. Nid oedd yr Arglwydd



Faer yn Ddirwestwr ei hun, er iddo ganiatáu benthg y Nenadd, a rhoddi ei bresennoldeb i lywyddu y cyfarfod. Yr oedd tua dwy fil o bobl wedi dyfod ynghyd. Yn ystod y cyfarfod nodwyd y ffeithiau canlynol am sefyllfa bresennol yr achos Dirwestol. Dechreuodd y symudiad yn y flwyddyn 1831, ac y mae erbyn hyn wedi llwyddo yn rhyfeddol, wedi dyfod yn bren mawr. Mae nifer y Cymdeithasau Dirwestol yn y Deyrnas Gyfunol, yn y man lleiaf, yn bedair mil (4,000), ac yn cynnwys tair miliwn (3,000,000) o Ddirwestwyr. Mae tair ar ddeg o gymanfaoedd Dirwestol wedi eu ffurfio, yn cyflogi deugain o areithwyr cyson, a'u casgliadau blynyddol yn ddwy fil ar hugain o bunnau (£22,000). Mae gan y symudiad dri newyddiadur, yn meddu cylchrediad o bum' mil ar hugain (25,000) yr wythnos, heblaw cyfnodolion a ledaenir ymysg ieuenctyd. Mae hefyd ddau gyhoeddiad chwarterol, yn cynnwys ynghyd gylchrediad o tua deng mil (10,000). Mae un gymanfa Ddirwestol â'r swm o gant a phedair ar ddeg o filoedd o bunnau (£114,000) yn dyfod i mewn iddi yn flynyddol; ac un arall â thros gan' mil o bunnau (£100,000). Dyma y llwyddiant sydd wedi bod ar y symudiad Dirwestol yn ystod y deng mlynedd ar hugain o'i oedran; ac y mae yn olwg galonog iawn i bob Dirwestwr a dyn-garwr. Dygwyd y gwaith mawr hwn oddiangylch trwy esiampl dda, trwy gyfarfodydd ac areithiau, a thrwy wasanaeth pwysig y wasg. Hyderwn y bydd y ffeithiau hyn yn gwresogi calonau darllenwyr ieuainc TRYSORFA Y PLANT, nes eu cyffroi o newydd i fod yn Ddirwestwyr diysgog eu hunain, a gwneyd yr oll a allont i gario yr achos ymlaen. Dylanwad miloedd Dirwestwyr ieuainc y *Bands of Hope* yw un o'r galluoedd pwysicaf sydd ar y maes yn awr. Dywedwch wrth y diwygiad, ynte, dan ganu,—

“Cei o'th blaid yr oes sy 'n codi,  
 Dos yn dy nerth;  
 Y merched mwyn, a'r meibion heini,  
 Dos yn dy nerth:  
 Os gwrthoda 'r gwŷr a'r tadau,  
 Y mae 'n dyfod ar eu sodlau  
 Filwyr it' yn fyrdd myrddiynau,  
 Dos yn dy nerth.”

#### GRADD UCHEL MEWN DYSGEIDIAETH.

“DYWEDWCH air, Ifan,” meddai Jones, Langan, wrth hen Ifan, Tŷ clai; “dywedwch air—yr ydych chwi wedi bod yn yr ysgol am flynyddau.” “Ydwyf,” meddai Ifan, “ac yr wyf yn sicr fy mod wedi dysgu un wers, beth bynag, sef *nad wyf eto yn gwybod dim.*” “Wel, yr ydych ymhell o fy mlaen i,” oedd atebiad Mr. Jones.



## TRYSORFA Y PLANT.

RHYF. III.]

MAWRTH, 1862.

[CYF. I.

### Y GOLOFN A'R DARLUN.

**WYDDOCH** chwi, ddarllenwyr, mai y rhinwedd mwyaf mewn dynion a phlant yw gwneyd rhywbeth i gynnorthwyo arall? Gallech fod yn rhai o gyrff glân a lluniaidd; yn rhai cyfoethog, ac yn rhai o alluoedd meddyliol cryfion, ac yn cyflawni llawer o bethau gorchestol. Ond byddai bod yn garedig a chymwynasgar, a pharod i gynnorthwyo arall, yn llawer mwy o glod i chwi. Mae rhai dynion yn hunanol iawn; y maent yn foddllawn i bawb wneyd a fynont iddynt hwy, ond ofer dysgwyl iddynt hwy wneyd dim i arall. Y maent yn awchus am dderbyn, ond yn gas ganddynt roddi. Y maent fel y pwll dwfr yn y pant; mae lliaws o ffrydiau bychain yn rhedeg iddo, ond nid oes yr un yn rhedeg o hono. Mae yn derbyn y cwbl, ond yn rhoi dim. Ond mae y dyn cymwynasgar fel y ffynnon; nid oes yr un ffrwd yn rhedeg iddi, ond mae pob un yn cael llonaid ei lestr gahddi. Ac y mae y ffynnon yn llawer mwy ei chlod na'r pwll, er ei bod yn llai, oblegid mai rhoddi ac nid derbyn y mae.

Mae yr **ARGLWYDD** yn rhoi mwy o bwys ar y peth y mae ef yn wneyd i helpu ei grëaduriaid tlodion, nag ar un ran arall o'i waith. Efe wnaeth y nefoedd a'r ddaear, a'u holl luoedd hwynt. Ond y mae yn ymfrostio mwy yn ei waith yn helpu crëadur tlawd ar ddarfod am dano, nag yn ei waith yn creu yr haul a'r lleuad a'r ser. Cewch brawf o hyn yn y ddeugeinfed bennod o

Esaiiah; a'r desgrifiad sydd yno barodd i ni roddi y titl uchod i'r ysgrif hon. A ydych chwi yn cofio desgrifiad mawreddog y ben-nod hono? "Pwy a fesurodd y dyfroedd yn ei ddwrn, ac a fesurodd y nefoedd a'i rychwant, ac a gymhwysodd bridd y ddaear mewn mesur, ac a bwysodd y mynyddoedd mewn pwysau, a'r bryniau mewn clorianau? Wele y cenedloedd a gyfrifir fel defny'n o gelwrn, ac fel mân lwch y clorianau; wele, fel brycheuyn y cymer efe yr ynysoedd i fyny. Yr holl genedloedd ydynt megys dyddim ger ei fron ef; yn llai na dim, ac na gwagedd, y cyfrifwyd hwynt ganddo. Efe sydd yn eistedd ar amgylchoedd y ddaear, a'i thrigolion sydd fel locustiaid; yr hwn a daena y nefoedd fel llen, ac a'i lleda fel pabell i drigo ynddi. Dyrchefwch eich llygaid i fyny, ac edrychwch pwy a grëodd y rhai hyn, a ddwg eu llu hwynt allan mewn rhifedi; efe a'u geilw hwynt oll wrth eu henwau; gan amler ei rym ef, a'i gadarn allu, ni phalla un!" Dyna ddesgrifiad anghymharol o allu a gweithredoedd gogoneddus yr Anfeidrol. Ond a ydyw y prophwyd yn gadael fan yna? A yw wedi gorphen ei bregeth? Na, nid yw eto wedi dyfod at bwynt ei bregeth. Nid yw eto ond wedi adeiladu y golofn; y darlun sydd i fod ar ben y golofn yw y nawfed adnod ar hugain, —"YR HWN A RYDD NERTH I'R DIFFYGIOL, AC A AMLHA GRYFDER I'R DIRYM!"

Ar ganol Trafalgar Square yn Llundain, gallasech eu gwled flynyddau yn ol yn codi colofn uchel iawn. Gosodent feini mawrion ynddi; addurnent hwy yn brydferth; a gosodent hwynt yn gywrain ar eu gilydd. Wedi ei chodi yn golofn uchel ardderchog, wele ddarlun o Arglwydd Nelson, y rhyfelwr enwog, yn cael ei ddwyn i'w osod ar ei phen. Y darlun ar y top yw y darn gogoneddusaf; ac fe godwyd yr holl golofn fawr er mwyn ei ddangos. Felly, y golofn yn nesgrifiad y prophwyd yw yr adnodau a roddasom i lawr, a'r darlun ar y top yw y nawfed adnod ar hugain; ac fe godwyd y cyntaf er mwyn dangos yr olaf yn eglurach. Ac y mae y cyfan yn dangos fod yr Arglwydd yn edrych arno yn fwy o beth i "roi nerth i'r diffygiol, a chryfder i'r dirym," na chreu a llywodraethu y bydoedd. Ddarllenwyr hoff! astudiwch y gwirionedd, a dilynwch ei esiampl.



### AELOWYD FY NHAD.

(Tôn—"Mae Robyn yn swil.")

**M**AWN ardal estronol 'r wyf heddyw yn byw,  
 Fy mron yn alarus, a'm gwyneb yn wyw;  
 Er fod genyf ddigon o gyfoeth y byd,  
 A chylch o fy neutu 'n difyru fy mryd;  
 Ond ar aelwyd fy nhad, ar aelwyd fy nhad,  
 Ces fil fwy o bleser ar aelwyd fy nhad.

'R wy 'n cofio mwynderau boreuddydd fy oes,  
 Pan nad oedd gofalon na gofid na chroes,  
 Ond myned a dyfod dan ofal fy mam,  
 Heb ofni na meddwl am golled na cham;  
 Ar hen aelwyd fy nhad, hen aelwyd fy nhad,  
 Rhyw nefoedd fach gafwyd ar aelwyd fy nhad.

Mor ddedwydd y byddem yn fawr ac yn fân,  
 Ar noson hir auaf o gwmpas y tân,  
 Yn dysgu, neu ganu, yn llawen ein bryd,  
 Neu wrando ryw stori yn glustiau i gyd;  
 Ar hen aelwyd fy nhad, hen aelwyd fy nhad,  
 Paradwys y ddaear oedd aelwyd fy nhad.

Fan hono y clywais i gyntaf erioed  
 Fod uffern a nefoedd a Cheidwad yn bod;  
 Am Beth'lem a'r stabl, am gariad fy Nuw,  
 Am obaith cael myned i'r nefoedd i fyw;  
 Ar hen aelwyd fy nhad, hen aelwyd fy nhad,  
 Ces fyrdd o fendithion ar aelwyd fy nhad.

Y teulu wasgarwyd, fy nhad aeth i'r bedd,  
 Y byd oll ar unwaith newidiodd ei wedd;  
 Daeth drygfyd a blinder o ddinas a gwlad,  
 Pan chwalwyd pleserau hen aelwyd fy nhad;  
 O! hen aelwyd fy nhad, hen aelwyd fy nhad,  
 Mor llwm ydyw 'r ddaear heb aelwyd fy nhad!

Mae aelwyd well eto uwch gofid y byd,  
 Mae TAD yn y nefoedd, a CHARTREF mwy clyd;  
 Fy enw yn llyfr y teulu a gawd,—  
 'R wyf fi sy 'n amddifad i'r IESU yn frawd:  
 O! hardd aelwyd y nef, hardd aelwyd y nef,  
 Mae dysgwyl am danaf ar aelwyd y nef!

FY MHLANT BYCHAIN, Y PETHAU  
 HYN YR WYF YN EU HYSGRIFENU  
 ATOCH FEL NA PHECHOCH; AC O  
 PHECHA NEB, Y MAE I NI EIRIOLWR  
 GYDA'R TAD, IESU GRIST Y CYF-  
 IAWN.—1 IOAN ii. 1.

## BREUDDWYD Y PLENTYN.

**H**WI ferched bach sydd yn fwy hoff o chwareu na gweithio, gwrandewch ar y stori hon. Yr oedd merch fechan unwaiti—ni waeth pa le, na pha bryd—o'r enw Elisa. Yr oedd yn byw gyda'i thad a'i mam, a'i brawd bach, mewn bwthyn prydferth yn y wlad; a chaniatëid iddi bob dydd, ar ol dyweyd ei gwersi boreuol, i fyned i chwareu neu grwydro ar hyd y maes. Mae yn ddrwg genyf ddyweyd fod un diffyg o bwys yn y ferch fechan, a hyn ydoedd; dechreuai ddysgu ei gwersi yn ymroddgar, ond cyn myned dros hanner tu dalen, gwibiai ei llygaid at y clêr fyddai dan y llofft, neu at y gath fyddai yn gorwedd wrth y tân, neu troai i edrych ar yr adar a'r blodau trwy y ffenestr; felly cai ei cheryddu yn fynych am ei diofalwch gyda'i gwersi.

Wedi eistedd awr gyfan â'i llyfr yn ei llaw, ar ddiwrnod poeth yn yr haf, ac heb ddysgu yr un linell, syrthiodd Elisa i gysgu, a breuddwydiodd freuddwyd dyeithr iawn. Tybiai ei bod yn rhodio mewn coedwig swynol, a'r ffrwd fach brydferthaf a welodd erioed yn ymddolenu rhwng y coed. Yr oedd rhosynau, a gwinwydd, ac amryw flodau prydferth eraill, yn ymblethu am y coed, ac yn tyfu ar hyd y llanerchau gwyrddlas dan ei thraed. Canai yr adar bach eu caniadau melus oddirhwng y cangenau, a'r haul dysglaer yn goleuo y cwbl â'i belydrau hyfryd.

Yn fuan ymddangosai, nid yn unig yn gweled y pethau hyn, ond yn eu clywed yn siarad; ymddangosai y cyfan yn fyw, yn anadlu, ac yn llefaru. Wrth blygu i dori blodeuyn llygad y dydd wrth ei throed, clywai un o'r blodau yn dyweyd wrth y llall, "Yr wyf fi wedi blino sefyll yn syth ar fy monyn, yn edrych yn ddi-dor fel hyn ar yr haul; dyma fi yn cau fy llygad ac yn myned i gysgu." "A finnau, a finnau," meddai y blodau eraill oll, y nall ar ol y llall. Dywedai gwenynen hefyd, yr hon oedd yn mwman gerllaw, pan glywodd y blodau, "Yr wyf finnau hefyd wedi blino casglu mêl trwy gydol y dydd; âf finnau i grwydro o amgylch wrth fy mhleser." Gyda'r gair, ehedodd ymaith, a dilynwyd hi gan ei holl gymdeithion.

"Yr wyf finnau wedi blino," ebe'r aderyn *goldfinch*, "i ganu yr un dôn ddiwrnod ar ol diwrnod; pam nad allaf fi fod yn segur fel pili y pala (*butterfly*)?" Yna peidiodd â'i gân. Dilynwyd ei esiampl gan yr holl adar; ac aeth y goedwig, oedd y fynydd o'r blaen yn adseinio gan gerddoriaeth swynol mil o adar, mor ddystaw a'r bedd. Nid oedd swm cymaint a cheiliog y gwair na gwib edyn i'w glywed, i lawr nac i fyny. Blinodd hyd yn nôd yr haul yn y nefoedd i roddi ei lewyrch, ac enciliodd y tu cefn i'r cwmwl, aeth y ffrwd fechan yn llyn llonydd a lleidiog, a cholodd yr ymotyn prydferth ei holl swyn i Elisa. Yr oedd yr holl flodau ymollwng yn bendrwm ar eu coesau, dim llais aderyn i'w glywed, a'r holl le wedi troi fel anialwch anghyffannedd. Yr oedd hy

yn nôd yr awelon hafaidd wedi dal eu hanadl, ac nid oedd yr un dôn o awyr yn cyffroi yr awyrgylch.

Eisteddai y plentyn i lawr ar hen foncyff, ac wylai yn hidl wrth weled y fath gyfnewidiad wedi dyfod dros wyneb natur. Yn ddisymwth teinlai law yn disgyn ar ei braich, a chlywai lais yn gofyn iddi paham yr wylai. Deffrôdd o'i chwsg, a chafodd ei mam yn eistedd yn ei hymyl, yn ei chysuro. Adroddodd y breuddwyd a gafodd, a dealodd ei fod yn cynnwys gwerau bwysig iddi hi, i beidio segura na blino yn ei gwaith. Wedi tafu golwg eilwaith dros ei hymddygiadau, gwnaeth y penderfyniad canlynol; a hyderwn y cyduna darllenwyr ienainc TRYSORFA Y PLANT â hi:—

Os gweithio, gweithio 'n ddiwyd â'm holl fryd ;  
 Os chwareu wedi 'n, chwareu, dyna i gyd ;  
 Pan wrth fy ngwers, ei dysgu trwyddi wnafl,  
 Wrth hyny pleser a chanmoliaeth gâf ;  
 Ni wnafl ryw hanner peth fel hyn yn hŵy,  
 Rhof fy holl egni gyda phobpeth mwy.



AMSER.

(*Efelychiad.*)

**D** ID yw amser ddim ond dyrnfedd ;  
 Llong ar gefnfôr ; chwedl wael ;  
 Eryr ydyw yn ymsaethu  
 Ar ei ysglyfaeth yn ddiffael ;  
 Saeth na wêl y llygad mo'ni,  
 Tra yn cyflymu heibio daw ;  
 Blodyn gwael gwywedig ydyw ;  
 Enfys ar y gawod wlaw.

Pelydr byr arosol ydyw,  
 Yn y gaua 'n gwênu 'n wiw ;  
 Cefallif yn chwynn ruthro heibio ;  
 Dim ond cysgod ; breuddwyd yw ;  
 Gwyladwriaeth hwyr yn darfod  
 Pan lewyrcho 'r wawr yn gŵn ;  
 Dyfrgloch ydyw ; prudd ochenaid,—  
 Parotôa i farw, ddyn.

*Llanellwyr.*

HUGH JONES.



Y Ffordd i Gyrhaedd Hyawdledd.

**D** N 1. Arferwch y raddfa (*canu*) bob dydd am dri mis, gydag offeryn ; ac os bydd yn gyfleus, dan arweiniad athraw. Cryfhâ hyni eich llais tra fyddwch byw.

2. Darllenwch yn uchel am hanner awr bob dydd, mewn ystafell èang, neuadd, neu gapel, yn nghlywedigaeth beirniad da; a gofelowch swnio sillau diweddaf y geiriau yn ofalus, gan ochelyd yr arferiad cyffredin o ostwng y llais yn niwedd y brawddegau. Rhydd hyn i chwi eglurder a diysgogrwydd.

3. Edrychwch allan o'r llyfr gymaint ag a fyddo yn bosibl, gan droi eich darllen i dôn siarad; ac os byddwch mor ffortunus a chael boneddiges yn feirniad, goreu oll. Rhydd yr ymarferiad hwn i chwi naturioldeb a chwaeth.



## Y TABERNACL YN YR ANIALWCH.

### PENNOD III.

**P**AN ddygid yr oen, neu ryw grëadur arall, i'w offrymu, byddai yn rhaid iddo fod yn ddianaf: oen "gwryw, perffeihtgwbl." Pan ddygid ef at yr allor gan yr henuriaid, byddai yr archoffeiriad yn trosglwyddo pechodau y genedl arno, trwy osod ei ddwyllaw ar ei ben, fel y dangosir yn y darlun hwn; yna



YR ARCHOFFEIRIAD YN RHODDI PECHODAU Y BOBL AR BEN YR OEN.

lladdai yr oen, ac offrymai ei waed i Dduw dros y bobl, trwy ei daenellu ar yr allor. Fel hyn yr oedd gwaed y diniwed yn myned yn iawn dros bechodau yr euog. Ac wedi llosgi holl gorff y crëadur ar yr allor, byddai y cymmod wedi ei gyflawni.

Gŵyr y darllynydd nad oedd hyn oll ond dangosiad o Iesu Grist, a'r hyn a wnaeth dros ddynion. Cyfeirio at y ddefod hon y mae llawer o ysgrythyrau y Testament Newydd; megys y

adnodau hyn a'u cyffelyb; "Wele Oen Duw, yr hwn sydd yn tynu ymaith bechodau y byd." "Oblegid Crist hefyd unwaith a ddyoddefodd dros bechodau, y Cyfiawn dros yr anghyfiawn, fel y dygai ni at Dduw." Ac at Iesu Grist y cyfeiriai y prophwyd yn y geiriau tarawiadol hyn; "Fel oen yr arweinid ef i'r lladdfa, ac fel y tau dafad o flaen y rhai a'i cneifiai, felly nid agorai yntau ei enau." Y mae yr Hen Destament a'r Newydd yn dangos nad oedd yn bosibl madden pechod heb ollwng gwaed.



GOLCHI AARON CYN MYNED I'R TABERNACL.

Yn y darlun hwn gwelir y noe brês, yr hon oedd wedi ei gosod o fewn y cyntedd rhwng yr allor a'r Tabernacl, fel y gwelir yn y darlun, tu dalen 34. Gwelir, ar y naill du, ddau o feibion Aaron, y rhai oeddent offeiriad cyffredin, yn golchi traed eu tad—yr archoffeiriad. Gwnaed y noe gan Moses o "ddrychau y gwagedd, y rhai a ymgasglent yn fyntioedd at ddrws pabell y cyfarfod" (Exod. xxxviii. 8). Ac y mae yn bosibl iddo gymeryd y drychau hynny oddiarnynt yn gerydd am eu balchder. Dyben y noe, fel y dangosir yn y darlun, oedd dal dwfr i'r offeiriad i olchi eu dwylaw a'u traed cyn myned i mewn i'r babell, neu wasanaethu ger bron yr allor. Cosbid â marwolaeth y neb a esgeulusai y ddefod hon. Mae yn dra thebyg mai cyfeiriad at hyn sydd gan Dafydd yn y geiriau hynny; "Golchaf fy nwyllaw mewn diniweidrwydd; a'th allor, O Arglwydd, a amgylchynaf." Mae hyn yn dysgu fod purdeb a sancteiddrwydd yn anghenrheidiol tuag at gyflawni gwasanaeth yr Arglwydd.



## Y TAFARNWR A'R GWIBEDYN.



R adeg lled boeth, a'r dydd ar derfynu,  
 Aeth allan o bentref lled boblog yn Nghymru  
 Dafarnwr ar wibdaith i edrych o gwmpas,  
 Er ceisio ryw gysur i'w feddwl oedd ddiflas.  
 Y rheswm ei fod ef mor flin ac anniddig,  
 A'i ysbryd yn teimlo yn wir drallodedig,  
 Oedd fod y Dirwestwyr yn gwneyd y fath dwrw,  
 Gan fygwth dinystrio ei fasnach a'i elw.  
 'D oedd noswaith i gael na b'ai rhai yn areithio  
 Ar Ddirwest, neu ynte 'r *Maine Law* ddiefflig hono;  
 A'r gwaethaf i gyd fod y *plant* yn cynhyrfu  
 Y wlad oll o'r bron, drwy gerdded a chanu;  
 Ac felly 'n dwyn sylw eu ffryns a'u rhieni,  
 Nes gadael yn llwyr yr yfed a'r meddwi,  
 A bod pob tebygrwydd, yn ol yr arwyddion,  
 Y byddai raid eto droi 'n ôl at y *lapstone!*  
 A'r holl bethau hyn yn berwi ei 'menydd,  
 Aeth allan i rodio i lanerch fach lonydd;  
 Eisteddodd i lawr yn nghysgod y geulan,  
 Yn ymyl pa un y llifai ffrwd fechan.  
 'Fan hon mewn tawelwch, heb awel yn sïo,  
 Gollyngodd y *brawd* ei hun i fyfyrïo  
 Ar ba beth i wneyd yn wyneb y trallod,  
 Nad yfai y bobl ei gwrw a'i wirod!  
 A'u bod hwy yn bygwth na ch'ai efe werthu  
 I'r cwplw bach bach oedd eto am brynu!  
 Tra 'r oedd ef fel hyn mewn myfyr, yn sydyn,  
 Ar gefn ei law disgynodd gwibedyn;  
 Ond cyn i'r gŵr bach gael dechreu ei *fus'ness*,  
 Bu dadl boeth rhyngddynt, a dyma yr hanes:—

*T.* Holo! beth sy 'n bod? beth wyt ti 'n myn'd i wneuthur?

*G.* Ust, gyfaill, taw, taw; nis galla i fyw 'n segur;

A byddai 'n rhy ddrwg i mi aros fan yma

Heb wneuthur fy rhan i lenwi fy nghylla.

*T.* Ond pa *hawl* sydd genyt i dd'od i'r fan yma

I lenwi dy fol? *Fi* bia 'r oll yna!

*G.* *Hawl*, i'e fe 'n wir! Pwy sydd yna 'n siarad?

Y mae genyf *hawl*, mi a'i profa 'n ddiymwad.

Mae *trwydded* gen' i oddiwrth y *Llywodraeth*

I gym'ryd fy rhaid lle gallwyf yn helaeth.

*T.* *Trwydded* yn wir! pwy 'rïoed ddaru glywed

Am beth fel yna yn feddiant i *wibed*?

*G.* Ai ni chlywaist ti fod ein *cenedl* ni 'n arfer,

Y diwrnod brwd cyntaf, cydgynnull eu nifer,

Bob blwyddyn ynghyd i gynnal cymansa,

Lle cawn oll *drwyddedau*, o'r mwyaf i'r lleia'?

*T.* Ond o ba le cawsoch y cyfryw awdurdod

I osod eich pigau yn mhawb wnewch gyfarfod?

Ai teg, meddi di, i chwi boeni pawb dynion,  
A difa eu hedd a dwyn eu cysuron?

G. Pan gawsom ni *fod*, ni gawsom *hawl* hefyd  
I fynu cynnaliaeth; ac onid yw 'n enbyd  
Dy *fod* *di* o bawb yn ceisio ein hattal,  
Tra 'r ydwyt mor debyg i ni yn ymgynnal?

T. Attolwg, pa fodd 'r wyf fi yn debyg iti?  
Nid wyf fi 'n ymosod ar neb idd ei boeni.

G. O nad wyt ti 'n wir! gan bwy y mae trwydded  
I osod hen drwython i bobl ddiniwed?

Pwy sy 'n difa cysur, dwyn ymaith ymgeledd  
Y lliaws trigolion, eu plant bach a'u gwragedd?

T. Nid wyf fi 'n amcanu yn wir eu niweidio;  
Fy nyben i'n unig yw ceisio 'u cysuro,

A chael im' fy hunan a'm teulu gynnaliaeth;  
Ac nid wyf yn gosod ar undyn orfodaeth;

Os oes ambell un o'r herwydd yn meddwi,  
Trwy gym'ryd gormodedd, ei fai ef yw hyny.

G. Ond gwyddost ti 'n dda nad yw dy fasnachaeth  
Yn rhoi ond ychydig iawn iawn o gynnaliaeth;

Yn hytrach dwyn gofid, a gwae, a thrallodion,  
A blingo, a thlodi, rhyw lu o'th gyd-ddynion!

Ac eto 'r wyt ti yn dadleu dy drwydded  
I werthu o hyd, er maint y caethiwed!

Ac ar yr un tir paham na chaf finnau  
Ddefnyddio yr *hawl* a ges fan fy nhadau?

T. Wel, hidiwn i fawr i ti gym'ryd dyferyn  
O'm gwaed i dy wanc, oni b'ai *fod* dy wenwyn

Yn peri 'r fath boenau i'm cnawd ar ol hyny,—  
Mae 'n anhawdd ofnadwy i oddef peth felly!

G. O wel, a *thydi* sy 'n anfoddlawn i'r *wedi'n*!  
Gwel acw 'r fan draw, y dymhestl a'r dryghin!

Pwy fu yn ei darllaw fan yma dan ymgom?  
Ond pwy welaf draw yn nghanol y storom?

*Tydi* gyda 'r *tad* a fu 'n llyncu 'r ceiniogau,  
A'r *fam* a'r *plant bach* o'r herwydd mewn carpiau!

Ond gormod oedd hyn i *nerves* y tafarnwr,—

Fe gododd ei ddwrn i daro 'r poenydiwr;

Ond cyn i'r hen ordd ar ei gorpws ef ddisgyn,  
Diengyd ar frys a wnaeth y gwibedyn.

A dyna 'm barn i fu yn gwel'd ac yn clywed,  
Nad gwiw i dafarnwyr ymddadleu â *gwibed*.

Mae 'n wir mai 'r tafarnwr ennillai wrth ddyrnu,  
On'te y gwibedyn o ddigon wrth ddadlu.

GELYN Y FASNACH.

Y POMPIWN LLADRAD.

**P**R oedd yn amser gwyliau, ac aeth Eben a Robert i'r dref  
gyda'u tad. Yn eu habsenoldeb, cynnygiodd bechgyn yr  
ysgol am gael gwledd *picnic* i anrhydeddu dau o'u cydysgol-

eigion, oeddynt yn awr yn efydwyr yn yr athrofa, ond wedi dyfod adref ar amser y gwyliau. Myfi oedd yr ieuengaf, ac yr oeddwn yn teimlo ychydig yn falch o'r gwahoddiad. Parotôdd fy mam deisen a *sandwich* i mi ar gyfer yr amgylchiad. Wrth roi tro yn yr ardd, gwelwn fod pompiwn mawr Eben yn llawn addfed. Yr oedd Eben wedi bod yn ofalus iawn am ei bompiwn, a chanddo olwg fawr arno. "O," meddwn wrthyf fy hun, "pe cawn i y pompiwn braf yna!"

"Beth yw'r mater?" gofynai Bil Parsons i mi wrth gerdded ynghyd gyda glân yr afon. "O, rhywbeth," meddwn innau. "Dywed; yn wir, ddywedaf fi ddim wrth neb." Yna dywedais mai chwant pompiwn Eben oedd arnaf erbyn y *picnic*. "Iawn i'r byd," ebe Bil, yr hwn oedd yn hoff o bompiwn, "gadewch i ni ei chael." "Ie, ond ni chawn ef gan fy mam, am mai Eben piau ef, ac nid yw Eben gartref," meddwn innau. "O peidiwch meindio hyny; gwyddoch am ystranciau bechgyn yr ysgol. Clywsoch Tom Gilks yn adrodd y modd y bu ef yn dwyn wyau, afalau, ac amryw bethau eraill. Pw, pw, cymerwch bompiwn Eben; ni fydd ond tipyn o *joke* i gyd."

Perswadiodd Bil fi i wneyd. Gyda'r nos aethum i'r ardd, cymerais y pompiwn a chuddiais ef yn yr ysgubor. Bu fy ymddygiad yn blino peth arnaf yn y nos, ac ni chysgais cystal ag arfer. Codais yn fore. Ar ol bwyta brechwast clymodd fy mam y pethau ar gyfer y *picnic* mewn cwd bychan gwyn, cusanodd fi, a dywedodd, "Bore da—byddwch yn fachgen da, cofiwch." Rhedais o gylch yr ysgubor, gwthiais y pompiwn eilwaith i'r cwdyn, teflais ef ar fy ysgwydd, ac ymaith â fi.

Yr oedd y pompiwn yn drwm ar fy ysgwydd, ond yr oedd baich trymach o lawer ar fy nghydwybod. Wedi myned dros filldir o ffordd, eisteddais ar hen foncyff oedd ar ochr yr heol. Dywedais, "Nis gallaf gario y pompiwn yma ymhellach;" agorais y cwdyn, tynais ef allan, ac wedi myfyrio ychydig, rhoddais hergwdd iddo dros y berth. Aethum eilwaith i'm ffordd; a phan welodd Bil Parsons fi heb y pompiwn, galwodd fi yn llipryn digalon.

Pan ddaeth Eben adref, hysbyswyd ef fod ei bompiwn braf wedi ei ladrata. "O, fy mhompiwn prydfferth!" llefai Eben, dan wylo yn hidl. "Fy machgen anwyl, mae yn ddrwg genyf drosot," meddai fy nhad. "Paid blino, daw un arall yn ei le i ti heb fod yn hir," meddai fy mam. "Ond yr oeddwn i wedi cymeryd cy-maint o drafferth a gofal gyda hwna," meddai Eben, trwy ei ddagrau.

Druan oedd Eben! Mor druenus yr oeddwn yn teimlo wrth ei weled a'i glywed! Yr oedd fy ysbryd bron a llethu. Tybiwn fod pob peth yn estyn bys ataf, gan waeddi, "Lleidr, lleidr," arnaf. Ymdrechais i ddal nes i mi fethu dal yn hŵy. Yr oedd yn brydnawn Sadwrn. Nis gallwn fyned allan i chwareu fel arfer. Aethum at fy nhad i'r ystafell fechan lle y byddai yn gwneyd cyfrifon.

"A oes neb gyda chwi, 'nhad?" gofynais, heb agor y drws.

"Nac oes, fy machgen, tyred i mewn," ebe efe, a throdd y llyfr cyfrifon o'r neilldu.

Aethum i mewn, a chauais y drws yn ddiogel ar fy ol. Ond er hyn, cefais yr orchest fwyaf erioed i gasglu digon o wroldeb i gyffesu. O'r diwedd, syrthiais ar fy neulin, a dywedais,—“Nhad ! fi ladratäodd bompiwn Eben.” Cuddiais fy wyneb gan gywilydd, ond methwn ag wylo. Gosododd yntau ei law ar fy mhen, a dywedodd,—

“A anghofiaist di fod Duw yn dy weled?” Gwânodd ei dôn ddifrifol i waelod fy nghalon. Yna dywedais y cwbl wrtho.

“Nhad,” meddwn wrtho wedi'n, “beth a wnaif? A ellwch chwi faddeu i mi? A allaf fi fod yn ddedwydd eto?” Erbyn hyn yr oeddwn yn llefain allan.

“Fy mab,” ebe yn araf a gofidus, “yr wyt wedi tori cyfraith yr Arglwydd; wedi gwneyd cam & brawd anwyl, ac wedi dystyrio ymddiried dy deulu.” Buasai yn dda genyf pe buasai yn fy chwipio, neu yn fy ngyru ymaith yn ddigofus; gallaswn oddef hyn gant gwell na'i wedd serchog a'i dôn ofidus. “Ond, yr wyf yn diolch i Dduw,” meddai, “dy fod wedi cyffesu dy bechod; mae hyn yn dangos dy fod yn edifeiriol; ac os wyt yn edifeiriol, gellir maddeu i ti a dy adferu.” Cymerodd fi, er fy mod yn fachgen mawr, ar ei liniau; ond nis gallaswn am y byd edrych yn ei wyneb.

Ar ol ymddyddan pellach, arweiniodd fy nhad fi i'r tŷ. Galwodd fy mam, Eben, fy chwaer, a'm brodyr eraill, ynghyd. Yr oedd yn amser cadw yr addoliad teuluaid. Rhoddodd fi i eistedd ar gadair yn nesaf ato. Dywedodd yr holl hanes wrthynt gyda'r difrifoldeb mwyaf. O! yn y fath oleuni dysglaer y dangosodd ddrwg fy mhechod. “Ond,” ychwanegai, “gobeithio fod Ralph yn awr yn edifeiriol; a dywed nas gall byth fod yn hapus heb gael maddeuant. A wnei di, Eben, faddeu iddo?” Wedi ychydig o ymddyddan, dywedodd Eben ei fod yn maddeu i mi o'i galon.

“Yn awr, rhaid i ni ddwyn yr achos ger bron Duw,” ebai, ac aethom oll ar ein gliniau. Gosododd fy nhad ei law ar fy mhen, ac O! fel y gweddiodd dros of, am edifeirwch a maddeuant i mi o fy holl bechodau. Fel y gweddiodd drosom oll! am i ni gael ein sancteiddio a'n cymhwyso i gael cyfarfod â'n gilydd eto yn y nef-odd. Ac O! fel y teimlais ar fy ngliniau pa mor ddrwg yw pechod, cyn y gallai un drwg a wnaethum yn ddirgel ddwyn cymaint o drueni arnaf, peri cymaint o drallod i fy rhieni, a pheri fod yn rhaid cael gwaed Iesu Grist i'w lanhâu.

FY MAB, OS PECHADURIAID A'TH DDENANT,  
NA CHYTTUNA.—DIAREBION i. 10.

## MRS. GRACE PRICE, WATFORD, MORGANWG.

*(Dyfyniad o Farwnad Williams, Pant y celyn, iddi).*

EDI addunedu ganwaith,  
 Addunedau cedyrn cry',  
 Na alarwn 'r ol neb dynion  
 Sydd o fewn y nefoedd fry;  
 Ond y newydd o Forganwg,  
 'Nynodd ynof alar-gân;  
 Cariad losgodd fy adduned,  
 Ac a'i gwnaeth yn ulw mân.

\* \* \*

Mae 'r pregethwyr o bob doniau,  
 O bob graddau yn gyttûn,  
 Wedi taenu maes y chwedel,  
 Ladd o angeu nefol ddyn;  
 Hi adawodd oll a welir  
 Mewn tangnefedd pur a hedd,  
 Ac yn nghapel oer Caerphili  
 Rhow'd hi orwedd yn y bedd.

\* \* \*

Oriau chwech cyn cael yr ergyd,  
 Canu wnaeth fel hyn i ma's,  
 Pawb oddeutu 'r gwely 'n synu,  
 A rhyfeddu Dwyfol ras:—

“O Iachawdwr pechaduriaid  
 Sydd â'r gallu yn dy law,  
 Hwylia 'm henaid,” ebai, “'n fuan,  
 Dros y cefnfor garw draw;  
 Gâd i'r wawr fod o fy wyneb,  
 Rho fy enaid llesg yn rhydd;  
 Nes i'r heulwen ddysglaer godi,  
 Tywys fi wrth y seren ddydd.”

Oddirhwng ei ffryns yn wylo,  
 Aeth ei henaid pur i'r lân,  
 Ac angelion yn ei dderbyn  
 Dan eu hedyn yn y fan;  
 Yna ei ddwyn trwy faith fyddinoedd  
 O gythreuliaid o bob rhyw,  
 A'i anrhegu 'n bwrkas Iesu  
 'N bur o flaen gorseddfainc Duw.

\* \* \*

Canu 'r wyf i'r wraig larieiddiaf,  
 Garedicaf un erioed,  
 Ag a welodd bro Morganwg,  
 Er ca'dd bro Morganwg fôd;  
 Y mae hiraeth trwy fy nghalon,  
 Prin 'r wy 'n credu mai gwir yw,

Iddi fyn'd o Watford allan,  
Ei bod yn Watford eto 'n fyw.

Mi ddych'myga 'i bod yr awrhon,  
'R hyd y gerddi wrth fy nghlun,  
Megys Jones, yn dangos llyisiau,  
A dyweyd enwau pob yr un;  
Ysbrydoli pob blodeuyn—  
Wrth ei liw, ac wrth ei flas,  
Nes gwneyd gardd, heb wybod imi,  
Yn blanigion nefol ras.

Dyma 'r *pinc*, a thraw 'r *carnasiwn*,  
Dyma 'r *tulip* hardd ei liw;  
On'd yw rhai'n, fy mrawd, yn debyg  
I rasmusau nefoedd Duw?  
Dacw 'r lili heraroglaidd,  
On'd yw hona megys gras  
Sydd yn perarogli 'r ardal  
Ddedwydd hono tŷr ef ma's?

\* \* \*

Yn Llangan o dan y pulpud,  
'R oedd ei hysbryd, 'r oedd ei thref,  
Tra fa'i Dafydd yno 'n chwareu  
'N beraidd ar delynau 'r nef;  
Iesu 'r testun, Iesu 'r bregeth,  
Iesu 'r ddeddf, a Iesu 'r ffydd,  
Meddai Jones, a hithau 'n ateb,—  
*Felly mae, ac felly bydd.*

## Y DEUDDEG AWGRYM.

**Y**DDAI yn dda i'r darlennydd ieuanc ddysgu y deuddeg awgrym canlynol ar ei gôf, fel yr argraffer hwy yn ddyfnach yn ei feddwl.

1. Peidiwch byth a gadael hyd yfory yr hyn a ellwch ei wneuthur heddyw.

2. Peidiwch trafferthu arall am beth ellwch wneuthur eich hun.

3. Peidiwch gwario eich harian byth cyn eu hennill.

4. Peidiwch byth prynu yr hyn nad oes arnoch ei eisieu.

5. Mae balchder yn costio mwy na newyn ac oerfel.

6. Anaml yr edifarhëir am fwyta rhy fychan

7. Nid oes dim yn feichus a wneir yn ewyllysgar.

8. Peidiwch byth a rhedeg i gyfarfod y gofid.

9. Peidiwch gadael un diwrnod i fyned heibio heb wneyd rhyw weithred o garedigrwydd.

10. Wrth wneyd pob peth cofiwch y diwedd.

11. Yr hyn sydd yn werth ei wneyd o gwbl sydd yn werth ei wneuthur yn dda.

12. Yr unig ddyn doeth yw yr hwn sydd yn meddwl yn ddoeth am DDUW, am DRAGYWYDDOLDEB, ac am ei ENAID.



### MARTIN A'I CHWAER FACH.

**B**ACHGENYN wyth mlwydd oed oedd Martin. Yr oedd ei dad a'i fam wedi dysgu iddo fod yr Arglwydd yn caru plant bach, ac yn hoffi eu clywed yn gweddio; ac os gwnai ef garu Iesu Grist, a gwneyd yr hyn y mae ef yn ddysgu, y gwnai Duw ei garu yntau, a gofalu am dano. Un diwrnod dywedodd ei fam wrth Martin,

“Martin, rhaid i chwi beidio myned i chwareu gyda Charles a Benjamin; waith plant drwg ydynt, a dysgant chwi i wneyd drwg, a dywedyd geiriau cas; ac wedi'n fe ddiagia yr Arglwydd wrthyh.”

Edrychai Martin yn drist yn wyneb ei fam tra y dywedai hyn, a dywedodd wrthi,—

“Mam, 'does yma ddim plant eraill yn byw yn agos, i mi gael myned i chwareu atynt, ac nid wyf fi am chwareu fy hunan. Fyddaf fi ddim mor hapus os na chaf fyned at Charley a Bennie.”

“Nac oes, mae'n wir,” ebe ei fam, “ddim plant eraill yn agos; ond 'does dim raid i chwi fod wrthyh eich hunan, Martin. Gellwch chware gydag Olivia eich chwaer, a bod yn llawn mor hapus, a llawer mwy diogel, na phe caech gwmni holl blant yr ardal.”

Llewyrchodd wyneb Martin wrth y newydd hwn, oblegid yr oedd yn hynod hoff o'i chwaer fach, Olive. Rhedodd allan ar garlam i chwilio am dani. Pan gafodd hi, dywedodd,—

“Olive, Olive, dewch i ni gael gosod ein hystafell yn daclus i gael cadw cwrdd gweddi bach.”

“O'r goreu, Martin,” ebe ei chwaer fach garedig ; ac aethant ati ar unwaith. Rhoddasant y cadeiriau yn eu lle, a'r clustogau o'u blaen. Ac wedi myned ar eu gliniau, offrymodd Martin y weddi fechan hon ;—


“O Arglwydd, yr ydym ni yn blant drwg iawn, ac yn peri llawer o flinder i'n mam. O Arglwydd, gwna ni yn blant da a hapus. Yr ydym am fod yn dda, a gwneyd pob peth fel mae mam yn dyweyd. O Arglwydd, gwna Charley a Bennie yn blant da hefyd, ac yna bydd 'mam yn foddllawn i ni gael myned i chwarent atynt. O Arglwydd, gwna ni yn blant duwiol, i ni gael myned i'r nefoedd gyda 'nhad a 'mam. Helpa Olive hefyd i fod yn ferch dda, ac i weddio. Amen.”

Ar ol i Martin ddyweyd Amen, trodd at Olive, a dywedodd, “Dyna, gweddiwch chwithau yn awr.” Wedi ychydig o ddystawrwydd a phetrusder, rhoddodd yr eneth fechan fysedd un llaw i bwysu ar fysedd y llaw arall, cauodd ei llygaid duon, dysglaer, ac wele y weddi hon yn dyfod dros ei gwefusau cochion bach ;—

“O Arglwydd, gwna fi yn ferch dda, ac yna bydd fy mam yn fy ngharu yn fwy nag erioed. O Arglwydd, cadw ferch fach fel fi. Amen.”

Gwyn eu byd y bechgyn a'r merched ydynt fel Martin ac Olivia, yn tywallt eu calonau ieuainc ger bron Duw mewn gweddi, a thrwy hyny yn derbyn help i ufuddhâu i'w tad a'u mam !

## HUNANYMWADIAD WILLIAM MASON.

 ADAWODD rhai o'n darllenwyr ieuainc rywbeth er mwyn daioni rhai eraill? Os naddo, gobeithio y gwnant gofio yr adnod hono, “A nyini y rhai ydym gryffion a ddylem gynnal gwendid y rhai gweiniaid, ac nid rhyngu ein bodd ein hunain.”

Yr oedd bachgen bychan unwaith o'r enw William Mason, yr hwn oedd yn ceisio byw yn dda, ac ymwadu âg ef ei hun. Yr oedd yn byw gyda'i fam mewn bwthyn bychan yn agos i dref Woolton, yn ngogledd Lloegr.

Rhyw ddiwrnod daeth ei ewythr, Mr. Jones, i'w gweled ; ac wrth eistedd a siarad, gofynodd i William beth oedd y peth goreu ganddo i'w gael yn y byd.

“O, fy ewythr !” meddai William, “cael iar wên brydferth, yr hon fyddai yn dodwy ; ac yna gallwn wneyd cw b iddi yn nghornel y buarth, iddi gael dodwy yno.”

“O'r goreu,” meddai ei ewythr ; “mynaf weled beth a allaf wneyd i chwi yn y ffordd yna.”

“A ydych chwi yn sicr yn myned i rod-di iar wên i mi, fy ewythr ?” gofynai William.



"Ydwyf," oedd yr ateb.

"O, diolch i chwi, diolch i chwi!"

Aeth William i'w wely, ac yn fuan breuddwydiodd am ieir gwynion, ac am eu tai bychain. Boreu drannoeth nis gallasai siarad na meddwl am ddim ond ei iar; ac yr wyf yn ofni nad oedd yn sylwi llawer na meddwl beth a ddywedai ei feistr yn yr ysgol. Trwy yr wythnos ganlynol bu yn brysur yn gwneyd tŷ i'r iar addawedig, o herwydd yr oedd yn fachgen bach ymroddgar, ac nid oedd yn gwastraffu ei amser pryd y gallasai fod o ryw ddefnydd. Bore dydd Sadwrn yr oedd y tŷ yn barod, a meddyliai ef ei fod yn lled dda. Yn y prydawn daeth Mr. Jones â'r iar, ac yr oedd William gymaint wrth ei fodd nes methu gwybod pa fodd yr oedd diolch digon i'w ewythr. Wedi gosod yr iar yn gysurus yn ei chwib, dywedodd William,—

"Fy ewythr, yr wyf yn myned i werthu yr wyau yn y farchnad, a phrynafe gyllell wedi cael digon o arian."

"O'r goreu," meddai ei ewythr, "ond gwyliwch na wna yr iar chwi yn segur yn yr ysgol, ac yn anufudd gartref, onidê âf â hi oddiwrthych eto."

Gobeithiai William fod yn fachgen da, a threiodd ei oreu, a gweddiodd hefyd am beidio cael ei arwain i brofedigaeth. Ymhen oddeutu wythnos aeth William â pheth o'i wyau i'r farchnad, a chafodd chwe' cheiniog am danynt. Wrth ddyfod adref â'r chwe' cheiniog gwerthfawr, dywedai, "Yr wyf yn meddwl y byddai yn well i mi ddodi hwn yn y blwch cenadol na'i wario ar gyllell." Meddyliodd yn hir am y peth, ac yn y diwedd cofiodd am y plant bach oedd draw ymhell, heb Fiblau i ddysgu iddynt y ffordd at Dduw. Felly rhedodd adref ac a'i gosododd yn y blwch cenadol. Yr oedd hyn yn hunanymwadiad, a theimlai William yn hapusach ar ol ei wneyd.

Aeth dwy neu dair wythnos heibio, ac yr oedd gan William ddeunaw ceiniog ar gyfer ei gyllell; ac nid oedd y gyllell ond gwerth hanner coron. Ond rhyw ddiwrnod yn yr Hydref, pan ddaeth adref o'r ysgol, cafodd ei fam yn glaf iawn ac wedi myned i'r gwely. Gwnaeth gwpanaid o dé iddi, ac eisteddodd yn ei hymyl wrth y gwely nes iddi gysgu. Pan yn eistedd fan hono, clywodd ei iar yn clochdar, a rhedodd i gyrhaedd yr ŵy. "O!" meddai William wrtho ei hun, "fel y carai 'mam gael yr ŵy fresh yma! ac nid yw un geiniog yn llawer o beth i gyd." Felly aeth i'r gegin a berwodd ef. Yr oedd ei fam mor foddllawn fel y dywedodd "na chafodd y fath flas ar ddim erioed o'r blaen." Yr ail ddiwrnod yr oedd ei fam yn waeth, a gorchymynodd y meddyg beidio rhoi ychwaneg o wyau iddi hyd nes y byddai yn well.

Yr oedd William yn ofidus iawn am hyny, ac ar y cyntaf meddyliodd beidio gwerthu ychwaneg o wyau, ond eu cadw nes y byddai ei fam wedi gwella; ond wedi'n buasent yn myned yn ddrwg, ac felly penderfynodd eu gwerthu. Pan oedd yn dyfod adref o'r ysgol un diwrnod, wedi i'w fam ddod ychydig yn well, cyfarfyddodd â bachgen o'r enw James yn dyfod o'r ysgol.

"Wel, Bil," ebe James, "a gawsoch chwi eich cyllell byth?"

"Naddo," atebai William. "Mae 'mam yn glaf, ac nis gallaf ei chael am dipyn, waith yr wyf yn rhoi yr wyau iddi hi, ac y mae y meddyg yn dyweyd y gall eu cymeryd yn awr."

"Mor ffol ydych! yr oeddwn yn meddwl eich bod gymaint am gyllell!"

"Ac felly yr wyf, ond y mae eisieu rhagor o nerth ar fy mam," ebe William; ac aeth heibio, ac yn fuan cyrhaeddodd y tŷ. Yr oedd ei fam yn eistedd yn ei gwely; gofynodd i William am ei thê; rhedodd i lawr i'w wneyd, a berwodd ŵy iddi.

"Diolch i chwi, William," meddai'r weddw, "nid oeddwn yn meddwl y buasech gystal mab i mi ag ydych; dewch yma, dangoswch eich cyllell."

"Nid wyf wedi ei chael eto, 'mam; yr wyf yn cadw yr wyau i chwi."

"Wel yr ydych yn fachgen caredig, ac yr wyf yn sicr fy mod yn mwynhâu eich wyau yn well na dim a gefais erioed o'r blaen. Cydiodd William yn ei Fibl, a darllenodd i'w fam yr unfed Salm ar ddeg wedi'r pedwar ugain. "Y fath Salm hyfryd yw hona," meddai ei fam; "'nawr, William, a ddarllenwch chwi y bymthegfed bennod o'r Rhufeiniaid?" Wedi i William ddarllen y tair adnod gyntaf, dywedodd, "Mam, mae yn well genyf y tair adnod yna na dim sydd yn y Bibl; y mae mor hapus i wneyd rhywbeth i foddio eraill, ac i'w helpu ar eu ffordd i'r nefoedd."

"Gobeithio eich bod yn gwybod y wers yna, William; y mae yn galed a diflas nes y byddoch wedi ei dysgu; ac yna mae mor hapus i ddilyn esiempl Crist, 'Canys Crist nis boddhâodd ef ei hun.'" Yr oedd William newydd orphen y bennod pan ddaeth y meddyg i mewn, a rhedodd i lawr i edrych ar ei iar, yr hon oedd yn lled ddof. Ond faint oedd ei syndod pan aeth i edrych i'r nyth, a chael yno dri ŵy—dau fychan ac un mawr. Clywodd swm ceiliog yn canu wrth ei gefn, a throdd, a gwelai geiliog bychan gwyn a dwy o ieir bychain gwynion.

"Wel, pa fodd yr ydych yn leicio eich rhodd?" meddai James, y bachgen mawr a gyfarfyddodd yn dyfod o'r ysgol yn y boreu. "Hoffais y peth oeddech yn ddyweyd boreu heddyw, Bil, am foddloni eraill; ac yr wyf yn gobeithio, trwy gymhorth yr Arglwydd, i ddilyn eich esiempl."

"Diolch i chwi, James; yr ydych yn garedig; ond treiwch ddilyn esiempl Crist, ac nid yr eiddof fi."

Felly daethant yn gyfeillion mawr, a chafodd William ei gyllell yn fuan, o herwydd daeth ei fam yn iach, ac ni fynai ychwaneg o'i wyan.

AMMHEUS.

“ID wyf wedi yfed yr un dyferyn o licher er ys blwyddyn,” ebe dyn o arferion go ammheus. “Ai ê,” ebe cyfaill; “ond pa un ydym ni i gredu, eich gwefusau neu eich trwyn?”



ROBERT RAIKES.

**M**AE coffadwriaeth Robert Raikes, o Gaerloew, yn fendigedig gan bob dyn ag sydd yn caru yr Ysgol Sabbothol, oblegid mai efe yw ei sylfaenydd. Ychydig a wyddom am ddyddiau boreuol Mr. Raikes, oddigerth ei fod yn olygydd newyddiadur, ac yn foneddwr caredig a chymwynasgar. Gwyddom hefyd iddo gymeryd y dyddordeb mwyaf yn addysgiad y dosbarth iselaf yn y dref lle yr oedd yn byw. Ymwelai â charchar y dref, a thalai symiau bychain i'r carcharorion oedd yn gallu darllen am ddysgu y rhai nad allent. Daeth achos plant y dref, y rhai a ymdyrent at eu gilydd i segura a gwneuthur drwg ar ddydd yr Arglwydd, yn bwysig ar feddwl y dyn da hwn. Wrth fyfyrion ar hyn, dywedodd wrtho ei hun,—“A ellid dim casglu y meibion a'r merched hyn at eu gilydd, a'u dysgu i ddarllen? Pam nad ellid cael *ysgol ar y Sabboth?*” Y syniad daionus hwn yn meddwl y duwiolfrydig Raikes, a esgorodd ar sefydliad bendigedig yr **YSGOL SABBOTHOL**. Bu Raikes yn talu i wragedd a fedrent ddarllen am gymeryd tŵr i'w dysgu am awr neu ddwy bob Sabboth. Yn y darlun uwchben gwelir ef yn cyttuno âg un o'r cyfryw wragedd, ac yn cyfeirio at dŵr o blant oedd yn chwareu gerllaw ar y pryd. Y mae genym un hanesyn tarawiadol i'w adrodd er dangos cymeriad rhagorol y boneddwr crigionogol hwn, a pha mor ddiffrifol oedd ei fryd ar godi y plant i fyny mewn addysg a rhinwedd.

Yr oedd yn arfer talu ymweliadau mynych â rhieni a'u plant yn eu cartrefleoedd. Un diwrnod galwodd gyda dynes dlawd,

a chafodd gyda hi ferch wrthnysig, yn llefain ac yn ymgyndynu. Achwynai ei mam nad oedd cerydd yn tycio dim, gan ei bod yn ymgyndynu dano, ac yn myned waethwaeth. Wedi gofyn cenad y fam, dechreuodd Mr. Raikes siarad yn ddirifrol â'r ferch; ac yn y diwedd dywedodd wrthi, mai y cam cyntaf tuag at wella oedd syrthio ar ei gliniau a gofyn maddeuant ei mam. Parhâi y ferch yn sarug a chyndyn. "Wel ynte," ebe'r boneddwr, "os nad oes genych chwi barch i chwi eich hunan, y mae genyf fi barch i chwi. Ewch i ddinistr a cholledigaeth os na ddechreuwch fod yn ferch dda; ac os nad ydych chi yn ymostwng, rhaid i mi ymostwng drosoch, a gwneyd dechreuad i chwi." Yna aeth ar ei benliniau ar y llawr o flaen mam y ferch; rhoddodd ei ddwyllaw yn mhleth, a chyda holl symlwydd plentyn, dechreuodd ddeisyfu am bardwn. Ond wrth weled y gŵr bonedig ar ei liniau ar y llawr drosti hi, cyn ei fod wedi dyweyd dau air gorchfygwyd ei balchder a'i chyndynrwydd, torodd i wylo yn uchel, syrthiodd ar ei gliniau i ofyn pardwn ei mam a Mr. Raikes, ac ni chafwyd gofid gyda hi byth mwy.



## MARY MARTIN—Y FERCH GOLLEDIG.

### PENNOD I.

**I**RODDI i'r darlennydd gipolwg ar hanes ryfeddol Mary Martin, rhaid i ni ei arwain i ganol Llundain. Mae Llundain yn fyd mawr ynddi ei hunan. Yno mae penefigion, masnachwyr, a chyfoethogion penaf y byd yn byw; ac yno hefyd y mae tlodion, lladron, llofruddion, a phob drwgweithredwyr yn ddirifedi. Mae yno filoedd o ferched ieuainc heddyw, rhai o bob parth ac o bob gwlad, ag y byddai eu hanes, fel eiddo Mary Martin, yn ddigon i daro yr holl fyd â syndod. Mae *Whitechapel* yn sefyll o fewn tua milldir i Bont Llundain. Mae yno lawer o fasnachdai a thafarndai isel, a miloedd o wehilion cymdeithas wedi ymdyru ar draws eu gilydd, ac yn byw mewn conglau a chyrtau mor afiach a thruenus, fel nad oes gan y Cymro gwledig yr un syniad am y fath drigle.

Yr oedd y nos yn dywell, y gwlaw yn disgyn yn drwm, a'r gwynt yn chwiban, arddiwrnod yn nechreu mis Tachwedd, 1840, pan oedd dyn cryf, barfog, tua chanol oed, ac yn gwisgo het wellt ar ei ben, yn cerdded ystrôd *Whitechapel*. Yr oedd cloch yr eglwys newydd daro deg. Wrth basio gwelai dyrau o ddynion, yn wryw a benyw, yn llechu yn nghyntedd y tai, ac yn ngyddfau y cyrtiau—rhai yn siarad â'u gilydd yn uchel a llawen, rhai yn mwman canu, ac eraill yn crynu gan anwyd. Safodd y gŵr uchod, yr hwn a adnabyddid ymysg ei gyfeillion wrth yr enw Charley, ar gyfer un o'r cyrtiau hyn, lle yr oedd merch ieuanc â golwg brudd arni yn sefyll.

"Halo! y Fronfraith," ebe efe, "chwi sydd yna?" ac ymaflodd yn ei llaw. Gelwid hi felly oblegid fod ganddi lais canu hyfryd.

“Nos da i chwi, Charley,” ebe y ferch, gan nesu yn ôl yn ofnus.

“Rhaid i chwi fy nhretio i o lasaid o frandi, on’te mi wna i chwi ddawnsio heb ffidil na ffidler,” ebe y gŵr.

“Nid oes genyf fi yr un geiniog o arian,” ebe yr eneth yn grynedig; oblegid yr oedd y dyn hwn yn ddychryn i bawb a’i hadwaenai.

“Wel, cewch eu benthg gan Mrs. Ogley, os yw eich pwrs yn wag,” ebe Charley. Mrs. Ogley oedd gwraig y *Bush*, y dafarn lle y llettyai yr eneth.

“Na chaf, waith yr wyf yn ei dyled eisoes am fenthg y dillad sydd am danaf;” a thrwy ymdrech tynodd ei llaw yn rhydd, a chiliodd ymhellach yn ôl i’r fynedfa dywell.

“Dim o’ch triciau chwi, y ladi,” ebe Charley gyda rheg, a nesäodd ar ei hol yn fygythiol. Yn nhywyllwch y *passage* hwn cydiodd llaw nerthol yn ngholer Charley, taflodd ef i lawr; ac wedi cryn ymgyrch mewn tywyllwch hollol, clywid Charley yn gwaeddi, “Ildio, ildio,—dyna ddigon; mae eich dyrnodiau fel ergydion morthwyl ar fy nghoryn.”

“O, peidiwch, peidiwch a’i guro ar y llawr,” ebe llais mwynaidd yr eneth. Yr oedd grisiau yn mhen draw y rhodfa oedd yn arwain i’r dafarn. Yr oedd y ferch yn awr wedi cyrhaedd i fyny dwy neu dair o’r grisiau. Safai yn y fan hono, a dywedai wrth ei hamddiffynydd anadnabyddus,—

“Diolch, diolch i chwi, gyfaill, am gymeryd fy mhlaid. Tarawodd Charley fi am beidio rhoi brandi iddo, ond fe allai mai cellwair ydoedd. Beth bynag, yr wyf yn awr yn ddiogel; gadewch iddo fyned, a gochelwch rhagddo—oblegid Charley y *bully* ydyw.”

Nid atebodd y gŵr dyeithr ddim iddi, ond ceisiai gael trem ar wyneb y ferch yn ngoleuni gwanaidd y lamp oedd uwch ben y drws. Yr oedd rhywbeth yn ei llais oedd yn swynol iddo.

“Cymerwch ofal,” ebe y ferch eilwaith, gan dynu wrth fraich ei hamddiffynydd; “dewch oddiar ei ffordd; mae yn siŵr o geisio dial arnoch—Charley ydyw.”

“Na hidiwch, fy ngeneth,” ebe y gŵr dyeithr; “os ydyw am ychwaneg, yr wyf yn barod iddo.”

“Nac ydwyf, diolch i ti, y gwalch,” ebe Charley, dan rwbio ei gernau a’i goryn; “yr wyf wedi fy hanner dagu, ac nid wyf yn meddwl y gwelaf oleuni dydd am rai diwrnodau; na, dim ychwaneg heno. Ond nid oes ond un arall o fewn cylch fy adnabyddiaeth a allasai wneyd y peth a wnaethost ti yn awr.”

“Nid oedd genyf un bwriad drwg, dim ond amddiffyn y ferch ddiniwed rhag cael cam genych. Gadawaf arnoch chwi eich hunan i farnu os gwnaethum rhywbeth na ddylaswn.”

“Dim erioed,” ebe Charley; “ac nid oeddwn innau yn meddwl gwneyd niwed i’r Fronfraith ychwaith, er i mi ei bygwth. ‘Does dim drwg wedi ei wneyd,—dim malais; am hyny awn gyda’n gilydd i gael glasaid o frandi.’”

Aeth y tri i mewn i’r *Bush* gyda’u gilydd, yn gyfeillgar. Yr oedd yno ystafell go èang, ond ei bod yn wael a budr; dau fwrdd a meinciau wedi eu sicrhâu wrth y muriau. Dynes dew, arw, a

gwrol, oedd Mrs. Ogley, gwraig y tŷ, ac yr oedd yn cadw tafarn, yn llettya dyeithriaid, ac yn benthyca dillad i ferched, am gymaint a chymaint y tro. Yr oedd ei breichiau a'i dwylaw yn anarferol o fawr; gwisgai napcyn mawr ar draws ei phen, dros ei chap, gŵn gwlanen byr, ac esgidiau coed; ac yr oedd ôl y tân ar eu gwadnau, oblegid y tu cefn i'r counter yr oedd ganddi ystôf fechan at gadw ei thraed yn gynhes.

Tŷ o gymeriad canolig oedd hwn, ac yr oedd pobpeth yn ei wedd yn awgrymu hyny. Yr oedd yno ddau neu dri o gwsmeriaid yn eistedd yn awr, a golwg ammheus arnynt. Yn enwedig y gŵr ieuanc difarf oedd yn eistedd â'i gefn ar y wâl, ei goesau wedi eu codi y naill dros y llall ar ben y fainc, ei ddwyllaw yn mhocedau ei lodrau, ac yn ysmocio yn ddibris.

Ond gan fod y tri ddaeth i mewn yn awr—y ferch, Charley, a'r gŵr dyeithr—i gymeryd lle pwysig yn yr hanes, rhaid i ni roddi disgrifiad manylach o honynt.

Yr oedd Charley yn ddyn o gorff nerthol, gwallt goleu, aelïau mawrion, a llwyni anferth o flew melyngoch ar ei gernau. Yr oedd y llafur caled ar fwrdd rhwyflog am flynyddoedd meithion, lle y bu yn garcharor, wedi melynu lliw ei wyneb.

Enw priodol yr eneth oedd Mary Martin, ond gelwid hi ar liaws o enwau eraill ymysg y rhai a'i hadwaenent. Yr oedd yn awr tuag un mlwydd ar bymtheg a hanner oed. Yr oedd ei thalcen uchel mor wŷn a'r marmor, ac yn gwneyd rhan o wyneb hardd o ffurf wŷy. Anaml y gwelwyd wyneb harddach. Yr oedd ei haelïau duon bwäog yn hanner guddio pâr o lygaid gleision serchog, ond pruddglwyfus. Er ei thrueni, yr oedd ychydig o gochni yn aros yn ei grudd ieuanc dyner. Genau bychain rhwng dwy wefus gwrelaidd, y rhai nad oedd gwên byth i'w gweled arnynt. Yr oedd ei gwallt gwineu yn hongian yn gudynau modrwyog i'w hysgwyddau; ac er fod ei dillad yn ymddangos yn llawer gormod iddi, yr oedd yn hawdd deall fod danynt gynllun o'r corff mwyaf prydferth a golygus. Yr oedd ganddi lais canu hynod o swyngar, a hyny oedd wedi rhoddi yr enw Bronfraith iddi ymysg ei chyd-nabod. Yr oedd wedi bod yn canu yn ngwddf y *passage* rhyw awr yn ol; a'i llais oedd wedi hudo y gŵr dyeithr a gymerodd ei phlaid i droi i mewn i'r cwrn yn ddisylw iddi.

Y gŵr dyeithr a ddaeth ymlaen i amddiffyn Mary a alwn yn Rowland. Ymddangosai tuag un ar bymtheg ar hugain oed, ac yr oedd yn ddyn lluniaidd, taclus, a golwg go gyfrifol arno; ond prin y gallasid dysgwyl cymaint o nerth ynddo ag a ddangosodd yn yr ymgyrch â Charley. Yr oedd Charley yn llawn cleber diystyr; ond ni ddywedai Rowland ond ychydig, eithr teimlai ddyddordeb mawr yn Mary.

"Mae yn bleser cyflogi gwisgoedd i chwi, Mary," ebe Mrs. Ogley, gan lygadu ar *shawl* a gŵn y ferch ieuanc; "oblegid yr ydych yn cadw eich hunan mor lân â châth bob amser."

"Mrs. Ogley," ebe Charley, "dewch â thamaid o swper i'r ford i ni ein tri."

“Beth welwch chwi yn dda i’w gael?” gofynai hithau i Rowland.

“Gofynwch i Charley; efe sydd yn galw, ac mi dalaf finnau.”

“Rhywbeth sydd wrth law, a goreu pa oreu fyddo; a dewch â chwart o win i’r ford gydag ef,” ebe Charley.

Dygwyd y bwyd a’rgwin i’r ford, a dechreuodd y ddau ddyn fwyta.

“Dewch y Fronfraith fach, cnöwch eich cil,” ebe Charley wrth Mary.

“Na, ’does genyf ddim archwaeth at fwyd,” ebe Mary.

“A garech chwi rywbeth arall yn well, fy ngeneth i?” gofynai Rowland.

“Na, nis gallaf fwyta dim,” ebe hi, gan edrych yn bruddaidd, â’i golwg tua’r llawr.

“A fnoch chwi mewn gwledd briodas heddyw, eh?” gofynai Charley.

“Naddo, ni chefais i fwy o wledd heddyw nag arfer. Bwyteais bore heddyw werth dimai o fara a gwerth dimai o lseth; dyna fy holl wleddoedd i bob dydd.”

Wedi bod am dro uwchben swper, dywedodd Rowland, “Y mae yn rhy gâs i gŵi i fyned allan o dŷ heno; mynaf beint o frandi a dwfr poeth rhyngom eto; ac i ddifyru ein gilydd, yr wyf fi yn cynnyg fod i bob un o honom adrodd ei hanes.”

“Boddlawm iawn,” ebe Charley; “a gyttunwch chwi, Pol?”

“O, gwnaf fi,” ebe Mary; “ond ni chymer fy hanes i fawr o amser i’w ddyweyd.”

“Wel,” ebe Rowland, “dechreuaf fi. Rowland Dudley yw fy enw, a phaentiwr ydwyf wrth fy nghelfyddyd. Pan fyddaf mewn gwaith, ennillaf o dri i bedwar swilt y dydd. Ac wrth fyw dipyn yn gynnil, yr wyf yn ennill digon mewn tri neu bedwar diwrnod i gymeryd gweddill yr wythnos yn wyliau, a chael tipyn o ddybaco a llymaid o frandi yn y fargen.”

“A fyddwch chwi mewn gwaith cyson?”

“O, na fyddaf; a phan allan o waith, yr wyf yn gorfod byw fel y gallaf.”

“Beth am eich teulu?” gofynai Mary.

“Lladdodd y colera hwynt.”

“Beth oedd eich rhieni?”


“Gwneyd trafodaeth mewn hen ddillad yn *Rosemary Lane*; ond y maent hwy wedi marw er ys blynyddoedd.”

“Gyda phwy ydych yn gweithio?”

“Gyda dyn o’r enw Gilks, yn *Fenchurch street*—hen ddyhiryn cybyddlyd! yr hwn y byddai bron cystal ganddo golli un o’i lygaid, a thalu i’w weithwyr. Dyna’r cymeriad goreu allaf fi roddi iddo; am hyny gadewch ef yn llonydd. Dysgais fy nghreffft gydag ef, er pan yn bymtheg oed. Dyna fy hanes i, ar ychydig eiriau,” ebe Rowland.

“Eich tro chwi, Mary, sydd yn awr,” ebe Charley; “ac mi gadwaf fi fy hanes hyd y diweddaf; oblegid gwn mai fy un i fydd y goreu.”

(I w barhdu.)



TWR LLUNDAIN.

PENNOD III.—SYR THOMAS MORE.

**D**R oedd Syr Thomas More yn un o brif ysgoleigion Lloegr yn amser teyrnasiad Henry VIII., a gwnaed ef yn Ganghellydd y deyrnas ar ol darostyngiad y nodedig Cardinal Wolsey. Cwmpodd Henry allan â'r Pab, gwrthododd ymostwng iddo, a chyhoeddodd ei hunan yn ben yr eglwys, yn y wlad hon, yn ei le. Yr oedd rhai yn hwyrfrydig i gydnabod uwchafiaeth Henry mewn pethau eglwysig, ac am hynny tynent ddigofaint y brenin am eu penau.

“Yr oedd John Fisher, esgob Rochester, dyn enwog am ei ddysg a'i dduwioldeb, wedi bod yn dihoeni yn y Tŵr am flwyddyn gyfan am wrthod cydnabod Henry yn ben yr eglwys. Anfonodd y Pab het cardinal iddo am ei ffyddlondeb a'i zel; ond dywedodd Fisher fod yr anrhydedd hwnw mor ddibwys yn ei olwg, fel na fuasai yn ymostwng i godi yr het goch pe buasai yn gorwedd wrth ei draed. ‘Ha!’ ebe Henry, pan glywodd, ‘gall y Pab anfon het iddo, ond cymeraf fi ofal na chaiff ef yr un pen i'w gwisgo.’ Ar yr 22ain o Fehefin, 1535, llusgwyd yr hen esgob parchedig allan o'r Tŵr, a thorwyd ei ben. Rhoddwyd ei ben llwyd ar Bont Llundain, a'i wyneb tua bryniau Kent, lle y treuliodd gynifer o flynyddoedd dedwydd.

“Wedi dienyddio Fisher, prysurwyd at achos Syr Thomas More, yr hwn hefyd oedd wedi bod yn garcharor yn y Tŵr am flwyddyn, oblegid yr un trosedd. Tybiwyd y buasai cosbedigaeth Fisher yn ei ddychrynu, a gwnaed ymdrech i'w ennill drosodd i gydnabod



uwchafiaeth eglwysig y brenin ; ond yr oedd More wedi gwneyd ei feddwl i fyny i farw, yn hytrach nag actio yn erbyn ei gydwybod. Anfonwyd cynghor o glerigwyr ac eraill ato i'r Tŵr i'w holi, ac i geisio ei rwydo yn ei ymadroddion. Atebodd y cwestiynau yn ffraeth ac agored ; ond pan ofynwyd am ei gydsyniad âg ysgariad y brenin â Catharine ei wraig, ei dderchafiad i fod yn ben yr eglwys, dywedodd More,—Nad oedd wedi dyweyd dim ar y pynciau hyny, ond yr hyn a ddywedodd wrth y brenin ei hun, a'i fod yn dymuno cael bod yn ddystaw. Yr oedd wedi dyweyd mewn llythyr cyn hyn—

“Yr wyf yn ddeiliad ffyddlawn, ac yn baderwr dyddiol i'r brenin. Yr wyf yn gweddio dros ei fawrhydi, a'i eiddo, a thros yr holl deyrnas. Nid wyf yn gwneuthur, yn siarad, nac yn meddwl dim drwg, ond yn dymuno da i bawb ; os nad yw hyn yn ddigon i gadw dyn yn fyw, y mae yn well genyf fi beidio cael byw. Yr wyf yn marw eisoes ; a thybiais lawer gwaith er pan wyf yn garcharor yma, y buaswn wedi marw cyn pen awr. A diolch i'r Arglwydd, nid oedd yn ddrwg genyf weled hyny yn dyfod, ond yr oedd yn ddrwg genyf weled y clefyd yn ymadael ; felly y mae fy nghorff yn barod at ewyllys y brenin. A dymunwn gan Dduw i fy marwolaeth wneyd rhyw ddaioni iddo.’

“Ond ni feddallhawyd calon Henry gan ysbryd rhagorol More, a gorchymynwyd cymeryd ei lyfrau, a'i bapyr a'i inc, oddiwrtho ; a chyda phren llosgedig, ar dameidiau o bapyr a ddygwyddai gael gafael arnynt yn ddamweiniol, yr ysgrifennai ambell linell at ei anwyl ferch. Wedi blwyddyn o garchariad caethiwus, dygwyd ef ar ei draed, trwy ystrydoedd gorlawn, i Neuadd Westminster, a rhoddwyd cyhuddiad o deyrnfradwriaeth yn ei erbyn. Bu unwaith ei hunan yn brif farnwr yn y llŷs hwnw ; ond y mae yn awr yn garcharor yno, mewn hen ŵn gwlanen garw, ei wedd yn llwyd a thor-edig, ei wallt yn wŷn, olion gorthrymder ei garchariad yn drwm arno ; ac er nad oedd ond 53ain mlwydd oed, yr oedd yn gorfod ymgynnal wrth ei ffon. Penderfynodd y llŷs fod ei ddystawrwydd yn deyrnfradwriaeth, a chondemniwyd ef i farw. Wedi cyhoeddi y ddedfryd, dywedodd More ei feddwl yn eglur, fod trawsfeddiant Henry o'r awdurdod eglwysig yn hollol anghyfreithlawn. Ond dywedodd hyn gyda'r un addfwynder ysbryd ag arferol, a ffarweliodd â'r llŷs yn y modd mwyaf serchog, gan ddymuno cael cyfarfod eilwaith yn y nefoedd. Ar y ffordd tua'r Tŵr, rhuthrodd ei ferch, Margaret Roper, trwy ganol y swyddogion a'i cylchynent, a thaflodd ei breichiau am ei wddf gydag wylofain. Wylodd yntau, ac wylodd pawb, a chafwyd anhawsdra i ysgaru y ferch a'i thad. Ond wedi ffarwelio â'i ferch, dychwelodd ei sirioldeb a'i dawelwch arferol. Dywedodd wrth y swyddog, wrth weled esgynlawr y dienyddle mor sigledig, ‘Cynnorthwywch fi i fyned i fyny yn ddiogel, ond gadewch i mi ymdaro drosaf fy hun am ddyfod i lawr.’ Pan ofynodd y dienyddwr ei faddeuant, fel arferol, dywedodd, ‘Gyfaill, gwnai y gwasanaeth mwyaf i mi heddyw ag sydd ar law dyn i'w wneuthur. Ond mae fy ngwddf yn fyr ; gofala beidio

taro ergyd gwyngam, er mwyn anrhydedd dy alwedigaeth.' Pan wedi gosod ei ben ar y blocyn, ceisiodd gan ŵr y fwyall ddal ei law am foment tra y symudai ei farf oddiar ffordd yr ergyd, a dywedodd gyda gwên, 'Chyflawnodd fy marf yr un trosedd.' Tarawyd ei ben ymaith âg un ergyd, a gosodwyd ef ar Bont Llundain. Nid oedd dim yn ddiffygiol yn ngogoniant diwedd y dyn hwn, ond eisieu gwell achos, mwy rhydd oddiwrth wendid ac ofergoledd."\*



## Y DDAFAD BENLLWYD.

GAN JOHN CEIRIOG HUGHES.

(*Aralleiriad o ddammeg adnabyddus*).

**D**MYSG ryw ddeugain mil  
 O ddefaid bychain penwyn,  
 'R oedd dafad benllwyd fach  
 Yn byw ar Fynydd Berwyn;  
 Ac ni fu dafad fach erioed  
 Mor hir ei phen a chwim ei throed.

Fel ebol tros bridd ' wadd,  
 Neu gath tros ben llygoden,  
 Hi neidiai tros y gwrych,  
 Ac yn ei hol drachefen :  
 Gorweddai ' lawr gan gnoi ei chîl,  
 Yn feistres ar y deugain mil.

Ar ben y graig gerllaw  
 'R oedd blewyn glas† yn tyfu;  
 Ac i ddanneddau 'r graig  
 Yr adar ddoent i nythu—  
 Ac ebe 'r ddafad, "Gwaith go gas  
 Yw dringo at y blewyn glas."

"Mae 'r defaid, flewyn glas,  
 Yn bwyta grug ac eithin;  
 A thithau wrth eu pen  
 Yn gwenu ac yn chwerthin :  
 Mae yma ddeugain mil a'th bawr,  
 Os doi di dipyn bach i lawr."

Ond ni ddoi 'r blewyn glas  
 I waered oddiyno,

\* O'r 3ydd rhifyn o "Hanes Prydain Fawr," gan y Golygydd, a gyhoeddir yn awr gan J. Rosser, Abertawy.

† "Blewyn glas" y gelwir rhyw lanerch fechan lle mae y glaswellt yn nodedig o felus.

A'r ddafad benllwyd aeth  
I ddringo tuag ato;  
A dringo bu am bedair awr,  
I fyny 'r hen ddanneddau mawr.

Cyrhaeddodd ben ei thaith,  
Ac fel pe b'ai mewn newyn,  
Cyn cnoi ei chyl un waith  
Bwytaodd ef bob blewyn :  
A theimlai 'i hun yn myn'd yn fras  
Pan yn mwynhâu y blewyn glas.

Bu fyw am bedair blynedd  
Yn dew a thÿn ei chroen ;  
Ond ar y creigiog ddannedd  
Hi gollodd bedwar oen :  
A hi a gwmpodd dros y trwyn,  
I'r dibyn mawr ar ol yr ÿwn.

'R un fath a'r ddafad benllwyd,  
Aeth llawer dyn yn fras,  
Wrth griplan tua 'r dafarn,  
Lle tyfai 'r blewyn glas :  
A'r diwedd oedd i'w blant a'i wraig,  
Ac ef ei hun, fyn'd tros y graig !



## YSTORIAU I'R DARLLENWYR IEUENGAF.

### III.

#### YR HEN FENYW A'R LLYSIAU.

**A**FODD Alice, geneth fach brydferth, yr hen wreigan uchod  
ryw ddiwrnod yn eistedd i orphwys dan gysgod pren tu allan  
i glwyd yr ardd.

"A oes eisieu rhywbeth arnoch ?" gofynai Alice.

"Oes, anwyl blentyn," meddai, "mae eisieu gwisg newydd arnaf."

"Gwisg galico brydferth ydych chwi am gael ?" gofynai Alice.

"Na, heneiddia hono yn rhy fuan," meddai yr hen fenyw dlawd.

"Un wlan dywell, ynte ?" gofynai Alice.

"Na, treuliai hono allan yn fuan," atebai.

"Un sidan, ynte ?" gofynai Alice.

"Na, nid oes genyf ddim yn ddigon gwych i wisgo gydag un  
sidan," atebai y fenyw ; a meddyliai Alice yr un peth.

"A garech chwi gael un frith brydferth ?" gofynai y plentyn  
eilwaith.

"A hono yn rhy fuan allan o'r ffasiwn," meddai.

"A ydych chwi yn prisio llawer am y ffasiwn ?" gofynai Alice.

"Yr wyf am i'r wisg barhâu am fil o flynyddoedd neu ragor,"  
ebe'r ddynes.

"O !" meddai Alice, gan gilio yn ôl, o herwydd tybiai fod yr  
hen fenyw wedi colli ei synwrau, "a ydych chwi yn dysgwyl

byw cyhyd a hyny? Mae mil o flynyddoedd yn llawer iawn iawn o amser, ac yr ydych yn lled hen yn awr."

"Byddaf fi byw yn hŵy na hyny!" meddai y fenyw.

"Wel, gofynaf i fy mam," meddai'r ferch fach, yr hon oedd wedi ei chythryblu yn fawr; "os ydyw hi yn gwybod pa wisg sydd yn eich taro, fe allai y pryn hi un i chwi."

"Nid yw eich mam yn ddigon cyfoethog i'w phrynu, fy mhlentyn."

"Mae fy nhad yn gyfoethog," meddai Alice.

"Nid yw yn ddigon cyfoethog i brynu y wisg wyf fi am gael," atebai y fenyw.

"A ydych chiwi am wisgo fel brenines?" gofynai Alice.

"Nac wyf; ond yr wyf am wisgo fel merch brenin?"

"Mae yr hen fenyw wedi dwli," ebe Alice wrthi ei hun; "mae yn siarad mor ôd. Nid wyf fi yn gwybod lle y cewch y fath wisg," ebe yn uchel; "rhywbeth na heneiddia ac na wisga allan, ac nad ä allan o'r ffasiwn."

"Ië, ac un nad ellir ei difwyno na'i dystrywio," ychwanegai yr hen fenyw; "gwisgwch hi pryd a lle y mynoch, ceidw bob amser yn wŷn a dysglaer."

"O, wel!" ocheneidiai Alice mewn syndod. "Carwn innau yn fawr gael y fath un," meddai. "A allai merch fach gael un? Ond fe dyfai merch fach drwyddi."

"Na wnelai," ebe'r fenyw, "gallech gael y wisg fel ag y byddai yn eich ffittio bob amser."

Yr oedd y plentyn wedi ymgolli mewn syndod. "A welwch chiwi yn dda i ddyweyd wrthyf beth ydyw, a pha le y gallaf ei chael," ebe hi.

"Gwisg iachawdwriaeth ydyw, a mantell cyfiawnder, yr hon a weithiwyd gan Iesu Grist i chwi a minnau, fy anwyl blentyn," meddai yr hen fenyw gyda thôn serchog. "Daeth Crist i dynu ymaith ein hen fratiau budron, ac i'n gwisgo mewn dillad gwynion, a'n gwneuthur yn blant addas i Dduw, y Brenin mawr, ac i fyw yn ei balas yn oes oesoedd. A garech chiwi ddim byw yno, anwyl blentyn?"

"Carwn," atebai y plentyn; "yr wyf am fod yn un o blant Duw; mae arnaf hiraeth am hyny o hyd. A ydych chiwi yn meddwl y rhydd ef i mi wisg nefol?"

"Gwna, mi atebaf fi drosto, ond i chwi ofyn ganddo mewn gweddi."

"Ai y wisg hon," meddai Alice, "oedd y prydydd yn son am dani yn y pennill hwnw,—

‘Oll yn eu gynau gwynion,  
Ac ar eu newydd wedd,  
Yn debyg i'w eu Hargtwydd  
Yn dod i'r làn o'r bedd!’”

"Ië, fy mhlentyn, ebe'r hen wraig, "a gobeithio y gwelir chwithau yn eu mysg, ac yn ateb y desgrifiad yn y pennill hwn;—

'Yn bur, yn ddifrycheulyd,  
 Yn ddysglaer iawn eich llun,  
 Yn deilwng chwaer a chyfaill  
 I Iesu Grist ei hun ;  
 A thlysau yn eich harddu,  
 Sef doniau o bob rhyw,  
 Fel b'och yn gwbl deilwng  
 I gadw cwmui Duw.'"

JANE.

---

 YSTORI Y LLYGODEN.

**F**UOCH chwi erioed yn ceisio dal llygoden? Os do, gwydd-och mai un lled anhawdd ei dal yw Mrs. Llygoden. Y mae mor ffals a gofalus, mor llym ei llygad i weled y trap, ac mor ochelgar, fel nas gall pob bachgen heinyf ei dal. A gellid meddwl ei bod yn deall at beth y gwnaed trap. Nid oes gwahaniaeth pa mor dda y dodwch yr abwyd ynddo; cerdda o gwmpas iddo, a llygada arno, ac fel pe dywedai, "A ydych chwi yn meddwl fy mod mor ffol a myned i gael fy nal gan beth fel yna?"

Ond er ei holl gyfrwysdra, y mae Mrs. Llygoden yn cael ei dal weithiau.

Ysgrifennodd cyfaill ataf am un, yr hon oedd wedi tori twll â'i dannedd trwy y mur uwchben y llawr. Gosodwyd trap dan y twll; neidiodd y llygoden i lawr, a chlic, meddai y trap. Daliwyd hi yn y fan o herwydd ei bod mor ffol a neidio cyn edrych. Gosodwyd y trap eilwaith. Yr ail fore cafwyd ef wedi ei dynu i fyny hyd at y twll, ac yn cael ei ddal yn y fan hono.

Beth oedd yn ei ddal i fyny?

Yr oedd ail llygoden wedi ei dal wrth ei chynffon, ac yn ei gwaith yn ceisio cilio, rhedodd i'r twll, a thynodd y trap ar ei hol, mor bell ag y gallasai.

Wrth gwrs, cafodd hithau hefyd ei newid i llygoden farw.

A ddysgwch chwi wers oddiwrth y llygod hyn? Neidiodd y llygoden gyntaf cyn edrych. Os byddwch chwithau yn cael eich hudo i ddrwg, cofiwch edrych cyn neidio, rhag i chwi fel y llygoden hono, gyfarfod âg angyu lle yr oeddech yn dysgwyl hawddfyd a llwyddiant.

Credwch fi, y mae o fewn i bob pechod drap echryslawn, ac angyu yn ei ddannedd. Credodd yr ail y gallasai gilio wrth neidio drosto. Edrychodd cyn neidio, ond ni neidiodd yn ddigon pell. Dysgwch ynte i beidiodd twyllo eich hunain â gobaith y gellwch gyflawni pechod, a dianc y trap. Gellwch feddwl weithiau y gall-ech neidio ddigon pell i ochelyd y fagl sydd yn gorwedd ynglŷn â'r pechod; ond yr ydych yn camsymied, gyfeillion; nid oes dyn na phlentyn a ddichon neidio yn ddigon pell i ddianc rhag y gosbedigaeth sydd yn canlyn gwneuthur drwg.



# TRYSORFA Y PLANT.

RHIF. XX.]

AWST, 1863.

[CYF. II.]

## PREGETH I FMAU.

TALFYRIAD O TODD.

"Ac yr oedd yn sefyll wrth groes yr Iesu, ei fam ef."—IOAN XIX. 25.

**P**AHAM y mae y fath gariad wedi ei osod yn mynwes y fam at ei phlentyn, nas gall un iaith ei ddesgrifio? Gwelsoch y plentyn yn marw, a chlywsoch alarnadau y tad. Mae wylofain Dafydd uwch ben ei fab yn para i swnio yn eich clustiau hyd heddyw; ond y mae trallod y fam yn rhy ddwfn i wylofain. Ni chlywir ei llais hi ar y cyfryw amgylchiad. Nid yw natur wedi rhoddi moddion a all drosglwyddo ing ei thrallod hi. Paham y creodd Daw y fath gariad yn ei chalon?

Ceisiasf ateb y cwestiwn i chwi. Am mai iddi hi, ymlaenaf, y mae yn cyflwyno y trysor sydd yn rhy werthfawr i'w ymddiried ond i ofal cariad nas gellir ei fesur. Beth a wna wrth roddi plentyn i ofal y fam? Y mae wedi gwneyd creadigaeth newydd; mae wedi creu **MEDDWL** sydd i fyfyrto, i deimlo, i fyw, i dyfu, ac eangu byth bythoedd! *meddwol* sydd i actio ar feddyliau eraill, a dylanwadu ar eu tynghed am dragwyddoldeb; *meddwol* sydd i dderbyn ei lonaid o wynfyd neu wae, ac i dywallt gwynfyd neu wae ar feddyliau eraill, yn oesoesoedd. Gosodir ysbryd newydd dan ofal y fam yna, sydd yn rhwym o linellu ei lwybr ymlaen yn

y byd tragwyddol, a dwyn gydag ef lawenydd neu drueni—nid am ddiwrnod nac oes, ac nid tra paro y byd, ond nes byddo deng mil o fydoedd wedi treulio ymaith; ac ni fydd ond megys cychwyn ei fodolaeth wed'yn. Bydd y baban acw byw, yn fendith neu yn felldith, wedi i'r haul ddarfod llewyrchu, a theimlir oddiwrtho wedi i'w oleuni ef hen ddiffodd. Dyma y rheswm na fynai ei Grëawdwr ei ymddiried, yn nghychwyniad ei fodolaeth, i ofal neb ond mam sydd â'i chariad ato yn ddifedur.

Ni ddeallir byth, y tu yma i fyd arall, y dylanwad a gafodd ei fam ar Moses, yr hon a fagodd y plentyn i fyny, ac a roddodd y fath argraffiadau crefyddol ar ei enaid, fel y methodd teyrnas a choron ei demtio oddiwrth wasanaeth ei Dduw. Fe allai eich bod yn barod i ddyweyd nas gellwch chwi ddysgwyl i'ch plentyn ddyfod yn Moses. Gwir, ac nid oedd Jochebed yn dysgwyl hyny ychwaith. Ond pan gwrddoch â bachgenyn ar yr ystryd, pwy a feiddiai ddyweyd na ddaw y bachgen hwnw yn fendith yn ei ddydd a'i genedlaeth? Mae Duw wedi bwriadu yr ysbrydoedd yma i ddybenion pwysig, ac y mae wedi darparu calon mam i ofalu am danynt—i ddysgwyl wrtho Ef am help i feithrin y plentyn—a thrwy amynedd, dagrau, a gweddïau, i'w osod ar ben y ffordd i fod, ryw ddiwrnod, yn seren mewn gogoniant. Os cyll y tân oddiar ein hallorau—os daw rhyw Jeremïah arall i ganu galar-nadau angladdol uwch ben bedd ein cenedl, yr achos o hyny fydd i famau ein gwlad anghofio eu dyledswyddau a'u dylanwad, ac esgeul-uso bedyddio eu plant â gweddïau. Wrth fod y fam yn hau hadau gwirionedd tragwyddol yn ysbryd anfarwol y plentyn, y mae yn gwneyd gwaith a gaiff ei deimlo byth; a chaiff ei llafur ei gyd-nabod wedi i deyrnasoedd ac ymherodraethau y ddaear ddiifanu, ac wedi i hyawdledd seneddwy'r, a gwroldeb rhyfelwyr, gael eu hanghofio byth bythoedd.

Amcan mawr y fam, gan hyny, ddylai fod, magu ei phlentyn ar gyfer tragwyddoldeb; i wasanaethu Duw ger ei fron yn oesoedd. Ni fydd prydferthwch ei ymddangosiad ond dibwys. Pa bwys gymaint pa un ai cyfoethog ai tlawd a fydd ar y ddaear? Beth waeth a fydd o gael dirmyg yn lle clod ymysg dynion, ond iddo gael ei anrhydeddu gan y nefoedd, gan yr eglwys, gan yr angelion, gan Grist, a chan Dduw y Tad? Magwch eich plentyn ar gyfer y nefoedd. Os na chewch y fraint o fagu apostol yn y byd hwn, gellwch fagu angel ar gyfer y byd a ddaw. Os na chewch ei weled yn wrthddrych mawrygiad yma, gellwch gael ei weled yn sefyll ymysg plant y goleuni, ar ddeheulaw yr Iesu, yn y byd tragwyddol.

Yn awr, ceisiaf ateb dau gwestiwn;—Pa fodd y gall y fam wneyd hyn? a phaham y dylai?

#### 1. PA FODD Y GALL Y FAM FAGU EI PLENTYN I DDUW?

Dylwn ddyweyd ar unwaith y dylai weddio yn ddyfal, yn daer, a dibaid; oblegid

*Y mae yn rhaid iddi wrth ddoethineb.* Mae y plentyn i dderbyw ei argraffiadau a'i syniadau cyntaf oddiwrth ei fam; ac y mae arni

hithau eisieu deall y ffordd at ei feddwl a'i galon, a bod yn fedd-iannol ar y dylanwad priodol i iawn gyfeirio y meddwl a'r galon ienanc. Ac nid yw y ddoethineb yma i'w chael ond trwy ymarferiad cyson & Duw mewn gweddi.

*Dylai fod gan y fam ddysgyblaeth dda arni ei hun.* Pwy all bob amser, ac ymhob amgylchiadau, lywodraethu ei thymherau a'i theimladau, heb help gras Duw at hyny? O fam! ni ddylech wgu ar eich plentyn mewn digofaint; ni ddylech lefaru wrtho mewn nwyd; ni ddylech ei geryddu mewn llymder cyffrôs; ac ni ddylech ei ddysgyblu mewn tymher ddrwg. Ni ddylai eich amynedd byth ddiffygio, na'ch tymherau byth gyffroi. Nis gellwch byth gael y fath lywodraeth arnoch eich hun ond trwy weddi ddyfal; na'i chadw, ar ol ei chael, ond trwy yr un moddion. Eto,

*Rhaid i'r fam fod yn benderfynol.* Rhaid iddi fod yn benderfynol yn erbyn y teimlad mwyaf tyner, a'r llais mwyaf hyfryd a swyngar. Nid oes gan eich plentyn yr un farn, a llawer gwaith yn y dydd y rhaid i'w ddymuniadau ef gael eu darostwng i'ch hewyllys chwi. Pan fyddo yn iach, dylech fod wrthi yn gyson yn mygu ei dueddiadau, yn ei wahardd ac yn ei orchymyn; a phan yn glaf, dylech fod yn fwy gwyliadwrus nag erioed i beidio rhoi gormod o'i ffordd iddo. Hyd yn nôd pe byddai ar ei wely marw, dylech gadw llywodraeth arno, ei orchymyn, a gweled ei fod yn ufuddhâu. Ni ddylai eich penderfyniad a'ch diysgogrwydd roddi ffordd am foment byth yn ei bresennoldeb. Yn wyneb pob teimlad, dylai fod ynoch gymaint o benderfyniad a'ch harweinio i gyflawni eich dyledswydd, hyd yn nôd pe byddai y galon yn gwaedu a'r llygaid yn dyferu. Mae pawb yn edmygu y fam ragorol hono a ddaliai ei mab tra y torid ei glun ymaith, gyda diysgogrwydd na feiddiai y plentyn wrthwynebu, a chlyda thynnerwch a barai iddo deimlo mai ei ddaioni ef oedd mewn golwg. Anaml y cyfarfyddir â dyn â'r ddau rinwedd hyn—penderfyniad a thynnerwch ynddo. Bydd yn gyffredin yn rhy lym neu yn rhy laes. Ond gall y fam feddu y ddau, a'u hactio yr un foment. Eithr rhaid iddi gael cymhorth y Nefoedd. Rhaid iddi ei geisio mewn gweddi, ger bron gorseddfainc y gras, a chaiff ef yno.

Gallaf adrodd hanesyn am ymddygiad penderfynol mam weddw at ei hunig fab. Dywedodd y bachgen eiriau tra anmhriodol yn ngwydd ei chwaer a'i gyfnither. Ceisiodd ei fam ganddo yn garedig ar y cyntaf, ond wedi hyny yn awdurdodol, i wneyd esgusawd i'r merched; ond gwrthododd ar unrhyw delerau. Arweiniodd ef o'r diwedd i ystafell ar y drydedd lofft, clôdd y drws arno yno, a dywedodd na chai weled ei gwyneb hi, na phrosi tamaid o fwyd, hyd onid ymostyngai. Galwodd wrth y drws drannoeth, a gofynodd yn garedig os oedd yn barod i ymostwng. "Nac wyf, mam," oedd yr ateb. Daeth yno yr ail ddydd, a chafodd yr un ateb. Aeth y fam at y drws y trydydd dydd, a chafodd eto y bachgen yn gyndyn. Dywedodd y fam, "James, yr wyt yn meddwl, wrth ddal allan fel hyn, yr ildia dy fam i ti; ond nid wyt yn ei hadnabod. Yr wyf fi ar lwybr fy nyledswydd, a bydd



coed y gronglwyd yna wedi pydru cyn yr ildiaf!" Bore y pedwerydd dydd yr oedd y bachgen yn ddigon parod i wneyd unpeth a geisiai ei fam ganddo. Agorodd y drws iddo, rhoddodd y bachgen ei freichiau am ei gwddf, a chusanodd hi trwy dagrau y ddau, gan ofyn am ei maddeuant. Llawer gwaith y clywyd y bachgen hwnw yn cydnabod, gyda dagrau, mai yr ymddygiad penderfynol hwn o eiddo ei fam weddw fu yn foddion i'w gadw ef rhag dinystr. Unwaith eto,

*Rhaid iddi wrth ddyfalbarhâd.* Mae dyledswyddau mam yn dechreu yn y bore, ac nid ydynt yn dybenu hyd y bedd. Gall eraill orphwys oddiwrth eu cyfrifoldeb, a thafu eu gofal a'u pryder heibio am dro; ond nis gall y fam wneyd hyny am foment. Rhaid iddi hi weithio pan nad oes un llygad i weled na thafod i gannawl; rhaid iddi hi hau pan nad oes argoel am ffrwyth buan. Ond nis gall arfer y fath lafur a dyfalbarhâd heb arfer cymundeb cyson â Duw. Y Bibl a gweddi raid fod ei nerth a'i harfau.

(*I'w orphen yn y nesaf.*)



## Y BACHGEN BACH AMDDIFAD YN MARW.

(*Wrth ei Chwaer.*)

WY 'n marw, Maggie, 'r fynyd hon,  
 Ac O! fy chwaer, bydd lon, bydd lon;  
 Mae heddwch perffaith dan fy mron,  
 A'r nefoedd yn y golwg.  
 Mi bwysa 'mhen, er saled yw,  
 Ar gadarn fraich fy anwyl Dduw;  
 A gwn y cwyd fi ato i fyw:  
 Mae nghartref yn y golwg.

Adnodau ddysgais gan fy mam,  
 Sydd heddyw 'n goleu megys fflam,  
 Nes gwelaf drwyddynt, mor ddinam,  
 Yr Iesu draw yn siriol.  
 'R wy 'n dysgwyl cael ei weled Ef,  
 Cyn nos yfory, yn y nef—  
 Ac O! fy mam, beth am ei llef?  
 A 'nhad, pan âf i'w canol?

Beth ddywedaf wrthynt, Maggie bach,  
 Am danat ti, dy fod yn iach?  
 Ond eto y doi, 'mhen gronyn bach,  
 I'r nefoedd ar ein holau.  
 Dy fod bob dydd, â chalon drist,  
 Yn gollwng gweddi at Iesu Grist,  
 Fod yntau 'n sibrd yn dy glust—  
 Fy mhlentyn, ar adegau.

O paid a wylo ar fy ol,  
 O! Maggie bach, bydd hyn yn ffol,  
 A minnau myn'd i fyw i gôl  
 Fy leau yn oes oesoedd.  
 Mae Tad 'r amddifad eto 'n fyw,  
 Fe 'th geidw rhag cael gormod briw:  
 Ust! Maggie, ust! O! dyma 'Nuw.'  
 Ffarwel, 'r wy 'n myn—n—n—\*.

J. M. JONES

(Ioan Maethlu).

Y BELEN YN YR HET.

GAN Y PARCH. H. W. BEECHER.

AN oeddwn yn fachgenyn tair ar ddeg oed, symudodd fy nhad o dref wledig i Boston. Prif destun fy syndod i yn y lle newydd ydoedd y llongau, ac yn enwedig llongau y llynges, yn *Navy-yard* Charlestown, yr hon oedd yn cael ei gwahanu oddiwrth Boston gan *Charles River*. Daethum yn fuan yn gyfarwydd â'i holl ryfeddodau, ac nid oedd lle cyn na chongl na wyddwn am dano.

Un diwrnod yr oeddwn yn crwydro yn ddystaw trwy hen gelloedd tywyll o ystorfeydd bwledi, lle y cedwid nifer mawr o belenanau y magnelau amrywiol oedd yno. A daeth y peleni chwech a deuddeg pwys yn demtasiwn gref i mi. Nid oedd genyf bwrpas ar y ddaear iddynt. Yr wyf wedi methu dyfalu hyd heddyw beth allai beri i mi eu chwennych. Nid oedd genyf le i'w treiglo yn y tŷ, nac yn y stryd. Eto teimlwn ddymuniad anwrthwynebol i feddiannu un o honynt. Y rhwystr penaf oedd genyf i'w symud oddiar y ffordd, oedd yr addysg oeddwn wedi gael ynghylch lladrata; ond gorchfygais hwnw yn bur fuan gyda lhwylusdod gwladgarol ddylasai, yn hir cyn hyn, fod wedi fy ngyru i'r Senedd, sef nad oedd lladrata oddiar y Llywodraeth yn bechod.

Y pwnc nesaf oedd, sut i ddwyn y belen ymaith, heb i neb fy ngweled? Treiais hi yn fy napcyn poced; ond yr oedd yno yn rhy amlwg. Treiais hi wed'yn yn mhoced fy ngwasgod; ond yno yr oedd ei hanner yn y golwg. Llwyddais i'w gwthio i boced fy nhroswers, ond ymddangosai yn gymaint o lwmp nes y dychrynais rhag myned felly i olwg neb. Yr oeddwn o'r diwedd bron penderfynu glynu wrth fy ngonestrwydd, a'i gadael ar ol, oblegid fy mod yn ffaelau cael ffordd i'w chymeryd ymaith; ond tarawyd fi gan syniad newydd, Tro y napcyn am dani, a gosod hi yn dy het.

Gŵyr yr holl fyd mai poced gyffredinol bachgen yw ei het. Yn ei het y mae yn dwyn napcynau, papyrau, llinynau, llythyr-

\* Ffarwel, 'rwy 'n myn'd i'r nefoedd.

au, topiau, a phob math o bethau nad ellir eu dwyn yn y pocedau eraill. Os ceir nyth yr iâr, dygir yr wyau yn yr het. Os bydd ffirwyth i'w casglu, i'r het â hwy. Os bydd eisieu crug o geryg i'w tafu ar ol adar, cwn, cathod, neu ddeyethriaid, yr het sydd i'w dal. Os bydd eisieu dal y pili pala, yr het yw yr offeryn a'r rhwyd. Yr het yw ei wyntyll pan yn boeth, a'i gysgod pan yn oer. Ac wedi i henaint ystwytho tipyn arni, mae yr het yn gwneyd pêl droed gyfleus iawn. Yr arwydd fod yr ysgol-drosodd neu yn tori i fyny, yw fod yr hetiau yn myned i fyny. A gellir adnabod bore Sabbath wrth agwedd a sobreiddiwch hetiau y bechgyn. Y Sabbath yw unig ddydd gorphwysdra yr hetiau, yn gystal a'r bechgyn.

Felly rhoddais y belen haiarn chwe' phwys, wedi ei rhwymo yn y napcyn, ar fy nghopa, a'r het yn orchudd drosti. Daethum allan o'r ystorfa dipyn yn llai gwrol nag arfer, a dechreuais wneyd fy ffordd tua'r glwyd oedd yn arwain allan o'r yard. Yr oedd pob cam yn ymddangos fel milldir. Yr oedd pob dyn a gyfarfyddwn yn edrych arnaf yn fwy craff ac amheus nag arfer. Credwn yn sicr fod y milwyr yn drwgdybio fod rhywbeth yn yr het. Dyma swyddog yn dyfod i'm cyfarfod; credwn ei bod ar ben arnaf; safai y chwys yn ddyferynau mawr dros fy wyneb. Yn awr am dani. Yr oeddwn i gael fy nghymeryd i fyny, fy nhasflu i garchar, fy fflangellu, ac ni wn i ddim beth. O fel y dymunaswn fod yr hen belen yn ngwaelod y môr!

Erbyn hyn, hefyd, yr oedd y belen wedi myned yn drom iawn. Tybiwn fy mod wedi camgymeryd un ddeuddeg pwys yn lle un chwech; a chyn fy mod allan o'r yard, yr oedd yn bedwar ar hugain! Yr oeddwn yn ofni fod y wedd *stiff* y daliwn fy mhen yn rhwym o fy mradychu. Ceisiais ymuniawni, a bu agos i hyny fy ninystrio, oblegid treiglodd y belen ar fy nghoryn, a bu agos iddi dafu fy het i lawr. Yn wir, yr oeddwn fel *cannon* wedi ei *loado*, a phob dyn, a phob peth a gwrddwn, fel gwreichionen yn ceisio ei danio. Yr oedd y glwyd hefyd ymbhellach nag y gwelais hi erioed o'r blaen, a bwm ymron meddwl na chyrhaeddwn hi byth.

Pan ddaethum at y porth, credais ei bod drosodd arnaf. Edrychai y porthor yn fy wyneb gyda gwên ddrwgdybus, a chystal a dyweyd,—“Ah! y lleidr! cefais di allan.” Ond, bendith arno! cyn i mi gollu fy ngwynt, y cwbl ddywedodd wrthyf oedd, “*Pass.*” Wedi i mi gael y cornel, cymerais fy het a'r belen yn fy mraich, a rhedais tua'r bont gyda chyflymdra fuasai yn gwneyd i Flora Temple eiddigeddu wrthyf. Erbyn myned adref, nid oedd genyf ddim i wneyd â'r belen. Ni feiddiwn ei dangos yn y tŷ; ac wedi i mi ei threiglo ychydig o weithiau, rhoddais hi i hen wr y “*Rags and bones.*”

Ond, wedi'r cwbl, rholiodd yr hen belen *six-pounder* gryn dipyn o syhwyr i fy mhenglog. Y peth olaf erioed a ladratëais ydoedd (oddigerth ambell ddarn o galon yn awr ac eilwaith). A dangosodd i mi yn effeithiol yr ynfydrwydd o chwennyachu pethau nas gallwn eu mwynhâu, yr hyn sydd wedi gwneyd fy mywyd

byth wed'yn yn llawer hapusach. Mae moeswersi a wthir i mewn gan belenau haiarn yn well na dim.

Ond yr wyf yn gweled llawer yn gwneyd pethau cyffelyb i mi yn barhâus; yn ymostwng i hen gelloedd ffiaidd i gasglu golud, fydd yn rholio ar eu coryn fel fy hen belen innau, ac heb ddwyn nemawr gwell effeithiau, oblegid mai aur ydyw, ac nid haiarn. Yr wyf wedi gweled aml un yn darostwng eu hunan yn ddireswm i ennill benyw falch oedd wedi ei geni yn uwch nag ef; ac wedi ei hennill, cafodd deithio y gweddill o'i fywyd â'r belen yn ei het. Yr wyf wedi gweled lliaws o bobl ieuainc yn llafurio ar ol pleserau, gan wneyd aberth o egwyddorion er mwyn eu cyrhaedd, ac heb gael dim yn y diwedd ond y beichiau anhawddaf eu dwyn — y belen yn yr het.

Mae yr holl fyd yn brysur yn ymdrechu am bethau a ddwg ychydig gysur, a llawer o ofal; ac ar fy llwybr ymysg dynion, yr wyf yn fynych yn meddwl, Dyna ddyn ladratâodd y belen; neu, Dyna ddyn â'r belen ar ei ben; yr wyf yn ei wybod wrth ei agwedd yn cerdded. Mae yr arian mae y clerc yn ddarnguddio, o'r diwedd yn troi yn belen yn ei het. Daw balchder, tymher ddrwg, hunanoldeb, a nwydau llygredig, i rollo ar ben dyn, fel pe byddai ganddo belen ar ei ben. A bydd deng mil farw yn New York y flwyddyn hon; ac wrth fod pob un yn syrthio, daw yr het ymaith, a threigla pelen haiarn allan, yr hon y bu yn treulio ei nerth am flynyddoedd i'w dwyn.

---

## CANEUON GWLADOL CYMRU.

GAN J. CEIRIOG HUGHES.

RHIF IX.

### MAE JOHN YN MYN'D I LOEGER.

**M**AE hen dôn wladol o'r enw "*Gofid Gwynan*," ac un leſ dlos ydyw ar y cyfan, ond nid i gyd felly. Ysgrifenyd y geiriau canlynol i'w canu arni, ond nid ydynt yn ymbriodi â'r alaw mor hapus ag y dymunwn. Y mae fy nghyfaill o Gaerlleon, Mr. John Ambrose Lloyd, wedi addaw i ni alaw newydd ar y geiriau; ac yr wyf yn cymeryd y cyfleusdra yma i ddiolch iddo, nid am ei alaw addawedig yn unig, ond am liaws o dônau penigamp, gyda pha rai yr anrhegodd ei gydgenedl. Dymunwn ddyweyd am y gân ganlynol, mai ychydig iawn o ddychymyg sydd ynddi, ond fy mod yn dyweyd fy mhrofiad oreu gallwn.

Mae John yn myn'd i Loeger,

A bore foru 'r â;

Mae gweddw fam y bachgen,  
 Yn gwybod hyny 'n dda :  
 Wrth bacio 'i ddillad gwladaidd,  
 A'u plygu ar y bwrdd,  
 Y gist ymddengys iddi,  
 Fel arch ar fyn'd i ffwrdd.

Map ef yn hel ei lyfrau,  
 I'r gist sydd ar y llawr ;  
 Yn llon gan feddwl gweled  
 Gwychderau 'r trefydd mawr.  
 Nis gwel e 'r deigrin dystaw  
 Ar rudd y weddw drist :  
 Na 'r Beibl bychan newydd  
 A roddwyd yn y gist.

Rhoed iddo lawer anrheg,  
 A thegan bychan cain ;  
 Ysgrifell gan ei ewyth',  
 A chylllell gan ei nain :  
 Fe gymer ddarlun bychan,  
 I gofio 'i chwaer ddi-nam,  
 Fe gymer inc a phapyr  
 I 'sgrifenu at ei fam.

("R wy 'n weddw, fel y gwyddost,  
 I'th dad sydd yn y ne',  
 Ond gelli benderfynu  
 Ddaw yma neb i'w le.  
 'R wyf finnau 'n gorfod teimlo  
 Yn wanach nag y bŵm :  
 Tyr'd adref, pan y gallot,  
 I edrych sut yr ŷm.")

Yn fore, bore drannoeth,  
 Pan gysgai 'r holl rai bach ;  
 Wrth erchwyn y gwelyau  
 Mae John yn canu 'n iach.  
 Carasai aros gartref,  
 Ond nid oedd dim i'w wneyd—  
 Fe *garwsai* aros hefyd,  
 Pe b'asai 'n meiddio d'weyd.)

I gwrdd y trê'n boreuol,  
 Cyn toriad dydd yr â :—  
 "Ffarwel, fy mhlentyn anwyl,  
 O bydd yn fachgen da !  
 Y Nef a'th amddiffyno,  
 Fy machgen gwŷn a gwiw ;  
 Paid byth anghofio 'th gartref,  
 Na 'th wlad, na 'th iaith, na 'th Dduw."

## MAWREDD YN BETH I'W ENNILL.

LYWSOM sylw teilwng o ystyriaeth darllenwyr ieuainc  
 TRYSORFA Y PLANT ar y pwnc uchod, yn Nghymdeithasfa  
 Treffynnon, mis Mehefin diweddf. Gwnaed ef gan y Parch.  
 Lewis Edwards, M.A., D.D., o'r Bala, wrth draethu ar yr Eglwys  
 Apostolaidd, yn ordeiniad amryw weinidogion ieuainc. Cyn  
 dyweyd y sylw, fe allai y byddai yn burion dywedyd gair wrth y  
 darllenwyr am y gŵr nodedig a'i gwnaeth. Mae yn anedig o ben  
 uchaf Sir Aberteifi, ond er ys mwy nag ugain mlynedd bellach yn  
 llywydd, ac yn un o'r ddau athraw, yn Athrofa y Methodistiaid  
 yn y Bala. (Y Parch. John Parry—un o ddynion goreu y byd—  
 yw yr athraw arall.) Rhoddir yr enw Parchedig o flaen ei enw  
 am ei fod yn weinidog yr efengyl, ac nid arferir yr enw hwn  
 ynglŷn âg enwau neb ond gweinidogion. Cafodd yr M.A. (*Master  
 of Arts*) er ys llawer o flynyddau bellach, oblegid ei fod wedi cyr-  
 haedd gradd uchel mewn dysgeidiaeth. Cafodd y D.D. (Doctor  
 Duwinyddiaeth) er ys rhai blynyddoedd yn ol, oblegid ei wybod-  
 aeth helaeth yn athrawiaeth yr efengyl, a'r gwasanaeth y mae  
 wedi wneyd iddi. Mae ef yn hynod anfoddlawn i ymgymeryd â'r  
 D.D., ond myn y wlad ei gydnabod yn Ddoctor; a dywedodd y  
 Parch. Henry Rees, Liverpool, iddo ufuddhâu iddo ef yn Nghym-  
 deithasfa y Sulgwyn, pan alwodd ar "*Dr. Edwards*" i gyfarch y  
 cyfarfod, a bod yn rhaid i'r enw bellach gael sefyll. Felly mae  
 gan DRYSORFA Y PLANT awdurdod i alw y gŵr parchedig ar yr  
 enw hwnw.

Yn ei Draeth yn ordeiniad y gweinidogion ieuainc, nododd bum'  
 peth am eglwys Antiochia oedd yn nodweddiadol o'r Eglwys Apos-  
 tolaidd. 1. Profai sefydliad yr eglwys yn Antiochia fod Cristion-  
 ogaeth yn cymeryd i mewn ac yn llywodraethu pob amgylchiadau  
 er dwyn ymlaen ei hamcanion ei hun. 2. Fod Cristionogaeth yn  
 rhoi mantais i bawb—aelodau cyffredin yn gystal a swyddwyr—i  
 fod yn wasanaethgar drosti. 3. Yr anghenrheidrwydd am ryw  
 ddynion uwchlaw y cyffredin i fod yn arweinyddion. Oblegid er  
 i'r eglwys gael ei sefydlu gan Gristionogion ffoedig, anfonwyd  
 Barnabas yno yn fuan i'w bugeilio. 4. Ysbryd haelioni yr Eglwys.  
 Teulu y Cristion yw yr eglwys, ac y mae yn anghyson fod neb yn  
 gybyddlyd at ei deulu ei hun. 5. Ysbryd Cenadol. Un o'r peth-  
 au cyntaf a wnaeth eglwys Antiochia oedd sefydlu cenadaeth.  
 Gellid cael golwg go glir ar nodwedd yr eglwys apostolaidd ond  
 astudio y pum' pen yma. Ond, rhaid peidio anghoŵio y teitl sydd  
 uwch ben.

Wrth egluro y trydydd o'r penau uchod, dywedodd y Doctor,  
 fod yn ngwaith Barnabas yn dwyn Saul ieuanc i Antiochia, wers  
 bwysig; a bod yn nyrchafiad graddol Paul, wers i ddynion ieuainc,  
 ac yn enwedig i bregethwyr ieuainc. Er fod Paul wedi ei argy-  
 hoeddi trwy foddion tra neillduol, a'i fod yn llestr etholedig, ac  
 yn un o'r gweision hynotaf fu gan yr Arglwydd erioed, eto ennill

ei ddylanwad a'i sefyllfa uchel a wnaeth yn raddol, o ris i ris. Ar y cyntaf, yr oedd enwau pawb gan yr hanesydd, o flaen enw Paul; nid yn unig enw Barnabas, ond hyd yn nôd enw Simon Niger, nad oes cofa ond unwaith am ei enw. Bu adeg pan nad oedd Paul yn eistedd yn y "seat fawr"—os oedd seat fawr yn yr addoldŷ. Bu yn pregethu chwech o'r gloch y bore—os oedd oedfa o'r fath ar y pryd hwnw. Trwy deilyngdod y daeth i fyny. A dyma y ffordd i bawb ddyfod i fyny. Rhaid i grefydd gael dynion mawr, a Duw raid eu codi; ac y mae yn arwydd o farn drom ar eglwys Dduw, ei bod heb arweinyddion o'r holl feibion a fagodd. Ond pa mor fawr bynag y byddont, rhaid iddynt ymgodi i ddylanwad a defnyddioldeb uchel trwy lafur ac ymroddiad diysgog a pharhâus.

A wnewch chwi gofio hyn bob dydd, ddarllenwyr anwyl?

## DOSBARTH Y BIBLAU.

### PENNOD V.

**M**ATTHEW.—PENNOD X.—1. A yw y pedwar Efengylwr yn galw y deuddeg ar yr enw apostolion?

2. Pa sawl gwaith y rhoddir llechres o enwau yr apostolion, ac a ydyw yr enwau yn cyfateb ymhob lle?

3. Oddiwrth ba beth y cafodd Judas yr enw *Iscariot*?

4. Paham y gwaherddid hwy i fyned at y Samariaid a'r Cenedloedd?

5. Pa fodd y cysonwch yr hyn a ddywedir am esgidiau neu sandalau, yn adn. 10, â Marc vi. 9?

6. Pa ddyfodiad o eiddo Mab y dyn a feddylir yn adn. 23?

7. Pwy a feddylir wrth yr hwn a ddichon ddystrywio enaid a chorff yn uffern?

8. Pa fodd yr esboniwch adn. 34, pan yn cael ei llefaru gan "Dywysog tangnefedd"?

9. Beth yw dwyn croes Crist yn awr?

10. Sut y mae y neb a gollo ei einioes oblegid Crist yn ei chael?

11. A oes gwahaniaeth rhwng "prophwyd"—"rhai cyfiawn"—a'r "rhai bychain" (adn. 41, 42)?

PEN. XI.—12. Beth oedd amcan Ioan yn anfon y ddau ddysgybl at Grist?

13. Pa fodd yr oedd Ioan y mwyaf a'r lleiaf (adn. 11)?

14. Pa gyffelybrwydd oedd rhwng Elias ac Ioan?

15. Cyfeirio at beth y mae Crist yn y frawddeg, "A doethineb a gyfiawnhawyd gan ei phlant ei hun?"

16. Am beth y mae Crist yn diolch yn adn. 25, a phaham?

17. A oes gwahaniaeth rhwng dwyn croes Crist, a dwyn iau Crist?



MIS AWST.

**W**EL dyma bryd o *Cherries*,  
 A mafon hyfryd hardd;  
 Fy nhaid, a 'nhad, a mami,  
 A'r babi arnynt chwadd;  
 Cawn fwyta faint a fynom  
 O'r ffrwythau gwridgoch iach;  
 Ac wrth im' helpio f' hunan,  
 Caiff Sambo gwplw bach.



SAMI A'I SUMS.

“**D**YCH chwi yn leicio *ciphero*, Sami bach?” gofynai cyfaill  
 i blentyn wedi dyfod adref o'i ysgol, 'a llêch fawr yn  
 hongian am ei wddf.



“Na, nid yn dda,” ebai Samuel.

“Sut ydych yn myned ymlaen?” gofynai eilwaith.

“O, yr wyf fi yn myned ymlaen yn rhwydd, achos mae Daniel yn gwneyd y *sums* i fi.”

“A ydyw Daniel yn bwyta eich cinio i chwi hefyd?”

“Nac ydyw,” ebai Samuel, gan edrych yn syn, “nis gallwn fyw heb fwyta; allwn i ddim tyfu pe bawn i yn peidio bwyta.”

“Ac nis gall eich meddwl dyfu ychwaith, Sami bach, heb i chwi ei arfer. A byddai yr un mor synwrol i chwi gael Daniel i fwyta eich cinio bob dydd yn eich lle, a'i gael i wneyd y *sums* bob dydd yn eich lle. Bwytwch eich cinio eich hunan, fy machgen i, a gwnewch eich *sums* eich hunan, ac yna tyf eich corff a'ch meddwl.



### Y SWEEP BACH A'R GWR BONEDDIG.

“**ELLWCH** chwi ddyweyd wrthyf y ffordd i Barc St. James, fy machgen i,” ebai boneddwr ar un o ystrydoedd Llundain, wrth *sweep* bach a ddaethai i'w gyfarfod; “os gellwch, rhoddaf i chwi geiniog.”

“Gallaf, syr,” ebai'r *sweep*; “ac os rhoddwch i mi geiniog arall, dywedaf wrthyf y ffordd i'r nefoedd.”

“Wel, dywedwch wrthyf,” ebai y boneddwr, “ac mi roddaf i chwi geiniog.”

“Gellwch ei ffeindio, syr, ond troi i'r bedwaredd bennod ar ddeg o Ioan, a'r chweched adnod. Yno mae Iesu Grist ei hun yn dyweyd, ‘Myfi yw y ffordd, a'r gwirionedd, a'r bywyd.’ Dyna y ffordd, syr.”

Rhoddodd y boneddwr chwe' cheiniog iddo, ac ni fu cymaint o arian yn meddiant y *sweep* bach erioed o'r blaen. Aeth heibio y siopau, o ffenestr i ffenestr, gan betruso beth a brynasai a'r chwe' cheiniog. Unwaith, o flaen ffenestr *cookshop*, penderfynodd brynu ei werth o bwddin; ond wedi myned i'r drws, edifarhodd, a thrôdd allan. Bu mewn profedigaeth eilwaith i brynu *lozenges*; ond ymattaliodd eilwaith. Aeth yn ei flaen i Paternoster Row—heol y llyfrau yn Llundain—a phenderfynodd brynu gwerth ei chwe' cheiniog o draethodan da i'w rhanu ar hyd yr ystrydoedd.

“Pa le y cawsoch y chwe' cheiniog?” ebai y masnachwr llyfrau wrtho.

“Nid ei ladrata a wnaethum, syr, “ebai y bachgenyn;” ond boneddwr a'i rhoddodd i mi am ddyweyd wrtho y ffordd i'r nefoedd.”

“A ydych chwi yn gwybod y ffordd yno, ynte?” gofynai y llyfrwerthydd.

“Ydwyf, syr.”

“Wel, os dywedwch hi wrthyf fi, rhoddaf finnu chwe' cheiniog i chwi.”

“Cewch hi yn y bedwaredd bennod ar ddeg o Ioan, syr; dywed Iesu Grist yno, ‘Myfi yw y ffordd.’”

Rhoddodd y masnachwr chwech iddo ; ond prynodd y *sweep* bach werth y swllt o draethodau, ac aeth allan i'r ystryd i'w gwasgaru. Pan oedd y diweddaf o honynt yn ei law, gwelai foneddwr a golwg bendefigaidd arno, a ffon a chlopa aur arni yn ei law, yn dyfod i'w gyfarfod. Cynnygiodd y traethodyn iddo, ond ni wnaeth y boneddwr sylw yn y byd arno. "Fe allai na chlywodd fi," ebai'r *sweep* bach wrtho ei hun, a rhedodd i'w gyfarfod i heol arall. Daliodd y traethodyn o'i flaen, a dywedodd,—

"A welwch chwi fod yn dda gymeryd y traethodyn hwn, syr?"

"Pa le y cawsoch ef?" ebai'r boneddwr, dan sefyll a syllu ar yr ysgubwr bach. Adroddodd yntau yr hanes yn syml, sut y cafodd yr arian am ddyweyd y ffordd i'r nefoedd, a'r defnydd a wnaeth o honynt. Holodd lawer o gwestiynau eraill iddo, a chafodd ei foddhâu yn fawr yn yr atebion. Yn y diwedd rhoddodd y boneddwr ei garden i'r *sweep*, a cheisiodd ganddo ddyfod i'w dŷ ef drannoeth. Aeth y *sweep* bach ar yr awr benodedig, a'i offer ganddo, gan feddwl fod anghen ysgubo y simneiau. Derbyniodd y boneddwr y *sweep* i ystafell ardderchog. Synai yn fawr at y darluniau a'r addurniadau oedd yno. Yn y man, gofynai y boneddwr iddo,—“A garech chwi fyw yma, fy machgen i?” “Carwn, syr, yn fy nghalon.” “Wel, chwi gewch,” ebai'r boneddwr; “bydd y tŷ hwn yn gartref i chwi mwy.” Anfonwyd ef i'r ysgol, daeth yn weinidog yr efengyl, a gadawodd y boneddwr ei holl feddianau iddo ar ei ol.

ANERGUS CAIONUS.

Y BACHGEN A'R BOTEL.

**BOTEL.** Yr wyt yn fachgen mor brydferth ag a welais er ys llawer dydd. Mae yn dda genyf dy gyfarfod.

*Y bachgen.* Paid di a meddwl fy mod mor wirion a chymeryd fy nhwylllo genyt ti.

*Y botel.* Dy dwyllo, fy machgen i! Pwy glywodd erioed am y botel yn twyllo neb? Na, gwneyd pobl yn llawen yr ydwyf fi—hen ac ieuainc yr ùn fath. Nid oes y fath lawenydd ag sydd yn fy nghwmpeini i.

*Y bachgen.* Yr wyf fi yn gwybod gormod am danat ti, i gymeryd fy hudo gan dy ymadroddion teg. Yr ydym oll bellach yn gwybod am dy dwyll a dy ladradau.

*Y botel.* Lladrad hefyd! Edrych beth wyt yn ddyweyd. Oni bae fod fy nghalon yn llifo drosodd o gariad at ddyn, buaswn yn dy gosbi am y gair yna; ond nid yw yn fy natur i gadw malais at neb.

*Y bachgen.* Os nad yw, y mae yn dy natur i wneyd dynion yn anfoddog at bawb ond atat dy hun. Yr wyt yn alltudio cariad at wraig a phlentyn allan o fynwes gŵr a thad. Llawer gwaith y cedwaist fy nhad i eistedd gyda thi nes gwario ei holl gyflog, a chodi oddiwrthyt &i boced yn wag.

*Y botel.* Camsyniad i gyd. Gwyddost nad wyf fi yn gyfoethog, ac y mae pawb yn gorfod talu i mi am yr hyn y maent yn gael—dyna i gyd. Ni chodais ond hyny erioed oddiar dy dad.

*Y bachgen.* Fe wariodd ei arian am beth nad oedd yn dwyn bara i'w blant, na dillad am eu cefnau—yr wyf fi yn gwybod hyny.

*Y botel.* Fe gafodd werth ei arian gen' i—yr wyf finnau yn gwybod hyny. A phe buasit ti yn ei weled pan oedd yn derbyn o'm llaw—mor llawen a serchog ydoedd!

*Y bachgen.* Gwelais ef droion wedi dyfod oddiwrthyt—ac yr oedd, fel y mae'n ddrwg genyf ddyweyd, yn fwy tebyg i anifail nag i ddyn. Nid oeddit tithau ychwaith mor garedig iddo ag y mynit i mi gredu dy fod, onidê ni fuasit yn ei daflu allan dros dy ddrws am ll o'r gloch y nos.


*Y botel.* Y gyfraith oedd yn fy rhwymo i'w wneyd.

*Y bachgen.* Ai y gyfraith oedd yn dy rwymo i'w daflu allan cyn naw, pan oedd ei boced yn wag?

*Y botel.* Nid wyf yn cofio dim am hyny.

*Y bachgen.* Yr wyf fi yn cofio yn dda, a chefais achos i'w gofio yn hir.

*Y botel.* Wel, gad i bobpeth fel yna basio, a chymer lasiad o win o fy llaw.



*Y bachgen.* Dim dyferyn byth. Nid wyf yn meddwl halogi fy mysedd i gyffwrdd â thi, chwaithach yfed o dy law.

*Y botel.* Twsh! twsh! Mae mwy o wroldeb ynot ti na hyny. Gobeithio nad oes hen dyb ffol fel yna wedi myned i dy ben di. Yr wyf yn clywed fod rhai dynion hannercall yn myned o amgylch ac yn taenu pob drygau am danaf. Gobeithio nad wyt ti yn myned i wrando ar y cyfryw.

*Y bachgen.* Nid oes achos i mi wrando ar neb; mae yr hyn a welais i dan gronglwyd fy nhad yn ddigon i beri i mi ymgadw oddiwrthyt ti.

*Y botel.* Gwna di y prawf, a chei ddeall pethau gwell. Mae cyfiawnder â thi dy hunan ac â minnau yn gofyn hyny.

*Y bachgen.* Yr wyf yn cofio darllen am deithiwr yn Affrica oedd yn cadw mwnci gydag ef i brofi pob ffrwythau gwylltiau cyn y cymerai ef ddim o honynt. Ac os dygwyddai rhywbeth yn annymunol i'r mwnci oddiwrthynt, ni phroffai y dyn hwynt. Yn awr yr wyf fi yn gwybod am gynifer sydd wedi profi y botel ac wedi cael eu dinystrio ganddi; ac nid wyf yn ewyllysio gwneyd prawf pellach, a niweidio fy hun, fe allai, wrth hyny.

*Y botel.* Wel, gad i ni gael ymadael mewn heddwch, beth bynag. Cymer lasiad wrth ymadael.

*Y bachgen.* Dim dyferyn, ar un cyfrif. Ac os na wnei adael fy nhentio, mae genyf rywbeth wna i ti fyned ymaith gyda brys.

*Y botel.* Na, nid wyf mor barod i gymeryd fy nychrynu.

*Y bachgen.* Gwranddo, ynte. Yr wyf yn ddirwestwr—yn aelod o'r *Band of Hope*.

*Y botel.* Dychrynlyd! dychrynlyd! Bachgen o'r oedran hwn wedi alltudio ei hun oddiwrth bob pleser. Ond yr wyf fi wedi adferu cysur llawer un o dy fath. Tyred yn awr, fy machgen i, cymer un dracht o fy nghwpan, a bydd pob peth yn dda.

*Y bachgen.* Na wna!—dyma fy ngharden a'r *Pledge*. Ni thorais, ac ni thoraf, fy ardystiad.



Yr oeddwn yn meddwl y gwnaethai hyn i ti fyned ymaith. Ffarwel! A bŵm bron dymuno i ti dori dy goesau meinion wrth fyned!



## HANES FY HUNAN.

### PENNOD IV.—Y LLONGDDRYLLIAD.

**W**EDI cyrhaedd tir, dychwelodd y cadben caredig bob peth oedd genyf yn y cwch i mi, heb gymeryd dim am ei draul a'i drafferth gyda mi. Wedi i mi werthu y cyfan yr oedd genyf swim go lew o arian yn fy mhoced. Cyfarwyddodd y cad-

ben fi at ddyn gonest oedd yn cadw planigfa siwgr yn y wlad hono, a bŵm yn aros gydag ef am beth amser. Cefais yno gyffe i weled y modd yr oeddent yn gweithio y planigfeydd, mor dda oedd eu perchenogion yn gwneyd, a'r cyfoeth mawr oeddent yn gasglu trwyddynt. Penderfynais innau wario hyny o arian oedd genyf i gael planigfa i mi fy hun. Llwyddais yn fy amcan, a chefais ddyn o'r enw Wells, wedi dyfod yno o Portugal, ond genedigol o deula Seisonig, yn gymydog agosaf, gyda phlanigfa oddeutu yr un maintioli a fy eiddo i.

Hclbulus iawn fu arnaf am y ddwy flynedd gyntaf; y drydedd, daeth dipyn ysgafnach a gwell. Yr oeddwn wedi ymgymeryd â galwedigaeth hollol anghydweddol â fy ysbryd; ond yr oedd yn rhaid dal wrthi bellach. Gwelwn nad oeddwn ond ceisio dyfod i fyny i'r sefyllfa y gadewais dŷ fy nhad er mwyn ei hysgoi. Gwelwn yn eglur fod y cwbl a ddywedodd fy nhad wrthyf yn wir, a fy mod innau yn cael talu yn ddrud am wrthod ei gynghorion. Llauer gwaith y codais fy mhen, ac y dywedais wrthyf fy hun,—Gallaswn arwain bywyd fel hwn gartref, a'i gael yn esmwythach, ac yn nghanol fy nghyfeillion, heb ddyfod bum' mil o filldroedd, i ganol anialwch, ac i fysg anwariaid, i'w gael. Ond er mor flin y teimlwn fy nhyngnedd, yr oeddwn yn benderfynol i fyned ymlaen gyda fy ymgymeriad newydd.

Ysgrifenisais i Lundain am gan' punt o'r arian oeddwn wedi adael yno; a thrwy garedigrwydd y cadben a achubodd fy mywyd, llwyddais i gael gwerth can' punt o nwyddau pwrpasol drosodd, y rhai a droisant allan yn llawn gwerth pedwar cant i mi yn y wlad bell hono. Rhoddodd hyn ysbryd newydd ynof. Yr oeddwn yn awr yn gweled y ffordd yn agored i wneyd fy ffortun mewn ychydig flynyddoedd, wrth i mi ymroddi gyda'r blanicfa. Cytunais â gwas Ewropeaidd, a phrynais ddau gaethwas Negroaidd i weithio gyda mi. Y flwyddyn ganlynol bŵm yn hynod o lwyddiannus. Yr oedd genyf hanner cant o roliau o dybaco, a phob rhol oddeutu can' pwys, yn aros llong i'w cymeryd i Lisbon. Erbyn hyn yr oeddwn yn dechreu penfeddwi ar fy llwyddiant, ac yn llawn o gynlluniau uwchlaw fy nghyrhaedd, yr hyn sydd yn fynych yn profi yn ddinystri i fasnachwyr. Ond er fod ynof ddigon o gallineb a medr, yr oeddwn yn rhy ansefydlog i godi yn uchel mewn dim, ac fel wedi fy nhyngnedd i flinder a siomedig-aethau. Rhyw anesmwythder meddwl, tebyg i'r hyn a barodd i mi adael cronglwyd fy nhad, barodd i mi eto adael fy anturiaeth obeithiol gyda'r blanicfa.

Yr oeddwn yn awr wedi bod bedair blynedd yn Brazil, wedi dysgu iaith y wlad, ac wedi ffurfio cylch o gyfeillion ymysg y planigwyr a'r anturiaethwyr a breswylent yno, yn gystal ag â masnachwyr porthladd Salvadore. Byddwn yn fynych yn eu difyru â hanes fy nheithiau anturiaethus, a'r dull o fasnachu â'r Negroaidd ar gyffiniau Guinea, ac mor hawdd fyddai cael Negroaidd oddiyno i lafurio ar blanicfeydd Brazil. Byddent yn gwrando ar hyn bob amser gyda dyddordeb mawr, a gwyddwn ei fod yn beth

dymanol gan galonau llawer o'r planigwyr. Wedi bod yn son am hyn un noswaith yn nghanol cwmni o blanigwyr a masnachwyr, bore drannoeth daeth tri o honynt ataf, a dywedasant eu bod wedi dyfalu trwy y nos ar y pwnc y bŵm yn siarad am dano, a'u bod wedi dyfod ataf i wneyd cynnygiad dystaw i mi. Yr oedd gan bob un o honynt blanigfeydd, fel fy hunan, a gwyddwn i fel hwythau mai diffyg mawr y planigfeydd oedd diffyg dwylaw i'w llafurio. Yr oeddynt hwy am barotol llong i fyned am lwyth o Negroaid, a'u dwyn yn ôl i'w rhanu rhwng eu planigfeydd. Ac os cyttunwn i fyned gyda hwynt fel arweinydd, y cawswn yr un gyfran a hwythau o'r Negroaid, heb roddi diin tuag at barotol y llong.

Yr oedd hwn yn gynnygiad da i ddyn pe buasai heb un blanigfa i edrych ar ei hol; ond yr oedd cydsynio â'r fath gais i mi, yn yr amgylchiadau yr oeddwn ynddynt ar y pryd, yn berffaith ynfydrwydd. Ond am danaf fi, oedd wedi fy ngeni i ddinystrio fy hun, nis gallaswn wrthod y fath gynnygiad, mwy nag y gallaswn aros gartref wrth gynghorion fy nhad. Dywedais wrthynt, heb gymeryd pum' mynyd i ystyried, yr aethwn gyda hwy â'm holl galon, os gosodent rai i edrych ar ol fy mhlanioga yn fy absennoldeb, a gwneyd â hi fel y dywedwn, os dygwyddai anffawd i mi ar y fordaith. Addawsant wneyd felly; ysgrifenis innau fath o ewyllys, yn rhoddi hanner fy eiddo i'r cadben a achubodd fy mywyd, a'r hauner arall i'w yru drosodd i fy mherthynasau. Yr oeddwn yn dangos gofal mawr am fy mhethau ar fy ol. Pe buaswn yn dangos hanner cymaint o ofal a barn am fy llesâd a fy mantais, ni fuaswn byth yn gadael anturiaeth mor lwyddianus i fyned ar y fath hynt. Ond felly y gwnaethum.

Medi 1, —, wyth mlynedd i'r diwrnod y gadewais fy nghartref, yr aethum i fwrdd y llong i ymgymeryd â'r anturiaeth hon eto. Yr oedd y llong yn 120 o dunnelliad, yn cario chwech o fagnelau, ac ar ei bwrdd bedwar ar ddeg o ddwyllaw, heblaw y meist, a'i fachgen, a minnau. Yr oedd genym hefyd ystôr fawr o fân nwyddau, er mwyn masnachu a'r Negroaid. Gadawsom y porthladd ar y dydd uchod, gan gadw i'r gogledd, a gwneyd am gyffiniau Affrica. Cawsom dywydd da, ond ei bod yn boeth iawn, nes dyfod hyd Cape St. Augustino. Yna cadwasom allan i'r môr, gan ogyddo tua'r dwyrain. Croesasom y linell ymhen deuddeng niwrnod, a chododd ystorm enbyd, yr hon a'n dygodd allan o gylch ein gwybodaeth yn hollol. Parhâodd am ddeuddeng niwrnod, weithiau o'r cyfeiriad hwn, ac weithiau o'r cyfeiriad arall, a ninnau wedi ein gadael yn hollol at ei thrugaredd. Wedi i'r ystorm dawelu, cawsom ein bod gerllaw traeth Guinea, neu ar ogledd Brazil, tu draw i'r afon Amazon, a gerllaw yr afon Oroonoke, neu yr Afon Fawr. Mynai y meist hwylio yn ôl i un o borthladdoedd Brazil, am fod y llong wedi ei hysigo gan y dymhestl, ond yr oeddwn i yn benderfynol yn ei erbyn. Ac wedi edrych dros *charts* glânau America, gwelem nad oedd gwlad breswylidig i ni i fyned nes dyfod i gylch y *Caribee Islands*, felly penderfynasom hwylio tua'r Barbadoes, gan obeithio cyrhaedd yno ymhen oddeutu pythefnos;

oblegid yr oedd yn rhaid cael adgyfnerthiad i'r llong a ninnau, cyn hwylio i gyffiniau Affrica.

Ond tra yr oeddem ni yn hwylio gan feddwl glanio mewn ynys Brydeinig, goddiweddwyd ni gan ysturm ddychrynlyd drachefn, a gyrodd ni eto gyda chyflymdra dychrynlyd i'r gorllewin. Yr oeddem oll yn ofni am ein bywydau, heb wybod i ba le yr oeddem yn myned, a chymaint o ofn tir arnom ag oedd o ofn y dymhestl. Beth bynag, gyda thoriad gwawr y bore, gwaeddodd un o'r dynion allan, "Tir!" A phrin yr oeddem wedi rhedeg allan i geisio deall pa le yr oeddem cyn fod y llong wedi taro ar gefn o dywod, a'r tonau yn ei churo mor ofnadwy, fel y tybiem y byddai yn ddrylliau cyn pen pum' mynyd.

Nid oes un dyn na welodd amgylchiad o'r fath all ddychymygu teimladau a dyryswch dynion ynddo. Nid oedd genym un amcan pa le yr oeddem, pa wlad oedd yn yr ymyl, pa un ai ynys ai cyfandir ydoedd, na pha un ai gwyllt ai gwâr oedd y preswylwyr, os oedd yno breswylwyr. Safem oll yn fud, yn edrych ar ein gilydd, ac yn dysgwyl y llong i fyned yn ddrylliau bob moment; a phob un yn y difrifoldeb mwyaf yn ceisio parotï ei hun i ymddangos ar unwaith yn y byd tragywyddol. Gwaeddodd y cadben yn y man fod y gwynt yn lleihâu, ac y buasai gwell gwneyd am y cwch. Ond erbyn edrych yr oedd y cwch oedd o'r tu ol i'r llong wedi myned. Yr oedd cwch arall ar y bwrdd; nid oedd amser i'w golli; gollyngwyd ef i lawr trwy gawod o ewyn i gefn y tonau cynddeiriog, a chyn pen mynyd yr oedd pob enaid ynddo.

Nid oedd dim yn y cwch ond y dynion a'r rhwyfau, ac yr oeddem filldiroedd lawer oddiwrth dir. Yr oedd y gwynt yn ein chwythu yn chwyrn at y tir, a ninnau yn rhwyfo, er fod arnom gymaint o ofn y tir a'r môr. Ni wyddem pa fath le oedd ar y lân; pa un a oedd yno borthladd, neu gilfach, neg gég afon, ynte greigiau dychrynlyd ac anobeithiol. Yr oeddem fel haid yn myned i'r lladdfa. Cyflwynasom ein heneidiau i Dduw, a thynem wrth y rhwyfau, fel pe buasem am brysure ein dinystr. Wedi myned rai milldir-oedd, yn y cwch, gwelwm dôn fawr yn dyfod o'n hol; yr oedd yn fawr ac yn ffyrnig, a dysgwyliem oll fod ein dinystr wedi dyfod. Gyda fod y syniad hwn yn gwelwi ein gwedd, yr oedd y dôn arnom, a ninnau oll wedi colli y cwch a cholli ein gilydd.

Mae yn anmhosibl desgrifio y dyryswch meddwl a deimlais pan suddais yn y dyfnder. Yr oeddwn yn gallu nosio yn dda, ond yr oeddwn yn methu ymgodi i'r wyneb i gael fy anadl, hyd nes i'r dôn ddigwyffelyb hono fy nwyn ymhell tua'r lân, ac wedi iddi dreulio ei hun, fy ngadael yn hanner marw gan y dwfr oeddwn wedi lyncu, a fy nhraed ar dir. Cefais gymaint o bresennoldeb meddwl er hyny, fel ag i wneyd fy ngoreu i dynu yn nês i'r lân cyn i dôn arall fy ngoddiweddyd. Ond yr oedd y pellder yn ormod, a minnau yn rhy wan. Gwelwn dôn arall, fel bryn mawr ar fy ngwarthaf, ac mor ffyrnig a gelyn, ac nid oedd ynof finnau allu i'w gwrthsefyll. Nid oedd genyf ddim oud ceisio parotï fy anadl, a myned gyda'r dôn, a pheidio gadael iddi fy nwyn yn ôl

gyda hi, pan fyddai yn dychwelyd. Daeth drosodf eto gyda nerth aruthrol, a gadawodd ugain neu ddeg troedfedd ar hugain o ddyfroedd dros fy mhen. Yr oeddwn bron ymddyrllo pan deimlais fy mreichiau a fy mhen yn ymwithio allan i'r awyr, a minnau yn cael fy anadl. Cefais hanner mynyd eto i anadlu, a fy nhraed ar y ddaear. Cyn i'r dôn nesaf ddyfod, ymeflais unwaith mewn darn o graig, tra byddai y dôn yn pasio drosodf. O'r diwedd, beth bynag, "Wrth gael fy nhafu o dôn i dôn," deuais allan o'u cyrhaedd, a chyrrhaeddais y lân. Yr oedd yno le llydan, agored, a chreigiau ychydig oddiwrth y lân. Dringais i ben y graig yn ddiangol; edrychais yn ôl, ond yr oedd pawb wedi boddi ond fy hunan.

(I'w barhâu.)

HUW HUWS Y GO' A NINNAU.

NOSON XL.

"BETH ddywedodd Cobden, John?" gofynai Huw Huws.

"Dyweyd," meddwn i, "na fyddai o un budd i neb godi i siarad ar ol Gladstone, os dygwyddai i'r neb a godai fod ar yr un ochr i'r pwnc a'r Canghellydd."

"Wel, yn wir," ebai y gôf, "gall fod y dywediad yn eithaf gwir, am ddim a wn i; ond, hyn a wn i, nad buddiol i mi siarad heno ar yr un ochr i'r pwnc â'r gŵr a fu yn siarad gyntaf yn y DRYSORFA fechan y tro diweddf."

"Yr oeddwn i yn dysgwyl hyn," meddai Wmffre, gan chwerthin.

"Dysgwyl beth?" gofynai Ifan Llwyd.

"Na wnai y pregethwr gwaelaf ddim siarad olaf," atebai yntau.

"O," ebai y melinydd, "mi welaf y peth yrwan; a thybiwyf fod Huw Huws yn llygad ei le hefyd, oblegid pur dda oedd y siarad hwnw."

"Ie, da iawn," meddai y gôf, "a dyna y rheswm, ac nid gwag siarad, paham yr â i heibio i'r cwestiwn a adawsom ddiweddf, at y gorchymyn nesaf. Nid rhaid i mi eich cymhell i gadw y siarad y cyfeiriais ato yn eich cof. Felly, cawn ymgom ynghylch y chweched gorchymyn. Efa, ti sydd i adrodd."

"Na ladd," adroddai hithau.

"Dowch, gyfeillion," ychwanegai y gôf, "gadewch i ni glywed eich sylwadau ar y gorchymyn hwn. Wmffre, 'machgen i, beth sydd genyt ti i'w ddyweyd?"

"Wel," ebai yntau, "synu yr oeddwn i y mynyd hwn fod gorchymyn mor bwysig mewn cân lleied o le."

"Ie, onidê?" meddai Ifan Llwyd, "hynod iawn. Dyma orchymyn Duw yn erbyn llofruddiaeth yn gynnwysedig mewn dau air, yn ein hiaith ni; ond fe ddywedir i mi fod cyfraith Lloegr ar hyn yn gyfrol neu gyfrolau mawrion."

"A pheth arall," dywedai Dafydd Thomas, "mor glir a syml



ydyw cyfraith Duw o'i chymharu â chyfraith dyn. Rhaid cael cyfreithiwr dysgedig, a siarad, a dadleu llawer, cyn doir i'w deall yn iawn, a'i rhoddi mewn gweithrediad."

"Ac wedi y cyfan," ychwanegai 'nhad, "bydd cyfraith dyn ar hyn yn methu a chyrhaedd yr euog, ac nid anfynych y gwelwyd hi yn cosbi y diniwed."

"Da iawn, ffryndiau," meddai ein hen gyfaill, "yr ydych yn meddwl yn union fel yr wyf finnau ar hyn. Yr ydych, wrth gwrs, yn canfod nad oes dim terfynau i'r gorchymyn hwn, fel na all neb chwareu un cast cyfreithiol, na thrwsio dim ar achos un fyddo yn euog o'i dori. Duw sydd yn barnu yma, a phwy a ym-gudd rhag ei olygon manwl Ef? 'Na ladd,' medd y gorchymyn; ond, na ladd beth?"

"Wel, na ladd un créadur rhesymol," atebai Wmffre.

"Wrth gwrs," meddai Dafydd Thomas, "mae hunanladdiad yn cael ei wahardd yr un modd."

"Mi dybygwn i, hefyd," ebai y melinydd, "nad oes i neb ladd un teimlad da fyddo ynddo ef ei hun, neu yn rhyw un arall."

"Beth ynghylch lladd adar ac anifeiliaid eraill?" gofynai Wmffre.

"Pwyll, ffryndiau," meddai y gôf, "y mae yn deg i ni ofyn cwestiwn fel hyn; ond, dylid cofio gwneyd tegwch â gorchymynion Duw wrth ofyn felly. Mae pob un o'r gorchymynion yn rhesymol ac yn dda. Os gorchymynodd Duw i ni beidio lladd, a gadael y gorchymyn felly heb fanlyu dim arno, gallwn fod yn sicr nad oes i ni ladd un peth os na fydd genym reswm dros wneyd hynny, a'r rheswm hwnw yn unol â'r Bibl. Pwy reswm sydd gan y bachgen dros ddwyn nyth yr aderyn bach, a lladd y cywion druain? Neu pa les a gaiff un arall oddiwrth ei waith yn anelu càreg at y Robyn Goch i geisio cymeryd ei fywyd ymaith? Mor greulawn ydyw rhai plant wrth gwn a chathod, ceffylau a mulod. Bachgen heb deimlad a geneth heb galon sydd yn gwneuthur fel hyn."

"Yn wir," meddwn i, "mae hanes Nero waedlyd yn egluro yr hyn a ddywedwch, Huw Huws. Fe ddywedir mai poenydio pryfaid bychain oedd cychwyniad ei yrfa greulawn."

"Wel," meddai Dafydd Thomas, "mae llawer iawn o dori ar y gorchymyn hwn yn y byd y dyddiau hyn. Mi fyddaf yn meddwl fod llofruddiaeth yn echryslawn pan y byddaf yn ystyried mai dwyn *bywyd* ydyw y weithred—dwyn yr hyn nad all y llofrudd byth ei ddychwelyd, na gwneyd iawn am dano i'r llofruddiedig."

"Dyna gymeryd y peth mwyaf ei werth sydd gan y dyn, onidê?" meddai Wmffre.

"Iê," ebai Efa, "canys 'pob peth a ddyry dyn am ei einioes.'"

"Wyddoch chwi beth," crybwyllai Ifan, "mae yn ofnadwy meddwl am un dyn yn offeryn i yru enaid dyn arall yn noeth i bresen-noldeb ei Dduw!"

"Ydyw, Ifan," ebai Huw Huws, "y mae y peth yn ofnadwy. Byd ofnadwy fua-ai hwn oni bae fod gorchymynion yr Arglwydd

rhyngom a'r pechod. Ddioich i Dduw am y Bibl! Nid yw y byd eto yn gweled holl echryslonrwydd y pechod o ladd dynion. Mor awyddus ydym am weled hanes rhyw frwydr fawr, ac fel yr ydym yn canmawl medrusrwydd y blaidd fuddugoliaethus, ac mor ddisylw genym ydyw y frwydr os na bydd miloedd ar filoedd wedi eu lladd a'u clwyfo ynddi! Fel pe byddai anfon miloedd o eneidiau i'r byd mawr y peth mwyaf cyffredin! Fy ffryndiau ieuanc, nid wyf yn meddwl y gwnewch chwi dori y gorchymyn hwn; ond gofelwch rhag i'r nwydau sydd yn y galon ddrwg yma gael y llaw uchaf arnom. Ariangarwch, balchder, gwylltineb, digter, cenfigen, anystyriaeth, meddwdod—dyna y mynegbyst ar y ffordd i'r pechod hwn."

"Wrth eich clywed yn enwi meddwdod," meddai Ifan Llwyd, "yr oeddwn yn galw i'm cof ryw stori a ddarllenais ychydig amser yn ol. Yr oedd gŵr a gwraig ieuanc a chanddynt un baban bychan tlws, ar gychwyn i *party* un noson. Cyn cychwyn, meddai y wraig ieuanc wrth ei gŵr, 'Cofiwch eich addewid heno, na wnewch chwi ddim cyffwrdd â'r diodydd meddwol.' 'O, mi wnaf,' meddai yntau. Cymerasant y baban i'w canlyn yn y cerbyd oedd ganddynt. Pan ar gychwyn o'r *party* yn ôl, aeth y fam i chwilio am ei gŵr, er mwyn iddynt ymbarotoi. Pan welodd hi ef, safodd ei chalon gan fraw; yr oedd ei gŵr yn amlwg yn feddw, ac wedi tori ei addewid. Pa fodd bynag, cychwynasant adref, a daethant ymlaen yn lled dda. Ond mynai y tad gael y baban i'w freichiau, er mwyn esmwythâu y fan. Nid oedd o un budd i'r fam ofnus nacâu ei roddi. Mynai ef ei gael, a chafodd ef. Ar y ffordd, yr oedd ffrwd led lydan, ac yr oedd y gwlawogydd wedi gorlifo hono; yr oedd y nos yn dywell, a'r tad yn feddw, ac ofnai y fam druan am ei phlentyn. Pan ddaethant at y ffrwd, dygodd y ceffyl ffyddlawn hwynt yn ddiogel trwy y dwfr; ac wedi cael yr ochr arall, mynodd y fam gael ei phlentyn o freichiau ei dad. Mewn cadach mawr y cysgai y bychan ar hyd y ffordd; ond cafodd y fam i'w breichiau *gadach gwag, a'r plentyn wedi nymed!* O drueni, yr oedd y tad meddw wedi ei ollwng o'i afael i'r ffrwd!"

"O yr anwyl!" gwaeddai Efa, a'i dagrau yn llifo.

"Wel, wel," ebai ei hen ffrynd, "mae hanes fel yna yn ddigon i doddi unrhyw un i ddagrau. Beth raid fod teimlad y fam druan! Iê, yn wir, pa bryd yr anghofia y tad y meddwdod a gostiodd mor ddrud iddo! Ond, i fyned ymlaen, yr wyf bob amser yn credu y dylai pob un fod yn ofalus iawn i beidio lladd teimlad da hefyd."

"Yr wyf finnau o'r un farn a chwi," meddai Dafydd Thomas; "oblegid os myn neb ffrwyth da, dylai fod yn ofalus iawn o'r hâd. Yn yr un modd os myn unrhyw un fod yn dda, peidied a lladd y teimlad da a all fod yn ei galon."

"Eto," ychwanegai 'nhad, "gymaint o honom sydd beunydd yn gwneyd hyny! Yn wir, blant, pob dymuniad am fod yn dda—pob teimlad boneddigaidd, duwiol, fyddo yn eich calon, gofelwch beidio eu lladd."

“Mi welaf fod yn bryd i ni ymadael,” ebai Huw Huws; “ond cyn hyny, mi hoffwn i chwi gofio nad ydych i ladd un teimlad da fyddo yn eich mynwes. Pa bethau bynag sydd wir, pa bethau bynag sydd onest, pa bethau bynag sydd gyfiawn, pa bethau bynag sydd bur, pa bethau bynag sydd hawddgar, pa bethau bynag sydd ganmoladwy yn eich teimladau, cofiwch ‘Na ladd.’ Nos dawch oll.”

*Sir Fflint.*

O'N TY NL

ADGOFION MEBYD.

**M**OR ebrwydd llithrodd mebyd llon,  
 A'i hoff ddifyrion heibio;  
 Ail oedd i lewyrch haul ar fryn  
 Yn gwenu cyn encilio:  
 Er hyny mae rhyw brudd fwynhâd  
 I'w gael wrth ei adgofio.

A gwridog rudd, a chalon iach,  
 Yn fachgen bach penfelyn,  
 Yr awn i chwareu gyda'r plant,  
 Heb ddiwall chwant i'm dilyn:  
 Dan nodedd glyd fy mam a 'nhad,  
 Heb ofni brad un gelyn.

A myn'd â'n penau yn y gwynt  
 Y byddem gynt yn heidiau,  
 Gan neidio hyd y buarth gwyrdd,  
 A chwareu myrdd o gampau;  
 Gorphwyso wed'yn enyd fêr  
 Ar lwyn o dyner flodau.


Chwipio 'r top, a throi y cylch  
 O amgylch yn ddiarbed,  
 A wnaem am enyd yn ddibaid,  
 Ac yna rhaid f'ai myned  
 I guro 'r *fandi* 'n llawn o zel,  
 Neu dafu 'r *bêl* ar bared.

Ond Ow! diflanodd mebyd cu,—  
 Fe ddarfu ei ddifyrion;  
 Ei ddiofalwch cilio wnaeth;  
 A'r byd, â'i gaeth ofalon,  
 Fel llanw mawr sy 'n llenwi mryd  
 Bob awr o'm bywyd weithion.

'N ol hwylio o borthladd mebyd llon,  
 O flaen awelon bywyd,  
 I fôr y byd a'i ferw byw,  
 Ni chaf ond pob rhyw adfyd,  
 Nes morio hwnt i'w 'stormydd certh,  
 I hafan brydferth Gwynfyd.

*Beddgelert.*

GLASLYN.



## Y RHINOCEROS.

**R**HAE enw y crëadur hynod hwn yn cael ei wneyd i fyny o ddau air Groeg, a gwel y plentyn y rheswm o hyny: *rhin* yn arwyddo trwyn, a *keras* yn arwyddo corn; a dengys y darlun fod ganddo gorn ar ei drwyn. Dywedir fod chwe' math o'r crëaduriaid hyn—pedwar yn perthyn i Affrica, un yn perthyn i India, ac un i Java a Sumatra. Mae un yn Ngerddi Regent Park, yn Llundain, wedi dyfod o India. Gwelir fod ganddo wefus uchaf hynod, yr hon sydd yn dra gwasanaethgar iddo i gasglu ei ymborth, neu godi tameidiau bychain oddiar y llawr. Mae yr un y cyfeiriwyd ato yn Llundain yn derbyn tamaid o fara neu *biscuit* o law yn ddigon esmwyth a diberygl gyda'i wefus.

Mae dau o'r pedwar math sydd yn Affrica yn dduon; a dywed yr helwyr eu bod oll yn ffyrnig a pheryglus, ac yn rhuthro ar eu cyfer ar unrhyw wrthddrych a dyno eu sylw. Nid yw y corn yn gysylltiedig âg asgwrn y pen—dim ond â'r croen yn unig. Mae y llygad yn fychan a llym, ond nis gall weled yr heliwr yn hawdd, yn enwedig os bydd o'r tu ol iddo. Mae y croen yn hynod o dew. Byddant yn llechu y dydd dan gysgod coedydd neu glogwyni, ac yn teithio ymhell yn fynych mewn ymchwil am ysglyfaeth yn y nos.

—————

 DECHREU MARW A DECHREU BYW.

**H**WI ellwch fod yn ddifyr,  
 A'ch calon iach yn llon,  
 A chwareu yn ysgafndroed  
 Fel ŵyn ar ael y fron;  
 Heb goledd gair na meddwl  
 Difrifol o unrhyw :

'R wyf fi yn dechreu marw,  
A chwithau 'n dechreu byw.

Chwychwi sy 'n iach a heini,  
A gwagedd i chwi 'n wledd;  
Ond gwell i mi ddarparu  
A'r gyfer cynar fedd;  
Nid oes i mi hyfydwch  
Mewn gwagedd—ofer yw:  
'R wyf fi yn dechreu marw,  
A chwithau 'n dechreu byw.

Chwi ellwch fyn'd mewn afaeth  
I ganlyn trefn y byd,  
A mynu tynu mwyniant  
O hono ar bob pryd;  
Fe dynaf finnau fwyniant  
O Air sylweddol Duw;  
'R wyf fi yn dechreu marw,  
A chwithau 'n dechreu byw.


Os mynwch wag bleserau  
Tra byddwch yn y byd,  
Rhaid i chwi dalu am danynt  
Ryw ddydd a ddaw yn ddrud.  
Yn nydd y farn ddiweddaf,  
Ger bron gorseddfainc Duw,  
Chwi fydd yn dechreu marw,  
A finnau 'n dechreu byw.

J. W.

*Llanbaid.*


---

“NHAD, FYDDWCH CHWI BYTH YN GWEDDIO?”

 ROSODD tad bachgenyn bychan yn perthyn i'n hysgol gydag ef yn tŷ un hwyr noswaith—yr hyn oedd beth tra anarferol—tra yr oedd mam y plentyn wedi gorfod myned allan i weled ei mam, yr hon oedd yn glaf. Yr oedd y bachgen yn falch iawn o gael ei dad gydag ef yn tŷ, a dangosodd iddo ei wersi bychain, a lliaws o deganau yr oedd ganddo ef olwg arnynt. Arferai ei dad dreulio hwyr ei ddyddiau yn y dafarn, ond am y noswaith hono yr oedd lle y dylasai fod—*gartref*. Cafodd lawer o bleser y noswaith hon gyda'i fachgen bychan. Wedi dyfod yn amser gwely, daeth y bychan at ei dad, a dywedodd, “Mae yn bryd i mi fyn'd i'r gwely; a gaf fi ddyweyd fy ngweddi wrthych chwi, 'nhad?” “Wel, cewch, os mynwch,” ebai'r tad.

Aeth y plentyn ar ei liniau rhwng gliniau ei dad; rhoddodd ei ddwyllaw bychain yn mbleth yn eu gilydd, ac adroddodd ei weddi

syml, gyda thôn dra difrifol. Cyn ei fod wedi gorphen, yr oedd y dagrau poethion yn rhedeg dros ruddiau ei dad anystyriol, yr hwn a ddywedai wrthyf wedi hyny na theimlodd y fath beth erioed, ac y rhoddasai unrhyw beth am fod ymbell oddiyno. Wedi i'r plentyn orphen ei weddi, dysgwyliai y tad yr elai i'w wely; ond yno yr arosai; cymerodd law galed ei dad rhwng ei ddwy law wên a thyrer, rhwbiai hi yn ôl a blaen, cododd ei olwg i fyny i wyneb ei dad, a gofynodd, "*Nhad, fyddwch chwi byth yn gweddïo?*" Dywedai y tad wrthyf, "Pe buasai rhywun yn fy nharo â gordd, ni fuasai yr ergyd yn fwy annyoddefol. Dywedais, 'Ewch chwi i'ch gwely.' Aeth y plentyn i fyny y grisiau; gwrandewais a chlywn ef yn gweddïo drachefn; aeth dros ei weddi eilwaith, ac ychwanegodd ddarn newydd dros of fi. O! mor falch oeddwn glywed trwst troed ei fam wrth y drws. Rhedais i fyny y grisiau, gan feddwl cysgu, ac y buasai y cyfan drosodd bore drannoeth; ond ni chysgais lygedyn trwy y nos. Tybiwn fod rhywbeth ar fy ngobenydd o hyd, yn dywedyd, 'Fyddwch chwi byth yn gweddïo?'"

"Aethum at fy ngwaith yn y bore; ond pob ergyd a roddwn â'r morthwyl, tybiwn mai y swm ydoedd, 'Fyddwch chwi byth yn gweddïo?' Yr oedd adsain pob peth yn taro y cwestiwn ar draws fy nghalon. Gwelais fod yn *rhaid* i mi weddïo neu farw. Aethum i chwilio am y llyfr gweddi—gwyddwn fod un yn y tŷ yn rhywle—a'r weddi gyntaf yr agorais arni ydoedd 'Cyffesiad,' a dechreuais innau weddïo. Y Sabboth dilynol, dênodd fy mhlentyn fi gydag ef i'r addoldŷ yn yr hwyr; a diolch i'r Arglywydd! yr wyf wedi glynu i fyned yno hyd heddyw. Ac yr wyf fynnau, yn lle bod yn oferddyn truenus, wedi dyfod yn ddyn dedwydd, ac y mae fy nhŷ yn awr yn dŷ gweddi."—*Y Parch. G. S. Bull, Birmingham.*

## Y CRYD.

*Buddugol yn Eisteddfod Bethesda, Mawrth 19, 1863.*

**D**N mwthyn y gweithiwr  
 Golygus ei ddrych,  
 Yn mhalas y brenin  
 Mawreddog a gwyh;  
 Y gwrthddrych poblogaidd  
 Anwylir o hyd,  
 Ar gytrif ei orchwyl  
 Teulnaidd, yw 'r cryd.  
 Gweinidog yr aelwyd,  
 Wrth wyllys y fam,  
 I noddi a meithrin  
 Ei baban dinam;  
 Tra yn niniweidrwydd  
 Ei amcan a'i fryd,

Fe chwery, fe huna,  
Yn nghesail y cryd.

Yr ieuanc ysbrydol,  
Ystwythgryf a hardd,  
Sy 'n tafu i'r cysgod  
Ogoniant yr ardd;  
A'r hen sy'n gogwyddo  
Dros drothwy y byd,  
Fu 'n ddeiliaid llywodraeth  
A deddfau y cryd.

Y doethawr sy'n arwain  
Y llong ar ei hynt,  
Sy 'n llywio 'r awyren  
Ar ddylif y gwynt,  
Sy 'n gwneyd i'r mellt adrodd  
Ei feddwl drwy 'r byd,  
Fu 'n egwan breswlydd  
Yn nghalon y cryd.

Y Wyddfa o feddwl  
Sy 'n llyncu pob peth,  
Rhychwantu y ddaear  
A'r moroedd heb fêth,  
Sy 'n mesur a phwyso  
Y bydoedd i gyd;  
Fu 'n faban am dymmor  
Yn mynwes y cryd.

Yr enaid faidd esgyn  
I'r nefoedd yn don,  
A dwyn tragwyddoldeb  
O'r braidd ger ein bron;  
Cychwynodd hwnyna,  
Cychwynodd y byd,  
Ei yrfa foreuol  
Dros erchwyn y cryd.

JOHN GAERWENYDD PRITCHARD.

*Pen y bryn, Bethesda.*

### JAMES AC ARIAN Y GENADAETH.

**A** DRODDWYD yr ystori ddifyr a ganlyn gan y Parch. Luke Wiseman, yn nghyfarfod blynyddol y Fibl-Gymdeithas yn Llundain, mis Mai diweddfaf.

Cefais fy anfon yn ddiweddar i Cornwall, fel cynnrychiolydd y gymdeithas genadol. Mewn un pentref bychan, cynnelid cyfarfod i yfed tê cyn y cyfarfod cyhoeddus. Yr oedd yno gristion hynod, tra adnabyddus yn y gymydogeaeth, yn ein mysg, ond ymddangosai ymhell o fod yn ei elfen y dydd hwnw. Yn lle bod ar ei wên, fel arferol, edrychai yn brudd a gofidus. Wedi dechreu tê

daeth ataf, a gofynai a ddeuwn y naill ochr i gael siarad â mi. Wedi i mi fyned allan dywedodd wrthyf, "Yr wyf mewn tralod dirfawr. Y mae genyf ddau fab yn y gweithiau arian yn Mexico, ac aeth dau eraill ieuengach atynt flwyddyn yn ol. Wrth feddwl am ein cyfarfod cenadol ar ddydd Gwener y Groglith, anfonais atynt er ys pedwar mis, i geisio ganddynt, os oeddent yn ennill yn weddol, anfon pum' swllt yr un drosodd, fel y gallwn roddi punt yn y blwch cenadol. Yr wyf wedi gweddio ynghylch hyn bob dydd er pan anfonais, ac nid yw yr atebiad wedi dyfod eto. Mae y *mail* eisoes bythefnos ar ol ei amser."

"Mae yn ddrwg genyf drosoch," meddwn wrtho, "ond pa gynghor a ddysgwyliech gael genyf fi?"

"Wel," ebai, "gan mai chwi sydd wedi dyfod yma dros y gymdeithas genadol, yr oeddwn am ofyn eich cynghor, pa un a dalwn yr arian, neu ynte aros i weled am y llythyr."

Fe allai eich bod yn awyddus am wybod pa gynghor a roddais iddo dan yr amgylchiadau hyny. Dywedais wrtho, "Wel, James, nid ydych ond dyn tlawd, a theulu mawr genych. Nid wyf yn meddwl fod galw arnoch i gyfranu y fath swm, yn ychwanegol at y peth ydych yn arfer gyfranu; ac heblaw hyny, os daw yr arian ymhen ychydig eto, gallant fod o'r un gwasanaeth i'r gymdeithas."

"Ie, syr," ebai yntau; "ond yr wyf wedi gweddio—a mwy na hyny, wedi credu hefyd—y buaswn yn eu cael i'w gosod ar y plâd heddyw."

Aethum i at y cyfeillion i fwynhau fy nhê, ac aeth James tua'r *post office*. Agorodd y postfeistres y ffenestr, a dywedodd, "Dyma lythyr i chwi, James!" Mewn moment yr oedd ei gynnwysiad o flaen llygaid James. Dywedai fod y bechgyn yn gwneyd yn dda, eu bod yn glynu wrth eu proffes gristionogol, ac yn cadw moddion eu hunain ar fore Sabbath, yn nghanol dinas o Babyddion. Yr oeddent wedi barnu fod eu tad yn rhy brin yn ei gais ar ran y genadaeth, ac wedi anfon dwy bunt drosodd, sef deg swllt dros bob un. Prysurodd James, wedi newid y bil, â'r arian i mi. O! fel yr oedd ei wedd wedi newid; a chyda gwyneb llon, dywedodd, "Edrychwch, dyma nhw!" Yna eisteddodd wrth y bwrdd, ac yfodd amryw gwpaneidiau o dê.

Gobeithio y gwna darllen hanes haelfrydedd a ffyddlondeb James gynnyrchu rhinwedd cyffelyb yn narllenwyr TRYSORFA Y PLANT. Dyfaisio haelfrydedd fel efe, gwneyd hyny yn destun gweddi fel efe, a chredu fel efe.

### PWY CHWIPIA CHI, 'NHAD?

“YDA thîpyn bach y chwipiwn di nes nad allet sefyll,” meddai tad rheglyd wrth ei blentyn bach, gan ei ysgwyd mewn cyffro digofus.

Nid oedd y plentyn hwnw ond prin yn gallu siarad yn groew; eto, yn nghlyw ei dad, yr oedd wedi rhegu dau-fw-dychrynllud.



Nid oedd hyny yn rhyfedd, oblegid yr oedd y tad yn arfer y cyfryw lwon yn gyson yn ngwydd ei blant. Ar yr un pryd, yr oedd ei eiriau ei hun, yn dyfod allan dros wefus mor ieuanc, mor annyoddefol i'r tad, fel y mynai gosbi y plentyn yn llym.

Ond cododd y plentyn ei lygaid i wyneb digllawn ei dad, a dywedodd yn dawel,—

“Os ych chi yn chwipio fi am regu, pwy chwipia chi, 'nhad?”

Tarawodd y cwestiwn fel saeth finiog i gydwybod y tad. Yr oedd fel mellten wedi llewyrchu ar bechodau a ffieidd-dra ei fywyd. Trôdd ymaith mewn cywilydd, a dywedodd ynddo ei hun, “Ni regaf byth ond hyny!”

Cadwodd y tad ei air. Ni ddaeth llw byth dros ei wefus. Ac y mae y tafod a arferai gablu Duw'heddyw yn ei foliannu, ac yn cymbhell dynion i rodio yn ei lwybrau. Fel y bendithiodd y Nefoedd gwestiwn syml y plentyn bach!



## DYDDANION.

### CWESTIWN ANHAWDD.

**I**AN oedd pregethwr unwaith o flaen ei ddesc yn brysur yn darparu pregeth erbyn y Sabboth, ac yn defnyddio ei gyllell i grafu gair allan, gofynai ei blentyn ieuanc oedd wrth ei lin, “Ai oddiwrth Dduw ydych yn cael eich pregethau, 'nhad?” “Ie, fy mhlentyn,” atebai y tad. “Wel paham yr ydych yn eu crafu allan, ynte?” ydoedd cwestiwn dyryslyd y peth bychan.

### DIM GWIALEN FAWR YN Y NEFOEDD.

**M**AE tad a adwaenom yn dda yn cadw dwy wialen ar y pared, er cadw dysgyblaeth ar y plant. Y mae un o honynt yn llawer mwy na'r llall, ac ananl y gwneir defnydd o honi. Mae golwg ar y wialen fawr yn ddychryn i'r plant oll. Un diwrnod yn ddiweddar, pan oedd yr eneth ieuengaf—pedair blwydd oed, yn dyweyd wrth ei thad pa fath le oedd yn y nefoedd gydag Iesu Grist, “fod yno ddigon o flodau, ac afalau, a losin;” ac ar ol mynyd o ddystawrwydd myfyrgar, ychwanegai mewn tŷn ddifrifol,—“Ac nid oes yr un wialen fawr yn y nefoedd, 'nhad!”

### DWY DDYNES NODEDIG AMERICA.

**G**OFYNODD merch i ni yn ddiweddar, “Pwy yw y ddwy ddynes yna y mae cymaint o son am danynt o hyd yn America?—“Pa ddwy ddynes ydych yn feddwl?”—“Ond y Mrs. Sippi (Mississippi) a'r Miss Souri (Missouri) yna! a ydynt yn perthyn i'w gilydd?” Gorfu arnom dori allan i chwerthin yn lle ateb.



## TRYSORFA Y PLANT.

RHIF. XXI.]

MEDI, 1863.

[CYF. II.

### BRASLUNIAU.

RHIF IV.

**M**AE gwrthddrych y braslun hwn yn un o brif ddynion y cyf-  
undeb Methodistaidd, ac wedi bod felly am lawer o flyn-  
yddoedd bellach. Yr ydym yn cofio yn dda y tro cyntaf y  
gwelsom ef, a'r argraff hynod a gafodd ei olwg arnom. Ugain  
neu ychwaneg o flynyddoedd yn ol, yn nghanol gwres mis Awst,  
er nad oeddem ar y pryd ond llencyn ieuanc, anturiasom groesi  
hanner can' milldir o flynyddoedd cribog i fyned i Sasiwn fawr  
Llangeitho. Wedi cyrhaedd Llanddewibrefi, clywsom fod Mr.  
— yn pregethu y noson hono (y nos cyn y Sasiwn) yn Nhre-  
garon. Ymaith â ni, yn ffin a lluddedig, ond yn llawn awyddfryd  
am wrando y gŵr nodedig. Yr oedd amser yr oedfa wedi cyr-  
haedd ymhell cyn i ni gyrhaedd yno; y capel yn orlawn, y dydd  
yn hwyrhâu, a chysgodau y nos yn disgyn yn brysus. Wedi ym-  
wthio i'r drws, gwelem y pregethwr yn y pulpud gyferbyn â ni,  
ymhen arall y capel. Yr oedd eisoes wedi dechreu pregethu.

Dyn tâl, golygus, a hoew, mewn dillad duon, a chadach gwŷn  
am ei wddf. Wyneb goleu a chrwn, talcen uchel, moel, a gwallt  
gwŷn teneu, wedi ei droi yn y gwrthwyneb gan ymyriad anyn-  
wybodol ei law. Aeliau trymion yn bargodi dros ddau lygad du,  
treiddgar, a siriol. Prif hynodrwydd y wyneb yw y llygad a'r ael.

Mae y llygad yn llawn o fywiogrwydd a phrydferthwch siriol. Ond y mae yr ael, wrth ei chodi a'i gostwng, yn gallu amrywio yn fawr wedd y wyneb. Pan ostyngir hi yn isel, teifi gysgod dros y llygad; ac os gwreichiona y llygad trwy y tywyllni hwnw, cuchia yr holl wyneb, nes byddo yn abl gwneyd i'r wyneb mwyaf pres-aidd deimlo yn yswil ger ei fron. Yr oedd trem y pregethwr y noson hono yn fythgofiadwy i ni. Gan fod y capel ychydig yn dywyll, a'r mur tu cefn i'r pregethwr yn dywyll, ei ddillad yntau hefyd yn dywyll, a'i ben a'i wyneb mor oleu ac angel-aidd, heb flewyn o farf na chernflew, a ninnau yn sefyll yn y man pellaf oddiwrtho, nid oedd dim yn ymddangos i ni ond wyneb dyn, ar wedd ddifrifol, a llaw wên yn llifio yr awyr oddi-fyn tuag i waered. Yr oedd y gynnulleidfa fawr yn fud a dystaw, a phob llygad wedi ei hoelio wrth y wyneb oedd uwch ben y pul-pud. Yr oedd i ni fel wyneb angel, a chenadwri bywyd yn dylifo dros ei wefus. Ei destun ydoedd,—“Cofia pa amser sydd i mi; paham y creâist holl blant dynion yn ofer?” Yr oedd yno wir-ioneddau mawrion yn cael eu hegluro, athrawiaeth yr hon nas gellid beio arni. Rhywbeth felly, dybiem ni, ydyw “iawn gyf-ranu gair y gwirionedd.” Yr oedd yno lanw gorchfygol o hy-awdled; y wedd a'r llais weithiau yn cyffroi i agwedd lem a digofus, nes taro y gydwybod â dychryn; bryd arall, y llais yn mwneiddio, y wedd yn sirioli, y llygad prydferth yn torwynu mewn tynerwch a serchogrwydd, y dôn lusgedig yn melysu, nes y tybid fod y gynnulleidfa yn nosio mewn mwynhâd. Safai y chwys yn ddyferynau mawrion dros ei wyneb, ymestynai y wyneb ymlaen fel mewn ymdrech ddyfalach i berswadio y bobl, a gwnai y llaw agored ffordd i'w frawddegau o flaen ei wyneb, a tharawai bob hoel i'w lle. Oblegid, i ni yn y drws, nid oedd y cwbl o hyd ond wyneb a llaw. Yr ydym wedi ei weled a'i wrando ddegau o weithiau bellach; ond ni welsom ef byth ar ol y tro hwn heb adgof cyffrous o'i drem ryfeddol y tro cyntaf yn nghapel Tregaron.

Mae ei bregethau yn gyfansoddiadau cyflawn a gorphenedig. Meddianna alluoedd naturiol gwreiddiol a chryfion, ac y mae y rhai hyny wedi eu sancteiddio â mesur anarferol o dduwioldeb, ac wedi eu cysegro yn gyfangwbl, am oes hirfaith, at waith y wein-idogaeth. Mae wedi ei fedyddio yn athrawiaeth ac ysbryd y Puritaniaid, ac yn olynidd teilwng i'r goreu o honynt. Doniwyd ef i fesur anarferol â chymhwysderau traddodi. Mae ganddo lais da, ymadroddiad clir, dwys, a tharawiadol, a digonedd o nerth y tu cefn i wneyd ei lais yn glywadwy i ugain mil o dyrfa. Cant o weithiau y mae y cyfryw dyrfa wedi bod yn ysgwyd o'i flaen, o dan ganopi glas y ffurafen, fel caeaid o wenith o flaen yr awel; ac yntau yn tywallt gweinidogaeth bywyd iddynt gydag hyawdl-edd uwch na dynol; ei gorff tal nerthol yn ymestyn ac yn ymgor-deddu gan wres, difrifoldeb, ac yni ei ysbryd, wrth gyhoeddi “trugaredd ein Harglwydd Iesu Grist i fywyd tragywyddol,” a pherswadio y trueiniaid i'w derbyn. Ei fraich hir yn estynedig, a'i law yn tori yr awyr tuag i waered, yn selio y gwirionedd fel â

llw, neu "yn hel y bobl i ryw gornel, na fyddo yr un fan ganddynt i ffoi ond at Grist, neu i dân uffern."

Mae yn esiampl nodedig o'r posibilrwydd i bregethwr ddal yn ei boblogrwydd a'i ddefnyddioldeb hyd ddiwedd ei oes, bydded hono can hired ag y byddo. Rhaid i'r cyfryw mae'n wir feddu ar alluoedd a chymhwysderau meddyliol, haelfrydedd barn, a mesur helaeth o ysbryd yr efengyl, ac y mae yn ofynol cynnal ymlaen chwaeth at ddarllen. Mae gwrthddrych ein hysgrif hon yn darllen, yn ysgrifenu, yn cyfansoddi pregethau ac yn eu pregethu, cystal ag ydoedd ddeg ar hugain neu ddeugain mlynedd yn ol. A thia parhau ei lafur, nid oes perygl i'w ddefnyddioldeb a'i boblogrwydd encilio yr un gradd.

Mae gan y pregethwr hwn dô o efelychwyr yn ei ganlyn yn y parthau agosaf ato, er fod hyny, mae'n bosibl, yn anymwybodol iddynt. Mae gwahaniaeth nodedig yn null cyffredin pregethwyr y Methodistiaid yn Nehau a Gogledd Cymru. Mae llawer mwy o dôn lusgedig gan y naill; a'r llall yn tynu mwy at dôn y llais mewn siarad cyffredin. Fe allai fod y gweinidog hwn, a gweinidog diweddar arall, un a fu yn feistr y gymanfa am flynnydoedd mewn parth arall o'r wlad, yn gyfrifol am y gwahaniaeth.

Dydd galar i Fethodistiaeth Gymreig fydd y dydd y cymer ei Arglwydd y brawd anwyl a'r gweinidog fyddlawn hwn, o'i winllan i'w balas.



### MAE NODWYDD Y CWMPAWD TUA'R GOGLEDD O HYD.

**R** deffro o'r corwynt yn ffyrnig a chreulawn,  
 Fel ysbryd cynddeiriog yn awyr y nef;  
 Er chwyddo o'r dymhestl yn erwin a chreulawn,  
 A rhuo o'r daran yn frochus a chref;  
 Ac er i'r 'storm guro mewn lliid ar yr eigion,  
 Nes pantu o'i wyneb dan bwysau 'r ergydion,  
 A'i dônau 'n chwyrn-wylltu gan guro ynghyd,  
 Mae nodwydd y cwmpawd tua 'r gogledd o hyd.

Er fod yr elfenau mewn caled ymladdfa,  
 A'r mell fel ellyllon drwy 'u gilydd yn gwau;  
 A'r weilgi cythryblus yn faes yr ymdrechfa,  
 A'i dônau yn llamu fel dreigiau o'u ffau:  
 A'r llong mewn cynddaredd yn cael ei chwyrndafu,  
 Yn rhwysg y rhyferthwy i lawr ac i fyny,  
 A'r oll o'i hwylbrenau yn yfflon i gyd,  
 Mae nodwydd y cwmpawd tua 'r gogledd o hyd.

Er esgyn o'r llong ar ysgwyddau y tònau  
 I fyny i'r nefoedd, a diagyn drachefn  
 I waered i'r dyfnder, rhwng dyfrlyd fynyddau,  
 A'i hoffer yn chwilfriw, a'i bwrdd yn ddi drefn;  
 Ac er fod gwynebau y teithwyr yn glasu,  
 Ac arswyd o fewn eu mynwasau 'n teyrnasu,

A'r morwyr gan ddychryn yn welw a mud ;  
Mae nodwydd y cwmpawd tua'r gogledd o hyd.

Mae gobaith y crision fel nodwydd y cwmpawd,  
Ac yntau ei hun megys llong ar y môr ;  
Yn wyneb pob croesau, pob helbul, ac anffawd,  
Ei noddfa, a'i begwn attynol yw 'r Iôr :  
Er creulawn ruthriadau ystormydd uffernol,  
Ac ymosodiadau 'y byd, cnawd, a diafol,'  
Ni sudda i'r dyfnder—mae'n ddiogel—caiff fyw,  
Mae nodwydd ei gwmpawd tua gorsedd ei Dduw !

DAFYDD MORGANWG.



### PREGETH I FAMAU.

(Parhad o'r rhifyn diweddar).

**T**HE dderbyn y plentyn argraffiadau oddiwrth siampl gyson ei fam, fydd yn gwneyd mwy i ffurfio ei gymeriad na'r holl addysg a roddir iddo. Am fagad o flynyddoedd cyntaf ei fywyd, yr esiampl fydd o flaen ei lygaid fydd ei addysg ef. Yn awr y mae llawer o argraffiadau y dylech fod yn ofalus iawn i beidio eu gwneyd ar eich plentyn, os mynech ei godi i dreulio oesoedd tragwyddol yn ngwasanaeth Duw.

*Gwylwch rhag peri iddo feddwl mai amgylchiadau y corff yn prif amcan bywyd.* Mae y plentyn yn fuan yn rhwym o ddod i deimlo fod ei gorff yn wrthddrych o bryder mawr i feddwl ei fam ; oblegid gwaith cyson y fam am flynyddoedd yw gweini i anghenrheidiau y corff ; ei gadw yn lân, ei borthi, a'i ddilladu. Ychydig neu ddim mae y plentyn yn ystyried nad yw y corff, wedi'r cwbl, ond tŷ i'r ysbryd i fyw ynddo. Pan ydych yn dysgu eich plentyn, a phan fyddoch yn gweddio gydag ef, byddwch yn ofalus i roddi argraff ar ei feddwl fod yr enaid yn annhraethol fwy ei werth a'i bwysigrwydd na'r corff.

*Gwylwch rhag peri iddo feddwl fod gwerth mewn dyrchafiad daearol ynddo ei hun.* Sut mae y plentyn yn dysgu mor fuan fod ei dad yn ddyrn mawr, am hyny fod yn rhaid iddo yntau gael ei barchu yn fwy o'r herwydd ; neu fod ei dad yn gyfoethog, nes byddo hyny yn peri iddo yntau ymfalchïo ; neu fod gan ei dad dŷ neu siop, neu fiarm, gwell nag eraill ? Pwy wnaeth yr argraffiadau hyn ar y plentyn ? Cafodd hwynt gartref, a barnodd eu gwerth wrth y pwysigrwydd a roddai ei rieni arnynt. Nid oes pwys am iddo eu gwybod ; ond dylai gael gwybod gyda llaw nad ydynt o ddim gwerth ond fel moddion i wasanaethu Duw trwyddynt. Rhoddwch ar ddeall iddo trwy eich esiampl a'ch hymddyddanion eich bod *chwi* yn teimlo nad oes dim o werth yn y byd hwn ond duwioldeb, neu rywbeth fyddo yn meithrin duwioldeb. Mae dull y byd yn myned heibio, a'r pwnc mawr ag y mae tynghed yr enaid am dra-

gywyddoldeb yn troi arno, yw, A wasanaethasom ni Dduw yn ein dydd a'n cenedlaeth?

*Gwylwch eto na roddwch le i'ch plentyn feddwl fod genych ddau gymeriad.* Peth hawdd iawn yw dysgu y plentyn i fod yn rhag-rithiwr. Os gwel ei fam yn ddiamynedd, yn gyffrous, a sarug, pan na fydd neb ond y teulu yn bresennol, ond yn llawn gwên a sirioldeb pan fyddo rhywun dyeithr i mewn, bydd yn sicr o ddysgu gwers nad anghofia byth mo honi. Mae yn ddifeddwl yn tynu y casgliad, os yw ei fam yn gallu cymeryd arni agwedd addfwyn a boddhaus pan fyddo yn dewis, y gellir gwisgo cymeriad crefyddol hefyd pan fyddo galw; felly daw i deimlo mai arwynebol yw yr holl gantor, oddigerth yr un tlawd a wisgir bob dydd yn nghanol y teulu. Gwylwch rhag gyru eich plentyn i'w wely mewn cyffro, ac mewn tŷn fygythiol, ac yna ceisio ganddo eilwaith ddyweyd ei weddi ger bron Duw. Mae y fath anghysondeb yn eich cymeriad eich hun, yn sicr o fagu, nid rhagrith yn unig, ond hefyd anffyddiaeth, yn eghalon eich plentyn.

Ond, i gael myned at yr ail gwestiwn:—

**PAHAM Y DYLAI Y FAM FAGU EI PLENTYN I DDUW?**

Nodwn dri rheswm;—1. *Prysurâ hyn iachawdwriaeth y byd.* Pwy all edrych yn ôl neu ymlaen ar agwedd cymdeithas heb ofni? A ellwch chwi edrych ar sefyllfa gyffrous a therfysglyd meddwl y wlad, heb ofni y bydd wylofain cenedloedd wedi eu gwrthod gan Dduw, yn fuan yn rhwygo y nefoedd. Mae sylfeini cymdeithas yn cynu eisoes, ac nid oes dim ond codiad i fyny genedlaeth fyddo âg o'm Duw wedi ei blanu yn eu calon, o'r cawell, all angori y genedl hon, neu unrhyw genedl arall, a'i chadw rhag myned yn llongdrylliad am ei gobaith. Ni thycia arfau; nis gall doethion y wlad wneyd; nid oes dim ond egwyddorion cristionogol, wedi eu plannu yn moreu yr oes, yn abl ei wneuthur. Nid yw cyfansoddiadau papyr, cyfreithiau printedig, a barnwyr dysgedig, i gyd oll ond gwawd, dan lywodraeth rydd, os na wna mamau y wlad y gwaith cyn byddo y plant yn gadael eu haelwydydd. Rhaid i ni gael dynion yn ofni Duw ac yn cadw ei orchymynion ef, cyn y gallant lywodraethu eu hunain, a chyn y gallont ddiogelu i ni ein rhyddid gwladol. Rhaid i ni gael dynion wedi eu magu yn awyrgylch gweddi, dynion cysegredig i Dduw, ac i iachawdwriaeth eu cyd-dynion, o'u mebyd. Mae eisieu cenedlaethau cyfain o genadau arnom, wedi eu dwyn i fyny a'u gwisgo âg iachawdwriaeth, i dywallt y ffrydian trugaredd sydd yn llifo o orseddfainc Duw, dros yr holl ddaear.

**Mamau!** y mae eisieu eich plant arnom i sefyll yn y pulpudau hyn, y rhai y byddwn ni yn fuan wedi eu gadael yn wag. Ie, eich plant chwi i fod yn golofnau yn yr eglwysi hyn, i fyned allan i ymroedd y môr, i lasurio ac i farw ar dywod poeth Affrica, i ddwyn goleuni yr efengyl i galon dywell India, ac i fyned i ganol ein tragywydd y gogledd. Gobeithio fod mamau a ddarllenant y tu dalenau hyn, y bydd eu plant, yn feibion a merched, yn codi i fyny ac yn dywedyd, "Wele ni, anfonwch ni!" Megwch hwy

i'r cyfryw waith—i gipio pentewynion o'r tân, a'u diffodd yn ngwaed yr Arglwydd Iesu Grist, fel y caffoch eu gweled wedi eu dyrchafu fel y sêr yn nheyrnas ein Tad. Wrth hyn chwi brysur-wch Jubili y ddaear; a chewch edrych i lawr oddiwrth droed yr orseddfaine fry ryw ddiwrnod, i groesawi y rhai a arweiniwyd genych chwi a'ch plant at draed y Gwarddwr.


2. *Cwyd hyn chwi yn uchel ymysg plant y goleuni.* Yr ydych yn cofio fod y ddwy hatling roddodd y weddw dlawd i'r Arglwydd, yn fwy na dim a roddodd yr holl rai cyfoethog. Ond beth oedd offrymau felly? Pwy all rhoddi offrwm mor oludog, mor werthfawr, a'r fam sydd yn dwyn ei phlentyn i'w gyflwyno i wasanaeth Duw? Y mae hi yn gwneyd aberth nas gall arian ei brynu, na thafod ei ddesgrifio; a chaiff ei gwobrwo yn ol ei rhodd. O, y fath ffrydiau o lawenydd a gorfoledd tragywyddol a ddylifant byth bythoedd i galon y fam ffyddlawn! Cydnebydd Crist hi yn fam iddo Ef, a'i meibion a'i merched yn frodyr ac yn chwiorydd iddo. Dylech fagu eich plentyn i Dduw, hefyd, oblegid,—

3. *Gesydd hyn eich plentyn yn uchel mewn gogoniant yn y byd a ddaw.* Nis gall y fam roddi dyrchafiad daearol i'w phlentyn; nis gall ddyweyd y bydd bendithion daearol yn eiddo iddo; ond gall wneyd mwy iddo—gall roddi iddo y rhodd benaf yn nghrëadigaeth Duw; gall osod coron y bywyd ar ei ben, a'i weled yn llewyrchu fel yr haul, byth ac yn dragywydd yn nheyrnas nefoedd.

O famau! os, wedi i holl drallodion bywyd fyned heibio—wedi i'r môr ferwi a sychu, a'r ddaear fyned ar dân—os cewch y pryd hwnw sefyll ar fynydd Sion uchod, a'ch plant o'ch hamgylch, a dyweyd wrth eich Harglwydd,—“O Dad! wele fi a'r plant a roddaist i mi; ni chollais yr un o honynt;” a chlywed y Barnwr, yntau, yn ateb, “Da, forwyn dda a ffyddlawn!” a wnaech chwi newid yr awr hono am y cwbl a ddaeth erioed i galon dyn? Cymerwch, ynte, at eich plant o ddifrif; megwch hwynt i fyny i Dduw; a bydd hyn, a mil mwy, yn eiddo i chwi byth bythoedd!

## GWELED A MWYNHAU.

**G**OLYGFFA boenus iawn i mi yw edrych yn fynych ar gardotyn tlawd a newynog, yn hanner llewygu o eisieu bwyd, yn syllu ar yr ymborth trwy ffenestr y *cook shop*, yn Llundain acw. Gweled y bara, y teisenau, y cigfwyd, a'r pwdin, yn mygu o fewn; ond ni chaiff brofi tamaid o hono pe llewygai, am nad oes ganddo geiniog yn ei boced. Ond am wleddoedd yr efengyl—holl ddarpariadau breision teyrnas Dduw, chwi piauw hwynt; cewch fyned i mewn i ymborthi arnynt a'u mwynhâu, heb arian ac heb werth. Y maent wedi eu cyfaddasu ar gyfer dy anghen, a'r telerau yn cyfateb i dy amgylchiadau; nid oes un esgus am wrthod. Gwybyddwch fod teyrnas Dduw wedi dyfod yn agos atoch.—*Y Parch. Owen Thomas.*



Y ZEBRA.

**R** EADUR prydf berth iawn yw y Zebra. Mae yn preswyllo yn benaf yn mharthau deheuol Affrica. Mae dau fath yn bod— y naill yn preswyllo yn y dyffrynoedd, a'r llall ar y mynyddoedd; ac y maent yn gwahanisethu yn benaf yn ffurf y carn. Y maent o liw gwyn, gyda llinellau cochddu ar draws eu cyrff, fel y gwelir yn y darlun. Bernir eu bod yn perthyn i'r llwyth asynaid, a'u henw gwyddonol yw *asinus Zebra*, ac y maent yn agos i faintioli asynod. Ceir eu bod o duedd gymdeithasol, a'u bod yn trigo yn fynych yn heidiau gyda'u gilydd. Ymborthant ar lysiau sychion, celyd; ac y maent yn anhawdd i'w dofi. Mae ganddynt lais tra hynod ac anhawdd i'w ddesgrifio. Bwyteir eu cnawd gan deithwyr, a bydd creaduriaid ysglyfaethus yn gwledda yn llawen arnynt, pan gânt o hyd iddynt. Dywed y teithiwr Affricanaidd, Cumming, iddo ef a'i gwmni ddarnio cnawd y creaduriaid hyn, a'i hongian ar goed o amgylch eu gweryllfa i gael sychu. Yn y nos, daeth llew a llewpard i hawlio eu cyfran. Yr oedd y llewpard wedi llwyddo i gael o hyd i ddarn mawr, a gyrwyd y cwn arno. Gorfodwyd ef i adael ei ysglyfaeth ar ol, ond anafodd ddau o'r cwn mor fawr fel y buont farw yn fuan ar ol hyny.



CWYN Y BACHGEN DU.

**I** am fy mod yn Negro  
 Y câf y fflangell drom?  
 Gan deimlo 'i phwys, dan wres y dydd,  
 Ar f' ysgwydd deneu, lom;



Mae plant fy Massa 'n chwaren,  
 Mewn mwyniant o bob bri,  
 Tra mae ol llafur caled ar  
 Fy nwyllaw duon i.

Hwy ro'nt eu penau i orphwys  
 Ar dyner esmwyth blu,  
 Tra nad oes ond y gwlanog wallt  
 Dan ben y "Bachgen du."  
 Nid wyf yn anfoddloni,  
 Fy med yn ddu fel hyn,  
 Pe cawn i fod yn rhydd, a rhaan  
 Ar fwrdd y bachgen gwyn.

Ai nid yr un yw Awdwr  
 Yr oll o ddynol ryw?  
 Tra mae y naill yn gwerthu 'r llall,  
 A churo 'r du ei liw;  
 Nid ydyw Duw yn foddawlwn  
 I ddynion, anwar lu,  
 I roddi pwys y fflangell drom  
 Ar gefn y "Bachgen du."

Pa bryd y llwyr ddattodir  
 Y rhwymau tynion hyn,  
 Ac y ca 'r bachgen caeth a du  
 Hell freintiau 'r bachgen gwyn?  
 A bod heb iau caethiwed  
 Ymhlith y dedwydd lu,  
 Lle nad oes son am Fassa cas  
 Yn curo "Bachgen du!"

IOLO MALDWYN.



## ENWOGION YR OES.

**D**R ydym am i'n datllenwyr ieuainc wybod ychydig o brif  
 feithiau hanes enwogion yr amseroedd presennol. Dechreuwn  
 gydag

## I.—ARGLWYDD PALMERSTON.

Gŵyr ein datllenwyr oll mai Palmerston yw Prifweinidog y  
 deyrnas hon, er ys mwy na phedair blynedd, a'i fod wedi llenwi  
 y swydd uchel o'r blaen. Yn ein llywodraeth ni, y Prifwein-  
 idog sydd yn dal yr awdurdod uchaf yn y deyrnas; ac y mae  
 ganddo mewn gwirionedd, os nad mewn enw, fwy o awdurdod na'r  
 Frenhines ei hun, gan mai efe sydd yn ei chyfarwyddo hi yn  
 mhethau pwysicaf y deyrnas. Efe hefyd sydd yn dewis ac yn  
 trefnu holl swyddogion a swyddi pwysig y llywodraeth.

Enw priodol Arglwydd Palmerston yw Henry John Temple. Mae yn disgyn o linach Seisonig, ond wedi derbyn ei deitl o ben- defigaeth Iwerddon. Fel hyn y disgrifir ef yn nghoflyfrau y bendefigaeth Wyddelig,—“Henry John Temple, trydydd *Viscount* (is-iarll) Palmerston, o Palmerston, yn Sir Dublin, a Barwn Temple, o Mount Temple, Sir Sligo.” Ganwyd ef yn *Broadlands*, Hants, yn mis Hydref, 1784; felly y mae yn awr yn bedwar ugain mlwydd ond un; a dywedir ei fod agos mor fywiog a hoew ag ydoedd hanner can' mlynedd yn ol. Derbyniodd ei addysg yn Harrow, Edinburgh, a Cambridge; ac yn y flwyddyn 1806, pan nad oedd ond glaflanc 21 oed, cawn ef yn cystadlu âg Arglwydd Henry Petty am gynnrychiolaeth Prifysgol Cambridge yn y Senedd; ond collodd y tro hwnw, a bu raid iddo foddloni ar gynnrychiolaeth bwrdeisdref fechan Bletchingley. Y flwyddyn ganlynol etholwyd ef dros Newport, *Isle of Wight*. Bu am flynyddoedd wed'yn yn cynnrychioli Prifysgol Cambridge; ond y mae er ys 28 o flynyddoedd (oddiar 1835) yn cynnrychioli Tiverton (yn Lloegr). Y swydd gyntaf a gafodd dan y llywodraeth oedd Is-Arglwyddiaeth y llynges, dan Duc Portland. Yn 1809 gwnaed ef yn ysgrifenydd rhyfel, a daliodd y swydd hono hyd 1828, dan weinyddiadau olynol Percival, Iarll Liverpool, Canning, Goderich, a Duc Wellington. Gwnaed ef yn awr yn Ysgrifenydd Tramor; ac yr oedd wedi dyrchafu ei hunan i fri mawr yn ei ymdrechion a'i areithiau o blaid rhyddid y Pabyddion.

O 1841 hyd 1846, bu Palmerston allan o swydd, ac yn eistedd ar y meinciau gwrthwynebol. Ond yn 1846, ar waith Syr Robert Peel yn rhoddi ei swydd i fyny, gwnaed ef eilwaith yn Ysgrifenydd Tramor, a dyrchafodd ei enw yn fawr yn ei fedrusrwydd gyda materion tramor pwysig, cysylltiedig â'r rhan fwyaf o deyrnasoedd y cyfandir. Nid y lleiaf enwog o'i weithredoedd ydoedd ei ymdrechion o blaid yr Hungariaid, ac i ryddhâu Kossuth o ddwylaw ei elynion. Y tro cyntaf, hyd ag yr ydym yn cofio, y gwnaed Palmerston yn Brifweinidog, ydoedd yn 1855, pan roddodd Iarll Aberdeen ei swydd i fyny, a daliodd yr awdurdod hyd 1858, pan ddaeth Arglwydd Derby yn Brifweinidog. Ond cyn pen blwyddyn yr oedd y weinyddiaeth wedi syrthio eilwaith i ddwylaw Palmerston, ac y mae yn para yn ei ddwylaw hyd y dydd hwn.

Yn nechreu ei fywyd gwleidiadol, ryw driugain mlynedd yn ol, yr oedd Palmerston yn fwy o Dori nag ydyw yn ei flynyddoedd addfetach, er mai yn llechres y Whigiaid y mae wedi bod o'r achreu. Er nad yw yn perthyn i'r blaid fwyaf rydd, y mae ei wasanaeth yn llywodraeth y wlad wedi bod yn foddion i ddyrchafu Lloegr yn ngolwg teyrnasoedd eraill, ac y mae ei enw wedi bod yn ddychryn i'w gelynion am lawer o flynyddoedd. Y mae yn un o'r gwleidiadwyr mawraf medrus erioed i dynu ei droed yn rhydd o fagl y bydd wedi llithro iddi. Nid oes ond ychydig i'w ddyweyd am ei dneddiadau crefyddol, er fod yr awdurdod benaf yn ei law i ddewis esgobion a swyddogion eraill i'r Eglwys Sefydledig.

## TON.—TU DRAW I'R AFON.\*

Doh D. M. 96.

H. L. FRISBIE.

<i>Treble.</i>	{	d	d :- . r	m : s		l : s	d <sup>1</sup> : l
		Y	mae gwrthddrychau			prydfferth fyrdd	Tu
<i>2nd Treble.</i>		d	d :- . d	d : d		d : d	d : d
<i>Tenor.</i>		m	m :- . f	s : m		f : m	l : f
<i>Bass.</i>		d	d :- . d	d : d	d : d	d : f	

{	s :- . l	s : m	m : r	— : m	d :- . r	m : s
	draw, tu draw i'r		af—on;	Mae	bryn—iau teg	a
	d :- . d	d : d	d : t <sub>1</sub>	— : t <sub>1</sub>	d :- . d	d : d
	s :- . f	s : s	s : s	— : s	m :- . f	s : m
	m :- . f	m : d	s <sub>1</sub> : s <sub>1</sub>	— : s <sub>1</sub>	d :- . d	d : d

{	l : s	d <sup>1</sup> : l	s :- . l	s : m	r : d	— : s
	dol—ydd gwyrdd, Tu		draw, tu draw i'r		af—on:	Pob
	d : d	d : d	d :- . d	d : d	t <sub>1</sub> : d	— : d
	f : m	l : f	s :- . f	s : s	f : m	— : m
	d : d	d : f	m :- . f	m : d	s <sub>1</sub> : d	— : d

{	m : s	l : s	s : d <sup>1</sup>	— : s	m : s	l : s
	tôn sydd yn ym—		god—i,	Pob	aw—el sydd yn	
	d : m	f : m	m : m	— : m	d : m	f : m
	s : d <sup>1</sup>	d <sup>1</sup> : d <sup>1</sup>	d <sup>1</sup> : s	— : s	s : d <sup>1</sup>	d <sup>1</sup> : d <sup>1</sup>
	d : d	d : d	— : d	d : d	d : d	

{	s : d <sup>1</sup>	— : d <sup>1</sup>	s : d <sup>1</sup>	r <sup>1</sup> : d <sup>1</sup>	l : d <sup>1</sup>	t : l
	chwythu,	Nid	yd—ynt	ond ein	nesu—u,	Tu—a'r
	m : m	— : m	m : m	f : m	f : f	f : f
	d <sup>1</sup> : s	— : s	s : s	s : s	f : l	d <sup>1</sup> : d <sup>1</sup>
	d : d	— : d	d : d	d : d	f : f	f : f

\* Gofaler acenu yn briodol wrth ganu y dôn hon. Caner hi yn ysgafn, a chyda mwynhâd tawel, ond y cydgan yn wrol a hyf.

CYDGAN.


s :- . l   s : m	r : d   —	m	s :- . s   s : m
wlad tu draw i'r	af—on.	Er	grym y 'storm ym-
m :- . f   m : d	t <sub>1</sub> : d   —	d	m :- . m   m : m
d <sup>1</sup> :- . d <sup>1</sup>   d <sup>1</sup> : s	f : m   —	s	d <sup>1</sup> :- . d <sup>1</sup>   d <sup>1</sup> : d <sup>1</sup>
s :- . s   s : s <sub>1</sub>	s <sub>1</sub> : d   —	d	d :- . d   d : d
l :- . l   l : m	s :- . s   s : m	m : r   — : m	
la—wenhawn, Mae'r	gwaeth—af dros—odd	weith-ion; Ang-	
f :- . f   f : m	m :- . m   m : d	d : t <sub>1</sub>   — : t <sub>1</sub>	
d <sup>1</sup> :- . d <sup>1</sup>   d <sup>1</sup> : d <sup>1</sup>	d <sup>1</sup> :- . d <sup>1</sup>   d <sup>1</sup> : s	s : s   — : s	
f :- . f   f : d	d :- . d   d : m	s : s   — : s <sub>1</sub>	
d :- . r   m : s	l : s   d <sup>1</sup> : t., l	s :- . l   s : m	r : d   —
or—i yn y	porthladd gawn, Yn y	wlad tu draw i'r	af-on.
d :- . d   d : d	d : d   d : f., f	m :- . f   m : d	t <sub>1</sub> : d   —
m :- . f   s : m	f : m   l : d <sup>1</sup> , d <sup>1</sup>	d <sup>1</sup> :- . d <sup>1</sup>   d <sup>1</sup> : s	f : m   —
d :- . d   d : d	d : d   f <sub>1</sub> : f <sub>1</sub> , f <sub>1</sub>	s <sub>1</sub> :- . s <sub>1</sub>   s <sub>1</sub> : s <sub>1</sub>	s <sub>1</sub> : d   —

Blinderau byth nis gallant dd'od,  
 Tu draw, tu draw i'r afon;  
 'D oes ond hyfrydwch pur yn bod  
 Tu draw, tu draw i'r afon:  
 Un diwrnod mawr diderfyn  
 O fwyniant bob mynydyn,  
 Heb unrhyw nos yn canlyn,  
 Sy 'n y wlad tu draw i'r afon.

CYDGAN.—Er grym y 'storm ymlawenhawn,  
 Mae'r gwaethaf drosodd weithion;  
 Angori yn y porthladd gawn,  
 Cyn hir, tu draw i'r afon.

E. R.

Y BACHGEN BACH A'R SNOWDROPS.

 ETH bachgenyn bychan a fyddai yn arfer adrodd gweddi ar ol ei fam, cyn myned i'w wely, ati un noswaith wedi addurno ei hun â blodau *snowdrops*, gan waeddi, "O 'drychwch, 'drychwch! 'rwyf fi fel eira ei hun; 'rwan am weddio." O'r braidd y gallai ei fam ymgadw rhag chwertthin; ond dywedodd wrtho, "Charles bach, am ba un y gwnei di feddwl fwyaf, y Cyfaill da, ai ynte y *snowdrops*?" Gogwyddodd yntau ei ben y naill ochr, ac ar ol peth dystawrwydd, efe a ddywedodd, "Mi meddwl am *snowdrops*." "Os felly, Charles, bydd hyny cynddrwg a bechgen

bychain duon yn gweddio ar ddelwau ; nid all *snowdrops* gymeryd gofal am Charles." "Caiff mi cym'ryd nhw allan, 'mam?" Yr oedd yn anhawdd gan ei fam geisio hyny hefyd, a'r bachgen bach wedi gosod y blodau ynghyd mor brydferth ; a dywedodd, "Gall Charles eu cadw, os ydyw yn meddwl y gall beidio meddwl am danynt." Safodd enyd bach mewn dwys ystyriaeth, ac yna dywedodd, "Na medra' i ddim, 'mam ; medra' i ddim ; gwell i fi roi *snowdrops* ffwrdd, 'mam." A chyda hyny tynodd hwynt i gyd ymaith, a dododd hwynt ar gadair oedd yn y pen arall i'r ystafell, lle nad allai eu gweled. Nid allai ei fam lai na chanmawl y fuddugoliaeth a ennillasai y bychan arno ei hun, a dysgodd y wers bwysig hon oddiwrth y tro—PEIDIO BYTH A CHWARE A THEMTASIWN.

M—s.

Y BACHGEN BACH DALL.\*



R ddiwrnod dymunol o haf  
 Awelfwyn, a'r blodau 'n ymledu,  
 A'r adar yn cathlu i'w Naf,  
 / A phobpeth trwy anian yn gwenu.

Mewn myfyr ymlwybro a wnês  
 Dan leni y tewfrig cysgodol,  
 Ac yn dra disymwth mi ddês  
 I olwg dau blentyn dyeithrol.

Bachgenyn a geneth heb fraw  
 Eisteddent wrth fonyn pren bedwen ;  
 Hi 'n dyner ymaflai 'n ei law,  
 Pan welais mai dall oedd y bachgen.

Nis gwyddent fy mod i gerllaw  
 Pan safwn o'r neilldu o'u golwg ;  
 Ond clywn eu hymddyddan o draw,  
 A'r oll a wnaent, welwn yn amlwg.

"O Mair!" ebai 'r bychan dall, mād,  
 "Mae 'r ednog yn canu yn odiaeth ;  
 A weli ef yn ei fwynhād,  
 A yw ef mor bert a'i gerddoriaeth?"

"Ydyw, Edward, mae," ebai 'r fereh,  
 "Mi gwelaf ar bren acw, i waered ;"  
 Och 'nseidodd, ond d'wedodd mewn serch,  
 "O Mair, fel heffwn ei weled."

\* Synwyd ni yn y darn hwn wrth weled syniad mor dlws mewn llawysgrifen mor blentynaid, a diwyg mor garpiog. Cymerasom ein rhyddid i newid amryw o'r llinellau.

"Y blodau 'ynt, maddi, yn lân,  
A'r coedys a'u gwrodd-ddail yn hynod;  
Heirdd adar yn arllwys eu cân,  
Mor brydgarth i'r rhai sy 'n eu canfod.

"Aegob' r wyf fi 'r blodau mwyn,  
A thaeimlo 'r wyf gyegod y deilwrydd,  
A chlywaf obwydd-dênau a swyn  
Yr adar a wnaeth fy Nghreawdydd.

"Fy chwae'r! y mae Duw i mi 'n heol,  
Er na roddodd i mi olygon;  
Ond dywed,—A oes rhai i'w cael  
Ymhlith plant y nafsoedd yn ddeihion?"

"Nac oes, fy mrawd, gwelant i gyd,—  
Ond pam y gofyni mor hynod?"

"Wel, am y meddyliaf o hyd,  
Fel hoffwn gael edrych ar Dduwdod!"

Afiechyd cyn hir droes yn wyw  
Y bachgen bach mwynaidd diniwed,  
A'i fam oedd yn weddw, ar Dduw  
A lefai am iddo ei arbed.

Fo deimlai ei dagrau yn lli'  
Ar ei rudd, a d'wedai, "O'm herwydd  
Na wylwch, fy mam, 'r wy 'n myn'd fry,  
Lle caf, meddai Mair, wel'd yr Arglwydd.


"Ti, Mair, ddeui yno i fyw,—  
Ond mam, pan y deloch i Wynfa,  
Gwnewoh dd'weyd wrthyf, fy mam, mai chwi yw,  
Chwi wyddoch nas gwelais chwi yma."

Dystawodd! ond gwenodd yn fâd,  
Nes derbyn yr ergyd angeuol!  
Ei lygaid agorodd ei Dad  
Y tro cyntaf o fewn y wlad nefol.

DURTUR CYMRU.

## MYNED I NOFIO AR Y SABBOTH.

**H**ENDERFYNODD twr o fechgyn unwaith fyned tua llyn y gored i nofio, yn lle myned i'r ysgol, ar brydnawn Sabboth. Gwyddent o'r goreu eu bod yn gwneuthur drwg; ond er hyny myned a wnaethant. Wedi cyrhaedd at y llyn, yr hwn oedd allan o olwg y tai, cyn myned i nofio, aethant i gerdded ar draws y gored, uwch ben y llyn, yr hon oedd yn anturiaeth dra pheryglus. Ac nid hyny yn unig, ond aeth un o honynt i ddangos ei fedrusrwydd trwy sefyll ar ei ben ar ganol y gored, fel y dengys y



darlun. Chwarddai rhai o'r plant am ei ben, ond dychrynai y lleill, a gwaeddent arno beidio rhyfygu. Ond dal i wneyd yr oedd ef o hyd, nes o'r diwedd iddo benfeddwi wrth edrych ar y dwfr yn rhedeg, a chwympo dros y gored i'r llyn odditanodd.

Ymhen dau neu dri mynyd, yr oedd bloeddiadau y plant wedi dwyn amryw bobl ynghyd. Rhedai rhai i geisio rhaffau, neu fachau, neu rywbeth i chwilio y pwll. Yr oedd y llyn yn rhy ddfwn i neb fyned i lawr iddo. Dangosai y plant y fan y syrthiodd, a threiwyd llawer offeryn i grafu gwaelod y pwll yn y fan hono. O'r diwedd, ymhen tua hanner awr, teimlodd un rywbeth meddal & blaen y bâch hir oedd yn ei law, a gwaeddodd allan. Ceisodd ei godi i fyny, a gwelwyd troed bychan yn codi uwchlaw y dwfr. Gwellhawyd gafael y bâch, a thynwyd ef i'r lân. Symudwyd ef i dwmpath glas gerllaw, a chrugiai tyrfa fawr o'i gwmpas. Druan bach! yr oedd y dwfr yn rhedeg yn llif oddiwrth ei ddillad; ei fôchau yn wridog, ei enau fel mewn haner gwên, ond ei holl gorff yn glamp oer a difywyd.

Deallwyd fod yr enaid wedi dianc, ac nad oedd gwiw gyru am feddyg, na threio moddion adferiad. Cafwyd estyllen i roddi y corff arni, a chododd pedwar yr estyllen ar eu hysgwyddau i'w ddwyn ymaith, yn nghanol wylofain dystaw y rhai oedd yn canlyn.

Yn awr, anwyl blant, dysgwch ddwy wers oddiwrth yr hanes a'r darluniau hyn;—

1. Gochelwch dori'r Sabboth. Nis gellwch wneyd hynny heb dori gorchymyn Duw, anufuddhâu i'ch rhieni, a myned yn groes i deimlad eich cydwybod. Os byddwch yn gallu myned ar draws



y pethau hyn oll, gellwch fod ar eich dysgwyliad am ddrwg i'ch goddiweddyd.

2 Peidiwch rhyfygu i ganol peryglon, er mwyn dangos i eraill eich bod yn feiddgar neu yn fedrus. Mae hyn wedi costio ei fywyd i lawer un, heblaw y bachgenyn hwn.

## HANES FY HUNAN.

### PENNOD V.—DIGON O LE.

**P**ETH cyntaf a wnes, wedi cyrhaedd pen y graig, fel y dylaswn, oedd diolch i Dduw am fy arbediad, pan oedd y dwylaw eraill oll wedi boddi. Yr oedd y waredigaeth yn llawn gymaint a phe buasai drwgweithredwr yn cael ei fywyd ar yr esgynlawr dyoddef, pan oedd rhaff y crogwr am ei wddf. Cerddais yn ôl a blaen ar hyd y lân, gyda syniadau dyeithr, a theimladau anhraethadwy. Gwelwn yr hen long yn gorphwys ar y tywod mewn pellder oedd yn peri i mi synu sut y daethum â fy mywyd genyf trwy gymaint o fôr. Ni welais gymaint a chorff yr un o fy nghymdeithion, na dim perthynol iddynt oddigerth tair het, un cap, a dwy esgid heb fod yn gymhariaid.

Wedi dyfod ychydig ataf fy hun, dechreuais feddwl am y lle yr oeddwn wedi fy nhaflu iddo, a'r sefyllfa ddyeithr yr oeddwn ynddi. Yr oeddwn yn wlyb hollol, ac heb un dilledyn i newid y llall. Nid oedd genyf damaid i'w fwyta, na llymaid i'w yfed, nac argoel am ddim gwell o fy mlaen na marw o newyn, neu syrthio yn ysglyfaeth i fwystfilod rheibus. Nid oedd genyf ychwaith yr un arf nac offeryn i ladd unrhyw grëadur er fy nghynnalïaeth, nac i amddiffyn fy hun rhag crëaduriaid ysglyfaethus. Fy holl eiddo ydoedd cyllell, pibell, ac ychydig ddybaco mewn blwch. Gyrddodd fy nghyflwr fi fel dyn gwallgof, am rai oriau; rhedwn yn ôl



a blaen mewn trallod meddwl anesgrifiadwy. Taenodd y nos ei lleni tywyll drosof, a dychrynai fy nghalon gan ofn crwydriad y gwyllfflod.

Cerddais ychydig gannoedd o latheni i'r tir, ac er fy llawenydd cefais ffrwd fechan o ddwfr croew. Deachtais yn helaeth o honi i dori fy syched. Torais bastwn da mewn llwyn o goed, a dringais i dewfrig coeden i lechu dros y nos. Gosodais fy hunan mewn ffordd i beidio cwmpo, os cyagwn—er nad oedd fawr o gyagu arnaf wrth wneyd y darpariad—a chedwais y postwn yn fy llaw, rhag i fwystfil drwg ymosod arnaf. Yr oeddwn wedi blino cymaint, fel na fum nemawr o amser yn marig y goeden cyn fy mod wedi cyagu yn drwm. Pan ddeffroais, yr oedd yn ddydd goleu, yn ddiwrnod hyfryd, a'r awyr yn glir. Un o'r pethau cyntaf a dynodd fy sylw y bore ydoedd, fod y llanw yn ysted y nos wedi codi y llong o'r fan y gorweddaï ar y tywod, a'i gadael o fewn oddeutu milldir i'r làn. Safai hefyd â'i gwyneb i fyny, a theimlwn innau awydd angerddol am allu cyrhaedd ei bwrdd, i geisio cael hyd i rywbeth at fy anghen.

Brysiais tua'r làn; a chan fod y llanw wedi cilio ymhell yn ôl, a'r dyfroedd yn fâs, gellais gerdded ymlaen nes oeddwn o fewn chwarter milldir iddi. Deallais yn awr pe buasem wedi bod mor gall ag aros yn y llong, y buasai ein bywydau oll yn ddiogel; a rhaid dyweyd i hyn dynu dagrau o fy llygaid. Ond nid oeddwn well o wylo yn awr. Pa sut i fyned at y llong i gael rhywbeth i'w fwyta? Yr oedd y môr yn dawel, a'i wyneb mor llyfn a bord, a phenderfynais innau geisio nosio at y llong. Cyrhaeddais at ei hochr; ond gan ei bod yn gorphwys ar y tywod, ac felly yn uchel iawn oddiwrth y dwfr, yr oedd yn ymddangos yn beth anmhosibl i mi allu cyrhaedd ei bwrdd. Nofais ddwy waith o'i hamgylch. Pan oeddwn bren digaloni, gwelais ddarn o raff yn hongian oddiwrth gadwen haiarn, ac yn dyfod i lawr at y dwfr, eto yn rhy uchel i mi allu ei chyrhaedd wrth nosio. Beth bynag, wedi hir ymdrech, llwyddais i gael gafael ynddi, a dringais i fwrdd y llong.

Yr oedd llawer o ddwfr yn ngwaelod y llong, ond synais yn fawr ei gweled wedi dal yr ystorm mor dda, a'r ymborth a'r nwyddau oedd ynddi mor ddianaf. Y peth cyntaf a wnes oedd tori fy newyn trwy fwyta pryd da o'r *biscuits*, ac yfed llwnc neu ddau o'r gwirod. Y pwnc nesaf oedd, pa fodd i gael cymaint a allwn o'r pethau oedd yn y llong i dir. Cymerai ormod o amser a lle i mi ddesgrifio fy helbul yn casglu yr estyll, ac yn teri darnau o'r llong â llawlif, i ffurfio math o gwch. Nid ydoedd ond nifer o blanciau wedi eu cylymu wrth eu gilydd â rhaffau. Gollyngais hwynt i lawr i wyneb y dwfr, a gwelais y gallasant ddal ychydig o bwysau heblaw fy hunan. Dechrenais chwilio a chagla y pethau mwyaf anghenrheidiol. Gwaghaeis ddau neu dri blwch, a llenwais hwynt â bara, eaws, cig, gwirod, ac amryw bethau eraill, a gollyngais hwynt i lawr ar y planciau. Cyn fy mod wedi gorphen, sylwais fod y llanw yn codi, a chafais y blinder o weled fy nillad oeddwn wedi adael ar y traeth yn cael eu cymeryd ymaith.

gan y tónau. Ond yr oedd digon o ddillad yn y llong, a bryisiais i geisio pár neu ddau at fy anghen. Bum yn chwilio yn hir cyn cael o hyd i'r blwch a'r offer saer oedd yn y llong; ond cefais ef o'r diwedd, a gosodais yntau ar y *raft* oedd yn awr yn prysur godi gyda'r llanw, yn ymyl y llong. Cefais hefyd amryw ddrylliau; ac yr oedd dwy o'r tair barilaid pylor wedi cadw yn sych. Gosodais y rhai hyn eto ar y planciau, a gwelais fod genyf lawn digon bellach, a bod yn rhaid i mi attal, neu yru y cwbl i'r gwaelod.

Y pwne yn awr ydoedd hwylio fy llwyth tua'r lân, oblegid nid oedd genyf na hwyl, na rhwyf, na llyw. Yr oedd tri pheth, er hynny, yn fanteisiol. Yr oedd y môr yn dawel, yr oedd y llanw yn codi ac yn taffu tua'r lân, ac yr oedd cymaint o wynt ag ydoedd yn bod yn chwythu hefyd at y tir. Cefais ddau ddarn o estyllen yn lle rhwyfau; gosodais y llif, y fwyall, a morthwyl go fawr, gyda'r llwyth; gollyngais y rhaff yn rhydd, a dechreuais hwylio yn gynnil at y lân. Yr oedd y lân wedi pellhau yn fawr oblegid y llanw, ac yr oeddwn innau yn cael fy ngwthio y naill ochr i'r lle y glaniais o'r blaen. Gwelwn o fy mlaen giffach, fel ceg afon fechan, yn myned i mewn i'r tir, ac yr oeddwn innau yn myned yn union gyferbyn â hi. Bu agos i fy ngharfad unwaith ollwng ei lwyth a minnau i'r dwfr. Tarawodd ar fencyn o dywod, neu graig, nes oedd un pen yn codi a'r llall yn gostwng, a'r holl lwyth yn pwyso ar draws fy nghefn. Cedwais fy nghefn ya dyn yn erbyn y blychau am lawn hanner awr, ac ofn syfryd arnaf, hyd nes llanwodd y dwfr i'w wastadhau, a gollwng fy mād yn rhydd. Gorchwyl anhawdd oedd cael lle i ddadlwytho. Chwillais am lecyn gwastad gerllaw y dwfr; ac wedi i'r dwfr ei ontraddio, symudais fy llwyth i'r fan hono, a deliais ef â fy rhwyfau hyd nes i'r llanw gilio yn ôl. Cyn nos yr oedd fy mād a'i lwyth wedi ei adael yn ddiogel ar dir sych.

Fy nghorchwyl nesaf ydoedd dewis man i ymsefydlu. Cymerais ddryll yn fy llaw, a defnyddiau saethu yn fy mhoced, ac aethum yn gyntaf oll i ben bryn uchel oedd o fewn oddeutu milldir o bellder. Wedi dringo i'w ben, deallais mai ynys oedd y lle yr oeddwn ynddo, ac nad oedd ond bechan a diffwrth, heb ddim trigolion yn byw arni. Mae yn anhosibl desgrifio fy nheimladau wrth yr ystyriaeth o fy unigrwydd a fy nhyngned. Wrth dychwelyd saethais aderyn mawr tebyg i farcud, ond deallais nad oedd yn aderyn priodol i'w fwyta. Cododd nifer mawr o adar wrth drwst yr ergyd, ond nid adwaenwn yr un o honynt. Tybiwn i mai hwnw oedd yr ergyd cyntaf a saethwyd ar yr ynys er y dydd y crëwyd hi. Dychwelais eto at fy mhethau, a dechreuais eu symud i le diogel, a pharatoi erbyn gorphwys y nos. Gwnaethum fath o gaban i mi fy hun o'r blychau a'r rwyddau oedd genyf; a chysgais y noson hono ar wely a ddysgais o'r llong, yn nghanol y cruglwyth.

Parhâodd yn dywydd teg a hyfryd am bythefnos. Yn ystod yr amser telais ddeuddeg ymweliad â'r llong, gan ddywyn cymaint a fedrwn o'i llwyth; yn gystal a'i hwylybreni, ei hwylyiau, a'i rhaffau,

i dir at fy ngwasanaeth. Yr oeddwn wedi myned i'w bwrdd y drydedd waith ar ddeg, ac yn parotol amryw bethau eraill i'w dwyn ymaith; ond dechreuodd y gwynt godi, a gwnaethum innau bob brys i nofio i'r lân. Cododd ystorn y nos hono, ac erbyn drannoeth yr oedd y llong wedi ei dryllio yn chwilfriw, a'i dwyn ymaith gan y môr.

Onid yr oeddwn wedi bod yn hynod ddiwyd a llwyddiannus gyda'i dadlwytho, ac ystyried nad oedd genyf gymhorth llaw, na chwch, na phorthladd. Yr oedd genyf fryn bychan o bob math o nwyddau ac offerynau; ac yr wyf yn credu, pe buasai yn para yn deg, y buaswn yn cludo yr holl lestr, yn ddarn ar ol darn, i fyny i'r tir at fy ngwasanaeth. Dylaswn ddyweyd i mi, y tro diweddaf y bum ar y bwrdd, agor drâr, a chael ynddi ddwsin o gyllyll a ffyrch, ellynod, sisyrnau, ac oddeutu pymtheg punt ar hugain o arian. Gwenais wrth weled yr arian, a dywedais yn uchel, "O hen gyfferi diffwrth! nid ydych yn werth eich cludo ymaith. Y mae un o'r cylllyll yma yn werth yr holl swm. Cewch fyned i'r gwaelod fel creadur nad yw yn werth ei gadw." Ond wedi ail feddwl, cymerais hwy gyda mi i'r lân.

Chwiliais yn awr am le cyflêus i ymsefydlu. Yr oeddwn am gael lle sych, yn agos at ddwfr croew, ac yn ngolwg y môr, er mwyn gwyllo llong yn dyfod i'r golwg. Cefais ddarn o lechwedd glas, o flaen craig serth uchel, a phenderfynais godi caban diogel fan hono. Yr oedd y graig yn ddiogelwch i mi o'r tu cefn, a gallwn weithio ogof i mewn iddi wrth fy mhleser, ac nid oedd genyf ond gwneyd caban o hanner cylch yn erbyn y graig. Adeiledais gaban eang a chadarn, heb un drws i fyned i mewn, ond ysgol i ddringo dros ei fur. Ac yr oedd caban llai o fewn y mwyaf, a hen hwyl yn lle tô iddo. A chewch fy ngadael yn y caban hwnw hyd y mis nesaf.

(*Pw barhâu.*)



## Y BACHGEN GWYDDELIG A'R OFFEIRIAD.

(CYFLEITHIAD.)

**B**ACHGENYN Gwyddelig call, mirain, a mad,—  
 Ei fam o'r wir grefydd, ond Pabydd ei dad;  
 Ewyllysiai gael myned i'r Llan gyda'i fam,  
 Ond ei dad i'r Offeren a'i mynai yn ddinam;  
 Er hyny 'n ddirgelaidd i'r Eglwys yr ai,  
 A chwennych cael achub ei enaid a wnai.  
 Y gweinidog a'i gwelodd, gwobrwyodd ei zêl,  
 Trwy rodidi iddo Fibl, 'r hwn garai 'n ddirgel;  
 Y tad yna 'n orwyllt gan ddirger a aeth,  
 Fe guddiodd y llyfr, ac fe 'i triniodd yn waeth;  
 Fe'i golchodd yn aml â'r sanctaidd ddwfr pur,  
 Ond amlach fe'i cosbodd â gwialen a chur:

Fr hyny bob Sabboth i'r Eglwys yr âi,  
 A chwennych cael achub ei enaid a wnai.  
 Ond un boreu Sabboth fe fynodd ei dad  
 Ei luago i'r Offeren trwy drais a thrwy frâd ;  
 Pabyddion cyndynion gydlusgent mewn gwg,  
 Gan erchi 'r Offeiriad i faddeu ei ddrwg.  
 "Na, na myn 'r Offeren, 'does bendith un pryd,"  
 Ebai hwn, "cyn cyffesu 'r pechodau i gyd."  
 "Wel," ebai 'r bachgen, gan ledrithio yn gall,  
 "Pa faint yw y taliad?" "Ond swllt," ebai 'r llall.  
 "A raid i bawb dalu a chyffesu 'n ddigudd?"  
 "Rhaid, pawb a broffesa 'r wir Gatholig ffydd."  
 "I bwy gwnewch chwi 'ch cyffes?" "I'r Deon heb freg;"  
 "A ydych chwi 'n talu?" "Wyf, dri swllt ar ddeg."  
 "A gyffesa 'r Deoniaid?" "Cyffesant i gyd,  
 I'r duwiol Esgobion, a thalant yn ddrud."  
 "A gyffesa 'r Esgobion, gan dalu, ac i bwy?"  
 "Cyffesant, yn Rhufain, gan dalu eto fwy."  
 "Wel, wel," meddai 'r Bachgen, "peth rhyfedd iawn yw,  
 A yw 'r Pab yn cyffesu?" "O ydyw, wrth Dduw."  
 "A pha faint mae e 'n dalu i Dduw am ryddhâd?"  
 "O dim," ebai 'r Offeiriad, "Duw a faddeu yn rhâd."  
 "Os felly," ebai 'r plentyn, "y goreu oll yw,  
 Mae 'n abl i faddeu pechodau o bob rhyw,  
 A pharod iawn hefyd; âf finnau at Dduw,  
 Caf arbed fy swllt, a fy enaid gaiff fyw."

O "EHEDIADAU BYRION" GLAN ALUN.

## ATHRONIAETH PETHAU CYFFREDIN.

### PENNOD VIII.—YR AWYR.

**BEN.** 'Nhad, mae gen' i amryw gwestiynau caled i'w gofyn i  
 chwi heddyw; dyma un,—Sut mae y glâs yn gostwng o flaen  
 tywydd garw?

*Tad.* Effaith yr awyr ar yr arian byw sydd ynddo ydyw. Mae  
 lwmp o arian byw yn ngwaelod y bibell wydr sydd yn perthyn  
 i'r glâs, ac y mae pwysau oddiwrth y nodwydd yn gollwng i lawr  
 hyd wyneb yr arian byw. Yn awr mae gwres yr awyr ar dywydd  
 teg yn chwyddo yr arian byw, ac yn peri i'r pwysau godi; ond yn  
 ei grebychu ar dywydd oer a gwlyb, nes gwneyd iddo ostwng.

*Eben.* Sut mae eich cyrn chwi mor boenus bob amser cyn  
 gwlaw?

*Tad.* Cyfnewidiad yr awyr sydd yn peri i'r traed chwyddo neu  
 grebychu; a chan fod y corn yn galetach na phob rhan arall o'r  
 traed, y mae yn methu chwyddo na chrebychu mor fuan, ac felly  
 yn peri poen yn llinynau meinion y nerves.

*Eben.* Sut y mae yn oerach yn y seler yr haf nag un man  
 arall yn y tŷ, ac yn gynhesach yno yn y gauaf?

*Tad.* Am nad oes ffordd rydd i'r awyr fyned i mewn i'r seler. Y mae y seler ddeg gradd yn gynhesach yn y gauaf nag ystafell gyffredin, a deg gradd yn oerach yn yr haf; ac felly yn cadw agos yn yr un dymheredd trwy y flwyddyn.

*Eben.* Sut y mae awyr yn rhydu haiarn?

*Tad.* Trwy fod *oxygen* yr awyr yn ymuno â gwyneb yr haiarn, ac felly yn cynnyrchu yr hyn a elwir yn *oxide* neu *rhwd* haiarn. Rhwd yw haiarn ac *oxygen* wedi ymgymysgu.

*Eben.* Pa fodd y mae haiarn poeth yn dalenu ymaith wrth ei guro â morthwyl?

*Tad.* Mae *oxygen* yr awyr yn ymgymysgu yn hawdd â gwyneb poeth yr haiarn, ac yn ffurfio *oxide* neu rwd, yr hwn sydd yn rhisglo ymaith wrth ei daro.

*Eben.* Sut mae *stoves* a haiarn tân yn rhydu?

*Tad.* Am fod lleithder yn yr awyr, a bod awyr llaith bob amser yn rhydu haiarn. Ni rydant byth ond cadw yr awyr yn sych. Y rheswm fod pob haiarn yn fwy parod i rydu yn yr hydref a'r gauaf nag yn y gwanwyn a'r haf, yw fod yr awyr yn fwy anghymhwys i ddal y lleithder yn yr hydref a'r gauaf, ac felly yn fwy parod i'w ollwng i lawr.

*Eben.* Diolch i chi, 'nhad; nid oes genyf ychwaneg yn awr.



### AMDDIFFYNFA Y CRISTION.

"Yr hwn sydd yn trigo yn nirgelwech y Goruchaf, a erys yn nghysgod yr Hollalluog."—PSALM xci. 1.

**D**R hwn a drig yn nirgel le  
Preswylfa y Goruchaf;  
Yr Arglwydd a'i cysgoda ef  
Rhag y peryglon gwaethaf.

Yr Hollalluog fydd ei blaid,  
Ei noddfa, a'i amddiffyn;  
A thŵr ynguddfa iddo fydd  
Rhag drygau fo 'n ei ddilyn.

A than y cysgod nerthol hwn,  
Ymorphwys ga 'n dragwyddol;  
Heb ofni niwed, poen, na phla,  
A dyma 'i gartre' nefol.

W.



### Y BIBL NEU REGU.

**B**ENDERFYNODD pwyllgor Cymdeithas y Biblau yn E  
Top, gerllaw Birmingham, yn ddiweddar, anfon dau neu  
o ddynion â baich o Fiblau i dafarnau y gymydogaeth  
nos Sadwrn. Yr amcan ydoedd cael gan y gweithwyr oedd

mynychu y tai hyny brynu Biblau, tra fyddai ganddynt arian yn eu pocedau. Ymhen deng mis, yr oedd y dynion hyny wedi gwerthu, mewn tafarndai yn unig, ar nos Sadyrnau, werth triugain a deg o bunnau o'r Ysgrythyrau sanctaidd. Yr oedd hanes yr ymweliadau â'r tafarndai, yn yr adroddiad, yn dra dydderol. "Dyma ni wedi dyfod â Biblau i'w gwerthu i chwi," meddai y dynion. Yn y man dywedai un o'r glöwyr oedd yno yn yfed,—“A fyddai ddim yn beth da i ni gael Bibl i lawr yn y pwll, i'w ddarllen amser ciniaw?” Penderfynwyd ei gael, a rhoddodd y tafarnwr swllt taag at dalu am dano. Wedi prynu y Bibl, dywedodd un o'r gweithwyr, mewn tön syml a difrifol, “Wel, yn awr, os ydym yn myned i gael y Bibl amser ciniaw, rhaid gadael rhega!” Dywed yr hen dduwinyddion fod gweddi yn sier e droi pechod allan, neu bechod droi gweddi allan. Teimlai y dyn hwn hefyd nas gallai y Bibl a rhegu gydfyw â'u gilydd, ond fod yn rhaid i'r naill droi y llall allan.

Wedi myned â'r Bibl i waelod y pwll glo, pasiwyd y gyfraith ganlynol ymysg y gweithwyr:—Pob un a regai amser ciniaw tra fyddai y Bibl yn cael ei ddarllen, yr oedd i ffurfedu yn hollol ei gyfran o'r ddiod am y diwrnod. Er y gall y fath ddirwy ymddangos yn chweringar i'r darllenydd, ystyrid hi yn ddirwy drom yn y pwll; ac yr oedd y fath gyfraith, yn y fath le, yn warogaeth bwysig i ddylanwad y Bibl. Pa lyfr arall ar y ddaear, wrth ei dafu i ganol y fath ddosbarth o ddynion, a barai iddynt deimlo fod yn rhaid iddynt adael eu pechodau, neu ymwrthod â chwmpeni y Llyfr? Tra y gellir cadw y cyfryw barch i'r Bibl yn nosbarth gweithiol ein gwlad, gallwn dafu ein hofnau gyda'r gwynt.—*Y Parch. Charles Vince.*



TY GWEDDI I'R HOLL BOBLOEDD.

**Y**AE yr Arglwydd yn hoff o wrando gweddi, y mae wedi sefydlu tŷ yn ddarpariaeth ar gyfer hyny. Yr oedd hen frenhin oedd y wlad hon yn codi cestyll yn y wlad, er amddiffyn eu hunain a chadw y bobl daoynt. Ond y mae Victoria yn codi palasau yma a thraw i gael byw gyda'i phobl. Felly hefyd y mae yr Arglwydd yn sefydlu tŷ gweddi, lle mae yn dyfod at ei bobl i wrando eu gweddian, ac i'w bendithio. Mae llawer o fancian lleol yn y wlad hon na cheir pasio eu biliau mewn ardaloedd pellenig; ond ceir pasio biliau *Bank of England* trwy bob parth o'r ymherodraeth Brydeinig. Banc yr ymherodraeth yw tŷ gweddi—“i'r holl bobloedd.” Mae ar filiau y banc, “*Pay the bearer*” (telwch y dygiedydd), pwy bynag a fyddo. Felly hefyd y mae ar fanc *note* y nefoedd, “*Pay the bearer.*” Pwy bynag a ddelo—“llawenychaf hwynt yu nhŷ fy ngweddi”—mor gynted ag y dygant y biliau i'r *counter*, talaf hwynt yn llawn mewn awr pur.—*Y Parch. Edward Morgan.*



## CLOGYN Y MEDDWYN.

**M**AE yn bosibl y bydd llawer o'r plant yn chwerthin wrth y darlun hwn, ac yn gwaeddi pan welant ef,—“Hoi! hoi! dyma ddyn yn y faril!” Ac fe allai y bydd rhai yn dymuno bod ymysg y plant sydd yn rhedeg gydag ef, yn chwerthin am ei ben, ac yn ei wawdio.


Er ys blynyddoedd lawer yn ol, arferid cosbi y meddwyn trwy osod casgen, neu faril fel uchod, am dano. Yr oedd pen isaf y faril yn agored, a thwll yn y pen uchaf digon i'r pen i fyned trwyddo, a thyllau yn ei hochrau i'r dwylaw. Oddiwirth yr arferiad hwn y cafodd yr enw clogyn y meddwyn. Yr oedd y meddwyn i gael ei yru gyda'r clogyn dirmygedig hwn am dano trwy yr ystrydoedd, yn wrthddrych dirmyg neu dosturi i'r rhai a elent heibio, ac yn destun difyrwch annesgrifiadwy i blantach segur, y rhai a ymhyfrydent yn ei wawdio a'i boenydio.

Edrychwch eto ar y darlun. Y fath olwg dreuliedig a thruenus sydd ar y meddwyn ei hun! Edrychwch ar ei wraig âg un plentyn yn ei braich, a dau yn wylo wrth ei hochr. Braidd nad ellir clywed ei geiriau chwerwon wrth ei gŵr, a'i braich yn estynedig ato, tra yn edliw iddo am dynu y fath ofid a blinder arno ei hun ac ar ei deulu. Yn y ffenestr uwch ei ben, yn ysmocio, a'i lasaid meddwol yn ei law, mae y tafarnwr roddodd ddiod i'w feddwi, yn berffaith ddifater o'r olygfa sydd ar yr ystryd. Mae yn syn na fyddai agwedd y meddwyn ei hun, neu wylofain truenus ei wraig a'i blant, yn brathu ei gydwybod! Edrychwch hefyd ar y bachgenyn bychan pennoeth sydd yn cerdded o flaen y meddwyn, yn

lledu ei ddwyllaw bychain tewion, yn plygu ei arau, ac yn ceisio dynwared y meddwyn wrth gerdded. Gwylled ef na ddilyno ol troed y gŵr sydd yn y faril, rhag iddo allu gwneyd mwy na'i ddywared. Bu y meddwyn yna un diwrnod mor llon a dedwydd a neb o'r plant sydd heddyw o'i gwmpas. Ond trwy ymarferiad â diodydd meddwol, tynodd felldith ar ei ben ei hun a'i deulu. A dyma ef heddyw yn destun gwawd a rheg i'r holl fangre.

Ddarllenydd anwyl! paid chwareu â diodydd meddwol mwy nag â neidr wenwynllyd. Yn wir, hi dy fratha fel sarph; piga di fel neidr. Iē, ei diwedd hi fydd marwolaeth!

COFIWCH DICI BACH.

 AN John 'r oedd 'deryn melyn  
Mewn tŷ yn nghŵr y dre,  
Fe ganai 'n hynod swynol  
Y boreu, ac amser tē;  
Os llawen fyddai 'r teulu,  
Yn uchel byddai 'i gân;  
Os tristwch a deyrnasai,  
Fe dawai bron yn lân.


Aeth John i'r wlad ryw foreu,  
Heb fwydo Dici bach;  
A phan ddychwelodd adref,  
Canfyddai nad oedd iach;  
Y nos fantellai 'r ddaear,  
Dystawrwydd lanwai 'r lle,  
Ac yn ngoleuni 'r boreu,  
Yn farw cafwyd e.

Fe wela pawb wrth ddarllen  
Y ddamwain fechan hon,  
Fod Duw yn fwy gofalus  
Am adar bach na John.

W. PENNANT ROBERTS.

CYSTADLEUAETH Y CYFIEITHIAD.

(Gwel rhifyn Gorphenaf, tu dal. 187.)

 AETH 33 o gyfieithiadau i law, ac y maent yn rhy liosog i wneyd sylw ar bob un. Gellir eu rhanu yn dri dosbarth. Yn y dosbarth iselaf mae naw, yn dwyn yr enwau L. N. R, Caerfallwch; Hari ap Dafydd, Gwen Iolen, Brook Kihon, Cawr Gwan, Llanddarog, Dymunwr, a Rhys y geiriau duon. Mewn dosbarth ychydig yn uwch mae John Owen, B—r—n—g, Gwylt o gell Gwalia, Gomerddu, Garneddwr, Owain Wyn, Yr Hebog Glas, Mithredath, Arlwyn, Ysgotyn mewn pais gwta, Welsh Mountain-eer, Un o Feirion, Llew Bach, ac Ymgeisydd—oll yn bedwar ar



ddeg. Mae deg eraill yn gwneyd y dosbarth blaenaf:—Lex, Dysgybl, Un garai gael y goron, Goronwy, Plentyn y gaethglud, Pererin, Monowano, Mynyddwr, Trebor, ac Alun. Mae amryw o'r rhai hyn yn bur dda, yn hynod o debyg, a chyfartal. Ond nid ydynt oll wedi deall y meddwl yn y tair llinell gyntaf. A thebygem mai gyda'r pedair llinell olaf y cafodd yr holl gyfieithwyr yr anhawsder mwyaf. Ar ol hir gymharu, tybiwn mai y gorau mewn cywirdeb cyfieithiad a mesur, ynghyd a llithrigrwydd cyfansoddiad, yw "Goronwy." Anfoned ei *address*, ac anfonwn minau y goron iddo. Dyma ei gyfieithiad:—

Sanctaidd linyrau o'n cylch ddirwynant,  
Serch raffau dynant  
At yr Iachawdwr;  
Molwch yr Iôr.  
Er mewn gogoriant,  
Agos yw ef,  
Yn ein hiselder  
Gwrendy ein llef.

O'th breswyl, O Dad, O gwel ni 'n wastadol,  
Arwain ni 'n dadol,  
At ddyfroedd tawel,  
Hoff Fugail mwyn!  
Dysglaer llewyrchwn  
Gyda thi 'nghyd,  
Byth y'th foliannwn,  
Geidwad y byd.

GORONWY.

## PRIODI.\*

**P**ID oes yr un undeb yn cael ei ffurfio gan ddyn yn fwy pwysig na'r undeb priodasol, na'r un y siaredir am dano yn fwy ysgafn, neu yr eir iddo yn fwy anystyriol. Hwn, braidd, yw yr unig undeb daearol nas gall dim ei gyfnewid ond angeu. Nid undeb dau grëadur yn unig ydyw, ond undeb rhwng dau ysbryd; ac amcan y cyfryw rwymyn yw perffeithio natur y ddau, trwy gyflenwi diffygion y naill yn nghymhwysderau y llall. Ac i'r graddau y mae y dyben yn ddirifol a gogoneddus, fel y bwriadwyd ef, y mae yn ofnadwy os camarferir ef. Nid oes un berthynas ddaearol â chymaint o allu ynddi i buro a dyrchafu ar y naill law, neu i anafu a dinystrio yr enaid ar y llaw arall. Mae dwy graig yn y byd hwn ag y mae yn rhaid i'r enaid fwrw angor arnynt, neu fyned yn ddrylliau arnynt. Un yw Duw, y llall yw y berthynas briodasol. Os bwrw yr enaid angor ar Graig yr oesoedd, caiff fyw bywyd bendigedig ffydd; ond os tery yr enaid yn ei herbyn, bydd yn llongddrylliad dychrynlyd Atheistiaeth, yr

\* Mae y syniadau hyn wedi eu cymeryd allan o erthygl gan Dr. Caird, yn "Good Words."

hwn yw dinystr gwaethaf dyn. Mae y graig arall yn wahanol. Gwyn ei fyd y dyn neu y ddynes ag y mae profiad bywyd wedi ei ddysgu i ymddiried yn y rhyw gyferbyniol—dedwyddwch nad yw ond ail i ddedwyddwch iachawdwriaeth; ac nid yw y dinystr o'r tu arall ond ail i ddinystr colledigaeth.

Os yw y cysylltiad hwn gan hyny mor bwysig, mor ynfyd yw y rhai a ymruthrant iddo yn hollol ddifeddwl, neu oddiar olwg ar ryw fanteision tymmorol. Mae y dyn hwnw yn cyfeiliorni yn fawr, sydd yn goddef iddo ei hunan lithro i gysylltiad fydd yn ddinystr ar ei hapusrwydd hyd ei fedd, a chysylltiad a fydd yn moldio ei fywyd ar gyfer tragywyddoldeb. Os bydd yr undeb yn cael ei seilio ar degwch gwedd, fel y bydd yn fynych, bydd yr undeb yn para wedi i'r tegwch ddiffanu. Gallai damwain neu glefyd ddinystrio y tegwch hwnw ar unwaith, a bydd blynydd-oedd oedran yn sicr o'i wneyd. A phe cadwai y tegan ei ddysgleirdeb, fe beidiai a boddhâu yn fuan. Ond ni cheidw mo hono. Fe drulia yr addurn ymaith oddiar y wyneb; a phan gaiff y dyn fod y brif afael oedd yn yr undeb wedi colli, bydd pob peth oedd yn gwneyd priodas yn wirioneddol a dedwydd wedi colli hefyd. Mae adeg pan swnia ffolineb yn swynol oddiar wefusau prydfferth; ond yn anffodus bydd y prydfferthwch yn cilio, a'r ffolineb yn para. Fel hyn bydd yr undeb a ddylasai fod yn gysur a bendith, yn myned yn faich ac yn felldith. Gellir dyweyd agos yr un peth am briodasau cyfleusdra. Nid yw cyfleusderau bywyd i'w dirmygu yn y cysylltiad hwn, bid siŵr; ond y mae gwneyd hyn yn ddechreu a diwedd y mater mor ynfyd ag ydyw o wael.

Felly yr unig undeb teilwng o'r enw priodas yw yr un hwnw, faint bynag o gymhelliadau allanol fydd ynglŷn âg ef, ag y mae cydymdeimlad meddyliol a moesol ynddo, ac uwchlaw y cwbl, gafael sanctaidd ffydd yr efengyl. Oblegid y mae hyn ynddo ei hun yn ein dwyn i undeb gwirioneddol a'n gilydd. Gallwn drigo dan yr un gronglwyd, ac eto fod mor bell oddiwrth ein gilydd â phe byddai y cefnfor yn gorwedd rhyngom. Ond lle byddo cydrediad chwaeth, cydymdeimlad eneidiau, undeb calon yn yr un Duw ac Iachawdwr, nis gall pellder nac amser ei wanhâu, na'r pethau sydd yn dryllio-cysylltiadau eraill effeithio arno. Gall y dwylaw a gysylltwyd ar allor Mammon golli eu gafael. Gall y calonau a unwyd gan rym nwydau, wedi i'r gwres hwnw oeri, syrthio ymaith ac ynbellhâu. Ond y rhai a unir gan Dduw a chan gariad sanctaidd, nis gall neb eu gwahanu. Diflaned cyfoeth, diflaned bywiogrwydd ieuencyd, deled blinder a thrallod o'r cyfeiriad y delont, ni wnant ond cynnyddu y serch a thynhâu yr undeb hwn. Os collir tegwch y wyneb, llunieidd-dra y corff, a hoewder y cerddediad ysgafndroed, daw prydfferthwch rhinweddau Cristionogol fwyfwy i'r golwg, addfeda y cymeriad mewn tangnefedd sefydlog, "ysbryd addfwyn a llonydd," yr hwn yw addurn y dyn cuddiedig. Mae undeb o'r fath yn deilwng o'r enw priodas; nis gall dim ond angeu ei dori; ac wedi angeu ceir cyfarfed drachefn, "a chw'rdd heb 'madael mwy."

## HANNAH ELLIS WRTH FYW AC WRTH FARW.\*

**C**OLLODD eglwys Crist ar y ddaear un o'i blodau prydfert haf pan fu farw Hannah Ellis, yn 19 oed, ar y 12fed o Mehefin diweddaf. Ymunodd âg eglwys y Methodistiaid yn y Ty mawr yn 15 oed, a bu ei bywyd yn esiampl ragorol i'w chyd-ieuencyd hyd ei bedd. Dyma ychydig o ragoriaethau ei bywyd: Wedi myned i winllan ei Harglwydd yn fore, dangosai ddyfalwch diball gyda moddion gras—y bregeth, yr Ysgol Sul, y cyfarfod gweddi, a'r cyfarfod eglwysig. Nid aeth erioed i ffeiriau Pwllheli gyda'r lliaws ieuencyd, ac ni chrosodd ei throed erioed drothwy tafarn yn nghwmni neb. Teimlai yn wastad y dylasai ei chrefydd reoleiddio ei gwisg, ac ymgadwai rhag yr holl ffolinebau diweddar mewn gwisgoedd. Ni chafodd rhieni blentyn mwy ufudd, yr ardal gymydoges fwy caredig, na'r eglwys aelod mwy ffyddlawn i'w phroffes.

Fel yna y bu Hannah byw, a galleid dysgwyl y buasai farw yn o gyffelyb. Byddai weithiau ar ei gwely yn dymuno cael byw; ond ofnai ddigio yr Arglwydd wrth hyny, a dywedai,—“Dy ewyllys di a wneler.” Pan goffâi ei mam yr adnod hono wrth erchwyn ei gwely, “Crëa galon lân ynof, O Dduw, &c.”—“Mam bach,” ebai, “adnod gynnefin ac anwyl iawn i mi yw hona. Nid aethum i'm gwely er ys blynyddoedd heb yr adnod yna yn fy ngenau.” Bu farw yn dawel, a holl bwys ei henaid ar Waredwr.

W. JONES.

## Y WENYNEN.

[Yr ydym yn pigo tri o'r chwe' phennill o eiddo P. ap Ioan, yn cymeryd y syniad, ac yn eu hadgyfansoddi; ac os oes ganddo gopi, gall weled ei ddiffygion.—GOL.]

**A**OR hynod yw 'r wenynen,  
 Sy'n crwydro ar ei haden,  
 I gasglu mêl o'r blodau mân,  
 I'w chelloedd glân a chymhen.

Wrth reol mae yn trefnu  
 Ei diliau llawn yn rhesi,  
 A gallai 'r celfyddydwr call  
 Gael gwersi diwall ganddi.

Ni ddylem ninnau ddysgu  
 Dwy wers, o leiaf, ganddi;  
 Sef bod yn ddiwyd tra f'om byw,  
 Ac enw 'n Duw addoli.

\* Nis gallwn gyhoeddi cofiantau meithion am neb; byddai ein TRYSORFA wrth hyny yn colli ei hamcan. Ond bydd yn dda genym roi tameidiau bychain am hynodion neillduol mewn pobl ieuainc a phlant. Felly y gwnawn â'r cofiant hwn.

## DOSBARTH Y BIBLAU.

## PENNOD VI.

**MATTHEW.**—PENNOD XII.—1. Beth yw y tair dadl yn yr wyth adnod flaenaf a ddygir gan Grist i amddiffyn ei ddysgyblion am dynu y tywys ar y Sabboth?

2. Beth yw ystyr, a chymhwysiad presennol, y dyfyniad o'r prophwyd sydd yn y seithfed adnod?

3. Nodwch allan yr amrywiol rinweddau sydd yn nesgrifiad y prophwyd Esaiiah o gymeriad yr Arglwydd Iesu, adn. 18—21.

4. Paham y gelwir yr Iesu mor fynych yn fab Dafydd?

5. Paham y dywed y Bibl fod gan Satan deyrnas, ac nad yw un amser yn ei alw yn frenin?

6. Pa fodd yr oedd y Pharisëaid yn cael eu barnu gan eu plant eu hun? (adn. 27.)

7. I'wy yw y cadarn, a pha le yw ei dŷ? (adn. 29.)

8. Pa fodd y dywed Crist (adn. 30), "Y neb nid yw gyda mi sydd yn fy erbyn;" ac mewn man arall, "Pob un nad yw i'n herbyn, o'n tu ni y mae?"

9. Sut y dywedir (adn. 37) mai wrth ein geiriau y'n bernir, wedi dangos y fath bwys yn yr adnodau blaenorol ar gyflwr y galon?

10. Beth ydoedd arwydd y prophwyd Jonas?

11. Pa fodd mae yr ysbryd aflan yn dewis dychwelyd i dŷ glân?

12. Pa wirionedd pwysig y mae Crist yn ddysgu yn y ddwy adnod olaf?

**PEN. XIII.**—13. Nodwch y gwahanol ddoesbarthiadau o wrandawyr a ddangosir yn y gwahanol dir?

14. Beth yw prif bwnc dammeg yr efrau?

15. Paham y goddefir i'r gwenith a'r efrau gyd-dyfu hyd ddiwedd y byd?

16. Pa brif wirionedd a ddysgir yn y pum' dammeg dilynol,—yr hâd mwstard—y surdoes—y trysor cuddiedig—y perl—a'r rhwyd?

17. Sut yr oedd, a sut y mae, anghrediniaeth yn rhwystr ar ffordd dadblygiad nerth Duw? (adn. 58.)

— — — — —

### RADAMA WEDI EI LADD.

**YN NHRYSORFA Y PLANT** am fis Gorphenaf diweddf, rhoddasom lythyr gobeithiol oddiwrth Radama, brenin ieuanc Madagascar. Ond yr oedd efe yn ei fedd cyn cyhoeddiad y llythyr hwnw yn y **DRYSORFA**. Llindagwyd ef i farwolaeth gan ei bobl ei hun, a chyhoeddwyd ei weddw yn frenines ar y 12fed o Fai diweddf. Mae yn debyg, wrth lythyr Mr. Ellis, y prif genadwr yn Madagascar, a'r hwn oedd yn dra chyfeillgar â'r brenin, nad oedd Radama ond dyn o feddwl gwan ac anmhenderfynol, na phroffesodd ei hun erioed yn Gristion, a'i fod yn ddyn ofer a meddw. Priodola Mr. Ellis y terfysg diweddar i raddau pell i'r ffaith fod y brenin mor agored i syrthio i feddwod. Ac un o reolau cyfan-

soddiad y llywodraeth newydd bresennol yw, fod holl benaduriaid Madagascar rhagllaw i ymwrthod yn hollol â phob math o wirowydd meddwol.

Llwyddodd gelynyion Cristionogaeth i gael gan y brenin droi yn erbyn ei bendefigion, ac i basio mesurau er diddymu y gweddio. Ceisiodd ei bendefigion ei berswadio; ond nis gallent. Cododd cythrwfl peryglus; dyfeisiwyd llofruddiad Mr. Ellis, ac eraill. Gwelodd y pendefigion mai unig lwybr gwaredigaeth y wlad oedd dyfetha y brenin; ac felly lladdwyd ef, yr amser a'r modd a nodwyd, yn ei balas, gan ei bendefigion ei hun, a rhoddwyd llawer o'i gyfarwyddwyr creulawn i farwolaeth hefyd. Trwy Ragluniaeth hynod o eiddo y Nefoedd, a ffyddlondeb y prifweinidog, y diangodd Mr. Ellis rhag cael ei lofruddio. Yn awr, y mae llywodraeth gyfansoddiadol newydd wedi ei ffurfio, cyffelyb o ran egwyddor i'n llywodraeth ni; ac y mae Rasoaherena, y frenines, wedi anfon llythyr-au at Victoria ac Ymherawdwr y Ffrancod, i dystio y gwna gadw at y cyttundebau sydd rhwng y gwledydd, a rhoddi pob amddiffyniad i ddeiliaid Prydain a Ffrainc yn ei thiriogaethau. Mae yn garedig iawn hefyd i Mr. Ellis a'r cenadau, a'r achos cenadol yno yn ymddangos ar well seiliau nag erioed.

## DYDDANION.

### DILLAD YN TYFU.

**YMERODD** yr ymddyddan canlynol le rhwng fy nhad a dosbarth o blant yn yr Ysgol Sul. "A oedd plant yn myned o'r Aipht i Ganaan?"—"Oedd."—"Oedd dillad ganddynt?"—"Oedd."—"A fuont yn hir yn yr anialwch?"—"Do, ddeugain mlynedd."—"A oedd teilwriaid yn eu mysg?"—"Nac oedd."—"Wel, onid oedd dillad y plant oedd yn cychwyn o'r Aipht wedi myned yn rhy fychain cyn cyrhaedd Canaan?"—"Wedi mynyd o ddystawrwydd syn, atebodd geneth fechan, "Nac oeddynt."—"Sut hyny, fy ngeneth i?"—"Tyfu o'u cwmpas yr oeddynt, fel rhisgl am y pren." Gallasai yr eneth fechan gael adnod i gadarnhâu ei hatebiad rhagorol—"Dy ddillad ni heneiddiodd am danat, a'th draed ni chwyddodd, y deugain mlynedd hyn."—*E. Vaughan.*

### A ALL Y MAGNELAU GANU?

**ARTH** wrando ei dad yn adrodd gorchestion magnelau Armstrong a Whitworth, gofynodd ei blentyn, "A all y rhai hyny ganu pethau fel 'Duw sydd yn ngweled i,' yn y DRYSORFA fach?"—"Nad allant, blentyn," ebai'r tad, dan chwerthin.—"Wel, buasai yn well gen' i hyny," ebai'r un bychan.—*Cedig.*



## TRYSORFA Y PLANT.

RHIF. XXII.]

HYDREF, 1863.

[CYF. II.

PRYNWCH EICH *CHEERRIES* EICH HUNAN.

GAN J. W. KIRTON.

**P**R oedd oddentu tri o'r gloch ar brydnawn Sadwrn crasboeth yn mis Gorphenaf, pan daflodd John Lewis y saer ei forthwyl i lawr, y tynodd dair ceiniog allau o'i boced, ac y rhedodd dros y ffordd i'r "*Golden Eagle*" i gael peint i dori ei syched. Wedi agor drws y "*bar*," gwelai blatiaid o *cherries* (ceirios) addfed, â golwg demtiol arnynt, ar y *counter* addurnedig. Tynodd yr olwg arnynt ddwfr o ddannedd John, a chyn ei fod yn gwybod yn iawn beth oedd yn ei wneyd, yr oedd ei law yn estynedig i gymeryd ychydig o honynt, pan waeddodd gwraig y tŷ yn groch o'r tu arall i'r *counter*,—  
 "Cyffyrddwch chwi â'r rheir na, os beiddiwch, syr!"

Dychrynodd y llais ychydig ar John, a chyn iddo allu ateb, ychwanegodd y wraig,—

"Y fath eofndra, yn wir! carwn wybod beth yw eich meddwl?"

"Wel, Missus, nid oeddwn yn meddwl ond cymeryd un neu ddwy i wlychu fy ngheg."

"Yn wir, mae yn well i chwi beidio," ebai'r wraig, yn gyffrous.

"Fydd dim croes genych, mi wn, i mi gymeryd ychydig? Yr wyf mor sychedig, ac y maent hwythau yn edrych mor swynol," ebai John, gan feddwl nad oedd hi ond yn cellwair.

"Na chewch, syr, ddim un o honynt; yn awr y prynais hwynt

yn anrheg i'r plant; y maent yn ffrwythbau neillduol iawn, ac yn ddrudion."

"Wel, gadewch i mi brofi un o honynt."

"Na chewch, ddim un," ebai y wraig, gydag edrychiad a thôn benderfynol; "os oes arnoch eisieu, prynwch eich *cherries* eich hunan."

"Wel," atebai John, "yr oeddwn yn myned i gael peint o'ch diod, ond yr wyf yn meddwl y cymeraf eich cynghor, ac yr âf i brynu *cherries* fy hunan yn ei le," a thrôdd ei gefn, ac aeth allan.

Gwelodd y wraig ar unwaith iddi wneyd tro ffol, a galwodd ar ol John; eithr ni wnaeth ei galwadau hi ond peri iddo gyflymu ei gamrau, a myned ymaith cân gynted ag oedd yn bosibl.

"Wel, dyna fi wedi ei gwneyd," ebai'r wraig, gan gymeryd y plât a'r *cherries* oddiar y counter i'r parlwr. Mor ddwl oeddwn i beidio gadael iddo gael ychydig; y mae ef yn gwsmer rhy dda i'w gollu. Rhaid i mi edrych allan eto pan ddaw i dalu ei ddyled, a cheisio ei ddenu. Rhaid ei ennill yn ôl eto, os yw yn bosibl." A chyda'r cyfryw fyfyrddodau y ceisiai dawelu ei theimladau terfysgld.

Prysurodd John yn y cyfamser i lawr yr ystrôd, i edrych am siop ffrwythau, ac yn fuan yr oedd wedi ei chael.

"Holo! ŵr da," ebai; "rhoddwch i mi werth tair ceiniog o'r *cherries* yna, gâf fi?"

"Cewch, syr," ebai'r gwerthwr, a gosododd hwynt mewn cwdyn papyr iddo. Cymerodd John hwynt, a dychwelodd i'w siop waith.

Cymerodd y cwbl le mewn ychydig fynyddau. Daeth y naill ddygwyddiad mor gyflym ar gefn y llall, fel pan osododd John y cydaiid *cherries* ar y fainc waith, a rhoddi un o honynt yn ei safn, dýgodd ei meluser ymddygiad gwraig y dafarn i'w feddwl gyda llymder mwy nag o'r blaen. Yr oedd ei geiriau fel wedi sefyll yn ei wddf, a phob tro y llyncai gyfran o'r ffrwythau hyfryd, clywai yn eglur swm geiriau y wraig yn dywedyd, "Prynwch eich *cherries* eich hunan."

"Ië," meddai John, "a dyma fel yr ydych yn talu i ddyn yn y diwedd, ar ol gwario cynifer o bunnau gyda chwi! Gwrthod i mi gymaint a cheiriosen;" a tharawai ei forthwyl ar glopa yr hoel, nes y tybiai fod swm yr ergyd yn dywedyd drachefn, "Prynwch eich *cherries* eich hunan."

Ymlidiwyd ef gan y geiriau hyn trwy yr holl brydnawn, a gallai feddwl fod y llif, a'r "plân," a'r cwbl, yn adsain yr un cynghor iddo. Cyffroai ei feddwl i'r fath raddau weithiau, nes y delai y frawddeg dros ei wefus yn anymwybodol, "Prynwch eich *cherries* eich hunan." "Ië, yn wir," ebai, â'i gydwybod yn ei frathu, "yr wyf wedi eu prynu yn rhy hir iddi hi, ac i'w phlant. Cymeraf fwy o ofal am 'number one' o hyn allan, a gallaf gael, nid yn unig ddigon o *cherries*, ond llawer o bethau hyfryd eraill."

O'r diwedd canodd y gloch i adael y gwaith, a phrysurodd John i'r office i gael ei gyflog, yr hon a gyrhaeddai fynychaf oddeutu

deg swllt ar hugain. Oblegid, er ei fod yn talu ymweliadau mynych â'r dafarn, nid oedd mewn un modd yr hyn a eilw y bobl yn feddwyn. Yn wir, buasai yn ei deimlo yn sarhâd i neb ei alw felly; a buasai yn ddiâu yn barod un amser i brofi, yn ei ffordd ef, nad oedd yn cymeryd ond yr hyn oedd yn gwneyd lles iddo; ac os oedd yn myned dipyn dros ben y terfynau ar hwyr Sadyrnau, pan fyddai y cwpan cyfeillgar yn myned o gwmpas dipyn mwy rhydd nag arfer, a'r miwsig siriol yn gwneyd i'r amser ehedeg mor gyflym, fel y byddai yn hwyrach arno yn myned adref nag ar nosweithiau eraill, y rheswm am hyn oedd ei fod yn fachgen haelfrydig, a bod yn rhaid iddo wneyd fel yr oedd eraill yn gwneyd. Ac os byddai y wraig yn cwyno y prydiau hyny fod yr arian wedi myned, heb ddigon ar ol i gael anghenrheidiau i'r teulu am yr wythnos, buasai yn debyg o ddyweyd wrthi am "feindio ei busnes ei hunan," ac fe allai y buasai ychydig eiriau brwd rhyngddynt mewn canlyniad. Ond, ysywaeth! y mae amgylchiadau o'r fath yn rhy adnabyddus i alw am ddesgrifiad; ac yr oedd Mary, fel llawer eraill, wedi hen fino ar gwyno, ac yn penderfynu gwneyd ei goreu i gadw ei thŷ oreu y gallai, gyda'r ychydig foddion a ddelai i'w llaw, a chyda geiriau ac agwedd garedig, i wneyd ei chartref mor attyniadol ag oedd yn bosibl; gan deimlo y buasai yn fwy sicr o'i dynu o'r dafarn trwy foddion felly, ac y buasai ymddygiad gwrthwynebol yn fwy tebyg o'i yru yno yn amlach.

Beth bynag, y mae ein cyfaill John yn sefyll yn awr wrth y glwyd draw, â'i gyflog yn ei ddwrn, ac yn petruso beth a wna. De'wch yn nês, i ni gael clywed beth y mae yn ddyweyd.

"Wel, beth a wnaif? Rhaid i mi fyned i dalu fy *score*; nid wyf am fod yn anonest. Pe gwybuaswn faint ydyw, buaswn yn eu danfen. Ond peidiwch meindio, âf i dalu iddi, a dyna ddiwedd ami;" ac ymaith âg ef.

Pan welodd gwraig y dafarn John yn dyfod, gwisgodd ei gwenau goreu; a chyn iddo gael amser i ddyweyd dim, dywedodd, "Yr wyf yn falch iawn i'ch gweled, John; yr ydym newydd agor baril newydd o'n diod oreu," ac estynodd lasaid iddo. "Carwn wybod eich barn am dano."

"Dim dyferyn, diolch i chwi," ebai John; "yr wyf am dalu yr hyn sydd arnaf i chwi—pa faint ydyw?"

"De'wch, de'wch," ebai Mrs. Boniface; "*nonsense* i gyd. Cymerwch lasaid; beth yw'r brys sydd arnoch?"

"Dim dyferyn," ebai John; "mae arnaf eisieu myned."

"Wel, a fynwch chwi lasaid o ryw beth byr?"

"Na fynaf, na hir ychwaith," ebai John.

"Wyddoch chwi," ebai'r wraig, "mae Tom Smith yn y parlwr, a bydd Dic Bates yna yn fuan; nid ewch chwi ddim i ffwrdd yn union?"

"Dywedwch wrthyf faint sydd arnaf i chwi," ebai John, â'i amynedd yn cilio; "onidê âf allan heb setlo â chwi."

"O, yr wyf yn gweled," ebai'r wraig, "i mi osod fy nhroed yn y



bastai heddyw, a'oh tramgwyddo chwi, ond edrychwch heibio i ychydig o eiriau wedi eu dywedyd mewn byrbwylldra; de'wch i ni gael bod yn ffryndiau unwaith eto."

"Dim dyferyn, yma nac mewn unman arall, a yfaf fi mwy, o'm bodd," ebai John; "ac am fy nhramgwyddo i, nid yw hyny o bwys yn y byd cyhyd ag y gellwch chwi gael eich talu."

"Ond," ebai'r wraig, tra yn edrych dros y Q-iaid a'r P-aid (*Quarts* a'r *Pints*), "nid wyf yn hoff o ffraeo â neb, yn enwedig â chwi; gadewch i ni yn awr wneyd i fyny; ac am y *cherries*, yr wyf wedi eu cadw i chwi; edrychwch (meddai, gan eu cyrhaedd o'r parlwr), dyma hwy."

"Dim, diolch i chwi," ebai John, gyda gwên; "cymerais eich cynghor, ac aethum i brynu rhai fy hunan, ac yn wir yr oeddent yn ddanteithiol. Yn awr, cymerwch yr hyn sydd arnaf i chwi o'r sofrin yna; mae arnaf frys i fyned."

"Nid wyf yn foddllawn yn wir," ebai'r wraig, "i newid hwn heb i chwi brofi rhywbeth; beth gymerwch chwi?" [Tafu *sprat* i ddal macrel.]

"Dim, unwaith eto," ebai John yn gyffrôs; a chododd y newid i fyny oddiar y *counter*, ac ymaith âg ef tuag adref.

"Wel, mi wnes annybendod heddyw!" ebai gwraig y dafarn; "yr wyf yn sicr na ddeil neb fi mwy yn colli fy nhymer uwch ben y fath gwsmer. Pe buasai un o'r taclau trystiog yna, fuasw i ddim yn prisio cymaint; ond bachgen tawel fel John, oedd yn cymeryd ei lasaid mor gyson, ac yn talu bob wythnos! Ond ildia ddim o hono am ddim; y mae yn werth gwneyd ymdrech i'w gael yn ôl; ac wedi i mi ei gael yn *all right* unwaith eto, mi ro fy ngair y cadwaf ef."

Tra yr oedd hi yn dyfeisio pa fodd i ddal John drachefn, yr oedd ef yn prysuro adref; ac er syndod i'w wraig, cyrhaeddodd e yn llawer cynnarach nag arfer. Nid oedd ganddi er hyny ong gosod y tegell ar y tân; ac erbyn fod y llestri a'r bwyd ar y ford yr oedd yntau wedi berwi.

Eisteddai John braidd yn fud, a chymerodd ei dê. Yr oedd Mary ar fin gofyn iddo pa fodd y daeth adref mor gynnar, pan y sydyn y gosododd ei law yn ei boced, ac y tafodd swm o arian i'w harffed, gan ddywedyd, "Byddwch yn myned i'r farchnad y fuan, Mary, mi dybygwn?"

"Byddaf," ebai Mary, a gallasai ychwanegu—goreu genyf y gyntaf; ond yr oedd profiad wedi ei hen ddysgu mai goreu y leiaf a ddywedai ar nos Sadyrnau. Felly cymerodd yr arian fyny, ac aeth i'w hystafell swely i gael ei *bonnet* a'i *shawl*, ac i rif faint o arian gafodd gan John; a synwyd hi yn fawr wrth weld fod yno dri neu bedwar swllt yn fwy nag a arferai gael.

"Wn i a w'yr ef pa faint roddodd i mi," ebai Mary. Ond mew ofn y buasai yn eu mynu yn ôl os elai i ofyn iddo, prysurod i fyned allan; ac yn wir yr oedd yn ofni bob cam o'r ffordd glyw ei lais yn galw ar ei hol. Credodd unwaith, wrth glywed trw un yn rhedeg ar ei hol, mai John ydoedd; ond erbyn iddi droi

phen, plentyn oedd yno yn chwareu. Ymwelodd âg amryw siopau, ac yn ei ffordd gynnil, gwnaeth y goreu o'i harian; ac yr oedd y swm ychwanegol wedi ei galluogi i ychwanegu cryn dipyn at gysuron y teulu am yr wythnos ddyfodol. Pan ddychwelodd gyda'i baich trwm o'r farchnad, deallodd, trwy y plant, i'r tad fod allan agos yr holl amser y bu hithau allan. Ofnai mai wedi myned i edrych am dani hi yr ydoedd. Ond daeth yntau i mewn yn fuan, ac ni soniwyd gair am y sylltau ychwanegol gan y gŵr na'r wraig. (Mae yn syndod fel mae yr yfed yn mygu poŵ cymdeithas rydd rhwng gŵr a gwraig, onid yw?)

Treuliodd John ei Sabbath yn debyg fel arfer: cymerodd dro allan yn y bore; ar ol cinio arosodd gartref i ddarllen y newyddiadur, a chyda'r hwyr aeth allan i grwydro, ac ni ddychwelodd nes ydoedd wedi deg o'r gloch. (Cymaint sydd yn gwario dydd sanctaidd Duw yn ofer trwy y diodydd melledigedig!) Gan mai felly yr arferai John dreulio ei Sabbath, ni wnaed cymaint o sylw o bono; eto tybiai Mary ei fod yn fwy llwfr nag arfer, a gofynodd iddo yn garedig unwaith, a oedd yn iach. Atebodd yntau ei fod fel arfer; ac ni feiddiodd hithau ofyn yr un cwestiwn pellach iddo. Aeth yr holl wythnos ganlynol heibio, heb un cyfnewidiad ymddangosiadol o bwys. Gan nad oedd John yn caru myned adref lawer cynnarach nag arfer, aeth nos Lun i gyfarfod Dirwestol. Cafodd gymaint o flas yno, fel y penderfynodd fyned i un arall a gyhoeddwyd i fod nos drannoeth heb fod nebpell o'r lle, a'r diwedd fu iddo yntau ardystio.

Nos Sadwrn, wedi i'r gloch ganu, aeth John eto i'r *office* i dderbyn ei gyflog. Wedi dychwelyd i gongl yn ei siop waith, teimlai iâs o lawenydd yn rhedeg drwyddo pan ddywedai wrth edrych ar y sofrin a hanner oedd ar gleidr ei law,—“Gallaf ddyweyd heno beth nad ellais er ys llawer dydd bellach, eich bod chwi ill dau yn eiddo fi; ac yn awr, gan mai myfi'ch piau chwi, cymeraf ofal na chewch ymadael heb i mi gael digon allan o honoch.” Cauodd ei ddwrn arnynt, a rhoddodd ei ddwrn a'i gynnwys yn ei boced, a gallasech ei glywed yn mwmian wrtho ei hun wrth frasgamu adref,—“Prynaf fy ngheirios fy hun, ar mi wna!”

Boddiwyd Mary yn fawr wrth ei weled yn dychwelyd adref yn gynt eto na'r Sadwrn blaenorol. Gosododd ei dê yn fuan o'i blaen, a thra yn cerdded yn ôl a blaen ar draws yr ystafell, ac yn ymdrechgu cadw y plant mor ddystaw ag y gallai, teimlai awydd dyweyd wrtho mor foddhâol ydoedd ei weled; ond ofnodd, rhag iddo wrth roddi yr arian iddi, gadw yn ôl y sylltau ychwanegol a roddodd iddi y Sadwrn o'r blaen.

Pan oedd ar orphen ei dê, dywedodd, “Hwddiwch, Mary, bydd eisieu myned i'r farchnad arnoch yn fuan, dybygwn; dyna'r arian,” gan eu tafu i'w harffed.

Suddai calon Mary o'i mewn pan deimlai yr arian yn ei llaw. “Ah!” meddyliai, “cadwodd ei wala yn ôl am y sylltau ychwanegol yr wythnos ddiweddar;” ond, yn meddwl, wrth oleuni y tân, eu bod yn edrych yn felyn, aeth â hwy at y ffenestr. (Dylid dy-

weyd mai mewn cwrt cul a thywyll yr oeddent yn byw.) "A yw yn bosibl?" ebai'r wraig ynddi ei hun, "sofrin a hanner!" A dywedodd mewn syndod anhawdd ei gynnwys, "A yw y rhai hyn oll i mi, John!"

"Ydynt," ebai John, "a gobeithio y gweriwch hwynt yn dda."

"Gobeithio," ebai Mary yn grynedig, "nad ydych wedi gwneyd dim allan o le i gael cymaint, John."

"Nac wyf, fy merch," ebai yntau, a'i galon yn ysgwyd gan deimlad; "yr wyf wedi gwneyd allan o le yn ddigon hir, yr wyf yn myned i wneyd yn ei le o hyn allan."

"Ond," ebai Mary, —

"Peidiwch meindio 'nawr," ebai John; "cyrhaeddwch eich *bonnet a'ch shawl*, a gadewch i ni fyned ein dau i'r farchnad."

Nid oedd anghen dyweyd yr ail waith wrth Mary am fod yn barod, a gadawodd ei amser ei hun i John i roddi yr esboniad am yr holl arian. Wedi rhoddi gorchymyn i Sali a Tomi ofalu am y tŷ, ac am y plant ieuengaf, aethant allan. Ar y ffordd dywedodd John wrthi ei benderfyniad, ei fod yn gobeithio y maddeuai iddo am yr amser a aeth heibio, ac y cynnorthwyai ef i fod yn well o hyny allan. Gwrandawai Mary arno gyda chalon grynedig a gorlawn o lawenydd. Torwyd ar eu hymddyddan trwy gyrhaedd siop y cigydd, y lle yr oeddynt i alw gyntaf. Digon anserchog y derbynid hwy gan y cigydd. Tybiai nad oeddent hwy yn ceisio dim ond rhywbeth o gornel y gwehilion, am ryw rôl y pwys; felly edrychai dros ei ystorfa gig, gan gadw ei gefn ar John a Mary. Ond ni chafodd lonydd yn hir cyn fod John yn ei gyfarch,—

"Holo, meistr, beth y pwys yw y *leg* dafad yma?"

"Ie, wir," meddai'r cigydd ynddo ei hun, "chwi yn gofyn pris hona!" Ond atebodd ofyniad John, a dywedodd, "Wyth ceiniog."

"Tynwch hi i lawr, gadewch i mi weled ei phwysau," ebai John.

"Gwnaf," meddai'r cigydd ynddo ei hun, "a bydd clywed ei phwysau yn llawn gymaint ellwch chwi gael o honi, mi dybygwn."

"Mae yn pwysu wyth pwys, ac yn dyfod i bum' swllt a grôt."

"O'r goreu, mi cymeraf hi," ebai John.

"Pan dalwch am dani," meddai y cigydd ynddo ei hun, dan wyllo pob symudiad i John.

"Hwdiwch, Mary," ebai John; "rhoddwch yr arian iddo."

Gwthiodd Mary ei bysedd i mewn i hen faneg oedd gandd tynodd sofrin allan, a gosododd ef ar blocyn y cigydd mor ofalu a phe buasai arni ofn rhwbio y llwch aur oddiarno.

Edrychai y cigydd o hyd yn ammheus; tarawodd y sofrin y galed ar y blocyn, fel pe buasai yn ammheu mai arian drwg yd oedd. Ond pan glywodd ei dinc, a deall ei fod yn aur pur, newidiodd ei wedd a'i dôn, a daeth mor serchog a gostyngedig ar unwaith. Meddai,

"A gaf fi ei hanfon adref i chwi, syr? A oes dim arall gaf ddangos i chwi, cig eidion, porc, &c.," tra y daliai y newid rhwng ei fysedd.

"Na," ebai John, ychydig yn flin, "dim chwaneg heno."

"Diolch i chwi, syr—gadewch i mi weled, yr ydych yn byw yn No. 20, Broad Street, onid ydych?"

"Ydwyf," ebai John; ac wedi i Mary dderbyn y newid, aethant allan.

Ni raid i ni eu dilyn o siop i siop; digon yw dyweyd fod pob siopwr, gyda syndod a boddineb, yn derbyn mwy o *orders* a mwy o arian, ac wrth reswm yn dangos gradd mwy o foneddigeiddrwydd tuag atynt.

Yn y cyfamser yr oedd y plant gartref wedi cymeryd y pwnc yn destyn siarad.

"Mor ddigrif," meddai Tomi, "yw gwel'd fy nhad a 'mam yn myned gyda'u gilydd i'r farchnad!"

"Ie," meddai Sali, "onidê, wir!"

"Wn i oes neb oedd fy nhad yn adnabod wedi marw, a gadael arian iddo?" A rhyw ymddyddanion plentynaidd fel hyn oedd ganddynt, pan ddaeth rhywun i guro wrth y drws, i aflonyddu arnynt.

Aeth Sali i'r drws, ac yno yr oedd bachgen cigydd, a basged ar ei fraich, a choes dafad ynddi.

"Yma mae Mr. Lewis yn byw?" gofynai'r bachgen.

"Na," ebai Sali, "nid oes yma neb o'r enw yn byw."

"Dywedwyd wrthyf fi mai hwn ydoedd," ebai'r bachgen; "ai nid hwn yw No. 20?"

"Ie, dyma No. 20," ebai Sali; "ond nid oes neb o'r enw yn byw yma."

"Wel, pwy sydd yn byw yma?" ebai'r bachgen.

"Fy nhad, a 'mam, a ninnau," ebai Sali.

"Beth yw enw'ch tad?"

"Jack Lewis y maent yn ei alw," ebai Sali.

"Wel, dyna fe," ebai'r bachgen; "mae Mr. a Jack yr un peth, a dyma *leg o' mutton* i chwi."

"O, yr wyf yn sicr eich bod yn camsynied," gwaeddai Sali; "does dim pethau fel yna yn dyfod yma byth."

"Yma y mae i dd'od, yr wyf yn sicr o hono," ebai'r bachgen, "ac y mae wedi talu am dani."

"Wel, os yw wedi talu am dani, cymeraf hi i'r tŷ," ebai Sali; "ond cewch weled y bydd rhaid i chwi ddyfod i'w chymeryd oddi yma eto."

"Mae yn *all right*," ebai'r bachgen, ac ymaith âg ef.

"Wel, arswyd! dyna un fawr," ebai Tomi; "meddyliwch 'nawr, Sali, mai ni fyddai biau hona, dyna lle byddai gollwng ati i ginio 'fory!" A phan oedd y bachgen yn hobio ar hyd y tŷ mewn llawenydd wrth y fath dybiaeth, dyma rywun eto yn curo wrth y drws.

"Dyma fe'n d'od am y cig," ebai Tomi. Ond wedi agor y drws, yno yr oedd bachgen y pobwr, gyda thair torth fawr.

"Yma mae Mr. Lewis yn byw?" gofynai.

"Wel," ebai Sali, "mae 'nhad yn cael ei alw Jack Lewis, os hwnw ydyw."

"O, dyna fe; dyma y torthau hyn iddo."

"A ydynt wedi talu am danynt?" gofynai Sali.

"Ydynt," ebai'r bachgen; "de'wch, brysiwch."

"Wel, cymeraf hwynt i mewn gan eu bod wedi talu am danynt; ond nid ydym ni yn cael torthau o'r maint yna un amser, ac yr wyf yn sicr y rhaid i chwi ddyfod i'w cymeryd oddiyma eto; rhaid fod camsyniad yn rhywle."

"Pw, pw, dyna ffolineb," ebai'r bachgen, ac ymaith âg ef.

"Wel, os wy' yn y fan, dyma slaben o dorth," ebai Tomi. "Edrych, fy chwaer, y maent yn eithaf *fresh*, ac wedi eu pobi yn dda hefyd, onid ydynt? Os mai ni piâu nhw, ni wnawn ni dwll ynddynt, oni wnawn ni, Sali?"

Ond tra yr oedd y plant yn siarad am y pethau rhyfedd hyn mewn cyffro cymysgedig o ofn a llawenydd, dyma un arall yn curo wrth y drws, ac yn dwyn parseli o dê, siwgr, coffi, &c., a'r un cwestiwn yn cael ei ofyn am y gŵr oedd yn byw yno. Yr oedd Sali bellach wedi gwneyd ei meddwl i fyny i dderbyn y cwbl i mewn, os byddent wedi talu am danynt, er ei bod yn dyweyd wrthynt oll am beidio synu os byddai raid iddynt ddyfod i'w cyrchu ymaith drachefn.

Daeth yno, heblaw y pethau a nodwyd, pytatw, *cabbages*, ym-enyn, cig moch, ac wyau, nes oedd y ford agos wedi ei llenwi.

"Byddai yn dda genyf pe delai fy nhad a 'mam adref," ebai Sali; "beth pe delai'r *policeman* i mewn a gweled yr holl bethau hyn yma, beth wnelem?"

"Wn i a ydyw fy nhad yn myned i gadw siop!" ebai Tomi.

"Paid siarad ffolineb, Tomi," ebai ei chwaer; "sut y byddet pe caem oll ein tafu i garchar?"

Ar ganol cydymddyddan y plant, er eu mawr lawenydd, daeth eu rhieni, a hysbyswyd hwy yn fuan mai eu heiddo hwy, ar gyfer yr wythnos ddyfodol, oedd y cwbl ddaeth i'r tŷ, ac y caent oll gyfran o honynt ond iddynt fod yn blant da. Cawsant bob un glwt o'r dorth newydd gyda thamaid o gaws, ac aethant i'w gwely. Ond er dyweyd wrthynt am fod yn ddystaw a llonydd, yr oedd hyn allan o'r cwestiwn. Dechreusant glebran am y gwleddoedd oedd yn eu haros drannoeth; ac yn eu swm a'u terfysg, deffroisiant y plant eraill. Dechreuodd Tomi areithio wrth y rhei'ny eilwaith, am y *leg* aruthrol oedd ar y llawr, y torthau mawrion, a chant o bethau eraill. Aeth y swm gymaint nes y daeth y fam at droed y grisiau, a dywedodd,—

"Blant, os na adewch chwi'ch stwr yna, ni chewch yr un tamaid o bwddin yfory!"

"Pwddin! pwddin!" ebai y rhai bach; "beth yw pwddin?" A chlywyd Tomi eto yn egluro iddynt, ac yn dyweyd fod blawd ar y ford, a llon'd papyr o *gurrants*, a bod ei fam yn gwneyd plwm-pwddin o honynt erbyn yfory. Gyda'r newydd ychwanegol hwn, nid rhyfedd fod cwsg yn cilio oddiwrth eu llygaid, a bod Tomi, yn hir cyn amser codi, yn dangos iddynt, trwy gymhorth y gobenydd, pa mor fawr oedd y torthau, a sut oedd y fam yn gwneyd y

pwddin, ac O mor fawr y dymument weled yr awr wedi dyfod i ben iddynt gael cylchynu y ford a'r pwddin.

O'r diwedd daeth y dydd, a'r awr, a huliwyd yr holl bethau o flaen llygaid synedig y plant. Ac y mae yn hawddach dychymygu na disgrifio sut y treuliwyd y diwrnod gyda chynifer o bethau i siarad am danynt a'u mwynhâu. A phan ddygodd Mary yn y prydawn, pan oedd y plant oll o amgylch y ford, lonaid plât mawr o cherries gwridog o'u blaen, a ydoedd yn rhyfedd i'r plant dori allan mewn bloedd o orfoledd, ac i galon Mary fyned yn rhy lawn iddi allu llywodraethu ei theimladau? A thra yr oedd y plant yn gwneyd clustdlysau o'r ceirios, ymwasgodd at John, cusanodd ef yn dawel, tra yr oedd y dagrau mawrion yn treiglo dros ei gruddian, ac y siarydai yn ei glust, "Gallwn fod yn hapus eto."

Ac felly y bu; oblegid ymhen ychydig, cafodd John y gallai gael dillad newydd i'w blant, ac wedi hyny iddo ei hun a'i wraig. Aeth y bobl i siarad ei fod yn myned yn falch, oblegid symudodd i fyw i well cymydogaeath, ond lle nad oedd raid iddo dalu ond agos yr un faint o ardreth. Yn fuan dechreuodd gynnulo arian, a'u gosod yn y *Building Society*, a galluogwyd ef felly i adeiladu tŷ iddo ei hun. Yn y cyfamser yr oedd ei feistr yn ei gael yn ffyddlonach nag erioed gyda'i waith, a gwnaeth ef yn ben ar y gweithwyr eraill, gyda chyflog uwch; a rhywfodd, arferai John ddyweyd "ei fod yn beth anferthol mwy dymunol i gael hanner canswllt yr wythnos am edrych ar ol dynion yn gwneyd y gwaith, na chael deg swllt ar hugain am ei wneyd." Ac o ris i ris, cododd i fynynes y daeth yn feistr ei hun; ac yn lle gweithio, yr oedd ganddo ddynion i wneyd y gwaith drosto, ac i edrych ar eu hol. Adeiladodd restr o dai prydfert, oddiwrth ba rai y mae yn cael digon i'w gynnal ef dros weddill ei ddyddiau heb weithio dim. Mae ei fab Tomi yn awr yn feddyg, a chysylltiadau rhagorol ganddo; ac y mae y lleill o'r plant wedi cael addysg dda. Ac yn ychwanegol at hyn oll, y mae ef a'i wraig yn gefnogwyr calonog i'r "*Grand Alliance*," a'r Gymdeithas Ddirwestol, ac yn aelodau hardd mewn eglwys Gristionogol.

Weithwyr, mae yr addysg yn eglur;—Nid pa faint o arian yr wythnos ydych yn ennill, ond beth ydych yn wneyd â hwynt ar ol eu cael. Pa faint o gysuron cartrefol, ar ffurf carpedau, sofas, cadeiriau, llyfrau, &c., a gollir, yn unig am fod yr arian yn myned mewn ffordd na ddylent? Os na ddysgwch ddim arall wrth yr hanesyn yma, gellwch ddysgu hyn, fod yn rhaid i chwi, os ydych am gael cartref cysurus, "BRYNU EICH CHERRIES EICH HUNAIN."



### Y BRITHYLL A'R IEUANC.



R dawel fron yr Alaw lon,  
Yn chwaraeu dan ei chyrliawg dôn,  
'R oedd symudliwiog frithyll bywiog,  
Ar ei edyn gwir odidog;

Ac yn y lle  
Yr oedd efe,  
Mewn bri urddasol, yn dywysog.

O'i ffrydiau clir dedwyddwch pur  
I'w yfed ga'i heb ddafn o gur;  
Ond wrth ymestyn am wibedyn,  
Llyncodd flugiol gau abwydyn,  
A droes ei fri  
Yn boen a chri—  
Roes ar ei yrfa farwol derfyn !

Ti 'r ieuanc sy mewn rhwysg a bri,  
A nwyfiant llon yn nofio 'r lli',  
Ar fron ddihyder afon amser,  
Ac yn blysio gwibed pleser,—  
O ! gwylia di,  
Mae 'r diafol du  
Yn taflu abwyd ar dy gyfer !

R. A. JONES (*Glân Alaw*).

*Llanfachraith.*



## DIM NEWYDD DAN HAUL.

**D**IFONODD "Bachgenyn" atom i ofyn sut y gellir cysoni yr adnodau hyny yn Llyfr y Pregethwr, lle y dywedir "nad oes dim newydd dan haul," a bod pob peth a fydd wedi bod o'r blaen—sut y gellir eu cysoni â dyfeisiau diweddar, megys y *telegraph*, &c.?

Gellir ateb iddo nad yw dyn yn creu dim, ond yn unig canfod yr hyn sydd eisoes wedi ei greu, a'i gymhwyso i ateb dybenion newyddion. Mae holl egwyddorion celfyddyd ddynol gan y Creawdwr, yn ei adeiladaeth fawr ef, er seiliad y byd; a holl lafur a buddugoliaethau dyn yw chwilio y rhai hyny allan, a'u troi i ddyben ymarferol. Mae holl egwyddorion adeiladaeth gan y Creawdwr yn ffurfiad yr esgyrn, y gewynau, a'r cymmalau, yn nghorff dyn, a chyrrff creaduriaid eraill. Ac nid yw dyn, wrth adeiladu tai, llongau, a cherbydau, ond ceisio ei ddynwared ef. Felly gellir dyweyd yn eithaf priodol mai "yr hwn a adeiladodd bobpeth yw Duw." Mae y gallu sydd yn gweithio yn y *telegraph* mor hen a'r grëadigaeth; y mae natur yn llawn o *conductors* a *nonconductors*, ac yn llawn o *delegraphau* yn cyflawni dybenion nad allwn ni eto eu deall ond yn dra amherffaith. Nid yw y *telegraph* a ddyfeisiwyd gan ddynion yn ddiweddar ond hen allu, a hen egwyddor, wedi eu cymhwyso i wasanaethu amcan newydd. Mae miliynau o alluoedd eraill eto mewn natur yn aros dyn i'w gweled, a'u troi i wasanaethu ei gyfleusderau ei hun. A phe byddai wedi gorphen hyny, gellid dyweyd geiriau y Pregethwr wed'yn yn ddigon priodol uwch eu pen,—“Nid oes dim newydd lan haul.”



ARAETH YR ENETH FACH.

**M**OR ddedwydd ydym heddyw 'nghyd,  
 Heb flinder dan ein bron;  
 Ac onid ydym wyn ein byd,  
 Pob mab a merch yn llon?  
 Diolchwn am Ddirwestiaeth fwyn,  
 Rhown iddi barch a bri;  
 Pwy onid hon sydd wedi dwyn  
 Y rhyddid yma i ni?

Y mae rhai plant—oes, llawer un—  
 Yn byw o fewn ein gwlad,  
 Yn dlawd ei wedd, a gwael ei lun,  
 Oblegid meddwdod tad;  
 Ond dyma ni yn llawen iawn,  
 Heb unrhyw groes na cham,  
 Ond bwyd a dillad, dysg a dawn,  
 A dedwydd dad a mam.


Mae 'r *Band of Hope* am danom oll,  
 Yn rhwymyn dedwydd clyd,  
 I'n cadw rhag ein myn'd ar goll  
 Yn meddwdod anial fyd;  
 Nyni sy 'n blant, yn ddynion down,  
 Yn oes o ddewrion mad,  
 A marwol glwy' i'r gelyn ro'wn,  
 Sy 'n awr yn blino 'n gwlad.

Mae byddin fechan plant y dŵr  
 Yn awr yn teimlo 'n hyf;



A chyn bo hir mae 'n eithaf siwr  
 O dd'od yn ddigon cryf  
 I ymladd brwydyr deg â'r cawr,  
 A dwyn oddiarno 'i gledd,  
 A thori pen y llofrudd mawr,  
 A dawnsio ar ei fedd.

GWILYM.



### KATTIE SUMNER.

**B**CHYDIG ddyddiau yn ol, gelwais mewn tŷ cyfaill; a thra yn aros yn y parlwr, clywn ymddyddan yn myned ymlaen mewn ystafell tu cefn i'r lle yr oeddwn i, drws pa un oedd yn agored.

Yr oedd gan foneddiges y tŷ ferch fechan anwyl a phrydferth, oddeutu deg oed, ac yr oedd hefyd yn anwyl gan holl gylch cyfeillion ei mam. Yr oeddwn yn sicr nad ei llais hi oedd yn dyweyd y geiriau canlynol:—

“Wel, nid awn i â phlât a chwpan dê, a llian drostynt, trwy yr ystrydoedd, i'r hen foneddiges, pe byddai y gyfoethocaf yn y dref.”

“Ond,” meddai y llall—ac yn y fan adnabum lais a thôn y ferch anwyl a hoff:—“Dywedais wrthy ch nad yw yn gyfoethog; nid yw yn dlawd ychwaith; ond y mae wedi cael anaf trwy gwmp, a barn y meddyg yw na ddaw byth yn well. A'r rheswm fy mod i yn caru myned yno yw ei bod yn un o gyfeillesau anwylaf fy mamgu (nain), ac yr wyf yn teimlo fel pe byddwn yn ei boddloni hi pan fyddwyf yn gwneyd rhywbeth i'r anwyl Miss Benson.

“Wel, mor ffol ydych yn siarad. Mae eich mamgu wedi marw er ys llawer dydd; pa fodd y gall hi wybod eich bod chwi yn cario pethau i'r hen foneddiges hon?”

Yr oedd llais Kattie yn pallu bron wrth ateb,—

“Gwn fod fy anwyl famgu wedi marw er ys mwy na blwyddyn. Nid oeddwn yn meddwl am ei boddloni yn awr, ond pan oedd yn fyw, gwnai fy mam bethau bychain danteithiol iddi, ac arferwn innau fyned â hwy; ac yr wyf yn meddwl ei bod yn eu mwynhâu yn well na phe buasai 'mam yn anfon un o'r morwynion. Yr wyf yn cofio o'r goreu fel yr oedd yn arfer dyweyd, ‘Diolch i chwi, fy anwyl yd; gobeithio y cewch bleser bob amser wrth weini ar yr hen; rhinwedd rhagorol mewn plentyn ydyw.’”

“Ac felly,” chwarddai y llall, “yr ydych yn gwneyd hyn er mwyn boddloni eich mamgu, yr hon na ddaw byth i wybod am hyn.”

Bradychodd llais Kattie ei theimladau wrth ateb, “Pe buasech chwi yn adnabod fy anwyl famgu, ni fuasech yn siarad mor ysgafn am dani ag yr ydych, Mary. Yr wyf yn caru myned â phethau i Miss Benson, am ei bod yn gyfeilles iddi, ac hefyd nid

wyf yn gwybod llai nad yw yn fy ngweled, er nad allaf fi ei gweled hi."

"Beth ydych yn feddwl? a ydych chwi yn credu mewn ysbrydion!"

"Nac wyf yn wir, Mary; nid wyf yn credu y fath beth; ond oddiar pan fu fy mamgu a fy mrawd bychan farw, yr wyf wedi dysgu llawer o bethau am y nefoedd na wyddwn o'r blaen; ac yr wyf wedi ceisio cael allan gymaint a allwn am y rhai hyny sydd yn marw ac yn myned i'r nefoedd. Y mae adnod yn y Bibl yn dyweyd, 'Onid ysbrydion gwasanaethgar ydynt hwy oll, wedi eu danfon i wasanaethu er mwyn y rhai a gânt etifeddu iachawdwr-iaeth?' Ac os ydyw fy anwyl famgu ac Edward bach yn ysbrydion gwasanaethgar yn dyfod o'r nefoedd, a ydych chwi ddim yn meddwl y byddent yn llawen i fy ngweled innau yn ferch fach wasanaethgar ar y ddaear, yn ceisio cysuro eu cyfeillion hwy yma!"

"Wel, Kattie Sumner, rhaid i mi ddyweyd eich bod chwi y ferch ryfeddaf a glywais i yn siarad erioed. Am danaf fi, pe bawn yn meddwl fel yr ydych chwi, nid allwn gysgu llygedyn y nos. Yr wyf yn wastad yn ceisio peidio meddwl am y fath bethau; caf ddiagon o amser wedi myned yn henach."

"Peidiwch siarad fel yna, Mary," meddai Kattie yn ddifrifol; "pe deuech gyda mi y bore hwn i dŷ Miss Benson, a'i chlywed yn siarad, gallech feddwl nad oes dim yn y byd mor hyfryd a chael myned i'r nefoedd, neu yn hytrach i feddwl a siarad am hyny."

"Na, Kattie, ni ddeuaf gyda chwi; ac os ydych chwi yn myned i gario y dysglau yna, cerddaf fi wrthyf fy hunan."

Fel yr oedd yn myned trwy yr ystafell at y drws, nis gallaswn beidio edrych ar ei gwisg, yr hon oedd yn dangos yn amlwg, os nad allasai feddwl am farw, ei bod yn meddwl llawer am addurniadau ei chorff bychan, yr hwn a allasai trwy ychydig oriau o glefyd gael ei oeri gan anghen. Ar fy ffordd adref, troais i mewn i weled yr hen Miss Benson, yr hon a siaradai gyda diolchgarwch am gar-edigrwydd ei chyfeillion, fel ffrwyth gofal yr Hwn ni âd i aderyn y to syrthio i'r ddaear yn ddisylw. Ar ol nodi amryw enghreifftiau o'r gofal hwn, dywedodd,—“Ond nid oes neb yn dyfod â mwy o gysur i'r tŷ hwn na Kattie Sumner; mae yn dyfod bron bob dydd; ac os byddaf wrthyf fy hun (yr hyn beth nid yw yn fynych), bydd yn gofyn a gaiff hi ddarllen pennod neu Salm; ac yna cydia yn llyfr pregethau Mr. Jay, a darllena un o honynt i mi, o herwydd mae y print mor fân fel nad allaf weled i'w darllen fy hun. Ac wrth ei bod yn eistedd ar y gadair isel yna, a'r haul yn taro ar ei gwallt euraid, a'i gwyneb mor deg a phrydferth, a'i llais fel y gerddoriaeth hyfrydaf, yr wyf yn wastad yn meddwl am y gair,—‘O'r cyfryw rai y mae teyrnas nefoedd.’”



### YR HEN WRAIG A'R GWEINIDOG.

**D**CHYDIG flynyddoedd yn ol, yn Ysgotland, ar brydnawn Sabboth, annogai y gweinidog ei wrandawyr i ddarllen y Bibl. Dywedai gyda gwres mawr am ei bwysigrwydd a'i werth, ac mor llawn o gysur ydoedd i bechaduriaid edifeiriol. Yr oedd un hen wraig ymysg y gwrandawyr; suddodd geiriau y pregethwr i' w chalon, a daeth yn awyddus iawn am ddarllen y Bibl. Yr oedd

wedi clywed llawer o son am y Bibl yn ystod ei bywyd, ond nid oedd wedi darllen nemawr o hono erioed. Yn wir, ni fu erioed yn feddiannol ar Fibl. Ond yn awr, er ei bod yn dlawd iawn, penderfynodd wneyd ei goreu i gael un.

Y pwnc y bu ei meddwl yn poeni gydag ef trwy yr holl nos-waith hono ydoedd, sut i gael Bibl. Drannoeth, pan yn ddiobaith am arian i'w brynu, disgynodd ei llygad ar flodeuyn prydferth oedd ganddi yn y ffenestr, yr hwn yr ydoedd wedi ei feithrin ar ol marwolaeth ei gŵr. Penderfynodd ffarwelio â'i blodeuyn tlws, er mwyn cael meddiannu Gair Duw. Cymerodd ef yn ei braich, a dygodd ef at y gweinidog, a dywedodd wrtho nad oedd ganddi ddim a allai roddi yn gymewid am Fibl, ond ei blodeuyn hoff, a gofynai a wnai ef roddi Bibl am dano.

Gwenodd y gweinidog duwiol, fel y dengys y darlun, wrth olwg a chais y wraig, a chododd deigr yn ei lygad. "Cedwch eich blodeuyn, wraig fach," ebai, "a dyma Fibl i chwi am ddim. Darllenwch ef, ac fe ddywed wrthyhych am flodeuyn rhagorach na hwna—am Rosyn Saron, a Lili y Dyffrynoedd—am Iesu Grist, yr hwn sydd decach na meibion dynion; y mae efe oll yn hawddgar." Dygodd y Bibl adref fel un wedi cael ysglyfaeth lawer. Darllenodd ef yn ddyfal, a'i dagrau yn ffrydiau ar ei gruddiau, a dygodd gyfoeth o fendithion i'w henaid, nad oedd holl drysorau y byd hwn ond gwegi yn eu hymyl.

Darlleneydd ieuanc, y mae genyt ti Fibl. Darllen ef yn bwylllog a chyson, a byddi yn sicr o gael bendith gyffelyb trwyddo.



## HANES FY HUNAN.

### PENNOD VI.—CARTREF UNIG.

**D**YWEDAIS eisoes fy mod wedi adeiladu caban yn erbyn dannedd y graig. Cludais fy holl eiddo i mewn i'r caban, nes ydoedd yn fath o ystordŷ gorlawn; a cheuais ef i fyny fel nad oedd un ffordd i ddyfod i mewn ond trwy gymhorth ysgol dros ei ben. Dechreuais wedi'n weithio ogof i mewn i'r graig, a chario y ceryg a'r stwff allan i wneyd mur i'r caban. Yr oedd y graig yn o hawdd i'w gweithio. Cedwais ar y dde, wedi myned ymlaen ychydig, ac ar y dde eilwaith, nes o'r diwedd i mi wneyd twll allan, heb fod ymhell oddiwrth ochr y caban. Gwnaeth y twll hwn fath o ddrws cefn i dd'od i mewn; ac heblaw hyny, gwasanaethai yr ogof fel math o gell, neu seler, i mi i gadw llawer o'r offer a'r nwyddau.

Costiodd y gorchwyl hwn i mi lafur caled dros lawer o ddyddiau, a gallwn adrodd llawer o fân ddygwyddiadau a gymerodd le yn y cyfamser. Un diwrnod daeth yn ystorm enbyd o fellt a tharanau. Ar dywyniad mellten ddychrynlyd, gwaeddais allan, "O, fy mhowdwr!" Bu fy nghalon agos a llewygu wrth feddwl y gall-

asai y fellten hono ddinystrio yr holl bylor a feddwn, a fy ngwneyd innau, nid yn unig yn ddiameddiffyn i mi fy hun, ond fy amddifadu o foddion i ddarparu ymborth. Ni feddyliais gymaint am ddiogelwch fy mywyd; er, pe buasai y powdwr yn tanio, nis gallaswn byth wybod beth ddygwyddodd i mi.

Mor gynted ag yr aeth yr ystorm drosodd, dyfeisiais lwybr i ddiogelu y powdr. Yr oedd genyf o gwbl ryw 140 pwys. Rhenaies ef yn gant o barseli bychain, a dodais y parseli i gadw mewn lleoedd sychion, digon pell oddiwrth eu gilydd, fel os dygwyddai i'r naill danio, y byddai y lleill yn ddiogel. Gadewais y faril oedd wedi gwlychu yn yr ogof, gan nad oeddwn yn gweled fod perygl i'w ofni oddiwrthi.

Yr oeddwn yn myned allan gyda'm dryll bob dydd, i ddifyru fy hun, i weled a allwn saethu rhyw grëadur yn fwyd, yn gystal ag i ymgydnabyddu â sefyllfa a chynnyrch yr ynys. Y peth cyntaf a saethais oedd gafr fenyw, yr hon oedd âg oen ieuanc wrth ei hochr. Codais yr afr ar fy ysgwydd, a dilynodd yr oen fi hyd at y caban. Cefais ei gymeryd yn fy mreichiau, a meddyliais unwaith ei fagu; ond gwrthododd fwyta, a lleddais ef, a fforddiodd y fam a'r oen gigfwyd i mi am rai wythnosau.

Yr oedd myfyrio ar fy nghyflwr yn faich annyoddefol arnaf weithiau. Deallwn fod yr ynys yn gorwedd allan o lwybr mordeithwyr, a chredwn fod y Nefoedd wedi fy nghynghedu i dreulio gweddill fy mywyd yn yr unigrwydd erchyll hwnw. Llauer awr a dreuliais i eistedd ar glogwyn neu dwyn, yn tremio i wyneb y cefnfor mawr, ac yn syllu nes oeddwn agos yn ddall i edrych a welwn long ar y gorwel pell, a'm gwyneb yn wlyb gan ddagrau. Weithiau beiw'n Ragluniaeth am ymddwyn mor greulawn tuag ataf. Ond yn fynych byddwn yn troi arnaf fy hun, a rheswm fel yn dyweyd,—Wel, mae dy gyflwr yn flin, ond cofia, attolwg, pa le mae y lleill o'th gyfeillion? Onid oeddech yn un ar ddeg yn y llong, a pha le mae y deg? Pam na fuasent hwy wedi eu cadw, a thi wedi dy golli? Pa fodd y pigwyd di allan? Pa un gwell bod yma neu yn y lle y maent hwy? Yna gwelwn y dylaswn edrych ar y ddau du i'r ddalen—y da yn gystal a'r drwg. Hefyd, cofiwn fod genyf gyflawnder o anghenrheidiau, i gynnal ac amddiffyn fy hunan, a meddylawn beth fuasai fy nghyflwr heb fwyd, heb ddryll, heb bylor, a lliaws o bethau. Parai hyn i mi ymdawelu, a myned i geisio gwneyd rhywbeth er cymmodi â fy nghynghed.

Daeth i fy mhen i geisio dyfeisio rhyw lwybr i gadw'r amser; oblegid yr oeddwn mewn profedigaeth i anghofio y dydd, y mis, a'r flwyddyn. Yr oeddwn yn awyddus i gadw y cyfrif hwn, ac yn arbenig i gadw y Sabboth ar wahan oddiwrth ddyddiau yr wythnos. Cymerais bôst mawr, a gosodais arno â fy nghyllell y dydd y glaniais. Gosodwn hefyd hac ar ei ochr am bob dydd; ac am bob seithfed dydd gwnawn yr hac yn ddwbl yr hŷd, er mwyn nodi y Sabboth. A gwnawn y dydd cyntaf o bob mis yn hwy fyth. Ac fel hyn y cadwn yr amser, yn wythnosau, misoedd, a blynyddoedd.

Dygais lawer o fân bethau o'r llong nad wyf eto wedi eu henwi, y rhai fuont o gryn wasanaeth i mi, megys ysgrifbinau, inc, papyr, amryw lyfrau, ac yn eu mysg, tri Bibl; offerynau er mesur yr hydred a'r lledred, wrth y rhai y deallais fy mod ychydig fwy na naw gradd o ledred oddiwrth y cyhydedd. Dygais o'r llong hefyd ddwy gath, a chi rhagorol, yr hwn a fu yn gwmni ffyddlawn a difyr i mi yn fy unigrwydd. Yr oedd y ci yn gwneyd pob peth i mi, ond siarad; a buasai yn werth yr ynys yn fy ngolwg ambell awr, pe buasai yn gallu dyweyd ambell air wrthyf.

Un diwrnod cymerais fy mhin ysgrifenu ac ysgrifenaïs i lawr y drwg a'r da oedd wedi fy nghyfarfod—y naill ar gyfer y llall; nid er mwyn i neb arall gael ei weled byth, ond er mwyn difyru fy hun, ac esmwythâu ychydig ar fy meddwl. Rhywbeth yn y dull canlynol ydoedd,—“(Drwg). Yr wyf wedi fy nhafu ar ynys anghyfannedd a brawychus, heb obaith am adferiad. (Da). Yr wyf yn fyw, ac nid wedi boddi fel fy holl gyfeillion.

“Yr wyf wedi fy nhori oddiwrth ddynion, ac wedi fy alltudio am byth o gymdeithas ddynol; ond nid wyf yn cael fy newynu, ond y mae genyf ddigon o gynnalïaeth.

“Nid oes genyf ond ychydig ddillad; ond y mae yr hin mor gynhes fel nas gallaswn eu gwisgo pe buasent genyf.

“Nid oes genyf nemawr ddim i amddiffyn fy hun rhag bwystfilod; ond nid wyf wedi gweled yr un bwystfil rheibus ar yr ynys, fel y gwelais ar lânau Affrica. Beth pe buaswn wedi fy nhafu yno?”

Yn wir, gwelwn nad oedd unrhyw sefyllfa ar y ddaear nad oedd rhywbeth yn *nacïol* a chadarnhäol i ddiolch am danynt. Wedi i ddyf feddwl ychydig, bydd ganddo lawer o dda i'w osod ar gyfer y drwg mwyaf.

Bum yn llafurio am tua blwyddyn a hanner i wneyd fy nghaban a fy ogof yn ddi-ddos a chyfiëus. Er fy mod yn o ddiwyd, araf iawn y dygwn y gwaith ymlaen, oblegid diffyg offer. Nid oedd genyf ond bwyall i wneuthur planciau o'r coed; ac ni wnai y goeden fwyaf, felly, ond un planc. Y celfi cyntaf a wnës oedd ystôl a bwrdd, y rhai oeddynt o wasanaeth pwysig iawn. Nid oes neb fedr ddeall pa mor ddefnyddiol yw bord a chadair hyd nes y ceisia fyw hebddynt. Yr oeddwn wedi trefnu estyll cyfles hefyd trwy y caban a'r ogof, a rhoddi pob nwyddau ar wahân ac yn barod at fy llaw wrth anghen.

Yr oeddwn hefyd yn cadw dyddlyfr o'r prif ddygwyddiadau. Y mae genyf yn awr wrth law; ond gan fy mod eisoes wedi nodi lliaws o'r prif ddygwyddiadau am y misoedd cyntaf, gadawaf y dyddlyfr o'r neilldu.

Gorchwylion y treuliais lawer o amser wrthynt ydoedd ymgais i wneyd whilber (berfa olwyn), basged, a chasgen. Gwnaethum y cyntaf yn o lew hyd at yr olwyn; methais yn lân gyda hono. Yr oedd y gwïail yn rhy frau at fasedgi; a methwn yn lân a ffitio erwydd y gasgen, a rhoi y talcenau i mewn, fel ag i ddal dwfr.

Ymysg fy nodrefn tarewais fy llaw ar gwodyn bychan, oedd genym ar fwrdd y llong yn cadw haidd i'r cywion iair. Yr oedd

y llygod wedi bwyta yr ŷd, fel nad oedd ond us wedi ei adael. Teflais yr us allan ar y twyn o flaen y caban, gan fod genyf wasanaeth i'r cwdyn. Ymhen oddeutu mis, pan oeddwn wedi llwyr anghofio i mi ysgwyd y cwdyn yn y fan hono, er fy mawr syndod, gwelwn amryw egin gleision yn codi o'r ddaear. Tybiais ar y cyntaf mai corsenau planigyn dyeithr ydoedd, nad oeddwn wedi sylwi arno o'r blaen. Ond y mae yn anhawdd i mi ddesgrifio fy syndod pan ddeallais, ymhen wythnos neu bythefnos, mai haidd ydoedd, yr un fath yn union a haidd y wlad hon.

Nid oeddwn erioed wedi arfer edrych ar ddim o gyfeiriad crefyddol. 'Doedd fawr o syniadau crefyddol ynof. Edrychwn ar y cwbl oedd wedi fy nghyfarfod fel damwain, heb feddwl dim am ddyben rhagluniaeth y Nefoedd tuag ataf yn hyn oll. Ond pan welais yr haidd yn tyfu yn ymyl fy nghaban, mewn hinsawdd nad oedd yn gymhwys iddo, a minnau heb ddirnad pa fodd y daeth yno, cyffrôdd fy meddwl trwyddo. Dechreuais feddwl fod Duw wedi peri iddo dyfu yn wyrthiol, heb gymhorth hâd, ac mai darpariaeth ydoedd ar gyfer fy nghynnaliaeth yn yr ynys anial a phellenig. Tynodd ddagrau i fy llygaid, a theimlas yn ddiolchgar i'r Arglwydd. Yr oedd fy syndod yn fwy fyth wrth weled corsenau eraill yma a thraw gydag ochr y graig, y rhai a brofasant yn gorsenau *rice*, oblegid yr oeddwn yn eu hadnabod am fy mod wedi gweled hwnw yn Affrica.

Tybiais y gallai fod ychwaneg yn tyfu ar yr ynys, a chwiliais yn ddyfal trwy y lle; ond nid oedd corsen i'w gweled yn un man. Pan oeddwn yn myfyrio ar yr amgylchiad rhyfedd, cofiais yn sydyn i mi fod yn ysgwyd y cwdyn yn y fan hono, ac y gallai mai o fysg yr us hyny y daeth yr hâd; a rhaid i mi gyfaddef i fy niolchgarwch i Rhagluniaeth Duw leihâu gyda'r adgof, nad oedd yno ddim ond yr hyn a gymer le yn gyffredin; er nad oedd cyfryngiad Rhagluniaeth fawr llai amlwg, wrth gadw cynifer rhag y llygod, a'u cyfeirio eilwaith wrth eu tafu i le y gallent dyfu. Beth bynag, wedi i'r ŷd addfedu, cedwais y tywysenau yn ofalus, gyda bwriad i'w hau drachefn; a gwelais, gyda gofal a bendith, y gallaswn gael cynnaliaeth i mi fy hun trwy y tywysenau. Ond, oblegid i mi hau y tro nesaf ar dymmor amhriodol, bu agos i mi golli yr holl hâd. Ond wedi hyny bum yn fwy llwyddianus; ac ar y bedwaredd flwyddyn, bwytais beth bara oddiwrth yr haidd a godais.

(*I'w barhâu*).

#### FFRYND FY MAM A FINNAU.

“**S**UT yr wyt ti yn gwneyd heb fam i ddyweyd dy drallodau wrthi?” meddai plentyn â mam ganddo wrth blentyn arall oedd heb yr un fam.

“Dywedodd fy mam wrthyf at bwy i fyned, cyn iddi farw,”

ebai'r plentyn amddifad. "Yr wyf fi yn myned at Iesu Grist, ac yn dyweyd y cwbl wrtho ef; efe oedd ffrynd fy mam, ac efe yw fy ffrynd innau."

Dywedodd y llall wrtho; "Mae Iesu Grist fry yn yr awyr; mae ef ymhell bell yn y nefoedd, ac y mae ganddo gymaint o waith yno. Ac nid yw yn debyg y gall ef sefyll i wrando beth fyddi di yn ddyweyd."

"Wn i ddim am hyny," ebai'r amddifad; "y cwbl wn i yw, ei fod ef yn dyweyd y gwna, ac y mae hyny yn ddiagon i mi."

Yr oedd y plentyn amddifad yn berffaith gywir. Mae clust yr Arglwydd mor agored i wrando gweddi y plentyn a gweddi y gweinidog. Ac O na ddywedid hyn wrth y plant, ac na chredent hyny!



## HUW HUWS Y GO' A NINNAU.

### NOSON XII.

**W**LYBION oedd llygaid Wmffre ac Efa o herwydd iddynt ddarllen fod U Larsing wedi marw! A rhaid mai hyn oedd yn cymhell Efa i ganu o hyd, o hyd, am ryw ddedwydd wlad, draw ymhell. Bu U Larsing dro yn ol yn "ein tŷ ni," a mawr oedd y pleser a gawsom yn ei gwmini. Ië, mwy na hyn, fe adawodd ei ymweliad argraff da ar ein meddyliau hefyd. Yr oedd ryw swyn yn ei amgylchu, yn tynu calon pawb ato. Ni bu yn ein plith nemawr oriau nad oeddym yn gyfeillion mynwesol iddo. Nid wyf yn rhyfeddu dim ynte fod Wmffre yn dyweyd yn barhâus mai llinellau melus ydyw rhai Ieuan Glân Geirionydd:—

"Ond pan y gwelwyf draw  
Ar fynydd Sion,  
Yn iach heb boen na braw  
Fy hên gyfeillion, &c.,"

gan fod y gair diweddaf yn y llinellau uchod yn cylymu ei hunan am ryw un sydd fry fu

"A'i ddagrau yn lli' dros ei ruddiau melynndu,"

wrth ganu am y nefoedd pan yr arosai dros ychydig yn "ein tŷ ni."

"Wel, wel," ebai Huw Huws, "rhaid i ninnau ymdrechu ei ddilyn ef yno. Yr oeddwn i yn meddwl wrth siarad âg ef ei fod wedi ei fendithio â chalon lân, canys yr oedd 'ymadroddion ei enau' mor lân, mor foneddigaidd, mor bur; ac yn sicr yr oedd Duw wedi ei fendithio â myfyrdodau calon ag oeddynt gymeradwy ger ei fron Et."



"Ie, gwir, Huw Huws," meddai 'nhad, "myfyrdodau y galon yma sydd yn gwneyd dyn yn bur neu yn aflan."

"Yr ydych yn wir yn dyweyd y gwir," meddai y gôf, "a'r adnod yma oedd yn weddi y Salmydd ydyw yr esboniad goreu a feddaf fi ar y seithfed gorchymyn. Os bydd myfyrdodau y galon yn bur, bydd buchedd y dyn yn lân, yn bur, yn dduwiol; ond os bydd y bachgen yn myfyrio drwg, deg i un na bydd yn siarad yn anweddus, yn meddwl yn annuwiol, ac yn pechu yn erbyn Duw."

"Yn wir," sylwai y melinydd, "mae yr un a drosedda y seithfed gorchymyn yn tori yr wythfed hefyd."

"Sut felly?" gofynai Dafydd Thomas.

"Wel, fel hyn," atebai Ifan. "Tored ef y seithfed, a dyna ef yn lladrata gogoniant Duw, ac yn ei faeddu dan ei draed; ac ar yr un foment, dyna ef yn lladrata oddiarno ei hunan ei garictor, ei enw da, a'i ddedwyddwch am flynyddoedd—hwyrach, am byth! Dyna dori y ddau orchymyn yn yr un weithred!"

"Atebiad gwych," ebai Dafydd, "ac y mae yn wych am ei fod mor wir, er na feddyliais i erioed am y peth yn yr olwg yna."

"Wel, beth dybygech chwi ydyw lladrata?" gofynai yr hen ôf. "Yr wyf yn myned ymlaen at yr wythfed, gan nad wyf yn meddwl fod eisieu dyweyd ychwaneg at yr hyn a ddywedodd Ifan ar y seithfed."

"Yn enwedig," meddai Wmffre, "os ffaelem a dyfod i fyny â hyawdledd Ifan yn ei atebiad."

"Mae acw ddigon o flawd adref, Wmffre bach," meddai Ifan, gan led edrych ar ei ganmolydd.

"Wel, ffryndiau," ebai y gôf, "beth am y cwestiwn a ofynais?"

"O, ie," meddai Dafydd Thomas, "pa beth ydyw lladrata, onidê? Wel, mi anturiaf ateb mai hyn ydyw—cymeryd eiddo un arall pan nad oes genym un math o hawl i'w gymeryd."

"A ydych chwi oll yn cydolygu â'r hyn a ddywedodd Dafydd?" gofynai Huw Huws.

"Ydym, mi dybygw'n, a barnu oddiwrth ddystawrwydd pawb," meddai Wmffre; "ond, mae Dafydd wedi gofalu ein cloi ni â'r gair 'hawl' yma, fel y bydd efe yn gyffredin. Eto, mi garwn i wybod o ba le y mae yr hawl yn codi? ai oddiar gyfraith y wlad, neu oddiar gyfraith Duw?"

"Tyr'd, tyr'd, Wmffre," meddai 'nhad; "paid a myn'd i godi dadleuon diwerth fel hyn."

"Na, na, chwareu teg i Wmffre," ebai ei hen gyfaill; "mae y bachgen yn gweled ymhellach na'i dad y tro hwn. Cwestiwn pwysig yn yr ymdriniaeth ydyw un Wmffre."

"Wel," atebai Dafydd, "dyna oeddwn i yn ei feddwl—mae cymeryd yr hyn sydd eiddo i arall pan na fyddo dygeidiaeth y *Bibl* yn rhoddi hawl i ni i'w gymeryd, yn lladrad dybryd."

"Purion," ebai Wmffre, "oblegid os cyfraith y wlad yn unig sydd i rodidi hawl i ddy'n i gymeryd peth, neu i'w wahardd, nid yw lladrad yn Mhrydain yn lladrad yn Rhufain."

"Well done, Wmffre," meddai y gôf; "gwychgenyf weled bachgen

yn ceisio meddwl. Dyma ni yn awr yn deall nad oes i ni gymeryd dim oddiar neb y mae ein cydwybod ni ein hunain yn tystio nad oes genym hawl iddo. Y gyfraith fawr ydyw y Bibl, a'r gydwyllyd ydyw y barnwr sydd yn hyddysg yn y gyfraith, ac yn cyfiawnhau neu yn condemnio yn ol y gyfraith hono."

"Os gwelwch chwi yn dda," sylwai Ifan Llwyd, "a fyddai i mi gael benthryg *umbrella* neu lyfr, ac yna esgeuluso ei ddychwelyd, yn lladrad?"

"Wel," atebai y gôf, "yr wyf yn ofni y byddai, os byddwn gyson â'r hyn a ddywedwyd oedd lladrad. Canys, eich hawl chwi oedd fod y ffrynd a'u rhoddodd i chwi yn cyttuno i chwi eu cael, ond eu cael i ryw ddyben, sef un i'ch cadw rhag gwlychu, a'r llall i chwi ei ddarllen. Gan hyny, pan byddai y llyfr wedi ei ddarllen, a'r *umbrella* wedi ei defnyddio, byddai yn lladrad i chwi eu cadw yn hŵy, oblegid nid oedd i chwi mwyach hawl ynddynt."

"*Well done* chwithau, yrwan, Huw Huws," gwaedai Wmffre; "dyna siarad fel *counsellor*."

"Mi ddywedaf i chwi beth arall sydd yn debyg iawn i ladrad, yn fy meddwl i," meddai 'nhad. "Gwaith y siopwyr yma yn gwerthu nwyddau am eu llawn bris, a hwythau yn gwybod fod rhyw anaf arnynt."

"Gwir," ebai Dafydd; "ond rhaid i minnau gwyno yn erbyn y bobl hyny sydd yn dyfod i brynu, ac yn lle rhoddi yn deg a gonest y pris a ofynir, a wasgant y siopwr i lawr o dipyn i dipyn, nes cael y nwydd gryn lawer llai na'i bris, neu ânt allan hebddo."

"Yn sicr i chwi," ebai yr hen ŵr, "mae pob un o'r ddau arferiad heb un hawl cydwybod iddynt."

"Mae rhywbeth yn y lladrata yma heblaw dwyn oddiar eraill," crybwyllai Ifan. "Ai tybed nad yw yn gorchymyn peidio dwyn oddiarnom ein hunain?"

"Diolch i chwi am y crybwylliad, Ifan," meddai y gôf; "pe buasai amser, caraswn gael ymgom ar hyn. Dywedded rhywun ryw beth arno."

Ond deisyfasom oll ar yr hen ŵr ddyweyd tipyn ei hunan ar hyn.

"Wel," siaradai ef, "meddylwch am y manteision crefyddol sydd gan yr ieuencyd. Ac eto, gymaint o blant sydd yn lladrata oddi-arnynt eu hunain fanteision yr Ysgol Sabbothol, yr oedfaon, y cyfarfodydd gweddi, a'r cynghorion da. Blant! cofiwch, 'Na ladrata.' Heblaw hyn, gynifer sydd yn lladrata amser! Y bachgen yn ofer dreulio ei amser mewn cwmpeini isel, ac ymddyddan gwag, yn lle ei ddefnyddio at goethi y meddwl sydd ganddo. Fachgen! 'Na ladrata.' Yn wir, mae miloedd yn dwyn gwirioneddau mawrion a gawsent o'r gair ac o'r pulpud,—yn eu dwyn, meddaf, o'u cof trwy anystyriaeth a diolalwch. Ac fe ddyweded Shakespeare fod dyn yn rhoddi gelyn yn ei safn i ddwyn ymaith ei ymenydd. Dyma y meddwyn! Cofiwch eto, 'Na ladrata.'"

O'N TY NL.

Sir Fflint.



## Y FWLTUR.

**F**E allai y bydd y plant, wrth edrych ar ddarlun y fwltur, yn barod i ddyweyd, "O, dyna hen aderyn cas; 'does gen i gynyg iddo." Ond os nad yw plant yn hoffi ei olwg, gallwn ddyweyd wrthynt ei fod yn aderyn pwysig a defnyddiol iawn.

"Beth mae yn fwyta?"

Cnawd creaduriaid eraill fyddo wedi trengu, ac yn wir, cnawd celaneddau dynol yn aml. Ond peidiwch â'i gasáu oblegid hyny. Y mae y fwltur yn gwneyd gwaith tebyg i'r dyn sydd yn dyfod â'r cart trwy heol y dref, i garthu a chasglu y budreddi i'w dwyn ymaith. Oni bae y dyn a'r cart, byddai clefydau a thwymynon yn talu ymweliad mynychach â ni. Felly, mae y Creawdwr daionus

wedi gwneyd y fwltur i fwyta ymaith bob celaneddau drewedig, fel na byddo iddynt wenwyno yr awyr yr ydym yn ei anadlu. Maent wedi bod o wasanaeth pwysig yn hyn mewn gwledydd poethion, wrth fyned yn heidiau mawrion i ddilyn byddinoedd i'r rhyfel, a bwyta celaneddau y lladdedigion.

Mae daioni y Crëawdwr yn amlwg hefyd i'w weled yn y ffaith fod y crëaduriaid hyn yn amlach lle mae mwyaf o anghen am danynt. Y maent mor ddefnyddiol yn Cairo yr yr Aipht, i lanhâu ymaith bob budreddi ac anmhuredd, fel y gwaherddir eu lladd. Pe lleddid hwy, byddai y dref a'r wlad yn colli y *scavenger* y mae Rhagluniaith wedi ei ddarparu, a delai drygau lawer i'r bobl mewn canlyniad. Os ydych yn mawrygu yr eryr, brenin yr adar, peidiwch dirmygu y fwltur, er nad yw ei swydd yn uwch na *scavenger*. Mae pob peth wedi ei wneyd i ryw bwrpas arbenig, a hwnw yn un daionus.

A wyt ti, ddarlleneydd, yn byw i ateb y pwrpas y bwriadwyd di?



YR OENIG A'R YSMOTYN DU.

**D**N byw ar ben y bryn  
'R oedd oenig fach ddiniwed;  
Ei gwlan oedd lân a gwyn,  
Yn wynach na'r holl ddefaid;

Ac y prydfferthaf ydoedd hi,  
Ond ar ei chefn 'r oedd 'smotyn du.

Fe branciai hon yn braf,  
Ar ben y bryncyn hafaidd,  
Yn ngwres a thes yr haf,  
Yn hynod o garuaidd;

Ond pallai 'r gwres, y gwynt, a'r gwlaw,  
A gyru 'r 'smotyn pygddu draw.

Aeth heibio 'r hafddydd gwyn,  
Daeth wrth ei gwt y gaua';  
A chuddiwyd copa 'r bryn  
A chwrlid gwyn o eira;

A'r oenig aeth am un chwe' mis  
I bori gwellt rhyw wlad oedd is.

Y gauaf heibio aeth,  
A gwawrio wnaeth y gwanwyn;  
A'r oenig fechan ddaeth

Yn ôl i'w hen le gwed'yn :  
Ac yn y fan adwaenid hi,  
'R oedd ar ei chefn y 'smotyn du.

Fe 'i golchwyd yn y lli',  
Yn nghanol haf y flwyddyn;  
Ac yna cneifiwyd hi  
A gwellaif gwr y tyddyn;

Ond tan y gwlan ac yn y cnu  
Arosai eto 'r 'smotyn du.

Aeth blwydd 'n ol blwydd o'i hoen,  
A'r oenig aeth yn famog;  
A chafodd hithau oen,  
A hwnw 'n bert a chorniog:  
Ond ow! ar gefn yr oen bach cu,  
Yr oedd i'w gael y 'smotyn du.

Ymhlith y grug a'r brwyn,  
Y ddafad dlos a laddwyd;  
O'r deädelloedd mwyn  
Ei chwmni hi a gollwyd:  
Ond gwisgo wnaï yr oen dinam  
Y 'smotyn du ar ol ei fam.

Gyfeillion ieuainc cu,  
Gwrandewch ar gynghor cariad—  
N' adewch un 'smotyn du  
Lychwino eich cymeriad:  
Trwy ochel hyn yn moreu 'ch hoes,  
Gwardedir chwi rhag llawer loes.

Gwnewch dda i bawb o hyd,  
Tra 'r cyfle yn eich gafael;  
Ar äang faes y byd,  
Na fydded i chwi adael  
Un 'smotyn du o arfer ffol  
Ar un gymdeithas ar eich hol.

*Eglwyseg.*

CAROG.



### LUCIFER MATCHES.

**D**ID yw darllenwyr ieuainc TRYSORFA Y PLANT yn meddwl fawr am äangder y gweithfäoedd sydd yn gwneyd y *Lucifer Matches*. Os darllenwch y papyryn hwn yn ystyriol, byddwch yn sicr o gael eich synu. I ddechreu gyda Lloegr, dyna y Mri. Dixon, Newton Heath, yn cadw tua thri chant o weithwyr yn eu gweithfa, a thros gant yn gweithio drostynt yn eu cartrefi eu hunain. Y mae eu hystorfa o goed yn werth, fel rheol gyffredin, o wyth i ddeng mil o bunnau. Y maent yn defnyddio tua thunnell o *sulphur* bob wythnos; ac mewn blwyddyn, defnyddiant rhwng pedair a phum' tunnell o *chlorate of potash*, a deuddeg tunnell o glud (*glue*). Gwnant tua thair miliwn a deugain (43,000,000) o *fatches* bob wythnos, neu ddwy fil a chant a thri-ugain o filiynau (2,160,000,000) yn y flwyddyn. A chyfrif hŷd pob *match* yn ddwy fodfedd a chwarter, byddai hŷd yr holl nifer hyn gyda'u gilydd yn llawer mwy na digon i amgylchu y ddaear. Ac wrth edrych dros gyfrifon gweithfäoedd eraill, y mae pum'

mil o filiynau (5,000,000,000) yn cael eu gwneyd yn Llundain yn unig bob blwyddyn. Ac y mae cyfrif arall yn dangos fod y pabwyr a ddefnyddia un gweithiwr "*Vestas*" yn Llundain yn ddigon o hŷd i gyrhaedd oddiyma i'r America ac yn ôl. Ond y mae mwy o weithio *matches* mewn gwledydd eraill nag sydd yn y deyrnas hon. Yn 1854, daeth gwerth ugain mil o bunnau i'r wlad hon o Hamburg ei hun. Yr ydym yn cael pymtheng mil o dunnelli bob blwyddyn o Sweden yn unig. Cyfrifir fod gwerth triugain mil o bunnau o *fatches* yn cael eu cludo i Brydain Fawr yn flynyddol—cyfartal i ddau can' miliwn (200,000,000) o *fatches* bob dydd. Y mae gweithfeydd *matches* helaeth iawn yn Ffrainc. Yn Paris ei hun y mae mil o ddynion yn eu gweithio. Y mae chwech o law-weithfäoedd yn Sweden. Ond y lle mwyaf yn y byd am wneyd *matches* ydyw Awstria. Er esiampl, dyna weithfa M. Pellak, Vienna, a M. Fürth, yn Bohemia, yn defnyddio tuag ugain tunnelli o *phosphorus* yn y flwyddyn, ac yn rhoddi gwaith i chwe' mil o bersonau. Y mae y ddwy weithfa hyn yn cynnyrchu y rhifedi anferthol o bedair mil a deugain ac wyth cant o filiynau (44,800,000,000) o *fatches* bob blwyddyn. Y mae *matches* Llundain, Manchester, a Vienna, i'w canfod yn mherfeddion India y Dwyrain a'r Gorllewin, yn llwynannedd yr Australiad, yn mhreswyl y Mussulman, bwthyn rhewlyd y Greenlander, hofel y gwladwr, a phalas yr ymherawdwr. Ymhob parth o'r byd lle mae masnach yn ymestyn, y *match* ydyw uwydd cyntaf gwar-eiddiad.

MAE YN SICR O GYRHAEDD YNO.

**H**AWN dosparth yn yr Ysgol Sul, gofynai athraw i'r plant oedd dan ei ofal pa le yr oedd y nefoedd.

"I fyny," meddent, gan gyfeirio eu bysedd yn y cyfeiriad hwnw.

"Y tu ol i'r cymylau," meddai un bachgen.

"Ond," ebai'r athraw, "*pa le yn yr 'i fyny' yna y mae y nefoedd?*"

"O, wyddom ni ddim," atebai'r plant.

"Wel, wel," ebai eu hathraw; "nid yw yn bosibl i ni gyrhaedd yno, ynte, gan na wyddom ymha le 'i fyny' y mae y lle dedwydd. Beth feddyliech chwi am gadben llong, yr hwn, ar ganol y môr mawr llydan yna, heb un golwg ar lân, a gollodd ei gwmpawd (*compass*), yr unig un a feddai,—a ydych chwi yn meddwl y cyrhaeddai byth i New York, neu yn ôl i Liverpool, os na ddeuai ryw long arall i'w gynnorthwyo?"

"Na wnai byth, 'ddyliem ni," meddai y plant.

"O'r goreu," meddai yr athraw; "yna pa fodd y cyrhaedda y bachgen bach duwiol y nefoedd? Cofiwch nad oes ganddo ef yr un *compass*."

"Oes, oes," atebai un. o'r bechgyn, a'i lygaid yn tanbeidio; "mae'i *gompas* ef yn ei galon; mae'n sicr o gyrhaedd yno."



## FY NAI BACH.

**F**'R Iesu tyner rosyn,—a mwyn byth,  
Fo 'm nai bach penfelyn;  
Tirf leded y ter flodyn  
Nes y daw i urddas dyn.

Yn ddiball llwydd iddo bellach,—hir oes  
I'w ran,—beth amgenach?  
Nawdd Iesu, pwy 'n addasach?  
Fo yn ben ar fy nai bach.

J. GAERWENYDD PRITCHARD.

## LLINYN, Y PENAF O DDIFYRION BECHGYN.

**M**AE yn syndod mor lleied o beth sydd yn abl boddhâu a difyru bachgenyn. Un o'r pethau penaf ymysg ei ddifyrion yw *llinyn*. Y peth y mae dynion mewn oed yn gael mewn mil o orchwyllion a chyfeillachau, mae bachgen yn sicrhâu mewn llinyn. Mae yn cylymu y drws er mwyn y pleser o'i ryddhâu eilwaith. Mae yn rhoi harnais am y cadeiriau, yn cylymu ei fysedd, yn gosod y llinyn yn rheffyn am ei wddf, yn denu bachgenyn llai i ddyfod yn geffyl iddo, ac yn myned yn gerbydwr pwysig—y sefyllfa uchaf, yn marn bachgen, y gall dynoliaeth gyrhaedd. Rhaid cael llinyn i wneyd maglau, i wneyd bwa saeth, at y chwip, y *kite*, pysgota, a chant o bethau nas gellir yma eu henwi. Mae cyllell yn fwy cyffrous na llinyn, ond nid yw yn para mor hir, na'i gwasanaeth mor amrywiol. Bydd y gyllell wedi ei cholli yn fuan, neu wedi tori, neu wedi tori y bysedd. Ond y mae llinyn yn offeryn dyfeisiau diddiwedd, ac o fewn cyrhaedd, a than lywodraeth bachgen. Y peth cyntaf ddylai rhieni ofalu am dano wrth fyned â'u plant allan i'r wlad, i làn y môr, neu y ffynnonau.

yw pellen fawr o *twine*. Ond rhaid i'r bechgyn beidio cael gwybod am dani. Os gwelant y bellen bydd y swyn wedi ei thori. Rhaid iddi ddyfod allan yn ddirgelaidd, yn annysgwyl-iadwy, a phob darn o hyd fel pe byddai y darn diweddaf.—*Eyes and Ears.*

RHAID MARW FY HUNAN.

**R**HAIÐ marw fy hunan!  
 Daw hyny cyn hir;  
 Mae 'madael & cheraint  
 Yn anhawdd yn wir!

Ond pan ddaw 'r diwrnod  
 Fe gefna pob un,  
 Ac i dragwyddoldeb  
 Rhaid myned fy hun.

Rhaid marw fy hunan,  
 A gadael y byd,  
 Yn nghanol wylofain  
 Fy nheulu i gyd;  
 A dystaw ymsuddo  
 I d'wyllwch y glŷn!  
 O f' Arglwydd! mor unig  
 Y byddaf pryd hyn!

Rhaid marw fy hunan,  
 B' le tröaf fy mhen?  
 A fydd dim goleuni  
 Tu arall i'r llen?  
 O Iesu! f' anwylyd!  
 Trwy ras Calfari,  
 Ni byddaf fy hunan,  
 "Mae 'r Tad gyda mi."

Y PLANT NA DDAW DAIONI O HONYNT.

**D**I ddaw daioni o'r plant sydd yn cael pob peth a ofynont gan eu rhieni.

Ni ddaw daioni o'r plant sydd yn arfer creulondeb at grëaduriaid direswm.

Ni ddaw daioni o'r plant sydd yn gwario eu dimeïau am bethau afreidiol.

Ni ddaw daioni o'r plant sydd yn tyfu i fyny heb archwaeth at ddaellen.

Ni ddaw daioni o'r plant sydd yn cael eu ffordd eu hunain mewn pethau bychain.

Ni ddaw daioni o'r plant sydd yn dyweyd celwydd, hyd yn nôd yn y pethau lleiaf.

C—r—l—n.

J. J.



## DYDDANION.

OTTIWELL WOOD.

**D**R oedd dyn o'r enw uchod yn dyst yn ddiweddar mewn llys barn. Gofynnodd y barnwr sut yr oedd yn sillebu ei enw. Atebodd yntau :—

“O, double T,  
I, double U,  
E, double L,  
double U,  
double O,  
D.”

Gosododd y barnwr ei bin ysgrifenu i lawr mewn syndod, a dywedodd na chlywodd y fath enw erioed o'r blaen, tra yr oedd yr holl lys yn ferw gan chwerthin.

DIRWES.

[Gan fod ein gohebydd mor daer, rhoddwn y goreu o'i bennillion ymysg y Dyddanion. Methasom wneyd y llall allan.]

**D**IRWESDIAETH fo yn teurnasu  
A medddod hull yn diflanu ac  
Awd dirwesdiaeth Gin bo hir  
Ar Gynud ar hud y Gwledudd

GWYLLUM HARFON.

CEFFYLAU PREGETHWYR.

“**A** GAFODD y ceffyl geirch, William?” ebai y Parch. Thomas Richards, Abergwaun, unwaith wrth William Phillip, hen gristion da a ffraeth oedd yn gofalu am geffylau y pregethwyr yn Abertawy. “Do, ddigon,” oedd yr ateb. “Gofelwch chwi am hyny,” ebai Mr. Richards, “waith fe ddywed wrthyf mor gynted yr af at ddwfr.” “Os dywed naddo, fe ddywed gelwydd,” ebai William. “A ydych chwi yn gwybod, William, y daw ceffylau y pregethwyr i gyfarfod â chwi i'r farn?” gofynai Mr. Richards eilwaith. “Os deuant,” ebai William, “y peth cyntaf a wnant pan welant fi fydd gweryru am geirch.”

TAFLU YR INKSTAND AT BEN Y DIAFOL.

**D**R oedd Luther yn llygad ei le, meddai Dr. Thomas Fuller, wrth dafu yr *inkstand* at ben y diafol, canys y mae ino yn gwneyd llawer o ddrwg i'w deymas.

P. M. EVANS, ARGRAFFYDD, TREFFYNNON.



## TRYSORFA Y PLANT.

RHIF. XXIII.]

TACHWEDD, 1863.

[CYF. II.

### BRASLUNIAU.

RHIF V.

**M**AE gwrthddrych y braslun hwn eto yn rhês flaenaf gweini-ogion y Methodistiaid o ran dylanwad ac oedran. Ceir ef yn front y Gymanfa, pa un bynag ai yn y Dê neu yn y Gogledd y byddo. Mae yntau wedi dal ei nerth a'i boblogrwydd am flynyddau meithion, ac mor boblogaidd heddyw ag y bu erioed. Goddefir i ambell un gael cadw y lle uchel a ennillodd unwaith ar gyfrif yr hyn a fu yn y dyddiau gynt, neu oddiar barchedigaeth i henaint, tra y mae galluoedd a llafur eraill yn eu cynnal yn eu lawn nerth hyd drothwy y bedd, ac yn gwneyd y cyfryw oddefad yn afreidiol. O'r olaf y mae y gŵr anwyl hwn.

Dyn o drwch a thaldra cyffredin ydyw, pen mawr, gwyneb esgrynog ac o wedd dywell, aeliau trymion, a llygaid duon yn llechu yn ddwfn odditanynt. Mae ei wedd yn feddylgar a difrifol. Bydd yn esgeulus am ymddangosiad y dyn oddiallan, a symudadau hwnnw yn fynych heb lawer o ras arnynt. Ond y mae rhyw awredd hynod yn nhrem y dyn; nid cymaint mewn un rhan ar i phen ei hun, ond yn nghyfarfyddiad y cwbl. Mae edrych rno yn cynnyrchu dychymyg am rai o hen brophwydi Israel, ac m Elias neu Elisëus yn fwy na neb arall. Mae ei wedd yn dan- yd a difrifol, a rhyw gysgodion o amgylch y llygaid yn gwneyd

yr agwedd yn arddunol a dyeithr. Er fod arwyddion anwylddeb yn rhedeg trwy amryw o'i brydweddau, darn o'r *sublime*, fel creigiau aruthrol a thywyll yr Eryri, yw y wyneb. Ond os yw y llygad seraphaidd sydd hwnt dan yr ael ddu gysgodfawr yn danllyd, mae y tân sydd ynddo yn toddi ei hun wrth losgi.

Saif yn y pulpud yn syth, yn berffaith ddirodres, ac fel un yn ymdeimlo â chyfrifoldeb ei sefyllfa. Nid difrifwch gwneyd yw yr un acw, ond y mae yn hollol naturiol, ac yn berffaith gyd-weddol â'r holl gymeriad. Nid rhyw gelfyddgar iawn y rhydd y pennill allan, eto odid na thery galon y pennill i galon y gwrandawr. Trwsogl hefyd y darllena y testun, ac fe allai y dywed yr un gair drosodd fwy nag unwaith cyn myned drosto. Ond y mae ei feddwl yn nghanol ei destun wrth ei ddarllen. Nid yw gyda'i bregeth ychwaith fel un yn ymbarotoi i adrodd y peth fyddo wedi ei feddwl a'i gyfansoddi, ond fel un yn meddwl ac yn cyfansoddi ar y pryd. Dywedwyd wrthym nad yw yn ysgrifenu yr un o'i bregethau. Mae hyn yn rhoi cyfrif am y gwahaniaeth yn y bregeth ar wahanol draddodiad. Ni chafodd addysg athrofaol, ond y mae wedi gwneyd llawer o'r diffyg i fyny trwy lafur personol. Anaml y gwelir yr ysgolor yn egluro ei destun yn fwy llwyr a manwl. Pwnc mawr ganddo yw cael ystyr ei destun yn glir i'r gynnulleidfa. Ei waith ef, fel y sylwa cyfaill, yw codi y llifddorau i gynnwys yr adnod gael rhedeg allan at feddyliau a chalonau y gwrandawyr.

Mae ganddo feddwl gwreiddiol, ac am hyn y gwisga wirioneddau cyffredin ar wedd newydd a tharawiadol. O ran dull ei bregethu, y mae yn fwy tebyg i Rhif III. o'r brasluniau hyn nag i un o'r lleill, er fod gwahaniaeth dirfawr yn nodweddion y ddau bregethwr. Y mae yn rhy onest a difrifol i geisio ffugio hyd yn nŵd ronyn o deimlad; ac ni fydd yn awyddus i gyffroi y gynnulleidfa i fwy o deimlad nag y bydd ef ei hun ynddo. Ceir ynddo yn fynych y tyner, y tlws, a'r barddonol; ond gwir fab y daran ydyw. Mae aruthredd y wyneb yn y bregeth a'r traddodiad. Mae wrthi â'i holl egni, ond nid fel llawer—yn gwaeddi ac yn curo. Na, y mae ef mewn cymaint o ymdrech pan yn fud a phan yn llefaru. Gwna weithiau fwy nag un cynnyg cyn myned dros y frawddeg, fel pe byddai heb gael gafael cyflawn yn y syniad. Bydd ei holl enaid mewn cymundeb â'i bwnc; ac wedi ychydig o gymundeb go dawel a digyffro, odid na thania yr ysbryd, fe allai mor ddisymwth ag ergyd o bylor. Mae ynddo ystorfa o nerth—nerth meddwl, nerth corff, a nerth teimlad. Os bydd ei lais yn cael ei gyfyngu tua'r gwddf, fel y bydd weithiau, pesycha yn ddy chrynlyd o gryf i fynu ffordd rydd iddo. Bydd cyffro mawr yn y corff yn arwydd fod ymdoriad gerllaw. Ac os daw ymdoriad gellwch chwi ddysgwyl rhywbeth heblaw swm. Pa bryd bynag bydd pylor i'w danio, bydd bwled i'w thafu.

Dacw ef yn awr yn desgrifio yr Iesu yn dyoddef "y tu allan i' porth." Mae yr Iesu yn fyw o flaen ei lygaid; mae yn egluro o deimlad dan y fath waradwydd; dyna'i galon yn cyffroi, ei lygaid

yn gwreichioni, ei wedd yn orlawn o ddwyster; mae yn hacian ar air neu ddau yn nechreu y frawddeg, ond nid yw hyny yn effeithio dim ond i groni y cyffro sydd o'i fewn. Tery ei benelin ar astell yr areithfa, a'i ddwrn cauedig i fyny, a thyr y daranfollt gyda nerth dychrynlyd. "Nid oedd dim," meddai, "yn fwy—yn fwy—yn fwy anghydweddol & *dignity* Duw mewn cnawd na marw yn *sport* i ddyinion a chythreuliaid!" Tarawodd yr holl dyrfa yn wyw a gwyneblas ger ei fron.

Mae yn cadw ymlaen ysgwydd yn ysgwydd & dosbarth blaenaf yr oes hon o weinidogion, er ei fod wedi byw dwy oes arall o honynt allan; a diau y ceidw ei le blaenllaw mwy hyd nes y collwn ein golwg arno yn yr "*entrance*" i lawenydd ei Arglwydd.

---

### SARAH JANE.

**I**AN oedd y sêr yn dlyision  
 Yn eigion nefoedd wên,  
 A'r lleuad yn dod allan  
 O'i chuddfan aur uwch ben;  
 Dan gysgod pren afalau,  
 Yn ngwaelod isa 'r ardd,  
 Yn dawel ar ei gliniau,  
 Gweddiai geneth hardd.

O Dduw, tosturia wrthyf,  
 A gwrando ar fy nghri;  
 Fy nhad a soniai lawer  
 Mor dyner ydwyf ti:  
 Aeth tada bach i'r nefoedd,  
 A mam sy 'n myn'd yn hen;  
 Yn dy drugaredd, Arglwydd,  
 O cofia Sarah Jane.

Mor ddifyr ydyw 'r nefoedd  
 I'r rhai sydd yno 'n byw,—  
 Cael gweled yr angelion,  
 A pherson anwyl Duw:  
 Mae torf i hon yn tynu  
 Yn ieuanc ac yn hen;  
 O nifer teulu 'r nefoedd,  
 O Dduw, gwna Sarah Jane.

Nid wyf yn mhethau 'r ddaear  
 Yn cael ond pleser gwan;  
 Gerllaw mewn bedd yn pydru  
 Mae 'nhad a Lizi Ann:  
 Cael bod wrth fodd yr Iesu  
 Mewn gweddi ac mewn gwên,  
 Yn ferch i'r Duw Gorucha,  
 Ddymuna Sarah Jane.

O cadw di fy nghalon  
 O ddrwg arferion f' oes,  
 A bydded ei chartrefle  
 Yn rhywle tua 'r groes;  
 Caf yno bob ymgeledd  
 Dan rinwedd Dwyfol wên;  
 Arosed gwên yr Iesu  
 Ar ysbryd Sarah Jane.

O Arglwydd Dduw y gweddwon  
 Bydd dirion wrth fy mam,  
 Mae 'i nerth yn dechreu pallu,  
 Arafu mae ei cham;  
 Rhyw led obeithio 'n ddystaw  
 Mae 'mam, wrth fyn'd yn hen,  
 Y caiff hi fyn'd i'r nefoedd  
 Yn nghwmni Sarah Jane.

J. M. JONES  
 (*Ioan Maethlu*).

### PWY WEDDIA DROSOF?

YBIA rhai nad yw o un pwrpas i geisio cael plant y Pabyddion i'r Ysgol Sabbothol. Ond camsyniad pwysig ydyw. Nid yn unig y mae y plant eu hunain yn foddolawn i ddyfod, ond yn fynych iawn bydd y rhieni yn falch iawn i ganiatáu iddynt. Ac y mae daioni mawr wedi ei wneyd droion trwy blant felly. Dyma un hanesyn yn profi hyny.

Yr oedd teulu Pabyddol yn byw mewn ardal heb fod ymhell, a chanddynt ferch ieuanc saith mlwydd oed. Cymhellwyd hi i fyned i Ysgol Sabbothol Brotestanaidd. Yno dysgwyd hi i ddarllen ei Thestament a gweddio. Ymhen ychydig amser, i raddau trwy ddylanwad a gweddiau y plentyn, daeth y tad i drallod anarferol yn achos ei gyflwr. Cynnyddodd ei drallod o ddydd i ddydd; ac un noswaith cododd o'i wely ganol nos mewn ing meddwl annhraethadwy. Dymunodd ar ei wraig weddio drosto, gan nad oedd yn gwybod y ffordd i weddio ei hunan. Atebodd y wraig "na wyddai hi ddim o'r ffordd i weddio mwy nag yntau."

"Beth a wnaif, ynte? Pwy weddia drosodf?"

"Fe allai," ebai'r wraig, "y gwna Mary fach weddio drosoch."

Prysuodd y tad i fyny i ystafell Mary, lle yr ydoedd yn cysgu yn drwm. Cododd hi yn ei freichiau, dygodd hi i lawr y grisiau, a gofynodd iddi yn y dôn fwyaf ddifrifol, "Mary, a ellwch chwi weddio?"

"Gweddio? gallaf, 'nhad, gallaf weddio."

"A wnewch chwi fyned ar eich gliniau a gweddio dros eich tad?"

"Gwnaf, 'nhad; gweddiaf drosoch gyda phleser."

Aeth yr eneth fach ar ei gliniau, a'i thad a'i mam gyda hi; gosododd ei dwylaw bychain gwynion yn mhleth, a dywedodd, "Ein Tad, yr hwn wyt yn y nefoedd"—gan fyned dros Weddi yr Ar-

glwydd yn araf a difrifol. Yna gweddiodd dros ei thad yn ei geiriau ei hunan, gan ddymuno ar yr Arglwydd gymeryd trugaredd arno, a maddeu ei bechodau er mwyn Iesu Grist.

Wedi iddynt godi oddiar eu gliniau, gofynodd y tad, "Mary, a ellwch chwi ddarllen yn eich Bibl?"

"Gallaf, 'nhad; a gaf fi ddarllen peth o'r Bibl i chwi?"

"Cewch, darllenwch, da 'merch i."

Trôdd i'r drydedd bennod o Efengyl Ioan. Darllenodd o'r dechreu hyd yr adnod—"Ac megys y dyrchafodd Moses y sarph yn y diffaethwch, felly y mae yn rhaid dyrchafu Mab y dyn; fel na choller pwy bynag a gredo ynddo ef, ond caffael o hono fywyd tragwyddol."

"O Mary," ebai'r tad cyffrous, "a yw hwna yna?"

"Ydyw, fy 'nhad, y mae yma. Iesu Grist sydd wedi ei ddyweyd."

"Wel, dyna'r peth sydd eisieu arnaf fi; ie, Mary fach, dyna i'r dim y peth sydd eisieu ar eich anwyl dad."

"Mae yma ychwaneg, 'nhad; gadewch i mi ddarllen yr adnod nesaf—"Canys felly y carodd Duw y byd, fel y rhoddodd efe ei uniganedig Fab, fel na choller pwy bynag a gredo ynddo ef, ond caffael o hono fywyd tragwyddol."

"O Mary fach, i mi y mae hona—i fy math i: 'pwy bynag a gredo ynddo ef.' Gallaf fi gredu ynddo—yr wyf yn credu ynddo."

O'r awr hono cafodd y tad dderbyn o dangnefedd yr efengyl. Daeth yn gristion dysglaer, a chafodd y teulu a'r ardal fendith trwy ei ddychweliad.


*Dadau!* anfonwch eich plant i'r Ysgol Sabbothol, lle y cânt ddyegu darllen y Bibl a gweddio; fe allai y bydd yn dda i chwi ryw ddiwrnod wrth help eu gweddïau.

*Blant!* dysgwch fod yn gyfarwydd yn y Bibl, a bod yn gyfarwydd â gweddio. Os oes genych dad neu fam, brawd neu chwaer, perthynas neu gyfaill, yn byw yn annuwiol, ewch i'ch hystafell i weddio drostynt bob dydd; fe allai mai eich gweddi chwi fydd yn foddion iachawdwriaeth iddynt. Ac os mai, fe gyhoedda Iesu Grist hyny ar g'oedd ddydd y farn. Dyna lawenydd a choron i chwi fydd hyny.

---

CRIST YN EIRIOL DROSOM.

“**B**YW bob amser i eiriol drostynt hwy.” Mae y gair sydd yma am eiriol yn golygu siarad; siarad yn erbyn neu o blaid—fel y *counsellor* yn dadleu yn y llys. Beth pe buasai Mab Duw, ar ol esgyn i'r nefoedd, yn dechreu dadleu yn ein herbyn—yn dyweyd wrth ei Dad am yr *abuse* a gafodd efe ar y ddaear, pa beth a ddaethai o honom?—*Y Parch. William Roberts, Amloch.*



## Y TEIGR.

**M**AE y teigr, neu y dywalgi, yn perthyn i deulu y cathod, ac yn debyg i gath, ond ei fod yn fwy. Ei faintioli cyffredin yw oddeutu chwe' troedfedd o hŷd, a thair o uchder. Mae o liw melyn, gyda llinellau duon ar ei draws, fel y dengys y darlun. Bernir ei fod ef, fel yr afon Tigris yn Asia, wedi cael ei enw oddiwrth air Mediaidd yn arwyddo saeth, er dangos cyflymdra yr afon a'r anifail. Mae y teigr yn grëadur anhawdd, os nid anmhosibl, i'w ddofi. Mae llawer ymdrech wedi ei wneyd at hyn, ond nid yw y crëadur i ymddiried ynddo.

Magodd boneddwr yn India deigr, ac yr oedd fel ei bychan ganddo; ond bu agos iddo golli ei fywyd trwyddo un diwrnod. Eisteddai y boneddwr y tu allan i'w ddrws i ddarllen, a'r teigr yn gorwedd wrth ei ochr. Gollyngai un law i lawr uwch ben y teigr, a daliai y llyfr â'r llall. Yr oedd ei fryd gymaint ar yr hyn a ddarllenai, fel mai prin y sylwai fod y crëadur wedi bod am dro hir yn llyfu ei law, hyd nes y clywodd ef yn dechreu rhoi yn isel; a phan edrychodd, yr oedd ei law yn orchuddiedig gan waed. Deallodd yn union fod hen reddf ysglyfaethus y crëadur wedi ei chyffroi, a'i fod yntau mewn perygl. Pe tynasai ei law y ôl, buasai y crëadur yn sicr o ymosod arno. Yn ffodus, gwelodd ei was, a gwaeddodd arno ddyfod â'r dryll yno. Eisteddodd yntau yn llonydd, gan adael y teigr i lyfu y gwaed ar ei law, a pharhau; ond yr oedd pob moment cyhyd ag awr. O'r diwedd, daeth y gwas ymlaen yn lladradaidd; pan ddaeth gyferbyn â'r teigr, a elodd y dryll, a saethodd ef trwy ei galon.

## U LARSING.

**L**LARSING wedi marw!  
Y bachgen hawddgar hwnw,—  
Gwawr Cassia dlawd, a'i ffrynd!

Yn ol i'w hen fynyddoedd,  
 Ac nid, *yn awr*, i'r nefoedd,  
 'R oedd Larsing fwyn i fyn'd.

Na; chware teg i'r nefoedd,  
 Bu hi o hyd drwy 'r oesoedd  
 Yn brin o Gassiaid glân;  
 Pa ryfedd iddi frysio  
 Dwyn Larsing ieuanc yno  
 I harddu ei chor a'i chân?

'R oedd myrdd telynu Cassia  
 O hyd yn fud yn Ngwynfa,  
 A'u heisien yn y *band*;  
 Mor falch oedd yr angelion  
 'Roi un mewn dwylaw m'lynion  
 I chware "*Happy land!*"\*

Ond cyn ei ddwyn i fyny,  
 Anfonodd Duw e i Gymru,  
 Yn siampl fyw i'w phlant,  
 Pa fodd y gall yr Iesu  
 Wneyd Pagan tlawd melynddu  
 Yn rasol siriol sant.

Yn awr, bydd Duw 'r Genadaeth  
 Yn dysgwyl rhoddion helaeth  
 Gan i'entyd Cymru 'nghyd,  
 I anfon oddiyma  
 Genadon hedd i India  
 I droi ei plant i gyd.

CYNHAFAL

---

 BRIWSION O'R "EGLWYS."

**I**LYFRYN VI. o'r "*Gyfras Gymraeg*," wedi ei ysgrifenu gan y Parch. D. C. Davies, Llundain, yw "*Yr Eglwys*;" a chynghor-em ein darllenwyr oll i'w ddarllen yn fanwl. Ei bris yw swllt. Dyma ychydig frwsion o hono, er mwyn i'r darllenydd gael ei flas:—

## Y CRISTION HEFYD YN FIBL.

Bibl wedi ei roddi dan ysbrydoliaeth Duw, gyda'r neillduol-rwydd o fod bywyd yn ei ddalenau, yw Cristion. Fe all fod mewn unrhyw sefyllfa yn y byd, o'r orsedd i'r tlotdy; fe all fod yn ddarllenwr mawr, ac yn feddyliwr mwy; fe all deimlo dyddordeb yn

---

 \* Bu U Larsing farw dan ganu,

"There is a happy land,  
 Far, far away," &c.



hanes y byd, ac mewn pleidiau a dadleuon gwladol, ac yn enwedig yn y pynciau ag ydynt yn cyffroi senedd-dai ei wlad ei hun; fe all ymfrydu mewn barddoniaeth, neu gerddoriaeth, neu athroniaeth, neu yn y gwyddorion; wrth droi dalenau ei fywyd, a'u ddarllen yn arwynebol, fe ellid tybied fod ynddo ambell i lyfr Esther heb enw Duw o'i fewn, neu lyfr Josua wedi ei lenwi â hanes rhyfeloedd; neu, hwyrach, rhyw Ganiad Solomon, a Galar-nad Jeremiah. Ond y mae y Duw a'i hysgrifenodd wedi gosod yr Arglwydd Iesu yn Ysbryd y cwbl, i rwymo y cwbl yn gyfanwaith. A'r Ysbryd hwn sydd yn peri ei fod o ran ei duedd yn bleidiol i sancteiddrwydd. Nid yw y Bibl hwn yn cael ei orphen yn y fuchedd hon. Ond ar foreu yr adgyfodiad, fe fydd ei holl wallau wedi eu cywiro—fe fydd wedi ei orphen â “Dadguddiad”—fe fydd wedi ei rwymo yn gyfrol hardd.

#### Y BACHGEN IESU YMHLITH Y DOCTORIAID.

Fe ddeallodd y “Bachgen Iesu” fod rhyw ystafell ynglŷn â'r deml, lle yr oedd y bobl feddylgar yn arfer cyfarfod i ymddyddan am bethau y gyfraith; ac, er nad oedd ond deuddeng mlwydd oed, fe arosodd yno er mwyn eu clywed. Yno y cawd ef, gan Mair a Joseph, yn eistedd “yn ogoniant yn eu canol.” Yr oedd yno wir Dduwdod yn Shecinah, ond yr oedd ei ieuencyd, fel mwg yr arogl-darth, yn codi tua'r nefoedd rhwng eu llygaid a'i weled. Er nad oedd ein Hysgolion Sabbothol ni yn bod y pryd hyny, yr oedd ei sêl o gymeradwyaeth ar sefydliad o gyffelyb natur ymhlith yr Iuddeuwon—cymeradwyaeth a ddangosodd trwy ei bresennoldeb gwirfoddol yno—ei chwilfydedd i ddeall meddwl yr Hen Destament, a'r rhan a gymerodd yn yr ymddyddan, yn sêl o gymeradwyaeth ar ein Hysgolion Sabbothol ni hyd ddiwedd y byd. Dysgwyliwn am dano i'r ŵyl, i bob Cymanfa fawr; ond gallwn ei ddysgwyl hefyd i'r Ysgol Sabbothol, i eistedd yno “yn nghanol y doctoriaid,” yn y gwahanol dosbarthiadau, “i wrando arnynt, ac i'w holi.”

#### YR YSGOL SABBOTHOL A'R CYFARFOD EGLWYSIG.

Mae yn niweidiol iawn i ddyn gryfhâu un synwyr o'i gorff, neu un gynneddf o'i enaid, neu un rhinwedd neillduol, i raddau helaeth, gan esgeuloso meithrin pob un arall. Felly, fe fuasai yn niweidiol i'r Methodistiaid Calfaidd fod ganddynt mewn bri uchel eu cyfarfodydd i fagu ac arllwys teimladau crefyddol, heb fod hefyd ganddynt ryw gyfarfodydd wedi eu sefydlu, ac mewn bri gogyfuwch, cymhwys i agor y meddwl i ddeall gwirioneddau crefydd. Yr oedd y pwys mawr y mae y Methodistiaid o'u dechreuad wedi ei osod ar gyfarfodydd eglwysig, fel rhai y dysgwyliid i bawb lefaru eu teimladau crefyddol wrth eu gilydd, yn ei wneuthur yn fwy anghenrheidiol iddynt hwy nag i'r un enwad arall am Ysgol Sabbothol fel moddion i éangu cylch gwybodaeth

eu haelodau o hanes ac athrawiaeth yr efengyl. \* \* \* Y mae ein Cyfarfod Eglwysig a'n Hysgol Sabbothol fel dau gymhar bywyd, wedi eu hûno mewn glân briodas, ac wedi eu bwriadu i gyflawni diffygion eu gilydd. Na fydded i'r un golli ei gymhar, a syrthio i sefyllfa o weddwod pruddaidd. Os marw a fydd raid iddynt, bydded iddynt farw yr un pryd—cladder hwy gyda'u gilydd yn yr un bedd, i adgyfodi ar y ddaear gyda'u gilydd mewn mwy o ogoniant nag a fu ganddynt erioed o'r blaen. Cadwer yn ein plith yr eglwys rhag ffurfioldeb o ddiffyg teimlad, a'r ysgol o ddiffyg addysgu.

CYFUNDEB Y METHODISTIAID.

Na fydded i'n Cyfundeb byth fyned yn henaidd, yn oedranus, syrthio i ail fabandod, a myned yn unig yn wrthddrych tosturi; ond bydded iddo, pan yn hen o ran dyddiau, feddu ar brofiad henaint ynglŷn â bywiogrwydd a gweithgarwch ieuentyd; fel yr oedd yr angel ar fore adgyfodiad yr Iesu yn filoedd o flynyddoedd oed, ac yn "fab ieuanc" ar yr un pryd. A phan y bydd marw, ar ddiwrnod marwolaeth holl enwadau y ddaear, bydded iddo farw fel Moses, a'i lygad heb dywyllu, a'i nerth heb ballu, a'i ireidd-dra heb gilio, a chladder ef gan Dduw ei hun ar derfyn y Ganaan nefol, yn yr hon y bydd pob enwad wedi ei lyncu i fyny am byth yn yr enw Cristion.

Y GAREG YN ATEB.



RAID i blant bychain—rhai heinyf eu gwedd—  
 Fyned oddiyma, a'u doddi mewn bedd?  
 Mor deg yw eu golwg, mor hawddgar eu bryd,—  
 A raid iddynt farw, a'u claddu i gyd?  
 Y gareg yn ateb—"i gyd."

Ow! Ow! y fath ateb a ges genyt ti,  
 Fe holltodd fy nghalon pan dd'wedaist mor hy';  
 Ni chefais fath ateb erioed gan un dyn,  
 Sef d'wedyd rhaid marw y bechgyn bob un.  
 Y gareg yn ateb—"bob un."

O! eto daeth geiriau mor erchyll i'm clyw,  
 Gan doddi fy nheimlad ac agor fy mriw:  
 Rhof eto un cwestiwn, ac ateb di ef,—  
 I uffern cânt fyned, ai ynte i'r nef?  
 Y gareg yn ateb—"i'r nef."

O dyma un ateb 'r wy 'n hoffi ei gael,  
 Ar eiriau fel yna bydd barod a hael,  
 Sef d'weyd na chaiff bechgyn feddiannu dim llai  
 Na bywyd tragwyddol, a heddwch bob rhai.  
 Y gareg yn ateb—"rhai."

Ti ddylet, gyfeilles, dd'weyd imi "bob rhai,"  
 Ond toraist y geiriau ychydig yn llai;  
 Wel, pwy a gaiff fyned i'r nefoedd, fy ffrynd,  
 Y plant sy 'n annuwiol ai 'r duwiol gaiff fyn'd?  
 Y gàreg yn ateb—"duwiol gaiff fyn'd."

'N awr rhaid imi dewi a myned i ffwrdd,  
 Gan ddysgwyl cawn eto ddod yma i gwrdd;  
 Mae hiraeth fy nghalon a'm tristwch yn fawr,  
 Wrth feddwl rhaid imi dd'weyd dydd da yn awr.  
 Y gàreg yn ateb—"dydd da yn awr."

Pwllheli.

R. RUFFUS ELLIS.

## ENWOGION YR OES.

## II. ARGLWYDD RUSSELL.

**M**AE Arglwydd Russell yn un o'r dynion goreu sydd yn y weinyddiaeth, a bydd yn dda gan y darllenydd ieuanc wybod ychydig o brif ddygwyddiadau ei hanes fel dyn cyhoeddus. Mab ydyw i'r chweched Dduc Bedford; bu ei hynafiaid yn dal lle pwysig yn helyntion y llywodraeth hon am lawer o oesau. Ganydd ef yn Llundain, Awst 18fed, 1792, felly y mae yn 71 oed oddiar Awst diweddaf. Addysgwyd ef yn Sunbury, Ysgol Westminster, a Phrifysgol Edinburgh. Etholwyd ef yn aelod o Dŷ y Cyffredin yn 1813, i gynnrychioli Tavistock, bwrdeisdref oedd dan nawddogaeth ei dad; mae felly wedi para yn un o aelodau mwyaf llafurus y Senedd Brydeinig am 50 mlynedd. Ysgrifonodd amryw lyfrau pan yn ddydd ieuanc, ac y mae wedi dwyn rhai gweithiau pwysig allan yn y blynyddoedd diweddaf. Ond y mae wedi ennill mwy o glod fel gwleidiadwr nag fel awdwr. *Whig* ydyw o ran ei olygiadau; hyny yw, y mae yn bleidiwr rhyddid a diwygiad. Cynnygiodd fesur er diwygio y Senedd mor gynnar a'r flwyddyn 1819. Daliodd i ymdrechgu o blaid mesurau diwygiadol am flynyddoedd. Yn 1828 llwyddodd i basio mesur da a elwir y *Test Act*. Ond y mesur penaf o'i eiddo, a'r hwn sydd wedi gwneyd ei enw yn fythgofiadwy, yw *Reform Bill* 1832, ar yr hwn y mae etholiadau seneddol hyd y dydd hwn yn seiliedig. Yn 1830 cawn ef yn dal y swydd o Dâl-feistr y Galluoedd. Yn 1835, yn ngweinyddiaeth Arglwydd Melbourne, gwnaed Russell yn Ysgrifenydd Cartrefol, ac yn arweinydd Tŷ y Cyffredin. Ar y pryd yr oedd yn cynnrychioli Stroud, a llwyddodd i basio mesur er diwygio llywodraethiad trefi. Yn 1839 gwnaed ef yn Ysgrifenydd y Trefedigaethau, ac yn y blynyddoedd dyfodol etholwyd ef i gynnrychioli dinas Llundain. Daeth yn Brifweinidog y waith gyntaf yn 1846, wedi penderfynu pwnc treth yr ŷd. Yn 1851 rhoddodd y swydd hono i fyny; ond gorfu iddo ei chymeryd eilwaith am flwyddyn, am nad oedd neb arall yn barod, neu yn abl ffurfio

gweinyddiaeth. Cyn hir eto cawn ef yn Ysgrifenydd Tramor, dan weinyddiaeth Iarll Aberdeen. Rhoddodd y swydd hono i fyny i Arglwydd Clarendon, a bu am dro yn y *Cabinet* heb un swydd, ond yn arweinydd Tŷ y Cyffredin. Gwnaed ef wedi hyny yn Llywydd y Cynghor. Tra yn y sefyllfa hono, yn 1854, y dygodd Ffŵl Diwygiadol arall ger bron y Senedd, yr hwn oedd wedi cael ei adael o'r neilldu am ddwy flynedd; ond gan fod y wlad â'i bryd ar y rhyfel â Rwssia, collwyd y *bil*. Rhoddodd ei le yn y *Cabinet* i fyny am nad allai amddiffyn ymddygiadau ei gydswyddogion yn nygiad rhyfel y Crimea ymlaen. Rhoddodd Arglwydd Palmerston Swyddfa y Trefedigaethau iddo, ac apwyntiodd ef yn Genadwr i fyned i Gynnadledd fawr Vienna. Ond yn y gynnadledd hono i geisio penderfynu heddwch â Rwssia, colodd ei boblogrwydd yn fawr, a thafwyd ef am dro i'r *back benches* yn Nhŷ y Cyffredin. Ond gwisgodd hyny ymaith, ac yr oedd yn fuan wedi ennill ei safle uchel arferol yn ymddiried ei wlad. Y mae bellach er ys blynyddoedd yn Ysgrifenydd Tramor yn ngweinyddiaeth Palmerston; ac yr oedd yn beth rhagluniaethol iawn ei fod ef yn dal y swydd hono ar adeg bwysig chwyldroad Itali yn y blynyddoedd diweddaf, gan ei fod ef yn teimlo mor zelog o blaid rhyddid y wlad orthrymedig hono. Anrhydeddwyd ef â dyrchafiad i'r Bendefigaeth yn 1861, ond y mae wedi dal ei swydd fel Ysgrifenydd Tramor er newid ei ystafell a'i sedd. Mae Russell yn un o wroniaid rhyddid ein gwlad, yn olynnydd teilwng i Fox a Grey, yn gynnrychiolydd ffyddlaw'n o'r egwyddorion dros ba rai y bu Hampden farw ar faes y gwaed, a Russell a Sydney ar yr arteithglwyd. Ac y mae yn dda genym ychwanegu ei fod yn broffeswr ffyddlaw'n o'r ffydd Gristionogol.



CAN "TRYSORFA Y PLANT."



TYRED yma, blentyn bach,  
 Mae 'n dda i ni er dy fwyn;  
 Eisteddwn yn yr awel iach,  
 A d'wedaf i ti 'nghwyn:  
 Os clywi 'r carpiwr, anwyl ffrynd,  
 Yn gwaeddi 'n ol ei chwant,  
 Wel cofia fod ei *rags* yn myn'd  
 I wneyd "TRYSORFA 'R PLANT."

*Chorus.*—O paid a'i wawdio, anwyl ffrynd,  
 Mae 'n gweithio 'n ol ei chwant;  
 Mae ei gynnorthwy yntau 'n myn'd  
 At wneyd "TRYSORFA 'R PLANT."

Os gweli di y mwnwr draw  
 Yn malu 'r plwm yn fân,  
 A gwneyd ei hun yn drwch o faw  
 Wrth wneuthur hwnw 'n lân:

Mae 'n hel y plwm am gyflog gwael,  
 'Mhob twll mewn bryn a phant ;  
 Mae 'r plwm yn gwneyd llyth'renau hael  
 At wneyd "TRYSORFA 'R PLANT."  
 O paid a'i wawdio, &c.

Cei weled ambell fachgen sydd  
 Yn un meddylgar iawn,  
 A gwelir ei fod ef bob dydd  
 'N cynnyddu yn ei ddawn :  
 Mae 'n rhodio 'r caeau—gweithred ddoeth,  
 Mae 'n myn'd trwy gwm a nant ;  
 Mae 'n chwilio am hanesion coeth  
 I'w rhoi 'n "NHRYSORFA 'R PLANT."  
 O paid a'i wawdio, &c.

Pan weli yr argraffydd gwiw,  
 Sy 'n haeddu clod a bri,  
 Ac er mor llwydwyn yw ei liw,  
 Fe wna 'n "TRYSORFA " ni :  
 Llyth'renau änt trwy 'i ddwyllaw ef,  
 Bob mynyd lawer cant ;  
 Diolchwn ninnau 'n llon ein llef  
 Am gael "TRYSORFA 'R PLANT."  
 O paid a'i wawdio, &c.

IAGO TREFFYNNON.



### LLYFRAU NEWYDDION.

[YR AIL RAN O LAWLYFR CANIADAETH, *ar drefn y Tonic Sol-fa, gan E. ROBERTS, Liverpool.* Pris chwe' cheiniog.]

**D**R ydym yn teimlo yn dra diolchgar i'n cyfaill Mr. Roberts am y gwasanaeth pwysig y mae wedi wneyd i'r genedl sydd yn codi, trwy gyhoeddi y *Llawlyfr* hwn. Llyfryn yn ei bryd yd-yw ; ac yr ydym yn mawr gamsynied os na ddaw yn un o'r llyfrau mwyaf poblogaidd ymysg ieuencyd ein gwlad. Dyma gyfarwyddyd cyflawn i ddysgu y drefn newydd, a chasgliad rhagorol o dôn-au a geiriau i'r plant a phobl ieuainc, a'r cwbl, y ddwy ran—am SWLLT. Yr *address* yw, E. ROBERTS, 124 *Northumberland Terrace, Everton, Liverpool.*

[EHEDIADAU BYRION ; *sef Casgliad o Gyfansoddiadau Barddonol, gan GLAN ALUN.* Wedi ei rwyimo yn hardd am 2s. 6c.]

**M**AE darllenwyr y DRYSORFA fach wedi cael aml i damaid mel-us gan awen Glan Alun, a diau eu bod yn dra danteithiol iddynt. Mae yr awdwr yn un o'r ysgrifenywyr mwyaf llithrig a darllenadwy, ac yn un o'r beirdd mwyaf naturiol (*true to na-*

ture) a fêdd y genedl. Mae y gyfrol fechan dlôs hon yn bigion o'i oreuon. Heblaw y darnau barddonol, mae yn y gyfrol dair o'i erthyglau mwyaf poblogaidd mewn rhyddisith, wedi eu hail brintio o'r TRAETHODYDD. Pe darllenid ef, ni byddai un dyn hoff o lyfr yn foddlawn i'w lyfrgell fod hebddo.



TYWYSOG CYMRU.

TON.—“*Glân Medd' dod Mwyn.*”

**R**HYW estron i'n cenedl, fel Edward ei hun,  
Wnaed i ni 'n dywysog, pan dd'wedwyd, “Eich Dyn;”  
Ond Brython o galon, a Chymro o waed,  
Sydd heddyw 'n etifedd i goron ein gwlad:  
Disgyned ar D'wysog yr hen ynys wên,  
A'i briod yn wastad, fendithion y nen;  
A Brydain byth fyddo trwy 'r ddaear yn ben.

Wrth chwifiad “Tair Pluen,” trwy 'n hen ynys hon,  
Ennynodd teyrngarwch nes tanio pob bron;  
Yr Alban ac Erin, a Lloegria 'n gyttun,  
Gydunent â Gwalia i waeddi *Ein Dyn*.

Disgyned ar D'wysog yr hen ynys wên,  
A'i briod yn wastad, fendithion y nen;  
A Brydain byth fyddo trwy 'r ddaear yn ben.

I'r orsedd, pan esgyn, diysgog fo 'i sedd,  
A'i ddyddiau fo 'n ddyddiau o lwyddiant a hedd;  
Boed iddo anrhydedd a mawredd drwy 'r byd,  
A chartref yn nghalon ei ddeiliaid o hyd.

Disgyned ar D'wysog yr hen ynys wên,  
A'i briod yn wastad, fendithion y nen;  
A Brydain byth fyddo trwy 'r ddaear yn ben.

*Conwy.\**

LLYWARCH.



Y GRISIAU CYNTAF I'R CROGBREN.

**D**MWELODD gweinidog yr efengyl unwaith a gŵr ieuainc yn nghell y carchar, yr hwn oedd wedi cyflawni llofruddiaeth dan gynhyrriad y diodydd meddwol. Wedi darllen cyfran o'r Bibl a gweddio, gofynodd y gweinidog,  
“Beth a ch harweiniodd i'r fath galedwch, fel ag i gyflawni gweithred mor erchyll?”

“Gallaf ddyweyd mewn tri gair, syr,” ebai y truan wylofus;—

1. “Anufuddhâu i'm rhieni.

2. Tori Sabbothau.

3. Diota a hap-chwareu (*gambling*). Dyna y grisiau y daethum ar hyd-ddynt i'r trallod hwn.”

Anwyl ddarllenwyr, gochelwch y grisiau hyn, fel y gochelech uffern ei hunan.



## Y DYN MEDDW.

**D**YMA olwg y dyn ag ydoedd hanner awr yn ol yn canu "*Sweet Home*" yn y dafarn, ac yn gwneyd i'r holl gwmi chwerthin wrth ei faldordd a'i goegddigrifwch. Y fath le llawen yw y dafarn; ond mor fuan mae ei lawenydd yn diffodd ar ol gadael ei drothwy! Mae yr uchod yn ŵr ac yn dad, ac eto y fath wedd annynol sydd arno. Os yw yn wir fod Duw yn cymeryd math o ddarlun *photograph* o honom ymhob agwedd sydd arnom, pa fodd y teimla y dyn uchod pan wél y darlun hwn o hono ei hun yn y farn?

Mae yr uchod yn ffaith. Mae yr ysgrifenydd yn dyst o'r olygfa. Yr oedd tua hanner nos. Yr oedd y plant hynaf yn y gwely; yr oedd y fam drallodus yn ofni drwg oddiwrth ei phriod, os byddai yn feddw yn dyfod adref; a phenderfynai redeg â'i merch fechan allan, mor gynted ag y delai y gŵr i mewn, a

threulio y noson yn y beudŷ gyda'r fuwch. Rhoddodd y gŵr gie i'r drws nes ydoedd led y pen. A phan oedd yn y drws yn dyfod i mewn, rhoddodd rheg ddychrynlyd, y lladdai hwynt bob un. Yr cedd y wraig a'i geneth fach yn ei llaw y tu cefn i'r drws, a'i chalon yn crynu, ac yn barod i lithro allan. Yr oedd cadair fechan yr eneth yn sefyll ar y llawr o flaen y drws. Rhoddodd y dyn droediad iddi â'i holl nerth; ond, yn hynod, aeth ei droed i mewn trwy y twll oedd yn ei gwaelod, nes oedd fel llyffethair am ei droed. Syrthiodd yn ôl ar ei gefn, a tharawodd ei wegil nes oedd yn hurt. Cysgodd yn y fan hono hyd y bore, a'r gadair am ei droed; a chafodd y fam a'r ferch fyned i'w gwely yn lle myned allan.

DEFFROWCH YNGHYD.

*I w canu ar y Dŵn, "CAN EISTEDDFOD;" o'r "Gems of Welsh Melody."*

**D**EFFROWCH ynghyd, grefyddwyr byd,  
O ffowch, ieuentyd, ffowch;  
Rhag drygau blin gwatwarus win,  
Yn llu at ddirwest dowch:

Terfysgaidd nwyd o yfed gwyd  
Diodydd drwg eu rhyw;  
Y dŵr i ddyn, mewn syched blin—  
Y dŵr ordeiniodd Duw.

*Chorus.*—Dirwestiaeth fad a lanwo 'n gwlad,  
Dewch dan ei baner hi;  
Eich cadw wna rhag meddwol bla,  
O deuwech gyda ni.

Arferiad ddrwg sy 'n tynu gwg  
Yr Hwn wnaeth ddae'r a nef;  
Yn ddigllawn mae 'n cyhoeddi gwae  
Uwch yfwyr diod gref:  
Hen Babel sydd mewn cyfiwr prudd,  
O'i sail yn siglo sy;  
O doed yr awr, pan syrth i lawr,  
Ei chedyrn furiau hi.

Dirwestiaeth fad, &c.

DEWI GLAN LLYNFI.

YR ARGLWYDD YW FY MUGAIL;  
NI BYDD EISIEU ARNAF.—PSALM  
xxiii. 1.



## Y GWEINIDOG A'I GAETHWAS DYCHWELEDIG.

**GAETHWAS.** Bydd Massa a Caethwas yn y nefoedd, Mister Shearer?

*Gweinidog.* Na fydd; ni fydd dim caethwasiaeth yno, Caesar.

*Caethwas.* Ai Massas fydda nhw gyd, neu caethion gyd?

*Gweinidog.* O, nid meistriaid na chaethion, Caesar; ond pawb yn rhydd.

*Caethwas.* Yna, mae rhyddid yn beth nefol, ynte, Mr. Shearer?

*Gweinidog.* Yr ydych eto yn myned i ormod o ddyfnder, Caesar.

*Caethwas.* Wel, f'allai y dysg yr Argl'wdd fi i nofio mewn dŵr dwfn—'digidig fo'i enw. Ond yw Iesu Grist yn gweyd, "y gwirionedd a'ch rhyddhâ;" os ma'r gwir sydd yn gwneyd yn rhydd, yna celwydd sy'n gwneyd yn gaeth.

*Gweinidog.* Beth sy'n bod, Caesar? A oes rhyw *abolitionist* (un am ryddhâu y caethion) penboeth wedi bod yn gwenwyno dy feddwl di?

*Caethwas.* 'Digidig fo'r Arglwydd, nac oes. Gwelais i dim *abolitionist* 'riod. Yr Arglwydd Dduw yw *abolitionist* fi. Ma' fe'n dwyn ei bobl allan o wlad yr Aipht, allan o dŷ 'caethiwed. Yr Arglwydd Iesu Grist yw *abolitionist* fi. Ma' fe wedi "anfon i' gethu'r efengyl i'r tlodion, i' gethu rhyddid i'r caethion, ac agoriad carchar i'r rhai sy'n rhwym." Yr Ysbryd Glân yw *abolitionist* fi; waith "lle ma' Ysbryd yr Arglwydd yno ma' rhyddid." Mae gan yr Arglwydd miloedd o bobl duon yn y wlad yma, Mr. Shearer. Ma' nhw'n llefain arno yn hir iawn yn eu caethiwed. Ma' nhw'n dysgwyl iddo d'od yn fuan, ar frys hefyd, i dori eu cadwynau yn yfflon.

*Gweinidog.* Beth wyt yn feddwl, Caesar, wrth y siarad gwrth-ryfelgar yma? Beth ddywedai dy feistr pe dywedwn am danat wrtho?

*Caethwas.* Na 'ffodwch yr Ysbryd, Mr. Shearer. Ta Massa yn chwipio fi, neu yn lladd fi, gwedwn i'r gwir 'run fath o hyd.

*Gweinidog.* Ni ddywedaf wrtho y tro hwn. Ond rhaid i mi ddyweyd dy fod yn ddyn anniolchgar a grwgnachlyd, ac na ddylasit gael dy dderbyn i aelodaeth eglwysig. Ac ni adawaf i ti ddyfod i gymundeb nes y gwelaf arwyddion o edifeirwch ynot.

*Caethwas.* O, 'digidig fo'r Arglwydd! F'allai rhodda'r Arglwydd gymundeb i fi—dim ond 'fe a fi gyda'n gilydd.

## DALEN Y BEIRDD IEUAINC.

EMYN GENADOL.



ARGLWYDD, bendithia lafurwaith  
Dy weision trwy 'r ddaear i gyd,  
Nes delo yr oll o'i thrigolion  
I gredu yn Iesu mewn pryd;

A son am yr Aberth a elo  
 Yn glodfawr o ogledd i dde;  
 Gorllewin a dwyrain a ddelont  
 I ganmawl Tywysog y Ne'.

ANFEDRUS.

LLYFR YR YSGOL SUL.

MAE 'i eiriau yn felus orfoledd,  
 Maent hefyd yn rhyfedd eu rhan;  
 Gwnant dywys y dall i oleuni,  
 Ac hefyd gwnant godi y gwan;  
 Gwnant gadw y truan crediniol,  
 A 'i wneuthur yn foesol i fyw;  
 Gwnant agor ei lygaid o d'wyllwch,  
 I weled dyddanwch ei Dduw.

O. DINORWIG.

I'R DRYSORFA.

TYR'D y DRYSORFA fwynlon  
 Lawr i Gaerhendy 'n gyson;  
 Edrych ydym, bant a thwyn,  
 Am gael dy fwyn hanesion.

Mae ynot bethau buddiol,  
 Yn ateb pawb o'r bobol,  
 Ond iti ddod, cei barch yn wir,  
 A'th dâl ar dir rhinweddol.

*Gaerhendy.*

GWILYM.

COFIA DY GREAWDWR.

O COFIA 'n awr yn moreu 'th oes  
 Y Gŵr a rôes it' fywyd,  
 A chadw ei orchymynion ef—  
 Cei nef a bythol wynfyd.

H. J. OWEN.

Y DUWOL.

Y DUWOL rai, na fyddwch drist,  
 Ond cofiwch angu Iesu Grist;  
 Can's byw a marw a wnaeth ef,  
 Er mwyn i chwi gael myn'd i'r nef.

CAWR GWAN (14 oed).

MAEWOLAETH CRIST.

"GORPHENWYD," medd ein Harglwydd mawr,  
 Pan marw wnaeth dros lwch y llawr;  
 A'r rhai a gredant ynddo ef,  
 Cânt fyw mewn gwynfyd yn y nef.

PLORATOR (13½ oed).

## CREFYDD FOREUOL.

MAE crefydd yn moreu ein dyddiau  
 Yn drysor annhraethol ei werth,—  
 Cyfiawnder, gwirionedd, a heddwch,  
 Llawenydd diderfyn, a nerth ;  
 Y Duwdod ei hunan a'i lluniodd,  
 O gariad at dlodion y llawr ;  
 Cysegrwn ein hoed i'n Gwaredwr,  
 I'w garu a'i ganmawl bob awr.

G WALCH.

## Y BACHGEN AMDDIFAD.

Os collais anwyl dad a mam,  
 Mae genyf Dduw  
 A all fy nghadw rhag pob cam,—  
 Mae ef yn fyw ;  
 Mae 'n gymhorth hawdd ei gael i'r gwan,  
 Mae 'n Dad amddifaid ymhob man,  
 Efe yw 'r un a'm cwyd i'r lân,—  
 Fy Ngheidwad yw.

R. AP GWILYM.

## CODI 'N FORE.

Os dymunech fyn'd ar gynnydd,  
 Codwch beunydd gyda'r wawrddydd ;  
 Chwiliwch holl drysorau natur,  
 Ond yn benaf yr Ysgrythyr.

Nid wrth gysgu cewch ddysgeidiaeth,  
 Golud byd, na phur wybodaeth ;  
 Os dymunech gael y rhei'ny,  
 Rhaid yn wastad fore-godi.

W. ROWLANDS.

## Y BIBL.

RHODDWN barch i'r Bibl sanctaidd,  
 Mae ei Awdwr yn un mawr ;  
 O'i wir gariad fe anfonodd  
 Ei anwylaf Fab i lawr,  
 I gymeryd ein naturiaeth,  
 Ac i farw yn ein lle ;  
 A thrwy hyny ni gawn ganu  
 Am ei gariad yn y ne'.

*Waunfawr.*

E. E.

## IESU.

MAE enw Iesu 'n swnio  
 Yn beraidd i fy nghlust,  
 Fe ddaw o greu ynddo  
 Fwynhâd i f'enaid trist.

Tragwyddol fywyd ddeillia  
 O'i angen gwerthfawr drud,  
 Yr hyn sydd i bechadur  
 Yn fwy ei werth na'r byd.

ISELFRYD.

Y PLENTYN DRWG.

O BLENTYN drwg, anufudd,  
 Annedwydd yw dy nôd,  
 Yn tori deddfau 'r Arglwydd,  
 A'u sathru dan dy dro'd ;  
 Mae 'r Gŵr fu ar Galfaria  
 Yn gwel'd o'i orsedd fry,  
 Fe ddaw y dydd ar fyrder  
 I gyfrif â thydi.

Bryneglwoys.

J. LLOYD.




LLYTHYR PLENTYN O'R MOR TAWEL

(MR. GOL.—Nid am fy mod yn ystyried y llythyr hwn yn orchestol fel cyfansoddiad yr wyf yn ei anfon i chwi i'w gyhoeddi, ond am fy mod yn gwybod fod lliaws mawr o rieni yn arfer darllen TRYSORFA eu plant; er annogaeth iddynt hwy weddio trostynt tra ar yr aelwyd gartref, fel pan elont oddicartref, y gallant gael cysur wrth gofio fod eu rhieni yn ymwneyd â Duw yn eu hachos; ac hefyd er cymhelliad i rieni yn nhrefydd Lloegr ddyngu yr iaith Gymraeg i'w plant. Wele y bachgen 16 oed hwn yn ysgrifenu Cymraeg glân gloew, fel y gwelir, er ei fod wedi ei eni a'i fagu yn Salford.

WMFFRA.)

*Ar ffordd Llong Ryfel ei Mawrhydi, y "Charybdis," yn y Môr Tawellog.*

 NWYL DAD A MAM,—Derbyniais eich llythyr caredig, ac O! mor dda oedd genyf ei gael; a diammheu y bydd yn dda genych chwithau gael clywed oddiwrthyf finnau.

Pan ar y fordaith o Rio i Falkland Islands, mi a feddyliais na chawn byth eich gweled na chlywed oddiwrthyf. Yr oeddwn wedi rhoi fy hun i fyny i drugaredd y gwynt a'r tônau. Yr oedd yr hin yn oer iawn, a ninnau mewn dwir dros ben ein gliniau, bob dydd a nos am wythnos gyfan. Er hyny, pan ar y môr mawr, yn cysgu yn fy *hammock*, os cawn gyfle i hyny, bum lawer gwaith yn breuddwydio fy mod yn gweled fy nhad a fy mam ar eu gliniau yn gweddio trosaf. Byddai hyny yn fy nerthu i geisio ymddiried yn yr Arglwydd, ac i gofio, er fy mod ymhell oddicartref ac oddiwrth fy mherthynasau, fod llygaid yr Arglwydd arnaf, a'i ofal trosaf ymhob man; a byddaf yn gobeithio y bydd i bob peth gydweithio er daioni i mi. Yr wyf yn teimlo yn ddwys o herwydd colli y fraint o gael myned i'r Ysgol Sul ac i'r pregethau Cymreig. Os oes yna rywun o fechgyn Salford, o fech-

gyn yr Ysgol Sabbothol Gymreig, â'i fryd ar ddyfod i'r môr,—os yw yn meddwl am fod yn ddyn da, gwell iddo aros gartref, a gwranddo ar gynghorion ei fam. Buasai yn dda iawn genyf pe buaswn i wedi gwneyd hyny. Os gwelwch yn dda anfon TRYSORFA Y PLANT i mi; colled fawr i mi oedd ei cholli. Byddaf yn darllen fy Mibl, ac yn cael llawer o bleser.

Cofiwch fi yn garedig iawn at fy athraw yn yr Ysgol Sul, Mr. J. Jones, i'r hwn yr wyf mor ddyledus am ei gynghorion.

Ydwyf, eich unig Fab,

W. W.



### PROFIAD PLENTYN DA.

**Y**F blentyn hoff o chwareu  
 Pob rhyw ddiniwed gamp,  
 Yn nghwmni plant rhinweddol,  
 O'r twmpath hyd y pant!  
 Ond gwell na 'r holl chwareuon,  
 Amrywiol yn eu rhi',  
 Fod Duw yn hoffi maddeu  
 Fy holl bechodau i.

Mi gefais ddillad newydd,  
 A gwisgais hwy yn llon;  
 Mi deimlais 'n ol eu gwisgo,  
 Yn ddwys o dan fy mron,  
 Mai gwell na 'r dillad newydd,  
 Er cymaint yw eu bri,  
 Fod Duw yn hoffi maddeu  
 Fy holl bechodau i.

Addawodd fy rhieni,  
 Os byddwn i yn glaf,  
 Y cawn i fyn'd i rodio,  
 Pan ddeuai hirddydd hâf;  
 Ond gwell na mis o rodio  
 Ymysg fy ffryndiau cu,  
 Fod Duw yn hoffi maddeu  
 Fy holl bechodau i.

Fe dderfydd pob chwareuon  
 Sy 'n swyno plant y dref;  
 Rhaid gadael dillad newydd,  
 A myn'd i fyw i'r nef;  
 Ond byth ni dderfydd canu  
 O fewn y nefoedd fry,  
 Am gariad Duw yn maddeu  
 Fy holl bechodau i.

GWELL CAST NA HYNY.

**I**N prydawn, aeth efrydydd ieuanc allan ar dro gydag un o athrawon y coleg. Gwelent bâr o hen esgidiau ar ymyl eu llwybr, y rhai a berthynent i hen ŵr tlawd oedd yn gweithio gerllaw. "Gadewch i ni gael tipyn o ddifyrwch ar draul yr hen ŵr," ebai'r efrydydd. "Beth pe byddem yn cuddio yr esgidiau, a sefyll tu draw i'r llwyn yna i weled ei drallod wedi eu colli."

"Na, mi ddywedaf i chwi well cast na hyny," ebai'r athraw. "Yr ydych chwi yn gyfoethog; a beth pe gosodech hanner coron ymhob esgid, ac i ninnau ymguddio i weled syndod yr hen ŵr."


"O'r goreu," ebai'r gŵr ieuanc; a gwnaeth felly. Wedi i'r gŵr tlawd orphen y gorchwyl yr oedd wrtho, dychwelodd at ei esgidiau, ac aeth ynghyd â'u gosod ar ei draed. Wedi gosod un i fyny, tynai hi yn frysio; yr oedd rhywbeth yn anesmwytho ei droed yn ei blaen. Trôdd hi wyneb i waered, a beth ddaeth allan ond hanner coron. Gwnaeth yr un fath eilwaith gyda'r esgid arall, nes oedd yn y benbleth a'r syndod mwyaf. O'r diwedd gorchfygwyd ef yn lân gan ei deimladau. Syrthiodd ar ei liniau, cododd ei olwg i'r nefoedd, a chyflwynodd ddiolchgarwch gwresog i'r Rhagluniaeth dyner oedd wedi anfon rhyw law anweledig i gadw yn fyw ei wraig glaf, a'i blant bach newynog oedd heb damaid o fara. Nid rhyfedd fod yr efrydydd ieuanc oedd yn gwylio yr olygfa wedi ei gyffroi gan deimladau, a bod ei lygaid wedi eu llenwi â dagrau.—*Children's Friend.*



GEORGE BACH A'R ADSAIN.

**I**R oedd George bach un diwrnod allan wrtho ei hun yn y cae. Yr oedd ei galon yn llawen, a'i ysbryd yn fywiog, a gwaedodd nerth ei geg, "Hoi! hoi!" Ac er ei syndod clywai lais o'r brysglwyn oedd ar y llechwedd o'i flaen yn gwaeddi "Hoi!" hefyd, mewn tôn gyffelyb iddo. "Pwy sy yna?" gofynai y plentyn yn uchel, a'r llais a'i hatebodd â'r un geiriau, "Pwy sy yna?" "Rhaid dy fod yn un dwl," ebai George. "Un dwl," ebai'r llais o'r brysglwyn. Arferodd George eiriau casach eto, mewn tôn sarug, a'r llais yn ei ateb yn ffyddlawn, yn llawn mor gas a sarug.

Rhedodd George o'r diwedd adref, a dywedodd fod rhyw fachgen drwg yn ymguddio yn y llwyn, a'i fod yn ei watwar ef am bob gair a ddywedai. Deallodd ei dad beth ydoedd, a dywedodd wrtho, "George bach, yr ydych yn achwyn arnoch eich hunan. Nid oedd ond adsain eich geiriau eich hun yn taro yn ôl o'r llechwedd. Pe buasech chwi wedi dyweyd geiriau caredig, yn lle geiriau sarug, cawsech eiriau caredig yn ôl gan y llais. A chofiwch, George bach, fod dynion yn debyg iawn i'r adsain. Os ydych am gael geiriau caredig oddiwrth bawb, gofelwch ddyweyd geiriau caredig wrthynt."



### CARLO A'I FEISTR.

**T**INCER oedd meistr Carlo, a gwel y darlennydd ef yn gorwedd yn yr eira yn y darlun uwch ben. Yr oedd Carlo yn un o'r cŵn ffyddlonaf a fu erioed, er nad oedd yn un mor hardd ei olwg. Dilynai ei feistr i bob man ond i'r dafarn. Rhyw sut nid elai dros drothwy y tafarn ar un cyfrif; ond gorwedddai y tu allan i'r drws hyd oni ddelai y tincer allan; yna trotiai o'i flaen fel pe yn pigo y llwybr tecaf iddo ef i'w ddilyn adref.

Un noswaith oer yn y gauaf, yr oedd y tincer wedi yfed nes yn feddw, ac ymddangosai Carlo mewn trallod mawr wrth weled ei feistr yn ymdwpian o glawdd i glawdd, ac yn methu cerdded adref. Weithiau ymaflai â'i ddannedd yn esmwyth yn ei goes i geisio ei dynu i'r llwybr. Yr oedd trwch o eira dros y ddaear, ac yr oedd eu ffordd hwythau yn arwain trwy gae llydan. Yr oedd perth ar draws y cae, a ffos ddofn y naill ochr iddi. Wrth groesi y berth, syrthiodd y dyn nes ydoedd yn ei hyd yn yr eira ar waelod y ffos. Yr oedd yn rhy feddw i godi, a chysgodd yn y fan hono.

Ond yr oedd Carlo, druan, mewn trallod annesgrifiadwy. Cydiai â'i ddannedd yn ei gôt, a thynai â'i holl egni; llyfai ei ddwylaw a'i wyneb, fel pe yn ceisio ei ddenu i godi a dyfod adref; ond nid oedd dim yn tycio. Yr oedd yn noswaith oer, ac yn rhewi yn galed, a'r ci yn crynu gan anwyd; ond nid elai gam o'r fan. Weithiau gorwedddai yn dawel wrth ei ochr; bryd arall safai uwch ei ben gan udo; ac yn y man elai i ben y twyn i gyfarth, fel pe buasai yn galw ant gymhorth.

Pan oedd y ci agos a rhynu gan yr oerfel, clywai drwst dynion yn dynesu; myned heibio ar hyd y ffordd yr oeddent. Neidiodd i fyny a dechreuodd gyfarth. Safodd y dynion i edrych arno, a rhedodd yntau druan atynt, a thynai wrth eu coesau, i geisio ganddynt ddyfod. Synwyd y dynion gan ei ymddygiad; ac wrth ei weled yn rhedeg yn ol a blaen i'r fan lle y gorweddai ei feistr, aethant yno. Trwy orchest fawr y carwyd y dyn adref, a bu y meddyg yn treio llawer moddion cyn ei adferu.

Yr oedd y dyn yn ddyledus am ei fywyd i'w gi; cymerodd y dyn yr ardystiad dirwestol, ac y mae wedi dal ati hyd heddyw. Dangosodd fwy o barch nag erioed i'w gi o hyny allan; a phan fu Carlo farw er ys ychydig yn ol, ystwffiodd ei groen, ac y mae yn ei gadw dan orchudd gwydr yn ei ystafell; a bob tro yr edrycha arno, y mae yn adgofio i Ragluniaeth ei ddefnyddio yn offeryn i'w waredu ef rhag marwolaeth y meddwyn.



### CANDACE Y GAETHES DDU.

YRHAEDDODD y newydd Mrs. Marvyn fod James ei mab wedi boddi—collodd y llong a boddodd yr holl ddwylo. Yr oedd y newydd am golledigaeth ei hunig a'i hoff blentyn wedi ei gyru i ymyl gwallgofrwydd. Ni fynai ei chysuro. Treiodd ei gar, treiodd ei chymydogion, ond nid oeddynt yn tycio. Anfonwyd am y gweinidog—Dr. Hopkins, a bu yntau wrthi ar ei oreu; ond nid oedd dim a ddywedai yn effeithio ar ei meddwl cyffrous. Y rhan fynychaf, ni ddywedai yr un gair; ond pan lefarai, y geiriau hyn a'u cyffelyb a ddyferent dros ei gwefus;—

"I mi nid oes daioni, na chyfiawnder, na thrugaredd, mewn dim. Mae hyny yn ymddangos i mi y baich a'r dyngهد mwyaf truenus allasant eu rhoi ar ddyn. Yr ydym wedi ein gwneyd i garu fel hyn, i obeithio fel hyn, a'n calonau mor llawn o deimlad, a holl ddeddfau natur yn cerdded drosom heb sylwi dim ar ein poenau. Mae miloedd o'r calonau goreu yn cael eu llethu i angeu y foment hon. O, Arglwydd! nid fy nhrallod i yn unig yw. Pa hawl sydd genyf fi i alaru? A oedd fy mhlentyn i yn well na phlentyn rhyw fam arall? Mae miloedd o filoedd o blant, ag oedd eu mamau yn eu caru fel yr oeddwn innau yn caru fy mhlentyn, wedi suddo yno! O! ddydd fy mhriodas! Paham y llawenychasant? Dylai pob priodferch wisgo galarwisg,—dylai y gloch dolian ar bob priodas: mae pob teulu newydd yn cael ei adeiladu uwch ben y pwll dychrynlyd hwn o anobaith, ac nid oes ond un o fil yn dianc. Maent yn dyweyd fod ein hiachawdwriaeth yn troi ar i ni garu Duw—ei garu yn well na ni ein hunain—yn well na'n ffryndiau goreu. Mae hyny yn anhosibl! Mae yn groes i ddeddfau fy natur i. Nis gallaf garu Duw byth. Nis gallaf byth ei ganmawl. Yr wyf yn golledig! colledig! colledig! A'r peth sydd yn waeth na hyny, nis gallaf achub fy ffryndiau! O, gallwn ddyoddef byth



bythoedd, a hyny yn ewyllysgar, pe gallwn ei waredu ef!  
Ond O! tragywyddoldeb! tragywyddoldeb! Gwae dychrynllyd  
annhraethadwy! Heb derfyn!—heb waelod!—heb lân!—heb  
obaith!—O Dduw! O Dduw! &c.”

Yr oedd Candace, morwynig gyfagos, yr hon oedd gaethes, wedi  
gwrando wrth y drws ar gwynfian Mrs. Marvyn yn hir, yn gystal  
ag ar ymdrechion ei chyfeillion i dawelu ei meddwl. Method  
aros yn hŵy. Rhuthrodd i mewn i'r ystafell.

“Bendith arno' chi, Sewier Marvyn,” ebai, “thâl hi ddim i fyn'd  
mla'n fel hyn, yn un modd. Gwedwch 'Fengyl wrthi, newch chi?  
Os na newch chi, g'naf fi.”

“Dewch chi, Oenig fach anw'l,” ebai, gan nesu ynlaen at Mrs.  
Marvyn,—“dewch chi at hen Candace!” Cymerodd hi yn ei  
breichiau fel pe buasai blentyn, ac eisteddodd i lawr gan ddechreu  
ei suo. “Misis anw'l, 'd y'ch chi ddim yn iawn. Mae camsyned  
mawr rh'wle, ta beth, 'dyw'r Arglwydd ddim fel ma' chi'n meddwl,  
bid fyno. Ma' fe'n eich *caru* chi, f' anw'l. Gwelwch fel ma' fi  
yn eich caru—hen Candace ddu, dlawd—a 'does dim o fi yn gwell  
na'r Hwn a g'naeth fi. Pwy wisgodd y goron ddrain, f' anw'l i?  
—pwy chwysodd y dafnau mawr o wa'd?—pwy wedodd, 'O Dad,  
maddeu iddynt?’ Gwedwch Misis anw'l! onid yr Arglwydd yr  
hwn a'ch g'naeth chi?—Dyna, dyna, wylwch chi,—wylwch chi  
'mla'n—g'naiff y dagrau yna les—'smwythwch eich calon fach!  
Bu farw dros Mas'r Jim (y mab oedd wedi ei golli)—carodd ef, a  
bu *farw* drosto. Rhoddodd ei gorff a'i enaid gwe'thfawr drosto ar  
y gro's! O, anw'l Misis fach, *gadewch* ef yn nwylo Iesu! Gwel-  
wch chi ddim, Misis—dacw ôl yr hoelion yn ei dwylo ef 'nawr.”

Drylliwyd y llifddorau, a'r ocheneidiau a'r dagrau iachäol a  
ysgydwent gorff gwanaidd Mrs. Marvyn. Cydwy lai pawb oedd yn  
yr ystafell.

Ar ol ychydig ddystawrwydd, dechreuodd Candace eilwaith;—  
“Fi'n gw'bod, Misis, bod ein Doctor yn ddyn da 'swydu, ac yn  
'sgedig—a 'do's gen i dim croes i chi i 'rando ar y pethe mawr sy'  
ganto fe i 'weyd, ar dywydd tég; ond Misis fach, g'na 'nhw dim  
o'r tro i chi 'nawr; thâl dim rhoi bwyd cryf i dynion claf; ac ar  
amser fel hyn 'does dim *use* treio dim ond un peth, a hwnw'r Iesu.  
Dewch lawr *jest* i dreio i'r man ma'r hen Candace ddu druan yn  
aros o hyd—ma' fe'n lle da, Misis fach? 'Drychoch yn *clir* ar yr  
Iesu. Ma' fi'n gweyd wrtho chi—gallwch chi ddim byw'n un  
ffordd arall 'nawr. 'Dach chi dim yn cofio fel 'drychodd é' ar ei  
fam pan o'dd hi yn crynu a ll'wgu dan y gro's, *jest* fel chi. Ma'  
fe'n gw'bod pob peth am g'hone mame; tor e' dim o calon chi.  
Am bod e'n gw'bod y dele' ni i g'ledi, a'th e' trw' y pethe hyn i  
gyd—Fe, Arglw'd y 'Goniant. Am Hwn oech chi'n gweyd na  
gall'sech chi dim ei garu? 'Drychwch arno, a peid'wch os gall-  
wch. 'Drychwch arno,—peid'wch ammhe, na mysymu dim, ond  
ydrych arno yn 'ongian ar y gro's—mor addfwyn, ac yn cariad i  
gyd. A gweddiodd drostynt â phob 'nadiad oedd ganto. Dyna  
Duw gallech chi garu, onte fe? Ma' Candace yn ei garu fe—hen

Candace, dlawd, ffôl, ddu, ddrwg,—a ma' hi yn gw'bod fod E' yn ei charu hithau." Yna torodd Candace i wylo dagrau yn genllif. Llanwyd mynwes y wraig â'r tangnefedd sydd trwy Iesu Grist; ac ymhen ychydig syrthiodd i hûn felus.

"Dyna," ebai Candace, ar ol eu galw allan o'r ystafell, "peidiwch blino 'i mheddwl gyda petha fel yna yto. Ma' fi'n gw'bod fod Mas'r James yn un o'r 'tholedigion; a ma' fi'n gw'bod fod mwy o 'tholedigion na ma' dynion yn feddwl. Bu'r Iesu dim marw am ddim —'dyw'r holl cariad hwnw dim i fyn'd yn ofer. Ma'r 'tholedig yn fwy na ma' chi na fine'n feddwl. 'Nawr ma' rhaid i ni credu peth fel hyn: wa'th gan bod ni i fyw yn y byd yma, ma' 'n am-lwg fod'r Arglwydd wedi trefnu pethe fel y gallo' ni fyw; a tai pethe fel ma' rhai dynion am i ni credu, bydde ddim posib byw, a bydde dim *sense* mewn dim sy myn'd mla'n."

Yn yr amgylchiad hynod hwn, llwyddodd y gaethes dlawd i wneyd yr hyn oedd y Doctor yn fethu—arweiniodd yr enaid tralodus at Grist yn ei ffordd syml, a derbyniodd yr enaid hwnw ei fendith, a gwiriwyd geiriau Iesu Grist ei hun;—"Deuwch ataf fi bawb sydd yn flinderog ac yn llwythog—a chwi a gewch orphwysdra i'ch heneidiau."

## CATECISM I'R PLANT.

### DAFYDD A GOLIATH.

**M**AB pwy oedd Dafydd?

Mab Jesse.

2. Ymha le y ganed ef?

Yn Methlehem Judah.

3. Beth oedd ei waith pan yn ieuanc?

Bugeilio defaid.

4. A ddanfonwyd ef ar ryw neges neillduol?

Do, gan ei dad.

5. At bwy yr anfonwyd ef?

At ei frodyr.

6. Beth oedd ei frodyr?

Milwyr yn myddin Saul.

7. Ymha le yr oeddynt ar y pryd?

Yn nyffryn Elah.

8. Pwy oedd yn ymladd a hwynt?

Y Philistiaid.

9. Pwy oedd o ochr yr Arglwydd?

Yr Israeliaid.

10. A ddaeth rhyw un yno i wawdio pobl Dduw?

Do.

11. Beth oedd ei enw?

Goliath.

12. Pwy oedd Goliath?

Cawr o Gath.

13. Beth oedd ei uchder?  
Chwe' chufydd a rhychwant.
14. Beth oedd ei wîsg?  
Helm o bres a llurig emog.
15. A aeth rhyw un yn ei erbyn?  
Do, y bachgen Dafydd.
16. At bwy yr aeth Dafydd am genad?  
At Saul, brenin Israel.
17. Beth a orchymynodd Saul iddo?  
Gwisgo ei arfau.
18. A ddarfu iddo eu gwisgo?  
Naddo, yr oeddynt yn rhy fawr.
19. Pa arfau a gymerodd ynte?  
Cèryg o'r afon a ffon dafl.
20. Beth wnaeth Dafydd i Goliath?  
Tafodd gâreg at ei dalcen.
21. Beth oedd y canlyniad?  
Cwymppodd y cawr i'r llawr.
22. Beth wnaeth Dafydd wedi hyny?  
Torodd ben Goliath â'i gleddyf ei hun.
23. Pwy roddodd y gallu i Dafydd?  
Yr Arglwydd Dduw.
24. A rydd yr Arglwydd nerth i wneyd daioni?  
Rhydd, i bawb a ofynant iddo.

W. D. (*Mynorydd*).

*Llundain.*

Y CLOFF A'R DIOG.

**D**R oedd dau gardotyn unwaith, y Cloff a'r Diog, mewn eisieu bara. Pwysai un ar ei ffyn baglau, a gorwedddai y llall ar ei wely.

Galwodd Cloff ar Gariad, a gofynodd yn ostyngedig am dafell o fara; ac yn lle tafell, wele cafodd dorth gyfan.

Pan welodd Diog fod Cariad mor hael, dywedodd,—

“Beth! gofyn tafell a derbyn torth? Wel, gofynaf fi am dorth, a gallaf ddysgwyl llwyth o fara; neu os gofynaf am deisen, rhydd ffyrnaid.”

Galwodd Diog ar Gariad, a cheisiodd dorth o fara. “Yr ydych yn gofyn am dorth,” meddai Cariad, “ac y mae hyny yn profi eich bod yn ddiog. Yr ydych yn perthyn i'r dosbarth sydd yn gofyn ond heb dderbyn.”

Achwynai Diog, yr hwn oedd bob amser yn ffeindio bai, ac yn well ganddo achwyn na gweithio, ei fod yn cael ei gamdrin, a chyhuddai Gariad o dori addewid. Dangosodd Cariad iddo dri darlun yn ei ystafell, Ffydd, Gobaith, Cariad; ond yr oedd Cariad yn ymddangos yn decach ac yn fwy na'i chwîorydd. Sylwodd ei fod yn dal yn ei law lestr â'i lonaid o fêl, ac yn porthi gwenynen

oedd wedi ei hanallnogi trwy golli ei hadenydd; ac yr oedd ei law chwith wedi ei harfogi & chwip i yru y cler ymaith.

"Nid wyf yn ei ddeall," meddai Diog.

Atebodd Cariad, "Y meddwl yw fod Cariad yn porthi y Cloff, ac yn cosbi y Diog."

Trodd Diog i fyned. "Aros," meddai Cariad; "yn lle arian, rhoddaf gynghor i ti."

"Beth ydyw?"

"Cei ef yn y Diarebion, y chweched bennod, a'r chweched adnod; tro yno i'w ddarllen."



## "YN RHY FAWR I UFUDDHAU IW FAM."

**B**ACHGEN "yn rhy fawr i ufuddhâu i'w fam!" Rhaid fod y bachgen hwn yn un mawr yn wir, ac yn un â chanddo feddyliau rhyfedd am iawnderau pobl *fawr*. Ni charwn i fyw yn agos ato, beth bynag, nac hyd yn nôd ei weled. Y mae arnaf ofn y teimlai yn "rhy fawr" i ufuddhâu i gyfreithiau ei wlad, neu i gyfreithiau ei Dduw, ac o ganlyniad y byddai yn gymydog peryglus. Er hyny, dywedir fod y fath beth a phlant yn teimlo eu hnnain yn rhy fawr i "ufuddhâu i'w mam."

Os oes rhai o'r cyfryw yn darllen TRYSORFA Y PLANT, dymunwn ofyn, Beth sydd ar eich mam eisieu i chwi wneyd? Aros i mewn y nosweithiau, i'ch cadw rhag cyfeillachû & phlant drwg—i ddarllen llyfrau da, yn lle llyfrau ffol a llygredig—i beidio cyfwrdd & thybaco a diodydd meddwol—i ymroddi gyda'ch llyfrau, neu eich crefft, neu eich gorchwyl? Ai ceisio genych fod yn gyson yn yr addoliad ar y Sabboth, a dal gyda dosbarth y Biblan, ac uwchlau pobpeth i fod yn fachgen ffyddlawn a duwiol? Gwyddoch y gwnelai hyn hi yn fwy dedwydd nag y gall tafod draethu; ac yr ydych yn teimlo yn *rhy fawr* i ufuddhâu i'w hewyllys? Fy machgen, coeliwch fi, yr ydych mewn sefyllfa beryglus o ran eich meddwl, ac yr wyf yn ofni am danoch gyda golwg ar y byd hwn a'r hwn a ddaw. A fnoch chwi erioed yn meddwl am Iesu Grist, "Brenin breninoedd, ac Arglwydd arglwyddi"—yr Hwn, pan oedd yn ddigon hen ac yn ddigon doeth i ddyrysu y doctoriaid dysgedig yn y deml yn Jerusalem, nad oedd yn rhy hen nac yn rhy ddoeth i ufuddhâu i'w fam! A phan oedd yn marw ar y groes, a ofalodd am ei fam, ac a ddarparodd yn ffyddlawn ar ei chyfer. Credwch fi, tra yr ydych yn ddigon bach i bwysu ar eich mam am ddillad a gofal beunyddiol, a thra y mae hi mor awyddus i'ch gweled yn tyfu i fyny yn fachgen da a defnyddiol, ac mor ewyllysgar i wneyd unrhyw aberth i'ch cynnorthwyo yn eich bywyd, dylai fod arnoch gywilydd i ddyweyd, nac hyd yn nôd i feddwl, "Yr wyf yn rhy fawr i ufuddhâu i'm mam." Na, rhy falch, rhy ddrwg, ac nid rhy fawr ydych. Chwiliwch yr holl fywgraffiadau yn eich llyfrgeill eich hun, neu

un eich tad, a dywedwch i mi a allwch gael hanes un dyn nodedig am fawredd a daioni a adawodd i feddwl fel yna gael gorphwys yn ei fynwes! Na, y mae pob dyn mawr yn gwneyd yn fawr o fam wyliadwrus a da, yn ufuddhâu i'w hannogaethau a'i hegwydd-orion duwiol tra y byddant byw, ac yn eu dysgu i'w plant ar eu hol. Na, fy machgen, gobeithio y teimlwch eich hunan yn rhy fawr i *anufuddhâu* i'ch mam hyd eich marw.

RHYS.



## DYDDANION.

## TARFU YR YSBRYD DRWG.

**D**ID oedd iechyd y diweddar Barch. T. John, Cilgeran, yn dda er ys blynyddoedd, a byddai yn arfer gwisgo llawer o ddillad am dano wrth deithio. Un diwrnod, pan ar ei geffyl yn mhen uchaf Sir Aberteifi, ac wedi mwffio ei hun yn hynod, a chlogyn glas yn ei guddio o'i goryn i'w sawdl, daeth boneddwr ar farch go fywiog i'w gyfarfod. Gwylltai y march rhag ofn Mr. John, a gwrthodai fyned heibio. "Y dyn!" ebai'r boneddwr, wedi cyffroi, "yr ydych yn ddigon i darfu yr ysbryd drwg!" "Gyda'ch cenad, syr," ebai'r pregethwr mewn tón araf, "ar y neges hyny y daethum o gartref."

## Y FFORDD GYDA CHYBYDD.

**S**ALWODD Samuel Hick, pregethwr llëol hynod gyda'r Wesleyaid, gyda dyn cyfoethog ond cybyddlyd, am rywbeth at y Genadaeth Dramor. Wedi hir ddadleu dibwrpas, syrthiodd Sam ar ei liniau i weddio ar yr Arglwydd am iddo agor ei galon. Dychrynodd y dyn wrth y fath weddi ddifrifol, a gwaeddodd allan, "Sam, mi roddaf gini i ti os tewi!" Dal i weddio yr oedd Samuel, ac yn y man gwaeddodd y dyn eilwaith, "Taw, Sami, dyma ddau gini i ti!" Cododd Sam ar ei draed, ac estynnodd ei law i dderbyn y rhodd, a chafodd hi.

## CYWEIRIO Y GWELY.

**H**AN oedd Samuel Hick ar ei wely angeu, daeth ei gyfeillion â chyfarfod gweddi ato i'r tŷ. Gweddiai un o'r brodyr am i'r Arglwydd gyweirio ei wely yn ei gystudd, pan atebwyd ef gan Sam o'i wely, gyda'i fywiogrwydd arferol, "Iê, ac ysgwyd ef yn dda, Arglwydd."



## TRYSORFA Y PLANT.

RHIF. XXIV.]

RHAGFYR, 1863.

[CYP. II.

### FI A 'NGHEFFYL.

**N**id wyf yn meddwl fod un dyn o alluoedd cyffredin yn abl dychymygu ar ba beth y mae y papyr yr wyf yn ysgrifenu arno yn awr yn gorwedd. Yr wyf yn eistedd ar breseb (*manger*), mewn ystabl oleu a thaclus, ac y mae fy nalen wedi ei lledu ar y darn gwastad sydd ar wyneb y ceffyl, rhwng y ddau lygad. Ni feddylicch, heb i chwi wneyd prawf, y fath ddesc ragorol at ysgrifenu mae pen y ceffyl yn ffurfio, wrth i chwi roi llyfr teneu o dan y ddalen. Wrth eistedd ar ymyl y *manger*, y mae yn ateb yr uchder mor dda. Bydd ei enau, mae'n wir, yn agos iawn i'ch penliniau, fel na byddai yr anturiaeth yn ddiogel gyda cheffyl na byddai genych ymddiried ynddo. Ond, am danat ti, *Old Boy* (enw y ceffyl), ni wnei di gnoi dy feistr. Yr wyt wedi derbyn gormod o foron (*carrots*) ganddo; wedi bwyta gormod o dafellau o fara oddiar ddr ei law.

Yr wyf yn aros fan yma hyd nes dychwelo fy ngwas o'i neges; a phaham y rhaid i mi wario pum' mynyd yn ofer? Nid yw bywyd yn rhyw faith iawn, ac nid yw y mynydau y gall dyn ysgrifenu ynddynt gyda rhwyddineb a phleser yn dyfod yn fynych. Ac fe allai y cyfrana newydd-deb y lle yr wyf yn ysgrifenu arno dipyn o fywyd i'm llinellau. Yr wyt yn dal dy ben yn llondd iawn, *Old Boy*. O bob tu i'r ddalen yr wyf yn gweled llygad

mawr yn edrych i lawr yn fyfyrgar; a dwy glust yn sythu uwch ben, mewn cywreinrwydd tawel, ond heb un arwydd o ofn. Nid am dy fod yn amddifad o ysbryd, fy nghyfaill mud; gwnei dy ddeuddeng milldir yr awr âg un ceffyl yn yr ardal; ond y mae hir garedigrwydd wedi dy ddofi cystal ag y gwnaethai Mr. Rarey, er nad oes ond saith haf wedi myned dros dy ben. Gad i ni, ddarlleneydd caredig, edrych yn wastad gyda pharch a chydymdeimlad ar y creaduriaid direswm ag y mae tynghed y dyn wedi eu goddiwedd- yd, a'r rhai sydd yn gorfod bwyta eu hymborth trwy chwys eu talcenau, os nid trwy chwys eu hochrau.

Mae yn syn fod creadur yn cael ei alw i lafurio trwy ei holl fywyd, ac heb un orphwysfa yn ei aros ar ol hyny! Am danom ni, ddynion, gallwn ddeall a dwyn llawer o ddrwg a blinder yma, am y dysgir ni eu bod yn foddion dysgyblaeth i'n parotol ar gyfer byd arall, byd ag y gwneir cyfiawnder & phawb. Ond am danat ti, fy nghydrëadur truan, yr wyf yn teimlo yn ofidus wrth ysgrifenu ar dy dalcen, nid oes anfarwoldeb yn dy aros fel sydd yn fy aros i. Y fath wahaniaeth sydd rhyngom! Tydi un ar bymtheg neu ddeunaw mlynedd yma, ac yna diddymdra. Finnau driugain a deg, ac yna tragywyddoldeb! Yr ydym wedi ein gwneyd gan yr un Llaw; yr wyt ti yn anadlu yr un awyr, yn cael dy gynnal yn gyffelyb gan fwyd a diod, ond yr wyt yn awr yn dyst o weithred nad yw yn perthyn i ti, ac nad oes ynot yr un syniad am dani.

Ac yma yr ydym, ti, *Old Boy*, yn sefyll wrth y *manger*, a finnau yn eistedd arno—y marwol a'r anfarwol—yn ymyl eu gilydd. Mae dy drwyn ar fy mhenlin, a fy mhapyr innau ar dy dalcen; eto mae rhywbeth rhyngom lletach na'r Atlantig. Am danat ti, os dyoddefi yma, nid oes yr un byd arall i wneyd i fyny am hyny. Eto byddai yn dda i lawer sydd uwch na thi yn eu creadigaeth pe cyflawntent ddybenion eu Creawdwr gystal a thi. Rhoddodd i ti nerth a buandra, ac yr wyt yn eu defnyddio i lawer dyben da; ond nis gall llawer dyn anturio dyweyd eu bod yn troi y galluoedd a roddodd Duw iddynt i ddybenion mor deilwng o'u natur. Ped elem i son am haeddu, yr wyt ti yn haeddu gwell na fi. Maddeu i mi, fy nghydrëadur, os rhoddais ambell ysbarduniad neu wialen- od ddigofus i ti pan fyddet yn dychrynu rhag mochyn neu asyn ar y ffordd. Ond mi wn nad wyt yn cadw malais ataf. Yr wyt wedi anghofio'r fflangell (ni chefaist hi lawer o weithiau), ac yr cofio yn hytrach am y bara a'r moron, am y troion y byddwn yn tynnu dy glustiau yn chwareugar, yn llyfnu dy wddf â'm llaw, a yn chwatio dy drwyn. A chan mai hwn yw dy unig fywyd gwnaf fi fy ngoreu i'w wneyd yn un cysurus i ti. Mae *hapusrwydd* wrth gwrs, yn beth nad elli di byth ei gyrhaedd. Ond, fy nghy- aill a'm cydymaith trwy lawer milldir faith a blin, cei eithaf trwy o wellt yn dy ystabl i orwedd, a digon o geirch a gwair i fwyta, t fyddaf fi yn abl eu cael i ti. Ac na fydded i'r llaw hon ysgrifed- llinell arall yn dragywydd, os gwna byth unrhyw gamwri gw- foddol i ti!

PA LE Y MAE FY NHAD!

**M**EWN bwthyn diaddurn yn ymyl y nant,  
Eisteddai gwraig weddw yn nghanol ei phlant:  
Ar ie'ngaf ofynnodd, wrth wel'd ei thristad,  
Mae 'r nos wedi dyfod, ond p' le mae fy nhad!

Fe redodd un arall gwynoblôn a thlŵs,  
I'w ddysgwyl ef adref ar gâreg y drws:  
Fe welodd yr hwyrddydd yn duo 'r holl wlad,  
A thorodd ei galon wrth ddysgwyl ei dad.

Y sêr a gyfodent mor hardd âg erioedd,  
A gwenodd y lleuad tros frigau y coed:  
A'r fam a ddywedodd, "Mae 'th dad yn y nef,  
Ffordd acw, fy mhlentyn, ffordd acw mae ef."

Mewn bwthyn diaddurn yn ymyl y nant,  
Ymddiried i'r Nefoedd mae 'r weddw a'i phlant:  
Ni fêdd yr holl grêad un plentyn a wâd  
Fod byd anweledig, os colodd ei dad.

J. CEIRIOG HUGHES.

Y LLYTHYR YN CYHUDDO.

**F**YWEDIR i foneddwr yn America anfon bachgenyn o was â  
basgedaid o ffigys i foneddwr arall, ynghyd a llythyr yn hys-  
bysu y nifer o ffigys oedd yn y fased. Yr oedd golwg mor  
demiol ar y ffigys, fel yr helpiodd y bachgen ei hun âg amryw o  
honynt ar y ffordd, gan dybied na ddaethai ei feistr byth i wybod;  
eto yn ei wiriondeb, rhoddodd y llythyr gyda'r fased i'r bonedd-  
wr. Dygodd hyn gerydd trwm ar ben y llanc. Beth bynag,  
gyrwyd ef eilwaith â basgedaid o'r un ffrwythau, ac â llythyr yn  
ei law, fel o'r blaen. Yr oedd y bachgen wedi deall mai y  
llythyr, rywsut, oedd wedi cario y glec am ei waith yn bwyta y  
ffigys ar y ffordd. "Ond mi spariaf y gwalch i wneyd hyn â mi eto,"  
ebai, a gosododd y llythyr ar y ddaear; yna gosododd gâreg fawr  
arno, ac eisteddodd ar y gâreg. "Dyna," ebai, "ni wêl fi yn awr."  
Felly agorodd y fased, a bwytaodd amryw o'r ffigys tra yr oedd  
y llythyr dan y gâreg yr eisteddai arni. Wedi tori ei chwant,  
freiglodd y gâreg ymaith, ac aeth yn ei flaen â'r fased a'r llythyr  
i ben eu taith. Ond er holl ddyfeisiau y bachgen i guddio y  
llythyr, yr oedd yn ei gyhuddo eto fel o'r blaen, a daeth yn waeth  
nag erioedd am ei ben. Nid oedd yn bosibl i'r bachgen wneyd  
drwg heb i'w feistr wybod tra yr oedd yn cario ei gyhuddwr yn ei  
law.

Ddarllenwyd! mae dy gydwybod di yn dy fynwes fel y llythyr  
hwnw yn llaw y bachgen. Er i ti dori gorchymynion Duw yn y  
tywyllwch, neu mewn lleoedd dirgel pan nad oedd neb yn gweled,



bydd pob gweithred ddrwg, pob meddwod, pob cabled a rheg, ar lawr yn llythyr dy gydwybod, pan gyfaryddi â Duw mewn barn. Dos ar dy liniau yn awr i setlo â dy Farnwr yn enw Iesu Grist, cyn delo dydd barn.

## ANTHEM T'WYSOG CYMRU.

(“*God bless the Prince of Wales.*”)

TRYDYDD PENNILL.

ALONAU gurant iddo  
Mewn cariad pur dibaid,  
Ac nid yw 'r hen Frythoniaid  
Heb *freichiau* pan bo raid.

T'wysoges gwlad y bryniau,  
Anwyled myrdd a mwy,  
A gwledydd teg yr undeb,  
O Dduw bendithia hwy.

Ar d'wysog gwlad y bryniau,  
O boed i'r Nefoedd wên  
Roi iddo gyda choron  
Ei bendith ar ei ben.

J. CEIRIOG HUGHES.

## LUTHER A MELANCTHON.

IN diwrnod anfonwyd cenad at Luther fod ei gyfaill a'i gyweithiwr, Phillip Melancthon, yn marw. Brysiodd i fynw i'w weled; cafodd ef yn glaf iawn, a phob arwyddion fod ymddattodiad yn ymyl. Ymgrymai yn wylofus uwch ei ber ac yn y man torodd ei ocheneidiau allan yn waedd fawr o wylfain. Daeth y llef â Melancthon ato ei hun o'i gwsg syfrdanod edrychodd i fynw i wyneb ei gyfaill, a dywedodd, “O, Luther ai chwi sydd yna? Paham na adewch i mi ymadael mewn heddwch?” “Nis gallwn eich hebgor yn awr, Phillip,” oedd yr atebiad. Trôdd Luther oddiwrth y gwely, syrthiodd ar ei liniau, ymdrechodd â Duw mewn gweddi am ei adferiad dros awr gyf. Cododd oddiar ei liniau, aeth at y gwely, ac ymafodd yn llawgyfaill. Dywedodd Melancthon eto, “Anwyl Luther, paham na adewch i mi ymadael mewn heddwch?” “Ni chewch ymadael, Phillip,” ebai Luther; “nis gallwn eich hebgor yn awr oddfaes eich llafur.” Yna gorchymynodd barotoi llymaid o gwsg iddo; a phan wrthodai y claf ei gymeryd, gan ddywedyd, “Anwyl Luther, paham na adewch lonydd i mi i fyned adref a gorphwys atebodd yntau eto, “Nis gallwn eich hebgor yn awr, Phillip.” Yna ychwanegodd, “Phillip, cymerwch y cawl yma, neu es

munaſ chwi." Bu raid i Melancthon ymostwng; cymerodd y cawl, a dechreuodd yn fuan wellhâu. Cyn hir adferwyd ef i'w iechyd cynnesin, a bu yn llafurio am flynyddoedd wedi hyn gydag achos pwysig y Diwygiad. Wedi i Luther ddychwel adref, dywedodd wrth ei wraig mewn tòn orfoleddus, "Rhoddodd Duw fy nghyf-aill Melancthon yn ôl i mi, mewn atebiad uniongyrchol i weddi."

Cymaint, onidê, yw nerth gweddi! ac mor fynych y ceir enghreifftiau o wirionedd yr adnod hono, "Llawer a ddichon taer weddi y cyfiawn."

## ESBONIADAU YSGRYTHYROL I'R PLANT.

### RHIF III.

ACTAU viii. 30: "A Phylip a redodd ato, ac a'i clybu ef yn darllen y prophwyd Esaias."

**D**YWED Jowett, yn ei "*Christian Researches in Syria*,"—"Mae eu harferiad o ddarllen yn uchel yn dwyn i'm cof sylwadau a wnaethum yn fynych ar yr arferion Dwyreiniol. Ymddengys nad yw y bobl yn y gwledydd hyny yn deall llyfr heb ei ddarllen yn uchel. Arferant ddarllen allan gyda thôn, fel pe byddent yn hanner canu, gan symud eu penau, a gwneyd ysgogiadau arbenig gyda'r pwyslais. Mae eu dull yn darllen yn fynych yn profi eu bod yn ddifater o ystyr yr hyn a ddarllenant. Ant dros yr attalnodau yn hollol ddisylw, a gorphwysant i gyneryd anadl yn fynych ar ganol ymadrodd. Unwaith cydiais mewn llyfr Seisonig, a dangoswn iddynt y modd y darllenwn i, gan ddarllen yn rhwydd ac yn eglur. Ond chwarddasant am fy mhên, a dywedasant, 'Nid darllen, ond siarad, yr ydych.' Gallaswn innau ddywedyd, Nid darllen, ond canu, yr ydych chwithau. Yr wyf yn awr yn deall yn hawdd y modd y gallasai Phylip glywed pa ran o Esaias yr oedd yr eunuch yn ddarllen, cyn iddo gael ei wahodd i eistedd gydag ef yn y cerbyd. Er mai darllen iddo ei hun yr ydoedd, heb fwriadu cael ei glywed gan ei weision, yr oedd yn ddiâu yn darllen yn ddigon uchel i gael ei glywed gan berson a fuasai gryn bellder oddiwrtho."

## ENWOGION YR OES.

### III.—RICHARD COBDEN.

**A**NWYD Richard Cobden yn Midhurst, Sussex, yn y flwydd- yn 1800; felly mae yn awr yn driugain a thair oed. Ffermwr bychan oedd ei dad. Anfonwyd Richard pan yn bur ieuanc i *warehouse* yn Llundain, a phrofodd ei hunan yno yn fachgen llafurus, dyfal, a chywir. Ymgododd o ris i ris, nes iddo gyrrhaedd gwybodaeth gyflawn o'r holl drafodaeth, ac ennill safle uchel yn ngolwg ei feistriaid. Credai fod teithio gwledydd tramor yn gyfran bwysig o hunanddiwylliant, a llwyddodd i

gysylltu masnach a phleser â'u gilydd, a myned ar daith trwy Unol Daleithiau America yn gyntaf, ac ar daith arall trwy ranau helaeth o gyfandir Ewrop. Llwyddodd Rhagluniaeth ei ymroddiad a'i ddyfeisgarwch, ac ymgynherodd â masnach ei hun, mewn undeb â'r Meistriaid Sherreff a Foster, yn Sir Lancaster. Ennillodd enw yn fuan fel masnachwr, trwy ddwyn allan ffasiynau newyddion o gotwm printiedig. Yr oedd hefyd erbyn hyn yn dechreu tynu sylw fel ysgrifenydd. Gwnaeth ei bampled ar "*England, Ireland, and America*," grŷn gyffro, ac un arall eilwaith ar "*Russia*." Amcan yr olaf oedd symud dychryn Ymerawdwr Rwsia a'i alluoedd oddiar y wlad hon. Yr oedd yn coleddu golygiadau rhydd gyda golwg ar fasnach er yn ieuanc, ac yn y traethodyn olaf, dangosai mai y ffordd i goleddu y teimladau goreu rhwng y wlad hon â Rwsia ydoedd trwy sefydlu masnach helaeth rhwng y ddwy wlad. Cafodd ei syniadau wrthwynebiad cryf; ymgynneuodd yn ymdrech gyffredinol, a therfynodd ymhen blynnydoedd yn niddymiad Deddfau yr Yd. Richard Cobden oedd un o brif wroniaid y symudiad hwn i gael bara rhad i'r miliynau, ac y mae hyn wedi codi ei enw yn anwyl ac yn anfarwol trwy yr holl ynys.

Y tro cyntaf yr ymddangosodd Cobden yn Nhŷ y Cyffredin ydoedd yn 1841, dros fwrdeisdref Stockport. Ni bu yn hir cyn mynu gwrandawriad, ac y mae wedi dal i gael gwrandawriad astud gan y gynnadledd hono hyd y dydd hwn. Dangosodd y *West Riding* ei theimlad da tuag ato, oblegid ei lwyddiant gyda diddymiad treth yr ŷd, fel yr etholodd ef i'w chynnrichioli yn y Senedd. Cyflwynwyd arheg iddo hefyd gan ei gyfeillion politicaidd o fwy na thriugain a deg o filoedd o bunnau (£70,000). Wedi hyn rhoddodd ei fasnach i fyny, a chysegrodd ei hun yn hollol at bynciau gwladychdol. Oblegid ei fod gymaint dros heddwch, ac yn erbyn rhyfel, aeth ef a phobl y *West Riding* yn erbyn eu gilydd; ac yn 1857 ymgeisiodd am gynnrychiolaeth Huddersfield; ond cymaint oedd bryd y bobl dros ryfel, fel y collodd Cobden y dydd yn yr etholiad. Felly cauwyd Cobden am dro allan o Dŷ y Cyffredin. Ond ni fynai fod yn segur. Rhoddodd ei fryd ar ffurfio cyttundeb masnachol rhwng Lloegr a Ffrainc, a llwyddodd yn ei amcan; a gosododd y ddwy wlad dan rwymedigaethau ychwanegol iddo. Etholodd Rochdale ef hefyd i'w chynnrichioli yn y Senedd, a chynnrichioli hono y mae yn awr. Fe allai nad oes un dyn o fewn Senedd Lloegr heddyw wedi gwneyd cymaint dros ei wlad a Richard Cobden.

### MARTIN LUTHER A DUC GEORGE.

**D**R oedd Duc George o Leipzig yn elyn mawr i Luther. Dywedai Luther un diwrnod, "Pe buasai genyf neges yn Leipzig buaswn yn marchogaeth yno, pe buasai yn gwlawio Duc Georgiaid am naw diwrnod yn olynol!" Dyna llyx arswydus a Dduciaid i farchogaeth drwyddynt!



## YR HENWR DALL.

“**H**OLO! gwrandewch!” medd henwr dall,  
 Wrth dŵr o blant gerllaw;  
 “Fydd un o honoch chwï mor fwyn  
 A rhoddi help ei law?”

“R wy 'n hen, ac unig, ac yn dlawd,  
 Heb gyfaill ond fy ffon;  
 Yn ddall, heb allu gweled dim,  
 A dychryn dan fy mron.”

“Cewch help gen’ i,” medd bachgen dewr,  
A redodd ato ef;

“Arweiniaf chwi bob cam a cham  
I’ch llety yn y dref.

“I barchu ’r hen fe ’m dysgwyd i,  
Ar aelwyd gu fy nhad;

Rhowch bwys eich llaw ar f’ ysgwydd’ i,  
I godi ar eich traed.

“Mae helpu ’r tlawd, yr hen, a’r noeth,  
Yn weithred ddoeth a chall;

Waith pwy a wyr o hyn i’m bedd,  
Na welir finnau ’n ddall.”



## HUW HUWS Y GO’ A NINNAU.

NOSON XIII.

**D**ECHREUWYD trwy i Efa adrodd y nawfed a’r degfed gorchymyn.

“Wel, ffryndiau,” meddai y gôf, “dyma y flwyddyn hon bron ar ben; ac hwyrach mai gweddus fyddai i ninnau ddyfod i ben gyda’r gorchymynion hyn trwy gymeryd y ddau olaf o honynt i’n hystyriaeth heno, gan gofio fod amgylchiadau yn galw arnom i fod yn fyr gyda hwynt. A oes gan rywun gwestiwn i’w ofyn?”

“Os gwelwch chwi yn dda,” atebai Wmffre, “mae genyf fi un— Pa beth ydyw tystiolaeth?”

“Yrwan, Dafydd,” ebai y melinydd, “dyma gyfle i dy alluoedd i ddansoddi ddyfod i’r golwg.”

“Wel,” crybwyllai y siopwr, “galluoedd neu beidio, Ifan, mi anturiaf ddyweyd ei fod yn air yn perthyn yn fwyaf arbenig i lys cyfreithiol, lle y bydd y cyhuddiad yn erbyn y carcharor i’w brofi, neu nid ellir gafael yn hwy yn y carcharor. Ond nid pawb sydd yn gwybod fod y cyhuddiad yn deg neu yn annheg, ac am hyny rhaid cael y rhai sydd yn gwybod yno i hysbysu hyny i’r rhai nad ydynt yn gwybod. Felly tystiolaeth ydyw dwyn gwybodaeth bersonol un dyn ger bron deall dyn arall nad wyr ddim am y peth. A wna hyn y tro?”

“Da iawn,” atebai Huw Huws, “mi dybiwn i fod y peth yn eglur a chywir. Ac mae hyn yn dangos fod lle i ddyn ddwyn camdystiolaeth yn erbyn ei gymydog, gan y credir fod ei dystiolaeth yn wir hyd nes y profir mai celwydd ydyw.”

“Ai math o gelwydd ydyw camdystiolaeth?” gofynai Wmffre.

“Math, ’machgen i!” ebai y gôf, “paid ag arfer dy hun i feddwl fod mathau o gelwyddau. Mi wn yn dda fod cryn siarad am gelwydd mawr a chelwydd bychan, celwydd goleu a chelwydd gwyn, a llawer math arall. Gyfeillion! ymaith & syniad fel yna! Celwydd ydyw celwydd, ni waeth wrth bwy nac am bwy y dywedir ef; ni waeth beth fyddo yn peri i chwi ei ddyweyd ef, ie ped arbed-

ai y celwydd eich bywyd, celwydd ydyw, a chelwydd a fydd, wedi y cwbl; a hyn sydd ffaidd gan yr Arglwydd. Ie, celwydd ydyw camdystiolaeth, a chelwydd ar sail llw i ddyweyd y gwirionedd."

"Wel, felly," meddai Ifan Llwyd, "yr hyn a ddywedwyd yn erbyn celwydd a ellir ddyweyd yn erbyn camdystiolaeth, onidê?"

"Ie, Ifan," atebai yr hên ŵr, "ac ni ddywedaf mwy am dano heno."

"Mae'n debyg," sylwai 'nhad, "mai chwennych rhyw fantais a hunanlêd ydyw yr achos o'r holl gamdystiolaethau."

"O, ie, yn siŵr i chwi," ebai Dafydd Thomas, "dyma y cymhell-ydd mawr i bob drygioni—hunanoldeb. Gan gofio, dyma ni wedi cyffwrdd â'r degfed gorchymyn, onidê?"

"Gwir," meddai y gôf, "ac mae fod dyn yn chwennych y peth yma a'r peth arall yn dangos i ni mor gryf ydyw ei serch ato ei human. Y Duw da a'n cadwo ni rhag chwennych peth annuwiol!"

"Pa air arall a roech chwi am 'chwennych?'" gofynai Efa.

"Wel, ewyllysio, neu fod arnoch frys cael y peth," atebai Wmffre; "ac yn wir mi fum yn meddwl deneued ydyw y llên rhwng y chwennychwr a'r lleidr. Un yn blycio y peth, a'r llall yn myned gam byr ymhellach ac yn porthi ei frys, ac yna colli ei gariector a'i daflu yn ngharchar."

"Da iawn yn wir," meddai ein hen ffrynd; "pe gofalem ni rhag chwennych y drwg, ni a gadwem rhag myned i afael y drwg. Ac mae yn eithaf hawdd gwneyd hyny. Dacw fachgen yn chwennych rhyw degan; wel, os nad all ei brynu, dyweded wrtho ei hun, 'Wel, mae y tegan yn costio ceiniog, ac yr wyf ffinau heb ddimai, ac am hyny cadwed y gwerthwr ei degan, ac mi gadwaf ffinau orchymyn fy Nuw.' Ac eled y bachgen ymaith, a meddylid feddyliau gwell."

Dyma y cloc yn dadgan fod amser o hyd yn myned!

"Wel," meddai y gôf, "rhaid terfynu. Dyma ni wedi myned trwy y gorchymynion, a bellach, nid oes genyf ond diolch i chwi o galon bur am eich gwrandawriad boneddigaidd, a'ch hatebion parod."

Ar hyn cynnygiodd Efa, ac eiliodd Wmffre, a thalodd pawb o honom ein diolchgarwch i'n hen gyfaill Huw Huws; ac mae yn dda genym ddyweyd, er i'r gwersi hyn ddarfod, ni dderfydd yn fuan, gobeithiwn, ein cyfeillgarwch â'r hên ŵr. Byddwch wych, bawb!

## WEDI DYSGU YR HOLL DESTAMENT.

☞ E allai y byddai cofnodi y ffaith hon yn foddion i gynyrcu awydd trysori Gair Duw yn eu cof mewn amryw o ddarllen-wyr TRYSORFA Y PLANT. Pedair blynedd yn ol, dysgodd Miss —, geneth fechan, y bennod gyntaf o Efengyl Matthew, ac adroddodd hi yn yr Ysgol Sabbothol, i'w gosod ymysg llafur yr Ysgol. Erbyn hyn mae y bennod olaf o'r Dadguddiad wedi ei gosod i lawr ar lyfr llafur yr ysgol, a'r ferch wedi adrodd o'i chof bob pennod o fewn y Testament Newydd. Bellach, pe collai hi y Testament, neu gollai ei golygon fel nad allai weled, mae y cwbl ganddi yn ddiogel, wedi ei argraffu ar "Iechau y galon."

ATHRAWES.



### JOHN BACH A'R DYN MEDDW.

“**H**OI, hoi! dacw'r hen grydd meddw! Hwrô! de'wch ar ei ol! Hen Nedi'r Crydd wedi meddwi yw e; hwrô!” Felly y gwaeddai tŵr o blant wrth ddyfod allan o'r ysgol, gan redeg ar ol y dyn meddw, taflu eu capiau, a chwerthin am ei ben. Ond yr oedd yn eu mysg un bachgenyn, yr hwn a welir ar ochr aswy y darlun uchod, a thŵr o lyfrau mewn ystrapen yn ei law. John oedd ei enw. Yr oedd ei dad yn ddirwestwr zelog, ac yntau yn un o aelodau y *Band of Hope*. Yr oedd John mor groes i ddiodydd meddwol a neb, ond yr oedd ar yr un pryd yn tosturio wrth y meddwyn, a buasai yn dda ganddo allu ei helpu. Tra yr oedd y bechgyn eraill oll yn gwaeddi ac yn gwawdio, yr oedd ef yn fud. A phan ddechreuodd y plant daflu cêryg a phridd at y meddwyn, erfyniodd John arnynt beidio.

Yr oedd y dyn yn hynod o feddw, ac yn cael gorchest fawr i gadw ar ei draed. Yr oedd erbyn hyn hefyd yn bygwith y plant oedd yn ei erlid a'i watwar. Ond yn ddisymwth tarawodd ei droed yn erbyn rhywbeth, nes oedd ar ei hyd yn y ffos. Tynodd hyn fonllef newydd o floeddiadau oddiwrth y plant. Yr oedd y ffos yn fudr iawn, ac aeth het a wig y dyn meddw ymaith oddiar ei ben. Ceisiai ymuniawni a chodi, ond methai yn lân a gwneyd.

Rhododd John ei lyfrau i lawr, aeth i ymyl y ffos, ac ym-aflodd yn llaw y dyn meddw i'w godi. Wedi hir ymdrech, a'r bechgyn eraill yn sefyll i edrych, llwyddodd i'w godi eilwaith ar ei draed. Glanhâodd John gymaint a allai o'r llaid oddiar ddillad y meddwyn, cyrhaeddodd ei wig a'i het, a rhoddodd ei fraich iddo i'w arwain adref. Nid oedd yn prisio dim am chwerthin a rali y plant oedd yn eu dilyn.



“Mab pwy ydych chiwi, fy machgen i?” gofynai y dyn meddw.

“Mab Dafydd Jones,” atebai'r bachgen.

“Bachgen anwyl ydych! y bachgen goreu yn y plwyf. Chwi gewch bresant gen' i am hyn. O! 'machgen anwyl i!”

“Pe baech chiwi yn dod at fy nhad,” meddai John, “i gael rhoi eich enw yn ddirwestwr.”

“Wel, f'allai deuaſ rywbyrd. 'Dwyf fi ddim yn cydfyn'd yn dda â'r Ddirwest yna. Ond, f'ch chiwi'n gwel'd, taswn i yn ddirwestwr, fuasai'r hen blant drwg yna ddim yn gwaeddi ar fy ol i fel yna. 'Rwyf wedi myned yn rhy hen i'w gadael yn awr. Ond taswn i yn rhoi fy enw i rywun, i'ch tad y rhoiswn ef, er eich mwyn chiwi, John—fy machgen anwyl i.”

Wedi arwain y meddwyn i ddrws ei dŷ, aeth John adref yn llawen, a bendith y meddwyn, druan, ar ei ben. Gallasai neidio dros ben y cloddiau, braidd, gan mor ysgafn a dedwydd oedd ei galon wedi gwneyd cymaint a hyny o wasanaeth i ddyn meddw.

Parhæodd yr hen Edward, druan, i ganmawl John yn ei deulu eilwaith, ac ni fynai glebran am ddim na neb ond efe. Ymhen tridiau, dacw ef yn galw wrth dŷ Dafydd Jones. Curodd, a dywedodd ei fod am weled gŵr y tŷ. Yr oedd pawb yn synu fod y dyn meddwaf oedd yn y plwyf yn galw am weled Dafydd Jones.

“Yr wyf wedi dyfod yma, Mr. Jones,” ebai, “i gymeryd yr ardstiad Dirwestol.”

“Da iawn, Edward Thomas. Yr wyf yn falch i glywed, a go-beithio y cewch gymhorth i gadw eich hardystiad.” Wedi hyny adroddodd yr holl ystori am ymddygiad caredig John bach, ei fab, yn ceryddu y plant am ei wawdio, yn ei helpu i godi o'r ffos, a'i arwain adref.

“Mae John,” meddai, “wedi peri i mi feddwl yn well am dan-och oll nag y meddyliais i erioed o'r blaen. Yr wyf wedi gwneyd




fy meddwl i fyny y byddaf farw yn yr ymdrech cyn y gwnaf fy hun yn destun gwawd i blant y pentref mwy. Trwy gymhorth y Nefoedd, syr, dilynaf eich llwybr chwi a John o hyn i ddiwedd fy nhaith."

Mae wedi dal hyd yn hyn at ei ardystiad, a'i gymeriad a'i deulu wedi cyfnewid yn hollol; a byth ni thawa am ymddygiad John ato pan oedd yn feddw.

Ddarllenwyr ieuainc, onid ydych yn eiddigeddu wrth anrhydedd John? Buasai yn well genym fod yn berchen ar y weithred ardderchog hon o'i eiddo na bod yn feddiannol ar fil o bunnau! Beth yw aur ac arian, a mawredd y byd, i'w cymharu âg achub enaid o ddinystyr ei bechodau! "Gwybydded y bydd i'r hwn a drôdd bechadur oddiwrth gyfeiliorni ei ffordd, gadw enaid rhag anghyngar, a chuddio lliaws o bechodau." Dilynwch chwithau esiampl John. Chwiliwch bob dydd am gyfleusdra i wneyd rhyw wasan-aeth caredig i rywun fydd mewn anghen am dano.

## TRADDODIAD BEDDGELERT.

GAN TALHAIARN.

 'R helfa ar ei fuan farch,  
 Llewelyn ddaeth i'w lÿs,  
 Gan seinio 'i gorn, ac ato daeth .  
 Ei deulu oll ar frys;  
 Pan welodd wêdd ei rian lân,  
 A'i gwênau hawddgar hi;  
 "Pa le mae Gelert?" ebai ef,  
 "Pa le mae 'mhlentyn i?  
 Paham na ddaw y ddaŷ yn awr  
 A chroesaw mawr i mi?"  
 "Mae 'th fab mewn hûn,—a thybiais i  
 Fod Gelert gyda thi."  
 "Gâd i mi wel'd fy anwyl fab,  
 A'i wasgu at fy mron;  
 Fy nhrysor penaf ydyw ef  
 Ar wyneb daear gron."

Ar frys yr aeth i'w 'stafell ef,  
 Ca'dd yno ddychryn mawr;  
 'R oedd cryd ei blentyn wedi ei droi,  
 A gwaed yn rhuddio 'r llawr!  
 "Fy mhlentyn tyner," ebai ef,  
 "Fy mhlentyn anwyl i!  
 Rhyw lofrudd â'i ysgeler law  
 Derfynodd d' einioes di!"  
 A Gelert o ryw dywyll le  
 A gododd ar ei draed,  
 A'i lygaid yn melltenu tân,  
 A'i safn yn goch gan waed :

“Ai ti a wnaeth y weithred hon?  
O elyn tost i mi!”  
A sydyn gyda 'i gleddyf llym,  
Trywanodd ef ei gi.

A! dyna lais o dan y cryd,  
Fel miwsig angel syw;  
Ymgrymu wna y fam a'r tad,  
Mae 'r plentyn eto 'n fyw.  
Wrth droi y dillad gwelant ef  
Yn gwenu yn ei hûn;  
Ac wrth ei ben, yn gelain gorff,  
Mae blaidd o aflan lun.  
Llewelyn dd'wedai yn ei loes,  
“O! Gelert, fyddlawn gi,  
Achubaist ti ei fywyd ef,  
A lleddais innau di!  
Cei faen o farmor ar dy fedd,  
Anrhydedd fydd dy ran”—  
A'r ci wrth lyfu llaw y Llyw,  
Fu farw yn y fan.

## HANES FY HUNAN.

### PENNOD VII.—TROEDIGAETH.

**MAE** genyf drallodau newyddion eto i'w coffa, ag y gallwn ddyweyd llawer am danynt. Un diwrnod pan oeddwn yn taclu rhywbeth yn fy nghaban, dychrynwyd fi yn ddirfawr gan gyffro dyeithr, a thameidiau o ddaear yn disgyn ar fy nghaban; torwyd dau o byst cedyrn fy mwthyn dan grillian, ac yr oedd yr holl graig fel pe buasai yn gruddfan ac yn ymrwygo. Rhedais allan rhag ofn i'r bryn oeddwn yn llechu dan ei gesail syrthio amaf. Wedi i mi redeg ymaith i wastadedd diogel, a sefyll mynyd i ystyried, deallais mai daeargryn ydoedd. Ysgydwodd y ddaear dair gwaith dan fy nhraed mewn ystod oddeutu wyth mynyd, digon nerthol i daslu unrhyw adeilad i lawr. Syrthiodd clogwyn o graig oedd ryw hanner milldir oddiwrthyf i lawr gyda thwrf na chlywais ei gyffelyb erioed yn fy mywyd. Gwelwn fod y môr drwyddo hefyd wedi cynhyrfu, a thybiwn i fod yr ysgydwad yn fwy dan y dwfr nag yn yr ynys.

Nis gallaf byth ddyweyd cymaint oedd fy nychryn yn yr amgylchiad hwn. Ac heblaw y dychryn, yr oedd ysgogiadau y ddaear wedi cynnyrchu cyfogiad yn fy nghylla, a fy ngwneyd mor sâl a phe buaswn dan glefyd y môr. Ofwn hefyd weled y bryn yn syrthio ar fy nghaban, ac yn fy amddifadu yn llwyr o'r cwbl a feddwn. Yr oeddwn yn gobeithio, ar ol y trydydd ysgydwad, fod y cwbl drosodd, ond yn methu yn lân a chasglu digon o wroldeb i ddringo i mewn i'r caban. Eisteddwn ar y ddaear mewn dychryn

a phrudd fyfyrdod. Nid oeddwn wedi dysgu dim crefydd eto yn fy holl drallodion. Dim ond rhyw ocheneidiau cyffredin mewn peryglon, "Arglwydd, trugarhâ wrthyf," neu y cyffelyb.

Dilynwyd y ddaeargryn gan wynt nerthol, a'r gwynt eilwaith gan wlaw trwm, yr hwn a barhiodd am ddiwrnod a noswaith. Pan ddechreuais wlychu yn y gwlaw, penderfynais anturio i'r caban; a bu dda fy mod yno yn gwneyd ffordd i'r pistylloedd dwfr a redai i mewn, i fyned allan, onidê buasai yr holl le wedi boddi. Yn raddol ciliodd fy nychryn, ond yr oedd fy meddwl yn dal yn isel. Cymerais lasiad o *rum* er mwyn codi tipyn ar fy ysbryd, ond nid oeddwn am afradu hwnw, rhag y delai mwy o anghen am dano. Dechreuais yn fuan feddwl am symud fy nghaban eto o ymyl y graig i ganol gwastadedd. Oblegid os oedd yr ynys yn agored iawn i ddaeargryn, meddyliwn y buasai hyny yn fwy diogel. Penderfynais wneyd hyny unwaith, ond gwelais hyny yn ormod o drafferth, a gadewais ef yn llonydd.

Treuliais ddau fis llawn ar ol hyn i geisio tori darnau o long oedd wedi ei chwythu yn ddrylliau ar lanau yr ynys, a chasglu amryw nwyddau allwn gael o'i gwaelod. Yr oedd wedi ei thafu i fan, ac mewn ffurf hynod, a phenderfynais mai y ddaeargryn fu yn ddinystr iddi. Yr oeddwn yn gallu myned hyd ati pan fyddai y llanw allan, a llwyddais i gael lliaws o bethau o'i llwyth, heblaw llawer o goed y llestr ei hun.

Onid cyn fy mod wedi gorphen fy mwriad gyda'r hen *wreck* hon, tua chanol mis Mehefin, yr wyf yn cofio yn bur dda, cadwyd fi un diwrnod yn fy nghaban gan y gwlaw. Teimlwn iasau oer (*chill*) yn codi drosof, ac anhwylder yn fy nghymeryd. Ni chefais fynyd o orphwys trwy y nos; daeth poenau dirfawr i'm pen, a theimlwn fod twymyn yn fy nghymeryd. Yr oeddwn yn llawer gwaeth drannoeth, ac yn dychrynu wrth fy nghyflwr unig a diymgeledd. Treiais weddio am y waith gyntaf wedi y llongdrylliad ar fy ffordd i Llundain—os iawn ei alw yn weddio. Bûm yn gorwedd am wythnos heb fwyta dim, a'r dwfr wedi darfod, a minnau yn analluog i fyned i gyrchu dim. Llawer gwaith y dywedais gyda dagrau, "Arglwydd, edrych arnaf!" "Arglwydd, tosturia wrthyf!" "Arglwydd, cymer drugaredd arnaf!" Llwyddais o'r diwedd i ymgripio allan am lestraid o ddwfr; ac O! y fath drugaredd oedd cael dracht o ddwfr oer, pan oeddwn wedi hanner trengu o syched!

Y noswaith ganlynol yr oeddwn ychydig yn well; cysgais yn drwm, a chefais y breuddwyd canlynol:—Gwelwn fy hunan yn eistedd ar y ddaear, yn y fan yr eisteddwn tra yr oedd yr ystorm yn chwythu ar ol y ddaeargryn; disgynodd dyn allan o gwmwl mawr du, mewn fflam ddysglaer o dân, a safodd yn fy ymyl. Yr oedd mor ddysglaer a'r fflam, ac nis gallaswn ond edrych tuag ato. Yr oedd ei wedd yn ofnadwy, tu hwnt i bob disgrifiad. Pan ddisgynodd, parodd cyffyrddiad ei draed i'r ddaear grynu, ac ymddangosai yr holl awyr yn llawn o fflamau tân. Nesiodd ymlaen ataf, a phicell fawr yn ei law i'm lladd. Cyn fy nharo, dywedodd wrthyf mewn llais clir ac uchel—y llais mwyaf brawychus a daraw-

odd ar fy nghlust erioed—"Gan nad yw yr holl bethau hyn wedi peri i ti edifarhâu, yn awr rhaid i ti farw!" A chyda'r gair, yr oedd yn codi y bicell i fy nharo.

Nid oes neb a ddarllena yr hanes hwn yn dysgwyl i mi allu desgrifio brawychdod fy enaid wrth y weledigaeth arswydus. Ac wedi i mi ddeffro a deall mai breuddwyd oedd, nid oedd fy nychryn nemawr llai. Nid oedd genyf, druan o honof, nemawr o wybodaeth grefyddol. Yr oedd yr hyn a ddysgais gan fy nhad yn awr wedi ei dreulio allan gan wyth mlynedd o fywyd drygionus, ymysg y cwmpeini mwyaf drygionus y gallasai dyn daro wrthynt. Nid wyf yn cofio i mi fod yn feddiannol ar gymaint ag un meddwl oedd yn tueddu i edrych i fyny at Dduw, neu i edrych i mewn i fy mynwes i ystyried fy ffyrdd fy hunan. Nid oedd ynof unrhyw ewyllys at dda, na chydwybod o ddrwg; dim ofn Duw mewn perygl, na diolchgarwch iddo mewn gwaredigaeth. Mae yn syn i'w ddyweyd na ddaeth i fy nghalon unwaith fod llaw Duw, er fy nghosbi am fy nghyndynrwydd, yn yr holl bethau chwerwon a ddygwyd arnaf. Yr oeddwn wedi myned trwy yr oll mor anystyriol a didduw a'r anifail a ddyfethir. Yr amgylchiad a wnaeth fwyaf o gyffro yn y cyfeiriad hwn yn fy meddwl ydoedd tyfiad yr ŷd hwnw yn ymyl fy nghaban, fel y dywedais o'r blaen; ond pan ddeallais nad oedd dim gwyrthiol yn hyny, gwisgodd yr argraff ymaith yn fuan. Dychrynwyd fi yn ddirfawr gan y ddaeargryn, ond fel yr aeth y dychryn ymaith, aeth yr argraff ymaith hefyd oddiar fy meddwl.

Ond, yn awr, pan ymwelwyd â mi â chystudd, pan ddechreuais suddo dan bwysau y dwymyn, a phan ddechreuodd y pethau hyn agor dychrynfeydd anghu, mewn cyflwr fel yr eiddof fi, o'm blaen, deffrôdd y gydwybod o'i chwsg hirfaith, a dechreuais innau gondeinio fy hunan am y dull ynfyd yr oeddwn wedi gwneyd. Daeth trallod fy meddwl yn llawer trymach na chlefyd fy nghorff; ac yr wyf yn cofio i mi dori allan i wylo yn chwerwder fy enaid ganol un noswaith,—“O Arglwydd! y fath adyn truenus ydwyf! Rhaid i mi farw fan yma, heb neb i estyn llaw o gynnorthwy i mi! ac, O Arglwydd, beth ddaw o honof!” Cofiais hefyd eiriau fy nhad. “Dyma eiriau fy nhad,” meddwn, “o'r diwedd wedi eu gwirio; mae cyfiawnder Duw wedi fy nal, ac nid oes genyf neb i'm gwrando na'm cynnorthwyo. Mynais fy ffordd fy hun, er gwaethaf cynghorion rhieni, ac awgrymiadau Rhagluniaeth, ac yn awr yr wyf yn cael medi o'r ffrwyth.” Yna gwaeddwn eilwaith,—“Arglwydd, bydd yn gymhorth i mi, yr wyf mewn trallod dirfawr!” Yr wyf yn meddwl mai dyma y tro cyntaf y gwnaethum ddim tebyg i weddio erioed.

Drannoeth yr oeddwn ychydig yn well, ac yn teimlo peth archwaeth at fwyd. Rhoddais ddau neu dri o wyaiau morgrwbau (*turtle*) yn y lludw i rostio, a chyn bwyta y rhei'ny y ceisiais fendith ar fy mwyd y waith gyntaf erioed. Yr oedd yn ddiwrnod go deg, a cherddais allan yn araf i'r gwastadedd oedd o flaen fy nghaban. Wrth eistedd fan hono, yr oedd fy myfyrdodau yn

wahanol i ddim a brofais o'r blaen. Y maent yn fy nghof yn awr mor *fresh* a'r awr hono:—Beth yw y ddaear a'r môr yma, wyf wedi gwelod cymaint arnynt? O ba le y daethant? Beth ydwyf fi, a phob creadur arall, gwyllt a dof, rhesymol a direswm! O ba le y daethom? Rhaid i ni gael ein gwneyd gan ryw allu dirgel, yr hwn a wnaeth y tir a'r môr, yr awyr a'r nefoedd; a phwy yw hwnw ond Duw? Ac os mai Duw a'u gwnaeth, rhaid ei fod yn eu cynnal ac yn eu llywodraethu; felly nis gall dim ddygwydd heb yn wybod iddo. Ac os yw yn gwybod pob peth, y mae yn gwybod fy mod i yma, ac yn gwybod fy nghyflwr gresynus. Ac os mai efe sydd yn trefnu pob peth, rhaid mai efe sydd wedi trefnu i'r pethau hyn oll fy ngoddiweddyd i.

Dygodd y syniadau hyn rwnachrwydd i fy meddwl, a dechreuais ofyn, Paham y gwnei Duw felly â mi? Beth oeddwn wedi wneyd i'w haeddu? Ond rhoddodd fy nghydwybod daw buan arnaf. Dywedai fy mod yn cablu, a thybiwn fy mod yn clywed ei llais yn dywedyd, "Yr adyn! ai gofyn ydwyf beth a wnaethost? Edrych yn ôl ar dy fywyd ofer ac anystyriol! Edrych ar yr holl waredigaethau a gefaist, a thithau heb gymaint a diolch erioed i Dduw am dan-ynt!" Gwnaeth fi yn fud yn y fan. Codais, ac ymlusgais yn brudd ac egwan yn ôl i fy nghaban. Yr oedd yn awr yn hwyrhâu, a'r dydd yn darfod, ond nid oedd cwsg yn agos ataf. Eisteddais yn y cornel, a goleuais fy lamp. Yr oeddwn yn cael ffitiau o gryd blin, yn ganlyniad i'r dwymyn yr oeddwn wedi gael, a theimlwn fod un o'r ffitiau hyn yn awr yn dynesu. Daeth i'm cof mai unig gyfferi y Braziliaid at bob math o anhwylderau ydoedd tybaco. Yr oedd genyf rol o dybaco yn un o'r coffrau, ac aethum i chwilio am dani. Yr wyf yn credu hyd y dydd hwn fod gan y Nefoedd law arbenig yn y syniad hwn. Oblegid wrth chwilio am y tybaco, tarewais wrth y Biblau oeddwn wedi ddwyn gyda mi o'r llong, y rhai oeddynt wedi eu gadael heb byth gymaint a'u hagog. Daethum â'r Bibl a'r rhol dybaco i'r ford. Treiais amryw lwybrau gyda'r tybaco. Wedi ffaelu gwneyd nemawr o hono wrth ei gnoi, rhoddais amryw ddail o hono mewn cwpanaid o *rum*; wedi ei adael yno am awr neu ddwy, yfais ef yn ddracht. Llosgais beth hefyd, a deliais fy ffroenau uwch ben y mwg, nes oeddwn wedi hanner fyg. Rhwng yr adegau y bum yn gwneyd hyn, agorais y Bibl. Y man yr agorodd ydoedd yn Llyfr y Psalmau; a'r adnod gyntaf y disgynodd fy llygaid arni ydoedd, "Galw arnaf fi yn nydd trallod, a mi a'th waredaf, a thi a'm gogoneddi." Gwnaeth yr adnod gryn argraff ar fy meddwl, er nad oeddwn yn credu fod fy ngwaredigaeth yn bosibl. Ond tra yr oeddwn yn myfyrio ar yr adnod, dygodd effaith y tybaco gwsg arnaf. Gadewais y lamp yn oleu ar y ford, rhag y byddai eisieu rhywbeth arnaf yn y nos. A chyn myned i fy ngwely, gwnes beth na wnes erioed o'r blaen—aethum ar fy ngliniau a gweddiais, gan adgoffa yr adnod uchod ger bron yr Arglwydd. Y peth diweddaf a wnaethum cyn gorwedd oedd yfed y dracht *rum* a'r tybaco. Cododd i fy mhen, ac yr oeddwn yn fuan wedi cysgu. Ni ddihunais nes oedd tua thri o'r gloch drannoeth, os nad tri o'r

gloch yr ail ddydd. Collais ddiwrnod yn fy nghyfrif, ac nis gwn sut y dygwyddodd hyny, os na chysgais ddau ddiwrnod y tro hwn. Beth bynag, pan ddeffrôais, yr oeddwn yn llawer gwell, a fy ysbryd yn llawer mwy siriol. Gwnaethum ychwaneg o ddefnydd o'r tybaco, a chefais waredigaeth hollol o'r cryd, ac yn raddol adferodd fy iechyd a'm nerth.

Parhâodd yr adnod a nodwyd i wneyd gwaith dyeithr yn fy meddwl. Gwelwn fy mod wedi fy ngwaredu ganddo unwaith ac eilwaith, ond nad oeddwn i erioed wedi ei ogoneddu, na chymaint a diolch iddo am ei ddaioni. Unwaith syrthiais ar fy ngliniau, a diolchais iddo mewn llais uchel am fy adferu o fy nghystudd. Ar y 4ydd dydd o Orphenaf, yn ol fy nghyfrif i, dechreuais ddarllen y Testament Newydd, a darllenwn gyfran o hono bob nos a bore. Gwnaeth argraff ddwys iawn ar fy nghalon, a dygodd y geiriau a glywais yn fy mreuddwyd, "a'r holl bethau hyn heb beri i ti edifarhâu," i fy meddwl yn fwy dwys nag erioed. Un diwrnod, pan yn dymuno ar Dduw fy nwyn i edifeirwch, yn rhagluniaethol iawn daeth yr adnod hono yn fy llwybr wrth ddarllen,—“Hwn a ddyrchafodd Duw â'i ddeheulaw, yn Dywysog ac yn Iachawdwr, i roddi edifeirwch a maddeuant pechodau.” Testais y llyfr i lawr, a chyda llais a dwylaw dyrchafedig, gwaeddais mewn teimlad gorfoleddus, “Iesu, Fab Dafydd, y Tywysog a'r Iachawdwr dyrchafedig, dyro edifeirwch i mi.” Dyma y tro cyntaf y gweddiais gyda theimlad priodol o fy nghyflwr, a chyda gobaith Ysgrythyrol wedi ei seilio ar air Duw. Dyma y pryd y dechreuais ddeall gwir ystyr yr adnod, “Galw arnaf fi, a mi a'th waredaf.” Fy ngwared i o fy unigrwydd ar yr ynys anghysbell oeddwn i yn feddwl o'r blaen. Yr oeddwn, mae'n wir, yn garcharor yn yr ystyr yma; ond yr oeddwn mewn caethiwed mil mwy gan fy mhechod. Y cwbl oeddwn yn geisio ydoedd fy ngwaredu oddiwrth euogrwydd y bywyd oeddwn wedi ei dreulio. Nid oeddwn gymaint a meddwl am fy sefyllfa o unigrwydd; yr oeddwn yn foddllawn i bob peth ond cael fy ngwared oddiwrth fy mhechodau. Carwn ddyweyd wrth bwy bynag a ddarlleno hwn, pa bryd bynag y dont i welod pethau yn iawn, y cânt ffeindio y bydd gwaredigaeth oddiwrth bechod yn annhraethol fwy gwerthfawr na gwaredigaeth o unrhyw drallodau.

(I'w barhâu.)

MAE'R LILI FACH WEN.

TON,—“*The Campbells are coming.*”



AE'r lili fach wên—mae'r lili fach wên,  
Yn caru y gwllithyn sy'n goron i'w phen;  
Y perlyn grisialaid a'i thlynsi'n gyttân,  
Lefarant yn groew ddirwestiaeth a rhîn;

Mor hoenus ei grudd—mor deced ei gwawr,  
Wrth ddrachtio diod y nefoedd fawr.  
Wel, ninnau nid yfwn tra fyddom ni byw,  
Un dafn ond y ddioid a roddwyd gan Dduw.

Mae 'r lili fach wên—mae 'r lili fach wên,  
Yn siarad sirioldeb dan wên haul y nen,  
A llwytho adenydd yr awel wna hon,  
A' pheraidd aroglau adlonant y fron;  
Siriolach yw gwawr y blodau hoff sydd,  
Ar'fronau Dirwest yn tyfu 'n rhydd,—  
Pereiddiach aroglau wasgerir bob pryd,  
Gan awel y nefoedd, yn gysur i'r byd.

*Rhymney.*

IRLWIN.



### LLYFRAU NEWYDDION.

[**DAMMEG Y MAB AFRADLON**, yn ei *chymhwysiad at ddyn*, yn ei *gyflwr cyntefig o burdeb a dedwyddwch*, yn ei *gyflwr syrthiedig o bechod a thrueni*, a'i *gyflwr adferedig o ras a gogoniant*; ynghyd a *Rhagdraeth awd ar Ddammegion yr Arglwydd Iesu yn gyffredinol*. *Mewn cyfres o Ddarlithiau gan yr Henuriad WILLIAM ROWLANDS, Golygydd gwreiddiol y "Cyfaill o'r Hen Wlad."*]


**G**YFROL wythplyg werthfawr, ac wedi ei rhwymo yn hardd, yw hon, yn cynnwys 366 o du dalenau, gan un o'r gweinidogion enwocaf a fêdd y Methodistiaid yn America. Bydd yn dda gan filoedd o'i gydwladwyr a'i gydnabod weled y darlun tarawiadol o hono sydd ar ddechreu y llyfr. Cynnwysa y gyfrol XVII o bregethau neu ddarlithiau; y gyntaf, yn un hynod bwrpasol ar Ddammegion Crist yn gyffredinol, a'r lleill ar ddammeg gynnwysfawr a digyffelyb y Mab Afradlon. Mae yn dda genym gael y cyfleusdra i alw sylw y darlennydd Cristionogol at y llyfr hwn. O ran ei nodwedd, saif yn yr un dosbarth ag "Arfogaeth y Cristion" gan Gurnall, a "Phedwar Cyflwr Dyn" gan Boston, a'r cyffelyb. Ac yr ydym yn dra sicr y caiff ei ddarllen gyda blas ac adeiladaeth gan filoedd o Gymry wedi i'r awdwr parchedig fyned adref at ei Arglwydd. Nis gwyddom beth yw pris y gyfrol; mae yn debyg ei bod i'w chael gan y cyhoeddwyr Cymreig yn gyffredin.

[**DEDWYDDWCH TEULUAIDD**, neu yr *Aelwyd yn Gartref*. *Testyn buddugol Eisteddfod Bethesda*. Gan R. LLYSTYN JONES. Bangor: J. D. Jones.]

**H**AMPHLED bychan ydyw hwn, ond teilwng o ddarlleniad ar holl aelwydydd Cymru. Er nad yw ei awgrymiadau ond byr, y maent ar y prif bethau ag y mae eisieu diwygiad arnynt, a byddai yn dda i rieni plant dalu y sylw difrifolaf iddynt.

## CAN Y FAM WRTH FAGU EI MABAN.

*(Cyfnewidig i Mr. a Mrs. JOHN JONES, Shop, Llandderfel.)*AIR SOLO.—*Annie Laurie.*


 U hwi! fy maban hawddgar!  
 Mor brydferth ydwyt ti!  
 'Does neb ar wyneb daear,  
 Mor anwyl genyf fi;  
 A'th siriol ruddiau di,  
 Pan drwy dy gwsag yn gwenu,  
 Sy 'n boddio nghalon i.

Fe hoffa 'r bardd y lili,  
 A'r cerddor fwsig cain;  
 Ond hoffach i mi 'mabi  
 Na mil a mwy o'r rhain;  
 Hawddgarach ydwyt ti,  
 Mae miwsig mil hyfrytach  
 Yn dy wylofain di.


Su hwi! gwir ddelw *dada*,  
 Ond llawer tlysach wyd,  
 A chalon dy fam sydd genyt,  
 Ond nid ei gwyneb llwyd;  
 Mae pob prydfferthwch ffri  
 Yn hagrwech o'i gymharu  
 A'th siriol wyneb di.

O boed i'r Nefoedd dirion  
 Dy fwyn amddiffyn di,  
 Fel na chaffo 'th dyner galon  
 Byth deimlo pruddaidd gri;  
 Ond ei bendithion hi  
 A wlawiont yn gawodydd  
 Ar ben fy maban i.

A rhodded i ti grefydd  
 I'th ddwyn i ofni Duw,  
 A gras yn dy galon beunydd,  
 I'th ddysgu iddo i fyw:  
 Rho 'th fywyd iddo Ef;  
 Ac yna cawn yn ddedwydd  
 Gyfarfod yn y nef.

GLAN WNION.

## "A WNEWCH CHWI EI DALU YN OL?"


 A faint y mae yr eneth fechan yn ei gostio," ebai mam un-  
 waith, fel yr oeddwn i a hithau yn pasio 'plentyn bychar  
 oedd yn sefyll yn ymyl canllaw haiarn, gan edrych yr  
 awyddus ar ryw fechgyn oedd yn chwareu *marbles* gerllaw



“Costio,” meddwn innau; “beth, ei hesgidiau, ei hosanau, ei gwisg fraith, a’i rhibanau *pinic*, ei het, a’r plu gwychion, ei —?” “Dyna ydyw ei phris isaf,” atebai y fam; “nid oeddwn yn golygu hyna; eithr pa faint o boen, a gofid, y mae hi yn ei gostio—pa faint o lafur a gofal—pa faint o bryder mam, a thrafferth tad—gymaint o weddïau, gymaint o ddagrau, gymaint o ofnau, a chynghorion—pa faint o amynedd, ac addysg—pa faint o arweiniad—pa faint o gariad, a digllonedd hefyd—gymaint o athrawon, gymaint o bregethau, gymaint o Sabbothau; costiodd hefyd i Waredwr farw drosti.” Ah! gymaint ydyw gwerth plentyn bychan. A ellwch chwi byth ei dalu yn ôl, fy un fechan?

Cyf. GOLEUFRYN.

*Porthmadog.*



## DYDDANION.

### TRYSORI YN Y NEF.

“**P**AM na ddywedwch chwi wrth eich Massa, Sam, am drysori iddo ei hun drysor yn y nef?” ebai dyn unwaith wrth Negro go ffraeth. “I ba beth?” atebai’r Negro; “beth fyddai well o drysori trysor yno, lle na chaiff ei gwel’ d e byth wedi’n?”

### ATEBIAD ANNYSGWYLLADWY.

**R** oedd offeiriad Ysgotaidd unwaith yn holi plant ei blwyf yn ngwydd yr holl gynnulleidfa. Pan ofynodd y cwestiwn cyntaf arferol i eneth o ymddangosiad tew a hurt, “Beth yw eich enw?” ni roddwyd unrhyw atebiad. Gofynodd yr un cwestiwn eilwaith, pan atebodd y ferch mewn tipyn o gyffro, “Dim o’ch digrifwch, syr; yr ydych yn gwybod fy enw yn ddigon da. On’ d ydych yn dyweyd wrthyf yn wastad pan dde’wch i’n tŷ ni yn y nos, ‘Bet, tyr’ d â dracht o gwrw i mi!’” Torodd y gynnulleidfa i chwerthin, ac edrychai yr offeiriad yn ddu.

### CERYDD PLENTYN.

**B**ACHGEN bach, un diwrnod, wrth weled ei chwaer wedi myned i dymher ddrwg, a ddywedodd wrthi,—“Mary, edrychwch ar yr haul, fe ä 1 lawr yn fuan; bydd yn fuan wedi myned o’r golwg; mae yn myned, Mary—dacw ef wedi myned! Mary, ‘na fachluded yr haul ar eich digofaint chwi.’”

# TRYSORFA Y PLANT:

CYHOEDDIAD MISOL I IEUENCYD,

GAN

GYFUNDEB Y METHODISTLAID CALFINAIDD.

Y DRYDEDD GYFROL.

1864.

TREFFYNNON:  
CYHOEDDWDYD (DROS Y CYFUNDEB) GAN P. M. EVANS.

MDCCLXIV.



## RHAGYMDRODD.

---

ARWIL DDARLLENWYB,—

Mae yn llon genym eich hysbysu ar ben teirblwydd y DREYSORFA fach, ei bod wedi dal i gynnyddu yn ei chylchrediad o'r dechreu. Y mae PEDAIR MIL AR BYMTHEG o honi yn awr yn gwerthu bob mis. Ac yr ydym yn dra diolchgar i'n derbynwyr am eu cefnogaeth, ac i'n dosbarthwyr am eu llafur a'u ffyddlondeb. Ac wrth ddiolch am eu cydweithrediad egniol am y tair blynedd a basiodd, yr ydym yn taer erfyn am barhâd eu ffyddlondeb eto am y flwyddyn ddyfodol. Gwnawn ein goreu i wneyd y misolyn rhadlawn yn fwy teilwng eto o gefnogaeth a ffyddlondeb y derbyniwr a'r dosbarthwr. A chyda dymuniad diffuant am eich llwyddiant tymmorol ac ysbrydol, a gweddi am i'n llafur gyda THREYSORFA Y PLANT fod o ryw wasanaeth i deyrnas ein Harglwydd Iesu Grist, y gorphwysa,

Yr eiddoch yn gywir,

Y GOLYGYDD A'R CYHOEDDWR.

TREFORIS,

Rhagfyr, 1864



# CYNNWYSIAD.

	Tu dal.
<b>RHYDDIARTH.</b>	
Aderyn y tŷ ... ..	190
Adnabod ein gilydd yn y nef- oedd ... ..	19
Aelodau ydym i'n gilydd ...	312
Anrheg y Negröaid i Lincoln	827
A wnewch chwî addaw i'r Ar- gliwydd ... ..	24
Bachgenyn caredig ... ..	291
Balchder dillad... ..	257
Beechar ar fedydd plant ...	279
Beth all un pryfyn penddu wneyd	13
Beth am y plant ... ..	1
Beth yw croes ... ..	87
Blodau gan Iesu Grist... ..	86
Blwyddyn nodedig 1866... ..	328
Brasiunia... ..	31, 85
Bywyd pregethwr ... ..	257
Caiff Iesu Grist dretal arno ...	163
Charles I. ... ..	302
Ci <i>Terrier</i> ... ..	823
Cofiwch yr adar ... ..	74
Coffadwriaeth y Parch. W. Ro- berts ... ..	230
Coleg athrawol Bangor ... ..	98
Colomen... ..	222
Craig y fam ... ..	137
Crancoed y tir ar eu taith ...	266
Cwmp y Niagara — Araeth Ddirwestol ... ..	128
Cyfarfod blynyddoly Bibl Gym- deithas ... ..	192
Cyfrif ac oedran y bobî ... ..	27
Cynghor i forwyn ar ei hymad- awiad ... ..	322

	Tu dal.
Dadl y bechgyn ... ..	76
Dadl y dynion ... ..	218
'Dalla' i ddim dyweyd celwydd	233
Dammeg y barcutan papyr ...	306
Dechreuad bychan ... ..	290
Dimai pwy oedd hono ... ..	111
Dirgelwch llwyddiant y pulpud	314
Dosbarth y Biblau... 109, 151, 208, 277,	800
Duw yn darparu i'r tlawd ...	288
<b>DYDDANION—</b>	
Y drws yn chwilio am yr allwedd ... ..	28
Y chwechlymysg y ceiniogau	28
Sectariaeth rhyfeddol ... ..	28
Cydwybod plentyn ... ..	56
Eisteddfod fach y plant ...	56
All hi wau ... ..	56
Beth yw mellt ... ..	84
Pocedi yn y gynau gwynion	84
Coleridge pan yn blentyn ...	84
Llyncu twll ... ..	112
Atebiad gwreiddiol ... ..	112
Scotyn a Sotyn... ..	112
Candi ... ..	140
Allan o'r Aipht... ..	140
Cymeriad Pedr ... ..	140
Ffordd ma' myn'd i'r nefoedd	168
Y peiriant gwnïo ... ..	168
Q a Cheiliog ... ..	168
Ystori hynod ... ..	168
Y ddylluan a'r eryr ... ..	196
Meddyginaeth i lygaid gwan	196
Atebiad byr ... ..	196
Dialedd echryslawn ... ..	196
Pwmpo miwsig... ..	224
Y goron a'r geiniog ... ..	224
Gwerthu cwrw yn y lleuad	224

	Tu dal.			Tu dal.
Gwahaniaeth mawr ... ..	252		Pen. XV. Y diwedd ... ..	210
Achos tywyllwch .. ..	252		Hen Wmffre ... ..	122, 185
Cant ac un o fendithion ...	252		Hippopotamus ... ..	286
Cerydd yn anhyfryd ... ..	280		Holiadau i blant ... ..	249
Dal y sêr ... ..	280		Hugh bach ... ..	66, 119
Y corff yn fwy na'r dillad ...	280		Humphreys o'r Dyffryn a'r Sab-	
Eisien nain yn ôl ... ..	280		bath ... ..	312
Y rhiif liosog ... ..	308		Huw Huws y Go' yn yr Ysgol	
Tasg llythyrenol ... ..	308		Sul ... ..	267, 294
Lliwio'r <i>pinafore</i> ... ..	308			
Dr. South a'r cysgaduriaid	308		Iesu Grist a'r diafol ... ..	154
Tymher dda ... ..	328		John Bach a'i fwyall ... ..	34
Saethu y lleuad ... ..	328		I roddi goleuni, ac i achub byw-	
Uffern cacwn ... ..	328		ydau ... ..	113
Dyfais i achub y gerbydres...	52			
Dyfinder y pwll ... ..	270		Llef o'r wybren ... ..	9
Dynes wedi meddwi ... ..	165		Lle mae ewyllys mae gallu ...	250
			LLYFRAU NEWYDDION—	
Edward a'i gydysgoleigion ...	271		Bywgraffiad Richards, Aber-	
Ein Harlunwyr Ieuainc 106,			gwaen ... ..	20
	135, 278		Dim amser i'w golli ... ..	21
Elizabeth Williams, Colwyn ..	81		<i>Jesus mighty to save...</i> ...	75
Ennill yr ystad yn ôl ... ..	292		Gwnewch y goreu o hono ...	76
ENWOGION YR OES—			Traethodau, &c., gan J. Tho-	
IV. Y Frenines Victoria ...	80		mas ... ..	76
V. W. E. Gladstone ... ..	150		<i>The Treasury</i> ... ..	96
VI. Louis Napoleon ... ..	178		Esboniwr y Dadguddiad... ..	96
Erlidiwr y gasog wen ... ..	288		Duwinyddiaeth i blant ... ..	97
Erthygl y meibion a'r merched	201		Pregeth angladdol W. Morris	97
			Holwyddoreg ar genedl Israel	97
			Cathlau Byron ... ..	135
Fy nhaid ... ..	48		Cofiant D. Rolant, Bala ...	135
			Traethodau ac areithiau Der-	
Ffarwel, mam fach ... ..	14		fel ... ..	161
Frederic o Prwssia a'i was ...	37		Y pregethwr ... ..	161
			Yr Athraw a'r Ymwelydd ..	161
Gair o gyngor i fechgyn ...	125		Marwnad Morris Hughes	161
George Bruce Williams ... ..	44		Mynyddau Segur, Derfel ...	194
Goleuni nefol ... ..	247		Gweithrediadau Cymanza	
Gweddian mam... ..	168		Abertawy ... ..	21
Gweddian y Bibl ... ..	259, 301		Llawlyfr sillebiaeth ... ..	21
Gweddnewidiad Crist ... ..	271		Nodwedd yr Iesu ... ..	21
Gwell genyf weithio yn gyntaf,			Athrawiaeth a Dyledswydd	21
ma'm ... ..	83		Y llyfr cyntaf i ddysgu dar-	
Gwneyd darluniau ... ..	69		llen ... ..	29
Gwobr y plentyn ... ..	22		Y Symbylydd ... ..	29
			Gweddian Teuluaidd ... ..	29
HANES FY HUNAN—			Llythyr at blant y <i>Band of</i>	
Pen. VIII. Ychwaneg o ddy-			<i>Hope</i> ... ..	16
feisiau... ..	15		Llythyr Luther at John bach,	
Pen. IX. Dau gwch newydd	45		ei fab ... ..	14
Pen. X. Ol troed dyn ... ..	71		Llythyr merch at ei thad ...	30
Pen. XI. Fy ngwas Friday... ..	99			
Pen. XII. Brwydr a'r Bar-			Mam y Cythraul ... ..	24
bariaid ... ..	128		Marwolaeth y milwr ... ..	32
Pen. XIII. Y llong Brydeinig	155			
Pen. XIV. Fy ngwaredigaeth	182			

	Tu dal.		Tu dal.
Meddyginiaeth rhag ysbryd		Y bradychwyr...	231
isel ... ..	105	Y breuddwyd a'r ffair ... ..	239
Muriau a darluniau ... ..	255	Y cadben a'i blentyn ... ..	181
Nelly a Nancy, neu blant y		Y cadno ... ..	118
meddwyn ... ..	225	Y carw ... ..	318
Nerth un gair ... ..	170	Y celliog ... ..	147
Nid wrthym ni y mae'n siarad	29	Y ci ... ..	162
Ni ragori di ... ..	10	Y Cwestiynau Gwobrwyedig	
Nythod adar ... ..	136	12, 41, 68, 89, 118, 153,	
Oes plant gan y pregethwr yna,		177, 221, 242, 254, 285,	314
'nhad ... ..	142	Y deg cyfaill ... ..	265
O Poli! Poli!	247	Y ddau ddarlun ... ..	216
O'r nef mae'n dod ... ..	281	Y ddylluan ... ..	258
Oe na laddeuwch, 'dalla' i ddim		Y fath Waredwr ... ..	253
dygu ... ..	3	Y ffair heb y breuddwyd ...	307
O wylh i un ar bymtheg ...	169	Y ffordd i adferu dynion wedi	
Paul a Silas yn y carchar ...	314	boddi ... ..	52
Pen Ioan Fedyddiwr ... ..	182	Y ffordd i gasglu llawer ...	308
Peter Cartwright a'r cychwr ...	39	Y ffordd i gyfansoddi ... ..	172
Punch o Snuff ... ..	326	Y gwylwyr ... ..	234
Pob tipyn yn help ... ..	278	Y llaw arall i minnau, mam ...	93
Pregethwr neu ysgubellwr ...	55	Y lle diogel f'ch plant ... ..	322
Pwy bynag a ddél ... ..	197	Y llinyn wedi tori ... ..	21
Rab a'i gyfeillion... 174, 202,	260	Y meibion a'r merched ... ..	148
Rector Castellnedd a Dirwest	193	Yn dawel yn yr ystern ... ..	223
Rowland Hill a'i was ... ..	90	Y Parch. W. Jones a THRY-	
'Rwy'n falch iawn heno, mam	90	SORFA Y PLANT ... ..	306
Sambo ... ..	324	Y pendefig a'r ffwl ... ..	27
Spurgeon a'r Bibl... ..	220	Y peth all plant wneyd a	
Sut i gael 'nhad i'r Ysgol Sul	88	theimlo ... ..	199
Sut y gall yr Iesu gadw ... ..	217	Y planigyn bach gwerthfawr	125
Tad i'r amddifad ... ..	309	Yr adnod o'r tân ... ..	64
Tafodau o dân ... ..	210	Yr adnod yn aros ... ..	246
Taro'r hoel yn ei chlopa ...	39	Yr angel a'r plentyn ... ..	7
Tasai dim dy' Snl... ..	274	Yr angelion yn y bedd ... ..	294
Thag i Ddarllenwyr TRYSORFA		Yr Iuddewon—beth sydd wrth	
Y PLANT... ..	69	y drws ... ..	50
Uncle Tom a St. Clare ... ..	42	Yr uchedydd a'i rai bach ...	251
Un o ddarllenwyr bach eich		Yr ychain a'r tarw ... ..	236
TRYSORFA ... ..	187	Ysbryd y Bibl ... ..	221
William a Mary ... ..	275	Y Tadau Methodistaidd—	
Y banc colli ... ..	25	I. Daniel Rowlands... ..	4
Y BIBL—		II. Howell Harries ... ..	57
I. Ei enwau a'i ysgrifau ...	91	III. William Williams ... ..	116
II. Ei gyfieithiadau a'i ran-		IV. Howell Davies ... ..	243
iadau ... ..	148	V. Peter Williams .. ..	237
III. Pum' Llyfr Moses ...	231	Y teiliwr-aderyn a'i nyth ..	299
IV. Llyfr Genesis ... ..	315	Y traethodyn a'r gelyn ...	164
		Y tri ysgolfeistr ... ..	103
		Y wenynen ... .. 206, 237,	289
		Y wiwer ... ..	94

## BARDDONIAETH.

Aderyn du pigfelyn ... .. 166



	Tu dal.		Tu dal.
Adgyfodiad ac esgyriad Crist	97	Nid aur yw pob peth sy 'n	
Anerchiad i Ieuencyd...	82	dysgleirio ... ..	245
Awn ymlaen, gyfeillion sobr-		O na bawn fel yr Iesu ... ..	40
wydd ... ..	95	Pan ddelwyf yn ddyrn ... ..	38
Bachgen meddw y fam weddw	265	Peroriaeth ... ..	111
Bedd fy mam ... ..	171	Pwy ydyw Iesu Grist ... ..	235
Bugail Israel sydd ofalus ...	177	'Rhy hwyr ... ..	62
Cân gynnar yr aderyn... ..	276	Robin goch ... ..	75
Catherine Love... ..	310	Rwy'n myn'd, fy mam ... ..	189
Cerdyn y pregethwyr ... ..	269	Ti Ysgol Sul... ..	134
Ci yn achub y Cwch ... ..	131	Tywysog Cymru a'i deulu ...	93
Cloc y gegin ... ..	223	Wiwer fach felen ... ..	315
Clws ydyw dy rudd... ..	325	Wrth wel'd yr haul yn mach-	
Codwch y pin ... ..	195	lud ... ..	33
Cyfeithiad o Tennyson ... ..	62	Y baban yn marw ... ..	303
Cymeriad da ... ..	4	Y bachgen amddifad ... ..	152
Cynneddfau yr enaid ... ..	251	Y bachgen carpiog ... ..	160
Chwedl y ddylluan a cheiliog		Y cardotyn amddifad ... ..	23
y gwair ... ..	11	Y cychod ar yr afon ... ..	200
Dalen i'r beirdd ieuainc ... ..	53	Y deg gorchymyn ... ..	220
Diolch am y bwyd ... ..	298	Y dderwen farddonol ... ..	317
'Does dinu i'w gael heb drafferth	327	Y foneddiges a'r bastai ... ..	211
Dychweliad y Cymro i'w wlad		Y fronfraith ... ..	51
ei hun ... ..	88	Y ffordd i gyfansoddi... ..	172
Englynion i'r Ysgol Sabbothol	112	Y gaethes ddu ... ..	191
Elizabeth Rowlands, Acrfair... ..	108	Yn wir rhaid i mi farw ... ..	232
Esgyniad Elias i'r nef... ..	184	Y palas adferedig ... ..	255
Esgyniad Victoria ... ..	242	Y pellder rhwng nefoedd ac	
Fy anwyl Ann ... ..	145	uffern ... ..	235
Fy Ngweni fach ... ..	163	Y plentyn yw tad y dyn ... ..	89
Fy ngwlad ... ..	186	Yr aderyn a'i nyth ... ..	205
Fy nheulu bach fy hun ... ..	114	Yr adgyfodiad ... ..	79
Gweddi ola' mam... ..	321	Yr hyfryd wlad ... ..	180
Gweddi yr Arglwydd ... ..	220	Y rhyw fenywaidd ... ..	149
Gwled trwy y drych ... ..	296	Yr Ysgol rad Sabbothol... ..	249
Gwlad Wynedd ... ..	143	Y Sabboth ydyw heddyw ... ..	241
Hen Fibl mawr fy mam ... ..	218	Y <i>Shoeblick</i> bach ... ..	123
Holiadau John bach ... ..	17		
Llwybr y pérerin ... ..	66	—	
Mae'n hyfryd yn y nef... ..	110	TONAU.	
Marwolaeth Susan fach ... ..	192	O na bawn fel yr Iesu ... ..	40
Mor dâwel cwsg y baban ... ..	101	Mae'n hyfryd yn y nef ... ..	110
Morwynig nef yw Dirwest ... ..	209	Yr hyfryd wlad ... ..	180
		Bachgen meddw y fam weddw	264
		Ein gorchwyl hyfryd yw ... ..	312



## TRYSORFA Y PLANT.

RHIF. XXV.]

IONAWR, 1864.

[CYF. III.]

### BETH AM Y PLANT?

**D**ID yw achos y plant wedi cael yr ystyriaeth a ddylai gan Gristionogion Cymru. Er holl lafur yr Ysgol Sabbothol, er sefydliadau y *Band of Hope*, a *societies* y plant, ac amryw fân gyfarfodydd eraill, yr ydym yn ddibetrus yn credu mai esgeuluso y plant yw prif achos aflwyddiant crefydd yn ein mysg. Os oes can' mil o aelodau yn perthyn i'n Cyfundeb, y mae hefyd, yn ddiau, dros gan' mil o blant dan bymtheg oed, yn ein heglwysi, wedi eu derbyn trwy fedydd i gyfammod eglwysig. Cyn pen deng mlynedd, bydd hanner y rhai hyn, neu ychwaneg, wedi tyfu i fyny, ac wedi rhoddi eu gyddfau dan iau yr Arglwydd Iesu, neu wedi troi ymaith a gwerthu eu genedigaeth-fraint. Gyda'r gofal a'r addysg dyladwy,—a bendith yr Arglwydd, yr hon sydd yn wastad yn canlyn hyny,—cedwid mwyafrif mawr y plant heb roddi eu troed byth allan dros drothwy yr eglwys. Chwyddai y rhai hyn nifer ein heglwysi yn fuan, a hyny o'r dosbarth mwyaf gwasanaethgar a gobeithiol. A phe na cheid dychweledigion at grefydd o fysg dynion mewn oed, byddai y llwyddiant uwchlaw dim a welwyd erioed. Ac onid y llwybr hwn yw prif lwybr y Nefoedd i boblogi y deyrnas “nad yw o'r byd hwn.” “Y plant ydynt etifeddiaeth yr Arglwydd; ei wobwr ef yw firwyth y groth.” Rhagddywedai yr Iesu mai o'r flyn-

nonell hon y codai grym mawr ei deyrnas ef, pan ddywedai mai "o'r cyfryw rai y mae teyrnas nefoeddi."

A yw yn bosibl cyffroi rhieni ac eglwysi Cymru at y pwnc hwn? Carem yn fawr pe cymerai Cymantäoedd a Chyfarfodydd Misol y mater i fyny yn ddifrifol, er ei wasgu at yr eglwysi trwy yr holl wlad. Tybiwn nas gall neb sydd yn teinlo dyddordeb mawr yn llwyddiant teyrnas ein Harglwydd Iesu Grist, lai na gwled priodoldeb yr achos. A diammheu y byddai cydymdrech cyffredinol i ddwyn calonau y plant a'r genedl ieuanc sydd yn codi dan ddylanwad yr efengyl, y moddion mwyaf effeithiol i ddwyn i mewn y llwyddiant mawr y mae llygaid y byd Cristionogol yn dysgwyl mor bryderus am dano. Er ychydig o gynnorthwy i'r neb a deimla ar ei galon i gychwyn gyda'r achos, dymunem roddi yr awgrymiadau canlynol:—

1. Rhoddwch fwy o le i'r plant yn ngwasanaeth crefyddol yr aelwyd. Ceisier gwneyd yr addoliad teuluaid yn fuddiol a phleserus i'r plant. Gadawer i'r plant, yn eu tro, ddarllen y benod, neu darllener hi bob yn ail adnod. Da iawn os gellir canu tön, a gadawer i'r plant ofalu am y pennillion. Rhodder ambell hanner awr i ymddyddan rhydd, siriol, a phlentynaid, am grefydd. Dangoser iddynt eu sefyllfa yn eu perthynas â Duw, ac yn eu perthynas â'r eglwys. Dysger hwy i weddio yn deuluaidd o'u mebyd. Rhodder ffurfweddi iddynt, hyd nes y gallont ddyfod i wneyd heb hyny. Felly gallant gadw yr addoliad pan fyddo y penteulu yn absennol. Holer hwy yn awr ac eilwaith am ddynion y Bibl; am Joseph, a Moses, a Daniel, a'r llanciau fu yn y ffwrn dân; ac uwchlaw pawb am yr Iesu, a aned yn Methlehem, a faged yn Nazareth, a fu farw ar Galfaria, ac a esgynodd oddiar fynydd yr Olewydd. Rhodder cyfle i'r plant fyned at yr Iesu trwy yr addoliad teuluaid. Dyma y fan y mae sylfaen cymeriad y rhai bychain yn cael ei gosod. Oddiar yr aelwyd gartref y mae y miloedd yn derbyn eu cyfeiriad i gerdded ymlaen am dragywyddoldeb. Anwyl rieni! er eich cariad at eich rhai bychain, ac er gwerth eu heneidiau anfarwol, dyfeisiwch bob moddion i ddwyn eu calonau dan ddylanwad gwirioneddau y Bibl.

2. Rhoddwch fwy o le i'r plant yn ngwasanaeth tŷ yr Arglwydd. Dylai enwau holl blant yr eglwys gael eu cadw mor ofalus ag enwau dynion mewn oed. Dylent hefyd gael eu galw bob dau fis neu dri, er mwyn rhoddi cyfeusdra iddynt hwy, neu eu rhieni drostynt, i roddi dimai neu geiniog at yr achos. Nid cymaint er mwyn y ceiniogau; ond gwnelai hyn fwy er cylymu y plant â'r eglwysi nag a allai neb feddwl heb wneyd y prawf. Peidier edrych ar yr amser a dreulir gyda'r plant yn y cyfarfod eglwysig yn amser ofer. Y mae ganddynt hawl gyfiawn i gyfran helaeth o'r cyfarfod hwnw. Athrawon yr Ysgol Sul! byddwch amyneddgar gyda'r plant sydd dan eich gofal. Mae yn eu mysg liaws o lestri etholedig i Dduw, er efengylu ymysg y cenedloedd anchwiliadwy olud Crist. A ydych chiwi yn cofio am y plant sydd dan eich gofal yn yr Ysgol pan fyddoch ar eich penliniau ar yr

aelwyd gartref, ac yn eich hystafell ddirgel? Bydded geirian anwyl yr Arglwydd Iesu fel cloch wastadol yn eich clustiau, wrth ddygu ac wrth weddio, "Gadewch i'r plant ddyfod ataf fi."

3. Cadwer cyfarfod pwrpasol i'r plant unwaith yn y mis o bellaf, er eu dysgu a'u hegwyddori mewn crefydd. Gellir rhoddi anerchiadau plentynnaidd iddynt yn y cyfryw gyfarfodydd; eu holi mewn gwybodaeth Ysgrythyrol a chrefyddol; a'u dygu i ganu mawl i'r Arglwydd. Os ymroddir i lafur gyda'r cyfarfodydd hyn, deuant y rhai mwyaf pleserus a dyddorol, nid yn unig i'r plant, ond hefyd i ddynton mewn oed.

4. Gwnewch eich goreu i gadw y plant oddiwrth ddiodydd meddwol. Dyma y gelyn sydd yn rhwygo ein heglwysi a'n Hysgolion Sabbothol, ac yn dystrywio ac yn lladd goreuon ein meibion a'n merched wrth y miloedd. Pa faint o deuluoedd ac eglwysi Cymru sydd heddyw yn wyllo y dagrau heilltion oblegid eu rhwygiadau a'u galanastra. O dadau a mamau! athrawon yr Ysgolion Sabbothol, ac arweinwyr y bobl! yr ydym yn eich tyngedu, er gwerth eneidiau y plant, ac er mwyn Sion Duw, sydd dan ei chlwyfau dyfnion o herwydd colli miloedd o honynt, gwnewch eich goreu i gadw y genedl sydd yn codi oddiwrth bla a melldith y diodydd meddwol.

Ynglŷn â'r annogaeth a'r awgrymiadau hyn, attolygwn ar i'r Arglwydd, yn ol ei addewid, dywallt ei Ysbryd ar had ei bobl, a'i fendith ar eu hiliogaeth.



### OS NA FADDEUWCH, 'D ALLA' I DDIM DYSGU.

**D**R oedd mab i weinidog unwaith wedi digio ei dad, a dangosai ei dad fwy o ddyethrwrch nag arfer tuag ato. Gofynnodd y bachgen gwestiwn i'w dad, a chafodd atebiad byr ac oerllyd. Aeth awr neu ddwy heibio, ac yr oedd yr amser i'r bachgen fyned i ddyweyd ei wersi yn ymyl. Aeth i mewn i lyfrgell ei dad, a dywedodd, "*Nhad, os na faddewch i mi, 'd alla' i ddim dysgu!* Mae yn ddrwg genyf i mi droseddu yn eich herbyn. Yr wyf yn dymuno eich maddeuant, ac yn gobeithio na throseddaf yn eich herbyn byth mwy."

Atebodd ei dad, "*Y cwbl sydd arnaf fi eisieu yw eich dwyn chwi i deimlo o herwydd eich drwg. Dim ond i chwi ei gyd-nabod, gwyddoch fod yn hawdd gwneyd i fyny â mi.*"

"*Wel, rhoddwch gusan i mi,*" ebai'r bachgen, "*i ddangos eich bod yn maddeu.*"

Rhoddodd tad ei law a'i gusan i'w fachgen.

"*Yn awr,*" ebai y bachgen, "*dysgaf Roeg a Lladin am y goreu a'r un o honynt,*" ac aeth allan o'r llyfrgell gan redeg.

"*Aroschwch, aroschwch!*" ebai'r tad; "*onid oes genych Dad yn y nefoedd? Os gwnaethoch ddrwg, mae ef wedi anfoddloni, a rhaid i chwi geisio ei faddeuant ef.*"

Llanwodd llygaid y bachgen â dagrau, a dywedodd, "Aethum ato Ef yn gyntaf, 'nhad. Gwyddwn na thalai ddim heb gael ei foddlonrwydd ef. Yr wyf yn gobeithio ei fod ef wedi maddeu i mi, a hyny sydd yn peri i mi deimlo mor hapus."

Ni chafodd y tad hwn achos i edrych yn gilwgus ar y bachgen hwn o hyn i ddydd ei farwolaeth. Anwyl ddarllenwyr ieuainc! gwnewch chwithau yr un modd.



### CYMERIAD DA.

**D**OES genyf aur nac arian,  
Na phalas gwych i fyw,  
Na neb i ddysgwyl llawer  
Oddiwrthynt ond fy Nuw.

Nid wyf yn dlawd, er hyny,  
Y gauaf oer na'r ha',  
Tra genyf fwyd a dillad,  
A gwaith, ac enw da.

Mae gwerth uwch aur ac arian,  
A'r gemau goreu sy,—  
Cýmeriad difrycheulyd,  
Mae hwnw genyf fi.

Ni werthwn fy nghymeriad  
Am ddim sydd yn y byd ;  
Mae 'mywyd a 'nghymeriad  
Wedi cyd-dyfu 'nghyd.

Mi lyna 'n gyndyn wrtho  
Am byth, trwy gymhorth Duw ;  
Mi fyddaf farw drosto,  
Ac ynddo byddaf byw.



### Y TADAU METHODISTAIDD.

**D**WRIADWN roddi nodiadau byrion i'n darllenwyr ieuainc ar y tadau Methodistaidd, y rhai a fuont yn offerynol yn llaw yr Arglwydd i gychwyn a sefydlu y Cyfundeb Methodistaidd. Nis gall yr ysgrifau fod ond byr iawn—nemawr mwy na chofnodiad o ffeithiau. Fe allai, er hyny, y bydd yn dda gan y genedl sydd yn codi wybod ychydig am y modd y cododd y Cyfundeb, ac y cynnyddodd i'w agwedd bresennol. Dechreuwn gyda

I.—DANIEL ROWLANDS.

"Pan oedd tywyll nos trwy Frydain,  
Heb un argoel codi gwawr,

A thrwm gwsig oddiwrth yr Arglwydd  
 Wedi goruchuddio 'r llawr;  
 Daniel chwythodd yn yr udgorn,  
 Gloew udgorn Sion fryn,  
 Ac fe grynodd creigiau cedyrn,  
 Wrth yr adsain nerthol hyn."

Mae Williams, Pant y celyn, yn y pennill hwn, yn dangos fod agwedd y wlad yn isel iawn pan gododd Rowlands. Yr oedd y Bibl wedi ei gyfieithu i'r iaith Gymraeg lawer o amser cyn hyn. Yr oedd yr Hen Ficer Pritchard o Llanymddyfri, offeiriad poblogaidd, ac awdwr "Canwyll y Cymry," wedi marw er yn agos i dri-ugain a deg o flynyddoedd cyn geni Rowlands. Yr oedd amryw bregethwyr Ymneillduol enwog wedi bod yn pregethu yn Nghymru ar ol dyddiau yr Hen Ficer; ond yr oeddent hwythau yn awr wedi marw, ac adfeiliad mwy wedi ymdaenu. Rhagflaenydd enwog i Rowlands oedd ei dad ysbrydol, Griffith Jones, offeiriad Llanddowror, yn Sir Gaerfyrddin. Sefydlodd Mr. Jones dros ddau cant o Ysgolion rhad trwy Ddê a Gogledd Cymru, ac ysgrifennodd amryw lyfrau bychain er dysgu crefydd i'r bobl. Yr oedd ef wedi dechreu ar ei weinidogaeth ddeng mlynedd ar hugain cyn i Rowlands a Harris ddechreu cyffroi y wlad. Ac er,

"Gan nad oedd ei fore ond tywyll,  
 Ac nad oedd ei ffydd ond gwan,  
 Fe arswydodd fyn'd i'r maesydd,  
 Ac i'r lleoedd nad oedd *Llan*;"

eto cafodd ei erlid yn dost gan ei gydoffeiriaid am fyned dros ben eu terfynau hwy i ddysgu gwybodaeth a chrefydd i'w gydwladyr.

Ganwyd Daniel Rowlands yn Pant y beudŷ, plwyf Nantcwnlle, Sir Aberteifi, yn y flwyddyn 1713. Cafodd ei addysg yn Henffordd; a chafodd hanner cyntaf ei ordeiniad yn 1733, a'r hanner arall yn 1735. Gwnaed ef yn guraid i blwyf Nantcwnlle a Llangaitho, am gyflog o ddeg punt yn y flwyddyn; ac ni chafodd byth le na chyflog uwch gan yr Eglwys Sefydledig. Dyn ieuanc coeg-falch oedd Rowlands y pryd hwn, ac yr oedd yn amlwg ei fod wedi myned i'r weinidogaeth yn unig er mwyn bywioliaeth. Rhedai allan o'i bulpud, mor fuan ag y byddai y gwasanaeth drosodd, i chwareu y campau llygredig gyda'r plwyfolion.

Onid pan oedd tua phump ar hugain oed, aeth yn ddamweiniol i wrando Griffith Jones i Landdewibrefi. Dan y bregeth hono aeth saeth i'w galon. Bu bron llewygu gan ofid ac arswyd at ei gyflwr ar y ffordd adref; ond cyn cyrhaedd y tŷ dywedodd,—“Pwy a wŷr na wna yr Arglwydd ryw ddefnydd o honof finnau, grëadur gwael!” O'r pryd hwn allan daeth clod Rowlands dros yr holl wlad. Trodd yn fab y daran. Pregethai yn barhaus, am rai blynyddoedd, ar yr adnodau mwyaf dychrynlyd. Byddai y gynnulleidfa orlawn yn gwelwi gan fraw, a llawer yn syrthio i'r llawr fel meirwon. Teimlid fod colofnau daear a nefoedd yn crynu weithiau dan nerth dwyfol ei weinidogaeth,—

“De’wch, dihunwch, oedd yr adsain,  
Y mae’n dinas ni ar dân,  
Ffowch oddiyma mewn mynydyn,  
Ynte ewch yn ulw mân.”

Dygodd y weinidogaeth hon ffrwyth mewn llu o ddynion yn ofni yr Arglwydd, ac yn teimlo yn awyddus i ledaenu y diwygiad oedd wedi ei gychwyn trwy Rowlands yn y parthau hyny. Cododd amryw fel “Cynghorwyr” i gyfarch cynnulliadau o bobl mewn tai annedd, neu yn yr awyr agored. Daliodd Rowlands i lynu yn yr Eglwys, er pob bygythion ac erlid, hyd ag y goddefai ei gydwybod a’i zel danlyd dros achub eneidiau. Ar gais gwraig yr aeth gyntaf i bregethu o gartref, sef i Ystradffin. Ac ar gais gwraig weddw dlawd yr arosodd yn Llangeitho pan oedd yn cael cynnyg lle gwell i fyned oddiyno.

Wedi clywed fod Hywel Harris, yn Sir Frycheiniog, yn myned allan i’r “prif-ffyrdd a’r caeau,” cymerodd Rowlands fwy o galon i ddilyn ei esiampl. Yr oedd y ddau wedi cychwyn y cyfarfod eglwysig, yr hwn a alwyd ac a elwir yn *seiat*, heb wybod dim am eu gilydd. Nid oeddynt yn ymwybodol ychwaith eu bod yn sefydlu cyfarfod pwysig a pharhâus, ond yn unig fod sefyllfa y dychweledigion yn galw yn arbenig am gyfarfod o’r fath. Ystyrir eglwys y plwyf yn lle rhy gysegredig i bobl gyffredin i ymddyddan yn rhydd am grefydd a chynnal y *societies* hyn ynddi; felly rhoddodd Rowlands hen ysgubor oedd yn perthyn i’w dŷ ef at y gorchwyl. Yn yr ysgubor hono y dechreuodd Methodistiaeth yn Llangeitho. Elai Rowlands i gyfarfodydd yr ysgubor yn rhyw hanner dirgel, gan ofn ei esgob. Wedi cael capel, trôwyd yr ysgubor yn dŷ annedd, ac aeth un o’r hen “gynghorwyr” i fyw ynddo, yr hwn a alwyd o’r herwydd yn “Shôn Ysgubor.”

Yn 1737 y cyfarfyddodd Harris a Rowlands gyntaf. “Daethum i’w wrando,” meddai Harris, “i eglwys Defynog (Brycheiniog). Yno y dechreuodd fy nghydnabyddiaeth âg ef, ac ni dderfydd mwy i dragywyddoldeb.” Yn 1740 sefydlodd Harris a Rowlands y Gymanfa. Cynnaliwyd y gyntaf yn Sir Forganwg, a Whitfield yn gymedrolwr iddi. Penderfynwyd hefyd mai Whitfield fyddai y Gymedrolwr ynddynt oll, os byddai yn bresennol, a Rowlands yn ei absenoldeb. Bu Rowlands yn Gymedrolwr y Gymanfa am hanner can’ mlynedd. Yn 1747 sefydlodd y Cyfarfod Misol, er ateb dyben cyffelyb i’r Sir ag ydoedd y Gymanfa i’r holl Siroedd. Wedi bod yn llafurio fel gweinidog Eglwys Loegr am ddeng mlynedd ar hugain, trowyd ef allan o’r Eglwys. Ond bydd yn syn gan oesau dyfodol i wybod mai yr achos o’i droad allan o’r Eglwys ydoedd ei awyddfryd i bregethu Crist, ac i achub eneidiau, y tuallan i furiau y Llan. Dygwyddodd hyn yn y flwyddyn 1763. Daliodd i weithio yn llafurus yn ngwinllan ei Arglwydd am 27 mlynedd wedi ei ymadawiad âg Eglwys Loegr. Bu farw Medi 16, 1790, yn 77 mlwydd oed. Yr oedd miloedd wedi ymgasglu i Langeitho ar y dydd Sadwrn o flaen Sul y Cymun, i wrando Rowlands yn pregethu fel arfer; ond bu farw ar yr awr yr oedd i

bregethu. "Yr wyf yn marw," meddai, "yn bechadur tlawd, gan ymorphwys yn llwyr ar Achubwr croeshoeliedig am fy nghymeradwyaeth gyda Duw."

Teithiodd yn ddyfal trwy wahanol Siroedd Dê a Gogledd, trwy barch ac anmharch, anghlod a chlod, i bregethu efengyl Duw; ac arwyddion hynod a bythgofiadwy a wnaed trwyddo. Fel y canodd Williams eto,—

"Pump o Siroedd penaf Cymru  
Glywodd y taranau mawr,  
A chwymasant gan y dychryn,  
Megys celaneddau lawr;  
Clwyfau gaed, a chlwyfau dyfion,  
Ac fe fethwyd cael iachâd,  
Nes cael eli o Galfaria,  
Dwyfol ddŵr a dwyfol waed."

Gwelodd Rowlands saith o ddiwygiadau grymus, y rhai a gymerent le, yn gyson, oddigerth un, bob saith mlynedd; "ac felly, yn y flwyddyn deg a deugain—blwyddyn y Jubili," cafodd ei ollwng adref i'w wlad ei hun.

Daniel Rowlands oedd un o'r ddau brif offeryn yn llaw Rhag-luniaeth i gychwyn a sefydlu Methodistiaeth Gymreig. Dygwyd hyn oddiamgylch, fel llawer o symudiadau pwysig y Nefoedd, heb nemawr o rag-gynlluniau gan yr offerynau. Yr oedd Rowlands yn mynwes yr Eglwys ddiiffrwyth fel hedyn byw ar ben corsen wywedig; syrthiodd i'r ddaear i gael cychwyn planigyn newydd, a ddygai ffrwyth. Hywel Harris oedd y prif offeryn arall; rhoddwn ysgrif fer arno yntau y tro nesaf. Gall y darllenydd gael hanes fanylach am Rowlands yn "*Methodistiaeth Cymru*," yn y "*Traethodydd*" am 1850, ac mewn amryw lyfrau hanesyddol eraill. Un pennill o'i farwnad odidog eto;—

"Ni raid canu dim am dano,  
Ni raid *marble* ar ei fedd;  
Ofer tynu dim o'i *bictiwr*  
Ar bapyryn sâl ei wedd:  
Gwnaeth ei farwnad yn ei fywyd,  
Rhodd ei *farble* yn ei le,  
Fe 'sgrifenodd arno 'i enw  
A llyth'renau pur y ne'."

YR ANGEL A'R PLENTYN.

**ROB** tro y mae plentyn yn marw, mae angel yr Arglwydd yn dyfod i lawr i'r ddaear, yn cymeryd y plentyn yn ei freichiau, yn lledu ei edyn gwynion, ac yn ehedeg dros yr holl leoedd y bu y plentyn yn hoff o honynt; yn tynu dyrnaid o flodau, ac yn eu dwyn i fyny gydag ef at orsedd Duw, i flodeuo yno gyda mwy o brydfferthwch nag y gwnaethant erioed ar y ddaear. Mae



yr Arglwydd da yn gwasgu y blodau hyn at ei fynwes; ac ar y blodeuyn fyddo ef yn ei hoffi oreu, bydd yn anadlu cusan, a rhoddir llais iddo fel y gallo gyduno yn yr anthem fawr gyffredinol.

Dyma ddywedai angel tra y dygai blentyn bach yn ei freichiau i'r nefoedd. Yr oedd y plentyn yn ei wrando fel pe buasai mewn breuddwyd melus, ac ehedai yr angel trwy y lleoedd y byddai y plentyn yn arfer chwareu ynddynt, ac aethant trwy amryw erddi o'r mwyaf ardderchog.

"Pa un o'r blodau hyn oll a gymerwn gyda ni, i'w blanu yn y nefoedd?" gofynai yr angel.

Yr oedd gerllaw bren rhosynau prydfferth iawn, ond ei fod yn egwan; ac yr oedd rhyw law drwsogl wedi ei ysigo, nes oedd ef a'i gangenau yn hongian i lawr. Yr oedd yn dechreu gwywo, er ei fod yn llawn blagur heb ond hanner agor.

"Y pren rhosyn yma," ebai'r plentyn; "gadewch i ni gael myned â hwn, iddo gael blodeuo fry yn mhresennoldeb Duw."

Yna cymérodd yr angel y pren rhosyn, a chusanodd y plentyn, oblegid y geiriau a ddywedodd; a chyda'r cusan, hanner agorodd y plentyn ei lygaid. Cymerasant hefyd amryw o'r blodau ardderchog a dyfent yn yr ardd, a chasglasant amryw o flodau'r 'menyn (*buttercups*) a llyisiau y drindod (*heart's ease*) gwylltion.

"Dyna, 'nawr, mae blodau genym!" ebai'r plentyn, a chrymodd yr angel ei ben; ond ni chychwynodd eto ei ffordd tua gorsedd Duw. Yr oedd yn nos, a'r cwbl yn ddystaw. Arosasant yn y ddinas, gan hofran uwch ei phen. Safent uwch ben ystryd gul, lle yr oedd pentyrau o wellt, lludw, ac ysgarthion. Yr oedd yno lawer o hen garpiau hefyd, a llestri pridd drylliedig.

Nododd yr angel allan yn nghanol y pentwr hen lestr blodau (*flower-pot*) drylliedig, a lwmp o ddaear wedi syrthio allan o hono, yr hwn a ddelid ynghyd gan wreiddiau blodeuyn gwyllt oedd wedi ei dafu allan am yr ystyridd ef yn ddiwerth.

"Cymerwn hwn gyda ni," ebai'r angel; "ac wrth esgyn i fyny, dywedaf y rheswm am hyny."

Yn awr dechreuasant ar eu taith, ac fel hyn yr elai yr angel dros yr hanes:—

"Mewn seler i lawr yn yr ystryd gul yna y trigai bachgen bychan claf, unwaith, yr hwn a fu yn gorwedd ar ei wely agos er yn faban. Yn ei fan goreu, nis gallasai ond myned ar hyd yr ystafell ar ei ffyn baglau. Am ychydig ddyddiau yn nghanol yr haf, byddai pelydr yr haul, am oddeutu hanner awr, yn taro i mewn i'r seler, a byddai y plentyn yn hoff o eistedd dan ei belydr, os gallai. Mor falch a fyddai gael edrych ar ei ddwyllaw bychain gwynion, a theneuon yn llewyrch yr haul. Arferai mab cymydog ddyfod â changen o bren gwyrddlas iddo weithiau, a dyna yr holl goedydd a welodd ef erioed. Gosodai y brigyn gwyrdd uwch ei ben, a breuddwydiai ei fod yn eistedd dan y llwyni gwyrddlas prydfferth lle yr oedd yr haul yn pelydru, a'r adar yn canu. Un diwrnod daeth ei gymydog â dyrnaid o flodau gwylltion i'r

bachgen claf, ac yn eu mysg dygwyddodd un fod â'i wreiddiau ganddo. Gosododd y claf ef mewn llestr, ar y ffenestr yn ymyl ei wely. Daeth yn drysor penaf y bachgen. Dyfrhâi ef, a thrinaï ef yn ofalus. Daliai ef yn yr haul, am yr ychydig fynyddau y byddai yn pelydru i'r seler lle y preswyliai. Yr oedd yn siarad, yn canu, ac yn breuddwydio am ei flodeuyn. A phan alwodd yr Arglwydd ef ymaith, troai y peth olaf at ei flodeuyn hoff, i gael trem arno cyn cau ei lygaid yn yr angeu. Mae wedi bod yn y nefoedd yn awr am flwyddyn, a bu y blodeuyn am flwyddyn ar y ffenestr yn cael ei esgeuluso. Yn awr, wedi iddo wywo, tafiwyd ef gyda'r ysgarthion i'r domen. Dyma y blodeuyn hwnw—druan o hono; ac y mae yn rhaid ei gadw, oblegid mae y blodeuyn hwn wedi cynnyrchu mwy o orfoledd nag unrhyw flodeuyn a ddysgleiriodd ardd flodau brenines erioed."

"Ond, sut y daethoch chiwi i wybod y pethau hyn oll?" gofynai y plentyn oedd yn cael ei ddwyn gan yr angel i'r nefoedd.

"Yr wyf yn ei wybod" ebai'r angel, "oblegid mai fi yw y bachgen claf hwnw oedd yn symud ar ei ffyn baglau. Yr wyf yn adnabod fy mlodeuyn yn ddigon da."

Yn awr cwbl agorodd y plentyn ei lygaid, a sylodd i wyneb-ryd dysglaer a gogoneddus yr angel; ac erbyn hyn yr oeddent yn cael eu hunain yn nghanol paradwys Duw, lle y triga llawenydd a gwynfydedigrwydd yn dragywydd.

Gwasgodd yr Arglwydd y plentyn i'w fynwes; rhoddodd iddo hefyd adenydd fel yr angel arall, ac ehedodd gydag ef law yn llaw. Gwasgodd yr Arglwydd y blodau hefyd ar ei galon; ac anadlodd gusan ar y blodeuyn gwyllt gwywedig hwnw, a rhoddwyd llais iddo; canodd yntau gyda'r holl angelion a gylchynent orseddfainc Duw. Yr oedd rhai yn agos iawn at yr orseddfainc, a'r lleill yn ymledu allan yn gylchoedd ar gylchoedd i bellder anfeidrol; ac yr oeddent oll yn berffaith hapus. A chanent oll yn un llais—fychain a mawrion; y plentyn gwynfydedig, a'r blodeuyn gwyllt a gwywedig oedd wedi ei dafu allan i fysg yr ysgarthion yn yr heol gul a thywell.

~~~~~

### LLEF. O'R WYBREN.

“R doethion a ddysgleiriant fel dysgleirdeb y ffurfafen; a'r rhai a droânt lawer i gyfiawnder, a fyddant fel y sêr byth yn dragywydd.”

Dyna ddywed yr wybren ogoneddus acw wrthym. Y wyneb allan i'r nefoedd yw yr wybren hefyd; ac os yw y tu allan mor ddysglaer, beth yw y tu fewn? Gad i minnau, O Arglwydd, gael llewyrchu fel goleuni yn y byd hwn, i mi gael llewyrchu mewn gogoniant tragywyddol yn y byd a ddaw. Mae fy enaid heb dy ras di fel llusern heb oleuni ynddi.



### NI RAGORI DI.

**NONI.** Wel, dyna hen bictiwr cas!

*Tad.* Ië; charet ti, Noni bach, ddim bod yn debyg i hwna, garet ti?

*Noni.* O, na charwn. 'Does dim o hono wedi cribo ei wallt, nac wedi ymolchi.

*Tad.* Nac ydyw; ac a weli di ei ddillad yn domlyd a charpiog; yr hen bibell hagr yn ei safn; ei fysedd yn ei wallt, yn lled arwyddo fod rhywbeth na ddylai fod yno; ac y mae fel pe byddai yn rhy ddiog i agor ei lygaid. Ni welais well siampl o ddiogyn erioed. Mae yn ddigon o bregeth i ti, Noni bach, i gael golwg arno. Gellir ysgrifenu ar ei dalcen, "Ni ragori di."

*Noni.* Tai e'n dod i'r ysgol atom ni, fe gai fyn'd allan i ymolchi, a'r plant i gyd yn gwaeddi ar ei ol,—

Are you not quite ashamed  
With such dirty hands and face.

*Tad.* Byddai yn garedigrwydd mawr gwneyd hyny âg ef. Dylai holl blant yr ystryd gymeryd gwers oddiwrth hwn. Mae yr olwg ddiog, fudr, sydd ar hwn, yn profi ei fod wedi cael cam yn ei ddygiad i fyny. Ac y mae aflunieiddwch ei gorff yn dyweyd rhywbeth am gyflwr ei feddwl a'i galon. Mae eisoes wedi dysgu ysmocio, ac ond odid wedi dysgu rhegu. Deg i un, hefyd, nad yw wedi dysgu dyweyd celwydd a lladrata.

*Noni.* Clywais i ef yn rhegu y plant gynau.

*Tad.* Dangoswch i mi fachgenyn yn hollol ddibris o gadw ei gnawd a'i ddillad yn lân, ac yn gallu goddef agwedd gyfelyb i'r darlun uchod, a gallaf eich sicrhau fod traed hwnw ar lwybr peryglus.

*Noni.* Mae fy nwyllaw a'ngwyneb i yn lân, 'nhad, a'nillad i hefyd,

*Tad.* Wel gofala eu cadw felly, fy machgen i. Gwna ef yn bwnc tra byddi byw i gadw dy hunan a phobpeth sydd yn perthyn i ti yn lân a chryno. A chofia y dywediad, "Glanweithdra sydd yn nesaf at dduwïoldeb."



CHWEDL Y DDALLHUAN A CHEILIOG Y GWAIR.



WRANDEWCH am fynydyn, fel hyn ar fy ngair,  
Mae chwedl y ddallhuan a cheiliog y gwair.

Mewn coeden ddu, yn nghraig y fall,  
Y cysgai hen ddallhuan ;  
A cheiliog gwair o dan ei bôn,  
A ganai i dôn yn ddyddan.

Yr awel fwyn, a'r hyfryd hin,  
A hwyliai delyn Sioncyn ;  
Ond gan ei gri, fe groesai grân  
Miss Huan yn y boncyn.

Cyfarchodd gerddor bach y gwair  
Mewn gair go anghyffredin :—  
"Taw son, y còr, â'th gryglais gri,  
'Rhi—rhi'—ar danau rhedyn ;  
'R wy' er y bore ar ddihun,  
Heb gysgu 'r un llygedyn."

"Tydi 'r hen ddallhuan,  
Sy 'r nos yn myn'd allan,  
I ddim ond i ddrwg !  
Mi gana 'n uwch eto  
O bwrpas i'th flino,  
Heb hidio dy w̄g."

'R ol meddwl am fynyd yn ôl ac ymla'n,  
Fe drodd yr hen ladi ei chynghor a'i chân :—

“ Wel, gan y medri gân mor sionc,  
A finnau ar y boncyn,  
Mi rof fy hun i'th wrando mwy,  
Anwylaf geiliog rhedyn.

“ A hyfryd ar ol canu cyd,  
Mae 'n bryd it' gael dyferyn ;  
Mae genyf finnau gostrel fach  
O gwrw iach cilrhedyn ;  
Tyr'd yma, was, i wlychu 'th big,  
Ti gani 'n ddididig wedyn.”

Mewn gwres, ar dori o syched,  
'R oedd Mr. Gwair i waered ;  
I fyny 'r aeth o naid i naid,  
Gael llymaid bach i yfed.

Pan ddaeth y ceiliog sgwan,  
Hyd half yr hen ddallhuan,  
Ni cha'dd roi mwy na chân na chwyth,  
Ond gwthio 'i anadl allan.

Llawer yn chwareu â drygan a gair,  
Yn debyg yn fynych i geiliog y gwair ;  
A mwyaf peryglus bob amser yw Satan,  
Pan geisia dy ddenu fel gwnaeth y ddallhuan.

## Y CWESTIYNAU GWOBWRWYEDIG.

1. **A** orchymyn i'r Arglwydd a droseddwyd ac na chafwyd neb erioed i feio y troseddwr.
2. Enwch mewn dau air y ddwy oruchwyliaeth trwy ba rai y cysegrid eiddo yspeiliedig gan feibion Israel.

### GWOBWRWYON AM 1864.

Rhoddir y gwobwrwyon canlynol i blant dan 16 oed, am y pum' cyfres goreu o atebion i'r 24 o gwestiynau a gyhoeddir. Yn-ddengys dan gwestiwn bob mis. Rhoddir y gwobrau mewn llyfrau yn cyfateb i'r symiau canlynol :—

|                      |           |                     |          |
|----------------------|-----------|---------------------|----------|
| Y wobr gyntaf.....   | 12 Swllt. | Y bedwaredd wobr... | 6 Swllt. |
| Yr ail wobr .....    | 10 Swllt. | Y bummed wobr.....  | 4 Swllt. |
| Y drydedd wobr ..... | 8 Swllt.  |                     |          |

### TELERAU.

1. Rhaid i'r cystadleuwyr (meibion neu ferched) fod dan 16 oed.
2. Rhaid i bob cystadleuwr fod yn barod i brofi mai ei eiddo ei hun fydd yr atebion, a rhoddi cyfeiriad i ni at ei rieni neu ei wraig i gael sicrwydd am hyny, os bydd galw.

3. Fod yr atebion i gael eu hysgrifenu yn eglur ar y ddalen sydd wedi ei darparu i'r pwrpas hwnw, yr hon a geir oddiwrth yr ar-graffydd (P. M. EVANS, *Holywell*), dim ond anfon dwy stamp ato mewn llythyr.

4. Rhodder yr atebiad mor fyr a phwrpasol ag y byddo modd. Rhaid dyweyd lle bydd pob adnod, ond ni fydd raid ysgrifenu yr adnod drosti.

5. Yr atebion i fod yn llaw Golygydd TRYSORFA Y PLANT erbyn y laf o Ionawr, 1865.

“BETH ALL UN PRYFYN PENDDU WNEYD?”

“DYNA sycamorwydden brydferth, onidê,” ebai boneddwr unwaith wrth ei gyfaill, i ba un yr ydoedd yn dangos ei diroedd.

“Iâ,” ebai ei gyfaill, yr hwn oedd yn naturiaethydd; “ond gwelwch! dyma goedbryfyn yn gwthio ei ffordd o dan y rhiagl. Os gadewch i'r pryfyn yna lonydd, fe ladd y goeden.”

Rhyw bryfyn penddu distadl yr olwg ydoedd, oddeutu tair modfedd o hŷd. Lol i gyd oedd hyn yn ngolwg y perchmog, i feddwl y gallai pryfyn bach o'r fath hwnw ladd coeden mor ardderchog, a dywedai—

“Wel, wel, ni gawn weled. Mi adawaf i'r pryfyn dreio.”

Y pryfyn yn fuan a weithiodd ei ffordd o dan y rhiagl; a'r haf nesaf dechreuodd y dail gwympo yn bur gynnar. Ymhen y flwyddyn wed'yn, yr ydoedd i'w weled yn beth braenedig a marwol. Un pryfyn oedd wedi ei ladd—*dim ond un!*

Weithiau byddaf yn gweled bechgyn a genethod gyda gwynebau prydferth, cyrff golygus, ynghyd â chymeriadau rhagorol. Y maent yn fechgyn a genethod gobeithiol, moesgar, a siriol; ond hwy a fynwesant ryw un bai anwylgu. Bydd un yn *falch*, un arall yn *wag*; y trydydd yn *genfigenus*, y pedwerydd yn *mwyrwyllt* 'nawr ac eilwaith; fe ddywed y pummed *gelwydd*, y chweched a *haloga'r Sabbath*; y seithfed a fydd enog o *anufuddhau i'w dad a'i fam*, a'r wythfed a *gweryla ac a ymladd*. Mewn gair, fe welir rhyw fai neu gilydd yn effeithio'ar eu cymeriadau, mor eglur a dyfal ag y gwelwyd y pryfyn penddu yn ymborthi ar y goeden.

Y mae un o'r bechgyn neu'r genethod hyny yn darllen y llinellau hyn yn bresennol. Mae genyf air i sibrd wrthych, fy nghyfaill anwyl. Nid oes arnaf eisieu ei siarad allan yn uchel, os gallaf yn unig ei ddywedyd yn ddystaw yn eich clust,—

“Os bydd i chwi adael eich un bai yn llonydd, fe ddinystria eich enaid!”

Gan hyny, meddyliwch am hyn, da chwi! Meddyliwch am dano nes yr ofnwch adael eich bai yn llonydd. Ewch at Iesu, a gofynwch iddo ei olchi ymaith yn ei werthfawrocaf waed—a wnewch chwi?—*Sunday School Advocate*.

Liverpool.

JOSEPH WILLIAMS.



## FFARWEL, 'MAM FACH.

“DYCH chwi ddim yn foddllawn i fi gael myn'd at Iesu Grist, 'mam?” gofynai plentyn hoff, pan oedd o fewn awr i farw.  
 “Ydwyf, John bach,” meddai'r fam trwy ei dagrau, “yn foddllawn i ti gael myned at Iesu Grist pan fyddi yn marw; ond yr wyf am dy gadw gyda mi am dro cyn hyny.”  
 “Yr wyf fi yn myned ato heno, 'mam.”

"Nac ydwyt, John; nis gallaf ymadael â thi heno. Rhaid i ti aros gyda dy fam, fy mhlentyn. Byddi yn well bore 'fory."

"Byddaf yn well, 'mam, achos mi fyddaf yn iach yfory; a byddaf mewn gwell lle—yn y nefoedd. Peidiwch wylo, 'mam; cofiwch yr adnod ddysgasoch i fi,—'Gadewch i blant bychain ddyfod ataf fi, ac na waherddwch iddynt.' Yr ydych chi yn anfoddlawn i fi fyned at Iesu Grist."

"A garet ti ddim aros yma ychydig eto, John bach?"

"Byddai yn dda genyf aros yma, ond byddai yn well genyf fyned at Iesu Grist. Mi ddywedaf fi wrth Iesu Grist am danoch bob dydd, a mi ddof gydag ef i'ch cwrdd pan fyddwch yn dod. O! mae niwl yn dod dros fy llygaid. *Ffarwel, 'mam fach!'*"

## HANES FY HUNAN.

### PEN. VIII.—YCHWANEG O DDYFEISIAU.

**W**EDI y dygwyddiadau a hysbysais yn y bennod ddiweddaf, daeth fy meddwl yn fwy tawel a chysurus nag erioed. Cefais fy argyhoeddi fod bywyd yn dibynu llawer mwy am ei gysur a'i fwynhad ar gyflwr y meddwl nag ar amgylchiadau allanol. Adnewyddodd fy iechyd a'm nerth yn raddol, ac yr oedd darlleniad cyson yr Ysgrythrau, a gweddi, wedi fy nwyn i ganol byd newydd i fyw. Un diwrnod aethum i rifo yr haciau ar y pren lle yr oeddwn yn cadw cyfrif yr amser, a chefais fod pen fy mlwyddyn ar yr ynys drannoeth. Yr oeddwn wedi esgeuluso gwneyd yr hac hir ar gyfer y Sabbath, er ys amryw fisoedd, ac nid oeddwn yn cofio pa un ydoedd er yr amser y bâm yn glaf. Beth bynag, cedwais ddydd pen fy mlwyddyn ar yr ynys yn ddydd i ddarllen y Bibl, a gweddio ar yr Arglwydd. Ni fwytais nemawr ddim, ond cystuddiais fy enaid mewn ymryd ac edifeirwch, a cheisiais ddal cymundeb difrifol â Duw yn nghyfyngdod ei Fab.

Cymerai ormod o amser a lle i mi i adrodd i ti, ddarllenwydd hynaws, fân ddygwyddiadau fy mywyd ar yr ynys anghysbell hono am y blynyddau nesaf, er fod y pethau lleiaf yn bwysig a dyddorol i mi, a'r adgof am danynt yn fyw byth yn fy nghalon. Cymerais at chwilio yr ynys yn fanylach nag o'r blaen. Tarewais wrth faesydd hyfrydach o lawer na dim a welswn yn flaenorol. Cefais o hyd i goedydd ffrwythlawn hefyd ddigonedd—orange, lemwn, cocoa, a ffrwythau eraill. Treuliais wythnosau i gasglu y ffrwythau, a'u sychu yn yr haul er mwyn eu cadw. Bâm yn meddwl unwaith symud fy nghaban i ganol y wlad hyfryd a ffrwythlawn; ond peidiais drachefn, am fod yn well genyf aros yn ngolwg y môr, dan obaith y delai, ryw ddydd, ffordd o ymwardd i mi o fy unigrwydd. Beth bynag, byddwn yn treulio wythnosau cyfain, ddydd a nos, ar grwydriadau trwy yr ynys, heb ddychwelyd i fy nghartref.

Yr oeddwn wedi dyfod i adnabod hinsawdd yr ynys bellach yn



bur dda. Yr oedd y gwlaw a'r sychder yn canlyn eu gilydd am fisoedd yn olynol. Yn ystod misoedd y gwlaw, y rhai a ddygwyddent ddwywaith y flwyddyn, cedwid fi bron yn gwbl yn fy nghaban; ac wedi i'r gwlaw basio oedd yr amser i drin y ddaear. Gorchwyl llafurus iawn i mi ydoedd fy nghynauaf haidd a *rice*, fel y cyfeiriais atynt o'r blaen. Mae yn anhawdd i amaethwr ddychymygu am nifer ei offerynau hyd nes yr elo i geisio gwneyd y gwaith heb yr un o honynt. Nid oedd genyf yr un aradr, na chaib, na rhaw. Fy unig offeryn i drin y tir oedd pâl bren. Ond wrth fod yn ddiwyd a chyson, heuais ysmotyng äang o dir ar y gwastad islaw fy nghaban. Mor fuan yr eginodd, ac mor falch oeddwn i edrych ar yr egin gwyrddlas yn gorchuddio y cae bychan! Daeth y geifr gwylltion, a chreäuriaid eraill, mor hoff o'r egin, fel y gorfu i mi gau o'i amgylch gyda brigau coed. A phan ymddangosodd y dywysen, daeth yr heidiau rhyfeddaf o bob math o adar i'w yspeilio a'i sarnu, nes iddynt agos fy ngyru o fy nghof. Pan saethais ergyd i'w tarfu, cododd y fath gwmmwl o honynt o'i ganol, fel yr ofnais nad oedd gronyn o hono wedi ei adael. Ac yr oeddynt oll wedi disgyn ar y cangau gerllaw, fel pe yn aros i mi droi fy nghefn iddynt gael dychwelyd. Ac mor gynted ag yr enciliais ychydig, wele hwynt yn disgyn fel gwlaw drachefn i'w ganol. Yn wir, yr oeddwn yn pryderu am dynghed fy nghynauaf. Saethais dri neu bedwar o honynt yr ergyd nesaf, a gwnaethum ä hwy fel y gwneir mewn llawer gwlad ä lladron,—eu crogi yn eu cadwynau. Crogais hwynt ar wiail yn nghanol fy ÿd, ac er fy syndod, ni ddaeth yr un perchenn aden byth yn agos iddo. Yn wir, symudasant oll o'r parth hwnw o'r ynys. Bendithiwyd finnau ä chnwd da oddiwrth fy maes. Hen gleddyf rhyddyd oeddwn wedi ei bigo allan o'r *wreck* oedd fy nghryman medi. Nid oeddwn ond tori y dywysen ymaith ar ben y gwelltyn, a'u dwyn i fy nghaban mewn basgedi gwiail o'm gwaith fy hun. Yr oeddwn yn barnu fod genyf y waith hon oddeutu pedwar neu bump o fwseli o haidd a *rice*.

Ond yr oedd codi ÿd yn creü anghen am liaws o bethau nad oedd genyf. Mae llawer o waith wrth yr ÿd o'r dywysen i'r ford. Nid oedd genyf un ffordd i ddyrnu, i falu, na phobi, na dim llestri anghenrheidiol at orchwylion o'r fath. Treuliais lawer o amser i chwilio am glai i wneyd llestri pridd. Ac wedi i mi ei gael a dechreu gweithio, büm yn chwerthin droion am ben ffurf fy llestri. Byddai y clai weithiau yn rhy wlyb, ac yn methu dal ei bwysau ei hun; ac felly, fy ysten yn ymollwng i mewn, neu y badell yn cwympto allan; yr haul weithiau yn eu hagenu, a'u chwalu; a chant o ddamweiniau eraill yn dygwydd. Beth bynag, wedi rhyw ddau fis o brofiad, ac i minnau ddyfeisio eu llosgi yn tân, ac nid eu gadael i sychu yn yr haul, ni fu arnaf eisieu llestr mwy. Yr wyf yn cofio yn awr fy llawenydd pan ddeallais y gallai fy llestr pridd wneyd gwasanaeth *saucepan*, a'r blas a gefais ar lymaid o gawl cig gafr a ferwais am y waith gyntaf ynddo.

Fy ngorchwyl nesaf oedd cael ffordd i falu yr ÿd. Yr oedd cael melin allan o'r cwestiwn. Büm yn chwilio ymhell ac agos am faen

mawr; ond nid oedd ceryg digon caled i'w cael; buasent yn chwalu ac yn ymgymysgu â'r blawd. Penderfynais dreio y pren caletaf oedd ar yr ynys. Gwnaethum ef yn gafn, a pharotoais bestl mawr o'r unrhyw bren i'w bwyo. Atebai y pwrpas yn dda, ond yr oedd yn orchwyl blin a chaled. Yr anghen nesaf oedd gogr, a bŵm mewn penbleth rhyfeddol yn ei gylch. Yr oeddwn yn methu gwneyd un o flew y geifr, ac yr oedd fy holl ddillad llïan innau wedi myned yn garpiau. Rhyw fath o napeyn canfas a gefais ymysg fy nillad a gafodd yn y diwedd fod yn ogr, ac yr oedd yn gwneyd ei waith yn o lew. Pobi y bara oedd y gorchwyl nesaf. Yr oedd cael burym, bid siŵr, yn anmhosibl. Yr oeddwn yn ddi-gon boddlawm bwyta bara croew, os gallwn gael ffwrn. 'Wedi cryn ddyfalu, daethum o gwmpas hyny hefyd. Gwnaethum lestr pridd ar ffurf padell fasaidd. Wedi gosod y dorth ar lêch lefn ar y llawr, gosodwn y llestr hwn yn orchudd drosti. Ynagorchuddiwn ef â marwor neu ludw poeth, a phobai y dorth gystal ag mewn un ffwrn yn Nghymru. Mae yn ddigon posibl, yr un pryd, fod y dorth yn ymddangos yn fwy golygus i'm llygaid i, a'i bod yn profi yn fwy blasus i'm genau, oblegid ei bod o'r cychwyn yn ffirwyth fy nyfeisiau.

Yr wyf wedi nodi y dyfeisiau gwahanol hyn mewn ychydig eiriau, ond deallwch iddynt gostio i mi dros flwyddyn gyfan o lafur i'w gwneuthur. Y drydedd flwyddyn o fy arosiad ar yr ynys, yn benaf, a gymerwyd at y gorchwylion hyn.

Dylaswn ddyweyd fod fy nheulu yn y cyfamser wedi ychwanegu. Er mai dwy gath fenyw oedd genyf yn dyfod i'r ynys, collais un o honynt am amryw fisoedd, ond dychwelodd adref eilwaith â thair cath fach ganddi. Oddiar hyny cynnyddasant mor fawr, fel yr oeddwn yn gorfod eu lladd fel lladd llygod. Un diwrnod hefyd, yn fy nghrwydriadau, deliais afr ieuanc, a thrwy boen dirfawr, arweiniais hi gyda mi adref. Ni bu fawr amser cyn dyfod yn berffaith ddof, ac yr oedd yn fy nilyn i bob man fel ci. Yr oeddwn hefyd wedi dyfod o hyd i barot. Deliais ef yn ieuanc; ond bu yn hir iawn cyn dyfod i ddyweyd dim. O'r diwedd dechreuodd siarad, ac yr oedd hyny yn fy nifyru yn fawr. Y gair cyntaf a ddywedodd ydoedd ei enw ei hun, "*Polly*," a dyna'r gair cyntaf a glywais yn cael ei lefaru ar yr ynys gan neb ond fy hunan. Wedi hyn daeth i alw fy enw innau yn eglur. Ddarllenwyd anwyl, buaset yn annhraethol falch i glywed parot yn galw dy enw, pe buaset mewn byd heb neb ond dy hunan ynddo. Rhaid i mi adael heibio dyweyd am fy nyfais nesaf hyd dro arall.

(*Fw barhâu.*)

HOLIADAU JOHN BACH.



R aelwyd lân, ar lin ei fam,  
Mewn bwth yn nghŵr y coed,  
I son am Dduw eisteddai John,  
Sef plentyn pedair oed;

Gofynai 'n syn, "Pa ffordd yr awn  
At Dduw i'r nefoedd fry?"  
A d'wedai 'r fam mai Iesu Grist  
Yw 'r unig ffordd i'w dŷ.

"Ond," meddai John, "os Iesu Grist  
Yw 'r ffordd i fyn'd i'r nef;  
Pwy a'n cynnalïa ar ein taith?  
Mae 'n ddilys nad all ef."

"O," meddai 'r fam, "mae 'r Iesu mad  
Yn fara diball gwiw,  
I bob pererin ar ei daith,  
I hawddgar ddinas Duw."

"Os felly," meddai 'r bach, "p' le cawn  
Wisg gymhwys i'r fath le?  
Mae hon yn wisg dylodaidd iawn  
I'w dangos yn y ne'."

"Y wisg," be 'r fam, "ddigymhar yw  
Cyfiawnder Iesu Grist;  
Nid oes ragorach gwisg yn bod  
I bob pererin trist."

"Ond," meddai John, yn wylaidd iawn,  
"P' le cawn ni letŷ 'r nos,  
Neu lamp i'n tywys hyd y ffordd  
Rhag syrthio yn y ffos?"

"Yr Iesu eto," meddai 'r fam,  
"Yw 'r noddfa gadarn gref,  
A'r llusern oleu, ddysglaer, wiw,  
I deithio tua'r nef."

"Gan hyny," meddai 'r plentyn bach,  
"Pwy egyr ddrws y tŷ?  
Er mwyn i ni gael myn'd i mewn  
I'r etifeddiaeth fry?"

A d'wedai 'r fam, "Efe yw 'r drws,  
A'r drysor yn ddilai;  
Ar Brenin mawr,—mae oll yn oll  
I bawb o'r cyfryw rai."

Ac yna gwaeddai Johnny bach,  
"A ddewch chwi yno 'n awr?  
Mor annoeth ydym wrth ymdroi  
Mor hir ar hyd y llawr!"  
A d'wedai 'r fam, "Nis gwyddom ni  
Na 'r dydd na'r awr y daw  
Ein hanwyl Geidwad—Mab y dyn,  
Awn adref yn ei law."

E. ROBERTS.

MYFI YW ALPHA AC OMEGA, Y  
DECHREU A'R DIWEDD, Y CYNTAF A'R  
DIWEDDAF.—DADGUDDIAD xxii. 13.

## ADNABOD EIN GILYDD YN Y NEFOEDD.\*

**M**AE rhai yn dyweyd na byddwn yn adnabod ein gilydd yn y nefoedd; ond tybiwn i fod y fath syniad yn groes i reswm ac Ysgrhythyr. Pa synwyr sydd yn y meddwl y byddwn yn ddyeithriaid i'n gilydd yn y lle bendigedig hwnw? Ac onid yw y gymdeithas agosaf, a'r adnabyddiaeth lwyraf, yn cael eu cynnwys yn yr enwau sydd yn y Bibl ar y nefoedd; sef, tŷ, cartref, teulu, plant, a'r cyffelyb?

Na, nid oes un ammheuaeth na chawn weled ac adnabod ein gilydd yno. Cawn weled ein hen dad Adda, a'r hen fam Efa, mor gynted ag yr awn yno; ac ni byddaf yn dysgwyl eu gweled yn hynach eu golwg na'r baban diwrnod oed ddygwyd yno yn mrelchiau yr angelion. Cawn weled Noah, Abraham, Job, Dafydd, a Daniel, a'r tri llanc yno—ie, yr holl frawdoliaeth fawr i gyd.

Dychymygwn y mynyd yma glywed dau frawd a aethant yno o wlad y cystudd mawr yn cyfarch eu gilydd,—“Mae yn wir dda genyf dy weled, Dafydd; dyma ni wedi cyrhaedd adref yn ddiogel, onidê, er gwaethaf rhwystrau a gelynyon.”—“Ie, yn wir, William,” meddai y llall, “a'r peth cyntaf darawodd fy meddwl i wedi dyfod i mewn trwy y pyrth, yw yr hen adnod hono, ‘Ni welodd llygad, ac ni chlywodd clust, ac ni ddaeth i galon dyn y pethau a ddarparodd Duw i'r rhai a'i carant ef.’”—

“A welaist ti J—— W—— yma yn rhywle?”

“Naddo yn siŵr; ac yr oedd Gabriel yn dyweyd wrthyf ychydig fynydau yn ol, na ddaeth yma.”

“Yr oeddwn i yn dysgwyl ei gyfarfod ef yma.”

“Felly finnau. Mi welais Betty o'r Pentre, oedd yn arfer dyfod i'r addoliad wrth ei dwy sffon; mae mor hoew a'r hydd. Anfonodd yr Arglwydd Iesu ddau angel ddoe i edrych am ei gŵr; mae wedi clafychu i ymadael, a bydd yma yn fuan. Dacw Moses, a Paul, a Pedr, yn siarad â'u gilydd—yr wyt wedi bod yn ymddyddan â hwynt, onid ydwyf?”

“Ydwyf, droion, ac y maent mor siriol a gostyngedig a phlant. Wyddost ti, Dafydd, o holl ryfeddodau y nefoedd, nid wyf fi wedi bod yn synu mwy at ddim nag ataf fy hunan!

‘Pechadur oedd unwaith mor ddu,  
Yn adyn llygredig a thlawd;  
Cael rhedeg trwy ganol y llu  
At Iesu, gan ddywedyd, Fy Mrawd!’

Ond nid oes raid i angelion gywilyddio fy ngweled heddyw—diolch i Iesu Grist am hyny.”

“Yn wir, yr wyf fi yn teimlo blys arnaf finnau i fyned dros yr hen bennill—

‘Diolch iddo  
Byth am gofio llwch y llawr!’

\* Yr oedd ysgrif Mair yn rhy hir a chwmpasog. Yr ydym wedi casglu ei sylwedd, ac ychwanegu ychydig ati uchod.—GOL.

Ar hyn dyma lu o angelion yn myned heibio tua'r orsedd, gan dduwyn enaid rhyw eneth fach, dduwiol, oedd newydd farw; ac amneidiasant ar y ddau gyfaill i fyned gyda hwy i gydganu anthem o foliant i'r hwn oedd yn eistedd ar yr orseddfainc. Ddarllenydd anwyl! gad i ninnau fynéd yno!

MAIR MOX.

### LLYFRAU NEWYDDION.

[BYWGRAFFIAD Y PARCH. T. RICHARDS, ABERGWAEN, gan y Parch. E. MATTHEWS. J. Rosser, Abertawy.]

**B**YDD yn dda gan filoedd yn Nghymru weled a darllen hane yr enwog Richards, Abergwaen. Y mae yn awr ger ein bron mewn cyfrol wythplyg hardd, yn cynnwys oddentu tri chan a hanner o du dalenau. Nid oes anghen dyweyd fod y llyfr y ddifyr a darllenadwy, a bod llawer iawn o "Tommy Richards wedi ei gadw i'r oes a ddaw ynddo. Nis gallwn roddi adolygiad mawr o hono yma, ond yn unig alw sylw ein darllenwyr ato. Mae gwaith hwn, fel pob gwaith o'i eiddo, yn llawn o'r awdwr. A pha fyddo y darllenydd yn colli Thomas Richards, bydd Edward Matthews ganddo yn ddigamsyniad. Un peth hynod a'n tarawod yw, cael o hyd i'r cynnwysiad ar ddarn o ddalen yn nghanol llyfr. Rhoddwn y dyfyniad bychan a ganlyn, a gobeithio y cymiloedd o famau Cymru wers ddifrifol oddiwrtho:—

THOMAS RICHARDS, ABERGWAEN, A'I FAM.

"Bydd rhai yn meddwl fod gan Ragluniaeth Ddwyfol yn aml, pa fydd ganddi ryw waith mawr i ddyn wneyd, yn gofalu am fam gymhwys i gynnorthwyo i'w gaboli. Y mae rhywbeth yn hyn yn sicr hebl dychymyg. Y mae y fam gyda'r plant yn wastad. Ac heblaw hyn mae rhywbeth toddedig, cariadus, hynaws, yn nhymer benyw dda, y gwneyd calonau a theimladau y plant yn dyner, nes y mae yn gallu rhargraff arnynt nad anghofir byth. Yr argraff hono a wneir mewn ciad pur, mae yn aumhosibl ei dilëu: mae wedi myned yn rhan o'r de ei hunan; rhaid dinystrio ei fod cyn y gellir diddymu yr argraff. Gsododd Hannah Richard argraff annilëadwy ar feddwl ei mab; yr oes yn ei gof a'i deimlad hyd ddydd ei ymddattodiad. Byddai ei gofal i ei phlant yn angerddol; cyngorai hwynt yn aml â dagrau, a gweddio yn ddibaid drostynt yn ddirgel a chyhoedd,—canyis bob amser pan byddai Henry Richard (y tad) gartref, byddai Hannah Richard yn y gymeryd â'r offeiriadaeth (gweddio yn deulnaidd), ac yn offrymu miant i Dduw drosti ei hun a'r teulu. Yn yr amgylchiadau hyn, bydd yn gweddio tros ei phlant gyda thaerni rhyfeddol. Ië, gweddio nes gadawodd argraff ar eu meddyliau byth mai gweddiau gwirionedd oeddent, ac i'r Nefoedd ei hateb yn eu hachubiaeth, ac yn y defny rhyfeddol a wnaed o honynt gyda gwaith yr Arglwydd mewn blynyddau dyfodol. Ymdrechodd lawer gyda Tommy, oblegid ei fod yn fachg

drwg. 'Llawer gwaith y bu fy anwyl fam,' meddai, 'yn wylo dagrau uwch fy mhen am dd'od gyda hi i'r *society*, a minnau yn gwrthwynebu ar wastad fy nghefn ar y llawr, fel y mae y dylluan yn arfer ymladd, yn llawn llid a chynddaredd.' Cafodd hyn argraff annhraethol ar ei feddwl, ac arosodd gydag ef am ei oes."

["DIM AMSER I'W GOLLL"—TRAETHODAU I'R BOBL. RHIF. I, *gan y Parch. DANIEL ROWLANDS, A.M. Llanidloes: R. Mills. Pris tair ceiniog.*]

“DIM amser i'w golli” yw teitl y traethodyn hwn, a gwna y neb a'i darlleno yn ystyriol ddefnydd rhagorol o'i dair ceiniog. Hysbysir yr amcenir dwyn allan nifer o draethodau ar y cynllun hwn, wedi eu hysgrifenu gan weinidogion y Methodistiaid Calфинаidd, er meithrin ysbryd darllen, ac adeiladu y bobl mewn gwybodaeth a chrefydd. Arwydd er daioni yw fod crefydd yn ymallyd yn offerynoliaeth pwysig y wasg, i'w dwyn i ledann ei dylanwad. Nid oes un wlad wedi bod â'i gwasg yn fwy cysegredig i grefydd na Chymru. Ar yr un pryd, y mae ymhell iawn yn ôl o wneyd y defnydd a ddylai o'r gallu hwn i hwyluso ei symudiadau diwygiadol a chrefyddol. Ac nid yw ymhellach yn ôl mewn dim nag mewn mân draethodau pwrpasol, cyfaddas i'r lliaws. Dylai cyflenwad parhâus o draethodau fod yn perthyn i bob eglwys, i'w gwasgaru rhwng yr aelodau a'r gynnnlleidia, a dynion penodedig yn perthyn i bob eglwys at eu gwasgaru trwy yr ardal. Da iawn gweled y Cymry yn ysgogi yn y cyfeiriad hwn mewn amrywiol fanau. Ac y mae y traethawd sydd â'i enw uchod yn un tra phwrpasol i'r amcan y bwriedir ef. Mae wedi ei ysgrifenu yn eglur, yn syml, yn rymus, a difrifol; a byddai darlleniad cyffredinol arno yn sicr o esgor ar ganlyniadau dymunol.

### Y LLINYN WEDI TORI.

“CHYDIG o flynyddoedd yn ol, profesai offeiriaid Eglwys Babaidd Lisbon eu bod wedi cael gafael ar ddelw un o'r seintiau, ac yn uniongyrchol gosodwyd hi i fyny yn yr eglwys. Gofynid cwestiynau i'r ddelw, ac atebid hwynt ganddi trwy ysgwyd ei phen. Un tro gofynwyd, “Ai Don Pedro yw brenin cyfreithlawn Portugal?” Atebodd y ddelw trwy ysgwyd ei phen yn nacäol. Yna gofynwyd, “Ai Don Miguel yw brenin cyfreithlawn Portugal?” Atebodd y ddelw drwy ysgwyd ei phen yn gadarnhäol. Dro arall gofynwyd y cwestiwn blaenaf, ac atebodd y ddelw fel arfer. Ond wedi gofyn yr ail gwestiwn, nid oedd un ateb. Gofynwyd amryw weithiau, ond dim ateb. Gofynodd yr offeiriad drachefn yn nwydwyllt. Dim ateb; ond wele fachgenyn yn estyn ei ben allan trwy agoriad yn y *curtain*, ac yn dyweyd, “Yn wir, syr, nid arnaf fi mae'r bai, oblegid mae y llinyn wedi tori.” Dyma'r fath yw gwrthiau y Babaeth.

PROTESTANT.



## GWOBR Y PLENTYN.

**H**WY all ddyweyd teimlad yr eneth uchod wrth dderbyn y llyfr rhagorol yn wobwr am ddysgu ei gwersi, ac am ymddygiad da? Diwrnod i'w gofio byth yn hanes plentyn yw y diwrnod y derbyniwyd gwobr o'r fath. Mae rhywbeth rhagorol mewn llyfr hefyd fel gwobr. Os cewch wledd ddanteithiol o ymborth yn wobwr, bydd wedi diflanu yn fuan. Os ceir dilledyn yn wobwr, bydd hwnw wedi ei dreulio cyn hir. Os ceir arian yn wobwr, byddant wedi eu gwario toc. Ond wrth gael llyfr da, bydd hwnw yn aros; ac wrth ei ddarllen, bydd y wobwr o hyd yn cynnyddu. Cedwir y llyfr yn ofalus, ac mewn man amlwg, gan y plentyn dros ei fywyd. Bydd y perthynas, neu y cyfaill, neu y dyeithr fyddo yn galw, yn edrych arno, ac yn darllen yr ysgrif ar y dechreu,—“Gwobr i hon a hon gan hwn a hwn, am ddysgu y peth a'r peth, ac am ymddygiad da, &c.”

Anwyl blant, mae eich holl ymddygiadau yn dwyn gwobrau—da neu ddrwg. A welsoch chwi Jane Thomas yn cwmpo i'r nant echdoe wrth fyned tua'r ysgol, yn gwlychu ei dillad, ac yn anaft ei braich? Gwobr oedd hyny am anufuddhâu i'w mam. Yn oedd ei mam wedi dyweyd wrthi am fyned ar hyd canol y ffordd. A welsoch chwi y bechgyn yn cael eu cau i mewn yn yr ysgol amser cinio? Y wobwr oedd hyny am beidio dysgu eu llyfrau. A glywsoc chwi Dafydd y bach drws nesaf yn cael ei chwipio neithiwr? Dyna y wobwr am ddyweyd celwydd. A welsoc chwi Ruth Jones yn cael ei gosod yn athrawes yn yr ysgol dydd Sul? Gwobr oedd hyny am ei bod yn ferch mor dda. Glywsoc!

chwi am y bachgen a gymerodd y *Policeman* i'r carchar yr wythnos ddiweddaf? Dyna'r wobr am ladrata. Mae John Williams wedi cael myned yn *pupil teacher* i'r *British School*, ac yn cael pymtheg punt y flwyddyn o gyflog. Dyna wobr am ddysgu ei lyfr a bod yn fachgen da. Gwobr fydd y nefoedd hefyd, i blant da; a gwobr fydd uffern i blant drwg.

Mae y byd hwn, yn gystal a'r byd a ddaw, yn llawn o wobryon. Mae Iesu Grist wedi rhoddi adnod ar y pwnc. Meddyl-wch chwi am sawl a fynoch; yn ieuanc neu hen, yn gyfoethog neu dlawd, yn dda neu ddrwg, mae geiriau Crist, mewn rhyw ystyr, yn wir am danynt:

“YN WIR, MEDDAF I CHWI, Y MAENT YN DERBYN EU GWOBR.”

Y CARDOTYN AMDDIFAD.\*

**D**N cychwyn ar fore oer rhewllyd,  
 O'r preseb, neu letŷ yr ych,  
 Y mae y cardotyn amddifad,  
 Yn garpiog a thruan ei ddrych;  
 Mae 'n cerdded trwy ganol yr eira  
 Yn droednoeth a phen-noeth, diffawd,  
 A'r dagrau tryloewon yn treiglo  
 Dros ruddiau y plentyn tylawd.

Cyfeiria ei gamrau yn araf,  
 At balas boneddwr gerllaw;  
 Ond rhuthrodd y cŵn i'w gyfarfod,  
 Nes llanwyd ei fynwes â braw.  
 Aeth ymaith yn wag a chrynedig,  
 Mewn siomiânt, heb unrhyw fwynhâd,

(\* Mae ein cyfaill “Brwynog,” mewn llythyr cyfrinachol, yn cwyno fod ei ohebiaethau yn cael eu cadw cyhyd heb eu cyhoeddi, er eu bod wedi eu cydnabod ymysg y “Cymeradwy.” Dywed y dylem gymysgu mwy ar y gwych a'r gwael. “Dylech,” meddai, “roddi ‘Ceiriog’ heddyw, a ‘Brwynog’ yfory—‘Ceiriog’ i'r plant mawr, a ‘Brwynog’ i'r rhai bychain, &c. Mae llawer o'n gohebwyr caredig yn camsynied wrth feddwl y gwnaethau gwaelach y tro i blant. 'Does neb ffroena y gwych oddiwrth y gwael yn gynt na'r plant. Rhoddwch chwi amryw ddarnau o “Ceiriog” a “Brwynog” i dŵr o blant na fyddont yn gwybod dim am yr awdwyr, er gwneyd y prawf, a byddwch yn sicr o gael eich argyhoeddi. Hefyd, y mae genym rgeiniau o gyfansoddiadau ymysg y “Cymeradwy,” nas gellir eu cyhoeddi heb eu hail ysgrifenu, ac ail gyfansoddi llawer arnynt. Rhag digaloni ein cyfaill (ieuanc, dybygem), yr ydym wedi rhoddi pedwar o'i bum' pennill i mewn uchod. Ond costiodd i ni eu hail ysgrifenu, a chyfnewid amryw linellau. Gobeithio na feddylia ein bod wedi eu “spwylio” wrth hyny. Yr oedd dechreu un o'r pennillion yn hollol aneglur, gan y dywedid mai y cardotyn oedd yn cyfranu, fel hyn:—

“Aeth eilwaith at fwthyn mynyddig,  
 Ac yno 'r oedd cariad yn byw;  
 Cyfranodd o'r 'chydig, gan dd'wedyd,  
 Rhoi benthg yr ydwyf i Dduw, &c.”



Gan sibrwd, 'D oes neb gydymdeimla  
A phlentyn amddifad heb dad.

Trodd eilwaith at fwthyn mynyddig,  
Y man lle 'r oedd cariad yn byw ;  
Ca'dd damaid o'r 'chydig oedd yno,  
A d'wedwyd, " Rhown fenthyg i Dduw."  
Wrth fwyta y gardod, a thwymno,  
Yn nghwmni y plant bychain mād,  
Fe gofiodd yr amser bu yntau  
Yn anwyl ar aelwyd ei dad.

Chwi blant y "DRYSORFA," ymddygwch  
Yn frawdol at blentyn tylawd ;  
Na wawdiwch y bychan amddifad—  
Mae IESU GRIST iddo yn FRAWD !  
Gwybyddwch fod Duw, eich Tad nefol,  
Yn Dad yr un modd iddo ef ;  
A phan byddo marw, caiff fyned  
I gartref tragywyddol y Nef.

BRWYNOG.

### A WNEWCH CHWI ADDAW I'R ARGLWYDD!

**B**UOM trwy y nos yn ngerbyd y rheilffordd. Gyda thoriad dydd, mewn un safle, daeth boneddiges a geneth fechan brydferth i mewn atom i'r cerbyd. Gan fod y cerbyd yn o lawr cynnygiais iddynt ran o fy eisteddle, ac eisteddasant yn fy ymy Eisteddai dau ddyn yn union gyferbyn â ni, a gwelais fod hawddgarwch yr eneth wedi tynu llygad un o honynt; a gofynodd y rhyw hanner digrif,—

"Wel, Sis, sut yr ydych?"

"Rwy'n dda iawn; sut yr ydych chwi?"

Wedi syllu am dipyn yn ngwyneb y dyn, a'i sirioldeb wedi cyrrychu ychydig o hydra ynddi, gofynodd iddo,—

"Oes merched bach genych chwi?"

"Oes un, oddeutu yr un maint a chwi," ebai'r dyn.

"A yw hi yn ferch dda?"

"Ydyw, weithiau."

"A ydyw yn ddrwg weithiau?"

"Ydyw."

"A ydych chi yn ei chwipio pan fyddo yn ddrwg?"

"Ydwyl."

"Mae yn ddrwg genyf hyny, yn ddrwg iawn," ebai'r eneth.

Wedi ychydig ychwaneg o gydymddyddan, gofynodd y boneddwr iddi fyned i eistedd ar ei lin; ac wedi i'r fam ganiatáu, ufuddhaodd yr eneth. Yr oedd y dyn yn hynod hoff o blant, ac yr oes y plentyn yn ddifyr yn ei gwmini. Yn y man aeth y ddau dd i siarad â'u gilydd. Gwrandawai y plentyn arnynt yn astud.

sydyn, neidiodd i lawr oddiar lin y dyn, ac aeth at ei mam; edrychai yn brudd, a dywedodd rywbeth yn nghlust ei mam. Yn fuan dechreuodd y dyn eilwaith edrych o gwmpas am y ferch, a synai weled ei gwedd wedi newid; yr oedd hefyd wedi myned braidd yn ddibris o'i gwestiynau. Gofynnodd yn ddifrifol,—

“Beth yw'r mater, fy ngeneth i? Yr oeddech yn dyweyd fod yn dda genych eistedd gyda mi. Pam yr ydych yn gwrthod siarad â mi yn awr?”

Dywedodd y fam, “Dywedwch chwi wrtho, fy anwyl, paham y daethoch oddiwrtho.”

“Am i chwi regu,” ebai'r eneth.

Yr oedd yn saeth i *falchder* y dyn, beth bynag am ei gydwybod, a theimlodd yn ddwys iawn oddiwrtho. Ymhen ychydig dywedodd,—

“Os deuwch yn ôl ataf, ni regaf eto.”

“A wnewch chwi addaw i'r *Arglwydd*?—yr oedd ef yn eich clywed,” ebai'r eneth.

“Gwnaf,” oedd ateb y dyn.

Aeth y ferch yn ôl i'w lin, ond yr oedd yn amlwg nad oedd yn teimlo yr un hyfdra ag ydoedd o'r blaen. Yr oedd wedi colli ei hymddiried ynddo.

Chwi ddyinion sydd yn anghofio Duw, cymerwch ofal rhag tramgwyddo un o'r rhai bychain hyn, canys o'r cyfryw rai y mae teyrnas nefoedd.

### Y BANC COLLI.

**W**RTH fod Mr. Reed yr adeiladydd yn dyfod i'r *yard* bore dydd Llun, cyfarfyddodd â George Joyce, un o'i weithwyr. Bachgen synwrol ydoedd, a gweithiwr medrus.

“Bore da i chwi, syr,” ebai George.

“Bore da i chwi, George,” ebai Mr. Reed; “yr oedd arnaf eisieu eich gweled heddyw yn arbenig, i ddyweyd wrthyhych am gamsyniad a wnaethoch dydd Sadwrn.”

“Mae yn ddrwg genyf glywed, syr,” ebai George; “nid wyf yn gwybod am ddim; gobeithio nad wyf wedi gwneyd drwg, syr.”

“Buasai yn dda genyf allu dyweyd nad ydych, Joyce, ond yr wyf yn ofni eich bod wedi gwneyd drwg—drwg i mi, a mwy na hyny i'ch gwraig a'ch plant, ac i chwi eich hunan; ac yn wir gallwn ychwanegu, drwg i'ch gwlad.”

“Nid wyf yn eich deall,” ebai George, gan edrych yn syn a dryslyd.

“Wel, mi ddywedaf fy meddwl yn eglur. Gwyddoch, Joyce, fy mod i yn dewis bod yn gyfaill i'm gweithwyr, yn gystal a meistr. Fel cyfaill, gan hyny, gwrandewch arnaf. Wrth fy mod yn dychwelyd adref nos Sadwrn heibio y *post office*, yr oedd nifer mawr o weithwyr a'u gwragedd yno, yn myned â chyfran o ennill yr wythnos i'r Banc cynilo; ac yr oedd yn llawen iawn genyf weled

amryw o fy ngweithwyr innau yn eu mysg. Ond wedi myned ymlaen ychydig, gwelais chwi ac amryw eraill yn troi i mewn i'r Banc colli, i osod eich cyflog ynddo. Mae yn bleser i mi bob amser dalu i'm gweithwyr yr arian y maent yn ennill trwy lafur caled; ond rhaid i mi addef mai yn anfoddog yr wyf yn talu i chwi, i fyned â'ch arian yno."

"Banc colli, syr? y *Red Lion* ydych yn feddwl. Troais i mewn yno am awr gyda chyfaill."

"Yr ydych chwi, Joyce, yn ddyn meddylgar. Gwn hyny wrth y modd yr ydych yn gwneyd eich gwaith. Ond a ydych chwi wedi bod yn *meddwl* am y pwnc hwn?"

"Dim rhyw lawer, syr, am wn i. 'Does dim llawer i'w feddwl, dybygwn i. Mae yn galed ar ddyn os na chaiff, ar ol gweithio wythnos faith yn galed, orphwys a mwynhâu ei hunan dipyn, heb gael edrych arno fel lleidr neu lofrudd."

"Wel, y mae mwy o ladradau a llofruddiadau yn cael eu cyflawni mewn tafarndai nag a ddaeth erioed o flaen Barnwr a rheithwyr; ond nid ydynt yn dianc sylw yr Hwn a ddywedodd, 'Yr hwn a gasâo ei frawd, lleiddiad dyn ydyw.' Mae ei lygad Ef yn gweled y wraig a'r plant, arian pa rai a ddygir yn greulawn oddiarnyt. Ond, a ddarfu i chwi erioed gyfrif gymaint ydych yn ei osod yn y banc hwn bob tro ydych yn galw?"

"Wel, ryw swllt, neu ddau, fel y dygwyddo," ebai Joyce.

Tynodd Mr. Reed ddalen a phensil o'i boced, rhoddodd hwy i Joyce, a dywedodd,—“Gadewch i ni yn awr edrych ar y pwnc yn deg, a gwneyd cyfrif manwl. Yr ydych yn rhoddi

Eich amser—ac yn ei golli.

Eich cymeriad—ac yn ei golli.

Iechyd eich corff—ac yn ei golli.

Nerth eich meddwl—ac yn ei golli.

Eich hannibyniaeth—ac yn ei golli.

Eich hunanbarch—ac yn ei golli.

Eich teimlad o ddrwg a da—ac yn ei golli.

Eich hunanlywodraeth—ac yn ei golli.

Eich cysuron cartrefol—ac yn eu colli.


Hapusrwydd eich gwraig—ac yn ei golli.

Iawnderau eich plant—ac yn eu colli.

Anrhydedd eich gwlad—ac yn ei golli.

Eich enaid eich hun—ac yn ei golli.

“Mae hyn yn llechres ddu,” ebai Joyce. “Ni feddyliais o'r blaen fod cymaint ynddi. Mae y colli diweddaf yna yn waeth na'r cwbl!”



NA DDIFFODDWCHE YR YSBRYD.  
—1 THESSALONIAID v. 19.

CYFRIF AC OEDRAN Y BOBL.

**B**YDD yn dda gan lawer yn ddiâu gael y ffeithiau canlynol ar gof a chadw am nifer ac oedran trigolion Cymru a Lloegr, y rhai sydd wedi eu cymeryd o'r cyfrifiad (*census*) a wnaed ar y pummed o Ebrill, 1861.

|                                                |            |
|------------------------------------------------|------------|
| Babanod dan flwydd oed .....                   | 593,721    |
| O flwydd i bum' mlwydd oed.....                | 2,107,061  |
| O bump i ddeg oed .....                        | 2,344,066  |
| O ddeg i bymtheg oed—bechgyn .....             | 1,059,889  |
| “ “ merched .....                              | 1,045,287  |
| Llanciau rhwng 15 ac 20.....                   | 957,930    |
| Merched “ .....                                | 947,712    |
| (Yr oedd o'r nifer uchod wedi priodi .....     | 29,719)    |
| Gwrywod o 20 i 30 .....                        | 1,594,497  |
| Benywod “ .....                                | 1,804,160  |
| Gwrywod o 30 i 60 .....                        | 2,947,534  |
| Benywod “ .....                                | 3,149,320  |
| Gwrywod o 60 i 80 .....                        | 641,212    |
| Benywod “ .....                                | 733,515    |
| Gwrywod uwchlaw 80.....                        | 47,260     |
| Benywod “ .....                                | 65,990     |
| Yr oedd yr holl boblogaeth dan 20 oed yn ..... | 9,082,666  |
| Yr oll o 20 oed ac uchod.....                  | 10,983,558 |
| Y cwbl .....                                   | 20,066,224 |



Y PENDEFIG A'R FFWL.

**R** ys blynyddau yn ol, byddai pendefigion yn cadw “ffwl,” neu ddyn digrif, er eu difyru a'u gyru i chwerthin. Unwaith rhoddodd pendefig ffon i'w ffwl, a dywedodd wrtho am ei chadw hyd nes y cyfarfyddai â ffwl mwy nag ef ei hun, a'i rhoddi i hwnw.

Ymhen rhai blynyddau, clafychodd y pendefig, a gwelid yn eglur fod ei angeu yn agos. Daeth ei ffwl ato un diwrnod, a dywedodd wrtho,—

“Yr wyf yn deall eich bod ar ein gadael. I ba le yr ydych yn myned?”

“I fyd arall,” ebai'r pendefig.

“Pa bryd y de'wch yn ol—ymhen mis?” gofynai y ffwl.

“Na ddeuaf.”

“Ymhen blwyddyn, ynte?”

“Na, ni ddeuaf yn ol byth, byth!”

“Ydych chwi wedi paratoi ar gyfer y daith?” gofynai y ffwl.

“Nac wyf, yn wir, wedi parotol dim!” ebai'r pendefig yn gyffrous.

“Wel, dyma y ffon i chwi,” ebai'r ffwl. “Myned i fyd arall i fyw byth, heb barotol dim ar gyfer hyny! 'Ffwm i erioed yn gymaint ffwl a hyna! Cymerwch y ffon!”



## DYDDANION.

### Y DRWS YN CHWILIO AM YR ALLWEDD.

**P**AN briododd Alexander, Iarll Kellie, Anne, merch Iarll Balcaras, yn ngwres ei gariad cyntaf, rhoddodd allwedd ei seler i'w gadw i'w wraig. Gwahoddodd yr Iarll ryw ddiwrnod gwmpeini o'i gyfeillion i ginio ato. Rhoddodd y wraig gymaint o win ar gyfer yr amgylchiad ag oedd hi yn feddwl a fuasai yn ddigon; a thra yr oedd y cwmpeini yn mwynhâu eu gwin ar ol cinio, aeth y wraig allan i edrych am wraig y gweinidog oedd yn byw gerllaw, ac allwedd y seler yn ei phoced. Yn y man darfu y gwin, a hysbyswyd gŵr y tŷ fod y seler dan glo. Gorchymynodd y gŵr i'r gweision dynu y drws yn rhydd, a myned âg ef ar ol y wraig; ac os gofynai rywbeth, am iddynt ddyweyd wrthi “fod drws y seler yn dyfod i chwilio am yr allwedd.”

### Y CHWECH YMYSG Y CEINIOGAU.

**P**R oedd hanner dwsin o ddynion tâl iawn wedi dygwydd cyfarfod mewn cwmniâeth yn ddiweddar, ac yn eu mysg ddyn bychan hynod o fyr. “Yn wir, Mr. Roberts,” ebai'r talaf wrth y dyn bach, “yr ydych mor fychan fel nad oeddw'n wedi eich gweled hyd yn awr.” “Digon tebyg,” ebai y bychan, “waith yr wyf fi yma fel darn chwe' cheiniog ymysg chwech o geiniogau copr, yn ddigon anhawdd fy nghanfod, ond yn gymaint o werth a'r cwbl.”

### SECTARIAETH RHYFEDDOL.

**G**WRTHODDODD boneddiges berthynol i'r Eglwys Wladol, er ys tro yn ol, dderbyn y frech (*cow-pox*) i'w phlentyn oddiar fraich plentyn i un o'r Wesleyaid. “Na, na,” meddai, “nid wyf yn caniatâu i neb wneyd Sectariaid o'm plant!”



## TRYSORFA Y PLANT.

RHIF. XXVI.]

CHWEFROR, 1864.

[CYF. III.

“NID WRTHYM NI Y MAE’N SIARAD.”

**D**EFNYDDIWYD y geiriau uchod, un bore Sabbath, gan fachgen bach pur ddeallus, wrth ei dad, o dan yr amgylchiadau canlynol. Yr oedd Mr. Rees yn pregethu, ac yn pregethu yn ei ddull goreu. Teimlai y tad yn ddwys iawn o dan y bregeth. Dygwyddodd iddo droi i edrych ar ei fab bychan ag oedd wrth ei myl yn y sêd, gan ddysgwyl y buasai yntau yn teimlo rhyw gymaint oddiwrth ddull bywiog y pregethwr, os nad oedd yn deall ei bethau. I’w fawr syndod, canfu y bachgen yn edrych yn ddigon didaro, yn troi tu dalenau y llyfr hymnau, ac yn chwilio am dônau ar eu cyfer. Gofynnodd yn lled sarug i’r plentyn, “Pam na wrandewi di ar Mr. Rees?” Yr ateb ydoedd, “Nid wrthym ni (hyny yw, *ni* y plant) y mae yn siarad.”

Pan adroddwyd yr amgylchiad wrthyf gyntaf, tarawyd fi ar unwaith gan wirionedd atebiad y bachgen, er nad oedd hyny mewn un modd yn cyfiawnhâu ei ddifaterwch. Y Sabbath canlynol dygwyddodd i mi edrych o’*m* cwmpas yn ystod y bregeth mewn capel mawr yn y dref hon. Cyfrifais fod tuag un ran o chwech o’r gynnulleidfa yn blant, ac edrychais i weled sut yr oeddent yn gwrando. Er fy mawr syndod, canfyddais fod rhai yn dystaw siarad â’u gilydd, rhai yn hanner cysgu, rhai yn darllen y llyfrau hymnau neu y Bibl, rhai yn yspio ar y llyfr *notes* yn y

nodiant newydd, a'u gwefusau yn eglur ddangos awydd cryf i fwmian y tónau, ac yr oedd dwy eneth fach yn y sêr nesaf ataf yn prysur ddarllen un o lyfrau bychain y *Tract Society*. Yr oedd y pregethwr yr holl amser yma yn pregethu yn fywiog anghyffredin, ac yn trin athrawiaethau pwysicaf yr efengyl; ond yr oedd yn hawdd canfod ar y plant eu bod yn credu athrawiaeth y bachgen bach crybwylledig, pan ddywedai, "*He's not speaking to us, father.*" Na, ni phregethodd Mr. Rees erioed, am a wn i, un bregeth i'r plant. Mae yn wir iddo lawer gwaith anerch yr ieuentyd, ond yr oedd ymhell uwchlaw cyrhaeddiadau y plant hyd yn nôd y pryd hwnw.

Yn awr yr wyf fi yn dymuno dyweyd ar eu rhan fod eisieu cael pregethau i'r plant yn awr ac eilwaith: na, nid "yn awr ac eilwaith," ond gyda chysondeb. Paham na siaredir wrth y plant yn y pregethau? Iê yn wir, paham na chynnelir gwasanaeth crefyddol yn gyfangwbl ar eu cyfer? Pan y mae Dr. E— ac eraill yn pregethu, ac yn egluro athrawiaethau mawrion yr efengyl, nid oes yn y bregeth ddim i'r plant. Annaturiol fyddai dysgwyl iddynt hwy ddeall yr hyn a draethir. Iddynt hwy y mae y cwbl yn ddifudd. Ond pe traddodid pregeth yn gyson i'r plant—y pennillion yn rhai y gallent hwy eu deall—y tónau yn rhai y gallent hwy eu canu—y bregeth a'r holl wasanaeth yn dyfod at eu cyrhaeddiadau, gellid dysgwyl lles mawr mewn canlyniad, nid yn unig i'r plant, ond i'r rhai mewn oed hefyd. Ac mi ddywedaf i chwi fy rheswm dros hyn. Cyn y gall neb wneyd peth yn syml ac yn ddealladwy i blant, rhaid iddo ddeall y mater yn *drwyadl* ei hunan: rhaid iddo weled ei fater o flaen ei lygad mor glir fel ag i allu ei bortreadu yn beth byw o'u blaen. Wel, y mae plant mawr yn elwa ar bregethu fel hyn *cystal a phlant* bach. Gall dyn ymddangos yn bur ddysgedig trwy ddefnyddio geiriau mawr—*vague generalities* (cofiwch mai nid *wrth* y plant yr wyf yn siarad yn awr, ond *drostynt*, onidê ni fuaswn yn defnyddio geiriau fel hyn); a gall y bobl mewn oed dybied eu bod yn deall, a'r pregethwr dybied ei fod yn gwneyd y peth yn eglur. Ond cyn y gall plant gael budd, rhaid i'r pregethwr lwyr ddeall ei fater yn ei holl fân raniadau—deall yr holl fanylion; ac ond i bregethwr fod felly, y mae ei bregeth i'r plant yn rhwym o fod yn llesol hefyd i'r "plant o dyfiant mwy."

Ar ran y plant, gan hyn, yr wyf yn dyweyd y dylant gael pregethau cyson iddynt hwy yn arbenig. Y mae eisieu pregethu yr efengyl i'r plant yn gystal ag i'r rhai mewn oed.

Hwyrach y caf ddyweyd ychwaneg ar y modd i ddwyn hyn oddiamgylch eto. Ymfoddlonaf yn awr ar alw sylw at y mater. Beth, meddwch chwi, niloedd darllenwyr **TRYSORFA Y PLANT**, am y cynnygiad hwn o eiddo

Eich cyfaill serchog,

E. R!

*Liverpool.*

## BRASLUNIAU.

## RHIF. VI.

**M**AE gwrthddrych y braslun hwn yn ymyl cyrhaedd yr addewid o hŷd "dyddiau ein blynyddoedd," ac wedi eu treulio yn llwyr yn ngwasanaeth yr efengyl. Cafodd ei ordeinio yn ŵr ieuanc, mewn lle nodedig, ddeugain mlynedd yn ol; ac nid aml yw y gweision a wasanaethodd efengyl Crist yn fwy ffyddlawn nag ef yn y deugain mlynedd hyn. Nid oes Sŵr yn Nghymru, na llawer o gynnulleidfaoedd Methodistaidd, Cymreig na Seisonig, yn Nghymru na Lloegr, nad ydynt wedi bod yn mwynhâu o dan ei weinidogaeth.

Mae yn ddyn o faintioli ychydig mwy na'r cyffredin; gwyneb mawr, heb farf na chernflew; talcen cymedrol, oddiar ddau lygad bychain, a'i wallt llwyd yn prysur deneuo ar ei goryn. Mae ei wyneb yn gwisgo trem neillduol o arbenig. Ni chafodd nemawr o gystuddiau corfforol yn ei fywyd, ac y mae ei gyfansoddiad yn dal yn hynod gryf a hoew.

Mae yn dal mor ymroddgar yn ei waith a'i lafur gweinidogaethol ag y bu erioed. Cyfansodda fwy o bregethau newyddion na neb y gwyddom ni am dano. Ni theimlai yr un baich i gyfansoddi dwy bregeth bob wythnos, ond ystyriai orfodaeth i hyny yn bleser. Nid yw byth yn ysgrifenu ei bregethau yn llawn; dim ond y rhaniadau, yr adraniadau, prif nodiadau, a'r adnodau. Bydd yn gadael y "llanw" i'w wneyd ar amser y traddodiad. Mae y dull hwn yn fforddio rhyddid mawr i'r pregethwr, mae'n wir, ond mae yn dibynu mwy ar yr ysbryd a'r hwyl na phan fyddo y bregeth wedi ei hysgrifenu yn gyflawn. Mae yn ddiammheu fod gan y gŵr parchedig hwn nifer mawr o *skeletons* pregethau ymysg ei baprau, a'u bod oll yn cael eu cadw yn ofalus. Yr hen Buritaniaid yw ei hoff awduron, ac nid yw yn darllen nemawr ar dduwinyddion Germany, na'r dosbarth o awduron Prydeinig sydd yn tynu ar eu hol. Hen ffordd dda duwinyddiaeth Galffinaidd y mae ef yn rhodio ynddi. Nid yw ychwaith yn hoff o ymhel â phynciau anhawdd a dyrys, na throedio yn agos at yr ymylau, ond yn hytrach rhodio ar hyd canol llwybr barn. Ceidw ei lyfrgell bob amser yn hynod o drefnus. Nid yw ei ford byth, fel y bydd gan lawer, yn bentwr plith draphlith o lyfrau, cyhoeddiadau, newyddiaduron, ac ysgrifau; na'r llyfrau ar yr estyll yn gorwedd yn annyben ar draws eu gilydd, a phentwr ar eu gilydd ar y llawr wrth y gwaelod. Na, na, nid allai wneyd pwt o waith tra byddai y peth lleiaf allan o'i le yn yr ystafell. Ni bydd dim ar y ford byth ond y peth fydd yn eisieu ar y pryd. Os bydd y **DRYSORFA, TRYSORFA Y PLANT, Cylchlythyr y Gymdeithasfa, a'r Patriot** ar y bwrdd, byddant wedi eu gosod yn daclus ar eu gilydd ar y naill gŵr, ac yntau â digon o gyloch penelin yn rhydd o'i gwmpas at ddefnyddio yr ysgrifell a'r ddalen wen sydd yn gorwedd o'i flaen. Ar yr estyll a'r *bookcase* o'i flaen mae cyfrolau



mawrion unplyg a phedwarplyg Dr. Owen, Goodwin, Manton, Charnock, Caryl, Howe, &c. ; a phob llyfr yn ei le, i drwch y blewyn. Byddai yn dda i gannoedd gymeryd gwera oddiwrth agwedd ei lyfrgell ; oblegid mae gwell calon a hwyl o'r hanner i weithio pan fyddo y ford, a'r silffoedd, a'r cwbl o gwmpas, yn gryno.

Mae gan y gŵr da hwn ei lwybr ei hun i ranu ei destun. Mae nodwedd y pregethwr yn cael ei amlygu i raddau helaeth yn y dull a gymer i godi y materion o'i destun. Rhaniad yr adnod yn gywrain a tharawiadol yw prif allu a rhagoriaeth ambell un. Dim ond cofio y rhaniad, bydd yn hawdd cofio meddwl yr adnod, a chofio hefyd y rhan fwyaf o'r bregeth. Bydd rhaniad y testun a'r materion yn hollol gyffredin gan un arall, a'r holl ragoriaeth yn y sylwadau a'r egluriadau a wneir ar y materion hynny. Yr hen ffrasiwn o ranu y testun yw yr un mwyaf syml a diafael. Pe cymerasid y testyn, "Syr, ni a ewyllysiem weled yr Iesu," y rhaniad fuasai,—1. Y gwrthddrych a nodir, "Yr Iesu." 2. Y cais a gynnwysir, cael "gweled yr Iesu." 3. Y modd y gofynir, "Syr, ni a ewyllysiem." Llwybr un arall fuasai nodi un pwnc allan o'r frawddeg, megys,—Mai y ffordd i gyrhaedd gwir argyhoeddiad yw, "gweled yr Iesu." Neu,—Mai y ffordd i gael gweled yr Iesu yw, trwy ymwasgu at y rhai sydd yn ei adnabod. Mae y dull hwn yn cael edrych arno yn fwy diweddar a chyfrifol. Ond pe buasai gwrthddrych y braslun hwn yn cymeryd y testun uchod, fel hyn y buasai yn ei ranu,—1. Yr Iesu yr oedd y Groegiaid am ei weled. 2. Y gweled oeddent am gael ar yr Iesu. Neu dyweder fod yr adnod hon yn destun,—“Canys bydded yn och y meddwl yma, yr hwn oedd hefyd yn Nghrist Iesu.” Yn ol y dull cyntaf,—1. Y gwrthddrych a nodir, “y meddwl yma.” 2. Yr hyn a grybwyllir am dano, ei fod “yn Nghrist Iesu.” 3. Y ddyledswydd a gymhellir, “Bydded yn och.” Yn ol yr ail ddull,—Mai meddwl yr un meddwl a Christ sydd yn gwneyd cristion. Ond y modd y rhanasai gwrthddrych yr ysgrif hon yr adnod yw,—1. Y meddwl yma a gymhellir ar y dynion. 2. Y dynion y mae y meddwl yma ynddynt. Os pregetha ar yr adnod hono,—“A Mair a gadwodd y pethau hyn, gan eu hystyried yn ei chalon ;” y sylwadau fydd,—1. Y modd y cadwodd Mair y pethau. 2. Y modd y cadwodd y pethau Mair. Nid ydym yn cofio clywed neb arall fedr gy mhwyso y dull gwrthdroadol hwn at bob testun mor gywrain a ef. Mae mor naturiol yn hyn hefyd, fel y gall arbenigrwydd eiddull fod yn anymwybodol iddo ei hun.

Mae ganddo feddwl parod yn ei waith, a thalent arbenig i yn adroddi. Mae gan ei ddwyllaw, ac yn arbenig ei ddeheulaw, rhabwysig yn nhraddodiad ei bregeth. Os bydd y gôt wedi eu chael—fel y bydd fynychaf ar ddechreu y bregeth—bydd y ddwyllaw y cael eu gwasgu yn aml aml ar y fynwes. Ac y mae taffiadau ddeheulaw yn hynod o hapus, ac yn galw i gof yn aml ysgogia deheulaw un o'r rhai anwylaf o'r tadau Methodistaid. Os bydd y llaw yn agored, ei thafu allan y bydd yn wastad ; ond os yn nghau, ac un bys yn estynedig, mae yr ysgogiad tuag i new

Er nad oes ganddo lais o'r mwyaf clir a soniarus, er nad yw yn gwaeddi, ac er na fu erioed yn meddwl am reolau areithyddiaeth a hyawdledd; eto pan saif yn syth uwch ben y dyrfa fawr, pan fyddo ei ysbryd mewn hwyl, olew ar y peiriannau, a gras ar ei wesusau, fel y bydd yn fynych, O mor weddaidd ei olwg, ac mor ddymunol ei wrando! Gwelsom ef lawer gwaith uwch ben y miloedd, wedi ei wisgo âg iachawdwriaeth, yn tywallt firwd o ymadroddion grasusol ar filoedd y Gymanfa fawr am ddeg o'r gloch ar y maes; gwên ar ei wyneb, ei ben yn ysgwyd mewn boddineb difrifol a mwynhäol gyda'i frawddegau, ei law yn ôl a blaen oddiwrth ben y bobl i boced ei wasgod, a'i thaffiad allan bob tro mor raslawn, ac yntau yn ymsymud bob rhyw hanner mynyd, gan droi ei wyneb bob yn ail at ddehau ac aswy y gynulleidfa, fel meistr y gynulleidfa yn nofio yn ysbryd ei waith. Nid oes neb mor ffyddlawn ag ef gyda holl fanylion y cylch y mae yn troi; a bydd bylchau yn y Gymanfa, y Cyfarfod Misol, a'r dosbarth cartrefol, pan êl Mr. — oddiwrth ei waith at ei wobr.



WRTH WEL'D YR HAUL YN MACHLUD.

GAN J. CEIRIOG HUGHES.



WRTH wel'd yr haul yn machlud  
 Mewn eurog dônog dân,  
 A mil o liwiau 'n dawnsio 'n deg  
 Ar fyrdd o dônau mân,—  
 'R wy 'n teimlo dwyfol wyddfod,  
 Shecina Natur yw,  
 Yn dadgan ei ogoniant Ef,  
 Yr Hollalluog Dduw.

Wrth wel'd yr haul yn codi  
 Yn loew lân ei bryd,  
 Addolaf Dduw 'n y deml dân  
 Sy 'n hongian uwch y byd.  
 Os gormod gwêdd yr heulwen,  
 I lygad marwol ddyw,  
 Fath ydyw ei ogoniant Ef,  
 Y Crëwr Mawr ei hun!

Ar godiad haul yn Nghymru,  
 Ce's lawer boreu gwiw,  
 Pan blygai 'm tad wrth ben y bwrdd,  
 I ddiolch am gael byw:  
 Caem eistefid yn y cysgod,  
 Tra 'r haul yn croesi 'r nef:  
 Mi gofiâf byth y weddi hwyr  
 Ar ei fachludiad ef.



### JOHN BACH A'R FWYALL.

“MAM, 'mam! dyna archoll!” gwaeddai Jane, pan dorodd John ei benlin â'r fwyall. Yr oedd ei fam wedi dyweyd wrth John am beidio myned â'r fwyall allan; ond anufuddhäodd yntau, ac aeth â hi allan heb wybod iddi.

Ni ddylai plant un amser ymhel âg offer peryglus. Gwelsom fachgen yn ddiweddar a dorodd ei fys ymaith wrth y bôn â'r fwyall. Tasgodd fel asglodyn ymaith oddiwrth ei law. Aeth bachgen arall â'r cryman allan; ac wrth chwareu âg ef, torodd wythen yn ei fraich, a bu agos iddo waedu i farwolaeth. Ychydig amser yn ol, cymerodd bachgen arall ddryll ei dad i lawr odditan y lloft, ac aeth i gymeryd arno yn gellweirus saethu y forwyn. Yr oedd ei dad, yn ddiarwybod iddo ef, wedi gosod ergyd yn y dryll y nos o'r blaen; felly aeth yr ergyd allan, a lladdodd y forwyn yn y fan. Gallem enwi lliaws o bethau dychrynlyd eraill sydd wedi dygwydd wrth fod plant yn chwareu âg offer peryglus.

Edrychwch ar John yn y darlun. Pa sawl drwg a wnaeth wrth fyned â'r fwyall lem allan? Gwyddai nad oedd ei dad yn foddllawn. Gwnaeth yn groes i orchymyn ei fam. Torodd orchymyn pendant o eiddo Duw; oblegid dywed hwnw, “Y plant, ufuddhëwch i'ch rhieni ymhob peth.”

A beth ennillodd am wneyd hyn oll? Archoll poenus a pheryglus ar ei benlin, yr hwn a'i cadwodd heb allu cerdedd am wythnosau.

Anwyl blant! cofiwch nad oes dim i'w ddysgwyl ond archollion wrth anufuddhâu i rieni, a thori gorchymynion yr Arglwydd.

NETTIE, A'I MAM, A'R BABAN.

**H**WECH mlwydd oed oedd Nettie, a'r baban yn flwydd oed. Johnny oedd ei enw, ac yr oedd ganddo bedwar dant can wyned a'r ifori wedi gwneyd eu hymddangosiad. Yr oedd yn gallu dyweyd "Mam," a "Det" am Nettie ei chwaer. Yr oedd yn gallu cripiar ar ei fol ar hyd y parth yn gyflym, ac yn cerdded ychydig gyda'r celfi. Yn America yr oedd y teulu yma yn byw, ac yr oedd tad Nettie wedi myned at y milwyr i'r rhyfel. O herwydd hyn yr oedd y fam yn dlawd, ac yn cael tamaid iddi ei hun a'i dau blentyn trwy hel am waith gwnio ar hyd y gymydogaeath. Un bore, wedi glanhâu y tŷ, a gosod pob peth yn gryno, dywedodd Mrs. Brown wrth Nettie,—

"A ydych chwi yn meddwl y gellwch chwi ofalu am y babi, fy merch i, tra fyddwyf fi yn myned allan?"

"Gallaf, 'mam; a ydych chwi yn myned i'r farchnad?"

"Nac ydwyf, ddim yn awr, fy merch i, ond fe allai y byddaf yn hir cyn dychwelyd; chwi fyddwch yn ferch dda, oni fyddwch?"

"Byddaf, 'mam; ond peidiwch aros yn hir, mae mor unig yma."

"Fe allai bydd raid i mi aros, fy anwyl; rhaid i mi edrych am waith, onidê nis gallwn gael bwyd i ginio yfory."

"Wel, mi fyddaf fi mor dda ag y gallaf, 'mam, a gwnaf fy ngoreu i wyllo Johnny."

"Da 'nghariad i! Dyma fi yn taenu y blanced yma yn ddwbl ar y llawr, ac yn rhoi y glustog arni; os ä Johnny i gysgu, gorwedd-wch gydag ef fan hyn, a chenwch iddo i'w helpu i gysgu. Ac os bydd eisieu bwyd arno, dyma fara a llaeth yn barod ar y ford, a dyna fara ac ymenyn i chwi."

"O 'mam," ebai'r plentyn, gan dafu ei breichiau am ei gwddf i'w chusanu wrth fyned allan—"ydych chwi yn myned i aros yn hir? Mae ofn arnaf fi, dim ond ein dau, a ninnau mor fach!"

"Mae yn rhaid i mi fyned, Nettie fach; rhaid i chwi beidio ofni, nid ydych mor fach a'r adar yn eu nyth."

"Nac ydym."

"Wel, mae mamau yr adar bach yn eu gadael i fyned i chwilio am fwyd iddynt; a gwyddoch, waith yr wyf wedi darllen i chwi, fod ein Tad nefol yn gofalu am yr adar bach, ac y mae yn sicr o ofalu am danoch chwi. Rhowch gusan ffarwel i mi yn awr; byddwch yn ofalus am y babi, a byddwch yn gysurus nes delwyf fi yn ôl." Gyda hyn aeth y fam allan, a chauodd y drws ar y ddau blentyn.

Dygodd Nettie deganau y plentyn allan, a dechreuodd ei ddi-fyrn. Gwnaeth ddôl fach iddo hefyd o'i wisg nos, a siaradai â hi fel pe buasai blentyn byw. Wedi chwareu â'r ddôl, a'i gyru i gysgu, a'i gosod i orwedd ar y gobenydd, pan oedd Johnny yn dechreu blino arni, cyrhaeddodd Nettie ddarlun o'un o'r brwydrau oedd ar y mur, a dangosodd lun ei thad arno, a pha rai oedd y milwyr drwg, a pha rai oedd y rhai da. Cyn hir yr oedd y babi wedi cael digon ar y cwbl, ac yn dechreu llefain, a Nettie druan

yn dymuno gweled ei mam yn dychwelyd. Dangosai lawer o amynedd hefyd, oblegid yr oedd ei mam wedi ei dysgu i fod yn dyner a goddefgar gyda'r plentyn; fod Iesu Grist wedi bod yn faban ei hun, ac y dylasem ninnau fod yn garedig wrth blant er ei fwyn ef.

O'r diwedd cysgodd Johnny, ond nid oedd cysgu ar Nettie. Gosododd ef i orwedd ar y blanced a'r gobenydd, a gosododd y *shawl* drosto; eisteddai hithau i edrych yn fyfyrgar arno, a meddwl y fath blentyn prydfferth ydoedd—y fath wallt modrwyog oedd ganddo—y fath dalcen gwyn llydan,—y fath amrantau mawr—y fath ruddiau cochion, a genau prydfferth. Tybiai mai tebyg iddo ef oedd Iesu Grist pan yn faban, ond ei fod yn llawer mwy prydfferth. "Buasai yn dda genyf," meddai wrthi ei hun, "pe buaswn yn byw yr un pryd ag ef; a phe buaswn yn chwaer fach iddo, buaswn i yn gofalu am dano. Ond mae 'mam yn dyweyd wrthyf mai iddo ef yr wyf yn gwneyd y cwbl a wnaif i'w rai bychain. Mi ofalaf, ynte, am Johnny bach, fel pe byddai yr Iesu."

Pan gododd Nettie o'i myfyrdod, yr oedd Johnny yn cysgu, y cwbl yn ddystaw, a theimlai hithau yn unig ac ofnus. Dymunai eto weled ei mam yn dychwelyd, a theimlai fod yr ystafell yn myned yn fwyfwy dystaw ac unig bob mynyd, a'r cloc yn myned i dician gryfach gryfach. Dechreuodd lefain (crio) yn ddystaw am dipyn; eto gwelai ei bod yn ffol, a sychodd ei dagrau, a cherddodd i ben arall yr ystafell. Ceisiodd ddifyru ei hunan i edrych ar ddarlun oedd uwch ben y *mantelpiece*. Darlun nyth adar bach ydoedd, ar ben coeden, a phedwar o bethau bychain ynddo â'u pigau yn agored yn ceisio bwyd, a llun y fam draw ymhell yn dyfod â bwyd iddynt.

"Mae yr Arglwydd yn dangos i fam yr adar bach pa le i gael bwyd," meddai Nettie. "Mae ef yn gwrando ar gywion y gigfran pan lefont. Mae yn fy nghlywed innau pan yn llefain am fy mam; ac fe allai, pe bawn yn gweddiö arno, y gwrandawai finnau, ac y cawn yr hyn wyf yn geisio." Yna penliniodd yn ymyl ei brawd bach, a dywedodd,—“Anwyl Arglwydd, bendithia fy mam, a rho ddigon o waith iddi, fel na fyddo mor dlawd; a gad iddi ddyfod adref yn fuan. Diolch i ti, anwyl Arglwydd. Amen.”

Yna cododd Nettie oddiar ei gliniau yn gysurus iawn ei meddwl, ac eisteddodd wrth y ffenestr i ddysgwyl dychweliad ei mam.

"Mae yn well cael Tad yn y nefoedd," meddai, "na chael tad ar y ddaear, achos gall Ef glywed yn y fynydd bob peth a ddywedwn wrtho."

Gyda hyn dihunodd ei brawd bach, a rhoddodd hithau ginio iddo o'r bara llaeth oedd yn y ddysgl ar y ford. Yr oedd teimladau y plentyn yn awr wedi adnewyddu, a dechreusant chwareu a rhempian ar hyd y tŷ. Yn nghanol eu dwndwr, agorodd y drws, a daeth y fam i mewn; ac yr oedd yn falch gael ei phlant mor gysurus. Yr oedd Nettie yn barod i wylo gan lawenydd.

"O, 'mam anwyl," meddai, "gobeithio fydd dim raid i chwi aros cyhyd oddiwrthym eto."

"Gobeithio na fydd, fy nghariad i, ac yr wyf yn credu hyny hefyd."

"Anfonodd yr Arglwydd waith i chwi, 'mam?"

"Do, fy merch i; anfonodd fi at ŵr boneddig, ac anfonodd hwnw fi at un arall, yr hwn sydd am i mi fyned i'r wlad i fyw i dŷ bychan o'i eiddo ef, a gwneuthur ymenyn iddo."

"O, 'mam! ydych chiwi yn myned?"

"Ydwyf, fy anwyl; ac yna cewch chiwi a Johnny bach redeg ar hyd y caeau gwyrddlas, yn lle cael eich cau fel hyn mewn ystafell gyfyng. Cewch gasglu blodau, a phorthi y cywion, a chwareu ar hyd glanau y nant, yr un fath ag oeddwn i pan yn blentyn. Yr oeddwn i yn ddedwydd iawn y pryd hwnw!" Llanwai llygaid Mrs. Brown o ddagrau pan ddywedai hyn, ond ni sylwodd Nettie arnynt.

"Mor dda yw yr Arglwydd," ebai y ferch fechan. "Nid oeddwn yn meddwl wrth weddio y buasai yn ateb mor fuan, ac yn rhoddi cymaint i ni!"

Yna dywedodd Nettie wrth ei mam am ei hofn, a'i gweddi fechan. Gwasgodd y fam ei phlentyn anwyl yn ei mynwes, a dywedodd,—“Yn wir, gallaf weithio, a pheidio diffygio byth mewn fydd nac ymarferiad, tra mae genyf y rhai bychain hyn i weddio droswyf!”



## FREDERICK O PRWSSIA A'I WAS.

ANAI Frederick, brenin Prwssia, y gloch un diwrnod i alw ar ei was i'w ystafell; a chan nad oedd neb yn ateb, aeth i'r ystafell arall i edrych am dano. Cafodd y gwas yn cysgu yn drwm mewn cadair freichiau. Dynesodd ato, ar fedr ei ddeffroi; ond cyn hyny gwelai lythyr yn hongian allan o'i logell; ac o gywreinerwydd, ymaffodd y brenin ynddo i weled beth ydoedd.

Llythyr ydoedd oddiwrth fam y dyn ieuanc, yn yr hwn y diolchai yn gynhes i'w phlentyn am anfon rhan o'i gyflog iddi i'w chynnorthwyo yn ei hadfyd. Terfynai y llythyr trwy sicrhâu iddo y gwnai yr Arglwydd ei wobrwyo am ei serch mabaidd. Cyfrôdd y llythyr deimlad y brenin, aeth yn ôl i'w ystafell, cymerodd oddiyno gydaid o aur, a gollyngodd ef a'r llythyr yn araf i boced ei was. Wedi hyn dychwelodd eilwaith i'w ystafell, a chanodd y gloch nes dihuno y gwas. Daeth y gwas i mewn; ac ebai y brenin wrtho,

"Cawsoch hûn felus!"

Ni wyddai y gwas ddim am yr hyn oedd wedi pasio, ac ni wyddai beth i'w ddyweyd i ymesgusodi. Yn ei ddyrswch, rhoddodd ei law yn ei boced, a tharawyd ef â syndod wrth deimlo pwrw â'i lonaid o aur ynddo. Gwelodd y brenin ei wyneb yn gwelwi. Tynodd y bachgen y pwrw allan, a dechreuodd wyllo.

"Beth yw hwna?" ebai y brenin.

“Mae rhywun yn ceisio fy ninystrio,” ebai'r gwas, gan syrthio ar ei liniau, a thystio nad oedd yn gwybod mwy am dano na'r marw oedd yn ei fedd.

“Fy nghyfaill ieuanc,” ebai'r brenin, “peidiwch gofidio; mae Duw yn fynych yn gwneyd pethau mawrion tra fyddom ni yn cysgu. Anfonwch y pwrw yna i'ch mam, a chyferchwch hi yn garedig dros of fi. Dywedwch wrthi hefyd nad oes raid iddi flino ynghylch ei bywioliaeth, y gwnaf ofalu am danoch eich dau.”

Fel hyn mae yr Arglwydd yn anrhydeddu y plant sydd yn ofalus am eu rhieni.

A. P.

---

PAN DDELWYF YN DDYN.

TON,—*Mae Robin yn Swil.*

**B**ACHGENYN tralodus wyf heddyw 'n y byd,  
Yn byw dan fygythion fy nghydradd o hyd;  
Er hyny mae cyfnod yn dyfod gerllaw,  
Na chaiff eu holl dwrw fy llanw â braw;  
Pan ddelwyf yn ddyn, pan ddelwyf yn ddyn,  
Mi gofiaf am danynt pan ddelwyf yn ddyn.

Cynghorion difrifol fy nhad a fy mam,  
Ynt euraidd gadwynau i'm cadw rhag cam;  
Gadawaf y cyfan, a rhodiaf yn rhydd,  
Heb unrhyw anghysur i'm gwneuthur yn brudd;  
Pan ddelwyf yn ddyn, pan ddelwyf yn ddyn,  
Gwnaf fil o orchestion pan ddelwyf yn ddyn.

Bydd genyf ddigonedd o arian i'w cael,  
I brynu a rhoddi i'r tlodion yn hael;  
Mewn llwyddiant a mwyniant y byddaf fi byw,  
Heb ofid na thrafferth yn bod o un rhyw;  
Pan ddelwyf yn ddyn, pan ddelwyf yn ddyn,  
Mor ddedwydd y byddaf pan ddelwyf yn ddyn.

Fe fydd genyf lyfrgell bob amser yn llawn,  
O waith yr awduron rhagoraf eu dawn;  
Er casglu gwybodaeth yn helaeth o hyd,  
Mor hapus a brenin mewn bwthyn bach clyd;  
Pan ddelwyf yn ddyn, pan ddelwyf yn ddyn.  
O gwawried yr adeg pan ddelwyf yn ddyn.

Rhoi cywir gyfarchiad, pe gallwn, yw 'm chwant,  
I anwyl ddarllenwyr TRYSORFA Y PLANT;  
Ac os byw a fyddaf, anrhegaf bob un  
A phennill bach eto pan ddelwyf yn ddyn;  
Pan ddelwyf yn ddyn, pan ddelwyf yn ddyn,  
Cewch bennill bach eto pan ddelwyf yn ddyn.

## PETER CARTWRIGHT A'R CYCHWR.

**P**REGETHWYR enwog perthynol i'r Wesleyaid yn America yw Peter Cartwright. Yn ol dim a glywsom, y mae efe eto yn fyw, ond yn hen iawn. Mae wedi gwneyd mwy i ledanu yr efengyl dros wastadedd America na neb sydd yn fyw, ac wedi dyoddef caledi anhygoel yn ei hachos. Yr oedd unwaith yn croesi afon Illinois mewn cwch, ac ymosodwyd arno gan y cychwr am ei fod yn groes i'r gaethfasnach. Yr oedd Peter yn ddiarebol am ei nerth. Cydiodd âg un llaw yn ngwegil y cychwr, a'r llaw arall yn ngwast ei drowser, a suddodd ef *splash* dros ei ben yn y dwfr, fel pe buasai faban. Ar ol ei godi ef i fyny, gofynodd Peter iddo,—

"A fuost ti erioed yn gweddio?"

"Naddo, erioed."

"Yna y mae'n llawn bryd i ti ddechreu."

"Ni weddiaf byth!" atebai y cychwr.

I lawr âg ef eto, *splash, splash*, unwaith ac eilwaith.

"Wel, a wnei di weddio yn awr?" gofynai Peter.

Gwaeddai y dyn, yr hwn oedd erbyn hyn ar golli ei wynt,—  
"Gwnaf unrhyw beth a ddywedoch wrthyf."

"Yna dilyn fi,—'Ein Tad, yr hwn wyt yn y nefoedd,' &c.; ac ar ol mlyned dros Weddi yr Arglwydd, gwaeddodd y cychwr,—  
"Gadewch i mi fyn'd yn rhydd bellach."

"Na chei am dipyn," ebai Peter; "rhaid i ti addaw tri pheth i mi yn gyntaf:—Ynlaenaf, y bydd i ti adrodd y weddi yma fore a hwyr tra byddi byw; yn ail, y bydd i ti fyned i wrando pob pregethwr Methodistaid a ddaw i bregethu o fewn pum' milldir i'r *ferry*; ac yn drydydd, y bydd i ti gludo pob pregethwr dros yr afon yma yn ddioll. A wyt ti yn addaw gwneyd hyn?"

"Yr wyf yn addaw, ar fy ngair," meddai y cychwr. A hynod yw dyweyd, daeth y cychwr hwnw yn ddyn da ac yn gristion dysglauer mewn canlyniad.

IOAN CAEREFROG.

## TARO YR HOEL AR EI CHLOPA.

**E**TH amryw foneddigion yn ddiweddar i ymweled â charchar Edinburg, gyda Mr. Charles, Ysgrifenydd yr Undeb er diwygio carcharau y wlad. Wedi cydymddyddan maith â Mr. Nelson, ialwydd y carchar, am y llwybr goreu er diwygio y carcharorion, dywedodd un o'r ymwelwyr (Golygydd y *British Workman*), "Mae yn ymddangos i mi mai y llwybr mwyaf effeithiol yw ceisio ennill y dosbarth gweithiol i ymgadw rhag diodydd meddwel." Atebodd Mr. Nelson,—  
"Ah, Sir, *dyna chwi wedi taro yr hoel ar ei chlopa*. Adwaenais i yr un dirwestwr erioed a fu y tu fewn i furiau y carchar hwn!"



## TON.—O NA BAWN FEL YR IESU.

Doh G. M. 88.

(BRADBURY.)

|    |            |                  |         |        |                    |                                 |
|----|------------|------------------|---------|--------|--------------------|---------------------------------|
| S. | {          | : s <sub>1</sub> | m : m   | r : m  | f : —              | m : r                           |
|    |            | 1. O             | na bawn | yn fwy | teb—               | yg I                            |
| A. |            | : s <sub>1</sub> | d : d   | d : d  | d : —              | d : l <sub>1</sub>              |
|    |            | 2. O             | na bawn | fel yr | Ie—                | su Yn                           |
| T. |            | : s <sub>1</sub> | s : s   | f : s  | l : —              | s : f                           |
|    | 3. 'R oedd | car—iad          | pur yr  | Ie—    | su Fel             |                                 |
| B. | {          | : s <sub>1</sub> | d : d   | d : d  | f <sub>1</sub> : — | f <sub>1</sub> : f <sub>1</sub> |
|    |            | 4. O             | na bawn | yn fwy | teb—               | yg Mewn                         |
|    | 5. Er      | mor an—          | nheb—yg | yd—    | wyf Yn             |                                 |

|                                 |                                 |                                 |                    |                    |                    |            |              |
|---------------------------------|---------------------------------|---------------------------------|--------------------|--------------------|--------------------|------------|--------------|
| {                               | d : d                           | r : r                           | m : —              | — : s <sub>1</sub> | m : m              | r : m      |              |
|                                 | f'an—                           | wyl Ie—                         | su                 | gwiw,              | Yn                 | llwyr gy—  |              |
|                                 | s <sub>1</sub> : s <sub>1</sub> | t <sub>1</sub> : t <sub>1</sub> | d : —              | — : s <sub>1</sub> | s <sub>1</sub> : d | d : d      |              |
|                                 | llwyr a—                        | nghof—                          | io                 | f' hun;            | Dyo—               | ddef—      | odd Ef farw— |
|                                 | m : m                           | s : s                           | s : —              | — : s              | s : s              | f : s      |              |
| mor—                            | oedd yn                         | ddi—                            | drai:              | O                  | na bawn            | deb—yg     |              |
| s <sub>1</sub> : s <sub>1</sub> | s <sub>1</sub> : s <sub>1</sub> | d : —                           | — : s <sub>1</sub> | d : d              | d : d              | d : d      |              |
| gwedd—                          | i i'r Ie—                       | su                              | mad;               | En—                | cil—               | iai Ef i'r |              |
| awr i'r                         | Ie—                             | su                              | mwyn;              | Ef—                | e oddi—            | ar ei      |              |

|                    |                                 |                                 |                                 |                                 |                    |                    |
|--------------------|---------------------------------|---------------------------------|---------------------------------|---------------------------------|--------------------|--------------------|
| {                  | f : —                           | m : r                           | d : m                           | r : t <sub>1</sub>              | d : —              | — : s <sub>1</sub> |
|                    | f' ein—                         | ioes I                          | wneyd e—                        | wyll—ys                         | Daw:               | Nid                |
|                    | d : —                           | d : l <sub>1</sub>              | s <sub>1</sub> : s <sub>1</sub> | s <sub>1</sub> : s <sub>1</sub> | s <sub>1</sub> : — | — : s <sub>1</sub> |
|                    | -ol—                            | aeth Er                         | mwyn hap—                       | us—rwydd                        | dyn:               | O                  |
|                    | l : —                           | s : f                           | m : s                           | f : r                           | m : —              | — : s <sub>1</sub> |
| idd—               | o, Yn                           | madd—                           | eu pob rhyw                     | fai:                            | Na                 |                    |
| f <sub>1</sub> : — | f <sub>1</sub> : f <sub>1</sub> | s <sub>1</sub> : s <sub>1</sub> | s <sub>1</sub> : s <sub>1</sub> | d : —                           | — : s <sub>1</sub> |                    |
| myn—               | ydd I                           | al—                             | w ar ei                         | Dad:                            | Yn                 |                    |
| or—                | sedd A                          | wren—                           | dy ar fy                        | nghwyn:                         | A                  |                    |

|         |         |                    |                                 |                                 |                                 |                                 |      |
|---------|---------|--------------------|---------------------------------|---------------------------------|---------------------------------|---------------------------------|------|
| {       | m : m   | r : m              | f : —                           | m : r                           | d : d                           | r : r                           |      |
|         | er ei   | fwyn ei            | hun—                            | an Y                            | daeth i                         | lawr o'r                        |      |
|         | d : d   | d : d              | d : —                           | d : l <sub>1</sub>              | s <sub>1</sub> : s <sub>1</sub> | t <sub>1</sub> : t <sub>1</sub> |      |
|         | na bawn | fel yr             | Ie—                             | su, Yn                          | llawn aw—                       | ydd—                            | fryd |
|         | s : s   | f : s              | l : —                           | s : f                           | m : m                           | s : s                           |      |
| fydd—   | ed yn—  | of                 | ddig—                           | ter, Nac                        | ar fy                           | ael un                          |      |
| d : d   | d : d   | f <sub>1</sub> : — | f <sub>1</sub> : f <sub>1</sub> | s <sub>1</sub> : s <sub>1</sub> | s <sub>1</sub> : s <sub>1</sub> |                                 |      |
| nghan—  | ol dwfn | ddys—              | taw—                            | rwydd, Heb                      | lew—                            | yrch ond y                      |      |
| chyn bo | hir caf | fyn—               | ed I'r                          | nef—                            | oedd sto                        | i                               |      |

|                            |                            |                                                      |
|----------------------------|----------------------------|------------------------------------------------------|
| m : —   — : s <sub>1</sub> | m : m   r : m              | f : —   m : r                                        |
| ne', Ond                   | llwyr a-berthu ei          | hun— an Dros                                         |
| d : —   — : s <sub>1</sub> | s <sub>1</sub> : d   d : d | d : —   d : l <sub>1</sub>                           |
| pur I                      | help—u plant go-           | fid—lau, Ac                                          |
| s : —   — : s              | s : s   f : s              | l : —   s : f                                        |
| gwg; Ni                    | wel—odd neb yr             | Ie—su Er-                                            |
| d : —   — : s <sub>1</sub> | d : d   d : d              | f <sub>1</sub> : —   f <sub>1</sub> : f <sub>1</sub> |
| ser, Y                     | mhell o swm y              | ddin— as, Mwyn-                                      |
| fyw, A                     | bod mor deb—yg             | idd—o Nes                                            |

|                                                                   |                                                         |                 |
|-------------------------------------------------------------------|---------------------------------------------------------|-----------------|
| d : m   r : t <sub>1</sub>                                        | d : —   — : d.r                                         | m : -.m   m : m |
| er—aill wnaeth Ef-                                                | --e. O na                                               | bawn i fel Ef-  |
| s <sub>1</sub> : s <sub>1</sub>   s <sub>1</sub> : s <sub>1</sub> | s <sub>1</sub> : —   — : s <sub>1</sub> .s <sub>1</sub> | d : -.d   d : d |
| ae-mwyth—au eu                                                    | cur. O na                                               | bawn, &c.       |
| m : s   f : r                                                     | m : —   — : m.f                                         | s : -.s   s : s |
| ioed mewn ty-mher                                                 | ddrwg. O na                                             | bawn, &c.       |
| s <sub>1</sub> : s <sub>1</sub>   s <sub>1</sub> : s <sub>1</sub> | d : —   — : d.d                                         | d : -.d   d : d |
| hái gym—deith—as                                                  | Nêr. O na                                               | bawn, &c.       |
| en—nill serch fy                                                  | Nuw. Caf, mi                                            | gaf fod fel Ef- |

|                 |                                                                     |                                                         |
|-----------------|---------------------------------------------------------------------|---------------------------------------------------------|
| s : —   — : f.m | r : -.r   r : m                                                     | f : —   — : m.r                                         |
| e, O na         | bawn i fel Ef-                                                      | --e, O na                                               |
| m : —   — : r.d | t <sub>1</sub> : -.t <sub>1</sub>   t <sub>1</sub> : d              | r : —   — : d.t <sub>1</sub>                            |
| s : —   — : s.s | s : -.s   f : m                                                     | r : —   — : s.f                                         |
| d : —   — : d.d | s <sub>1</sub> : -.s <sub>1</sub>   s <sub>1</sub> : s <sub>1</sub> | s <sub>1</sub> : —   — : s <sub>1</sub> .s <sub>1</sub> |
| e, Caf, mi      | gaf fod fel Ef—e,                                                   | fel Ef-                                                 |

|                                            |                                                         |                                                                   |                        |
|--------------------------------------------|---------------------------------------------------------|-------------------------------------------------------------------|------------------------|
| d : —   m : d.d                            | r : —   f : m.r                                         | d : m   r : t <sub>1</sub>                                        | d : —   —              |
| bawn i fel Ef—e,                           | O na                                                    | bawn i fel Ef—e.                                                  |                        |
| d : —   d : s <sub>1</sub> .s <sub>1</sub> | l <sub>1</sub> : —   d : t <sub>1</sub> .l <sub>1</sub> | s <sub>1</sub> : s <sub>1</sub>   s <sub>1</sub> : s <sub>1</sub> | s <sub>1</sub> : —   — |
| m : —   s : m.m                            | f : —   l : s.f                                         | m : s   f : r                                                     | m : —   —              |
| d : —   d : d.d                            | f <sub>1</sub> : —   — : f <sub>1</sub> .f <sub>1</sub> | s <sub>1</sub> : s <sub>1</sub>   s <sub>1</sub> : s <sub>1</sub> | d : —   —              |
| e, fel Ef—e,                               | Caf, mi                                                 | gaf fod fel Ef—e.                                                 |                        |

Y CWESTIYNAU GWOBWRWYEDIG.

3. **B**A ymborth y gwaherddid i Israel ei fwyta cyn y bummed flwyddyn yn gwlad Canaan?
4. Pa frenin a friodd lyfr Duw i'r tân, er ceisio attal cyflawniad yr hyn a ddywedai?



### UNCLE TOM A ST. CLARE

**U**WNAETH Eva fach i'w thad, St. Clare, brynu *Uncle Tom* pan oedd yn dyfod i fyny o'r llong dan gadwynau. Daeth Tom ac Eva yn ffryndiau rhyfeddol, ond bu Eva farw, a bu y teulu oll bron tori eu calonau ar ei hol. Wedi claddu Eva,

cymerodd yr ymddyddan canlynol le un diwrnod rhwng Tom a'i feistr caredig, St. Clare.

"O, Tom, fy machgen i," ebai St. Clare, yr hwn oedd yn gorwedd â'i wyneb i waered ar y *sofa*, a Bibl Eva yn agored o'i flaen, "mae yr holl fyd mor wâg i mi a phllisgyn ŵy."

"Fi gwn e, mas'r—fi gwn e," ebai Tom. "Ond O, ta mas'r dim ond edrych fyny—fyny, lle ma' Miss Eva—fyny at yr Arglwydd Iesu."

"O, Tom, yr wyf yn edrych i fyny; ond nid wyf yn *gwel* dim, dyna y golled. Byddai yn dda genyf allu. Mae yn ymddangos fod hyn wedi ei roddi i blant, a rhyw dlodion gonest fel chwi, weled y pethau ydym ni yn fethu. Pa fodd hyny?"

"Am i ti eu cuddio rhag y doethion a'r deallus, a'u dadguddio i'r rhai bychain," sibrydai Tom; "ie, O Dad, canys felly y rhyngodd bodd yn dy olwg."

"Nid wyf yn credu, Tom; yr wyf wedi arfer ammheu," ebai St. Clare; "yr wyf am gredu y Bibl, ond yn methu."

"Mas'r anwyl, gweddiwch ar yr Arglwydd, 'Yr wyf fi yn credu, O Arglwydd; cymhorth fy anghrediniaeth.'"

"Ai dychymyg ofer yw y cwbl?" ebai St. Clare. "A ydyw Eva ddim yn bod mwy? oes yr un nefoedd—yr un Crist—na dim?"

"O *dear*, mas'r, oes! fi gwn e—fi'n sicr o hono," ebai Tom, gan sythio ar ei liniau; "credwch, credwch e, mas'r anwyl."

"Ffordd ydych chi yn gwybod fod Crist yn bod, Tom? Welsoch chi erioed mo'r Arglwydd."

"Teimlo fe yn fy enaid, mas'r—teimlo fe 'nawr. A fi'n gwybod fod e'n fo'lon derbyn mas'r," ebai Tom, gan wylo yn hidl.

"Tom, yr ydych chi yn fy ngharu i," ebai St. Clare, gan wasgu ei law ef.

"Fi'n fo'lon rhoi mywyd 'lawr y fynyd yma, mas'r, am ych gwel'd chi'n Gristion."

"Fachgen tlawd, gwirion," ebai St. Clare, "nid wyf yn deilwng o gariad y fath galon."

"O Mas'r, ma' mwy na fi yn ych caru—ma'r Arglwydd Iesu bendigedig yn ych caru chi."

"Ffordd ydych yn gwybod, Tom?" ebai St. Clare.

"Teimlo fe yn fy enaid. O mas'r! cariad Crist yr hwn sydd uwchlaw gwybodaeth."

"Y fath beth rhyfedd!" ebai St. Clare, gan droi ymaith, "fod hanes dyn fu byw a marw er ys mwy na deunaw cant o flynyddoedd yn ol, yn cael y fath effaith ar feddyliau dynion. Ond nid dyn ydoedd," chwanegai yn sydyn; "fu y fath beth yn perthyn i ddyn erioed? O na allwn gredu yr hyn ddysgodd fy mam i mi, a gweddi fel yr oeddwn pan yn blentyn!"

"Os gwel mas'r yn dda darllen pennod," ebai Tom; "fi'n cael fawr darllen wedi i Miss Eva fyn'd." Y bennod oedd yr unfed ar ddeg o loan—hanes adgyfodiad Lazarus. Darllenodd St. Clare hi yn uchel, a Tom ar ei liniau o'i flaen, a'i ddwyllaw yn mhleth.

"Tom," ebai ei feistr, "y mae hyn oll yn *ffaith* i chwi!"

"Gallwn feddwl 'mod i yn ei gwel' d e, mas'r," ebai Tom."

"Buasai yn dda genyf fod â'ch llygaid chwi, Tom."

"Dymunwn gan Dduw na byddai, mas'r," ebai Tom.

"Ie, Tom," ebai St. Clare, "yr wyf yn gwybod mwy na chwi; beth pe dywedwn nad wyf yn credu y Bibl; a siglai hyny ddim o'ch ffydd chwi?"

"Dim gronyn, mas'r," ebai Tom.

"Pam, Tom; gwyddoch mai myfi sydd yn gwybod fwyaf."

"O mas'r, on'd ych chi wedi darllen ffordd ma' fe'n cuddio rhag y doethion a'r deallus, a dadguddio i'r rhai bychain? Ond d'o'dd mas'r dim yn difrifol 'nawr," ebai Tom yn bryderus.

"Nag oeddwn, Tom; nid wyf yn anghredu, ond yr wyf yn methu credu ar yr un pryd."

"Tai mas'r dim ond gweddio!"

"Ffordd gwyddoch chwi nad wyf fi, Tom!"

"Ydy' mas'r?"

"Mi weddiwn, Tom, pe bae rhywun i'm gwranddo; ond siarad â'r gwynt ydwyf pan fyddaf. Ond de'wch chwi, Tom, gweddiwch, a dysgwch y ffordd i mi."

Yr oedd calon Tom yn llawn; tywalltodd hi allan fel dyfroedd wedi eu hir groni; a theimlai St. Clare ei fod yn cael ei gludo gyda'r llif i ymyl y nefoedd.

"Diolch i chwi, fy machgen," ebai St. Clare, pan gododd Tom; "yr wyf yn hoffi eich clywed; ond ewch yn awr, a gadewch fi yn llonydd; siaradwn ychwaneg eto." Aeth Tom allan yn ddystaw.



### GEORGE BRUCE WILLIAMS, ABERDULAIS.

G ORCHFYGWYD gan anghen lân febyn dymunol,  
 E nwocaf ein dyffryn a roddwyd yn farwol;  
 O ddyddiau 'i fabandod, er maint oedd o'i garu,  
 R hyw arwydd o wiwder ddaeth i'w amgylchynu.  
 G orphenodd ei ddyddiau mewn heddwch mwyneiddlon,  
 E i enaid a gipiwyd gan fyrdd o angylion;  
 B yth, byth i gael canu yn ngwlad y telynau,  
 R hyw nodau pârseiniol o'r Dwyfol anthemau;  
 U wch, uwch y dyrchafa ei gân yn y nefoedd,  
 C ydgordia 'n ddiwedd â'r nefol ysbrydoedd:  
 E i Arglwydd fydd yno yn eistedd mewn gallu,  
 W rth orsedd y nefoedd bydd yntau 'n moliannu,  
 I draethu ei brofiad yn ngwydd yr angylion,  
 LL awn fydd o gymhwysder heb och ar ei galon.  
 I uchder gogoniant dyrchafwyd o'm golwg,  
 A 'i gorff ef a roddwyd yn mynwent LLANGATWG;  
 M ewn galar a thristwch i'r ddaear yn farwol,  
 S ymudwyd glân berlyn o linach urddasol.

W. G. LLEWELYN.

## HANES FY HUNAN.

## PENNOD IX.—DAU GWCH NEWYDD.

**I**N diwrnod, yn nghanol syn fyfyrddod, tarawodd i fy mhen, pe gallaswn gael cwch, y gallaswn eto ddianc o'm caethiwed, a hwylio allan i Brazil. Daeth y peth mor nerthol i fy meddwl fel nad oedd llonydd i'w gael oddiwrtho na dydd na nos. Nid oeddwn yn meddwl dim am beryglon y cyfryw anturiaeth, pe cawswn gwch; y rhyfyg fuasai i mi fentro allan i'r cefnfor gyda'r cyfryw ddarpariaeth, a'r perygl i mi syrthio i ddwyllaw barbariaid, os llwyddwn i ddianc bedd yn y dyfnder. Gwyddwn fod cannibaliaid, neu fwytawyr dynion, yn byw yn y parthau hyny, ac nad oedd genyf finnau unrhyw obaith am amddiffyn fy hun, os syrthiwn i'w dwylaw.

Aethum allan tua glàn y mor i edrych ar yr hen fâd oedd wedi ei dafu i fyny i'r traeth er ys blynyddau, yr hwn oedd agos â'i wyneb i waered, ac wedi ei hanner guddio gan y tywod. Pe buasai digon o ddwyllaw galleid gwneyd rhywbeth o hono. Ond buasai yr un fath i mi fy hunan i geisio troi yr ynys â'i gwyneb i waered, a cheisio syfilyd y cwch hwnw. Eto nid allwn ymattal rhag treio. Torais bolion mawr o goed, a llusgais hwynt i'r traeth. Cymerais fy mhâl bren, a chloddiais bwll dwfn o'r naill du; defnyddiais y trosolion i geisio syfilyd yr hen gwch; ond yr oedd mor ddiygog a Chadair Idris. Wedi wythnosau o lafur caled, rhoddais y dasg i fyny. Eto, fel yr oedd y gobaith am y cwch yn tywyllu, yr oedd fy awydd i'r anturiaeth yn mwyhâu.

Deliais i feddwl a dyfalu yn ddidor. O'r diwedd meddyliais a oedd dim yn bosibl gwneyd *canoe*, neu gwch wedi ei lunio allan o un goeden fawr, fel y rhai a arferid gan yr anwariaid. Tarawodd hyn fi fel peth posibl, a hawdd. Gwyddwn y costiai lafur anferth i mi; a daeth yr anhawsdra i'w gael at y dwfr ar ol ei wneyd i fy meddwl droion; ac er nad oedd un llwybr yn ymddangos i mi yn bosibl, eto tawelwn fy meddwl gyda dyweyd wrthyf fy hun, "Gad i mi gael ei wneyd yn gyntaf. Odid na ffeindiaf ffordd i'w *launchio* ar ol i mi ei gael yn barod."

Felly aeth fy ffansi yn drech na'm synwyr. Torais i lawr goeden anferth. Y mae yn ammheus genyf a gafodd Solomon ei bath i adeiladu y deml yn Jerusalem. Yr oedd ei thrawsfesur yn y bôn yn bum' troedfedd a deng modfedd; ac nid oedd ond troedfedd yn llai yn yr uchder o ddwy droedfedd ar hugain. Bum ugain niwrnod yn ei thori, a phythefnos wed'yn yn tori ei changenau aruthrôl i ffwrdd. Bum fis wed'yn yn llunio y tu allan, a thri mis yn naddu ceudod oddifewn. Yr oedd y cwch mwyaf o'r fath a welais erioed, ac yn ddigon i gludo chwech ar hugain o ddynion ynddo. Ac nid oedd dim yn eisieu bellach ond ei gael i'r dwfr. Ond aeth fy holl lafur yn ofer, oblegid nas gallaswn ei syfilyd mwy na syfilyd y bryn oedd gerllaw; ac yr oedd llawn cant o latheni rhyngddo a'r dwfr. Yr oedd ychydig o godiad tir hefyd rhyngof a'r dwfr; ond torais

hwnw, nes oedd goriwaered genyf; ond er hyny nis gallaswn ei gael fodfedd ymlaen. Bum yn meddwl tori camlas dwfn i gael dwyn y dwfr ato ef; ond wedi cyfrif, gwelais y costiai hyny lafur deg neu ddeuddeg mlynedd i mi. Felly, er mawr ofid calon i mi, gorfu i mi adael fy *nghanoe* ardderchog yn y fan y gwnaed ef, yn goggolofn o fy ffolineb yn ymgymeryd â'r fath orchwyl heb yn gyntaf fwrw y draul.

Pan oeddwn wrth y cwch hwn y cyrhaeddais ben fy mhedair blynedd yn yr ynys anghysbell ac unig, a chedwais ef mewn ym- prydd a gweddi. Mae fy syniadau ar y dydd hwnw yn newydd yn fy meddwl yr awr hon. Edrychwn ar y byd fel rhywbeth pell oddiwrthyf, a minnau wedi bod ynddo unwaith, ac wedi myned allan o hono. Yr oeddwn fel pe yn ei gofio o fyd arall. Yr oedd holl ddrwg a themtasiynau y byd wedi eu colli i mi. Nid oedd ynof "chwant y cnawd, chwant y llygad, na balchder bywyd." Nid oedd dim i mi i'w chwennych, oblegid yr oedd genyf bobpeth i'w mwynhâu. Yr oeddwn

Yn arglwydd ar welwn i gyd,  
Heb ungwr i ammheu fy hawl.

Gallaswn bellach godi llongeidiau o *yd a rice*. Heliwn ddigonedd o gigfwyd amrywiol. Yr oedd digon o goed wrth law genyf i adeiladu llynges o longau. Yr oedd genyf ddigon o rawnwin a ffrwythau i lenwi y llynges hono. Yr oedd genyf yn y drôr un bunt ar bymtheg ar hugain o arian; ond dyna y peth mwyaf diwerth a feddwn. Rhaiswn hwynt mewn mynydd am werth ychydig geiniogau o erfin neu foron, neu ddyrnaid o bibellau tybaco. Pe buasai genyf lonaid blwch o berlau, buasent lawn mor ddiwerth i mi yno.

Yr oeddwn wedi bod yno mor hir yn awr fel yr oedd llawer o bethau tra phwysig a feddwn yn treulio ac yn darfod. Yn un peth yr oedd fy inc ar ben, ac yr oeddwn wedi ei estyn gynifer o weithiau drwy gymysgu dwfr âg ef, nes yr oedd bron yn anweledig ar y ddalen. Yn rhagluniaethiol iawn, daliodd y *biscuits* hyd nes i mi godi bara i mi fy hun. Yr oedd fy nillad hefyd yn treulio yn brysur. Yr oedd genyf lawer o ddillad wedi eu haedub o'r llong nad allwn eu gwisgo, oblegid poethder yr hinsawdd. Yn fynych iawn ni fyddai genyf un math o ddillad am danaf ond crys. Yr oedd hyn wedi peri i mi dreulio fy nghrysau yn fwy llwyr na dim arall. Nis gallaswn fyned allan o fy nghaban yn noeth ar un cyfrif, er nad oedd neb i fy ngweled. Yr oedd gwres yr haul hefyd yn ormod i mi allu ei oddef ar y croen noeth.

Wrth weled fy nillad yn treulio, dechreuais feddwl am ryw lwybr i ddiwallu fy hunan â dillad. Yr oeddwn yn cadw crwyn yr holl grëaduriaid oeddwn yn ladd, ac at y crwyn hyn y trodd fy meddwl am ddefnyddiau. Yn awr dechreuais am y waith gyntaf ar orchwylion dweithr teilwriaeth. Wedi hir ddyfalu, a thori, a gwnio, a spwyllo llawer croen, gorphenais bâr o ddillad. Yr oedd y pâr yn cynnwys cap a chynffon iddo yn gollwng i lawr i fy

nghefn, gwasgod, a *breeches* hyd y benlin. Yr oedd y croen am danaf fel yr oedd am y creadur, a'r blew allan. Wedi i mi eu gwisgo, a gwneyd *umbrella* o'r un defnydd, er cadw yr haul yn gystal a'r gwlaw oddiar fy nghoryn, a throï allan ynddynt, yr oeddwn yn teimlo yn hynod falch o honynt, er y rhaid i mi gyfaddef fod gwaeth crefft arnynt na dim a ddaeth allan o'm dwylaw o'r blaen.

Nid oes genyf yr un amgylchiad o bwys i'w adrodd am y pum' mlynedd nesaf. Yr oeddwn yn cario ymlaen fywyd cyffelyb i'r un wyf wedi ei ddesgrifio. Yr oeddwn wrthi bob amser yn gwneyd rhywbeth, a'r unig gyndeithas oedd i mi i'w chael oedd cymdeithas â'm meddwl fy hun ac â Duw, fy Nghrëawdwr a'm Gwardwr. Yr oeddwn erbyn hyn wedi gwneyd *canoe*, neu gwch newydd, cyffelyb i'r llall, ond ei fod yn llawer llai; ac wedi tori camlas dwfn, chwe' troedfedd o lëd, a hanner milldir o hÿd, i gael ei nofio. Costiodd y llafur yma i mi ddwy flynedd o amser. Fy amcan yn y peth hwn oedd gwneyd mordaith o amgylch yr ynys. Ac erbyn diwrnod penodol, yr oedd genyf bob peth yn barod i'r daith. Yr oedd genyf hwyl ar ganol y cwch, blychau ymhob pen i gadw y nwyddau anghenrheidiol, lle pwrpasol wedi ei naddu yn ochr y cwch i gadw y dryll a'r powdr yn sych, ac *umbrella* mawr uwch fy mhen innau wrth y llyw, er cadw gwres llosgedig yr haul oddiwrthyf. Hyd ag yr wyf yn cofio, yn mis Tachwedd, yn y chweched flwyddyn o'm teyrnasiad, neu yn hytrach o fy nghaethiwed, y cychwynais ar y fordaith nodedig hon, yr hon a barhiodd yn llawer hwy na'm dysgwylad. Nid oedd yr ynys ond bechan; ond yn y naill ben iddi yr oedd cribyn o greigiau yn rhedeg ymhell i'r môr; ac wrth i mi fyned o amgylch y trwyn pellaf, rhedais i ffrydlif nerthol o fôr, yr hwn a'm dygodd ymaith, er fy holl ymdrech gyda'r rhwyfau. Gyrwyd fi i bellder dychrynllyd oddiwrth fy ynys. Yr oedd fy nerth innau wedi pallu; ac os dalai y nos fi, i guddio yr ynys o'm golwg, byddai pob gobaith drosodd, oblegid nid oedd genyf yr un cwmpawd yn y cwch. Ni themlodd un dyn erioed fwy o hiraeth am ei gartref nag oeddwn i yn deimlo am fy hoff ynys y pryd hwn. Yr oedd fy meddwl mewn cyffro a dyryswech annesgrifiadwy, a chredwn fod fy rhyfyg wedi fy arwain i ddinystyr. Yn ddisymwth, cododd awel fywiog o wynt yn chwythu tua'r lân, ac aethum innau allan o'r ffrwd oedd yn fy nwyn ymaith. Siriolodd fy nghalon, codais fy hwyl fechan i fyny, a chyda phwynt lledgroes, tynais tua'r lân. Mor gynted ag y cefais dir dan fy ngwadn, syrthiais ar fy ngliniau, a diolchais o'm calon i'r Arglwydd am y waredigaeth. Gadewais y cwch mewn cilfach yn nglân y môr, a cherddais ar fy nhraed ar draws yr ynys, gan dynu oreu y gallwn at fy nghartref. Ni cherddais nemawr cyn dyfod i'r lan y bum yndo dro o'r blaen, ac y meddyliais symud fy nghaban iddo. Brysiais at y cysgodlwyn, lle yr oeddwn wedi bod yn cysgu rai nosweithiau cyn hyn; ac wedi i mi helpu fy hunan âg ymborth, gorweddais i lawr i gysgu. Syrthiais yn fuan i drymgwsg, oblegid yr oedd arnaf ludded



mawr. A geill y darlennydd farnu y syndod a'r braw a ddaeth arnaf, pan ddeffröwyd fi gan lais yn gwaeddi uwch fy mhen—“Robert —! Robert —! Druan o Robert! Pa le yr wyt ti? Pa le buost ti?” Dychrynodd fy enaid drwyddo. Neidiais ar fy nhraed yn hanner hurt. Ond beth ydoedd ond “Poll” (y parot) wedi dyfod yno, nas gwn pa fodd, ac yn cyfarch ei feistr yn y brawddegau oeddwn wedi ddysgu iddo, ac fel yn llawen iawn i gael gafael ynof. Bum yn hir yn methu ymryddhâu o'r dychryn a gefais, er gwybod mai “Poll” ydoedd yn galw. Prysurais adref i'm castell, a dygais “Poll” adref gyda mi.

(*I'w barhâu.*)

### FY NHAID.

**P**W fy nhaid (tad-cu) oedd John Vaughan, neu, fel y gelwid ef yn gyffredin, Siôn Fychan. Gelwid ef yn aml hefyd Siôn Fychan Fach, i'w wahaniaethu oddiwrth gymydog iddo o'r enw Siôn Fychan Fawr. Cyfeiriad at faintioli y corff sydd yn y bach a'r mawr hyn. Dywedir fod fy nhaid yn disgyn o linach tywysogion Cymru. Beth bynag, codi cloddiau ceryg oedd ei alwedigaeth ef. Bydd Methodistiaid Llwyngwril (Sir Feirionydd) a'i hamgylchoedd yn edrych ar hen gloddiau Siôn Fychan gyda pharch a chysegredigaeth am oesau eto i ddyfod. Gellid meddwl fod rhywbeth nodweddiadol o'i grefydd a'i gymeriad ymhob clawdd, ac adwy, a phentan, o'i waith. Tra y cofir hefyd am ddechreuad Methodistiaeth yn mhentref gwladaidd Llwyngwril, fe gofir am enw Siôn Fychan, fel y prif offeryn yn yr amgylchiad.

Yn y Ceunant—cwm trwy ba un y rhêd yr afon Gwrl—yr oedd fy nhaid yn byw. Bum yn talu ymweliad y dydd o'r blaen â'r hen fwthyn adfeiliedig, lle y preswyliai. Nid oes yn yr holl fangre ond bythynod adfeiliedig, a'u preswylwyr wedi ymadael heb neb wedi dyfod i'w lle. Er dangos fod enw fy nhaid yn deilwng o'i goffa i ddarlleenywyr TRYSORFA Y PLANT, darllener y nodiad canlynol o'r gyfrol I. o “Hanes Methodistiaeth Cymru.”—“Fel enghreifftiau i osod allan iselder achos y Methodistiaid yn y fro yma, gellir crybwyll am ddau ŵr o'r un enw, a elwid, er mwyn eu gwahaniaethu, un yn Siôn Fychan Fach, a'r llall yn Siôn Fychan Fawr. Nid oedd y ddau ond tlodion iawn, eto ymddengys mai arnynt hwy ymron yn hollol y disgynai gofal a chynnalid yr achos dros ryw dymmor. Arferai y ddau ŵr tlawd hyn fyw am wythnos heb enllyn ar eu bara, er mwyn cynnilo ychydig o geiniogau i dalu costau ambell bregethwr tlawd a ddeuai atynt yn achlysurol. Ac nid oes ammheuaeth na fydd mwy o gyfrif yn cael ei wneuthur yn y farn o'u gwasanaeth, nag a wneir o orchestion y rhai a adeiladodd Rhufain, neu a ddarostyngodd Gaerdroia.”

Dyma un stori fach ddigri i chwi am fy nhaid. Yr oedd ef a chymydog arall unwaith yn gweithio ar làn môr Celynin. Yr oedd yn ddiwrnod hyfryd yn mis Mehefin, a hwythau ar y pryd yn eistedd yn fyfyrion ar dorlan yn ymyl y dŵr. Yn ddisymwth daeth pysgodyn mawr ymlaen atynt, gwthiodd ei ben anferth allan o'r dwfr, a chwythodd ysgŵd o ddwfr drostynt nes oeddent càn wlybed ag ysgadenyn. Dychrynwyd hwy yn ddirfawr; rhedasant ymaith nerth eu gwadnau, ac ni chlywais pa le y safasant i edrych yn ol.

Cymerai ormod o le i adrodd hanes llafur a ffyddlondeb Siôn Fychan, ei orchestion a'i ddyoddefiadau yn amseroedd helbulus dechreuad Methodistiaeth. Dynes rhagorol oedd Betty hefyd, gwraig Siôn. Ni fu pâr erioed yn byw yn fwy heddychol nag oeddent hyd yr amser yr ymunodd Siôn â'r Methodistiaid. Crefydd y Llan oedd crefydd Betty, a chwythai fygythion a chelanedd yn erbyn y Methodistiaid. Cuddiodd Betty het Siôn unwaith i geisio ei attal i fyned i wrando pregeth yr holl ffordd i Abermaw. Ond rhedodd Siôn ymaith yn bennoeth; a dywedai, wedi dychwelyd, y buasai yn well ganddo fyned heb ei gôt eilwaith na cholli y fath bregeth. Bob yn dipyn, collodd Betty beth o'i rhagfarn, a delai yn awr ac eilwaith i'r cyfarfodydd. Dymunai ei gŵr yn fawr ei gweled yn cael ei hennill yn llwyr, gan y buasai hyny yn hwylusdod mawr iddo. Un noswaith breuddwydiodd ei fod yn y capel, a'r lle yn orlawn o bobl. Dysgwyliai pawb rywun i mewn, gan gadw eu llygaid at y drws. Yn y man daeth boneddiges brydferth, mewn gwisg wenllaes, a choron ar ei phen, i mewn. Sibrydai ryw air yn nghlustiau y bobl, ond aeth heibio iddo ef yn ddisylw. Tybiai Siôn mai angel ydoedd, ond nid oedd yn foddllawn ei fod yn ei adael ef yn ddisylw. Beth bynag, wele ef o'r diwedd yn troi ato yntau, ac yn dyweyd, "Cymer gysur, Siôn; mi symudaf dy rwystr dithau yn fuan;" ac ar hyny diflanodd. Methai Siôn a dyfalu beth allai fod ystyr y breuddwyd. Ond nos drannoeth, fel yr oedd yn dychwelyd adref o'i waith, heibio y capel, clywai sŵn gorfoleddu. Erbyn myned i'r drws, pwy oedd yno yn uchaf ei llef, ond Betty. "O diolch!" ebai Siôn, gan gyduno yn y moliant, "dyma y breuddwyd wedi dyfod i ben, a'r rhwystr wedi ei symud!" O hyn allan bu Betty yn Fethodist o'r mwyaf zelog hyd ddydd ei marwolaeth.

Cyn gadael fy nhaid, rhaid adrodd un breuddwyd arall o'i eiddo. Ymhen blynnydoedd wedi sefydlu Methodistiaeth yn Llwyngwril, gwnaeth y tri enwad arall—Annibyniaeth, Wesleyaeth, a'r Bedyddwyr, eu hymddangosiad yno. Edrychai Siôn ar y rhai hyn gyda llygad drwg, a buont yn destunau pryder, ymchwil, a gweddi, iddo lawer gwaith. O'r diwedd breuddwydiodd ei fod yn cerdded mewn adeilad fawr orwych yn agos i Llwyngwril, yr hon oedd yn anferth o uchel, ac yn cael ei goleu gan liaws o lampau tanllyd. Yr oedd yno ddynion o bob graddau, a phawb yn brysur a dirifol. Clywai drwst taranllyd yn dyfod o ochr bellaf yr ystafell. Teimlai awydd myned allan, ond yr oedd rhywbeth yn ei wthio

ymlaen er ei waethaf. Erbyn dyfod yno, gwelai bedair melin o'r gwneuthuriaid mwyaf cywrain, a ffrwd o wenith yn disgyn i bob un o honynt. Trodd i weled a oedd blawd yn dyfod o honynt. Aeth at gafn y cyntaf, a chafodd bistyll o flawd; felly eilwaith gyda'r ail a'r drydedd. Ond pan ddaeth at gafn y bedwaredd, synwyd ef wrth weled ynddo fwy o flawd nag oedd yn y tair eraill ynghyd. Drannoeth adroddai Siôn ei freuddwyd wrth Betty, a cheisiai ganddi roddi deongliad; ond nid oedd yn deall dim am dani. "Wel," meddai Siôn o'r diwedd, "mi ddeuda i ti beth ydyw:—Y pedair melin yw y pedair sect sydd yn Llwyngwrl. Mae fod blawd ymhob un yn profi eu bod oll yn dda; ond y mae fod mwy yn un na'r tair eraill yn profi fod Methodistiaeth yn eu curo oll o ddigon. Dyma y breuddwyd a'i ddëongliad." Dilëodd y breuddwyd hwn holl ragfarn Siôn, a bu ar ol hyn ar y telerau mwyaf heddychlawn â'r enwadau eraill.


Ar brydnawn Sadwrn yn niwedd y flwyddyn, cerddai Siôn o dŷ i dŷ i rybuddio y bobl i barotoi erbyn y Sabboth, trwy ddarllen y Bibl, a hymnau Williams Pant y celyn, a gweddio. Yr oedd ei bryder yn fawr, a'i ysbryd yn nefolaidd. Dywedai wrth un fod ei wraig yn glaf, a'i fod yn ofni nas gallai ddyfod i'r capel bore Sabboth. "Ond dyna, mi godaf, os byddaf byw, i agor drysau y deml," meddai. Cyn pen hanner awr, yr oedd ysbryd fy nhaid yn y nefoedd. Cwmpodd i'r afon wrth fyned adref, a boddodd. Dyna foddion symudiad fy nhaid.

E. VAUGHAN.



## YR IUDEWON—BETH SYDD AR Y DRWS!

**I**UDEWON cyfarfod a gynnaliwyd yn Abertawy oddeutu mis yn ol, mewn cysylltiad â'r gymdeithas er taenu yr efengyl ymysg yr Iuddewon, dywedodd y goruchwyliwr, y Parch. John Wilkinson, y ffeithiau a'r sylwadau canlynol:—Mae oddeutu deng miliwn o Iuddewon yn awr yn wasgaredig dros wyneb y ddaear, a lliaws mawr o honynt yn troi yn y cylchoedd uchaf mewn cymdeithas, masnach, ac awdurdod. Mae deng mil o Iuddewon yn awr wedi eu bedyddio i'r ffydd Gristionogol (un o bob mil o'u nifer), ac y mae tri chant o honynt yn weinidogion yr efengyl. Nis gallaf lai na hysbysu, i chwi yr hyn sydd yn argyhoeddiad dwfn yn fy meddwl. Yr wyf yn credu fod cwmp Pabyddiaeth, fel cyfundrefn grefyddol, ar y drws; yr wyf yn credu fod cwmp Mahometaniaeth, fel cyfundrefn grefyddol, ar y drws; yr wyf yn credu fod rhyfel dinystriol, ar y drws; oblegid nid wyf yn credu fod y 38ain a'r 39ain o Ezeciel eto wedi eu cyflawni. A'r rhyfel yma, yn fy marn i, fydd yr arweiniad i mewn i'r mil blynyddoedd.



## Y FRONFRAITH.

**H**ENFFYCH, henfych, fronfraith fwyu,  
 Melus, melus ydyw swyn  
 Athrylith goeth dy gwafriol gerdd—  
 Ar oriel wych dy deml werdd;  
 Mae d' amrywiol, swynol seiniau,  
 Wedi hudo fy serchiadau;  
 Blentyn rhyddid diwahan—  
 Tant llawenydd—allor cân,  
 Cartref purdeb yw dy galon lân.

Llawer pêr aderyn fu  
 Yn dyhidlo cerddi cu,  
 Am gael iachâd, tra yn ymdroi  
 Rhwng bryniau 'n gwlad, ac yna 'n ffoi;  
 Ond mae tân ac yni 'r heniaith,  
 Yn d' acenion di y fronfraith;  
 Yn ngwyrddfrigau aml ri'  
 Cymru lân, mae' th gartref di;  
 Glyni bythol rhwng ei bryniau hi.

Mae dy bêr, fawliadol rin,  
 Yn sirioli 'm hysbryd blin,  
 Nes wyf yn canu bob yn ail,  
 A dawnsio gyda 'r rhôs a'r dail;  
 Henfych iti, bynciawl bencerdd,  
 O hwylusgaine dy felusgerdd—

Pêr ddyhidla odlau hedd,  
Megys gwin o'th fin neu fedd,  
Trwy fy mywyd byr, ac uwch fy medd.

R. A. JONES.

*Llanfachraith.*

(*Glan Alaw.*)

## Y FFORDD I ADFERU DYNION WEDI BODDI.

**M**AE cymdeithas o feddygon enwog y deyrnas wedi cymeradwyo y driniaeth ganlynol ar ddynion wedi boddi, fel yr un fwyaf effeithiol i adferu bywyd; a chan ei bod mor hawdd, dylid rhoddi yr hysbysrwydd helaethaf iddi. Mae y driniaeth yma yn dda hefyd mewn llewygfeydd oddiwrth awyr afiach, neu unrhyw gaethiwed gyddfol. Yn gyntaf oll, symuder y dillad gwlybion, a gwisger dillad cynhes mor fuan ag y byddo yn bosibl. Er rhyddhâu ffordd yr awyr i'r ysgyfaint, glanhâer y genau a'r ffroenau oddiwrth bob llaid neu ewyn. Tyner y tafod allan, a rhodder llinyn, neu *elastic band*, am y tafod o gwmpas yr ên, er mwyn ei ddal allan. Rhyddhâer y gwddf a'r ddwyfron o bob gwisgiadau, megys coleri, napcynau, neu *stays*. Gosoder y dyoddefydd ar ei gefn, gydag ychydig godiad i'r pen a'r ysgwyddau. Yna er mwyn èangu ceudod y ddwyfron, a thynu awyr i'r ysgyfaint, ymafler yn y breichiau, ychydig uwchlaw y penelin, a choder hwy yn araf nes cyfarfod â'u gilydd uwch ben y wyneb, a dalier hwy yno am ddau eiliad. Yna, i yru yr awyr allan, tröer y breichiau i lawr, a gwasger hwy yn dŷn yn erbyn yr ochrau am ddau eiliad. Dalier i godi a gostwng y breichiau fel hyn yn gyson, ryw bymtheg waith bob mynyd, hyd nes y gwelir ymgais i anadlu gan y dyoddefydd ei hun. Yna gellir ei osod mewn badd cynhes am bump neu chwe' mynyd, a chynnorthwyo yr anadliad eto gyda symudiadau y breichiau. Gellid cynhyrfu y gewynau anadliadol hefyd trwy dasflu dwfr oer a brwd bob yn ail ar y fynwes a'r wyneb. Ar ol adferu yr anadl, dylai gwres y corff gael ei gynnal gyda photeli a dwfr poeth, neu briddfeini poethion, neu y cyffelyb, o amgylch y corff a'r aelodau. Mae yr holl gyfarwyddyd mor hawdd, ac yn ymddangys mor rhesymol, fel y mae yn llawenydd genym ei gyflwyno i sylw ein darllenwyr.

## DYFAIS I ACHUB Y GERBYDRES.

**I**N Genoa (Italy) yn ddiweddar achubwyd *train* yn llawn o deithwyr rhag myned i ddynstr gan weithiwr tlawd mewn llwybr hynod. Yr oedd gwlawogydd mawr y nos flaenorol wedi cludo pont y rheilffordd ymaith, a'r gweithiwr hwn wrth fyned at ei orchwyl y bore oedd y cyntaf a'i gwelodd. Wedi sefyll moment mewn syndod i edrych ar y bont syrthiedig, trodd ei ben, a gwelai y *train* yn dyfod gyda'i gyflymdra arferol.

Rhedodd i fyny y rheilffordd, ac i gyfarfod y gerbydres, gan wneuthur pob arwyddion ar y gyrwr i stopio. Gwelodd y gyrwr y dyn, ond tybiai mai yn feddw yr oedd, a gyrai y peiriant ymlaen yn ei holl nerth. Gyda phresenoldeb meddwl rhyfeddol, gorweddodd y dyn i lawr ar draws y rheilffordd o flaen y *train*, gan feddwl y buasai y gyrwr yn stopio yr *engine*, cyn gyru drosto. Llwyddodd y ddyfais; tarawodd y gyrwr yr ager i ffordd, ac ysgrechai â'i chwibanog! ond daliodd y gweithiwr tlawd i orwedd ar y ffordd nes oedd y *train* yn ei ymyl. Ac ni wnaed ond ei hattal mewn pryd i'w hachub rhag syrthio bendramwnwgl i'r afon ddofn oedd yn yr ymyl. Pan ddeallwyd ymddygiad y dyn gwrol gan y teithwyr oedd yn y cerbydau, a gwybod fod eu bywydau oll wedi eu hachub ganddo, gwnaethant gasgliad iddo, ac anrhegasant ef eilwaith â *medal* o anrhydedd er cofiadwriaeth am yr amgylchiad.

Gosododd y dyn hwn ei fywyd mewn perygl er arbed bywydau eraill; ond gwyddost ti, ddarllenlydd, am Un, a hwnw yn neb llai na *Mab Duw*, a osododd ei fywyd i lawr i achub miliynau rhag coll-edigaeth. "*Canys Crist, pan oeddym ni eto yn weiniaid, mewn pryd a fu farw dros yr annwib!*" A wyt ti erioed wedi ei gydnabod am hyny?



DALEN I'R BEIRDD IEUAINC.

FE DDAETH O'R NEFOEDD.

**I**E ddaeth o'r nefoedd fry,  
Do, do fe ddaeth i lawr  
O blith cerubiaid fyrdd,  
I gwmni llwch y llawr;  
O'r purdeb perffaith llawn,  
At feiau heb eu rhi';  
A hyn i gyd er mwyn  
Ein hiachawdwriaeth ni.

E. B. ROBERTS (13 oed'.

Y BACHGEN AMDDIFAD.

AMDDIFAD wyf, medd plentyn bach,  
Ryw ddiwrnod wrtho 'i hun,  
Ac nid oes genyf ddim i'w wneyd  
Ond erwydro 'n wael fy llun.

Bu farw 'nhad, bu farw 'mam,  
Ac nid oes genyf fi,  
Ond wylo 'n unig uwch eu bedd,  
A cholli dagrau 'n lli.'

O! na, fy mhlentyn, gwranddo air,  
Mae 'th Dad o'r nef yn fyw,  
A sicr wyf y gwrendy ef  
Dy ocheneidiau gwiw.

A. B. Q.

## GWRÂIG RINWEDDOL.

Y GWR sydd mewn clydwch, caiff heddwch yn rhan,  
A dedwydd yw 'r plentyn a'i geilw yn fam ;  
Mae 'n gyflawn o rinwedd mewn sylwedd heb sen,  
Caiff glod ac anrhydedd a mawredd, Amen.

R. D. CLWYD.

## ADDFWYN IESU.

ADDFWYN Iesu, cynnal f'enaid  
Eiddil, egwan, llesg, a gwan ;  
Tyn fi â dy gariad perffaith  
Draw i Ganaan, hyfryd fan.

EOS FFRÄID.

## GAFÄEL AR GREFYDD.

O ARGŁWYDD dyro afael  
Ar grefydd yn ei grym,  
I gynnal f'enaid egwan  
Er llid gelynyion llym ;  
A maddeu fy anwiredd,  
Yn enw 'r Gŵr a roes  
Ei fywyd anwyl drosof,  
Ar arw bren y groes.

*Waenfaur.*

ROBERT HUGHES.

## BEDD SY BAROD.

BEDD sy barod, yno disgyn  
Y cryf a'r gwan, yr hen a'r plentyn ;  
Ond mae llygaid Duwdod arnynt,  
Cyfyd ete bawb o honynt.

EOS MELYN.

## CRIST YN DYODDEF.

EDRYCH a wnawn â golwg drist  
Ar Iesu Grist yn dyodde' ;  
Ond trwy ei boenau ef fe gaed  
Rhinweddol waed i faddeu.

*Waenfaur.*

ROBERT HUGHES.

## I'R BAND OF HOPE, &amp;c.

MAE 'r *Band of Hope* yn anwyl iawn i mi,  
Cynghorion buddiol gefais ganddi hi ;  
Gobeithio bydd ei haddysg tra fof byw  
I'm cadw rhag anghofio deddfau Duw.

CYMRO BYCHAN.

## LLUSERN YW DY AIE I'M TRAED.

LLUSERN ydyw gair yr Arglwydd,  
Dengys waelod aflwydd dyn,  
Dengys hefyd Feddyg iddo  
Drefnodd Duw o hono 'i hun ;

*Llundain.*

Dengys Iesu,  
Dyna ddigon i ni byth.

T. O.

GWAHODDIAD I'R YSGOL.

O DEUWCH oll i ddarllen  
Am ffordd a drefnodd Duw,  
Trwy roddi ei Fab i farw,  
Er achub dynolryw ;  
O de'wch a chredwch ynddo,  
Nac oedwch ddim yn hŵy,  
Rhag ofn i'ch golli 'r amser  
Na chaffoch gynnyg mwy.

W. ROBERTS (bachgen dall).

DYMUNO'R NEF.

DYMUNO 'r wyf, O Iesu,  
Am ddod i'r nef i fyw ;  
Dymuno 'r wyf yn amal  
Am fod yn caru Duw ;  
Dymuno, Arglwydd Iesu,  
Am galon newydd lân,  
A chartref yn y nefoedd  
'N lle myn'd i uffern dân.

*Llanrwst.*

BEATRICE.

BRON MYN'D I'M BEDD.

Y MAE y meusydd gwynion fyrdd,  
Dan urdd gan ffrwythydd addfed,  
A'r gerddi tag yn wych eu gwawr,  
Yn awr bob cŵr i'w gweled ;  
Ond yn fy ngwely 'n wael fy ngwedd,  
'R wyf fi o hyd, bron myn'd i'm bedd.

*Rhesycæ.*

AWENYDD IBUANC.

MAEW DROSOM

DAETH Iesu Grist, etifedd ne',  
I'r byd i farw yn ein lle,  
Naturiaeth bechadurus dyn  
O'i fodd gymerodd iddo 'i hun.

*Gaeveon.*

T. EVANS (Gwyneddwyn).



PREGETHWYR NEU YSGUBELLWYR.

**D**ID oes dim yn fwy dymunol na gweled dynion ieuainc cymhwys yn codi yn ymgeiswyr am y weinidogaeth. Ar yr un pryd y mae yn gofyn barn ac arafwch i brofi ac adnabod y cyfryw. Mae llawer un, oddiar amcanion da, wedi esgyn i'r pulpud, wedi siomi ei hun a'i gyfeillion, a dinystrio ei gysur a'i ddefnyddioldeb. Yn Lloegr er ys tro yn ol, yr oedd dyn ieuanc, gwneuthurwr ysgubelli wrth ei alwedigaeth, wedi amlygu dymuniad am fyned yn



bregethwr, ac nid oedd neb yn ammheu uniondeb ei amcan. Eisteddodd cynnadledd o swyddogion eglwysig ar ei achos, a hysbyswyd i'r dyn ieuanc y penderfyniad y daethant iddo yn y geiriau canlynol:—"Gyfaill ieuanc, yr ydym wedi chwilio yn fanwl i'ch cymeriad a'ch cymhwysderau. Credwn fod yr Arglwydd yn dysgwyl i'w weision lafurio mewn gwahanol orsaf-oedd. Mae yn galw rhai i'w wasanaethu trwy lafurio yn y weinidogaeth, ac eraill trwy wneuthur ysgubelli. Yr ydym ni yn unfrydol yn ein barn ei fod yn eich galw chwi i'w wasanaethu trwy wneuthur ysgubelli."

## DYDDANION.

### CYDWYBOD PLENTYN.

**G**ENETH ieuanc i bregethwr yn Morganwg, yr hon oedd wedi ei dysgu i gyfaddef ei holl bechodau wrth Iesu Grist, un diwrnod a dorodd badell i'w mam. Bu yn flin iawn am oriau oblegid y dygwyddiad. Yr oedd yn arfer gweddio ar yr aelwyd o flaen ei thad bob nos cyn myned i'w gwely. Ar ganol dyweyd ei gweddi y noswaith hono, agorodd ei llygaid, edrychodd i fyny i wyneb ei thad, a gofynodd yn ddystaw a gwylaidd,—“A ddywedaf fi am y badell, 'nhad?”

### EISTEDDFOD FACH Y PLANT.

**C**AWSOM ddifyrwrch mawr un diwrnod ar ol y Nadolig wrth weled tŵr o blant yn y gegin yn cynnal eisteddfod, gan ddynwarded y cyfarfod Nadolig. Yr oeddent mor ddifrifol ag y buont wrth un chwareu erioed. Bachgen saith mlwydd oed oedd y beirniad. Cystadleuaeth ganu oedd yn myned ymlaen tra fuom ni yn sylwi. Methodd i ni ddal wrth glywed Tom bach yn traethu ei feirniadaeth mor ddifrifol a barnwr ar ei fainc, ar ganu dau blentyn amryw flwyddi ieuengach nag ef ei hun. Fel hyn y dywedai,—“Dau wall gan Johnny a dau wall gan Morgan; ond gwanodd Morgan ei wall drwyddo. Rhaid rhanu y wobwr.” Yna rhoddodd ddau blocyn bychain tlyision oedd wedi gael yn siop (saer) ei dad i'r cystadleuwyr.

### ALL HI WAU?

**D**YGWYD geneth ieuanc o flaen James I, brenin Lloegr, i'w chyflwyno i'w sylw oblegid ei medrusrwydd anarferol mewn dysgeidiaeth. “Dyma hi,” meddai y gŵr oedd yn ei chyflwyno, “ac yr wyf yn sicrhâu eich mawrhydi, y gall siarad ac ysgrifenu Lladin, Groeg, a Hebraeg.”—“Yn wir,” ebai'r brenin. “y mae hyn yn beth dyeithr mewn merch mor ieuanc; ond, dywedwch i mi, a all hi wau?”



## TRYSORFA Y PLANT.

RHIF. XXVII.]

MAWRTH, 1864.

[CYF. III.]

### Y TADAU METHODISTAIDD.

II.—HOWELL HARRIS.

“Pan oedd Cymru gynt yn gorwedd  
 Mewn rhyw dywell, farwol hŷn,  
 Heb na *phresbyter* na 'ffeiriad,  
 Nac un esgob ar ddi-hŷn ;  
 Yn y cyfnos tywyll, pygddu,  
 Fe ddaeth dyn, fel mewn twym ias,  
 Yn llawn gwreichion goleu, tanllyd,  
 O Drefecca fach i maes.”

**D**YN hwn a ddaeth allan o Drefecca, yn llawn gwreichion goleu, tanllyd, oedd Howell Harris. Ganwyd ef yn Nhrefecca, yn Sir Frycheiniog, Ionawr 23, 1714. Yr un flwyddyn ganed Whitfield ; blwyddyn yn gynt y ganed Daniel Rowlands ; a hyspyswyd mlynedd cyn hyn y ganed John Wesley. Dyma y cewri i'r wŷr enwog gynt. Dyma brif offerynau un o'r diwygiadau mwyaf a fu erioed yn ein gwlad. Cychwynodd y cyffro diwygiadau yn Lloegr a Chymru yr un amser, heb fod y diwygwyr yn wybod dim am eu gilydd. Ni wyddai Wesley a Whitfield ddim am Rowlands a Harris ar y dechreu, ac ni wyddai Rowlands a Harris ddim am eu gilydd. Y mae hyn yn profi yn eglur fod yr un a'r arnyw Ysbryd wedi disgyn arnynt oddiuchod.

Mab i dyddynwr cyfrifol o Drefecca oedd Howell Harris, a'r ieuengaf o dri o fechgyn. Yr oedd wedi ei fwriadu i'r offeiriadaeth; ond pan yn ddeunaw oed, bu farw ei dad, a bu hyny yn rbwystr ar ei ffordd. Dechreuodd gadw ysgol i blant yn y gymydogiaeth. Yr oedd yn llanc digon gwyllt ac anystyriol; ond wrth wrando rhybuddion difrifol yr offeiriad yn eglwys Talgarth, pan oedd tuag 21 oed, aeth saeth i'w galon a ddygodd drallod dirfawr arno. Dyma y pryd y derbyniodd y wreichionen o dân nefol a chwythwyd yn wenfflam dros holl Siroedd Cymru. Yr oedd erbyn hyn, trwy gymhorth cyfeillion, wedi myned i Rydychain, â'i lygad o hyd ar yr offeiriadaeth; ond aeth ei gyffro argyhoeddiadol yn ormod i roddi llonyddwch i'w feddwl i fyned ymlaen gyda'i efrydiaeth. Dychwelodd adref, a bu mewn terfysg meddwl mawr am dro. Ond o flaen bwrdd y cymundeb, Mai 25, 1735, "dan bwys euogrydd fy mhechodau," meddai, "argyhoeddyd fi gan yr Ysbryd Glân fod Crist wedi marw drosof, a chefais fy hunan yn rhydd o flaen gorsedd cyfiawnder." Cafodd lawer ffit flin eilwaith, ac ymweliadau drachefn oddiwrth yr Arglwydd.

Yn fuan daeth cyflwr ei gymydogion i wasgu yn drwm ar ei feddwl, a dechreuodd yntau fyned o dŷ i dŷ i'w rhybuddio a'u cynghori. Llithrodd yr arferiad yma, braidd yn ddiarwybod iddo ei hun, i ryw fath o bregethu, ac arferai y bobl dyru i'w gyfarfod yma a thraw i'r tai y byddai yn ymweled â hwynt. Gwyliai bob cyfleusdra i rybuddio dynion ynghylch eu hachos tragwyddol. Pan oedd wedi esgyn i ben câreg fedd yn mynwent Talgarth, gyda fod y bobl yn gwasgaru o'r Eglwys, y cafodd William Williams, Pantycelyn, ei argyhoeddi dan ei bregeth. Mewn coffa am hyny y dywedai y bardd:—

“Dyna 'r bore, byth mi gofiat,  
Clywais innau lais y Nef;  
Daliwyd fi wrth wys oddiuchod,  
Gan ei swm dychrynlyd ef.”

Tua'r flwyddyn 1736 y dywedir iddo ddechreu pregethu. Aeth y son am ei ddoniau a'i ddylanwad ymhell ac yn agos, ac aeth yntau allan dros derfynau ei blwyf a'i Sir, i ba le bynag yr agorid drws iddo, er nad oedd wedi ei awdurdodi i bregethu gan neb, ond gan yr Ysbryd a dderbyniodd oddiuchod. Nid oedd yn ymwybodol ei fod yn gwneyd dim allan o le, ac yn dymuno cadw mewn heddwch â'r Eglwys Sefydledig o hyd, er ei fod yn myned ar ei gyfer ar draws ei rheolau. Cafodd ddeall hyny yn fuan hefyd, trwy lythyrâu oddiwrth yr offeiriad yn bygwth esgob chyfraith arno. Ond er y parai hyny ofid mawr iddo, nid oedd yn bosibl ganddo ymattal niwy. Anghenrhaid a osodwyd arno. Yr oedd edrych ar annuwioldeb a chysgadrwydd y wlad o'i amgylch yn tanio ei enaid yn flam angerddol; ac am rai blynyddau ni wnai ond ysgwyd ei wrandawyr uwch ben uffern. Elai allai i'r rhedegfeydd, i'r gwylmabsantau, y ffeiriau, a phob cynnulliadau annuwiol. Esgynai yn glamp o ddyrn cadarn, golygu, i be

y clawdd neu y twmpath, a dechreuai dywallt ar y bobl, fynychaf heb destun na rhagymadrodd. Trwy ganol dwndwr a therfysg erlidwyr, a chawodydd o geryg, tyweirch, llaid, a llawer o bethau gwaeth, gwnai yn fynych i gannoedd o wynebaw welwi gan ddychryn, a chalonau ddiffygio gan arswyd damnedigaeth.

“Yn y daran 'r oedd e'n aros,  
Yn y cwmwl oedd ei le;

\* \* \* \* \*  
Ac yn saethu oddiyno allan  
Fellt ofnadwy iawn eu rhyw,  
At y dorf aneirif dywyll  
Yn eu pechod oedd yn byw.”

Yn 1739 y cymerodd Harris ei daith gyntaf i'r Gogledd, a'r ail ymhen blwyddyn neu ddwy ar ol hyny; ac aeth trwy gyfres o erlidigaethau a dyoddefiadau digyffelyb. Nis gallwn yma ei ddi-lyn yn ei helyntion rhyfeddol, ond nodwn yma ddau neu dri o amgylchiadau, fel enghreifftiau o'i ddyoddefiadau a'i wroldeb. Yn y Bala yn 1741, daeth person y plwyf a'i blwyfolion yn fyddin fawr i ymosod arno. Rhoddodd yr offeiriad faril o gwrw ar ben y gareg-farch, i bawb yfed a fynent, i'w cymhwyso at y gorchwyl. Ar ol yfed yn helaeth, ymddyosgodd amryw hyd at eu crysau, a daethant felly, â phastynau yn eu dwylaw, at y tŷ yr oedd y bobl wedi ymgynnull i'w wrando ef yn pregethu. Yr oedd Harris ar y pryd yn darllen testun i bregethu arno,—“*Saul, Saul, paham yr wyt yn fy erlid i?*” Cyn iddo gael dyweyd nemawr, torwyd y ffenestri; dringodd rhai i ben y tŷ ar fedr ei dynu i lawr. Aeth eraill i mewn i'r tŷ, a dwrddasant y pregethwr allan. Yr oedd amryw o bleidwyr Harris yn wŷr crynion, ac yn sefyll o'i gylch i'w amddiffyn hyd y gallent. Yr oedd y merched mor greulawn yn ei drybaeddu â thom, tra y curai y meibion ef yn ddychrynllyd â'u pastynau. Torasant archolllion mor drwm ar ei ben, nes oedd ei waed yn lliwio ceryg yr heolydd. Bu ar lawr dan draed ei elynion am dro, fel y tybiwyd ei bod drosodd arno am ei fywyd. Ymlidiwyd ef yn ddibaid gan y dorf ar hyd yr heol sydd yn myned gydag ochr y llŷn i Lanycil, a buasid wedi ei lofruddio yn ddiau oni bae i'r Arglwydd roddi yn mryd rhai o'i erlidwyr i droi i'w amddiffyn.

Yn Machynlleth, ar yr un daith, cafodd driniaeth gyffelyb. Yr oedd wedi ei osod i bregethu mewn ffenestr neu ddrws agored uwch ben y bobl. “Ond,” meddai ef ei hun, “gorfu i mi roddi heibio yn fuan gan sŵn y dyrfa yn bloeddio, bygwth, tyngu, a rhegu; a chan y ceryg, a phobpeth arall cyntaf i law, a luchient ataf. Daeth cyfreithiwr ac offeiriad ymlaen ataf, gyda chynddaredd yn eu gwedd, ac iaith uffernol yn eu genau. Gollyngodd un o honynt ergyd o lawdryll ataf, ond ni chefais niwed. Ond gorfu arnaf fyned i ganol y werin i'r heol, heb ddysgwyl y diangwn byth yn fyw o'u plith, gan fod pob ymddygiad o'r eiddynt yn fy mygwth â marwolaeth. Ond er i mi gael triniaeth arw ganddynt, ni ddaeth fy awr i eto.”

“Yn y Casnewydd,” meddai, “rhuthrodd y werindorf arnom gyda'r digllonedd a'r ffyrnigrwydd mwyaf. Rhwygasant lawes fy nghôt ymaith yn gwbl; aethant â fy mherwig ymaith, a gadawsant fi yn benfod yn y gwlaw. Mor felus oedd sefyll yn bennoeth o dan ddirmyg Crist! Wedi cael dystawrwydd aethum ymlaen gyda llefaru, ond yn fuan wele hwy yn crochlefain drachefn. A thra yr oedd rhai yn fy lluchio âg afalau a llaid, yr oedd eraill yn taflu cèryg. Cefais ergyd ar fy nhalcen nes iddo chwyddo, a'r gwaed lifo. Mynai llawer yn y cythrwll i mi roddi i fyny; ond nid oeddwn yn foddllawn i wneyd hyny nes y gostegai yr ystorm, ac y gogoneddid Duw yn nadymchweliad Satan.”

Un tfo, pan oedd Harris yn pregethu, cododd dyn ei lawdryll ato; tynodd y *trigger*, ond methodd a thanio. Gwnaeth hyn ddwywaith neu dair, a Harris yn edrych yn dawel arno; ond yr oedd y *flint* yn methu taro tân. “Trowch y dryll ffordd arall,” ebai Harris, “ac fe â yr ergyd allan.” Gwnaeth y dyn hyn, ac aeth yr ergyd allan yn y fan.

Yn y flwyddyn 1741, cynnaliwyd un o'r Sasiynau cyntaf yn nhref Llanymddyfri. Yr oedd Rowlands, Williams Pantycelyn, a Howell Davies, wedi myned yno i ddechreu y cyfarfod. Ond cododd y fath dymhestl o erlidigaeth, fel y penderfynasant ymadael, a myned tua Phantycelyn i gynnal y Gymanfa. Ar y ffordd daeth Harris i'w cyfarfod, a gofynodd yn syn iddynt, “Gyfeillion, i ba le yr ydych yn myned?” “I Bantycelyn,” ebai Williams; “yr ydym mewn perygl o golli ein bywydau yn Llanymddyfri.” “Bywyd! bywyd!” gwaeddai Harris; “dyna i chwi fywyd er mwyn Crist! Deuwch yn ôl; cânt y corff gwael hwn o'm heiddo i.” Felly dychwelasant gyda Harris. Esgynodd ar unwaith i'r *stage*, a gwaeddodd, “*Gweddïwn!*” nes oedd yr holl dyrfa yn gwelwi. Syrthiodd arswyd ar y bobl, a chafwyd llonyddwch i gadw y Gymanfa. Ond rhaid i ni ymattal; gallem lenwi y rhifyn â'r cyffelyb hanesion. Câff y darlennydd doraeth o honynt yn “*Methodistiaeth Cymru.*”

Cofier mai gŵr diurddau oedd Harris, heb ei ordeinio gan esgob na chymanfa, na'i alw at y gwaith gan unrhyw gynnulleidfa. Gŵr heb dad, heb fam, ac heb achau, ydoedd yn yr ystyr yma, heb ddim yn ei fryd ond cadw pechaduriaid. Nid oedd yn dychmygu am gychwyn sect na phlaid, nac am dreisio y swydd offeiriadol iddo ei hun yn afreolaidd. Ond er proflesu ei hun yn Eglwyswr, ac annog pawb i fyned i'r Eglwys, yn ddiarwybod iddo ei hun gwnelai waith efengylwr, a gosodai i lawr sail Ymneillduaeth Cymru oddiwrth Eglwys y wladwriaeth. Fel y dywed Williams:—

“Yntau, Howell, heb arddodiad  
 Dwyllaw dynion o unrhyw,  
 Na chael cenad gan un esgob,  
 Ag-sy 'n llawer llai na Duw:  
 Fe bregethodd yr efengyl,  
 A'i hanfeidrol Ddwyfol 'stôr,

‘ O derfynau Hafren dawel,  
Obry i'r gorllewin fôr.”

Cychwynodd yntau gyfarfodydd eglwysig, neu *societies*, yr un fath a Rowlands; nid oblegid y gwyddent am eu gilydd, ond mai felly y mynai y nerth Dwyfol a amlygid ymfurfio. Yr oedd yr anghen a'r amgylchiadau yn eu creu o honynt eu hunain. Yn Nghymanfa Watford, Ebrill, 1743, a Whitfield yn gadeirydd, penodwyd Howell Harris i fod yn arolygwr dros holl Gymru, ac i fyned i Loegr pan fyddai galwad. Penderfynwyd hefyd gynnal Gyfarfodydd Misol ymhob Sir, yn gynnwysedig o un gweinidog ordeiniedig fel cymedrolwr, ynghyd ag arolygwr y dosbarth a'i gynnorthwywyr.

Ymhen amryw flynyddoedd, torodd ymrafael blin allan rhwng Harris a Rowlands, yn herwydd syniadau y blaenaf am Berson yr Arglwydd Iesu. Gwnaeth lawer o flinder a niwed y pryd hwnw; a pharodd i Harris, ar ol dwy flynedd ar bymtheg o lafur a dyoddefiadau anghymharol, gyfyngu ei wasanaeth o hyny allan, bron yn gwbl, i'w gymydogoeth ei hun. Ond symudwyd y teimlad yn llwyr, a chawn Rowlands drachefn yn pregethu yn Nhrefeca, a'r llythyrau mwyaf serchog yn pasio rhyngddynt.

Yn 1752, daeth i fryd Harris i godi adeilad fawr yn Nhrefeca i fod yn fath o Nawdd-dŷ i Gristionogion erlidiedig. Cafodd y syniad, mae yn debyg, oddiwrth adeilad gyffelyb a godwyd gan un Frank yn Gerinany, a chan Whitfield yn Georgia, America. Bwriadai ef hefyd i fod yn lle pregethu iddo ei hun am weddill ei oes. Yr oedd yr holl Eglwysi yn gauedig i'w erbyn, ac yntau wedi treulio ei flynyddoedd i bregethu mewn annedd-dai, ysguborian, a'r awyr agored. Aeth at y gorchwyl costus heb un geiniog o arian ar ei gyfer, ond ymddiried yn gwbl yn Rhagluniaeth y nef; a chredai fod yr un Ysbryd ag a'i cynhyrfodd i bregethu yn ei gynhyrfu hefyd gyda'r gorchwyl hwn. Cwblhawyd yr adeilad yn 1753, ac yn y flwyddyn ganlynol yr oedd teulu Trefeca yn gant o nifer, a'u holl ofal tymmorol ac ysbrydol ar Howell Harris. Ymwelai â hwynt dair gwaith bob dydd, i bregethu, gweddio, a chynghori. Ac yr oedd ei bryder a'i lafur yn annesgrifiadwy. Bu y teulu unwaith yn rhifo cymaint a naw ugain, ac nid oedd ganddo yntau ond ymddiried yn gwbl ar addewid Duw am fodd i'w cynnal. Gyrid arian iddo gan bersonau o bell ac agôs, i'r perwyl, wrth yr ugeiniau o bunnau. Edrychai y rhan fwyaf ar yr ymgymeriad hwn fel un annoeth, ac felly ei farwnadydd;—

“Pam y treuliaist ti dy ddyddiau  
I wneuthur rhyw fonachdŷ fawr,  
Pan y tynodd Harri frenin  
Fwy na mil o'r rhai 'n i lawr;  
Dian buasit hŵy dy ddyddiau,  
A melusach fuasai 'nghân,  
Pe treuliaist dy holl amser  
Yn nghwmpeni 'r defaid mân.

“Ond mae pawb yn maddeu heddyw—

\* \* \* \* \*

Na 'sgrifener mwy ei bechod,  
Na choffaer am ei fai,—  
Croeswyd llyfrau 'r nef yn hollol,  
Pam caiff rhagfarn dyn barhât?”

Yn y flwyddyn 1760, pan oedd galwad am filwyr yn y wlad, ymunodd â'r *militia*, gan ddwyn pedwar ar hugain o'i deulu gydag ef, a chynnal deuddeg ar ei draul ei hun. Gwnaed ef yn gadben yn ei gatrawd, a bu o fan i fan ar hyd Lloegr, gan wylio pob cyfleusdra i bregethu a gwasanaethu achos yr Arglwydd. Ymhen oddeutu tair blynedd, dychwelodd Harris i Drefecca, ac yno y trigodd dros weddill ei oes. Yr oedd Iarles Huntingdon yn hynod gyfeillgar âg ef. Dewisodd yr Arglwyddes raslawn hon Drefecca fel lle i sefydlu coleg at addysgu gwyr ieuainc i'r weinidogaeth. Codwyd y coleg o fewn lled dau gae i gartref Harris, ac agorwyd ef ar y 24ain o Awst, 1768—dydd genedigaeth yr Iarles, a phregethai George Whitfield yno ar yr amgylchiad.

Cyfarfyddodd Harris a Whitfield â'u gilydd y waith gyntaf yn Nghaerdydd, yn 1739; a buont o hyny allan yn gyfeillion gwresog. “Pan welais ef gyntaf,” meddai Whitfield, “ymglymodd fy nghalon âg ef. Yr oedd arnaf eisieu derbyn rhywfaint o'i dân ef, ac â'm holl galon y rhoddais iddo ddeheulaw cymdeithas.” Y flwyddyn ganlynol cyfarfyddodd â Charles Wesley yn Llundain. Dywedai hwnw am Harris, yn ei ddyddlyfr, “Fe adroddodd ei brofiad o flaen y gymdeithas. O, y fath fflam a ennynwyd! Nid oes neb yn llefaru yn fy nghlyw i fel y llefara y dyn hwn. Y fath dadmaeth a anfonodd Duw atom! Y mae yn wir wedi ei ddysgu gan y Bugail da i ddwyn yr ŵyn yn ei fynwes. Y fath gariad! y fath awdurdod! y fath symledd! Yr oedd yn anwrthwynebol!”

Bu farw Gorphenaf 21, 1773, yn 60 mlwydd oed, gydag ysbryd mor wrol, a ffydd mor gref, ag erioed. “Bendigedig fyddo Duw,” meddai, “y mae fy ngwaith wedi darfod, ac yr wyf yn gwybod fy mod yn myned at fy anwyl Dduw a'm Tad; canys efe a gafodd fy nghalon—ie, fy holl galon.” Felly yr ymadawodd apostol mawr Methodistiaeth Gymreig: un o gewri cedyrn ein Hymneillduaeth, a'r pregethwr mwyaf dewr, a thanlyd, a hunan ymwadol, ag a gafodd ein gwlad.



### CYFIEITHIAD O TENNYSON.

**NWYL SYB**,—Yr wyf yn adwaen tair o ferched ieuainc sy'n yn hoff o ganu y pennillion prydferth hyny o waith Tennyson, “*Too late, too late; ye cannot enter now;*” ac y mae rhaid i mi addef fy mod innau yn lled hoff o wrandaw arny. Y canlyniad ydyw i mi wneuthur ymgais egwan i gyfieithu.

geiriau, gan amcanu hyd y gellid i gadw y symledd sydd mor amlwg yn y Saesoneg. Mae y dôn a'r geiriau Seisonig yn adnabyddus i'r cantorion yn gyffredin, o leiaf i'r rhai hynny sydd wedi cael yr hyfrydwch o glywed y Gymraes ddoniol hono, Miss Watts; ond nid wyf yn gwybod eu bod wedi ymddangos eto yn Gymraeg. Os bernwch yr hyn a ganlyn yn deilwng o ymddangos yn eich cyhoeddiad addysgiadol a buddiol, y mae at eich gwasanaeth.

## RHY HWYR.

Hwyr, hwyr, mor hwyr!  
 A'r nos yn dywyll iawn.  
 Hwyr, hwyr, mor hwyr!  
 Ond croesaw eto gawn.  
 Rhy hwyr—Rhy hwyr;  
 I mewn ni ddeuwch mwy.  
 Rhy hwyr—Rhy hwyr;  
 I mewn ni ddeuwch mwy.


Os oeddym ffol,  
 'R ym yn edifarhâu.  
 Am hyn y Mab  
 Sydd sicr o drugarhâu.  
 Rhy hwyr—Rhy hwyr:  
 I mewn ni ddeuwch mwy.  
 Rhy hwyr—Rhy hwyr;  
 I mewn ni ddeuwch mwy.

Tu faes! mor hwyr!  
 Mae 'n dywyll fel y bedd.  
 O agor in',  
 Fel caffom ran o'r wledd.  
 O agor in',  
 Fel caffom ran o'r wledd.  
 Rhy hwyr, Rhy hwyr;  
 I mewn ni ddeuwch mwy.  
 Rhy hwyr, Rhy hwyr;  
 I mewn ni ddeuwch mwy.

Ni glywsom ni  
 Mai 'r Mab yw 'r mwynaf gaed.  
 O agor in',  
 Cusanu wnawn ei draed.  
 O agor in',  
 O agor in',  
 O agor in',  
 Cusanu wnawn ei draed.  
 Na! Na! Rhy hwyr;  
 I mewn ni ddeuwch mwy.



## YR ADNOD O'R TAN.

R foreu oer yn y gauaf, eisteddai Tom Evans a'i wraig a dau blentyn prydferth wrth y ford i fwyta breewast. Yr oedd tŷn mawr yn yr ystafell, y bwrdd yn lanwedd a chryno, y plant yn lân a serchog, a phobpeth yn ymddangos mor ddymunol, ond gŵr y tŷ ei hun. Edrychai ef yn wgus a diserch. Er fod ganddo bob peth at ei wneyd yn gysurus, yr oedd ei feddwl yn anghysurus. Y rheswm am hyny oedd ei fod yn *infidel*, neu yn anffyddwr.

Wedi gorphen breewast, a chodi y bwyd, paratöwyd y plant, ac aethant i'r ysgol, ac aeth eu tad at y ford fawr o flaen y ffenestr i drin y brethynau, oblegid teiliwr ydoedd. Wedi iddo eistedd, a gosod un glun yn groes i'r llall i wno, dywedodd,—

“Y fath ddiwrnod tywyll ydyw. Mae yn dywyll yn wastad pan fydd genyf fi lawer o waith. A'r hen ffenestr yma, mae yn rhy fach i ddim. Yr hen dŷ tywyllaf a welais i erioed yw hwn, a finnau â chymaint o waith hefyd.”

“Wel, dylech fod yn ddiolchgar am hyny beth bynag,” ebai'r wraig yn ofnus. “Mae y Bibl yn ein dysgu i fod yn ddiolchgar am bob peth; oblegid nid ydym yn haeddu dim o'r pethau ydym yn gael. Nid wyf yn meddwl, Thomas, y dylech fod mor anfoddog. Mae yr Arglwydd wedi rhoddi llawer o fendithion i ni nad yw gan eraill.”

“Peidiwch siarad â fi am fendithion, a'r Bibl, a phethau fel yna Jane. Gwyddoch nad wyf yn credu mewn dim o'r fath.”

Ni roddodd Jane yr un ateb. Yr oedd Tom yn ymroddi gyda waith, a Jane yn blino yn ddystaw yn ei achos. Yn y man, wrth godi ei lygaid i'r ffenestr, dywedodd,—

“Dyma Miss Lawton heddyw eto gyda'i llyfrau a'i thraethodat. Nid wyf yn meddwl y daw yma heddyw. Yr wyf wedi dywedyd fy meddwl yn eglur wrthi am y fath ysgubion a ffloinet. Gwneled ffylliaid, os gall, o'r cymydogion yma, ond gwn na wn byth ffwl o honof fi.”

“Dynes dda iawn yw Miss Lawton, Tom,” ebai Jane. “Yr un amcan sydd ganddi yw gwneyd daioni. Dyma hi yn dyfod at drws; gofawch, anwyl Tom, i beidio ymddwyn yn anfoesgar at Peidiwch er fy mwyn i.”

Agorwyd y drws, cyfarchodd Jane hi yn serchog, a dywedodd Tom, “Bore da'wch” wrthi yn uchel a difater.

“Yr wyf yn myned o amgylch fy nosbarth,” ebai Miss Lawton i weled pa anghen sydd ar y bobl, ac a oes ganddynt ddigon Fibrâu.”

Gwnaeth Tom olwg ddirmygus pan goffhäodd am y Bibl, yr hysbysodd a roddodd frath i Jane. Gwyddai hi fod ei gŵr yn casu y Bibl ac na oddefai iddo fod dan ei gronglwyd.

“Sut ydych chiwi yma am Fibrâu, Mrs. Evans,” gofynai Miss Lawton.

Yr oedd Jane mewn dyrswch, heb wybod beth i ateb; o

atebodd ei gŵr yn fuan mewn llais diserch, "Does yr un Bibl yn ein tŷ ni, ac nid wyf yn meddwl cael yr un ychwaith."

"Dim un Bibl!" ebai Miss Lawton. "Mae yn ddrwg genyf glywed, oblegid nid wyf yn meddwl y gall un teulu fod yn hapus heb ddarllen gair Duw. Ond paham yr ydych yn groes i'r Bibl, Mr. Evans? Ni chlywais iddo wneuthur drwg i neb erioed, ac yr wyf yn sicr iddo wneyd llawer o ddaioni i filoedd."

"Yr wyf fi yn dyweyd y peth wyf yn ddyweyd," ebai Tom. "Does yr un Bibl yn fy nhŷ i, ac nid wyf am gael yr un."

"Fe allai nad ydych am wario arian i brynu un," ebai Miss Lawton. "Wel, gwnaf anrheg o Fibl i chwi, Mr. Evans. Dyma fe, Bibl tlws iawn; gadawaf ef yma, a chymerwch ef fel anrheg genyf fi, oni wnewch?"

"Gadewch chwi ef, neu beidiwch, ma'm; ond yr wyf fi wedi dyweyd na chaiff yr un Bibl fod yma, ac ni chaiff yr un chwaith."

"Wel, yr ydych yn foddllawn i mi ei adael yn eich tŷ?"

"O, gadewch chwi ef a'ch croesaw; ond chwi welwch y tân acw. Mor wir ag i chwi groesi y trothwy yna, i'r tân y caiff fyned. Yr wyf yn ddyn at fy ngair, a byddaf sicr o'i wneyd."

Edrychodd Miss Lawton yn benderfynol yn ei wyneb, tra yr oedd Mrs. Evans yn crynu yn ei hymyl, a dywedodd, "Gadawaf y llyfr yma, Mr. Evans, a gwnewch âg ef fel y mynoch; a gwneled Duw ddefnyddio y llyfr a ddirmygwch er iachawdwriaeth eich enaid." Ac yr oedd gweddi ddystaw yn esgyn o'i chalon at Dduw yda'r gair.

Aeth Miss Lawton allan, a chauodd y drws ar ei hol. Cododd Tom, ymaflodd yn y Bibl roan prydfarth, "Dyna," ebai, gan ei dafu ar ben y tân, "yr wyf fi yn ddyn at fy ngair; ni chaiff y llyfr yma aros yn fy nhŷ i i'm blino."

Cododd colofn o fwg, a fflam yn ei ganlyn oddiwrth y Bibl. Aeth Jane allan gan wylo, ac wrth gau y drws, aeth awel o wynt a chwythodd ddail llosgedig y Bibl dros yr aelwyd a'r parth. Safodd Tom uwch ben y tân nes oedd y Bibl wedi llosgi yn llwyr, ac yna aeth at ei waith.

Y noswaith hono yr oedd Tom a'i wraig yn eistedd o flaen y tân. "Nid oedd y foneddiges yn meddwl," ebai Tom, "y buaswn yn cadw fy ngair. Ond dyn at fy ngair ydwyf fi, a dyna y lle ffitiaf iddo hefyd," meddai, gan gyfeirio at y pentwr dail llosgedig oedd dan y tân. "Gwnaeth y tân ei waith yn gampus; ond dyma ddarn bychan heb ei losgi." Cododd oddiar yr aelwyd dameidyn bychan o ddalen, yr hwn oedd wedi ei chwythu gan y gwynt. Yr oedd wedi duo gan y gwres, a'r llythyrenau trwy hyny fel pe buasent wedi eu gwthio allan yn fwy eglur.

"Dywedais na ddarllenwn y llyfr," meddai, "ond edrychaf yma beth mae y tân wedi ei adael." Cododd ef i fyny at y ganwyll, a darllenodd arno y geiriau canlynol:—"Nefoedd a daear a ant heibio, ond fy ngair i nid â heibio ddym!"

Gyrod Ysbryd yr Arglwydd yr adnod i galon Tom Evans, ac ni orphwysodd nes dyfod at yr iachawdwr a ddadguddir yn y

Bibl a losgodd. A gwiriodd Duw ei addewid, "Ni ddychwel fy ngair ataf yn wag, eithr efe a lwydda yn y peth yr anfonais ef o'i blegid."

## LLWYBR Y PERERIN.

### LLEDGYFIEITHIAD O HEBER.

*Y Ddn gan BRINLEY RICHARDS, Ysw. (Cerddor Towy).*

**I** dybiais fod ffordd y pererin i'r nef,  
Yn un deg a blodeuog trwy ddolydd glas cain;  
Dangosaist Ti 'r ffordd, ac un gul dywell oedd,  
Garegog a blin trwy fieri a drain.  
Teg a blodeuog, &c.

Y mae temlau a ph'lasau heb ofid na phoen,  
Ond y maent dros gagendor o dir y rhai byw:  
Mae afonydd o Hedd, ond nid un yn y byd,  
Yn y Nef yno maent, fry yn nefoedd fy Nuw!  
Ymhell tros gagendor o dir y rhai byw,  
Gorphwys gawn, yn nef y nef, yn y man, y man,  
Fry yn nefoedd fy Nuw!

J. CEIRIOG HUGHES.

## HUGH BACH.

*A'i genadwri at ei fam oedd wedi myned i'r nefoedd.*

**D**R oedd llong fawr yn hwylio ei ffordd o'r India i Loegr. Yr oedd llawer iawn o bobl ar fwrdd y "*Britain*," a gallasem adrodd aml hanesyn go doddedig cysylltiedig â hwy. Yr oedd yno foneddigesau yn cymeryd eu plant bychain oddiwrth y traeth twymn, lle yr oedd yr haul wedi gwelwi eu gwynebau, a thrynhâu eu llygaid glason. Llawer ysgariad galarus ac athrist oedd wedi bod rhwng y gwragedd a'u gwŷr, a'r plant a'u tadan; ac er fod diwrnodau wedi pasio er pan deimlwyd y cusan diweddf ar y fôch ieuanc, yr oedd llawer o'r plant yn ffaelu enwi eu tad heb gael eu llwyr orchfygu gan eu teimladau. Yr oedd yno hefyd swyddwyr a gwleidiadwyr methodig, y rhai oeddynt wedi cael cenad o absennoldeb, ac oeddynt yn brysio adref i adgryfhâu eu hiechyd a'u hysbrydoedd yn awyr iach eu gwlad enedigol, ac ymysg eu cyfeillion a'u perthynasau.

Ond nid ein dyben presennol yw coffa am y bobl mewn oed, ond adrodd i'n darllenwyr hanes bachgenyn ieuanc a'i chwaer, y rhai gyda'u *ayah* (*nurse*) oeddynt ar fwrdd y "*Britain*." Yr oedd Hugh bach yn bum' mlwydd oed, a Mary yn dair. Yr oedd eu tad wedi bod yn swyddwr yn y fyddin yn India, ac yn cael ei garu a'i barchu

gan yr holl gatrawd. Yr oeddynt yn ddiweddar wedi cael eu sefydlu mewn parth gwresog anghyffredin, ac effeithiodd yr hinsawdd yn fuan ar iechyd yr holl deulu. Yr oedd gan y fam, modd bynag, lawer o ysbryd a sirioldeb, a defnyddiodd bob moddion i gadw yr ystafelloedd yn oer, ac i wneyd y gwres mor hawdd i'w oddef ag oedd modd. Cysur calon ei gŵr a'i phlant oedd hi, ac nid oedd teulu mwy dedwydd i'w cael yn yr holl ardal. A ddymunech chwi wybod, anwyl ddarllenwyr ieuainc, ddirgelwch dedwyddwch y foneddiges yma! *Yr oedd yn gristion.* Yr oedd yn caru yr Arglwydd Iesu, ac yn ymddiried yfuddo fel ei Cheidwad, a chredai y gwnai Efe drefnu y cwbl iddynt oll yn y modd goreu. Gellwch fod yn ddigon sicr, wedi iddi gael y llawenydd o gael yr Iesu yn Waredwr ac yn gyfaill, iddi fod yn ofalus i ddyweyd wrth Hugh a Mary am dan, a'u dwyn hwynt i fyny yn ffyrdd yr Arglwydd. Gallai rhai feddwl eu bod yn rhy ieuainc; ond yr oedd hi yn meddwl fod Hugh yn ddigon hen i ddyggu am yr Iesu, ac y gallai Mary, pan yn adrodd gyda bloesgni plentyn ei hymnau bach, fod yn derbyn ystôr o had da, yr hwn ryw ddiwrnod a ddygai ffrwyth gwerthfawr. Felly ei gwaith a'i phleser beunyddiol oedd defnyddu i'w meddyliau tyner newyddion da yr efengyl.

Yr oedd Hugh yn caru ei rieni gyda holl danbeidrwydd ei natur serchiadol; ac er nad oedd ond bachgenyn, nid oedd ganddo uwch na melusach mwynhâd na chael eistedd gyda'i fam, pan gaffai hi seibiant, a chael ganddi siarad âg ef. Ac fel y chwareuai â'i wallt hir euraidd, ac yr edrychai yn ei lygaid gleision, o ba rai y pelydrai cariad diball, disgynai addysg grefyddol yn ddyferynau bywiol iddo oddiar ei gwefusau hybarch. Dyddiau dedwydd oedd y rhai hyn, ond nid oeddent i bara yn hir. Un prydawn daeth ei dad adref o'r *drill* (dysgyblaeth milwyr) wedi blino, a golwg ddigalon arno. Rhoddodd ei gleddyf heibio, a dywedodd wrth ei wraig, "Ellen, yr wyf yn teimlo rhywbeth hynod arnaf; yr wyf yn bur sâl!" Aeth saeth trwy galon ei wraig ieuanc pan sylwodd ar ei wedd lwyd a gwanaidd, ond ni chiliodd ei gwroldeb; gyrodd yn union am y meddyg, ac arosodd am ei ddyfodiad gyda phryder gorboenus. Gorweddodd ei gŵr ar ei glafwely, ac ni chododd byth oddiyno. Yr oedd clefyd trwm a phrysur wedi ymallyd ynddo, a chyn nos drannoeth yr oedd yn nhragywyddoldeb. Yn India, oblegid y gwres poeth, nid yw afiechyd ond o fyr barhâd, fel y bu gyda thad Hugh bach. O! y fath gyfnewidiad disymwth oedd wedi dyfod dros gartref oedd mor hapus ddoe! Bu y fam, am beth amser, wedi ymddyrysu gan dristwch—yn methu wylo. Prin y gallai sylweddoli beth oedd yn myned ymlaen. Ond ymdrechodd yn galed i ddal i fyny, er mwyn y plant. Yn nghanol ei gofid trwm a dwfn, yr oedd ganddi lawer o bethau i fod yn ddiolchgar am danynt. Yr oedd tangnefedd heddychlawn wedi teyrnasu yn oriau diweddaf ei gŵr ymadawedig; dim grwgnach, dim dychryn; ond tawel gydsyniad plentyn â threfn ddoeth Tad tyner a chariadus, a gobaith bywiol am gael bod byth gyda'r Ar-

glwydd, yr hwn yr oedd wedi ei garu a'i wasanaethu yn ei fywyd. Yr oedd ganddo hefyd obaith diogel a sicr y byddai iddo ef a'i rai anwyl gydgyfarfod eilwaith yn y cartref lle na bydd marw, na "chwrrd i 'madael mwy." Yr oedd hyn yn gysur mawr i galon glwyfus y weddw; eto dihoeni a wnaeth. Nid oedd yn bosibl difyru ei meddwl. Nid oedd gan beroriaeth lleisiau ei phlant nerth i'w chyffroi. Fel blodeuyn hardd wedi ei daro yn ei wreiddyn, gwywodd ymaith, ac mewn ychydig wythnosau dilynodd ei gŵr i anfarwoldeb cynnar a gogoneddus.

Druan ô Hugh bach! Mor synedig a thrallodedig oedd, pan aeth i ystafell ei fam i eistedd yn ol ei arfer, nes cael ei yru i ffwrdd gan y *nurse*. Mor synedig oedd i weled ei fam mor sâl!

"Edrychwch i fyny, 'mam bach," meddai, fel yr oedd yn plygu dros y gwely, "a gwelwch Hugh—eich Hugh eich hunan, wedi dyfod i gusanu y boen i gyd i ffwrdd."

Agorodd ei llygaid gleision, a gwenodd arno yn serchus. Yna edrychodd yn bur athrist. "Dowch yn nês, cariad—treiwch beidio crio—byddwch yn bur llonydd," meddai, gan ei wasgu yn ei breichiau. "Yr oeddwn yn myn'd i anfon am fy mab bychan, i ddyweyd wrtho fod ei fam yn myn'd i ffwrdd i'r lle y mae ei dad wedi myn'd—myn'd i fod gyda'r Iesu yn y cartref dedwydd ynghylch pa un yr ydym wedi siarad cymaint."

"O! mama, mama," meddai Hugh, s'r dagrau yn dechreu ffrydio i'w lygaid, a chan daffu ei freichiau o amgylch ei gwddf; "O! mama, mama! chwi yn myn'd a gadael Hugh wrtho ei hunan?"

"Nid wrthyh eich hunan, cariad," meddai ei fam, gan ymdrechgu bod yn dawel; "ac heblaw hyny, Hugh, nid mama sydd yn myn'd, ond Duw sydd yn ei chymeryd; y mae am i mi fyn'd ato, ac yr wyf yn gwbl barod, ond"—a'i llais a grynodd—"ond oblegid gadael Hugh a Mary. Y mae Duw yn fy ngalluogi i wneyd hyny hefyd, a'ch ymddiried eich dau iddo ei hun."

"Mama, gadewch i mi ddyfod hefyd: 'dalla' i byth aros yma hebdoch chwi a Papa."

"Ond y mae Duw am i chwi aros, cariad," meddai ei fam; "ac yr wyf yn sicr y byddwch chwi yn foddolawn. Y mae yn rhaid i chwi ofalu am Mary fach, a dyfod â hi gyda chwi. Gofynwch i'r Iesu i'ch dwyn eich dau, ac yr wyf yn sicr y gwneiff."

Nis gallwn ddal yr olygfa gysegredig hon yn hŵy o flaen y darlennydd.

(*I'w barhâu.*)



## Y CWESTIYNAU GWOBWRWYEDIG.

5. **H**A ddinas y ceir hanes am dani yn y Bibl ag y mae ei henw yn ferf, yn rhagferf, ac yn gysylltiad, yn yr iaith Gymraeg?
6. Pwy oedd y dyn ag yr anrhegwyd ef âg eilun-dduw gan ei fam?

TASG I DDARLLENWYR "TRYSORFA Y PLANT."

|   |   |   |   |   |   |   |   |   |   |   |   |   |   |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| t | r | y | s | o | r | f | a | y | p | l | a | n | t |
| r |   |   |   |   |   |   |   |   |   |   |   |   | r |
| y |   |   |   |   |   |   |   |   |   |   |   |   | y |
| s |   |   |   |   |   |   |   |   |   |   |   |   | s |
| o |   |   |   |   |   |   |   |   |   |   |   |   | o |
| r |   |   |   |   |   |   |   |   |   |   |   |   | r |
| f |   |   |   |   |   |   |   |   |   |   |   |   | f |
| a |   |   |   |   |   |   |   |   |   |   |   |   | a |
| y |   |   |   |   |   |   |   |   |   |   |   |   | y |
| P |   |   |   |   |   |   |   |   |   |   |   |   | P |
| l |   |   |   |   |   |   |   |   |   |   |   |   | l |
| a |   |   |   |   |   |   |   |   |   |   |   |   | a |
| n |   |   |   |   |   |   |   |   |   |   |   |   | n |
| t | r | y | s | o | r | f | a | y | p | l | a | n | t |

**D**ID oes yn yr ysgwâr uchod ond yr un nifer o lythyrenau a'r nifer o flwyddau sydd yn gwneyd i fyny y rhan gyntaf o oes dyn, ynghyd a'r ddegfed ran o oed Crist pan yn dechreu ei weinidogaeth gyhoeddus.

Mor wir a hyny, y mae yna y nifer hwnw gymaint o weithiau a'r nifer o flwyddau ag sydd yn gwneyd i fyny yr ail ran o oes dyn, ynghyd a'r chweched ran o nifer y darnau arian a gafodd Judas am "fradychu Mab y dyn."

Ac mor wir a'r ddau, fe ddylai fod yna (mewn un ystyr) yr un nifer o lythyrenau a nifer blwyddau oes Moses pan yn gadael yr Aipht (gyntaf) ddwy waith, ynghyd a'r ugeinfed ran o hyny: gan fod nifer y llythyrenau a gyfansoddant yr enw TRYSORFA Y PLANT chwe' gwaith (fel y mae yn yr ysgwâr) yn hyny.

Pa fodd y mae y tair ffaith hyn yn bod?

Liverpool.

J. E.

GWNEYD DARLUNIAU.

**M**AE llawer o'n darllenwyr heb un syniad am y modd y gwneir y darluniau sydd mewn llyfrau. Yr ydym yn gwybod hyn oddiwrth y ffaith fod llawer o'n gohebwyr yn anfon darluniau ar ddaill i ni gyda'u hysgrifau, ac yn dymuno arnom eu rhoddi yn NHBYSORFA Y PLANT; ond y mae hyny yn beth anhosibl.

Fe allai y carai rhai wybod pa fodd y darperir y darluniau hyn. Mae gwneuthur darlun i'w osod ar lyfr yn perthyn i ddwy gangen o gelfyddyd, y *dyfeisiwr* a'r *cerfiwr*; neu mewn geiriau Seisonig, *designer* ac *engraver*. Gorchwyl y dyfeisiwr yw tynu y darlun gyda'i bensil neu ei bin ysgrifenu, ar ddalen o bapyr, yn ol ei syniad a'i fedr ei hun. Dyma y gorchwyl pwysicaf ac anhawddaf, a bydd yn costio llafur a manylwch mawr, yn ol natur y darlun. Bydd yn ymddangos ar y ddalen, wedi ei orphen gan y *designer*, yr un fath ag y mae yn ymddangos mewn print. Ond nid ellid byth ei brintio oddiar y ddalen hono.

Felly mae y dyfeisiwr yn ei anfon i'r cerfiwr (*engraver*). Os mai ar bren y bydd yn ei gerfio, *woodcut* y gelwir ef. Os mai ar gâreg, *lithograph* y gelwir ef. (*Lithos* yw y gair Groeg am gâreg, neu faen.) Os mai ar gopr y cerfir y darlun, *copper-plate* fydd. Os mai ar ddŵr, *steel-cut* fydd, a hwn yw y goreu. Po galetaf fyddo y defnydd, anhawddaf fydd ei gerfio, ond goreu oll fydd y darlun.

Cerfiadau ar goed yw yr holl ddarluniau sydd yn NHRYSORFA Y PLANT, a bron yr oll a ddefnyddir mewn llyfrau cyffredin, a'r cyhoeddiadau, a'r newyddiaduron darluniadol. Rhaid cael pren caled—pren *box* a ddefnyddir yn gyffredin. Torir ef ar ei draws, yn ddarnau oddeutu modfedd o drwch, fel y gellir gweithio y darlun ar y pren yn ffordd ei dalcen. Wrth gwrs, bydd sefyllfa y darlun yn y cerfiad yn wrthwyneb i'r hyn fydd ar y papyr—yr un fath ag y mae ein darlun ninnau wrth edrych mewn drych; bydd y llygad chwith yn troi yn llygad dehau, a'r fraich chwith yn troi yn fraich ddehau. Pob man gwŷn yn y darlun a fydd yn gafn neu bantle yn y pren, a phob man du neu dywyll yn cael ei adael i sefyll yn uwch.

Wrth sylwi yn ddiweddar ar rai o ddarluniau TRYSORFA Y PLANT, a holi yn eu cylch, tarawodd yn mhen cyfaill i ni,—Mr. John Richard, Sâer, Treforis,—i dreio ei law, a dyma ei gynnyg cyntaf



Rhaid cofio mai ar ddarn o bren cyffredin yr oedd yn gweithio; mai efe oedd y *designer* a'r *engraver*; nad oedd ganddo yr offer pwrpasol; ei fod yn dad i naw o blant, ac na welodd wneyd dim o'r fath erioed. Pan gafodd ddarn o bren *box*, gwnaeth ail gynnyg, a dyma fe,—



Y mwnci a'r gath oedd yn chwaraeu â'u gilydd. Llwyddodd y mwnci o'r diwedd i gael cynffon y gath trwy dwll oedd yn y ford. Aeth Mrs. Pws allan o'i hwyl; taffwyd y ford, a thorwyd y llestri. Mae y mwnci yn pallu gollwng y gynffon, er holl ysgrechiadau y gath, ac mae y meistwr wedi gorfod dyfod â'i chwip i gyfryngu. Dan yr amgylchiadau a nodwyd, yr ydym yn ystyried fod ein cyf-aill wedi profi ei hun yn dra medrus a llwyddiarnus. Un amcan i'r ychydig nodiadau hyn yw, galw sylw llanciau Cymru at y gelfyddyd hon, a'u cyffroi i dreio eu dwylaw, rhag fod athrylith at y gwaith yn gorwedd yn ddiffwrwyth rhwng ein bryniau. Bydd yn llon genym roddi pob cefnogaeth a allom yn y cyfeiriad hwn.



## HANES FY HUNAN.

### PENNOD X.—OL TROED DYN.

**D**R oedd genyf bellach ddau le y byddwn yn cyrchu iddynt yn aml heblaw fy nghastell yn ymyl y graig: sef y lle y bŵm yn aros ynddo yn nghanol yr ynys, yr hwn oedd yn gorwedd yn awr ar fy ffordd at fy nghwch; a'r lle arall ydoedd y fan lle yr oedd y cwch yn aros. Talwn ymweliad mynych â'r cwch, a llawer gwaith y bŵm ar fin penderfynu anturio y peryglon i'w ddwyn yn ôl drachefn gerllaw fy nghaban.

Un diwrnod pan ar fy ymdaith at fy nghwch, dychrynwyd fi wrth ganfod ôl troed dyn ar y tywod, gerllaw y traeth. Sefais fel pe buaswn yn gweled drychiolaeth, a churai fy nghalon fel gordd ynof. Edrychais o gwmpas, ond nid oedd dim i'w weled na'i glywed. Esgynais i ben bryn gerllaw; cerddais at ymyl y môr, gan syllu i bob cyfeiriad; ond ni welwn ddim. Aethum eilwaith



at yr ôl troed, i ail edrych, rhag fy mod wedi camsynied; ond nid oedd yr un camsyniad i fod; yno yr oedd yr ôl yn berffaith—y sawdl, y troed, a'r bysedd. Ond nis gallwn ddyfalu o ba le y daeth. Prysurais adref tua'm caban, a'm calon mor ddychrynedig fel nad oeddwn yn teimlo y ddaear dan fy nhraed. Edrychwn yn ôl yn fynych, a meddyliwn mai dyn oedd pob llwyn a thwmpath a welwn. Rhedais i fy nghaban fel pe buaswn yn cael fy ymlid; ac nis gwn pa un ai dros yr ysgol yr aethum, ai trwy yr ogof yn y graig. Ni redodd ysgafarnog i'w gwâl, neu gadno i'w dwll yn y ddaear, gyda mwy o ddychryn nag y rhedais innau i fy nghaban.

Ni chysgais lygedyn y noson hono. Yr oedd fy ofn mor fawr, a'm dychymyg allan yn dyfalu am ôl y troed. Weithiau tybiwn mai y diafol ydoedd; ond eilwaith beth allai dyben hwnw fod i fy nychrynu felly, a gwneyd yr ôl mor bell oddiwrth fy nghaban, mewn lle nad allai fod ond damwain i mi byth ei weled? Os mai dyn fu yno, o ba le y daeth, ac i ba le yr aeth? Mae yn anhossibl i mi ddesgrifio fy offlau a fy mlinder. Yr oeddynt wedi alltudio fy holl deimlad crefyddol. Beiwn fy hunan yn fawr am fy anymddiried yn y Duw oedd yn fy nghynnal. Yr oedd wedi fy nghadw yn wyrthiof hyd yn hyn; onid allai fy nghadw eilwaith yn wyneb peryglon newydd? Parhâodd fy ofn a'm trallod, i raddau mwy neu lai, am wythnosau a misoedd. Yr wyf yn cofio yn dda y bore y cefais waredigaeth. Yr oeddwn yn gorwedd yn fy ngwely, a'm calon yn llawn meddyliau; daeth yr hen adnod hono ataf, "A galw arnaf fi yn nydd trallod, &c." Codais mewn ysbryd newydd. Pan ymeffais yn y Bibl, agorodd ar y geiriau hyny,—“Dysgwyl wrth yr Arglwydd, ac ymwrola, ac efe a nertha dy galon; dysgwyl, meddaf, wrth yr Arglwydd.” O hyn allan, collais fy holl ddychryn yn llwyr. Ceisiais hefyd berswadio fy hun mai ôl fy nhroed fy hunan ydoedd, wedi ei wneuthur wrth ddyfod oddiwrth y cwch y tro cyntaf, a fy mod, yr holl amser, wedi gwneyd ffwl o honof fy hun. Eto yr oedd yn rhaid myned i gael golwg ar yr ôl drachefn. Cefais ei fod allan o fy ffordd yn hollol wrth ddyfod o'r cwch; ac wrth ei fesur, yr oedd yn llawer mwy na fy nhroed i. Dygodd hyn beth blinder a dychymygion eilwaith. Yr oedd yn rhaid fod trigolion ar yr ynys yn llechu, neu fod rhywrai wedi talu ymweliad â hi.

Mae dychryn perygl yn anhawddach i'w oddef na'r perygl ei hun. Yn y diwedd penderfynais wneyd fy nghaban yn fwy diogel eto. Codais wal newydd, deg troedfedd o drwch, oddiam-gylch iddo, a gwnaethum saith o dyllau ynddi. Yn y tyllau hyn, cadwn saith dryll, fel magnelau, a gallwn eu tanio oll mewn mynyd neu ddau. Yr oeddwn wedi planu coed yn dew o flaen fy nghaban; ond plenais hwynt eto yn llawer tewach, a gwnaethum y fynedfa at y caban yn annhramwyadwy. Y ffordd y trefnwn i mi fy hunan fyned yn ôl a blaen ydoedd gydag ysgolion dros glogwyn o graig, a chodi yr ysgolion ar fy ol. Yr oeddwn yn awr â'm lloches yn hynod o ddirgel a chadarn.

Cesglais ddigon o wroldeb eto, er gwaethaf fy ofnau, i grwydro yn ôl a blaen dros yr ynys. Ymhen dwy flynedd lawn wedi i mi weled yr ôl troed hwnw, pan yn disgyn dros fryn bychan at y tsaeth, synwyd fi yn fwy nag erioed, a chafais berffaith foddlonrwydd i mi fy hun fy mod yn gywir yn fy syniad mai ôl troed a welais ddwy flynedd yn ol. Yn ymyl y traeth, ar ysmotyng teg, gwelwn nifer o benglogau dynol, ynghyd a dwylaw, traed, ac amryw esgyrn; ac yr oedd ôl tân wedi ei gynneu yn nghanol y cylch. Deallais ar unwaith fod anwariad yn arfer talu ymweliadau â'r ynys, a'u bod yn arfer yr echylldra y clywais lawer o son am dano, o ymborthi ar eu gilydd. Trodd fy ofn yn awr i deimlad nerthol o gynddaredd at y fath farbareidd-dra, a gwnaed fy nghylla yn sâl gan yr olygfa. Dychwelais eto at fy nghaban; ond rhaid dyweyd i mi fod ar fy ngliniau ar y ffordd yn diolch i'r Arglwydd am nad oeddwn wedi fy nghodi ymysg y cannibaliaid hyn. Cedwais yn fy nghaban y rhan fwyaf o'r amser am ddwy flynedd ar ol hyn, ac nid wyf yn cofio i mi saethu cymaint ag ergyd yn yr holl amser.

Treuliais lawer o amser i ddyfeisio sut y gallwn ddial ar y barbariaid yma, a'u lladd, os talent ymweliad arall â'r ynys. Y cynllun mwyaf dewisol genyf ydoedd, paratoi lloches guddiedig yn agos i'r fan lle y tiriasant, a gwyllo eu dyfodiad, gyda fy holl ddrylliau yn barod. Yr oeddwn yn benderfynol unwaith i wneyd anturiaeth o'r fath, a bŵm am rai misoedd bob dydd ar fy ngwylidwriaeth am eu dyfodiad. Ond gwelais nad oeddwn yn gwneyd yn iawn i gynnyg y fath beth. Buasai yn bechod ynof yn erbyn Duw, a buaswn yn peryglu fy mywyd fy hunan yn rhyfygus. Prin y gallaswn ddysgwyl trechu ugain neu ychwaneg o'r anwariad; ac os diangai un, a dwyn y newydd adref i'w oyfandir, gallasant ddyfod yn haid am fy mhen. Felly penderfynais mai y peth goreu i mi oedd cadw fy hunan, hyd y gallwn, allan o'u ffordd.

Yr oedd pob dyfeisiau i wellâu fy nghyflwr wedi eu gadael yn awr o'r neilldu er ys rhai blynyddoedd. Fy mhwnic mawr ydoedd diogelwch. Yr oedd yn well genyf gadw oddiwrth bob gwaith, rhag i mi dynu sylw. Felly ychydig neu ddim defnydd fyddai ar y morthwyl, y fwyall, y dryll, a phob offer eraill. Yr oeddwn yn groes iawn i dân hefyd; rhag i'r mwg dynu sylw y barbariaid ar eu gwibdeithiau. Felly symudais bob gwaith ag yr oedd anghen llawer o dân arnaf i ganol coedwig dew gryn bellder oddiwrth y caban. Llosgwn y coed yno hefyd dan dyweirch, i wneyd charcoal, a dygwn hwnw adref yn danwydd, oblegid nad oedd mwg yn dyrchafu oddiwrtho. O'r tu cefn i lwybr tewfrig yn y goedwig hon, tarewais wrth enau ogof. Aethum i mewn gyda pheth dychryn, a chafais ei bod yn helaethu wrth fyned ymlaen. Daethum allan yn gynt nag yr aethum i mewn. Eto ceisiais fagu gwroldeb; cymerais dewyn o'r tân i'm goleuo, ac i mewn â mi eilwaith. Cripiodd dychryn drosef pan welais ddau lygad yn serenu arnaf o gongl dywell o fy mlaen. Codai fy ngwallt fel gwrych ar fy mhen, a phe buasai hot genyf, buasai yn sicr o'i

thafu i lawr. Nis gwyddwn pa un ai dyn ai cythraul oedd yno. Beth bynag, wedi ymchwiliad, cefais mai bwch gafr ydoedd, ac aethum ymlaen gyda chwilio y lle. Yr oedd yn gryn ystafell, a gwelwn fod lle cul i fyned ymhellach ymlaen. Wedi cael canwyll, aethum ar fy nhraed a'm dwylaw, ac ymgripiais amryw latheni, a chefais y lle eilwaith yn ymêangu, ac ochrau yr ogof yn dysgleirio yn ngoleu y ganwyll gan y creigiau dysglaer o aur neu berlau, neu rhywbeth arall. Yr oedd hwn yn lle nodedig i ymguddio, a gallaswn yma amddiffyn fy hun gyda'm llawddryll yn erbyn mil o ddynion. Yr oedd y lle hwn yn berffaith sych, a phenderfynais symud y rhan fwyaf o'm powdwr, a rhai pethau eraill, i'w cuddio yma.

Yn nghanol mis Rhagfyr, ymhen 23 mlynedd o fy arosiad yn yr ynys, pan oeddwn ar ryw achos allan o'm caban cyn ei bod yn oleu, er fy mawr syndod gwelwn dân wedi ei gynneu ar y traeth, a hyny yr un ochr i'r ynys a fy nghaban. Brysiais i fy nghastell, a thynais yr ysgol ar fy ol. Nid oeddwn yn esmwyth eilwaith. Gosodais bob peth yn barod i amddiffyn fy hun. Rhoddais ergydion yn y dryllau, a gosodais hwynt yn eu lle yn y tyllau oedd yn y wâl. Penderfynwn wneyd ymdrech deg am fy mywyd, ac nid anghofiais orchymyn fy hunan i ofal fy Nghrêawdwr.

Wedi dysgwyl yn hir, anturiais allan eto dros yr ysgol; dringais yn lladradaidd i ben y graig, a chymerais fy ngwydryn i edrych tua'r traeth. Gwelwn yno naw o ddynion, yn berffaith noeth, ac yn eistedd yn gylch, a thân yn llosgi gerllaw iddynt. Nid oedd yr hin yn galw am dân, ond gwelwn mai defnyddio y tân oeddent i rostio y cnawd dynol a fwytaent. Yr oedd dau gwch ganddynt. Arosais i'w gwylid hyd nes iddynt orphen â'u gwaith, a chymeryd eu badau, a myned ymaith. Mor gynted ag yr aethant ymaith, aethum innau allan, wedi gwisgo fy holl arfogaeth. Aethum i ben y bryn, a gwelwn dri chychaid arall o ddynion yn gadael y traeth, o'r un man ag y gwelwn hwynt o'r blaen. Ac wedi myned i'r fan y buont yn gwledda, yno yr oedd darnan o gyrff dynol, a'r holl le yn orchuddiedig â gwaed. Ni welais neb barbariaid am bymtheng mis ar ol hyn. Yn nechreu haf y flwyddyn ganlynol, daethum i gyffyrddiad dychrynlyd â hwynt.

(I'w barhadu.)

## COFIWCH YR ADAR.

**M**AE dyddiau oerion y gauaf wedi dyfod, a bydd y rhew a'r eira yn ei gwneyd yn anhawdd i aderyn y tô, ac adar bychain eraill, gael ymborth.

A wna ein darllenwyr gasglu y briwsion oddiar y bwrdd ar ol boreufwyd, a'u tafu allan i'r adar?

Cyf. J. E.



## ROBIN GOCH.

**T**Y Robin, fy Robin, fy anwyl Fronrhuddyn,  
 Nid oes un aderyn cyffelyb i ti;  
 Dy olwg a'm llonodd, dy liwiau a'm denodd,  
 Dy degwch a swynodd fy nghalon bach i.

Pan ddarffo i'r wenol, a'r gwew fwyn sirioh,  
 Ein gadael yn hollol a myned dros fôr;  
 Mewn adfyd a chyni, er gauaf ac oerni,  
 Ti 'n llon a chwareui o gwmpas fy nôr.

O tyred yr awrhon, aderyn cariadlon,  
 I bigo y briwsion a weli hyd lawr;  
 Ac hefyd, os myni, cei ddyfod i'm lletty,—  
 Ond paid a dychrynu nac ofni yn awr.

Dy gochfron anwylgu sy 'n gwneyd im' dy garu  
 Yn fwy na holl deulu asgellog y llwyn;  
 Pe bawn i yn meddu gwell dawn i brydyddu,  
 Ni wnawn i ond canu it', Robin bach fwyn.

HUGH JONES.

## LLYFRAU NEWYDDION.

[JESUS MIGHTY TO SAVE, or *Christ for all the world, and all the world for Christ, gan y Parch. A. B. GROSART.* Llundain: James Nisbet & Co., 21 Berners Street.]

**C**YFROL fechan dlos iawn yw y llyfryn hwn, a thra chyfaddas  
 i'w rhoddi yn nwyllaw plant a phobl ieuainc. Er egluro  
 cymhwysderau Crist, fel un "CADARN I IACHAU," y mae

ganddo bedwar rhaniad,—I. Ei wybodaeth am ddyn. II. Ei awdurdod ar ddyn. III. Ei gyfoeth i ddyn. IV. Ei berthynas â dyn. Mae eglurder, symlrwydd, a difrifoldeb yr awdwr, yn bur darawiadol.

[GWNEWCH Y GOREU O HONO; *neu gyfarwyddiadau i iawnddefnyddio gwahanol fanteision, ac i ymroellhau trwy ddygwyddiadau bywyd. Gan y Parch. JOHN PUGH, B.A. Wrexham; R. Hughes & Son. Pris 6 cheiniog.*]

**M**AE y llyfryn hwn wedi ei gyhoeddi yn Saesoneg o'r blaen, ac wedi cael derbyniad helaeth. Mae yn awr wedi ei gyhoeddi yn Gymraeg, a dymunem rwydd hynt iddo trwy y Dywysogaeth. Bydd y neb a'i darlleno yn sicr o gael gwersi da; ac y mae yn dra phwrpasol nid yn unig i hyfforddi, ond hefyd i gynnwrchu gobaith ac ymroddiad mewn dyn ieuanc sydd yn troi dan lawer o anfanteseion.

[TRAETHODAU, PREGETHAU, AC EGLURIADAU YSGRIFYTHYROL, *gan* JOHN THOMAS, *Liverpool.*]

**CYFROL** werthfawr a destlus yw hon ag a fydd yn aros yn gynnrychioliad teg o gymeriad a galluoedd yr awdwr wedi iddo ef fyned i ffordd yr holl ddaear. Gwna i fyny yn ymyl pedwar cant a hanner o du dalenau mewn plyg agos i faint TRYSORFA Y PLANT. Cynnwysa wyth ar hugain o bregethau, naw ar hugain o egluriadau da iawn ar adnodau anhawdd eu deall yn y Bibl, a phedwar neu bump o draethodau gwerthfawr. Mae y traethodau ar "Grefydd Gymdeithasol Cymru," a'r "Pulpud Cymreig," yn deilwng o sylw arbenig. Mae y pregethau hyn, nid yn unig yn dda, ond hefyd yn hynod o syml a darllenaadwy. Ac er nad yw y Cymry mor hoff o ddarllen pregethau a'u gwrando, credwn y darllenir y rhai hyn gyda blas a buddioldeb gan filoedd. Ac nid oes raid i'r neb a'u darlleno fod mewn tywyllwch am drefn cadwedigaeth yr efengyl. Da fyddai genym weled prif bregethwyr Cymru yn darparu cyfrol fel hon o'u prif gyfansoddiadau i'w gadael ar ol yn etifeddiaeth i'w cenedl. Buom yn dysgwyl yn "arw" am bregeth neu araeth ddirwestol yn y gyfrol; credwn y dylasai fod mewn cyfrol amrywiol fel hon oddiwrth un sydd wedi gwneyd cymaint gyda'r achos hwnw. Mae yn wir ei fod wedi hysbysu ei hun yn amlwg ar y pwnc mewn mwy nag un o'r pregethau. Pris y gyfrol yw 4s. 6c., ac y mae i'w chael gan yr awdwr,—*Rev. John Thomas, 40 Everton Crescent, Liverpool.*

DADL Y BECHGYN.

**T**HOMAS: Wel, William, sut mae'r Ddirwest yna yn troi allan gyda thi? Wyt ti wedi dod yn ddirwestwr "sound yn y carn," fel y dyweda' nhw?

*William.* Ydwyf, yr wyf yn 'ddirwestwr zelog, ond ddim mor gadarn â thi, fe allai. Carwn i weled Dirwest yn llwyddo, ond y mae llawer yn meddwl mai troi allan yn fethiant a wna.

*Thomas.* "Troi allan yn fethiant," yn wir! Sut y gall gwirionedd, wedi cael lle unwaith i roi ei wadn mor gadarn i lawr, droi allan yn fethiant? Ffydd wan iawn sydd ynot ti, William. Os na weli di ben draw dy siwrnai cyn cychwyn, yr wyt yn tori dy galon. Dylet gredu yn ddiysgog mewn egwyddorion da, pe na welet lwyddiant byth. Ond pa argoel methu wyt yn weled ar yr achos Dirwestol?

*William.* Wel, mae nhw'n dyweyd fod cymaint o dafarnau yn awr ag a fu erioed. Os yw hyny yn wir, nid yw Dirwest wedi gwneyd fawr o les.

*Thomas.* Na, na; nid yw hyna yn ymresymu teg, William. Dylai bechgyn fel ni edrych ar bethau yn fanylch. A yw y tafarnau yn cynnyddu yn gyfartal i gynnydd nifer y trigolion yw y pwnc. Os gwnei di ymchwiliad i'r pwnc yn y goleuni hwn, cei weled fod Dirwest a chrefydd wedi gwneyd gwaith dirfawr eisoes. Yr wyf fi yn gwybod am dref heb fod ymhell; yr oedd dros ddengain o dafarnau ynddi bymtheng mlynedd yn ol. Erbyn heddyw mae y trigolion wedi mwy na dyblu, ond er hyny mae nifer y tafarnau bump neu chwech yn llai.

*William.* Nid oeddwn wedi edrych ar y mater yn y goleuni yna o'r blaen. Ond wedi'r cwbl, mae llawer iawn o yfed cwrw yn bod o hyd.

*Thomas.* Oes, oes; ond nid yw cynnydd yr yfed cwrw yn cyddyfu â chynnydd y trigolion, fel cynnydd bwyta bara, a chaws, ac ymenyn, a thê, a siwgr. Ac y mae cyfnewidiad mawr ar yr yfed hefyd fel y mae.

*William.* Pa gyfnewidiad sydd? Yr un peth yw y cwrw; yr un peth yw ei bris; yr un ffordd mae y bobl yn ei yfed; a'r un fath yw ei effeithiau ar y rhai a'i hyfant.

*Thomas.* Ië, ië; ond y mae llai o ddynion cyfrifol yn mynychu tafarnau nag a fu. Ac y mae y dynion mwyaf cyfrifol yn teimlo tipyn o gywilydd wrth fyned, ac yn edrych yn *sly* ar y dde a'r aswy, rhag fod neb yn eu gweled, wrth fyned. Mae yr yfed yn darfod yn gyflym mewn cyfarfodydd crefyddol, mewn priodasau ac angladdau. Mae "cwrwr clwb" wedi ei dori i lawr mewn llawer man; a'r clwb ei hun, mewn dwsinau o enghreifftiau, wedi codi ei flwch dan ei gesail, a chanu yn iach i'r dafarn am byth. Nid argoelion methiant yw y pethau hyn, William.

*William.* Ond sut y mae cynifer oedd yn arfer areithio Dirwest mor zelog, wedi tewi? A phaham na chaem y gwyliau Dirwestol, y gorymdeithiau, a'r canu, fel cynt? Mae edrych ar agwedd farwaid a difater llawer o ddynion da yn fy nigeloni i. Ac yr wyt fi yn gwybod am liaws o fechgyn ieuainc a phenau teuluoedd wedi tori eu hardystiad, ac wedi myned i yfed a meddwi, oblegid nad yw y gweinidog a'r diaconiaid yn gefnogol i'r achos Dirwestol.

*Thomas.* Digon tebyg. Ond nid yw ymddygiad pobl eraill yn

un rheswm dros i ni beidio ateb cydwybod i'r gwirionedd. Anghenrhaid hefyd yw dyfod rhwystrau. Mae eisieu rhywbeth heblaw "gwyliau" ar yr achos Dirwestol, ac ar bob achos arall, os yw i gynnyddu a byw byth. Mae haf a gauaf i fod ar bobpeth. Mae eisieu y gauaf ar y gerddi a'r maesydd. Pe byddai yn haf o hyd, fe dynid eu holl nerth allan mewn blodau a ffrwyth, nes y lleddid hwynt. Byddai fel gosod oen i sugno y ddafad, ac ystrapo pen y fam rhag pori. Mae oerfel y gauaf yn gyru bywyd y planigyn i lawr i'r gwraidd i gasglu ymborth a nerth erbyn yr haf. A phan ddaw Mai a Mehefin, fe gwyd y nerth a gasglwyd yn y gauaf, yn flodau ac yn ffrwyth i fyny i'r brig. Rhaid cael gauaf i gasglu nerth, cyn y gellir ei ddangos yr haf.

*William.* A wyt ti wedi anghofio dy bwnc, Thomas? Pa gysylltiad sydd rhwng Dirwest a haf a gauaf?

*Thomas.* Na, yr wyf ar gefn fy mhwnc. Dyweyd yr ydwyf mai gauaf yw mewn llawer man ar yr achos Dirwestol heddyw; ond y mae yn rhaid iddo wrth auaf. Y mae yn casglu nerth a gwreiddio. Mae yn destun siarad yn y gwaith, yn yr Ysgol Sul, yn y cyfarfodydd crefyddol, yn y llys, ac yn y Senedd. Mae y *Band of Hope* yn hau yr egwyddorion yn nghalonau y genedl sydd yn codi. Mae y wasg yn gwasgar ei llyfrau, ei misolion, a'i thraethodau bychain ar hyd a lled y wlad. Cadw di dy galon, William, fe ddaw Mai a Mehefin ar ol hyn, i ni gael y gwyliau, a'r ffrwythau. Daw amser i'r adar ganu, a chlywir llais y durtur yn ein gwlad.

*William.* Yn wir, yr wyf fi yn calonogi wrth dy wrando. Yr oeddwn i wedi myned dipyn yn llwfr gyda'r achos hwn er ys tipyn. Yr oeddwn yn meddwl er ys rhai blynyddau yn ol, wrth ddilyn y faner a chanu nes oedd y creigiau yn diaspedain,

"De'wch frodyr o un fryd,  
A safwn ar y maes  
Yn erbyn hen Goliath fawr,  
Sef meddwdod ffiائد caa."

Yr oeddwn yn meddwl y buasai yr hen gawr wedi colli ei ben cyn hyn; ond nid wyf yn ammheu yn awr na chawn wel'd ei dori i lawr eto.

*Thomas.* Yr wyf fi yn credu mewn Dirwest; ac y mae llonaid fy nghalon o hyder yn ei llwyddiant. Dyma rai o fy rhesymau:—

1. Mae cynifer o ddynion goreu ein gwlad mor zelog o'i phlaidd. Gallwn enwi ugeiniau o weinidogion yr efengyl, cannoedd o ddiaconiaid eglwysig, a miloedd o athrawon yr Ysgol Sabbothol—dynion sydd yn rhodio gyda Duw, ac sydd yn ymroddedig i wasanaethu a dyrchafu eu gwlad. A wyt ti yn meddwl fod yn bosibl i gynifer o'r fath ddynion gael eu harwain ar gyfeiliorn ar ol ynyfdrwydd?

2. Mae yr yfed yn colli ei barch yn brysur. Fel rheol, yn bur lladradaidd yr ä dynion crefyddol i dafarn yn awr. Os yn bwytio cinio mewn cwmni, rhaid edrych pwy sydd yn bresennol cyn ateb beth a yfant. Os ceisir glasaidd o gwrw, rhaid gwneyd esgus dros

hyny—anhwylusdod, neu y doctor wedi ei *ordro*, neu rywbeth cyffelyb. Mae rhyw ddrwg yn bod yn y ddiod y rhaid gwneyd *apology* dros ei yfed. Pwy wnaeth *apology* erioed dros yfed dwfr? Byddai yn sarhâd ar y Crëawdwr bendigedig i neb gynnyg y fath beth dros ei ddiod ef!

*William.* Yr wyt yn siarad yn rymus, Thomas.

*Thomas.* Aros dipyn, nid wyf wedi gorphen fy rhesymau dros gredu yn llwyddiant Dirwest.

3. Mae y cyffro Dirwestol yn ymledu fwyfwy o flwyddyn i flwyddyn. Mae drygedd y diodydd meddwol wedi dyfod yn destun difrifol i bob dyn ystyriol, a lliaws mawr o wahanol ddyfeisiau yn cael eu cynnyg i gyfarfod y drwg. Myn rhai gael *Maine Law*, sef cyfraith i wahardd gwerthu y diodydd meddwol. Mae dosbarth pwysig arall am gael *Permissive Bill*, sef rhoi awdurdod i bob lle benderfynu faint o dafarnau fydd yn eisieu yn y lle hwnw. Mae eraill yn dyweyd y dylid cau y tafarnau ar y Sabbath o leiaf, ac y gwnelai hyny hanner fygu y fasnach. Nid yw pawb, fel hyn, yn cyttuno am y moddion i'w arfer; ond y mae agos bawb yn teimlo y dylid gwneyd rhywbeth i ragflaenu melldith y diodydd meddwol. Ac yr wyf fi yn credu mai Dirwest sydd wedi cynnyrchu yr holl gyffro hyn: ac y mae yn brawf diymwad ei bod yn lledu ei gwreiddiau, ac yn èangu ei dylanwad.


*William.* Yr wyt wedi rhoddi goleuni newydd i mi ar yr achos, Thomas. Daliaf yn ddiysgog wrth fy ardstiad. A bydd yn llawen genyf wneyd y tipyn allwyf, fel arfer, gyda'r *Band of Hope*, a'r cyfarfodydd Dirwestol.

*Thomas.* Iê, gadewch i ni gael gwneyd yr hyn sydd ar ein dwylaw; bod yn Ddirwestwyr pur ac egwyddorol ein hunain; rhoddi ein presennoldeb gyda holl gyfarfodydd Dirwest; myned â thraethodau Dirwestol i dai y meddwon i'w darllen, a chymhell y teuluoedd hyny i ddyfod i'r cyfarfodydd. Bydd bod yn foddion i droi un meddwyn, a gwaredu ei deulu oddiwrth y felldith a'r trueni sydd yn ei ganlyn, yn gan' mil mwy na chael etifeddiaeth ddaearol. A phwy a wyr na lwydda y Nefoedd ymdrechion bechgyn fel ni i gyrhaedd amcan felly?



## YR ADGYFODIAD.

GAN LLYSTYN.

 R i angeu roi 'r ddynoliaeth  
 Yn nghadwynau llygredigaeth,  
 Celloedd dyfnion oer marwolaeth,  
 I gyd yn gaeth eu gwedd:  
 Er rhoi bywyd a phrydferthwch  
 Hell ddynolryw mewn tywyllwch,  
 Colli 'r ddaear yn nhawelwch  
 Dystaw lwch y bedd:



Gwawr yr adgyfodiad,  
 Bore yr adferiad,  
 Gyda 'r wedd, a deifl y bedd,  
 Ac angeu i ddiflaniad;  
 Ffy marwolaeth i ddifodiant,  
 Meirwon llesg o'r llwch ddihunant,  
 Yn llaw bywyd adgyfodant,  
 Mewn gogoniant mawr:  
 Holl genedlaethau 'r ddaear,  
 Ddont yn rhydd o'u carchar,  
 Hedant fry yn ddysglæer lu,  
 Ar wawr y bore llachar;  
 O! ardderchog fore dwyfol,  
 Ar ol tywyll nos angeuol,  
 Bore 'n ddechreu dydd tragwyddol,  
 Henffych nefol wawr.

Daw 'r archangel trwy y nefoedd,  
 Gyda 'r udgorn mawr uchelfloedd,  
 Twng i'r Hwn sy 'n byw 'n oesoesoedd,  
 Na bydd amser mwy;  
 Lwynau natur ymollyngant,  
 Esgyrn anian oll a doddant,  
 Nef a daear ymaith fföant,  
 A'u holl luoedd hwy;  
 Y dysglæer ser yn syrthio,  
 Haul y nef yn duo,  
 Ar y pryd, y nef i gyd  
 Mewn twrf yn myned heibio:  
 Ond pan drenga 'r grëadigaeth  
 Yn nhragwyddol dranc marwolaeth,  
 Bywyd floeddia buddugoliaeth  
 Trwy 'r freniniaeth fawr;  
 Yr Iesu ar ei orsedd,  
 Cwmwl gwyn tangnefedd,  
 Ddaw trwy y nef a chydag ef  
 Osgorddllu 'r Dwyfol fawredd;  
 Annuwiolion a lewygant,  
 Y cyfiawnton orfoleddant,  
 Gyda 'r Iesu yr esgynant  
 I'w ogoniant mawr.



## ENWOGION YR OES.

### IV.—Y FRENINES VICTORIA.

**H**ERCH ydyw Victoria, ein grasusaf frenines, i Edward, Duc Kent, pedwerydd mab George III. Ei mam ydoedd Louisa Victoria, o Saxe-Coburg (Germany), yr hon oedd ar adeg ei phriodas â Duc Kent yn weddw tywysog etifeddol Leiningen. Ganwyd ein brenines yn mhalas Kensington (Llundain), Mai 24,

1819, a hi ydoedd unig blentyn ei rhieni. Llywyddwyd ei haddysg cyffredinol gan Duces Northumberland. Esgynodd i orsedd Prydain Meh. 20, 1837, a chorônwyd hi Meh. 28, 1838. Safai y penadur benywaidd ieuanc yn uchel y pryd hwnw yn serch y wlad, fel y dengys y ffaith ddarfod i driugain a deg o filoedd o bunnau gael eu gwario ar y coroniad, ac i bedwar can' mil o ddyeithriaid ymweled â Llundain er mwyn gweled y ddefod. Talwyd dau can' mil o bunnau am leoedd cyflëus ar hyd ochr y ffordd i weled yr orymdaith.

Priododd Chwef. 10, 1840, â'r Tywysog Albert, mab Ernest I., Duc Saxe-Coburg a Gotha, yr hwn oedd yn perthyn iddi o ochr ei mam. Yr oedd Albert yn ddyn o farn a chymhwysderau anarferol, ac o gymeriad moesol difrycheulyd. Bu farw Rhag. 14, 1861, yn 43 mlwydd oed, er galar mawr i'r holl wlad; ac nid yw ei weddw freninol wedi ymiachâu eto o'r ergyd a gafodd yn ei farwolaeth.

Ganwyd i Albert a Victoria naw o blant—pedwar o feibion a phump o ferched, y rhai ydynt oll yn fyw;—Albert, Tywysog Cymru; Alfred, Arthur, a Leopold; Victoria, gwraig Frederick William o Prusia; Alice, gwraig y Tywysog Louis o Hesse; Helena, Louisa, a Beatrice. Mae cymeriad ein brenines fel gwraig, fel mam, ac fel penadur ei phobl, yn bob peth a ellid ei ddymuno. Y mae wedi byw yn ol ei chyffes yn ei haraeth ar ei hesgyniad i'r orsedd. “Yr wyf yn esgyn i'r orsedd,” meddai, “gyda theimlad dwfn o'r cyfrifoldeb sydd wedi ei osod arnaf; ond cynnelir fi gan ymwybyddiaeth o uniondeb fy mwriadau, a dibyniad ar amddiffyn yr Hollalluog Dduw.” Ni fu llys breninol erioed mor bur a llys Victoria; ni fu penadur erioed mor boblogaidd; ni chafodd pen-naeth erioed le mor gynhes yn serchiadau ei phobl; ac ni welwyd yr un erioed a deilyngai hyny yn fwy. Gwir ddywedodd ein han-wyl fardd Eben,—

“Naws ein Brenines i'n bro ni hòna  
Ormod awdurdod, trais hi a'i dwrda;  
Tuedd gynhenid i *Ryddid* arwydda,  
Hon yw 'n haddurn, ein *Hawen* a nodda;  
Dan ofal diwall *Prydain* flodeua,  
Moesau 'n wych fegir, masnach fywioga;  
Fe welir dewr filwyr da—ar ein rhan,  
Saif acw 'n Tarian,—Hir oes i Victoria.”

### ELIZABETH WILLIAMS, COLWYN.

**M**ERCH fechan ydoedd hon i Robert a Mary Williams, Colwyn House, Colwyn; a bu farw mewn heddych mawr yn bymtheg mlwydd oed, yn mis Ionawr, 1863. Y rheswm ein bod yn cyhoeddi ei henw yn NHRYSORFA Y PLANT yw fod dau rinwedd yn ei bywyd yn esiampl ragorol i'n darllenwyr ieuainc.

*Yn gyntaf*,—Yr oedd yn hynod am ddyweyd y gwir bob amser,

beth bynag fyddai y canlyniad. Un o rinweddau penaf plentyn yw hyn. Os bydd plentyn wedi gwneyd peth na ddylai, y ffordd y daw drwyddi oreu o lawer yw trwy ddyweyd y gwir, sut bynag y bu. Blant, dywedwch y gwir bob amser, doed a ddelo, a daw pawb yn ffryndiau i chwi trwy hyny.

*Yn ail*,—Ni wnelai ddim yn ddiarwybod i'w rhieni. Mae y plant sydd yn cuddio eu bwriadau a'u cyfrinach oddiwrth eu rhieni, yn ymddwyn yn annheilwng iawn atynt, ac yn sicr o fod yn magu drwg iddynt eu hunain. Ni ddylai fod gan blentyn unrhyw gyfrinach i'w chadw rhag tad a mam, ac ni fydd yr un gan blentyn rhinweddol a duwiol, oddieithr fod y rhieni yn bur ddrwg ac annuwiol. Teimlai ein darllenwyr ieuainc yn llawer mwy hapus wrth ymgynghori â'u rhieni am bob peth, a chymeryd eu cyfarwyddiadau. Felly yr oedd Elizabeth Williams yn gwneyd.

Mae yn dda genym allu dyweyd hefyd fod yr eneth hon yn gwneyd hyn, am ei bod yn ofni Duw. Yr oedd y rhai oedd yn ei hadnabod oreu yn credu yn ddiddadl ei bod yn ferch dduwiol, ac yr oedd ei bywyd pur yn profi hyny. Yr oedd yn gwneyd llawer o'i Bibl, ac yr oedd ganddi farciau ar gyfer yr adnodau yr oedd wedi cael blas ynddynt. O ganol ei phoenau dirfawr yn ei horiau olaf, adroddai y pennill hwn gyda gwên,—

“Ar fôr tymhestlog teithio 'r wyf  
I fyd sydd well i fyw,  
Gan wenu ar ei 'stormydd oll—  
Fy Nhad sydd wrth y llyw.”

Wedi hyny dywedai, “Mae yn ddifyr arnaf yn awr, mae adnodau y Bibl yn dyfod ar draws eu gilydd i fy meddwl.” Dyma hefyd englyn iddi a anfonwyd i ni gan Gwilyn Colwyn, gan yr hwn hefyd y cawsom y ffeithiau hyn am E. Williams :—

Gadawodd o'i bodd y byd,—shedodd  
At fodau y gwynfyd;  
Llawn o hedd, a llon o hyd,  
Yw pawb yno bob enyd.

#### ANERCHIAD I IEUENCTYD.

**I**ENFFYCH i chwi, heirdd ieuencyd,  
Ar esgynlawr brwydrau bywyd,  
I fwynhâu a goddiweddyd  
Golud yn y gwaith;  
Llawer ydynt y gelynyon,  
Brofant nerthoedd eich hymdrechion,  
Ond eu curo ydyw coron—  
Eich anrhydedd pen y daith.

Ewch ymlaen, ieuencyd pybyr,  
Llwyddiant yw addewid llafur,

Ceisiwch feddiant ar ddifesur  
 Gysur maesydd moes;  
 Llamwch dros fynyddoedd rhwystrau,  
 Ffrwynwch nwydau eich teimladau,  
 A symbylwch eich meddyliau,  
 Mynwch flaenu cewri'r oes.

Gwybodaethau sydd yn galw  
 O'r mynyddoedd dedwydd acw  
 Ar eich ol, am glod ac elw,  
 Dringwch atom ni;  
 De'wch, a chewch drysorau ddigon,  
 Lleinw gonglau dyfna 'ch calon;  
 Hyn a'ch cwyd yn foneddigion,  
 Ac yn ddyinion fyth mewn bri.

JOHN GAERWENYDD PRITCHARD.



### GWELL GENYF WEITHIO YN GYNTAF, MA'M.\*

**I**N bore pan aeth boneddiges i'w drws, yr oedd yno fachgen tlawd a charpiog o'r tu allan, yn crynu gan oerfel, a llwydrew ar ei wallt. Gofynnodd yn ostyngedig iddi, "A welwch chwi fod yn dda roddi rhyw waith i mi, ma'm?"

"Dewch i mewn i ymdwymno, fy machgen i," ebai'r foneddiges; "a oes eisien rhywbeth i'w fwyta arnoch?"

"Gwell genyf weithio yn gyntaf, ma'm—nid cardota yr ydwyf."

"Wel, caaglwhch y coed acw yn y buarth, a rhoddwch hwynt yn bentwr cryno."

Aeth y bachgen at y gwaith yn llawen, a gwnaeth ef yn dda a chryno. Yna galwodd y foneddiges ef i'r tŷ i gael bwyd. Gosododd bryd da o'i flaen. Bwytaodd y bachgen ychydig, oblegid yr oedd yn newynog. Yn y man, gofynnodd yn wylaid,—

"A ydyw y bwyd yma oll i mi?"

"Ydyw, fy machgen, bwytwch ef yn galonog, oblegid yr ydych wedi ei ennill."

"Wel, os gwelwch chwi fod yn dda," ebai'r bachgen, "cymeraf ef i fy mam. Y mae fy mam yn glaf, ac yn methu codi o'i gwely, a fy nhad wedi myned ymaith ar fordaith bell. Y ddynes oreu yn y byd yw fy mam. Dywedodd wrthyf fi am beidio cardota, ond gofyn am waith."

"Cymerwch y bwyd iddi, fy machgen anwyl i," ebai'r foneddiges, "a chymerwch beth o'r coed acw i fyned adref i gynneu tân."

"Diolch i chwi, ma'm," ebai'r plentyn ystyriol; ac aeth adref at ei fam, a'i galon fach yn cure yn gryf dan ei ddillad carpiog.

Aeth y foneddiges ar ei ol ymhên ychydig, i edrych am y teulu, a chafodd fod y plentyn wedi dyweyd gwirionedd bob gair.

\* Mae yr hanesyn yma a ddaeth oddiwrth "Fachgen o Glwt y Bont" yn bur dda, ond yr oedd y cyfieithiad yn wael. Cofied ein cyfeillion ieuainc roddi Cymraeg ystwyth yn eu brawddegau wrth gyfieithu.

Pan aeth yno yr oedd tân wedi ei gynneu o'r coed a ddygodd adref, ac yntau yn eistedd ar erchwyn y gwely yn bwydo ei fam a'r ymborth a gafodd. O hyny allan cafodd y bachgen weithio rhai oriau bob dydd gyda'r foneddiges garedig, a chafodd ef a'i fam ddigonedd o ymborth ac anghenrheidiau eraill i'w cynnal yn gysurus. Pan dyfodd y bachgen hwn i fyny, daeth yn ddyn tra chyfrifol yn yr ardal. Fel hyn y mae yr Arglwydd yn bendithio y plant sydd yn parchu eu rhieni.

## DYDDANION.

BETH YW Y MELLT ?


**G**OFYNODD plentyn rhwng pump a chwech oed i'w thad yn ddiweddar, wrth weled y mellt yn llinellu y ffurfafen, "O, 'nhad, beth ydynt?" "Yr ydych yn rhy ieuanc eto i allu deall," ebai'r tad; "eglwraf hwynt i chwi pan dde'wch ychydig yn hynach." Wedi syllu arnynt am dro, dywedodd y plentyn, "O, mi wn beth ydynt,—rhwbio y *matches* y maent i fyny acw, gael goleuo y ser." Yr oedd yn arfer gweled ei thad yn fynych yn tynu *match* dros y *mantelpiece* du, i oleuo y ganwyll, a hwnw yn gadael llinell oleu am foment ar ei ol.

POCEDI YN Y GYNAU GWYNION.

**D**ID oes dim yn fwy dymunol gan blentyn na chael poced, ac y mae gwerth anmhrisiadwy ar y trysorau sydd ynddi,—y gyllell geiniog, y *marbles*, y llinyn, a'r sialc. Wedi clywed ei rieni yn son am blant yn myned i'r nefoedd, a'u bod yn cael eu gwisgo yno mor brydferth mewn gynau gwynion, gofynodd Thomas bach yn sydyn a myfyrgar, "A fydd pocedi yn y gynau gwynion, i gael cadw pethach 'ynddy' nhw?"

COLERIDGE PAN YN BLENTYN.

**P**R oedd Coleridge, y bardd enwog, yn ymgolli mor ddwm mewn myfyrdod yn fynych, hyd yn nôd pan yn blentyn o saith i bedair ar ddeg, fel yr anghofiai ei hun. Elai un diwrnod i lawr trwy y *Strand* (Llundain), gan hanner breuddwydio ei fod yn nosio yr Hellespont; taflai ei ddwyllaw wrth gerdded fel pe buasai yn nosio. Tarawodd ei law wrth ei thafu yn erbyn gŵr boneddig oedd yn myned heibio, a thybiodd hwnw ei fod yn ceisio myned i'w boced. "Yr wyt yn dechreu arni yn fore!" ebai. Gwaeddodd y bachgen yn ddifrifol, a dywedodd mai meddwl ei hunan yn Leander ydoedd yn nosio Hellespont. Cafodd y boneddwr ei foddloni mor fawr wrth ymddyddan âg ef, fel y taflodd un o lyfregelloedd goreu Llundain yn agored iddo.



## TRYSORFA Y PLANT.

RHIF. XXVIII.]

EBRILL, 1864.

[CYF. III.

### BRASLUNIAU.

RHIF. VII.

**D**ACW ddyn bychan pengrwn, go ieuanc, yn sefyll i fyny yn y pulpud. Dyn oddiallan ysgafn ac eiddil ydyw, ond y mae ganddo ddyn oddimewn yn gawr nerthol; ac y mae gan yr olaf fwy o ran yn nghyfansoddiad y pregethwr na'r blaenaf. Mae ganddo lygad treiddgar, a threm hynod o ddifrifol. Ei lygad yw canolbwnc dylanwad ei wynebpryd; mae yn affonydd, yn llosgi gan dreiddgarwch, ac yn llawn meddwl ac olrheiniad. Siarad ei bregeth y mae, ac nid yw byth yn ei gwaeddi, na'i chanu. Mae ganddo feddwl gwreiddiol, annibynol, a nerthol. A pha destun bynag a gymero, bydd ei bregeth arno yn annhebyg i bregethau pawb o'i flaen. Ymlidia ei bwnc yn ddirugaredd, ac ymsudda i lawr i'w ddyfnderoedd; fel y dyn yn disgyn yn y suddgloch i lawr at y llong suddedig, ac yn dwyn i fyny yr aur a'r arian a'r trysorau, heb ddefnyddio pylor, na cheibiau, na chadw dim twrw. Dwg yntau o galon ei destun drysorau newydd a hen—ac o ddyfnderoedd ei destun y deuant, ac nid o unlle arall. Mae treiddgarwch a manylder yn nodweddiion arbenig ynddo. Sylla ar ei bwnc & i holl enaid, nes y dadblyga llinellau a chysylltiadau eu hunain i'w olwg, nad ymddangosent byth i feddwl mwy egwan ac arwynebol. Fel y gwnai Jacob orchfygu yr angel & thaerineb gweddi, nes cael

y fendith ganddo, y gwna yntau orchfygu ei destun â thaerineb meddylgarwch a myfyrdod, nes cael yr agoriad i fyned i mewn. Ac y mae ei ddull hynod o acenu a phwysleisio yn profi ei fod yn adnabod pob meddylddrych, yn gwybod eu hanes, ac yn synied eu gwerth. Dywed un awdwr mai bathdŷ Duw yw y gwir bregethwr; fod yr Arglwydd yn poethi ei galon nes byddo y gwirionedd yn llifo allan o honi yn aur toddedig, a bod ei ymadroddion destlus a chymeradwy fel bath-argraff i *stampio* yr arian bathol fyddo yr Arglwydd yn dori ynddo. Ond y mae miloedd o bregethwyr nad ydynt ond cyfnewidwyr neu drosfaelwyr arian (*exchange brokers*) yn rhedeg rhwng y banc a'r cwsmer i ddwyn hen arian bathol yn ôl a blaen at ddybenion masnachol. Y mae yn rhaid wrth y rhai hyn hefyd, ond eu bod yn sefyll yn nês i lawr. Ond perthyn i'r blaenaf yn ddiddadl mae y pregethwr sydd dan ein sylw. Nid dyn o feddwl cyffredin fuasai yn ymdeimlo â gwneyd pregeth ar y gwahaniaeth rhwng preswyliaid Crist a phreswyliaid yr Ysbryd Glân yn y galon. Ac nid bob dydd y ceid dyn a feiddiai alw yr Ysbryd Glân yn "wneuthurwr pebyll," neu y ceid llygad digon craff i ddwyn yr adnod hono i brofi mai cadernid yw y peth cyntaf yn ngweithredoedd Duw, ac wedi hyny y prydferth—"Canys Adda (y cadarn) a luniwyd yn gyntaf, yna Efa (y brydferth)." Gallai dyn a eisteddai dan ei weinidogaeth y blynyddoedd diweddaf hyn feddwl mai brodor o Ephesus ydyw, a'i fod wedi derbyn deuparth o ysbryd yr apostol Paul i ddirnad a manylu dirgelion athrawiaeth yr efengyl. Mae rhai o'i gymhariaethau yn ogleisio o brydferth, ac ambell ddesgrifiad yn hynod o farddonol. Dyn anwyl ydyw; a phe rhoddid yr awdurdod i ni, gosodem ef yn rhe flaenaf ein pregethwyr.

### BLODAU GAN IESU GRIST.

**H**AI blynyddau yn ôl, yr oedd dau bregethwr o Sir Forganwg yn pregethu yn un o gapelau godre Ceredigion. Daeth un o honynt â swp bychan o flodau gydag ef i'r pulpud.

"Dyna bregethwr *nice* oedd y pregethwr cyntaf oedd yn capel heddy', 'mam," meddai Hannah fach wrth ei mam, wedi dyfod adref o'r cwrdd.

"Pam, blentyn; a ddywedodd e' rywbeth wrth eich bod chwi?"

"Na, nid hyny wy'n feddwl, 'mam, ond dyweyd ei fod e' ddyn *nice* ydw i."

"Sut y gwyddoch chwi hyny, Hannah? Ni fuoch chwi y siarad âg ef."

"Mi wn i mai dyn *nice* oedd e', serch hyny."

"Wel, plentyn ôd ydych chwi; sut y gwyddoch?"

"Welsoch chwi ddim o'r swp blodau hyny ganddo yn y pulpud, ac fel yr oedd yn eu harogli pan oedd y dyn arall yn pregethu, ac yn edrych mor llon arnynt."

"Wel do; ond sut mae hyny yn dangos ei fod yn ddyn nice, Hannah?"

"O, ni wnaethai hyny oni b'ai ei fod yn caru'r blodau. Dywedwch, 'mam, bryd daw e' i'n capel ni eto?"

"Ni wn i ddim, bach."

"A ddaw e' cyn y gaua'?"

"Wn i ddim; fe allai y daw e'."

"Cofiwch chwi ddyweyd wrthyf fi ymlaen, pan ddaw e'r tro nesa', 'mam."

"I ba beth, blentyn?"

"Iâ, a wnewch chwi gofio os dywedaf wrthyf?"

"O'r goreu; mi dreia' gofio."

"Wel, dyna i beth:—mi wna'f fi swp o flodau goreu'n gardd ni, ac mi rhodda nhw iddo pan ddaw e' i'r capel y tro nesaf, waith yr ydw i yn ffrynd iddo. A oes blodau gan Iesu Grist yn y nef-oedd, 'mam?"

Gyda hyn cododd y fam y plentyn i'w chôl, yn ddiarwybod iddi ei hun, wedi clywed y gofyniad olaf, ac heb wybod yn iawn beth i ddyweyd, dywedodd,

"Oes, fy mhlentyn anwyl; oes."

"A ydynt yn fwy prydferth na blodau'n gardd ni?"

"Ydynt, ydynt, lawer iawn. Nid yw blodau Iesu Grist byth yn gwywo; mae'n haf o hyd yn y nefoedd. Ni welsom ni erioed ddim tebyg i flodau Iesu Grist."

"O 'mam, yr ydych wedi dyweyd lawer gwaith mor dda am Iesu Grist, nes gwneyd i mi ei garu, ond byddaf yn ei garu yn fwy nag erioed wedi clywed hyn am dano."

J. P.

*Blaenanerch.*



BETH YW CROES?

**B**R oedd dyn duwiol unwaith yn ceisio egluro i'w blentyn beth oedd croes. Cymerodd ddau bren yn ei law, un hir, ac un byr, a gosododd y byr ar draws yr un hir, yn agos i'w ben, fel hyn,—



"Edrych yma, fy mhlentyn," meddai; "y pren hir, sydd yn sefyll yn syth, yw ewyllys Duw; a'r un byr, sydd ar ei draws, yw dy ewyllys di. Gosod di dy ewyllys yn yr un cyfeiriad ag ewyllys Duw, fel hyn,—



ac yna, ni fydd croes yn bod."



## DYCHWELIAD Y CYMRO I'W WLAD EI HUN.

*Y Miwsig, gyda geiriau Seisonig, gan Mr. J. THOMAS, Castellnedd.*

**H**HINSAWDD i hinsawdd fe grwydrais yn hir,  
 O rewdir y Gogledd i Itali dlos :  
 Am danat ti, Walia, ar fôr ac ar dir,  
 Hiraethais y dydd a breuddwydiais y nos.  
 Cyfeiriais fy nghamrau i'r ardal hoff hon,  
 Ar gopa Clawdd Offa gosodais fy nhraed :  
 Daeth awel y mynydd fel gwin i fy mron,  
 A golwg ar Gymru gynhesodd fy ngwaed,  
 A golwg ar Gymru gynhesodd fy ngwaed.

Ar dywod yr anial bu ôl fy nau droed,  
 Fe deithiais mewn oerfel a phoethder yr hin ;  
 Or fro lle nas tyfodd glaswelltyn erioed,  
 I wledydd y mêl a gwinllanoedd y gwin :  
 Yn Nghymru parhâodd fy nghalon o hyd,  
 Anwylach a harddach yw hen Walia wên :  
 Fe groesais y môr i eithafoedd y byd,  
 Ond croesais yr Hafren i orphwys fy mhen,  
 Yn nghartref fy nhadau gorphwysaf fy mhen.

J. CEIRIOG HUGHES.

SUT I GAEL 'NHAD I'R YSGOL SUL.

“**W**Y allwn ni gael?” meddai un brawd bach wrth y llall,  
 wrth fyned adref o'r Ysgol Sabbothol.  
 Yr oedd yr arolygwr wedi dymuno ar y plant i geisio  
 cael un newydd gyda hwynt i'r ysgol y sul nesaf.

“Dyna 'nhad,” ebai'r brawd arall, “nid yw byth yn dyfod i'r  
 ysgol ; gâd i ni gael ei dreio ef.”

“Ond mi wn i beth ddywed fy 'nhad, pan ofynwn iddo.”

“Beth ?”

“Na ddof fi ddim—ewch chwi.”

“Wel,” ebai'r llall, ar ol ychydig o ddystawrwydd, “gâd i ni yn  
 gyntaf gael myned i'r lloft i weddio drosto.”

Wedi cyrhaedd adref, aeth y ddau blentyn i'r lloft. Penlinias-  
 ant yn ymyl eu gilydd, a dywedodd un allan, “O Arglwydd, achub  
 'nhad! achub 'nhad!” Dyna hŷd y weddi, ond mynychwyd hi  
 drosodd a throsgodd.

Ceisiodd ei frawd gan y llall eilwaith weddio. Dywedodd  
 yntau yr un geiriau, “O Arglwydd, achub 'nhad!” mewn tôn  
 uchel a chyffrôs ; ac yr oedd gwynebau y ddau fach yn wlyb gan  
 ddagrau.

Clywai y tad o'r gegin swn wylofus ar y lloft, a thybiodd fod y  
 plant yn cwmpo allan â'u gilydd. Yr oedd wedi myned yn

ddystaw at droed y grisiau, ac yn clywed y plentyn diweddaf yn gweddio drosto gyda'r fath daerineb. Tynodd ddaurau allan o'i lygaid yntau.

Yn y man daeth y plant i lawr, a gofynasant i'w tad,—

“Nhad, a dde'wch chwi gyda ni i'r ysgol y sul nesaf?”

“Dof, fy mhlant bach i,” ebai yntau, yn gyffrous; “ac y mae yn ddrwg genyf fy mod wedi oedi cyhyd.”

Ddarllenwyr ieuainc, cymerwch wers oddiwrth y ddau frawd bach. Dyma'r ffordd i lwyddo gyda'r Ysgol Sul, a phob achos da—trwy weddio.

IOLO CLWYD.

Y PLENTYN YW TAD Y DYN.

WORDSWORTH.

**I**D yw ond *plentyn bach*  
Ar lin ei fam, yn wân—  
Ond eto 'n dad i'r *guron iach*  
A welir yn y man.

Mae mawredd meddwl dyn  
Yn nyled dysg di nam;  
A'r dull y dygir plentyn bach  
I fyny gan y fam.

Y plentyn ydyw 'r hedyn byw  
A'r d'wysen ydyw 'r dyn—  
Mae 'r ffrwyth yn dod mewn gradd a rhyw,  
O'r hedyn bach ei hun.

Chwi riaint, cofiwch hyn o hyd,  
Pob plentyn, mesen yw,  
O'r hon dysgwylia 'r moesol fyd  
Gael derwen lydan fyw.

Ar bob achlysur, cofiwch chwi  
Wrteithio 'r tyner wraidd—  
Neu nid all feddu nerth na bri,  
I godi brigyn braidd.

Rhyl.

I. G. ALED.

Y CWESTIYNAU GWOBWRWYEDIG.

7. **I**A frenin, unwaith, a alwai ddwfr yn waed, ac am ba achos?
8. Pa adnod a geir, yn cynnwys tri ar ddeg o eiriau, yr un fath i'r llythren mewn tair o bennodau gwahanol?



### 'RWY'N FALCH IAWN HENO, 'MAM.

**R** noswaith oer yn nechreu y mis diweddaf, a'r gwynt yn chwythu yr eira yn ystorm, fel yr oedd yn anhawdd myned allan dros y trothwy, yr oedd pregethwr poblog i bregethu yn y capel. Anturiodd William a'i fam allan i fyned i'r oedfa. Wrth ymdrechu yn erbyn nerth y gwynt a'r eira, dywedodd William,—

"Mam! a gymerwch chwi fy mraich i?" Cydiodd y fam yn ei fraich, ac ymwithient eu goreu ymlaen.

"R wy'n falch iawn heno, 'mam," ebai William.

"Yn falch am eich bod yn cymeryd gofal am danaf fi, fy machgen i," ebai'r fam, gyda chalon orlawn o deimlad.

"Dyma'r tro cyntaf erioed i chwi bwyso ar fy mraich i," ebai'r llanc hapus.

Yr oedd hwn yn falchder ardderchog. Ac un o'r mynyddau dedwyddaf yn ei fywyd i'w hadgofio fydd yr adeg y pwysai y fam a'i magodd y waith gyntaf ar fraich ei mab un ar bymtheg oed. Yr olygfa fwyaf dymunol yw gweled plant yn ufudd, yn serchog a charedig i'w rhieni. Mae yn rhyngu bodd i'r Arglwydd yn dda Gorphwysed bendith y Nefoedd ar y llanc acw sydd yn arwain y fam oedranus trwy yr eira, ac ar bob bachgen o gyffelyb ysbryd.

### ROWLAND HILL A'I WAS.

**M**OSODWYD ar Rowland Hill un noswaith mewn lle anial gan leidr pen ffordd. Tybiodd Hill wrth agwedd y lleidnad oedd yn gyfarwydd iawn â'r drygwaith hwnw. Rhodd

odd ei arian a'i *watch* iddo, a gofynodd beth a barodd iddo ym-gymeryd â'r gorchwyl peryglus o ladrata. Atebodd y lleidr gyda thôn grynedig a difrifol, mai allan o waith yr ydoedd, a bod ei wraig a'i blant ar drengu o newyn; mai dyna y lladrad cyntaf erioed o'i eiddo, ac mai gorfodaeth hollol oedd wedi peri iddo. Rhoddodd Mr. Hill ei enw iddo, a dymunodd arno alw gydag ef drannesth. Galwodd y dyn yn ol ei addewid, a chyflogodd Mr. Hill ef yn was iddo, a bu gydag ef yn ffyddlawn hyd ddydd ei farwolaeth. Nid ynganodd Mr. Hill air am yr amgylchiad wrth neb, hyd nes iddo adrodd yr ystori yn ei bregeth angladdol i'w was.

D. AB IOAN.



Y BIBL.

I.—EI ENWAU A'I YSGRIFAU.

**Q**OF. Paham mae y llyfr hwn yn cael ei alw yn Fibl?

**A**teb. Gelwir ef felly oddiwrth y gair Groeg *Biblos*, yr hwn sydd yn arwyddo llyfr. Mae yr enw wedi tarddu oddiwrth risgl pren, ar yr hwn yr arferid ysgrifenu cyn dyfeisio papyr. Rhoddir yr enw yma yn awr, fel nôd o arbenigrwydd, i'r Ysgryth-yrâu Sanctaidd yn unig.

**Q**. Paham y gelwir y Bibl yn ddau Destament?

**A**. Ystyr y gair testament yw cyfammod, neu apwyntiad. Galwai yr Arglwydd y berthynas a sefydlodd rhyngddo ei hun a'i bobl yn gyfammod, neu destament. Ar y cyntaf cymhwysid y gair at y berthynas hono ei hunan, ond o'r diwedd daeth yr enw cyfammod neu destament i gael ei alw ar y llyfrau oedd yn cynnwys ac yn egluro y berthynas hono.

**Q**. Pa enw arall a roddir ar y llyfr hwn?

**A**. Gelwid yr Hen Destament gan yr Iuddewon yn Gyfraith, Prophwydi, a'r Salmau, neu Ysgrifeniadau, ac y mae Iesu Grist yn coffa yr enwau hyn (Luc xxiv. 44). Yr oedd y Gyfraith yn cynnwys y *Pentateuch*, neu Bum' Llyfr Moses. Y Prophwydi yn cynnwys llyfrau Josua, Barnwyr, Ruth, dau lyfr Samuel, dau lyfr y Breninoedd, dau lyfr y Cronicl, Ezra, Nehemiah, Esther, Job, Esaiiah, Jeremiah, Galarnad Jeremiah, Ezeziel, Daniel, a'r deuddeg Prophwydi bychain; oll yn ddeg ar hugain. Yr oedd yr Ysgrifeniadau, neu y Salmau, a alwyd felly oddiwrth y llyfr cyntaf yn y rhaniad, yn cynnwys y Salmau, Diarebion, Llyfr y Pregethwr, a Chaniadau Solomon.

**Q**. Beth yw ystyr y gair Ysgrythyrau?

**A**. Ystyr y gair yw Ysgrifeniadau, ond defnyddir y gair yn y Bibl ei hun, er rhoddi arbenigrwydd i'w gynnwysiad, fel gair neu Ysgrifeniadau Duw.

**Q**. Beth a feddylir wrth *Ganon* y Bibl, neu lyfrau *Canonaid*?

**A**. Gair o'r Groeg ydyw Canon, yn arwyddo gwialen neu gorsen

uniawn. Arferid y gair yn oesoedd boreuaf Cristionogaeth er egluro safon barn ac ymarferiad. O amser Origen defnyddir y gair am y llyfrau a ystyria Cristionogion o Ddwylol awdurdod. Felly y mae holl lyfrau y Bibl (oddigerth yr Apocrypha) yn llyfrau Canonaidd.

G. Beth a feddylir wrth ddyweyd fod holl lyfrau y Bibl yn wir, ac yn awdurdodedig, neu warantedig; neu mewn geiriau Seisonig, yn *genuine* ac *authentic*?

A. Y meddwl wrth ddyweyd fod llyfrau y Bibl yn wir, neu *genuine*, yw eu bod wedi eu hysgrifenu gan yr awdwyr sydd â'u henwau wrthynt, ac nid gan neb arall yn eu henwau. Meddwl y gair awdurdodedig, neu *authentic*, yw eu bod yn cynnwys ffeithiau gwirioneddol, ac nid dychymygion. Gallai llyfr fod yn *genuine* heb fod yn *authentic*, neu yn *authentic* heb fod yn *genuine*. Mae "Caban F' Ewythr Tom," gan Mrs. Stowe, yn *genuine*, gan mai hi ei hunan a'i hysgrifennodd ef, yn y lle a'r amser a'noda; ond nid yw yn *authentic*, gan nad yw y personau a'r dygwyddiadau sydd ynddo yn ffeithiau hanesyddol. Mae Teithiau Arglwydd Anson yn llyfr *authentic*, oblegid fod yr hysbysrwydd wedi ei gael o enau Anson ei hun; ond nid yw yn *genuine*, oblegid er mai enw Walters sydd wrtho, ei wir awdwr ydoedd Robins. Mae Bywgraffiad Richards, Aber-gwaen, gan E. Matthews, yn *genuine* ac *authentic*, am mai y gŵr sydd â'i enw wrtho a'i hysgrifennodd ef, ac am ei fod wedi ei gyfansoddi o ffeithiau gwirioneddol yn hanes Richards.

G. Pa fodd yr oedd llyfrau y Bibl yn cael eu cadw cyn cael allan y ddyfais o argraffu oddeutu pedwar neu bum' cant o flynyddau yn ol?

A. Mewn llaw-ysgrifen, ar groen neu femrwn, neu ddefnyddiau eraill cyffelyb. Weithiau defnyddid byrddau coed neu geryg i ysgrifenu arnynt, a gelwid hwynt yn *codices*. Oddiwrth hyn y daeth y gair *codex* i arferiad. Ac am y defnyddid y rhai hyn fynychaf mewn achosion cyfreithiol, y daeth cyfundrefn o gyfreithiau i gael eu galw yn *code*. Gelwid y nodwydd yr ysgrifeniad â hi yn *stylus*, ac oddiwrth hono y daeth y gair arferedig *style*. Tua'r nawfed ganrif y daeth papyr gyntaf i arferiad.

G. A yw yr ysgrifau gwreiddiol, a ysgrifenydd gan wahanol awduron llyfrau y Bibl, yn awr ar gael?

A. Nac ydynt; ond y mae y tystiolaethau cryfaf ar gael o'u cadwraeth dilwgr. Yr oedd llyfrau yr Hen Destament yn cael eu darllen mor gyson a rheolaidd yn eu gwasanaeth crefyddol, fel y buasai yn anmhosibl eu cyfnewid a'u llygru. Cyfieithiwyd yr Hen Destament i'r Groeg yn Alexandria yn yr Aiphth, rhwng dau a thri chan' mlynedd cyn Crist, ac y mae yr ysgrifau Groeg a Hebraeg o hyny allan yn cadarnhau eu gilydd. Mae yr haneswyr Philo a Josephus yn dwyn tystiolaeth i nifer llyfrau yr Hen Destament yn eu hamser hwy; ac y mae Crist ei hun yn eadarnhau eu purdeb a'u dwyfoldeb. Mae cynifer o gopiau gwahanol o lyfrau y Testament Newydd eilwaith wedi eu gwasgar dros wahanol wledydd, ac ymysg gwahanol genedloedd ac ieithoedd, fel y mae y rhai

hyn yn cynnal ac yn cadarnhâu y meddwl gwreiddiol. Casglodd Dr. Kennicott 630 o'r ysgrifau gwahanol hyn i'w gynnorthwyo i ddwyn allan ei Fibl Hebréaidd. Casglodd De Rossi rai cannoedd yn ychwaneg. Ac y mae dros 600 o ysgrifau gwahanol wedi eu chwilio a'u cymharu er dwyn allan argraffiad diweddar o'r Testament Newydd yn yr iaith yr ysgrifenydd ef ynddi (Groeg). Ac yn yr holl gopiau neu ysgrifau gwahanol hyn, nid oes unrhyw wahaniaeth sydd yn effeithio mewn un modd ar hawliau ac awdurdod y LLYFR. Yn y 7959 o adnodau sydd yn y Testament Newydd, nid oes mwy na deg neu ddeuddeg o ddarllenianau gwahanol o ddim pwys, ac nid yw y rhai hyn ychwaith yn effeithio dim ar athrawiaeth yr Ysgrifysau.



TYWYSOG CYMRU A'I DEULU.

R Albert, Tywysog Cymru,  
 A'r Dywysoges wiw,  
 Ac ar eu 'Tifedd bychan,  
 O bydded llygad Duw!  
 Os byw a gaiff y baban  
 Nes cyrhaedd oed ei dad,  
 Y Nefoedd a'i bendithio  
 I'w deulu ac i'w wlad!

GWILYM TRAFOR.



Y LLAW ARALL I MINNAU, 'MAM.

R oedd gan dad a mam dduwiol blentyn bychan bochgoch— un o'r rhai mwyaf anwyl a serchog erioed. Yr oedd yn rhy dyner a nefolaidd ei galon i aros yn hir yn y byd hwn, ac y mae bellach wedi ei symud i'r nefoedd. Un diwrnod gofynai i'w fam ieuanc,—

“Beth mae y fodrwy yma dda, 'mam?”

“Eich tad a'i dododd hi, Edy (Edward), i ddangos mai efe bïau y llaw yna.”

Tarawyd y bychan gan y stori. Aeth at ei dad, dringodd i fyny i'w lin, i sibrd yn ei glust gais pur hynod.

“Beth sydd yn eisieu, Edy bach?”

“Rhowch chwi fodrwy i mi, data, i roi ar law arall 'mam, i fïnnau gael hono?”

“Fy mhlentyn anwyl!” ebai'r fam, “chwi gewch chwi fy llaw ddehau heb un fodrwy i'w sicrhâu,” a rhoddodd gyfres o gusanau ar ei fôch.

O'r pryd hwn allan arferai Edy bach fagu, chwatio, a chusanu y llaw, a dyweyd yn fynych, “Mae yn llaw mor anwyl—fi pïau hi, onidê, 'mam? A data bïau y llall.”



## Y WIWER.

**M**AE un llwybr ag y byddwn yn fynychu, ac nad ydym yn cofio i ni fod drosto erioed heb weled amryw wiwerod. Mae yn ddifyrwch mawr eu gweled yn dringo y coedydd uchel mor gyflym, yn neidio o gangen i gangen gyda'r fath hoywder, ac wedi'n yn eistedd neu yn sefyll â'i chynffon fawr brydfert yn ôl dros ei chefn, fel y gwelir yn y darlun uchod. Gellir gweld yn fynych yn sefyll yn syth, yn tori cnau, ac yn defnyddio ei thraed blaen fel dwylaw. Mae llawer o nodweddion pen addysgiadol yn perthyn i'r wiwer. Mae yn dewis pren uchel y drigle, ac yn dewis twll ynddo tua'r fan y bydd y cangenau y dechreu tori allan. Yma y bydd yn adeiladu ei nyth, ac y mae yn gorchuddio hwnw o fewn â gwlan, ac yn gwneyd ei dô y ddiddos. Ei phrif ymborth yw cnau a mës. Anaml y bydd y cadw y rhai hyn yn y nyth, ond cuddia hwynt yn ofalus mewn tyllau yn ngheudod y pren; ac ni fydd yn cyffwrdd â'r ystorffeydd hyn, ond mewn amser o galedi.

Gellir dofi y wiwer, a'i gwneyd yn hynod gyfeillgar a charuaid. Cymerodd boneddwr unwaith wiwer ieuanc o'r nyth, a magodd hi. Cadwai hi mewn boc, ar y mur, oddeutu chwe' throedfedd oddiwrth y llawr, gyda gwifr (*wires*) yn ei wyneb, a thwll yn dalcen i'r creadur fyned yn ôl a blaen. Yr oedd rhaff hefyd hongian o'r twll hyd y llawr, ar hyd yr hon yr êsgynai ac y ddygai y wiwer.

Daeth yn fuan yn hynod o gyfeillgar a chwareugar gyda teulu oll, yn enwedig â'r meistr. Byddai yn gyffredin yn myn â hi ymaith gydag ef yn mhoced ei gôt—poced bwrpasol at hyddiallan. Arferai wyllo holl symudiadau y meistr; ac os gwe

ef yn parotoi i fyned allan, dringai ei goesau i fyny, a rhedai i'w boced. Buasai yn estyn ei thrwyn allan i edrych ar bawb yn pasio ar yr ystryd. Wedi myned allan o fysg y tai, buasai yn neidio allan ac yn dringo y coedydd, ac yn disgyn eilwaith ac yn rhedeg ar ol ei pherchen heb iddo ef gymeryd unrhyw ofal am dani. Os clywai swm cart neu gerbyd, rhedai i'r boced mewn mynyd, a llechai yno nes byddai wedi myned yn ddigon pell. Yn aml, pan fyddai y dyn yn siarad â chyfeillion, dringai y crëadur i ben ei ysgwyddau, a cherddai drosto o'r naill ben i'r llall. Yr oedd wedi dyfod yn chwareugar iawn â'r ci, ond yr oedd y ci bob amser yn chwyrnu arni, a hithau y pryd hwnw yn rhedeg i'w lloches. Cyfarfyddodd y crëadur bychan dyddorol â'i diwedd trwy i'w meist'r bwysu yn ôl yn y gadair yn ddifeddwl, a hithau yn ei boced.



AWN YMLAEN, GYFEILLION SOBRWYDD.

TON,—“*Difyruch gwŷr Harlech.*”

**D**OWCH, gyfeillion, i ryfela  
'N erbyn masnach sy'n dyfetha  
Cysur a dedwyddwch pena',  
A gogoniant dyn.

Pam y caiff y fasnach feddwol  
Gludo miloedd yn flynyddol  
O'n cyfeillion cu, mynwesol,  
I'r tragwyddol fyd?  
Cauer y tafarndai  
Gyd ar y Sabbothau;  
Cyn bo hir, O boed ein tir  
Yn gwbl glir o'u drygau;  
Pan ddaw 'r dydd y rhoir gwirodydd  
O dan ofal y fferyllydd,  
Yn lle 'u hyfed yn ddiodydd,  
Ni fydd medd'dod mwy.

Awn ymlaen, gyfeillion sobrwydd,  
Er na ddaw pob peth yn hyrwydd,  
Na ddysgwylw'n lwyddiant ebrwydd,—  
Glynwn gyda 'n gwaith;  
Rhaid dinystrio 'r fasnach feddwol,  
Rhaid ei dymchwel, er mor nerthol;  
Ac am hyny byddwn wrol,—  
Glynwn gyda 'n gwaith:  
Mynwn oruchafiaeth,  
Gwaeddw'n fuddugoliaeth,  
Er fod llu o frodyr cu,  
Fu gynt o'n tu, 'n troi ymaith:



Mae y gwir yn anorchfygol,  
Mwy o rym na byd o bobol;  
Er eu twyll a'u brad gelymol,  
Glywnn gyda 'n gwaith.

Liverpool.

E. R.

## LLYFRAU NEWYDDION.

[THE TREASURY; a *Monthly Miscellany and Missionary Reporter*, in connection with the Calvinistic Methodist Churches. Llanelly: D. Williams and Son. Price 2d.]

**T**YHOEDDIAD misol dwy geiniog yw y *Treasury*, wedi ei fwriadu yn benaf at wasanaeth cynulleidfaoedd Seisonig perthynol i'r Methodistiaid, dan olygiad y Parch. Joseph Evans, Caerfyddin. Yr oedd anghen pwysig am y fath gyhoeddiad, ac yr ydym yn llongyfarch y Golygydd yn ei lwyddiant i wneyd y Cyhoeddiad yr hyn a ddylai fod. Mae y rhifynau yn gwella y naill fis ar ol y llall; ac mae y golygydd, y cynnwysiad, a'r cylchrediad, yn gwneyd rhagolygon y cyhoeddaid yn dra dymunol. Gobeithiwn y bydd miloedd o Gymru, yn gystal a Saeson, yn derbyn ac yn darllen y *Treasury*. Erfynir arnom ni yn aml i roddi darn o DRYSORFA Y PLANT yn Saesoneg. Ond bellach, dyma Drysorfa Seisonig i'r cyfryw. Gallai ei darlleniad hefyd wneyd help mawr i fechgyn Cymru ddysgu darllen a deall yr iaith Saesoneg.

[ESBONIWR Y DADGUDDIAD; neu *Ddarlithiau Esboniadol ar Llyfr y Dadguddiad*, gan RHYB GWESYN JONES. Merthyr Tydfil. Pris Swllt.]

**D**EG o ddarlithiau yw y rhai hyn, yn ymgymeryd â'r gorchwyl anhawdd o esbonio llyfr rhyfeddol y Dadguddiad. Mae yn ddiammheu y dylai y Cristionogion mwyaf galluog a dysgedig astudio y llyfr hwn, ac mae yn bosibl ein bod ar hyn o bryd yn nghanol rhai o'i gyfnodau pwysicaf. Hawdd genym ni gyfaddef nad ydym yn alluog i ffurfio barn ar gywirdeb llawer o syniadau yr *Esboniwr*; ond ar yr un pryd, dymunem alw sylw difrifol Cristionogion at y rhan yma o'r Ysgrythyrau Sanctaidd, ac at y llyfr hwn sydd yn ymdrech egniol a chanmoladwy i geisio ei egluro. Nid llwfrddyn fuasai yn ymaflyd yn y fath dasg; ac y mae dewrder yr awdwr yn amlwg yn y rhagymadrodd;—"Fel rheol i'w dilyn wrth esbonio, cymerais yn ganiatäol fod Ioan yn berchen ar synwyr cyffredin; ac am hyny fod ganddo ryw amcan wrth ysgrifenu pob brawddeg. \* \* Yr oeddwn yn chwilio yn fanol, ac yn barod i dderbyn goleuni pa le bynag y gallwn ei gael; a theimlwn fod genyf berffaith hawl i wahaniaethu oddiwrth bob dyn pan fyddwn yn gweled sail ddigonol i hyny."

[CYFUNDREFN O DDUWYDDIAETH I BLANT, *sef Darlithiau ar Gymeriad Ddu, gan y Parch. JOHN TODD, America.* Machynlleth: Evan Jones. Pris chwe' cheiniog.]

**M**AE yn llon genym gael cyfleusdra i alw sylw ieuencyd at y darlithiau rhagorol hyn. Y maent yn dra phwrpasol i'w gosod yn nwyllaw miloedd plant ein hysgolion, o ran y gwirionedd a gynnwysant, a'r dull eglur a syml y trinir ef. Mae y cyfeithiad yn darllen mor rhwydd a phe byddai yn Gymraeg gwreiddiol.

[PREGETH ANGLADDOL I'R PARCH. W. MORRIS, TYDDEWL, *gan y diweddar Barch. T. JOHN, Cilgeran.* Castellnewydd Emlyn: J. Davies. Pris 4 ceiniog.]

**M**AE y ddau enw uchod yn anwyl yn nheimlad miloedd o'r Cymry. Mae yn y bregeth hon lawer o Mr. Morris i'w weled, ond llawn cymaint, os nid mwy, o Mr. John. Diau y bydd yn dda gan lawer gael y bregeth hon fel cofnod coffadwriaethol byr o'r ddau.

[HOLWYDDOREG AR GAETHGLUDIADAU, GORTHRYMDERAU, A GWARDIG-AETHAU ISRAEL, *gan JOHN JONES, Maesteg.* Ceiniog yr un, neu 6s. y cant.]

**H**YW bwnc ysgol bychan, pedair dalen, yw hwn, ac y mae yn rhoddi golwg fer a chryno ar orthrymderau, &c., meibion Israel.




## ADGYFODIAD AC ESGYNIAD CRIST.

### EMYN I BLANT.

**A**DGYFODODD Crist fy Mhrynwr,  
Mawl, mawl i Dduw;  
Mwy ar angyu mae 'n goncwerwr,  
Mawl, mawl i Dduw;  
Nid yw 'r bedd yn fy nychryno,  
Colyn angyu ga'dd ei dynu,  
Pan yr adgyfododd Iesu,  
Mawl, mawl i Dduw.

Esgyn wnaeth i nef y nefoedd,  
Mawl, mawl i Dduw,  
I deyrnasu yn oes oesoedd,  
Mawl, mawl i Dduw;  
Saint ac engyl mewn gorfoledd,  
A gydroddant iddo fawredd,  
Ar eu hanthem ni bydd diwedd,  
Mawl, mawl i Dduw.



COLEG ATHRAWOL BANGOR.

## COLEG ATHRAWOL BANGOR.

**B**YDD yn dda gan filoedd ein darllenwyr gael y darlun prydferth hwn o Goleg Athrawol Bangor, yr hwn a gawsom trwy garedigrwydd y Parch. John Phillips, un o'r rhai sydd wedi llafurio galetaf i'w godi ac i dalu am dano. Ac odid nad oes llawer llanc bochgoch yn edrych ar y darlun ar ddalen y **DRYSORFA**, syddant ymhen ychydig flynyddoedd yn efrydwy'r ynddo.

Yr hyn a achlysurowdd ei godiad ydoedd cynnydd yr Ysgolion Prydeinig yn y Dywysogaeth, a diffyg athrawon cymhwys i gyfarfod y galw. Y symudiad cyntaf yn ei gyloch ydoedd yn 1856, pan osododd Mr. Forster a Mr. Hugh Owen o Lundain gynnygiad am gael coleg o'r fath o flaen cynnadledd addysg a gynnelid yn Mangor. Derbyniwyd y cynnygiad yn serchog; ac wedi ffurfio pwyllgor, penderfynwyd ei adeiladu ar ddarn o dir perthynol i'r Milwriad Pennant, ar ben y bryn rhwng dinas Bangor a'r Mensai

—un o'r manau prydfferthaf yn Nghymru. Cynlluniwr yr adeilad oedd Mr. John Barnet o Lundain; yr adeiladydd, Mr. W. T. Rogers, Beaumaris; yr arolygwyr, Mr. Kenedy o Lundain a Mr. Rogers o Fangor. Gorphenwyd yr adeilad yn 1862. Yr oedd ysgol i ddyagu athrawon wedi ei sefydlu er 1858, ac yr oedd 103 wedi bod dan addysg cyn symud i'r adeilad newydd. Awst, 1862, yr agorwyd y Coleg, ac y symudodd 32 o efrydwyr iddo. Mae yr adeilad yn un ardderchog dros ben, yn harddwch i'r ardal, ac yn glod i Gymru.

Costiodd dros dair mil ar ddeg a phedwar cant o bunnau. Cafwyd dwy fil o bunnau o'r rhei'ny gan y Llywodraeth; rhoddodd Robert Davies, Ysw., Bodlondeb, fil o bunnau. Casglwyd y rhan fwyaf o'r gweddill gan y Parch. John Phillips, trwy holl Siroedd Cymru, ac ymysg y Cymry yn nhrefi Lloegr. Yr oedd wedi talu am dano bob ceiniog ar ddydd ei agoriad; a bydd yn gofologfn ardderchog o lafur ac ymroddiad Mr. Phillips a'i gydweithwyr wedi iddynt hwy fyned i ffordd yr holl ddaear.

Yr hyn sydd yn eisieu yn awr yw sefydlu yr Ysgolion Brytanidd ymhob tref a phentref dros y wlad. Ceir pob cyfarwyddyd i gychwyn gan Mr. Phillips yn y Gogledd, a chan Mr. D. Williams, Llanelli, yn y Deheudir; a chynnorthwy oddiwrth y Llywodraeth, os mynir, at gynnal yr ysgol; ac y mae cyflawnder o athrawon cymhwys yn cael eu darparu yn y Coleg at wasanaeth y cyfryw ysgolion. Mae pob peth yn barod. A gwnawn ninnau fwy o wasanaeth i'n gwlad nag a all tafod draethu trwy gychwyn a chefnogi yr ysgolion hyn.

## HANES FY HUNAN.

### PENNOD XL.—FY NGWAS FRIDAY.

M fisoedd wedi ymweliad diweddfaf y barbariaid â'r ynys, bum yn cael fy aflonyddu gan freuddwydion am ymladdfeydd â'r barbariaid. Gwnelai hyn fy meddwl yn fynych yn dra therfysglyd. Ar noswaith o ystorm enbyd, gwynt a gwlaw, mellt a tharanau, tra yr oeddwn yn darllen fy Mibl yn fy nghastell, synwyd fi yn fawr gan swn ergyd magnel—o'r môr, gallaswn feddwl. Dringais dros fy ysgol i ben y graig, a chyn fy mod ar ei phen clywn ergyd arall, a phenderfynais ar unwaith mai llong oedd mewn perygl yn yr ystorm. Teimlais awydd rhyfeddol am wneyd rhywbeth i'w cynnorthwyo. Cynneuais fflag o dân ar ben y clogwyn bryn, a chlywais amryw ergydion eilwaith. Wedi iddi oleuo, gwelwn rywbeth tebyg i lestr, amryw filldroedd oddiwrthyf, yn y cyfeiriad yr oedd y graig yn rhedeg allan i'r môr. Er syllu a dysgwyl am oriau, nid oedd y peth du a welwn yn syfyd yn ôl na blaen, ac yr oeddwn yn sicr eu bod wedi bwrw angor, neu wedi taro ar graig. Teimlwn awydd angerddol am

weled rhai o'r dwylaw yn dianc, pe na buasai ond un, er mwyn i mi gael cwmpeini. Diau genyf i mi ddyweyd ganwaith wrthyf fy hun, "O na ddiangasai un!"

Penderfynais drannoeth gymeryd fy nghwch ac anturio allan gyda'r llanw i weled beth oedd. Ar ol llawer o ddarparu a phryderu, a rhoi fy ngofal i'r Arglwydd, mentrais allan. Cyrhaeddais hi ymhen dwy awr neu dair. Yr oedd pen blaen y llong yn gorphwys ar ddarn o graig, a'r pen ol iddi wedi ei chwalu gan yr ystorm. Yr unig beth byw a gefais yno oedd ci, yr hwn a neidiodd i'r môr oddiar ddarn y llong, ac a nofiodd ataf i'r cwch. Yr oedd ar newynu o eisieu bwyd. Cefais ddau ddyn wedi boddi yn y caban. Cymerais eu hesgidiau oddiar eu traed, a symudais rai blychau llawnion, a barilaid o wirod, i'r cwch, a dychwelais yn ddiogel i'r ynys. Cefais yn y blychau amryw bârau o ddillad, a swm mawr o aur; a chesglais mai ar ei ffordd adref yr ydoedd o Ddeheudir America i Spain.

Ymhen rhai misoedd breuddwydiâs fod nifer mawr o farbariaid wedi glanio i'r ynys, ac i un o'r rhai y bwriadent ei ladd i'w fwyta ddianc oddiarnynt, a rhedeg yn union at fy ngastell i, am amddiffyniad, ac i minnau ddangos fy hun iddo, a'i dderbyn i'r caban, a gwneyd gwas i mi fy hunan o hono. Cafodd y breuddwyd hwn argraff ryfeddol ar fy meddwl. Penderfynais wyllo dyfodiad y barbariaid, a gwneyd fy ngoreu i achub un o'u carcharorion o'u dwylaw. Ac yr oeddwn yn meddwl, wrth gyfarwyddyd hwnw, y gallaswn hwylio ymaith yn ddiogel o'r ynys. Yr oeddwn yn gweled yr anhawsder i mi waredu un o law deuddeg neu ugain o ddynion; ond er hyny, nid oedd fy mhenderfyniad i wneyd yr ymgais yn llaesu dim, ond yn myned yn gryfach gryfach o ddydd i ddydd.

Wedi bod am agos flwyddyn a hanner yn dysgwyl, o'r diwedd daeth y cyfleusdra. Un bore, ymhen pum' mlynedd ar hugain o'm harosiad yn yr ynys, pan esgynais i ben fy nysgwylfa, gwelwn bum' cwch, a nifer mawr o ddynion wrth y lân. Yr oedd y fath nifer anarferol yn fy nigaloni, ac yn dyrysu fy nghynlluniau a'm bwriadau blaenorol. Aeth fy meddwl yn hynod o derfysglyd. Disgynais i'm castell, a gosodais bob peth yno yn barod ar gyfer ymosodiad. Dringais i fyny eilwaith i wyllo beth oedd yn myned ymlaen wrth y lân. Trwy gymhorth fy ngwydryn, rhifais ddeg ar hugain o ddynion yno. Yr oeddent wedi cynneu tân, ac yn dawnsio o'i gwmpas, gan wneuthur pob agweddau arnynt eu hunain. Gwelwn hwynt hefyd yn llusgo dau o drueiniaid allan o'r cwch i gael eu lladd, eu rhoistio, a'u bwyta. Gwelwn hwynt yn taro un o honynt â g offeryn pren, nes y cwmpai, ac eraill yn y fan yn ei ddarnio. Safai y llall gerllaw i edrych, hyd nes y delai ei dro yntau i gael ei ladd. Mewn moment, cynhyrfwyd ei galon i geisio dianc am ei fywyd, a rhedodd nerth ei draed ymaith, gan gyfeirio yn union tuag ataf fi.

Cododd iâs o ddychryn dros of, yn enwedig wrth weled amryw o'r dynion yn rhedeg ar ei ol, a daeth fy mreuddwyd yn fyw i'm

col. Beth bynag, sefais yn y fan yr oeddwn, a dychwelodd fy ngwroldeb—yn enwedig wrth weled fod y carcharor yn ennill tir ar y rhai a'i hymldient. Yr oedd braich gul o ddwfr yn gorwedd rhyngddynt a mi, ac yr oedd hono yn fwy oblegid fod y llanw i mewn. Ofnwn y buasant yn dal eu hysglyfaeth yn y fan hono. Ond pan ddaeth y truan at y dwfr, nosiodd ef drosodd gyda chyflymdra rhyfeddol. Nosiodd dau o'i erlidwyr ar ei ol, a dychwelodd y trydydd yn ei ol. Daliai y dyn i redeg i fyny y llechwedd yn nghyfeiriad fy nghaban, ac yr oedd ei ddau elyn yn tynu yn galed ar ei ol. Yr oeddent wedi rhedeg yn awr rai mill-diroedd. Gwelais innau ei bod yn bryd i mi bellach ymyrd, a bod cadw bywyd y truan ar fy llaw. Rhedais i lawr dros y llechwedd, a fy nghleddyf ar fy nghlun, ac un dryll ar draws fy nghefn, ac un arall ar fy mraich. Aethum i gyfarfod yr erlidwyr. Yr oedd un o honynt gryn bellder o flaen y llall. Nid oeddwn am ollwng ergyd allan, rhag i mi dynu sylw y rhai oedd ar y traeth—er mai prin y gallasant glywed ei swm. Tarewais y dyn & bôn y dryll nes oedd yn rholian yn ddideimlad i'r llawr. Safodd y llall, a dechreuais innau gerdded ymlaen ato, ar fedr gwneyd yr un fath ag yntau. Ond gwelwn ei fod yn taclu saeth ar ei fwa i'w gollwng ataf. Felly, saethais ef, a syrthiodd i lawr yn farw yn y fan.

Bum yn hir yn methu perswadio y fföadur i anturio ataf. Yr oedd ergyd y dryll wedi ei ddychrynu yn enbyd. Yr oedd arno ofn ei fywyd. Chwarddwn arno, a gwnelwn bob arwyddion na wnaethwn niwed iddo, ac mai fy amcan oedd arbed ei fywyd. O'r diwedd cerddai ataf yn araf ac ammheus, gan syrthio ar ei liniau bob ryw ddeg neu ddeuddeg llath. O'r diwedd, daeth i fy ymyl; cusanodd y llawr, gosododd ei ben ar y llawr, a gosododd fy mhroed innau ar ei ben, yn arwydd y buasai yn was ffyddlawn i mi tra fyddai byw. Yr oedd yn edrych yn ddyn ieuanc golygus, oddentu 26 oed, a'i groen yn o dywyll, er nad yn hollddu, a gwallt hir, dysglaerddu ar ei ben. Gwelwn fod y dyn cyntaf a darewais yn dyfod ato ei hun, ac wedi codi ar ei eistedd. Dangosais ef i'r llall. Cydiodd hwnw yn y cleddyf oedd ar fy nghlun, rheddodd ymlaen ato, a thorodd ei ben ymaith ar un ergyd. Wedi hyny claddodd y ddau gorff yn y tywod. Rhoddodd ar ddeall i mi fod pedwar o garcharorion wedi eu dwyn i'r ynys i gael eu lladd a'u bwyta, a bod y tri arall wedi cyfarfod â'u tynghed alaethus. Gan mai ar ddydd Gwener yr arbedais ei fywyd, gelwais ef yn *Friday*, a dygais ef gyda mi i'r castell.

(*I w barhdu.*)

MOR DAWEL CWSG Y BABAN.



MOR dawel cwsg y baban, 'mam,  
 A'i wyneb bach mor wÿn!  
 Nis gallaf wel'd ei lygaid llon,—  
 Ai angeu ydyw hyn?

Y maent yn dyweyd y cwyd drachefn  
 Yn harddach nag erioed;  
 Ac y caiff fyn'd i'r nef i fyw,—  
 Sut, 'mam, gall hyny fod?

Fy mhlentyn, gwel y gragen hon,  
 Nid yw ond gwanaidd bry',  
 Bydd hwn yn ednog bach rhyw ddydd  
 Llan yn yr wybren fry.

O, 'mam, 'r wy 'n gwel'd! Os dichon Duw  
 Gyfnewid pryf â'i air,  
 A'i dynu o'i gragen fach yn fyw  
 Ar deg adenydd aur;

Mor brydferth bydd fy mrawd, pan rydd  
 Duw edyn iddo ef,  
 I hedeg fry goruwch y byd  
 Yn awyr bur y nef!



### LLYTHYR AT BLANT Y BAND OF HOPE.

**I**Y ANWYL GYFELLION IEUAINC,—Yr wyf wedi bod yn meddwl cryn lawer am danoch er pan welais eich hwynebau bychain siriol ddiweddaf; ac fe allai i rai o honoch chwithau feddwl tipyn am danaf finnau. Yr oeddwn braidd yn ofni y byddech chwi yn blant drwg, ac mai tori y *Band of Hope* i fyny fyddai raid, neu y byddai yn rhy anhawdd cael athrawon ffyddlawn i ddyfod atoch; neu y byddai i chwi o un i un beidio *attendio*, a thori eich ardystiad dirwestol. Ond yr oedd yn dda iawn genyf glywed fod pobpeth fel arall yn hollol,—fod genych athrawon ffyddlawn a da, eich bod chwithau yn dal at eich hardystiad dirwestol, ac yn parhâu i ddyfod i'r cyfarfodydd fel cynt, a bod golwg *gobeithiol iawn* ar y Gobeithlu.

Milwyr ydych chwi, fy mhlant. Y mae pedwar peth yn gwneyd milwr da. 1. Corff iach. 2. Meddwl penderfynol. 3. Medr i drin ei arfau. 4. Ffyddlondeb i'w frenin. Yn awr, os ydych chwithau am orchfygu meddwdod a holl elynion eich Harglwydd Iesu Grist, rhaid i chwi ofalu am eich hiechyd—iechyd y corff; ac un ffordd i hyny yw peidio cyffwrdd â'r pethau sydd yn meddwi pobl. Iechyd y meddwl hefyd: beth yw hyny? Penderfynu mai bod yn ddirwestwyr sydd iawn, sydd *oreu*. Peidiwch gwrando ar neb fyddo yn ceisio eich perswadio i yfed *tablen* a rhyw *nonsense* felly. Peidiwch meddwl am fod yn ddirwestwyr er mwyn *plesio dynion*, ond byddwch yn ddirwestwyr er mwyn plesio Iesu Grist. Hefyd, os ydych am lwyddo i *ennill* holl blant y dref a'u *cadw* yn ddirwestwyr, rhaid i chwi fod yn *benderfynol*. Penderfynwch y mynwch wneyd rhywbeth. Wna canu

“A phan ddown yn ddynion mawr,  
 Mynwn wel'd ei dori 'lawr,”

ddim o'r tro, os na byddwch yn *penderfynu* gwneyd eich goreu yn awr i'w dori i lawr, trwy gael gan holl blant y dref beidio cyffwrdd âg ef. Plant sydd yn ei gadw ef yn fyw. Dyna *bity*, onidê! Wel, pa fodd i lwyddo? 1. Byddwch *gall*. 2. Byddwch *dirion*. 3. Peidiwch *ildio*. Gellwch hefyd geisio gan eich rhieni a'ch perthynasau eich helpu.

Yn olaf, cofiwch fod yn ffyddlawn i'ch Meistr mawr—Iesu Grist. *Efe* sydd am yru meddwdod o'r byd, ac mae yn sicr o lwyddo yn y diwedd. Ni cholodd ef yr un frwydr erioed. Rhaid i chwi fod yn blant da ymhob peth cyn y gellwch lwyddo i ymlid meddwdod o'r byd. Felly os ydych chiwi am wneyd daioni, am helpu Iesu Grist i wneyd y byd yma yn fwy tebyg i'r nefoedd, rhaid i chwi *fod yn dda*. Ac yna bydd Iesu Grist ryw ddiwrnod rhyfedd sydd yn dyfod, yn eich dangos ar g'oeedd pawb fel y plant fu yn ymladd yn erbyn ei elynion ef ar y ddaear. Hyny, beth bynag, yw dymuniad calon eich hen gyfaill (a'ch harweinydd gynt),

ROBERT ROBERTS.

O.Y. Byddaf fi yn son yn aml am y plant da oedd gyda mi yn Aberteifi wrth blant y Gogledd yma. Gofalwch chiwi na ddaw rhai o'r rhai hyn heibio a'ch cael chiwi yn rhai drwg wedi y cwbl.  
—R. R.

Y TRI YSGOLFEISTR.

**M**EWN pregeth hynod a bregethodd y Parch. H. W. Beecher, ar y Sul cyntaf o'r flwyddyn hon, oddiar y testun, "Gŵr wyf fi, dinesydd o ddinas nid anenwog," dangosai yr anghenrheidrwydd am wybodaeth gyffredinol er gwneyd dinesydd da. Dywedai fod tri ysgolfeistr o hyd cyrhaedd pawb, i'w cael yn rhad ac am ddim. 1. Synwyrâu. 2. Cyfeillion. 3. Llyfrau. Ond hynod mor annyben mae dynion ieuainc yn defnyddio pob un o honynt. Mae llygaid gan gannoedd, ond nid ydynt yn gweled; a chlustiau, ond nid ydynt yn clywed nac yn deall. Y maent eto heb gael allan i ba beth y mae eu synwyrâu naturiol da. Ac y mae yn gywilydd i ddyd ieuanc, os nad yw un amser yn chwilio am gyfaill neu gwmniaeth er mwyn addysg a hyfforddiant.

Ac am lyfrau, bendigedig fyddo Duw am ein bod ni yn byw yn oes y newyddiaduron a'r llyfrau. Nid yw llyfrau yn myned yn hen, ac nid oes byth eisieu spectol arnynt. Nid ydynt byth yn myned yn benllwyd. Nid oes anghen cwsg arnynt. Nid yw eu llais yn arw, na'u cymdeithas yn surlyd a thrymaidd. Mae llyfrau da, detholedig, yn gwmpeini anfarwol, yn aros dan flodau ieuencyd tragywyddol, ac yn barod i'n gwasanaethu fel cymdeithion a dysgawdwyr. A bendigedig yw y gŵr sydd yn gwybod y ffordd i garu a mwynhâu llyfrau da.



Mae llawer yn cwyno nad oes ganddynt amser i ddarllen. Ond y mae mwy o amser at wasanaeth pawb nag a feddylient, pe trefnent ef yn briodol. I wneyd iawn ddefnydd o amser, rhaid trefnu yn fanwl yr holl oriau a'r mynydau. Mae llawer yn gwneyd â'u hamser fel mae deadelloedd yn y gorllewin yn gwneyd â'u hymborth—troir hwy at y ddâs (*stack*), ac y maent yn sathru mwy nag y maent yn fwyta. Yr ydych chwithau bob dydd yn myned at y ddâs, ac yn tynu safneidiau o amser, ac yn lle ei ddefnyddio yn briodol, yn ei sathru dan draed.

Yn fy achos fy hun, yr awr gyntaf wedi i mi ddeffro yn y bore yw yr awr fwyaf glir o'r diwrnod; ac am hanner awr cyn codi, byddaf yn taflu rhagolwg ar holl waith y dydd, ac yn edrych yn bwyllog ar faterion fydd yn gofyn ymenydd a barn. Yr wyf, fel hyn, cyn codi o'm gwely yn arbed rhai oriau yn ystod yr wythnos, ac yr wyf yn edrych arnynt fel oriau wedi eu hennill yn glir a llwyr. Byddaf yn ystyried fy mod wedi twyllo y nos o gynifer a hyny. Bydd yr adegau yma, fynychaf, yn cael eu defnyddio at bethau cysylltiedig âg addoli, ac y maent yr adegau mwyaf gwynfydedig yn fy mywyd. Mae yn cyfröi yr enaid, ac yn ei godi i ysbryd llefaru ger bron Duw. Mae pob moment a dreulir yn briodol mewn gweddi, yn foment wedi ei hennill. Mae y tameidiau hyn o amser o fewn cyrhaedd pawb. Mae y rhan fwyaf yn treulio gormod o amser o lawer i wisgo. Yr wyf yn gwybod am rai sydd yn treulio agos awr; ac ystyrir hanner awr yn amser cymedrol. Ffortunus yw y rhai hyny o honom nad yw yn gwisgo cymaint o ddillad, neu ddillad mor dda, ag i ofyn cymaint o amser i wisgo. Llawer gwell yw gwisgo yn frysiog a syml. A phe byddai llyfr yn agored o'ch blaen i ddarllen pennod neu adnod wrth wisgo, ni fyddai yn llawer ar y pryd, ond delai yn swm mawr yn eich bywyd. Yr oedd ein mamau yn arfer darllen a gwau, paham nad allem ninnau ddarllen a botymu? Mae un tu dalen yn y bore yn saith ddiwedd yr wythnos.

Ac y mae peth arall ynddi; yr ydych yn cadw y peth ydych yn ddarllen yn dameidiau. Pan wyf fi yn darllen wrth yr awr, yr wyf yn anghofio wrth yr awr. Ond y peth wyf yn ddarllen yn dameidiau, y mae yn ymsefydlu yn fy nghof, ac nid wyf byth yn ei gollu.

Mae y dydd yn llawn o adegau hamddenol o dair neu bum' mynyd, cyn, neu ar ol brecwest neu ginio, neu swper; ac os bydd llyfr wrth law, bydd yn fanteisiol iawn i chwi. Yr wyf fi yn darllen yn y cwch, yn y *train*, yn y cerbyd, ac ar y stryd. Yn wir, rhaid i mi wneyd hyny, neu beidio darllen o gwbl. Ac yn y modd yma yr wyf yn darllen llawer o lyfrau da. Darllenais mewn blwyddyn draethawd helaeth a dwfn ar anianddydg, heb roddi mwy nag ugain mynyd ar y tro at hyny. Ac y mae y wybodaeth wyf wedi gasglu fel hyn yn anmhrisiadwy i mi. Trwy lwybr cyffelyb, gall pob gweithiwr, pob bachgen-negesydd, pob prentis, a phob bachgenyn tlawd, os bydd yn ddifrifol, brynu yr amser i wneuthur ei hunan yn wybodus. Nis gall neb yn y wlad

hon bellach fforddio bod heb ychydig o addysg a gwybodaeth gyffredinol.

Rhaid cael llyfrau. Y pwysicaf o gelfi tŷ yw llyfr. Llyfr Duw yn flaenaf a phenaf; yna ychwanegu llyfr at lyfr. Dylai y llyfrgell fod fel y dderwen, a changenau newydd yn tori allan bob blwyddyn. Pan aethum i gyntaf i'r coleg, ni fu bachgen erioed mwy hurt am y ffordd i drafod arian; ac nis gwn am neb mwy anghelfydd na'r person hwnw eto. Ond yr oedd fy syched am lyfrau yn anghysbyddadwy; ac yr oeddwn yn foddlawn aberthu llawer o esmwythder er mwyn cael llyfr. Anfonwyd fi unwaith yn genadwr dirwestol i Pelham. Cefais ddoler neu ddau i dalu fy nhraul; ond cerddais yr holl ffordd yn ôl a blaen i gael cadw yr arian i brynu llyfrau. Tro arall cefais wahoddiad i Brattleboro i areithio ar Ddirwest. Cefais ddeg doler am fy araeth. Cerddais hono wedi'n ar draed i'r un amcan. Anfonwyd arian unwaith i'm cyrchu adref i Boston. Cerddais innau ar draed, a gweriais yr arian ar lyfrau. A chyn fod fy ngholeg dymmor drosodd, yr oeddwn wedi cael "Coll Gwynfa" Milton, a gweithiau Burke, ac amryw lyfrau da eraill. Yr oedd genyf oddeutu hanner cant o gyfrolau, ac yr oeddent fel canwyll fy llygad. Yr oeddwn wedi eu hennill bob un yn galed, ac nid wyf yn dysgwyl y darllenaf lyfr byth fel y darllenwn y rhe'iny. Arferwn edrych arnynt a'u pratio, fel y bydd mamau yn pratio bochau eu plant. Och fi! collais y blwch a hwythau oll wedi hyny yn New Orleans. Ond nid oedd fy ngholled yn gymaint, wedi'r cwbl. Yr oeddwn wedi eu hennill, a chariad angerddol wedi ei gynnyrchu ynof atynt. Ac y mae yr addysg sydd mewn cael llyfr weithiau yn gymaint ag addysg y llyfr ei hun.

## MEDDYGINIAETH RHAG YSBRYD ISEL.

OFYNODD boneddiges unwaith i Sydney Smith, beth oedd y feddyginiaeth oreu rhag ysbryd isel. Ei ateb ydoedd, "Cedwch yn wastad dŵn da a dysglær, tegell yn canu ar y pentan, a phapyr âg eiryn melus ar y *mantelpiece*." Y mae ysgrifenydd talentog o Ysgotland (A. K. H. Boyd, awdwr *Recreations of a Country Parson*) yn rhoddi, ymysg y pethau oddiallan, gyngor arall, ac un mwy tebyg o fod yn effeithiol. Ystyr ei gyfarwyddyd ef, mewn erthygl faith, yw *Bod yn gryno*. Nid bod yn gryno mewn un peth, ond ymhob peth; yn y pethau bychain lleiaf, yn gystal a'r pethau mwyaf. Nis gall un tân erioed a gynnuodd, meddai, yr un tegell erioed a ganodd, na'r un eiryn melus erioed a ysodd ddannedd, ac a suodd ddyn i gysgadrwydd tawel, wneuthur hanner cymaint i gadw dyn mewn bywiogrwydd a bodlonrwydd cymedrol, â phenderfyniad diysgog i fynu pobpeth o'n cwmpas yn gryno. Mynu ein tŷ yn gryno, ein gwisg-gell (*ward*).

robe), ein llyfrau, ein papyrau, bwrdd ein myfyrgell, ein gardd, ein cerbyd, ein harnes, ein cloddiau, ein plant, ein lampau, ein menyg, ie, ein ffon, a'n umbrela; eu bod oll yn gryno—fel y dylent fod i drwch y blewyn. Mae yn y cynghor hwn wers ag y byddai yn ychwanegiad mawr ar ein cysur pe dysgem hi yn dda.




### EIN HARLUNWYR IEUAINC.

**M**AE Mr. John Richards, Treforis, wedi treio ei law, ac wedi ein hanrhegu â dau ddarlun ychwanegol, a chaiff ein darllenwyr farnu y cynnydd y mae wedi ei wneyd er y cynnygion cyntaf yn y rhifyn diweddaf. Dyma ei drydydd darlun;—



Llun dyn ydyw, wedi ymollwng i yfed mor anghymedrol, nes oedd o'r diwedd yn byw agos yn gwbl ar y diodydd meddwol. Mae ef ei hun fel wedi ei chwythu i fyny âg ewyn cyffelyb i'r hwn y mae ef yn chwythu oddiar wyneb y llestraid cwrw sydd yn ei law. Mae un goes iddo wedi chwyddo yn anferth gan ddolur tueddol i yfwyr segur, ac y mae ei holl gyfansoddiad yn gruglwyth o afiechyd. Mae yr olwg arno, gobeithiwn, yn cynnyrchu casineb dwfn ac anghymmodlawn yn meddyliau ein holl ddarllenwyr ieuainc at y cwpan meddwol.

Dyma bedwerydd cynnygiad ein cyfaill.



Ac y mae yn rhaid i ni ei longyfarch yn ei gynnydd cyflym. Cynnygiad yw hwn i gopio darlun Mr. Robert Kettle, y dirwestwr enwog, llywydd Cymdeithas Lwrymwrthodol Glasgow, a sefydlwyd yn 1838; llywydd undeb Dirwestol Ysgotland; Golygydd y *Scottish Temperance Journal*; ac wedi hynny llywydd y *Scottish Temperance League*. Mae amlinell y wyneb, a rhai prydweddu eraill, wedi eu dwyn allan yn hynod o gywir. Iawn y gosododd ein cyfaill yr arwyddair "Dirwest" uwch ben y gŵr; oblegid ni chafodd y symudiad dirwestol was ffyddlonach na Mr. Kettle.

Ac y mae gwera yn nghydygyfarfyddiad y ddau ddarlun yma. Gellid casglu fod yr arluniwr yn argyhoeddedig mai y llwybr effeithiol i wella y dosbarth a gynnrychiolir gan y cyntaf, yw trwy fabwysiadu egwyddor a llafur yr olaf.



ELIZABETH ROWLANDS, ACRFAIR.

(*Gwraig ieuanc 21 oed.*)

**M**EDDYLIODD llawer teulu  
Wrth ddwyn i fyny 'r plant,  
Am chwalu 'r mynydd talgry',  
A chodi i fyny 'r pant;

Ond mynych iawn daw angen,  
A'r oll a dry yn siom;  
I'w ganlyn mae 'r elfenau,  
Sy 'n gwneuthur calon drom.

Ow! 'r lili dlos, meddyliais  
Y cawsit fyw yn hŵy;  
Un rhosyn ni chanfyddais  
Siriolach yn y plwy':  
Pwy dd'wed'sai am dy degwch,  
Fod angen yn ei lid,  
Yn gweithio dan bryferthwch  
Dy hardd rosynawl wrid.

Rhyw gwmwl llwyd ymffurfiai  
O'th wendid uwch fy mhen;  
Yn raddol fe gynnyddai,  
Nes duodd fy holl nen:  
Ond cariad cryf oreurai  
Ei odrau ambell bryd;  
Rhyw ddiuwch wed'yn ddenai  
I'w wneyd yn ddwl i gyd.

Pwy fuasai 'n meddwl arno,  
Pan ymgrynhoai 'n nghyd,  
Fod ynddo y fath gyffro  
I bara dros gyhyd:  
'R oedd ynddo d'ranau trymion,  
A'u trwst yn hir barhâu;  
Trwy fynwes drist ddigalon  
Y fam i'w dwys bruddhâu.

Ac hefyd fellt yn gwibio,  
Nes bron gynhyrfu 'r wlad!  
A saethau yn ddirifo  
I fron ei thyner dad:  
A'r undeb ellsid meddwl  
A'i gur f'ai 'n hir barhâu;  
Ond cledd oedd yn y cwmwl!  
A dorodd hwnw 'n ddau.

A'i brawd dderbynai ddafnau  
 O'i gol, yn chwerw chwith;  
 Hawdd yw fy ngweled innau  
 Yn teimlo am fy nith:  
 Sirolddeb wnai ei gartref  
 Ar ei rhosynawl wrid;  
 A'i bron oedd safle tangref,  
 Ni wybu beth yw llid.

Ond gwelai hi trwy 'r cwmwl,  
 Er poen, nes methu byw,  
 Fynedfa rwydd i'w meddwl  
 Ehedeg at ei Duw:  
 Ac yno mae mor hapus  
 Yn gweled pawb 'r un oed,  
 Yn llawn mor adnabyddus  
 A phe bae yno 'r oed.

Mae 'n rhodio 'n mhlith yr irgoed,  
 Yn canu bob yn ail;  
 Bryd arall mor ysgafndroed,  
 Yn dawnsio ar frigau 'r dail!  
 Yn awr, mae 'n gwel'd hen ddiuwch  
 Y ddaear oll yn wŷn,  
 Wrth gofio 'r diogelywch,  
 A byw mewn lle fel hyn.

IOLA MALDWYN.



## DOSBARTH Y BIBLAU.

### PENNOD VII.

**MATTHEW.**—PENNOD XIV.—1. Pa amser y cyfeirir ato yn  
 "y pryd hwnw" (adn. 1)?

2. Pa sawl Herod y sonir am danynt yn y Testament  
 Newydd, a sut yr oeddent yn perthyn i'w gilydd?

3. Pa berthynas i Herod a Philip oedd Herodias?

4. A gyflawnodd Ioan Fedyddiwr rai gwyrthiau?

5. Pa sawl gwyrrth a wnaeth Crist i gyflenwi diffygion tym-  
 morol dynion?

6. Pa sawl gwyrrth a gyflawnodd Crist ar ddyfroedd?

7. Pa faint o weithredoedd nerthol Crist y dywedir eu cyf-  
 lawni yn uniongyrchol ar ol ei fod yn gweddio (adn. 23)?

8. Am ba beth y beir Pedr—ai am y cais a ofynnodd, neu  
 rywbeth arall?

**PENNOD XV.**—1. A oedd mwy o bwysigrwydd mewn ysgrifen-  
 yddion a Pharisäid o Jerusalem nag o rywle arall (adn. 1)?

2. Beth oedd yr arferiad y cyfeiria Crist ato yn adn. 5, trwy  
 ba un yr oeddent yn dirymu gorchymyn Duw?

3. Cyfeirio at ba beth y mae Crist yn y gymhariaeth (adn. 13)?

4. Pa bwnc pwysig mewn athrawiaeth a brofir yn adn. 18, 19?  
 5. O ba genedl a gwlad oedd y ddynes a elwir "gwraig o Canaan?"  
 6. Beth a feddylia Crist wrth ddyweyd, "Ni'm danfonwyd i ond at ddefaid colledig tŷ Israel?"  
 7. Pwy oedd y plant, a phwy oedd y cwn, a phaham y galwai yr Iesu yr olaf felly?  
 8. Pa un ai colled ai ennill i'r wraig fu oediad Crist cyn rhoddi ei chais?



## TON.—MAE'N HYFRYD YN Y NEF.

Doh G. M. 69.

{ D. LEWIS, Llanrhystyd.—Y Geiriau gan EOS GLAN WYRE.

|         |                 |                    |                   |
|---------|-----------------|--------------------|-------------------|
| {       | : d             | m . m : m : f      | l . s : s : m     |
|         | 1. Cyd-         | -un—wn mewn son—   | -iar—us gân, Wrth |
|         | : d             | d . d : d : r      | f . m : m : d     |
| 2. Cawn | yn—o chwâr—eu'r | del—yn aur, A      |                   |
| : d     | d . d : d : d   | d . d : d d        |                   |
| 3. Bydd | i fia—der—au'r  | farw—ol daith Fel— |                   |

|                                                                   |                                                 |                       |                            |
|-------------------------------------------------------------------|-------------------------------------------------|-----------------------|----------------------------|
| {                                                                 | s . f : f . r : m . f                           | m :— : s              | l . l : d <sup>1</sup> : l |
|                                                                   | deithio tu— <u>a</u>                            | thref; Er             | fod yr an— <u>ial</u>      |
|                                                                   | t <sub>1</sub> . r : r . t <sub>1</sub> : d . r | d :— : m              | f : f : l : f              |
| chanu "Idd— <u>o</u>                                              | Ef;" O!                                         | melus, mel— <u>us</u> |                            |
| s <sub>1</sub> . s <sub>1</sub> : s <sub>1</sub> : s <sub>1</sub> | d :— : d                                        | f . f : f : f         |                            |
| ys—u'r an— <u>them</u>                                            | gref; Try'r                                     | wyl—o'n fawl, a'r     |                            |

|                    |                                                                   |                                                                   |                                         |
|--------------------|-------------------------------------------------------------------|-------------------------------------------------------------------|-----------------------------------------|
| {                  | s . m : m : d                                                     | f . f : l : f                                                     | f . r : r : s                           |
|                    | blin yn faith, A                                                  | chroesau chwerw-on                                                | ar y daith, Mae'n                       |
|                    | m . d : d : d                                                     | d . l <sub>1</sub> : f : r                                        | r . t <sub>1</sub> : t <sub>1</sub> : r |
| fydd y gân Y—      | mhlith y glwys ang—                                               | el—ion glân, Mae'n                                                |                                         |
| d . d : d : d      | l <sub>1</sub> . f <sub>1</sub> : f <sub>1</sub> : f <sub>1</sub> | s <sub>1</sub> . s <sub>1</sub> : s <sub>1</sub> : t <sub>1</sub> |                                         |
| dagrau'n win, Fry, | fry uwch-law pob                                                  | tra—llod blin, Mae'n                                              |                                         |

|                                                      |                                                              |                     |
|------------------------------------------------------|--------------------------------------------------------------|---------------------|
| {                                                    | m . d : d . t <sub>1</sub> : l <sub>1</sub> . t <sub>1</sub> | d :— :              |
|                                                      | hy—fryd yn y                                                 | nef.                |
|                                                      | d . s <sub>1</sub> : s <sub>1</sub> : f <sub>1</sub>         | m <sub>1</sub> :— : |
| hy—fryd yn y                                         | nef.                                                         |                     |
| d . m <sub>1</sub> : s <sub>1</sub> : s <sub>1</sub> | d <sub>1</sub> :— :                                          |                     |
| hy—fryd yn y                                         | nef.                                                         |                     |

PERORIAETH.

**P**R'hedydd uwch fy mhen  
 Sy 'n pyncio yn y nen,  
 Ei ganig ber :  
 A hithau 'r fronfraith fwyn,  
 Sy 'n cathlu yn y llwyn,  
 Ryw anthem lawn o swyn  
 O fawl i'w Ner.

Byrlymiad gwyllt y nant  
 Wrth dreiglo drwy y pant,  
 Berora 'n fwyn :  
 Y bugail yn y glŷn  
 Wrth droed yr uchel fryn,  
 A gân â llais di gryn  
 Mewn grug a brwyn.

A dacw eneth dlos,  
 Yn canu ar y rhôs,  
 Wrth odro 'r fuwch ;  
 Ac yntau 'r gweithiwr draw,  
 Sydd gyda 'i gaib a'i raw  
 Yn nghanol llaid a baw,  
 Mae 'n canu, clywch !

Wel canaf finnau 'n awr,  
 Wiw glod i'm Harglwydd mawr  
 Mewn salm ddi lyth ;  
 Ei drugareddau llawn  
 Foreuddydd a phrydnawn,  
 Ni thraethir byth yn iawn,—  
 Clod iddo byth.

HUGH JONES.

DIMAI PWY OEDD HONO?

**P**AN oedd cenadwr Americanaidd yn ddiweddar yn areithio ar  
 y genadaeth, mewn cyfarfod perthynol i Gymdeithas y  
 Traethodau, ar ol dychwelyd adref o Burmah, daliai draeth-  
 odyn bychan yn iaith Burmah yn ei law. Cododd y traethodyn i  
 fyny, a dywedodd fod traethodyn bychan cyffelyb i hwnw wedi  
 bod yn foddion i achub enaid mab i un o benaethiaid Burmah.  
 "Gwerth y traethodyn hwnw," meddai, "oedd *dimai*. Dimai pwy  
 oedd hono? Ni cheir gwybod hyny yn y byd hwn; ond bydd ar  
 lawr yn ofalus yn nghofrestr tragywyddoldeb, fel rhodd cariad  
 crïstionogol, yr hon a fu yn foddion i gadw enaid rhag anghy-  
 ddarllenwyr ieuainc, rhoddwch eich dimeisiau at achos yr Arglwydd  
 Iesu, a'ch gweddïau gyda hwy; ac fe allai y cewch eich synu yn  
 nydd y farn wrth weled cymaint o ffrwyth fydd eich dimai fechan  
 chwi wedi ei ddwyn.

IORWERTH HIRADDUG.



## ENGLYNIION I'R YSGOL SABBOTHOL.

REFNIAD dosbarthiad a berthyn—iddi.  
 Tra addas a dillyn;  
 Y gwanaidd llwyd fachgenyn  
 Trwy 'i athraw a ddaw yn ddyn.

Yr A B i rai bach,—y sill hefyd  
 Maes llafur rhai hynach,  
 Aur dethawl i rai doethach  
 O Lyfr Ion a'i lafur iach.

O! brasied dysg i bryfyn,  
 Yn Llyfr Duw mewn llafar dyn.

M. WYN.

*Cesarea.*

## DYDDANION.

## LLYNCU TWLL.

HEDODD bachgenyn i'r tŷ mewn trallod mawr yn ddiweddar, a chydag anhawsder i gael ei anadl, gwaeddodd am lymaid o ddwfr. Wedi yfed, gofynodd ei fam, "Beth sydd arnat, blentyn?" Atebodd yntau, gan ledu ei lygaid gleision mewn dychryn, "'Rwy' wedi llyncu y twll hyny!" gan feddwl cylch bychan o ifori & thwll yn ei ganol.

## ATEBIAD GWREIDDIOL.

"A sawl math o blant sydd?" gofynai athraw Ysgol Sul y dydd o'r blaen i dŵr o blant. "Dau," oedd yr ateb. "Pa fath rai ydynt?" gofynai eilwaith. Yr oedd y plant yn fud; ond yn y man atebodd llencyn carpiog, nad oedd wedi dysgu y "Rhodd Mam,"—"Meibion a merched!" Yr oedd yr atebiad, yn sicr, yn profi meddylgarwch.

## SCOTYN A SOTYN.

ISTEDDAI Duns Scotus, duwinydd ac ysgolor enwog o'r nawfed ganrif, unwaith wrth y bwrdd gyferbyn â'r brenin meddw, *Charles the Bald*. Er mwyn gwneyd tipyn o ddigrifwch o enw Scotus, gofynodd y brenin yn gellweirus, "Pa faint o bellder sydd rhwng Scotyn a sotyn?" Ateb parod y duwinydd, yr hwn a dynodd wên i wyneb y brenin, ydoedd, "*Lled y bwrdd!*"



## TRYSORFA Y PLANT.

HR. XXIX.]

MAI, 1864.

[Cyr. III.]

“I RODDI GOLEUNI, AC I ACHUB BYWYDAU.”

YMA y geiriau sydd mewn llythyrenau eglur ar Oleudŷ gwerthfawr Eddystone. Mae y goleudŷ hwn wedi ei godi ar ddarn o graig yn y môr, yn y porth sydd yn gollwng o'r *ish Channel* i gefnfor mawr yr Atlantig. Mae yn un o'r eudai hynaf a feddwn—wedi ei orphen oddiar 1759—felly yn it a phum' mlwydd oed. Y mae yn 68 o droedfeddi o uchder, yn 26 o drawsfesur yn y gwaelod. Mae y tónau cynddeiriog di bod yn curo arno am ganrif gyfan, y gwlawogydd, y gwynt-ld, a'r ystormydd wedi bod yn rhuthro ar ei draws, gyda chyn-aredd annesgrifiadwy; ond yno y mae yn sefyll yn ddiysgog l yr awr hon, dan wasgar ei oleuni gwerthfawr i arwain a lloni norwr yn nhywyllwch caddugol y nos. Ei oleuni ef yw y peth itaf y tery ei lygad arno wrth ddychwelyd adref o'i fordaith bell, a'r peth olaf a wêl wrth suddo tu cefn i'r tónau yn y gorl draw, a'i gefn ar ei wlad a'i gyfeillion. Yn agos i'w waelod, y dywedasom, mae y geiriau tarawiadol sydd uwch ben yr rif hon,—“*I roddi goleuni, ac i achub bywydau.*”

Mae yr Arglwydd wedi bwriadu pob dyn i bwrpas tebyg i'r hyn nae dynion yn codi y goleudŷ, sef i roddi goleuni, ac i achub wydau. Goleuadau Crist yw Cristionógion. “Chwi yw goleuni yd,” meddai Crist ei hun. Ac meddai Paul wrth Gristionogion ilippi, “Ymysg y rhai yr ydych yn llewyrchu fel goleuadau

yn y byd." Mae yr Arglwydd yn gosod ynom ddefnyddiau i oleuo; y mae yn rhoddi olew yn ein lampau; y mae yn goleuo ein canwyllau; a dylem ninnau eu gosod ar ganwyllbren, ac nid dan lestr, fel y goleuont i bawb fyddo yn y tŷ. Anwyl ddarllenydd, a yw dy fywyd yn oleuni dros Dduw, i gadw rhywun rhag perygl! Peth truenus yw fod crïstion yn gadael i'w oleuni fyned allan, a'i lamp ddiffoddi!

Galwodd teithiwr unwaith mewn goleudŷ yn y *British Channel*, a dywedodd wrth y gŵr oedd yn ei gadw,—

"Beth pe byddai eich goleuni yn diffodd yn y nos?"

"Diffodd!" meddai y dyn mewn cyffro, "na wna byth! mae yn anhosibl. Mae allan yn ngolwg y goleudŷ hwn longau yn hwylio i bob parth o'r byd. Ped elai y goleuni hwn allan heno, fe allai ynhen ychydig ddyddiau y cawn glywed o Ffrainc, o Spain, o Scotland, ac o America, heb son am Loegr, fod y goleudŷ hwn ar y noswaith a'r noswaith yn dywyll, a bod llongau o'r herwydd wedi eu colli. O, syr, yr wyf yn teimlo weithiau, wrth edrych ar fy ngoleuni yn llosgi, fel pe byddai llygaid yr holl fyd wedi eu sefydlu arnaf. Diffodd! llosgi yn dywyll! na chaiff byth, syr, byth!"

Weinidog! a oes ryw enaid o'r gynnulleidfa yna ar greigiau colledigaeth yn awr, am nad yw y goleuni fel y dylai yn llewyrchu o'r pulpud? Athraw yr Ysgol Sul! a oes un o'r dosbarth ar ei ffordd i uffern & r Bibl yn ei law, am fod dy lamp di heb rod-di goleuni? Rieni! ai am nad yw eich goleuni chwi yn llosgi yn fwy dyglaer y mae eich mab yn codi i fyny i dori Sabbothau Duw, i dyngu a rhegu a meddwi? a'ch merch i ymbleseru mewn oferedd a balchder? A gaiff eich goleuni bylu a diffodd? Na, na; gan fod tynghed eneidiau, fe allai, yn crogi ar hyny, dywedwch gyda cheidwad y goleudŷ—"Pylu! diffodd! na chaiff byth, byth!" Cofiwch am yr hen wraig oedd yn byw yn ymyl y môr, ac yn cadw ei chanwyll bob amser yn ei ffenestr, i helpu y morwr trallodus i gyrhaedd yr hafan. Mae lamp yr hen John Bunyan yn para i oleuo trwy hen ffenestr haiarn carchar Bedford. Ac y mae miloedd ar ei ol ef o athrawon, a rhieni, a phlant, er wedi marw, & u hymarweddiad sanctaidd yn para i lewyrchu fel goleuadau yn y byd, "i rod-di goleuni, ac i achub bywydau!"

## FY NHEULU BACH FY HUN.

GAN J. CEIRIOG HUGHES.

Da genyf gân ambell dro,  
 A da genyf fyw ar fy mloneg;  
 Da genyf glywed mân-adar y fro,  
 A da genyf diwn ar berdoneg:  
 Cynhesu wnaif yn swm y tant,  
 A'r organ fawr pan grŷn;

Ond gwell yw genyf lais fy mhlant,  
Yn fy nheulu bach fy hun.

Da genyf dro yn y dref,  
A da genyf fyned i'r mynydd;  
Da genyf deimlo awelon y nef,  
Yn fwyn araf oeri fy nwyrdd:  
Ond mwy o burdeb swynol sydd,  
Pan ddaw fy i'engaf un,  
I anadlu yn beraidd ar fy ngrudd  
Yn fy nheulu bach fy hun.

Da genyf son am fy ngwlad,  
Yn enwedig ar ol dod o honi;  
Da genyf ddarllen hen lyfrau fy nhad,  
A da geny 'r ddawn i farddoni;—  
Ond aed fy llyfrau oll i'r tân,  
A'r cerddi wne's bob un;  
Ond cadwed Duw yr egin mân,  
Yn fy nheulu bach fy hun.

## Y TADAU METHODISTAIDD.

### III. WILLIAM WILLIAMS, PANTYCELYN.

**D**ID oedd neb a weithiodd ei ran yn well yn nygiad ymlaen y diwygiad Methodistiaidd na'r "Hen Williams," peraidd ganiedydd y Cymry. Ychydig o'i hanes boreuol sydd ar gael. Ganwyd ef yn Cefn y coed, plwyf Llanfair y Bryn, yn agos i Landdyfri, Sir Gaerfyrddin, yn y flwyddyn 1717. Ffermwr parchus oedd ei dad, o'r enw John Williams, ac enw ei fam oedd Dorothy; ac yr oeddent ill dau yn aelodau hardd gyda'r Ymneillduwyr. Yr oedd ei dad yn llawer hynach na'i fam, a bu farw pan nad oedd ef ond ieuanc; ond bu ei fam fyw yn weddw nes cyrhaedd 95 mlwydd oed, ac ni fu farw ond saith mlynedd o flaen ei mab. William Williams oedd y pedwerydd o chwech o blant, a'r unig fab a dyfodd i fyny i oedran gŵr. Bedyddiwyd brawd hynaf ei dad gan "Hen Ficer" enwog Llanddyfri. Gadawodd ewythr i'r prydydd, o du ei fam, etifeddiaeth gysurus iddo ef a'i fam weddw. Felly cafodd William fanteision addysg foreuol. Gorphenodd ei addysg mewn ysgol yn Llwynllwyd, yn agos i'r Gelli, yn Sir Frycheiniog, yr hon oedd dan ofal un Mr. Powell, gwneidog Ymneillduol o Maes yr Onen. Ei fwriad ef oeddi bod yn feddyg, ac astudiodd lawer ar y ddysg honor Gellir gweled ôl hyn ar lawer o'i ganeuon a'i emynau. Ond galwyd ef gan awdurdod uwch i waith pwysicach y weinidogaeth, a bu yn ffyddlawn ac ymroddgar gydag ef hyd ei fedd.

Wrth ddyfod adref o'r ysgol yn y flwyddyn 1738, wrth glywed Howell Harris yn pregethu yn mynwent Talgarth, y cafodd ei

argyhoeddi.\* “Bore byth i’w gofio” ganddo ef oedd hwnw, a byth i ddiolch am dano gan Gristionogion Cymreig. Urddwyd ef yn ddiakon yn yr Eglwys Sefydledig gan Claget, Esgob Tyddewi, yn 1740, a chafodd guradiaeth Llanwrtyd a Llanddewi, Abergwesin. Bu yno am dair blynedd yn gwasanaethu i bobl anfoesol, gydag ychydig iawn o lwyddiant. Pan oddentu 32 oed, priododd Mary Frances o Lanfynydd, Sir Gaerfyrddin, ac aeth i fyw i Lansawel, a bu hon yn gynhar ffyddlawm iddo hyd ddiwedd ei oes. Bu iddynt chwech o blant—dau fab, William a John, a phedair o ferched. Bu William yn gurad am flynyddoedd yn Truro, yn Cornwall; a bu John yn bregethwr cymeradwy gyda’r Methodistiaid, ac yn byw yn gyfoethog a haelionus yn Mhant y celyn.

Gwnaeth Williams ei le yn anesniwyth yn yr Eglwys Sefydledig yn fuan, trwy ei waith yn myned ar hŷd a llêl y wlad i bregethu, a’i fod yn bedyddio heb wneyd arwydd y groes; a dygwyd cyhuddiad i lys yr esgob am bedwar ar bynitheg o bechodau cyffelyb ynddo. O’r diwedd gadawodd yr Eglwys; ac y mae yn debyg mai efe oedd y cyntaf o’r Tadau Methodistiaid a ymadawodd â’r Eglwys o hono ei hun. Wedi ymadael â’r Eglwys, daeth i gysylltiad â Rowlands Llangeitho, a pharasant i gydlafurio mewn anwylddeb mawr hyd ddiwedd eu hoes. Arferai Williams fyned i Langeitho bob “pen mis,” i gynnorthwyo Rowlands yn ngweinyddiad yr ordinhad i’r tyrfaoedd a yngynnullent yno o wahanol barthau Cymru.

Dywed Mr. Charles o’r Bala mai y llwybr y dygwyd awen yr emynwr enwog i’r golwg oedd yr un canlynol. Annogodd Howell Harris, yn un o gymantfaoedd boreuol y Methodistiaid, y rhai oedd yn bresennol, i gyfansoddi ychydig o bennillion, i weled a oedd yr Arglwydd wedi rhoddi y ddawn hono i un o honynt. Wedi dyfod â’r cyfansoddiadau i mewn, dywedir i Harris ddyweyd, “Williams biau’r canu,” a’i annog yu daer i arfer y ddawn hono er gogoniant Duw a lles ei eglwys. A bernir ein bod yn ddyledus i’r amgylchiad hwn fel moddion offerynol am holl gynnyrch bendigedig awen ein peraidd ganiedydd.

Yr oedd ei ddoniau yn helaeth ac amrywiol iawn. Byddai ei bregethau yn nerthol, yn efengylaidd, a melus; yr oedd yn ddyn manwl iawn yn yr athrawiaeth; ac yr oedd ganddo lygad craff anarferol i dynu y gwir oddiwrth y gau. Dywedai Iarles Huntington, “nad oedd gan Gymru un gŵr mwy, ac ystyried pobpeth, i ymfrostio ynddo.” Dywedir y byddai yn dibynnu llawer ar yr “hwyl” wrth bregethu; ac â hyny y cydsaif ei sylw wrth Peter Williams. “Am danat ti, Peter,” meddai, “gallet fyned trwyddi yn burion pe byddai yr Ysbryd Glân yn America; ond nis gallaf fi wneyd dim o honi os na bydd ef yn fy ymyl.” Dywed Mr. Charles, “Pregethau Daniel Rowlands, a chaniadau William Williams, a wnaethant yr oes yr oeddent yn byw ynddi yn fwy nodedig na nemawr o oesoedd a fu ar Gymru erioed.”

\* Gwel rhifyn Mawrth, tu dal. 58 o’r gyfrol hon.

r oedd ei gyfansoddiadau yn dra lliosog—amryw mewn rhydd-  
h, ond mwy mewn barddoniaeth. Ei lyfr cyntaf oedd y  
liad o Hymnau a elwir "*Haleluia*." Y nesaf oedd ei arwr gan  
lerchog, "*Golwg ar Deyrnas Crist*." Wedi hyny dilynodd y  
*anthologia*,"—"*Theomemphus*,"—"*Y môr o wydr*,"—"*Tri wfr  
fipht a Sodom*,"—"*Crocodil Afon yr Aipht*,"—"*Ffarwel weledig*,"  
*Haleluia*," yr ail ran—"*Drws Society Profiad*," ac amryw lyfrau  
ll, ynghyd ag oddeutu deugain o farwnadau. Mae yn dda  
m fod un o gyhoeddwyd Lloegr yn dwyn allan ei holl  
hiau yn awr mewn un gyfrol, dan olygiad y Parch. J. Kilsby


28.  
Gwedi treulio oes hirfaith, lafurus, a defnyddiol, yn eglwys  
w, yn yr amser godidocaf ar grefydd yn Nghymru," bu  
Iam Williams farw yn Mhant y celyn, Ionawr 11, 1791, yn  
nwydd oed. Claddwyd ef yn mynwent fechan brydferth  
afair y Bryn, ac y mae miloedd o'i edmygwyr wedi bod yn  
reddian ar gâreg ei fedd, yn darllen y cofiadwriaeth a'r  
nill hwn o'i eiddo sydd yn ei ganlyn;—

"Heb saeth, heb fraw, heb ofn, heb ofid ac heb boen,  
Mae 'n canu o flaen yr orsedd, ogoniant Duw a'r Oen;  
Yn nghanol myrdd inyrddiynau, yn carn oll heb drai,  
Yr anthem ydyw cariad, a chariad i barhâu."

hylch pum' nis cyn ei farw y canodd ei farwnad odidog i'w  
gyfaill a'i gydweithwr Daniel Rowlands; a dywedai ei fab, y  
John Williams, fod y pennillion olaf o'r farwnad hono yn  
grifiad cywir o'i brofiad hyd ei awr ddiweddaf. Terfynwn  
an y nodiad byr hwn am dano gyda phennill neu ddau o  
ynt, a chan gyfeirio y darlennydd am ychwaneg o hanes  
liams i'r "*Traethodydd*" am 1846—47, a "*Methodistiaeth*  
au."

"Mae fy amser i ar ddarfod,  
Mae fy ngalwad bron ar dd'od,  
'R wyf mewn carchar gan yr angeu,  
Fel yn llechu dan ei droed;  
Ni chaf fyn'd i maes o'i loches,  
Yma fymryn bach na thraw,  
Ond fy Jubil', mi ddysgwyliaf,  
Dyr fy nghadwyn maes o law.

"Eto, er ei lyffetheirian,  
Sydd yn rhwymo 'nghorff ynghyd,  
Y mae 'r nefoedd fawr yn agor,  
Rhwygwyd y cymylau gyd;  
Mae fy ysbryd yn cartrefu  
Gyda 'r dorf aneirif fawr  
O rai cyntafanedigion  
Ag sydd yn y nef yn awr."



## Y CADNO.

**M**AE y cadno yn breswlydd agos pob hinsawdd tymherus ar wyneb y ddaear. Crëadur bychan craff, bywiog, o liw llwydgoch a chynffon fawr, a'i blaen yn wŷn, ydyw, a chrëadur sydd enw yn ddiarebol am ei gyfrwysdra. Mae o duedd ofnus, a chodod er' elynion mor lliosog, mae yn wastad yn dra gofalus a ddiogelwch. Bydd yn wastad, cyn dewis man i drigo, yn chwilio am noddfa ddiogel. Chwilia ddyfnder pob twll ac âgen; ac yn cyffredin gofala am fwy nag un ffordd i ddianc o'i loches. Yn ganddo gystal ffroen a llygad, fel y bydd yn hela ei ysglyfaeth yn nos. Cerdda yn lladradaidd ar hyd gwaelod y ffosydd i ddan petris ar eu nythod, neu yr ysgyfarnog ar ei gwâl. Weith ymguddia wrth dwll y cwningod, a phryd arall hela ar eu holl gyfarth fel ci. Pan fydd yn myned yn galed ar Mr. Reynard wyddau, hwyaid, ieir, ysgyfarnogod, a chwningod, bydd yn gos ymostwng i fwyta llygod, brogäod, malwod, a cheiliogod y gwâl. Mae y cadno yn cael lle mawr yn chwedlau pob gwlad, a bob bob amser yn chwareu rhan y cyfrwys ynddynt.

## Y CWESTIYNAU GWOBWRWYEDIG.

9. **I**A nos yn yr Hen Destament a elwir yn nos yr glwydd?
10. Pa ddwy wraig, mewn oesau gwahanol, a dgosodd elyniaeth mawr at ddau ŵr enwog a alwyd ar yr enw?

## HUGH BACH,

*A'i genadwri at ei fam oedd wedi myned i'r nefoedd.*

(PARHAD O DU DAL. 68.)

VELODD Hugh gorff ei anwyl fam yn cael ei osod mewn bedd yn ymyl bedd ei dad, ond gwyddai ef yn eithaf da nad bedd hi ddim yn y gell dywell hono; ond fel yr edrychai ar ybren lās ysplenydd, a'r cymylau eurog yn llithro dros ei reb, pwyntiodd ei fys i fyny, a dywedodd wrth Mary fach, nae Mama i fyny acw, a Papa hefyd." Yr oedd y swyddwyr wragedd yn nghatrawd eu tad yn hoff iawn o'r plant, a'r cartref a gynnygiwyd iddynt nes y delai cyfarwyddyd o'r ynghylch eu dychweliad yno. Yr oedd eu mam wedi fenu at ei mam a'i ffrindiau gartref, yn trefnu i'r plant d'yno; a chysur mawr iddi hi oedd gwybod y byddai iddynt eu dwyn i fyny yn ofalus ac yn dirion gan ei pherthynasau. Eddy dyma Hugh a Mary, a'r nurse, yn hwylio yn y llong, ar y ffordd i Loegr.

Oedd pawb ar fwrdd y llong yn caru y plant bach yma, a i pawb wybod oddiwrth eu moesau boneddigaidd, a'u hymnadau gweddus, eu bod wedi cael eu dwyn i fyny i wneyd yr beddi iawn. Meddylwch, anwyl ddarllenwyr ieuainc, nad oedd na tad na mam ganddynt i'w dysgu na'u gwyllo; ond byth anghofiodd Hugh yr hyn a ddywedwyd ac a ddysgwyd iddo ei fam. Nid anghofiodd chwaith weddio nos a bore ar Dduw, iddo ei wneyd ef a Mary yn blant iddo ei hun, ac am iddo ymaith ei holl bechodau yn ngwaed yr Iesu, yr hwn a garai m mor fawr. Darllenodd ei Fibl bach, a gwnaeth bob peth dylidiodd y buasai ei fam yn debyg o beri iddo pe buasai hi g ef.

Olgw doddedig iawn oedd yr olwg ar y plant bach amddifaid Yr oeddynt bob amser wedi eu gwisgo mewn gwyn, ac fel edent yn ôl a blaen ar y llong, gan chwareu weithiau â'r t eraill, ac weithiau yn siarad â'r boneddigesau a'r swyddwyr, eddent yn swyno pob calon yn y llestr. Yn aml iawn, wedi ed Mary yn ddiogel gyda'i ffyddlawn ayah, neu yn chwareu ryw blentyn arall, eisteddai Hugh wrtho ei hunan mewn man aw o'r llong; ac yno, â'i lygaid yn edrych tua'r wybren, dddai yn hollol ddifater o'r cyfan o'i ddeutu, a'i feddwl fel i ei sugno i fyny gan ryw fater pwysig anghyffredin. Meddyl- am ei dad a'i fam a lanwent ei galon ieuanc, a gellid gwled ei uch poced yn cael ei godi yn aml at ei lygaid. Weithiau byddai h o syrthni pruddaidd yn amdoi ei wynebpryd, ond byddai gw ar Mary yn ei ddihuno a'i gyffroi yn union. Yr oedd fel buasai yn gweled yn Mary ryw ddolen o gadwyn rhyngddo ef ar daear a'i fam yn y nefoedd, yn ei alw ef i ymrodd a hunan- wadiad. Fel y chwareuai yr awelon oerion, adfywiol, dros y



llestr, ac y cystadlai y teithwyr â'u gilydd yn eu caredigrwydd at y plant, elai llygaid Hugh yn raddol yn fwyfwy dysglaer, a gwiagai ymaith ei wedd athrist. Ymddangosai fel wedi meistrolï ei anallu i reoli ei dristwch, ac fel pe buasai wedi cael nerth newydd i gofio a gwneuthur geiriau ei fam. Yr oedd un peth yn ei lethu, a hyny oedd chwant anfon at ei fam i ddyweyd nuor ymroddgar yr oedd yn treio cofio y cwbl oedd hi wedi ddyweyd wrtho, a chymaint mwy dedwydd ydoedd wrth geisio gwneyd y cwbl oedd hi wedi ddymuno arno.

"Hugh," meddai Lady Grey, un prydawn hyfryd, fel yr eisteddai yn ymyl y bachgen bach, yr hwn am yr awr ddiweddaf oedd wedi bod yn syllu ar yr wybren eurog; "Hugh bach, am ba beth yr ydych yn meddwl pan fyddwch yn edrych fel yna i fyny ar yr wybren lân?"

Yr oedd Hugh yn fwy hoff o Lady Grey nag o un foneddiges ar fwrdd y llong. Un achos o hyny oedd ei fod yn meddwl bod rhyw debygolrwydd ynddi i'w fam; a'r achos arall oedd, bod y ffordd oedd ganddi o siarad âg ef yn dwyn ei fam i'w feddwl.

"Meddwl am dano, Lady Grey?" meddai y plentyn, gan ryfeddu at yr ymofyniad; "am Mama, ac am Iesu Grist, ac am y nefoedd."

"Meddyliau melus, fy machgen anwyl," meddai ei ffrynd, mewn teimlad toddedig; "mor ddedwydd y rhaid fod Mama gydag Iesu Grist yn y nefoedd!"

"Ydyw, O ydyw! ac eto," meddai Hugh, yn araf ac yn amheus, "yr wyf yn meddwl y byddai hi yn llawer mwy dedwydd pe bae hi yn gwybod fod ei Hugh yn treio gwneyd yr hyn oll a ddywedodd hi wrtho—yn treio cadw yn agos at yr Iesu, ac yn gwneyd pob peth i Mary fach."

Chwarddodd Lady Grey, ond ni sylwodd Hugh.

"Ac yr wyf wedi bod yn meddwl," meddai, "fel yr oeddwn yn edrych ar y cymylau gwynion hardd yna yn yr wybren, pa fodd y gallwn anfon cenadwri i Mama."

"Hugh anwyl," meddai y foneddiges, gan sylwi ar ei fôch wridliw, a'r olwg bryderus oedd ar ei wynebpryd, "yr wyf yn siŵr fod eich Mama yn berffaith hapus. Chwi wyddoch nad oes dim gofid yn y nefoedd."

"Ond," meddai Hugh, "mi wn y byddai mor llawen ganddi glywed bod Mary a minnau yn caru Iesu Grist—ie yn well er pan aeth hi i ffwrdd, a'n bod ni yn dyweyd pob peth wrtho, a'i fod Ef yn ein cymhorth ni ac yn gofalu am danom; ac y gwneiff ein cymeryd gartref ato gyda'n gilydd ryw ddiwrnod—ryw ddiwrnod hapus!—hapus ddiwrnod!" meddai, mewn modd angerddol.

Ar y fynydd dyma Syr Harry Grey yn dyfod yn frysïog at ei wraig, ac yn dyweyd wrthi, "Bella, y mae Mrs. Parker yn bur sâl, a'r meddyg yn dyweyd nas gall hi ddim byw llawer o oriau."

"Tewch a dyweyd! y mae yn rhaid ei bod wedi gwaethygu o fewn yr awr ddiweddaf, wedi i mi fod gyda hi. Mi âf ati yn

awr. Druan o honi! mae yn hin drom!" a chan gusanu Hugh, aeth Lady Grey i lawr i gaban y foneddiges oedd yn marw. Nid oedd Mrs. Parker, yr hon oedd yn bur ieuanc, ac wedi dyfod ar fwrdd y llestr yn bur wael ei hiechyd, wedi cael ei gweled ond gan ychydig o'i chyd-deithwyr; eto yr oedd llawer o gydymdeimlad â hi yn mhawb. Nid oedd ei gŵr yn gallu myned gyda hi gartref, ac yr oedd wedi cychwyn i Loegr heb neb gyda hi ond ei morwyn. Yr oedd wedi derbyn llawer o garedigrwydd, yn enwedig gan Lady Grey; ac yn awr yr oedd eu cymwynasau ar gael eu terfynu, canys ychydig iawn o amser oedd ganddi i fyw. Yr oedd Hugh yn cymeryd dyddordeb mawr ynddi, ond yr oedd yn awr yn eistedd yn bur llonydd, gan edrych ar y môr. Yn sydyn noidiodd i fyny, a chan redeg at Syr Harry Grey, dywedodd,

"A ydyw Mrs. Parker yn myned i'r nefoedd, Syr Harry?"

Edrychodd y barwn yn syn, ond atebodd, "O ydyw, ydyw, wrth gwrs."

"Yna cymerwch fi i'w gweled hi. O! gwnewch, Syr Harry. Y mae yn rhaid i mi ei gweled hi; mi leiciwn gymaint ei gweled hi," meddai.

"Nid wyf yn meddwl y gwnai y tro i'w hafflonyddu, Hugh bach," dechreuai Syr Harry, gan feddwl ei lonyddu; ond o'r diwedd ildiodd i ymbiliau y bachgen, ac aeth i geisio ei wraig. Yr oedd hi yn deall syniadau y plentyn, er na ddywedodd hi dim; ond wedi sicrhau i'w gŵr na fyddai dim niwed i Mrs. Parker weled Hugh, aeth yn ôl i'r caban â Hugh gyda hi. Prin y cyrhaeddodd ef yno cyn sefydlu ei lygaid mawrion ar y foneddiges, a gofynodd iddi,—

"A ydych chiwi yn myned i'r nefoedd, Mrs. Parker?"

"Ydwyf," atebodd, gan edrych yn dyner ar y plentyn; "yr ydwyf yn myned yno; y mae Iesu yn fy nghymeryd yn ei freichiau."

"O! ynte, a gymerwch chiwi gusan i fy anwyl mama, a dywedwch wrthi—dywedwch wrthi," meddai y truan bach, "fy mod yn treio fy ngoreu i wneyd yr oll a ddywedodd hi wrthyf ynghylch caru yr Iesu, a chymeryd gofal am Mary fach. A wnewch chiwario fy nghanadwri? O! fel yr ydwyf wedi dymuno ei danfon, ac yr wyf wedi gweddio ar Dduw i ddangos i mi ryw ffordd, ac y mae wedi ateb fy ngweddiau;" ac wedi ei lwyr orchfygu gan y ffordd annysgwyliadwy yr atebwyd ei ddymuniadau a'i weddiau, torodd allan i wylo. "Fe fydd mor dda gan Mama gael fy nghanadwri," meddai, gan chwervhin trwy ei ddagrau. Yr oedd yn ymddangos fel pe buasai wedi cael y cyfan i wneyd ei heddwch yn berffaith, ac ni welwyd eilwaith ond yn anfynych gymylau yn gorphwys ar ei wyneb llon a hawddgar. Ac, anwyl ddarllenwyr ieuanc, fe chwanegodd ei heddwch a'i ddedwyddwch fel y chwanegodd ei gariad, a'i ymddiried yn yr Iesu; ac wrtho Ef, Gwaredwr ei fam, yr ymlynodd, ac nid oedd dim yn abl ei wahanu oddiwrtho.

Fel y tyfai i fyny, ac y delai i feddwl mwy, nis gallai lai na dyfalu pa un a gyrhaeddodd y genadwri a ddanfonwyd gyda'r

foneddiges at ei fam, ai peidio. Ac er ei fod yn gobeithio idd gyrhaedd, yr oedd yn teimlo yn siŵr ei bod hi yn berffaith dded wydd. Yr oedd hefyd yn credu, pan elai Mary ac yntau i'r nef oedd, y byddai lawer mwy felly. A hyd hyny penderfynodd, yn nghynhorth Duw, dreio byw ar y ddaear fel plentyn i Grist, byw iddo, fel y gallai fyned i breswyllo gyda'r hon yr oedd yn gobeithio cael byw i dragywyddoldeb.

Cyn terfynu, mae yn rhaid i mi adrodd am un canlyniad, bet bynag, i genadwri Hugh; a dyma fe:--Yr oedd dau swyddw ieuanc yn sefyll yn ymyl Syr Harry ar fwrdd y llong fawr, y clywed cwestiwn Hugh bach; ac er nad oedd ond cwestiwn sym effeithiodd yn ddwys iawn ar eu meddyliau--y posibilrwydd idd fod fel arall--y canlyniadau dychrynlyd iddi fod fel arall--pwsodd hyn ar eu meddyliau, ac aeth adref i galon y ddaear "A fyddaf fi yn myned i'r nefoedd pan y byddaf farw?" Diwedodd yn nychweliad eu heneidiau, ac yn eu llwyr ymroddiad wasanaeth yr Arglwydd Iesu Grist.

A. C.

## HEN WMFFRE.


**M**R. GOL.,—Gwelais nodyn ar glawr eich rhifyn diweddaf, y dangos fod *Mair o'r Pant* yn holi yn serchog am *Hen Wmffre*. Byddaf ddiolchgar i chwi am drosglwyddo y lline hon mewn atebiad iddi.

Y mae yr hen ŵr yn anfon ei gofion mwyaf serchog at *Mair* gan ei hysbysu ei fod ef o hyd ymhlith y rhai byw; ac ar y cyf yn teimlo yn weddol fywiog. Teimla hefyd ddyddordeb mawr ymhlith mudiad sydd yn tueddu i wneyd y byd yn well, yn arben yr hyn sydd yn ymwneyd yn benaf, â'r plant a'r bobl ieuanc, ll y rhai sydd bob amser yn agos at ei galon. Y mae yn dderbyn ac yn ddarllen ydd cyson o *DRYSORFA Y PLANT* er ei chychwyriad, ac er nad yw ei ysgrifell ef wedi ychwanegu dim at ei chynwysiad, teimla yn llon wrth weled yr hyn a ymddengys yndd fis i fis; ac y mae ei galon yn dymuno ei llwydd, gan weddio i'r plant fod yn well byth o'u *TRYSORFA*. Dengys hyn yna, fodd bynag, nad yw yr hen ŵr yn rhyw hunanol iawn, er y bydd *Mair* a'i chyfoedion yn rhy barod, hwyrach, i dybio felly am bobl yn gyffredin.

Tueddir ef hefyd i hysbysu *Mair*, ei fod yn bwriadu o hyn all yn awr a phryd arall, anfon ambell lythyr i adrodd rhywb wrth y plant, os gwel y Golygydd yn dda adael i'r hen ŵr plant ymgomio â'u gilydd ar du dalenau y *DRYSORFA*.

Gyda hyn yna o gyfarchiad, hwyrach mai gwell fydd iddo gan yn iach i *Mair* a'i chyfoedion am y tro, gan ei hannog, os gwydd iddi gyfarfod â'r hen ŵr yn rhywle ar ei bererindod fyned ato yn galonog, gyda gwên serchog, ac estyn ei llaw idd dywedyd fod yn dda ganddi weled

HEN WMFFRE



**Y SHOEBLACK BACH.**

GAN ALARON CRAIG Y LLYN.

**D**N'un o hen ystrydoedd brwnt  
 A myglyd Llundain fawr,  
 Fe welir bwth o ben St. Paul,  
 A'i ogwydd tua 'r llawr.

Ryw noson wlyb a garw iawn,  
 Yn nghanol gauaf du,  
 Ar swp o wellt wrth dân o goed,  
 Y ganwyd baban cu.

Y tad oedd wedi dianc ffwrdd,  
 Ni wyddai neb pa le;  
 Gadawyd hithau 'n weddw lom,  
 Heb gyfaill dan y ne'.

Cardota oedd prif waith y fam,  
 A gwerthu pinau coed;  
 A mawr y tlodi welodd John  
 Cyn cyrhaedd wythinlwydd oed.

Ond i fwyhâu y gofid blin,  
 Anharddai 'i serchog wedd,  
 Y gwrthddrych sugnodd faeth o'i bron  
 A guddiwyd yn y bedd!

O mor unigol,—beth a ddaw  
 O hono, druan bach?  
 Y mae 'n agored i bob nam,  
 Heb dad, heb fam, nac âch.

'R oedd rhywbeth yn y talcen crwn,  
A'r gleision lygaid llon,  
Yn trechu calon llawer un  
I estyn crwst i John.

Yn fuan daeth i sylw 'r llu,  
Adwaenai pobun Jack,  
Fel bachgen ffraeth, o dalent wych,  
Nodedig fel *shoebblack*.

Bu wrth y gorchwyl rhyfedd hwn  
Oddeutu pedair blwydd;  
Ond aeth fel gwas i argraffdy,  
Un isel oedd ei swydd.

Trwy ei barodrwydd hynod iawn  
I wneuthur pob rhyw arch,  
A bod yn onest yn ei gylch,  
Ennillodd glod a pharch.

Cyfodwyd John i swydd oedd uwch,  
Er hyn leihâodd ddim  
O'r cymhwysderau welid gynt,  
Ond casglodd atynt rym.

Myfyrio oedd ei bleser waith,  
Ar ddarllen 'r oedd ei fryd,  
Anghofiai fod ei natur wan  
Mewn eisieu lawer pryd!

Enwogrwydd, meddai, fynaf fi,  
Fe 'i gelwid 'n awr yn ffol;  
Ond nid oedd dim allasai droi  
Ffrwd penderfyniad 'n ôl!

Diwydrwydd, a gweithgarwch pur,  
Lywyddai 'i feddwl cun;  
Ac er fod rhwystrau lu o'i flaen,  
Gorchfygodd bob yr un.

Yn uwch! yn uwch! o hyd fe aeth,  
Fel rhyw orchestol gawr,  
Ac ni orphwysodd nes myn'd 'mewn  
I Senedd Prydain Fawr!

Blant ienanc anwyl Cymru!  
Gwnewch gofio 'r bachgen hwn,  
Y dull a'r modd ymdrechodd  
O dan fath erchyll bwn.

Ac uwchlaw pobpeth cedwch  
Gymeriad heb un *crack*,  
A cheir eich gweled chwithau  
Yn debyg i'r *Shoebblack*.

Y PLANIGYN BACH GWERTHFAWR.

**B**CHYDIG amser yn ol elai dwy eneth, Winifred a Bridget, â'u basgeidiau ffrwythau ar eu penau i dref gyfagos i'w gwerthu. Yr oedd anghen yr arian i ddarparu cinio i'r teulu. Yr oedd Bridget yn rwgnachlyd a diflas yr holl ffordd, ond Winifred yn llawn difyrwch a chwerrhin. O'r diwedd collodd Bridget bob amynedd, a thorodd allan mewn tymher ddrwg:—

"Sut yr ydych yn gallu myned ymlaen dan chwerrhin fel yna, Winifred? Mae eich basged mor drom a fy un innau, ac nid ydych damaid cryfach na minnau. Yr wyf fi yn methu a'ch deall?"

"O, digon hawdd deall," ebai Winifred. "Mae genyf fi blanigyn bach wedi ei roddi ar ben fy masged, ac y mae yn ei gwneyd mor ysgafn, fel mai prin yr wyf yn ei theimlo. Pam na roddwch chwithau ef, Bridget?"

"Yn wir!" ebai Bridget, "rhaid mai planigyn bach gwerthfawr iawn ydyw! Byddai yn dda genyf pe gallwn ysgafnhâu fy maich âg ef. Dywedwch wrthyf, pa le mae yn tyfu, a pha beth yw ei enw?"

"Fe ddf, am wn i, ymhob lle y planoch ef," ebai Winifred, "os caiff dipyn o chwareu teg, ac nid oes neb a all ddyweyd gymaint o esmwythder y mae yn roddi. Ei enw yw AMYNEDD."



GAIR O GYNGHOR I FECHGYN.

**M**AE miloedd o fechgyn yn darllen y DRYSORFA fach, ac y mae genym air o gynghor dystaw i'w roddi i chwi. Cofiwch eich bod wedi eich gwneyd i ddangos tynerwch a charedigrwydd. Os oes bachgen yn yr ysgol gyda throed clwb (*club-foot*), peidiwch dangos iddo eich bod erioed wedi ei weled. Os oes yno fachgen tlawd â dillad carpiog, peidiwch byth a siarad am ddillad carpiog lle clywo. Os oes yno fachgen cloff, ceisiwch osod ryw ran o'r chwareu iddo fel na byddo raid iddo redeg. Os oes yno fachgen newynog, rhoddwch gyfran o'ch cinio iddo. Os oes yno fachgen hurt, helpiwch ef i wneyd ei wers. Os oes yno fachgen dysglauer, peidiwch eiddgeddu wrtho; oblegid os â un bachgen yn falch o'i dalentau, a'r llall i eiddgeddu wrthynt, dyna ddau ddrwg, heb yr un yn ennill dim. Os gwnaeth bachgen mwy na chwi unrhyw gam i chwi, ac yn ddrwg ganddo o'r herwydd, maddeuwch iddo, a cheisiwch gan eich meistr beidio ei gosbi; cewch weled yr holl ysgol yn dangos yn eu gwedd gymaint gwell fydd hynny na phe bae genych chwi ddwrn mawr. Dyma ein cynghor; yn awr, faint o'r bechgyn a'i caria ef allan?



## CWYMP Y NIAGARA.

### ARAETH DDIRWESTOL.

**B**EN esgus cyffredin yfwr diodydd meddwol yw y gadawant y ddiod pan ddeallant ei bod yn eu drygu. Ond bydd wedi gwneyd drwg cyn y gallant ddeall. Mae hudoliaeth peryglus ynddi, ac y mae yn dyfod ar ddyn yn lladradaidd gyda holl nerth habit, fel nas gall ei gwrthsefyll. A glywsoch chwi John Gough yn disgrifio y cychaid pobl ieuainc nwyfus ar y Niagara? Os do, yr ydym yn sicr iddo wneyd i'ch gwallt sefyll yn syth. Yr wyf yn cofio, meddai, fy mod yn teithio o Buffalo i'r Niagara Falls, ac yn gofyn i foneddwr, Pa afon yw hona? Y Niagara, meddai yntau. Wel, y fath afon deg, brydferth, a thawel ydyw. Ie, meddai y boneddwr, ond mae y cwmp dychrynlyd o fewn mill-dir neu ddwy. Beth, yr afon mor llyfn, a'r cwmp dychrynlyd mor agos! Ie yn wir, felly yr oedd, ac nid anghofiaf byth mo'r olygfa. Yn awr, lanciau, gwthiwch eich bád i afon Niagara. Mae yn deg, yn brydferth, yn llyfn fel y gwydr. Nid oes yr un dòn, ond y dòn brydferth a wneir gan drwyn eich cwch. Yr ydych yn nofio i lawr gyda'r afon, a'ch hwyliau, rhwyfau, a llyw oll yn daclus, gan ymdaith ar eich hynt bleserus. Yn sydyn, daw ddyn oddiat y làn yn gwaeddi,

"Ohoi! bobl ieuainc! ohoi!"—"Beth sy?"—"Mae Cwmp y Niagara gerllaw!"—"Ha, ha! Clywsom am y Cwmp, ond nid ydym yn gymaint ffyliaid a myned yno. Pan welom ein bod yn myned yn rhy gyflym, ymaflwn yn y llyw, a hwyliwn tua'r làn; rhoddwn yr hwylybren yn y fortais, lledwn yr hwyly, a rhwyfwn i dir. Ymlaen fechgyn, peidiwch dychrynu, 'does yr un perygl eto."

"Ohoi! bobl ieuainc! ohoi!"—"Beth sy?"—"Mae'r Cwmp

tw!"—"Ha, ha! ni a chwarddwn, ac ni a yfwn, a byddwn lawen. pob peth yn ein difyru. Pa raid gofalu am y dyfodol? Ni ddid neb ef erioed. Digion i'r diwrnod ei ddrwg ei hun. ahawn fywyd tra gallom; daliwn bleserau tra maent yn sg. Mae hyn yn fwyniant; cawn ddigon o amser i hwylio o berygl pan welom ein bod yn myned gyda'r ffrwd."

hoi! bobl ieuainc! ohoi!"—"Beth sy?"—"Gochelwch, lwch! mae y Cwypm odditanoch! Brysiwch!"—"Mae y dwfwr yn dechreu berwi o gwmpas y cwch. Edrychwch mor n ydych yn myned heibio i'r pwynt acw! At y llyw! h, trowch! Tynwch yn gryf! Prysurwch! prysurwch! ch am eich bywyd!—rhwyfwch nes bo'r gwaed yn saethu froenau, a'ch gwythienau yn sefyll fel *whipcord* ar eich ael! ch yr hwyllbren i fyny!—lledwch yr hwyll! 'Nawr! 'nawr! !—O! O! mae yn rhy ddiweddar! Ysgrechian, gwaeddi, , cablu! Rhy ddiweddar! Mae ar ben! Dacw y cwch a'r w drosodd i'r berw ewynog, na cheir golwg arnynt byth ! Mae triugain mil o feddwon yn myned dros gwypm mwy ll na Chwypm y Niagara bob blwyddyn trwy nerth diodydd wol, ac yn myned dan berswadio eu hunain y trônt yn ôl yn y deallont fod perygl.

lifrod ofnadwy a wneir ar ddynoliaeth gan y gelyn anniwall

Gwnaeth Duw ddyn ar ei ddelw ei hun; beth sydd yn do y ddelw hono, ac yn rhoi delw y diafol yn ei lle? Y dd meddwol. Mae dyn, yn naturiol, yn cerdded yn syth, a'i fyny at y ser, wedi ei goroni yn arglwydd y grëadigaeth. sydd yn dryllio ei deyrnwialen, yn taflu y goron oddiar ei c yn ei lethu i lawr yn is na'r anifail? Diodydd meddwol! sydd yn serio ei galon, yn cau i fyny ffynnonell serchiadau sanctaidd. Y diodydd hyn sydd yn llenwi tlodtai a charai, ac yn codi yr adyn acw a'i ddwylaw yn rhuddgoch o waed thynas agosaf, i'r crogbren. Braidd nad alwem ar y bedd i ei ddôrau—chwi drueiniaid maluriedig, ysgydwch lwch y oddiar eich hwynebau, deuwch allan yn wyl-welw yn eich bydredig, i dystio yn erbyn diodydd meddwol. Deuwch, ch oddiar y crogbren, chwi lofruddion a wnaed felly gan y dd hyn; deuwch a'r gyllell waedlyd yn eich llaw, i dystio yn rbyn. Ymlusgwch chwithau, feddwon a foddwyd yn y add—ymlusgwch o'r llaid, a chyda gwynebau glasddu, tyst- yn eu herbyn. Agorwch gofrestr fawr y canrifoedd a aethant, a gadewch i'r angel sydd yn eu cadw ddarllen allan y ddiadau ydynt wedi eu hysgrifenu yn llyfr cofiadwriaeth

Ie, agorer llyfr mawr holl hanesiaeth, a chluded yr awel d lefau y trueiniaid ar ei hedyn. Chwi drigolion y pwll, h eich cadwynau, a deuwch i fyny mewn mentyll tanllyd yferu gan ffamau y llyn llosgedig, a thystiwch mewn llais au yn erbyn dwfn ddamnedigaeth y diodydd hyn.

olch i'r Nefoedd, mae gwawr wedi tori arnom yn ein tywyll-

Mae goleuni dydd yn ymddangos ar benau y mynyddoedd,



yn dyweyd wrthym fod y dydd gerllaw—dydd buddugoliaeth—dydd dryllio cadwynau—dydd i ollwng y gortbrymedig yn rhydd—dydd y Jubili, pan ddryllia y meddwyn ei lyffetheiriau, pan sychir dagrau gwraig y meddwyn, a phan godir yr olaf o blant y meddwyn i'r fan y meddylodd Duw iddynt fod. Mae y dyddi ddyfod, ond yn nghanol y frwydr yr ydyn heddyw. Ond arfan ein milwriaeth ni nid ydynt gnawdol; ond nerthol trwy Dduw i fwrw cestyll i'r llawr.

## HANES FY HUNAN.

### PEN. XII.—BRWYDR A'R BARBARIAID.

**B**ELLACH yr oedd genyf was, yn rhywfath o gydymaith. Ond nis gallai ein cyfeillgarwch fod ond tra anmherffaith; oblegid er ei fod ar ffurf dyn, yr oedd mewn llawer o bethau mor isel a barbariaid a'r anifeiliaid a ddyfethir. Fy ngorchwyl cyntaf ar ol rhoi bwyd iddo, a'i ddysgu i fwyta yr un fath a mi, ydoedd dysgu tri gair iddo—galw "meistr" arnaf fi, a'i ddysgu i ddyweyd "ie," a "nage," a cheisio gwthio ystyr hyny i'w ben. Gwisgais e hefyd mewn pâr o ddillad cyffelyb i mi. Bu yn hir cyn dyfod gynnefino a'r dillad; yr oeddent yn rhwystro ei symudiadau, ac yn llygru ei gnawd. Gorchwyl arall oedd paratoi lle iddo i gyfeirio Gwnaethum hyny rhwng y mur nesaf i mewn a'r mur nesaf allan a thorais ddrws yn y mur nesaf i mewn, er mwyn cael cymundod rhyngom. Ond gofalwn sicrhâu y lle bob nos, fel nas gallai ddyfod i mewn ataf heb gadw digon o drwst i'm deffroi. Cymeru hefyd bob arfau oddiwrtho, ac allan o'i ffordd; er yn wir nis oedd raid wrth y fath ragofal, oblegid ni fu erioed was mw cywir a ffyddlawm i'w feistr. Ymserchodd gymaint ynwyf a ph buasai blentyn i mi, ac yr wyf yn cwbl gredu y rhoddasai ei fydd yd i lawr un diwrnod i arbed fy mywyd i.

Mae yn anmhosibl i mi ddesgrifio y pleser a gefais gyda Frida i'w ddysgu i siarad, i fwyta, ac i gyflawni amrywiol orchwyfys ac yn enwedig i geisio lladd ei wanc ganibalaidd am gnawd dyn. Un diwrnod yr oeddwn am iddo gael profi cigfwyd, ac aethum ef allan gyda'r dryll. Gwelwn afr yn gorwedd yn y cysgod gwnaethum awgrym ar fy ngwas i sefyll yn llonydd. Yna aeth y dryll, a saethais yr afr. Dychrynodd Friday agos i farwol wrth sŵn yr ergyd. Yr oedd wedi fy ngweled o'r blaen yn saethu ei elyn, ond nid oedd mor agos at yr arf ag yn awr. Yr oedd i crynu fel dalen; nid oedd wedi canfod yr afr a saethaswn; i peth cyntaf a wnaeth oedd agor y wasgod groen oedd am dan chwilio a oeddwn wedi ei saethu ef. Tybiodd fy mod yn bwriadu ei ladd ef. Syrthiodd wrth fy nhraed, cofleidiai fy nghoesau dywedai lawer o eiriau dyeithr i mi, ond yr oedd yn hawdd gwed mai eu hystyr oedd attolygu arnaf beidio ei ladd. Gwnaethu

ren i symud yr ofn oddiwrtho. Dangosais yr afr iddo, a ef i'w cheisio. Yn y cyfamser gosodais ergyd arall yn y

Dangosais aderyn mawr ar goeden gerllaw iddo, a dangosnod yn myned i saethu hwnw. Saethais ef, a gwelai yntau yn yn cwmpo. Ond yr oedd y peth mor ddyeithr iddo edd yn ei derfysgu yn fawr iawn. Edrychai ar y dryll fel dychrynlyd yn cynnwys ffynnonell ddi-hysbydd o farw-ddyn, i anifeiliaid, ac i adar. Pe cawsai, buasai yn fy a'm dryll. Bu am ddyddiau ar ol hyn nad elsai yn agos, dim ond siarad âg ef o draw, a dymuno arno, fel y deall-yn, i beidio ei ladd. Wedi ei wledda yn dda ar gig rhost dig, daeth yn hoff iawn o hono, ac addawai beidio bwyta llynol byth mwy.

En tair blynedd yr oedd Friday wedi dysgu siarad fy iaith olig, ac wedi dysgu cyflawni fy holl orchwylion cyffredin eheurwydd mawr. Medrai drin y cleddyf, a saethu â'r fedrus, ond nid oedd mor hwylus gyda gosod yr ergyd yn dryll. Yr oedd erbyn hyn yn dangos awydd mawr am yld i'w wlad; ond nid elai ar un cyfrif heb i mi fyned. Yr oedd yn llaw fedrus gyda'r *canoe*, neu y bâd, ac yn oedd wedi cynnyrchu awydd mawr ynof am anturio gydag wlad lle yr oedd preswylwyr yn trigo. Yr oeddem wneyd darpariadau pwysig ar gyfer ein hanturiaeth. wr wedi ei wneyd, ac yn prysur gael ei gyflenwi i'r th.

En bore, pan oeddwn i yn brysur wrth fy ngorchwyl, dyma n rhedeg ataf allan o wynt, ac yn gwaelddi yn y dychryn "O meistr! O meistr! O ofid! O ddrwg!"—"Beth yw'r as?"—"O dacw nhw'n d'od! un, dau, tri bâd! un, dau, eallais fod y barbariaid eto yn dyfod ar ymweliad â'r bod yn nifer mawr. Yr oedd Friday wedi myned i o ddychryn nes oedd yn barod i suddo. Credai eu bod ar ei ol ef, ac y byddent yn sicr o'i ladd a'i fwyta. Cy-oreu y gallwn, a dywedais fy mod i mewn cymaint o g yntau; ac os bwytäent un, y caent ein bwyta ein dau. iddo, "A elli di ymladd, Friday?"—"Galla' saethu," ond ma' cymaint o nhw!"—"Ië, ond a wnai di ymda fi, a sefyll yn ffyddlawn?"—"Gwna', meistr, ydda' farw pan gwedo' chi."—"O'r goreu," ebe finnau, saf di wrth fy ymyl, a gwna yn union fel fi, ac fel y dy-

ais ergydion yn y dryllau oll. Cymerais y drych, ac r y traeth. Yr oeddent wedi glânio yn nês ataf nag, a rhifais un ar hugain o honynt. Yr oedd y lân yn ydig uwchlaw y fan lle y safent, a llwyn o goed o'r tu oedd hyn yn fanteisiol. Rhoddais un *pistol* yn ngwregys thri dryll ar ei gefn, a bwyall yn ei law. Cymerais dryll eraill, *pistol*, a chleddyf, a rhoddais botelaid o *rum* oced. Diagynasom gyda phob brys i'r coed, o'r tu ol i'r

traeth lle yr oedd y barbariaid. Bum yn ofalus iawn a chynnil yn nesu ymlaen trwy y coed, a Friday wrth fy sawdl, gan wneyd fy ngoreu i beidio dangos fy hun iddynt. O'r diwedd daethom o fewn rhyw bedwar ugain llath iddynt, ac ymguddiem o'r tu cefn i goeden fawr. Gwelem hwynt yn awr yn eglur; eisteddent yn gylch o gwmpas tân, a gwleddent ar gnawd hanner rhostiedig un o'r dynion oeddent wedi ei ladd. Yr oedd dyn arall yn gorwedd ar y traeth wedi ei rwymo draed a dwylaw, yn barod i gael ei ladd a'i fwyta; a berwodd fy ngwaed i benau fy mysedd pan welais mai dyn gwyn ydoedd. Yr oedd dau ddyn yn dechreu dattod y rhwymau oddiam dano, i gael ei ddarparu. "Yn awr, Friday," ebe fi, "nid oes un foment i'w cholli." Taniaisom ein dau arnynt yr un foment. Gwnaeth Friday well ergyd na fi: lladdodd ddau, a chlwyfodd dri. Lleddais innau un, a chlwyfais ddau. Yr oeddent mewn penbleth dychryllyd. Ni wyddent beth oedd yno, nac o ba le y daeth y dinystr. Rhoddais fy nryll i lawr, a chymerais ddryll arall i fyny, a gwnaeth Friday yr un fath. Lladdwyd dau y tro hwn, a chlwyfwyd amryw. Rhedasant ymaith yn waedlyd, dan ysgrechain ac oernadu yn annaeorol, ond syrthiodd tri o'r clwyfedigion yn fuan. Cymerasom y ddau ddryll llawn arall, a rhedasom ein dau allan at y dyn oedd wedi ei rwymo. Torasom ei efynau, rhoddais ychydig o rum iddo, a gofynais o ba le yr ydoedd. Atebodd mai Yspaenwr ydoedd. Nid oedd amser i siarad. Rhoddais lawddryll iddo i'w osod yn ei wregys, a chleddyf yn ei law, a cheisiais ganddo ymladd ei oreu i sicrhâu ei waredigaeth. Yr oedd tri neu bedwar o'r barbariaid wedi myned i'r canoes, ac yn rhwyfo ymaith. Taniodd Friday arnynt wrth fy arch i, a lladdodd rai o honynt. Cawsom ymosodiad cyndyn oddi-wrth y gweddill ar y lân; ond ymhen awr yr oedd dau ar bymtheg o'r un ar hugain wedi eu lladd; diangodd y tri yn y båd yn rhy bell o gyrhaedd ergyd y dryll. Yr oeddem yn anfoddlawn iawn i neb ddianc, am yr ofnem iddynt fyned â'r newydd yn ôl at eu llwythau, a dyfod yn aneirif arnom i'n dyfetha. Felly penderfynasom gymeryd un o'u canoes hwy i ymlid ar eu hol. Erbyn myned at y båd, yr oedd yno ddyn arall y bwriedid ei ladd, wedi ei rwymo yn dyn ar ei waelod, ac yn fwy na hanner marw. Torais ei rwymau tynion, a cheisiais gan Friday siarad âg ef. Heblaw effaith y rhwymau tynion, yr oedd dychryn yr ergydion a'r frwydr wedi agos lewygu ei galon ynddo. Rhoddais y botel oedd yn fy mhoced iddo i yfed o honi; a chyn hir eisteddodd i fyny yn y båd. Edrychai Friday yn syn yn ei wyneb, a siaradai yn gyflym; gwnai bob ystumiau arno ei hun; cusanai a choffeidiiai ef. Gwaeddai, neidiai, a dawnsiai; chwarddai, wylai, a chanai, fel dyn wedi ynfydu. Yr oedd wedi tynu dagrau yn llif o'm llygaid, er na wyddwn beth oedd yn peri y teimladau rhyfedd yn nghalon y truan paganaid. O'r diwedd, esboniodd y cwbl trwy ddywedyd.

"Fy nhad ydyw!"

(I'w barhâu.)

CI YN ACHUB Y CWCH.

**P**PLANT a'r mamau ddyrchu 'u cri,  
 Mewn aeth a braw,  
 A'r dynion cryfa 'n gwelwi sy,  
 Wrth weled cwch ar gefn y lli',  
 A'r graig gerllaw.

Y traethfor dafia 'r tônau gwyn,  
 Dros graig a glân;  
 Y gwynt, cynnyddu yn fwyfwr fyn,  
 Tra 'r badwyr blin yn rhwyfo 'n dyn,  
 I geisio 'r làn.

O ganol y rhyferthwy gref,  
 Yn flin a chraff,  
 Edrychai 'r morwyr fry i'r nef,  
 A gwaeddent oll âg uchel lef,  
 "O na chaem raff!"

Mae drosodd! waith ni feiddiai ddim  
 Y dewra 'i fryd,  
 I gynnyg nosio 'n erbyn grym  
 Y tônau uchel, geirwon, llym,—  
 Rhaid boddi 'gyd!

'D oes ganddynt mwy na hwyl na llyw,  
 Na gobaith cu;  
 Rhont heibio 'r rhwyf—O dosted yw!  
 Gan ildio eu bywydau gwiw  
 I'r dyfnder du.

Ond wedi pallu synwyr dyn,  
 Fe ddichon Duw;  
 Ymdafodd ei yn ddewr, ddi gryn,  
 I ganol berw 'r dyfroedd blin,  
 I gadw 'n fyw.

A'r tônau dirfawr dros ei ben,—  
 Fe fodda 'n siŵr!  
 Na, cyfyd eto fry i'r nen,  
 A nosia fel rhyw ysgafn bren,  
 Er grym y dŵr.

Aeth drwy y tônau mawr eu brad,  
 'N awr tremia 'n graff  
 I fyny ar y dwylaw mad,  
 Wrth nosio 'n galed gylch y båd,  
 "Tefiwhc y rhaff!"

A'i ddannedd cydia ynddi 'n ohwim,  
 A thry yn ôl;  
 Yn ôl trwy 'r traethfor ffyrnig llym,  
 Heb oedi na diffygio dim,  
 Gan ddwyn ei gôl.

Mae'r rhaff yn gref, daw'r cwch yn awr,  
 Ohoi! Ohoi!  
 Yn ôl, ymlaen, i'r làn, i lawr,  
 Yn nghanol llawen floeddio mawr,  
 "Prince! Noble Boy!"

Y gwragedd wylent yn gyttun,  
 Eu dagrau 'n lli';  
 Yr hen a'r ieuainc bob yr un,  
 Gofseidient *Prince*, fel ' buasai ddyn,  
 Gan gammol dewrder, nerth, a rhin,  
 Yr enwog gi.

### LLYFRAU NEWYDDION.

[CATHLAW BYRION, *ar amrywiol Destunau; ynghyd a Darnau Byrion Rhyddieithol, &c.* Gan D. T. WILLIAMS (*Tydfylyn*), arodwr "*Y Canor Dirwestol*." Merthyr Tydfil. Pris Swllt.]

**M**AE y llyfryn bychan hwn yn ddynodiad pur deg o nodwedd iad crefyddol, defnyddioldeb, a thlysmi Tydfylyn—gŵr ag sydd yn sefyll yn uchel fel Cristion llafurus, ac fel llênor a cherddor nid anenwog. Mae y llyfr yn dyfod i fyny yn llawn â honiad yr awdwr:—"Ffrwyth myfyrdodau llawenfryd, boddlongar, a phrudd, ydynt y cathlau hyn, heb ymhoiad uwch nag ymwneyd â'r syml a'r naturiol."

[COFIANT D. ROLANT, BALA, *ynghyd a Detholion o'i Bregethau; gan y Parchedigion OWEN JONES, B.A., a ROBERT THOMAS, Llidiardau.* Wrexham: Hughes & Son. Pris 2s.]

**B**EN Gymro wedi ei wneyd yn gwbl gan natur a gras oedd Dafydd Rolant, ac y mae yn llawenydd mawr genym gael cofiant mor bwrpasol o hono. Os yw efe wedi marw, dyma ddarlun teg o'i ysbryd difrifol ac ymroddgar, y meddwl bywiog a chraffus, a'r dawn ffraethbert a gogleisiol, wedi ei gadw i'r oes a ddél. Mae y detholion o'i bregethau yn darllen mor dda, fel na flinsem pe buasant fil. Ac y mae ei hoff eiriau, "fy mhobol i"—"i'w ryfeddu"—"yn glyfar," &c., yn disgyn yn bur ddymunol ar feddwl y rhai oeddent yn gyfarwydd âg ef. Mae ynia un peth newydd, sef tôn hynod ci lais wedi ei gosod mewn nodau cerddorol. Beth ddywedai Sais, tybed, pe ceisiai draddodi ei bregeth yn nhôn Dafydd Rolant? Wrth longyfarch ysgrifenywyr a chyhoeddwy'r y cofiant bychan dyddorol hwn, dymunem awgrymu erbyn yr ail argraffiad—yr hwn fydd raid gael yn fuan, dybygem—fod llawer ychwaneg o emau a ffraethddywediadau Dafydd Rolant ar wasgar yn y wlad ag y dylid eu cael; ac hefyd y dylai fod darlun o hono ynglŷn â'i gofiant. Rhaid i ni ddyfynnu

ychydig o ffraethddywediadau yr hen bregethwr eto, er addysg a difyrwch ein darllenwyr ieuainc.

#### DAFYDD ROLANT A'I ARABEDD.

*Ei hoffder o'r Bibl.* Wedi ei ddychweliad, pan yn ddyn ieuanc gwledig, "Byddai ganddo Fibl a phulpud, pa le bynag y dygwyddai i wrthddrychau ei ofal fod. Os gyda'r defaid, byddent yn y mynyddoedd; os gyda'r gwartheg, byddent yn y beudai; ac yno y byddai yn darllen, yn dysgu ei Fibl, ac yn pregethu â'i holl egni. Souiai ar ol hyn am ryw hen fuwch y pregethodd lawer iddi. 'Rhyw dro,' meddai, 'yr oeddwn wedi hel y defaid i'w lle o'r tu uchaf i mi, ac mi eis i ben lluwchfa o eira, a'm cefn ar y graig, a'm hwyneb tua ffridd y Trawsgoed, fel yr oeddwr uwch ben y dyrfa i gyd—y ceryg, y grug, a'r cwbl; a dyna oedd fy nhestun y tro hwnw, O herwydd paham, frodyr sanctaidd, cyfranogion o'r galwedigaeth nefol, ystyriwch Apostol ac Arch-offeiriad ein cyffes ni, Crist Iesu.'"

*Dirwest.* Yn nechreu teetotal, daeth rhywrai oedd wedi bod yn feddwon cyhoeddus, ond wedi d'od yn ddirwestwyr, i ofyn a wnawn i *signo teetotal* iddyn' nhw. Atebais innau, "Ni rof fy enw i'ch *siort* chwi, chwraith." Ond pan welais i fod *teetotal* yn yr hen lyfr, mi f'aswn yn foddllon wed'yn i roi fy enw mewn llythyrenau *pitch* ar fy het—"*Dafydd Rolant, teetotal for ever!*"

*Ffon Cas gan Gythraul.* Yr oedd arna' i ofn y nos garw iawn stalwm, ac mi ddendodd rhywun wrthyf fi,—“Myn di ffon wedi ei thori o'r pren Cas gan Gythraul, ni ddaw un bwgan i dy ffino di byth, tra bydd hon yn dy law di.” Mi wneis i fel yr oedd ô yn pŵeri, ac ni ddaeth yr un bolelo ata' i byth, pa un bynag ai y ffon ai rhywbeth arall a'i cadwodd o draw. Wel dyma yw y *teetotal* yma, mhobol i—ffon Cas gan Gythraul ydyw hi; cydiwch chwi ynddi o ddirif, mi fydd y cythraul fwy o'r hanner o'ch ofn chwi.

*Bore dydd Llun.* Wrth ymadael o'i letty ar fore dydd Llun, dywedai, “Mae pregethwrs y Methodistiaid yn debyg iawn i'r pryf sidan, ar fore dydd Llun, wedi tynu eu perfeddion ar y Sabbath; a'r unig beth sydd gan y bobl i'w wneyd wed'yn ydyw ein troi ni dros y drws, a'n gyru ni adre' i nyddu peth *fres*.”

*Ynddo ef heb.* Nid oes dim rhyngot ti a chael crefydd ond y gair tair llythyren h-e-b—heb fy nghyfiawnder fy hun, a dyna hi yn dy afael di yn union. Pan fydd twrne neu ddoctor mewn tre' yn symud o'i hen dy, bydd “*to be found* yn y fan a'r fan,” yn cael ei roddi ar y drws. Felly yr oedd Paul yn myn'd o'i hen gyflwr, rhoddodd arno, ‘y'm cair ynddo Ef.’—Ple mae'r Sais hwnw 'rwan oedd yn gofyn tipyn o Saesneg; dyma iddo lon'd ei geg—“*to be found in Him*.”

*Etholedigaeth.* “Mi ddown innau at grefydd pe bawn yn gwybod fy mod wedi fy ethol.” Taw â dy glonc hefo dy etholedigaeth. Yr wyt yn meddwl cael myn'd yn ddigon tâl i weled dros ysgwydd Duw, be' sy yn ei lyfr o, ond ni chei di ddim; a phe ceit ti wel'd ei lyfr o, ni wyddet ti ddim byd arno fo. Taw â dy glonc am etholedigaeth, a gwanna di yr hyn sy dan dy drwyn di.

*Llyfr y Diarebion.* Mae llyfr y Diarebion yma fel dinas ardderchog, yn llawn o balasau gwychion, a phob palas ar ei ben ei hun, heb yr un dau dan yr un tô, ac heb ffordd i fyned a dyfod o'r naill i'r llall. Felly y mae fy nhestun innau; nid oes eisieu myn'd yn ôl nac ymlaen i fyned iddo.

*Celwydd Gehazi.* Nid oes modd cuddio â chelwydd, na chuddio celwydd, mi fydd rhyw ben o hono o'r wain o hyd. "Gwahanglwyf Naaman a lŷn wrthyt ti, ac wrth dy had yn dragywydd," meddai Eliséus wrth Gehazi, am iddo ddyweyd celwydd. Er i ti gael dwy *swit* drwy dy gelwydd, dyna i ti *swit* na wiagi di mo honi allan; mi fydd i dy hâd ar dy ol di. Benau teuluoedd, edrychwch ati rhag eich bod yn gwisgo gwisg fydd i'ch hâd ar eich hol."

*Da y dywedaist.* Pe buasai yr Iesu yn dyweyd wrth y wraig o Samaria, "Dos, galw yr hen garp hyll acw sydd genyt ti," mi w'ranta' y buasai yn lluchio ei chylchau yn braf. Ond trwy iddo ddal ei rhinwedd hi i fyny âg un llaw—"hyn a ddywedaist yn wir,"—yr oedd yn cael ei thrin â'r llall fel y fynai. Ac ni welsoch chwi erioed ddyn, ond i chwi ddal ei rinwedd o i fyny ar un llaw, na chewch chwi roi eich bys yn ei dagell o cyn y diwedd, a'i drin â'r llaw arall fel y fynech.

*Gweddî y Lleidr.* Pwt oedd gweddî y lleidr; ond gwyn fyd na fyddai yma lawer o bytiau tebyg iddi; os pwt oedd hi, gwnaeth y tro yn glyfar—"Cofia fi pan ddelych i'th deyrnas." Wyddoch chwi beth, un garw oedd y lleidr yma hefyd; pa faint bynag gipiodd yn ei fywyd, mi gipiodd fwy na'r cwbl wrth farw. Mi gipiodd deyrnas ar y groes.

*Llyfr Job.* Mae llyfr Job yn dechreu yn glyfar iawn, hanes crefydd Job ymlaenaf—dyna y peth goreu am danom oll,—a hanes ei blant, a hanes y byd yma wed'yn. Pe buasai rhywun cnawdol yn ei ysgrifennu, hanes y byd yma fuasai yn gyntaf, a'r plant wedi hynny,—un yn Dwrne, a'r llall yn Berson, neu ryw beth; a'r grefydd fach wrth eu cwt nhw i gyd.

*Y bregeth ar y mynydd.* Dyrchafodd yr Athraw mawr ei lygaid, ac agorodd ei enau; ac y mae yma bob gwreichionen fel oddiwrth y gôf aur. Ni bu neb erioed yn agoryd ei enau â chymaint o *warehouse* y tu ol iddo. Mewn cregyn malwod y dylid rhoi y rhei'ny ddywedent er's tipyn yn ol fod pregethwyr mwy na fo wedi codi ar ei ol o.

*Ceisioch yn gyntaf.* "Ni ddaw teyrnas Dduw wrth sgil neb na dim; mae yn rhaid iddi gael y cyfrwy."

*Cof Dafydd Cadwalad.* Yr oedd cof Dafydd Cadwalad fel uffern: ni ddywedai byth, Digon; a pha beth bynag a fwrid yno, ni ddeuai byth oddiyno."

---

## TI, YSGOL SUL.

**T**I, Ysgol Sul, wyt harddwch gwlad,  
 A thegwch yr holl fryniau;  
 Wyt fel rhyw fammaeth dyner fwyn,  
 A'i baban yn ei breichiau;  
 Mae hono 'n rhoddi iddo laeth,  
 Yn debyg iawn wyt tithau;  
 Yn rhoddi i'th ddeiliaid laeth y gair,  
 Er meithrin eu rhinweddau.

J. DAVIES.



EIN HARLUNWYR IEUAINC.

RHIF. III.

**B**OBEITHIWN erbyn hyn fod lliaws o fechgyn Cymru wedi troi eu meddyliau at y gelfyddyd ardderchog o arlunio. Bwriadwn yn iuan roddi ychydig o gyfarwyddiadau syml i'n darllenwyr ar gerfiadaeth, fel ag i'w cynnorthwyo ymhen y ffordd. Yn y cyfamser, yr ydym yn falch o'r cyfleusdra i gyhoeddi y darlun uchod o waith Mr. J. Richards, Treforis, yr hwn yw ei bum-med cynnyg. Yr ydym yn gwbl sier, pe cawsai ein cyfaill hwn y manteision addysg priodol i'r gangen hon yn more ei oes, y buasai cyn hyn yn y dosbarth blaenaf fel *wood engraver*.





## NYTHOD ADAR.

**I**N bur fuan bellach, gellir dysgwyl gweled y bechgyn yn heidiau gyda'u gilydd, yn rhedeg yn llawen o amgylch y maesydd o'r naill wrych i'r llall—un gyda phastwn auferth, un arall wedi doddi ei gap am ei ddwrn, a'r llall gyda rhyw offeryn neu ddyfais neu gilydd, yn chwilio am nythod adar. A dyna lle y byddant yn curo y twmpathau, yn symud y brigau—yn gwylio, yn neidio—yn syllu gyda'u llygaid bach, bywiog, pert—yn gwaeddi fod y nyth wedi ei gael; yna mewn siomedigaeth yn gollwng y brigau yn ôl—nid ydoedd ond “hen nyth er y llynedd.” Y fath wynebau trist a llawen a dynir gauddynt, y naill ar ol y llall, yn olynol! Fel yr adseinia yr ardal gan eu llefau! Y mae rhyw hapusrwydd yn eu hannedwyddwch. Y mae yn aml, fel y bwrlwm, yn bod am fynyd, ac yna yr unig beth fu yn achos o'i fodolaeth yn ei ddifodi drachefn, ac nis gwelir ef mwy.

Nid ydym mewn modd am i blant roddi heibio chwilio am nythod adar. Na, gadewch iddynt. Gadewch iddynt weled gosodiad y blewyn cyntaf, a gwylio y cyunydd o ddydd i ddydd. Gadewch iddynt wyllo pa fodd y bydd yr adeiladydd bychan cywrain yn cludo yn ei big—yn gyntaf y gwellt a'r gwair, yna y mwsogl, y rhawn, neu y clai. Pa fodd y bydd yn eu gosod mor gelfyddgar. Gadewch iddynt wyllo o ddydd i ddydd pa sawl wy a ddodwyir yno—pa faint o amser a gymer i'w deor. Gadewch iddynt wyllo y rhai bychain—hyllion ddigon ar y dechreu—ond cyn hir a agorant eu llygaid, a fagant bluf, ac yn bur fuan nis gall y goedwig ymfrostio mewn prydferthach preswlyddion na hwynt-hwy. Gadewch iddynt wyllo arnynt fel cyn hir yr auturiant neidio—yn gyntaf ar ochr y nyth ac yn ôl, yna ar y gangen y mae y nyth yn sefyll arni ac yn ôl, ac yna fel ei gadawant, byth i ddychwelyd yn ôl mwyach. Y fath ddoethineb anfeidrol sydd wedi cynllunio y cwbl! Ni fuasai profiad can' nlynedd yn dysgu aderyn i wneyd gwell nyth nag a wna y fam ieuanc yna eleni, nac i ofalu yn fwy tyner am y rhai bychain. Ië, gadewch i'r plant weled y pethau hyn; gwna les iddynt.

Ond yr ydym yn ofni mai nid dyna amcan y tŵr plant acw a welwn gyda'u gilydd yn y fan draw. Fe allai ein bod yn camgymeryd; ond os ydym yn camgymeryd am y rhai acw, y mae plant yn ddigon creulawn i dynu rythod yr adar bach! Eu hymffrost ydyw cael y gadwyn hwyaf o'u hwyau! Ië, y mae rhai yn ddigon creulawn i amddifadu y fan druan o'i chywion bach, ag y mae hi yn awr yn ddiwyd, a chyda chalon serchog, yn casglu pryfaid iddynt! O gresyn! onidê? Meddyliwch am deimlad yr aderyn bach yna pan ddaw yn ôl, i weled ei nyth wedi ei chwalu, a'i rhai bychain wedi myned. Edrychwch arni fel y neidia o'r naill frigyn i'r llall. Edrycha ar y nyth dystrywiedig oddiar y gangen yma, yna oddiar y llall, yna ehed ymaith i edrych arno o safle arall. Ond yr un ydyw o bob man—trafferth

a phryder blwyddyn wedi ei ddystrywio. O! pe y gallem deimlo curiadau y galon fach yna! A all adar ocheneidio? Os gallant, y fath ynichwydd a allem ddysgwyl weled yn y fynwes fechan yna! ac yna y fath ochenaïd! Ah! clywch ei thôn gwynfanus—treiddia i waelod ein calon. Tynnu nyth aderyn! Pa fodd y gwnaem y fath beth ar ol clywed hona? Ah! y fath gantorion melus y mae y llwyn wedi ei amddifadu o honynt. Y Robin goch oeddynt, fe allai, fuasai yn canlyn ein darllenydd ieuanc ar ei ffordd i'r ysgol, ac yn difyru ei unigrwydd â'u cân bernaidd; neu y fronfraith, neu yr aderyn du, fuasai yn pyncio mor fwynaid o dan ei ffenestr yn y bore pan ddeffroai. Ond, meddai y bachgen, "Y mae genyf fi gage; y mae arnaf eisieu aderyn i'w roddi yn hwnw." Wel, gadawn i'r aderyn ddadleu drosto ei hunan. Ddeuddeng mis yn ol rhoddwyd y pennillion canlynol yn NHRYSORFA Y PLANT yn Saesoneg, ac addawyd rhoddi cyfieithiad o honynt mewn rhifyn dyfodol. Dyma hwy:—

Cas genyf ddinasoedd, a balchder sy im',  
A phob ardderchogrwydd heb swyn;  
I'm gwneuthur yn hapus nis gwn i am ddim  
Fel rhyddid yn nghanau y llwyn.

Gall dyn yn ddideimlad roi 'r 'deryn mewn ffau,  
A'i gadw ef yno tra bydd;  
A gall rhyw aderyn 'n y fath le 'mfoddhâu,  
Ond O! 'dewch i mi fod yn rhydd.

Ac er gall y dyn roi danteithfwyd i ni,  
A gwisgo ein carchar âg aur,  
Yr hyn allaf hel yn y coed rhowch i mi,  
A rhyddid, cymerwch fy ngair.

Canmolwch y ddinas hyd eithaf eich dawn—  
Ei chyfoeth a'i gwycheder i gyd,  
Myfi a fy nghymhar byw yma a wnawn,  
Y cwplw dedwydda' n y byd.

A. C. L.

### CRAIG Y FAM.

**D** MAE yn debyg fod darllenyddwyr TRYSORFA Y PLANT oll yn bur hoff o'u mam, a'r rhai hyny o honynt ag sydd wedi colli eu perthynas anwylaf ar y ddaear, nid oes yn ddiâu goffadwriaeth yn eu meddwl mor gysegredig a choffadwriaeth eu "hanwyl fam eu hunain." Tueddir fi i feddwl mai rhai fel hyn yw darllenyddwyr y cyhoeddiad prydferth a defnyddiol hwn, am y rheswm yn unig eu bod yn ddarllenyddwyr iddo. Yr wyf yn cofio, pan oeddwn yn lled ieuanc (ac nid wyf yn hen eto), fod Dr. Edwards o'r Bala yn pregethu mewn Sasiwn yn yr W— ar eiriau olaf Iesu Grist. Ymhlith y geiriau eraill a ddywedodd ein Gwardwr anwyl ar y groes, ni a wyddom fod y geiriau hyny yn dyfod i mewn, "*Wela dy fam!*" yn y rhai y mae efe yu gorchymyn ei fam i ofal Ioan

—y dysgybl a garai efe. Ac wrth sylwi ar ofal mawr ein Gwardwr am ei fam, dywedai Dr. Edwards ei fod yn credu fod cysylltiad agos rhwng gofal dyn ieuanc am ei fam â chrefydd. Nid oedd yn ddeis gwneyd hyn ynddo ei hunan yn brawf o grefydd, ond anturiai ddyweyd nad oes yr un bachgen ieuanc ag sydd yn teimlo gofal priodol am ei fam ymhell oddiwrth grefydd. Yr wyf yn credu fod gwirionedd yn y sylw hwn, oblegid yr wyf yn meddwl fod cysylltiad rhwng y rhinwedd yma mewn dyn ieuanc â phobpeth sydd yn dda a hawddgar; ac ystyriaeth fel yma oedd yn peri i minnau ddyfod i'r casgliad mai rhai caredig at eu mam yw darllenwyr TRYSORFA Y PLANT, onidê yr wyf yn bur sicr yn fy meddwl fy hunan na buasent o gwbl yn ddarllenwyr o honi. Ac y mae credu fel hyn am danynt yn peri i mi eu caru un ac oll. Na ddeled fy enaid i byth i gyfrinach y dyn a all ymddwyn yn gas at ei fam ei hun.

Yr oedd hyd yn nôd y Paganiaid yn edrych ar esgeulusdra dyn ieuanc o'i fam yn un o'r pethau mwyaf gwarthus yn eu plith. Yr oedd yr Atheniaid yn cosbi y cyfryw a geid yn euog o hyn â marwolaeth. Ac oblegid fod y Paganiaid yn ystyried hyn yn un o'r drygau mwyaf, y mae y Testament Newydd yn ein dysgu i edrych ar yr hwn sydd yn euog o hyn yn wyneb goleuni crefydd Crist, yn "waeth na'r di-ffydd." 1 Tim. v. 4, 8.

Y mae gofal priodol am ein rhieni yn cael lle amlwg iawn yn addysgiaeth y Bibl. Y mae hyn yn un gorchymyn penodol yn y ddeddf foesol; ac y mae yr Arglwydd Iesu, fel y crybwyllwyd o'r blaen, wedi rhoddi amlygrwydd mawr i'r rhinwedd hwn yn ei esiampl i ni. Yn ei fynyddau olaf—yn ei ddyoddefiadau mwyaf, y mae yn meddwl am ei fam, ac yn gofalu am ei chysur erbyn amser i ddyfod. Yr oedd yn arferiad ymhlith y Samniaid i famau y gwŷr ieuainc a leddid yn eu rhyfeloedd hwynt gael eu trosglwyddo i rai o'r dinaswyr cyfoethog, i gymeryd eu gofal hwynt o hyny allan fel eu mam. Fel hyn yr oedd Iesu Grist, pan yn ymladd ein brwydr ni ar y groes, yn paratoi ar yr un pryd ar gyfer cysur dyfodol ei fam, ac yn ei throsglwyddo i ofal Ioan, "*Wle dy fam!*" Ac o'r awr hono allan y cymerodd y dysgybl hi i'w gartref."

Rhydd y Bibl fwy o annogaethau i'r plant ymddwyn yn briodol at y fam nag a rydd i'r fam ymddwyn yn iawn at y plant; oblegid y mae cariad y fam at ei phlentyn mor fawr, fel nad oes eisieu ei hannog. Cynghor un o'r merthyron gynt i'w fab, ychydig cyn iddo gyfarfod â'i angen, ydoedd, "Pan êl dy fam yn hen, na âd hi, ond hyd y mae ynot, darpara ar ei chyfer, ac edrych na bydd arni eisieu dim; canys felly y bendithia Duw di, ac a rydd i ti hir oes a llwyddiant ar y ddaear."

Ond yr hyn a'm tueddodd i ollwng ychydig o fyfyrddau ar "y fam," oedd darlenniad ryw hanesyn hynod dro yn ol, yr hwn sydd yn dangos pa mor fawr yw cariad y fam at ei phlant.

A glywaist ti erioed son, ddarllenwydd ieuanc, am "Graig y Fam?" Y mae yr hanes i'w gael yn Nheithiau Humboldt, er

fod llawer eraill wedi gwneuthur defnydd o hono ar ei ol ef. Y mae craig uchel yn Neheudir America, yn agos i'r fan y mae afonydd Atabapo a'r Rio Terni yn rhedeg i'w gilydd, a elwir "Craig y Fam," a hyny oblegid yr amgylchiadau canlynol. Yn 1799, aeth cenadwr Pabaidd, gyda'i wŷr o Indiaid barbaraid, allan un diwrnod, fel yr arferai yn fynyeh a gwneuthur, i ladrata plant i fod yn gaethion i'r Cristionogion. Daethant o hyd i gaban mewn lle unig, yn yr hwn yr oedd gwraig a thri o blant—dau o ba rai oeddynt fabanod. Yr oedd y tad, ynghyd a'r plant hynaf, wedi myned allan i bysgota, ac yn ofer yr ymdrechodd y wraig i ddianc gyda'i babanod. Daliwyd hi gan y dynhelwyr yma, prysurwyd â hi i gwch, a chymerwyd hi i sefydliad cenadol yn San Fernando.

Yr oedd hi yn awr ymhell oddicartref; ond yr oedd wedi gadael plant iddi yno, y rhai a aethent gyda'u tad. Ceisiodd ddianc lawer gwaith gyda'i thri baban, ond daliwyd hi bob tro, dygwyd hi yn ôl, a fflangellwyd hi yn y modd mwyaf di-drugaredd.

Or diwedd penderfynodd y cenadwr wahanu y fam oddiwrth ei thri phlentyn, ac i'r dyben yma anfonodd hi mewn båd i fyny yr afon Atabapo at genadaethau y Rio Negro, i sefydliad a elwid Javita.

Ni wyddai y fam, yr hon a eisteddai ymhen blaen y båd, i ba le yr oedd hi yn myned, na pha dynghed oedd yn ei haros. Yr oedd hi yn unig ymhen blaen y båd, ac wedi ei chadwyno; ond tybiodd oddiwrth gyfeiriad yr haul ei bod yn myned ymaith oddiwrth ei phlant. Trwy egni disymwth, drylliodd ei rhwymau, neidiodd i'r afon, nosiodd i'r ochr aswy o'r Atabapo, a glaniodd ar graig. Awd ar ei hol, ac yn yr hwyr cymerwyd hi drachefn, a dygwyd hi yn ôl at y graig, lle y fflangellwyd hi nes oedd ei gwaed yn lliwio y graig, ac yr oedd hithau yr un pryd yn gwaeddi am ei phlant; a gelwir y graig byth er hyny yn "Graig y Fam." Yna rhwymwyd ei dwylaw ar ei chefn, yr hwn oedd yn parhau i waedu oddiwrth ffrewylliadau y careiau lledr. Llugwyd hi drachefn at y genadaeth yn Javita, a thafwyd hi i ryw fath o ystabl. Yr oedd y noson yn un anghyffredin o dywell, ac yr oedd yn nghanol tymmor y tywydd gwlyb. Yr oedd hi yn awr yn llawn bymtheng milldir a thriugan, mewn llinell union-syth, oddiwrth ei thri phlentyn. Gorwedda i rhyngddi hi a'i phlant goedwigoedd na thramwywyd drwyddynt erioed gan draed dynol, a chorsydd a siglenydd na chroeswyd erioed gan ddyn. Ond y mae ei phlant yn San Fernando, a pha beth sydd ddigon cryf i ddiffodd cariad mam! Er fod ei breichiau yn archolledig, llwyddodd â'i dannedd i gnoi ei chadwynau oddiwrthi, a'r bore nid oedd i'w chael. Ar godiad yr haul y pedwerydd dydd, yr oedd wedi myned trwy y coedwigoedd, croesi y siglenydd, nosio yr afonydd, ac yn waed i gyd ac wedi diffygio, yr oedd i'w gwled yn ymdroi oddiamgylch y bwthyn bychan lle y cysgai ei phlant.

Daliwyd hi unwaith eto, a chyn i'w harchollion i'w  
wyd hi drachefn oddiwrth ei phlant, ac anfonwyd hi  
cenadaethau ar yr afon Oroonoko, lle yr ymollyngod  
y bu farw. Ynwrthododd â phob math o luniaeth a  
—bu farw o doriad calon o herwydd cael ei rhwygo  
phlant. Dyna i ti, ddarllenydd ieuanc, ychydig o h  
y Fam.” Onid ydyw cariad y fam yn angerddol?

A ydyw yn bosibl fod gofal mwy na gofal mar  
Ydyw, y mae yn bosibl; ac nid yn unig y mae yn bo  
mae yn cael ei weithredu tuag atom bob dydd. “  
gwraig ei phlentyn sugno, fel na thosturia wrth fab ei  
Dyma atebiad Duw i'r cwestiwn: “Iâ, hwy a allant  
eto myfi nid anghofiaf di.” Y mae bron yn annhosff  
anghaffio ei phlentyn, oblegid nid yw ei gofal am dano yn  
cymaint ar ei chof ag ar ryw deimlad byw sydd yn ei  
ato; ond y mae Duw yn tystio y gall y fam anghaffio ei  
cyn yr anghaffio efe yr hwn sydd yn ymddiried ynddo E.  
cariad tad a mam yn cilio rywbryd, ac y mae yn bosibl fod rhai  
ddarllenwyr TRYSORFA Y PLANT wedi colli y naill a'r llall; ond  
er eu cysur, dyma gariad sicrach iddynt, sef cariad eu Tad nefol  
“Pan yw fy nhad a'm mam yn fy ngwrthod, yr Arglwydd a'm  
derbyn.”

OFFA.

---

## DYDDANION.

### CANDL

“**C**AM,” meddai plentyn cyfrwys yn ddiweddar, “a fynwch  
chwi damaid o gandi?” “Mynaf, fy mhentyn, rhoddwch  
damaid i mi,” ebai'r fam. “Iâ,” ebai'r plentyn, “os pry-  
wch chwi beth i fi, cewch chwi damaid o hono.”

### ALLAN O'R AIPHT.

**A**E arna' i eisieu cael fy mhobol o'r Aipht, meddai'r Arglwydd  
Wel hys lau! hys lyffaint! hwi gythraul! gwnewch eiddo  
goreu er iddyn' nhw gael myn'd.—*D. Rolant.*

### CYMERIAD PEDR.

**P**R oedd Pedr fel ceffyl melin, y pwn yn ormod ryw ochr o hys  
I ddechreu, dywedai, “Ni chei di olchi fy nhraed i byth  
Wedi hyny, “Nid fy nhraed yn unig, ond fy nwyllaw a'm pen  
hefyd.”—*D. Rolant.*



## TRYSORFA Y PLANT.

RHIF. XXX.]

MEHEFIN, 1864.

[CYF. III.

### LLYTHYR LUTHER AT JOHN BACH EI FAB.

**B**YDD y plant yn cofio mai un o ddynion mwyaf ei oes oedd Martin Luther, o Germany; ei fod yn un o ddiwygwyr penaf y byd; ac mai efe a fu y prif offeryn yn llaw yr Arglwydd i ryddhâu Ewrop o dan ddylanwad gormesol Pabyddiaeth. Mae wedi marw bellach er ys mwy na thri chan' mlynedd. Bydd yn dda gan filoedd o rieni a phlant ddarllen y llythyr anghymharol hwn o'i eiddo at ei John bach;—

“Gras a heddwch i chwi, yn Iesu Grist, fy mhlentyn bychan anwyl. Yr wyf yn gweled gyda phleser eich bod yn dyfod ymlaen yn eich addysg, a'ch bod yn talu sylw i'ch gweddïau. Parhewch i wneyd felly, fy anwyl blentyn; a phan ddychwelaf adref, dof âg amryw anrhegion hyfryd i chwi.

“Yr wyf yn gwybod am ardd deg a phrydferth, yn llawn o blant wedi eu dilladu mewn gwisgoedd euraidd, yn chwaraeu dan brenau hyfryd afalau, pêr, ceirios, eiryn, a chnau. Y maent yn canu, yn neidio, ac oll wrth fodd eu calon. Mae *ponies* (ebolion) bychain prydferth yno hefyd, gyda ffrwynau aur a chyfrwyau arian. Wrth fyned trwy yr ardd, gofynais i ryw ddyn beth ydoedd, a phwy oedd y plant hyny. Atebodd yntau, ‘Dyma y plant sydd yn caru gweddïo a dysgu—plant da a dauviol.’ Dywedais innau wrtho, ‘Anwyl gyfaill, mae genyf fannau hefyd

blentyn; ei enw yw John Luther; a gaiff yntau ddyfod yma a bwyta yr afalau hyfryd a'r pêr, a marchogaeth ar y *ponies* prydferth yma, a chwareu gyda'r plant?" Dywedodd y dyn wrthyf, "Os yw eich plentyn anwyl, John Luther bach, yn blentyn synwrol—os yw yn gweddio, ac yn dysgu ei lyfr yn 'ewyllysgar, caiff ddyfod yma, a gall ddwyn ei gyfeillion bychain, Phillip a James,\* gydag ef. Gall gael yma chwibanogl a thabwrdd, a digon o bob offer cerdd wrth ei bleser; a chaiff ddawnsio, a difyru ei hunan gyda'r bwa croes.' Tia yr oeddwn yn ymddyddan, dangosodd y dyn i mi ysmotyn o las hyfryd yn nghanol yr ardd, lle yr oedd y plant yn canu ac yn dawnsio, a lle yr oedd chwibanoglau, tabyrddau, a bwâu lawer yn gorwedd. Y bore ydoedd, ac nid oedd y plant eto wedi bwyta eu boreufwyd, ac nid arosais i yno ond hyd ddechreuad y ddawns. Yna dywedais wrth y dyn, 'Anwyl syr, yr wyf yn bwriadu ysgrifenu yn union at fy anwyl John, a dywedaf wrtho am fod yn fachgen da, i ymroi i weddio a dysgu, fel y gallo ddyfod i mewn i'r ardd ardderchog hon. Y mae ganddo chwaer fechan anwyl hefyd, yr hon y mae yn hoff iawn o honi; ei henw yw Madeline. A gaiff ef gymeryd hono gydag ef hefyd?' Atebodd y dyn, 'Caiff; dywedwch wrthynt am ddyfod gyda'u gilydd.' Yn awr, fy anwyl fachgen, byddwch yn blentyn da, a dywedwch wrth Phillip a James am fod yn blant da hefyd, ac yna cewch oll ddyfod i mewn i'r ardd brydferth i rodio a chwareu. Yr wyf yn cyflwyno fy anwyl blentyn i ofal yr Arglwydd. Anerchwch Madeline, a rhoddwch gusan iddi dros of fi. Eich tad, yr hwn sydd yn eich caru, MARTIN LUTHER. Mehefin 19, 1530."



### OES PLANT GAN Y PREGETHWYR YNA, 'NHAD!

**P**ERCH fechan wrth fyned adref o'r bregeth bore Sabboth a ofynai yn ddifrifol i'w thad,—“A yw yn wir yr ä pob rhegwr a phob torwr Sabboth i'r tân?” “Wel oni chlywaist y pregethwr yn dyweyd yr änt yno os na thro'nt at Grist, a gadael eu pechodau,” ebai'r tad. “Wel, dyna William —,” ebai'r ferch, gydag ochenaid, “mae ef yn rhegu; ac y mae John — yn tori y Sabboth o hyd.” “Ond,” ychwanegai ar ol mynyd o fyfyrdd, “nid wyf yn credu yr änt i'r tân.” “Pam?” gofynai y tad, “oni ddywedodd y pregethwr yr elent?” “Do, 'nhad; ond nid oedd yn ddifrifol; yr oedd yn canu wrth ddyweyd; ac yr oeddwn i yn ei weled yn bethi òd iawn ei fod yn canu wrth roi y bechgyn yn y tân poeth am byth bythoedd. A oes plant gan y pregethwr yna, 'nhad!”

\* Plant Melancthon, cyfaill Luther, a'i gyd-ddiwygiwr, oedd Phillip a James. Gwel tu dal. 312 o DRYSORFA Y PLANT am 1868.

## GWLAD WYNEDD.

GAN J. CEIRIOG HUGHES.

**M**AE 'r "*estron*" yn dechreu ymranu,  
 Mae Delta 'n yr afon yn awr :  
 Mae 'r 'Merica fawr yn gwahanu,  
 A thalaeth Australia 'n rhy fawr.  
 Ac ni ddaw 'r hen Alban o'i gogledd,  
 Na 'r Werddon o ganol y lli' :  
 A sefyll wnaiff Gwynedd yn Ngwynedd,  
 Gwlad onest, gwlad anwyl, gwlad Wynedd fydd hi.

Mae terfyn i ddyfroedd y moroedd,  
 Lle llama 'r llifeiriant yn lluwch :  
 Mae terfyn i fawredd cenedloedd,  
 Ac uchder, lle nad eir yn uwch.  
 Gall ieithoedd gyfnewid, a dichon  
 Daw hyny ryw dro atom ni :  
 Er uchded fydd gwlad ein "*cym'dogion*,"  
 Gwlad iraidd, gwlad dirion, gwlad *arall* fydd hi.

Rhoed min ar dalentau 'n teuluoedd,  
 Gwnawn lwybr i'n plant ac i'w hâd :  
 A chwithau sy 'n son am *hen* oesoedd,  
 Rhowch drem ar *ddyfodol* ein gwlad.  
 O'n blaenau mae mil o flynyddoedd,  
 Pan gyfyd cenedloedd i fri :  
 Nac ofned hen wlad y mynyddoedd,  
 Gwlad onest, gwlad anwyl, gwlad Wynedd fydd hi.

## Y MEIBION A'R MERCHED.

**M**AE yn ein bryd, er ys llawer o amser, i ddywcyd gair wrth y bobl ieuainc am eu dull o gyfeillachu â'u gilydd yn rhag-barotodol i'r cyfammod priodasol. Nid oes un pwnc ag y mae mwy o anghen ymdriniaeth arno ar lafar, ac ar lyfr, nac un pwnc ag y teimlir yn fwy anhawdd a gwrthwynebus i'w ddwyn ger bron. Ond y mae gwrthuni yr arferion, a'u canlyniadau llygredig, yn gyfryw ag y dylid tori drwy bob gwyleidd-dra a gochelgarwch anwrol, a siarad yn eglur ar y pwnc. A chan fod TRYSORFA Y PLANT yn troi mwy ymysg y bobl ieuainc na'r un cyhoeddiad arall, tybiwn ei bod yn gyfrwng cyflêus i awgrym neu ddau ar y mater. Os geill rywrai chwerrthin a gwatwar am hyn, nid oes yr un tad a mam a wna hyny; ac yr ydym yn sicr nad oes yr un mab na merch ystyriol a phwylllog, heb son am grefyddol, a deimla felly; a byddai gwneyd hyny ymhell iawn oddiwrth deimlad ysbryd y neb sydd yn ysgrifenu.

Ofer ceisio gwadu na chelu—mae cyfeillachau amhriodol yr



ieuencyd yn un o ddrygau mawr ein gwlad, wedi dwyn gwarth-nod pygddu arnom fel cenedl, ac y mae yn ffynnonell o drueni teuluaid annesgrifiadwy. Y mae dyfeisio llwybr o waredigaeth oddiwrth y gwarth a'r trueni yn deilwng o astudiaeth ddyfalaf ein goreugwyr. Ac nid ydym yn gweled sut y gellir dwyn hyn oddi-amgylch heb siarad y mater allan yn eglur trwy y wasg. Pa Gristion fedr agor ei lygaid a darllen cyfrifon y Cofrestrydd o blant anghyfreithlawn yn Nghymru; neu roddi tro trwy Dlodtai ein gwlad i weled gwedd dorcalonus y merched twylledig sydd yno yn dihoeni mewn gwarth a chywilydd, ac yn dyweyd wrth edrych yn wyneb eu babanod, Tydi wyt

“Warth dy fam, fy mychan!  
O Dduw! ai bastard yw fy merch  
Am nad oedd genyf arian?”

neu edrych ar nifer y merched trwy yr ardaloedd a oddefant i'w rhinwedd gael ei sathru cyn myned i'r ystad briodasol, ac edrych ar y ffrydiau diball o anghysur, o derfysg, a thrueni sydd yn codi o'r ynfydrwydd hwn; pa Gristion, meddwn, fedr edrych ar hyn am fynydd heb wrido a chywilyddio? Ac wrth edrych ar arferion y wlad—yn enwedig y dosbarth gweithiol, oblegid yn eu mysg hwy yn benaf mae y drwg hwn yn bodoli—nid yw y peth mewn modd yn y byd yn rhyfedd. Yr ychydig awgrymiadau y dymunem alw sylw difrifolaf ein cyfeillion ieuainc atynt—a'u rhieni hefyd, yn wir,—yw y rhai canlynol.

1. *Ymgynghorwch â'ch rhieni.* Ni ddylai na mab na merch ddechreu cyfeillachu â'u gilydd heb yn gyntaf ymgynghori â'u rhieni. Mae hyn yn berffaith resymol ac Ysgrhythrol; a bydd y neb a'i gwnelo yn sicr o gael ei ffordd yn llawer mwy boddus a dymunol; ac ar y ffordd hono y gall ddysgwyl bendith Rhagluniaeth. Gall rhieni hefyd wneyd llawer yn y cyfeiriad hwn, trwy siarad y pwnc, a'i bwysigrwydd, a'r dyledswyddau cysylltiedig âg ef, wrth eu plant. Ymysg y cenedloedd dwyreiniol, y rhieni oedd yn gwneyd agos y cwbl gyda phriodi eu plant. Ond os oedd y rhieni y pryd hwnw yn gwneyd gormod, y maent yn awr, ymysg lliaws y wlad, yn gwneyd rhy fach, ac y mae drwg yn ddiau yn cael ei achosi trwy hyny.

2. *Gofelwch am leodd ac amserau priodol.* Y fath ynfydrwydd yw treulio oriau ar hyd yr heolydd, ac mewn conglaau a chyrtiau, ar adegau anmhrydlawn o'r nos, gan beryglu iechyd a chymeriad. Mae dull fel hwn yn fwy cynhwys i ladron a drwgweithredwyr. Mae yn arferiad gan rai hefyd i fyned gyda'u gilydd i dafarndai, yn enwedig ar nos Sabbothau, a bod allan ar ol hyny yn hwyr ar hyd yr heolydd. Nid yw yr arferion hyn oll ond megys dyn yn rhuthro o'i wirfodd i ganol y demtasiwn. Os yw y dyn a gyfeillach y ferch ieuanc, yn nhŷ y ferch ieuanc, trwy ganiatâd ei rhieni, o fewn oriau priodol, y dylai y gyfeillach hono fod. Anaml iawn y gwrthodai rhieni eu caniatâd i hyny, dim ond ymgynghori yn briodol â hwy. A chredwn yn ddibetrus pa

mabwysiedid y diwygiad bychan a hawdd hwn gan yr ieuencyd, y cymerai dyrchafiad pwysig le ar Gymru gyda golwg ar ddiweirdeb, ac y byddai yn ddechreuad cyfnod newydd ar fwynderau a dedwyddwch teuluol ymysg dosbeirith iselaf ein gwlad.

3. *Byddwch farw yn hytrach na cholli eich cymeriad.* Mae cellwair & theimladau eich gilydd, heb fod yn ddifrifol, yn arwain i ddrwg, ac yn rhwym o ddarostwng cymeriad y neb a'i gwnelo. Mae meibion a merched yn aml yn euog o hyn; ond y mae yn berffaith anghydweddol & chymeriad da, ac yn arwain yn fynych i ganlyniadau echrydus. Ferched ieuainc! dywedwn eto, wrthyhych chwi yn arbenig, byddai yn well i chwi farw na cholli eich cymeriad. Ac er y byddai hyn yn gymaint pechod yn y mab, eto y ferch raid ddyoddef; ac nid oes tafod all draethu faint yw y dyoddef hyny. Nid oes nemawr i fis yn myned heibio na welir merched ieuainc yn y *Petty Sessions* yn myned trwy y penyd annyoddefol o dyngu pwy yw tad eu babanod; ac yn cael eu holi & chwestiynau sydd yn rhwym o wneyd i'r gwynebau mwyaf presaidd wrido, ac a wnaeth i'r ysgrifenydd wylo dagrau wrth edrych arnynt. Byddai bod yn llygad-dyst unwaith o'r cywilydd a'r gwaradwydd sydd yn yr un amgylchiad hwn yn ddigon i beri i holl ferched y wlad arswydo rhag llithro i'r un llwybrau.

Anwyl gyfeillion ieuainc, ystyriwch y tri chynghor bychan ond pwysig hyn:—*ymgyngori d'ch rhieni—gofalu ddywn eich cyfeillachau ymlaen mewn lleoedd ac amserau priodol—a phenderfynu colli eich bywyd yn hytrach na cholli eich cymeriad.* Penderfynwch eu dilyn, a Duw Jacob fyddo yn gymhorth ac yn amddiffynfa i chwi!



FY ANWYL ANN.

**NA** bawn yn fardd neu brydydd,  
 Fel y gallwn draethu 'n hy'  
 Ddyfnder trallod calon glwyfus,  
 A brathiadau angeu du:  
 Colli mam oedd fwyn a thirion  
 Oedd yn golled fawr yn hir;  
 Colli gwraig fel canwyll llygad,  
 Hon oedd golled fwy yn wir.

Gwag i mi yw 'r tŷ a'r capel,  
 Gwag yw 'r *Post* lle bu yn hir,  
 Gwag yw 'r ddaear yma yn gyfañ,  
 Gwag fy mynwes i yn wir;  
 Ond nid gwag y nefoedd sanctaidd,  
 Yno mae ei chartref hi;  
 Lle a drefnwyd gan Grist Iesu,  
 Yr hwn fu farw ar Galfari.

Bum yn hoffi 'r ddaear unwaith,  
 Teimlo 'i blodau i gyd yn gun;  
 Ei mynyddoedd uchel, 'sgythrog,  
 Mor fawreddig o'ent bob un;  
 Ond yn awr 'r wy' 'n teimlo pobpeth  
 Heb ddim swyn a bywyd iin',  
 Pan mae Ann, fy mhriod anwyl,  
 O dan len heb dd'wedyd dim.


Mae fy nghalon bron a thori,  
 Hiraeth bron a'm llethu i'r bedd,  
 Wrth adgofio gwenau siriol  
 Ann, fy mhriod hardd ei gwedd;  
 Cofio 'r wyf y fynyd yma—  
 Dagrau ar fy ngrudd yn awr—  
 Pan ddychwelwn o'm cylchdeithiau,  
 Fel cawn brawf o'i chariad mawr.

Yn y nef y caf ei gweled  
 Mewn gogoniant mawr ei fri,  
 Yn addoli yr Hwn fu farw  
 Yn ei lle ar Galfari;  
 Os na chaf ei galw yno  
 'N Ann fy ngwraig, fy mhriod i,  
 Caf ei galw wrth yr enw  
 Ann fy chwaer, dy frawd wyf fi.

D'wed i mi pwy welaist yna,  
 Trwy holl gyrau 'r nefoedd fawr?  
 Pwy o'th hen gymdeithion yma,  
 Yn addoli ar y llawr?  
 D'wed i mi a oes cymdeithas  
 Rhyngot â'th ddau frawd mewn hedd,  
 Neu a welaist yn dy deithiau  
 Dy rai bach yn llon eu gwedd?

Tybio 'r wyf dy fod yn ateb,—  
 Do, mi welais, gwelais hwy  
 Yn addoli wrth yr orsedd,  
 Heb un gofid, poen, na chlwy';  
 Yno fe 'm cyfarchwyd ganddynt,  
 Ann, fy chwaer, pa bryd doist ti  
 I'r wlad ddedwydd, hafaidd yma,  
 I addoli gyda ni?

Nid oes genyf, Arglwydd, gwyddost,  
 Ar y ddaear faith i gyd,  
 Ond un eneth fach, amddifad,  
 I'm cysuro yn y byd:  
 Nid yw hi ond gwan ac eiddil,—  
 Ofn ei cholli, dyma 'r gwir;  
 Arglwydd Iesu, er fy nghysur,  
 O gâd iddi fyw yn hir!



### Y CEILIOG.

allu anrhegu ein darllenwyr ieuainc â darlun mor ceiliog—crëadur ag y maent oll mor adnabyddus o ceiliog oedd cloc ein hynafiaid, wrth ganiad pa un deall pa amser o'r bore fyddai. Ac y mae cannoedd eto yn y wlad bob dydd "yn cyfodi wrth lais yr

hynotaf at yr aderyn hwn yn y Bibl yw yr un a rist, pan ragddywedai am wadiad Pedr. "Cyn canu wedi fi deirgwaith." "Caniad y ceiliog" y galwai y wyliadwriaeth o hanner nos hyd chwech o'r gloch amser hwn y gwadodd Pedr ei Arglwydd. Pan y ceiliog yn canu, fe gofiodd am yr Iesu, ac efe a c a wylodd yn chwerwdost. A dywed rhai na'r y ceiliog yn canu byth wedi hyny, heb adgofio ei ylo. Byddai yn ddigon da i ninnau roddi ystyr r yn nghaniad y ceiliog bob tro—sef cofio,—1. Ein wedi gwadu Crist;—2. Y dylem ninnau edifarhâu; i Iesu Grist yn barod i faddeu.

## Y BIBL

## II.—EI GYFIEITHIADAU A'I RANIADAU.

**Q** OF. Ymha iaith neu ieithoedd yr ysgrifenwyd y Bibl gyntaf?  
**A**t. Ysgrifenwyd yr Hen Destament agos oll yn yr iaith Hebraeg, a'r Testament Newydd yn yr iaith Roeg. (Ysgrifenwyd 67 o adnodau o Lyfr Ezra, 200 o adnodau o Lyfr Daniel, ac 1 adnod o Jeremiah, yn yr iaith Galdaeg.)

**G**. Pa rai yw y cyfieithiadau hynaf a phwysicaf o'r Bibl?

**A**. Ymysg y rhai pwysicaf, gellir nodi,—1. Y *Targum* Iuddewig. Math o aralleiriad esboniadol ar wahanol lyfrau yr Hen Destament yw y Targuman, yn yr iaith Galdaeg. Y maent yn ddeg mewn nifer, wedi eu cyfansoddi ar adegau gwahanol rhwng amser caethiwed Babilon a Christ. Y ddau bwysicaf o honynt yw eiddo Onkelos a Jonathan. 2. Y *Septuagint*, neu gyfieithiad y 70, i'r iaith Roeg, yw y cyfieithiad priodol hynaf o'r Hen Destament. Dywedir iddo gael ei wneyd yn Alexandria yn yr Aipht, gan 70 (neu 72—chwech o bob llwyth) o Iuddewon dysgedig, mewn cynifer<sup>a</sup> hyny o ddyddiau, oddeutu y flwyddyn 285 cyn Crist, pan oedd Ptolemy Lagus a Ptolemy Philadelphus yn frennoedd yr Aipht. Daeth y cyfieithiad hwn i arferiad cyffredinol, ac y mae y dyfyniadau o hono yn y Testament Newydd yn fynychach nag o'r gwreiddiol. Gwnaed amryw gyfieithiadau eraill i'r Groeg yn gynnar yn y cyfnod Cristionogol. 3. Ystyrir y cyfieithiad *Syriaeg* cyntaf, a elwir y *Peshito*, yr hwn a ddyddir yn y ganrif gyntaf, yn un pwysig. Bernir mai hwn yw y cyfieithiad cyntaf a wnaed erioed o'r Testament Newydd. Mae amryw gyfieithiadau pwysig eraill yn y canrifoedd boreuol, i ieithoedd Ethiopia, Persia, Arabia, a'r Aipht. 4. Y *Vulgate* yw yr enw ar gyfieithiad Lladin o'r holl Fibl a wnaed gan Jerome, tua diwedd y bedwaredd ganrif, ac a ddaeth yn raddol i arferiad cyffredinol trwy yr holl eglwys Ladinaidd. Y Bibl hwn oedd y llyfr cyntaf erioed a argraffwyd (yn Mayence yn 1462). 5. Cydnabyddir yn gyffredin mai y cyntaf a gyfieithodd y Bibl i'r Saesoneg oedd John Wicliffe, yn 1380; ond yr oedd amryw ranau o'r Bibl, os nad yr oll o hono, wedi ei gyfieithu ganrifoedd cyn hyn; eithr gwnaed y cyfieithiad Seisonig sydd mewn arferiad presennol dan deyrnasiad Iago I., gan 47 o ddyinion dysgedig wedi eu dethol o Brifysgolion Caergrawnt a Rhydychain. Dechreuwyd y gorchwyl yn 1607, a gorphenwyd ef yn 1611. 6. Y Bibl Cymraeg cyflaw cyntaf a argraffwyd ydoedd eiddo Dr. Morgan, Esgob Llandaf a Llanelwy, tua'r flwyddyn 1588. Aeth y cyfieithiad hwnw trwy ddiwygiadau eilwaith yn nheyrnasiad Iago I., ac argraffwyd ef ya ei wedd ddiwygiedig yn 1620. Mae y Bibl erbyn hyn wedi ei gyfieithu i fwy na chant a hanner o ieithoedd gwahanol, ac wedi ei wasgar wrth y miliynau dros holl wledydd gwareiddiedig y byd.

**G**. A oedd y Bibl wedi ei rannu; fel y mae yn awr, yn ei ymdangosiad cyntaf?

ac oedd; ond yr oedd gan yr Iuddewon amryw raniadau len Destament. Cyfeirir yn y Testament Newydd at un, sef y Gyfraith, y Prophwydi, a'r Salmau; ac yr oedd at amryw raniadau eraill, cyfaddas i'w haddoliadau a'u heth crefyddol. Trefnid y Testament Newydd hefyd yn oedd boreuol yn dair rhan, sef—1. Yr Efengylau; 2. Yr Actau; 3. Y Dadguddiad.

bryd, a chan bwy, y rhanwyd y Bibl yn bennodau ac fel y mae yn awr?

cyfieithiad Lladinaidd a elwir y *Vulgate* a ranwyd gyntaf dau, gan y Cardinal Hugo, mae'n debygol, yn y 13eg Tybia Jahn mai Langton, Archebop Canterbury, a'i yn y flwyddyn 1227. Rhanwyd y Bibl Hebraeg yn cyffelyb gan Mordecai Nathan, yn 1446; ac yn 1661, l y pennodau hyn i adnodau gan un o'r enw Athias. d y Testament Newydd i adnodau gan Robert Stephens, 1551. Felly gwaith dynion yw y rhaniadau, y teitlau, awysiadau, ac nid ydynt bob amser yn fanteisiol i'r

ba le y daeth y cyfeiriadau a'r darlleniadau sydd ar ymyl

vaith y cyfieithwyr a'r esbonwyr ydynt; ac y mae y darllysydd ar ymyl y ddalen yn fynych yn bwysig a man-

th yw dyben y llythyrenau *Italaidd* sydd yn y Bibl? Eiriau yw y rhai hynny nad oeddent yn yr iaith wreiddiol, aith yr ysgrifenydd yr Ysgrythyrau gyntaf ynddi; ond yn anghenrheidiol eu gosod i mewn er mwyn gwneyd y yn eglur.

id oes llawer o eiriau yn y Bibl Cymraeg nad ydynt wedi

th yw; mae y geiriau canlynol,—*Amen*, sef, gwir, neu felly y *Helivia*, sef, molwch yr Arglwydd; *Hosanna*, sef, achub *Mammon*, sef, golud; *Maranatha*, sef, yn nyfodiad yr d; *Sabaoth*, sef, lluoedd. Mae dau air arall a geir yn yn Llyfr y Salmau, nad oes sicrwydd beth yw eu hystyr, *ih* a "*Higgaion*," ond bernir mai arwyddnodau cerdd-  
lent.



### Y RHYW FENYWAIDD.

awyd y pennillion hyn ar '*Album Miss JONES, Bryn Mathly,*  
(ch. W. ROBERTS, Amlwch.)

**D**OES achos i chwi byth dristân,  
Mai 'ch rhyw yw 'r llestr gwana' o'r ddau;  
I'n hadfer oddiwrth gamwedd dyn,  
'E oedd raid cael Hâd y wraig ei hun.

Fe gofir gweddi Hannah o hyd  
I oesoedd pell diwedda 'r byd;  
Abigail hefyd yr un wedd  
Droes wg y brenin gynt yn hedd.

Ca'dd gwraig offeiriad gynt fawrhâd  
Trwy genadwri angel mad,  
Y genid iddi fab ryw bryd  
Arloesai ffordd Iachawdwr byd.

Y fath anrhydedd mawr ni roed  
Ar bendefigion byd erioed,  
Ac a roed ar y Forwyn Fair  
O fod yn fam i Iesu 'r Gair.

Ond cofiwch fod o'ch rhyw cyn hyn,  
Rai bâr i'r oesoedd feddwl syn;  
Gwraig Job a Jezebel, rhai drwg,  
Sapphira, ar hon rhoes Duw ei wg.

O'ch blaen yn awr mae bore 'ch oes,  
Cewch ras i ddilyn Iesu a'i groes;  
O gael yn fore ddwyn yr iau  
Cewch hwyr eich oes i lawenhâu.



## ENWOGION YR OES.

V.—WILLIAM EWART GLADSTONE, A.S.

**M**AE ein holl ddarllenwyr, yn ddiâu, yn gyfarwydd âg enw Gladstone, yr Aelod Seneddol dros Brifysgol Rhydychain, Canghellydd y Drysorgell, ac un o'r dynion mwyaf ei dalent a'i fedr a fêdd ein teyrnas. Mab ydyw i Syr John Gladstone, masnachwr cyfoethog o Liverpool. Ganwyd ef yn y dref hono, Rhagfyr 29 1809; felly bydd yn 55 mlwydd oed ddiwedd y flwyddyn hon. Derbyniodd ei addysg yn Ngholegau Eton, a Christ Church, Rhydychain. Ar ol gorphen ei addysg, treuliodd beth amser i deithio ar y cyfandir. Dechreuodd ei fywyd seneddol fel cynnrychiolydd bwrdeisdref Newark, dan nawdd Duc Newcastle, yn y flwyddyn 1832. Ar gychwyniad ei fywyd cyhoeddus, rhesai ei hun ymysg y Toriaid; ond y mae wedi dyfod erbyn hyn yn llawer mwy rhyddfrydig; ac er nad yw yn proffesu ei hun yn *Liberal*, y mae yn awr yn dal un o brif swyddi y llywodraeth mewn gweinyddiaeth a ymgysfennu yn *Liberal*. Canfu Ty y Cyffredin yn fuan fod defnyddiau rhagorol yn y glaslanc Gladstone, a rhoddodd Syr Robert Peel orchwylion yn ei law. Gwnaed ef yn Arglwydd y Drysorfa; ac wedi hyny yn Is-ysgrifenydd y Trefedigaethau. Yn 1841 gwnaed ef yn Is-lywydd Bwrdd Masnach, ac yn Gyfrin-gynghorwr. Daeth ei dalentau dysglær, a rhyddfrydigrwydd ei Doriaeth, âg ef yn dra phoblogaidd yn y Ty

allan iddo. Ennillodd glod iddo ei hun am ei araeth o blaid niad prentisiaeth Negroaidd yn y West Indies, ac am ei ar "Egwyddorion Eglwysig," ac ar y "Llywodraeth yn ei ltiad â'r Eglwys." Yn 1845, rhoddodd ei swydd i fyny o ld anghydwelod â'r Weinyddiaeth gyda golwg ar y "*May-Grant*." Dangosodd gryn ansefydlogrwydd gyda'r pwnc n gystal a rhai pynciau eraill. Rhoddodd ei bleidlais gyn-blaid; yr ail yn ei erbyn; y drydedd eilwaith o'i blaid. Eto ei fod yn actio oddiar argyhoeddiad ei feddwl dan yr amdanau, bob tro. Aeth Gladstone yn rhy ryddfrydig i'w gymn, a chymerodd Duc Newcastle gynnrychiolaeth Newark 10, ac felly colodd Syr Robert Peel yn 1846 ei brif Ysgrif-y Trefedigaethau. Ond yn 1847 etholwyd ef yn aelod dros ol Rhydychain, yn ganlynwr i Canning a Peel, ac y mae al hono hyd yn awr, er fod ei egwyddorion rhyddfrydig hosi amryw ymgeisiadau tuag at ei symud. Yn y blynydd-ilynol i'w etholiad dros y Brifysgol, dangosodd lawer o niaeth meddwl, a thynodd y Toriaid a'r Whigiaid droion en. Gwrthododd dderbyn swydd dan Derby yn 1851. Y flwyddyn 1851 yr ysgrifennodd lythyr bythgofiadwy ar nder Ferdinand, Brenin Naples, ac yn galw ymyriad y oedd eraill o blaid ei ddeiliaid. Gwnaeth y llythyr hwn marferol trwy holl Ewrop, a gwerthwyd oddeutu ugain o adau o hono mewn ychydig wythnosau. Ar ffurfiad ddiacth Iarll Aberdeen, gwnaed Gladstone yn Ganghellydd orgell, a daliodd yr un swydd am ychydig wedi i Palmerston d lle Aberdeen. Ond rhoddodd ei swydd i fyny oblegid tuno â Palmerston ynghylch achosion rhyfel y Crimea. ffiad y weinyddiaeth bresennol yn Mehefin, 1859, rhoddodd ston Gladstone eilwaith ar y Drysorgell, ac y mae wedi dal ld hyd yn bresennol; ac y mae ei fedrusrwydd anghyffredin swydd hon wedi ei godi yn un o'r Cyllidwyr mwyaf galluog es ein llywodraeth. Yn 1839, priododd ferch henaf y diw-ÿr Stephen Glynne, Barwnig, a phreswylia yn y wlad, yn ei frawd yn nghyfraith, yn Sir Ffaint, gerllaw Caerlleon.

## DOSBARTH Y BIBLAU.

### PENNOD VIII.

ITHEW.—PENNOD XVI.—1. Pwy oedd y Saduceaid, a pha awl gwaith y daethant at yr Iesu i'w demtio?

2. Beth a feddylient wrth geisio arwydd o'r nef? Beth a ddeallir wrth "arwydd y prophwyd Jonas," a pha iad sydd rhwng byn & chais y Pharisëaid a'r Saduceaid? A le yr oedd Cesarea Philippi? pa bryd, a chan bwy, yr lwyd hi?



5. A yw yr enw "Mab y dyn," yn cael ei ddefnyddio am Grist yn y Bibl gan rywrai heblaw efe ei hun?
  6. A oedd Crist wedi dyweyd o'r blaen mewn geiriau eglur wrth ei ddysgyblion mai efe oedd Crist, Mab y Duw byw?
  7. Beth feddylir wrth y "graig hon" (adn. 18) yr adeiladau Crist ei eglwys arni?
  8. Beth oedd yr agoriadau a addewid i Pedr?
  9. Pa gyfeiliornad mae Eglwys Rhufain wedi seilio ar yr adnodau hyn?
  10. Paham y gorchymynai Crist i'w ddysgyblion na ddywedent i neb mai efe oedd Iesu Grist?
  11. Paham y geilw Crist Pedr yn Satan (adn. 23)?
  12. Sut mae yr hwn a ewyllysio gadw ei fywyd yn ei golli, a'r hwn a'i collo yn ei gael (adn. 25)?
  13. Pa ddyfodiad i Grist a feddylir yn y ddwy adnod olaf?
- PENNOD XVII.**—1. Pa un ai ei ogoniant ei hun, ynte gogoniant arall yn effeithio arno (fel dysgleirdeb wyneb Moses), oedd dysgleirdeb gweddnewidiad Crist?
2. Pa ddygwyddiadau neilldnol gymerodd le ar benau mynydd-oedd yn hanes Moses ac Elias?
  3. A ymadawodd y ddau hyn a'r byd fel eraill?
  4. Pa gysylltiadau arbenig oedd Moses ac Elias yn ddal â chrefydd yn eu dyddiau?
  5. A goffair enwau y ddau yn niweddiad yr Hen Destament?
  6. Am beth y dywedai Moses ac Elias ar adeg y gweddnewidiad?
  7. Pa sawl gwaith y clywyd llef o'r nef yn dywedyd, "Hwn yw fy anwyl Fab, &c!"
  8. Pa reswm allai fod dros alw Ioan Fedyddiwr yn Elias (adn. 13)?
  9. Pwy mae Crist yn feio yn adn. 17?
  10. Pa sawl gwaith y rhagddywedodd Crist wrth ei ddysgyblion am ei ddyoddefiadau a'i farwolaeth?
  11. Pa dreth oedd hon (adn. 24), ac a oedd yn rhwymedig ar Grist?
  12. A yw y wyrth yn yr adnod olaf yn profi dwyfoldeb Crist, ac ymha fodd?

## Y BACHGEN AMDDIFAD.

ALAW :—"*Toriad y Dydd.*"



ISTEDDAI bachgen bychan  
 A'r dagrau ar ei rudd;  
 A syllai dros y brynau draw  
 Gan ddysgwyl *toriad dydd.*  
 Bu lawer awr yn effro  
 Yn nghwmni engyl nef,  
 Yn gwylio ei anwylaf fam  
 Sy 'n myn'd i'w adael ef.

Y tad sydd yn y nefoedd,  
 Nid oes yn awr ond dau,  
 A'r pryd ni welir dim ond un,  
 Sy 'n cyflym agosáu.  
 Mae 'n celloedd oll yn weigion,  
 Y fam mewn angen sydd—  
 A gorfod ymladd gyda'r byd  
 Mae John ar *doriad dydd*.

Prysuodd tua 'i gartref  
 Pan ddaeth y dydd i ben;  
 Ond nid oedd yno fam yn awr  
 I estyn ei llaw wên,  
 Fel arwydd o'i llawenydd  
 Wrth wel'd ei hanwyl John  
 Yn d'od i geisio esmwythâu  
 Y boen oedd dan ei bron.  
 Anfonodd Iesu genad  
 I'w dwyn o'i phoen a'i chur,  
 I drigo gydag ef mewn gwlad  
 Yn llawn dedwyddwch pur;  
 Ni bydd ei henaid mwyach  
 Yn dywyll ac yn brudd,—  
 Y goleu nefol fu mor wan  
 Aeth yn dragwyddol ddydd.

Ei chorff a roed i orphwys  
 Yn mynwent oer y Llan,  
 A mynych, mynych, gwelid John  
 Yn cyrchu at y fan.  
 Darllenai yr hen Fibl  
 A gafodd gan ei fam;  
 Erfyniai ar ei nefol Dad  
 Ei gadw rhag pob cam.  
 Y Nef a wenodd arno,  
 Bu fyw mewn parch a bri,  
 Ac wedi canu yn iach i'r byd,  
 Aeth at ei deulu fry.  
 Yn hanes John amddifad,  
 Mawr gysur i ni sydd,  
 Ar ol y nos dywylla 'rïoed,  
 Ceir gweled *toriad dydd*.

llin.

AB DEWI O VON.

### Y CWESTIYNAU GWOBWRWYEDIG.

**IODDWCH** enwau dwy wraig ag y dangosodd yr Arglwydd garedigrwydd iddynt am dori gorchymyn brenin.

12. Pa weithred fyrbwyll a gyflawnwyd gan apostol, yn Crist, a'r hwn y mae tri o'r Efengylwyr, er coffa y weithdirgelu enw yr hwn a'i gwnaeth?

## IESU GRIST A'R DIAFOL.



**A**'R temtiwr pan ddaeth ato, a ddywedodd, Os mab Duw wyt ti, arch i'r ceryg hyn fod yn fara.

Ac yntau a atebodd, ac a ddywedodd, Ysgrifenwyd, Nid trwy fara yn unig y bydd byw dyn, ond trwy bob gair a ddaw allan o enau Duw



Yna y cymerth diafol ef i'r ddinas sanctaidd, ac a'i gosododd ef ar binacl y deml; ac a ddywedodd wrtho, Os mab Duw wyt ti, bwrw dy hun i lawr; canys ysgrifenwyd y rhydd efe orchymyn i'w angelion am danat.

Yr Iesu a ddywedodd wrtho, Ysgrifenwyd drachefn, Na themtia yr Arglwydd dy Dduw.



n y cymerth diafol ef i fynydd tra uchel, ac a ddangos-  
noll deyrnasoedd y byd a'u gogoniant; ac a ddywedodd  
n oll a roddaf i ti, os syrthi i lawr a'm haddoli i.

Iesu a ddywedodd wrtho, Ymaith, Satan; canys ysgrif-  
r Arglwydd dy Dduw a addoli, ac ef yn unig a wasan-  
na y gadawodd diafol ef; ac wele, angelion a ddaethant  
asant iddo.



## HANES FY HUNAN.

### PEN. XIII.—Y LLONG BRYDEINIG.

llawer o fân helyntion a thrafferthion, dygasom dad  
lay, a'r Yspawwr oeddem wedi waredu, at y castell, a  
naethom gaban iddynt o'r tu allan i'r mur nesaf allan.  
n bellach yn bedwar o nifer. Edrychwn ar yr ynys bell-  
preswylidig, a finnau yn frenin arni mewn gwirionedd.  
i oedd yr ynys trwy hawl gyfiawn. Yr oedd fy mhobl  
ldarostynedig i mi; myfi oedd y llywydd a'r deddfwr;  
t oll yn ddyledus i mi am eu bywydau, ac yn barod, os  
hos, i ddodi eu heinices i lawr drosof. Er nad oedd fy  
iaid hefyd ond tri, yr oedd ei grefydd wahanol gan bob  
estant oedd Friday, Pagan oedd ei dad, a Phabydd oedd  
nwr. Beth bynag, yr oeddwn i yn caniatáu perffaith  
dwybod i fy holl ddeiliaid.

mwyaf arnaf yn awr ydoedd ofn i'r ychydig a ddiangodd  
i ddyfod & lluoedd o'u cydwladwyr yn ôl i ddial arnom.  
ai tad Friday fod y gwynt cryf a wnaeth y noson hono  
fod wedi dymchwelyd y cwch, a boddi y dynion. Ac os  
dir yn ddiogel, eu bod wedi dychrynu cymaint gan swm

ergydion y dryllau, fel y buasant yn sicr o ddyweyd mai dau ysbryd o'r nefoedd a weinyddodd gawod o fellt a tharanau fel barn arnynt. Esmwythodd hyn fy meddwl. A chlywais wedi'n fod tybiaeth yr hen ŵr yn berffaith gywir. Oblegid er iddynt laniu yn ddiogel, rhoddasant hanes mor ddychrynllyd am y dygwyddiad fel na feiddiodd neb o honynt ymweled â'r ynys mwy.

Gan fod y teulu wedi lliosogi, yr oedd yn rhaid gwneyd darpariadau helaethach tuag at ein cynnalïaeth. Aethom ati i ddarparu tir newydd i hau, ac i gynnyddu y ddeaddell o eifr. Ac wedi deall gan yr Yspaenwr fod oddeutu un ar bymtheg o'i gydwladyr yn trigo mewn heddwch ymysg y barbarïaid, penderfynwyd anfon yr Yspaenwr a thad Friday mewn cwch i edrych am danynt, a'u cymhell i ymweled â'r ynys, gan obeithio y gallesid trwyddynt hwy gael ryw ffordd i ddychwelyd adref i Loegr. Gwnaed pob darpariadau ar gyfer y fordaith; llanwyd y cwch o bob anghenrheidiau, ac ymadawsant dan nawdd gweddïau taerion Friday a minnau am eu llwyddiant; a dysgwylïem iddynt ddychwelyd o fewn wythnos neu bythefnos.

Yr oedd yn awr, yn ol fy nghyfrif i, tua mis Hydref, a throis saith mlynedd ar hugain wedi myned heibio er pan daflwyd fi gyntaf ar yr ynys. Ymhen wyth niwrnod wedi i'r cwch fyned ymaith, pan oeddwn yn cysgu yn fy nghaban, rhedodd fy ngwas ataf a gwaeddodd yn gyffrous, "Meistr, meistr! ma' nhw wedi dod! ma' nhw wedi dod!" Neidiais i fyny, ac aethom allan trwy y coed oedd yn cuddio fy nghastell, a gwelwn gwch gyda hwyl wên yn tynu am y lân. Dywedais yn union, "Saf yn ôl, Friday, nid eu cwch hwy yw yr un acw." Aethom ein dau yn ôl; cymerais i fy nrych, a dringais dros yr ysgol i fyned i ben y graig lle byddwn yn arfer tremio at y traeth. Gwelwn y cwch, ac amryw ddynion ynddo yn agosau at y lân; ac er fy mawr syndod, gwelwn long yn sefyll wrth angor, amryw filldiroedd o'r tu draw i'r cwch. Gwnaethwn lw yn y fan mai llong Brydeinig ydoedd, ac mai cwch mawr Seisonig oedd y cwch oedd bellach yn ymyl y lân.

Llanwyd fi â theimladau cymysglyd a dyeithr. Er fy mod yn llawen weled llong a dwylaw o'm gwlad fy hunan, a bod hyn yn wall argoel nag a gafwyd erioed o'r blaen am waredigaeth, eto yr oedd dychryn ynof, ac fel pe buasai rywbeth ynof ya dyweyd o'r dechreu am fod ar fy ngwylïadwriaeth. Dechrenais feddwl beth allai fod wedi dwyn llong Seisonig yno, gan nad oedd yn ffordd i unrhyw barth o'r byd gwareiddiedig, ac nid oedd gwynt nac ystorm wedi bod i'w gyru. Meddylïwn, fe allai mai haid o ffrïadron oeddent, a bod yn well i mi aros fel yr oeddwn na thafu fy hunan i'w dwylaw hwy. Cefais achos wedi'n i ddiolch am yr ammheuon hyn, a meddylïais lawer gwaith na ddylai dyn ddiystyru awgrymiadau dirgelïadd o berygl yn ei fynwes. Rwy all wadu nad oes rhybuddion o'r fath yn cael eu rhoddi yn fynych gan ryw gyfaill ysbrydol er ein daioni?

Wedi i'r cychaid dynion ddyfod i'r lân, deallais yn union mai dynion o'r wlad hon oeddent. Yr oeddwn, trwy fy ngwylïad, yn

veled yn amlwg, er eu bod agos filldir oddiwrthyf, ac yr un ar ddeg o nifer. Gwelwn hefyd fod tri o honynt fel carcharorion, a bod un o'r tri yn gwneyd ystumiau er-fer, fel yn deisyfu am ei fywyd. Yr oedd yr olygfa i mi nesboniadwy. Sylwodd Friday yn y man, "O, meistr, ch fod y Saeson yn b'yta dynion, fel y barbariaid." Iau, "A wyt yn meddwl eu bod yn myned i'w bwyta?" ebai. "Na, na," meddwn innau, "yr wyf yn ofni eu med i'w llofruddio, ond gelli fod yn sicr na fwytânt. In y man gwelwn y tri oedd yn rhwym yn eistedd i'r gostwng eu penau fel mewn anobaith, a'r lleill yn yma a'r llall draw, fel i yspio pa fath le oedd yn yr

nerawro ystyriaeth ddifrifol, penderfynais fynu gwybod yn, os oedd yn bosibl. Fy nghynllun oedd aros hyd y gwelwn yr ymosodent ar y dynion cyn hyny. Ond gwelwydriadid oll wedi myned i'r coed, a thybiwn i eu bod, mawr y prydawn, wedi gorwedd a chysgu. Disgynais castell; gwisgais i a Friday ein cotiau a'n capiau crwyn ghyd a'n holl arfogaeth—dryllau, pistols, a'r cleddyf. Vaered trwy y coed oedd islaw fy nghastell, a daethom aidd yn agos i'r fan yr eisteddai y tri dyn trallodus dan n. Anturiais ymlaen atynt, a Friday yn canlyn o hir-ol. Yr oedd golwg go annaearel arnaf yn fy nillad ygus, a'r arfau. Aethum i'w hymyl cyn iddynt hwy fy a gwaeddais yn uchel yn Saesoneg—"Beth ydych chiwi, a?" Dychrynasant yn fawr gan y llais, ond dychrynas-vaith mawr gan yr olwg, pan godasant eu penau i carych roddasant unrhyw ateb, ond yr oeddent ar godi i ffoi; nis hwynt trwy ddyweyd, "Foneddigion, peidiwch dy-e allai fod genych gyfaill yn agos pryd nad oeddech yn "Rhaid ei fod wedi ei anfon o'r nefoedd, ynte," ebai un "oblegid y mae ein hachos ni tu hwnt i allu dynol fedru thwyo." "O'r nefodd y mae pob help, syr," ebai fimmaw; weh chiwi gyfarwyddo gŵr dycithr pa fodd y gall eich agid ymddengys eich bod mewn trallod dirfawr. Yr sylwi arnoch er pan diriasoch, a gwelais y dynion ddaeth yn eich trin mor greulawn."

lent yn crynu gan arswyd a thralod, a dywedodd un au yn treiglo drôs ei ruddiau, "Pa un ai & Duw neu & ym yn siarad? ai dyn ydych, neu angel?" "Pe buasai d'd yn anfon angel i'ch gwaredu, buasai hwnw wedi ei lipyn gwell na hyn, a'i arfau yn wahanol," ebai fimmaw. i ofni, dyn wyt fi, a Phrydeinwr fel chwithau. Nid oes un gwas, ond y mae genyf arfau a digon o byler a bwllaf fi eich cynnorthwyo? Beth a'ch dygodd chiwi yma?" ein hachos yn rhy faith i'w adrodd, syr, tra mae ein m yn yr ymyl. Mewn gair, myfi oedd cadben y lloeg a cw, ond mae y dwylaw wedi codi yn fy erbyn. Llwydd-

odd rhai i berswadio y lleill i beidio fy lladd, a phenderfynasant fy nhafu i, a fy mate, ac un o'r teithwyr, ar yr ynys hon, a'n gadael ni yma i newynu, neu i ryw dynghed fo waeth."

"Pa le mae y dynion yn awr?"

"Dacw nhw, syr," ebai, gan gyfeirio at lwyn o goed gerllaw; "mae fy nghalon yn crynu rhag eu bod wedi ein clywed yn siarad; waith os ydynt, lladdant ni bob un."

"A oes arfau ganddynt?" gofynais.

"Dim ond dau ddryll, ac un wedi ei adael yn y cwch."

"Wel, gadewch rhyngof fi a hwynt. Gwelaf eu bod yn cysgu; ac y mae yn bur hawdd eu lladd bob un. Ond a fyddai yn well eu cymeryd yn garcharorion?" Dywedasant fod yno ddau filain yn eu mysg na fuasai yn ddiogel dangos trugaredd atynt. Wedi cael disgrifiad o honynt, aethom oll i gysgod y coed, rhag iddynt ein gweled. Yna dywedais wrth y tri dyn, "Os anturiaf i'ch gwaredu, a ydych chiwi yn foddllawn gwneyd dau ammod:—1. Eich bod i ymostwng yn hollol dan fy awdurdod i tra fyddoch ar yr ynys hon, ac na wnewch byth ddefnyddio yr arfau a osodaf yn eich dwylaw i ymladd yn fy erbyn. 2. Os llwyddaf i gael y llong i chiwi yn ôl, y dygwch i fy ngwas adref i Loegr yn ddiraul." Rhoddasant y llwon mwyaf difrifol o'u cydsyniad hollol â'r ammodau. "Wel," ebai fi, "dymuniad ddryllau i bob un o honoch, a phowdr a bwledi; gadewch i mi wneyd y goreu o honi." Yr oedd y cadben, fel fy hunan, yn hwyrfrydig i ladd neb, oddigerth y ddau waethaf o honynt; ond oedd dim gwell i wneyd â'r rheiny. Nid oeddem nebell oddiwrthynt, a deffrowyd rhai o honynt gan swm ein siarad. Cododd dau o honynt ar eu traed, ond nid y ddau waethaf. Felly cafodd y rheiny gerdded ymaith. "Yn awr," ebai fi, "os dianc y lleill, ebai chiwi fydd." Aeth y tri dyn ymlaen, taniodd dau o honynt y terfysgwyr, lladdwyd un o'r ddau waethaf yn y fan, a chlwyd y llall. Cododd hwnw ar ei draed, a gwaeddodd am help, a barotoi ei lawddryll, ond cyn ei fod ar ei draed yn iawn, saeth y cadben ef trwy ei ben, a syrthiodd i lawr yn farw. Yr oedd eraill wedi eu gadael, ac un o honynt wedi ei glwyfo. Cerddodd innau a Friday ymlaen; a phan welsant ein bod yn bump o rhydd ac oll yn arfog, rhoddasant eu hunain i fyny, ac erfyniasant y bardwn. Caniatwyd hyny iddynt gan y cadben ar yr ammod o bod i gyffesu eu hedifeirwch, a'u cydsyniad i fyned gydag ef i llong yn ôl i Jamaica, os gallent ei chael o ddwyllaw y lleill gwrthryfelwyr, o ba le yr oedd wedi hwylio. Addawsant gyda difrifoldeb mwyaf, ond protestiais innau ar eu bod i gael y rhwymo hyd nes y gwelid beth ddaethai o'r llong. Yn ymmod wedi clywed swm yr ergydion, dychwelodd y lleill o'u crwydiant i mi, ac ymostyngasant hwythau i gael eu rhwymo. Ac wedi eu symud i'm castell, a sicrhau y cwch, adroddais innau fy holl hanes i'r cadben. Teimlai yn ddwys iawn wrth fy nghlywed y trychaf ar y cwbl fel darpariaeth Rhagluniaeth er cael i gyfeillion.

hwyl nesaf o'n blaen ydoedd, sut i sicrhâu y llong, oedd chwech ar hugain o ddwyllaw ar ei bwrdd, a'r rhei'ny yttuno yn y gwrthryfel yn erbyn y cadben. Nid peth dd i ni anturio i fysg y fath haid, oeddent eisoes wedi u bywyd i'r gyfraith, a'r rhai nad oedd yr un siawns am ond trwy ymladd eu ffordd wrthryfelgar ymlaen. Ond idem ni yn dyfalu beth i wneyd, gwelem gychaid arall w yn dyfod o'r llong i edrych am eu cymdeithion, gan aros mor hir. Gwelem fod deg o honynt yn y cwch, ddai y cadben fod y *boatswain*, un o'r *ringleaders*, yn eu ddwasom ni o'u golwg i wylio, ac nid oedd genym ond m gyfleusdra, heb un cynllun i weithredu wrtho. Wedi y traeth, gwelem fod pob un o honynt wedi ymarfogi & . Tiriodd saith, ac arosodd tri yn y båd. Taniodd y saith , er ceisio cael sylw eu cymdeithion colledig, ond nid oedd Cerddasant wedi'n gyda'u gilydd i ben y bryn oedd gerghastell i, a gwaeddasant nes oeddent wedi cryguld y cadben unwaith, os tanient eu dryllau eilwaith, ein uthro arnynt cyn y caent amser i'w llenwi. Ond er nio oll gyda'u gilydd eilwaith, yr oedd y pellder yn ngom; oblegid cawsent amser i ail-lenwi cyn y gallasem hyd ergyd iddynt.

Oedd, pan oedd yn hwyrhâu, dychwelasant at y traeth, ac abden eu bod yn rhoddi eu hymchwiliad heibio, gan l eu cymdeithion wedi eu lladd, ac yr äent felly & r llong Ar y pryd tarawodd dyfais i fy mhen i, yr hon a weithwyddiannus. Gyrais fy ngwas, a'r isgadben (un o'r tri a ) o'r tu draw i'r llwyn coed, ryw hanner milldir oddi-waeddi yno gymaint a fedrent. Ac os clywai y dynion, am iddynt bara i waeddi o hyd. Ond os canlynent ar eu igadw yr un pellder rhyngddynt, a'u tynu ar gylch o gwml. Clywodd y dynion y llais, a rhedasant yn union tua'r iwnw. A chan fod ar eu ffordd gilfach i'w chroesi, galwy båd i'w hebrwng drosti; a gadawsant y båd yn awr, o'r dynion, yn y gilfach hono. Yr oedd pethau yn awr yn os yn fwy ffafriol; yr oedd y nos yn dynesu, a'r dynion sed o olwg y båd. Rhuthrasom ar y ddau ddyn yn y awodd y cadben un o honynt i lawr, a rhoddodd y llall i fyny o'i fodd. Nid o'i wirfodd yr oedd hwnw wedi'r terfysg, felly yr oedd ef yn barod i gyttuno & ni yn ais i adferu y llong. Rhoddwyd y cwch hwn eto mewn gallent ei ddefnyddio i ddychwelyd at y llong.

Agos i ddwy awr, wele y dynion yn dychwelyd at y cwch luddedig. Clywem hwynt yn cymhell y naill y llall i mlaen, a'u bod wedi tîrio ar ynys reibiedig; ac os nad ion yn ei phreswylio, ei bod yn cael ei phreswylio gan u drwg. Daethant ymlaen i'n hymyl, ond nis gallent ein Tybiai y cadben fod yn rhaid rhodi terfyn ar y *boatswain*, d ef yn farw. Lladdwyd un arall hefyd, er iddo fyw am



rai oriau, a chlwyfwyd y trydydd. Wedi cryn derfysg a brawychdod, rhoddodd y lleill eu hunain i fyny fel carcharorion. Nis gallaf yn awr roddi manylion y gweddill o helynt adferiad y llestr. Trwy amryw ddyfeisiau cyfrwys, ac nid heb golli rhai bywydau ychwanegol, y cyrhaeddwyd hyn. Beth bynag, drannoeth i'r ffrwgdw ddiweddaf a nodwyd, deffröwyd fi o gwsg lluddedig gan lais y cadben yn dyweyd, "*Governor!* fy anwyl gyfaill a gwaredwr, dyma eich llong; eich eiddo chwi ydyw oll, a ninnau oll gyda hi." Yr oedd y llong wedi ei hwylio ymlaen, ac yn sefyll wrth angor, o fewn hanner milldir i wddf y gilfach y soniwyd am dani uchod.

(*Fw barhdu.*)

### Y BACHGEN CARPIOG.

**P** LANT a'm gwthiant i o'u mysg,  
Am fod fy ngwisg yn garpiog;  
A dannedd imi wnant mewn gwawd,  
Fy mod yn dlawd aghenog.

Pan fyddant hwy yn chwarent 'n nghyd,  
Mewn hawddfyd gyda 'u gilydd,  
Gwnant oll eu cilwg arnaf fi,  
I'm doddi yn annedwydd.

Fy niystyru wnant i gyd,  
O'r mwyaf hyd y lleiaf;  
A'm curo gyda dirmyg wnant,  
Pan gânt gyfleusdra arnaf.

A'r unig reswm roddant am,  
Eu creulawn gamymddygiad,  
(A'r unig un a allant gael,  
Yw d'weyd mai gwael yw 'm dillad.

Yn wir, mae 'n rhaid mai dall yw 'r byd,  
Ac yafyd ei drigolion;  
Ar wisgoedd heirdd edrychant hwy,  
Yn fwy nag ar y galon.

Beth waeth pa beth yw gwisg y dyn?  
Gall fod yn adyn creulon  
Er meddu ar freninol sedd;  
Os na fêdd egwydderion.

Os oes gan rai eu wisgoedd drud,  
A chyfoeth byd a'i wenau,  
Ac os ymfroestiant yn eu ffawd,  
Ac os mai tlawd wyf finnau,

Mil gwell gan i yw bod yn dlawd,  
Yn wrthddrych gwawd gwastadol,  
Ne meddu golud byd o'r bron,  
Heb galon bur, rinweddol.

## LLYFRAU NEWYDDION.

AU AC ARBITHIAU *ar wahanol faterion, gan* ROBERT JONES *Manchester. Bangor: J. M. Jones. Pris Hanner Coron.]*

m yn gyfarwydd âg enw Derfel er ys llawer dydd, ond darllen y llyfr hwn, yr ydym wedi cyfarwyddo â rhywnwy na'i enw. Cyn ein bod wedi gorphen, yr oedd m wrth galon," a buasai yn dda genym gael y cyfrododi llaw mewn llaw, a dywedyd, "Duw yn i ti, fy mrawd! Mae testunau ei lyfr yn hynod ol, a phriodol i'r amseroedd, ac y mae yn eu trin ni synwyr cyffredin da, gydag ysgrifell fedrus, a rfrifol. Mae yn llefaru allan yn hyf a chroew lawer t a dŷn adsain o galon y genedl. Mae yn Gymro i galon, ac y mae lliw y "gwaed coch" yn prydweddu rgrifau; ond Cymro calonboeth, ac nid penboeth, ydyw. i dda genym pe darllenid y llyfr yn ystyriol gan o, ac yn arbenig gan ein hieuenctyd sydd yn teimlo yn symudiadau llêmyddol ein cenedl.

HWB: *dan olygiad y Parch. E. MORGAN, Dyffryn, a'r Parch. ; Llanrwst. Caernarfon: J. Hughes. Rhan IV. Pris Swllt.]*

y gyfrol, o'r diwedd, yn cynnwys deg ar hugain o breggan weinidogion y Methodistiaid Calфинаidd, ynghyd a raethawd gan y Parch. H. Rees, Liverpool, wedi ei Diau y caiff dderbyniad parod a serchog gan filoedd, i yn foddion addysg ac adeiladaeth i lawer wedi i'r r oll fyned i ffordd yr holl ddaear.

AW A'R YMWELIDD: *Misolyn Dwy Ceiniog at wasanaeth yr bbothol. Bangor: cyhoeddedig gan J. D. Jones.]*

I y misolyn bychan newydd hwn yw gwasanaethu y ieuainc, yn benaf, yn eu cysylltiad â'r Ysgol Sabbothol yma waith mawr i'w wneyd; mae y rhifyn cyntaf hwn yn dda; ac yr ydym ninnau o'n calon yn dymuno ynt iddo yn ei ymgymeriad.

V PAROH. MORRIS HUGHES, FELINWELI, *gan* R. LLYSTYR *Caernarfon: J. Hughes. Pris Tair Ceiniog.]*

nw "Llystyn" bellach wedi dyfod yn ddigon o warant lamaid melus o farddoniaeth. Mae y farwnad hon yn dda, yn gystal a dim o'i eiddo, yn deilwng o le uchel, ac : cyflawn o'n brawd ymadawedig ynddi ei hun.



John Michards, Treforde.

## Y CI.

**D**N y wlad hon, fel y rhan fwyaf o wledydd gwareiddiedig y byd, mae y ci yn un o'r creaduriaid mwyaf teuluaid a serchog. Mae yn ddiarebol bellach am ei ffyddlondeb, ei serch, a'i ymlyniad wrth ei berchenog. Tybir fod yr holl lwythi amrywiol o gwn yn hanu oddiwrth y blaidd. A cheir fod y blaidd, wrth ei fagu yn gyffelyb i'r ci, yn dyfod yn hynod o debyg iddo yn ei ymlyniad a'i holl arferion.

Y cyfeiriad hynaf, mae'n debyg, at y creadur hwn yw yr un a geir yn hanes ymdaith meibion Israel yn yr Aipht, pan ddywedir na symudai yr un ci ei dafod yn eu herbyn. Gellid casglu oddiwrth hyn fod yr Aiphtiaid yn cadw cwn y pryd hwnw yn ca preswylfeydd. Mae yn hynod fod y Bibl bob amser yn son am y ci mewn iaith sydd yn dangos fod yr Iuddewon yn coleddu syniad isel a dirmygus am dano. Bernir mai y rheswm am hyn oedd ei fod yn greadur aflan dan gyfraith Moses, a bod yr Aiphtiaid yn rhoddi cymaint o le i'r ci yn mysg eu duwiau.

Nid yw y ci yn cael cymaint o barch yn ngwledydd y Dwyrain yn gyffredin ag y mae yn gael gyda ni, ac am hyny y mae yn llai serchog a gwasanaethgar. Ystyria y Tyrciaid ac eraill ef yn greadur aflan, ac ni oddefant iddo ddyfod i'w tai. "Oddiallan y mae cwn" ganddynt hwy, ar hyd yr ystrydoedd a'r heolydd, ac am hyny nid oes perchnogion arnynt. Mae hyn ar unwaith yn ddigon o reswm am eu bod yn fwy gwyllt a ffyrnig. Yn ein gwlad ni, ac mewn gwledydd eraill lle mae y ci yn cael dygiad gwahanol i fyny, mae yn anhawdd credu cymaint yw ei gallineb, ei ymlyniad, ei ffyddlondeb, a'i ofal am ei berchenog, ac am ei eiddo. Bydd genym lawer o bethau dyddorol i'w dyweyd am y ci eto, mewn rhifynau dyfodol.

FY NGWENI FACH.

**F**EL y ffrwd bo f' anwyl Gwen;  
 Fel y lleuad ddystaw wên;  
 Fel y cloc mewn gwaith o hyd;  
 Fel y rhosyn hardd ei bryd;  
 Fel y g'lomen dyner fwyn,  
 A diniwaid fel yr wÿn;  
 Fel y lili wylaidd wên;  
 Fel y seren fach uwch ben;  
 Fel aderyn llon y wig;  
 Fel y gwllithyn ar y brig;  
 Meddu ar bob gras yn un,  
 Fel y plentyn Iesu ei hun;  
 A chyfoded tra fo byw  
 'N uwch i flafr dyn a Duw.

CAIFF IESU GRIST DREIAL ARNO.

**M**EWN ardal fechan, uchel, a mynyddig, yn nghŵr uchaf Sir Aberteifi, preswylia hen gristion gloew—ie, athraw hynod o ddefnyddiol yn yr Ysgol Sabbothol. Er ys rhai blynyddau yn ol, yr oedd gan yr athraw hwn o ddeuddeg i bymtheg o blant bychain—bechgyn, gan mwyaf—tua'r un oedran yn ei ddosbarth. Yr oedd un o'r lliaws hyn yn go wyllt a difeddwl am bob peth crefydd, ac yn euog o esgeuluso yr Ysgol Sabbothol yn fynych, yr hyn oedd yn achos o ofid mawr i'r athraw duwiol. A rhyw Sabboth, wrth weled fod y dysgybl ieuanc hwn yn absennol o'r ysgol, gofynodd yr athraw i un o'r bechgyn, yr hwn oedd yn byw yn agosaf i'w dŷ,—

“Richard, pa le mae dy gydymaith ieuanc heddyw?”

“O! aeth ar ddisperod er ys.meityn,” meddai Richard; “rhodfeydd y defaid a'r cwningod yw ei ysgol ef heddyw.”

“Nis gwn pa beth a ddaw o hono, yn wir,” meddai yr athraw drachefn.

“O!” meddai Richard, mewn dull hynod o ffraeth, “ewch âg ef i'r nefoedd. Dywedwch wrth Iesu Grist am dano.”

“A wyt ti yn meddwl, 'machgen i, y gall Iesu Grist wneuthur rhywbeth o hono?”

“Ydwyf, yn credu hyny,” meddai Richard; “oblegid cadwodd fy nhad, ac yr oedd ef yn *soldier*, yn gwisgo côt goch. Clywais fy nhad yn dyweyd mai rhai drwg iawn yw y gwŷr â'r cotiau coch-

ion. Gwelodd hefyd Dic Gweno Jeri yn lladrata baich ei gefn o falau o ardd dyn tlawd yn Ffrainc, ar brydnawn Sabboth. Mae 'nhad yn credu fod hwnw wedi myn'd i'r nefoedd."

"Wel," meddai yr athraw, "caiff Iesu Grist dreial arno. Gweddïaf drosto ddydd a nos; credaf hefyd y bydd i Dduw wrandaw fy ngweddï."

"Ië, cofiwch weddio drosof finnan hefyd," meddai Richard.

"Gwnaf, gwnaf," oedd yr ateb.

Erbyn hyn yr oedd teimlad ynghylch y dysgybl ieuanc absennol wedi gorchfygu yr athraw; a chan ogwyddo ei ben tua'r llawr, gweddïodd yn daer drosto ar y pryd. Yna trôdd at Richard, â'i lygaid yn ffynnonau o ddagrau, a dywedodd, "Bydd ffyddlawr, 'machgen i, i dy athraw, a charia y weddi newydd hon i'th gymydog ieuanc. Dyma hi,—‘O Dduw, dyro galon newydd i garu Iesu Grist!’" A rhag anghofio y weddi newydd, gweddïodd Richard hi bob cam o'r capel adref. Yna aeth i chwilio am ei gyfaill ieuanc, a chafodd ef mewn man neillduedig yn synfyfrio. Dywedodd ei neges wrtho, ynghyd a'r ymddyddan fu yn ei gylch y prydnewn yn yr ysgol, ac ychwanegai, "Dyma beth newydd, newydd iawn hefyd, i ti—gweddï newydd oddiwrth yr athraw." Dechreuodd y llanc arall grio, a meddwl fod diwedd y byd yn ymyl, gan fod ei athraw yn anfon gweddï iddo. "Beth, beth yw y weddi newydd," oedd y cwestiwn nesaf. "Dyma hi," meddai Richard, "‘O Dduw, dyro galon newydd i garu Iesu Grist!’ Rhaid i ti ei gweddïo bob dydd," ychwanegai. Yn y fan ymneillduodd i'w gweddïo; a pharhâodd i fynychu y dirgel bob dydd i ofyn "calon newydd i garu Iesu Grist." Gwrandawyd ei weddi newydd; daeth i deimlo awydd cryf i garu Iesu Grist, ac i gadw y Sabboth yn sanctaidd byth wedi'n. Tybiai am wythnosau lawer ei fod yn clywed yr hen athraw duwiol yn gwaeddi arno ymhob man,—“O Dduw, dyro galon newydd i garu Iesu Grist.” Yr oedd y weddi newydd wedi llwyddo erbyn hyn. Ni fu anghen cymhell y dysgybl ieuanc hwn byth i'r Ysgol Sabbothol wedi'n; ond dechreuodd ef yn fuan gymhell eraill.

Nid annyddorol, fe allai, fyddai gan y darlennydd ddeall fod y dysgybl ieuanc hwn yn pregethu er ys rhai blynyddau. Dyma wers i athrawon yr Ysgol Sabbothol fod yn ddiwyd a difrifol, mewn amser ac allan o amser, gyda'u dosbarthiadau. Y weddi newydd fu yn foddion i ddwyn y bachgen bychan i ystyried ei ddiwedd.

PWY!

## Y TRAETHODYN A'R GELYN.

**T**R oedd boneddwr Cristionogol unwaith yn rhanu traethodau ar fwrdd llong. Eetynodd un i foneddwr arall yr hwn oedd elyn i grefydd. Plygodd hwnw y traethodyn i fyny, a darniodd ef â'i gyllell yn dameidiau bychain, a thafiodd y darnau dros

môr. Ymhen ychydig canfu fod un o'r darnau bychain wrth lawes ei gôt. Ymaflodd ynddo, a chyn ei dafu, ar y ddau wyneb iddo. Yr oedd y darn mor fychan ond un gair ar bob wyneb. Ar y naill wyneb yr llythrenau eglur y gair DUW. Ar y wyneb arall y WYDDOLDEB. Tafiodd y darn papyr ar ol y darnau hyn, ond arosodd y ddau air fel dwy saeth yn ei feddwl. "I feddwi ac i ofera, er cael gwared o'r ddau air dy-Duw, traggywyddoldeb!" ond nid oedd gwaredigaeth i'w ffordd hono. O'r diwedd penderfynodd droi ei wyneb i'w gwenwyn gweddi; yno cafodd ryddhâd i'w feddwl, daeth i'r ddau air, ac yn Gristion dysglaer.

R. P.

## DYNES WEDI MEDDWL

(DARN I'W ADRODD.)

Olygfeydd truenusaf dan y nefoedd yw gweled *dynes feddwi!* Dynes a wnaed gan ei Chreawdwr haelionus g, mor dyner, ac mor hawddgar—a'i dylanwad mor un a wnaed o bwrpas i dyneru a nawseiddio meddwl; y mae angelion y nefoedd yn cael eu darlunio yn un ag y mae holl brydferthion natur, a mwy, wedi rhoddi; un ag y canodd y prydydd am dani,—

osyn y grädigaeth, O grädur teg ei phryd,  
fëdd holl natur äang o'i mewn ei bath ynghyd;”—

wedi anghofio ei hun, wedi llygru ei choethder, ac u ei gofal a'i gwyleidd-dra benywaidd i'r fath raddau, yn feddw ar yr ystryd, a'r heddeidwad yn gorfod ei ar y *wheelbarrow* at ei phriod a'i phlant! Os oes undan haul yn abl cynnyrchu casineb yn nghalon priod, entyn, at ddiodydd meddwol, hon ydyw. Chwith thieuanc ddiymgeledd yn dyoddef oblegid tad meddw; led gwraig anwyl a ffyddlaw yn cael ei dyrnodio a'i n ŵr meddw; chwith gweled mam dyner, ofalus, a cael ei rhegu a'i melldithio gan ei phlentyn meddw; saeth na'r un yw gweled merch, gwraig, neu fam, wedi hunan yn gaethes waradwyddus i feddwod, a gwneyd n bla i'w theulu, yn warth i'w chymydogion, ac yn h i'r byd. Os oes rhywbeth yn peri i'r diafol lawenllongddrylliad y fath gasgliad o ragorion, a llygriad onell o ddylanwad, sydd yn gwneyd hyny. Ac os oes gfa ar y ddaear yn peri i'r Nefoedd edrych yn brudd, Iä, a thra fyddo y cyfryw olygfa i'w chael yn yr un a ddysgwyliet i ni roddi i fyny ein hymdrechion, na d na nos yn ein gweddi ar Farnwr y byd am iddo ddial mder ar ben y diodydd a'r fasnach felddigidig.



## ADERYN DU PIGFELYN.

**A**DERYN du pigfelyn,  
 Rhyfeddol yw dy swyn,  
 Mae pawb yn hoffi clywed  
 Dy ganiad yn y llwyn;  
 Pan fyddi yn y bore  
 Yn seinio 'mysg y llu,  
 'D oes un yn medru canu  
 Mor beraidd a thydi.

Pan fyddwyf ar y maesydd  
 Yn rhodio yma a thraw,  
 Trwy lwyni heirdd a blodau,  
 Caf glywed ar bob llaw,  
 Y côrau mwyn asgellog,  
 Pob un â'i ganiad gu,—  
 Ond gwell na 'r un o honynt  
 Yw cân y 'deryn du.

CEIRIONID.



## GWEDDIAU MAM.

**M**AE yr hanes hynod a ganlyn wedi ei gymeryd o es  
 gweinidog yr efengyl yn California. Gan ei fod yn teithio  
 llawer trwy wahanol barthau y wlad hono, byddai yn cael  
 llythyrau mynych oddiwrth gyfeillion pryderus yn dymhysu  
 chwilio am fab, neu frawd, neu berthynas arall, er ceisio eu ddatrys  
 at Grist. Ymysg llythyrau o'r fath, derbyniodd un diwrnod oeddydd  
 wrth fam oedd mewn blinder mawr yn achos mab iddi oedd yn ymuno  
 California, a chyda thaerineb na fedrai neb ond mam ei arfer,  
 erfyn arno wneyd ei oren i geisio y bachgen colledig, a'i berswaso  
 i droi at y Gwaredwr.

Rhodddwn yr hanes yn ngeiriau y gweinidog ei hunan:—Bum yn hela ar ol y mab hwnw am flwyddyn gyfan. Yr oeddwn wedi penderfynu ei fynu allan, os oedd yn bosibl. O'r diwedd, cefais o hyd iddo mewn tŷ *gamblo*, o flaen bwrdd, yn brysur wrthi yn chwareu cardiau. Aethum ato rhag blaen, a gofynais a gawn siarad gair âg ef ar ei ben ei hun. Daeth gyda mi allan i'r ystryd. Dywedais wrtho am fy holl lafur am gynifer o fisoedd i chwilio am dano, ac mai fy unig neges ydoedd ynghylch iachawdwriaeth ei enaid. Chwarddodd yn watwarus am fy mhen, a dywedodd fy mod wedi treulio fy amser a fy arian yn ofer, a phe buasai yn diolch i mi am hyny na fuasai ond rhagrith, gan ei fod ef yn ddigon abl i ofalu am dano ei hun.

Cyn iddo droi ymaith, dymunais arno ddyfod gyda mi i ddirwesty oedd gerllaw, a chymeryd yr ardystiad dirwestol; a gofynais iddo yn dirion a wnai efe ddyfod i'r cyfarfod gweddi gyda mi. Gwrthododd ar un cyfrif wneyd y naill na'r llall. Yn y diwedd, gwesgais yn nês ato, gosodais fy llaw ar ei ysgwydd, a dywedais, "Charlie, yr wyf yn deall fod genych fam dduwiol. Yr wyf wedi dyfod atoch ar gais y fam hono. Yr wyf wedi teithio yn ddyfal, o fan i fan, am flwyddyn, i chwilio am danoch, ar gais y fam hono. Mae ei llythyr genyf yn awr yn fy mhoced—a garech chwi ei weled?"

Yr oedd y gŵr ieuanc wedi ei daro yn fud mewn syndod. Tynais y llythyr allan i'w ddangos. "O, peidiwch dangos y llythyr!" ebai; "nis gallaf ddal i edrych arno. Os oes plentyn ar y ddaear & dyled arno i'w fam, myfi yw hwnw." Gofynais iddo eilwaith am ddyfod gyda mi. "Gadewch i mi fyned i orphen y chwareu (*game*), ac mi ddof gyda chwi," ebai. Aeth yn ôl, gorphenodd y chwareu, a chadwodd ei air. Daeth gyda mi i'r ystafell ddirwestol, a chymerodd yr ardystiad. Aethom wedi hyny gyda'n gilydd i'r cyfarfod gweddi; ac yn fuan daeth y dyn i drallod meddwl anarferol.

Ond, i dori y stori yn fer, dychwelwyd y gwrthgiledig at Dduw, a gwnaeth broffes dda ger bron llawer o dystion. Yr oedd eisoes wedi cael addysg dda, ac ymhen amser gwnaed ef yn farnwr y Llys Sirol yn y Sir yr oedd yn byw. Un diwrnod yr oedd yn eistedd ar y fainc ar achos dyn ieuanc ofer a gyhuiddid o *gamblo* a drygau eraill, y bu y barnwr ei hun yn euog o honynt. Yr oedd y carcharor yn ddyn ffyrnig; tynodd arf o'i logell, a saethodd y barnwr ar ei fainc. Cafodd archoll marwol. Gyrodd yn union am danaf. Cyrhaeddais ef mewn pryd i wrando ei eiriau olaf. "Dywedwch wrth fy anwyl fam," meddai, "fy mod yn marw mewn diogel obaith am fywyd tragwyddol y tu draw i'r bedd. Anfonwch fil o ddiolchiadau iddi am anfon y llythyr hwnw i chwi; ac O! diolch i chwithau fil o weithiau am ddilyn mor ffyddlaw'n i chwilio am danaf am flwyddyn gyfan. Dywedwch wrth fy anwyl, anwyl fam, fy mod mor ddiolchgar iddi am ei chariad â'i gweddiau diffino dros ei bachgen yn y wlad bell. Dyma fi yn myned—myned i'r nefoedd. Cyfarfyddaf â hi yno



O, pwy all roddi pris ar weddïau mam! A phwy gai gyfle i gwyno ar gadwraeth cyfammod Duw pe baent hwy yn peidio gad-ael llonydd iddo, fel y gwnaeth fy mam—fy anwyl, anwyl fam? Ffarwel!”



## DYDDANION.

## FFORDD MA' MYN'D I'R NEFOEDD?

“FYNY acw, yn yr wybr las, ma'r nefoedd, 'mam?” gofynai plentyn yn ddiweddar. “Ië, fy mhlentyn,” ebai'r fam. “Ydy hi yn uchel iawn?” “Ydyw.” “Ffordd ma' myn'd yno? A allwn ni roi cam yno ar ol dringo i ben y coed uchaf acw?”

## Y PEIRIANT GWNIO.

“HAD!” ebai merch yn ddiweddar, “gwelais ar y papyr heddyw fod un ferch yn gallu gwnio yn awr gyda'r peiriant gymaint ag a allai cant o ferched wno er ys can' mlynedd yn ol.” “Wel, mae hyny yn bosibl; ond nid yw sefyllfa y byd yn ddim gwell, oblegid mae yn rhaid i bob merch yn awr gael cynaint o ddillad ag a fyddai yn ddigon i gant o ferched er ys can' mlynedd yn ol. Felly, mae pethau agos yn yr man yn y diwedd.”

## Q A CHEILIOG.

“ETH yw y llythyren hon (Q)?” gofynai ysgolfeistr i fachgenyn fraeth o Gymro, yn yr ysgol. “Ceiliog,” ebai'r bachgen. “Paham yr ydych yn ei galw felly?” “Wel, atebai'r bachgen, gyda gwedd syml, “Yr oeddech yn dyweyd ma' *Cyw* ydoedd fis yn ol; mae'n bryd ei fod yn *Geiliog* bellach.”

## YSTORI HYNOD.

“LE buoch chwi cyhyd heb ddod i'r ysgol, Robert?” gofynai ysgolfeistr i fachgenyn oedd yn dyfod i'r ysgol yn ddiweddar ar foreu oer a rhewllyd. “Yr oeddwn yn ffaeludod syr; am bob cam a roddwn, yr oeddwn yn llithro dau gam yn ôl! “O, yn wir!” ebai'r ysgolfeistr; “peth rhyfedd i chwí ddyfio yma o gwbl, ynte.” “Ië,” ebai'r llencyn, dan grafu ei gern, “on troi fy nghefn ar yr ysgol a wnaethum, a cherdded ymaith—dyn sut y cyrhaeddais.”



## RYSORFA Y PLANT.

[.]

GORPHENAF, 1864.

[Cyr. III.]

### O WYTH I UN AR BYMTHEG.

Yr un cyfnod pwysicach yn hanes dyn na'r blynydd-  
wyth i un ar bymtheg. Dywedai Arglwydd Shaftes-  
ewn cyfarfod yn ddiweddar yn Llundain, ei fod wedi  
wy ymchwiliad personol, fod agos yr holl droseddwy'r  
i wedi cychwyn eu llwybrau drygionus rhwng wyth  
mtheg oed; ac mai un o ddeg a deugain o'r plant a  
y mewn gonestrwydd a gweithgarwch hyd ugain, sydd  
y cyffelyb fywyd hyd ddiwedd eu hoes.

I alw sylw mwyaf difrifol rhieni at hyn, oblegid mae  
yn llefaru yn uchel wrthynt, ac yn dangos pwysigrwydd  
cyfrifoldeb. Dylai pob plentyn dan un ar bymtheg  
lywodraeth hollol ei rieni. Yr ydym yn clywed tad  
ynych yn cwyno fod y mab neu y ferch o'r oedran  
rthod gwneyd hyn, yn pallu gwneyd y peth arall, ac  
rneyd fel a'r fel, yn groes i ewyllys eu rhieni. Ond y  
unwaith yn profi fod diffyg pwysig yn y llywodraeth  
Nid oes yr un plentyn o gant a ddeil yn gyndyn i  
i gais pwyllog a thaer ei rieni, heb iddynt hwy cyn  
iddo yn hir i sathru eu hawdurdod dan ei draed. Nid  
id na mam a w'r y canlyniad o oddef i'w plentyn fynu  
i unwaith yn groes i'w hewyllys hwynt. Gallai na  
eth bychan dibwys—eisiau cael ei fwyd mewn dysgl

wahanol, neu gael ei gap newydd i fyned allan, neu gael myned i rywle pan fydd ei anghen mewn lle arall. Nid yn nhestun y ddadl mae y pwys, ond yn y ffaith fod y plentyn yn cael ei oddef i fynu ei ffordd a dymchwelyd y llywodraeth deuluaidd. Mae yn hyn hedyn pob drwg. Nid yn unig drwg yn erbyn y rhieni, yr hyn a fedir yn chwervw rywbyrd; ond hefyd drwg yn erbyn cymeriad y plentyn ei hun, a drwg i gymdeithas yn gyffredinol. Mae gan gymdeithas hawl i ofyn gan rieni i lywodraethu eu plant yn dda. Oni welir uchod eiriau Shaftesbury yn dangos fod pedwar ugain a deunaw o bob cant o droseddau y wlad yn ffrwyth camlywodraeth deuluaidd tuag at blant dan un ar bymtheg oed! Mae y syniad yn un annhraethol bwysig! Ac O, nad allem ei wasgu i galonau tadau a mamau ein Tywysogaeth!

Yn wir, y mae afiechyd corfforol, yn gystal a llygredigaeth moesol, yn cael ei hau yn y cyfansoddiad o wyth i un ar bymtheg, yn fwy nag mewn un adeg arall. Carem weled rhieni yn fwy ystyriol o'r drygau y mae eu plant yn dderbyn yn eu crwydriadau prydawnol a hwyrol, pan allan o'u golwg, trwy yr arian a roddir iddynt i'w gwario ar felusion, neu ar wirod, a thybaco yn fynych; yn eu hymweliadau â lleoedd anhriodol, neu eu mynediad oddi-cartref ar ddydd yr Arglwydd, a'u cyfeillach â rhai fyddo â'u holl fryd ar ddrygioni. Rieni anwyl, cynneliwrch i fyny eich hawdurdod yn briodol, a pheidiwrch ymollwng i dynerwrch twyllodrus a dinystriol tuag at y rhai a gerwrch fel eich henaid eich hun. Dywedwrch yn ngwydd y nefoedd, "Os oes rhywbeth ar-fy llaw i i'w wneyd tuag at osod fy mhentyn ymhen y ffordd sydd yn arwain i'r bywyd, yr wyf yn ymdyngheду i'w wneyd." Fe allai y cewch ronyn o gefnogaeth a chysur wrth ddarllen y darn nesaf ar

### NERTH UN GAIR.

Adroddai Wendell Phillips (areithiwr enwog yn America), yn ei araeth ddiweddar yn Washington, yr hanes hynod a ganlyn:—Safai gwraig wrth glwyd ei gardd, ar fryniau Vermont, gan ddal mab un ar bymtheg oed yn ei llaw ddehau, yr hwn oedd yn llosgi gan awydd myned i'r môr, a dywedai wrtho, "Edward, y maent yn dyweyd wrthyf fi mai temtasiwn fawr y morwyr yw diodydd meddwol. A wnei di addaw i mi yn awr, cyn myned o law dy fam, na wnei yfed un dyferyn o'r diodydd meddwol?" Y mab hwnw ei hun a adroddodd yr hanes wrthyf. Dywedodd, "Rhoddais fy ngair iddi y gwnawn ymgadw. Aethum allan, a theithiais o amgylch y glôb—Calcutta, Môr y Canoldir, San Francisco, Cape of Good Hope; ac am ddeugain mlynedd, pa bryd bynag y gwelwn y cwpan a'r gwlybwr gwreichionllyd yn cael ei lenwi, gwelwn ddelw fy mam yn sefyll wrth glwyd yr ardd, ar ochr bryn Vermont, ger fy mron; ac hyd y dydd hwn, pan wyf yn driugain mlwydd oed, nid oes dyferyn o'r diodydd meddwol wedi myned dros fy ngwefus."

Y fath brawf bendigedig o nerth un gair o eiddo y fam! Ond

nid yw hyn ond yr hanner. Oblegid dywedai eilwaith wrthyf, "Ddoe daeth dyn deugain oed i mewn i'm swyddfa, a gofynodd i mi, 'A ydych yn fy adwaen?' 'Nac wyf,' ebai finnau. 'Dygwyd fi atoch yn feddw unwaith, ar fwrdd y llong,' ebai; 'Yr oeddech chwi yn deithiwr ar ei bwrdd; ciciai y cadben fi o'r neilldu. Cymerasoch chwi fi i'ch ystafell, a chefais gysgu yno nes dadebru o'm meddwdod. Yna gofynasoch i'mi os oedd genyf fam. Dywedais innau, na chlywais lais fy mam erioed. Dywedasoch wrthyf am eich mam chwi wrth glwyd yr ardd, a'r cynghor a roddodd i chwi. A heddyw—ugain mlynedd wedi'r diwrnod hwnw—yr wyf yn berchenog un o'r agerlongau goreu yn New York, ac yr wyf wedi galw i ofyn a dde'wch chwi i edrych am danaf.'"

Mor bell mae llewyrch canwyll y fam hono oddiar ochr bryn Vermont, yn goleuo! Mor fawr a bendigedig oedd dylanwad y gair hwnw! Diolch i'r Arglwydd am nerth anfeidrol un gair.

BEDD FY MAM.

*Cyflwynedig i MISS WILLIAMS (Llinos Arfon).*

**T**AN gysgod ywen werdd y llàn  
 Y mae fy nghartref i;  
 Cydredeg yno o bob man  
 Mae fy nheimladau 'n lli';  
 Fy nghalon yno sydd yn rhwym,  
 Gŵyr pob amddifad pam :—  
 Tan gysgod tewfrig ywen brudd  
 Mae dystaw fedd fy mam.

Gwell genyf eistedd ar y bedd  
 Nag ar esmwythfainc ddrud;  
 Cael wylo yno yw fy ngwledd,  
 A'm cysur yn y byd;  
 Mor fwyn i mi yw swn y gwynt,  
 Yn mrigau 'r ywen gam,  
 Yn ocheneidio gyda mi  
 Ar ddystaw fedd fy mam.

Os gwg a gaf ar ael y byd,  
 Am mai amddifad wyf;  
 Os yw ei ymddygiadau i gyd,  
 Yn rhoi i'm hysbryd glwyf;  
 Caf brudd-der cydnaws â fy mron,  
 Tan frigau 'r ywen gam;  
 Mae cydymdeimlad ser y nef  
 Yn britho bedd fy mam.

Ail dreulio dedwydd oriau teg,  
 Mewn dwys adgofion wnaf;  
 Mwynhâu cynghorion tyner, chweg,  
 A mwyn geryddon gaf;

Gweddiau mam a ddont i'm clyw,  
 O dan yr ywen gam ;  
 'R wy 'n teimlo 'n mresenoldeb Duw,  
 Ar ddystaw fedd fy mam.

Wrth ddringo geirwon fryniau serth  
 Blin a thrafferthus fyd,  
 Fy nghysur a fy ngrymus nerth  
 Yw bedd fy mam o hyd ;  
 Gorchfygu temtasiynau wnaif  
 Tan frigau 'r ywen gam ;  
 A phan ddaw angen, gorphwys gaf  
 Yn nystaw fedd fy mam.

Os adfyd ydyw 'm bywyd byr,  
 Heb ond cysuron prudd ;  
 Tros fynydd ing, gwawr gobaith dyr,  
 A'r nos a wneir yn ddydd :  
 O ganol gorthrymderau 'r byd,  
 Ei adfyd a'i holl gam,  
 Caf fyn'd i'r nef, i fyw am byth,  
 Trwy ddystaw fedd fy mam.

LLYSTY.

### Y FFORDD I GYFANSODDI.

**D**YWEDODD ysgolfeistr wrth fachgenyn yn yr ysgol am ysgrifenu darn o gyfansoddiad.

“Nis gallaf, syr,” ebai'r llanc yn bryderus ; “nid wyf yn gwybod y ffordd.”

“Gellwch feddwl, onid ellwch ?” ebai'r ysgolfeistr.

“Gallaf, syr.”

“Gellwch ysgrifenu geiriau hefyd, onid ellwch ?”

“Gallaf, syr.”

“Wel, meddyliwch am rywbeth, ysgrifenwch i lawr yr hyn fyddwch yn feddwl, a dygwch ef ataf fi.”

“Dyna i gyd yw cyfansoddi ?”

“Ie, bydd hyny yn gyfansoddiad. Yn awr cewch fyned allan am dipyn gyda'ch slate a'ch pensil ; a'r peth cyntaf a dyn eich sylw, meddyliwch am dano, beth ydyw—i beth y mae da, a beth ddaw o hono, a rhywbeth felly ; ac ysgrifenwch hyny i lawr, a dygwch ef ataf fi.”

Aeth y plentyn allan, ac yn y man tynwyd ei sylw gan erfen (meipen) fawr yn tyfu ymysg y chwyn o'r tu cefn i'r ty. Sylodd ar yr erfen, a dechreuodd feddwl ; ac er nad oedd yn meddwl pryd hwnw y delai yn fardd enwog, dyma fel y meddyliai, ac ysgrifenai ar y llech :—

Mr. Finney had a turnip,  
 And it grew behind the barn ;  
 And it grew, and it grew,  
 But it never did any harm.

And it grew, and it grew,  
 Till it could grow no taller;  
 Then Mr. Finney pulled it up,  
 And put it in the cellar.  
 And it lay, and it lay,  
 Till it there began to rot,  
 And his daughter Susy washed it,  
 And she put it in the pot.  
 And it boiled, and it boiled,  
 As long as it was able;  
 Then his daughter Lizzie took it up,  
 And put it on the table.  
 Mr. Finney and his wife,  
 They both sat down to sup;  
 And they eat, and they eat,  
 Till they eat the turnip up.

y bydd rhai o'n darllenwyr heb allu deall y Sacsoneg,  
 ys gyfieithiad o hono i'r Gymraeg;—

Gan Finney 'r oedd erfinen  
 Yn tyfu wrth gefn y tŷ;  
 Hi dyfai, ac hi dyfai,  
 Heb wneyd dim drwg i mi.  
 Hi dyfodd, ac hi dyfodd;  
 Nas gall'sai ddod yn well;  
 A thynodd Mr. Finney hi,  
 A dododd hi yn y gell.  
 Ac yno bu, ac yno bu,  
 Nes oedd yn dechreu gwaethu;  
 A rhoddodd Susan, merch y tŷ,  
 Hi ar y tân i ferwi.  
 A berwi bu, a berwi bu,  
 Gan gadw uchel dwrdd;  
 Ac wedi'n cododd Lisa hi,  
 A dododd hi ar y bwrdd.  
 Eisteddodd Finney gyda'i wraig;  
 O flaen y bwrdd yn gymhen;  
 Bwytasant, a bwytasant hwy,  
 Nes bwyta 'r holl erfinen.

odd y bachgen ei lech a'r cyfansoddiad at ei feistr; a phan nodd y meist'r y pennillion, a gweled y fath brawf o dalent, lasai ymattal rhag wylo.

lawr, fechgyn a merched, peidiwch dychrynu wrth feddwl ansoddi. Edrychwch am ryw fater y byddwch yn teimlo ynddo; meddyliwch am dano, ac ysgrifenwch i lawr yr addwch yn feddwl; dyna yw cyfansoddi. Ni bydd raid i i ysgrifenu mewn myndr, fel y gwnaeth y bachgenyn hwn, bydd ynoch dalent at hyny. Ysgrifenwch mewn rhydd-oblegid y mae cyfansoddiad tlawd yn llawer tlotach pan ar ffurf prydyddiaeth, na phan fyddo mewn iaith rydd.



J. Richards, Trurova.

## RAB A'I GYFEILLION.

**M**AE hanes "Rab a'i Gyfeillion," a ysgrifenydd gan Mr. John Brown, meddyg, o Edinburgh (mab y Parch. John Brown, D.D.), yn un o'r darnau bychain mwyaf poblogaidd a ysgrifenydd yn y blynyddoedd diweddaf, a rhoddwn yr hanes i'w ddarllenwyr yn y rhifyn hwn a'r ddau nesaf.

Pedair blynedd ar ddeg ar hugain yn ol, yr oedd Bob Ainslie a finnau yn dyfod i fyny *Infirmery Street*, o'r *High School*, a'n penas ynghyd, a'n breichiau wedi eu plethu yn eu gilydd mewn ffordd nas gwyr neb, ond carwyr a bechgyn, pa fodd na phaham. Wedi cyrhaedd pen yr ystryd, a throi i'r gogledd, gwelwn dŵr o bobl wrth eglwys Tron. "Cwn yn ymladd!" gwaeddai Bob, ac ymaith âg ef. Rhedais innau ar ei ol, a phob un o honom yn gobeithio na fuasai yr ymladd drosodd cyn i ni gyrhaedd yno! Ai nid natur fachgenaidd yw hyn? a natur ddynol hefyd? Onid ydych chi oll, pan fyddo tŷ wedi myned ar dân, yn dymuno i'r tân beidio cael ei ddiffodd cyn i ni ei weled? Mae cwn yn caru ymladd; a dywed yr hen Isaac eu bod yn "ymhyfrydu" ynndo, a rheswm da am hynny; ac nid ydyw plant yn greulawn am eu bod yn hoff o weled yr ymladdfa. Gwelant dri o rinweddau ci a dyn—gwroldeb, goddefgarwch, a medr—ar lawn waith. Mae hyn yn wahanol iawn i hoffder mewn gyru cwn i ymladd, eu mwynhâu, eu poeni a gwneyd elw o'u gwroldeb. Mae pob bachgen, bydded ef mai hoff o ymladd ag y byddo—os bydd yn fachgen da—yn casu ar yn ffeiddio yr holl bethau hyn; eto buasai yn rhedeg nerth a draed gyda Bob a fi; teimlad naturiol, ac nid drygionus mewn bechgyn a dynion, yw yr awydd i weled nerth a gwroldeb yn gweithio ar ei eithaf.

A oes rhywun yn teimlo cywreinrwydd am wybod sut y deallid llygad Bob ar darawiad mai ymladdfa cwn ydoedd? Ni

welodd, ac nis gallasai weled, y cwn yn ymladd. Fflach o gasgliad ydoedd. Tyrfa o wrywod yn gyffredin sydd o amgylch cwn yn ymladd, gydag ambell fenyw tywiog, garedig, yn gwibio o amgylch y cylch oddiallan, yn gwneyd defnydd prysur o'i thafod a'i dwylaw ar y dynion, fel creaduriaid direswm : tyrfa fodrwyol, dew, a symudol ydyw ; tyrfa yn gwasgu at y canol, a'u penau i lawr, a'u llygaid oll yn syllu ar yr un gwrthddrych yn y canol.

Wel, aeth Bob a finnau i fyny, ac nid oedd yr ymladd drosodd. *Bull terrier* bychan, gwyn, oedd wrthi yn prysur lindagu ei defaid mawr, anghynnefin â brwydro, ond un peryglus i gellwair âg ef. Y maent wrthi yn galed ; y gŵr bychan celfydd yn dwyn ei waith ymlaen gyda medr, a'i elyn bugeiliol yn ymladd yn ffyrnig, gyda dannedd llymion a gwroldeb mawr. Ond nid hir y bu gwyddoniaeth a dygiad i fyny cyn ennill y fantais. Gweithiodd *Chicken* (fel y galwai Bob y *terrier*) ei ffordd i fyny, a chafodd asael farwol yn ngheg *Yarrow*, a syrthiodd yntau yn gelain, gan ddyheu am anadl. Yswagrai ei feistr—bugail ieuanc mawr, hoew, o Tweedsmuir—o gwmpas, yn awyddus i daro a llorio rhywun gyda'r eagus lleiaf. Nid oedd o un pwrpas i gicio y ci bach ; nid oedd ond gwneyd iddo wasgu ei ddannedd yn dynach. Gwaeddid allan gyfarwyddiadau beth i wneyd yn safneidiau lliosog gan y dyrfa. "Dwfr!" meddai un ; ond nid oedd dwfr i'w gael, na neb yn barod i fyned ymaith i'w gyrchu. "Cnŵch y gynffon!" meddai un arall ; ac wedi cryn ymdrech, llwyddodd un dyn canol oed, mwy awyddus na doeth, i gael cynffon flewog *Yarrow* rhwng ei ddannedd, a gwasgodd ef â'i holl nerth. Yr oedd hyn yn ormod i amynedd hirbrefedig y bugail oedd yn chwys mawr uwch ben y cwn, a chyda dynoethiad ei ddannedd gwynion, tarawodd y cnŵr i lawr fel càreg.

Mae y *Chicken* yn dal o hyd ; ac nid yw marwolaeth ymhell. "Snuff! pinch o snuff!" gwaeddi rhyw walch balchaidd â gwydryn arei lygad. "Snuff, yn wir!" ebai y dyrfa yn ddirmygus. "Pinch o snuff!" ebai y dyn eilwaith. Ac yn y fan yr oedd lliaws o flychau *snuff* yn agored. Rhoddwyd *pinch* yn ffroen *Chicken*. Gwnaeth hwnw ei waith ; tisiodd *Chicken*, a daeth *Yarrow* yn rhydd! Cerddodd y bugail ieuanc cawraidd ymaith, a *Yarrow* yn ei freichiau.

Ond yr oedd gwaed y *bull terrier* i fyny, a'i lid heb ei ddiwallu. Suddai ei ddannedd yn y ci cyntaf a gyfarfyddai ; a phan ddeallai mai y rhyw fenywaidd fyddai, gwnelai fath o esgusawd byr, ac ymaith âg ef. Rhedai y plant, gyda Bob a fi yn eu harwain, ar ei ol. I lawr dros Niddry, a'i fryd ar ddrygioni ; i fyny Cowgate fel saeth—a ninnau ar ei ol allan o wynt.

Yno, dan y *South Bridge*, yr oedd gwaedgi (*mastiff*) mawr aruthrol yn cerdded yn araf, fel pe buasai â'i ddwylaw yn ei bocedi. Y mae yn hen a llwydaidd, a chymaint a tharw yr Uheldir, a chando dagellau mawrion yn ysgwyd wrth gerdded.

Dyna *Chicken* yn gwneyd ei ffordd yn union ato, ac yn gafaelu ar unwaith yn ei geg. Er ein syndod, nid yw y creadur mawr



yn gwneyd dim, ond sefyll yn llonydd, dal ei hun i fyny, a rhuo —ie, rhuo; rhuad hir, difrifol, a bygythiol. Pa fodd y mae hyn? Mae Bob a finnau wedi dyfod hyd ato. Yr oedd *muzzle* arno! Yr oedd wedi rhybuddio y bobl i safnrwymo y cwn, ac yr oedd meistr y ci hwn wedi ufuddhâu, ac wedi gwneyd *muzzle* lledr iddo o'i waith ei hun. Yr oedd safn y ci yn awr yn agored mor bell ag y gallai; ei weflau wedi cyrlio gan lid—a'i ysgyrnygiad yn ddychrynlyd. Yr oedd ei ddannedd yn pelydru allan o'r tywyllwch; ar ystrapen ar draws ei enau mor dŷn a llinyn bwa. Yr oedd ei holl gorff wedi sythu gan ddigofaint a syndod, a'i ruad yn gofyn i ni oll o'i gwmpas, "A welsoch chwi erioed y fath beth?" Yr oedd yn ymddangos fel cerflun o lid a syndod, wedi ei weithio yn ngwenithfaen Aberdeen.

Casglodd tyrfa eto; daliai *Chicken* ei afael yn ddiysgog. "Cyll-ell!" gwaeddai Bob; ac estynodd cobler ei gyllell bigfain dreuliedig lem. Tynais innau y gyllell trwy yr ystrapen oedd ar draws ei safn; ac ar darawiad!—gydag un tafliad i'w ben aruthrol, gyda niwl llychlyd o gwmpas ei enau, heb ddim swm, syrthiodd y ci bychan digofus i lawr yn gelain farw. Bu dystawrwydd am foment; yr oedd hyn wedi myned tu hwnt i'n dysgwylad. Trôais y créadur bychan drosodd, a gwelais ei fod yn hollol farw. Yr oedd y gwaedgi wedi ymaflyd yn meinder ei gefn, fel mewn llygoden, ac wedi ei dori yn ddau.

Edrychai i lawr ar y ci trengedig mewn llonyddwch, cywilydd, a syndod; aroglodd ef drosto, sylodd arno, ac fel pe buasai yn cael ei daro gan syniad sydyn, trôdd heibio ac aeth ymaith ar drot. Cymerodd Bob y ci marw i fyny, a dywedodd, "John, claddwn ef ar ol tē." "Gwnawn," ebai finnau, ac ymaith ar ol y *mastiff*. Aeth ymaith trwy Cowgate yn gyflym; yr oedd wedi anghofio rhyw neges. Trôdd i fyny trwy *Candlemaker Row*, a safodd wrth *Harrow Inn*. Yr oedd cart cariwyr yno yn barod i' gychwyn, a dyn bychan, teneu, llym, a diamynedd, a'i law ar ben ei geffyl llwyd, yn edrych o amgylch yn flin am rywbeth. "Rab, y lleidr!" ebai, gan anelu cic at y ci, yr hwn a neidiod o'r neillda i ochelyd pwys esgid fawr ei feistr, ac ymlusgodd dan y cart dan wyllo llygad ei feistr, gan ostwng ei glustiau i lawr, a gostwng hyn y oedd ganddo o gynffon i lawr hefyd.

Y fath ddyn raid fod hwn, meddwn wrthyf fy hun, ar yr hwa y mae fy ngwron aruthrol yn troi ei gynffon! Gwelai y cariwyr y *muzzle* yn hongian am ei wddf wedi ei dori, a dywedais innau yr hanes wrtho, yr hon y tybiai Bob a finnau, ac y tybiwn eto, na oedd neb ond Homer, neu y brenin Dafydd, neu Syr Walter Scott, yn deilwng o'i hadrodd. Daeth yr hanes â'r dyn bychan i'w le, ac ymostyngodd i ddyweyd, "Rab, fy ngwas i, druan o Rabbie!" Cododd ei bwt cynffon a'i glustiau, llanwodd ei lygaid, ac ymgysurodd; cymmodwyd y ddau gyfaill. Cyfarchodd y dyn Jess, gyda chraciad ei chwip, ac aeth y tri ymaith.

Claddodd Bob a finnau y *Chicken* y noson hono (ni chymerason fawr o dē) yn nghefn ei dŷ, yn *Melville Street*, rhif 17, mewn

ldeb a dystawrwydd; a chan ein bod ar y pryd yn dysgu yn d, ac, fel pob bechgyn, yn *Trojans*, galwasom ef, wrth gwrs, c'tor.

(*I'w barhdu.*)



BUGAIL ISRAEL SYDD OFALUS.

GYFALL, — Yr oeddem ni yma gyda'r plant, er ys amryw wythnos-ymddifyru am lawer pum' mynyd wrth ganu y pennill cyntaf o'r d ar y dôn Beaminster (y ddau o Lyfr Tŷnau Ieuan Gwylt); ond l genym un pennill arall ar yr un mesur a mater i'w ganlyn; ac er oddloni yr awydd am ganu ychwaneg ar yr un testun hoff, ysgrif- y pedwar pennill eraill yma, ac y mae Martin Luther, a'r plant na, yn eu bloeddio yn fiasus iawn; ac os carai rhyw blant bach cael, dyma nhw. — Yr eiddoch, &c.,

LLHWELYN.

**B**UGAIL Israel sydd ofalus  
 Am ei dyner anwyl wŷn;  
 Mae 'n eu galw yn groesawus,  
 Ac yn eu cofleidio yn fwyn.

Tywys hwy trwy bob peryglon,  
 A helbulon chwerw 'r byd;  
 Sefyll rhyngddynt a'u gelynicion  
 Wna yn fyddlon ar bob pryd.

Gwylia 'r nos rhag dygwydd niwed  
 I'w hoff ddefaid yn un man;  
 Eto 'r dydd mae 'n gysgod iddynt,  
 Rhag i'r gwres ornesu 'r gwan.

Os daw 'r arth neu 'r llew rhuadwy  
 At ei gorlan yn eu gwg,  
 Saif ei hunan yn yr adwy, —  
 Ni chânt wneyd i'w ddefaid ddrwg.

Arglwydd Iesu, gwylia trosom,  
 Tra f'om yma ar y llawr;  
 Wedi hyny dwg ni 'n dawel  
 Yna i dy gorlan fawr.

Y CWESTIYNAU GWOBWRWYEDIG.

**A** frenin a anfonodd genadau i gysuro brenin arall ar farwolaeth ei dad, pan ddirmygwyd y cenadau gan y brenin arall hwnw â sarhâd mawr?  
 Pa wyrth drugarog a gyflawnodd Crist ar ddyn byw, heb b yn ceisio ganddo, ac heb fod ifydd gan y dyn y gwnaed eidd âg ef?



ENWOGION YR OES.

## VI.—LOUIS NAPOLEON, YMHERAWDWR Y FFRANCOD.

**D**YMA ddarlun go gywir i'n darllenwyr o Ymherawdwr Ffrainc, y dyn mwyaf poblogaidd, fe allai, a fêdd y byd y dyddiau hyn; ac nid oes nemawr i ddyn ar y ddaear a'i hanes yn fwy llawn o ddygwyddiadau hynod; ond nis gallwn ni yma ond nodi ychydig o brif ddygwyddiadau ei fywyd. Ganwyd ef ar yr 20fed o Ebrill, 1808. Enw ei dad oedd Louis Buonaparte, brawd yr hen Napoleon Buonaparte, y rhyfelwr. Enw ei fam oedd Hortense Beauharnais, merch yr ymherodres Josephine, o'i gŵr cyntaf. Yr oedd ei dad a'i fam, yr amser y ganwyd ef, yn frenin a brenines Holland. Pan oedd yr hen Buonaparte, ei ewythr, yn cychwyn tua brwydr fawr Waterloo, aeth Louis, y pryd hwnw yn blentyn seithmlwydd, i mewn ato i'r parlwr; syrthiodd ar ei liniau o'i flaen, a dymunodd arno beidio myned i'r frwydr, am fod y Cynghreiriaid yn awyddus am ei ladd. Tarawodd ei eiriau galon yr ymherawdwr; ac wedi tawelu meddwl y bychan, dygodd ef i'w fam, a dywedodd, "Coffleidiwch eich mab; bydd gan hwna galon dda, a meddwl ardderchog; efe, fe allai, yw gobaith fy nghenedl." Cafodd bob manteision addysg yn ieuanc, a dangosai yntau fedr mawr i ddygu a deall, ynghyd a gwroldeb penderfynol yn ei holl ymgymeriadau. Credai, er yn blentyn, y delai yn olynwr i'w ewythr i eistedd ar orseddfainc Ffrainc; a dywedir na siglwyd ef yn ei grediniaeth er cyfarfod yr helbulon mwyaf.

Pan gwmpodd ei ewythr oddiar orsedd Ffrainc, ac y daeth teulu *Bourbons* i'r awdurdod, gorfu i Louis a'i fam ffoi allan o'r wlad am ddiogelwch. Buont yn crwydro o le i le am flynyddoedd.

oedd ef o hyd yn paratoi ei hun ar gyfer yr orsedd. Dysg-  
ei hun fel milwr, a bu yn ymladd yn amryw o frwydrau  
ndir. Pan oedd oddeutu pedair ar hugain oed, arosai yn  
land; cyhoeddodd yno ddau lyfr ar sefyllfa filwraidd y  
i cododd i fri mawr, ac anrhydeddwyd ef âg aelodaeth yn  
iaeth. Ond ar Ffrainc yr oedd ei lygad ef o hyd. Tua diw-  
lwyddyn 1836, cafwyd ei fod yn dyfeisio gwrthryfel er cael  
lod Ffrainc i'w law, a gyrodd Louis Phillippe ef i America.  
od yno yn teithio am beth amser, clywodd fod ei fam yn  
n. Yr oedd ei ymlyniad wrth ei fam yn gyfryw, fel y  
odd dori ar draws gorchymyn brenin Ffrainc, a dychwelyd  
ei fam. Daeth mewn pryd i gael ei bendith cyn marw, a  
rosodd i Loegr.

aeth ymgais eilwaith i godi gwrthryfel yn Ffrainc, a daliwyd  
garcharor. Carcharwyd ef am saith mlynedd yn Nghastell  
Ond ni wnaeth carchariad y castell ddiffodd yr un o'i  
on. Ymroddai yno i ddwyn ei efrydiaeth ymlaen fel pe  
yn y brifysgol. Cyhoeddodd lyfrau yno ar "Ddiddymiad  
ac ar y "*Sugar Question*." Derbyniwyd hwy yn serchog  
wlad, a dangoswyd cydymdeimlad âg ef yn ei garchariad.  
17, wedi i'r llywodraeth wrthod caniatâd iddo fyned i dalu  
iad â'i dad, yr hwn oedd ar drancedigaeth, ac yn ewyllysio  
ei fab, penderfynodd wneyd ymgais i ffoi; ac y mae hanes  
ligaeth lwyddiannus yn un o'r pethau rhyfeddaf erioed.  
drosodd eto i Loegr, noddfa ddiogel y caeth a'r ffoedig. Bu  
am dymmor yn Llundain, a bu ar un achlysur yn cyflawni  
heddheidwad neu gwnstabl yno. Beth bynag, yn 1848,  
y chwyldrôad Ffrenig allan. Taffwyd Louis Phillippe  
ei orsedd, a gorfu yntau ffoi i Loegr am ei fywyd; a phrys-  
Napoleon yntau yn ôl i'w wlad ei hun. Etholwyd ef yn  
yn Gynnrychiolydd y Gymanfa Genedlaethol, ac wedi hyn  
wydd y Weriniaeth. Trwy lawer o ddyfeisiau medrus a  
ar, llwyddodd i gael y wlad i'w gyhoeddi yn ymherawdwr  
2, ac felly cyrhaeddodd y nôd oedd ganddo o flaen ei lygad  
blentyn. Yn 1853, priododd â'r Arglwyddes Eugene, yr  
dd ddeunaw mlynedd yn ieuengach nag ef. Ac y mae er  
wedi talu dau ymweliad cyfeillgar â llys breninol Lloegr.  
yr Ymherawdwr yn un o'r dynion mwyaf galluog, ac y  
addo lawer o rinweddau tra dymunol; eto ymddengys mai  
niawn yw yr ymddiried sydd gan wahanol deyrnasoedd  
yndo.



## YR HYFRYD WLAD.

Dok D.

|                                           |         |                                         |                            |                            |                                     |
|-------------------------------------------|---------|-----------------------------------------|----------------------------|----------------------------|-------------------------------------|
| <i>Bechgyn</i> ...<br><i>Genethod</i> ... | {       | : s . d <sup>1</sup>                    | d <sup>1</sup> : t : r . f | l : s : s . d <sup>1</sup> |                                     |
|                                           |         | Ber—er—<br>Myn'd ar                     | —in—ion<br>ym—daith        | gyda'ch<br>bell yr         | llaw—ffyn, I ble<br>yd—ym, Wrth or— |
|                                           |         | : m . m                                 | m : r : t <sub>1</sub> . r | f : m : m . m              |                                     |
|                                           | : d . m | s : s : s <sub>1</sub> . s <sub>1</sub> | d : d : d . m              |                            |                                     |

D. C.

*Cydgan.*

|   |                                         |                                        |                               |
|---|-----------------------------------------|----------------------------------------|-------------------------------|
| { | t :— . s : l . t                        | d <sup>1</sup> :— : d <sup>1</sup> . t | l :— . t : d <sup>1</sup> . l |
|   | 'r ewch mor ddinac—<br>—chyl—myn nef-ol | —ad? Dad.                              | Dros y bryn a'r an—           |
|   | r :— . s : f . f                        | m :— : m . s                           | f :— . s : l . f              |
|   | s :— . s : s . s                        | d :— : d . m                           | f :— . f : f . f              |

|   |                             |                               |                 |
|---|-----------------------------|-------------------------------|-----------------|
| { | l : 's : d <sup>1</sup> . t | l :— . t : d <sup>1</sup> . l | l : s : s . d   |
|   | ad—gas, Myn'd i             | fyw i'w nef—ol                | bal—as, Myn'd i |
|   | f : m : m . s               | f :— . s : l . f              | f : m : m . m   |
|   | d : d : d . m               | f :— . f : f . f              | d : d : d . d   |

|   |                                                         |                                         |                             |
|---|---------------------------------------------------------|-----------------------------------------|-----------------------------|
| { | m <sup>1</sup> :— . r <sup>1</sup> : d <sup>1</sup> . t | r <sup>1</sup> : d <sup>1</sup> : t . l | s :— . l : s . l            |
|   | fyw i'w nef—ol                                          | bal—as, Myn-ed                          | tu—a'r hyfr                 |
|   | s :— . f : m . s                                        | f : l : s . f                           | m :— . f : m . m            |
|   | d :— . r : m . m                                        | f : f : f . f                           | s :— . s : s <sub>1</sub> . |

:|:

|   |                           |                                                         |                                       |
|---|---------------------------|---------------------------------------------------------|---------------------------------------|
| { | m :— : s . d <sup>1</sup> | m <sup>1</sup> :— . r <sup>1</sup> : d <sup>1</sup> . t | r <sup>1</sup> : d <sup>1</sup> : t . |
|   | wlad: Myn'd i             | fyw i'w nef—ol                                          | bal—as, Myn                           |
|   | d :— : m . m              | s :— . f : m . s                                        | f : l : s .                           |
|   | d :— : d . d              | d :— . r : m . m                                        | f : f : f .                           |

|   |                                            |       |
|---|--------------------------------------------|-------|
| { | s :— . d <sup>1</sup> : t . r <sup>1</sup> | d :—  |
|   | tu—a'r hy-fryd                             | wlad. |
|   | m :— . m : r . f                           | m :—  |
|   | s :— . s : s . s                           | d :—  |

"Eithr yn awr gwlad well y maent hwy yn ei chwennych, hyny ydyw, nefol."—HWR. xi. 16.

*Bechgyn.* Bererinion, gyda 'ch llawffyn,  
I ble 'r ewch mor ddinac&d?  
*Genethod.* Myn'd ar ymdaith bell yr ydym  
Wrth orchymyn nefol Dad.

*Cydgan.* Dros y bryn a'r anial adgas,  
Myn'd i fyw i'w nefol balas,  
||: Myn'd i fyw i'w nefol balas,  
Myned tua'r hyfryd wlad. :||

*B.* Oes dim arswyd arnoch deithio,  
Llu mor wan trwy anial wlad?

*G.* Na, mae ffryndiau hoff o'n hamgylch,  
Engyl fry o dŷ ein Tad.

*C.* Wrth ein hochor mae yr Iesu,  
Yn amddiffyn ac yn dysgu,  
||: Yn amddiffyn ac yn dysgu,  
Ar y ffordd i'r hyfryd wlad. :||

*B.* Bererinion, beth ddysgwyliwch,  
'R ol myn'd draw i'r hyfryd wlad?

*G.* Gwisgoedd gwynion, a choronau,  
Gan ein hanwyl nefol Dad.

*C.* Yfed dŵr y bywyd dedwydd  
A phreswyllo gyda'r Arglwydd,  
||: A phreswyllo gyda'r Arglwydd,  
Yn y dawel hyfryd wlad. :||

*B.* Bererinion, gawn ni ddyfod  
Gyda chwi i'r hyfryd wlad?

*G.* Cewch a chroesaw, cewch a chroesaw,  
De'wch yn awr yn ddirnacâd.

*C.* De'wch, O de'wch, a pheidiwch 'rofyn,  
Crist yn barod sydd i'n derbyn,  
||: Crist yn barod sydd i'n derbyn,  
Yn y nefol hyfryd wlad. :||



### Y CADBEN A'I BLENTYN.

**A**FODD cadben llong go anystyriol ei ddychwelyd yn gristion yn amser y diwygiad diweddar, a dechreuodd ar waith pur anghynnefin iddo ef, sef gweddïo yn deuluaidd. Nid oedd yn awr yn bwyta un amser heb geisio bendith ar y bwyd.

Un diwrnod glaniodd amryw o'i hen gyfeillion yn y porthladd lle yr oedd yn byw. Daethant ato i dreulio y prydnewn, ac i yfed tâ; ond nid oeddent hwy yn gwybod dim am y cyfnewidiad oedd wedi cymeryd lle ynddo, ac yr oedd yntau yn teimlo yn wan i ddyweyd wrthynt. Wrth nesu at y bwrdd tâ, yr oedd y cadben mewn blinder mawr, heb wybod sut y gallai geisio bendith, na sut y gallai fyned ymlaen heb hyny. Wedi hir drallod meddwl, penderfynodd fyned ymlaen heb y weddi. Ymaflodd yn yr ymborth, a dechreuodd fwyta. Yr oedd ei ferch fechan chwe' mlwydd oed wrth y bwrdd, ac yr oedd hi yn dysgwyl y weddi. Gosododd ei dwylaw bychain yn mhleth, canodd ei llygaid, ac wedi dysgwyl am beth amser, dywedodd, "Yr wyf yn barod yn awr, 'nhad, ceisiwch fendith." Tarawodd hyn gydwybod y tad; yr oedd yn rhaid tori drwyddi bellach, ac ni cheisiodd gelu ei grefydd, nac ysgoi ei ddyledswydd mwy.



## PEN IOAN FEDYDDIWR.

“**H**EROD a anfonodd ac a dorodd ben Ioan yn y carchar. A dygwyd ei ben ef mewn dysgl, ac a'i rhoddwyd i'r llanc-es; a hi a'i dŷg ef i'w mam.”—Matth. xiv. 10, 11.

Yr oedd Herod ar y cyntaf yn hoff o Ioan, ac yn caru ei wrando yn pregethu. Ond pan ddygodd Herodias, gwraig ei frawd ymaith, i gydfyw â hi, ceryddodd Ioan ef am ei bechod. Digiodd Herod wrtho am ei öfndra yn ceryddu brenin mor ddi-dderbyn wyneb; ond digiodd Herodias yn fwy fyth. A phan ddawnsiodd Salome ei merch mor dda yn y wledd, gwnaeth Herod addewid ynfyd a byrbwyll y rhoddai unrhyw gais iddi a ofynai, hyd werth hanner ei deyrnas. Aeth y ferch i ofyn i'w mam beth a geisai. Yr oedd hyn yn dro call a rhinweddol yn y ferch. Peth canmol-adwy iawn mewn plentyn yw ymgyngori yn wastad â'i rieni. Ond cymaint oedd gelyniaeth a malais y wraig anniwair hon, fel yr oedd yn well ganddi gael boddio ei nwyd greulawn, na chael hanner teyrnas Herod yn etifeddiaeth i'w merch. Mor ddrwg ac erchyll yw pechod! Sut y teimla y ferch acw a'i mam pan gyferfydd y wyneb acw sydd yn awr yn farw ar y ddysgl, â hwy o flaen gorseddfainc Duw yn nydd y farn?



## HANES FY HUNAN.

## PENNOD XIV.—FY NGWARDIGAETH.

**B**ELLACH yr oedd llwybr fy ngwardigaeth o'm blaen yn eglur; llong gyfiëus yn fy meddiant, a digon o ddwyllaw ac anghenrheidiau i'r fordaith at fy ngwasanaeth. Yr oedd hono yn adeg lawen i mi, ac y mae ei hadgof heddyw yn chwyddo

fy mynwes. Cofleidiais y cadben, fy ngwardwr, ac wylai y naill ei deimlad diolchgar i'r llall. Dywedais wrtho fy mod yn edrych arno fel dyn wedi ei anfon o'r nefoedd i'm gwaredu, a bod yr holl helynt yn un gadwen fawr o ryfeddodau—fod y cwbl yn profi llaw ddirgelaid Rhagluniaeth yn llywodraethu y byd; fod llygad yr Hollallnog yn gweled holl derfynau y ddaear, a'i fod yn gallu anfon help wrth raid i'r trallodus pan fyno; ac nid anghofiais ddychwelyd diolchgarwch i Dduw am ei holl drugareddau. Yn y man, galwodd y cadben ar rai o'r dwylaw i ddyfod â'r anrhegion oedd wedi eu darparu ganddo i mi, drosodd o'r llong. Dygwyd cychaid llawn o fwydydd a diodydd amrywiol a danteithiol; a phethau gwerthfawrocach i mi na bwydydd, ydoedd amryw bârau cyfain o ddillad gweddus, y rhai yr oedd eu mawr anghen arnaf. Gosodais y dillad newydd am danaf yn union, ond teimlent yn bur anesmwyth am danaf dros rai dyddiau.

Wedi symud yr anrhegion i fy nghaban, y gorchwyl nesaf i'r cadben a minnau oedd trefnu ein hymadawiad â'r ynys, a pha beth a wnaem â'r carcharorion oedd genym mewn rhwymau. Yr oedd genym bedwar neu bump o honynt, ac yr oedd dau, yn arbenig, na fynai y cadben ymddiried dim iddynt; a'r unig gynllun o'i eiddo ef oedd eu dwyn drosodd yn rhwym i Loegr i'w traddodi i gymeryd eu prawf am eu gwrthryfel. Beth bynag, yr oedd yn foddllawn eu rhyddhâu, a'u gadael ar ol ar yr ynys. Aethum i at y carcharorion, a siaredais yn ddifrifol â hwynt. Dywedent fod y cadben wedi addaw eu bywyd iddynt, ac erfynient am fy nhrugaredd innau. Ond dywedais na wyddwn i pa drugaredd i'w gwneyd â hwynt. Am danaf fy hun, fy mod i wedi penderfynu gadael yr ynys, a myned â fy holl ddwyllaw gyda mi, a'n bod wedi cyttuno â'r cadben am ein mordaith i Lloegr. Ac am y cadben, na chymerai efe hwynt i Loegr ond mewn cadwynau i'w trosglwyddo i fyny i'r gyfraith; ac y gwyddent mai diwedd hyny a fuasai y crogbren. Felly nad oedd genyf fi ddim i'w wneyd, oddigerth iddynt ddewis anturio eu tynghed ar yr ynys. Os mynent hyny, yr oeddwn i yn foddllawn, ac y gallaswn gyflwyno awdurdod y lle i'w dwylaw. Ymddangosent yn dra diolchgar, a dywedasant fod yn well ganddynt dreio eu siawns ar yr ynys na dychwelyd i Loegr i gael eu crogi.

Dywedais innau yr adroddwn fy holl hanes iddynt er eu hyfforddiant. Felly dywedais wrthynt holl hanes y lle, a hanes fy nyfodiad innau iddo. Dangosais iddynt fy nghastell a'm hamddiffynfeydd, y modd y codwn fy mara, y triniwn fy nhir, y meithrinwn fy ngeifr, y cynauafwn fy ngrawnwin, a phob gwybodaeth arall a allai fod yn fanteisiol iddynt tra yr arosent yno. Dywedais wrthynt am yr Ysopaeniaid a ddysgwyliwn i'r ynys; gadewais lythyr yn eu dwylaw iddynt, a dymunais arnynt ymddwyn atynt yn garedig. Rhoddais bum' dryll hefyd at eu gwasanaeth, tri chleddyf, baril a hanner o bylor, cydaidd o bys a gefais ymysg yr anrhegion gan y cadben, a lliaws mawr o bethau eraill nas gallaf ar hyn o bryd eu henwi.



Bore drannoeth gadewais hwynt ac aethum i fwrdd y llong. Bore yr ail ddydd, daeth dau o'r carcharorion, gan nofio, at ymyl y llong, gan achwyn yn dost ar y tri arall, a dymuno, er mwyn y nefoedd, am i ni drugarhâu wrthynt a'u cymeryd i mewn i'r llong. Wedi cryn lawer o ymgynghori, holi, ac addaw, derbyn- iwyd hwy i mewn. Aethum unwaith eto i dir, gyda rhai anrheg- ion i'r tri oedd ar ol; rhoddais iddynt rai cyfarwyddiadau ychwan- egol, a dywedais os delai ar fy llaw i anfon llong yno i alw am danynt, na wnawn eu hanghofio.

Ar y 19eg o Ragfyr, —, cenais yn iach i'm hen ynys,

“A wnaed i mi yn anwyl  
Gan lawer cwllwm clyd,”

wedi bod arni am wyth mlynedd ar hugain, dau fis, a phedwar diwrnod ar bymtheg. Dygais gyda mi amryw bethau perthynol i'm bywyd meudwyaidd yno; ac yn eu mysg yr hen gap croen gaf, fy *umbrella*, ac un o'r *parrots*; ac nid anghofiais ddwyn yr arian oedd wedi bod yn gorwedd mor ddiffwrth am yr holl fly- yddau. Ar ol mordaith faith, tiriais yn Lloegr, gyda'r llong hon, ar yr llog o Fehefin yn y flwyddyn ganlynol, wedi bod llawn bymtheng mlynedd ar hugain er pan welais ei glânau o'r blaen.

(*I'w barhâu.*)

### ESGYNIAD ELIAS I'R NEF.

(DARN I'W ADRODD.)

**E**LIAS y prophwydi 'n llu ymneillduent,  
Yn ysgol uchel Bethel pawb wthient,  
Ac am y Thesbiad, eu tad, dywedent,  
Ei alw o'u nodd i le na wyddent:  
Mwy o'i hanes ddymunent—pa le trôdd?  
“Eliseus welodd ei le,” sisialent.

Mwyfwy newidid ymfyniadau  
Am gael ychydig o'r amgylchiadau;  
Eliseus oedd erbyn hyn â'i enau  
A'i fryd i dd'wedyd y rhyfeddodau;  
Encyd oddiar y meinciau—mewn iaith dlôs,  
A diymaros, dyma ei eiriau:—

Elias blygodd, fe wyntiodd ei fantell  
Yn nhonau duocer Iorddonen dywell,  
Y dŵr a wthiodd oddiar y draethell,  
A phan wahanodd fel dwy ffynnonell,  
Ni wypedd fyned nebpell—nes gwel'd gwawl  
O ryw loew eurbawl, araul, o hirbell.

Bu ail edrych, a'r gelofn belydrawg  
A ymluniai yn gerbyd amlenawg;

O! yr olwynion, mor annarluniawg!  
 Rhai cynt eu helynt na 'r cantau heulawg,  
 Treiglent heb drwst rhuglawg—troi 'n llyfa mal swyn  
 A wnai 'r wech olwyn awyr echelawg.

Nesäodd rhyngom—Elias ddringai  
 Iddo—rhyw gerub y ddôr agorai,  
 Ei fantell angawl ef hwnt ollyngai,  
 Yn y wisg anwyl hon ni esgynai;  
 Yna corwynt a'i cariai—i'r wybyr,  
 Ac arno awyr a ymgrynhöai.

Yn awr y cerbyd tanllyd o'i unlle  
 A droai yn hyfryd drwy y nwyfre,  
 Gan herio cestyll rhingyll yr ange'  
 Hwnt ar ei annel äi tua 'r wiwne',  
 Anamlwg o'r golwg äg e'—o'r byd blin  
 Ein tad hydrin a wyntiwyd adre'.

EBEN VARDI.

## LLYTHYRAU HEN WMFFRE.

### I.—PREGETHAU I'R PLANT.

**R. GOL.**—Hwyrach fod rhai, ymhlith eich miloedd darllenwyr, yn rhyw ddysgwyl am linell neu ddwy oddiwrthyf, yn ol yr awgrym a roddwyd rhyw ddau fis yn ol. Nid da genyf, ar gyfrif yn y byd, siomi neb o'r plant. Nid da siomi neb, ond y mae siomi plant yn beryglus iawn—yn dyfetha eu hymddiried yn y dyn; a bydd yn enbyd iddynt ddysgu bod yn ddiotal am eu haddewidion eu hunain, a ffurfio ynddynt arferion niweidiol i'w cysur a'u defnyddioldeb am eu hoës. Rhag i mi, drwy fod yn esgeulus o'r awgrym hwnw, roddi y plant yn ngafael y fath beryglon, dyma linell i chwi atynt, gyda phob dymuniad da iddynt, ac ar eu rhan.

Nid oes dim yn fy moddhâu yn fwy na gweled fod y plant yn cael y sylw dyladwy ar yr aelwyd gartref, yn yr ysgol ddyddiol, ac yn y capel ar y Sabbothau. Y mae darbodaeth briodol ar gyfer y plant, a gofal am eu haddysg a'u moesau, yn argoeli yn dda iawn am yr oes sydd yn dyfod ar ol. Nid oes genyf ddim gwell na rhoddi i chwi adroddiad byr o gyfarfod plant y cefais yr hyfrydwch o fod ynddo yn ddiweddar. Yr oedd ynghyd gynulleidfa o honynt tua 150 o nifer, a phawb o honynt yn lân a chryno, yn fechgyn a genethod. Cyfarfod pregethu ydoedd—pregeth i'r plant. Yr oedd y pregethwr yn ŵr canol oed, ond yn medru siarad â phlant yn hynod briodol. Y testun oedd, "A'r Bachgen Iesu a gynnyddodd mewn corffolaeth, a doethineb, a ffafr gyda Duw a dynion." Yr oedd yn amlwg fod y pregethwr yn amcanu tynu sylw y plant. Cawsant benau, a'r rheiny yn gyfryw fel y gallai y plant eu cofio a'u dirnad, a bod yn well byth

o honynt. Llwyddodd y gŵr yn ei amcan ymhell uwchlaw fy nysgwyliad. Ni welais erioed gynnulleidfa yn gwrando yn well —mor ddystaw a llonydd, gan wrando ar yr hyn a lefarai y gŵr. Ar y diwedd cawsom brawf fod y plant yn sylwi. Pan ofynwyd am y penau, cododd lliaws o honynt ac adroddasant y testun a'r penau mor gywir a chyflawn, nes yr oeddwn yn synu at eu craffder, ac yn mawr gymeradwyo eu dystawrwydd, a'u hymddygiad prydferth a gweddus. Ar ddiwedd y bregeth, canwyd gan y plant yn hynod effeithiol,—

“Bugail Israel sydd ofalus  
Am ei dyner anwyl wŷn;  
Mae 'n eu galw yn groesawus,  
Ac yn eu cofleidio yn fwyn.”

Ac nid anghofiaf yn hir y teimladau dymunol wrth uno gyda y plant i ganu y pennill anwyl. Ar ol y canu, gostyngai pawb ar eu gliniau, gan gydadrodd y fendith apostolaidd, “Gras ein Harglwydd Iesu Grist, a chariad Duw, a chymdeithas yr Ysbryd Glân, fyddo gyda ni oll. Amen.” Ac felly terfynai y cyfarfod anwyl.

Yr ydwyf yn deall fod yn y lle hwnw gyfarfod pregethu i'r plant yn gyson bob pythefnos, a chwodd canu ac egwyddori i'r plant yn yr wythnos na byddo y bregeth, ac y mae fy holl galon yn dymuno llwyddiant yr oll. Gobeithio y bydd yr adroddiad hwn yn peri i'r plant fawrhâu ac ymlynu wrth eu cyfarfodydd fwyfwy, a chynhyrfu eraill i gychwyn gyda hyn yn y lleoedd hyny nad ydynt eto wedi dechreu gyda y moddion effeithiol a dyddorol hyn.

Gyda dymuniad am lwyddiant eich TRYSORFA, ac iachawdwr-iaeth y plant, y gorphwys

HEN WMFFRE

FY NGWLAD.

**F**Y ngwlad, ti fuost gynt yn gorwedd yn dy waed,  
Dy elyn ar dy wddf a roes ei drymion draed;  
Ond er ei ormes drom, ei frad a'i fynych sèn,  
Mor fyw ac iach wyt ti, mor uchel yw dy ben,  
Dy feibion fydd mewn bri tra saif y Wyddfa wèn.

Dy feibion fu cyn hyn yn dal y cleddyf dur,  
Yn sefyll fel y graig o blaid dy ryddid pur,  
Nes cwympto yn eu gwaed fel machlud haul y nen;  
Ond byw ac iach wyt ti, mor uchel yw dy ben,  
Dy feibion fydd mewn bri tra saif y Wyddfa wèn.

Ymostwng dithau 'n awr o flaen dy uchel Ri,  
Yn isel yn y llwch y mae dy gryfder di;  
Diogel wyt, fy ngwlad, o hyd dan nawdd y nen;  
Mor fyw ac iach wyt ti, mor uchel yw dy ben,  
Dy feibion fydd mewn bri tra saif y Wyddfa wèn.

JOHN GAERWENYDD PRITCHARD



UN O DDARLLENWYR BACH EICH TRYSORFA.

“Gwywodd y gwelltyn, a'i flodeyn a syrthiodd.”

**M**R. GOLYGYDD,—Pe buasai eich TRYSORFA yn cyhoeddi byw-graffiadau, anfonaswn i chwi hanes cyflawn un o ffryndiau goreu eich TRYSORFA; ond gan nad yw y cyfryw yn dderbyniol, rhaid i mi adael ar nodi ychydig o hynodion y plentyn hynod hwn a fu farw o'r *croup*, Mai 8, 1864. Er nad oedd ond saith mlwydd a hanner oed pan fu farw, yr oedd ei hynodrwydd wedi ei wneyd yn wrthddrych sylw cyffredinol yn yr ardal lle preswyliai. Gadawn y bachgenyn hwn, fel y gedy yr hanes ysbrydoledig Melchisedec, heb nodi tad na mam nac achau, na'r sir, na'r plwyf yr oedd yn byw, nac hyd yn nôd ei enw, ond yn unig ei fod yn byw mewn ffermdŷ mawr ymysg teulu lliosog.

Yr oedd yn hynod am ei fywiogrwydd, ei graffder, a'i dynerwch, er yn faban. Gofynnodd llawer yn wrth edrych a gwrando arno, “Beth fydd y bachgenyn hwn?” Dangosodd deimlad crefyddol cryf iawn yn anarferol o fore, a thynwyd hwnw allan gan yr addoliad teuluaid. Gan fod yr addoldŷ ymhell oddiwrth yr annedd, nid allai y plant ieuengaf fyned i'r oedfaon yn fynych; ond nid oedd eu haddysg grefyddol yn cael ei hesgeuluso er hyny. Yr oedd y bachgen hwn wedi cymeryd pleser mawr mewn gweddio cyn gallu siarad yn groew; a thrafferth fawr fyddai ei attal i ddywedyd “Amen” yn uchel pan fyddai arall yn gweddio. Gall y darlennydd dybied fod dylanwad hynod i'w “Amen” ef ar yr holl deulu. Cipiodd yr arferiad yma oddiwrth hen gristion brwdfrydig fyddai yn aros gyda'r teulu.

Er mor hynod dyweyd, eto mae yn wir, i'r diwygiad diweddar fu yn y wlad gael gafael nerthol ar galon deirblwydd y bachgenyn hwn; a dangosai ei hun mewn ysbryd difrifol i weddio. Gofynai

un diwrnod i un o lanciau y tŷ,—“Paham y rhaid i ti a — gael gweddio bob amser; paham na chaf finnau weithiau?”

“Iâ,” atebai'r llanc, “ond ni fydd rhai bach fel ti yn gweddio yn gyhoeddus.”

“Wel, gaf fi weddio y weddi fach hono cyn bwyd,” gofynai eil-waith, “a chwithau gael gweddio ar eich gliniau?”

Byddai yn treulio peth amser weithiau gyda'i fodryb, a mawr y llawenydd fyddai yno pan ddelai ar ei ymweliad. Un prydawn Sabbath, pan oedd yr holl deulu, ond ei fodryb ac yntau, yn yr ysgol, dywedodd,—

“Modryb, 'rydw' i'n myn'd i weddio, 'rwan; d'wedwch chitha' 'Amen,' a 'hy, hy!’” Wedi gorphen, dywedodd wrth ei fodryb,—“Ewch chwithau, 'modryb, 'rwan, a dywedaf finnau 'Amen,' a 'hy, hy.’” Cofied y darllenydd fod y plentyn yn gwneyd hyn yn berffaith ddifrifol. Yr oedd yn nodedig iawn am dynernwch ei deimlad. Nis gallai gael hyfrydwch wrth weled poeni un creadur. Ni chodai ei law yn erbyn un o'r plant; byddai yn well ganddo oddef cam, er gorfod wylo dano. Clywodd gymydoges un diwrnod yn “*scolio*” bachgenyn yn arw; ac er nad adwaenai y bachgen hwnw, torodd allan i wylo gydag ef o gydymdeimlad. “Paham yr wyt ti yn crio?” ebai un wrtho; “nid oes neb yn dy ddwrddio di!” “Ond ydy' yn dwrddio y bachgen bach yna,” oedd ei ateb trwy ei ddagrau. Daliwyd ef unwaith yn lapio darn mawr o dorth mewn darn o bapyr newydd; ac wedi ei holi, cafwyd mai myned âg ef yr ydoedd i hen wraig oedd yn sâl mewn bwthyn gerllaw, a'i reswm ydoedd, “Ma' arna'i ofn na all fwyta bara haidd.” Esiampl dda ei fam a ddysgodd hyn iddo. Rhoddodd cyfaill chwe' cheiniog iddo unwaith; yr oedd ei fam yn sâl ar y pryd. Rheddodd yntau i brynu ei gwerth o gacenau *nice* i'w fam. Ni threuliai ei geiniogau un amser ar felusion. Dyma esiamplau y bydd yn iechyd i galonau ein darllenwyr ieuainc eu darllen.

Yr oedd ganddo feddwl mawr am bregethwyr a phregethau, ac addfedrwydd barn a chwaeth ymhell uwchlaw ei oed. Nid allai oddef neb yn gwaeddi wrth bregethu. Un tro yr oedd pregethwr yn tynu blewyn o'i ben, ac yn ei drafod rhwng ei fysedd er egluro rhyw bwnc (tebyg i'r blewyn o ran pwysau, fe allai). Yr oedd yr holl blant yn gwenu, ond cuchiai wyneb y plentyn hwn. Ac wedi myned allan dywedodd, “Nid âf i wrando hwna eto. Pam na fuasai yn cribo ei ben nos Sadwrn yn lle tynu y pethau hyn o hono yn y capel.” Druan, ni chafodd gyfle i fyned i'w wrando mwy!

Yr oedd marw a myned i'r nefoedd yn bynciau hoff ei ymddyddanion; a soniai lawer am frawd bach iddo oedd wedi myned i'r nefoedd o'i flaen. Cafodd TRYSORFA Y PLANT afael nerthol yn meddwl y plentyn hoffus hwn; ac yn arbenig, darluniau “Ysbrydion y Cwpan,” a'r “Botel a'r bachgen,” a'r cyffelyb. Un dyn meddw a welodd erioed, ac yr oedd yn synu na welsai yr ysbrydion o gwmpas hwnw. Yr oedd yn awyddus am gael pawb yn ddirwestwyr, ac yn enwedig ei ffryndiau goreu ef. Pan oedd yn

rhymeraï "*physic*" o botel rhag ofn bod ynddi beth o'r on. Golygfa oedd yn peri dyryswch mawr i'w feddwl bob edd gweled y poteli ar y bwrdd yn y capel, a'r bobl oreu, m ef, yn yfed o'honynt. Cafodd ei fam ac eraill orchwyl esbonio a thawelu ei feddwl ar y pwnc hwn. Gresynai yn th weled y plant yn dirmygu yr "Hen grydd meddw," a lai y bachgen caredig a'i helpiodd. Ceisiodd gelu ei iyd o fewn chwe' diwrnod i'w farwolaeth, rhag i hyny ei ag myned i'r ysgol. "TRYSORFA Y PLANT" oedd y peth ofynodd am dano cyn myned at ei Arglwydd, a hyny pan di myned mor wan, fel mai prin y gallai oddef ei fam i'w iddo. Ymadawodd fel diffoddiad canwyll, a newidiodd ef daearol am gartref gyda'r Arglwydd.  
chwithau, anwyl ddarllenwyr ieuainc, a gwnewch yr un

H.



'R WY'N MYN'D, FY MAM.\*

(*Neu y plentyn duwiol yn marw.*)

† **R** WY' 'n myn'd, fy mam, 'r wy' 'n myn'd,  
I wlad na ddof yn ôl;  
Daw Iesu Grist, fy Ffrynd,  
Yn fuan i fy nol:


'R wy' 'n gwel'd yr afon ddofn,  
'R wy' bron a myn'd i'w dŵr;  
Ond nid oes arnaf ofn,  
Mae Iesu 'n ddigon siŵr  
O'm cynnal uwch ei lli',  
Mae 'n hysbys o bob cam;  
Gŵyr am ei "hymchwydd hi"—  
'R wy' 'n mynd, 'r wy' 'n myn'd, fy mam.

'R wy' 'n gwel'd angelion nef  
Yr ochr draw i'r lân,  
O'r braidd na chlywa i 'u llef  
Yn gwaeddi—"Blentyn gwan,  
O brysia ddyfod trwy  
Yr hen Iorddonen gref;  
Cei yma fyw heb glwy',  
Cei orphwys yn y nef;  
Ni theimli yma boen,  
Un gofid byth na cham;  
Cei wledda gyda 'r Oen;"—  
'R wy' 'n myn'd, 'r wy' 'n myn'd, fy mam.

*eglwys.*

GLWYSFRYN.

awgrymwyd wrth ddarllen "Ffarwel, 'mam fach," tu dal. 14 o'r hon.



J. Richards, Treforis.

## ADERYN Y TÔ.

**D**YMA i'n darllenwyr ddarlun prydfarth o aderyn y tô, o waith ein cyfaill o Dreforis. Ac y mae yn o debyg nad oes un darllenydd yn yr holl wlad nad yw yn adwaen yr aderyn bychan hwn, oblegid y mae yr aderyn mwyaf cyffredin yn y byd. Ceir hwynt yn doreithiog ymhob parth amaethyddol o Ewrop ac Asia. Eu prif ymborth yn y gwanwyn a'r haf yw pryfed bychain, ac yn benaf oll pryfyn bychan sydd ar y dail, a elwir y lindys, neu *caterpillar*. Tra y mae adar eraill yn dewis y coedwigoedd a'r perthi i wneyd eu nythod, mae aderyn y tô, fel y wenol, yn dewis y bondo neu ryw dyllau ac agenau ynglŷn â thrigfanau dyn. Nid yw yr aderyn hwn byth yn ymfudo, fel y wenol, ac y mae yn fynych yn deor tri nythaid o rai bychain yn y flwyddyn. Bydd y ffermwyr yn dychrynu yn fynych wrth weled heidiau o'r adar yma yn disgyn ar yr ŷd a'r meusydd, ac yn eu tarfu a'u saethu. Ond dylent gofio y dinystrid eu holl ŷd gan bryfed oni bae fod yr adar hyn yn eu difa. Mae yr adar ieuainc yn tyfu yn gyflym iawn, ac yn gofyn llawer o ymborth. Yr ydys wedi sylwi fod yr hen adar yn dwyn ymborth iddynt mor fynych ag un ar bymtheg ar hugain o weithiau yn yr awr; ac i wneyd hyn, yr oedd yn anghenrheidiol iddynt gasglu dros dair mil o lindys yr wythnos.

Mae aderyn y tô yn y trefi mawrion yn ymddangos yn fwy tywyll a hagr, oblegid ei fod yn treulio ei fywyd mewn mwg a llwch. Mae adar tô Llundain (*y cockneys*) yn fwy öofn a beiddgar na neb o'r tylwyth. Gellwch eu gwled yn disgyn fel càreg yn nghanol y dynion ar yr ystrydoedd, ac yn hobio mor benuchel rhwng traed y ceffylau, i chwilio am eu tamaid. Mae yr adar


or gyffredin, a'u pris mor isel, fel y gellir arfer geiriau ein wr am danynt heddyw,—“Oni werthir dau aderyn y tô er ?”—neu “Oni werthir pump am ddwy ffyrlling?”—y n well po fwyaf gymerir.

cyfeiriadau mynych yn y Bibl at adar y tô. Cyfeirir n Salm (lxxxiv.) at eu heofndra yn gwneyd eu nythod wrth yr Arglwydd. Pan gyll y naill o honynt ei gymhar, yr d yn dygwydd yn fynych, erys wrtho ei hun ar ben tŷ i gruddfan am oriau. Felly dywed y Salmydd (cii. 7), is, ac yr ydwyf fel aderyn tô, unig ar ben tŷ.” Ond y prif l yw yr un a wnaeth Iesu Grist, er dangos manylwch a wodraeth Duw. Darllenwch Luc xii. 6, 7. Dangosir yno yr un o adar y tô yn disgyn ar y ddaear heb fod gan Dduw wedi ei ddarparu ar ei gyfer. Y mae pob dyn a phob yn fwy o werth na holl adar tô y byd, ac oni ofala Duw ach chwi? Gwna, gwna, ymddiriedwch ynddo. Fe wŷr anghen sydd arnoch; y mae yn gwybod pa sawl gwalltyn eich pen. Dywedwch ynte,

Mi gofias ofal Duw bob tro  
'R edrychaf ar aderyn tô.



## Y GAETHES DDU A'I BABAN.

 U, fy nghaethwas bach dinodded,  
Cwsg dan wenau hardd y lloer;  
Cwsg heb wybod am dy dynghed,  
Cwsg mewn caban afiach, oer:  
Siriol ydyw dy edrychiad;  
Hawddgar ydwyt, er yn ddu;  
Mam wyf finnau 'n llawn o deimlad,—  
Cwsg, f' anwylyd, su su su.

O! fy maban, cwsg yn dawel,  
Cwsg ar ddwyfron ddu dy fam;  
Cwsg wrth wrandaw su yr awel,  
Cwsg heb feddwl cwrdd & cham;  
Cwsg heb sylwi ar y dagrau  
Dreiglant dros fy ngruddiau 'n awr;  
Cwsg heb deimlo dy gadwynau,  
Cwsg heb wel'd y fflangell fawr.

O! fy mychan, 'r wyt mor anwyl  
Genyf a phe bait yn wŷn;  
Ond er hyny ofer dysgwyl  
Câf dy wyllo 'n hir fel hyn;  
Daw 'r creuloniaid i dy gyrchu  
O fy mreichiau, 'mhlentyn cu;  
Ond ni welir neb yn sychu  
Deigr yn hallt y gaethes ddu.

M. W.



## CYFARFOD BLYNYDDOL Y BIBL GYMDEITHAS.

**G**YNNALIWYD y Cyfarfod Blynyddol yn Neuadd Exeter, Llundain, ar ddydd Mercher, y pedwerydd o fis Mai, ac yr oedd y Neuadd eang mor llawn ag arferol. Cymerwyd y gadair gan y Llywydd, y Gwir Anrhydeddus Iarll Shaftesbury; ac wedi i'r Parch. S. B. Bergne ddarllen a gweddio, darllenwyd yr Adroddiad gan yr Ysgrifenydd arall, y Parch. C. Jackson. Hysbyswyd fod y dosbarthiadau am y flwyddyn yn 2,495,118 o gopiau o'r Gair sanctaidd mewn gwahanol ieithoedd; a bod y dosbarthiadau o'r dechreuad yn 45,539,452 o gopiau. Yr oedd derbyniadau y Gymdeithas yn ystod y flwyddyn yn diweddu Mawrth 31, 1864, yn cyrhaedd i £169,703. 17s. 7c. Yr oedd y derbyniadau cymhwysedig at ddybenion cyffredinol y Gymdeithas yn cyrhaedd i £89,897. 13s. 6c., yn cynnwys £53,424. 14s. 9c. o rydd gyfraniadau oddiwrth Gymdeithasau Cynnorthwyol. Derbyniwyd at India a China yn benodol y swm o £798. 13s. 7c. Y derbyniadau am Fiblau a Thestamentau oeddynt £79,007. 10s. 6c. Mae cyfanswm y derbyniadau o bob parth yn cyrhaedd i £169,703. 17s. 7c. Yr oedd y treuliadau yn ystod y flwyddyn yn £151,355. 13s. 11c. Yr oedd ymrwymadau y Gymdeithas yn cyrhaedd i £109,619. 14s. 11c.

Traddodwyd areithiau rhagorol gan y boneddigion canlynol:— Esgob Winchester, Arglwydd Charles Russell, Parch. W. Arthur, Esgob Ripon, Canon Stowell, Josiah Forster, Ysw., Dr. Edmond, Parch. C. D. Marston, Parch. C. H. Spurgeon, Dr. George Smith, a J. Bockett, Ysw.



## MARWOLAETH SUSAN FACH.

(Sef merch ieuengaf DAVID VAUGHAN, Ysw., Abergwaun. Bu farw yr 12 oed. Dygwyddai ei thad fod o gartref ar awr ei hymadawiad; ac un o'i holaf eiriau ydoedd:—"I should like to see Papa before I go to heaven.")

**B**SENNOL oedd ei thirion dad,  
Pan ddaeth yr afon at ei thra'd;  
A rhai o'i geiriau olaf hi,  
Medd rhai a'i gwelsant yn y lli',  
Oedd,—“O na chawn ei weled ef,  
I roi ffarwel cyn myn'd i'r nef!”

Rhyw gyfaill cymwynasgar cu  
I SUSAN ydoedd angydu;  
Symudodd hi i'r nefoedd bell,  
I gael anadlu awyr well;  
A'i gwella wnaeth yr hinsawdd bur,  
Mae 'n iach yn awr yn Salem dir.

Gyfeilles anwyl, daeth yr awr  
I roddi croes dy gystudd 'lawr;

Ymafael yn y delyn mwy,  
A chwydda 'r gân am farwol glwy',  
I'r Hwn a wnaeth dy enaid bach  
Yn ganaid wŷn, yn berffaith iach!

J. D. S.



RECTOR CASTELLNEDD A DIRWEST.

y dyfyniad canlynol wedi ei gymeryd o araeth ragorol y  
ch. J. Griffiths, Periglor Castellnedd, yn *Exeter Hall*, yn  
cyfarfod blynyddol y *Temperance League*, ar y 19eg o fis  
Maddaf. Gobeithiwn y darllenir ef allan ar holl aelwydydd  
d, yr adroddir ef gan wŷr ieuainc a llanciau yn yr Ysgol  
ol, a'r cyfarfodydd llênnyddol ac adroddiadol, ymhob tref  
ef, nes cael miloedd o galonau i adseinio eu cydsyniad, a  
gwnenthur yr un modd.

edaf i chwi y modd y dychwelwyd fi i'r ffydd Ddirwestol.  
naw mlynedd yn ol ymgymerais â maes llafur newydd o  
awr. Fy ngorchwyl cyntaf oedd bwrw golwg dros y  
natur, a'i nodweddion, a cheisio cael allan ei anghenion.  
d yno eglwysi a chapeli, a bod yno sefydliadau addysg-  
hymdeithasol; ond cefais hefyd nad oedd ffrwyth llafur  
ldynion da yno yn cyfateb i'r ymdrechion a arferent.  
yn fuan mai prif achos yr aflwyddiant oedd meddwdod.  
ais bregethu a darlithio ar y pechod o feddwdod. Ac un  
cyfarchwyd fi gan gyfaill ieuanc o Grynwr. Dywedodd  
od yn dda ganddo fy mod wedi dyfod i drigo i'w plith.  
dd fy zel, a dywedodd ei fod yn deall fod fy llafur yn  
wy. Cyfeiriodd yn arbenig at fy mhregethau a'm har-  
n erbyn meddwdod. 'Ond,' ebai fy nghyfaill, 'a wnei  
bysu pa faint o ddychweledigion oddiwrth feddwdod a gef-  
dywedais fy mod yn ofni nad oeddwn wedi cael yr un.  
ai'r dyn ieuanc rhinweddol, 'yr wyt wedi treio beth all  
wneyd, ac wedi treio beth all darlithio wneyd; beth pe  
dreio yn awr beth all esiampl wneyd?' Rhaid i mi  
gyfeillion, fod yr appeliad yn anwrthwynebol; yr oedd  
yru i gornel nad oedd yr un twll i mi i ddianc. Dywed-  
o ar unwaith, 'Rhoddwch fis o amser i mi i wneyd fy  
i fy ny, ac atebaf chwi.' Yr oeddwn yn gweled y cam yn  
sig, ac yn barnu yn fwy doeth i mi fod yn bwylllog.  
adref, a dechreuais feddwl beth ddywedai fy nghyfeillion;  
imlwn mewn cynnulliadau cymdeithasol y byddwn yn  
ned iddynt. Daeth lliaws mawr o wagersymau o'r fath  
dwl; ond yr oeddent yn methu tycio i lonyddu fy nghyd-  
O'r diwedd darostyngais y cwbl i'r cwestiwn syml yma,  
yf yn weinidog professedig i Feistr mawr; yr wyf yn dal  
wn uchaf ag y gall dyn byth ei ddal; yr wyf wedi ymgy-  
r gwaith pwysicaf o dan haul y nefoedd; fy ngorchwyl

yw ennill eneidiau at Grist, a'u cymhwyso erbyn byd tragwyddol. Rhaid i mi feddiannu ysbryd fy Meistr cyn byth y gallaf gyflawni gwaith fy Meistr. Pa fodd, ynte, y gallaf wasanaethu oreu achos y cyfryw Feistr? A allaf wneyd hyn yn unig trwy bregethu yn erbyn arferion sydd yn cynnyrchu cymaint o ddrwg, ac ar yr un pryd eu cynnal i fyny yn fy ymarferiadau dyddiol. "Onid allwn wneyd hyn yn well trwy ymwrthod â'r diodydd meddwol yn llwyr er cynnorthwyo i achub y rhal sydd yn gaethion i'w dylanwad?" Yn yr ysbryd hwn penderfynais, er mwyn y lliaws oedd o fy amgylch, lwyr ymwrthod â phob diodydd meddwol, ac felly foddhâu fy nghyfaill, y Crynwr, trwy rodd nerth esiampl yn gystal a gair, i geisio lleihâu y pechod cyffredinaid hwn. Beth oedd y canlyniad? Yr oedd yn dra dymunol, a ymhell tu hwnt i'm dysgwyliaid—nid cymaint oblegid fy nylanwadu personol, ond oblegid y swydd bwysig oeddwn yn ddal. Daeth Maer y dref yn ddirwestwr; daeth y Maer blaenorol yn ddirwestwr; daeth *Superintendent* y *Police* yn ddirwestwr; yr wyf yn credu i bob *policeman* yn y dref ddyfod yn ddirwestwyr; rhoddodd wyth cant eu henwau i lawr ar y llyfr dirwestol; daeth cant o'r bobl ieuainc yn aelodau y *Band of Hope*. Newidiodd holl agwedd foesol y dref!"

Os mynwich chwithau wneyd daioni, treiwch beth all esiampl wneyd.



### LLYFRAU NEWYDDION.

[MUNUDAU SEGUR; *sef* 160 o *Ganeuon moesol a difyrus*; gan R. J. D. FEL. Pris 1s. 6c. mewn papyr.]

**M**IS yn ol y cyfeiriasom at gyfrol ddyddorol o "Draethodau a Areithiau" Derfel; yn awr dyma gyfrol lawn mor ganmadraddwy o farddoniaeth. Nid gorchwyl bychan fuasai canmadraddwyth ugain o destunau i ganu arnynt, ond anhawddach fyth o cael cyfansoddiad newydd a tharawiadol ar bob un o honynt. Ddylid llenasom bob tu dalen o hono yn ddiattal; ac y mae yn rhaid i'r awdyr weyd ei fod yn profi athrylith a medr anarferol; a bod y bardd hwn yn gallu dadgan ei syniadau gyda nerth a newydd-deb na chyfyddir ond anaml â'u cyffelyb. Yn mhertrwydd ei syniadau naturioldeb ei gyfansoddiadau, y mae yn dwyn llawer o gyffwrdd rwydd i Ceiriog. Mae gwatwareg yn nodwedd arbenig ynddo, nid yw byth mewn mwy o brofedigaeth i ddefnyddio ei ryddid eithafoedd na phan yn dadleu dros Gymru, Cymry, a Chymraeg yr hyn sydd wedi cymeryd i fyny gryn bymtheg neu ychwaneg testunau. Nid allasai dim ond edrych ar ysbryd "Dic Siôn Dafydd" beri iddo ymostwng i alw dyn yn "asyn" ac yn "ful ynfyd." Yn yr un elfen ydoedd hefyd wrth ddyweyd,

"Tra bydd yn Arfon fryn,  
A chreigiau yn Eryri,

Ni chaiff scenion pur  
Yr hen Gymraeg ddystewi."

fwyaf a goreu, i'n tyb ni, yw "Y Môr," yr hon ei hunan  
hawlio lle uchel i'n hawdwr ymysg y beirdd, ac yn llawer  
gwerth y gyfrol hon, rhwng dau frawd. Rhoddwn i lawr  
ll olaf o wyth ar hugain, er mwyn i'r darllenydd weled y  
phrofi ei blas:—

'Clustfeiniwch, genedloedd, dyneswch, annuwiaid,  
Dyuoethwch eich clustiau—agorwch eich llygaid—  
Edrychwch,—gwrandewch ar leferydd y môr;  
Mae rhuad a murmur pob tôn yn cyhoeddi—  
Mae angerdd ei fynwes gynhyrfwyllt yn gwaeddi—  
Mawrygwch, addolwch, moliannwch yr Iôr!  
Cyflwynwch i'w enw ogoniant dyladwy,  
Ac ofnwch rhag ennyn ei soriant ofnadwy!"

yn y gyfrol hon amryw ddarnau ag y bydd yn dda genym,  
enad yr awdwr, eu gosod o bryd i bryd yn NHRYSORFA Y  
Rhaid ymfoddloni yn awr ar y tamaid canlynol:—

CODWCH Y PIN.

"Y pethau bach bach sydd o'ch hamgylch,  
Deilyngant eich sylw bob un;  
Gronynau bach bach wnant i fyny  
Gyfangorff y ddaear ei hun;  
A gwefus fach fach pob tywodyn  
A ddywed wrth ddyn:—  
Codwch y pin  
Ar y llawr sydd yn gorwedd,  
Oblegid gall hyn  
Fod yn gychwyn anrhydedd.

"Nid oes yn y byd beth mor fychan  
Nad all fod yn dad i beth mawr;  
Dechreuodd y dderwen lydanfrig  
Yn fesen fach fach ar y llawr.  
Mae corff tragywyddoldeb yn gorwedd  
Ar fynwes yr awr.  
Codwch y pin  
Ar y llawr sydd yn gorwedd,  
Oblegid gall hyn  
Fod yn gychwyn anrhydedd.

"Mae 'r hedyn bob amser yn fychan,  
Yr effaith a'r cynnyrch sydd fawr;  
Gall gweithred fach fach fagu gallu  
A dynai fynyddoedd i lawr;  
Gan hyny na wawdiwch y pethau  
Sydd fychan yn awr;  
Codwch y pin  
Ar y llawr sydd yn gorwedd,  
Oblegid gall hyn  
Fod yn gychwyn anrhydedd."

## DYDDANION.

## Y DDALLHUAN A'R ERYR.

**M**AWR, yw trallod rhai yn y terfysg presennol yn America, meddai H. W. Beecher, rhag dryllio y cyfansoddiad. Nid ydynt yn meddwl dim am adgyfodiad a rhyddid pedair mil-iwn o Negroaid. Rhwygiad y cyfansoddiad yn unig sydd yn eu blino hwy. Eisteddai dallhuan mewn pren i weled eryr yn deor ei wyau. O'r diwedd rhwygodd y plisgyn i ollwng yr eryr ieuanc allan; ac ysgrechai y ddallhuan, "Dyna'r ŵy wedi ei ddinystrio! wedi ei ddinystrio!" Beth mae yr eryr o fewn yn brisio am yr ŵy? a pheth yw y cyfansoddiad ond ŵy ysbryd rhyddid? Mae wedi ei ordeinio i ryddid; a phan mae yn cael ei rwygo i eryr Rhyddid gael dyfod allan, mae y dallhuanod yn ysgrechain. Adwaenant yr ŵy, ond nid adwaenant yr eryr.

## MEDDYGINIAETH I LYGAID GWAN.

**A**ETH dyn i mewn i ystafell gwesty yn ddiweddar, lle y dygwyddai fod cyfaill o Gwacer yn eistedd. Cododd y dyn yspectol oddiar ei lygaid i'w dalcen, dechreuodd rwbio ei lygaid cochion, galwodd am lasaid o frandi, a dywedai fod ei lygaid yn myned yn wanach, wanach, er'yspectol a chwbl. "Gwrando, gyfaill," ebai'r Crynwr; "fy meddwl i yw hyn, gosod di y spectol yna ar dy enau am fis, a bydd dy lygaid yn sicr o wellhau."

## ATEBIAD BYR.

**D**R oedd Henry IV. o Ffrainc yn hoff iawn o atebiad byr. Cyfarfyddodd unwaith âg offeiriad, a gofynodd iddo, "O ba le yr ydych yn dyfod? I ba le yr ydych yn myned? A beth yr ydych yn geisio?" Atebodd yr offeiriad ef, "O Bourges—i Paris—bywioliaeth." "Chwi a'i cewch," ebai'r brenin.

## DIALEDD ECHRYSLAWN.

**D**R oedd merch y tŷ yn blino hen lanc yn fawr wrth fod yn rhyëofn ar ei oil gwallt ef. Dyfeisiodd y dyn ffordd i ddial ar yr eneth, a llanwodd y botel o glyd (*glue*) ar brydnawn ag oedd y ferch wedi ei gwahodd i ball oedd yn y gymydogaeath. Aeth gwallt y ferch yn un *glotsen*, a gorfu iddi aros gartref. Yr oedd yn ddialedd echryslawn!



## TRYSORFA Y PLANT.

[XXXIV.]

HYDREF, 1864.

[Cyr. III.]

### Y FATH WAREDWR!

**SANCTAIDD!** “Yr Hwn ni wnaeth bechod, ac ni chaed tyll yn ei enau.” Am bwy arall y gellir dyweyd hyn? Yr ydym yn cael llawer yn bur ddymunol, yn hael a charu eu hymddyddanion. Y maent yn ofalus i beidio dyweyd anghyfiawn am eraill, ac yn ofalus i ymgadw rhag pob agosiad twyllodrus. Y maent yn rhydd, yn agored, ac yn garedig, ac yr ydym yn eu caru; ond nis gellir dyweyd am danhyn a ddywed y Bibl am Grist.

**ADDFWYN!** “Yr Hwn, pan ddifenwyd, ni ddifenwodd ei enau.” Am bwy y gellir dyweyd hyn? Mor naturiol i ni, ywedir rhywbeth drwg am danom, yw digio, a dyweyd cas yn ôl. Ond nid felly y gwnai Iesu Grist. Dyoddefll falais a gwaradwydd dynion, mor addfwyn, ac heb gysgu un achwyniad. Cernodiasant ef, poerasant arno, tarawant ef â chorsen, plygasant eu gliniau iddo mewn gwawd, a gant ef â drain, a hoeliasant ef wrth y groes. “Efe a gawyd, efe a gystuddiwyd, ond nid agorodd ei enau; fel arweinid ef i'r lladdfa, ac fel y tau dafad o flaen y rhai a'i gwynt, felly yntau yn fud nid agorai ei enau.” A fu erioed o honni?

**AMYNEDDGAR!** “Pan ddyoddefodd, ni fygythiodd.” Ni fygwth, a chyflawni ei fygythiad hefyd, pe buasai hyny

yn ei galon. 'Gallasai weddio ar ei Dad, yr hwn a roddasai yn y fan iddo "fwy na deuddeg lleng o angelion;" ond ni weddiodd am hyny. Goddefodd i'w elynion wneuthur iddo bobpeth a allai eu calonau drwg ddyfeisio, a'u dwylaw gyflawni, pan y gallasai gair o'i enau eu gwasgaru, a'u hyrddio i farwolaeth. A chymaint o amynedd y mae yn arfer yn awr atom ni! Mor fynych yr ydym yn pechu yn ei erbyn! Mor fawr ac mor lliwog yw ein pechodau yn erbyn yr Iachawdwr hollalluog ac amyneddgar hwn! Eto y mae yn goddef, ac yr ydym ninnau o hyd yn fyw.

**MOR DYNER!** "Corsen ysig nis tyr, a llin yn mygu nis diffydd." Pa le bynag y cenfydd yr amcan lleiaf at fyw yn sanctaidd, pa le bynag y clyw un ochenaid o dristwch duwiol am bechod, pa le bynag y gwelo y deigrin cyntaf o edifeirwch, a'r edrychiad cyntaf o ffydd ynddo Ef, yno, gyda'r tynerwch mwyaf, y llefara dangnefedd, a chysur, a gobaith. Pa faint sydd wedi ei gael yn noddfa mewn trallod, ac yn gymhorth hawdd ei gael mewn cyfyngder!

**MOR BAROD A MADDEUGAR!** Oni buasai, pa ddyd a gawsai ei achub? Mor annhebyg i ddyinion y mae yn hyn? Y mae yn anhawdd i ni faddeu i'r rhai sydd yn ein diystyru a'n drygu. Mae ein calon falch ni yn chwilio am gyflensdra i dalu drwg am ddrwg. Ond nid felly yr oedd Iesu Grist. Cymaint o gamwriaeth drygau a hyrddiwyd arno Ef! Ac eto gweddiad dros ei lofruddion, "O Dad, maddeu iddynt, canys ni wyddant pa beth y mae yn ei wneuthur!" Ac y mae yn parhau i faddeu i'r penaf bechaduriaid sydd yn troi ato. Dyma ei eiriau,—“Pwy bynag ddél ataf fi, nis bwriaf ef allan ddim.”

**MOR GARIADUS!** Mae yn dangos cariad at ei elynion a'i enidwr. Amcan mawr ei ddyfodiad ydoedd "ceisio a chadw yn hyn a gollasid," ac i wneyd hyny rhaid oedd rhoddi ei enaid yn aberth dros bechod. "Yr Hwn ei hun a ddŷg ein pechodau yn ei gorff ar y pren." "Efe a archollwyd am ein camweddau ni. Efe a ddrylliwyd am ein hanwireddau ni; cosbedigaeth ei heddwch ni oedd arno Ef; a thrwy ei gleisiau Ef yr iachawyd ni." Ac yn nghanol ei holl drallod a'i ddyoddefiadau, arosodd ei gariad at bechadur o hyd yr un. Gwelai "o lafur ei enaid" iachawdwriaeth "tyrfa nas gall neb ei rhifo," ac am hyny boddlonodd ddyoddef drostynt waradwydd ac angu. Y mae y cariad hwn yn para o hyd yr un yn ei fynwes—"yr un ddoe, heddyw, ac yn dragywydd." Dyma y cariad sydd uwchlaw gwybodaeth, na gellir ei amgyffred yn briodol nes cyrhaedd y nefoedd.

O bechadur, a elli di ddirmygu y cyfryw gariad? A elli dy gau dy glustiau ar y llais sydd yn ei gyhoeddi? A elli dy esgeuluso y llyfr sydd yn dyweyd am dano? Os gelli, mor fawr yw caledwch a drwg dy galon. Pa beth a elli ei ddysgwyl yn byd arall ar ol dirmygu y fath Geidwad?

Ystyria yn ddirifrifol dy gyflwr. Dyged Ysbryd Duw dy galu at droed y groes. Mae nerth yn ngwaed Crist i dy glirio, a't lanhau oddiwrth bob anwiredd; ac y mae parodrwydd yn ei fyn

chub hyd yr eithaf. "Gwaed Iesu Grist ei Fab ef sydd yn rhâu ni oddiwrth bob pechod."

Deuwch, bechaduriaid tlodion,  
Clwyfus, cleifion, o bob rhyw;  
Iesu 'n barod sydd i'ch derbyn,  
Llawn tosturi yw Mab Duw:  
Nac ammheuwch,  
Abl ac ewyllysgar yw.

## MURIAU A DARLUNIAU.

I hyfryd iawn yw darluniau ar furiau ystafelloedd. Mae naint o wahaniaeth rhwng ystafell â darluniau ar y mur ystafell hebddynt, ag sydd rhwng ystafell â ffenestri yn-ystafell heb ffenestr. Nid oes dim yn fwy digalon i ddyn aros llawer yn ei ystafell na muriau moelion. Mae darlun o borth i'r enaid i'w ollwng yn rhydd i olygfeydd a chylch-ail. Y mae y fath deimlad hapus i ddyn wrth godi ei yny, o ganol ysgrifenu neu ddarllen, i gael mynedfa rydd lwl, trwy ddarlun, i ganol golygfa brydferth, ac fe allai e y gall y dychymyg mewn moment grwydro, gwledda, vi, a dychwelyd wedi ymadnewyddu. Fel hyn mae dar-yn gysurwyr unigrwydd; yn ffenestri i'r meddwl yn ei ; yn llyfrau, yn hanesion, yn bregethau, y rhai y gellir eu heb y drafferth o droi y dail.

## Y PALAS ADFEREDIG.

"Wele, yr, wyf yn sefyll wrth y drws ac yn curo."

(EFELYCHIAD.)

**R**OEDD nos yn y palas, nos dywell a du,  
Y drysau dan foltau 'mhob 'stafell o'r tŷ;  
Dystawrwydd a thrymder deyrnasai 'n ddi fêth,  
Mor drist a diannedd edrychai pob peth.

Ei uchel 'stafelloedd gorwychion a chain,  
Oedd deilwng o'r dwylaw a weithiodd y rhai'n;  
Ond llwch a orchuddiai bob cerflun yn wir,  
A gwê y pryf copyn dros gornis a mur.

Ei rwydau ymhongient yn llychlyd a du,  
Dros nenfwd, a muriau, a drysau y tŷ;  
Ac yntau eisteddai o fewn yn ei ffau,  
Fel ellyll yn gwylio i faglu rhyw rai.



Darluniau angelion, mor hawddgar a glân,  
Oedd ar y cronglwydydd, yn fawr ac yn fân;  
Ond 'r oedd y ffenestri tua 'r nefoedd yn nghau,  
Pob ffenestr i'r ddaear agored y mae.

Yr haul, y gerddoriaeth, awelon yr ha',  
O'r gerddi uwch ben, i mewn yno nid ä;  
Tarth afiach ymdaena trwy 'i gonglau 'n ddi goll,  
Ac arogl marwolaeth wenwyna yr oll.

Daeth traed at y trothwy! Pwy sy mor ddi-sen?  
Mae gwên ar ei wyneb, a'r gwllith ar ei ben;  
Ei lais mwyn cariadus rydd fywyd yn wir,—  
Paham mor ddigroesaw caiff guro mor hir?

"Wele!" dywedai, 'r wy 'n sefyll fan hon,  
Yn curo am agor, yn gynhes fy mron;  
Mae 'mhen yn ddigysgod, mae 'r llwydrew yn ffin,  
Pam cedwir fi allan yn oerder yr hin?

O cyfod, gysgadur! mae 'r awr yn hwyrhâu,  
A f' amser i guro ymddirwyn y mae;  
Os dal wnei yn gyndyn heb wrando fy llef,  
Ni agorir i tithau mo ddorau y nef!"

Y bârau dan rygnu symudwyd yn glau,  
Cyffrôw'd y preswlydd i lon ufuddhâu;  
Dan grilliau'r rydlyd golynau oedd drwy,  
Y ddôr'a agorwyd, ni cheuir ef mwy.

*I mewn aeth y Dyeithr, a golen mor gry'*  
Ymlidiodd y t'wyllwch o bob parth o'r tŷ;  
Daeth glendid, hawddgarwch, a threfn i bob rhan,  
Preswylfa hyfrydwch fydd bellach y fan.

Mil henffych it', balas! mae 'th brudd-der ar ben,  
Ni welir d'ogoniant byth mwyach dan lèn;  
Hoff gartref wyt bellach pob cysur a dawn,  
Sain cân a gorfoledd fydd ynot yn llawn.

Mae CRIST yn y palas, ail ydyw i'r ne',  
Mae arogl ei wisgoedd yn llenwi y lle;  
Perarogl dwyfol o'r gwledydd fry yw,  
A gafwyd o ganol Paradwys fy Nuw,  
Perarogl holl flodau Paradwys fy Nuw.

### Y CWESTIYNAU GWOBWRWYEDIG.

19. **P**A ddyn y darniwyd ei wisg er hysbysu am ei ddyrchas  
dyfodol?  
20. Pa rinwedd a ganmola Solomon mewn dyn, sydd  
dangos ei berchenog yn beth nad yw?

BALCHDER DILLAD.

**R**ISTEDDAI bachgen bychan a merch unwaith ar y banc blodau, a siaradent yn falchaid am eu dillad.

“Edrychwch,” meddai'r bachgen, “y fath het newydd brydferth sydd genyf fi; y fath wasgod a throwser hyfryd; a'r fath esgidiau da; nid pawb all gael dillad mor wych a mi.”

“Y mae genyf fi, yn wir,” ebai'r ferch, “ddillad mwy prydferth na chwi; mae genyf fi het sidan, a phluen brydferth ynddi; ac y mae fy nillad oll wedi costio arian mawr.”

“Nid ydynt wedi costio cymaint, mi wn, ag ydyw fy nillad i,” ebai'r bachgen.

“Ust, ust!” ebai pryfyn distadl yn môn y clawdd gerllaw; “ni ddylai un o honoch chwi fod yn falch iawn o'ch dillad, oblegid ail-law ydynt oll; y maent wedi eu gwigo gan grëaduriaid ag yr ydych chi yn edrych yn isel arnynt cyn i chwi erioed eu cael. Mae yr het sidan yna wedi bod yn wisg i ryw bryfyn isel fel myfi cyn iddi ddyfod i'ch llaw chwi.”

“Dyna i chwi, Miss,—beth ddywedwch chi am hyna?” ebai'r bachgen.

“Ac am y bluen yna,” ebai aderyn bach oedd wedi disgyn ar gangen y pren gerllaw, “oddiar un o fy nhylwyth i y cymerwyd hona.”

“Beth ddywedwch chi am hyna, Miss?” gofynai y bachgen eilwaith; “ond am fy nillad i, ni wisgwyd hwy gan bryfed nac adar erioed.”

“Gwir,” ebai dafad oedd yn pori gerllaw, “ond buont am gefn un o fy nheulu i cyn dyfod erioed i'ch meddiant chwi. Ac am eich het, oddiar y *beavers* y cymerwyd defnydd hona; a lladdwyd y lloi a'r ychain o'r cae hwn, nid yn unig i chwi gaal eu cig yn ymborth, ond hefyd er cael eu croen i wneyd esgidiau i chwi.”

Gwelwch, ynte, y ffolineb i ni fod yn falch ar ein dillad, gan ein bod yn ddyledus am danynt i'r crëaduriaid iselaf! Ac er eu cael gan y crëaduriaid hyn, nis gallem wedi hyny eu defnyddio, oni bae i'r Arglwydd roddi doethineb i'w cyfaddasu i fod yn glydwch a chysur i ni.—*Cobbin*.



BYWYD PREGETHWYR.

**D**YWEDODD dyn unwaith wrth Dr. Johnson fod yn flin-gan-ddo na fuasai wedi mayned yn bregethwr, gan fod bywyd pregethwr yn fywyd esmwyth iawn. Rhoddodd y Dr. yr atebiad rhagorol a ganlyn iddo,—“Nid yw bywyd pregethwr cydwytbodol yn fywyd esmwyth. Yr wyf bob amser yn ystyried pregethwr yn dad i deulu mwy nag y mae yn abl gynnal. O, syr, nid wyf fi yn eiddigeddu wrth fywyd pregethwr, fel bywyd esmwyth; ac nid wyf yn eiddigeddu ychwaith wrth y pregethwr sydd yn ei wneyd yn fywyd esmwyth.”



## Y DDYLLUAN.

**M**AE y ddylluan ymysg yr adar yr hyn yw cath ymysg yr anifeiliaid. Un o adar y nos ydyw, ac y mae ei llygaid wedi eu ffurfio y fath fel y gall weled yn y tywyllwch. Gelwir y ddylluan yn “gyfaill y ffermwr,” oblegid ei bod yn dal y llygod sydd yn difa ei fyd ef; ac y mae y nifer o lygod y mae yn ddal braidd yn anghredadwy.

Cymerodd pâr o ddylluanod at dŷ colomenod unwaith yn Belfast, Iwerddon, a gwnaethant nyth o hono, a bu yno bedair o rai bychain. Cadwai yr hen adar yr astell yn ymyl y rhai bychain bob amser yn llawn o ymborth. Byddai yno weithiau gynifer a phyntheg o lygod ar gyfer cinio y dylluanod ieuainc. Cyfrifai person oedd yn gwylio eu symudiadau fod y teulu bron yn difa oddeutu saith ar hugain o lygod bob nos.

Mae y ddylluan yn ofalus iawn am ei chywion, ac yn ddewr i'w hamddiffyn. Cafodd brawd i'r ysgrifenydd o hyd i nyth dallhuan unwaith mewn hen geubren, yn ngodreu y “cae bach.” Wedi dringo y pren, a phan oedd yn dal un o'r cywion yn ei law, daeth yr hen aderyn fel ergyd i'w wyneb, a chyn pen hanner mynyd yr oedd wedi rhychio ei wyneb nes oedd ei ddillad yn orchuddiedig â gwaed. Rhedodd adref wedi ei ddychrynu, a pharodd ei olwg fwy o ddychryn fyth i'r holl deulu. Bu agos iddi dynu ei llygaid.

Er fod y ddylluan a'r gath ill dwy yn helwyr llygod, nid ydynt er hyny yn gyfeillgar. Daliwyd dylluan unwaith, a gosodwyd hi ar y bwrdd yn y gegin. Tra safai fan hono gyda golwg syn-fyfyriol, daeth Pws i mewn, a rhuthrodd ati yn y fan. Ond yr oedd llygad y ddylluan yn ei gwylio, ac yr oedd ar ei haden cyn i'r gath gyrhaedd pen y ford. Mewn moment yr oedd y ddylluan wedi suddo ei hewinodd yn ngwddf y gath. Rhedai y gath o gylch y tŷ, gan fewian mewn poenau arteithiol, a'r aderyn yn

gaeth yn fuddugoliaethus ar ei chefn, hyd nes y daeth un u i'w gwaredu.

y Bibl yn fynych am y ddylluan, fel un hoff o lochesu leocedd anghyfannedd. Gwel Job xxx. 29; Psal. cii. 6; Esa. ; a xxxiv. 11, 14, 15; Micah i. 8.

## GWEDDIAU Y BIBL.

**MIADWN** gasglu gweddiau y Bibl i'w gosod o flaen ein llenwyr yn eu TRYSORFA. Rhaid i ni adael Llyfr y Salm-o'r neilldu, am mai gweddiau yw hwnw y rhan fwyaf o Dyfynwn y gweddiau a gofnodir o eiddo personau unigol, n dros gyfnod mwy na dwy fil o flynyddoedd. Gweddiau o bob cylch a sefyllfa, ac wedi eu hoffrymu dan bob math lchiadan.

—*Gweddi Melchisedec dros Abraham.*—Gen xiv. 19, 20.

igedig fyddo Abraham gan Dduw Goruchaf, meddiannydd l a daear; a bendigedig fyddo Duw Goruchaf, yr hwn a dy elynion yn dy law.

—*Gweddi Abraham dros Sodom.*—Gen. xviii. 23—32.

yfethi di y cyfiawn hefyd ynghyd a'r annuwiol? Ond odid deg a deugain o rai cyfiawn yn y ddinas; a ddyfethi di hefyd, ac nid arbedi y deg a deugain cyfiawn sydd o'i

Na byddo i ti wneuthur y cyfryw beth, gan ladd y cyf-da'r annuwiol, fel y byddo y cyfiawn megys yr annuwiol; do hyny i ti; oni wna Barnydd yr holl ddaear farn? A dd yr Arglwydd, Os câf fi yn Sodom ddeg a deugain yn o fewn y ddinas, mi a arbedaf yr holl fangre er eu mwyn

Ac Abraham a atebodd, Wele yn awr y dechreuais lefaru Arglwydd, a mi yn llwch ac yn lludw. Ond odid y bydd n eisieu o'r deg a deugain cyfiawn; a ddyfethi di yr holl er pump? Yntau a ddywedodd, Na ddyfethaf, os câf yno deugain. Ac efe a ychwanegodd lefaru wrtho ef eto, ac edodd, Ond odid ceir yno ddeugain. Yntau a ddywedodd, aaf er mwyn y deugain. Ac efe a ddywedodd, O na ddig-Arglwydd os llefaraf; ceir yno ond odid ddeg ar hugain. a ddywedodd, Nis gwnaf, os câf yno ddeg ar hugain. Yna edodd efe, wele yn awr y dechreuais lefaru wrth fy dd; ond odid ceir yno ugain. Yntau a ddywedodd, Nis af er mwyn ugain. Yna y dywedodd, O na ddigied fy dd, a llefaraf y waith hon yn unig; ond odid ceir yno Yntau a ddywedodd, Nis dyfethaf er mwyn deg.

## BU FARW'N BUM' MLWYDD OED.

(JOHN, mab HUGH a MARGARET JONES, Ty'n y Gerddi, Ysbytty Ifan, yr hwn a fu farw Gorphenaf 4, 1864, yn bum' mlwydd oed.)

**L**WYFEDIG wyf, briwedig yw fy mron,  
 Gan hiraeth dwys, 'r ol i mi golli John;  
 Fy mhlentyn hoff, mor hawddgar oedd ei wedd,  
 Yn bum' mlwydd oed y torwyd ef i'r bedd.

Ni chlywaf mwy ei lais, na 'i hawddgar lef,  
 Ar lin ei fam, yn holi am y nef;  
 Mae 'n gwybod am ei heirdd balasau hi,  
 Oll erbyn hyn, yn llawer gwell na mi.

Ehedodd fry, o fynwes mam a thad,  
 I fynwes Duw i'r nefol hyfryd wlad,  
 Lle nad oes poen na thrymder gofid trist,  
 Ond môr di drai o hedd, yn nghwmni Crist.

Fe gaiff ei lwch ymguddio yn y glyn,  
 A'i enaid bach a wisg gyfiawnder gwyn;  
 Fe wawria 'r dydd, caiff ado llwch y bedd,  
 A chodi 'n fyw, i fyw mewn bythol hedd.

*Pont Paddock.*

CYHWAL

## RAB A'I GYFEILLION.

(*Parhad o tu dal. 205.*)

**A**M rai dyddiau yr oedd Ailie yn dyfod ymlaen yn dda. Yr oedd y clwyf yn gwella; y meddyg yn garedig, a'r efrydwyr yn dyfod i mewn yn fynych i'w gweled; ac yr oedd yn dangos ganddi hithau, meddai, weled eu gwynebau gonest. Ac yr oedd Rab yn o dawel, ac fel wedi deall nad oedd dim yn bod yn gwrthod am ddigofaint oddiwrtho ef.

Pedwar diwrnod ar ol tŷi y chwydd ymaith, cafodd Ailie gwrthod disymwrth a hir. Aethum ati yn fuan. Yr oedd ei llygaid yn rhy ddysglaer, a gwrthid yn ei boch. Yr oedd yn anesmwrth i chywilydd arni am ei bod felly. Yr oedd y *balance* wedi ei gwrthod a drwg wedi dechreu. Wrth edrych ar y clwyf, yr oedd gwrthod goch hwnaw yn hysbyŷu y dirgelwch. Yr oedd curiad ei gwrthod yn gyflym, ei hanadl yn fyr a phryderus; yr oedd yn meddai meddiannu ei hun, ac yn ffin o'r herwydd. Ceisiasom wrthod rhywbeth allenn. Gwhelai James bobpeth, ac yr oedd ymhob meddai nid oedd byth at y ffordd, na byth oddiarni. Yr oedd Rab wrthod neillduo dan y bwrdd, ac yn berffaith lonydd, oddigerth ei hysbyŷu yr hwn oedd yn gwylio pob symudiad i bawb. Aeth Ailie wrthod waeth; dechreuodd ei meddwl ddyrysu ychydig. Elai ei hysbyŷu chymynion i James braidd yn llym, a'i thŷon yn awdurdod.

Blinai James o'r herwydd, a dywedai, "Ni fu erioed fel yna o'r blaen; naddo, erioed! Deallai am beth amser fod dyryswch arni, a gofynai faddeuant yn barhâus. Ond colodd ei hun yn lân o'r diwedd. Canai ddarnau o emynau a Salmau, a chymysgai dameidiau o Salmau Dafydd, a geiriau rhagorach Mab ac Arglwydd Dafydd, gyda thameidiau o ialedi a chaneuon teuluaid.

Ni welais erioed beth mwy tarawiadol, neu, mewn rhyw ystyr, mwy dyeithr o brydferth. Ei llais crynedig, cyflym, serchog, awchus, Ysgotaidd,—ei meddwl cyflym, dŷrasedig, ei hymadroddion annealledig, ei llygad dysglaer a pheryglus. Rhai geiriau gwyllt, gofalon teuluaid, rhywbeth i James, enwau y meirw, galw ar Bab mewn llais cyffrous, hwnw yn neidio ar ei draed, yn synu, ac yn llythro ymaith, fel pe buasai rhyw fai arno, neu iddo freuddwydio. Llauer o gwestiynau ac erfyniadau taerion nad allai James a finnau eu gwneyd allan. Golygfa brudd, ond gwell na llauer o bethau nad elwir yn brudd. Hofrai James o gwmpas, yn ddigalon a thruenus, ond mor fywiog a manwl ag erioed. Pan gaffai Ailie fynyd o esmwythder, darllenai iddi dameidiau o Salmau, canai ambell emyn yn ei ddull hynod ei hun, gan ddangos medr rhyfeddol i ddewis geiriau pwrpasol i'r amgylchiad. Daliai i fyny fel dyn, a dotiai uwch ben ei "Anwyl Ailie." "Ailie, fy merch anwyl!"

Yr oedd y diwedd yn agosáu. Yr oedd y cawg aur yn tori; y llinyn arian yn prysur ymryddhâu, a'r ysbryd ar ehedeg ymaith. Y corff a'r enaid—cyndeithion am driugain mlynedd—yn cael eu gwahanu. Yr oedd yn rhodio wrthi ei huanan trwy lyn y cysgod hwnw, i'r hwn y rhaid i ni oll fyned rhyw ddiwrnod; ac eto nid oedd yn unig, o herwydd gwyddom gwialen â ffon pwy oedd yn ei chysuro.

Un noswaith yr oedd wedi syrthio i dawelwch, ac yr oeddem ni yn gobeithio i gwsg. Cauwyd allan y gas, ac eisteddasom i'w gwyllo. Yn ddisymwth cododd ar ei heistedd, cymerodd y bedgwn oedd ar y gwely, rholiodd ef i fyny yn sypyn, a gwasgodd ef yn dyn am ei bron ddehau. Yr oedd ei llygaid yn dyagleirio gan dynerwch a llawenydd pan yn plygu uwch ben y sypyn hwn. Daliai ef fel gwraig yn dal ei phlentyn sugno. Agorai ei *nightsien* yn brysur, gwasgai ef yn agosach, synfyfyriai uwch ei ben, dywedai eiriau bychain ffol wrtho, fel un y dyddanai ei fam ef, ac fel un a sugnai hyd ddigon. Yr oedd yn ffin edrych ar ei threm dreuliedig a marwol, a'i chariad difesur.

"Cadw fi!" gruddfanai James, gan ymollwng, tra yr ysgydwai hithau y sypyn dillad yn ei braich yn ôl a blaen, fel i beri iddo gysgu, ceisio ei ddystewi, a gwasgar arno anwyldeb diderfyn. "Och fi, Doctor," meddai James, "meddwl am y plentyn y mae, yr wyf yn sicr o hono!" "Pa blentyn?" "O, ein Mynie bach, ac y mae hono yn y Deyrnas er ys deugain mlynedd a chwanaeg." Yr oedd yn wirionedd eglur; y poen yn y fron yn adrodd ei stori angerddol wrth ymenydd dyryslŷd, a hono yn cael ei cham-ddeall. Awgrymai iddi hi fron anesmwyth gan lawnder o laeth,

ac yna y plentyn; ac felly unwaith eto yr oeddynt gyda'u gilydd, Ailie a'i hanwyl Mysie yn ei mynwes.

Dyma y diwedd. Suddodd yn gyflym. Gadawodd yr hurtwch hi. Wedi gorwedd yn dawel am ychydig, galwodd ar James, a rhoddodd edrychiad eraff, hir, ac angenol, yn ei wyneb. Trodd ei golwg i edrych am Rab, ond ni welodd ef; ac edrychodd eilwaith ar ei gwraig, fel pe buasai yn myned i sicrhâu golwg bythol arno. Ond yn y man, cauodd y llygad tawel, clir, a phrydferth, ac ymuniawnodd y ddynes ragorol i farw. Anadlai yn gyflym, ac aeth ymaith mor ddystaw, fel y gorfu i James gael drych i ddal o flaen ei genau i wybod pa un a oedd wedi myned ai peidio. "Beth yw ein bywyd? tarth ydyw, yr hwn sydd dros ychydig yn ymddangos, ac wedi hyny yn diflanu."

Yr oedd Rab yr holl amser yn gwbl effro, ond yn Honydd. Safai gyda ni wrth erchwyn y gwely. Yr oedd llaw Ailie, yr hon a ddaliai James, yn awr yn hongian i lawr, ac wedi ei gwlychu gan ei ddagrau. Llyfodd Rab hi drosti yn ofalus, ac wedi hyny dychwelodd i'w le dan y bwrdd.

Eisteddodd James a finnau am gryn amser—nis gwn pa faint, heb ddywedyd dim. Neidiodd James ar ei draed, cyrhaeddodd ei esgidiau trymion oedd dan y bwrdd, dododd hwynt yn drwsel ar ei draed, a thorodd y garai ledr wrth ei chyllymu, a dywedodd mewn cyffro, "Dyna beth na wnaethum erioed o'r blaen!"

Yr wyf yn credu na wnaeth hyny erioed, na byth wedi'n ychwaith. "Rab!" ebai, mewn llais garw, gan gyfeirio ei fys at draed y gwely. Neidiodd Rab i fyny, a sefydlodd ei hun yn y fan hono, a'i ben a'i lygad at wyneb y marw. "Aroschw yna, Maister John, nes dychwelaf," ebai y cariwr, a diflanodd yn y tywyllwch, gan daranu dros y grisiau gyda'i esgidiau trymion. Rhedais i ffenestr yn ngwyneb y tŷ, a chefais gipolwg arno yn llithro trwy porth fel cysgod.

Yr oedd arnaf ofn am dano, ac eto nid ofnwn ychwaith. Eisteddais yn lluddedig ar gadair yn ymyl Rab, a chysgais. Dihunwyd fi gan swm oddiallan. Yn mis Tachwedd ydoedd, ac yr oedd trwch o eira ar y ddaear. Yr oedd Rab wedi clywed y swm hefyd, ac wedi ei adnabod, ond nid oedd wedi syflyd o'i le. Edrychais allan, ac yn ngoleuni llwyd y wawr, gwelwn Jess a'r cart wrth y glwyd, a chwmwl o ager yn codi oddiwrth y gaseg. Gyda hyn yr oedd James wrth ddrws yr ystafell. Nid oedd teir awr o amser er pan aeth allan, ac yr oedd wedi bod yn Howgate—naw milldir o ffordd—a dychwelyd gyda'r gaseg a'r cart! Yr oedd ganddo lonaid braich o blancedi, ac yn llifo o chwya. Cyfarchodd fi âg ysgydwad ei ben, lledodd ar y llawr ddau bwrdd blancedi, wedi eu marcio ar y corneli â llythyrenau mawrion cochion, "A. G., 1794" (Alison Graham).

Galwodd Rab i lawr oddiar draed y gwely, cymerodd ei wraig yn ei freichiau, gosododd hi yn ofalus ar y plancedi, trodd y rheolwr o amgylch y corff, gan adael yr wyneb yn y golwg. Amneidiodd eto arnaf fi, cymerodd y corff yn ei freichiau, a chydag wyneb

penderfynol, ond truenus i'r eithaf, aeth i lawr y grisiau, a Rab yn ei ganlyn. Aethum innau â chanwyll ar ei ol, ond nid oedd ei heisieu arno ef. Aethum allan gan ddal y ganwyll o hyd yn fy llaw yn yr awyr oer rewlyd, ac at y glwyd lle yr oedd Jess a'r cart. Gallaswn ei helpu, ond gwelwn nad oedd i ymhel dim âg ef; yr oedd yn ddigon cryf, ac nid oedd eisieu help arno. Gosododd hi i orwedd yn y cart mor esmwyth a diogel ag y codai hi o hono ddeng niwrnod cyn hyny—mor dyner a phan gafodd hi gyntaf yn ei freichiau, pan nad oedd ond "A. G." Gadawodd y wyneb prydferth seliedig yn agored tua'r nefoedd; disgynodd, ac ymaffodd yn mhen Jess, ac aeth ymaith. Ni sylwodd arnaf fi, ac ni sylwodd Rab ychwaith, yr hwn oedd yn llywydâu o'r tu ol i'r cart.

Sefais fan hono nes iddynt fyned o'm golwg, a swn y cart golli o'm clust. Canlynai fy myfyrdod hwynt wedi'n, nes iddynt gyrhaedd eu cartref, pan welwn James a Jess yn sefyll o flaen drws eu tŷ, a'r blaenaf, wedi dadgloi y drws, yn cymeryd y corff yn ei freichiau, ac yn ei osod i orwedd ar ei wely ei hun; ac wedi gosod Jess yn yr ystabl, yn dychwelyd i'r tŷ gyda Rab, ac yn cau y drws arnynt.

Claddodd James ei wraig yn nghanol galar ei gymydogion, gyda Rab yn syllu ar y claddedigaeth o hirbell. Yr oedd eira ar y ddaear, ac edrychai y bedd yn dwll du annhrefnus, yn nghanol y llawrlen wên ddifrycheulyd. Ceisiai James edrych ar ol pob peth ei hunan, yn awr; ond cymerwyd ef yn glaf gan dwymyn yn ddisymwth. Cyn fod y meddyg wedi cyrhaedd, yr oedd ef wedi colli ei hun, a bu farw yn fuan. Yr oedd y bedd yn hawdd i'w agoryd. Yr oedd cawod o eira eto wedi gwneyd y cwbl yn wŷn a llyfn. Edrychai Rab ar y claddedigaeth hwn eto, a dychwelodd adref at Jess i'r ystabl.

Beth ddaeth o Rab? Gofynais am dano yr wythnos ganlynol i'r cariwr newydd oedd wedi cymeryd at fasnach James, ac at ei gaseg a'i gart. "Sut mae Rab?" Ceisiodd droi y cwestiwn heibio, ac atebodd yn sarug, "Beth sydd a fynoch chwi â'r ci?" Ond, yr oedd yn rhaid i mi gael gwybod. "Pa le mae Rab?" Wedi ychydig o wrido, a phenbleth, a thynu ei fysedd trwy ei wallt, dywedodd, "Wel, syr, mae Rab, yn wir, wedi marw." "Wedi marw! O beth y bu farw?" "Wel," ebai, gan wrido, "nid marw wnaeth, ond cael ei ladd. Gorfu i mi ei ladd gyda phigfforch, 'doedd yr un drefn i gael arno. Gorwedda i yn y preseb gyda'r gaseg, ac yr oedd yn anmhosibl ei gael oddiyno. Bum yn cynnyg pob math o fwyd i'w demtio allan, ond ni wnai na bwyta nac yfed. Ni chawn fwydo y gaseg heb ei fod yn chwyrnu ac yn cnoi fy nghoesau. Yr oedd yn ddrwg genyf orfod lladd yr hen gi, waith ni fu yr un cyffelyb iddo oddiyma i Thornhill; ond yn wir, syr, nid oedd genyf ddim arall i'w wneyd." Yr oeddwn yn ei gredu. Diwedd teilwng o Rab—buan a chyflawn. Yr oedd ei ddannedd a'i gyfeillion wedi myned; pwy allai ddysgwyl iddo gadw yr heddwch a bod yn foesgar?



## BACHGEN MEDDW Y FAM WEDDW.

TON,—“*Toriad y Dydd.*”

Doh D.

Cynghaneddiad PENCERDD GWALIA.

|   |                  |                                 |                                 |                                   |                     |                                 |       |
|---|------------------|---------------------------------|---------------------------------|-----------------------------------|---------------------|---------------------------------|-------|
| { | : l              | l : m                           | m : d <sup>1</sup>              | d <sup>1</sup> : t                | — : t               | l : d <sup>1</sup>              | t : l |
| { | : d              | d : d                           | d : d                           | r : r                             | — : r               | d : d                           | r : r |
| { | : m              | m : m                           | m : m                           | f : f                             | — : f               | m : m                           | f : f |
| { | : l <sub>1</sub> | l <sub>1</sub> : l <sub>1</sub> | l <sub>1</sub> : l <sub>1</sub> | se <sub>1</sub> : se <sub>1</sub> | — : se <sub>1</sub> | l <sub>1</sub> : l <sub>1</sub> | r : r |

|   |                   |  |     |        |        |        |                     |
|---|-------------------|--|-----|--------|--------|--------|---------------------|
| { | se :—             |  | : l | m :-.f | r :-.m | d :-.r | t <sub>1</sub> :-.t |
| { | t <sub>1</sub> :— |  | : l | m :-.f | r :-.m | d :-.r | t <sub>1</sub> :-.t |
| { | m :—              |  | : l | m :-.f | r :-.m | d :-.r | t <sub>1</sub> :-.t |
| { | m :—              |  | : l | m :-.f | r :-.m | d :-.r | t <sub>1</sub> :-.t |

D. C.

|   |                                 |                    |                   |                                      |                                 |                    |
|---|---------------------------------|--------------------|-------------------|--------------------------------------|---------------------------------|--------------------|
| { | l <sub>1</sub> : l              | l : se             | l :—              | : <u>d<sup>1</sup>.r<sup>1</sup></u> | m <sup>1</sup> : d <sup>1</sup> | d <sup>1</sup> : m |
| { | l <sub>1</sub> : l <sub>1</sub> | t <sub>1</sub> : r | d :—              | : <u>s.l</u>                         | s : m                           | m : m              |
| { | l <sub>1</sub> : f              | f : m              | m :—              | : d <sup>1</sup>                     | d <sup>1</sup> : s              | s : m              |
| { | l <sub>1</sub> : f              | r : m              | l <sub>1</sub> :— | : d                                  | d : d                           | d : d              |

|   |                                 |                    |                                 |                                 |                   |     |
|---|---------------------------------|--------------------|---------------------------------|---------------------------------|-------------------|-----|
| { | m <sup>1</sup> : r <sup>1</sup> | — : r <sup>1</sup> | m <sup>1</sup> : d <sup>1</sup> | d <sup>1</sup> : m <sup>1</sup> | r <sup>1</sup> :— | : s |
| { | f : f                           | — : f              | m : m                           | m : s                           | s :—              | : f |
| { | s : s                           | — : s              | s : s                           | s : d <sup>1</sup>              | t :—              | : s |
| { | t <sub>1</sub> : t <sub>1</sub> | — : t <sub>1</sub> | d : d                           | d : d                           | s <sub>1</sub> :— | : s |

|   |                                  |                     |                                  |                                  |                                 |                   |
|---|----------------------------------|---------------------|----------------------------------|----------------------------------|---------------------------------|-------------------|
| { | d <sup>1</sup> :-.r <sup>1</sup> | t :-.d <sup>1</sup> | l :-.t                           | s :-.t                           | d <sup>1</sup> : d <sup>1</sup> | -d <sup>1</sup> : |
| { | d :-.r                           | t <sub>1</sub> :-.d | l <sub>1</sub> :-.t <sub>1</sub> | s <sub>1</sub> :-.t <sub>1</sub> | d : m                           | r :               |
| { | d <sup>1</sup> :-.r <sup>1</sup> | t :-.d <sup>1</sup> | l :-.t                           | s :-.t                           | d <sup>1</sup> : l              | l :               |
| { | d :-.r                           | t <sub>1</sub> :-.d | l <sub>1</sub> :-.t <sub>1</sub> | s <sub>1</sub> :-.t <sub>1</sub> | d : l <sub>1</sub>              | f <sub>2</sub> :  |

|   |                   |                                      |                                 |                                 |                                 |       |
|---|-------------------|--------------------------------------|---------------------------------|---------------------------------|---------------------------------|-------|
| { | d <sup>1</sup> :— | : <u>d<sup>1</sup>.r<sup>1</sup></u> | m <sup>1</sup> : d <sup>1</sup> | d <sup>1</sup> : m <sup>1</sup> | f <sup>1</sup> : m <sup>1</sup> | — : r |
| { | m :—              | : <u>m.f</u>                         | s : m                           | m : m                           | r : r                           | — : s |
| { | s :—              | : d <sup>1</sup>                     | d <sup>1</sup> : s              | s : s                           | se : se                         | — : s |
| { | d :—              | : d                                  | d : d                           | d : d                           | t <sub>1</sub> : t <sub>1</sub> | — : s |

|                                 |                    |        |     |         |         |
|---------------------------------|--------------------|--------|-----|---------|---------|
| d <sup>1</sup> : t . l          | m <sup>1</sup> : l | l : se | : l | m : f   | r : . m |
| m : m                           | m : m              | m : —  | : l | m : . f | r : . m |
| l : l                           | l : l              | t : —  | : l | m : . f | r : . m |
| l <sub>1</sub> : l <sub>1</sub> | d : d              | m : —  | : l | m : . f | r : . m |

|           |                        |                    |                             |                    |   |
|-----------|------------------------|--------------------|-----------------------------|--------------------|---|
| d : . . r | t <sub>1</sub> : . . d | l <sub>1</sub> : l | d <sup>1</sup> . t : l . se | l : —              | — |
| d : . . r | t <sub>1</sub> : . . d | l <sub>1</sub> : d | r : r                       | l <sub>1</sub> : — | — |
| d : . . r | t <sub>1</sub> : . . d | l <sub>1</sub> : f | f : m                       | m : —              | — |
| d : . . r | t <sub>1</sub> : . . d | l <sub>1</sub> : f | r : m                       | l <sub>1</sub> : — | — |

Y weddw fam eisteddai yn bruddaidd iawn ei bron,  
 Yn hwyr y nos, yr hin yn oer, yn dysgwyl am ei John;  
 "R wy 'n cofio 'machgen (meddai) yn blentyn bychan tlws,  
 Ond 'n awr 'r wy 'n ofni 'i wel'd yn d'od yn feddw at y drws:  
 Duw a faddeno i mi os grwgnach wnaf ar gam,  
 Ond gwel'd fy mab yn feddw sydd yn tori calon mam.  
 Er i mi gladdu 'mhriod, fy mhlentyn bach ga'dd fyw,  
 Ond 'n awr 'r wy' mron a suddo i'r bedd, fy machgen meddw yw.

Os byddwn gynt mewn gofid, fe wylai f' anwyl John;  
 Ond 'n awr caf boeni hyd y bedd, fe chwârdda yntau 'n llon:  
 Mae 'r ddiød wedi pylu ei holl serchiadau i gyd,  
 Mae 'r hon a'i hymddyg ganddo 'n awr fel estron pena' 'r byd.  
 Y ddiød, O! y ddiød, sy 'n lladd fy machgen i,  
 Gwyn fyd na fyddai iddo lwrymwrthod byth â hi.  
 Grist'nogion, cynnorthwywch, trwy eich hesiamplau gwiw,  
 I helpu 'r gwan sy 'n gaeth i'w chwant i gadw John yn fyw."

E. R.

Liverpool.

Y DEG CYFAILL.

“ MOR falch y byddwn pe byddai genyf gyfeillion da i fy helpu i fyned ymlaen mewn bywyd,” meddai y seguryn Denis, dan lyfu gën.

“ Cyfeillion da!” ebai ei feistr; “ beth, onid oes genych ddeg o honynt?”

“ Nac oes genyf fi yn siŵr, ddim hanner hyny; ac y mae y rhai sydd genyf yn rhy dlawd i fy helpu.”

“ Cyfrifwch eich bysedd, fy machgen i,” ebai ei feistr.

Edrychai Denis yn syn ar ei law fawr nerthol.

“ Cyfrifwch hwynt,” meddai y meist, “fodiau a chyfan.”

“ Yr wyf wedi gwneyd—maent yn ddeg,” ebai y bachgen.

“ Yna peidiwch byth eto a dyweyd nad oes genych ddeg o gyfeillion galluog yn abl eich helpu ymlaen mewn bywyd. Mynwch weled beth all y cyfeillion cywir yna wneyd, cyn yr eloch eto i gwyno a grwgnach am na chaech help oddiwrth eraill.”



### CRANCOD Y TIR AR EU TAITH.

**P**LENTYN. Wel, wel, mam anwyl! llun pa beth yw y rhai hyn?  
*Mam.* Llun crancod, fy mhlentyn—a dyna nhw i'r dim hefyd, gan nad pwy a'u gwnaeth.

*Plentyn.* Pa le mae y crancod yna yn byw, 'mam?

*Mam.* Yn y môr y maent gyda ni. Ydych chiwi ddim yn cofio fy mod i yn eu dangos i chiwi yn y pyllau ar y traeth—y crëaduriaid hyny oedd yn myned i gyfeiriad eu hochrau?

*Plentyn.* Daliodd John ni un o honynt, 'mam, ydych chiwi yn cofio?

*Mam.* Ië, dyna fe; ond lluniau crancod y tir yw y rhai uchod. Y mae llawer iawn o honynt yn India y Gorllewin.

*Plentyn.* O, dywedwch rywbeth am danynt, 'mam?

*Mam.* Y peth rhyfeddaf sydd genyf fi i ddyweyd am danynt yw eu bod yn byw yn y mynyddoedd, ond bob amser yn myned i'r môr i ddodwy. Byddant yn cychwyn yn heidiau mawrion, ac yn teithio gyda'u gilydd, mor union a phe byddai y dyn mwyaf cyfarwydd yn eu harwain.

*Plentyn.* Beth pe byddai gwał fawr ar eu ffordd, beth wnelent wedi'n?

*Mam.* O, nid ydynt yn prisio am welydd na chloddiau, ond dringo drestynt yn amyneddgar. Mae afonydd yn fwy o rwystrau na gwelydd; ond byddant yn chwilio am y lle y bydd y dwfr yn

fwyaf bŷa, ac yn croesi yr afonydd oll yn eu ffordd. Cadwant yn wastad gyda'u gilydd, a byddant yn gorchuddio yr holl lawr yn eu llwybr. Y maent yn cadw trwst mawr hefyd wrth gerdded.

*Plentyn.* Pa faint o amser fyddant yn aros yn nglân y môr?

*Mam.* Oddentu chwech wythnos, yna dychwelant i'r mynydd-oedd eilwaith ar hyd y ffordd y daethant.

## HUW HUWS Y GO' YN YR YSGOL SUL.

“HUW Huwa, a ddowch chwi i roi tro ymhlith y plant yma!” gofyna yr arolygwr. “At y plant,” meddwn innau, “dof yn wir, gyda phleser.” Ac i'w mysig â mi yn ebrwydd. Wel, beth well ddymunwn i gael? Dyma i mi eu gwenau yn groesawiad. Wyddoch chwi beth, i mi peth uchel ei bris yw gwên plentyn. Gymaint o fathau o wenau sydd yn bod, onid? ond, o'r mathau oll, rhai y plant sydd fwyaf diffuant. Bendith arnynt! Yr wyf yn teimlo yn gynhes at Charles Dickens am iddo ysgrifenu fel hyn—“Yr wyf yn hoffi plant; ac nid peth bychan ydyw eu bod hwy, mor newydd o law Duw, yn ein caru ninnau yn ôl.” Yn sicr, can belled ag y gall hen ôf fel fi weled i mewn i'r natur ddynol, y mae yn rhaid i mi ddyweyd na chafodd cymdeithas plant eto ddim digon o lawer o sylw astudwyr y natur ddynol. Gan bwy y cewch chwi gymaint o ddifrifwch gwir, pur, â chan blant? A fynech chwi weled natur yn gweithio, nid yn gelfyddydol o goeg, o ffuantus—nid ynglŷn wrth druth, a ffol-yswildod, hunanoldeb, a gweniaeth dull y byd hwn; ond yn ddilwgr, digymysg, pur, ac argraff eglur natur arni, ag sydd yn lloni calon ac yn gloewi llygaid yr edrychwyr, yn ei gwneyd yn nesaf peth i anhosiblwydd digio wrthynt am eu hasbri, na pheidio eu caru am eu daioni a'u diniweidrwydd,—a fynech chwi weled hyn? Wel, ymaith â chwi i blith y plant. Yrwan, dyma enghraifft i'r pwrpas. Dacw fâchgen bychan yn yr ail ddoesbarth acw. Mae bywyd ac asbri ddigon ynddo; ond mae y ddau lygad sydd ganddo yn cyfeirio at galon fach â'i llon'd o serch a diffuantrwydd. Y Sabbath o'r blaen yr oedd yr hin yn wlyb, a'r bychan gyda'i *umbrella* fechan yn troedio tua'r ysgol. Mae yn ddamweiniol yn troi ei ben yn ôl. Mae yn gweled ei athraw yn ei ganlyn heb yr un *umbrella* ganddo. Ymaith â'r bychan i'w gyfarfod, a chyda'r moes swynol hwnw a fêdd plentyn, yn cynnyg rhan iddo o gysgod ei *umbrella* fach. A oes rhywun mor sych ag i wadu mai gŵr boneddig bychan natur ei hunan oedd y bachgen? Yn wir, wn i am neb yn y gymydog-aeth yma ag y byddaf fi mor hoff o'i weled yn troi i mewn i'r efail a'r bachgen yna. Gwŵr boneddig ydynt oll yn y dosbarth acw, mi goelia' i. A oes rhywun yn ammheu? Wel, 'does dim yn agos i fflyddyn o amser er pan oedd gŵr bach yr *umbrella* yna wedi bod oddicartref am wythnosau, ac ar ei ddychweliad i'w ddo-

barth, dyna hi yn ysgwyd dwylaw rhyngddo ef a'r gwŷr bach eraill—boneddwy'r pump oed! Anmheued rhywun yn awr.

Gallwn ddyweyd ychwaneg o ystorïau am y plant, pe bae amser. Ond gan fy mod yn bwriadu cael yr anrhydedd o ymweled â'r dosbeirth eraill, yn enwedig y dynion a'r merched ieuainc, a chael ymgom gydag ambell athraw, wrth gwrs, nid oes dim amser i'w golli. Heblaw hyny, difyrwch mawr i mi yw gwylio symudiadau y bechgyn acw. Pa fachgen? Hwn acw sydd y fynydd hon yn tynu y gwynebâu hyllion yna y tu cefn i'w athraw. Peidiwch gofyn ei enw; o leiaf, peidiwch a gofyn i mi. Ond os mŷn rhyw fachgen ofyn, wel gofyned, "Ai myfi yw?" Yrwan, rhag i ni gamddeall ein gilydd, fy meddwl i yw, na roddaf yr enw a gafodd gan eraill; ond ni chelaf yr enw a ennillodd efe ei hunan, a dyma fe,—

#### Y BACHGEN CHWAREUS.

Peidiwch a meddwl fy mod i yn ystyried y bachgen hwn yn un arswydus o ddrwg; ond nid wyf am i chwi dybio ychwaith ei fod yn rhagorol o dda. Wel, pa fath un ydyw ynte? Un fel hyn,—mae ei lon'd o chwareu. Am hyn y meddylia beunydd, ac nid oes dim a'i cyferfydd nad yw yn ceisio ei droi yn chwareu. Mae yr elfen chwareus hon yn ymwau drwyddo oll o'i ben i'w draed. Fel rhyw ysbryd, mae yn myned ac yn dyfod, weithiau yn y fan yma, yna acw, bryd arall ymwithia mewn moment i le arall. Sylwch! daew yr ysbryd yn dawnsio yrwan yn ei lygaid, a symuda mewn eiliad i chwareu o bob tu i'w enau; a deliwch chwi i sylwi, cewch weled ei fod yn ymhyfhâu, nes lledu y genau, ac o'r diwedd yn tori allan mewn chwerthiniad uchel dros y dosbarth! Mae yr athraw yn troi, a'i olwg yn hanner gwgs, hanner gofidus, ac yn ymholi pwy oedd y chwarddwr. Camp iddo allu caaglu pwy oddiwrth wyneb y bachgen yna! Oblegid, y mae yr ysbryd wedi ffoi yn llwyr oddiar y wedd, gan adael hono mor sobr,—O! sobr iawn. A mwy, y mae y gwŷr bach sobr yn edrych yn ymofyngar o'i singylch ar y lleill, fel pe ceisiai helpu ei athraw i gael hyd i'r chwarddwr! Pa le y mae yr ysbryd yrwan? Yn ei lygad, welwch chwi, o herwydd y mae cornel hwnw yn cau ac yn agor mor frysiog, fel mae yn rhaid mai wincio y mae! Heblaw hyny, mae dylanwad yr ysbryd yn mhenau ei fysedd, ac y mae y rhai hyny yn cosi y bachgen nesaf ato, ac yn ei fyw nis gall hwnw ymattal rhag chwerthin.

Wrth gwrs, y mae y bachgen yn dyfod i'r ysgol yn gyson; ond dyfod er mwyn y sport y mae. Nid gwiw-meddwl ei fod ef yn hysbys pa le y mae y wers, canys chwareu yr oedd pan orphenwyd gwrs y Sabbath diweddf. Efe a welir yn sefyllian y tu allan i'r capel tra bydd yr ysgol yn cael ei dechreu; a chyda'u bod yn cychwyn y gwersi, dyma fo yn dyfod â thrwst mawr, gan ystwffio ei gap i'w enau i guddio y cellwair. O ydyw, y mae yn fachgen sharp, fel y dywedir; ond, dyna y drwg—rhy sharp ydyw. Pwy mor fuan ag ef i waeddi "gwall!" pan fetha rhywun yn y dosbarth? Pwy, hefyd, mor ddiotal ag ef ynghylch bod'yn ddi-

i hunan? Dyma nhw yn canu. Yn awr, sylwch fel y mae y rth acw oll yn chwerthin. Yr achos ydyw ei fod ef yn ffugio r y dôn, ac yn drwgleisio un arall â gwyneb digrifol i'r eithaf. I na fydd efe yn llonydd tra byddant yn gweddio. Llonydd! fe yn prysur bigo y nesaf ato, yn ysgwyd y fainc hyd nes y lleill mewn perygl o fyned ar eu trwynau drosti; a rhag ei rdd, y mae yn tynu gwyneb hir, ac yn ffugio teimlo oddiwrth ti, a thrwy hyny yn rhwystro i'r lleill deimlo dim. Llawer i y bu ei athraw yn ysgwyd ei ben yn drist wrth son am gan ddystaw obeithio y daw tro arno. Dal ato, athraw, ac ta ei achos o flaen gorsedd gras, ac fe ddaw tro! Un cyffelyb edd Dr. Carey, y cenadwr! Ai nis gwyr y bachgen yna mai iddrwydd a weddai i dŷ yr Arglwydd? Gwrandawed beth atebiad Gwyddel bach yn Ysgol Garpiog Llundain, pan yd iddo beth oedd sancteiddrwydd. "Bod yn lân oddifewn," bychan. Diwygied y bachgen chwaraeus yna, a chofied, pan iesaf ei ddillad glân goreu am dano, fod Duw yn gofyn iddo *lân oddimewn.*

Huw Huws.

### CERDYN Y PREGETHWYR.

ETH fyned trwy Fangor ddoe, cefais anrheg gan Mr. Edmunds\* o gerdyn tlws yn cynnwys lluniau pedwar ugain o Weinidogion y Cyfundeb, ac yr oeddwn yn agos a bod yn ffeindio fy hun, "y llai na'r lleiaf" ymhlith y fath dorf o anrhydeddus. Nid yw yn beth cyffredin i ymadael âg anedi ei chael, ond rhaid cyfaddef i mi deimlo rhyw gymaint unymwadiad pan yn meddwl am y Cenadwr ffyddlawndaw, a phenderfynais anfon yr anrheg yn anrheg iddo ef, ybod y bydd gweled ar unwaith y fath liaws o wynebau ion anwyl yn gysur iddo ef a'i briod hawddgar yn eu hunigraw ymhell yn eithafion Finesterre. Ac am fod y brawd Williams yn ddarostyngedig ar brydiau i deimladau prudds, anfonais gyda'r Cerdyn y rhigwm canlynol i'w ddifyru ar felly. Mae yn bosibl y carai y lliaws plant sydd yn derbyn versi buddiol bob mis glywed beth a anfonwyd gyda'r llundyma y llinellau, fel y maent, at eich gwasanaeth chwi a'ch iawyr ieuainc.

Wela dyrfa o bregethwyr,  
O'r Gogleddbarth a'r Deheudir;  
Enwog iawn fel gweinidogion,  
Nesaf peth i Apostolion.

John Elias, Rees o Lerpwl,  
A "Llwynffortun" hawddgar, anw'l;

se yn debygol y gallir cael y Cerdyn hwn wrth anfon at Mr. ds, Upper Bangor.

Thomas Richards, William Morris,  
Dyma ddyinion duwiol, dawnus.

Dacw 'r Doctor mwyn o'r Bala,  
A'r hen Ddafydd Rolant 'smala;  
Charles a Parry, hoff athrawon,  
Ac aml un o'u hen ddysgyblion.

William Roberts o dref Amlwch,  
Cawr Llanllyfni mewn prydferthwch,  
Phillips Bangor, Jones Caernarfon,  
Wyth o Huwsiaid, eithaf ffyddlon.

Lumley, Matthews, Levi; Harris,  
Williams, Howells, Evans felus,  
Thomas Edwards, William Prytherch,  
Llawer Jones heblaw "Blaenauerch."

David Saunders, William Howell,  
Joseph Thomas, araf, tawel,  
Williams, Pritchard, Griffith Parry,  
A George Williams o Dyddewi.

Robert Roberts o Langeitho,  
David Davies o Benmachno,  
Thomas John, y seren wibiog,  
Rees a Williams o Frycheinog.

Roger Edwards y Golygwr,  
Edward Morgan y pen casglwr,  
"Llai na 'r lleiaf" 'mysg y lluniau,  
Gwelir wyneb "dyn y Biblau."

Dafydd Edwards, Jenkins Babell,  
Islwyn brydydd, nid yw nebpell,  
D. Charles Davies, Thomas Llundain,  
Mills y teithiwr, — 'n awr 'r wy' i'n gorphen.

*Henffordd.*

T. PHILLIPS



### DYFENDER Y PWLL

**D**ETH milwr yn ddiweddar gyda glöwr i lawr i bwell glo, i well  
y gwaith tanddaearol. Dyn annuwiol oedd y milwr, ac y  
oedd yn cablu a rhegu yn barhaus. Wrth ddyfod i fynd  
dywedai yn rhyfygus wrth ei gydymaith, "Mae y pwll yn ddy  
chrynlyd o ddwfn! Os yw gwaelod eich gwaith chwi mor bell  
rhaid fod uffern ymhell iawn." Y dyn, wedi blino ar ei rhyf  
a'i gabledd, a ddywedodd yn ddirifol wrtho,—"Syr, pe dygwyt  
i'r rhaff hon dori, byddai eich henaid wedi cyrhaedd uffern ma  
gynted ag y byddai eich corff wedi cyrhaedd gwaelod y pwll  
Gyrod y gair hwn arswyd trwy ei holl guawd, gan nad beth f  
y canlyniad.

Ddarllenydd! wrth raff fain y mae dy fywyd di yn crogi; i  
torai heddyw, i ba le y disgynit?



GWEDDNEWIDIAD CRIST.

chwe' diwrnod y cymërth yr Iesu Pedr, ac Iago, ac Ioan, dŷg hwynt i fynydd uchel o'r neilldu; ac efe a weddwyd yn eu gwydd hwynt. A'i ddillad ef a aethant yn ganaid iawn fel eira; y fath ni fedr un panwr ar y llanu. Ac ymddangosodd iddynt Elias, gyda Moses (ac yn ymddyddan â'r Iesu.—MARC ix. 2—4.



EDWARD A'I GYDYSGOLEIGION.

Bachgenyn yn ymyl gwely anghu ei dad yn gwrando tud ar ei eiriau. "Fy mab," ebai'r claf, "rhaid i mi ael yn fuan. Ymdrecha gysuro dy fam, a bydd iddi serchog. Ar ol fy marwolaeth ti a symudi i Exham, i ti fyned i ysgol y pentref. Bydd yn ufudd i dy aredig a gostyngedig i dy gymdeithion. Edward, yr eru y gwnei addaw i mi na wnei byth ymladd. Adnanesyn blin. Pan aethum i'r ysgol, yr oedd yn cael yn nôd o anwroldeb i beidio ymladd, ac ymladdai aml â brodyr. Y pryd hwnw yr oedd genyf frawd ach, ond heb fod mor gryfed a myfi. Gosododd y i ymladd. Myfi oedd y gŵr goreu, oblegid tarewais frdanu. Ni wellhäodd byth oddiwrth ganlyniadau yr wrth ei hebrwng ef i'w gynnar fedd, teimlwn fel pe di ei lofruddic, a darfu i'r meddwl hwnw chwerwi o'm bywyd."

yr wyf yn addaw i chwi," ebai y bachgen yn wylofus. thyn bychan hardd ar *Exham Green*, ac yno y symuddw a'i mab. Yr oedd dyddiau cyntaf Edward yn yr



ysgol yn debyg i ddyddiau cyntaf plant yn gyffredin—yn dra anghysurus, ac yr oedd yn falch o galon pan ddeuai amser chwaraeu. Rhedodd at dŵr o fechgyn oedd ar y pen arall i'r green, a gwelodd un bachgenyn yn sefyll ar grug o geryg, tra y safai un arall gerllaw iddo gydag wyneb sarug, ond yn ceisio ymddangos yn sobr, gan ymrymu yn achlysurol, ond yn dyweyd dim. Un edrychiad a argyhoeddodd Edward pwy yr oeddynt yn ei ddywarded. "I'r dim!" chwarddai allan yr edrychwyr. "Rhagorol, Dick!" Aeth Edward yn gyffrös iawn, a theimlai awydd i daro Dick, ond cotiodd ei addewid. Pan aeth Edward i'r playground drannoeth, clywai sibrwd uchel, "Dyma fe, 'nawr am dani." Safodd Edward. "De'wch ymlaen," ebai y bechgyn, "yr ydym am gael gweled pa-fath ymladdwr ydych yn debyg o wneyd."

"Nid ymladdaf byth," ebai Edward, "dyma fi yn dyweyd yn awr unwaith am byth wrthych."

"Coward," gwaeddai y bechgyn, "coward; y mae ofn arno." Teimlodd Edward, er na ddangosodd hyny, fod eisieu mwy o wr-oldeb i wrthod nag i ymladd; ond yr oedd yn wroldeb tra gwa-hanol a llawer iawn gwell. Gall llawer feddiannu gwroldeb corff-erol, ond ychydig mewn cymhariaeth all arfer gwroldeb moesol.

Aeth diwrnodau ac wythnosau heibio, a theimlodd Edward anhawsdra mawr i beidio blino ei fam a'i brofedigaethau. Taer annogodd rhai o'r bechgyn ef yn garedig i ymladd, gan ddyweyd y buasai yn fuan yn sefydlu ei gymeriad. Hwn ydoedd y caletaf o bob peth iddo wrthsefyll; ond daliodd yn ddiysgog. Ei hoff ddymuniad ydoedd gallu rywbyrd neu gilydd gymhell ei gym-deithion i roddi fyny ymladd yn gyfangwbl.

Dick Hardman ydoedd ei brif boenydiwr. Boreu, prydawn, a hwyr, y clywai o enau hwn y gair "coward," ac nid allasai lai nag ymholi a oedd yr aflonyddwch hwn i barhâu byth. Cyn hir cafodd gyflūsdra i brofi ei fod yn ddiffygiol mewn gwroldeb corfferol.

Yr oedd James Renton, y bachgen mwyaf nwydwyllt yn yr ysgol, yn curo un bachgenyn bychan yn ddirugaredd, yr hwn trwy ddamwain a ollyngodd ei bêl i'r dŵr.

Gwelodd Edward na wnai geiriau y tro, a safodd o flaen y bachgenyn ac a'i hamddiffynodd rhag llawer o ergydion trymion. Cynhyrfodd ei gyfryngiad ar y cyntaf James Renton yn fwy, ond pan ganfu nad oedd ei ergydion yn cael eu dychwelyd, rhoddodd yr ymladd i fyny yn fuan.

Wedi yr ysgol, yr oedd yr holl fechgyn yn awyddus am wybod a phwy yr oedd Edward o'r diwedd wedi ymostwng i ymladd.

"A neb," oedd ei atebiad.

"Gwrandewch arnaf," ebai James Renton; "yr oeddwn bore heddyw yn curo Tommy Wilson bach; gallaswn ei ladd, oblegid nid oeddwn yn gwybod beth oeddwn yn ei wneyd." Safodd Edward rhyngom. Ni tharawodd fi; ond yr wyf wedi fy argyhoeddi nad coward ydyw, a byddaf o hyn allan yn barod i guro rhyw un a'i galwo felly. Yr wyf yn gyfaill iddo 'nawr; byddaf felly mwy."

"Diolch i chwi," ebai Edward.

"*Turncoat*," gwaeddai'r bechgyn.

"Af gyfla chwi at eich mam," ebai James, "rhag ofn iddi greu i chwi fod yn ymladd. Fe allai y dywedwch wrthyf ryw ddiwrnod pabam yr oeddech mor wrthwynebol i ymladd."

Dywedodd Edward yr addewid a wnaeth i'w dad pan yn marw, a hefyd ei ddymuniad am allu trwy rhyw foddion dueddu y bechgyn i roi heibio ymladd.

Yr oedd y noson hono yn oer a thywyll. Tua hanner nos dychrynwyd y pentref gan y llef "Tân." Yr oedd tŷ y ffermwr Hardman wedi ei orchuddio â ffamau. Tynwyd un ar ol un o'r teulu allan nes oeddynt oll yn ddiogel oddieithr Dick. Pa le yr oedd ef? Och, yr oedd yn cysgu yn y *garret*, ac ni feddyliodd neb am ei ddihuno. Dygwyd ysgol yno, ond ni feiddiai neb ei hegyn. Cyn hir daeth bachgenyn ymlaen, ac er syndod i bawb, dringodd yr ysgol i fyny. Cyrhaeddodd y ffenestr a diflanodd yn y mwg. Ychydig eiliadau o ddysgwyliad pryderus, ac ymddangosodd drachefn yn llusg allan y bachgen hanner mygedig. Adfywiodd yr awyr Dick, a rhoddodd iddo nerth i ddisgyn. Ond pan gyrhaeddodd Edward (oblegid efe ydoedd) ffon ganol yr ysgol, rhoddodd y trawst yr hon a'i daliai ffordd, a hyrddiwyd ef i'r llawr.

Awn heibio yr wythnosau o ddyoddef a ganlynodd y ddamwain; digon yw dyweyd iddo fod yn gloff am ei oes. Ymhlith ei gyd-ysgoleigion, yn lle cael ei ddirmygu megys "*coward*," cafodd yn awr ei sawrygu megys gwron, ac yr oedd diolohgarwch Dick yn ddiderfyn. Rhoddodd James Renton wybod ei reswm, a'i ddymuniad ar fod i'r holl ymladd rhwng y bechgyn gael ei roddi i fyny. Ar ei ddychweliad i'r ysgol, cyfarchwyd Edward â thair banllef "*Hwre!*" Arweiniodd ei gymdeithion ef i'r ysgoldŷ, lle yr oedd yn grogedig ar y mur benderfyniad i ddiddymu yr ymladd. Yr oedd wedi ei arwyddo ganddynt oll; yr oedd enwau rhai yno mewn llaw fân gywrain, ac eraill mewn llaw fawr Gron. Torodd Edward i wylo. Daliodd yr holl ddyoddefiadau oddiwrt h y bechgyn heb wylo deigrin, ond nis gallai ymatal yn awr.

"A ellwch chwi faddeu i ni am ein hangharedigrwydd?" ebai y bechgyn.

"Mi anghosaf y cwbl ond hyn," oedd yr atebiad.

"Ymdrechwn wneyd i fyny am yr hyn aeth heibio trwy ein caredigrwydd i chwi yn y dyfodol."

Tri dedwydd fu James Renton, Dick Hardman, ac Edward; ac wedi pedair blynedd o gyfeillgarwch diysgog, yr oedd yn orchwyl caled eu gwahanu: James a Dick i gael eu prentisio yn y trefydd cyfagos, ac Edward i barotoi ei hun i fod yn ysgolfeistr.

Aeth blynyddoedd heibio. Bu gan Edward ysgol lwyddianus am beth amser yn nyffryn prydferth Alton. Nadolig ydoedd. Yr oedd ei hen fam wedi marw, a theimlai ei hun yn unig iawn fel y cymerai ei ffyn baglau i fyned i ymweled â'i bedd. Wrth ddychawelyd, pwysodd yn erbyn hen dderwen, gan feddwl

am gynifer o deuluoedd dedwydd a ymgyfarfyddent ar y Nadolig. Yn sydyn clywai lais yr hwn a ddisgynodd ar ei glust fel adsain o'i febyd. Nid dychymyg ydoedd. Safai Dick Hardman o'i flaen, gan arwain yn ei law blentyn, delw o hono ei hun.

"Dyma ddysgybl newydd i chwi wedi ei enwi er eich mwyn," ebai, gan gofleidio ei gyfaill.

"Paham yr ydych yn wylo, 'nhad?" gofynai y bachgen, wrth weled dagrau yn llygaid ei dad; "a beth ydyw yr achos fod fy meistr yn gloff?"

"Dywedwn 'stori hir wrthy ch am hyn rhyw dro, Neddy. 'Nawr am y newyddion anwyl, Edward. James Renton, yr ydych yn ei gofio ef; wel, y mae efe a minnau yn 'partners,' a byddwn yn dechreu masnach yn fuan yn y dyffryn hwn. Y mae efe yn aros yn eich tŷ; ond meddyliais i y gallaswn gael gafael arnoch yn rhywle o gwmpas; felly daethum i a Neddy allan i ddysgwyl am danoch. De'wch, gadewch i ni gael Nadolig llawen, a go-beithio am gael cydgroesawu llawer blwyddyn newydd dda."

J. W.



### "TASAI DIM DY' SUL."

**M**AE y cydymddyddan canlynol yn awgrym eglur y dylem ofalu am waith cyfreithlawn a difyr i'r plant ieuangaf ar y Sabbath, hyd yn nŵd pe byddai raid i ni ymwadu â'n mwyniant ein hunain.

Yr oedd teulu yn treulio hwyr Sabbath gyda'u gilydd ar yr aelwyd gartref, a'r rhan fwyaf yn darllen eu llyfrau, a'r rhai lleiaf dan siars i fod yn ddystaw. Yr oedd yno fachgenyn bychan penfelyn, cyrliog, wedi bod yn treio cael siarad â'i fam, â'i frawd, ac â'i chwaer, ond yr unig ateb a gai ydoedd, "Ust! peidiwch siarad."

Yr oedd y plentyn yn bur aflonydd, ac yn y man clywodd ei fodryb ef yn dyweyd, wrtho ei hun,

"B'asai'n yn dda gen' i tasai Duw heb 'neyd dim dy' Sul!"

"Beth, Charlie?" ebai ei fodryb; "oeddwn i yn meddwl fod ya dda genych fyned i'r Ysgol Sul."

"Ydy, mae'n dda gen' i fyn'd i'r Ysgol Sul," ebai'r plentyn; "tasai Duw heb 'neyd dim nos Sul, o'wn i'n feddwl."

"Pam, Charlie? Yr oeddwn i yn meddwl mai dyma y darn melusaf o'r dydd."

"Nid yw yn felus i fi," ebai'r plentyn. "Gallaf fi ddim darllen, a chaf fi ddim siarad â neb, a wnaiff neb siarad â fi. Mae Nelly yn myn'd i gysgu; a phan o'wn i yn myned i chwareu â'r cwn, gyrwyd hwy allan, am eu bod yn cadw stŵr. 'Chaf fi 'neuthur dim; buasai yn dda gen' i tasai dim nos Sul!"

Mae yn greulondeb at blentyn i'w gaethiwo mewn dystawrwydd a segurddod felly, heb ddim i'w wneyd. Pan gymerodd ei fodryb ef ar ei glin, ac adrodd hanes Joseph a Daniel, a'r llanciau yn y ffwrn wrtho, yr oedd ei llygaid llon yn gloewi, a'i galon fechan yn orlawn.



WILLIAM A MARY.

brenin a brenines yn teyrnasu ar Loegr yr un amser, am ym' mlynedd—o 1689 hyd 1694—sef William a Mary. Mab ydoedd William i dywysog Orange, tywysogaeth fechan heubarth Ffrainc, a nai i James II. o Loegr. Mary, ei briod, oedd ferch i James II., a chwaer y frenines Anne. Yr oedd am yn un o'r dynion mwyaf fu yn gwisgo coron Lloegr, ac yn da iawn. Yr oedd Mary hefyd yn un o'r gwrageddaf a duwiol a rhinweddol, ac yr oeddent yn caru eu gilydd yn

Mary farw yn ieuanc; ond os mai ychydig oedd ei blynydd-yr oeddent yn orlawn o helbulon. Pan oedd William yn y byddinoedd i ymladd yn Holland ac Iwerddon, yr oedd y deyrnas ar ysgwydd Mary, a hyny ar yr adeg fwyaf berygl-welodd y wlad. Yr oedd ei thad yn alltud yn Ffrainc, a'i er wedi tramgwyddo wrthi; nid rhyfedd i galon ddewr am ddiffygio wrth gollu y fath wraig ar y fath adeg.

Merwyd hi yn glaf o'r frech wên, yr hon oedd yn ffyn yn dain ar y pryd, a bu farw ymhén wythnos, Rhagfyr 28, 1694, a mlwydd oed. Eisteddai William ddydd a nos wrth erchwyn rely. Rhedai y dagrau yn hidl dros y wyneb gwelw nad goruchafiaeth na siomedigaeth un amser yn abl ei ysgogi. Oedd amryw esgobion yn yr ystafell. Galwodd William ar yr ab Burnet y naill ochr, rhoddodd ffordd i'w deimladau, a rhodd, "Nid oes obaith. Myfi oedd y dyn dedwyddaf ar y ar; ond yn awr myfi yw y truenusaf. Nid oedd un bai li, dim un. Adwaenech chwi hi yn dda; ond nis gallasech na neb arall wybod ei daioni." Yr oedd ei chlod am ei rhin

weddau a'i duwioledeb trwy yr holl wlad. Claddwyd hi yn nghapel Henry VII., yn Westminster Abbey. Yn ol awgrym a dymuniad Mary, ar ddychweliad lliaws o glwyfedigion o frwydr fuddugoliaethus La Hogue, trôwyd y palas breninol yn Greenwich yn fath o ysbyttŷ i'r cyfryw. Cofiwch, os byddwch yn talu ymweliad â gadeilad ardderchog Greenwich Hospital, mai colofn goffiad wriaethol ydyw o rinweddau y frenines enwog, Mary II., o gariad a hiraeth ei gŵr, ac o fuddugoliaeth La Hogue.

CAN GYNNAR YR ADERYN.

(Wrth glywed yr aderyn yn canu ar fore teg yn niwedd y gauaf.)

**A**DERYN bychan mwyngu,  
Mor gynnar wyt yn canu,  
Braidd cyn i'r gauaf gefnu,  
A chyn i'r gwanwyn wenu,  
Heb flodau na briallu,  
Ti 'm swyni â dy gân.

'Waeth i mi ddyweyd na chelu,  
Yr wyf yn eiddigeddu  
Na fedrwn innau ganu,  
A lleisio mor fwyneiddgu,  
Nes swyno pawb o'm deutu,  
Fel ti, aderyn mwyn.

Dy dôn sydd yn hysbysu,  
Fod dyddiau haf yn nesu;  
Ond ofni 'r wyf cyn hynny,  
Daw gwynt a gwlaw ac oerni,  
Ac i ba le pryd hynny  
Yr ai, aderyn bach!

Daw eira dros y dyffryn,  
A barug ar bob brigyn,  
Ac iâ dros graig a chlogwyn,  
A chilia dyn i'w fwthyn,  
Am hynny, gad im' ofyn,  
Aderyn, p' le 'r ai di!

A gaf fi ofyn iti,  
Os daw yn rhew ac oerni,  
A ddoi di i gael lletŷ  
Mewn 'stafell fach o'r neilldu,  
Lle na bydd dim i'w ofni,  
O fewn fy mwthyn i!

Cei loches gynhes felly,  
A thamaid pan y myni,  
Pan fyddo 'r gwynt yn chwythu,  
A'r eira dros y perthi,—  
Cei wlychu 'th big pryd hynny,  
A chanu ar dy glwyd.

DOSBARTH Y BIBLAU.

**M**ATTHEW.—PENNOD XX.—1. Beth yn y bennod flaenorol fu yn achlysur i lefaru y ddammeg yn nechreu hon, a pha beth yw y prif wirionedd a ddysga?

2. Beth a feddylir wrth yr oriau gwahanol ymha rai y cyflogid y gweithwyr?

3. Pwy oedd y grwgnachwyr (adn. 11)?

4. Beth yw ystyr y cwestiwn, "A yw dy lygad di yn ddrwg am fy mod i yn dda?"

5. Sut yr esboniwyd y "galw" a'r "dewis" yn adn. 16?

6. Pa daith i Jerusalem ydoedd hon (adn. 18)?

7. Pa sawl gwaith y rhaghysbysodd Crist am ei ddyoddefiadau a'i farwolaeth?

8. Pa beth oedd cynnwys cais mam meibion Zebedæus?

9. Beth a feddylia Crist wrth fedydd yn adn. 22?

10. Paham yr oedd Crist mor ofalus dros ystod ei holl fywyd am briodoli pob gallu ac awdurdod i'w Dad?

11. Pa anghysoudeb ymddangosiadol sydd yn hanes y deillion ar fin y ffordd fel y rhoddir hi gan Matthew a Marc?

12. Pa sawl dall y mae hanes genym i Crist agoryd ei lygaid, a beth oedd y moddion gwahanol a arferai i'w hagoryd?

PENNOD XXI.—1. Nodwch sefyllfa ddaearyddol Jerusalem, Mynydd yr Olewydd, Bethphage, a Bethania?

2. Paham y gelwir yr eglwys, neu ddynion duwiol, ar yr enw Sion (adn. 5)?

3. Pa amser y marchogodd Crist i Jerusalem, a pha beth oedd y mynediad anarferol hwn ar yr asyn yn arwyddocâu?

4. Rhoddwch ddesgrifiad o'r deml, a'r lle yr oedd yn sefyll arno.

5. Paham yr oedd masnachwyr yn newid arian, ac yn gwerthu colomenod, yn y deml, mwy na rhyw fasnach arall?

6. I ba le yn y deml yr arferai Crist fyned?

7. Pa fodd y dywedir fod Crist yn troi at y ffygysbren i geisio firwyth, ac y dywedir hefyd nad oedd yn amser firwythau?

8. Pa amser o'r fwyddyn y dechreua yr haf yn ngwlad Canaan?

9. Beth oedd rheswm y Pharisëaid am beidio ateb y cwestiwn ynghylch bedydd Ioan?

10. Pwy a olyga Crist wrth y ddau fab, a pha gysylltiad sydd rhwng y ddammeg a'r ymddyddan blaenorol?

11. Beth oedd yn y Pharisëaid yn gwneyd achos y publicanod a'r puteiniaid yn fwy gobeithiol na'r eiddynt hwy?

12. Beth yw gwers dammeg y winllan?

13. Beth oedd dyben y gwinwryf a'r tŵr?

14. Pwy a feddylir wrth y gweision a'r mab?

15. Pa le a feddylir wrth y winllan?

16. Ymha leoedd yn yr Hen Destament a'r Newydd y gelwir Crist yn faen?

17. At ba arferiad y cyfeirir yn adn. 44, pan ddywedir, "A'r Dwy bynag y syrthio (y maen), efe a'i mál ef yn chwilfriw?"



J. R., Treforis.

## POB TIPYN YN HELP.

“DDE'WCH chwi allan, Robert, i ni gael chwareu tipyn o rywbeth?”

“Na ddof heno, diolch i chwi, Charley,” ebai'r bachgen bychan bochog, oedd â'i agwedd yn arwyddo nad oedd yn byw mewn amgylchiadau gwych iawn.

“Gwell genyf fi fod yn tŷ,” meddai, “ar nosweithiau tywyll y gauaf. Wedi i fy nhad ddyfod adref oddiwrth ei waith, a bwyta swper, y mae ef yn gwneuthur basgedi, fy mam yn gwnio, a minnau yn darllen iddynt. Mae fy mam yn arfer dyweyd mai peth da yw gwneyd y goreu o'r mynyddau a'r oriau segur. Y gauaf diweddaf cafodd fwy am y basgedi a wnaeth fy nhad nag a dalodd y rhes am y tŷ. ‘Mae pob tipyn yn help,’ meddai hi, y dyddiau hyn pan mae pob peth mor ddrud.”



## EIN HARLUNWYR IEUAINC.

DDAWSOM ychydig fisoedd yn ol roddi ychydig gyfarwyddiadau pellach (gwel tu dal. 69) i'n cyfeillion ieuainc i gerfio ar goed : ac y mae y wobr a gynnygir yn awr am cerflun goreu wedi ail ddwyn ar gof ein haddewid. Ychydig y gyntaf, ynte, am

Y *Coed* y cerfir arnynt. Yr ydym eisoes wedi dyweyd mai pren *Box* yw y goreu. Mae *Box America* a *Thwrci* yn fwy

faint, ond nid crystal mewn *quality*, a Box ein gwlad ni. Dylai lliw y pren fod yn felyn, ac oll o'r un lliw os gellir; oblegid y mae gwahanol liwiau yn arwyddo gwahanol dyfiadau, a bydd rhanau o'r pren felly yn dynerach a rhanau yn galetach; a bydd y rhanau gwynaf a thyneraf yn llyncu mwy o inc, ac yn anurddo y darlun.

Dylid trin y *blocks* yn ofalus i'w cadw rhag gwyrni. Torir y pren ar ei draws er mwyn cerfio arno yn ffordd ei dalcen. Nis gall y *block* fod dros fodfedd o drwch, er mwyn ei daclu ymysg y llythyrenau yn y llyfr. Dylid eu rhoi i gadw ar eu hochrau bob amser, i'w cadw rhag gwyrni. Bydd gwres llaw y cerfiwr yn ddigon i wyro ychydig arno; am hyny dylai ei droi â'i wyneb i lawr am ychydig ar ol bod yn gweithio arno.

Ar ol gwneyd wyneb y *block* yn llyfn, da fyddai rhwbio y wyneb gydag ychydig o lwch mân o *bath brick* a dwfr, er parotoi y pren i dderbyn y pensil. Wedi iddo sychu gellir ei lanhau ymaith â'r llaw. Mae copi o'r darlun i fod o flaen y cerfiwr, ac y mae yntau i dynu ei lun yn gyntaf â'r pensil ar wyneb y *block*.

*Yr offer cerfio.* Mae y rhai hyn yn bur syml. Y prif offeryn yw math o gyllell flaenfain a elwir *graver*, ac y mae chwech neu wyth o honynt, o wahanol faintioli. Nid yw eu cost ond ychydig geiniogau yr un. Mae y carn yn grwn, neu yn hytrach yn hanner crwn, ac y mae yn tori wrth ei wthio ymlaen. Bydd y llaw chwith yn dal y *block* yn ddiysgog ar y bwrdd, a bawd y llaw ddeheu yn pwyso yn erbyn, neu ar, y *block*, er gwell llywodraethiad yr offeryn. Arferir hefyd yr hyn a elwir yn *tinging-tools*, neu offer er gwneyd lliaws o linellau cydredol yn fwy hwylus; ond byddir yn gwneyd y rhai hyn yn fynych gyda'r *graver*. Mae *gouges* hefyd, a chyllyll pwrpasol er casnu wyneb y *block*. Ond y *graver* yw y prif offeryn; a gall y cerfiwr wneyd blaen hwnw yn feinach neu yn llydanach wrth ei lifanu.

Arferir gwydryn hefyd i'w roi ar y llygad, yn debyg i'r un a arferir gan y *watchmaker*; ond bernir mai goreu po leiaf o ddefnydd a wneir o hwnw, os bydd y llygad yn dda. Dylid dechreu gyda lluniau hawdd, syml, a dyfod yn feistr ar y rhei'ny cyn dechreu ar gerfiadau cywrain ac anhawdd.

Gellir cael yr offer at gerfio gan y *Toolmakers* yn mhrif drefi Lloegr; ac y mae *blocks* parod i'w cael hefyd am oddeutu chwe' cheiniog y pwys.



## BEECHER AR FEDYDD PLANT.

**B** GWEINIDOG Annibynol mwyaf poblogaidd yn America yw Henry Ward Beecher. Mewn pregeth ddiweddar ar fedydd plant, dywedai;—Dylai y tad neu y fam, o leiaf, fod yn Gristion, onidê ni ddylid bedyddio y plentyn. Y peth ddywed y rhieni wrth fedyddio eu plentyn yw hyn, "Magwn ni y plentyn hwn i fyny yn addysg ac athrawiaeth yr Arglwydd. Byddwn, nid yn unig yn rhieni naturiol, ond hefyd yn rhieni Cristionogol



iddo." Ond nis gall yr un tad na mam wneyd y cyfryw addewid pan na fyddant yn gwybod dim eu hunain am addysg ac athrawiaeth yr Arglwydd. Rhaid fod y naill neu y llall yn gwybod y pethau hyn cyn y gallant wneyd yr adduned. Sut y gall mam sefyll yma a'i baban, a dyweyd, "Dygaf y plentyn hwn i fyny yn Ysbryd Crist," a hithau heb adnabod Crist? Sut y gall un dyn ddwyn ei blentyn i'w fedyddio, a dywed, "Dygaf ef i fyny yn ofn Duw," pan nad yw ef ei hun yn adnabod Duw? Felly, chwi nad yw yn Gristionogion, cofiwch nas gall eich plant gael eu bedyddio; nid oblegid y plant, ond oblegid nad ellwch chwi wneyd yr hyn y mae eu bedydd hwy yn gynnwys, sef addaw eu dwyn i fyny yn addysg ac athrawiaeth yr Arglwydd.



## DYDDANION.

## CERYDD YN ANHYFRYD.

**G**OFYNAI tad i'w blentyn oedd wedi troseddu, pa un oedd oreu ganddo, fod yn fachgen i Iesu Grist a chael ei geryddu, ai bod yn fachgen i Satan a chael llonydd i fyw fel y mynai. "Bod yn fachgen i Iesu Grist, a chael fy ngheryddu," ebai'r plentyn. Ond wedi i'r tad ymaflyd yn y wialen, a dechreu gweinyddu y cerydd, newidiodd y llanc ei feddwl, a gwaeddai allan, "Nage, 'nhad, bachgen Satan; bachgen Satan, 'nhad bach!"

## DAL Y SER.

**P**AN oedd plentyn yn cerdded wedi'r nos yn llaw ei dad, ac yn edrych i fyny ar y ser, dywedai, "Mi ddalia' i rai o honyn' nhw, pan fyddaf yn myned heibio tua'r nefoedd."

## Y CORFF YN FWY NA'R DILLAD.

**P**AN ddarllenid yr adnod, "Onid yw y corff yn fwy na'r dillad," yn y dosbarth yn yr Ysgol Sul, unwaith, gofynai bachgenyn meddylgar i athraw, "Os felly, sut oedd yn galla rhoi y dillad am dano?"

## EISIEU NAIN YN OL.

**P**R oedd bachgenyn bychan yn hiraethlawn iawn ar ol ei nain oedd wedi marw. Gofynai yn aml, "Pa bryd daw nain yn ôl?" O'r diwedd atebwyd ef, mai pan elai y byd ar dân y delai ei nain ato. Ar ol hyn cafwyd y bachgen mewn eornel neillduedig yn crïo (llefain). Gofynwyd beth oedd y mater. Ei ateb oedd, "Eisieu sydd arnaf i'r byd fyn'd ar dân, i mi gael nain yn ôl!" A yw y Cristion sydd yn darllen hwn yn barod i groesawu cymaint o ddyoddef, er cael cyfarfod â'i Wareidwr!—G. W.



## RYSORFA Y PLANT.

[V.]

TACHWEDD, 1864.

[CYF. III.]

### O'R NEF MAE'N D'OD.

Iawn i yn adnabod bachgenyn bychan yn Ffrainc i Dr. Barth, a elwid "Peter Bach." Bachgen amddifad, ac yr oedd yn dlawd a charpiog iawn, ac yn cardota drws i ddrws. Nid oedd dim hyf a thwyllodrus ynddo, mewn llawer o fechgyn sydd yn galw wrth ein drysau. Peter bach yn canu hefyd yn hyfryd iawn, ac anaml y di droi ymaith oddiwrth un drws yn waglaw. Yr oedd hynod ganddo i ddyweyd ar bob achlysur, "O'r nef!" Pan oedd ei dad ar ei wely marw—os oedd gwely yd, oblegid yr oedd yn wir yn dlawd iawn—dywedodd, "Fy anwyl Peter, dyma chwi heddyw yn cael eich rymych eich hun, a chewch lawer o flinderau yn y byd. Ch yn wastad mai o'r nef mae pobpeth yn d'od; fel ch yn hawdd i chwi ddal dan bob tywydd." Pan oedd Peter yn ddeall ar y geiriau ar y pryd, ond pen- eu cadw yn ei gof; ac er mwyn hyny byddai yn eu n fynych. Pan gurai wrth y drysau, a phan ofynai y sydd yna?" Atebai yntau, "Rhowch damaid i Peter i eithiau dywedai ar gân,—

"Rhowch damaid i Peter,  
Sy 'n unig a thlawd;

'R wyf yma mewn eisiau,  
 Heb het nac esgidiau,—  
 Ond *fry* mae gen' innau  
 Hoff gartref a brawd.

Byddai yn sicr o gael cardod ar ol hyn, a byddai yn sicr o'i chydabod gyda'r geiriau, "O'r nef mae'n d'od."

Fel yr oedd Peter yn tyfu i fyny, ceisiai ystyried beth oedd y geiriau yn feddwl. Yr oedd yn ddigon call i ddeall nad o'r nef yr oedd pechod yn d'od; a chan y rhaid i ni gredu mai Duw sydd yn llywodraethu y byd, gallwn ddyweyd yn briodol am bob peth ond pechod, mai "o'r nef mae'n d'od."

Yr oedd y grediniaeth hcn yn Peter, beth bynag, yn troi allan fynychaf yn fanteisiol iddo. Unwaith yr oedd yn cerdded trwy y dref, ar wynt mawr; chwythodd y gwynt un o'r llechi oddiar ben tŷ, disgynodd ar ysgwydd Peter, a tharawodd ef i lawr. Y gair cyntaf ddaeth o'i enau ar ei hŷd ar yr ystryd ydoedd, "O'r nef mae'n d'od." Chwarddodd y dynion oedd yn sefyll o'i amgylch am ei ben, oblegid dyweyd mai o'r nef y cwmpodd y llech, a thybient fod gwall ar ei synwyrâu. Ond nid oeddent hwy yn deall meddwl Peter. Ymhen mynyd, chwythodd y gwynt ben tŷ cyfan i lawr ychydig nês ymlaen yn yr ystryd, a lladdodd dri dyn oedd yn pasio ar y pryd. A phe buasai Peter wedi cael llonydd i fyned ymlaen, wrth bob tebyg y buasai yntau wedi ei ladd.

Dro arall, anfonodd boneddwr ef â llythyr i'r dref, gan ddy-muno arno wneyd y brys mwyaf. Ar y ffordd, er mwyn arbed amser, ceisiodd neidio dros ffrwd o ddwfr oedd yn rhedeg trwy ffos go ddofn. Torodd y dorlan dan ei droed, syrthiodd i'r dwfr, a bu agos iddo foddi. Collodd y llythyr, a dygodd y dwfr ef ymaith. Wedi i Peter Bach ddyfod i fyny o'r ffos, dywedodd, "O'r nef mae'n d'od." Digiodd y boneddwr yn fawr, a gyrodd y llanc ymaith oddiwrth ei ddrws â'r chwip. "O'r nef mae'n d'od," meddai Peter eto, gan droi ymaith i'w ffordd. Y dydd canlynol, gyrodd y boneddwr i gyrchu Peter ato, a dywedodd wrtho, "Edrych, dyma ddau *franc* (swllt ac wyth ceiniog) i ti, am syrthio i'r ffos. Cymerodd cyfnewidiad sydyn yn y farchnad le, ac y mae wedi troi yn ennill mawr i mi i'r llythyr hwnw beidio myned i'w ffordd." Diolchodd Peter am yr anrheg, a dywedodd, "O'r nef mae'n d'od."

Talodd boneddwr o Loegr unwaith ymweliad â'r dref, ac wedi clywed am "Peter Bach," anfonodd am dano i gael ei weled, a chyfranu rhywbeth iddo. Wedi iddo fyned i mewn i'r tŷ, gofynodd y boneddwr iddo, "A wyddoch chi i beth yr anfonais am danoch, Peter?" "O'r nef mae'n d'od," ebai Peter. Hoffodd y boneddwr ei ddywediad yn fawr; ac ar ol meddwl ychydig dywedodd, "Yr ydych yn dyweyd y gwir; cymeraf chi i'm gwasanaeth, a gofalaf am danoch; a ydych chi yn foddllawn hyny, Peter?" "O'r nef mae'n d'od, syr," ebai Peter, "a phahan na byddwn yn foddllawn?"

nerodd y boneddwr Seisonig ef ymaith. Yr oedd yn ym oll am na ddaethai Peter niwy i ganu wrth ein d gan nad oedd wedi dysgu yr un grefft, yr oedd yn ddaed un yn cymeryd gofal drosto. Ymhen blynyddau boneddwr wrth farw osod swm o arian at gynnalïaeth h," fel y gelwid ef o hyd, yr hwn oedd wedi dyfod yn ddyn cyfrifol mewn tref Seisonig. Ond yr oedd yn hyd am bob amgylchiad a'i cyfarfyddai, "O'r nef



## DUW YN DARPARU I'R TLAWD.

ldaioni, O Arglwydd, yr wyt yn darparu i'r tlawd."—SALM

3 modd, fy mhlant, y mae Duw yn darparu i'r tlawd. n ddiweddar mewn man lle yr oedd uwchlaw 700 o mddifaid, heb dad, heb fam, ac heb geiniog ar eu cyfer. l pob un yn cael ei wala a'i weddill o ymborth, dillad, gyda phob difyrwch diniwed a phlentynnaidd. Dygid ny i ryw alwedigaeth fuddiol, fel y gallent ennill eu h yn gysurus yn addfedrwydd bywyd; ac uwchlaw y eddyliau bach yn cael eu cyfeirio at Iesu Grist fel unig ac fel ffynnonell y cydymdeimlad tyner yr oeddent fwynhâu. Dysgid hwy, a hyny yn gywir, i edrych ar dylanwad gras Duw ar galonau dynion, yn eu tueddu i r tlawd.

od arall, cefais yr hyfrydwch o fod yn nghyfarfod blyn-ddariaid a'r Mudion, lle yr oedd tua deugain o honynt, mor lanwedd a thrwsiadus, a bywyd a llawenydd yn r eu hwynebâu; fel, o ran yr olwg arnynt, nas gallem dim yn ddiffyg arnynt. A gwelwn yn fuan eu bod rdeithasu a siarad â'u gilydd drwy ystumiau, agos gyda rhywddineb ag y medrwn ninnau drwy gyfrwng ein Ac nid bychan oedd ein llawenydd, yn gystal a'n syn- d yn abl rhoi atebiad goleu a chywir i unrhyw ofyniad yn weddol gydradd â'u hoedran. Ond rhaid gofyn rfen; a'r ateb, bid sicr, i ni yr un modd. Cai y neb a y peth a fynai; a chymerodd llawer eu rhyddid. Ac yfryd oedd gweled eu bod mor gyfarwydd yn hanes a ffordd iachawdwriaeth.

ian arall gwelwn ysbytŷ, lle y mae cannoedd o gleifion ob tynerwch. Mewn man arall gwelwn ugeiniau o oedranus, i'e yma a thraw gannoedd o weddwon a hen- gael pob ymgeledd. A'r cwbl yn gynnyrch y cydym- mae gras yr efengyl yn ei weithio yn nghalonau dynion, i'r tlawd. Ac hwyrach nad oes un ffordd yn fwy wrth Duw, nac yn fwy o fendith i ddynion, na'r ffordd hon

o ddarparu i'r tlawd. Oblegid er cymaint o fendith y mae y cydymdeimlad hwn yn ei estyn i eraill, y mae ei *feddu* yn llawer mwy o fendith. "Dedwydd yw yr hwn sydd yn rhoddi, yn hytrach na'r hwn sydd yn derbyn."

Ond nid yw hyna ond un modd o lawer sydd gan Dduw i gofio am y tlawd. Y mae yr enllyn wedi myned yn ddrud iawn, agos o gyrhaedd y tlawd; ond dyma gawodydd tyner a blithiog yn disgyn yn niwedd Ebrill a Mai. Yr haul yn ymddyrfhafu, yr hin yn tyneru, a'r ddaear yn rhoddi ei ffrwyth. Dyma gan yr amaethwraig ddeg neu ddeuddeg pwys fwy o ymenyn ar gyfer ei marchnad. Y mae yn gwenu, ac yn dechreu cyfrif y bydd ganddi bymtheg swllt yn fwy o elw oddiwrth ei gwartheg na'r wythnos o'r blaen. Ond er ei siomedigaeth, erbyn cyrhaedd y farchnad, buan y deallodd ei bod gwedi gostwng, a bu raid i'r wraig gario deg pwys yn chwanged, heb gael un geiniog yn rhagor i'w llogell. Na, aeth y cwbl i ddwyn y farchnad o fewn cyrhaedd i'r tlawd. Y mae y cig wedi myned yn ddrud iawn, ac ofnid y buasai y farchnad yn codi heddyw, nes myned yn rhy uchel i logell y tlawd. Ond cyn canol dydd dyna'r newydd da yn cyrhaedd y dref fod rhyw nifer afrifed o bysg gwedi dyfod i mewn, ac yn annysgwiliadwy dyma'r farchnad yn gostwng; a balch iawn oedd y cigydd i gael gwerthu i'r tlawd, a hyny am bris y tlawd.

Mewn tref gyfagos yr oedd y tai wedi myned yn uchel—tŷ cysurus wedi myned allan o gyrhaedd y tlawd. Hwytiau yn gorfod ymdyru i'r seleri, lle nad oedd na goleu, nac awyr, nac chysur, nac iechyd. Ond dyma berchenogion arian yn gwylltio gan ysbryd adeiladu—yn rhoi carreg ar gareg, a thŷ wrth dŷ, a rhes wrth rhes. Y mae yma dref newydd yn neidio i fodolaeth ar unwaith, a phob un yn penderfynu ei fod yn gwneyd ei ffortun. Ond y mae y fantol yn troi. Yn lle bod y tai yn llawn na'r dynion, y mae y dynion bellach yn llai na'r tai; a thyna dŷ cysurus, yn lle hen seler front, o fewn cyrhaedd i'r tlawd, a hyny am hanner ei werth. Y cyfoethog yn dyoddef, a'r tlawd yn cael y fantais.

Dyna'r masnachwr yn bryderus a diflas; beth sydd yn bod Y mae ganddo ystôr fawr o bethau gwych a gwerthfawr. Ond beth dâl hyny, y maent allan o'r ffasiwn. Ac er eu gwerth a gwychder, ni wna'r cyfoethog bellach gymaint ag edrychu am y Beth a wneir! Nid oes dim i'w wneyd ond eu gwerthu am br digon isel i'r tlawd. "Yn dy ddaioni, O Arglwydd, yr wyt y darparu i'r tlawd." Yr wyt yn darparu bara iddo yn ein dyddiau ni, agos am hanner ei werth; nes yr ydym bron a gwaeddi, Arglwydd, cofia'r amaethwr eto.

Bydd y tlawd yn gwbl ddianghenrhaid yn cenfigenu wrth lawr der y cyfoethog. Ei ddâ a'i ddefaid, ei ychain a'i wartheg, ei y yn doreithiog, a ffrwyth ei feusydd ddeng waith mwy nag sydd arno ei anghen. Ond a wyddost ti, dyma sydd yn llanw marchnadoedd y wlad, a masnachdai pob heol. Dyma sydd yn gwneyd fod digon ar gyfer pawb, ac yn gorfodi masnachwyr i werthu a

bris digoniseli'r tlawd. O! beth fyddai tyngned y tlawd pe na byddai ar y farchnad ond digon i'r cyfoethog, ac yn y masnachdŷ ond digon i'r arianog. Ond yn ffodus, y fath yw y cyflawnder, fel y mae y masnachwr dan rwymau i ddenu y tlawd yn gystal a'r cyfoethog. Iê, y mae wedi myned yn gystadleuaeth rhwng marsiandwyr y ddaear i werthu am yr *iselaſ* i'r tlawd. Y cyfoethog, fy mhiant, sydd yn meddu, a'r hwn sydd yn meddu sydd yn gwerthu; fel rheol, y tlawd sydd yn prynu. Ond oblegid y cyflawnder diddiwedd, teimlir mai y prynwr sydd yn gwneyd ffafr â'r gwerthwr. Hyny yw, dyma yr Arglwydd wedi gwneyd y cyfoethog dan rwymedigaeth i'r tlawd.

Ond wedi pob amddiffyn mewn Rhagluniaeth, yn yr efengyl y mae Duw gwedi dangos ei ofal yn benaf am y tlodion. "A'r tlodion yn cael pregethu yr efengyl iddynt." Os yw y cyfoethogion yn cael blaenffrwyth y byd hwn, a'r tlodion yn cael ei loffion, dyma'r tlawd yn cael blaenffrwyth efengyl, a rhyw loffion o'r cyfoethogion yn casglu lloffion efengyl. "Canys dewisodd Duw tlodion y byd hwn yn gyfoethogion mewn ffydd."

W.



## Y PELLDER RHWNG NEFOEDD AC UFFERN.

**B**ACHGENYN bychan, unwaith,  
 I'w dad ofynai 'n gu;  
 "Fy nhad, pa faint o bellder sydd  
 Rhwng nef ac uffern ddu?"  
 Atebai 'r tad synedig,  
 "Fy mab, nis gallaf fi  
 Ddywedyd ddim, ofnadwy yw,—  
 Ond beth feddyliet ti?"


"Wel, dywed y gwirionedd,  
 Y bydd rhyw ddydd a ddaw  
 Y seintiau gyda 'r Barnwr mawr  
 Oll ar ei ddehau law;  
 A'r annuwiolion, hwythan  
 Oll ar ei aswy 'n drist;—  
 Ac felly, 'nhad, nid oes ond llêd  
 Ysgwyddau Iesu Grist.

GAERWENYDD PRITCHARD.



## Y CWESTIYNAU GWOBWRWYEDIG.

1. **N**ODA y Bibl un o ddarpariadau mwyaf defnyddiol celfyddyd, ac un o ddarpariadau mwyaf defnyddiol natur, yn yr un frawddeg, ac addawa adeg fendigedig pan na fydd nghen y naill na'r llall. Beth ydynt?
22. Pwy roddodd gernod i arall am ei fod wedi derbyn ffafr i'wch nag ef gan yr Arglwydd?



HIPPOPOTAMUS.

**H**YMA i'n darllenwyr ddarlun bychan cywir o'r Hippopotamus neu fel y geilw rhai ef *Afonfarch*. Nid am fod dim yn ei ffrwy yn debyg i farch—mwy tebyg yw i fochyn; ond oblegid ei lais wrth weryru yn debyg i farch. Yn afonydd Affrica mae trigle yr Hippo. Mae ei ben yn aruthrol o fawr; ond llygaid clustiau, a ffroenau bychain, mewn cymhariaeth i'w faintioli. Mae ei groen o liw tywyll, yn hynod o dew a chryf, ac ychydig o ffur o liw goleu yn deneu drosto. Mae ei gynffon oddeutu troedfedd o hŷd, ac yn meinhâu tua'r blaen. Hŷd cyffredin y gwryw yw oddeutu dwy ar bymtheg o droedfeddi, yr amgylchedd yn bymtheg, a'r uchder yn saith. Mae y goes oddeutu llathen o hŷd, a geg pan yn agored dros ddwy droedfedd o lēd. Mae ei ddannedd gwynion mor gelyd fel y maent yn taro tân gyda dur, a'i gildanedd yn pwyso tri phwys yr un.

Mae yn casglu ei ymborth ar y tir, ond ei hyfrydle yw y dda. Addfwyn ac ofnus ei dymher yw pan fyddo ar y tir, ond yw yn wrol a pheryglus pan yn y dwfr; ac y mae lawer gwaith w ymaflyd mewn cwch â'i ddannedd, a'i dori yn ysgyrrion, a bod rhai oedd ynddo. Dywedir y tyr ddyn yn ddau ddarn ag gwasgiad i'w ddannedd. Geill nosio yn hawdd oblegid amgylchedd mawr ei ganol.

Barna rhai mai cyfeiriad ato ef sydd yn yr adnodau canlynol y ddeugeinfed bennod o lyfr Job;—"Wele yn awr y beheidd yr hwn a wnaethum gyda thi; glaswellt a fwyty efe fel I. Wele yn awr ei gryfder ef sydd yn ei lwynau, a'i nerth yn ei fol. Pibellau pres ydyw ei esgyrn ef; ei esgyrn sydd fel heiyryn. Efe a orwedd dan goedydd cysgodfawr, mewn lloch gyrs a siglenydd. Wele efe a yf yr afon; efe a obeithiai y ty yr Iorddonen i'w safn."

## Y TADAU, METHODISTAIDD.

V.—PETER WILLIAMS.

un enw yn fwy hysbys yn y Dywysogaeth nag enw Williams; oblegid y mae "*Bibl Peter Williams*," yn a brawddeg gartrefol i ni oll. Ganwyd ef gerllaw yn Sir Gaerfyrddin, Ionawr 7fed, 1722. Yr oedd ei trisfol, a'i fam o nodweddiad tra chrefyddol, dan wein-Parch. G. Jones, Llanddowror. Bu ei dad a'i fam oedd Peter oddeutu 12 oed; ond gadawodd addysg grefm argraff annilëadwy ar feddwl y plentyn. Dygwyd un ewythr iddo o du ei fam. Yr oedd ynddo awydd yn at y weinidogaeth, a throai ei holl fryd at lyfrau. 17 oed, gosodwyd ef mewn ysgol eglwysig yn Nghaerhon oedd ar y pryd dan lywyddiad y Parch. T. Einion, oedd am dair blynedd. Yn y cyfamser, daeth Whitfield lin i bregethu; ac er i'r athraw rybuddio yr efrydwyr i'w wrando, aeth Peter a thri arall yn llechwraidd i ŵr dyeithr. Y bregeth hono fu yn foddion tröedigaeth h i'w lety y noson hono yn ddyn arall. Daeth y peth trwy yr holl ysgol, a thrödd ei gydefrydwyr o hyny lirmygu. "Yr oeddwn bellach," meddai "*yn Fethodist*;" yfrif hwy, digon oedd hyny i roddi anfri tragywyddol

ld o Gaerfyrddin, pan oddentu 21 oed, i gadw ysgol yn Yn 1745 cafodd ei urddo gan yr esgob i swydd diacon, guradiaeth Eglwys Gymun, gerllaw Llacharn. Ond y weithgar ei fywyd, ac efengylaidd ei athrawiaeth, i lef yno yn hir. Yr oedd yntau, fel y Methodistiaid pregethu y pechod gwreiddiol, cyfiawnhäd trwy ffydd, gaeth." Cyhuddid ef hefyd o bregethu mewn plwyfi am ei holl bechodau, gwaharddodd yr esgob iddo bregair blynedd.

yn daeth i Abertawy, i wasanaethu dwy eglwys—un ac un Seisonig. Ond ni fynai boneddigion Abertawy mo hono ef, a'i athrawiaeth, a'i ddiwygiadau. Aeth Langranog yn Sir Aberteifi; ond oblegid yr un achos yno ond deufis. Wrth weled fod y drws yn cael ei gau i weinidogaeth yn yr Eglwys Sefydledig, yn y flwyddyn modd a'r Methodistiaid, pan nad oedd ond 24 mlwydd yn llafurio yn eu mysg gydag egni a llwyddiant mawr anner can' mlynedd.

gethwr, yr oedd mewn un peth yn rhagori ar y rhan gydoeswyr—sef mewn llafur i gyfansoddi ei bregethau n cyn eu traddodi. Os byddai eraill yn rhagori mewn mewn hwyl, byddai ganddo ef bregeth dda bob amser. sefyd yn gweithio yn galed—yn teithio yn barhäus, yn y fantais ar bob cyflëusdra i bregethu yr efengyl i'r bobl,



ac yn barod i feiddio pob peryglon a ddelai yn ei ffordd. Ni ddyoddefodd neb o'r Tadau Methodistiaidd fwy o erlid a blinderau. Aml y gadawai y fan y pregethai wedi ei daenellu â'i waed fel â gwlaw. "Nid gormod fyddai dyweyd," meddai awdwr "*Methodistiaeth Cymru*," "iddo wynebu mwy o beryglon, dyoddef mwy o galedi, ac arloesi mwy ar Gymru, na neb o'i frodyr urddedig." Yn ei gysylltiad â'r wasg, gwnaeth fwy er diwyllio llenyddiaeth grefyddol Gymreig na neb yn y 18fed ganrif. Cyhoeddodd ei "Fibl Teulnaidd" gyda sylwadau ar bob pennod, a chyfeiriadau ar ymyl y ddalen, yn y flwyddyn 1770, a dyma yr Esboniad Cymreig cyntaf erioed ar y Bibl. Cymaint oedd awydd y wlad am dano, fel yr oedd y trydydd argraffiad yn ymyl ei orphen cyn marwolaeth Mr. Williams, a'r tri argraffiad yn cynnwys o 12 i 15 mil o gopiau. Ac ymhen tair blynedd ar ol ymddangosiad yr argraffiad cyntaf o'r Bibl, cyhoeddodd y "Mynegair Ysgrhythrol;" a chan mai hwn eto oedd y llyfr cyntaf o'r fath yn yr iaith Gymraeg, rhaid ei fod wedi costio llafur dirfawr iddo. Yn 1790 cyhoeddodd argraffiad o bedair mil o Fibl bychan Canne, yr hon anturiaeth a drodd yn golledus iawn iddo. Cyfieithiodd anryw lyfrau defnyddiol eraill o'r Saesoneg.

Cododd dadl fin rhyngddo â'r Cyfundeb am bwnc o athrawiaeth, oddiwrth sylwadau a wnaeth ar Faboliaeth Crist yn ei esboniad ar y bennod gyntaf o Efengyl Ioan; yr hon, er gofid, derfynodd yn ei ddiarddeliad gan y Cyfundeb. Er nas gellir canmawl pob ymddygiad o eiddo Williams yn yr ymryson hwn eto mae yn ddiaddl i ormod o lymder a byrbwylldra gael ei dangos yn ei erbyn. Prif wrthwynebydd Williams oedd Nathaniel mab Rowlands, Llangeitho. Ar ol y drafodaeth yn Nghymanwyl, Aberystwyth, dywedodd yr hen Rowlands wrth ei fab,—"Nat! ti gondemniaist dy well!" Yr oedd capel Heol y ddol Caerfyrddin, wedi ei godi ar dir Peter Williams; ac wedi iddo gael ei ddiarddel gan y Cyfundeb, cadwodd feddiant o'r capel hwnw hyd ddydd ei farwolaeth. Bu farw Awst 8, 1796, yn 75 mlwydd o'i oedran. Wedi ei farw, gwerthodd ei weddwr capel i'r Methodistiaid.

Dyma i'r darllenydd gipolwg ar brif ddygwyddiadau un o dynion mwyaf defnyddiol i Gymru o'r holl feibion a fagor. Ynglŷn â'r nodiadau hyn, rhoddwn yr hanesyr hynod a digrif ganlyn o "*Methodistiaeth Cymru*" am

#### ERLIDIWR Y GASEG WEN.

Dygwyddodd i'r Parch. Peter Williams fod yn pregethu brydnawn Sabbath, gerllaw eglwys Penrhosllugwy, yn Sir Pen-y-bont. Yr oedd tyrfa fawr wedi ymgynnull, rhai i'w wrando, ac eraill i'w erlid. Yn arwain haid o erlidwyr, yr oedd hen ŵr ar gefn canwr wên fawr, heini, gyda phastwn anferth yn ei law, a'i ganlynydd o'i oll wedi ymarfogi â phastynau. Tra yn aros am ymddangosiad pregethwr, cafodd rhywun allan yn ddamweiniol na oddefai

gaseg wên y cyffyrddiad lleiaf â'i chrwper, heb wingo yn ddychrynlyd, a dangos ei charnau i'r awyr. Rhoddai y naill ar ol y llall flaen ei bastwn i gyffwrdd â'r ysmotyn peryglus, heb wybod i'r marchogwr, a rhyfeddol iawn fyddai yr effeithiau. Tynai sylw'r holl dorŷ. Yn y man, penderfynodd gwŷr y pastynau y gallsent gael cystal difyrwch gyda'r gaseg wên a chydag erlid y pregethwr, ac ymroddasant ati. Dacw hanner dwsin o bastynau'r grwper yr hen gaseg, a hithau yn neidio ac yn prancio, ac yn aflu yn ddychrynlyd, a'r marchogwr yn bachu am dani â'i edair bagl, i gadw ei hun ar ei chefn. Yr oedd wedi myned yn wy anhywaith nag un o foch y Gadareniaid, ac yn fuan wedi wryn y marchogwr yn ddigon pell o ffordd y pregethwr, a'i haid rliidwyr i'w ganlyn. Daeth yr hen grêadur i'r oedfa, nid i erlid, a' y meddylodd, ond i gael ei erlid; a bu yn llawen ganddo gael ianc â'i fywyd yn ysglyfaeth.

## Y WENYNEN.

### PENNOD III.

**H**AN bwysig o waith y wenynen yw casglu y mânflawd oddiar y blodau. Mae hwn i'w gael ar dop y pigau bychain sydd yn tyfu yn nghanol y blodeuyn. Mae casglu y mânflawd, a casglu y mêl, yn ddau waith gwahanol. Pan fydd mânflawd i'w gael, nid oes dim neithdar at fêl i'w gael y pryd hwnw; a phan dd neithdar, ni fydd y mânflawd yn gymhwys i'w gasglu. Bydd wenynen yn ysgubo y llwch blodiog yma gyda gwrychell ei oesau, ac yna yn ei faeddu yn belenau bychain. Yn y cyflwr hwn gelwir ef yn fara gwenyn (*bee-bread*). Gwedi ei gymysgu âg hydig fêl a dwfr, defnyddir ef i borthi y gwenyn bychain. Ond syllu yn fanwl ar goes ôl y wenynen, gwelir ynddi fath o wged, wedi ei chylchynu â thrwch da o flew. Mae y blew yma i'w rhwystr i ddim gwympto allan o'r fasedg. Yn y basgedi hyn dygir y pelenau bychain mânflawd i'r llestr, a hyny mor i'w sbus ag y dygir basgedaid o wyau genych chwi adref o'r rhanad.

Mor gynted ag y cyrhaedda y wenynen at ddrws y llestr gyda'i och o beleni, odid na fydd gwenyn magu yno yn barod i dderbyn y trysor ganddi, neu ran o hono. Os na, aiff ymlaen i'r llestr, a thura ei hadenydd i wneyd swm, er galw ei chyfeillion ati. Daw'r neu bedair neu ychwaneg o wenyn ati, i dderbyn ei llwyth, a gymeryd bob un belen yn eu genau. Faint bynag a gesglir yn y na'r anghen presennol, cauir arno yn gywrain a diogel yn y lloedd.

Yn ngwanwyn y flwyddyn, pan fydd y gwenyn yn dechreu ar gwaith, anaml y gwelir un wenynen yn dychwelyd i'r cwch heb peleni hyn ganddynt. Byddant yn gyffredin o liw canol y

blodeuyn y cesglir hwynt—gan mwyaf o liw melynaid. Mae y gwenyn yn dewis y bore yn benaf i gasglu y mânflawd, oblegid, fe allai, fod y gwllith yn fanteisiol iddynt i droi y mânflawd yn belenau.

Mae gan y gwenyn hefyd fath o glyd a elwir *propolis*, ag y gwnânt lawer o ddefnydd o hono. Mae o liw cochddu, ac yn wydn ac estynol, fel *india rubber*. Casglant ef oddiwrth amryw goed. Defnyddiant ef i lenwi tyllau ac agenau yn y llestr, i sicrhâu y diliau wrth yr ochrau a'r top, ac i harddu cellwaith y diliau.

Nid yw y gwenyn yn cyfyngu eu hunain i'r ardd neu y gerddi lle byddont yn preswyllo, ond byddant yn fynych yn crwydro i bellder mawr. Bernir eu bod yn ehedeg gyda'r cyflymdra o ugain milldir yr awr. Ar dywydd hyfryd bydd oddeutu cant yn fynych yn dychwelyd â'u llwythi i'r llestr mewn un mynyd. Bydd yr un yn dychwelyd âg amryw lwythi y dydd. Dywedir y gwna haid o wenyn, yn cynnwys deng mil o weithwyr, gasglu dros hanner can' pwys o fara gwenyn mewn un tymmor, heblaw eu hystorfa o fêl, y glyd, a'r amrywiol orchwylion eraill sydd ganddynt.

Dywedir na fydd gwenyn o'r un teulu byth yn anghyttuno, na neb o honynt yn ymyryd â gwaith na fyddo yn perthyn iddynt. Mae pob un yn ymroddi yn dawel at ei gwaith ei hun. Mae y rhai sydd yn casglu ymborth o bell, y rhai sydd yn ei ystorio yn ddiogel yn y llestr, y rhai sydd yn adeiladu ac yn caboli y celloedd, a'r rhai sydd yn amddiffyn, neu yn gwasanaethu ar eraill, oll yn ofalus i gadw trefn a hapusrwydd ymysg yr holl haid. Y maent oll yn garedig i'w gilydd, a'r naill bob amser yn barod i gyfranu â'r llall o ffrwyth ei llafur.

Onid oes genym ni lawer o wersi i'w dysgu gan y wenynen fach? Mor ddiwyd ydyw; mor ufudd a gostyngedig i reolau y teulu; ac mor barod i gynnorthwyo y neb fyddo mewn taro!



## DECHREUAD BYCHAN.

**T**N diwrnod yn nghymydogoeth Sheffield, sylwodd boneddwr ar fachgenyn yn naddu pren â'i gyllell fechan, a gofynodd iddo beth oedd yn ei wneuthur. "Yr wyf yn ceisio tori llan pen Mr. Fox," ebai. Fox ydoedd ysgolfeistr y pentref. Edrychodd y boneddwr ar y blocyn pren bychan oedd yn llaw y llanc, ac er ei syndod gwelai debygolrwydd mawr yn y cerfiad oedd arno i wyneb yr hen ysgolfeistr. Rhoddodd y boneddwr ei law yn ei boced, estynodd chwe' cheiniog i'r bachgen, a dywedodd wrtho, "*Well done*, fy ngwas bach i—dyma chwe' cheiniog i chwi am eich gwaith." Y llanc hwn oedd Chantrey, yr hwn a ddaeth wedi hyn yn gerfiedydd enwog. Ond cofiodd byth am yr help a gafodd yn y *well done*, a'r chwe' chweiniog.

J. L.



J. R., Treforis.

### BACHGEN CAREDIG.

**B**MDDYGLAD caredig sydd yn profi calon garedig. Ar ddiwrnod poeth yr haf diweddaf, pan oeddwn yn myned i lawr trwy Walbrook, gerllaw y *Mansion House*, gwelwn wagen a cheffylau yn sefyll o flaen un o'r masnachdai. Yr oedd y ceffylau bron llewygu gan syched yn y gwres mawr, heb un cafn a dwfr yn agos i'w disychedu. Yr oedd hyn ar yr awr giniaw, ac yr oedd amryw o fechgyn o'r masnachdai cylchynol yn chwareu yn yr ystryd.

Gwelodd un o'r llancian hyn y ceffylau, deallodd fod'syched arnynt, a gwaeddodd allan, "Mi fynaf fi ddŵr i chwi." Yr oedd ymaith ar redeg gyda'r gair, ac ymhen ychydig fynyddau, dyma fe yn ei ol â llonaid twba o ddwir glân gloew i'r anifeiliaid. Yr oedd yn iechyd i ddyn i edrych ar y bachgen llygadlon, a'i glywed yn dyweyd geiriau caredig wrthynt, fel pe buasai yn cyfarch ei gydchwaretwyr. Nis gallaswn lai na dyweyd, "Bendithied yr Anglwydd y bachgen caredig acw, ac na weled byth anghen cyfaill i'w helpu mewn taro." O na fyddai pob bachgen yn debyg i'r bachgen hwnw yn Walbrook!—*Band of Hope Review*.

## ENNILL YR YSTAD YN OL.

**B**RESWYLIA yn Ravensdale un Mr. Lorrimer. Bu farw ei rieni, a gadawyd ef yn feistr arno ei hun pan yn ieuanc. Yn anffodus, yn hytrach na thrwy afradlonedd, colodd ei ystâd äang a phrydferth. Meddiannwyd hi gan Mr. Selby. Yr oedd Mr. Lorrimer â'i fryd ar ei chael yn ôl. Gwnaeth lawer ymgais mewn llawer dull, ac ymhlith pethau eraill prynodd long, yr hon a hwyliwyd i'r India o dan ofal llonglywydd medrus. Ar un prydawn, pan oedd Mr. L. a'i unig blentyn pump oed yn ymrodio ar y traeth, adnabuent y llestr yn dyfod i'r porthladd. Ebai y tad, "O fy mhlentyn, fy mhlentyn, dyma ein llong wedi dychwelyd yn llwyddiannus; mynaf yr ystâd yn ôl eto i'm hanwylaf Charley." Yr oedd y plentyn y pryd hyn ar lin ei dad, a'i wyneb tuag ato, a gofynai Charley, "Pa le y byddwch chwi, 'nhad, pan gaf fi yr ystâd yn ôl?"

"Byddaf fi gyda chwi yn byw yn mhalas Ravensdale."

"Na, pa le y byddwch chwi, 'nhad, pan gaf fi yr ystâd?"

"Byddaf fi yn y bedd."

"A fydd genych ystâd yno, 'nhad?"

"Paham, fy anwyl blentyn, yr ydych yn gofyn peth mor ffol?"

"Na, fy 'nhad, a fydd genych ystâd yn y bedd?"

"Na, 'fydd genyf fi ddim ond dwy droedfedd un ffordd, a saith ffordd arall."

Nid oedd Charley yn iach; ac yn ol cynghorion meddygon, anfonwyd ef at wraig weddw dduwiol o'r enw Mrs. Maurice, a breswyliai mewn bwthyn bychan tlws ar ystâd Ravensdale. Ar brydnawn teg yn yr haf, yr oedd Mrs. Maurice yn eistedd yn ei gardd flodau ac yn gwau, a Charley gerllaw yn ymddifyru gyda chwningen wên â llygaid cochion. Daeth cymydog i fewn, a dywedai, "Gyda'ch cenad, m'am, pwy yw y plentyn hawddgar, ond gwanaidd, sydd gyda chwi?"

"Master Lorrimer ieuanc," atebai Mrs. Maurice.

"Felly," ebai y cymydog; "mae yn dda genyf ddeall fod ei dad wedi adfeddiannu yr ystâd, ac mai y llanc bychan, prydferth, ac anwyl hwn fydd ein tîrfeddiannydd."

Clywodd Charley yr ymddyddan, dynesodd ymlaen, a dywedai, "Mrs. Maurice, byddai yn dda genyf i fy 'nhad fyw byth."

"Felly, fy anwyl," ebai hithau; "mae hyn yn deimlad hyfryd. Clywais am rai yn dymuno i'w perthynasau farw, er mwyn iddynt hwy gael eu heiddo; ond pa beth yw eich rheswm am ddymuno i'ch tad fyw byth?"

"Wel," atebai Charley, "ar ol ei holl drafferth i adbrynu y palas braf a'r meusydd hyfryd, dywedodd wrthyf na fydd ganddo yr un ystâd wedi marw."

Llanwai dagrau lygaid Mrs. Maurice, a dywedai, "Yn wir, fy anwyl, mae hyn yn alarus. Ni feddaf fi yr un ystâd yn y byd yma, ond fy mwthyn bychan, yr ardd, a'r berllan; ac nid eiddo fi yw y rhai hyn, canys deiliad wyf i'ch tad; ond pe credwn nad oes genyf ystâd mewn byd arall, torwn fy nghalon."

"A oes genych chwi ystâd, Mrs. M.," gofynai Charley.

"Oes," meddai hithau.

"A goll'soch chwi eich ystâd fel fy nhad?"

"Do."

"A ennillasoch chwi hi yn ôl fel efe?"

"Do; ennillodd Un arall hi i mi."

"A ellwch chwi ei chadw ar ol marw?"

"Gallaf, diolch i'r Iesu."

"Anwyl Mrs. Maurice, dywedwch wrthyf fi ychydig mwy o hanes eich ystâd chwi."

"Gwnaf, fy mhlentyn; os ewch i'r parlwr bychan, ac estyn fy Nhestament bras a'm spectol."

Gwnaeth Charley hyny. Trodd Mrs. M. i l Pedr i. 3, 4—"I etifeddiaeth anllygredig, a dihalogedig, a diddiflanedig, ac yn nghadw yn y nefoedd i chwi."

"A wyl fy nhad am yr ystâd yna, Mrs. M.?" gofynai Charley.

"Gwyr, feddyliwn," ebai Mrs. Maurice; "ond y mae ei bryder a'i drafferth gyda phethau y byd hwn wedi bod mor fawr, fel y mae yn bosibl na feddyliodd gymaint am dani. Gwnewch chwi, fy anwylyd, ofyn iddo."

"Gwnaf, gwnaf yn wir, m'am;" atebai Charley; "canys pe byddai ganddo ef etifeddiaeth mewn byd arall, ni byddwn yn agos mor alarus wrth feddwl am iddo farw, a gadael hon i mi. A cheisiaf finnau gael yr un ystâd, ac yna cawn fyw ynghyd mewn byd arall, oni chawn ni, Mrs. Maurice?"

"Gwir, fy anwylyd," ebai y weddw, a thorodd allan i wyllo.

Blwyddyn i'r un diwrnod, yr oedd Charley mewn ystafell brydferth yn mhalas ysplenydd Ravensdale dan ddwyllaw oerion angu. Wylai Mrs. M. wrth droed y gwely; a safai y tad wrth yr erchwyn mewn teimladau rhy chwerwon i ddagrau eu gosod allan. Ystyriai fod ei holl drafferth i adbrynu yr ystâd yn myned yn ofer, am fod ei unig etifedd, a dymuniant ei lygaid, yn marw.

"Cyfodwch fi yn eich breichiau, fy nhad anwyl," erfynai y plentyn.


"Gwnaf, fy mhlentyn."

Yr oedd Charley erbyn hyn â'i wyneb yn gwelwi, a'i wefus yn crynu, a'i lais yn wanaidd, "Pa, pa," meddai, "ni chaf fi mo ystâd Ravensdale ar eich ol chwi; ond y mae Iesu Grist wedi prynu ystâd i mi yn y nefoedd, yr wyf yn myned i feddiannu hono; ceisiwch chwithau yr un ystâd, fy nhad bach anwyl, fel y cawn ni eto fyw gyda'n gilydd."

"Gwnaf, yn nerth fy Nuw," ebai ei dad; "gwnaf, fy mab: darllenaf bob dydd l Pedr i. 3, 4—yr adnodau lle y mae y ddalen wedi ei phlygu arnynt yn eich Bibl bychan chwi."

Yn awr mae Charley bach a'i dad yn byw gyda'u gilydd ar hen etifeddiaeth äang ac anniflanedig Mrs. Maurice.

IOLO CLWYD.



## YR ANGELION YN Y BEDD.

**A** MAIR a ganfu ddau angel mewn gwisgoedd gwynion, yn eistedd, un wrth ben, ac un wrth draed y lle y dodasid corff yr Iesu.—IOAN XX. 12.

## HUW HUWS Y GO' YN YR YSGOL SUL.

## II.

**P**MYSG y plant yma yr wyf fi eto; a sut i ymadael â hwy ni wn i ddim. Dyma fi yn eu canol, ac yn nghanol eu swn, a swn mawr sydd yma! Eto i mi, er yn hen wr, swn hyfryd iawn ydyw, oblegid nid wrth fy nglust yn unig y byddaf yn barnu. Yn wir, nid allaf lai na chwerthin—ac yn siwr, fe chwarddech chwithau pe baech yma—wrth glywed yr amrywiol leisiau a'r gwahanol ddywediadau yn taro ar eich clust. Clywch! “C,” meddai un; “Eph,” ebe un arall; “Yph,” gwaeddai y llall, gan gywiro sain y llythyren; a “dos o'i flaen” meddai yr athraw, gan wobrwyo y cywiraf; “un Duw sydd,” a “da yw Duw i bawb,” sydd i'w glywed ar y llaw ddê, tra y daw “yrwan 'mhlant i,” oddiwrth ryw athraw cynhes-galon fan acw; ac un arall yn ochr hwnw yn geryddol ei dôn yn dyweyd, “edrychwch ar eich llyfrau, bawb;” ac i roi pen ar y cwbl, mae llais i'w glywed o fysg y dynion acw yn tystio mai “fel hyn y dywed James Hughes,” ac oll yn disgyn yn un gawod o leisiau ar y glust. Mae rhywbeth rhyfedd yn eich meddiannu wrth sefyll ar un o heolydd y trefi mawrion yma. a gwrandao ar y swn, a'r trwst, a'r murmur, a'r bywyd sydd o'ch cwmpas. Oes, ac y mae yma hefyd rywbeth sydd yn lloni eich hysbryd ac yn derchafu eich henaid wrth weled y fath egni, difrifwch, sylw, a bywyd gyda'r dosbeirth, a chofio fod yr ymgais hwn i gyd i ddwyn ymlaen frwydr y ffydd yn fuddugoliaethus, ac fod

y tadau yn edrych ar y bedd, lle y byddant hwy yn fuan, ac yna yn edrych ar y plant fel rhai i fod yn effro gyda'r gwaith pan odywedir, "Y tadau, pa le y maent hwy?"

A glywais i rywbeth arall? Do, ysywaeth. Da fuasai genyf pe na chlywswn, a phe na fuasai genyf i'w adrodd yn awr. Ie, drwg genyf glywed y bachgen yna yn y dosbarth o'm tu ôl yn steb fel hyn, "*Nid wn i ddim, ac nid gwaeth genyf chwaith.*" Mae yn waeth genyf fi, ynte, meddwn i wrthyf fy hun. Wrth gwrs, nid oeddwn i yn ei feio gymaint am y darn cyntaf o'r dywediad, canys y mae y goreu yn methu weithiau; ond am y darn olaf yna, oblegid yr oedd yn swnio yr un ffunud â'r hyn ellid ei ddysgwyl gan

#### Y BACHGEN DIOFAL.

Aethum i'w ddosbarth, i edrych ai un felly ydoedd. Yr oeddwn yn dysgwyl cael fy siomi yr ochr oreu, ond mi gefais fy siomi yr ochr waethaf. Un gwagsaw iawn yw y bachgen diofal. Nid oes dim llawer o ddrwg yn perthyn iddo, os nad y drwg hwn—nad oes dim llawer o dda ynddo. A fu crib trwy ei wallt heddyw? Do, rywsut. A fu dwfr ar ei wyneb? Do, rywfaint—un diofal ydyw. A oes eisien cysgu arno? Wel, nac oes, dim eisien cysgu, ond nid gwaeth ganddo pe cysgai chwaith. Un yn byw rhwng cwsg ac effro ydyw. Dyna y testament yn syrthio o'i law! O, ie, siwr, "Llac ei afael a gyll." Yrwan dyna ei dro ef i ddarllen, ond, "Prun ydy' hi," meddai wrth y nesaf ato. Wedi cael yr adnod, chwi allech weled canlyniadau diofalwch yn y ffordd glogyrnaidd, ffwrdd-â-hi-rywsut, y mae yn ei darllen. Llauer gwaith y mae rhai o'i fath ef wedi tori ar ddifrifwch dosbarth cyfan trwy eu diofalwch yn darllen. Amser yn ôl, yr wyf yn cofio bod mewn dosbarth, lle yr oedd pawb o ddifrif, a phawb yn sylwgar, a'r geiriau "ac ni chafodd le i wadn ei throed" i'w darllen. Ac yn ddiofal, fe'u darllenwyd hwynt fel hyn—"ac ni chafodd le i wneyd troed!" Nid annhebyg i hyn oedd y tro pan yr aeth dosbarth o wfr sobrddwys i chwerthin yn anwedus trwy ddiofalwch un oedd i ddarllen yr hyn a ddywedir am Esther, sef, "A'r llances oedd weddeiddlwys," pryd y darlennodd ef fel hyn—"A'r llances oedd Wyddeles!" a phan gynnygiai yr athraw ei gywiro, dangosai fwy o ddiofalwch trwy haeru mai "Gwyddel oedd Mordecai!"

Yn y modd hwn, y mae diofalwch mewn un yn achosi ysgafnder mewn llawer. Mae yn rhaid i'r bachgen yna ymysgwyl o'i ddifrawder, ac ymroi i weithio, neu ni welir ef yn rhagori, nac mewn daioni, gwybodaeth, na dim arall. Mae y diafol yn rhodio oddiamgylch gan geisio bechgyn diog, diofal, tra mae y Nefoedd yn helpu y rhai sydd yn helpu eu hunain. Yn ysgol Harrow, fynyddoedd lawer yn ôl, yr oedd bachgen, yr hwn, er bod yn isaf yn y dosbarth pan aeth yno ar y cyntaf, a weithiodd ei ffordd ymlaen i ben y dosbarth, ac fe'i cadwodd tra bu yno. Y ffordd a gymerodd i gyrhaedd hyn oedd bod yn ddiwyd gyda'i wersi adref



yn darparu gogyfer â myned i'r dosbarth. Yr oedd ganddo fam gall iawn hefyd; oblegid bob tro yr äi y bachgen ati i ymhcli ynghylch rhywbeth a fynai wybod, ei hatebiad iddo yn wastad oedd, "Dos a darllen, William." Y bachgen hwn wedi'n oedd Syr William Jones, un o ieithyddwyr penaf y byd.

Huw Huws.

GWELED TRWY Y DRYCH.

**W**RTH edrych ar y cwmwl  
 Yn crogi uwch fy mhen,  
 Meddyliais am fy Mhrynw'r  
 'N hoeliedig ar y pren ;  
 A chwml du cyfiawnder,  
 Yn llawn digofaint Duw,  
 Yn cael ei dywallt arno,  
 Er arbed dynolryw.

Wrth edrych ar flodeuyn,  
 Y tlysaf o bob rhyw ;  
 Meddyliais am y Rhosyn  
 Sy 'n ngardd paradwys Duw ;  
 Ei enw—Rhosyn Saron,  
 A'm Iesu yw efe :  
 Ef ydyw penaf wrthddrych  
 Addoliad pur y no'.

Wrth wel'd yr haul yn codi,  
 A machlud wedi hyn,  
 Meddyliais am yr Iesu—  
 Haul mawr cyfiawnder gwÿn ;  
 Hwn ar ein byd a gododd  
 Draw ar Galfaria 'n wir,  
 Ac ni bydd machlud arno—  
 Ond pery 'i oleu 'n glir.

Wrth wel'd y dŵr yn rhedeg  
 Yn ffrydiau gloew glân,  
 Ac edrych ar ei darddiad,  
 A'i ddilyn yn y blaen,  
 Fe redai fy myfyrdod,  
 Ar union tua 'r bryn,  
 Lle gwelaf ffynnon gochliw  
 I olchi 'r du yn wÿn.

Hon ddaeth o ystlys Iesu,  
 Trwy glwyf y bicell fain,  
 Ac am ei rhinwedd grasol  
 Mi gana' â pheraidd sain ;  
 Hon y'ch fy nghalon aflan,  
 A lwyr iachâ fy mriw,  
 Ac a'm gwna oll yn gymhwys  
 I drigo gyda Duw.

LLYFRAU NEWYDDION.

[Y LLYFB CYNTAF I DDYSGU DARLLEN CYMRAEG, ar ddull newydd, at wasanaeth teuluoedd, a'r Ysgolion Sabbothol, gan T. C. JONES (Peris), Athraw Ysgol Frytanaudd Glyndyfrdwy. Wedi ei gymeradwyo gan Undeb Ysgolion Sabbothol Llangollen. 8s. y cant.]

**I**N tyb ni, y mae hwn yn welliant ar un llyfr o'i fath sydd eto wedi ymddangos. Mae ei arweiniad yn hawdd ac effeithiol; a rhaid i ddyn fod yn o hurt os na ddysga ddarllen yn fuan gyda chyfarwyddyd mor dda.

[Y SYMBLYDD; *Cylchgrawn Misol: dan olygiaeth* JOHN OGWEN JONES, A.B., *Liverpool.* Pris ceiniog.]

**M**AE yn anhawdd rhoddi barn ar y cyhoeddiad hwn, gan nad oes yr un gair o hysbysrwydd ynddo i ba amcan, neu ddosbarth o bobl y bwriedir ef. Oblegid canon yr adolygydd yw,—

“In every work regard the author's end,  
Since none can compass more than they intend.”

Y mae yn y rhifyn hwn erthyglau buddiol iawn, y rhai y bydd yn dda gan efrydwyr yn yr Ysgrythyrau gael y cyfläsudra i'w darllen a'u hastudio. Dymunwn bob llwyddiant i'r Cyhoeddwr (C. Evans, 40, Mill Street), a'r Golygydd yn eu hanturiaeth.

[Y GWEDDIAU TEULUAIDD. Gwel hysbysrwydd ar amlen y rhifyn.]

**M**AE y “Gweddiau” o'r diwedd yn barod, a dymunem i bawb anfon at y Cyhoeddwr i Dreffynnon, ac nid i Morriston, am danynt. Gan fod y fath lyfr yn beth go newydd ymysg y Cymry, yr ydym yn dysgwyl amrywiaeth barnau arno. Gosodwn yma ddarn o'r *Rhagymadrodd*, a dyfyniad o un o'r llythyrau a dderbyniwyd oddiwrth gyfaill yn ei gylch;—

O'R RHAGYMAURODD.

“Y pethau canlynol a barodd i'r awdwr anturio ar y gorchwyl o ddarparu y ffurfweddiau hyn:—

1. Deall fod cynifer o aelodau eglwysig yn methu ymgymeryd â chynnal addoliad teuluaidd, naill ai oddiar ofn a gwyleidd-dra gormodol, neu oddiar anfedrusrwydd i ffurfio ymadroddion cyfaddas yn mhresenoldeb eu teuluoedd. Wrth gael cynnorthwy ffurf i gychwyn, mae yn bosibl y delai cannoedd o'r cyfryw i wneyd yn fuan hebddi.

2. Er cynnorthwyo y teulu i gynnal yr addoliad teuluaidd yn absenoldeb y penteulu. Bydd y fam, neu un o'r plant, neu was, neu forwyn, yn fynych yn abl i ddarllen pennod o'r Bibl, pan na byddo y penteulu gartref; ond anaml y ceir gan y cyfryw “fyned i weddi.” Ond wrth gael ffurf syml ac eglur o'u blaen, symudid yr anhawsdra, a chedwid yr addoliad teuluaidd yn llawer mwy difwlch.

3. Er mwyn ychydig o gyfnewidiad yn awr ac yn y man i'r rhai

sydd yn arfer arwain yr addoliad teuluaid. Clywodd yr awdwr amryw o weinidogion yr efengyl yn cwyno—ac y mae yn brofiadol o hyny ei hun—fod y meddwl yn fynych yn rhedeg i ryw unfurfaeth annymunol wrth weddio; yr unrhyw ymadroddion a deisyfladau yn dyfod y naill dro ar ol y llall, nes peri i'r weddi golli ei gafael, i raddau helaeth, yn y meddwl. A buasai cael ffurf, ambell waith, i arwain y meddwl allan o'i hen rodfa gyffredin, yn beth pur hapus a manteisiol.

4. Clywed rhai yn fynych yn arfer ymadroddion amhriodol, neu yn cymeryd i fyny hen frawddegau ystrydebol ar ol eraill, a'r rhei'ny bellach wedi hen golli eu hystyr i bob meddwl. Gall llawer fod yn teimlo yn groes iawn i arfer ffurfweddïau, tra nad yw eu gweddïau hwy eu hunain ond ffurfiau wedi eu dysgu oddiwrth eu henafiaid, a'r rhei'ny, yn fynych, heb fod y mwyaf synwryol a gweddus."

DYFYNIAD O LYTHYR ODDIWRTH Y PAROH. D. C. DAVIES, M. A.

"ANWYL GYFAILL,—Yr wyf wedi teimlo hyfrydwch wrth ddarllen llawer o'r Gweddïau yn eich llyfr o "Weddiâu Teuluaid." Nis gallaf lai na theimlo eich bod wedi gwneuthur gwasanaeth da i'ch cenedl trwy ei gyhoeddi. Y mae y Gweddïau a ddarllenais yn ddefosiynol ac efengylaidd o ran ysbryd—yn gynnwysawr o ran sylwedd—yn syml o ran dullwedd—yn amrywiol o ran meddwl ac iaith—yn fyrion o ran hŷd—ac am hyny yn gymhwys i gynnorthwyo yr ofnus a'r byrion eu dawn i gadw gwasanaeth crefyddol yn eu teuluoedd. Y mae pawb o honom mor dueddol i weddio mewn ryw ffurf neillduol o feddyliau a geiriau, nes colli graddau o deimlad ac ysbryd gweddi; fel y mae ffurfiau o weddi, er yn argraffedig, yn gymhwys i symud gradd o'r ffurfoldeb hwnw, a thrwy hyny i feithrin ysbryd defosiynol yn y rhai a'u defnyddiant. Gobeithiwyf y bydd i'r Cymry hyny sydd yn teimlo eu gwendid i addoli yn gyhoeddus yn eu teuluoedd, addoli â'u pwys ar ben y ffon yr ydych wedi ei ddarparu ar eu cyfer.—Yr eiddoch yn ddiffuant,

"D. C. D."

DIOLCH AM Y BWYD.

(Eiddo DAVID PRICE bach.)

A M fy mwyd, rho i mi galon  
 I'th gydnabod, O fy Nuw;  
 Wrth ei dderbyn gwna fi 'n foddlon  
 I'th was'naethu tra f'wyf byw;  
 Portha 'm henaid tlawd anghenog,  
 A'r gwir Fara ddaeth o'r nef,  
 Fel na byddwyf mwy newynog,—  
 Er mwyn Iesu, gwrando 'm llef.



J. R., Treforis.

### Y TEILLIWR-ADERYN A'I NYTH.

**B**R enw wrth ba un y mae dysgedigion yn adnabod yr aderyn bychan hynod hwn yw *sylvia sartoria*. Mae y gair *sylvia* yn dynodi yr holl gantorion o'r adar o rywogaeth y dryw. Ac y mae *sartoria* yn dynodi y dryw neillduol sydd yn gweithio fel crydd. Mae ein cyfaill wedi bod yn dra llwyddiannus yn ngweithiad allan y cerflun, a gobeithio y medr ein holl ddarllenwyr ei weled a'i werthfawrogi. Un o adar India yw hwn, lle mae mwncïod a nadroedd yn yspeilio nythod yr adar o'u hwyau; ac y mae y Crëawdwr mawr wedi cynnysgaethu yr aderyn hwn â greddf i wneyd ei nyth allan o'u cyrhaedd.

Bydd yn dewis dalen ar flaen brigyn main; ac os bydd y ddalen ddigon mawr, tyn ei hymylon ynghyd, a gwnia hi i fyny yn fath o bwrs cryno a phrydferth i ddal ei nyth. Ond os bydd y ddalen yn rhy fach, cymer amryw o'r dail, a gwnia hwy ynghyd, fel y dangosir yn y darlun. Ei edau yw glaswellt main wedi eu plethu, a'i fynawyd a'i fysedd yw ei big. Wedi gwnoio y dail, a gwneyd math o bwrs diogel o honynt, gwna y tu allan i'w nyth o laswellt sychion, a'r tu fewn yn gynhes gyda phlu adar, a man-

blu llyisiau. Yno y bydd yn dodwy ac yn deor ei rai bychain, a'i gawell cywrain yn cael ei ysgwyd a'i siglo gan y gwynt.

"Mor lliosog, yw dy weithredoedd, O Arglwydd! gwnaethost hwynt oll mewn doethineb; llawn yw y ddaear o'th gyfoeth."

## DOSBARTH Y BIBLAU.

**ATHHEW.**—**PENNOD XXII.**—1. Ar ba ddefod y mae dammeg priodas mab y brenin wedi ei seilio?

2. Beth yw y prif wirionedd a ddysgir trwy y ddammeg?

3. Cyfeiriad at ba amgylchiad sydd yn y 7fed adnod, a pha bryd y cymerodd le?

4. Nodwch y gwahaniaeth yn yr ymddygiad a ddangosir yn y 5ed a'r 12fed adnod.

5. Beth oedd amcan y Pharisëaid wrth anfon yr Herodianiaid gyda'u dysgyblion i demtio yr Arglwydd Iesu?

6. Beth oedd yr anhawsder yn eu cwestiwn?

7. A oedd mwy nag un arian bathol yn ngwlad Canaan ar y pryd? Os oedd, pa ddefnydd gwahanol a wnelid o honynt?

8. Beth yw y ddatl dros adgyfodiad y meirw yn adn. 32?

9. Pa fodd yr oedd Crist yn fab ac yn Arglwydd i Dafydd, a pha beth oedd am ddyngu iddynt trwy y cwestiynau hyn am dano ei hun?

**PENNOD XXIII.**—1. Beth a ddeallir wrth gadair Moses?

2. Pa sawl sefydlydd goruchwyliaeth y rhydd y Bibl eu hanes?

3. Beth yw y drwg mawr a feir gan Grist yn y deuddeg adnod blaenaf o'r bennod hon?

4. Beth oedd y phylacterau, ac ar ba ranau o'r Ysgrythyr yr oeddent yn seilio eu gwisgiad, a gwneuthuriad "ymylwaith" eu gwisgoedd?

5. Beth yw meddwl Crist pan y mae yn gwahardd ei bobl i gael eu galw yn athrawon, yn dadau, &c.?

6. Sut yr oedd y Pharisëaid yn cau teyrnas nefoedd yn erbyn dynion?

7. Sut yr oeddent yn "bwyta tai gwragedd gweddwon?"

8. Beth a feddylir wrth eu bod yn gwneyd proselyt yn fab uffern, &c.?

9. Beth yw ystyr llw, a pha beth oedd wedi arwain y Pharisëaid i roi mwy o bwys ar aur y deml nag ar y deml ei hun?

10. Beth a feddylwch wrth y geiriau "barn, trugaredd, a fydd?"

11. Ymka beth yr oeddent yn "hidlo gwibedyn ac yn llyncu camel?"

12. Pwy oedd Zecharias fab Barachias, a pha bryd y cafodd ei ladd?

13. Pa fodd yr oedd yn gyfiawn dwyn yr holl waed a dywallt-wyd o ddyddiau Abel, ar y genedlaeth hon?

PENNOD XXIV.—1. Nodwch y rhanau o'r bennod hon sydd yn cyfeirio (1.) at ddinistr y deml; (2.) at ddyfodiad Crist a diwedd y byd.

2. Pa sawl gau-grist y sonia y Bibl am danynt?

3. Beth yw y gymhariaeth y cyfeiria "dechreuad gofidiau" ati (adn. 8)?

4. Nodwch allan bob gwlad ag y mae sicrwydd fod yr efengyl wedi ei phregethu ynddi.

5. Pa ddiwedd a feddylir yn adn. 14?

6. Beth oedd y ffeidd-dra y dywedwyd am dano trwy Daniel y prophwyd?

7. Pa dybiau ac arferion sydd wedi eu seilio ar adn. 27?

8. Pwy a feddylir wrth y gelain (adn. 28), ac wrth yr eryrod?

9. Beth yw yr amcan sydd gan Grist wrth raghysbysu hyn oll?

### *Dinistr Jerusalem, a dydd y farn.*

"Dywedwch fod yma naid fawr o ddinistr Jerusalem i ddiwedd y byd, yr hwn y dywedir y daw yn y fan ar ei ol. Yr wyf finnau yn ateb—Fod prophwydoliaeth yn debyg i ddarlun gwlad (*landscape painting*) yn dangos y tai, y llwybrau, a'r pontydd, yn eglur yn rhanau agosaf y darlun, ond yn dwyn ynghyd, i gylich cyfyng, y dyffirnoedd a'r mynyddoedd pell, er eu bod ymhell oddiwrthynt. Felly y dylai y rhai sydd yn astudio prophwydoliaeth edrych ymlaen i'r dyfodol, i'r lle mae y brophwydoliaeth yn cyfeirio."—*Bengel*.



### GWEDDIAU Y BIBL

#### III.—*Gweddi Eliezer, gwas Abraham.* Gen. xxiv. 12—14.

**ARGLWYDD** Dduw fy meist'r Abraham, attolwg, pâr i mi lwyddiant heddyw; a gwna drugaredd â'm meist'r Abraham. Wele fi yn sefyll wrth y ffynnon ddwfr, a merched gwŷr y lldinas yn dyfod allan i dynu dwfr; a bydded mai y llances y lywedwyf wrthi, Gogwydda, attolwg, dy ystên, fel yr yfwyf, os lywed hi, Yf, a mi a ddiodaf dy gamelod di hefyd, hono a ddarpariaist i'th was Isaac; ac wrth hyn y caf wybod wneuthur o honot i drugaredd â'm meist'r.

#### IV.—*Diolchgarwch Eliezer.* Gen. xxiv. 27.

Bendigedig fyddo Arglwydd Dduw fy meist'r Abraham, yr hwn i adawodd fy meist'r heb ei drugaredd, a'i ffyddlondeb; yr ydwyf r y ffordd; dyg yr Arglwydd fi i dŷ brodyr fy meist'r.



CHARLES I.

**I**ONAWR 30ain, 1649, oedd y dydd y torwyd pen Charles I, brenin Lloegr. Yr oedd Charles yn ddyn o berson golygus a glân, ac o gyfansoddiad cadarn. Ond yr oedd am gael mwy o awdurdod nag yr oedd ei senedd yn foddolawn ganiatáu iddo. O'r diwedd aeth y senedd ac yntau i ryfela yn erbyn eu gilydd. Oliver Cromwell oedd y dyn mwyaf ymysg ei wrthwynebwyr. Daliwyd y brenin, profwyd ef yn euog o fradwriaeth yn erbyn ei senedd, a chondemniwyd ef i farw. Rhoddwyd tri diwrnod i'r brenin i ddarparu ar gyfer marw. Treuliodd y rhai hynny yn nghwmni ei gynghorwr ysbrydol, esgob Llundain, ac yn nghwmni ei blant. Yr oedd yn un o'r tadau mwyaf serchog ac anwyl. Nid oedd ond dau o'i deulu ar y pryd hwnnw yn y deyrnas—y dywysoges Elizabeth, 13 oed, a duc Gloster, 9 oed. Yr oedd yr olwg arno wrth ymadael â'r rhai hyn yn dorcalonus i'r pen. Cymerai y bachgen ar ei lin, a dywedai, "Rhaid i ti beidio myned yn frenin tra fydd dy frodyr, Charles a James, yn fyw. Os gallant ddal dy frodyr, torant eu penau ymaith; a thorant dy ben dithau hefyd yn y diwedd. Gan hynny, gwranddo fi, fy machgen, paid goddef iddynt dy wneyd yn frenin byth!" Atebodd y llanc gydag ochenaid, "Cânt fy nhori yn ddarnau yn gyntaf!"

Cysgodd Charles yn drwm y noswaith cyn tori ei ben; deffrôdd yn fore, a gwisgodd ei hun gyda mwy o ofal nag arfer. Crynai Herbert, ei weinidog, wrth gribo ei wallt. Ond, meddai Charles wrtho, "Er nad yw i fod yn hir ar fy ysgwyddau, cymerwch yr un gofal i'w drin ag arfer. Herbert," ychwanegai, "dyma ddydd fy ail briodas, ac yr wyf am fod mor daclus ag sydd yn bosibl." Rhoddodd ddau gryd am dano am ei bod mor oer. "Nid oes

arnaf ofn marw," ebai ; "diolch i Dduw, yr wyf yn barod ; gadewch i'r dyhirod dd'od." Arweiniwyd ef o St. James i'r esgynlawr dyoddef yn Whitehall. Yr oedd y plocyn a phobpeth arall o gwmpas, yn orchuddiedig â brethyn du ; dau ddienyddwr du yn barod, a mwgwd dros eu llygaid ; nifer o filwyr yn cylchynu yr esgynlawr ; a thyrfa fawr bryderus o amgylch.

Ar ol awgrymu fod ei ddienyddiad ef mewn rhan yn farn am ddienyddio Strafford, dywedodd, "Yr wyf yn maddeu i'r holl fyd, ac yn arbenig i'r rhai hyny sydd wedi bod yn brif offerynau fy marwolaeth. Pwy ydynt, Duw a wŷr ; nid wyf fi am wybod ; yr wyf yn gweddio ar Dduw am faddeu iddynt."

Pan gyffyrddodd un â'r fwyall, dywedodd, "Peidiwch anafu y fwyall, onidê anafa hithau fi." Ac meddai wrth Hacker, "Gofelwch na chaffont beri poen i mi." Pan yn derbyn cap satin gan yr eagob i'w roi am ei ben, dywedodd, "Y mae genyf achos da, a Duw graslawn yn blaid." Yna aeth ar ei liniau, gosododd ei wddf ar y plocyn, estynnodd ei ddwyllaw allan i arwyddo ei fod yn barod, ac ar un ergyd disgynnodd y pen gwaedlyd yn y cap satin i'r llawr. Peraroglywyd ei gorff, a chladdwyd ef yn Windsor, yn yr un beddgell a Henry VIII. a Jane Seymour. Dyna ddiwedd Charles Stuart, yn y 49 mlwydd o'i oedran.



### Y BABAN YN MARW.

**B**AN welais y baban ar ddwylin ei fam,  
A'i ruddiau yn gwelwi yn angau,  
Trywanodd fy nheimlad, fy nghalon rodd lam.  
Newidiodd mewn eiliad fy ngwenau.

Y baban diniwed, ei babell oedd wan,  
I ddyoddef y pwysau oedd arni ;  
Ehedodd ei enaid nefolaidd i'r lân,  
Uwch adfyd y byd a'i drueni.

Yn nhrymder y t'wyllwch ei wyllo wna 'r tad,  
A'i ddagrau sydd heilltion yn treiglo,  
Wrth ganfod y baban bron gadael y wlad,  
I fyned i'r nef i breswyllo.

Wrth erchwyn ei wely, ei dirion hoff fam,  
Mewn galar oedd yno yn welw,  
Yn gwneuthur ei hegni, rhag iddo gael cam,  
Er hyny y baban yn marw.

Ar doriad y wawrddydd, heirdd engyl y nef,  
Amgylchant hardd fwthyn y baban,  
Gan ddywedyd yn serchog, Gadewch iddo ef  
O'r gorthrwm a'r cystudd ddod allan.



## LLYTHYR MERCH AT EI THAD.

*At Olygydd TRYSORFA Y PLANT.*

**S**YR,—Yr wyf wedi cael llawer o bleser trwy ddarllen TRYSORFA Y PLANT y naill fis ar ol y llall, ac yr wyf yn gobeithio fy mod wedi cael ymborth ysbrydol drwyddi; ac nid oes genyf ond gobeithio y bydd iddi barhâu ac ychwanegu cryfder. Yr wyf fi yn credu pe ceid un o'r TRYSORFAAU hyn yn llaw pob bachgen a geneth o Gymru, y byddai cyn hir olwg newydd ar ein cenedl. O! mor ddymunol yw gwelod mewn aml i dŷ yn Nghymru bump neu chwech o blant, ynghyd a'r tad a'r fam a'r tylwyth, oddeutu y tân yn gwledda ar y danteithion gwerthfawr a geir ynddynt! Diamnheu y byddai amddifadrwydd o DRYSORFA Y PLANT, bellach, yn amddifadrwydd o un o brif ffynnonau cysur ac addysg y teulu crefyddol Cymreig. Y mae ar y plant eisieu gwaith, eisieu pleser; ac os na chânt bleser cyfreithlawn, ânt i chwilio am bleserau anghyfreithlawn; allan yn hwyr y nos, mewn segura, ysmocio, myned i'r dafarn, &c. Ond gwaith y DRYSORFA, dybygwyf fi, yw rhoddi gwaith i'r plant a phleser, a hwnw yn bleser gwirioneddol a chyfreithlawn—meithrin chwaeth at ddarllen, ysgrifenu, a meddwl. Pwy all ddarllen TRYSORFA Y PLANT heb deimlo mor werthfawr yw crefydd, ac mor ddymunol yw crefydd foreuol, yr hon a ddysgir gan nain a mam i'r plentyn. Ond y peth sydd genyf i'w roddi ger bron lluosog ddarllenwyr y DRYSORFA, os caniatëwch chwi, yw llythyr a anfonwyd oddiwrth ferch ieuanc sydd yn gwasanaethu yn y brifddinas, at ei thad dibroffes yn Nghymru. Cefais y llythyr trwy ffafir ganddo, ar yr ammod wedi ei ail ysgrifenu o'i anfon yn ôl. Yr oedd yn dda genyf weled yr afael oedd gan yr hen wron twymgalon ynddo, a gobcithio, meddaf, o'm calon, cyn hir, y bydd y gwirioneddau pwysig sydd ynddo & gafael ganddynt ynddo yntau. Cydnabyddai ei fod yn methu a dal ei ddarlleniad; pwy a ŵyr na bydd iddo fod yn foddion yn llaw Ysbryd Duw er cadwedigaeth iddo? "Canys pwy a ddiystyrodd ddydd y pethau bychain?"

Ysgrifenyd y llythyr gan y ferch ieuanc dan amgylchiad pur sobr, pan oedd ewythr iddi, brawd ei thad (yr hwn oedd anwyl a hoff ganddi), wedi myned i orphwys ar ddiwedd ei yrfa yn y fuchedd hon. Dyma y llythyr:—

"Llundain, Awst, 1864.

"ANWYL DAD,—Yr wyf yn anfon ychydig o linellau atoch, gan eich hysbysu fy mod wedi derbyn y newydd galarus bore heddyw am farwolaeth fy anwyl ewythr.

\* \* \* \* \*

Yr wyf yn dymuno i chwi wneyd dau beth i mi, sef yn gyntaf anfon darlun fy anwyl ewythr i mi, ac hefyd ychydig o'i wallt. Bydd yn gysur mawr genyf eu cael, nid am fy mod yn meddwl y byddaf fy hunan nemawr ar ei ol; ond bydd yn dda genyf eu

cadw tra y byddaf i gofio yn barchus am dano. Cofiwch beidio fy siomi er dim am danynt. Buasai yn dda genyf gael myned gydag ef, pe gallaswn dybied fy mod yn dduwiol fel ag yr oedd ef; i.e. yn etifedd yr etifeddiaeth anllygredig, ddiiddiflanedig, yr hon oedd yn cael ei chadw yn y nefoedd iddo ef. Fy nhad bach, gobeithio y bydd i chwi fynu cael crefydd, i.e. crefydd fel eich brawd; fe fydd yn sicr o dalu i chwi yn y diwedd; a diolchwch lawer fod gobaith i ni gael myned 'yno'—dim nos 'yno'—dim aflan 'yno' hefyd. Yr wyf yn treio peidio chwennych fy anwyl ewythr yn ôl, o achos mae hyn yn bechod i mi; ond fe fuasai yn dda genyf ei weled, pe na chawswn ddyweyd ond un gair; ond y mae efe wedi myned yn rhy bell. **MARW! MARW!** Peth sobr iawn ydyw bod yr enaid yn ymadael â'r corff. Ond achos llawen-hâu sydd genym ni, nad ydyw fy ewythr ddim *wedi marw*, ond ei fod *yn fyw*, er fod ei gorff yn cael ei adael yn y pridd. Fy anwyl dad, yr wyf yn credu na fedrwch roddi fy ewythr bach yn y ddaear, heb ofyn i'r Arglwydd roddi crefydd i chwithau fel eich brawd. Ni raid i chwi ond teimlo, credu, a gofyn, *Arglwydd anwyl, dyro grefydd i minnau fel fy mrawd, er mwyn Iesu*, yna ni fedr Duw ddim peidio ei rhoi; i.e. un mor fawr a Duw er mwyn ei Fab. O! fy nhad, y mae o dragywyddol bwys i ni wybod pa fodd y mae rhyngom â Duw. Peth difrifol iawn ydyw marw yn *annwviol*. Ond marw yn orfoleddus wnaeth fy anwyl ewythr; nid oedd dim damnedigaeth yn ei aros, a chredaf nad oes gan neb deimlad na meddwl gwahanol. Y mae fy nheimpladau yn fy ngorchfygu, a'm meddyliau yn llawer cyflymach na'm llaw. O! fel yr wyf yn teimlo na chaf byth ei glywed yn gweddio yn nghapel y B——, na *ledio* yr hen bennill hwnw,—

“Dros y bryniau tywyll, niwlog,” &c.

Ond y mae ef erbyn hyn wedi myned drostynt. Yr wyf yn gobeithio fod fy anwyl fodryb yn cael nerth i gynnal y brofedigaeth. Nid oes genyf yn awr ond terfynu gan anfon fy nghofion caredicaf atoch, ac atynt oll pan ewch adref.—Ydwyf eich anwyl

JANE.”

Gobeithio yr wyf y bydd i'r llythyr hwn fod yn foddion i feithrin teimpladau crefyddol, a hefyd yn foddion i ddwyn llawer o'n hieuenctyd i ysgrifenu llythyrau cyffelyb at eu perthynasau, gyda'r cyffelyb amcan goruchel. A chan ddymuno ar i holl ddarllenwyr ieuainc ac anwyl y llythyr hwn gyd-ddymuno â Jane bach ar ran ei thad, y terfynaf.—Yr eiddoch yn gywir,

*Llanfairfechan.*

DWYFOR.

DAMMEG Y BARCUTAN PAPYR.

**M**AWN tréf fawr ar làn y môr, trigai barcutan papyr hardd a mawreddog. Ar ddiwrnod o wynt teg, teimlai awydd dangos i'r trigolion pa mor uchel y gallai ef ehedeg. Cylymodd

ei berchen llyn wrth ei droed, a gadawodd iddo gael ei ddymuniad. Cychwynodd yn chwim a phrydferth, ac ehedodd i fyny, i fyny, nes yr aeth yn uwch ddengwaith na'r clochdŷ. Yn y man dechreuodd benfeddwi ar ei ddyrchafiad. Dywedai, "O, yr wyf fi yn uchel. Gwelaf filoedd o bobl yn edrych arnaf. Rhaid fod pawb yn fy ngweled ac yn fy mawrygu. Ond beth pe gwyddent hwy yr holl bethau all barcutan papyr fel fi wneyd? Y llinyn yma sydd yn fy nal i lawr yw fy unig rwystr. Pe cawn fy nhroed yn rhydd o'r llinyn hwn, ehedwn am yr uchaf a'r eryr. Ymwithwn trwy y cwmwl, ac ymddyrchafwn ymhell, bell, uwch-law iddo. Dirmygus genyf fi yw ehedeg yn yr un ffurfafen a'r adar cyffredin."

Daliai y barcutan papyr i ymfrostio fel hyn, gan dynu o hyd yn y llinyn, a deisyf cael myned yn rhydd. O'r diwedd, yn ddisymwth, torodd y llinyn. Gyda hyn, bloeddiodd yntau, "Ffarwel i chwi oll! dyma fi yn myned. Mynaf weled y llwybr llaethog am unwaith."

Ond yr awel gyntaf wedi tori y llinyn, wele y barcutan papyr ymfrostgar, druan, â'i blu yn y gwrthwyneb, a'i gynffon am ei ben, yn dyfod i lawr yn gyflym a phendramwnwgl. Chwarddai pawb ond ei berchenog am ei ben. Disgynodd yn y môr; yno boddodd, a bwytaodd y pysgod ef. Dyma ddiwedd y barcutan balch.

Dyma ddrych cywir o galon falch ambell ŵr ieuanc. Saif ar ddrws ei dad yn llawn uchelgais hunanol. Cwyna yn arw yn erbyn llywodraeth deuluaidd ei rieni. Nid yw cynghorion a rhybuddion ei dad a'i fam, a rheolau y teulu, ond llinyn am ei draed, yn ei gadw wrth y ddaear, ac yn rhwystro ei ddyrchafiad; ac am hyny penderfyna dori y llinyn, a mynu ei ffordd ei hun. Ond cân sicred ag iddo wneyd hyny, mae tynged y barcutan papyr o'i flaen. Y diwedd fydd syrthio ar y creigiau i'w ddryllio, neu i'r môr i'w fodd. Ac yn y cwmp hwnw mae llawer enaid wedi syrthio i bwll dyfnach na gwaelod y môr.

Cofiwch bobl ieuainc! fel y mae yn rhaid i'r barcutan papyr wrth nerth tyniad y llinyn tuag at ymgodi, y mae yn rhaid i chwithau ymostwng i lywodraeth deuluaidd tuag at ymddyrchafu.

D. W. J.

## Y PARCH. W. JONES A "THRYSORFA Y PLANT."

**M**AE plant Salem, Nant y glo, yn dymuno cyflwyno eu diolchgarwch calonog i'r Parch. W. Jones, Cendl, am eu hanrhegu & chynifer o gopiau o DRYSORFA Y PLANT—sef 12 rhifyn yn fisol am 1863, a 16 am 1864—y cwbl yn rhodd a rhad, ar yr unig ammod ein bod yn eu darllen. Gan nad sut y bydd am 1865, yr ydym wedi bwrw ein penau ynghyd, i gydgyflwyno ein diolchgarwch iddo am a dderbyniwyd; ac os byddwch chwi, Mr. Gol, mor

garedig a gadael y llinellau hyn i ymddangos yn y DRYSORFA, byddwn yn ddiolchgar iawn i chwithau:—

Mae A B C yn cynnyg  
 Fod diolchiadau gant,  
 A D a T 'n cyttuno,  
 Am hoff "DRYSORFA 'R PLANT,"  
 I'n gwir garedig athraw,  
 A'n hewyllysiwr da;  
 Hir oes, heb groes, boed iddo,  
 Medd T D C B A.

A. B. C. D. T.

Y FFAIR HEB Y BREUDDWYD.

**B**MDDANGOSODD ysgrif yn y DRYSORFA fach am Medi o dan y penawd, "Y Ffair a'r Breuddwyd," ond y tro hwn dygwn y ffair heb y breuddwyd—yr un wirioneddol. Bydd rhai yn wahanol i "W." yn breuddwydio pethau hyll ac annhebyg i feithiau, a gwyn fyd na buasai y ffair yn un gas ac annymunol mewn breuddwyd yn unig; ond yn lle hyny mae hanes ei chadwraeth yn warth i wlad Gristionogol, a gwaeth, gan fod Cristionogion proffesedig yn presennoli eu hunain yno, ac yn meithrin ysbrydaeth y ffair yn eu plant cyn y delo. Bydd dydd "ffair y mynydd," yn gyffredin, yn adeg pryd y telir pob addewid yn llawn i'r plant mewn arian, dillad, neu *fairings*. Dyna yr adeg y caiff y plentyn ddillad newydd, neu y caiff geiniog gan Siân o'r tŷ nesaf am ryw gymwynas fach o'i eiddo iddi; ac felly ceidw y plentyn y ffair mewn golwg o'r Nadolig i Awst, a phan y delo, bydd fel noswaith o lwydrew i dyfiant—llygrir eu chwaeth a'u moesau; ac ni ryfeddem fod argraffiadau blwyddyn o wrando pregethau, Ysgol Sul, ac addysg deuluaidd, yn cael eu golchi ymaith gan effeithiau y ffair eleni, heblaw y meddwon fwy na rhif. Ymgymerrodd ryw nifer â dadwisgo personau, nes yr oeddynt yn noethlymyn, a'u hanfon i rywle lle gallent fyned. Cyflawnwyd hyn ar dri neu bedwar yno, a bu raid iddynt fyned i bentref cyfagos i gardota gwisg. Gellid nodi pethau eraill tebyg, ond nid mor wrthun a ffaidd a'r hyn a nodasom, megys tynu esgidiau oddiar draed meddwon, a rhwygo eu dillad.

Beth yn angen ellir ddysgwyl mewn lle ag y cyferfydd frydiau nerthol anystyriaeth, meddwod, ac anlladrwydd? Yn wir, y mae yn llawn bryd i Gristionogion, fel y dywed "W.," i wrando ar lais y Bugail mawr, a "dyfod allan o'u canol hwynt." A oes dim gan Gristionogion y parth hwn o Forganwg i'w wneyd tuag at ddilieu y gwarthrudd cywilyddus? Y mae yn eithaf teilwng o gynnadledd o weinidogion a diaconiaid yr ardaloedd cymydog-aethol i'w gymeryd i ystyriaeth.

W. H.

Pencoed.

## Y Ffordd i Gasglu Llawer.

**B**R oedd dwy chwaer wedi ymgymeryd â chasglu at yr achos cenadol; ac ar ben y flwyddyn yr oedd y casgliad wedi cyrhaedd £6; ac, meddai un wrth y llall,—

“Ti gefaist ti fwy o arian na mi; ond yr wyt yn henach.”

“Iâ, ond nid yr oedran yw yr achos, Elen,” ebai Jane; “mae rhyw ddiffyg arall arnat.”

“Yr wyf wedi bod mor ddiwyd a thithau, Jane, ac wedi ceisio gan gymaint o bobl.”

“Fe allai hyny, Elen; ond a ddarfu i ti weddio?”

“Gweddio? na, feddyliais i ddim am hyny. Oeddet ti, Jane, yn gweddio?”

“Oeddw'n yn wir, Elen, yn gweddio bob bore am i'r Arglwydd fy nghyfarwyddo i ba le i fyned i gael rhywbeth i helpu y Pagan-iaid. Un bore yn unig yr esgeulusais, ac ni chesglais yr un geiniog y diwrnod hwnw.”

“Wel, gweddiâf ffinnau o hyn allan.”

## DYDDANION.

## Y RHIF LIOSOG.

“**B**ETH yw ceiniog, fy mhlant i,” ebai ysgolfeistr, “yn y rhif liosog?” “Gwn i,” ebai un llanc llygadlon. “Beth?” “Dwy geiniog,” oedd yr ateb.

## TASG LLYTHYRENOL.

**U**WNEWCH air Seisonig synwryol i'w osod yn lle pob U yn y darn canlynol:—If U see my brother U under a U tree, with a U of a dingly U, promise me U will not U him down.

## LLIWIO'R PINAFORE.

“**B**ETH ydych yn wneyd fan yna, Jane?” “Lliwio pinafore y dol yn goch, data.” “O ba beth yr ydych yn myned i'r liwio?” “Cwrw.” “Cwrw! pwy ddywedodd wrthyf fwrw cwrw yn lliwio yn goch?” “Mama 'wedodd wrthyf mai cwrw wnaeth eich trwyn chwi mor goch.” “Susan, ewch â'r plenty yma i ffordd.”

## DR. SOUTH A'B CYSGADURLAID.

**J**AN oedd Dr. South unwaith yn pregethu o flaen Charles II sylwai fod y brenin a'i gymdeithion yn dechreu hopian de y bregeth, a rhai o honynt yn chwyrnu. Yn y man safodd Dr., a dywedodd, “Arglwydd Lauderdale, yr wyf yn attolw arnoch ddeffro; yr ydych yn chwyrnu mor uchel, fel y mae am ofn y deffrowch y brenin.”



## TRYSORFA Y PLANT.

RHIF. XXXVI.]

RHAGFYR, 1864.

[CYP. III.]

### TAD I'R AMDDIFAD.

**D**MAENT yn dyweyd wrthyf, John, mai plentyn amddifad ydych," meddwn un prydawn Sabboth yn ddiweddar wrth fachgenyn bychan oedd yn edrych yn hynod o brudd.

"Ië, syr," atebai yntau; "nid oes genyf un berthynas ar y ddaear yn nês na modryb."

Yr oeddwn wedi galw yn nhŷ cyfaill i mi, lle yr oedd y bachgen yn aros. Yr oedd yn sefyll ar y pryd yn ymyl perth yr ardd, yn edrych yn brudd a myfyrgar tua chyfeiriad y fynwent oedd o'r tu arall i'r dyffryn bychan odditanodd. Gan yr edrychai mor brudd, a bod ei lygad eisoes yn llaith gan ddeigrin, peidiais holi dim yn fanylach yn y cyfeiriad yna, ond dywedais mor garedig ag y gallwn,

"Gwn i am Un, John, y bydd yn dda ganddo ddyfod yn Dad o'r mwyaf tyner i chwi." Deallodd fi mewn mynyd. Yr oedd wedi ei fagu gan rieni crefyddol, ac wedi ei ddysgu yn yr Ysgrythyr Lân o'i febyd. Llanwodd ei lygaid â dagrau, ond nid atebodd ddim. Ceisiais ganddo ddyfod gyda mi i'r tŷ. Aethom i'r ystafell, cloais y drws ar ein hol, ymellais yn y Bibl, troais i'r bymthegfed bennod a deugain o Esaiah, a dechreuais ddarllen yn uchel, "O deuwch i'r dyfroedd bob un y mae syched arno, ië, yr hwn nid oes arian ganddo; deuwch, prynwch a bwytwch; ië, deuwch, prynwch win a llaeth, heb arian ac heb werth." O hen eiriau bendigedig! Pa faint sydd wedi bod yn drachth yn hel-

aeth o'r hen adnod hon? Cyn i mi ddarllen ymhell, gwelwn wyneb John yn codi ac yn llewyrchu, ac yn y man rhwystrodd fi i fyned ymlaen trwy ddyweyd, "Ydych chwi yn meddwl, syr, fod hwna wedi ei fwriadu i mi?" "Gadewch i ni ddarllen eto, John, i gael gweled," meddwn. Yna dechreuais, gan roddi pwyslais arbenig ar "bob un." "Y mae y 'bob un' yna, John, yn sier o fod yn eich golygu chwi."

Aethom ein dau ar ein gliniau, ochr yn ochr, ger bron gorsedd-fainc y gras. Wedi gorphen gweddio, aeth yn ddystaw, oddigerth ambell ochenaid oddiwrth John.

"Ellwch chwi ddim gweddio, John?" gofynwn.

"Nid wyf yn gwybod, syr."

"Ellwch chwi ddim myned dros weddi y publican, 'O Dduw, bydd drugarog wrthyf, bechadur?'" Yn y man dacw ef yn rhoi ei ddwyllaw yn mhleth, yn codi ei drem dyner, bruddaidd, i'r nefoedd, ac yn adrodd gweddio y publican â'i holl enaid.

Yr hwyr hwnw casglodd y teulu ar yr aelwyd i addoli, a John yn eu mysg. Darllenwyd dammeg y mab afradlawn. Yr oedd gwyneb John erbyn hyn wedi newid, a'i wedd yn llôn ac ysgafn, eto yn fyfyriol. Daeth John i gydnabyddiaeth â Thad y bu yn llawen yn ei gwmni byth mwy.

Ymhen dwy flynedd, gyrwyd am danaf i bregethu yn angladd John. Daeth y darfodedigaeth i'w symud i'r nefoedd. Bu farw dan roddi ei ysbryd i ofal "y Tad sydd o'r nef."

Os ydych am arwain eneidiau at Dduw, ewch i siarad â hwy yn bersonol. Mae llawer o'ch cwmpas âg eisieu Tad arnynt, ac y mae Duw yn barod i'w derbyn, os gwnewch chwi eu harwain ato.



## CATHERINE LOVE

**D**DOEDD unig blentyn Mr. John H. Owen, Talysarn, yr hon a fu farw Gorphenaf 9, 1864, yn ddwy flyydd a phedwar mis oed. Y mae rhyw anwyldeb ymhob plentyn bach, ond yr oedd rhywbeth anghyffredin yn Catherine Love. Byddai ei thylsni a'i hanwyldeb yn tynu sylw pawb a'i canfyddai, ac yr oedd ei gallu i ddysgu, ac i gofio ac amgyffred yr hyn a ddysgai, yn synu pawb a'i hadwaenai; a phan nad oedd ond blwydd a naw mis oed, gallai adrodd amryw bennodau o'r Rhodd Mam; ac yr oedd er ys dyddiau cyn ei chymeryd yn glaf, yn siarad bron o byd am Iesu Grist, am farw, ac am y nefoedd. Y diwrnod y cymerwyd hi yn glaf, torodd ar y dystawrwydd yn sydyn tra yn eistedd wrth y bwrdd, a dywedai, "Mami! mami! pan fyddaf fi farw, ni ddo i byth, byth, yn fy ol." Dichon yr edrych rhywun ar hanes plentynnaidd fel hyn yn rhy ddiwerth i'w ysgrifenu, ond y mae hanes Catherine Love yn dangos i ni y gall meddwl plentyn dwy flyydd oed gymdeithasu trwy ffydd âg Iesu Grist, ac â byd yr ysbrydoedd, a gweled tu hwnt i farw wlad a chartref na fydd yn

rhaid eu gadael "byth, byth;" ac y mae yn dangos hefyd fod o bwys i'r sawl sydd yn magu plant, pa wrthddrychau a ddygir i gyfarfyddiad â meddyliau tyner plentyn.

Cyflwynwyd y pennillion hyn i'w rhieni galarus.

Daeth Cath'rine Love i'n daear ni,  
 I ddysgu gwers i chwi eich dau;  
 I ddysgu i'ch calonau chwi  
 Adnabod cariad sy 'n parhâu;  
 'D oes cariad neb fel cariad Duw,  
 Ond cariad calon mam a thad;  
 Rhyw ddarlun bychan ynoch yw  
 O wyneb cariad Duw ein Tad.

Pan fyddai eich mynwesol serch  
 Yn cydfwynhâu anwyldeb glân,  
 A thlysui pur eich prydfferth ferch,  
 Nes ennyn ynoch serchus dân,  
 Sisialai Duw,— Fel hyn 'r wyf fi  
 Yn ymhyfrydu ymhob sant;  
 Fel chwithau gyda 'ch Cathrine Love,  
 'R wyf fi 'n gwirioni hefo 'mhlant.

Pan fyddech chwi eich dau yn llon,  
 Wrth wel'd eich Cath'rine Love a'i dawn,  
 Yn ymddadblygu ger eich bron,  
 Fel rhosyn peraroglaidd iawn;  
 Fel hyn, medd Duw, 'r wyf fi o hyd  
 Yn dotio ar fy mhlant fy hun,  
 Wrth edrych arnynt yn y byd  
 Yn gwisgo delw Mab y dyn.

Am Cath'rine-Love eich dau yn brudd,  
 Hiraethu wnewch heb adwaen hedd;  
 Eich llygaid llawnion nos a dydd  
 Ddisgynant ati hi i'r bedd;  
 'R un fath, medd Duw, 'r wyf fi o hyd  
 Mewn hiraeth am fy mhlant fy hun,  
 A disgyn atynt wnaif i'r byd,  
 Nes dygaf hwynt i'r nef bob un.

Nid gwendid ac ynfydrwydd dyn,  
 Yw calon lawn o danllyd serch;  
 Nid nwydan ffol anwadol wŷn,  
 Yw teimlad rhiaint at eu merch;  
 Mae Duw yn Dad, gŵyr beth yw serch,  
 Gŵyr beth yw cariad tad a mam;  
 Eich cariad chwi tuag at eich merch  
 Sy 'n nghalon Duw 'n anfeidrol fflam.

Nid gwendid ac ynfydrwydd chwaith  
 Yw dagrau calon cariad pur;  
 Teimladau 'r galon—dyma 'i hiaith  
 Pan fyddo 'n goddef ing a chur;



Mae Crist yn Frawd, mae 'n cydymddwyn  
A'ch galar am eich plentyn cun;  
Mae 'n edrych ar eich dagrau 'n fwyn,—  
Do, wylodd Iesu Grist ei hun!

LLESTYN.

### AELODAU YDYM I'N GILYDD.

**I**AN oedd y gelynion unwaith yn paratoi i wneyd ymosodiad ar ddinas, deallodd y trigolion, a ffoisant ymaith. Gadawyd dau ar ol, un yn ddall, a'r llall yn gloff. Yr oedd y ddau mewn trallod mawr, yn deall eu perygl, ond heb obaith am ymwared. "Pe buasai genyf fi lygaid," meddai y dall wrth y cloff, "buaswn yn dianc mewn mynyd."

"Y mae genyf fi eithaf llygaid," meddai y cloff, "ond nid wyf well o honynt, gan nad oes genyf draed i'm cario."

"Mi wn beth a wnawn," ebe y dall; "cymeraf di ar fy nghefn, a chaiff fy nghoesau i, a dy lygaid dithau, wasanaethu i ni ein dau."

Felly y bu; a diangodd y ddau allan o berygl.

Caem ninnau waredigaeth o lawer blinder, pe gwnelem yn gyffelyb; a byddem felly, yn wir, yn aelodau i'n gilydd.

G. CALLESTR.

### HUMPHREYS O'R DYFFRYN A'R SABBATH.

**I**YDDAI y diweddar Mr. H. yn arfer dyweyd y dylai pawb wisgo mor drefnus ag y gallent ar y Sabbath; ac os gwelai rhyw un mewn dillad gwael, a gwybod fod ganddo rai gwell, ceryddai ef yn llym. Yr oedd ei barch mor fawr i ddydd yr Arglwydd, fel y byddai yn gwisgo ei ddillad goreu hyd yn nod yn ei dŷ, pan yn analluog i fyned i'r capel ar y Sabbath. Carai weled y tŷ, a'i breswylwyr, a'i holl gwmpasoedd, mewn diwyg briodol i'r Sabbath. Un tro pan oedd yn cychwyn i bregethu ar fore Sabbath, i'r daith agosaf ato, ar ol iddo fyned i'r ffordd fawr, gwelai hen sach ar y clawdd wrth gefn y tŷ; aeth yn ôl, a phan y gwelodd y gwas ef, aeth i'w gyfarfod, gan feddwl iddo adael rhyw beth ar ei ol. "Beth sydd, meistr?" meddai. "Nei di fyned at y merched," meddai yntau, "a gofyn iddynt gymeryd yr hen sach sydd ar y wâl wrth gefn y tŷ i rywle o'r golwg; nis gallaf oddef pethau fel hyn o gwmpas y tŷ ar y Sabbath." O na byddai mwy yn debyg iddo yn eu gofal am ddydd yr Arglwydd! Mae gallu parchu y Sabbath yma yn un cymhwysder i fwynhau Sabbath tragwyddol.


G. W.

TON.—EIN GORCHWYL HYFRYD YW.

*Doh Eb.*

|                                                              |                                                                           |
|--------------------------------------------------------------|---------------------------------------------------------------------------|
| d <sup>1</sup> : t . l   s . d <sup>1</sup> : m              | s : r . s   m :—                                                          |
| 1. Ein gorchwyl hyfryd yw,                                   | Bob dydd a nos,                                                           |
| m : s . f   m . m : d                                        | t <sub>1</sub> : t <sub>1</sub> . t <sub>1</sub>   d :—                   |
| d : d . d   d . d : d                                        | s <sub>1</sub> : s <sub>1</sub> . s <sub>1</sub>   d :—                   |
| d <sup>1</sup> : t . l   s . d <sup>1</sup> : m              | s : r . s   d :—                                                          |
| Cael dysg-u geir-iau Duw                                     | Ar hyd ein hoes:                                                          |
| m : s . f   m . m : d                                        | t <sub>1</sub> : t <sub>1</sub> . t <sub>1</sub>   ḋ :—                  |
| d : d . d   d . d : d                                        | s <sub>1</sub> : s <sub>1</sub> . s <sub>1</sub>   d :—                   |
| r : de . r   m . l : s                                       | t : l . s   s . fe : s                                                    |
| Gwedd—i—o ar ein Tad,                                        | A chan-u am y gwa'd,                                                      |
| t <sub>1</sub> : l <sub>1</sub> . t <sub>1</sub>   d . f : m | r : d . t <sub>1</sub>   t <sub>1</sub> . l <sub>1</sub> : t <sub>1</sub> |
| s <sub>1</sub> : s <sub>1</sub> . s <sub>1</sub>   d . d : d | r : r . r   r . r <sub>1</sub> : s <sub>1</sub>                           |
| d <sup>1</sup> : t . l   s . d <sup>1</sup> : m              | s : r <sup>1</sup> . , t   d <sup>1</sup> :—                              |
| A myn <sup>o</sup> d i'r nef-ol wlad                         | Ar ben y daith.                                                           |
| m : s . f   m . m : d                                        | f : f . , f   m :—                                                        |
| d : d . d   d . d : d                                        | s <sub>1</sub> : s . , s   d :—                                           |
| d <sup>1</sup> : t . l   s . d <sup>1</sup> : m              | s . f : r   l . s : m                                                     |
| Ein gorchwyl hyfryd yw,                                      | hyfryd yw, hyfryd yw;                                                     |
| m : s . f   m . m : d                                        | m . r : t <sub>1</sub>   f . m : d                                        |
| d : d . d   d . d : d                                        | s <sub>1</sub> . s <sub>1</sub> : s <sub>1</sub>   d . d : d              |
| d <sup>1</sup> : t . l   s . d <sup>1</sup> : m              | s . : r <sup>1</sup> , t . -   d <sup>1</sup> :—                          |
| Ein gorchwyl hyfryd yw,                                      | O! hyfryd yw!                                                             |
| m : s . f   m . m : d                                        | s . : f , f . -   m :—                                                    |
| d : d . d   d . d : d                                        | s . : s , s . -   d :—                                                    |

2. Ein cartref hyfryd yw,  
 Ei balas ef,  
 Lle y preswylia Duw,  
 Yn nef y nef;  
 Cawn yno 'r gynau gwyn,  
 I rodio Sion fryn,  
 A chanu 'r anthem hyn  
 Byth "IDDO EF."  
 Ein cartref hyfryd yw, &c.,  
 O! hyfryd yw!



### PAUL A SILAS YN Y CARCHAR.

**A**C wedi rhoddi gwialenodïau lawer iddynt, hwy a'u tafasant i garchar, gan orchymyn i geidwad y carchar eu cadw hwy yn ddiogel. Yr hwn wedi derbyn y cyfryw orchymyn, a'u bwriodd hwy i'r carchar nesaf i mewn, ac a wnaeth eu traed hwy yn sicr yn y cyffion.—Act. xvi. 23, 24.



### DIRGELWCH LLWYDDIANT Y PULPUD.

**J**AWN y dywedir fod dirgelwch llwyddiant y pulpud yn gorwedd, nid yn agwedd brydferth y pregethwr, nid yn nghyfoeth ei lais, na chyflawnder y meddylïau, ac nid yn y pethau hyn oll wedi cydgyfarfod; ond yn yr eneniad annesgrifiadwy hwn a geir trwy weddi, trwy fyfyrddod dwfn ar y gwirionedd dwyfol, trwy argyhoeddiad dwys o bwysigrwydd ofnadwy pethau tragwyddol i'r pregethwr a'r gwrandaŵyr. Dyma eneniad annhraethadwy yr Ysbryd, yr hwn nis gall un dyn ei ddynwared, na neb ei gamsynied.



### Y CWESTIYNAU GWOBWRWYEDIG.

23. **P**A air cyfarwydd yn y Bibl a ddygwyd i arferiad gan syndod ac anwybodaeth y bobl pan welsant weledigaeth hynod?

24. Pa adnod o'r Bibl sydd yn cynnwys annogaeth i bedair ddyledswyddau gwahanol, ac eto heb ynddi ond saith gair?

**C**ofser fod yr atebion ar y ddalen ddarparedig i fod yn llaw y Golygfwr erbyn y 1af o Ionawr. Gwel yr Ammodau yn rhifyn Ionawr diweddar.

**C**yhoeddir y gwobrwyon am y flwyddyn ddyfodol yn y rhifyn nesaf.



WIWER FACH FELEN.

“**W**IWER fach felen, d’wed beth yw dy fwyd,  
 Beth gefaist ti heddyw i ginio!”  
 “Cnau melyn a gwisgi hyfrytaf erioed,  
 A gesglais fy hunan ar frigau y coed,  
 Bwytaeis y cnewyll gwyn braf yn ddoed,  
 A theflais y plisg caled heibio.”

“Wiwer fach felen, sut gwnai di ar ol  
 I dymmor y cnau fyned heibio?”  
 “R wy ’n casglu digonedd yn nhymmor yf haf,  
 A’n cuddio ’n y ddaear yn ddyogel a wnafl,  
 Ac yno, y gauaf, heb ’rofyn yr af,  
 I fwyta, heb achos cynnilo.”

Ddarllenydd bach ieuanc, wyt ti yn par’toi  
 I’th feddwl ddarpariaeth briodol?  
 Mae genyt gyfiensdra—yn awr yw dy ddydd,  
 Cwyd, fachgen, yn fore, a diwyd iawn bydd,  
 Yn danllyd dy obaith, yn nerthol dy ffydd,  
 I wneuthur dy hun yn ddefnyddiol.

Y BIBL.

IV.—LLYFR GENESIS.

**G**OF. Paham y, gelwir y llyfr cyntaf o’r Bibl yn *Genesis*?  
 Ateb. Gelwir ef felly oddiwrth y gair (Groeg) cyntaf yn y  
 llyfr, yn arwyddo llyfr cenedliad, neu ddechreuad, am ei fod  
 yn cynnwys hanes cenedliad neu ddechreuad pob peth.

*Gof.* Pwy ysgrifennodd y llyfr, a pha bryd?

*Ateb.* Moses oedd ei ysgrifenydd; y mae tri golygiad gwahanol am amser ei ysgrifeniad.—1. Yr amser y bu Moses yn fugail gyda Jethro, ei dad yn nghyfraith. 2. Ar ol yr ymadawriad o'r Aipht, a chyhoeddiad y ddeddf ar Sinai. 3. Barna rhai ysgrifenyddwr Iuddewig iddo dderbyn ei gynnwysiad gan Dduw yn ystod y deugain niwrnod cyntaf y bu Moses gyda Duw ar y mynydd, ac iddo ei ysgrifenu mor fuan ag y daeth i waered o'r mynydd. Yr ail syniad y mae y rhan fwyaf o'r beirniaid diweddaraf yn fabwysiadu.

*Gof.* Dros ba faint o amser y mae hanesiaeth y llyfr yma yn ymestyn?

*Ateb.* Yn ol y cyfrif cyffredin, y mae yn cynnwys hanesiaeth dwy fil tri chant a thriugain a naw o flynyddoedd, sef o'r dechreuad hyd farwolaeth Joseph.

*Gof.* Beth yw prif bynciau llyfr Genesis?

*Ateb.* Hanes creadigaeth y byd; diniweidrwydd a chwmp dyn; cynnydd dynolryw; dechreuad crefydd; llygriad y byd; y diluw; adferiad, rhaniad, a phoblogiad y ddaear; galwad Abraham, a chyfammod Duw âg ef; ynghyd a hanes y Patriarchiaid hyd farwolaeth Joseph.

*Gof.* A oes prophwydoliaethau am Grist yn llyfr Genesis?

*Ateb.* Oes, amryw; megys, "Had y wraig," pen. iii. 15; "Had Abraham, yn yr hwn y bendithid holl genedloedd y ddaear," xii. 3; xviii. 18; xxii. 18, &c.; a dyfodiad y "Siloh," xlix. 10.

*Gof.* Beth allai fod prif amcan ysgrifeniad y llyfr?

*Ateb.* Yn lâl, Cofnodi hanes y byd o'i ddechreuad. Yn 2ail, Cofnodi cychwyniad crefydd, neu eglwys Dduw. Yn nghanol dirywiad cyffredinol dynoliaeth, rhoddir yma i'w cadw wybodaeth am y gwir Dduw, hanes dyfodiad pechod i'r byd, addewidion am y Messiah, hanes galwad Abraham, a chynnydd yr eglwys ymysg ei had.

*Gof.* A oes llyfrau eraill yn cynnwys hanesiaeth càn hyned a llyfr Genesis?

*Ateb.* Nac oes; a hanes y llyfr hwn yw yr unig allwedd i liaws o fleithiau daearyddol a hanesyddol. Mae y diluw yn rhoddi cyfrif am y gweddillion creaduriaid a geir yn nghrombwy y ddaear; mae Tŵr Babel yn rhoi cyfrif am gymysgiad yr ieithoedd. Heb hanesiaeth y llyfr hwn, byddai y byd yn y tywyllwch am ei ddechreuad, ac am ei ddyben. Gall plentyn, mewn un awr, ddysgu mwy ar du dalen cyntaf y llyfr hwn, nag y gall holl athronwyr y byd hebddo mewn mil o flynyddoedd.

*Gof.* Pa agwedd oedd ar y byd, a pha barthau o hono oedd wedi cyfodi i erwogrwydd, yn ystod amseriad llyfr Genesis?

*Ateb.* Yr oedd y byd wedi cyrhaedd graddau helaeth o wareiddiad cyn amser Abraham. Yr oedd yr Aipht yn uchel yn ei llysoedd, ei byddinoedd, ei hadeiladau, a'i gweithiau celfyddydol. Yr oedd ymherodraethau mawrion Phoenicia, Assyria, Media, China (wedi ei sefydlu gan Noah, fel y tybia rhai), India, ac

amryw leoedd eraill. Darllenwn hefyd am amryw daleithiau neu freniniaethau llai, megys Sodom a Gomorrah, Melchisedec, brenin Salem, &c.

*Gof.* Sut oedd y byd wedi dyfod mor boblog mor fuan?

*Ateb.* Os oedd gan Jacob 70 o blant ac ŵyrion mewn hanner canrif (Exod. i. 6), ac os oedd y 70 hyn mewn 268 o flynyddoedd wedi cynnyddu yn dair miliwn o eneidiau (Exod. xii. 34), gyda chynnydd cyffelyb, buasai tri mab Noah, yn hŷd yr un amser, wedi dyfod yn naw miliwn; a buasai y naw miliwn hyn mewn dwy ganrif ychwanegol (amser Abraham), wedi cynnyddu i fwy o rifedi na thrigolion presennol y ddaear.

## Y DDERWEN FARDDONOL.

### CALEDFRYN

Pia frig y Dderwen gref,

Hiraethog, a Nicander, gydag ef;

Cynddelw, Gwalchmai, Emrys, Islwyn gryf,

Ac Ioan Madog, yn eu bochr yn hyf; Talhaiarn,

Ceiriog, Llystyn, Robyn Ddu, a Tegai, Robyn Wyn,

galarwr cu; Glasynys, O! y rhiangerddwr mwyn,

Mynyddog, ac Isaled, lawn o swyn; Tafolog, Ioan Arfon,

safant fry, Glàn Alun, a Glàn Aled, pwy mor gu? Mae

Rhisiard Ddu, ac yntau Hwfa fawr, yn brif-feirdd n'wyddion,

gydag Emlyn gawr; a Tawy, Teilo, Cunllo, beirdd y Dê, ac

Esyllt sydd yn mrig y Dderwen gre'; Taliesin Eifion, Clwydfardd,

Gwrgraut fawr, Glàn Dwyryd draw yn rhandir machlud gwawr;

Creuddynfab, Rhydderch Môn, a Maethlu lwys, a Morwyllt, y mae

yntau 'n fardd o bwys; Gwyneddon, Meilir, sydd ar darawiad gwynt, a

Gwilym Cowlyd, prif-fardd Conwy gynt; I. G. ab Dafydd, ac Andreas

Môn, ai byw y rhai'n? mae chydig iawn o son; Bardd Mawddach

Llundain, Bodran, Aled goeth, sy 'n dlyision ddail ar gangau 'r

Dderwen ddoeth; Carnfaldwyn, Pyll, Meiriadog, Estyn lôn—

pereiddia 'u cân o feirdd y Dderwen hon; mae Ellis Wyn, ac

Owen Cethin Siôn, mor dâl a neb, er neses ynt i'r bôn;

a Gutyn Padarn, Derfel, Idris Fach, Garmonydd,

a Gaerwehydd, fechgyn iach; ab Fychan fwyn,

fe greda pawb yn awr, i'w Ddiluw ef

orchuddio brynau 'r llawr; mae Llawdden,

Hirlas, a'u hathrylith ddrud, a Dewi

Arfon, prif englynwr byd,

yn gryfion gangau yn y

glasbren gwiw, ac I. D.

Ffraid, fan yma 'n rhuddyn

byw; daw Gwilym Pennant

am ei ran o'r goes, a Gwilym

Marles, bechgyn goreu 'r oes;


mae alltud Eifion yma 'n

gochel gwres, mewn oerni

mawr, yn hel pelenau mës. Wel, dyma ni ar lawr, pwy yma sydd? O, Ieuan Ionawr, o dan eira 'n nghudd; ac Ioan Machno, a Carwad, wele hwynt, oddiwrth Caledfryn yn y pellaf bwynt. Os oes rhyw fardd o fri heb nyth, mae 'r bai i'w fwrw i gyd ar ysgwydd

*Llanrost.*

TREBOR MAL.



## Y CARW.

**LE**ADUR prydfarth a hoew yw y carw, fel y gall y darw  
 ydd gasglu oddiwrth y darlun uchod, os na bydd  
 gweled y crëadur ei hun. Yr un yw y carw a'r hydd,  
 danas. Mae o liw llwydgoch, ac o dair a hanner i bedair tro  
 fedd o uchder i'w ysgwydd. Dywedir mai hŷd cyffredin  
 yw ôddentu ngain mlynedd, er bod rhai yn cyrhaedd oed

llawer mwy. Y peth hynotaf sydd yn perthyn i'r gwryw yw ei gyrn mawrion cangenog, y rhai y mae yn golli, ac yn cael pâr newydd bob blwyddyn. Mae tyfiad y cyrn yn gyflym ryfeddol; byddant weithiau yn pwyso pum' pwys ar hugain, ac yn tyfu yn gwbl mewn deng wythnos. Bu amser pan oedd llawer mwy o gangenau yn tyfu ar gyrn ceirw nag sydd yn awr. Mae un yn awr yn Amgueddfa Hesse Cassel gydag wyth ar hugain. Ac y mae Cuvier yn nodi pâr o gyrn gyda 66 o gangenau, neu 33 ar bob corn. Y rheswm am hyny, fel y tybir, yw eu bod gynt yn cael gwell ymborth, mwy o lonyddwch, a'u bod yn byw yn hwy. Un o brif ddifyrion y Saeson yn yr hen amser gynt oedd hela ceirw. Cauodd William y Gorchfygwr ddarn mawr o dir yn *Hampshire*, yr hwn a elwir hyd heddyw yn *New Forest*, i'r dyben o gadw a hela ceirw; ac y mae ceirw cochion i'w cael hyd heddyw yn y lle hwnw.

Dywedir fod dylanwad mawr gan fwsig ar y creadur hwn, fel llawer o grëaduriaid direswm. Dywed Playford iddo gyfarfod â haid o honynt, oddeutu ugain mewn rhifedi, yn canlyn chwibanogl a ffidil, ac iddynt gael eu harwain felly o *Yorkshire* i *Hampton Court*.

Creadur anhawdd ei ddofi yw y carw. Arferai Arglwydd Oxford ddodi pedwar o honynt i dynu ei gerbyd; ond bu agos iddo golli ei fywyd unwaith o herwydd ei ffolineb. Pan oedd unwaith yn eu gyru ar y ffordd fawr, clywsant floedd cŵn hela gerllaw, a ffwrdd â hwy yn hollol ddiystyr o'r ffrwyn, na phwysau y cerbyd oedd ar eu hól. Wedi i'r cŵn ddyfod i'r ffordd fawr, cymerasant at draul ceirw Oxford. A bu yno helpa ddychrynlyd. Ac ni wnaeth y boneddwr a'i geirw ond yn brin cyrhaedd *Yard Ram Inn*, Newmarket, lle yr oeddent yn fynych yn arfer troi, a chau y drysau, cyn fod y cŵn wedi goddiweddyd. Cauwyd ar y pendeig a'i feirch a'i gerbyd yn yr ysgubor, i'w diogelu rhag ffyrnigrwydd y cŵn. A dyna y tro diweddaf iddo ef fyned allan gyda'i geirw.

Dywed Delacroix iddo ef weled carw ar y Cyfandir wedi ei ddysgyblu i raddau anarferol. "Yr oeddem," meddai, "yn eistedd mewn ystafell fawr; a phan ddygwyd y carw i mewn, plygodd ei ben, gan roddi cyfarchiad boneddigaidd i ni; yna gwnaeth yr un fath i bob un o'r cwmni yn bersonol. Wedi'n cariodd bren bychan yn ei enau, a chanwyll oleuedig wrth bob pen iddo. Rhwymwyd ei lygaid, ac wrth guro y tabwrdd, syrthiodd ar ei liniau, a gosododd ei ben ar y llawr. Pan gyhoeddwyd "*pardon*" iddo, neidiodd ar ei draed. Taffwyd disiau ar y tabwrdd, a dywedai yntau pa sawl un daffwyd wrth gynifer a hyny o ysgogiadu i'w ben. Taniodd lawdryll trwy dynu â'i ddannedd llyn oedd wedi ei glymu wrth y *trigger*. Taniodd fagnel bychan trwy offerynoliaeth *match* oedd wedi ei sicrhâu wrth ei droed deheu, ac ymddangosai yn berffaith ddiogfn wrth ei swn. Neidiodd anryw weithiau trwy gylch a ddaliai ei feistr oddeutu uchder pen dyn oddiwrth y llawr. Bwytaodd ddyrnaid o geirch oddiar ben



y tabwrdd, er fod dyn yn curo y tabwrdd â'i holl egni yr holl amser."

Mae y fenyw yn ymlynol iawn wrth ei rhai bychain, ac yn wrol iawn i'w hamddiffyn. Y mae lawer gwaith wedi gwneyd i'r ci a'r blaidd ffoi ymaith.

### MARWOLAETH Y MILWR.

**M**AE yr hanesyn canlynol wedi ei ddyfynu o lythyr y Milwriad, neu y *Brigadier General J. C. Rice*, yr hwn oedd yn llygad-dyst o'r hanes. Yr oedd hyn ymhen deng niwrnod ar ol brwydr Manassas, meddai y swyddog, pan aethum ar ymweliad âg un o'r *hospitals* yn agos i Washington. Fy amcan oedd edrych a oedd yno glwyfedigion o'm byddin, gael dyweyd rhyw air cysurus wrthynt.

Wrth basio trwy y *wards*, ac edrych ar y lliaws clwyfedigion oeddent ar bob llaw wedi eu rhwygo a'u darnio, galwodd chwær a modryb i un o'r gwroniaid ieuainc oedd yn gorwedd yno arnaf, i aros gyda hwy tra fyddai y meddyg yn tori ei aelod ef ymaith. Yr oedd darn o'i aelod wedi ei dori ymaith ychydig ddyddiau cyn hyn, ond yr oedd yn rhaid tori ychwaneg eto. Aethum gyda hwynt at y gwely lle y gorwedda i y gwâr ieuanc, ac yr oeddent ill dwy yn wyllo yn dost. Yr oedd y milwr yn fy adwaen, a chyfarhodd fi gyda gwên, er ei fod mewn poenau arteithiol. Eisteddais yn ei ymyl, a chymerais ei law yn fy llaw. Dywedodd ei fod yn *Sergeant* yn y *5th New York*, iddo gael ei glwyfo yn niwedd yr ymladdfa, ac iddo fod yn gorwedd ar y maes yn ei waed o ddydd Sadwrn hyd ddydd Mercher, heb damaid o fwyd oddigerth ychydig o *biscuits* caled oedd yn ei gôd, ac heb ddyferyn i'w yfed, ond cymaint a roddai Duw o'r nefoedd mewn gwlaw a gwlyth ar y blanced oedd ganddo. "Cafwyd fi," meddai, "ddydd Mercher gan feddyg, a gyrodd fi yma, a nos Iau cymerwyd fy aelod ymaith." Yr oedd yn gorfod tewi am ychydig yn fynych gan faint ei boen, eto yr oedd yn rhaid iddo gael adrodd ei hanes.

Gwelwn ei wyneb yn gwelwi, a'i lais yn gwanhâu, ac yn y man gwelwn waed yn dyferu oddiwrth y gwely y gorwedda i arno. Gelwais y meddyg yno. Edrychodd hwnw ar yr aelod drwg; ac wedi cydymgyngori â'r meddygon eraill, barnwyd ei fod yn rhy wan i oddef y driniaeth. Yr oedd yn prysur suddo. Nis gallai fyw dros awr, a dymunasant arnaf fi hysbysu y newydd pwysig i'w chwær a'i fodryb.

Dywedais wrthynt oreu y gallwn y byddai y *Sergeant* wedi gorphwys yn fuan. Llanwodd eu llygaid â dagrau, ac wylasant yn drwm. Eto dalient dan eu trallod fel nad allai neb ond Cristionogion ddal—oblegid clywent lais y Brawd hynaf yn dywedyd wrthynt, fel wrth Martha, "Myfi yw yr adgyfodiad a'r bywyd; yr hwn sydd yn credu ynof fi, er iddo farw, a fydd byw." Sychodd ei chwær ei dagrau, tynodd lyfr gweddi bychan allan o'i phoced,

a cheisiodd genyf fi ddywedyd wrtho pa mor fuan yr oedd yn rhaid iddo farw, a darllen y weddi ar ran y dyn oedd yn marw iddo.

Aethum at erchwyn ei wely eto, a dywedais, "*Sergeant*, rhaid gorsafu yn fuan—nid ydym yn myned i deithio llawer ymhellach heddyw."

"A ydym yn myned i sefyll mor gynnar yn y dydd, Filwriad?" ebai y claf. "A ydym yn myned i gadwyllo cyn nos?"

"Ydym, *Sergeant*; mae y *march* bron i fyny, cewch glywed yr udgorn yn union yn bloeddio yr '*halt*' (arosiad)."

Yr oedd fy nagrau yn barod wedi dadguddio fy meddwl iddo. "Yr ydych yn meddwl," ebai, "fy mod i farw yn fuan?"

"Ydych, *Sergeant*, yr ydych i farw yn fuan!"

"Wel, y mae yn dda genyf hyny—mae eisieu gorphwys arnaf—er nad yw y *march* wedi bod yn hir, yr wyf fi wedi blino—yr wyf yn lluddedig—yr wyf am aros—yr wyf am fod gyda Christ—mae arnaf chwant myned at fy Ngheidwad."

Darllenais iddo y weddi dros ddyn yn marw, a dywedodd yntau y rhan fwyaf o honi ar fy ol. Yna penliniodd ei chwaer wrth erchwyn ei wely, ac offrymodd weddi at Dduw dros ei brawd—gweddi oedd yn gyflawn o ddiffrifoldeb, o gariad, ac o ffydd. Yr oedd gwaed calon y milwr yn dyferu dip, dip, oddiwrth ddillad y gwely, ac yn ymlenwi yn llyn dros odrau gwisg ei chwaer, tra yr oedd hi yn gweddio am i wisg ei brawd gael ei golchi a'i chànau yn ngwaed yr Oen.

Gorphenwyd y weddi. Dywedodd y *Sergeant* mewn llais clir uchel, "Amen!" Safem ein tri yn fud uwch ben ei wely.

"Fy chwaer—fy modryb—peidiwch blino—peidiwch wylo, waith yr wyf yn myned at yr Arglwydd Iesu; yr wyf yn myned i orphwys i'r nefoedd. Fy anwyl chwaer, dywedwch wrth fy mam"—yna tynodd fodrwy oddiar ei fys; a chusanodd hi—"dywedwch wrth fy mam, fy chwaer," ebai, "mai iddi hi mae hon, a fy mod i yn ei chofio ac yn ei charu hyd yr anadl olaf." Yna tynodd fodrwy arall oddiam ei fys, ac wedi ei chusanu, dywedodd, "Rhoddwch hon, fy chwaer, i'r hon yr oeddwn wedi rhoddi fy nghalon,—dywedwch wrthi am ddyfod ataf i'r nefoedd." Wedi ychydig o ddystawrwydd prudd, ei eiriau olaf oeddent, "*Tell the brave army of the Potomac that I died bravely—died for the good old flag.*"

### GWEDDI OLA' 'MAM!

**D**ROS bwy bu gweddi ola' 'mam,  
Pan elai fry at Dduw,  
Pryd 'r oeddwn i, ei chyntaf un,  
Ond prin yn dechreu byw!

Dwy wythnos gefais yn ei chòl,  
Ac wedi 'n marw fu—  
Dros bwy bu gweddi ola' 'mam,  
Ai dros ei phlentyn cu?

Bum lawer gwaith yn teimlo 'n drist  
 Am na chawn dd'wedyd, "Mam;"  
 Nad wyf yn cofio iddi roi  
 I'm gusan pur, di-nam.  
 Ai tybed mai ei hysbryd pur  
 Sy 'n sibrawd wrthyf fi,  
 Pan byddaf gyda 'm cwestiwn hwn,  
 "O fachgen, trosot ti!"

Na dd'wedded neb i friwo 'm bron  
 Mai ffol yw synio hyn;  
 Can's nerth mewn temtasiynau llym  
 Yw cofio gweddi 'r glŷn!  
 'R wy, 'n derbyn trugareddau Duw,  
 A chalon gynhes am  
 Eu bod i mi fel ffrwythau per,  
 O weddi ola' 'mam!

OMEGA.



## Y LLE DIOGEL I'CH PLANT.

“MAM,” meddai merch fechan dduwiol ar ei gwely anghu,  
 “a wnewch chwi wylo llawer pan fydd Iesu Grist yn fy  
 nghymeryd i ato ei hun?” “Yr wyf yn ofni y gwnaf, fy  
 mhlentyn,” atebai y fam, â'i llygaid yn llawn dagrau. “O, peidi-  
 iwch, mam, os gwelwch yn dda,” erfyniai yr eneth; “peidiwch,  
 os gwelwch yn dda. Wyddoch chwi ddim beth a ddygwydd i  
 David a John yn y byd drwg hwn, ond gellwch fod yn sicr y bydd  
 eich Jane fach yn ddiogel. Nis gall Satan na phechod ei chipio  
 allan o freichiau yr Iesu byth, byth. Fydd dim rhaid i chwi  
 ofidio o'm hachos i byth, 'mam—oni fydd hyn yn gysur i chwi?”

Mae yn ngeiriau Jane fach ddefnydd cysur i filoedd heblaw ei  
 mam.

DEWL.

## CYNGHOR I FORWYN AR EI HYMADAWIAD.

Y ANWYL A—,—Ar eich hymadawiad o'm gwasanaeth,  
 dymunwn roddi i chwi hyn o gynghor. Byddwch wyliad-  
 wrus rhag balchder, yr hwn bechod sydd yn barod iawn i  
 amgylchu geneth ieuanc o'ch hoed chwi. Os amgen, gwna balch-  
 der chwi yn fuan yn ddyeithr i bob rhinwedd, ac i orsedd gras.  
 Byddwch ddyfal i gadw cydnabyddiaeth â gair Duw, onidê nid  
 hir y ceidw yntau gydnabyddiaeth â chwi. Goleuni yw gair  
 Duw, a phan yr ydych yn troi cefn arno, y mae eich gwyneb ar  
 dywyllwch eithaf. Dodwch y pethau hyn yn ddwys at eich  
 hystyriaeth, ac na roddwch fenthyg eich clust i bob athrawiaeth.

A. G. JONES.



### CI TERRIER.

**D**STYR y gair *Terrier* yw *daeargi*; ond mae y darllenydd yn fwy cynnefin â'r gair blaenaf, er ei fod yn anghyfiaith. Mae y darllenydd hefyd yn ddigon cyfarwydd â'r rhywogaeth hon o'r cŵn. Y maent yn gŵn bychain, bywiog, a gwrol iawn. Y maent yn elynion i bob math o lygod a thrychfilod, ac oddiwrth hyny cawsant yr enw. Mae y *terrier* yn gi teuluaidd da iawn hefyd.

Gallem adrodd llawer hanesyn dyddorol am y cŵn daear yma. Yr oedd boneddiges yn byw unwaith yn agos i Wrexham â chanddi un o'r cŵn yma yn ymlynol iawn wrthi. Un diwrnod yr oedd yn myned ar ymweliad i dŷ cyfrifol yn Nghaerlleon, deuddeg milldir o bellder, a gorchymynodd gau y ci yn ddiogel rhag iddo ei chanlyn. Drannoeth, wedi i'r foneddiges gyrhaedd Caer, pan oedd oddeutu ugain yn eistedd o amgylch y bwrdd ciniaw, deallwyd fod ci o dan y bwrdd. Yr oedd gan wraig y tŷ wrthwynebrwydd mawr i gŵn, a dechreuodd y gŵr gicio dan y bwrdd i yru y ci allan. Erbyn hyn, yr oedd y ci yn cnoi ac yn cyfarth i amddiffyn ei hun, a'r holl le yn un terfysg. Daeth y gwasanaethddynion â'r *brushes* yno, a chylchynwyd y bwrdd gan yr ymosodwyr. A phan aeth yn rhy boeth ar *Dicky*, neidiodd i arffed ei feistres am ddiogelwch—pan ddeallodd mai ei chi bach hi ydoedd wedi ei dilyn yr holl ffordd. Yr oedd wedi tori y rhaff oedd yn ei gylymu â'i ddannedd, ac wedi tori ffenestr yr ystabl i gael ffordd rydd i fyned ar ol ei feistres.

Mae dygiad i fyny yn gwneyd llawer dros gŵn. Hyn yw y rheswm fod cymeriad cyffredinol cŵn gymaint yn uwch yn awr nag ydoedd gynt yn ngwledydd y dwyrain. "Oddiallan" yr oedd y cŵn yno; ond gyda ni y maent i mewn yn y teulu, ac yn cael llawer mwy o ofal a pharch. Wrth son am gŵn ar hyn o bryd, rhaid dyweyd gair am y ci nodedig

## SAMBO.

Bydd cannoedd o ddarllenwyr y DRYSORFA yn ei gofio wrth weled neu glywed ei enw. Nid oedd nemawr i bregethwr o'r cyfundeb yn Morganwg nad oedd yn gyfeillgar iawn â Sambo. Buasai yn dda iawn genym pe buasai darlun o hono wrth law; oblegid yr oedd yn gi mawr, hardd, a golygus iawn. Yr oedd amryw rinweddau nodedig ynddo. Yr oedd yn gi call iawn. Os byddai ganddo ormod o esgryn ar law, byddai ganddo le cyffêus i'w cuddio yn y ddaear erbyn adeg o brinder. Yr oedd yn ofalus iawn am y tŷ. Ar ol tywyllu y nos, nid oedd neb i ddyfod i mewn heb fod un o'r teulu yn y fan i'w ollwng. Gwyddai cystal a neb pan fyddai y penteulu oddicartref. Y nosweithiau hyny, cysgai o flaen drws ystafell wely y wraig; ond pan fyddai y gŵr gartref, nid oedd byth yn myned i'r llofft. Yr oedd yn gi serchog iawn. Buasai farw unrhyw awr, yn ddibetrus, dros bob un o'r teulu. Ni phrisiai am rwystrau nac arfau, dŵr na thân. Dywedodd dyn dyeithr un noswaith ar yr aelwyd wrth ŵr y tŷ,—“A ydych chiwi yn meddwl y gwnelai Sambo rywbeth i mi, pe cynnygiwn i eich llindagu?” Atebwyd ef y buasai yn well iddo beidio anturio. Ond, yn rhyfygus, anturio a wnaeth. A chyda fod y dyn â gafael yn ngwddf ei feistr, yr oedd yntau â gafael sicr â'i ddannedd yn môch y dyn, ac anafodd ef yn dost iawn. Os byddai un o'r teulu wedi bod oddicartref, ni fuasai y ci yn dawel nes cael llyfu ei wyneb. Yr oedd yr un fath ar ymweliad ei holl brif gyfeillion. Ni chai neb ond ei gyfeillion goreu dynu eu llaw dros ei ben i'w ganmawl; ac yr oedd fel pe buasai am i'r rhei'ny ddeall mai ffafr fawr oedd hyny. Yr oedd yn gi ufudd iawn. Hanner gair, neu hyd yn nôd pesychiad, i ŵr y tŷ oedd yn ddigon iddo. Nid oedd neb yn y tŷ a wyddai yn well pwy oedd y meistr. Byddai yn fwy eöfn gydag aelodau ieuengaf y teulu; ond dim ond i'r rhei'ny waeddi ar y meistr, dyna fe i'w loches mewn mynyd. Goddefai gerydd gyda'r dystawrwydd a'r addfwynder mwyaf. Gorweddai i lawr dan y fflangell yn berffaith fud a digyffro, ond cadwai lygad erfyniol yn myw llygad y ceryddwr. Yr oedd rhywbeth defosiynol iawn ynddo. Nid oedd neb yn y tŷ yn deall yn well pa bryd y byddai yr addoliad teulu-aidd yn cymeryd lle; a byddai rhai agweddau o'i eiddo ar y prydiau hyny yn peri i bawb synu. Un peth anesboniadwy ynddo ydoedd ei ymddygiad caredig at bob pregethwr, o ba enwad bynag. Cyfarthai neu chwyrnai ar bob dyn dyeithr, ond pregethwr. Ni wnaeth hyny erioed ar un pregethwr, pa un bynag a fyddai wedi ei weled o'r blaen ai peidio. Yr hen grëadur ffyddlawn! bu yn byw un mlynedd ar ddeg yn y teulu, heb fod yr un noswaith allan. Mae achos a dull ei farwolaeth yn awr yn bethau rhy newydd a chyffrôs i son am danynt. Y cwbl a ddywedwn ar hyn o bryd, ydyw iddo gael ei ladd yn niwedd Medi diweddaf, ac i hyny dynu llawer o dagrau o lygaid ei gyfeillion.

CLWS YDYW DY RUDD.

*Cyflwynedig i Mrs. ROWLANDS, priod y Parch. D. ROWLANDS, M. A.,  
Llanidloes, ar enedigaeth mab bychan iddynt.*

**M**AE 'th fagu, fy mhlentyn, yn fywyd i mi,  
Clws, clws ydyw dy rudd;

**A** sugno fy mronau yn fywyd i ti,  
Clws, clws vdyw dy rudd:

**Mae** edrych yn enaid dy lygaid glas, llon,  
**A**'th wenau yn chwareu fel tôn ar ol tôn,  
**Yn** gwneyd i mi deimlo y nef dan fy mron;  
Clws, clws ydyw dy rudd.

**Wyt** obaith fy nghalon fy rhosyn bach, gwyn,  
Clws, clws ydyw dy rudd;

**Mi** 'th welaf yn rhedeg hyd ochrau y bryn,  
Clws, clws ydyw dy rudd:

**Dy** gampau diniwed rydd fwy o foddhâd  
**I** ni, na phe byddem yn perchen ystâd,  
**Yn** dâl am dy fagu i'th fam a dy dað;  
Clws, clws ydyw dy rudd.

**Y** llencyn a welaf yn awr ynot ti,  
Clws, clws ydyw dy rudd;

**Bydd** symledd dy berson yn addurn i ni,  
Clws, clws ydyw dy rudd:

**Bydd** enfys prydfferthwch yn gloewi dy ael,  
**Dy** ysbryd yn addfwyn a'th galon yn hael,  
**A** myrdd o rianod yn hoffi dy gael;  
Clws, clws ydyw dy rudd.

**Mi** 'th welaf, f' anwylyd, yn briod a thad,  
Clws, clws ydyw dy rudd;

**Yn** dilyn defodau henafol dy wlad,  
Clws, clws ydyw dy rudd:

**Bob** amser fel Cymro yn ddiwyd i'th waith,  
**Yn** ddyn yn dy deulu, yn ddyn ar dy daith,  
**Yn** caru dy henwlad, yn caru dy iaith;  
Clws, clws ydyw dy rudd.

J. GAERWENYDD PRITCHARD.

**Mi** 'th welaf di hefyd, yn mlaenffrwyth dy oes,  
Clws, clws ydyw dy rudd;

**Yn** un o ffyddlonaf ddysgyblion y Groes,  
Clws, clws ydyw dy rudd:

**A** mwy—yn bregethwr rhagorol dy ddawn,  
**O** dhan ac eneniad y nefoedd yn llawn,  
**Yn** traethu goludoedd anfeidrol yr lawn;  
Clws, clws ydyw dy rudd.

GOL.



J. R., Treforia.

## PINCH O SNUFF.

“**D**IM ond *pinch o snuff*,” meddai'r dyn. Ië, mae *pinch o snuff* yn llawer erbyn ei gyfrif yn briodol. Gwnaeth Iaz Stanhope, yn un o'i areithiau diweddar, y cyfrif canlynol. Mae pob dyn sydd wedi ymroddi i'r arferiad o gymeryd *snuff*, yn ol cyfrifiad digon cymedrol, yn cymeryd *pinch* bob deng mynydd. Mae pob *pinch*, rhwng trin y blwch, chwythu a sychu y trwyn, yn difa tua mynydd a hanner o amser. Erbyn cymeryd mynydd a hanner allan o bob deg, a chaniatâu un awr ar bymtheg y dydd, bydd y ddwy awr a phedwar mynydd ar hugain y dydd, neu un diwrnod allan o bob deg. Mae un diwrnod o bob deg yn dyfod yn un diwrnod ar bymtheg ar hugain a hanner mewn blwyddyn. Felly, wrth ddeilyn yr arferiad yma am ddeugain mlynedd, bydd DWY FLYNEDD GYFLAWN o amser y dyn sydd yn cymeryd *snuff* yn cael eu treulio oglais ei drwyn, a DWY FLYNEDD YCHWANEGOL i'w chwythu. Os cymerir i mewn draul y *snuff*, y blwch, a'r napcynau, gwelw fod yr arferiad yn difa cymaint ar arian dyn ag ydyw ar ei amser, a phe gwnelid defnydd priodol o'r AMSER a'r ARIAN a werir gyda'r arferiad hwn, gellid ffurfio trysorfa i dalu yr holl *ddydded wladol*.

“DOES DIM I'W GAEL HEB DRAFFERTH.”

DOES dim i'w gael heb drafferth,  
 Medd y wenynen hardd,  
 Wrth gasglu 'r mêl yn brysur  
 O wridawg rôs yr ardd.

'D oes dim i'w gael heb drafferth,  
 Medd yr aderyn mwyn,  
 Wrth gasglu'r pluf a'r mwswg  
 O blith cangenau 'r llwyn.

Fe wna ei nyth cysurus  
 Mewn twmpath llawn o ddail,  
 Gan blethu 'r pluf a'r brigau,  
 A chanu bob yn ail.

'D oes dim i'w gael heb drafferth,  
 I tithau, blentyn llon;  
 I gyrhaedd pen yr ysgol  
 Rhaid myn'd o ffon i ffon.

Ll—dr.

J. E.



ANRHEG Y NEGROAID I LINCOLN.

WYR ein darllenwyr ieuainc mai Llywydd America yw Abraham Lincoln. Efe sydd, am y pedair blynedd yma, fel brenin y wlad; ac am ei fod ef yn awyddus i ryddhâu y ethion, y mae y rhyfel arswydus sydd yno yn awr wedi tori lan. Y Negroaid yw y caethion sydd yno; y maent wedi eu adrata o'u gwlad eu hunain, Affrica, ac wedi eu gwerthu fel ifeiliaid, ac yn cael eu trin yn greulawn. Trwy y rhyfel yma mae iloedd ar filoedd o honynt wedi eu rhyddhâu, ac y maent yn liolchgar a llawen dros ben.

Yn ddiweddar anrhegodd y Negroaid duon yma y Llywydd Lincoln & Bibl mawr, wedi ei wneyd i fyny yn y modd mwyaf ydferth a chostus, yn werth cant ac un ar bymtheg o bunnau, i arwydd o'u parch a'u diolchgarwch iddo. Dywedodd Lincoln rth ei dderbyn, “Dyma rodd benaf Duw i ddyn. Mae yr holl laioni sydd yn deilliaw i ddyn oddiwrth Iachawdwr y byd wedi hysbysu i ni trwy y llyfr hwn. Mae pob peth gwerthfawr a hwyng i ddyn eu gwybod yn y llyfr bendigedig hwn. Yr wyf a dychwelyd i chwi fy niolchgarwch mwyaf diffuant am y copi adderchog hwn o Lyfr Duw yr ydych wedi fy anrhegu âg ef.”

Wrth anrhegu Lincoln &r Bibl, yr oeddent yn dangos eu bod na deall mai y Bibl yw gwir ffynnonell rhyddid pob dyn a llawedl.



## BLWYDDYN NODEDIG 1866.

**M**AE yn hysbys fod agos holl brif esbonwyr y Bibl wedi cyfeirio at y flwyddyn 1866, fel y flwyddyn y bydd Pabyddiaeth yn derbyn ei hergyd marwol. Mae y Pab a'i lywodraeth wedi ei gynnal a'i amddiffyn yn Rhufain er ys blynyddoedd bellach gan filwyr-Ffrainc. Ond yn hynod iawn, y mae Louis Napoleon wedi penodi y flwyddyn 1866 i alw ei filwyr o Rufain, a gadael y Babaeth i'w thynghed. Mae yn debyg hefyd mai y flwyddyn 1866 fydd y *seithfed* flwyddyn i'r "wythnos weddio" sydd wedi ei sefydlu yn ddiweddar gan Gristionogion trwy yr holl fyd. Nis gall y pethau hyn oll lai na chodi dysgwiliad mawr at y flwyddyn uchod.

"Yr hwn sydd yn tystiolaethu y pethau hyn, sydd yn dywedyd, Yn wir, yr wyf yn dyfod ar frys. Amen. Yn wir, tyred Arglwydd Iesu."

## DYDDANION.

## TYMHER DDA.

**R**OEDD *hawker* gyda llwyth o lestri pridd mewn cewyll ar gefn asen yn myned trwy heol gul yn ddiweddar. Daeth boneddiges ieuanc o lendid rhagorol i'w gyfarfod. Cafodd yr asen ofn y foneddiges, rheddodd ymaith, taflodd y cewyll a'r llestri, a thorwyd llawer o honynt. Gwelwodd y foneddiges rhag ofn cael tafod drwg gan yr *hawker*; ond dywedodd y dyn mewn tymher dda, "Peidiwch meindio, ma'm,—dychrynwyd asen Balaam gan angel."

## SAETHU Y LLEUAD.

**T**N noswaith, gwelodd cadfridog yn Georgia (America), oleuni yn dyfod i'r golwg ar gopa y bryn uwchlaw iddo. Tybiodd mai goleuni y gelyn ydoedd. Trodd at y magnelwr, a dywedodd, "Mae y gelyn fan acw, tro y magnel ato, a rho dwill yndo." Rhoddodd y dyn y gwn yn barod, ond pan yn myned i saethu, dywedodd wrth y cadfridog, "Y lleuad yw'r 'nacw!" "Na hidia, fachgen, beth ydyw, rho dwill drwyddo beth bynag yw!"

## UFFERN GACWN.

**R**ATHWYD bachgenyn bychan ychydig o flwyddi oed yn Aberteifi yn ddiweddar gan gacynen. Yr oedd y bychan mewn blinder mawr at ei hymddygiad creulawn, gan nad oedd ef yn gwneyd dim allan o le iddi. Wedi dwys fyfyrloed, gofynai yn ddifrifol i'w fam, "Mam, a oes uffern i *gacwn* drwg hefyd?"

# TRYSORFA Y PLANT:

CYHOEDDIAD MISOL I IEUENCTYD,

GAN

GYFUNDEB Y METHODISTIAID CALFINAIDD.

DAN OLYGIAD

Y PARCH. THOMAS LEVI.

Y BEDWAREDD GYFROL.

1865.

TREFFYNNON:

CYHOEDDWDYD (DROS Y CYFUNDEB) GAN P. M. EVANS.

MDCCCLXV.



## RHAGYMATRODD.

ANWYL DDARLLENWYR,—

Dyma ben blwyddyn eto, a gallwn gyfarch ein gilydd mewn llawenydd unwaith yn ychwaneg uwch ben ein TRYSORFA. Dau air sydd genym i'w ddyweyd wrthych yn y rhagymadrodd:—*Yn gyntaf*, Yr ydym yn dra diolchgar i ehwi, ddosbarthwyr a darllenwyr caredig, am eich cefnogaeth a'ch ffyddlondeb. Y mae y cylchrediad *floedd* yn fwy ar ddiwedd y flwyddyn hon eto nag ydoedd ar ei dechreu. *Yn ail*, Gofyn yn ostyngedig am barhâd eich egni y flwyddyn ddyfodol, ac yn arbenig ar *dröad y flwyddyn*. Er fod y cylchrediad wedi codi i UN MIL AR HUGAIN, y mae lle i lawer yn ychwaneg; a byddwn yn dra diolchgar i ewyllyswyr da y cyhoeddiad am unrhyw gynnorthwy, ar air ac ar weithred, er hwylusu ei ledaeniad. Byddwch wych; a'r Arglwydd a'ch llwyddo.

TREFORIS,

*Rhagfyr*, 1865.



# CYNNWYSIAD.

## RHYDDIAETH.

|                                                  | Tu dal.  |
|--------------------------------------------------|----------|
| A B C y Bibl ... ..                              | 4        |
| Abraham Lincoln, Llywydd<br>America ... ..       | 152      |
| Anadlwch trwy eich ffroenau...                   | 277      |
| Ar dân ... ..                                    | 126      |
| Arglwydd Nelson ... ..                           | 62       |
| Arwyddeiriau... ..                               | 6        |
| Atebion dyn mud a byddar ...                     | 9        |
| <i>Band of Hope</i> Cefncoedeymer...             | 161      |
| Beth wnaeth dwy eneth fach...                    | 246      |
| Beth yw y Bibl ... ..                            | 290      |
| Elwch yr Arglwydd ... ..                         | 85       |
| Bron a boddi ... ..                              | 111      |
| Bwytaŵr morgrug... ..                            | 223      |
| Carlo a'r <i>Brushes</i> ... ..                  | 133      |
| Catecism Dirwestol ... ..                        | 204, 287 |
| Charles Lamb a'i fam... ..                       | 265      |
| Ci y bugail ... ..                               | 107      |
| Coron fach i blentyn... ..                       | 55       |
| Cyfarfod blynyddol y Fibl Gym-<br>deithas ... .. | 208      |
| Cyflog y fam ... ..                              | 169      |
| Cyngor Melancthon i'w fam...                     | 307      |
| Cymru a'r Bibl ... ..                            | 51       |
| Cynifer o alwadau ... ..                         | 197      |
| Cystadleuaeth y cerflunwyr...                    | 13       |
| Cystadleuaeth y cwestiynau ...                   | 36       |

|                                 | Tu dal.         |
|---------------------------------|-----------------|
| Chwarenon peryglus ... ..       | 162             |
| Chwiliwch yr Ysgrhythrau ...    | 285             |
| Dad y bunt a'r geiniog... ..    | 23              |
| Daearyddiaeth Gwlad Canaan...   | 8, 63, 176, 231 |
| Darllen yn y cwrdd ... ..       | 54              |
| Dau beth nad yw yn heneiddio    | 97              |
| Dechreuad John Angell James     | 234             |
| Defnyddiau templ Solomon ...    | 192             |
| Deigryn y dall ... ..           | 262             |
| Dilyn y copi... ..              | 142             |
| Diolch i'r Arglwydd am y ddol   | 286             |
| Dosbarth y Biblau ... ..        | 171, 301        |
| Dr. Vaughan a'i gini cyntaf ..  | 260             |
| Dr. Watts ... ..                | 219             |
| Dwy eneth fach a'r genadaeth... | 53              |
| DYDDANION—                      |                 |
| Taranau ar y Sul ... ..         | 28              |
| Cwestiwn caled ... ..           | 28              |
| Hŷd ac uchder ... ..            | 28              |
| Yr haul a'r ddaear ... ..       | 56              |
| Llai o waith ... ..             | 56              |
| Sam y Negro ... ..              | 56              |
| Enwau cywrain wedi cwrdd        | 84              |
| Edrych ar eraill yn bwyta ...   | 84              |
| Crys glân ... ..                | 84              |
| Ar eich gliniau ... ..          | 112             |
| Pwnc mawr plentyn ... ..        | 112             |
| Cyfrifoldeb tafarnwr ... ..     | 140             |
| Gormod o ysbryd ... ..          | 140             |

|                                     | Tu dal        |                                 | Tu dal   |
|-------------------------------------|---------------|---------------------------------|----------|
| Pennill Siencyn Penhydd ...         | 168           | Hannah a'i gwningen fach ...    | 22       |
| Y llenad yn ymdrochi ...            | 168           | Harriett fach ...               | 303      |
| Golud anwadal ...                   | 168           | Hoff o ganu ...                 | 81       |
| Cwympto allan ...                   | 196           | <i>I can push a pound</i> ...   | 223      |
| Dyfais i gael arian ...             | 196           | John a'i <i>sums</i> ...        | 259      |
| Penbleth y beirdd ...               | 196           | Lladeddigion y barilau ...      | 230      |
| Nid mor wallgof ...                 | 224           | Llaeth y gair ...               | 257      |
| Y gwaith yn cydfyned a'r dôn        | 224           | Llech yn cadw ysgol ...         | 196      |
| Myned i'r nefoedd heb y Spectol ... | 224           | LLYFRAU NEWYDDION—              |          |
| Prydydd chwech oed ...              | 224           | Cyfansoddiadau Eisteddfod       |          |
| Y rheswm am dyfu ...                | 252           | Bethesda ...                    | 41       |
| Dwyn camdystiolaeth ...             | 252           | Effeithiau niweidiol diota ...  | 41       |
| Ffeindio y flwl ...                 | 252           | Y Testament Newydd am           |          |
| Drych yr amseroedd ...              | 280           | ddwy geiniog ...                | 79       |
| Llai o daranau a mwy o fellt        | 280           | Y Bardd a'r Cerdor ...          | 79       |
| Creff Iesu Grist ...                |               | Esther ...                      | 80       |
| Tarddiad yr enw <i>spinster</i> ... | 308           | <i>Our work</i> ...             | 80       |
| Gwneuthur dim ...                   | 308           | Chwedlau yr aelwyd ...          | 80       |
| Yr athronydd a'r badwr ...          | 328           | Caneuon gwladgarol Cymru ...    | 80       |
| Croes drom ...                      | 328           | <i>Puritan Divines</i> ...      | 136      |
| Effaith maddeuant ...               | 274           | Holwyddoreg ar Hanes Iesu       |          |
| Ein cerflunwyr ieuainc ...          | 42            | Grist ...                       | 137      |
| Emma a'r babi ...                   | 139           | Y Traethodydd ...               | 137      |
| ENWOGION YR OES—                    |               | Cofiant a Phregethau y Parch.   |          |
| VII.—C. H. Spurgeon ...             | 35            | J. Hughes ...                   | 160      |
| VIII. Benjamin Disraeli ...         | 324           | Coll Gwynfa ...                 | 160      |
| Ergyd i Undodwr ...                 | 193           | Caniadau Ioan Maethlu ...       | 161      |
| Esgidiau newydd, ohoi! ...          | 1             | Geiriau Moliant ...             | 161      |
| Fechgyn, cerwch eich Bibl ...       | 230           | Holwyddoreg ar béchadurus-      |          |
| Fel y tad y bydd y teulu ...        | 253           | rwydd meddwdod ...              | 161      |
| Ffydd y fam ...                     | 323           | Caneuon y plant ...             | 161      |
| Gair at y plant ...                 | 277           | Testament y cyfiriadau ...      | 261      |
| Gair olaf plentyn at ei fam ...     | 21            | Buddugoliaethau gwirionedd      | 261      |
| Geiriau Duw ...                     | 182           | Gwionedd a chyffiliarnad        | 261      |
| Geiriau olaf ...                    | 252           | Pwysigrwydd cyrifoldeb dyn      | 261      |
| Geneth bedair oed a'r gwaed ...     | 173           | Y delyn aur ...                 | 261      |
| Geneth fach a'i thaid ...           | 314           | Blodau y balmwydden ...         | 261      |
| George III. a'r Cwacer ...          | 77            | Llythyrau at y dyn yn y lleniad | 261      |
| Gochelwoh feddwdod ...              | 308           | Llythyrau plentyn ...           | 261      |
| Golud bydol fel cnau ...            | 181           | Mag ac Elen ...                 | 261      |
| Gwaith y botel ...                  | 146           | Martin Luther ...               | 261      |
| Gwasanaethwch eich hunain,          |               | Matthias a'r Cablwr ...         | 160      |
| blant ...                           | 195           | Merched, eu gwaith a'u dylam-   |          |
| Gwedd i gwaith ...                  | 84            | wad ...                         | 116, 261 |
| Gweddian y Bibl ...                 | 227, 294, 314 | Merch y dyn meddw ...           | 261      |
| Gweddio dros eraill ...             | 281           | Morris bach, Hirdref ...        | 261      |
| Gwedd i Thomas Dafydd o'r           |               | Mrs. Taylor a Betty ...         | 261      |
| Groes ...                           | 144           | Myned a'r gobenydd i'r nefoedd  | 261      |
| Gwiwer yn planu derw ...            | 113           | Mynu myned i'r môr ...          | 98       |
| Gwobrwyon am ateb cwestiynau        | 23            | Na, mae f enw i lawr ...        | 149      |
|                                     |               | Nerth caredigrwydd ...          | 179      |

|                                                                             | Tu dal. |
|-----------------------------------------------------------------------------|---------|
| is gellwch losgi y pennodau a ddysgais ... ..                               | 167     |
| ffer awch ... ..                                                            | 184     |
| un, gyfaill... ..                                                           | 88      |
| adr a'r angel ... ..                                                        | 26      |
| nderfyniadau am y flwyddyn                                                  | 87      |
| nderfyniad dinystriol ...                                                   | 263     |
| yn y ffordd i'r crogbren... ..                                              | 78      |
| tegethu ymysg y meirw ...                                                   | 250     |
| tegethu ymysg y glöwyr ...                                                  | 32      |
| cofnad plentyn wrth farw ...                                                | 145     |
| howch eich ceiniogau am lyfrau ... ..                                       | 257     |
| <b>OSG A BLANCHE—</b>                                                       |         |
| Pen. I. Y daith ... ..                                                      | 16      |
| Pen. II. Bfnderau ... ..                                                    | 44      |
| Pen. III. O flaen yr ynad ...                                               | 71      |
| Pen. IV. Ffoedigaeth ... ..                                                 | 100     |
| Pen. V. Llongddrylliad ... ..                                               | 127     |
| Pen. VI. Cyrhaedd Paris... ..                                               | 148     |
| Pen. VII. Cynlluniau a blinderau... ..                                      | 183     |
| Pen. VIII. Y Gyffesgell ... ..                                              | 212     |
| Pen. IX. Colli Rose a Blanche                                               | 239     |
| Pen. X. Dylanwad y Gyffesgell ... ..                                        | 267     |
| Pen. XI. Darganfyddiad ... ..                                               | 296     |
| Pen. XII. Ychwaneg o oleuni                                                 | 319     |
| syllfa Pabyddiaeth yn Mhrydain ... ..                                       | 199     |
| at na bae'r Bibl yn dyweyd mw... ..                                         | 328     |
| r Isaac Newton ... ..                                                       | 118     |
| sr bricsen at dŷ'r Bibl ... ..                                              | 222     |
| stulo am Dduw ... ..                                                        | 189     |
| fadgof dymunol... ..                                                        | 30      |
| tr Babel ... ..                                                             | 34      |
| praidd, nid un gorlan ... ..                                                | 115     |
| <b>BIBL—</b>                                                                |         |
| V. Llyfr Exodus ... ..                                                      | 67      |
| VI. Llyfr Lefiticus ... ..                                                  | 264     |
| buarth ... ..                                                               | 266     |
| Bugail da ... ..                                                            | 106     |
| caagliad ceiniog ... ..                                                     | 272     |
| ceffyl ... ..                                                               | 70      |
| Cwestiynau Gwobrwyedig, 23, 49, 61, 110, 134, 158, 179, 200, 237, 258, 307, | 317     |
| chwarter doler yn y dybaco                                                  | 87      |
| danadl a'r violet ... ..                                                    | 174     |

|                                               | Tu dal.          |
|-----------------------------------------------|------------------|
| Y drws heb ei gau ... ..                      | 141              |
| Ydych chwil yn feddw heno, rhad? ... ..       | 238              |
| Y fuddugol ar y cwestiynau ...                | 88               |
| Y ffordd i beidio ffræo ... ..                | 245              |
| Y ffordd i beidio grwgnach... ..              | 83               |
| Y ffordd i gael diwygiad ... ..               | 76               |
| Y llama ... ..                                | 250              |
| Y llyfrgell yn eiriadur ... ..                | 306              |
| Ymddiried yn Nuw ... ..                       | 104              |
| Y meddyg Iuddewig... ..                       | 312              |
| Ymgom Robin goch a'r plentyn                  | 187              |
| Ymyl y faril ... ..                           | 201              |
| Y plant a'r hen ... ..                        | 138              |
| Y plant a'r plëdreni ... ..                   | 90               |
| Y plentyn yw tad y dyn ... ..                 | 315              |
| Y pryf copyn ... ..                           | 294              |
| Yr adeiladwyr ieuainc ... ..                  | 207              |
| Yr aderyn yn yr ystorm ... ..                 | 29               |
| Yr afr ... ..                                 | 174              |
| Yr alarch ... ..                              | 7                |
| Yr ymborth rhataf a goreu ...                 | 69               |
| Yr Ysgol Sabbothol ... ..                     | 283              |
| Y Saeson a'r Almaenwyr ... ..                 | 160              |
| Ystlum ... ..                                 | 202              |
| Ystori Ada ... ..                             | 57, 91, 120, 154 |
| <b>Y TADAU METHODISTAIDD—</b>                 |                  |
| VI. Richard Tibbot ... ..                     | 31               |
| VII. Lewis Evan, Llaullugan                   | 220              |
| VIII. John Harris, Sir Benfro                 | 316              |
| Y Tywysog Albert yn eoryddu ei blentyn ... .. | 114              |
| Y Wenynen ... ..                              | 10, 48, 217      |

## BARDDONIAETH.

|                               |     |
|-------------------------------|-----|
| Am Sarah fach... ..           | 20  |
| Angel Out ... ..              | 56  |
| Ardeb y Baban a'i Nain ... .. | 103 |
| Arfaeth Ior ... ..            | 193 |
| Arglwydd Iesu, 'r Bugail mwyn | 69  |
| Ar wely cystudd ... ..        | 217 |
| Benjamin bach ... ..          | 82  |
| Beth yw dolur? ... ..         | 273 |
| Bibl fy mam ... ..            | 200 |
| Byd y bedd... ..              | 62  |
| Bydd dyner ... ..             | 61  |
| Byw i bwrrpas ... ..          | 159 |
| Cartref y saint ... ..        | 227 |
| Dan gymylau ... ..            | 295 |
| Dechreu cerdded ... ..        | 289 |



|                                        | Tu dal. |                                     | Tu dal. |
|----------------------------------------|---------|-------------------------------------|---------|
| Diwedd y flwyddyn ... ..               | 327     | Temtasiwn Willie ... ..             | 134     |
| Dos yn mlaen, Gristion ... ..          | 89      | <i>The African's hymn</i> ... ..    | 166     |
| Duwioldeb sydd fuddiol ... ..          | 34      | <i>The fountain</i> ... ..          | 235     |
| Dydd genedigaeth John ... ..           | 167     | <i>The Old Arm Chair</i> ... ..     | 59      |
| Effeithioldeb y gair ... ..            | 275     | Ti faban newydd eni ... ..          | 151     |
| Ei gair olaf ... ..                    | 191     | Tlws, ond tlysach ... ..            | 209     |
| Fy mam ... ..                          | 54      | Toriad y wawr ... ..                | 111     |
| Fy mrawd bach ... ..                   | 190     | Tyr'd pwsî fach ... ..              | 10      |
| Ffarwel gantorion ... ..               | 284     | Wela fi yn dyfod ... ..             | 221     |
| Gwinedd a dannedd glân ... ..          | 81      | Wrth afonydd Babilon... ..          | 222     |
| Gwyliwch y bach ... ..                 | 175     | Y Bugail da ... ..                  | 25      |
| <i>Hark the Angels Singing</i> ... ..  | 237     | Y dechreu a'r diwedd ... ..         | 208     |
| Heibio Gethsemane brudd ... ..         | 116     | Y fam a'i phlentyn claf ... ..      | 327     |
| Hen gloc y bwthyn ... ..               | 302     | Y duwiol ... ..                     | 261     |
| Holl famau Caersalem ... ..            | 260     | Y gareg ateb ... ..                 | 222     |
| <i>I know thou art gone</i> ... ..     | 125     | Y Gwyddel bach firaeth ... ..       | 137     |
| Lle nad yw Duw ... ..                  | 251     | Y gwynfydau... ..                   | 173     |
| Mae Dirwest yn llwyddo ... ..          | 125     | Ymdrechais ymdrech deg ... ..       | 37      |
| Mae gwawr i ddod ar Sion ... ..        | 145     | Yn nês, yn nês ... ..               | 267     |
| Mae myrdd o blant bychain ... ..       | 125     | Y nos ... ..                        | 206     |
| Mae'r pac yn barod ... ..              | 143     | Y nos a'r dydd ... ..               | 30      |
| Mae'r wawr eto'n llwyd ... ..          | 324     | Y pethau welais ac ni welais ... .. | 52      |
| Mary a Charlie bach ... ..             | 318     | Y plentyn ufudd ... ..              | 292     |
| Mawredd dyn ... ..                     | 307     | Y plentyn yn marw ... ..            | 208     |
| Mi a fy chwaer ... ..                  | 180     | Yr aderyn du ... ..                 | 132     |
| Molwn di ... ..                        | 4       | Yr anmrhyclon i foddion gras ... .. | 245     |
| <i>Oh, I'll be a good child</i> ... .. | 292     | Yr haul ... ..                      | 201     |
| O Robin goch anwyl ... ..              | 108     | Yr Iesu'n cael cam ... ..           | 96      |
| Pe byddwn farw'r fynyd hon ... ..      | 249     | Y telegraph ... ..                  | 306     |
| Pechadur a'i Waredwr .. ..             | 255     | Y twrci ... ..                      | 74      |
| Peidiwch ymhel â'r llestri ... ..      | 279     | Y tymhor hâf ... ..                 | 178     |
| Pethau bychain yn myxed yn fawr ... .. | 305     | Y wialen fedw ... ..                | 222     |
| Psalm lxxxiv. ... ..                   | 119     | Wrth afonydd Babilon ... ..         | 221     |
| Sam y bachgen drwg ... ..              | 170     | Arglwydd Iesu'r Bugail mwyn ... ..  | 6       |
| Sion, y ddinas hyfryd ... ..           | 76      | Mae myrdd o blant bychain ... ..    | 125     |
| Sister and I ... ..                    | 181     | Mi a fy chwaer ... ..               | 180     |
|                                        |         | Wela fi yn dyfod ... ..             | 221     |
|                                        |         | Y plentyn ufudd ... ..              | 292     |

## TONAU.

|                                    |     |
|------------------------------------|-----|
| Wrth afonydd Babilon ... ..        | 221 |
| Arglwydd Iesu'r Bugail mwyn ... .. | 6   |
| Mae myrdd o blant bychain ... ..   | 125 |
| Mi a fy chwaer ... ..              | 180 |
| Wela fi yn dyfod ... ..            | 221 |
| Y plentyn ufudd ... ..             | 292 |



## TRYSORFA Y PLANT.

RHIF. XXXVII.]

IONAWR, 1865.

[CYF. IV.

### ESGIDIAU NEWYDD, OHOI!

“**M**AM, 'mam, mae nhw'n myn'd i gael ysgol wno i ni, ac os bydd ar y plant eisieu esgidiau, mae digon i gael, dim ond myn'd at Miss Lewis bore dydd Sadwrn!”

Dyma fel y cyfarchai Catharine Morgan ei mham, wedi rhedeg allan o wynt agos o'r Ysgol Sabbothol genadol. Druan o honi! hi a allasai lawenychu wrth y fath newydd. Nid oedd gwerth hanner coron o ddillad am dani oll. Prin yr oedd ei ffroc yn gorchuddio ei phenliniau. Ni fu esgid na hosan ar ei throed erioed, er ei bod yn awr rhwng chwech a saith oed.

“Mae yr athrawes yn dyweyd y caf fi fonet a ffroc heb fod yn hir, a fy mod i gael esgidiau newydd ddydd Sadwrn nesaf.”

“I ba beth yr wyt ti am gael esgidiau, fy ngeneth i?” gofynai'r fam.

“I gadw fy nhraed yn gynhes,” ebai Catharine, “a lle bod fy nhraed yn difwyno gwisg fy athrawes yn yr ysgol.”

“Wel, os cei bâr o esgidiau, da iawn,” ebai'r fam.

Wythnos hir i Catharine oedd hon. Rhifai bob nos wrth fyned i'r gwely pa sawl noswaith oedd ganddi i gysgu wed'yn cyn cael esgidiau. O'r diwedd, bore dydd Sadwrn a ddaeth. Yr oedd Miss Lewis yn gorphen ei brechwast pan welai Catharine yn pasio at y drws.

"Agorwch y drws, Elen," ebai wrth y forwyn, "a gadewch i'r eneth fach yna dd'od i mewn yma."

Gosodwyd Catharine wrth y ford, a chafodd ddarn mawr o deisen gyda chwpanaid o goffi. Y peth a darawodd feddwl yr eneth fwyaf oedd, y fath fyd oedd ar Elen y forwyn i gael byw mewn tŷ mor dda, a chael bwyd mor dda. Wedi gorphen bwyta, yr oedd yr esgidiau eto yn llonsid ei meddwl, eto teimlai yn rhy wylaidd i'w ceisio. O'r diwedd gofynodd yr athrawes garedig,

"Ddaethoch chiwi i edrych am yr esgidiau?"

"Do, os gwelwch yn dda, ma'm," ebai.

Daeth Elen â blychaid mawr o esgidiau yno, ac wedi treio amryw bârau, cafwyd pâr at fesur ei throed i'r dim. Druan fach! nid oedd yn gwybod y ffordd i'w doddi ar ei thraed, heb help. Siaradai Miss Lewis mor garedig â hi, fel y teimlodd yn ddigon eöfn yn y man i ddyweyd,

"Buasai yn dda genyf taswn i ddigon hen i fyn'd ar fy ngwasanaeth. Buasai yn dda genyf fod yn forwyn."

"Rhaid i chiwi dd'od yn henach, ac yn gryfach, a dysgu llawer o bethau cyn hyny, fy ngeneth i," ebai Miss Lewis. "Ond gwn am un y gellwch fyned ar eich gwasanaeth ato yn awr."

"Pwy ydyw?" gofynai Catharine, gyda llygaid agored a syndedig.

"Gwyddoch pwy yw yr Arglwydd Iesu Grist, oni wyddoch chiwi?"

"Yr wyf wedi clywed am dano yn yr Ysgol Sabbothol."

"Gwyddoch y gall eich gweled, a chlywed pob peth a ddywedoch. Efe yw ein Meistr ni, a Meistr da, caredig iawn ydyw. Nid ydych chiwithau yn rhy fach i fod yn forwyn iddo ef."

"Wel, mi fyddaf," ebai Catharine; "beth mae am i mi wneyd?"

"Mae llawer iawn o bethau, ac y maent oll wedi eu hysgrifenu i lawr yn y Bibl. Gallaf fi ddyweyd wrthyhych dri pheth y mae am i chiwi wneyd, a gellwch ddyfod yma ddydd Sadwrn nesaf i ddyweyd wrthyf sut y byddwch wedi llwyddo i'w gwneyd. Ufuddhewch i'ch tad a'ch mam; byddwch yn garedig i'ch brodyr a'ch chwïorydd; a chedwch eich hunan yn lân."

Gwridodd Catharine wrth edrych ar ei ffroc a'i dwylaw mor frwnt, a gweled nad oedd dim o'i chwmpas yn lân iawn ond yr esgidiau.

"Af adref yn awr," ebai, "a golchaf fy wyneb." Ac wedi ysgrwyd llaw, a dyweyd "bore da" wrth Miss Lewis, aeth adref â'i hesgidiau newydd ar ei thraed. Yr oedd ganddi filldir o ffordd, ond nid oedd yn meddwl dim am ei hŷd. Teimlai yn ôl iawn mewn esgidiau. Safai weithiau i edrych arnynt yn ôl a blaen. Yna rhedai gymaint a allai, a methai ymgadw heb floeddiio allan, "Esgidiau newydd, ohoi!" Cwmpodd ddwywaith oblegid pwysau ei thraed. A chyn cyrhaedd adref, yr oedd wedi eistedd i lawr ar gareg, a thynu yr esgidiau i ffordd, a'u cario yn ei llaw.

Daeth yr esgidiau yn destun sylw a syndod y teulu. Treioid

y plant oll hwy ar eu traed. Llusgai Tom (teirblwydd) hwynt ar hyd y tŷ ar ei draed bychain noethion, gan gadw y fath dwrw; a gorfu i Catharine eu cuddio o'r diwedd yn y gwely, rhag i'r plant eu tynu yn ddarnau.

"Catharine, tyr'd yma at y babi, i mi gael myned i wneyd cinio," ebai'r fam.

Yr oedd hi wedi dechreu y ffordd i fyned allan i chwareu, a meddylodd am redeg; ond daeth geiriau y Meistr i'w chof, "Ufuddhewch i'ch rhieni; byddwch garedig i'r plant." Trôdd yn ôl yn araf a dystaw. Nid oedd hi yn meddwl cymaint o hyny —y weithred gyntaf o ufudd-dod i Grist; ond yr wyf fi yn meddwl fod angelion y nefoedd yn llawen o'i herwydd, oblegid y cam cyntaf ar y llwybr i'r nefoedd ydoedd.

"Mam," ebai Catharine, wedi tawelu y baban, "ellir dim golchi y ffroc yma?"

"Nad ellir," ebai, "fe redai y lliw o honi, a chiliai i rywle. Beth wnaeth i ti feddwl am hyny?"

Ni roddodd Catharine yr un ateb. Methai a deall pa fath ffroc a allai fod wedi i'r lliwiau fyned o honi yn fwy eto, a hithau gilio yn ferach fyth. "Rhaid i mi aros am fy ffroc newydd," ebai wrthi ei hun. Ond cyrhaeddodd Ionaid twba o ddwfr, a mynodd gystal ymolchfa ag a gafodd plentyn erioed.

Bore drannoeth, gyda dwylaw a gwyneb glân, ac yn ei hesgidiau newydd, cychwynodd tua'r Ysgol Sabbothol. Llwyddodd i gerdded yn ddiogel, heb ddamwain na chodwm. Edrychai ar ei hesgidiau yn fynych pan ddylasai edrych ar ei llyfr; ond rhaid cofio na fu esgidiau ar ei thraed erioed o'r blaen.

Erbyn y Sabbath canlynol, yr oedd ei hathrawes garedig wedi dwyn ffroc a bonet newydd iddi; a phan welodd mor ofalus ydoedd i gadw y rhai hyn yn lân, rhoddodd *shawl* iddi eilwaith, ac amryw bethau eraill. Ymroddodd i ddysgu darllen y Bibl, a daeth i ddeall ewyllys ei Meistr o honi ei hun. Llawer gwaith wedi hyn y clywyd hi yn dyweyd, "Morwyn fach Iesu Grist ydwyf fi; Efe ydyw fy Meistr." Y mae yn awr wedi tyfu i fyny, ac yn cofio gyda diolchgarwch, na fedr geiriau ei gynnwys, am garedigrwydd y foneddiges a roddes iddi gynghor mor briodol a phrydlawn gyda'i phâr cyntaf o esgidiau.

Y DUWIOL OSTYNGEDIG BLANT  
A BARCHANT EU RHIENI,  
CANT AR Y DDAEAB FYW YN HIR,  
A'U DWYN I DIR GOLEUNI.


## MOLWN DI.

*(Joyfully, joyfully, onward we move.)*

GAN J. CEIRIOG HUGHES.

**M**OLWN Di, molwn Di, Arglwydd ein Duw,  
 Ofnwn dy enw tra byddom ni fyw :  
 Dyro, O Arglwydd, wrandawriad i ni,  
 Telyn y galon gysegrwyd i ti.  
 Lleisiau plant bychain fo 'n esgyn i'th glyw,  
 Molwn Di, molwn Di, Arglwydd ein Duw.  
 Iesu fu farw a ninnau sydd fyw,  
 Molwn Di, molwn Di, Arglwydd ein Duw.

Chwydded yr anthem ar dir ac ar för,  
 Pured y byd gan efengyl yr Ior :  
 Sïon fo 'r mynydd gan holl ddynolryw,  
 Molwn Di, molwn Di, Arglwydd ein Duw.  
 Deued dy deyrnas dragwyddol yn awr,  
 Deued goleuni gogoniant i lawr :  
 Iesu fu farw a ninnau sydd fyw,  
 Molwn Di, molwn Di, Arglwydd ein Duw.


 A B C Y BIBL.


**BARCHO** 'i rieni,  
 A ochel drueni.

**A**nrhydedda dy dad a'th fam, fel yr estyner dy ddyddiau ar y ddaear.—Exod. xx. 12.

**Bydd** gweithred pob dyn  
 Yn dangos y dyn.

**B**achgen a adwaenir wrth ei waith, ai pur ai uniawn yw ei waith.—  
 Diar xx. 11.

**C**red yn yr Iesu,  
 Cadwedig a fyddi.

**C**red yn yr Arglwydd Iesu Grist, a chadwedig fyddi.—Act. xvi. 31.

**CH**wilia yr Ysgrythyr,  
 Cei dâl am dy lafur.

**CH**wiliwch yr Ysgrythyrau; canys ynddynt hwy yr ydych chwi yn meddwl cael bywyd tragwyddol; a hwynt-hwy yw y rhai sydd yn tystiolaethu am danaf fi.—Ioan v. 39.

**Daw** dydd y ceir gwybod  
 Mai caled yw pechod.

**D**eall da a ddyry ras; ond ffordd troseddwy'r sydd galed.—Diar. xiii. 15.

**Y D**daear a'i lluoedd,  
 Yr Arglwydd a'i pioedd.

**Ei D**do yr Arglwydd y ddaear, a'i chyflawnder; y byd, ac a breswylia ynddo.—Psalm xxiv. 1.

**Ein** dyled beunydd  
Yw caru ein gilydd.

**Eithr** o flaen pob peth, bydded genych gariad helaeth tuag at eich gilydd; canys cariad a guddia llaw o bechodau.—1 Pedr iv. 8.

**Fy** llwybr i fyny,  
Yw, parchu 'm rhieni.

**Fy** mab, gwranddo addysg dy dad, ac nac ymado â chyfraith dy fam; canys cynnydd gras a fyddant hwy i'th ben, a chadwyni am dy wddf di.—Diar. i. 8, 9.

**FFordd** ddrwg anffudd-dod  
Sydd gyflawn o drallod.

**FFordd** yr ynfyd sydd uniawn yn ei olwg ei hun; ond y neb a wrandawo ar gynghor sydd gall.—Diar. xii. 15.

**Gwaed** Crist, mae yn golchi  
Pob math o fudreddi.

**Gwaed** Iesu Grist ei Fab ef sydd yn ein glanhau ni oddiwrth bob pechod.—1 Ioan i. 7.

**Hysbysa** 'r pregethwr  
Fod Crist yn Iachawdwr.

**Hwn** a ddychafodd Duw a'i ddeheulaw, yn Dywysog, ac yn Iachawdwr, i roddi edifeirwch i Israel, a maddcuant pechodau.—Act. v. 31.

**Iesu** a'i swyddi,  
Pwnc mawr y prophwydi.

**I** Hwn y mae yr holl brophwydi yn dwyn tystiolaeth, y derbyn pawb a greddo ynddo Ef faddeuant pechodau, trwy ei enw Ef.—Act. x. 43.

**Lili**, Iesu yw,  
O baradwys Duw.

**Lili** y dyffrynoedd ydwyf. Megys lili ymysg y drain, felly y mae fy anwylyd ymysg y merched.—Can. i. 1, 2.

**LLe** na byddo llafur,  
Bydd baich trwm a dolur.

**LLaw** y diesgeulus a deyrnasa; a llaw y twyllodrus fydd dan deyrned.—Diar. xii. 24.

**Mor** werthfawr, bob tywydd,  
Yw geiriau yr Arglwydd!

**Mor** werthfawr yw dy feddyliau genyf, O Dduw! mor fawr yw eu swm hwynt!—Psalm cxxxix. 17.

**Na** 'd byth i ddrygioni,  
Dy droi, na 'th orchfygu.

**Na** orchfyger di gan ddrygioni, eithr gorchfyga di ddrygioni trwy ddaioni.—Rhuf. xii. 21.

**Os** wyt am faddeuant,  
Cyfaddef dy haeddiant.

**Os** cyfaddefwn ein pechodau, ffyddlawn yw Efe, a chyfiawn, fel y maddeuo i ni ein pechodau, ac y'n glanhau oddiwrth bob anghyfiawnder.—1 Ioan i. 9.

**Pur** yw d' orchymynion,—  
Hyfrydwch fy nghalon.

**Pur**wyd dy ymadrodd yn ddirfawr; am hyny y mae dy was yn ei hoffi.—Psalm cxix. 140.

**P**arisëad balch, cibddall,  
Na wêl ond bai arall.

**A**PHaham yr wyt ti yn edrych ar y brycheuyn sydd yn llygad dy frawd, ac nad ydwyf yn ystyried y trawst sydd yn dy lygad dy hun?—Luc vi. 41.

**R**hodd, lawen o feddwl,  
A ddychwel yn ddwbwl.

**R**hoddwch, a rhoddir i chwi; mesur da, dwysedig, ac wedi ei ysgwyd, ac yn myned trosodd, a roddant yn eich mynwes; canys â'r un mesur ag y mesuroch y mesurir i chwi drachefn.—Luc vi. 88.

**S**aif geiriau y nefoedd,  
Pan gilia 'r mynyddoedd.

**S**icr iawn yw dy dystiolaethau; sancteiddrwydd a weddai i'th dŷ, O Arglwydd, byth.—Psalm xciii. 5.

**T**ro 'th wyneb at Iesu,  
Pan dderfydd o bobtu.

**T**rowch eich wynebau ataf fi, holl gyrau y ddaear, fel y'ch achuber; canys myfi wyf Dduw, ac nid neb arall.—Es. xlv. 22.

**T**Homas a gredodd  
I'r Arglwydd pan welodd.

**T**Homas a atebodd ac a ddywedodd wrtho, Fy Arglwydd a'm Duw.—Ioan xx. 28.

**U**n Tad, llon'd yr enw  
Yw Duw—arno galw.

**U**n Duw a Thad oll (sydd), yr hwn sydd goruwch oll, a thrwy oll, ac ynoch oll.—Eph. iv. 6.

**W**aeth beth fo 'r dyrchafiad,  
Lle na fyddo cariad.


**W**ele, mor ddaionus, ac mor hyfryd yw, trigo o frodyr ynghyd.—Psalm cxxxiii. 1.

**Y** diwedd sy 'n nesu,  
I bwysu a barnu!

**Y**r hwn sydd yn tystiolaethu y pethau hyn, sydd yn dywedyd, Yn wir, yr wyf yn dyfod ar frys. Amen. Yn wir, tyred Arglwydd Iesu.—Dad. xxii. 20.

## ARWYDDEIRIAU.

**A**RWYDDAIR y dyn balch—Cesglwch aur a gwisgwch ef.  
Arwyddair y dyn hael—Cesglwch aur a rhenwch ef.  
Arwyddair y cybydd—Cesglwch aur a chedwch ef.  
Arwyddair yr oferddyn—Cesglwch aur a gweriwch ef.  
Arwyddair y *Broker*—Cesglwch aur a llogwch ef.  
Arwyddair y dyn ffol—Cesglwch aur a dinystriwch ef.  
Arwyddair y *gambler*—Cesglwch aur a cholwch ef.  
Arwyddair y morwr—Cesglwch aur ac yfwrch ef.  
Arwyddair y doeth—Cesglwch aur a defnyddiwch ef.



## YR ALARCH.

**A**DERYN prydferth iawn yw yr alarch, fel y dengys y darlun, er nad yw mor ddefnyddiol. Efe yw y mwyaf a'r prydferthaf o adar y dwfr. Mae yr aderyn dof yn sefyll oddeutu pum' troedfedd o uchder; yn mesur oddeutu wyth troedfedd dros ei adenydd, ac yn pwyso tua phum' pwys ar hugain. Y maent yn byw yn bârau, ac yn ymlynol iawn wrth eu gilydd. Mae plyf yr alarch yn wynion a theg iawn, ac y mae yn eistedd ar y dwfr yn hynod o ysgafn a mawreddog. Mae ei draed yn llydain a chedyrn, ac o liw tywyll, ac y maent yn ddefnyddiol yn fynych i ddal ei ysglyfaeth. Y mae yn ymborthi ar wreiddiau a hadau, yn gystal a thrychfilod, ac adar. Nid yw yn wybyddus eu bod yn aflonyddu dim ar bysgod. Adeiladant eu nythod yn yr hesg. Y mae y fenyw yn dodwy chwech neu saith o wyau gwynion. Gelwir y cywion yn *cygnets*, ac y maent yn orchuddiedig â manblu llwyd.

Mae yr alarch cyffredin yn amddifad o lais; ond y mae eleirch o ddau fath, yn meddu ar leisiau, er nad ydynt yn beraidd. Mae traddodiad fod yr alarch yn dyfod i ganu yn hwyfryd pan yn hen ac yn agos i farw. Yr oedd yr alarch yn grëadur aflâr dan gyfraith Moses (Lef. xi. 13, 18.) Y mae ei gig yn ddu a gwyn, a



braidd yn anmhosibl i'w dreulio. Mae rhagoriaeth yr alarch yn fwy yn ei brydferthwch nag yn ei ddefnyddioldeb.



## DAEARYDDIAETH GWLAD CANAAN.

(Gan AP DEWI O FON.)

### PENNOD I.—RHAGARWEINIAD.

**T**E allai nad oes un gangen o lênyddiaeth Ysgrythyrol yn fwy dyddorol i'r darllenydd na daearyddiaeth y gwledydd hyn y sonir am danynt yn y Bibl. Nid ystyrir fod gan ddyn wybodaeth gyflawn o'r Ysgrythyrau, yn enwedig y rhanau hanesiol o honnynt, os na fydd yn gwybod rhywfaint am ddaearyddiaeth y lleoedd ymha rai y cymerodd prif ddygwyddiadau y Bibl le ynddynt. Nid rhyw ddychymyg yn unig sydd gan y daearyddwr am Bethlehem, Nazareth, a lleoedd cyffelyb. Y mae yn gwybod eu sefyllfa a'u maintioli, ac yn gallu canlyn, yn ei feddwl, yr Arglwydd Iesu a'i ddysgybllion o'r naill fan i'r llall, fel pe byddai yno gyda hwy yn bersonol. Dichon fod y darllenydd yn gwybod mai yn y parth hwnw o'r byd a elwir Asia y cymerodd y rhan fwyaf o ddygwyddiadau y Bibl le. Yn Asia y gosodwyd y dyn cyntaf; yno yr oedd Babel, lle y cymysgwyd yr ieithoedd; yn Asia y gorphwysodd yr arch, ac yno hefyd y dechreuwyd ail boblogi y ddaear. Ond y mae un llecyn yno ag y mae y cristion yn teimlo dyddordeb arbenig ynddo. Yr ydym yn cyfeirio at *Wlad Canaan*. Dyma y fan lle y blagurodd Iuddewiaeth am oesau lawer, ac yn y wlad hon y sylfaenwyd Cristionogaeth gan Fab Duw.

### ENWAU Y WLAD.

Awn ymlaen yn bresennol i nodi y gwahanol enwau wrth ba rai yr adnabyddid Palestina mewn gwahanol oesau. Y rhai mwyaf cyffredin ydynt a ganlyn:—

1. *Gwlad Canaan*. Gelwid hi wrth yr enw hwn oddiwrth Canaan, mab ieuengaf Cam, gan mai rhwng ei feibion ef y rhanwyd y wlad wedi y gwasgariad yn Babel; Gen. x. 6, 15. Nid oedd yr enw hwn yn perthyn ond yn unig i'r gyfran hono o'r tir ag oedd yn gorwedd rhwng yr Iorddonen ar y dwyrain a Môr y Canoldir ar y gorllewin.

2. *Gwlad neu Dir Israel*, oddiwrth yr Israeliaid, hiliogaeth Jacob neu Israel.

3. *Tir Judah*. Yr oedd yr enw hwn yn cael ei gyfyngu ar y cyntaf i'r rhan hono o'r wlad a berthynai i lwyth Judah, ond ymhen anser cymhwyswyd ef at lwythau Benjamin a Judah; a chan mai yr olaf oedd yn rhagori mewn nerth, &c., ar eu dychweliad o Babilon, aeth yr oll o'r wlad yn raddol i gael ei galw oddiwrthynt o dan y ffurf newydd o JUDEA.

4. *Gwlad yr Arglwydd.* Y mae yr enw hwn yn cael ei ddefnyddio yn fynych yn yr Ysgrhythrau, a gwelir ei briodoldeb ond i ni ystyried mai Duw ei hun ydoedd Brenin y wlad, ac mai efe oedd wedi ei rhoddi i'r genedl Iuddewig. Fel cydnabyddiaeth o'i lywodraeth, gorchymynwyd hwy i ddyfod â blaenffrwyth y tir i dŷ yr Arglwydd eu Duw; Lef. xxv. 23.

5. *Y Wlad Sanctaidd.* Ymddengys na ddefnyddid yr enw hwn hyd ar ol y dychweliad o Babilon; Zech. ii. 12. Gelwid hi felly o herwydd mai dyma y fan a ddewisodd Duw i fod yn etifeddiaeth i'w bobl, ac yn eisteddle ei addolad.

6. *Gwlad yr Addeuid,* o herwydd iddi gael ei haddaw i Abraham, fel etifeddiaeth i'w had; Heb. ix. 9.

7. *Palestina.* Gellir ystyried hwn fel yr enw a ddefnyddir yn fwyaf cyffredin i ddynodi y wlad. Deillia oddiwrth y Philistiaid, y rhai a gymerasant feddiant o ddarn helaeth o'r wlad tua'r dehau-orllewin, yn agos i Fôr y Canoldir. Ymddengys fod yr enw hwn ar y wlad mor foreu ag amser Moses. Exod. xv. 14.

Y TERFYNAU, MAINTIOLI, &C.

Yr oedd Palestina yn cael ei therfynu ar y gogledd gan fyn-yddoedd Lebanon, ar y dehau gan anialwch Arabia, ar y dwyrain gan afon yr Iorddonen, ac ar y gorllewin gan Fôr y Canoldir. Perthynai i'r Israeliaid heblaw hyn ddarn helaeth o dir ar ochr ddwyreiniol yr Iorddonen, yn ymestyn o Fynydd Hermon yn y gogledd i Afon Arnon yn y dehau. A chymeryd i fewn y cyfan o'r tiriogaethau hyn, ymestynai o 30° 40' i 33° 36' lledred gogleddol, a rhwng 33° 45' a 36° 20' hydred dwyreiniol. Yr oedd ei hŷd, o'r gogledd i'r dehau, yn agos i 200 milldir; a'i llêd, ar gyf-artaedd, tua 70 milldir. Cynnwysai oddeutu 11,000 o filldiroedd petryal o arwynebedd.



ATEBION DYN MUD A BYDDAR.

**H**ODDWDYD yr atebion canlynol er ys rhai blynyddau yn ôl, mewn ysgrifen, gan ddyn mud a byddar.

Beth yw tragywyddoldeb?

At. "Y dydd hwnw nad oes na ddoe nac yfory yn perthyn iddo."

Beth yw Duw?

At. "Haul tragywyddoldeb."

Beth yw diolchgarwch?

At. "Coffadwriaeth y galon."

Beth yw chwyldrôad?

At. "Pren a'i wreiddiau i fyny, a'i frigau i lawr."

Beth yw rhinwedd?


At. "Grym moesol."

Pa beth yw rheswm?

At. "Addfedrwydd y meddwl."



## TYR'D, PWSI FACH.


 YR'D, Pwsî fach, gael gwers gen' i,  
 A bydd yn eneth dda;  
 Mae 'r 'stori dlysa 'rïoed fan hyn,  
 A'i darllen i ti wna'.


Ai canu 'th grwth wyt, Pwsî ddrwg?  
 Wel, dyna *faners* glân!  
 A finnau 'n darllen, ac yn dal  
 Fy llyfr o dy flaen!

Wel, dyma ddarlun i ti, Pws,—  
 On'd yw yn ddarlun hardd?  
 O, edrych arno, Pwsî fach,  
 A dywed "mew," a chwardd.

Ah, edrych ar y twll fan draw,  
 Wyt ti, 'r hen Bwsî lwyd;  
 'D oes dim rydd bleser i ti, ond  
 Llygoden, cwsg, a bwyd.

## Y WENYNEN.

## PENNOD IV.


 ID oes raid i'r gwenyn wrth y llestr a barotöir iddynt genym  
 ni. Gallant hwy wneyd heb unrhyw help oddiwrth ddyn.  
 fel y gwelir oddiwrth y gwenyn gwylltion sydd yn adeiladu  
 eu nythod mewn ceubrenau, neu rhyw leoedd cyflëus eraill. Ond

yr ydym ni yn ddigon ewyllysagar i roddi nyth iddynt hwy er mwyn i ni gael eu mêl gwerthfawr hwythau. Y mae llestri yn cael eu gwneyd yn awr, er nad ydynt wedi dyfod eto i arferiad cyffredinol, gyda pha rai y gellir cael y mêl heb ladd y gwenyn. Y mae yn drueni mawr eu hyspeilio o'u mêl, a'u llofruddio yn y fargen.

Mae rhanau tufewnol nyth y gwenyn yn cynnwys lliaws o ryfeddodau mawrion. Yn wir, y mae yn ddinas berffaith, ar raddfa fechan, yn cynnwys ystrydoedd a thai rheolaidd, wedi eu cynllunio yn y modd perffeithiaf er mantais y preswylwyr. Mae rhai o'r adeiladau wedi eu gwneyd yn ystorfeydd ymborth; rhai yn drigfanau i'r gwenyn cyffredin, a rhai yn balasau breninol i'r breninesau, neu y mamau, i fagu eu rhai bychain ynddynt. Ac am y defnydd yr adeiledir y ddinas o hono, y mae yn gyfryw na fedr dyn, gyda'i holl ddoethineb a'i fedr, ddim ei gynnyrchu; ac nis gallai yr adeiladydd doethaf yn ein mysg awgrymu yr un gwelliant gyda golwg ar ffurf a chynlluniad y ddinas; a'r oll yn cael ei wneyd gan grëadur bychan a diolwg fel y wenynen. Onid yw doethineb a daioni y Crëawdwr mawr yn amlwg yn hyn?

Mae y diliau yn fath o gacen wastad, gyda chelloedd o bob tu. Rhwng y diliau y mae ystrydoedd digon llydain i un wenynen basio yn rhwydd heibio i'r llall. Mae yma hefyd ystrydoedd croesion, er byrhâu y ffordd, a ffurfiad y rhei'ny yn dangos cywreinrwydd a doethineb neillduol. Mae ffurf y celloedd yn chwech-onglog, ac nid oedd yn bosibl dyfeisio ffurf arall allasai roi cynifer o gelloedd mewn mor lleied o le. Mae morwyr wedi cymeryd gwers oddiwrthynt yn ffurfiad eu *biscuits*, am y gallant ystorio mwy o lawer o honynt mewn lle llai wrth eu gwneyd yn chwech-onglog, yn hytrach na'u gwneyd yn grynion. Y maent hefyd yn ffurfiad eu diliau, eu celloedd, a'u hystrydoedd, nid yn unig yn arbed lle, ond yn arfer y llwybr cynnilaf sydd yn bosibl i arbed cŵyr. Rhoddwyd tasg unwaith i ysgolor enwog i ffeindio allan sut y gellid ffurfio celloedd o'r un maintioli a ffurf, fel ag i gymeryd y lle lleiaf, y nerth mwyaf, a'r swm lleiaf o gŵyr i'w gwneyd. Ar ol gwneyd y prawf manylaf yn ol rheolau mesuroniaeth, cafwyd fod y gwenyn wedi cymeryd at y llwybr goreu oedd yn bosibl, fel pe buasant yn gyfarwydd â holl egwyddorion *mathematics*.

Fe allai fod rhai yn barod i ofyn, I ba beth y mae y celloedd da? Paham na chadwent eu mêl yn un pentwr mawr? Yr ateb i hyn yw, yr ymweithiai yn fuan, ac y llygrai. Pe cedwid ystenaidd o fêl mewn cymaint o wres ag sydd yn y llestr gwenyn, dystrywiau yn fuan. Ond wrth gadw swm mor fychan ag sydd ymhob cell ar wahân, nid yw yn agored i'r un ymweithiad fferyllol. Felly, oni b'ai y cŵyr a'r celloedd, byddai yn rhaid i'r gwenyn oll farw o newyn yn nhymmor y gauaf. Ond y mae Duw wedi rhoddi iddynt y doethineb a'r medr i ddarparu yn briddol. Nid yw y wenynen yn wir ond peiriant rhyfeddol o eiddo Duw, yn yr hwn y gallwn ganfod ei ddoethineb a'i garedigrwydd.

## TON.—WRTH AFONYDD BABILON.

## PSALM CXXXVII.

Doh F.

|       |                       |  |                                    |  |                       |  |                       |
|-------|-----------------------|--|------------------------------------|--|-----------------------|--|-----------------------|
| {     | d :- . r              |  | m :- . s                           |  | l :- . s              |  | s :- . m              |
|       | d :- . s <sub>1</sub> |  | d :- . d                           |  | f <sub>1</sub> :- . d |  | t <sub>1</sub> :- . d |
| D. C. |                       |  |                                    |  |                       |  |                       |
| {     | m :—                  |  | r :- . r                           |  | d :—                  |  | — :—                  |
|       | d :—                  |  | s <sub>1</sub> :- . s <sub>1</sub> |  | d :—                  |  | — :—                  |
| {     | d' :- . t             |  | l :- . s                           |  | l :- . s              |  | s :- . m              |
|       | d :- . d              |  | d :- . d                           |  | d :- . d              |  | d :- . d              |
| {     | s :- . s              |  | d' :- . l                          |  | l :- . s              |  | s :- . m              |
|       | d :- . d              |  | d :- . d                           |  | d :- . d              |  | d :- . d              |
| {     | d :- . r              |  | m :- . s                           |  | l :- . s              |  | s :- . m              |
|       | d :- . s <sub>1</sub> |  | d :- . d                           |  | f <sub>1</sub> :- . d |  | t <sub>1</sub> :- . d |
| {     | m :—                  |  | r :- . r                           |  | d :—                  |  | — :—                  |
|       | d :—                  |  | s <sub>1</sub> :- . s <sub>1</sub> |  | d :—                  |  | — :—                  |

**B**AN yn gaeth ymysg gelynion,  
 Yn Babilon,  
 'Mhell o dir ein siriol Sion,  
 Yn Babilon;

Eistedd wnaem ar fin afonydd,  
 Collem ddagrau heillt o'r herwydd,  
 Cofio 'n gwlad a gwarth ein crefydd  
 Yn Babilon.

D'wedent hwy,—r caethgludwyr creulon,  
 Yn Babilon,  
 "Cenwch hen ganiadau Sion,"  
 Yn Babilon;

P' odd y canwn gerdd yr Arglwydd!  
 O! 'r fath gynnyg ofer, afrwydd!  
 Yn ein hadfyd blin a'n hafwydd,  
 Yn Babilon.

Chwerw gof am wyliau 'r henwlad,  
 Yn Babilon,  
 Wna ond trydar trist ac oernad,  
 Yn Babilon;  
 Hoff delynau ein hen foliant,  
 Draw ar helyg yn ddilesiant,  
 Grogant, drwy 'n wylofus drigiant  
 Yn Babilon.

Beth, ai byth y pery 'n griddfan,  
 Yn Babilon!  
 Ust! mae gair,—mae newydd dyddan  
 Yn Babilon;—  
*“Pan gyflawner deg a thri'gain,  
 Cyrchaf adre 'm heiddo truaïn;”*  
 Aed, O aed yr hyfryd adsain  
 Trwy Fabilon!

Pwy sy 'n awr yn ngwlad y gelyn  
 Yn Babilon?  
 Na' roed lwyr ffarwel i'w delyn  
 Yn Babilon;  
 Dydd a ddaw o lân adferu,  
 Llenwir genau myrdd & chanu,  
 Seinia 'n telyn fythol GEFNU  
 Ar Fabilon!



CYSTADLEUAETH Y CERFLUNWYR.

**M**AE y darlennydd ond odid yn cofio i'n cyfaill “Cadwaladr,”  
 er ys ychydig fisoedd yn ôl, gynnwg 30s. o wobr am y cerf-  
 lun goreu ar bren, a 1Ca. am yr ail oreu—y gystadleuaeth i  
 fod yn gyfyngedig i Gymry na chynnygiasant ar y gorchwyl o'r  
 blaen. Daeth copi o'r lluniau, ynghyd a'r llythyr canlynol, i law  
 oddiwrth y beirniad :—

“MR. GOL.—Yr wyf yn anfon copi i chwi, gyda'r llythyr hwn, o  
 16 o gerfluniau sydd wedi eu hanfon i'r gystadleuaeth; ac ar ol  
 astudiaeth ddyfal, yr wyf yn gorfod rhoddi y flaenoriaeth i'r ‘Meddwyn,’  
 gan ‘John;’ a'r agosaf ato yw y ‘Tarw,’ gan Edward Roberts (bachgen  
 14eg oed). Er mwyn boddineb i'r cystadleuwyr, rhestraf hwynt oll  
 yn ol eu teilyngdod cymharol, ac fel hyn y safant :—

1. ‘Y Meddwyn,’—gan John Watkin, Morriston.
2. ‘Tarw,’—gan Edward Roberts, Ty'n y cefn, Corwen.
3. ‘Elephant,’—gan D. J. Davies, Brynmawr.
4. ‘Cerbyd,’—gan Glanhawr Cerbydau.
5. ‘Asyn,’—gan W. Newo.
6. ‘Pagoda,’—gan J. V.
7. ‘Ceffyl,’—gan Gymro glân gloew.
8. ‘Zebra,’—gan Bachgen o'r wlad.
9. ‘Sior IV.,’—gan E. Williams, Llanrheochwyn.
10. ‘Pen dyn,’—gan ———
11. ‘Tepot,’—gan J. T. Davies, Brynmawr.
12. ‘Pump,’—gan ———
13. ‘Wyneb,’—gan ———
14. ‘Asyn Gwyllt,’—gan J. V.
15. ‘Paun,’—gan David Jones, Machynlleth.
16. ‘Cadair,’—gan T. Jones, Treffynnon.

Morwr, a Thafarnwr, wedi eu hysbysu, ond heb ddyfod i law.

Diammheu fod talent at y gelfyddyd hon yn gorwedd ymysg ein cymau a'n dyffrynoedd, a phwy ŵyr nad ellir ei thynu allan fel hyn.

Yr eiddoch yn gywir,  
P. M. EVANS."


Nid yw y Gol. yn hõni cymhwysderau beirniadol Mr. Evans mewn cerfluniau, ond y mae yn cydweled âg ef yn hollol yn ei ddosbarthiad o deilyngdod cerfluniau y gystadleuaeth hon.

Yr ydym yn llawen iawn wrth weled fod y cynnygiad hwn wedi bod mor llwyddiannus, ac wedi rhagori mor bell ar ddim a ddysgwyliem. Dyma y




DYN MEDDW,

yr hwn sydd yn hawlio y wobwr flaenaf. Ei awdwr yw Mr. John Watkin, arweinydd côr dirwestol, Treforis. Gan nad yw ond dyn ieuanc, heb gael dim addysg nac arferiad yn y gangen hon, gallwn ddysgwyl llawer oddiwrtho mewn amser dyfodol. Dyma



Y TARW

sydd yn cael yr ail wobwr; ac y mae yn llawen genym ddeall mai 14eg oed yw ei awdwr—sef Mr. Edward Roberts, Ty'n y cefn, Corwen, Sir Feirionydd. Bydd ein llygad yn bryderus ar y bachgenyn hwn. Dyma



ELEPHANT

eto, o waith Mr. D. J. Davies, Brynmawr, yr hwn sydd yn glod nid bychan iddo, ac yn tynu yn dŷn ar sawdl y tarw. Bwrriadwn gyhoeddi amryw o'r lleill mewn rhifynau dyfodol. Gobeithio, yn y cyfamser, y bydd ein cerflunwyr yn gosod eu hathrylith a'u medr dan ddysgyblaeth. Bydd yn dda genym roddi iddynt bob cyfarwyddyd a chefnogaeth o fewn ein cyrhaedd.—GOL.



## ROSE A BLANCHE ;

*Neu Gynllwynion y Jesuitiaid.*

## PENNOD I.—Y DAITH.

“**EL**, pa newydd, Karl,—da neu ddrwg ?”  
 “Newydd da, Morok.”

“A welsoch chwi hwynt ?”

“Do, ddoe, ychydig o filldiroedd o Wittemberg. Yr oeddwn yn meddwl, gan eu bod yn teithio o Rwssia i Ffrainc, y buaswn yn sicr o gael o hyd iddynt rhwng Wittemberg a Leipsic.”

“Wel, bendith arnoch ! rhoddwch ddesgrifiad o honynt.”

“O, y maent yn ateb i'r dim. Dwy eneth ieuanc mewn galar-wisg, ceffyl gwyn, hen filwr hoew, gyda *moustache* hir, yn gwisgo cap, a chôt lwyd filwrol, yn cael ei ganlyn gan gi mawr Siberiaidd.”

“B'le gadawsoch chwi hwynt ?”

“Dim ond ychydig filldiroedd oddiyma. Byddant yma ymhen oddeutu hanner awr. A chan nad oes ond y gwesty hwn yn y lle, yma, wrth gwrs, y byddant yn doddi i fyny. Gobeithio, Morok, eich bod yn barod iddynt. Nid wyf yn hoffi golwg yr hen filwr o gwbl. Ymddengys yn un gwydn, nerthol, a phenderfynol iawn. Rhaid i chwi edrych ati, a bod ar eich gwylidwr-iaeth.”

Cymerodd yr ymddyddan yma le ar brydnawn hyfryd yn y flwyddyn 1831, yn mhentref Mockern, yr hwn sydd yn gorwedd ar ben bryn.

Yn dynesu at y pentref yr oedd y tri theithiwr y cyfeiriwyd atynt. Dwy eneth, efeilliaid, pymtheg oed, yn marchogaeth ar geffyl gwyn, ar gyfrwy Ysphaenaidd, yr hwn oedd yn ddigon mawr i'w cynnwys ill dwy.

Arweinid y ceffyl gan y milwr, yr hwn oedd â'r ffrwyn am un fraich, ac yn cario pastwn hir yn y llaw arall. Yr oedd cnapsach milwr ar ei gefn, a chi mawr o Siberia wrth ei sawdl, yr hwn a ymddangosai yn hynod o gall ac ymlynol wrth ei feistr.

Enwau y merched oedd Rose a Blanche ; gwanaidd o gyfansoddiad oeddent, ond rhai hynod o brydferth a charuaidd, ac mor debyg fel yr oedd yn anhawdd tynu y naill oddiwrth y llall. Enw eu harweinydd ffyddlaw a phenderfynol oedd *Dagobert*, ac yr oedd mor ofalus o honynt a phe buasai yn dad ac yn fam iddynt. Enw y ceffyl oedd *Jovial*, ac enw y ci *Kiljoy*.

Wedi dyfod o fewn oddeutu milldir i'r pentref, arweiniodd Dagobert hwy ychydig oddiar y ffordd. Safodd yn ymyl twmpath glas, gosododd ei ddwyllaw yn mhleth ar ben ei sfon, ac edrychai ar y twmpath yn fyfyrion. Gosododd un o'r merched ei llaw wên deneu ar ysgwydd y milwr, edrychai ar ei wyneb, ac er ei syndod, gwelai ef yn edrych yn brudd, a dagrau yn ei lygaid. Gofynnodd iddo,

"Beth sydd yn eich gofidio, Dagobert?"

Tynodd Dagobert gefn ei law fawr galed ar draws ei lygaid, a dywedodd mewn teimlad dwys, "Fy mhlant bychain, yr wyf yn ofni y blinaf chwi. Eto y mae genyf rywbeth o bwys i'w hysbysu. Deunaw mlynedd sydd oddiar frwydr Leipsic. Hwyr y dydd nodedig hwnw y dygais eich tad clwyfedig yn fy mreichiau, a gosodais ef i lawr ar y twmpath dan gysgod y dderwen hon. Yr oedd wedi cael archoll yn ei ben, a bwled yn ei ysgwydd. Pan yn ei ymgeleddu yn y fan hon, a phan oedd yr ysmotyn yma wedi ei fwydo â'i waed, y cymerwyd ni ein dau yn garcharorion. "Ond, rhaid i mi adael yr hanes heb ei dyweyd yn mhellach hyd ryw dro eto."

Erbyn hyn, yr oedd y merched wedi llithro oddiar y cyfrwy, a bron yn ddiarwybod i Dagobert, ac iddynt eu hunain, wedi ymgrymu ar eu gliniau wrth waelod y twmpath, ac yn wylo dagrau yn hidl. Wedi ychydig fynyddau o ddystawrwydd myfyrgar, dywedodd y milwr,

"De'wch, de'wch, peidiwch wylo. Dywedaf ychwaneg am hyn cyn cysgu heno; ac y mae genyf reswm dros ddewis y dydd hwn i'w ddywedyd."

"Yr ydym yn wylo," ebe Rose, "wrth feddwl am ein mam."

"Yr hon na chawn byth ei gweled mwy nes cwrddom yn y nefoedd," ebe Blanche.

"Rhaid i chwi beidio wylo fel hyn," ebe Dagobert. "Gwir fod eich mam yn un o'r benywod goreu a sangodd y ddaear erioed. "Ond," meddai, â'i lais yn cael ei gyffroi gan ei deimlad, "pe buasai eich mam gyda chwi, nis gallasai ond rhoddi cynghorion da i chwi."

"Nad allasai, Dagobert."

"Beth oedd ei chynghorion olaf i chwi? Onid am i chwi feddwl o hyd am dani, a pheidio gofidio?"

"Iâ, yn wir, dyna oedd ei geiriau olaf. Dywedodd lawer gwaith wrthym fod yr Arglwydd trugarog yn caniatâu i famau tyner oedd wedi eu gorfodi i adael plant ar ol ar y ddaear, y rhagorfraint o'u gwylio, a chlywed eu gweddian."

"Ac y byddai ei llygad hi arnom ni o hyd," ebe y llall. Yna dywedai y ddwy gyda'u gilydd,

"Mam, anwyl fam, gwyddom eich bod yn gweled ac yn clywed eich hanwyl blant."

"Felly, os yw eich mam yn eich gweled a'ch clywed," ebe Dagobert, "peidiwch peri blinder iddi trwy roddi ffordd i deimladau ag yr oedd hi wedi wahardd."

"Wylwn ni ddim yn ychwaneg, anwyl Dagobert," ebe'r merched, gan sychu eu llygaid, ac ymbarotoi eto i fyned ymlaen i'w taith.

Wedi cyrhaedd y pentref, disgynasant yn yr unig westy oedd yn y lle; ac yr oedd yno fwy o ddysgwyl am danynt nag oeddent hwy yn ddychymygu. Gosodwyd Jovial yn yr ystabl, a'r genethod yn eu hystafell wely gyda Killjoy i'w gwylio, tra fyddai

Dagobert yn myned i fwyda ei geffyl, a golchi rhyw fân ddillat-ach. Yr oedd trwy ei fywyd milwrol wedi arfer gwneyd hyn, ac ni chai y boneddigesau ieuainc oedd dan ei ofal drafferthu gyda dim.

Dofwr bwystfilod gwylltion oedd Morok, ac yr oedd ganddo *menagerie* ar y pryd yn ystablau y gwesty lle yr arosai y teith-wyr. Yr oedd ganddo ddau was, Karl a Goliah. Gelwid yr olaf yn Goliah oblegid ei faintioli aruthrol.

Yr oedd y merched wedi myned i'w gwely, ac yn nghanol cydymddyddan difyr, a'r lamp oleudig ar y bwrdd, pan ddychrynwyd hwy yn ddirifawr gan ergyd ar y ffenestr, nes oedd dan o'r cwareli yn deilchion i'r ystafell. Neidiodd y ci â'i ben i'r ffenestr, a chyfarthodd yn ffyrnig. Gwasgai y merched at eu gilydd yn rhy ofnus i ddyweyd yr un gair. Yn y man, clywent droed trwsagl yn esgyn y grisiau.

"O, pa le mae Dagobert cyhyd?"

"Nid efe yw hwn," ebai y llall, "mae yn drymach ei droed nag ef."

Tafliwyd rhywbeth yn erbyn mur yr ystafell nes oedd yr holl le yn crynu, a gwaeddodd y merched gan ofn. Agorwyd drws yr ystafell yn frysio. Dagobert oedd; a gallasant waeddi gan lawenydd pan welsant. Yr oedd y ci yn para i gyfarth â'i ben yn y ffenestr.

"Beth yw'r mater, fy mhlant i? Beth sydd wedi eich dychrynu? A phaham mae Killjoy yn cyfarth?"

O, Dagobert, tarawodd rhywun y ffenestr, nes oedd yn deilchion," ebai Rose; "ac yr oeddwn yn meddwl i mi ganfod llaw fawr ddu yn troi y *blinds* ymaith oddiar y ffenestr."

"Ac yr oeddem yn methu adnabod trwst eich troed chwithau," ebai Blanche. "Yr oedd yn drymach nag arfer."

"Yr oedd yn rhwym o fod yn drwm, fy mhentyn, pan oeddwn yn cario fy ngwely, neu yr hen fatras yn hytrach yr wyf yn gorwedd arno, ar fy ysgwydd, yr hwn wyf wedi ei dafu i lawr yn y *passage*."

"O, ie, dyna oedd y trwst!"

Wedi agor y ffenestr, a gollwng Killjoy allan, ac i'r ci synwyr-gall chwilio oddiamgylch, penderfynwyd mai y gwynt a chwythodd hen ddarn o gauad ar draws y ffenestr. Felly tawelodd Dagobert feddyliau ofnus y merched.

"Mae bellach rhwng naw a deg o'r gloch," ebe Dagobert, "ac yr oeddwn wedi meddwl, ac wedi addaw, adrodd i chwi heddyw ychydig o hanes eich tad."

"Yn wir," ebai Rose, "ni bydd dim yn fwy dymunol genym."

"Os gellwch fforddio gwneyd hynny ar ol eich taith a'ch llafur," ebai Blanche.

"Mab i weithiwr o Ffrainc oedd y Cadfridog Simon, eich tad; ac yr oedd ganddo, fel ei fab, ben o haiarn, a-chalon o aur. Trwy ei rinwedd a'i wroldeb y cododd eich tad o'r dinoddedd dechreuol i fod yn un o brif gadfridogion yr Ymherawdwr Buonaparta."

Adroddodd Dagobert holl helyntion eu tad yn y prif frwydrau ; i fuddugoliaethau, a'i ddyrchafiadau olynol. "Gelwid eich mam m 'Flodeuyn Warsaw.' Yr oedd yn flodeuyn y byd o ran hyny. Yr wyf yn cofio pan ddaeth eich tad i gydnabyddiaeth â hi gyntaf. Yr oedd ei thad yn anfoddlawn iddi hi briodi â'r cadfridog. Ond dywedodd hi, os priodai byth, mai â *General* Simon y prioddi. Gorfu i'ch tad ymadael o Warsaw, a chadwai ohebiaeth mlaen â'ch mam am rai blynyddau trwof fi. Yn mrwydr anafodus *Waterloo* syrthiodd eich tad yn waedlyd a chlwyfedig, a hymerwyd yr ymherawdwr yn garcharor gan y Saeson. Wedi i'ch tad wella, mynai fyned i St. Helena at yr ymherawdwr, ond wrthodwyd iddo. Beth bynag, o'r diwedd penderfynodd wneyd mgais i godi mab yr ymherawdwr i'r orsedd. Am hyny daliwyd ef, ac alltudiwyd ef i Rwssia. Os collodd trwy hyny mewn un awn, ennillodd mewn un arall. Daeth rhag ei flaen i Warsaw ; yr oedd tad eich mam erbyn hyn wedi marw ; priododd eich tad â'ch mam, a myfi oedd tyst eu priodas.

"Yr oedd Rwssia ar y pryd yn gorthrymu y Pwyliaid ; ac am'r cadfridog lochesu swyddog Pwylaidd dan ei gronglwyd, cymerwyd ef i fyny, dygwyd ef y tu allan i diriogaethau Rwssia, gyda hybudd nad oedd i osod ei droed ar dir Rwssia mwy, dan berygl archariad dros ei fywyd. Ei eiriau diweddar wrth yf fi oeddent, *Dagobert, yr wyf yn ymddiried fy ngwraig a'm plentyn i'ch gofal.*" Yr oedd eich mam y pryd hwn yn dysgwyl amser eich genedigeth chwi. Ond er hyny, alltudiwyd hi i Siberia ; ond cafodd y safon o fy nghael i gyda hi ; ac ar gefn yr hen geffyl anwyl *Jovial* tarweiniais hi, fel yr wyf yn eich harwain chwi yn awr."

"Ffyddlawn i'r tad, ac i'r fam, fel i'r plant," ebai'r merched.

"Ond beth yw dyben y medal yma, Dagobert?" gofynai *Banche*, gan dynu medal mawr allan o'i mynwes."

"Mae llwyddiant ein taith i gyd yn dibynu ar hwna," meddai *Dagobert*, "er nas gallaf ei esbonio. Bu eich mam farw mor ydyn, fel na chafodd amser i'w esbonio i mi. Ond dywedodd, Bydd tynghed fy merched anwyl yn llwyddiannus eto, os gellwch hwi, fy ffyddlawn *Dagobert*, eu dwyn hyd Paris, i Rhif 3, Heol Sant Francis, erbyn y 13eg o Chwefror, 1832."

"Beth os byddwch ddiwrnod yn rhy ddiweddar?" gofynai *Jose*.

"Os byddwn awr yn rhy ddiweddar, bydd y cwbl yn ofer. Mae genyf baprau pwysig hefyd oddiwrth eich tad, yn cynnwys barnau o'i ddyddlyfr, ag sydd yn bwysig i mi eu cadw. Yr wyf i'n meddwl eu darllen i chwi yn fuan."

"A ydych yn meddwl fod ein tad yn fyw yn awr, *Dagobert*?"

"Yr wyf yn meddwl ei fod, ac yn rhyw led obeithio cael rhyw rybodaeth am dano wedi cyrhaedd Paris. Ni wyddai ef i ba le yr alltudiwyd eich mam a chwithau, felly nis gallasai ysgrifenu ati."

"Ydych chwi yn meddwl y gallwn gyrhaedd Paris erbyn yr amser hwnw?"

"Yr wyf yn dysgwyl y gallwn, wrth deithio yn ddiwyd, a chael amddiffyn a gwên Rhagluniaeth arnom."

"Mae y llafur i gyd yn disgyn arnoch chwi, Dagobert," ebai Rose, "ond gallwn ninnau weddio; ac os daw dim byd arnom byth, cewch chwi gyfran dda o hono, ein hanwyl Dagobert."

"Pa le mae Killjoy wedi myned cyhyd, allech chwi feddwl?" ebai Dagobert; "dylasai fod yn ôl cyn hyn. Ust! beth ydyw y lleisiau yna? llais Jovial ydyw yn ddiâu! Beth, a yw anifeiliaid gwylltion yr hen Morok yna wedi tori i mewn i'r ystabl ato! Arosych, rhaid i mi redeg i weled!"

"O Dagobert, gwyliwch am danoch eich hun! Peidiwch a'n gadael ni yma heb Killjoy, na neb!" ebai'r genethod yn ddychrynedig. Ond yr oedd Dagobert wedi myned ar garlam i lawr y grisiau. Ymhen dau neu dri mynyd, gwelai Blanche law fawr ddu Goliah yn cael ei hestyn trwy y twll oedd yn y ffenestr, yn agor y clo, ac yn taflu rhywbeth at y lamp oedd ar y bwrdd, nes oedd hono yn diffodd, a'r papyrau oeddent wedi eu tynnu o walet Dagobert wedi eu gwasgar dros y lle. Ymwasgodd y merched at eu gilydd, a thynasant y dillad dros eu pen mewn dychryn an-nesgrifiadwy. Clywent drwst rhywun wedi dyfod i mewn trwy y ffenestr, ond aeth allan yn fuan.

(I w barhadu).



### AM SARAH FACH.

(Er cof am SARAH, unig blentyn Mr. EDWARD MORRIS, Dyserth, yr hon a fu farw Gorph. 2il, 1864, yn 7 mlwydd oed. Yr oedd yr eneth fach hon yn aelod fyddlaw o'r *Band of Hope*, a'r Ysgol Sabbothol, yn Dyserth.)



M SARAH fach, mae hiraeth dwys  
Yn mynwes pawb trwy 'r ty;  
Ni welir yno 'i gwênau glwys,  
Na 'i llygaid gloewon, cn;  
Mae wedi myn'd—ac ni ddaw 'n ôl—  
Ac O! mae prudd-der ymhob cêl!

Os awn i blith y plant sydd draw  
Yn cario 'r faner wên,  
Cawn wel'd yr oll â llaw mewn llaw,  
A blodau ar eu pen—  
Ond nid yw Sarah gyda hwy,  
Ac O! mae hyn yn boenus glwy'.

Oferedd ydyw dysgwyl am  
Ei gwel'd yn 'r Ysgol Sul,  
Lle byddai 'n myn'd yn llaw ei mam,  
Ar hyd y llwybr cul—

Mae 'i Bibl bach i'w wel'd mewn bri,  
Ond, Sarah fach, pa le mae hi?

Mor brydferth gynt y clywid sain  
Ei dwys holiadau hi,  
Tra 'n eistedd draw ar lin ei nhain,  
Yn dawel heb un cri;  
Ond mud yw 'r tafod bach mewn bedd,  
Ni hola mwy am lwybrau hedd.

Yn dad, a mam, a nain, rho'wch dro  
I wel'd y beddrod bach—  
Ond codwch olwg uwch y gro,  
I'r fro mae 'i henaid iach;  
Mae Sarah yn y nef yn awr,  
Yn rhydd o holl ofidiau 'r llawr.

Nid "*Rhwymyn Gobaith*," ond mwynhâd,  
Sy 'n eiddo iddi mwy—  
Nid "*Ysgol Sul*," ond Teml fâd,  
Uwchlaw pob marwol glwy';  
O blith y plant at engyl nen,  
Y codwyd hi i'r nefoedd wên.

I. G. A.

### GAIR OLAF PLENTYN AT EI FAM.

**R**ys blynyddoedd bagad yn ôl, torodd dwfr i mewn i un o byllau glo Newcastle. Gyrwyd y gweithwyr o'i flaen i'r manau pellaf y gallent fyned. Yr oedd y gwaith yn êang, ac felly yn araf y llenwai y dwfr at y dynion. Gwnaed pob brys i geisio codi y dwfr, ond cyn gwneyd hynny yr oedd pymtheg ar hugain o ddynion, ac un a deugain o fechgyn, wedi mygu a newynu.

Cafwyd cyrff saith o'r bechgyn gyda'u gilydd, mewn congl ar wahân oddiwrth y lleill. Yr oedd ymysg y saith yma un bachgen nodedig o dduwiol. Efe oedd cynnalïaeth a chysur ei fam weddw; a'i brif bleser y nosweithiau, ar ol dyfod adref o'i waith, oedd darllen y Bibl i'w fam.

Ar ol ei gladdedigaeth, galwodd cyfaill i weled ei fam alarus. Dywedai ei fam am ragoriaethau ei phlentyn ymadawedig, a dangosai ei Fibl bach treuliedig. Disgynodd llygad y dyeithr ar gudell (llestr canwyllau) y bachgen, yr hon oedd wedi ei dwyn adref gyda'i gorff, a chanfu y geiriau canlynol wedi eu crafu arni, gyda phin o haiarn, yn nhywyllwch y pwll mygedig, pan yn ymyl marw:—

"*Peidiwch a grwynach, anwyl fam—waith yr oeddem ni yn canu ac yn molïannu Duw hyd ag y gallasom. 'Mam, dilynwch yr Arghwydd yn fwy ffyddlawr nag y gwnaethum i. Joseph, byddwch yn fachgen da i Dduw, ac i 'mam.'*"



J. R., Treforia.

## HANNAH A'I GWNINGEN.

**M**AE cadw gwingod yn ddifyrwrch cyffredin gan blant yn wlad hon. Ac nid ydym yn gweled un niwed ynddo. Mae yn beth hollol ddi-ddrwg, a gallai llesâd ddeilliaw oddi wrtho. Gallai, a dylai, gynnrychu ychydig o ofal a thynnerwch yn nghymeriad y plentyn. Gellid meddwl fod Hannah, yn y dda lun uchod, yn dysgybla ei hun wrth fwyda a thrin ei gwingod a'i bod yn tynu gwersi i'w meddwl oddiwrthi. Y mae ôl gofalu a thynnerwch ar yr wningen; y mae yn dew braf ganddi. Y mae dwy wers allai y plant ddysgu oddiwrth y cwingod;—

1. Y mae y rhai ieuengaf bob amser yn hynod am roddi y flaenoriaeth i'r rhai hynaf. Y mae hyn yn brydferthwch mawr newt plant.

2. Er eu bod yn grëaduriaid egwan ynddynt eu hunain, y maent yn gofalu am noddfa gadarn. "Gwnant eu tai yn y graig." Anwyl blant! gwerthfawrogwch chwithau gysgod eich rhieni, tra y maent genych; a gofaluwch am gael yr Arglwydd yn Dduw i chwarae bydd genych noddfa gadarnach na'r cwingod.

"Duw sydd noddfa a nerth ni; am hyny nid ofnwn pe symudol y ddaear, a phe treiglid y mynyddoedd i ganol y môr." Psalm xlvi. 1, 2.



GWOBRWYON AM ATEB CWESTIYNAU.

HODDIR y gwobrwyon canlynol i blant dan 16 oed, am y pum' cyfres goreu o atebion i'r 24ain o gwestiynau o'r Bibl a gyhoeddir. Ymddengys dau gwestiwn bob mis. Rhoddir y robrau mewn llyfrau yn ateb i'r symiau canlynol ;—

|                        |           |
|------------------------|-----------|
| Y wobr gyntaf .....    | 12 swllt. |
| Yr ail wobr .....      | 10 swllt. |
| Y drydedd wobr .....   | 8 swllt.  |
| Y bedwaredd wobr ..... | 6 swllt.  |
| Y bummed wobr .....    | 4 swllt.  |

TELERAU.

1. Nis gall y cystadleuwyr fod yn fwy nag 16eg mlwydd oed ; abion neu ferched.

2. Rhaid i bob cystadleuwr fod yn barod i brofi mai ei eiddo ei fydd yr atebion, a rhoddi cyfeiriad i ni i anfon at ei rieni neu rhaw, os bydd galw.

3. Fod yr atebion i gael eu hysgrifenu yn eglur ar y ddalen id wedi ei darparu i'r pwrpas hwnw, yr hon a geir oddiwrth yr raffydd (P. M. EVANS, *Holywell*), dim ond anfon dwy stamp mewn llythyr.

4. Rhodder yr atebiad mor fyr a phwrpasol ag y byddo modd. nid dyweyd lle bydd pob adnod, ond ni fydd raid ysgrifenu yr l adnod.

5. Yr atebion i fod yn llaw. Golygydd TRYSORFA Y PLANT yn y laf o Ionawr, 1866.

Y CWESTIYNAU.

1. Pa ddyn enwog yn y Bibl sydd â'i enw yr un wrthei sillebu i'w blaen ?

2. Pa frenin oedd âg enw yr Arglwydd yn gwneyd i fyny ran enw, a'r hwn y tynodd yr Arglwydd ei enw ei hun i ffwrdd, fyrhâu enw y brenin—er arwyddo, fe allai, ei wrthodiad Dduw ?



DADL Y BUNT A'R GEINIÖG.

(Wedi cyfarfod yn ddamweiniol mewn Casgliad.)

**BUNT.** O mor anffodus fu i mi syrthio i'r fath gymdeithas, myfi yr hon wyf benadur; nid arferais i gyfeillachu ond gyda chyfeillion o'r un gradd â mi fy hun; nis gallaf oddef y ddarostyngiad. Cadw draw, paid dynesu yn rhy agos ataf fi, iniog dylawd.

**Geiniog.** Ni raid i ti ymfrostio yn dy uchelder, fy arglwydd.



es, a'm diystyru innau; yr wyf yn sicr ddarfod i mi fod yn fwy llafurus na thi ar hyd fy oes, ac yn llawer mwy defnyddiol.

*Y Bunt.* Dichon dy fod wedi treulio dy ddyddiau yn fwy diwyd na mi, canys ni raid i mi a'n cydradd lafurio cymaint; ond am fod yn fwy defnyddiol na mi, yr ydwyt yn cyfeiliorni yn fawr, oblegid gwnelai un weithred o'm heiddo i fwy o wasanaeth na dau cant o'th weithredoedd di, druan. Yr ydwyt yn camsynied yn fawr; a bydd ofalus o hyn allan rhag dyweyd pethau yn fyrbwyll.

*Y Geiniog.* Ymffrostio yr ydwyt o'r gwasanaeth a *ellit* ei gyflawni trwy un weithred, onidê? Nid wyf fi yn gwadu dy allu; ond attolwg, pa le y mae dy lafur a'th ffyddlondeb? Pwy a'th welodd di yn y casgliad hwn o'r blaen, er enghraifft? Yr wyf yn sicr na fuost unwaith yn dy fywyd, onidê buaswn i wedi dy weled, oblegid byddaf fi yma yn wastadol. A wyt ti yn cofio tynghed yr hwn a allo wneuthur daioni ac nid yw yn ei wneuthur?

*Y Bunt.* Ië, ië; ond dylit ti, geiniog fach, ddeall na byddaf fi yn mynychu y fath leoedd a'r mân gasgliadau cyffredin, ond byddaf yn byw yn annibynol yn y dystawrwydd a'r pellder oddiwrthynt. Bum am fwy na blwyddyn yn meddiant y parchus foneddwr, Mr. Carwr arian; cadwodd fi yn ofalus yn y lle goreu a feddai yn ei barlwr, ac ni cheisiodd genyf fyned ar un neges drosto yr holl amser hwnw.

*Y Geiniog.* Do, yr wyf yn cofio dy weled yno; waith bum innau yn meddiant Mr. Carwr arian fwy nag unwaith; ac yr wyf yn cofio yn dda, pan fyddai raid gwneyd rhywbeth, mai fi fyddai raid redeg. Deallwn dy fod dithau yno yn segur am fwy na blwyddyn o amser; ai nid cywir fyddai casglu ddarfod i mi wasanaethu i'th arbed di? A hyn yw y diolch a gaf genyt am fy llafur.

*Y Bunt.* Dywedais wrthyf eisoes na pherthyn y mân orchwylion y cyfeiri atynt i fy ngwasanaeth i. Yr wyf hefyd yn ymffrostio yn fy urddas, a fy mod uwchlaw sylw ar bethau isel o'i fath, ac arnat tithau a dy dylwyth. Yn wir, yr wyf yn ei deiml yn ddarostyngiad arnaf, ddarfod i mi, trwy ddiffyg penderfyniad yn y boneddwr, gael fy mwrw i'r un blwch a thi yn y casgliad hwn. Gwnaeth hyn er mwyn derbyn wynebau y casglyddion a draul dibrisio fy iawnderau i, ac yn groes i'w ewylllys yntau; a gwn y bydd efe yn gystal a minnau yn gofidio eto fisoedd am y tro.

*Y Geiniog.* Ni raid i ti byth fflino, fy arglwyddes felen; mae fy nghwmni yn llawn digon da i ti. Yr wyt ti, fel llawer o'r rhai yr wyt yn ymweled â hwy, yn camsynied ymha beth y mae gwir werth a theilyngdod yn gynnwysedig. Beth, onid o'r pridd y cloddiwyd dithau hefyd? Oni fuost dithau yn y ffwrn fel finnan! Onid yr un ddelw sydd arnom? Onid ydym y naill fel y llall yn ngwasanaethu yr un arglwydd? A pha beth yw dy liw a dy bwysau gymaint i ymffrostio ynddynt? Gwasanaeth a defnyddioldeb yw y pwnc, Bunt fach. A beiddiaf ddyweyd fy mod i yn gwasanaethu yn ffyddlawn ar bum' cant am bob un ag ydwyt ti yn

rasanaethu arnynt; ac yn ymweled mor siriol â'r begeriaid yn bythynod a phe byddent dywysogion yn eu palasau. Nis llai dy uchafiaeth, dy hunanoldeb, a'r syniad o ragoriaeth a leddi di am danat dy hun ganiatâu i ti ymweled â'r fath leoedd gweini i'r fath bersonau truenus. Y mae i mi dylodion lawer porthi; arnaf fi y dibynant am ymborth a dillad; ac y mae hedloedd lliosog o Baganiaid ar faes y genadaeth yn aros am ngwasanaeth i, i gludo y Testament a'r Biblau gyda'r efengyl gywyddol iddynt. Gweli nad oes genyf amser i'w golli; mer fi yn esgusodol; a nos dda i ti.

E. R. GELE.



Y BUGAIL DA.

Melychiad o'r *Sunday Magazine* am Rhagfyr; lle mae darlun rhagorol o Iesu at gyda ffon bugail a choron ddrain ar ei ben, yn tynnu oen crwydredig allan o'r in.)

**D**AN goron ddrain, O Fugail, äi mewn aidd,  
 Ar ol dy braidd;  
 'Ddiwrth Fywyd, crwydro i'r anialwch wnânt,  
 I angu änt;  
 'D oes cynnorthwywr bellach ond Tydi;  
 Help Di—help Di.

Pan lecha 'stormydd yn yr wybren glôs,  
 A phan ddaw nos;  
 Pan 'sguba corwynt dros yr anial llwm,  
 Dan faich mor drwm,  
 Gostwng dy glust, a gwrando ar ein cri;  
 Help Di—help Di.

Ein dwfn drallodau nid oes neb, yn llwyr,  
 Ond Ti a'u gŵyr;  
 Dy law all ddwyn yn ôl i'r gorlan wiw,  
 A chadw 'n fyw,  
 A rhwymo ein harchollion gwaedlyd ni;  
 Help Di—help Di.

Diffygio 'r ydym heb na nerth na hoen,  
 Dan ddirfawr boen;  
 Ond atat Ti, adawsom, 'r y'm am droi—  
 I'th fynwes ffoi;  
 O Fugail, gwrando 'n hedifeiriol gri;  
 Help Di—help Di.

O Fugail graslawn, gwrando, gwel fy nghlwyf,  
 Dy blentyn wyf;  
 Dychwel fy nghalon leag, iachâ fi 'n awr,  
 'R mwyn 'd enw mawr;  
 Er mwyn y drain o gylch dy ben y sy',  
 Help Di—help Di.



PEDR A'R ANGEL.

**A**DYWEDODD yr Angel wrth Pedr (yn y carchar), Ymwregyd a rhwym dy sandalau. Bwrw dy wisg am danat, a chanlyn. Ac wedi myned o honynt heblaw y gyntaf a'r ail wylia wriaeth, hwy a ddaethant i'r porth haiarn yr hwn sydd yn arw i'r ddinas, yr hwn a ymagorodd iddynt o'i waith ei hun.—Ac xii. 8, 10.



## LLYTHYRAU AT Y DYN SYDD YN Y LLEUAD.

## LLYTHYR I.

**A**NWYL FRAWD,—Yr wyf wedi bod allan ganwaith ar y loergan yn edrych arnat, ac yn meddwl yn ddifrifol am helynt. Yr wyf yn cofio fy nhad, cyn i mi erioed g "gwasgod a throwsis," yn fy nghodi yn ei fraich, ac yn dy ddanddi, a dy faich drain, a dy gi bach i mi, ac yn adrodd ystoriau a hygoel am danat. Llauer gwaith wedi hyny y bum yn sy arnat mewn synfyfyrdod, nes hanner ddallu fy llygaid a ngoleuni meddal y lloer, a theimlo tosturi at dy unigrwy. Meddyliwn i dy fod yn edrych i lawr yma o hyd, ac yn wana am wybod ychydig o helynt y lle. Pan yn edrych arnat he yn ngoleuni llawn lloer, a phan yn y teimlad mwyaf caredig a y tarawodd yn fy mhen ysgrifenu ychydig o lythyrâu atat i bysu ychydig o bethau am helyntion y byd hwn sydd wedi yn wrthddrych cymaint o'th sylw. Gan hyderu y gwnei dif cyn hir y gyffelyb gymwynas â minnau. Yr wyf yn sic gwnelai TRYSORFA Y PLANT gyhoeddi dy lythyrâu yn ofalus, y byddai Cymru, a'r byd oll, yn llawen iawn o gael y plaser darllen.

Heb ychwaneg o ragymadrodd, bydded hysbys i ti, mai yr enw ar ba un y gelwir y byd hwn genym ni yw, *Y Ddaear*. Crwn yw ei ffurf, yn mesur agos wyth mil o filldiroedd o dryfesur, ac agos bum' mil ar hugain o amgylchedd. Mae yn hawdd i ti gredu mai un felly ydyw; ond nid oes neb o'r trigolion wedi gallu gweled fod ffurf felly ar y ddaear; ac y mae llawer na fynant gredu hyny. Hen dyb ein henafiaid ydoedd, mai gwastadedd mawr yw y byd, a'i waelodion yn anhysbys. Ond y mae wedi ei gael allan yn ddiddadl, mai pelen gron ydyw. Mae dau neu dri o bethau cedyrn yn profi hyn. Pan y mae llong yn myned allan i'r cefnfor—wrth ei gwyllo yn myned o'r golwg yn y gorwel pell, corff y llong sydd yn myned gyntaf o'r golwg, a phen yr hwyllbren sydd yn y golwg ddiweddfaf. Y mae fel dyn yn myned dros gopa y bryn, a'i draed yn myned gyntaf o'r golwg, a'i gopa ddiweddfaf—yr hyn sydd yn profi ffurf grymol y tir y mae yn gerdded.

Ffordd arall i brofi hyn yw trwy y "diffyg" ar y lleuad. Mae y ddaear weithiau yn myned rhwng yr haul a'r lleuad, nes bydd cysgod y ddaear yn disgyn ar y lleuad. Ac y mae y cysgod hwnw bob amser yn grwn; felly rhaid fod y corff sydd yn gwneyd y cysgod, sef y ddaear, yn grwn.

Heblaw hyn, hefyd, y mae dynion wedi morio o amgylch y ddaear, o'r dwyrain i'r gorllewin, ac wedi dyfod yn ôl i'r man y darfu iddynt gychwyn. Y cyntaf i antuio ar fordaith o amgylch ein byd ni, oedd dyn o Portugal, o'r enw Magellan. Cychwynodd o Seville, yn Spain, Awst 10fed, 1519; ac er iddo ef farw cyn cyrhaedd adref, dychwelodd ei long yn ddiogel, ymhen ychydig gyda thair blynedd, wedi dyfod a'i thro i ben o amgylch y ddaear. Mae Drake, Anson, Cook, ac amryw eraill ar ol hyny, wedi gwneyd yr un peth.

Mae agos dair rhan o bedair o wyneb y byd hwn yn ddyfroedd; ac y mae y tir yn ddyfrynoedd mawrion ffrwythlawn, ac yn fynyddoedd uchel, yn cael eu llinellu a'u dyfrhâu gan afonydd a llynoedd. Mae rhai o'r mynyddoedd yn codi mor uchel a naw mil ar hugain o droedfeddi uwchlaw gwyneb y môr, ac eira tragwyddol ar eu penau. Eto, wrth gyferbynu maint y mynyddoedd a maint y ddaear, nid ydynt yn gwrthryfela dim â'r syniad fod y ddaear yn grwn—mwy nag y mae y gerwindeb sydd yn nghroen yr *orange* yma sydd ar y ford yn ymyryd â'i ffurf yntau.

Mae y ddaear, fel y gallet ti oddiyna yn naturiol farnu, yn crogi ar y gwagle, ac yn cylchdroi gyda chyflymder mawr trwy yr entrych. Bu y trigolion am filoedd o flynyddoedd yn meddwl fod y blaned hon yn fyd sefydlog, a bod holl lu y nefoedd—yr haul, a'r lleuad, a'r ser—yn cylchdroi oddiamgylch iddo. Ac felly, yn ddystaw, y mÿn llawer un gredu eto. Ond oddiar amser Copernicus, agos bedwar cant o flynyddoedd bellach, y farn gyffredin yw, mai planed yw y ddaear yn troi o amgylch yr haul. Mae ei phellder oddiwrth yr haul yn bedwar ugain a phymtheg o fillynau o filldiroedd; ac y mae hithau yn gwneyd cylch o'i gwmpas yn y pellder hwnw mewn 365 o ddyddiau, yr hyn ydym

yn alw yn flwyddyn. Wrth deithio felly o gwmpas yr haul, gyda chyflymdra o driugain ac wyth o filoedd o filldroedd yr awr, y mae yn troi ar ei phegynau ei hun unwaith bob pedair awr ar hugain, yr hyn a alwn yn ddiwrnod. Ac ond i ti gofio ei maint, gweli fod hwn yn dro chwyrn echrydus.

Pe buasai fy llaw i yn ddigon mawr i ymaflyd yn y ddaear fel wyf yn ymaflyd yn yr *orange* yma, a gosod fy mys a'm bawd ar y ddau dalcen, dyna begynau de a gogledd. Llinell am y ddaear yn y canol rhwng fy mysedd, yw y canolgyrch, neu yr *equator*. Mae ei thryfesur yn fwy yn y canolgyrch nag yn y pegynau; fel pe byddai wrth droi mor chwyrn yn gwrthio ei bol allan ychydig. Pe safem ar y canolgyrch, dygai ni fil o filldroedd yr awr yn ei chylchdro ar ei phegynau ei hun. Dyna ryw syniad i ti am faintioli a symudiadau y ddaear. Cei air am rywbeth arall y tro nesaf. Hyd hyn, bydd wych.—Yr eiddot yn gywir,

UN O DRIGOLION Y DDAEAR.

—•••••  
DYDDANION.

T'RANDAU AR Y SUL.

**M**ERCH fechan i gyfaill i ni yn Llundain, heb fod yn deirblwydd oed, yr hon oedd wedi ei dysgu i dalu parch neillduol i'r Sabboth, a synwyd yn fawr wrth glywed taranau yn ddiweddar ar y Sabboth. Yr oedd hi wedi cael ei dysgu i beidio cadw trwst ar y Sul, ac i feddwl fod hyn yn bechod. Gwyddai hefyd fod llywodraeth y mell t'ar taranau yn llaw Crist. Pan glywodd daran, rhedodd at ei mham yn ofnus, a dywedodd, "Mam, Iesu Grist, *naughty boy!* gwneyd t'ranau ar y Sul!"

CWESTIWN CALED.

**H**AN oedd tad a adwaenom yn dda wedi bod yn egwyddori ei blant ar yr aelwyd, ac wedi son am hollbresennoldeb Iesu Grist, gofynnodd un o'r rhai bychain,—“Ydyw Iesu Grist ymhob man, 'nhad?” “Ydyw, fy mhlentyn.” “A yw ef yn y tŷ, ac allan hefyd?” “Ydyw, ymhob man.” “Wel,” ebe'r plentyn yn fyfyrgar, “sut na byddai yn stopo lladron i dori tai?” Yr oedd hwn yn debyg i gwestiwn y negro i'r cenadwr,—“Os yw y diafol yn un mor ddrwg, sut na b'ai Duw yn ei ladd?”

HYD AC UCHDER.

**H**R oedd Napoleon unwaith yn chwilio am lyfr yn llyfrgell Malmaison, ac o'r diwedd canfu ef ar astell uwch nag y gallai ef ei gyrhaedd. Yr oedd Marshal Monecy—un o'r dynion talaf yn y fyddin—yn dygwydd bod yn y fan, a dywedodd wrth yr Ymherawdwr, “Gadewch i mi ei gyrhaedd, yr wyf yn uwch na'ch Mawrhydi.” “Yr ydych yn *hûy* na mi, *Marshal,*” ebe'r Ymherawdwr, gyda threm guchiog.



## TRYSORFA Y PLANT.

RHIF. XXXVIII.]

CHWEFROR, 1865.

[CYF. IV.

### YR ADERYN YN YR YSTORM.

**A**R noson oer ystormllyd yn nyfnder y gauaf, yr oeddwn yn eistedd yn fy llyfrgell, ac yn ysgrifenu nodiadau oddiwrth yr adnod hono yn Dad. iii. 8—"Wele rhoddais ger dy fron ddrws agored." Yr oedd yr eira, y gwlaw, a'r cesair, yn curo yn y ffenestr yn drwm, a'r gwynt yn chwythu yn wylofus.

Oddeutu deg o'r gloch clywn ergyd ar y ffenestr. Edrychais, ond yr oedd yn dywyll iawn, ac ni welwn ddim. Yn y man wele y gwydr eto yn cael ei daro yn gryf. Cymerais y ganwyll yn fy llaw ac edrychais, a gwelwn aderyn bychan ar gareg y ffenestr, yn wlyb a lluddedig, a'i adenydd gwlybion yn syrthiedig am ei draed. Dyma fe eto yn codi ac yn taro yn erbyn y ffenestr unwaith ac eilwaith, fel pe buasai yn ceisio ehedeg i fy mynwes. Ofnwn y buasai yn lladd ei hun; yr oedd am dynu at y goleuni. Yr oedd am ffoi o afael yr ystorm. Yr oedd eisieu "noddfa rhag y dymhestl" arno. Fe allai fod yr ystorm wedi dwyn ymaith ei loches flaenorol; neu fe allai fod rhyw elyn wedi bod yn ceisio am ei fywyd. Druan o hono! yr oedd fel yn gweddio am gael dyfod i mewn, ac ni fynai ehedeg ymaith i'r nos dywell a'r ystorm.

Codais y ffenestr i fyny, a neidiodd yr aderyn i mewn ar unwaith. O! y peth bach, gwlyb, diniwed, a diymgeledd! Yr oeddwn yn meddwl am Noah yn gollwng y golomen i mewn i'r

arch. Dechreuodd ymysgwyd, unioni ei adenydd, ac ymloni. Neidiai o fan i fan dros yr ystafell, gan yswitio ei ddiolchgarwch mewn llais gwanaidd, a braidd yn ddolefus. Ehedodd yn y diwedd i ben hen lyfr oedd ar ben yr astell uchaf, ac ymbarotôdd i gysgu. Rhoddais innau friwsion bara o amgylch iddo, ac ar y bwrdd; ac erbyn bore drannoeth yr oedd wedi en bwyta. Gan ei bod yn fore hyfryd drannoeth, yr oedd yn awyddus am fyned allan. Agorais y ffenestr, ac aeth fy ymwelydd ymaith.

Nis gallaswn lai na meddwl fod yr aderyn bychan hwn yn ddarlun tarawiadol o'r enaid yn ceisio noddfa rhag yr ystorm. Mae pechod yn waeth na'r gwynt, a'r gwlaw, a'r eira, a thywyllwch y nos; ond gall yr enaid, o ganol ei ystorm, weled goleuni yn ffenestr Duw—dim ond edrych. Ac os gwna droi at y drws, a churo, fe ddywed yr Arglwydd wrtho, "Wele, rhoddais ger dy fron ddrws agored, ac ni ddichon neb ei gau."



### Y NOS A'R DYDD.

(*Good David, whose psalms have so often been sung.*)

GAN J. CEIRIOG HUGHES.

**D**AE 'r nos fel y dydd, a'r dydd fel y nos,  
Yn hoffi ein planed fach dlos:  
Y Dydd yn arddangos pob ardal a thref,  
A'r Nos yn arddangos y nef.

"Dos di yn dy flaen," medd y Nos wrth yr Haul,  
"I ddangos y coedydd a'r dail:  
Eglura di 'r gwledydd, bob mynydd a dôl,  
Gwnaf finnau fy ngwaith ar dy ol."

"I ddangos y nefoedd," medd Dydd wrth y Nos,  
"O'r dwyrain i'r dwyrain, O dos:"  
Cyflymodd y t'wllwch—cyflymodd yr haul—  
Bob un o 'nhw 'n gyntaf ac ail.

Yr Angel a gyfyd pan gyfyd y Wawr,  
Ddaw gyda'r Tywyllwch i lawr;  
Rhag tybied y Ddaear, wrth droi yn ei rânôd,  
Nad oes un byd arall yn bod.



### TRI ADGOF DYMUNOL.

**D**YWEDAI y duwiol Phillip Henry, tad Matthew Henry yr esboniwr, ar adeg ei adferiad o gystudd,—Mai tri adgof dymunol i fyfyrion arnynt oeddent, "Cystudd wedi ei oddef yn amyneddgar; galyd wedi maddeu iddo yn galonog; a Sabbath wedi ei sancteiddio yn bur."

## Y TADAU METHODISTAIDD.

VI.—RICHARD TIBBOT.

**R**AE Richard Tibbot, o Lanbrynmair, yn deilwng o le yn llechres y Tadau Methodistiaidd, er iddo dreulio y rhan olaf, a'r fwyaf o'i oes weinidogaethol, fel gweinidog sefydlog gyda'r Annibynwyr. Ganed ef yn Hafod-y-pant, Llanbrynmair, Sir Drefaldwyn, Ionawr 18, 1719. Efe oedd yr ieuengaf o chwech o blant. Tybir fod ei rieni yn aelodau gyda'r Annibynwyr, ac mai gyda'r enwad hwnw y dechreuodd yntau ei fywyd crefyddol. Yr oedd yn ofni Duw o'i febyd, ac mewn cymundeb eglwysig yn 15 oed. Hynodasai ei hun yn fawr, yn enwedig yn yr oes hono, trwy ei awch am ddarllen llyfrau, y rhai y byddai yn ddyfeisgar iawn i'w benthyca a'u prynu. Trwy ei lafur a'i ymdrechion parhâus, cyrhaeddodd gryn wybodaeth yn y Lladin a'r Groeg, ac ychydig yn yr Hebraeg. Dechreuodd bregethu cyn ei fod yn 20 oed, tua'r un amser ag y dechreuodd Howel Harris, a'r un amser ag y codwyd capel Llanbrynmair, ac yn agos i'r un amser ag y dechreuodd Lewis Rees weinidogaethu i'r ddeall fechan yn yr ardal hono.

Tua'r flwyddyn 1741, symudodd Tibbot i Landdowror, at y Parch. Griffith Jones; ond nis gallasai fod yno yn hir iawn, oblegid y flwyddyn ganlynol, 1742, yn y Gymdeithasfa a gynnaliwyd yn Watford, Morganwg, "Cyttunwyd fod Richard Tibbot i fod yn ymwelwr cyffredinol y dosbarthiadau." Dyma y tro cyntaf y cawn ar ddeall ei fod wedi ymuno â'r Methodistiaid. Ymhen mis ar ol Cymdeithasfa Watford, cynnaliwyd Cymdeithasfa yn nhŷ Jeffrey Dafydd, Llanddeusant, Sir Gaerfyrddin, pryd y "Cyttunwyd fod i'r brawd Richard Tibbot gadw ysgol yn Sir Benfro." Mewn cyfarfod arall a gynnaliwyd yn y Long House yn Sir Benfro, yn Mehefin, 1743, penderfynwyd "Ar fod i'r brawd Richard Tibbot *weithio* hyd nes y gallai gael Ysgol Gymraeg." Ac mewn Cymdeithasfa yn Nhrefecca yn niwedd yr un mis, cawn ei enw ymhlith cynghorwyr cyhoeddus, ac yr oedd y gŵr ei hun yn bresennol. Yn y flwyddyn ganlynol, mewn Cyfarfod Misol yn Nantanel, Sir Faesyfed, gosodwyd arno ymweled â holl eglwysi Sir Drefaldwyn, unwaith bob wythnos, ac ymroddi yn gwbl i'r gwaith. Ond ymhen hanner blwyddyn, penderfynwyd mewn Cymdeithasfa, "Fod y brawd R. Tibbot i fyned at y brawd John Richard, i ddysgu y grefft o rwymo llyfrau." Yr oedd y John Richard hwn yn arolygu rhanau o Forganwg a Chaerfyrddin. Nis gellir deall yn awr beth a barai gyfnewidiadau mor fynych yn hanes Tibbot; ond y mae yn amlwg ei fod yn ddyn nodedig o ymdrechgar a defnyddiol yn nghychwyniad Methodistiaeth.

Bu yn pregethu am y pum mlynedd ar hugain cyntaf o'i fywyd gweinidogaethol gyda'r Methodistiaid, a bu yn arolygwyr fyddlawn ar holl eglwysi y Cyfundeb trwy Feirionydd, Arfon, Dinbych, a Threfaldwyn. Yr oedd yn ymweled â phob lle yn rheolaidd, a phob mater o bwys yn cael ei ddwyn dan ei sylw.



Ac yn ei deithiau cyson a blinderus, dyoddefodd lawer o erlidig-aeth a chaledi.

Teimlodd Tibbot yn fawr oddiwrth yr ymrafael rhwng Harris a Rowlands. Yr oedd o dymher bwylllog, ac ysbryd hynaws a thawel iawn. Ac i dawelu ei gydwybod, trôdd gyda Rowlands, ac anfonodd ei resymau dros hyny mewn llythyr tyner a gostyngedig at Harris. Parhâodd i lafurio yn y Cyfundeb hyd y flwyddyn 1762. Y flwyddyn hono, symudodd y Parch. Lewis Rees o Lanbrynmair i Forganwg, a gwnaeth yr eglwys hono gais taer am i Tibbot ddyfod i'w bugeilio. O'r diwedd penderfynodd dderbyn y cais; ymunodd â'r eglwys Annibynol hono, a bu yn weinidog arni am bymtheng mlynedd ar hugain. Parhâi er hyny i ddal cymundeb â'i frodyr Methodistiaidd fel o'r blaen, gan fynychu eu Cymdeithasfaoedd, a phregethu yn eu capelau, a derbyn pregethwyr y ddau enwad fel eu gilydd i'w dŷ. Yr oedd yn ddydd meddylgar, o ysbryd rhydd a haelfrydig, ac yn hynod am ddynerwch a duwiolfrydedd ei ysbryd. Bu farw yn 1798, yn agos i 80 mlwydd oed. Pasiwyd rhes o benderfyniadau yn Nghymdeithasfa Watford—y gyntaf erioed a gynnaliwyd—ac y mae amryw o honynt yn dra theilwng o sylw y Cyfundeb heddyw—yn enwedig, yr arolygiad manwl ar yr holl eglwysi, a'r adroddiad o gyflwr yr achos yn y Cymanfaoedd. Ceir yr hanes yn fanwl yn y gyfrol gyntaf o "*Methodistiaeth Cymru.*"



### PREGETH YMYSG Y GLOWYR.

**M**AE y dyfyniad canlynol wedi ei gymeryd o bregeth J. C. ymysg glowyr Gogledd Lloegr, a gyhoeddwyd yn y "*Sunday Magazine.*"

"Frodyr! yr wyf yn awr yn myned i ddangos i chwi pa fodd y mae pechadur tlawd yn cael ei achub trwy ras, ac yr wyf yn sicr fod llawer o honoch wedi eich hachub felly. Gadewch i ni gymeryd achos dyn truenus yn mhoenau argyhoeddiad. Tybiwch ei fod yn ngwaelod pwll anobaith. Yn awr, gadewch i ni ofyn iddo, sut yr aeth yno, a sut y mae yn meddwl dyfod i fyny." Yna gogwyddai dros y pulpud, rhoddai ei law yn geul wrth ei enau, a gwaeddai fel pe buasai yn siarad âg un yn ngwaelod y pwll, yn ol ffaïwn y "*banksman*" oddiar y top:—

"Holo! Holo! Pwy sydd i lawr yna?"

"O, weinidog! pechadur tlawd—pechadur truenus!"

"Sut y daethost ti yna, frawd? sut y daethost yna?"

"Baich fy mhechodau fy ngwasgodd i, a suddais yn ddyfnach ac yn ddyfnach."

"Ys truan o ddydd ydwyf! pa fodd yr wyt yn meddwl dyfod i fyny?"

"Nis gallaf byth ddyfod i fyny! Yr wyf yn golledig—wedi fy ngholli am byth! Yr wyf wedi ceisio ganwaith ddringo i fyny at hyd ochr y pwll, ond yn methu; yr wyf yn syrthio yn ôl o hyd."

"Nis gelli lwyddo o honot dy hun. Gollyngaf raff ffydd i lawr atat. Cymer afael yn hona, a deui allan. Dal wrthi!—dal wrthi! Dyma hi." (Dynwardai ddyn yn gollwng rhaff i lawr). "Dyna, rhaid ei bod i lawr bellach. Cymer afael yn yr unig obaith osodwyd o'th flaen! A gefaist ti afael?"

"Yr wyf mor wan, prin y gallaf ymafael ynnddi; ond yr wyf yn meddwl fod genyf afael go dda yn awr."

"Wel, yn awr fechgyn, tynwch, ohoi! Gadewch i ni helpu y truan i fyny. O, mor drwm ydyw! Hawyr, beth sydd genyt heblaw dy hunan yn pwyso wrth y rhaff?"

"Dim ond ychydig o weithredoedd da o eiddo fy hunan."

"Gweithredoedd da! gweithredoedd da! Tafla hwynt i lawr! [lawr â hwy, onide fe dyr y rhaff!]"

"Wel, os oes raid, 'does dim i wneyd; ond sicr y gwnaethent lipyn o les i mi."

Mae y pregethwr yn para i dynu fel pe buasai yn dirwyn y rhaff fyny trwy orchest fawr, ond yn sefyll yn sydyn, fel pe buasai hwystr eto wedi attal ei freichiau, a gwaedda allan wrth yr esgyn-dd dychymygol:—

"Beth yw y mater yn awr? A pha beth yr wyt yn ymdrechu?"

"Ammheuon ac ofnau, syr. Yr wyf yn ofni nas gallaf ddal fy gfael."

"Cymer afael sicrach yn y rhaff. Nid yw ofnau ac ammhheuon i ddim i ffydd gref. Ond beth sydd yn awr? Beth yw yr holl gwyd yma eto?"

"Ymgyrch mawr o flinderau, fy meist, ac nis gallaf ddal fy gfael."

"Dal ati, bechadur, dal ati! Deui allan o'th flinderau. Ond th yw hyn? Crynu eto? Beth all fod y mater eto?"

"Temtasiwn gref, fy meist. O, mi syrthiaf! Yr wyf yn rthio! O, cynnorthwywch fi! O, cynnorthwywch fi!"

"Wel, ni a wnawn. Ond ah! pa echrysbeth sydd wedi dygwydd awr? Mae y pwysau yn gymaint dair gwaith! Y fath swm chrynllyd! Pa beth sydd genyt yna?"

"Y diaf ei hun sydd wedi cydio ynof! Y mae yn fy nal â'i ll egni! O, weinidog! yr wyf yn golledig—yn golledig!"

Erbyn hyn, yr oedd y cyffro ymysg y gynulleidfa yn fawr. Ragedd yn wylo, dynion yn codi ar eu traed, a'r gweinidog, yn hnyddio y cyflëusdra, yn gwaeddi,—

"Nawr, fechgyn, gadewch i ni gael gweddio a thynu gyda'n ydd. Mae y pechadur tlawd mewn perygl mawr. Ond nis gall an ei ddyrnodio yn hir. Mae y Cadben Mawr gyda ni, ac y e ef yn rhy gryf i ellyll a diaf!"

Ar ol hir ymdrechu i dynu wrth y baich dychymygol, yntddanai fel pe buasai wedi llwyddo i godi yr edifeiriol o ganol ei yglon i ben y pwl. Yna bloeddiar yn dra effeithiol,—“Fech-  
t, y mae yn ddiogel! Y mae wedi ei achub! Dyna fe!  
orodd rhaff ffydd erioed eto, a gwyddwn na fuasai yn tori yn  
:!”



### TWR BABEL.

**T**R ol y diluw, darllenwn yn yr xi. bennod o Genesis, i blant dynion fyned ynghyd ag adeiladu "tŵr, a'i nen hyd y nef-oedd." Dau amcan oedd ganddynt medd yr hanes:—laf, Gwneyd enw iddynt eu hunain, trwy ddangos eu medr a'u doethineb, mae'n debyg; ac yn 2il, Eu cadw rhag eu gwasgaru dros wyneb y ddaear. Ond nid oedd eu hamcanion hwy yn cyd-gordio âg ewyllys Duw; am hyny rhwystrodd yr Arglwydd hwynt i fyned ymlaen, trwy gymysgu eu hiaith fel na ddeallent iaith eu gilydd. Y ddau brif amcan gan yr Arglwydd yn hyn dybygid, ydoedd,—1. Rhoddi ergyd ar eu balchder; ac yn 2. Er gwasgaru, er mwyn poblogi gwyneb y ddaear. Yr oedd eu cysur a'u llwyddiant yn dibynu yn fawr ar iddynt ymwasgar oddiwrth eu gilydd. Felly parodd yr Arglwydd i'r un amgylchiad droi allan yn farn ac yn fendith iddynt.



### DUWOLDEB SYDD FUDDIOL

**D**UWOLDEB sydd fuddiol i deithio y byd,  
 Duwioledeb yw angor yr enaid o hyd;  
 Duwioledeb yw 'r trysor rhagoraf y sy;  
 O Arglwydd, rho heddyw dduwioledeb i mi!

Duwioledeb a'm daliodd yn ymchwydd y don,  
 Wnaeth f' ysbryd yn wrol, a'm calon yn llon;  
 Er garwed y stormydd, er dyfned fy mriw,  
 Duwioledeb a'm cyfyd i'r nefoedd i fyw.

## ENWOGION YR OES.

VI.—C. H. SPURGEON.

**S**ANWYD Charles Haddon Spurgeon yn Kelvedon, pentref ychydig filldiroedd o Colchester, yn Swydd Essex, Mehefin 19, 1834. Felly dengmlwydd ar hugain ydoedd Mehefin diweddaf. Gweithiwr caled oedd ei dad, ond daeth i gymeryd gofal eglwys Gynnulleidfaol yn Tollesbury. Symudwyd Charles yn nyddiau ei febyd at ei dadcu (taid), y Parch. James Spurgeon, gweinidog Annibynol yn Stambourne, pentref gerllaw Halstead; a than ofal ac addysg modryb iddo, chwaer ei dad, dechreuodd y plentyn â dadblygu craffder meddwl anarferol i un o'i oedran. Cafodd bob cefnogaeth gan ei dadcu hefyd i ymroddi yn y cyfeiriad crefyddol yr oedd ei feddwl yn dueddol iddo. Yr oedd ganddo lais dewr a chryf, a byddai yn fynych yn darllen pennod yn yr addoliad teuluaid, ac mewn cyfarfodydd crefyddol, pan yn hynod o ieuanc; a byddai yn holi cwestiynau yn wastad ar bob adnod a ymddangosai iddo ef yn aneglur. Yr oedd fel hyn wedi dyfod yn gryn dduwinydd erbyn ei fod yn 8 mlwydd oed. Ei hoff lyfrau cyntaf oeddent, "Taith y Pererin," gan Bunyan, a "Gorphwysfa y Saint," gan Baxter.

Pan yn 8 mlwydd oed, anfonwyd ef i'r ysgol i Colchester, at un Mr. Henry Lewis, a daeth yn un o'r ysgolorion mwyaf llwyddiannus yn yr ysgol. Yn 15 oed, symudodd i'r Coleg Amaethyddol yn Maidstone, lle y gallai gael manteision ehangach. Bwriedid iddo fod yn ysgolfeistr; a phan adawodd Maidstone yn 1849, aeth at Mr. Swindell, yn Newmarket, lle yr ymroddodd gydag efrydu Groeg a Ffrancaeg. Ond symudodd cyn hir oddiyno yn athraw cynnorthwyol i Mr. H. Leeding yn Cambridge. Pan yn y lle hwn, aeth i wrando pregeth gan un o'r Wesleyaid, yr hon a gafodd argraff ddwys iawn ar ei feddwl. Ac er ei fod wedi ei godi i fyny dan addysg yr Annibynwyr, dewisodd gael ei fedyddio trwy drochiad, yr hyn a wnaed gan y Parch. W. Cantlow, yn mhentref Isleham, saith milldir o Newmarket, Mai 2, 1850, pan yn 16 mlwydd oed. Daeth bellach yn athraw ffyddlawn yn Ysgol Sabbothol yr Annibynwyr, Newmarket, a rhoddai anerchiadau mynych i'r Ysgol.

Wedi symud i Cambridge, ymunodd â'r Bedyddwyr, ac ymroddodd â'i holl egni i wasgaru traethodau, ac i roddi cyfarchiadau neu gynghorion yn y cyfarfodydd, a daeth i'w adriabod trwy yr ardal- oedd wrth yr enw "*Boy Preacher*." Yn Teversham, gerllaw Cambridge, y pregethodd Spurgeon y waith gyntaf. Yr oedd ychydig nifer o Fedyddwyr yn bodoli er ys blynnydoedd yn Waterbeach. Daeth y pregethwr newydd ieuanc i gymaint o fri ganddynt, fel yr attolygasant arno ddyfod yn weinidog iddynt. Cydsyniodd yntau â'r cais, a thröwyd hen ysgubor yn gapel iddo. Ond gan nad allai yr eglwys hono ei gynnal, daliai ei swydd fel ysgolfeistr ymlaen. Mynai ei rieni ymhob modd iddo fyned i'r athrofa cyn ymgymeryd â'r weinidogaeth; ond nis gallent ei berswadio. Preg-

ethodd yn y capel ysguboraidd hwn am ddwy flynedd, ac ychwanegodd nifer yr aelodau yn gymaint arall.

Dygyddodd i ŵr dyeithr fod yn ei wrando yn siarad mewn cyfarfod undeb yr Ysgolion Sabbothol yn Cambridge, a tharawyd ef yn fawr gan ei dalent. Cyfarfyddodd y gŵr dyeithr hwn âg un o ddiaconiaid capel New Park Street, Southwark (Llundain), yr hwn a gwynai am ddirywiad yr achos yn y capel hwnw, lle bu Dr. Gill, Dr. Rippon, ac enwogion eraill yn gweinidogaethu. Cynghorodd y gŵr dyeithr ef i anfon am Mr. Spurgeon. Ion., 1854, cyn ei fod yn 20 oed, symudodd Spurgeon yno; a buan y dygodd ei ieuentyd, ei dalent, a'i hyfdra digyffelyb, lonaid y capel o gynnull-eidfa. Ymhen dwy flynedd, gorfuwyd helaethu y capel. Yn y cyfamser, bu Spurgeon yn pregethu am bedwar mis yn Exeter Hall; ac yr oedd hwnw yn cael ei lenwi, fel y byddai cannoedd yn gorfod troi ymaith o eisieu lle.

Aeth ei gapel yn rhy fach yn fuan eilwaith, ac ardrethwyd y Surrey Music Hall iddo. Yn y lle hwn, pan oedd tua deng mil o gynulleidfa ynghyd, Hyd. 19, 1856, y cododd rhywun floedd dwyllodrus fod y lle ar dân. Methwyd yn lân a llongyddu y dyrfa, a chafodd saith eu lladd yn yr ymdrechfa i geisio dianc. Y mae er ys blynnyddoedd bellach wedi codi capel iddo ei hun, yr hwn a elwir y *Metropolitan Chapel*, yr hwn y dywedir a gynnwysa ddeng mil o bobl. Talwyd am dano ar ei agoriad, ac mae yn cael ei lenwi gymaint, fel nad oes mynediad i mewn ond trwy docynau.

Priododd Mr. Spurgeon â Miss Thompson, Falcon Square. Gweinyddwyd y ddefod yn New Park Street Chapel, Ion. 1, 1856, gan Dr. Fletcher. Y mae y gweinidog defnyddiol hwn yn para yn ei boblogrwydd a'i ddefnyddioldeb; ac y mae yn ddiweddar wedi gwrthod i'r gair *Parchedig* gael ei osod ynglŷn â'i enw.



## CYSTADLEUAETH Y CWESTIYNAU.

**D**IFER yr atebion o fewn y gystadleuaeth ydoedd TRIUGAIN A THRI AR DDEG. Cauwyd allan yr atebion a dderbynid o fis i fis, a phob un a bostiwyd ar ol Rhagfyr 31ain. Gallwn eich sicrhau mai gorchwyl llafurus a blin oedd cymharu a barnu cynrif o atebion. Er fod yr atebion, ar y cyfan, yn hynod o dda, rhaid dyweyd mai un yn unig atebodd bob un o'r cwestiynau, gan ddwyn yr esiamplau oedd yn ngolwg yr holwr wrth ofyn y cwestiynau; ond pan fyddai esiampl arall yn atebiad i'r cwestiwn, byddai yn cael ei nodi fel un cywir. Yr ennillwyr y tro hwn yw y rhai canlynol:—

1. Jane Hughes, Tyddyn Adda, Brynsiencyn, Môn; oedran 12 mlwydd. (Y wobwr gyntaf.)
2. Thomas Jones, Camddwr Mills, Bronant, Aberystwyth, Cardiganshire; oedran 14. (Yr ail wobwr.)

3. Abel H. Williams, Plas Uchaf, Llanefydd, Rhyl, Denbighshire; oedran 13. (Y drydedd wobr.)

4. Evan Jones, Lluest Mill, Lledrod, Nr. Aberystwyth, Cardigan-shire; oedran agos 16. (Y bedwaredd wobr.)

5. Griffith Jones, 5 South Loudon Place, Cardiff, Glamorgan; oedran 13. (Y bummed wobr.)

Y mae y rhan fwyaf o'r plant wedi ysgrifenu gormod o'r hanner: sylwch ar yr ammodau yn y rhifyn diweddaf. Mae amryw wedi amgau llythyr yn y ddalen, ac eraill wedi rhoi papyr am y ddalen a'r atebion; pob un a wnaeth y naill neu y llall, costiodd i ni ddwy geiniog o *postage*. Gwnaeth eraill y ddalen yn rhy drom wrth osod cymaint o gŵyr arni. Yr oedd rhai wedi gosod cynifer ag 8 o *wafers* arni, a'i chau mor llwyr nes gorfod ei darnio cyn ei hagog. Cofiwch y tro nesaf, nad oes eisieu na phapyr, na llinyn, na chwyr, na *wafer*, na dim ar y ddalen: dim ond ei phlygu, rhoi stamp arni, a'i thafu i'r llythyrdŷ.



"YMDRECHAIS YMDRECH DEG."

EDRYCHWCH yn llygad y llew,  
 A'r llew gan eich ofn a ddychwela;  
 Edrychwch yn wyneb eich gwaith,  
 A'ch gwaith ger eich bron a ddiffana;  
 Edrychwch yn union o'ch blaen,  
 O'ch blaen y mae rhwystrau a gwynfyd;  
 Edrychwch nes gweled eich Duw,—  
 Gwel'd Duw ydyw hanfod dedwyddyd.

Ymdrechwch nes ennill y gamp;  
 A champ yw i ddynion ymdrechu;  
 Ymdrechwch! mae bywyd yn troi,—  
 Yn troi ar ddefnyddio eich gallu;  
 Ymdrechwch! mae dynion fel chwi,—  
 Fel chwi yr un ffunud yn llwyddo;  
 Ymdrechwch! mae 'ch amser yn fyr,  
 Rhy fyr idd ei dreulio i freuddwydio.

Gochelwch; mae gochel yn waith,  
 A gwaith ydyw gochel obrwyir;  
 Os ymdrech heb ochel a wnewch,  
 Ni wnewch ond yr hyn a ddiddymir:  
 Edrychwch am nodedd i'r Nef,  
 A'r Nef a rydd help i ymdrechu;  
 Tra 'n ymdrech a gochel 'r un pryd,  
 'R un pryd y'gwnewch chwithau orchfygu.



*Martines Luther*

MARTIN LUTHER.

**M**AE yn dda genym allu cyflwyno darlun o'r hen ddiwygiwr enwog, Martin Luther, i'n darllenwyr, a chofnodi iddynt ychydig o brif ddygwyddiadau ei hanes. Ganed Martin Luther ar ddydd gwyl St. Martin, Tachwedd 10, 1483, ac am hynny galwyd ef yn Martin. Mab ydoedd i weithiwr caled o'r enw John Luther, a Margaret ei wraig. Yr oeddent yn deulu crefyddol gyda'r Pabyddion, yn Saxony (Germany). Er ei fod yn dlawd, cafodd Martin fyned i'r ysgol yn ieuanc. Ond yr oedd yn rhaid iddo fyned allan trwy y dref i gardota ymborth i'w gynnal yno. Yr oedd yn gallu canu yn rhagorol, a bu hynny yn foddion iddo gael tamaid lawer tro. Hymnau am Iesu Grist fyddai ef yn ganu, carolau Nadolig, a'r chweched Salm a deugain.

Ymhen blynnyddoedd cafodd fyned i'r coleg, ar fedr ei wneyd yn fynach, neu yn offeiriad Pabaidd. Yn y coleg yr oedd llyfrgell fawr, ac yr oedd Martin yn treulio pob mynyd allai hebgor yno yn darllen. Yn yr hen lyfrgell hon y tarawodd am y waith

gyntaf erioed wrth Fibl—hen Fibl Lladin ydoedd, yn orchuddiedig â llwch. Yr oedd yn awr yn ymyl ugain oed, ac yn cael ei godi i fyny yn offeiriad, ac heb weled Bibl erioed! Dechreuodd ei ddarllen gydag awch rhyfeddol, gan ddechreu yn y tu dalen cyntaf. Yr oedd y cwbl yn hollol newydd iddo. Yno y bu nes oedd yn hwyr iawn. Ac wrth fyned allan o'r ystafell, dywedai wrtho ei hun, "O, na roddai Duw lyfr fel yna i mi!" Darllen y Bibl y byddai bob tro yr elai i'r llyfrgell mwy, a daeth yn fwy gwerthfawr yn ei olwg na miloedd o aur ac arian, ac yn felusach na'r diliau mêl.

Ymhen tro symudodd Luther i fynachdŷ arall, ond yr oedd y Bibl wedi ei wneyd yn anesmwyth iawn yn achos ei gyflwr. Yr oedd y mynachod o'i amgylch yn fwy anwybodus nag ef ei hun, ac nid oeddent yn gofalu am ei drallod. Pob caledwaith, Martin Luther oedd yn cael ei wneyd—gofalu am y porth, ysgubo yr eglwys, a glanhâu yr ystafelloedd. Ac mor gynted y gorphenai ei waith, dywedent wrtho, "Dos yn awr â dy gŵd trwy y dref;" i gardota bwyd i'r mynachod. Pan ddalient ef wrth ei lyfr, dywedent, "'Nawr, 'nawr, nid wrth ddarllen y gelli wasanaethu y mynachdŷ, ond wrth fyned allan i gardota ŷd, ŵyau, pysgod, ac arian."

Yr oedd Martin, druan, wrth ddyfod at y mynachod, wedi newid ei wisg, ond heb newid ei galon. "O!" meddai, "pwyl a'm gwared oddiwrth fy mhechodau! Rhaid i mi gael fy ngwneyd yn sanctaidd!" Cafodd o hyd i Fibl eto yn un o ystafelloedd y mynachdŷ, ond yr oedd yn rhwym wrth gadwen. Dechreuodd ei ddarllen gydag awch; ond po fwyaf a ddarllenai arno, mwyaf terfysglyd oedd ei gydwybod yn myned. Dyma y pryd y dechreuodd weled ynfydrwydd y grefydd Babaid.

Tua'r amser yma, cymerodd dau ddygwyddiad le i ddwysâu cyffro ei fynwes. Pan unwaith yn eistedd yn nghanol tŵr o'i gyfeillion, lladdwyd un o honynt yn ei ymyl. Dywedodd wrtho ei hun, "Beth ddaethai o honof fi, pe cawswn fy ngalw ymaith yn ddisymwth fel yna?" Ar ei ddychweliad, wedi bod yn ymweled â'i dad, goddiweddwyd ef gan dymhestl ddychrynydd o fellt a tharanau. Dechreuodd redeg am ryw gysgod; ond pan yn myned, tarawodd y fellten y ddaear yn ymyl ei draed, nes ei rhwygo yn rhychau. Syrthiodd Martin ar ei liniau, a gwaeddodd ar Dduw am ei achub. Wedi codi, dywedai, "Ond, rhaid i mi gael fy sancteiddio!" Beth bynag a wnelai; nid oedd heddwch i'w gael, ac yr oedd ei gyfansoddiad yn rhoi ffordd dan bwysau ei drallod.

Tua'r amser hwn, daeth hen ŵr i'r mynachdŷ o'r enw Staupitz. Wedi deall am drallod mawr Luther, gofynodd iddo,—

"Paham yr ydych mor brudd, fy mrawd Martin?"

"O, 'wn i ddim beth ddaw o honof; waeth i mi heb wneyd addunedau i Dduw, pechod o hyd sydd gryfaf."

"O, fy nghyfaill," ebai'r hen ŵr, "yn lle poeni eich hunan ynghylch eich pechodau, teflwh eich hunan i fynwes Iesu Grist



—edrychwch ar glwyfau y Gwaredwr, ac ar y gwaed a dywalltwyd drosoch. Trwy ei gleisiau Ef y cewch iachâd, a thrwy ei waed Ef y cewch lanhâd. Dyma y fan mae iachawdwriaeth i chwi.” Gwrandawai Luther am ei fywyd. A thrwy gyfarwyddyd yr hen ŵr, a darlenniad yr Epistol at y Rhufeiniaid, aeth Luther yn rhydd o'i gaethiwed, a phrofodd lonaid ei fynwes o ryddid a thangnefedd yr efengyl.

Ymhen ychydig flynyddau, dechreuodd Luther bregethu mai y Bibl oedd rheol ffydd ac ymarweddiad, ac mai trwy ffydd yn unig mae cyfiawnhâu. Pregethodd yn erbyn cyfeiliornadau y Pab a'i grefydd. Ceisiwyd ei ddal i gael ei losgi fel heretic; ond yr oedd yr Arglwydd yn noddfa ac yn amddiffynfa iddo. Cyfieithodd y Bibl i iaith miliynau Germany, a chychwynodd ei ysgrifeniadau a'i weinidogaeth ddiwygiad a ymledodd fel tân gwyllt dros yr holl wledydd. Daeth ei enw yn ddychryn i'r Pab ei hun, a rhoddodd archoll i Babyddiaeth nas gall iachâu oddiwrtho byth mwy. Bu farw yn y flwyddyn 1546, yn 63 mlwydd oed. Dyna ychydig yn fyr i chwi o hanes

Y MYNACH YSGYDWODD Y BYD.



### MORRIS BACH HIRDREF.

**D**YMA hefyd fachgenyn bychan hynod teilwng o gofnodiad yn **NHREYSORFA Y PLANT.** Dangosai serch mawr at y Bibl cyn ei fod yn deirblwydd oed. Digiodd wrth Mary y forwyn yn yr oed hwnw am gymeryd y Bibl, trwy orthrech, oddiarno. Ond wedi cael y Bibl yn ôl, clywid ef yn gweddïo, “O Iesu Grist, maddeu ein pechodau; a maddeu bechodau mawr Mary.” Yr oedd hynodrwydd anarferol ei ymddangosiad, ei lygaid mawrion treiddgar, ei dalcen uchel llawn, ei drem fyfyr, ei sylliad synwrlawn yn wyneb y pregethwr yn yr addoldŷ, ei atebion call ac addfed, a hyny gan fachgen dan wyth mlwydd oed, yn profi nad “fel bachgen y deallai nac y meddyliai;” a buom yn ammheu weithiau wrth edrych arno,

“Ai angel yw  
Yn gwisgo mantell dynolryw?”

Dwy rinwedd nodedig ynddo, oedd, gofalu peidio gwneyd dim heb hysbysu a chael cenad ei rieni, a gofalu dyweyd y gwir bob amser. Dwy rinwedd rhagorol mewn plentyn. Os gofynai ei dad neu ei fam, “A wyt ti yn dyweyd y gwir, Morris?” Os canfyddai y gradd lleiaf o ammheuaeth yn wyneb un o honynt, neu os deallai iddo ddyweyd anwiredd yn ddjarwybod ar ei un arall, buasai yn sior o'i gyffroi i ddagrau.

Ychydig cyn ei farwolaeth daeth y gweinidog i edrych am dano.

“A wnewoh ohwi ddyweyd rhywbeth am Robert bach heddi-

yw, Mr. Williams? ebai; "pa le yr ydych yn meddwl ei fod, a pha beth y mae yn wneyd f?"

"O, yn y nefoedd yu canu y mae."

Wedi clustfeinio ychydig, dywedodd, Nid wyf yn ei glywed; a glywch chwi ef? Yr oedd yn anwyl iawn genyf! Mor dda fuaasai genyf gael myn'd ato!" Yn nystawrwydd nos Sabboth daearol, Mai 8fed, agorodd Sabboth tragywyddol y nef ei freichiau i'w dderbyn.

Morris! ow! Morris! ai marwol—yw e,

Hoewaf fachgen siriol!

-A ga'dd y gweryd i'w gôl

Y mwyn fiodeuyn dymunol!

Na rhosyn fynai 'r Iesu—i'w ardd oedd,

Herwydd hyn mae 'n tyfu

Mor swynol nes mawr synu—engyl glân,

Ac Iesu 'i hunan yn ei gusanu.

CYFAILL.



## LLYFRAU NEWYDDION.

[CYFANSODDIADAU BUDDUGOL EISTEDDFOD CYMREIGYDDION BETHESDA, dydd Gwyl Dewi, 1864, ynghyd a'r Beirniadaethau ar y Cyfansoddiadau. Bethesda: R. Jones.]


**AE** hwn yn llyfryn 8-plyg destlus, gwerth 1s. 6c., yn cynnwys traethodau ar "Lechfeini Sir Gaernarfon," gan Wm. Jones, Llangollen—"Llawlyfr Carnedd Llywelyn," gan Hugh Derfel Hughes—a "Drygau Gormes," gan R. Thomas, Bethesda. Pryddest ar y "Pharisëad a'r Publican," gan Gaerwenydd Pritchard—Cywydd ar "Gwymp Llywelyn" gan yr un—Pennillion "Toriad y Wawr" gan Robyn Wyn o Eifion, ac "Englyn i'r Lilygad" gan Ioan Arfon. Anthem ar Exod. xv. 3, 11, 18, gan Moelwynfab, ac Alaw ar "Cryd gwag fy mhlentyn," gan J. Parry, Jerusalem. Heblaw y cyfansoddiadau, y mae beirniadaethau y gwanol feirniaid ar y cyfansoddiadau hefyd wedi eu cyhoeddi, y rhai ydynt yn addysgiadol i gyfansoddwyr ieuainc. Mae y llyfryn yn un tra dyddorol; ac y mae yn dda genym weled y cynnyrchion y talwyd arian mawr am danynt yn cael eu cyhoeddi er mantais y wlad.

[EFFEITHIAU NIWEIDIOL DIOTA, gan W. Roberts (Gwyddno). Pwllheli: F. Evans. Pris 4 ceiniog.]

**RAETHAWD** buddugol yw hwn hefyd yn nghystadleueth Nefyn. Y mae ar bwnc mawr y dydd; ac yr ydym yn cydweled â'r Beirniad, fod yn anhawdd ei ddarllen heb ddychrynu yn yr olwg ar ddrygedd diota, a phenderfynu myned yn ei erbyn.

## EIN CERFLUNWYR IEUAINC.

**C**R calonogi ein cyfeillion fu yn cystadlu yn y cerfluniau ar goed, yr ydym yn cyhoeddi eto ddau neu dri o'u cynnyrchion. Dyma




Y CERBYD,

o waith "Glanhâwr Cerbydau," sef Mr. Samuel Nuttall, Trefynon, yr hwn sydd yn ngwasanaeth Mr. P. M. Evans, Cyhoeddwr TRYSORFA Y PLANT. Prawf y cerflun uchod y gall ei swâr gerfio ei gerbyd yn gywrain yn gystal a'i lanhâu. Dyma eto



ASYN

lluniaidd iawn, gan "W. Newo;" ac y mae yn dyweyd yn dda am ei lygad a'i law, dim ond cadw mewn cef mai ei gynnyg cyntaf ydyw. Dyma



PAGODA

an "J. V.," yr hwn sydd yn dangos cryn fedr. Dywedwn eto fod rhai hyn oll yn glod nid bychan i'w hawdwyr. Os bydd rhyw yfaiil gwladgarol a haelionus eto yn awyddus i gynnyg gwobr eu wobrau am gerflun, er mwyn cyffroi a chefnogi athrylith ein ynion ieuainc, bydd yn llawen genym roddi yr hysbysrwydd a'r mmodau.

## ROSE A BLANCHE;

*Neu Gynllwynion y Jesuitiaid.*

## PENNOD II.—BLINDERAU.

**T**RA yr oedd Dagobert yn eistedd yn ystafell wely y genethod, ac yn adrodd yr helyntion yn niwedd y bennod o'r blaen, daeth y cawr anwaraidd Goliah i mewn at Morok, â'i ddillad yn wlyb "dyferu."

"Wel?" ebai'r prophwyd, oblegid felly y gelwid Morok.

"Cefais ddigon o drafferth," ebai Goliah; "ond yn ffodus mae y noswaith mor dywell a'r *pitch*, ac y mae yn chwythu y gwlaw yn ddigon i ladd dyn."

"Ydyn' nhw yn ofni rhywbeth?"

"Na, nid wyf yn meddwl eu bod, 'meistr. Yr oeddech chwi wedi trefnu yn dda. Yr oedd seler a drws yn agor allan o dan ffenestr yr ystafell lle y maent yn cysgu. Pan roisoch chwi yr arwydd, aethum allan âg ystôl yn fy llaw, ac oddiar ben hono yr oeddwn yn gallu cyrhaedd hyd y ffenestr. Torais dwll yn y ffenestr; ond erbyn hyny, cyn i mi gael amser i ddim, dyna'r milwr yn dyfod i mewn. Ond yn ffodus, credodd mai y gwynt oedd. Beth bynag anfonodd y ci allan, a dywedodd wrtho, fel wrth ddyn, am chwilio yr holl le. Ond yr oeddwn i mewn tarawiad wedi ymaflyd yn yr ystôl, ac wedi cau y drws arnaf yn y seler. Gwarchod fi! leiciwn i ddim i'r hen gi hwnw gael gafael yn fy ngheg."

"Does dim eisieu ofni mwy ar y ci, yr wyf fi wedi ei gau i mewn yn yr ystabl gyda'r ceffyl," ebai Morok; "ond sut y bu wedi'n?"

"Ymhen tipyn wedi i'r ffenestr gael ei chau, aethum allan eithwaith; ond yr oedd wedi llenwi y tyllau yn y ffenestr â charpiau. Beth bynag, yr oeddwn yn gallu eu gweled yn dda—y ddwy ferch yn eistedd ar y gwely, ac yntau yn eistedd ar gadair wrth ei draed, ac yn adrodd yr hanes wrthynt, a'r papyrâu yn ei law."

"Ond beth am y gôd, Goliah? dyna'r peth pwysig."

"Yr oedd y walet ar y bwrdd gerllaw y ffenestr, lle yr oedd y lamp yn sefyll."

"Rhed i fyny i'r garet, a chyrhaedd y bicell hir acw i mi, a'r blanced," ebai Morok.

"A fyddai ddim yn well i mi ddyfod â basgedaid o'r cig acw hefyd i'r anifeiliaid yma? os wy'n fyw, hwy starfan'!"

"Y bicell a'r blanced," ebai Morok, mewn tôn chwerw a hys-iog; "ond yr wyf fi wedi dyweyd o'r blaen nad ydynt i gael yr un tamaid heno. Y mae genyf amcan wrth hyny."

"Beth nesaf?" ebai Goliah, wedi dwyn y bicell a'r blanced i'r feistr.

"Dos yn ôl at y ffenestr, a phan weli di y milwr yn rhedeg allan o'i ystafell, rhaid i ti ddyfeisio i ddiffodd y lamp, a myned i

mewn i gael y walet a'r papyrau; ac os llwyddi, y mae y bunt i ti. Wyt ti yn deall y cyfarwyddiadau?"

"I drwch y blewyn, 'meistr; a fi yw'r dyn i'w cario allan hefyd."

Cân gynted ag yr aeth Goliah allan, aeth Morok â'r blanced yn ei law allan, ac i'r ystabl lle yr oedd Jovial a'r ci. Neidiodd y ci a gafaelodd ynddo; ond yr oedd amwisg haiarn gan Morok am ei gnawd, o dan ei ddillad, felly nis gallasai dannedd Killjoy wneyd dim niwed iddo. Cylymodd Morok y blanced am ben Jovial fel nad allai weled, ac arweiniodd ef i ganol y lle yr oedd yr anifeiliaid rheibus, a chlôdd y drws ar ei ol. Yna tynodd y gorchudd oddiam ben y ceffyl. Neidiai y crëaduriaid ysglyfaethus yn erbyn bârau eu cages, gan ruo yn ddychrynlyd. Crynai Jovial nes ysgwyd y llawr dano, gan estyn ei ben, agor ei ffroenau, a'r chwys yn rhedeg dros ei ochrau. Yn y man, rhedodd y ceffyl â'i holl nerth ar draws y drws y daeth i fewn trwyddo, gan weryru dros y lle. Cyfrôdd hyn ruadau y bwystfilod rheibus; a rhwng eu rhuadau hwy, a gweryriad truenus y ceffyl, yr oedd yr holl westf wedi ei gyffroi â dychryn.

Yr oedd y panther wedi gwneyd sawl cynnyg i dori drws ei gawell, trwy neidio gyda grym mawr ar ei draws. A'r trydydd cynnyg, er dychryn i Morok ei hun, llwyddodd. Neidiodd ar y ceffyl dychrynedig, a thafodd ef i lawr. Cafodd y panther afael farwol yn ei wddf. Yr oedd ysgrechfeydd a gweryriadau y ceffyl yn ddychrynlyd tra yr oedd ei gnawd yn cael ei rwygo yn ddarnau gan y gelyn. Oddiallan i ddrws y menagerie clywid llais yn dywedyd mewn cyffro,—

"Jovial! Jovial! fy anwyl Jovial! mae dy feistr yma! Paid gofalu dim am danynt! Agorwch y drws! Help! help!"

Dagobert ydoedd mewn ymgais ofer i agoryd y drws.

"Jovial! fy machgen gwrol i! Cymer galon, old boy, daw dy feistr i dy wared! Help! help!"

Trôdd y crëadur ei ben at y drws, rhoddai ei ffroen dano, fel i arogl ei feistr, a gweryrai yn wanaidd i'w ateb. Ond nid oedd modd agor y drws; a phe buasai modd, buasai bywyd Dagobert mewn perygl. Eto yr oedd yn cicio y drws nes oedd yn grillian.

"Hai! cymerwch ofal am eich bywyd," gwaeddai Morok o hen ffenestr uwch ben Dagobert. "Gwyliwch fyned i mewn at y panther, onidê fe'ch tyn yn ysgyrion."

"Ond fy ngheffyl! O fy ngheffyl!" gwaeddai Dagobert, mewn tôn oedd yn ddigon i gyffroi y muriau.

Yr oedd pobl y tŷ oll erbyn hyn wedi deffro, ac wedi dyfod yno â lanterni ac arfau. "Beth yw yr holl stŵr yma?" meddai gŵr y tŷ. "Byddai yn dda gen'i tai holl showmen y crëaduriaid gwyltïon yma wedi myned o'r byd, a phob un na fedr gylymu ei geffyl wedi ei ysgubo ymaith gyda hwy. Os yw eich ceffyl wedi ei niweidio, 'does fater am dano; dylasech fod yn fwy gofalus am dano."

Nid oedd Dagobert yn sylwi dim, ond gwranddo yn bryderus am lais Jovial, a cheisio tori ei ffordd i mewn. Yn y man, dyma

Goliah, yr hwn oedd wedi dyfod i mewn trwy lwybr dirgel, yn agor y drws, ac yn dywedyd, "Dyna, gellwch ddyfod i mewn yn awr."

Yr oedd Jovial yn gorwedd yn farw a rhwygedig, a'i waed dros y lle; y panther wedi ei gau yn ei ffau; a Morok yn welw a dychrynedig ei wedd, yn cymeryd arno ddiolch i'r Arglwydd am y fath waredigaeth. Methodd Dagobert a dal ei ddwyllaw yn llonydd, ond rhuthrodd ar Morok, a dechreuodd ei bwnio yn echrydus. Ond gan fod amwisg haiarn dan ei ddrillad, nid oedd yn gwneyd dim niwed iddo. Yna trôdd at weddillion y ceffyl. Penliniodd yn y llyn o waed oedd ar y llawr, ymaffodd yn ei ben, a dechreuodd wylo yn hidl. Yr oedd wedi bod yn gwmpeini difyr iddo am fwy nag ugain mlynedd; ac yr oedd ei ymlyniad wrtho y fath, a'r anfantais o'i gollu yn awr pan ar daith mor bwysig, yn gyfryw fel yr oedd wedi ei orchfygu yn lân.

"Mae eich hymddygiad yn annyoddefol," ebai gŵr y tŷ, wedi i Dagobert godi o goffeidio pen y ceffyl. "Ar ol i'ch hesgeulustria chwi ddwyn y fath drafferth ar Morok, a'i dafu i berygl am ei fywyd gyda'r creaduriaid hyn, eich bod o'r galon i'w gamdrin eilwaith, fel pe buasai y drwg oll wrth ei ddrws ef."

"Yr wyf yn cyfaddef i mi fod yn fyrbwyll," ebai Dagobert. Ond, y mae yn sicr i chwi, fe ddylai y dyn yna roddi ceffyl i mi yn lle fy ffyddlawn Jovial, neu roddi digon o arian i mi i'w brynu. Yr wyf yn apelio atoch chwi i farnu rhyngom."

"Os gosodwch fi i farnu rhyngoch, byddaf yn sicr o farnu y eich herbyn chwi. A yw yn iawn i arall dalu am i chwi esgeuluso doddi eich ceffyl yn ddiogel yn yr ystabl?"

"Eithaf da," meddai Goliah; "waith gadewais i ddrws y menagerie yn nghilagored, er mwyn i'r bwystfilod gael ychydig awyr; ond yr oedd pob un o honynt yn berffaith ddiogel yn ei ffau."

"Yr wyf fi yn meddwl mai Morok a ddylai gwyno," ebai arall a safai yn ymyl. "Y mae wedi bod mewn perygl mawr, wedi archolli ei law yn dost."

"Ni waeth gen' i beth mae neb o honoch yn ei feddwl nac yn ei ddyweyd," ebai Dagobert, eto yn dechreu cyffroi. "Yr wyf i yn hawlio ceffyl cystal a'r un a gollais, neu arian i'w brynu, a hyny ar unwaith, i mi gael cychwyn o'r lle anffodus hwn."

"Mynaf fi iawn genych chwi am hyn, cewch weled," ebai Morok, gan godi ei law waedlyd i fyny.

"Nid oes dim ond un ffordd i benderfynu y pwnc," ebai gŵr y tŷ. "Gyrwch am yr ynad, a gosodwch yr holl achos o'i flaen ef."

"Dyna y peth oeddwn i yn myned i'w gynnyg," ebai Dagobert; "oblegid yr wyf yn gweled na chaf gyfiawnder heb hyny." Gyrodd gŵr y tŷ ei was i'w gyrchu, ac yn y cyfamser dywedodd wrth Dagobert:—

"Bydd yr ynad yn ddigon croes am aflonyddu arno yr awr hon o'r nos, ac nid oes arnaf fi yr un blys am fod â bys i mewn yn y

diffasdod, am hyny diolchaf i chwi, ŵr dyeithr, am ddangos eich *passport*; oblegid dylaswn fod wedi ei geisio cyn i chwi gael dyfod dan fy nghronglwyd."

"Y mae pob papyrau anghenrheidiol yn fy ngwalet, yn yr ystafell wely," ebai Dagobert. "Cewch hwynt yn union," ebai, ac ymaith âg ef i fyned at y genethod.

Dilynai Morok ef gyda llygad drwg a buddugol, a dywedai wrtho ei hun,—

"Does ganddo ef yn awr na cheffyl, nac arian, na phapgyrau. Ni feiddiaf wneyd ychwaneg; a rhaid i mi fod yn dra gwyliadwrus, rhag i ammheuaeth ddisgyn arnaf. Hyd yma yr wyf wedi bod yn llwyddiannus iawn, ac wedi tafu yr holl fai am yr hyn a ddygwyddodd ar ben y milwr. Y mae un peth yn sicr, sef nad all ef ddim cychwyn i'w ffordd am rai dyddiau, yr hyn yw yr amcan mawr mewn golwg yn y cwbl. Er fy mod i fy hun yn berffaith yn y tywyllwch am y pwys o rwystro hen filwr a dwy enethig ar eu ffordd. Ond dyna, nid wyf fi ond gwas; y mae y rhai sydd yn fy ngosod ar waith yn deall."

Ymhen chwarter awr yr oedd Karl ar ei ffordd i Leipsic, yn myned â llythyr oddiwrth Morok, wedi ei gyfeirio at Mr. Rodin, i Paris.

"Diolch i'r Nefoedd!" meddai Dagobert, wrth nesu at ystafell y merched; "y mae Killjoy yn cadw gwyliadwriaeth ar y merched." Synwyd ef wrth weled yr ystafell yn dywell. Galwodd, ond nid oedd neb yn ateb. Yr oedd un wedi llewygu gan ofn, a'r llall yn rhy ddychrynedig i ateb. Ond yn fuan, yn swn llais Dagobert, yr oedd y ddwy wedi dyfod atynt eu hunain.

"O, Dagobert! pa le buoch chiwi! Mor falch ydym i'ch gwelod! Yr ydym yn awr yn ddiogel."

"Ydych, fy anwyliaid," ebai yntau, "ac edrychaf fi na ddaw ychwaneg o berygl ar eich traws. Beth," meddai, dan wasgu llaw pob un yn ei law fawr arw—"beth a'ch dychrynodd gymaint yn fy absennoldeb?"

"O, Dagobert, peidiwch gofyn i ni adrodd; buom bron cael ein dychrynu i farwolaeth." Ond wedi eu calonogi ychydig, adroddasant y modd yr agorwyd y ffenestr, y diffoddwyd y lamp, ac yr ymwelwyd â'r ystafell gan Goliah.

"Y mae drwg yn y lle hwn," ebai Dagobert; "mor anffodus fuom i ddisgyn yma! Ond nid oedd yr un lle arall i'w gael." Cymerodd *match* o'i boced, cynneuodd ei lamp, a dychrynwyd ef yn fwy nag erioed wrth weled ei walet wedi ei thywallt allan, a'i ddyddlyfr a'i bapgyrau wedi myned. Aeth i gymaint cyffro nes y dychrynodd y merched, ac y methent gael gair o'i enau. Yr oedd yn crynu fel dalen, ac wedi myned yn fwy ofnus nag y bu erioed yn nghanol poethder brwydr.

"O, anwyl Dagobert," meddai Rose, "dywedwch wrth eich hanwyl ferched beth sydd yn eich blino? Pam yr ydych yn edrych mor welw ac anobeithiol? A ydym ni wedi gwneyd rhywbeth i'ch digio?"



"A ydyw yn bosibl fod y rhai hyn eto wedi myned—wedi myned!" ebai Dagobert yn uchel wrtho ei hun.

Gyda hyn yr oedd Killjoy o'r tu allan i'r drws yn cyfarth, a chlywid llais gŵr y tŷ yn gwaeddi,—

"Holo! galwch ar y ci—pam na baech yn cylymu hwna? Pa le mae eich papyrau? pahan na ddygwch hwynt, a'r ynad yn aros am danynt?"

(*I'w barhdu.*)

## Y WENYNEN.

### PENNOD V.

**MAE** y dilias, neu gelloedd y mêl, yn cael eu gwneyd o gŵyr. Ond o ba le y ceir y cŵyr, a pha fodd y defnyddir ef? Rhywbeth yw y cŵyr ag sydd yn dyfod oddiwrth gorff y wenynen. Ymddengys ar y cyntaf fel cen rhwng darnau neu fod rwyau y corff, odditani. Mae gweithiad y dalenau bychain hyn i gŵyr yn orchwyl hynod iawn.

Pan fydd haid o wenyn yn ymadael, i ymsefydlu mewn man neu anewn llestr newydd, y maent bob amser yn myned yn llwytho o fêl. Y mae llawer o bethau yn galw am hyn. Ymlaenaf, y mae y gwenyn pan yn llawn o fêl bob amser mewn tymher dda ac ni byddant y pryd hwnw byth yn brathu. Felly y maent mewn cyflwr da i'w llestrio; a phe ymsefydlent ar gorff y dyn, braidd na byddai yn ddiberygl iddo. Hefyd, wrth fod ganddynt dipy o gynnysgaeth go lew, gallent ymdaro ped elai yn dywydd garw a ddeuddydd neu dri. Y mae yn ofynol hefyd fod ganddynt lawnder o fêl er mwyn cynnyrchu cŵyr i ddechreu adeiladu.

Y peth cyntaf a wna y gweithwyr cŵyr, ar ol cael llestr newydd yw ymfurfio yn fath o gadwyni dolenog wrth dafnod y llestr. Ymalla y rhai cyntaf a elo i'r llestr â'u traed blaen yn nhop y llestr ymgripia y lleill i fyny, ac ymaflant â'u traed blaen yn nhraed y lleill; ac felly eilwaith, nes ffurfio lliaws o gadwyni dolenog, a dau ben yn sicr wrth y top. Bydd y rhai hyn fel math o ysgolig i eraill ddringo i fyny. Byddant mewn ychydig amser y croesi eu gilydd ymhob cyfeiriad, a thop y llestr yn orchuddiedig â gwenyn, a'r olygfa yn un brydferth dros ben.

Bernir mai un amcan i'r dyfeisiau hyn yw cynhesu y llestr, a ddwyn i wres priodol i drin y cŵyr at ddechreu adeiladu. Mae pan yn ddalenau bychain ar gorff y wenynen, a hithau mewn lloer, yn galed ac anystwyth; ac heb ei feddalu â gwres, nis gellir gweithio âg ef, mwy nag y gall y crydd drin ei gŵyr ar y rhew.

Ar ol ymfurfio yn y wedd yma, erys y gweithwyr cŵyr yn llonydd am agos 24 awr. Yr amser hwn bydd y cŵyr yn ymfurfio fel y dywedwyd, yn gen deneudan gorff y wenynen. Y mae y defnydd hwn yn ymddidoli oddiwrth y mêl oedd gan y wenynen yn mêl-gwd. Pan fydd y cŵyr wedi ymfurfio, ac mewn lleithde

cynhwys tuag at ei drin, bydd un o'r gwenyn yn ymryddhâu o'i sefyllfa flaenorol, yn ymsefydlu wrth dop y llestr, yn gwthio y gwenyn eraill i fwrdd, ac yn mynu tua modfedd ymhob ffordd o le iddi ei hun. Hqn sydd yn awr yn gosod sylfaen yr holl adeilad.

Mae gan y gweithwyr bâr o efeiliau wrth gymmalau eu traed ol; gyda y rhai hyn, torant y cen sydd odditanynt, ac â'u traed blaen cludant ef i'w genau. Yna torant ef yn dameidiau mân, a lleithiant ef gyda gwlybwr â'u tafodau. Yn yr ymweithiad yma, daw ei liw yn fwy goleu, a daw allan o'r genau wedi ei faeddu a'i dymheru, ar ffurf riban cul a theneu.

Wedi ei gael ef yn ddigon tymherus, gesyd ef fel càreg sylfaen, yn llinyn bychan teneu, wrth dop y llestr. Yna tyr ddarn newydd oddiwrth ei chorff eilwaith i ddarparu hwnw eto gyda'r un llafur a gofal, a gesyd ef fel maen newydd ar y llall. Gwna felly eilwaith, hyd nes byddo wedi defnyddio yr oll a fêdd. Yna try o'r neilldu, a daw un arall yn ei lle; ac un arall yn lle hono eilwaith; ac yn fuan bydd lle i amryw weithio yr un pryd, ac felly yr â y gwaith ymlaen yn gyflym.

Nid yw y rhai hyn eto ond y gweithwyr mwyaf cyffredin—y *labrwyfyr*, ac nid y celfyddwyr cywrain. Ar ol y rhai hyn, daw y cell-adeiladwyr, i farcio lle, ac i ddechreu adeiladu y celloedd gyda manylder a chywreinrwydd digyffelyb.

Ymddengys fod y gwenyn yn barnu eu gwaith nid â'u llygaid, ond â'u teimlyddion. Y mae y rhai hyn yn llygaid ac yn ddwy-law iddynt. Dyma eu prif offer adeiladu. Y mae gwenyn yn wrthwynebol i oleuni yn y llestr. Cauant bob agen ar unwaith fydd yn gollwng goleuni i mewn. Yn y tywyllwch y maent yn adeiladu eu diliau a'u celloedd, yn eu llenwi â mêl, yn porthi eu rhai bychain, ac yn gwneyd holl waith eu hadeiladaeth ryfeddol.

Ar y cyntaf, pan mae y celloedd yn cael eu hadeiladu, y maent o liw gwŷn a phŵl, a'r defnyddiau yn llaith a garw. Ond ymhen ychydig ddyddiau, y maent yn caledu, a gwawr felen yn ymdaenu dros y cwbl. Nid ydys eto wedi deall yr achos o'r lliw melynaidd hwn ar grwybr neu adeiladaeth y gwenyn. Cyn hyn byddai y cyffyrddiad lleiaf yn ddigon i chwilfriwio y gwaith; ond ar ol hyn y mae yn galed a sefydlog.



## Y CWESTIYNAU GWOBURWYEDIG.

3. **B**A grëadur direswm y dywed yr Arglwydd saith o bethau am dano wrth un o'i brophwydi, yn yr un adnod, er mwyn dangos gwirioneddau perthynol i'r genedl Iuddewig?
4. Ymha amgylchiad mawr y dywed Apostol, mewn un frawddeg fêr, fod y ddau beth annhebycaf i'w gilydd yn nghymeriad yr Anfeidrol yn cael eu hegluro?



J. R., Treforia.

JENNY JONES.

THE OLD ARM CHAIR.

I
 LOVE it, I love it, and who shall dare  
 To chide me for loving that old arm chair?  
 I've treasured it long as a holy prize,  
 I've bedew'd it with tears, I've embalm'd it with sighs!  
 'T is bound by a thousand bands to my heart,  
 Not a tie will break, not a link will start:  
 Would ye learn the spell? A mother sat there,  
 And a sacred thing is that "Old Arm Chair!"

In childhood's home I linger'd near  
 That hallow'd seat with listening ear;  
 And gentle words that mother would say,  
 To teach me to live, and fit me to die;  
 She told me that shame would never betide  
 With truth for my creed, and God for my guide;  
 She taught me to lisp my earliest pray'r  
 As I knelt beside that "Old Arm Chair."

I sat and watch'd her many a day,  
 When her eyes grew dim, and her locks were grey;  
 And I almost worshipp'd her when she smil'd,  
 And turn'd from her Bible to bless her child;

Years roll'd on, but the last one sped,  
My idol was shatter'd, my earth-star fled;  
I learnt how much the heart can bear,  
When I saw her die in that "Old Arm Chair!"

'T is past! 't is past! but I gaze on it now  
With quivering breath, and a throbbing brow!  
'T was there she nurs'd me, 't was there she died,  
And memory flows like lava tide:  
Say it is folly, and deem me weak  
While scalding drops run down my cheek;  
But, I love it, I love it, and cannot tear  
My soul from a mother's "Old Arm Chair."

ELIZA COOKE.



CYMRU A'R BIBL.

**B**AE y sylwadau canlynol wedi eu cymeryd o araeth ragorol o eiddo ein cyfaill, y Parch. D. Rowlands, M.A., Llanidloes, a draddodwyd yn nghyfarfod blynyddol Cymdeithas y Bibl. yn Manchester:—Cyhoeddwyd cyfieithiad Salesbury o'r Testament Newydd, y waith gyntaf, yn 1551. Yn 1558, cyhoeddwyd yr holl Fibl wedi ei gyfieithu i'r Cymraeg, gan Dr. Morgan. Yn 1620, cyhoeddwyd 2il argraffiad, wedi ei ddiwygio gan Dr. Richard Parry, esgob Llanelwy. Yn 1630, cyhoeddwyd 3ydd argraffiad gan Syr Thomas Middleton, a Mr. Rowland Heylin. Cynnwysai yr argraffiad hwn y "Salmau Cân" gan yr Archddiacon Prys. Yn 1654, cyhoeddwyd 4ydd argraffiad o 6,000 o gopiau gan yr hen ddiwygwr, Waltar Cradog, a Vavasor Powell. Yn 1677, cyhoeddwyd 5ed argraffiad o 8,000 o gopiau. O'r rhai hyn, gwasgarwyd mil yn rhad, a gwerthwyd y gweddill am bedwar swllt y copi. Yn 1690, cyhoeddwyd y 6ed argraffiad o 10,000 o gopiau, yr hwn a elwid "Bibl Cromwell." Yn yr un flwyddyn, cyhoeddwyd y 7fed argraffiad, mewn Bibl unplyg at wasanaeth yr eglwysi. Yn 1718, cyhoeddodd y Gymdeithas er lledaenu Gwybodaeth Gristionogol yr 8fed argraffiad o 10,000 o gopiau. Yn 1727, cyhoeddodd yr un Gymdeithas y 9fed argraffiad o 5,000 o gopiau; ac yn 1747, y 10fed argraffiad o 15,000 o gopiau; ac yn 1752, yr 11eg argraffiad o 15,000 o gopiau; ac yn 1769, y 12fed argraffiad o 20,000 o gopiau. Yn 1770, cyhoeddwyd y 13eg argraffiad, yr hwn ydoedd Bibl Teuluaidd Peter Williams, gyda sylwadau ymarferol. Mae y Bibl hwn wedi ei argraffu ddwsin o weithiau oddiar hynny, ac wedi dyfod yn Fibl teuluaidd trwy y Dywysogaeth. Yn 1789, cyhoeddwyd y 14eg argraffiad gan y Gymdeithas er lledaenu Gwybodaeth Gristionogol. Cyhoeddwyd y 15fed argraffiad, gyda chyfeiriadau John Canne, yn Nhrefecca, yn 1790. Yn 1799, cyhoeddodd y Gymdeithas uchod yr 16eg argraffiad o 10,000 o Fiblau, a 2,000 o Destamentau. Ac heblaw yr argraffiadau yma o'r holl Fibl, cyhoeddwyd amryw argraffiadau o'r Testament Newydd ar wahân oddiar amser cyhoeddiad Testament

Salesbury hyd gyhoeddiad Testamentau Rhydychain ac Amwythig yn 1800. Ond er yr holl gyflenwadau hyn, yr oedd anghenion ysbrydol y bobl, a gyffrôid gan y diwygiadau crefyddol, a chan yr Ysgol Sabbothol, yn peri fod galw mawr am Air Duw ymysg y Cymry.

Pan oedd yr enwog Charles o'r Bala mewn gwewyr ysbryd am ryw lwybr i gael Biblau i gyfarfod anghenion ei gydwladwyr, un bore yn y flwyddyn 1802, fel yr oedd yn cerdded ar un o ystryd-oedd y Bala, cyfarfyddodd â geneth fechan oedd yn arfer ei wrando yn pregethu. Gofynnodd iddi, yn ol ei arfer, pa le yr oedd ei destun y Sabboth blaenorol. Ond yn lle ateb, fel y byddai yn arfer, gostyngodd ei phen i lawr yn fud. "Ellwch chiwi ddim dyweyd fy nhestun, fy ngeneth fach i?" Yna torodd yr eneth i wyllo, a dywedodd, "Mae y tywydd wedi bod mor arw, syr, fel nad allwn i ddim myned at y Bibl gael dysgu y testun."—"Ddim myned at y Bibl," ebe Mr. Charles, "sut hyny?" Dywedodd y ferch fod ganddi saith milldir o ffordd i fyned bob wythnos i gael gweled y Bibl i ddysgu testun y pregethwr. Aeth hyn i galon Mr. Charles, ac aeth yn fuan i Lundain i ymgynghori, pan gynllun- iwyd i gael Cymdeithas i roddi

"Bibl i bawb o bobl y byd."

Dywed fy nghyfaill, y Parch. Thomas Phillips, un o weision ffyddlonaf Cymdeithas y Bibl, fod miliwn a dau can' mil (1,200,000) o gopiau o Fiblau a Thestamentau Cymreig, heblaw dau cant a hanner o filoedd (250,000) o rai Seisonig, wedi eu gwasgaru gan y Gymdeithas hon yn y Dywysogaeth. Ac nid yw y Cymry yn anniolchgar am y caredigrwydd hyn. Y mae ynddi 427 o Gymdeithasau cynnorthwyol; ac y mae y rhai hyn, ynghyd a'r Cangenau Cymreig yn nhrefi Lloegr, wedi cyfranu at y Gymdeithas y flwyddyn ddiweddar, £10,101. 2s. 2c.

Y fath symudiad ardderchog yw y Gymdeithas hon, ac mor fychan oedd ei chychwyniad! Dim ond y deigrŷn ar rudd yr eneth o Sir Feirionydd. Cafodd yr anffodus Gadben Speke o hyn i darddiad y Nilus yn y llyn hwnw yn Africa. Mae tarddiad y Hafren, sydd yn fôr ei hunan wrth fyned i'r môr, ychydig o ffordiroedd uwchlaw fy nghartref i, lle mae yn ffrydio allan o Plunlunon, mor fychan ag y gall plentyn ei chroesi. Ond dyma afon fwy ardderchog na'r un o honynt—Cymdeithas y Bibl; y mae yn rhedeg yn afon iachawdwriaeth i'r holl fyd; ac yr ydym yd cael o hyd i'w tharddiant yn neigrŷn yr enethig Gymreig!

## Y PETHAU WELAIS AC NI WELAIS.



WELAIS fonedd a chanolradd  
Lawer tro yn gwledda 'u cydradd;  
Ond ni welais ond anamlaf,  
Wrth eu bord y llwm a'r tlotaf.

Gwelais lawer yn gofidio,  
 Waith aros cyd mewn ffair i wario;  
 Erioed ni welais neb edifar  
 Waith dod adref yn rhy gynnar.

Gwelais rai yn cuchio 'n resyn  
 Wrth bris TRYSORFA 'R PLANT am flwyddyn,  
 A hwythau yn y flwyddyn hono  
 Yn gwario sofrin am dybaco.

Gwelais ambell ferch yn ddiwad,  
 Nad oedd byth yn fawr am siarad;  
 Ond gwelais lawer mwy yn hynod  
 Am arfer siarad tipyn gormod.

Gwelais hogiau balch a gwirion,  
 Yn ceisio 'mchwyddo chwap yn ddynion;  
 Ac i'r dyben mawr o frysio,  
 Rhaid cael cwrw a thybaco.

Gwelais Mary, Tan y ffynnon,  
 O ddrws i ddrws yn uhai 'chymdogion;  
 Ond byth ni welais Siôn, Hewl geryg,  
 Yn dod i dalu 'r arian benthg.

Mi ddysgais wers wrth arfer nithio,  
 Nas galla' i 'n fuan ei hanghofio,—  
 Na dddwg y gwynt mo 'r gronyn goraf,  
 Yr us heb ball a chwythir bellaf.

IAGO.

---

## DWY ENETH FACH A'R GENADAETH.

**D**R oedd dwy eneth fach dlawd yn byw yn y wlad yn teimlo  
 yn awyddus iawn am wneuthur rhywbeth er mwyn y Pa-  
 ganiaid. Un diwrnod gofynodd un o'u cymdeithion,—

“Pam na wnewch chwi dreio? Dechreuwch gyda rhywbeth.”

“Ië, ond pa fodd i ddechreu!” gofynai y genethod.

Rhoddodd y cynllun hynod a ganlyn iddynt i'w gynnyg:—Bob  
 dydd, wrth ddyfod adref o'r ysgol, yr oeddent i gasglu cymaint a all-  
 ent o'r blodau bychain a elwir *violets*, a'u gwerthu i'w cymydogion.  
 Ymgwymerodd y plant â'r gorchwyl; ond er eu siomedigaeth, nid  
 oedd neb yn foddolawn rhoddi arian am y blodau. Ar ol meddwl  
 ac ymgynghori, penderfynodd y merched ofyn pinau bach am y  
 blodau. Cafwyd y rhei'ny yn rhwydd. Gosodent y pinau mewn  
 blwch, a gwerthent hwynt yn siop y pentref. Llwyddodd y  
 cynllun. Dechreuodd y cymydogion dafu ceniogau i mewn i'r  
 blwch pinau. A'r diwedd fu i zel ac esiampl y ddwy eneth fach  
 fod yn foddion i ffurfio cymdeithas genadol yn y lle.

## DARLLEN YN Y CWRDD.

“**D**IS gallaf fyned i'r cwrdd heddyw, Margaret,” ebai Mrs. Leslie wrth ei merch, ac edrychai yn welw iawn pan oedd yn siarad; “ond y mae yn rhaid i chwi fyned, a bod yn ferch dda.”

“O byddaf, mam,” meddai Margaret, gan daflu edrychiad pryderus arni; ac aeth yn heinyf ac ysgafn ar draws y caeau i'r Ysgol Sabbothol, yr hon oedd o flaen yr oedfa. Yr oedd yr ysgol yn fuan trosodd, a chyda llyfr newydd dysglauer o'r llyfrgell, aeth Margaret i'w heisteddle, gael dechreu ei ddarllen cyn dechreu y cwrdd.

Dywedai ei chydwybod wrth Margaret yn ddystaw,—“Nid yw eich mam yn foddllawn i chwi wneyd peth fel hyna. Bydd eich meddwl yn llawn o'r ystori sydd yn y llyfr, ac nis gellwch wrando y bregeth.”

“O, 'does dim raid bod mor fanwl a hyna,” meddyliai Margaret. Ac eisteddodd i lawr yn benderfynol i ddarllen y llyfr.

Llanwyd yr addoldy yn fuan, rhoddodd y gweinidog emya allan i'w chanu, a dechreuodd y cantorion ganu cyn iddi feddwl am ganu y llyfr. O'r diwedd cauodd ef, ac nid oedd yn meddwl ei agor eilwaith, ac ni chyfyrrdodd âg ef ychwaith nes i'r bregeth ddechreu. Clywodd y testun, nododd ef yn ei Bibl bychan, ac yna llyncwyd ei meddwl gan yr ystori. Yr oedd y brofedigaeth yn ormod iddi yn ei nerth ei hun i'w gwrthwynebu. Pa hyd y darllenodd, ni wyddai; ond yr oedd y pregethwr bron terfyna pan sisialodd rhywun:—“Margaret, a fuasech chwi yn darllen pa buasai eich mam yma?”

Ymunionodd yn gyffrous. Cofiodd ar darawiad am ei hatparod yn y bore. “O byddaf, 'mam,” a'i gwers o'r testun, “Pere wch fy nghysegr: yr Arglwydd ydwyf fi;” a dechreuodd dagnu o ofid a chywilydd lenwi ei llygaid. Cyffesodd Margaret phechod i'w mam cyn iddi gysgu, ac i'r Arglwydd hefyd, ac yr wyd yn gobeithio iddi gael maddeuant.

Dywedwch wrthyf, fy nghyfaill ieuanc, a oes genych chi gyffelyb bechod i'w gyffesu? Os oes, cymerwch y cyfle cyn i wneyd hyny. Cofiwch hefyd mai un o brif nodau plant yw ymddwyn cystal yn absenoldeb eu rhieni ag yn eu presenoldeb.

JAN

## FY MAM.

**D**A enw dery ar linyan serch  
Y plentyn gwan, boed ef yn fab neu ferch,  
Fel enw mam? Rhyw enw swynol yw;  
Gwyn fyd y plant y mae eu mam yn fyw.

Adgofion bore f' oes sydd oll ynglŷn  
 Ag enw fy anwylaidd fam fy hun ;  
 A! fel chwareuwn gylch ei thraed yn llon,  
 Heb ofid blin i bwysu ar fy mron.

Os denai rhyw blentynaidd groes i'm rhan,  
 Fy mam symudai hono yn y fan ;  
 Ond erbyn hyn mae hi mewn gwlad sydd well,  
 O gyrhaedd pob rhyw groes yn ddigon pell.

Mae 'n rhodio 'r heirdd heolydd o aur pur,  
 Gan yfed awel iachus Salem dir ;  
 Ni theimla yno radd o "ddiffyg gwynt,"  
 I'w rhwystro 'mlaen ar ei nefolaidd hynt ;  
 Mae yno o hyd yn rhyw dragywyddol haf,  
 Ni chlywir byth o'r wlad,—“'R wy 'n glaf,” “'r wy 'n glaf.”

Ll—dr.

J. E.

CORON FACH I BLENTYN.

**B**R oedd merch fach anwyl yn Iwerddon mewn tralod mawr yn ei gwely un bore pan aeth ei mam i mewn i'w hystafell. Yr oedd yn llefain (crio) y dagrau yn hidl. Gofynnodd ei mam yn bryderus,

“Beth yw'r mater, fy anwyl,—ydych chwi yn sâl?”

“O, nac wyf!” “ebai'r plentyn;” “ond O! breuddwydiais freuddwyd mor hyfryd neithiwyf.”

“Am beth ydoedd, fy merch i?”

“Yr oeddwn yn fy ngweled wrth ddrws rhyw le ardderchog; rhaid mai y nefoedd ydoedd. Yr oedd angelion hardd yn cerdded oddiamgylch yno, a llawer o ddynion wedi tyfu i fyny, ac wedi eu gwisgo mewn gwisgoedd dysglaer, ac yn llewyrchu fel yr haul. Yr oeddylt oll hefyd yn gwisgo coronau ar eu penau; oblegid y tu fewn i'r drws yr oedd crugiau mawrion o goronau, a'r angelion yn brysur yn estyn coron i bob un oedd yn myned i mewn.

“Yna, mamma, edrychais os oedd yno *goronau bychain* yn fy ffittio i; ond methwn a gweled yr un! Yna dechreuais wylo, a gofynnodd yr angelion i mi, pahan yr oeddwn yn wylo yn y *nefoedd*. Dywedais innau wrthynt, ‘Am nad oes yr un goron genyf.’ Ar hyn cymerasant fi yn dyner gerfydd fy llaw, ac arweiniasant fi i le ag yr oedd lliaws mawr o goronau prydfert h i blant; a'r cyntaf a roddais i ar fy mhen yr oedd yn fy ffittio i drwch y blewyn. O! 'mam, yr oeddwn yn ddedwydd, a choron ar fy mhen, mewn lle mor ogoneddus! Ac yr wyf yn awr yn wylo am fy mod wedi deffro, a chael fy hunan yn fy ngwely bach fan yna, a deall nad oedd y cyfan ond breuddwyd.”

Yn fuan ar ol hyn, cymerwyd yr eneth fechan ragorol yn glaf, a bu farw. Bu farw dan ganu a gorfoleddu, a'i phwys ar ei Hiachawdwr; ac nid oes un ddadl nad aeth hi i'r lle hyfryd yr oedd mor awyddus am fyned iddo. Y mae yn awr yn bwrw ei “choron fach” wrth draed y Gŵr fu farw drosti.



## ANGEL OUT.

“ANGEL” out, but not within,—  
 Dyma enw 'r tafarn hyn :  
 Coeliwch fi, breswylwyr gwirion,  
 Ni ddaw atoch fyth angelion.

Y gwir i chwi, am dai y cwrw,  
 Angelion drwg sydd yn eu llanw ;  
 Gwell heb gwmni 'r engyl yna,  
 Dyna ydyw barn Deborah.

Aberaeron.

DEBORAH.

## DYDDANION.

YR HAUL A'R DDAEAR.

“S yw y ddaear yn grwn, ac yn myned o amgylch o hyd, beth sydd yn ei dal i fyny?” gofynai merch i'w hathraw. “Mae dysgedigion yn dyweyd mai yr haul sydd yn ei dal i fyny trwy nerth attyniad,” ebai'r athraw. “Ond beth sydd yn ei dal ar ol i'r haul fyn'd i lawr?”

LLAI O WAITH.

“GALWODD sweep bach yn siop y pobydd am dorth ddwy geiniog. Wrth ei gweled yn un fechan iawn, dywedodd wrth y pobydd, “Rhaid fod hon yn brin o bwysau.” “Na hidi hyny,” ebai gŵr y toes, “bydd yn hawddach i ti ei chario.” “Gwir,” ebai'r llanc du, gan dafu ceiniog a dimai ar y counter, a myned ymaith. Galwodd y pobydd ar ei ol, “Fachgen, ceiniog a dimai sydd yma.” “Na hidiwch,” ebai'r llanc, “bydd yn hawddach i chwi eu cyfrif.”

SAM Y NEGRO.

“SAETH Negro yn ddiweddar i mewn i fyddin y Gogledd y America, pryd y cymerodd yr ymddyddan canlynol le rhyng ddo a'r prif swyddog:—“Beth yw eich enw?” “Enw fi y Sam.” “Sam peth?” “Na, ser, nid Sam Peth, dim ond Sam.” “Beth yw eich enw arall?” “O's gen i dim enw arall, ser; Sam yw fi, dyna' gyd.” “Beth yw enw'ch meistr?” “O's gen i dim enw un massa; ma' massa wedi rhedeg; ma' fi niger rhydd 'nawr.” “Wel, beth yw enw'ch tad a'ch mam?” “O's gen i neb, ser, a neb erio'd. Sam yw fi, dyna gyd—a neb arall, ser.” “O's gen i dim enw chwi ddim brodyr neu chworydd?” “Nac o's, ser,—bu neb erio'd. Dim brawd, dim chwa'r, dim tad, dim mam, dim massa.—Dim ond Sam. Pan ma' chi'n gwel'd Sam, dyna chi'n gwel'd Sam bob un.”



# TRYSORFA Y PLANT.

RHIF. XXXIX.]

MAWRTH, 1865.

[CYF. IV.

## STORI ADA.

GAN EI MAM.

“O enau plant bychain a rhai yn sugno y perffeithiaist foliant.”

MAE yr hanes hynod a ganlyn wedi ei ysgrifenu gan fam yr eneth, yr hon sydd yn dewis peidio cyhoeddi ei henw. Ni fwriadwyd yr hanes ar y cyntaf ond i gylch bychan o gyf-illion, ond mlynwyd rhoddi cyhoedduswydd iddo. Mae yn digon posibl y bydd gwatwarwyr yn gwawdio ymadroddion uwiol ac addfed y plentyn, ac anghredwyr yn awgrymu mai wedi ei dysgu i'w hadrodd ydoedd. Ond tystia y fam nad oedd r un o ymadroddion Ada wedi eu dysgu iddi. Nid oeddent ond rwyth yr hyn a ddysgwyd iddi gan yr Ysbryd Glân. Ni chlywyd hi erioed yn arfer geiriau wedi eu cymeryd i fyny, heb rwyf ynddynt. Ni chlywyd hi erioed yn gofyn mewn gweddi m beth nad oedd arni ei eisieu, ac y gwyddai fod arni ei eisieu. eth hawdd yw dysgu ffurf gweddi i blentyn, ond nis gall neb ad Duw gynnyrchu dymuniad yn y galon am y pethau yr ydys a gweddi am danynt. Unig ymgais yr ysgrifenydd yw gwneyd a hysbys ei waith Ef yn yr eneth anwyl hon, “er mawl gogont ei ras Ef.”

Ganwyd Ada yn Mehefin, 1857. Y peth cyntaf wyf yn gofio ewn cysylltiad â'i bywyd ysbrydol ydoedd pan oddeutu blwydd

a hanner oed. Daeth i mewn i'm hystafell yn Ionawr, 1859; tynodd wrth fy ngŵn, a dywedodd, "Mamma, ar eich gliniau."

Aethum ar fy ngliniau, a gwnaeth hithau yr un modd, a dywedodd, "Gweddiwch, mamma."

Dywedais innau, "Caiff Ada weddio."

Rhododd ei dwylaw bychain yn mhleth, a dywedodd, "Da! Iesu bach!"

Dyma fu ei hunig weddi am gryn amser.

Unwaith, pan oedd wedi bod yn gweddio yn ddystaw, gofynais iddi beth oedd yn ddyweyd. Atebodd hithau, "Dyweyd wrth Iesu, O Arglwydd, Da!"

Ond er ei bod yn awr yn teimlo yn ddiolchgar i'r Iesu am bob peth, ymddengys nad oedd ynddi eto gariad personol ato.

Un diwrnod, pan oedd tua dwy flwydd oed, gofynais ganddi weddio; ond gwrthododd wneyd, gan ddywedyd, "Oes dim eisieu gweddio arnaf fi 'nawr."

Dywedais innau, "Mae plant sydd yn caru Iesu Grist yn hoff o weddio."

Atebodd Ada, "'Dwyf fi ddim yn caru yr Iesu."

Dywedais wrthi, "Mae clywed Ada yn dyweyd hyn yn fy mlino yn fawr."

Torodd allan i wylo, a dywedodd, "O, mamma, os gwelwch yn dda, peidiwch a blino. Nid wyf am i chwi fod yn anhapus." Ymddangosai mor ofidus, fel y cefais gryn drafferth i'w chysuro.

Aeth i chwareu gyda'i theganau ar y carped, ond ymhen hanner awr dechreuodd wylo yn ddisymwth. Gofynais iddi beth oedd y mater. Cododd i fyny a rheddodd ataf; yna taflodd ei hun i lawr d'm blaen, a gofynodd gyda'r drem fwyaf erfyniol, â'r dagrau yn llyso dros ei gruddiau, "O, mamma, gwnewch i mi garu yr Iesu!"

Dywedais wrthi nad allaswn i, ond y gallasai yr Iesu, ac y gwnaethai, dim ond iddi ofyn ganddo.

Penliniodd yn y fan, a cheisiodd ganddo Ef wneuthur iddi garu Ef.

Ar ol hyn siaradai am dano bob amser gyda'r anwyldeb mwy a dywedai yn fynych wrth chwaer henach, Edith, "Yr wyf yn caru yr Iesu mor fawr!"

A phan ofynai Edith iddi paham, dywedai, "Am ei fod yn garedig."

Pan tua dwy flwydd oed, dechreuodd weddio am bob peth oedd anghen arni. Gofynai yn fynych am galon newydd, ac a gael tynu ei chalon ddrwg ymaith.

Ni ddysgwyd yr un weddi iddi erioed nes ydoedd yn dda blwydd a hanner; felly arferai ddefnyddio ei geiriau ei hun, a ystyriai bob peth yn briodol destun gweddi.

Pan ddywedodd ei mammaeth unwaith, "Yr wyf fi yn awr yn hen, ac nid wyf mor gryf ag oeddwn yn arfer bod," dywedodd Ada, "Na ofelwch am hyn, Ninny; gofynaf fi i'r Iesu eich gwneud yn ieuanc eto."

Pan oddeutu dwy flwydd a hanner, yr oedd wedi bod yn brysur

yn trefnu ei hystafell wely yn Llundain, a daeth i ddyweyd wrthyf nad oedd dim canwyllbrenau *china* uwch ben y tân, fel yn yr ystafelloedd eraill. Dywedais innau, "Dyna onid; beth wnawn ni?"

"Mi wn i," ebai ar unwaith. Rhedodd i'r ystafell arall am fynyd. Wedi dychwelyd dywedodd, "Gofynais i'r Iesu am rod-di rhai i mi, a gwna dyn yn y siop rod-di rhai i *papa* i ddyfod i mi."

Chwe' mis ar ol hyn, pan glywodd am ferch fechan oedd yn gweddio am deganau, dywedodd, "Wnawn i ddim gweddio am deganau yn *awr*. Nid oedd yn ddrwg mewn merch fach, waith yr oedd mor fach. Yn *awr* yr wyf yn gofyn i'r Iesu am yr Ysbryd Glân, ac am fy ngwneyd yn ferch dda."

Er hyn y parhâodd i *ddiolch* i'r Iesu am y pethau lleiaf. Yr oedd yn gweddio yn fynych, ond dim ond am un peth neu ddau fynychaf ar y tro.

Wedi dyfod yn deirblwydd, daeth i weddio yn fynychach am yr Ysbryd Glân. Weithian ei holl weddi oedd, "O Arglwydd Iesu, dyro dy Ysbryd Glân i mi! Amen."

"Dyna weddi fach, onidê?" meddai.

Un tro dangosai anfoddlonrwydd i gael ei chusannu, am ei fod yn aflonyddu arni pan yn brysur gyda'i theganau; ac weithiau gwrthodai fy nghusanu i pan awn i mewn ati i'r ystafell fagu yn y bore.

Clywais hi un bore yn gweddio, "O Arglwydd Iesu, gwna fi yn foddllawn i gusanu mamma."

Ar ol hyn, pan tua thair oed, ni wrthodai gusanu, ond delai bob amser a dywedai, "Yn awr rhoddaf i chwi gusan oen," gan feddwl un tyner a charedig.

Pan glywai am ddynion, drwg, byddai fynychaf yn cynnyg gweddio drostynt.

Pan oeddwn yn adrodd hanes Moses wrthi, cyn ei bod yn dair oed, ac yn son am Pharaoh yn lladd y babanod, rhwystrodd fi i fyned ymlaen, a dywedodd, "Gweddïaf fi yn awr ar yr Iesu am rod-di calon newydd i Pharaoh, ac yna ni ladd ychwaneg o fabanod."

Nid allodd erioed amgyffred pa fodd y lladdodd Dafydd Goliah. Dywedai, "Dylasai Dafydd ofyn i'r Iesu am rod-di calon newydd i Goliah, ac yna fusasai dim eisieu ei ladd."

Am beth amser, dadleuai yn ddi-ildio am gael gweddio dros Satan. Dywedwn wrthi nad oedd o un defnydd; ond dywedai hithau, "Gofynaf bob dydd i'r Iesu am wneyd Satan yn dda, a daliaf ymlaen dros *lawer* o ddyddiau; ac o'r diwedd fe ddywed yr Iesu, 'O'r goreu, caiff Satan fod yn dda.'"

Un diwrnod, pan oedd tua thair oed, yr oeddem oll yn yr ardd, ac yn siarad am blant yr Iuddewon oedd i ddyfod o Ysgolion Bethnal Green drannoeth, i fwyta cinio dan y coed. Sylwyd fod yr hin wedi bod mor wlyb, fel mai prin y gallesid dygwyl am ddiwrnod teg. Dywedodd un, "Yn wir, dylem weddio am iddi fod yn ddiwrnod teg."

Clywodd Ada, ac yn y fan syrthiodd ar ei gliniau ar y llwybr, a dywedodd, "O Arglwydd, gwna hi yn ddiwrnod teg yfory, lle bod y plant bach yn gwlychu."

Dywedodd amryw drannoeth, "Atebwyd gweddi Ada;" oblegid hwnw oedd yr unig ddiwrnod teg braidd yn ystod yr haf.

Yr oedd yn hoffi gweddi lle na chawsai ei haflonyddu. Byddai Ashley weithiau yn rhoi tyniad wrth ei ffroc; troai hithau, a dywedai yn ddifrifol wrtho, "Ashley, ni ddylech aflonyddu arnaf pan fyddaf yn gweddi ar Iesu."

Ond ni thalai Ashley fawr o sylw i'w rhybuddion, oblegid nid oedd ond ychydig dros flwydd oed. Ar ol hyn elai Ada bob bore i ystafell ei brawd i weddi, waith, "Yr wyf yn cael llonydd yno," meddai.

Wedi dyfod o'r ystafell hono unwaith, dywedodd, "Rhaid i mi fyned i ystafell S. eto."

"I ba beth?" gofynwn iddi; "ydych chiwi am weddio ychwaneg?"

"Na," meddai, "yr wyf wedi gorphen gweddi; ond rhaid i mi fyned i feddwl." Ac yno yr aeth, ac yr arosodd am dro.

Pan ddalai i mewn i'r addoliad teuluaid, eisteddai yn dawel tra fyddai y bennod yn cael ei darllen, &i Thestament bach yn agored yn ei llaw, fel pe buasai yn gallu ei ddarllen. Pan ddechreuai y weddi, elai ar ei gliniau, a dywedai ei gweddi ei hunan yn ddystaw; ac yna codai, ac eisteddai yn llonydd hyd y diwedd.

Un tro dywedwyd wrthi, "Paham yr ydych yn codi ar ganol y weddi? Dylech benlinio hyd y diwedd."

Ond nid oedd gan Ada yr un syniad am wneyd dim o ran surfioldeb, ac atebodd, "Yr wyf yn penlinio cyhyd ag yr wyf yn gweddi." Barnai hi nad oedd yn iawn penlinio wedi gorphen gweddi, ac fel hyn y parhâodd i wneyd.

Sylwai yn fanwl ar ddarlleniad y bennod, a cheisiai ei deall. Pan yn darllen Exodus, cododd ei golwg, a gofynodd, "Ai yr un Pharaoh yw hwna?" Y Pharaoh laddai y plant oedd yn feddwl.

Gwelir wrth y pethau hyn nad wedi dysgu adrodd pethau crefyddol yn ddifeddwl, fel parot, yr oedd Ada. Y peth hynod yn ei chymeriad ydoedd, tra y dadleuai am bynciau cyffredin, ac y gofynai yr eglurhâd manylaf arnynt, nad amheuedd erioed unrhyw wirionedd ysbrydol a osodid ger ei bron. Dywedai weithiau, "Nid wyf yn gallu ei ddeall;" ond byth nid amheuai. A bobpeth arall yr oedd yn rhaid iddi gael eglurhâd cyflawn.

Pan nad oedd ond dwyflwydd oed, cyn gallu cerdded i lawr dros y grisiau, arferai lithro i lawr drostynt ar ei heistedd. Un diwrnod safodd ar ganol y grisiau, a gofynodd yn fyfyrgar, "Dywedwch wrthyf sut yr wyf yn gallu lithro i lawr y grisiau, ac na gallaf lithro i fyny?"

Dywedais nad oedd yn ddigon hen eto i ddeall, ond y dywedwn wrthi drachefn.

Daliai er hyny i ddyfalu a gofyn, "Gall pethau lithro i lawr ond dim i fyny; dywedwch wrthyf paham."

Y cwbl oedd genyf i ddyweyd, nad allent lithro i fyny. "Ië," meddai hithau, "ond yr wyf fi am wybod paham. Nis gallant lithro i fyny—a beth sydd yn peri iddynt lithro i lawr?" Nid oedd genyf ddim i'w wneyd ond myned at ryw bwnc arall.

Unwaith pan glywodd fod bachgen wedi tori ei law â chryman, dywedodd, "Nid wyf fi yn gwybod beth yw cryman."

Dywedwyd wrthi mai offeryn i dori fyd ag ef ydoedd.

"Ië," meddai, "ond beth yw? A yw yn debyg i bladyr?"

Pan ddywedwyd nad oedd, cyrhaeddodd bapyr a phensil, a dywedodd, "Gwnewch ddarlun o gryman a phladyr i mi, fel y gallwyf ddeall y gwahaniaeth."

Gwnaed hyn. Yna dywedodd, "Cryman, pladyr—cryman, pladyr," nes y daeth i'w hadwaen yn berffaith. Ac weithiau wrth fyned ar dro allan, dywedai, "Dacw ddyn â chryman! Gwn yn awr beth yw cryman."

Fel hyn dysgai am bobpeth oedd o'i hamgylch, ac nid anghofiai ddim wedi iddi ffurfio syniad clir am dano unwaith.

(*I'w barhdu.*)

BYDD DYNER.

(*Chant—Speak Gently.—J. PRATT.*)

GAN J. CEIRIOG HUGHES.

**B**YDD dyner wrth y plentyn bach,  
Fel tŷn ar dyner dant;  
'D oes dim ond cariad Iesu Grist  
Yn fwy na chariad plant.

Bydd dyner wrth y gwan a'r gwael,  
Ac hefyd wrth y cawr;  
'D oes dim ond geiriau melus mwyn  
Yn gwneyd dybenion mawr.

Bydd dyner wrth dy dad a'th fam,  
Rho 'th galon arnynt hwy;  
Mae 'r byd yn ddigon chwerw heb  
I ti ei chwerwi yn fwy.

Gofala hau, a thi a gei  
Gynauaf yn ddi-fêth;  
I gael trugaredd dyner Duw,  
Bydd dyner wrth bob peth.

Y CWESTIYNAU GWOBWRWYEDIG.

5. **B**YDD pa ddyn sydd yn cael ei roddi yn y Bibl ar Dduw?  
6. Nodwch yr adnod yn yr hon y priodolir i fôr, aelod bychan perthynol i gorff dyn.



ARGLWYDD NELSON.

**A**RGLWYDD Horatio Nelson ydoedd un o lyngeswyr enwocaf Lloegr. Ganed ef yn y flwyddyn 1758. Ei brif frwydrau a buddugoliaethau oeddent, (1.) â llynges Ffrainc yn ngenau yr afon Nilus, am yr hon fuddugoliaeth y rhoddwyd iddo y teitl "*Baron Nelson of the Nile.*" Cymerodd y frwydr hon le yn 1798. (2.) Brwydr Trafalgar (yn Spain) yn y fl. 1805, pan orchfygodd lyngesoedd unol Ffrainc a Spain. Yn y frwydr hon y cyfarchodd ei wŷr â'r cyfarchiad bythgofiadwy, "*Mae Lloegr yn dysgwyl i bob dyn wneyd ei ddyledswydd.*" Rhuthrodd Nelson a'i alluoedd trwy linell llongau y gelynyon, ac i mewn i'w canol; a chyn pen dwyawr, yr oedd pedair ar bymtheg o longau y gelynyon wedi eu dinystrio. Ond ar y foment yr oedd y fuddugoliaeth yn troi o'i blaid, saethwyd Nelson â bwled yn ei fynwes, a bu farw. Yr oedd yn foddolawn marw, gan fod y fuddugoliaeth wedi ei chael.

Mae y gôt a'r wasgod oedd Nelson yn wisgo pan laddwyd ef, i'w gweled yn awr yn *Hospital Greenwich*, a thwll y fwled trwy ddynt, a'r gwaed wedi eu lliwio o amgylch. Yr oedd edrych ei ddillad a'i arfau yn peri i ni gofio am Un a ennillodd fuddugoliaeth bwysicach i ni na buddugoliaeth Trafalgar, yr hwn hefyd a fu farw yn swm bloedd fuddugoliaethus y gair "*Gorphennwyd!*"

## BYD Y BEDD.

**M**AE'r ddinas fawr yn fyw i gyd;  
Mae pawb yn ddiwyd gyda 'u gwaith;  
Y dwndwr sydd yw 'r byd, y byd,  
Heb feddwl dim am ben y daith:

Wrth edrych ar ddiwydrwydd dyn,  
 Wrth weled bywyd ar bob gwedd,  
 Yn syn gofynais im' fy hun,  
 A oeddwn yn hen fyd y bedd.

Cerbydau gwych boneddwy'r clyd  
 Sy 'n chwyrn ymruthro ger fy mron;  
 Cerbydau gyda nwyddau drud,  
 Sy 'n dilyn megys tòn 'r ol tòn:  
 Wrth ganfod bywyd ymhob man,  
 Wrth weled bywyd ar bob gwedd,  
 Nis gallwn gredu fod fy rhan,  
 Ymysg trigolion byd y bedd.

Ond chwalwyd y meddyliau hyn,  
 Yn fuan wrth im' weled arch  
 Yn cael ei dwyn gan ddynion syn,  
 Fel sên ar rwysg y byd a'i barch;  
 Dywedodd yr olygfa hon  
 • Fod angyf eito 'n hogi 'r oledd,  
 A bod pob un o'r dyrfa lon  
 Yn byw o hyd yn myd y bedd.

AB ALUN.

DAEARYDDIAETH GWLAD CANAAN.

PENNOD II.—MYNYDDOEDD.

**R** y cyfan gellir ystyried Palestina yn wlad fynyddig. Wrth i'r teithiwr fyned i mewn iddi tua'r gogledd, canfydda gadwen uchel o fynyddoedd yn ymestyn at darddleoedd yr Iorddonen, ymha le y maent yn ymranu yn ddwy, ac yna yn rhedeg ar bob ochr i'r afon, gan derfynu rhwng Môrgilfach Suez ac Akeba yn anialwch Arabia. Y mae y gadwen hon yn dwyn gwahanol enwau mewn gwahanol leoedd.

1. Y mae'n debyg mai *Mynyddoedd Lebanon* ydyw y rhai uchaf. Y maent yn sefyll yn mhên gogleddol y wlad, ac yn gynnwysedig o ddwy ran, un o ba rai sydd yn ymestyn i'r gorllewin tua'r môr, ac yn derfynu yn agos i Tyrus. Y mae'r llall, fel y nodwyd uchod, yn ymestyn y tu allan i'r wlad at lanau y Môr Coch. Gelwir y rhes (*range*) yn LIBANUS, a'r un ddwyreidiol yn ANTI-LIBANUS. Yr uchaf o'r ddwy ydyw Libanus, ac y mae yn cael ei gorchuddio gan eira hyd yn nôd yn yr haf. Tybia rhai mai oddiwrth hyn y deilliodd yr enw Libanus, ystyr yr hwn ydyw y *mynydd gwyn*; ond y mae eraill yn priodoli yr enw i liw gwyn y creigiau sydd yn cyfansoddi y mynyddoedd. Sonir llawer am y mynyddoedd hyn yn yr Ysgrhythrau. Yr oedd gan Solomon ddeng mil a thriugain ya dwyn beichiau, &c., yn y mynyddoedd hyn; i Bren. v.



15—17. Y maent hefyd yn nodedig am eu cedrwydd, o ba rai yr adeiladwyd y deml. Ystyrid y mynyddoedd hyn gan yr Iuddeon fel amddiffyniad cryf iddynt rhag eu gelynyon, yn enwedig yr Assyriaid. Yr ydym yn cael yn Esa. xxxvii. 24, ddarfod i Senecherib ymfrostio ei fod wedi gorchfygu y rhwystr hwn, a dywedai, "A lliaws fy ngherbydau y daethum i fyny i uchelder y mynyddoedd, i ystlysau Libanus," &c. Gellir nodi hefyd fod llawer o farddoniaeth y Bibl yn llawn o gymhariaethau wedi eu tynu oddiwrth y mynyddoedd hyn. Gwel Can. iv. 8; Psalm xliii.; Hab. ii. 17; Hos. xiv. 6, 7; Esa. xxxv. 1, 2.

2. *Anti-Libanus*. Er nad ydyw y mynydd hwn mor uchel, ar gyfartaledd, a Libanus, eto y mae yn y cŵr dehau-ddwyreiniol o hono gopa (*summit*) ag sydd yn uwch nag un mynydd arall yn Syria. Gelwir ef wrth yr enw Arabaeg Jebel-es-Sheikh, neu "*fynydd yr hen ŵr*," o herwydd ei debygolrwydd i ben gwyn y cyfryw un. Y Sidoniaid a alwent y mynydd hwn yn Sirion, ar Amoriaid a'i galwent Senir; Deut. iii. 9. Y mae Moses yn ei nodi allan dan yr enwau Sion a Hor; Deut. iv. 48; Num. xxxiv. 8; a hwn ydyw y Mynydd Hermon a nodir fel terfyn gogleddol tiriogaeth Israel y tu hwnt i'r Iorddonen; Deut. iii. 8; iv. 48; Jos. xi. 3, 17. Dylid cofio mai am fynydd arall ag sydd fwy i'r dehau y meddyliai Dafydd pan yn cymharu cariad brawdol i wliath Hermon; Psalm cxxxiii. 3. Gan ei fod yn cael ei orchuddio ag eira ar hyd y flwyddyn, tybir fod ei uchder yn rhywle o 11,000 i 12,000 o droedfeddi, ac felly y mae tua thair gwaith yn uwch na'r Wyddfa.

3. *Mynydd Carmel*. Saif y mynydd hwn yn y cŵr dehau-orllewinol i Fôrgilfach Acre. Perthynai i lwyth Aser; Jos. xix. 26. Y mae y mynyddoedd hyn sydd yn ymestyn oddiwrth y môr i ganol y wlad, ac yn ffurfio rhan o derfynau gorllewinol deheuol gwastadedd Jezreel, yn myned weithiau o dan yr enw hwn; ond yn fwyaf cyffredin defnyddir ef mewn cysylltiad â rhan hono o'r rhes (*range*) sydd wrth y môr. Y mae ei uchder o 1500 i 2000 o droedfeddi. Derbyniodd yr enw Carmel oddiwrth ei ffrwythlondeb, gan fod yno ddigonedd o winwydd ac olewydd, phob math o goed ffrwythlawn, yn tyfu; 2 Cron. xxvi. 10; Esa. xxxv. 2. I'r mynydd hwn yr ymgasglodd holl Israel pan y offrymodd Elias ei offrwm rhagorol, ac yr atebwyd trwy dân ef; 1 Bren. xviii. 10—45; ac yma hefyd y cyflawnwyd ei brophwydoliaeth wrth Ahab, na byddai na gwliath na gwlaw ond yn ol ei air ef; 1 Bren. xviii. 42. Yn agos i'r fan hon yr oedd Nabal yn preswyllo; 1 Sam. xxv. 2. Ymddengys fod yn y mynydd hwn gynt lawer o ymguddfeydd, ac felly byddai llawer o na euog a gorthrymedig yn dianc yno yn fynych am loches. At hyn, y mae'n debyg, y cyfeiriai Amos pan y dywedai, "A phlelechent ar ben Carmel, chwiliwn a chymerwn hwynt oddiyno;" Amos ix. 3.

4. *Mynydd Tabor*. Y mae y mynydd hwn yn y cŵr gogledd-ddwyreiniol i ddyffryn Jezreel, ac i'r gorllewin o Nazareth. Sai

ar wahan oddiwrth bob mynydd arall, ac y mae yn tebygu, meddant, i dorth siwgr (*cone*) o ran ei lun. Bernir fod ei uchder tua 1000 o droedfeddi. Y mae ei gopa a'i ochrau yn orchuddiedig gan goed a blodau gwylltion. Dywedir fod golygfa neillduol o hyfryd i'r llygad i'w chael o'i ben. Y mae cyfeiriad at y mynydd hwn amryw weithiau yn yr Hen Destament. I'r fan hon y cynnullodd Barac ei fyddin cyn ymosod ar luoedd Sisera; Barn. iv. 6; xii. 14. Gwel hefyd Jos. xix. 12, 22. Y mae y Salmwydd yn nodi Tabor a Hermon fel cynnrychiolwyr holl fynyddoedd Israel; Psalm lxxxix. 12. Dywedir hefyd mai ar ben y mynydd hwn y gweddnewidiwyd Crist; Matth. xvii.; ond ymddengys yn debycach i hyn y gymeryd lle yn agos i Cesarea Philippi, ac heblaw hynny y mae yn ffaith fod ar y pryd hwnw ddinas gaerog ar ben mynydd Tabor, olion yr hon sydd i'w canfod yno yn bresennol.

5. *Mynydd y Gwynfydau* a safai i'r gogledd-orllewin o dref Tiberias. Er nad ydyw ei uchder ond rhwng 50 a 60 troedfedd, edrychir arno yn gysegredig, am mai yma y tybir i'r Arglwydd Iesu draddodi ei bregeth ar y mynydd; Matth. v. 1.

6. *Mynyddoedd Gilboa*. Y mae y mynyddoedd hyn yn sefyll i'r dehau o ddyffryn Jezreel, ac yn rhedeg tua'r dehau-ddwyrain, nes terfynu ar lanau yr Iorrdonen yn agos i Bethsan. Eu uchder sydd tuag 800 o droedfeddi. Yn agos i'r fan hon y gorchfygodd Gideon y Midianiaid; Barn. vii. 1; ac yma y gorchfygwyd yr Israeliaid gan y Philistiaid, ac y lladdwyd Saul a'i feibion; 1 Sam. xxxi.

7. *Ebal a Garizim* ydynt ddau fynydd yn Samaria. Gwahenir y naill oddiwrth y llall gan ddyffryn prydferth, yn yr hwn y saif dinas Sichem. Y mae Ebal o du y gogledd-orllewin, a Garizim o du y dehau-ddwyrain i'r dyffryn. Eu uchder sydd oddeutu 800 o droedfeddi. Ar y mynyddoedd hyn y gorchymynodd Duw i lwythau Israel gael eu gosod, chwech ar bob un, i ateb Amen i fendithion a melldithion y gyfraith a gyhoeddid gan yr offeiriaid yn y dyffryn islaw; Dent. xxvii. a xxviii.; Jos. viii. 30, 35. Ymddengys yn ol rhai teithwyr fod y bendithion wedi gorphwys ar Garizim, a'r melldithion ar Ebal; canys tra y mae y blaenaf yn dra ffrwythlawn, y mae yr olaf yn llwm ac yn ddiffwrth. Oddiar ben mynydd Garizim y ceryddodd Jotham wŷr Sichem trwy ddammeg, am iddynt osod Abimelech yn frenin; Barn. ix. 7. 23. Ac yma hefyd yr adeiladodd Sanbalat yr Horoniad deml wrthwnebol i eiddo yr Iuddewon yn Jerusalem, a chafwyd un o hiliogaeth Aaron i fod yn archoffeiriad; Neh. xiii. 28. Nid rhyfedd felly fod y mynydd hwn mor gysegredig gan y Samariaid; Ioan iv. 20.

8. *Mynydd yr Olewydd*. Safai y mynydd hwn yn agos i filldir i'r dwyrain o Jerusalem, a gwahenid ef oddiwrth y ddinas gan ddyffryn Jehosaphat. Gelwid ef ar yr enw hwn oddiwrth amllder y coed olewydd a dyfent arno. Yr oedd iddo dri phen (*summits*), a chyrrhaeddi yr uchaf, sef yr un gogleddol, yr uchder o tua 2500 o droedfeddi, a gelwid ef *Galilea*, ond paham nid ydys yn gwybod yn sicr. Rhai a haerant mai am fod y Galilëaid yn arfer lletŷa yno

yn ystod y gwyliau arbenig yn Jerusalem. Oddiar y canol, meddant, yr esgynodd Crist i'r nefoedd. Gelwid y pen deheuol, sef yr isaf, yn "*Fynydd Llygredigaeth*," oddiwrth demlau yr eilunod a adeiladodd Solomon yno; 1 Bren. xi. 7; 2 Bren. xxiii. 13. Dywed Josephus, yr hanesydd Iuddewig, "i'r mynydd hwn hollti gan ddaeargryn yn nyddiau Uzziâh, ac i un hanner iddo dreiglo tua hanner milldir i'r gorllewin;" Zech. xiv. 4 5. Y mae amryw gyfieiriadau at y mynydd hwn yn yr Ysgrythyrau sanctaidd. Pan y ffoai Dafydd rhag Absalom ei fab, "efe a aeth i fyny i fryn yr olewydd, ac yr oedd yn myned i fyny ac yn wylo, &c;" 2 Sam. xv. 30. Dyma un o hoff leoedd yr Arglwydd Iesu pan ar y ddaear. Llauer noswaith a dreuliodd efe yno mewn gweddi; Luc xxi. 37. Oddiar y mynydd hwn y mynegodd efe i'w ddysgybllion arwyddion ei ddyfodiad, ac o ddiwedd y byd, Matth. xxiv; ac oddiyma y canodd efe yn iach â hwy; Luc xxiv. 51. Wrth droed y mynydd hwn yr oedd gardd Gethsemane, lle bu y Gwardwr bendigedig "yn gweddiu mewn ymdrech meddwl, a'i chwys fel defnydd gwaed yn disgyn ar y ddaear," yn y rhagolwg o'r hyn oedd ganddo i'w gyflawni dros bechaduriaid.

9. *Mynydd Quarantana*. Y mae y gadwen i ba un y perthyn y mynydd hwn yn ymestyn tua'r gogledd-ddwyrain rhwng Jerusalem a Jericho. Dywedir mai yn y gymydogoeth hon yr oedd yr anialwch i'r hwn "yr arweiniwyd yr Iesu gan yr Ysbryd i'w demtio gan ddiabol;" Matth. iv. 1; ac mai Quarantana ydoedd "y mynydd tra uchel oddiar yr hwn y dangosodd Satan iddo holl deyrnasoedd y byd a'u gogoniant," Mat. iv. 8; Luc iv. 5.

10. *Gilead*. Dechreuâ y gadwen hon yn agos i Fynydd Hermon, ac ymestyna tua'r dehau, gan amgau yr holl wlad y tu hwnt i'r Iorddonen. Gelwid y rhan ogleddol yn "*Fynydd Basan*." Deillia yr enw Gilead, y mae yn debyg, oddiwrth y cyfammod a wnaed rhwng Laban a Jacob; fel arwydd neu goffadwriaeth o hono gwnaethant garnedd o geryg, a Jacob a'i galwodd "*Gilead*," sef "*carnedd y dystiolaeth*;" Gen. xxxi. 47, 48. Yr oedd triagl neu falm Gilead yn nodedig am ei rinweddau meddyginiaethol; Gen. xxxvii. 25; Jer. viii. 22; xlv. 11; a li. 8. Yr oedd mynydd Basan yn enwog am frasder ei borfeydd a'i anifeiliaid rhagorol; Num. xxxii. 1; Deut. xxxii. 14; Psalm xxii. 12.

11. *Abarim*. Ymddengys y rhoddid yr enw hwn ar res o fynyddoedd cribog o du y dehau i Gilead. Yr oeddynt yn dwyn gwahanol enwau mewn gwahanol ranau, megys Peor, Nebo, Pisgah, &c. Gorchymynwyd i Moses cyn ei farwolaeth esgyn i fynydd Nebo, ac o ben Pisgah y dangosodd yr Arglwydd iddo holl wlad Canaan; Deut. xxxiv. 1—4. Ar uchelfeydd Baal ac ar ben Pisgah yr adeiladwyd alloran wrth orchymyn Balaam, pan yr anfonodd Balac am dano i fellidithio Israel; Num. xxiii. a xxiv.; ac oddiar Pisgah hefyd y prophwydodd Balaam gan ddywedyd, "Daw Seren o Jacob, a chyfyd teyrnwialen o Israel ac a ddryllia gonglau Moab, ac a ddinystria holl feibion Seth;" Num. xxiv. 17.

## Y BIBL.

## V.—LLYFR EXODUS.

**GOF.** Gan bwy, a pha bryd, yr ysgrifenydd y llyfr hwn?

**Ateb.** Gan Moses, ar ol rhoddiad y ddeddf, fel y bernir, a sefydliad y tabernacl, gan ei fod yn rhoddi hanes hyny fel feithiau wedi dygwydd. (Gwel tu dal. 316 o'r gyfrol ddiweddaf.)

**Gof.** Paham y gelwir y llyfr ar yr enw *Exodus*?

**Ateb.** Gair Groeg ydyw, wedi ei gymeryd o gyfieithiad y Deg a Thriugain, yn arwyddo *mynediad allan*, am fod y llyfr yn rhoddi hanes mynediad Israel allan o'r Aipht.

**Gof.** Dros ba hyd y mae hanesiaeth y llyfr hwn yn cyrhaedd?

**Ateb.** Dros gyfnod o *gant a phump a deugain o flynyddoedd*, sef o'r flwyddyn o oed y byd 2369 hyd 2514—o farwolaeth Joseph hyd godiad y tabernacl yn yr anialwch.

**Gof.** Beth yw prif bynciau llyfr Exodus?

**Ateb.** Yma cawn hanes gorthrymder creulawn meibion Israel yn yr Aipht, dan Pharaoh (Rameses II.); genedigaeth a dyrchafiad Moses; ei fföedigaeth i Midian; ei genadwri ef ac Aaron ei frawd at Pharaoh (Amenophis II.); y gwyrthiau a gyflawnasant; y deg pla ar yr Aiphtiaid; sefydliad y Pasc, ac ymadawriad yr Israeliaid; eu mynediad trwy y Môr Coch, a dinystr yr Aiphtiaid; eu teithiau yn yr anialwch, eu heilunaddolaeth, eu tuchan yn erbyn yr Arglwydd; cyhoeddiad y ddeddf ar Sinai, a chyfodiad y tabernacl.

**Gof.** Pa bryd, a pha fodd yr ymadawodd y genedl â'r Aipht?

**Ateb.** Yn y flwyddyn 2513 o oed y byd, neu 1491 cyn Crist, pan oedd Moses yn 80 mlwydd oed. Holltwyd y môr o flaen meibion Israel, a boddwyd Pharaoh a'i lu yn y môr wrth ymlid ar eu hol. Bernir iddynt groesi y môr ychydig islaw tref bresennol Suez, a bod y môr yn y fan hono o 14 i 18 milldir o led. Dywedir fod rhifedi yr Israeliaid yn myned allan o'r Aipht yn dair miliwn o eneidiau, gan fod chwe' chan' mil o honynt yn alluog i ddwyn arfau.

**Gof.** Pa ddeddfau a dderbyniodd Moses gan Dduw ar Sinai?

**Ateb.** Y *ddeddf foesol*, yn cynnwys y deg gorchymyn, wedi eu hysgrifenu ar y llechau, & bys Duw; y *ddeddf seremonïol*, ynghylch yr offeiriaid, y tabernacl, yr aberthau, a phethau crefyddol eraill; a'r *ddeddf wladol*, gyda golwg ar lywodraeth wladol y genedl, eu priodasau, eu meddiannau, a'u cosbedigaethau.

**Gof.** Pa gyfeiriadau at y llyfr hwn a wneir yn y Testament Newydd?

**Ateb.** Dywed un (Rivet) fod yr Arglwydd Iesu a'i apostolïos wedi gwneyd pump ar hugain o ddyfyniadau o lyfr Exodus heblaw pedwar ar bymtheg o gyfeiriadau amlwg eraill.

**Gof.** Pa gysgodau o Grist sydd yn llyfr Exodus?

**Ateb.** 1. Aaron (Heb. iv. 14—16). 2. Oen y Pasc (1 Cor. v. 7, 8). 3. Y Manna (1 Cor. x. 3). 4. Y graig yn Horeb (1 Cor. x. 4). 5. Y Drugareddfa.

## TON.—“ARGLWYDD IESU, 'R BUGAIL MWYN.”

Doh B b.

|   |                                                                                                     |                                                            |                                                                         |
|---|-----------------------------------------------------------------------------------------------------|------------------------------------------------------------|-------------------------------------------------------------------------|
| { | d :— : d   m : r : d                                                                                | l <sub>1</sub> :— : d   s <sub>1</sub> :— :—               |                                                                         |
|   | Ar—glwydd Ie—su, 'r                                                                                 |                                                            | Bu—gail mwyn,                                                           |
|   | m <sub>1</sub> :— : m <sub>1</sub>   s <sub>1</sub> : f <sub>1</sub> : m <sub>1</sub>               |                                                            | f <sub>1</sub> :— : f <sub>1</sub>   m <sub>1</sub> :— :—               |
| { | d <sub>1</sub> :— : d <sub>1</sub>   d <sub>1</sub> :— : d <sub>1</sub>                             | f <sub>1</sub> :— : l <sub>1</sub>   d :— :—               |                                                                         |
|   |                                                                                                     |                                                            |                                                                         |
|   |                                                                                                     |                                                            |                                                                         |
| { | m : r : d   s : f : m                                                                               | r :— : r   r :— :—                                         |                                                                         |
|   | E—drych ar dy                                                                                       | an—wyl ŵyn;                                                |                                                                         |
|   | s <sub>1</sub> : f <sub>1</sub> : m <sub>1</sub>   m <sub>1</sub> : f <sub>1</sub> : s <sub>1</sub> | t <sub>1</sub> :— : t <sub>1</sub>   t <sub>1</sub> :— :—  |                                                                         |
| { | d :— : d   d :— : d                                                                                 | s <sub>1</sub> :— : s <sub>1</sub>   s <sub>1</sub> :— :—  |                                                                         |
|   |                                                                                                     |                                                            |                                                                         |
|   |                                                                                                     |                                                            |                                                                         |
| { | d :— : d   m : r : d                                                                                | l <sub>1</sub> :— : d   s <sub>1</sub> :— :—               |                                                                         |
|   | Dyr—o ar—nom                                                                                        |                                                            | ni dy nŏd,                                                              |
|   | m <sub>1</sub> :— : m <sub>1</sub>   s <sub>1</sub> : f <sub>1</sub> : m <sub>1</sub>               |                                                            | f <sub>1</sub> :— : f <sub>1</sub>   m <sub>1</sub> :— :—               |
| { | d <sub>1</sub> :— : d <sub>1</sub>   d <sub>1</sub> :— : d <sub>1</sub>                             | f <sub>1</sub> :— : l <sub>1</sub>   d :— :—               |                                                                         |
|   |                                                                                                     |                                                            |                                                                         |
|   |                                                                                                     |                                                            |                                                                         |
| { | m : r : d   f :— : f                                                                                | m :— : r   d :— :—                                         |                                                                         |
|   | I dy gor—lan                                                                                        |                                                            | g&d in' dd'od:                                                          |
|   | s <sub>1</sub> :— : s   l <sub>1</sub> :— : l <sub>1</sub>                                          |                                                            | s <sub>1</sub> :— : f <sub>1</sub>   m <sub>1</sub> :— :—               |
| { | d <sub>1</sub> : r <sub>1</sub> : m <sub>1</sub>   f <sub>1</sub> :— : f <sub>1</sub>               | s <sub>1</sub> :— : s <sub>1</sub>   d <sub>1</sub> :— :—  |                                                                         |
|   |                                                                                                     |                                                            |                                                                         |
|   |                                                                                                     |                                                            |                                                                         |
| { | r :— : m   f : m : r                                                                                | d :— : r   m :— : m                                        |                                                                         |
|   | Bu—ost far—w                                                                                        |                                                            | dros—om ni, O                                                           |
|   | t <sub>1</sub> :— : d   r : d : t <sub>1</sub>                                                      |                                                            | d :— : t <sub>1</sub>   d :— : d                                        |
| { | s <sub>1</sub> :— : s <sub>1</sub>   s <sub>1</sub> :— : s                                          | m <sub>1</sub> :— : s <sub>1</sub>   d :— : m <sub>1</sub> |                                                                         |
|   |                                                                                                     |                                                            |                                                                         |
|   |                                                                                                     |                                                            |                                                                         |
| { | r :— : m   f : m : r                                                                                | d :— : m   r :— :—                                         |                                                                         |
|   | dwg ni ya dy                                                                                        |                                                            | fyn—wes gu;                                                             |
|   | t <sub>1</sub> :— : d   r : d : t <sub>1</sub>                                                      |                                                            | d :— : d   t <sub>1</sub> :— :—                                         |
| { | s <sub>1</sub> :— : s <sub>1</sub>   s <sub>1</sub> :— : s <sub>1</sub>                             | m <sub>1</sub> :— : d <sub>1</sub>   s <sub>1</sub> :— :—  |                                                                         |
|   |                                                                                                     |                                                            |                                                                         |
|   |                                                                                                     |                                                            |                                                                         |
| { | d :— : r   m : r : d                                                                                | l <sub>1</sub> :— : d   s <sub>1</sub> :— : s <sub>1</sub> |                                                                         |
|   | Bu—ost far—w                                                                                        |                                                            | dros—om ni, O                                                           |
|   | m <sub>1</sub> :— : m <sub>1</sub>   s <sub>1</sub> : f <sub>1</sub> : m <sub>1</sub>               |                                                            | f <sub>1</sub> :— : f <sub>1</sub>   m <sub>1</sub> :— : s <sub>1</sub> |
| { | d <sub>1</sub> :— : d <sub>1</sub>   d <sub>1</sub> :— : d <sub>1</sub>                             | f <sub>1</sub> :— : l <sub>1</sub>   d :— : t <sub>1</sub> |                                                                         |
|   |                                                                                                     |                                                            |                                                                         |
|   |                                                                                                     |                                                            |                                                                         |

|                                                              |                                                 |                                    |
|--------------------------------------------------------------|-------------------------------------------------|------------------------------------|
| m: r : d   f : — : f                                         | m: — : —   r : — : —                            | d : — : —   — : — : —              |
| dwg ni yn dy                                                 | fyn ——— wes                                     | gu.                                |
| s <sub>1</sub> : — : s <sub>1</sub>   d : — : l <sub>1</sub> | s <sub>1</sub> : — : —   f <sub>1</sub> : — : — | m <sub>1</sub> : — : —   — : — : — |
| d : — : d   l <sub>1</sub> : — : f <sub>1</sub>              | s <sub>1</sub> : — : —   s <sub>1</sub> : — : — | d <sub>1</sub> : — : —   — : — : — |

**R**GLWYDD Iesu, 'r Bugail mwyn,  
 Edrych ar dy anwyl ŵyn;  
 Dyro arnom ni dy nŵd,  
 I dy gorlan gād in' dd'od:  
 Buost farw drosom ni,  
 O dwg ni yn dy fynwes gu.


Arglwydd Iesu, 'r Bugail mwyn,  
 Gwranddo 'n wastad ar ein cwyn;  
 Os daw drygau o uu-rhyw,  
 Bydd yn Geidwad, bydd yn Dduw:  
 Er mai ieuainc ym mewn oed,  
 Rho nerth i ddilyn ôl dy droed.

Arglwydd Iesu, 'r Bugail mwyn,  
 Ti, O Dduw, wnei gydymddwyn;  
 Maddeu 'n holl bechodau 'n rhad,  
 Golch ein gŷnau yn y gwaed:  
 Yna byth yn nheyrnas nef,  
 Cawn ganu 'r anthem "*Iddo Ef.*"



YR YMBORTH RHATAF A GOREU.

**R**HYDD y meddyg enwog Dr. Edward Smith, yn ei lyfr diweddar "*Practical Dietary, &c.*," y cyfarwyddiadau canlynol;—"Os ydych yn dlawd iawn gweriwch agos eich holl arian ar fara. Y mae bara a thwym llaeth yn ymborth rhagorol i ŵr, gwraig, a phlant. Mae llaeth enwyn yn ymborth da a rhadlawn. Felly maird hefyd; y mae yn llawer gwell diod na dwfr neu gwrw. Dylai pob aelod o'r teulu, os bydd yn bosibl, gael dau beint o laeth, neu enwyn bob dydd. Gyda digon o fara a llaeth, bydd gobaith da am iechyd a nerth, a dim biliau oddiwrth y meddyg. Mae blawd India (*Indian meal*) yn ymborth cryfach a rhatach na blawd gwenith. Pytatw yw y goreu o lysiau gerddi. Ymborth drudfawr iawn yw tē. Os ydych yn dlawd peidiwch prynu tē, ond gweriwch eich arian am fara a llaeth. Os byddwch yn methu cael llaeth, ac yn gorfod yfed tē, bydded y tē yn wan, a rhoddwch gymaint o laeth ag a ellwch arno; ond gwell na hyny yw gwneyd cawl i frecwast a chinio. Mae bwyd cynhes yn fwy dymunol a threuliadwy na bwyd oer. Mae mwy o anghen ymborth cynhes ar blant a hen bobl, nag ar ddyinion yn nghanol nerth ac iechyd. Pan fyddwch yn dlawd iawn, ac heb gael digon i fwyta, peidiwch yfed dim oer." Dywed hefyd fod gwin yn beth hollol ddianghenrhaid i ddyinion iach.



## Y CEFFYL.

**I** synem i lawer o'n derbynwyr ieuanc, sydd mor hoff o yru y ceffylau, waeddi allan, braidd yn ddiarwybod iddynt eu hunain, pan welant y llun prydferth hwn, "*Come up, Jolly!*" Bernir fod y ceffyl o darddiad dwyreiniol, ac mai yr Aiphthiaid oedd y rhai cyntaf i ddarostwng y ceffyl dan warogaeth, ac i wanaeth dyn. Yr ydym yn darllen yn y Bibl am feirch yn yr Aipht yn fore iawn. Y mae yn un o'r creaduriaid direswm mwyaf gwasanaethgar ar y ddaear. Heblaw ei nerth a'i fuandra, mae ei gallineb a'i gof yn dra nodedig; a chymer ei ddysgyblu weithiau i gyflawni pethau anhygoel.

Ceffylau Arabia yw y rhai mwyaf enwog. Mae pob dyn, agw, yn y wlad hono, pa mor dlawd bynag y bo, yn berchen ceffyl, yr hwn a drinir ganddo gyda'r tynerwch mwyaf. Bydd yn cadw ei

gaseg a'i ebol bob amser yn ei gaban gyda'i wraig a'i blant; a gwelir ei rai bychain yn fynych yn dringo coesau yr anifail di-niwed, heb y perygl lleiaf. Nid yw yr Arab byth yn curo ei geffyl, ond bob amser yn siarad âg ef yn yr iaith fwyaf anwyl a charedig. A byddai yn dda iawn i Ewropëaid—ie y Cymry—ddysgu gwers oddiwrthynt yn hyn; oblegid hyn yw y rheswm fod ceffylau Arabaidd mor ufudd i'w meistriaid, ac mor ymlynol wrthynt. Adroddwn hanesyn neu ddau i egluro yr olwg sydd gan yr Arab ar ei geffyl.

Yr oedd unwaith gan Arab tlawd gaseg ragorol—hi ydoedd ei holl feddiant. Mynai y *Consul* Ffrengig ei phrynu i'w frenin, Louis XIV. Gwrthodasai yr Arab y cynnyg ar unwaith, oni bae ei dlodi mawr. Nid oedd ganddo ond carpiâu am dano; yr oedd ei wraig a'i blant yn newynu; ac yr oedd y swm a gynnygid am yr anifail yn fawr. O'r diwedd, wedi hir betrusder, ildiodd i'w gwerthu. Dygodd y gaseg at dŷ y *Consul*. Disgynodd—safodd yn ei hymyl gan bwyo arni—edrychai ar y swm arian, ac ar y gaseg bob yn ail—ocheneidiai—wylai yn hidl. "I bwy yr wyf yn myned i dy roddi?" meddai. "Yr Ewropëaid, y rhai a'th rwymant yn dŷn—y rhai a'th gurant—y rhai a'th wnânt yn druenus. Dychwel gyda mi, fy mhrydferth, fy mherl, a llawenycha galonau fy mhlant." Gyda'r gair olaf, neidiodd er ei chefn, anghofiodd ei dlodi, ac mewn moment yr oedd ymaith o'r golwg.

Cynnygiai un o ddirprwywyr y wlad hon yn Bagdad hanner can' punt am gaseg deirblwydd a farchogid gan Arab. "Ychydig ychwaneg," ebai'r Arab gan wenu. "Pedwar ugain." "Ychwaneg eto?" "Can' punt," ebai'r gŵr. "Wel," ebai'r Arab, "peidiwch fy nhemtio âg ychwaneg. Gwn eich bod yn bendefig cyfoethog, yn berchen ceffylau, camelod, a mulod, a llwythi o aur ac arian, ond ni chewch byth mo fy nghaseg i, pe cynnygiech i mi y cwbl a feddech."

## ROSE A BLANCHE;

*Neu Gynllwynion y Jesuitiaid.*

### PENNOD III.—O FLAEN YB YNAD.

**D**YMA yr ynad yn dyfod. Y mae Dagobert mewn dyrswch a thralod annesgrifadwy. Ei geffyl wedi ei ladd, ac yntau wedi ei adael heb ei drwydded (*passport*), heb ei bapryan, ac heb arian; ac yr oedd oediad o un dydd yn bwysig i holl amcan ei daith. Yr oedd wedi ei orchfygu yn lân gan ei flinderau, ac wedi ymollwng i gyfyng-gynghor ingol. Ond cyffrôdd llais yr ynad ef. Cododd oddiar ei liniau, sychodd y deigr yn o'i lygad a chornel un o ddillad y gwely, safodd yn syth, gan dynu ei fysedd trwy ei *moustache*, a dywedodd wrth y chwïorydd,—

"Peidiwch ofni dim, fy mhlant anwyl, nid oes dim niwed yn



bod eto. Aroschwch yna yn dawel, ac edrychaf fi na chaiff neb, oddigerth yr ynad, ddyfod i mewn yma atoch chwi."

Canodd y drws ar ei ol, aeth allan i'r *passage*, lle yr oedd Killjoy o hyd yn cyfarth. "Ust! gorwedd i lawr, was," ebai.

"Pam na chedwch well llywodraeth ar eich ci, y dyn?" gofynai gŵr y tŷ, yr hwn a safai ar odre y grisiau â'i gap yn un llaw a lantern yn y llaw arall. Yr oedd yr ynad wrth ei gefn, yn aros am ffordd rydd i esgyn, a thŵr mawr o bobl y tu ol iddo yntau. Cauodd Dagobert ar y ci i mewn gyda'r merched, a daeth i gyfarfod yr ynad i ben y grisiau. Yr oedd ystafell weddol o ehang ar ben y grisiau a mainc yn y naill ben iddi.

"Pam yr oeddech yn cau y drws yna?" gofynai yr ynad i Dagobert.

"Am fod yna ddwy eneth ieuanc yn cysgu, y rhai ydynt dan fy ngofal i; ac am nad wyf am iddynt glywed y peth sydd i fod ger eich bron chwi, rhag eu dychrynu. Byddaf yn ddiolchgar i chwi, syr, os eisteddych i lawr fan yma, a gofyn unrhyw gwestiynau ag a weloch yn dda i mi."

"Y fath öofndra!" ebai'r ynad yn guchiog; "pwy roddes i chwi yr awdurdod i benodi y lle y cawn i eistedd i wneyd fy arholiad? A oes dim cywilydd arnoch beri i ddynion orfod codi o'u gwely yr amser hwn o'r nos, ac ar ol y cwbl ddangos eich coethder a'ch sarhâd?"

"Nid oeddwn yn bwriadu drwg, syr," ebai Dagobert, yn ofni yn fawr rhag magu rhagfarn yn ei erbyn yn meddwl yr ynad! "mae y genethod eisoes wedi eu dychrynu yn arw; ac yr oeddwn yn meddwl y buasai yn garedigrwydd mawr â'r plant diymgeledd, pe buasech yn fy holi yn y fan yma."

"Wel,—hym,—bydded felly, gan eich bod yn ewyllysio." Yna trôdd at ŵr y tŷ, a dywedodd, "Gadewch eich lantern yma, ac ewch allan." Ufuddhâodd gŵr y tŷ, ac aeth ef a'r rhai oedd yn ei ganlysu allan, a gadawyd yr ynad a Dagobert eu hunain yn yr ystafell.

Dyn mawr corffol, a golwg anniddig arno, oedd yr ynad, yn gwisgo cap brethyn ar ei ben, a chochl mawr ar ei ysgwyddau. Safai Dagobert o'i flaen â'i gap milwrol yn ei law, yn barod i ateb ei holiadau. Yr oedd ei galon yn ferw gan gymysg deimladau. Er iddo fod lawer gwaith yn sefyll yn nghanol poethder y frwydr, ac o flaen llygad eryraidd ei ymherawdwr, heb deimlo yr un gradd o bryder nac ofn, rhaid dyweyd fod ei galon yn awr yn crynu gan ofn o flaen ynad cyffredin mewn pentref dinôd.

"Yn awr, gwnewch frya," ebai'r ynad, "dywedwch beth sydd genych i'w ddyweyd drosoch eich hunan."

"Nid oes genyf ddim i'w ddywedyd drosaf fy hunan, ond y ma' genyf achwyniad i'w wneyd ar arall," ebai Dagobert.

"A ydych chi yn myned i'm dysgu i, y dyhiryn, pa fodd i'ch holi?"

"Begin eich pardwn, syr," ebai'r milwr, "nid oedd ond fy naill lledchwith i o siarad. Y cwbl oeddwn am ddyweyd yw, na wnaethum i ddim allan o le."

"Y mae Morok yn dyweyd fel arall."

"Morok!" ebai Dagobert, dan gnoi ei wefus.

"Ie, Morok, y prophwyd," ebai'r ynad; "dyn duwiol, nad yw yn allnog i ddyweyd anwiredd."

"Does genyf fi ddim i'w ddyweyd ar y mater yna," ebai Dagobert; "ond yr wyf yn credu eich bod chwi yn rhy dda i benderfynu unrhyw achos cyn ei wrando."

"Nid clustiau sydd i farnu, ond llygaid. Gwelais law y prophwyd wedi ei hanafu yn dost."

"Wel, pam na fuasai yn gofalu cau y drws ar ei anifeiliaid gwylltion?"

"Eich gwall chwi ydoedd oll," ebai'r ynad; "pam na fuasech chwi yn rhwymo eich ceffyl yn ddiogel wrth ei breseb?"

"Yr ydych yn dyweyd yn gall, syr," ebai Dagobert, dan geisio boddio meddwl ei farnwr. "Ond beth ddywedech pe buasai rhywun wedi rhyddhau fy ngheffyl o bwrpas a'i arwain at yr anifeiliaid gwylltion?"

"Ond pa ysbryd allai eich arwain i dybio y fath beth? Pa bwrpas allai hyny ateb i neb?"

"Mae hyny yn fwy nag wyf fi yn wybod," ebai Dagobert; "ond ar yr un pryd —"

"Ar yr un pryd wyddoch chwi ddim! wn innau ddim," ebai'r barnwr yn rwgnachlyd. "Beth bynag, y mae genych dwrw dychrynlyd uwch ben ygerbwd hen geffyl!"

"Ie," ebai Dagobert, a'i deimladau yn cyffroi, "dim ond ygerbwd sydd wedi ei adael o fy hen gyfaill Jovial: y ceffyl ffyddlonaf erioed, yr hwn oedd mor llon a bywiog ddim ond awr neu ddwy yn ol. Fel yr oedd yn gweryru arnaf, yn gwneyd ei branciau diniwed, ac yn llyfu fy llaw pan roddais y pryd olaf o fwyd iddo gynnu! Ond dyna ef wedi myned! Ni chaiff ei feistres na'i merched ei farchogaeth ef byth mywy. Ni thâl mwy ond ei dafu i'r domen. Yr oedd yn greulondeb & fy ngheffyl ffyddlawn, oblegid yr oeddwn yn ei garu yn anwyl!"

Dywedwyd y geiriau hyn mor effeithiol nes taro teimlad yr ynad. "Y mae yn ddrwg genyf fi am eich colled," ebai, "ond nid oedd ond damwain, ac y mae yn rhaid i chwithau ddal dani."

"Ie, syr, damwain o bwys mawr. Nid yw y ddwy ferch sydd genyf dan fy ngofal yn abl i ymgymeryd â'r daith ar draed, ac yr ydym yn rhy dlawd i dalu am ein cario; ac eto y mae yn rhaid i ni fod yn Paris erbyn mis Chwefror. Addewais i fam y plant yma, pan oedd ar ei gwely marw, y buaswn yn sicr o'u dwyn yno erbyn yr amser penodedig. Ac nid oes gan y trueiniaid yr un dyn ar wyneb y ddaear i'w hymgeleddu, ond fy hunan."

"Chwi ynte, yw eu —"

"Eu cyfaill a'u gwas ffyddlon. Ac wedi iddynt ladd fy nheffyl, sut yr wyf i fyned rhagof ar fy nhaith? Y mae genych chwi, mae'n bosibl, blant eich hunan. Pe byddai iddynt hwy gael eu gadael yn amddifaid, fel y rhai hyn, heb un cynnorthwy ond hen filwr, a cheffyl oedranus; ac os byddai gwawr yn codi ar eu bywyd

o ganol tlodi a thrueni, a bod amgylchiad fel hwn yn rhwystr iddynt eilwaith i gyrhaedd y sefyllfa hono, yr wyf yn sicr y bu-asech chwi yn gallu dirnad fy nheimlad i yn y cyfwng presennol."

"Buaswn yn ddiammheu," ebai'r ynad. "Yr wyf yn teimlo dyddordeb yn eich genethod. Beth yw eu hoedran?"

"Pymtheg mlwydd a dau fis oed. Efeilliaid ydynt!"

"Yr un oedran a Frederica, fy merch i," ebai'r ynad.

"Diolch i'r Nefoedd," ebai Dagobert, a'i lygad yn gloewi mewn gobaith, "ac y mae genych ferch o'r un oed? Yr wyf yn awr yn gwybod y caf gyfiawnder yn yr achos hwn."

"Cyfiawnder! cewch wrth gwrs. Beth gwell wyf o fod yn ynad os na wnaif gyfiawnder? Mor bell ag yr wyf fi yn gallu gweled, y mae pethau yn sefyll yn o gyfartal rhyngoch chwi a'r prophwyd. Rhaid dyweyd fod adroddiad y prophwyd wedi troi fy meddwl i yn eich herbyn chwi. Ond, y mae ef wedi gadael y drws yn agored, a chwithau wedi esgeuluso rhwymo y ceffyl. Y mae ef wedi anafu ei law, a chwithau wedi colli y ceffyl. Er fod y prophwyd wedi prophwydo dirwy, rhaid iddo fod yn brophwyd celwyddog y tro hwn. Yr wyf yn eith rhyddhau."

"Ond faint, dybiech chwi, ddylai ef dalu i mi?" gofynai Dagobert.

"Beth ydych yn glebran eto am dalu? onid wyf wedi hysbysu y peth yn ddigon amlwg?"

"Iâ, talu," ebai Dagobert, "y mae yn rhaid iddo dalu swm o arian i mi i gael ceffyl yn lle Jovial. Fe allai y gallwn gael ceffyl a wnelai ein tro ni yn go rad. Neu pe cawn asyn da, ceisiwn ymdaro â hwnw. Ond y mae —"

"Ond y mae beth? Y mae eich penglog mor wydn a derw. Yr wyf wedi dyweyd eisoes, a dywedaf eto am y tro diweddaf, nid oes arnoch chwi ddim i Morok nac ar Morok ddim i chwithau. Yr wyf wedi eich gosod ar yr un tir eich dau."

"Nid ydym ar yr un tir, syr. Os anafodd ef ei law, gall ef fyned ymlaen gyda'i alwedigaeth eto yr un fath. Ond sut yr af fi ymlaen i'm taith wedi colli fy ngheffyl?"

"Dylech ddiolch am fy anmhleidgarwch bellach, yn lle gofyn am ychwaneg o iawn," ebai'r ynad.

"Byddwn i yn foddolawn tori fy llaw ymaith, pe gallwn gael rhyw ffordd i fyned ymlaen i'm taith."

"Nid oes genyf ddim i wneyd â'r peth garech chwi. Dyna ddigon bellach ar hynyna. Gadewch i ni fyned bellach at y peth nesaf. Dangoswch i mi eich papyrâu a'ch *passport*."

"Gadewch i mi egluro yn gyntaf i chwi —"

"Dim ychwaneg o egluro. Dangoswch i mi eich *passport* ar unwaith, onidê rhaid i mi eich hanfon fel yspiwr neu grwydryn i garchar."

"Fy nghyru i garchar? Myfi i garchar!"

"Iâ, chwi, wrth gwrs, os nad ydych yn dangos eich papyrâu. Yn awr, peidiwch fy nghadw i ddysgwyl yn ychwaneg, nag i os ydych yn un peth yn rhagor."

"Yr oedd Dagobert, druan, mewn penbleth annesgrifiadwy. Yr oedd ei bapypau wedi myned; y carchar, a thyngned y merched ynglŷn â hyny, yn ymrithio o'i flaen, a'i daith bwysig yn myned yn ofer. Codai y gwaed i gyd o'i galon i'w wyneb.

"Dywedaf wrthyb fy sefyllfa, fy marnwr," ebai, "mewn dau air: Nid wyf yn edrych fel crwydryn, ai ydwyf? Ydych chiwi yn meddwl fod un fel myfi, yn teithio gyda dwy eneth —"

"Pam na ddangoswch chiwi eich papypau, os oes genych bapypau, yn lle fy nghadw i fan yma trwy'r nos?"

Gyda hyn dyma y ddwy chwaer yn dyfod i mewn atynt. Yr oeddynt wedi clywed geiriau garw yr ynad, ac erfyniadau Dagobert, ac wedi methu aros yn hŵy yn eu hystafell. Daethant ymlaen law yn llaw, a safasant o flaen Dagobert, gan edrych yn wylaidd ac ofnus yn wyneb yr ynad. Yr oedd gwedd darawiadol i'r eithaf arnynt, a chyffrôdd deimlad tosturiol yn nghalon yr ynad. Ymaflai y milwr yn llaw ddehau un ac yn llaw aswy y llall, gan sefyll o'r tu cefn iddynt a dywedodd, —

"Edrychwch ar y ddwy eneth amddifad a diymgeledd hyn, syr! Pa well *passport* allech ddymuno?" Yr oedd llygaid Dagobert yn awr yn llawn dagrau, ac yr oeddynt yn bygwth tori yn genllif dros ei ruddian.

"Druain o honynt!" ebai'r ynad, gan syllu yn dosturiol arnynt; "yn amddifaid mor ieuainc! Ac y maent wedi dyfod o bell, oeddech yn ddyweyd?"

"O derfyn pellaf Siberia, syr, i'r lle yr alltudiwyd eu mam cyn eu geni hwynt. Yr ydym wedi bod bum' mis eisoes ar ein taith—nid peth bach i ddwy eneth dyner fel y rhai hyn. Er mwyn y rhai hyn yn unig yr wyf fi yn gofyn eich cydymdeimlad a'ch cymhorth, y rhai sydd fel wedi eu geni i anfodoliau. Oblegid pan aethum i edrych am fy mhapypau yn awr, yn y walet, lle yr oeddwn bob amser yn eu dwyn, yr oedd fy mhoced-lyfr a hwythau, a'r pwrs a'r ychydig arian oedd genyf, a fy nghroes hefyd, oll wedi myned. Waith esgusodwch fi, syr; nid wyf yn ei ddyweyd o ymfrost, ond addurnwyd fi â chroes o anrhydedd (*cross of honour*) gan yr ymherawdwr â'i law ei hun. Chwi welwch gan hyny nas gall dyn fel myfi, er colli ei bapypau, fod yn ddyn drwg. Yr ydych yn deall bellach ein sefyllfa, a phaham yr oeddwn mor daer am i chiwi fy nghynorthwyo â cheffyl yn lle yr un a gollais wedi dyfod i'r lle hwn."

"Pa le a pha fodd y collasoch y pethau hyn?"

"Yr wyf yn sicr fod y cwbl genyf pan ddaethum i'r lle hwn y prydawn. Ond er pan ddaethom yma, y mae —"

Rhwystrowyd Dagobert i fyned ymlaen gan drwst troed yn dyfod i fyny y grisiau. Morok ydoedd. Yr oedd wedi bod yn llechu yn ddirgel ar y grisiau yr holl amser, ac wedi clywed pob gair o'r cydymddyddan. Yr oedd yn awr yn gweled yr ymddyddan yn dynesu at fan peryglus, ac ofnai i'w holl gynllun gael ei ddymchwelyd, felly anturiodd i bresennoldeb yr ynad.

(*I'w barhadu.*)

## SION, Y DDINAS HYFRYD.

Cyfeithiad o'r emyn Saesoneg,—“*Beautiful Zion, built above,*” &c. Gellir canu y geiriau Saesoneg ar yr un dôn, a'i chymeryd fel M. H. 6 llinell, fel y mae mewn rhai llyfrau.—\*.\*

7AU. 6 LLIN.—PASCAL

**H**YFRYD Sion, adail fry;  
Hyfryd ddinas, sanctaidd, gu;  
Hyfryd byrth o berlau gwiw,  
Hyfryd deml o waith ein Duw:

Hwn fu farw ar Galfari  
Egyr ei hoff byrth i ni.

Hyfryd nef,—pob peth yn glir;  
Hyfryd saint mewn gwisgoedd pur;  
Hyfryd fawl yr Arglwydd Ior;  
Hyfryd dânnau 'r nefol gôr:  
Melus fydd eu cwmni hwy,  
Yno i addoli mwy.

Hyfryd goron ar bob pen,  
Hyfryd balmwydd nefoedd wên;  
Hyfryd ynau, gwynion, cain;  
Hyfryd oll yw pawb o'r rhai'n:  
Ninnau awn ymlaen yn hy',  
Nes d'od i'r orphwysfa fry.

Hyfryd orsedd, Crist yn Ben,  
Hyfryd hymnau engyl nen;  
Hyfryd orphwys i rai bliin,  
Hyfryd wlad o nefol rin;—  
Hyfryd le! ein dinas yw,—  
Brysiwn yno byth i fyw.

## Y FFORDD I GAEL DIWYGIAD.

**H**OFYNODD gweinidog ieuanc unwaith i Dr. Beecher o America, pan wrth y bwrdd ar ol bwyta cinio,—“Pan fyddo crefydd wedi myned yn isel mewn eglwys, a'r bobl wedi colli archwaeth at bethau crefyddol, beth yw y moddion goreu tuag at wella cyflwr yr eglwys hono?”

Atebiad parod y Doctor ydoedd,—“Mynwch eich calon eich hunan yn gynhes yn gyntaf; wedi cynhesu eich calon eich hun, gellwch gynhesu calon un arall. Wedi cael dwy galon gynhes, cewch dair. Os cewch dair, cewch bedair. Ac os cewch bedair, cewch bump. Wedi cael saith, cewch adfywiad. Ac am y llwybr i gael eich calon eich hun yn gynhes, rhaid gwneyd hynny trwy ddarllen, myfyrdod, a gweddi, yn y ffordd y gwyddoch eich hun yn dda pa fodd.”

Dyma sylw teilwng o ystyriaeth pob Cristion.

## GEORGE III. A'R CWACER.

**A**LODD George III. a'i frenines ymweliad â Llundain y tro cyntaf ar ol esgyn i'r orsedd, ar "Ddydd yr Arglwydd Faer"—dydd mawr yn Llundain. Pan yn myned trwy dyndra y bobl yn Cheapside, y rhai a floeddient eu llongyfarchiadau i'r brenin nes rhwygo yr awyr â'u banllefau, dychrynwyd un o'r ceffylau yn ngherbyd y brenin, yr hyn a daflodd y brenin a'i frenines i gryn bryder.

Yr oedd Crynwr, neu Gwacer, o'r enw David Barclay, yr hwn oedd yn cadw siop brethynwr gyferbyn a *Bow Church*, yn sefyll ar y *balcony* oedd o flaen ei ffenestr, ac yn gwelod pryder a pherygl y brenin a'i frenines. Prysurodd i lawr i'r ystryd, ac erbyn ei fod yno yr oedd y cerbyd wedi sefyll, ond y ceffyl o hyd yn anhwaith. Aeth Barclay ymlaen at y cerbyd, a dywedodd,

"A wnei di, George, a dy wraig Charlotte, ddiagyn a dyfod i fy nhŷ i, i weled arddangosfa y Maer?"

Tarawyd y brenin gan y fath gyfarchiad syml. Yn wir, yr oedd George wedi dangos droion ei fod yn ffafriol iawn i'r Crynwr, a bernir y buasai yn ymuno â hwy oni bae ei fod wedi ei eni yn frenin, ac nad oedd ganddo ddewisiaid yn y mater. Beth bynag, derbyniodd gynnygiad croesawgar y Cwacer, ac aeth ef a'i wraig freninol i dŷ y siopwr, ac ar y *balcony* yno y buont nes i'r holl orymdaith fyned heibio.

Dygodd David Barclay ei blant oll at y brenin a'r frenines, a hoffodd George olwg Robert yr hynaf yn fawr, yr hwn oedd y pryd hwnw tuag ugain oed. Wrth fyned allan, dywedodd y brenin,

"Dafydd, tyr'd i'm cyfarfod i ddydd Mercher nesaf i balas St. James, a dwg dy fab Robert gyda thi."


Aeth Dafydd a'i fab yno yn ol y gorchymyn; ac ymwrthododd y brenin â phob seremoniau breninol; cododd oddiar ei orsedd, aeth i gyfarfod y Cwacer a'i fab, ac ysgydodd ddwyllaw â hwy yn galonog. Ar ol dyweyd amryw eiriau caredig wrthynt, gofynnodd y brenin,

"Wel, Dafydd, beth ydych am wneyd o Robert?" a chyn rhoddi amser i ateb, ychwanegodd, "Gadewch iddo ddyfod yma, a darparaf fi alwedigaeth anrhydeddus ac ennillfawr iddo."

Gyda llawer o ddiolchiadau ac esgusodion, dymunodd y Crynwr cydwytbodol a manwl ganiatâd i wrthod y cais, gan ychwanegu,—"Yr wyf yn ofni na wnelai awyr llys dy Fawrhydi gyttuno â fy mab."

Yr oedd y fath wrthodiad yn beth newydd i'r brenin, ac yn codi Dafydd yn uwch fyth yn ei olwg. "Wel, wel," ebai, "chwi, Dafydd, wyr oren, chwi wyr oren; beth bynag, cofiwch eich dau dalu ymweliad achlysurol â mi yn y lle hwn."

Cyn hir, gwelodd Dafydd Robert ei fab wedi dyfod yn Fancwr yn Lombard St., a daeth yn sylfaenwr un o'r Bancian enwocaf sydd heddyw yn Llundain.—"*Lawson's History of Banking.*"



Y TWRCI.

**T**RTH gwrdd â thi o gylch y tŷ,  
Yn clechdar dan ymchwyddo,  
Dymuno 'r wyf na byddet ti  
Yn ngwlad y Twrc yn trigo.

Ond llon wyf fi dy weled di  
O flaen y tân yn rhostio;  
Neu 'n mygu ar y ddwblwr fawr  
Ar ben y ford bryd cinio.



## PEN Y FFORDD I'R CROGBREN.

**A**E ein darllenwyr oll, ond odid, yn gwybod i ddyn ieuane  
pedair ar hugain oed, o Germany, o'r enw Franz Müller,  
gael ei grogi yn Llundain, mis Tachwedd diweddaf, am ladd

dyn o'r enw Mr. Briggs, yn ngherbyd y rheilffordd. Ychydig o ddyddiau cyn cael ei grogi, anfonodd lythyr o garchar Newgate at ei dad a'i fam yn Germany; ac fel hyn y dechreuai ei lythyr;—

ANWYL RIENI, &c.—Gyda llaw grynedig, a chalon drallodus, yr wyf yn ymaflud yn y pin i anfon atoch ychwaneg o hanes yr anffawd sydd wedi fy ngoddiweddyd, ac wedi byrhâu fy nyddiau, a hyny mewn canlyniad i'm hanufudd-dod i chwi, fy anwyl rieni. Yr wyf yn awr yn gallu amgyffred yn berffaith ystyr geiriau y Bibl, yr hwn a ddywed fod y neb sydd yn dianrhydeddu ei rieni yn byrhâu ei ddyddiau. Ond yr wyf yn gweled hyn pan y mae wedi myned yn rhy ddiweddar arnaf. Pe buaswn wedi gwrando arnoch chwi, ni fuasai dim o'r gofid hwn wedi dyfod arnaf. Ond gobeithio y maddeuwch i mi, ac na wrthodwch fi pan mae y byd yn fy hyrddio ymaith.”

Anwyl blant, arswydwch rhag rhoddi eich troed ar ben y ffordd sydd yn arwain i'r crogbren—ANUFUDD-DOD I RIENI!

LLYFRAU. NEWYDDION.

[Y TESTAMENT NEWYDD, am ddwy geiniog.]

**D**IS gellir dysgwyl i'r Fibl-Gymdeithas gyhoeddi yr Ysgrhythrau mor rhad mewn ieithoedd eraill ag y gwna yn yr iaith Seisonig, am fod cymaint yn fwy yn cael eu cyhoeddi yn yr olaf. Mae Cymru, beth bynag, wedi bod yn bur ffodus fod ganddi gyfaill mor ffyddlaw yn un o brif oruchwylwyr y Gymdeithas—yr hwn, erbyn hyn, sydd y goruchwylwr hynaf ond un a fêdd y Gymdeithas yn yr holl fyd. Yr oedd ein cymydogion y Saeson yn ddiweddar wedi cael argraffiad bychan tlws o'r Testament Newydd am *ddwy geiniog*. Ond trwy ofal a llafur y Parch. T. Phillips, y goruchwylwr dros Gymru, a than ei arolygiad, wele, ar sawdl yr argraffiad Seisonig, gopi bychan tlws dros ben o'r Testament Newydd, yn iaith y Cymro, yn ymddangos am **DDWY GEINIOG!** Mae yn llawen genym gael y cyflêusdra i hysbysu y newydd i'n darllenwyr ieuainc.

[Y BARDD A'R CERDDOR; *gyda hen Ystraeon am danynt.* Gan J. CEIRIOG HUGHES. Llyfr IV. Pris Swllt.]

**M**AE hwn yn llyfryn mor ddarllenadwy a'r un o'i ragflaenor-iaid; a'r rhan gyntaf o hono yn fwy defnyddiol. Mae “Yr Awgrymiadau ynghylch ysgrifenu Caneuon, a geiriau i Gerddoriaeth,” yn beth gwir anghenrheidiol, a gobeithio y try beirdd ieuainc ein gwlad eu sylw at y pwnc. Ac er nad yw y pethau hyn ond “rhannau allanol corff gweledig y gerdd,” eto mae ysbryd gogoneddus yn deilwng o “gorff gogoneddus.” Nid awgrymiadau yn unig, ond y mae addysg lawer ar y pwnc yn y llyfr hwn. Mae yr “Hen Ystraeon” hefyd yn ddyddorol iawn; ac y



mae Hanes Meurig a'i *Lady*, gyda phriodas y Tywysog a'r Tywysog Bach, yn beryglus braidd i beiriannau chwerthin dyn. Mae Ceiriog y tro hwn yn gwneyd hafog o eiriau Seisonig—yn eu cymeryd yn garcharorion wrth yr hanner dwsiniau, ac yn eu gyru mewn dillad Cymreig i'w rhengau. Mae yn "crëu" ambell air hefyd—un yn arbenig a barodd chwerthin iachus ar ein haelwyd ni—ceff'ogaeth (yn lle marchogaeth).

[ESTHER. *Gan* GLAN ALUN. Treffynnon: P. M. Evans.]

**MAE** cân (ddiodl) Esther, gan Glàn Alun, a ymddangosodd yn ddarnau yn y *Traethodydd*, wedi ei chyhoeddi yn awr yn gyfan, mewn llyfryn bychan tlws; a diammheu y bydd yn dda gan lawer wybod hyny. Mae clod Glàn Alun fel bardd yn berffaith hysbys. Ac yr ydym ni yn ystyried y Gân hon yn llawn cystal, os nid yn rhagori, ar ddim a gyhoeddodd o'r blaen.

[OUR WORK; *four lectures on the principles and practice of Sunday School Teaching.* By W. H. GROSER, F.G.S. Sunday School Union, 56 Old Bailey, London.]

**HEDAIR** o ddarlithiau yw y rhai hyn wedi eu traddodi gan *ŵr* oedd yn deall ei bwnc, o flaen aelodau y "*Sunday School Union Training Class*," ac y maent yn deilwng o astudiaeth fanylaf pob athraw yn yr Ysgol Sul. Materion y darlithiau ydynt,—1. Ein defnyddiau; neu beth yw plentyn? 2. Yr offerynau; beth i'w ddysgu? 3. Pa fodd i ddysgu; neu iawn ddefnyddiad yr offerynau. 4. Ar waith: yr athraw yn dysgu.

[CHWEDLAU YR AELWYD, *er addysg a difyrowch ieuencyd.* R. Hughes & Son, Wrexham. Prîs 4 ceiniog.]

**HISTORIAU** bychain a thameidiau prydyddol yw cynnwys y llyfryn hwn, wedi eu bwriadu i dynu sylw a bryd y plant at fywyd rhinweddol a duwiol; ac y mae tuedd felly, dybiem ni, ynddynt oll.

[CANEUON GWLADGAROL CYMRU; *gan* R. J. DERFEL. Wrexham: Cyhoeddedig gan R. Hughes & Son. Prîs Swll.]

**ID** yw awen Derfel yn diogi. Yr ydym wedi galw sylw yn ddiweddar at ddau neu dri o lyfrau o'i eiddo o'r blaen; *dyma* un eto, ac y mae hwn wedi ein taro ni fel y mwyaf awengar a darllenadwy. Gellir dysgwyl oddiwrth enw y llyfr fod ei waed Cymreig yn bur frwd. Ond nid brydaniaeth yn unig sydd yma. Mae yma doraeth o synwyr da yn cael ei draethu gyda holl swyn awenydd. Yr ydym wedi plygu cryn ddwsin o ddail, ar ddarnau ag y carasem eu dyfynu. Ond ni oddef ein terfynau. Ni roddwn ond un safnaid bychan, a hwnw, fe allai, y lleiaf ei *farddoniaeth* yn y llyfr, ond y mae ei wers yn dra phwrpasol i filoedd ein darllenwyr ieuainc:—

GWINEDD A DANNEDD GLAN.

Torwch eich gwinedd,  
Golchwch eich dannedd,  
Cadwch eich gwyneb yn lân;  
Mae 'r baw sydd yn gorwedd  
Mor hyll dan y gwinedd,  
Yn hyllach ar ddannedd mân.

Cofiwch fod glendid  
Yn groes i aflendid  
Ar winedd a ddannedd mân,—  
A bod dannedd budron,  
A gwinedd mawr duon,  
Yn warthrudd i wyneb glân.

Hoffus gan winedd,  
Melus gan ddannedd,  
Gael digon o ddyfroedd glân;  
I gadw eu glendid,  
A gwarthus aflendid,  
Fel dylent hwy fod, ar wahân.

Torwch eich gwinedd,  
Cadwch eich danuedd,  
Megys eich gwyneb yn lân;  
Ac felly bydd glendid,  
O hyd yn galonddid,  
I'r gwinedd a'r dannedd mân.

HOFF O GANU.

**R** mai canwr gwael ydwyf, meddai "*Old Humphrey*," eto yr wyf yn arfer canu pan fyddaf wrthyf fy hun. Peth bychan yn fynych fydd yn fy nghyffroi: golwg ar dipyn o wyrddlesni ar y ddaear, neu ddarn o'r wybr las uwch ben. Ydwyf, ydwyf, yn hoff o ganu, ac yn canu yn fynych â'm calon pan fydd fy ngwefusau yn ddystaw.

*Pwy sydd yn ceisio gan yr adar ganu?* Y maent yn canu i smwythâu eu calonau, a dyna'r fath ganu yr wyf fi yn hoffi. Rwy'n caru clywed *haléluia* uchel, nid gan lais clir a soniarus yr awn sydd yn cael ei dalu am ganu, ond gan fil o dafodau yn canu i'r galon ac â'r deall.

Cewch yma fy hoff bennill. Canwn ef yn fy ieuenctyd, ac wedi yfu i fyny; ac yr wyf yn ei ganu yn awr yn fy hen ddyddiau;—

When all thy mercies, O my God,  
My rising soul survey,  
Transported with the view, I'm lost  
In wonder, love, and praise.



## BENJAMIN BACH.

Cyflwynedig i Mr. a Mrs. DAVIES, Twyncarno, Rhyminney, ar farwolaeth eu hanwyl blentyn, BENJAMIN WILLIAM, Mai 8fed, 1863; yn 4 blwydd oed.

**R** cryfed yw undeb serch rhïaint y byd,  
Mae tynfaen y nefoedd yn gryfach o hyd;  
Hi dÿn ei hanwyliaid o'u poen i fwynhâd,—  
Yn berlau i goron hoff Frenin y wlad.

Os gwywodd y rhosyn agorai mor fwyn,  
Eich Benjamin William, a dynai eich swyn;  
Os un o'ch hanwyliaid mewn dystaw fedd roed,  
Ei weled gewch eto 'n fwy hardd nag erioed.

Gofelid am dano gan hoff dad a mam,  
Chwïorydd a brodyr—ni chai yr un cam;  
Ond rhaid i ni addef mai gwell iddo ef  
Ei ddwyn gan ei angel at blant bach y nef.

Pe cawsai fyw yma collasai ei wên  
Yn fynych wrth ddrachtio o gwpan yr hen;  
Ond fry yn y nefoedd mae 'r teulu bob un  
Yn gwênau 'n wastadol, fel Iesu ei hun.

Pwy ammheu na chafodd rhyw seraph pur, iach,  
Drin euraidd wallt cyrliog eich Benjamin bach,  
Cyn gosod ei goron dlôs, dlôs ar ei ben,  
A gwisgo am dano 'i dragwyddol wisg wên.

Pan fyddoch yn myned i edrych ei fedd,  
A thywallt brwd ddeigryn mewn adgof o'i wedd,  
Gwnewch gofio mai sefyll y byddwch wrth ddôr  
Mynedfa sy 'n arwain i balas eich Hior.

Ond i chwi glustfeinio, yr awel o'r nef  
Sibryda, "*Nid yna—nid yna mae ef,*"—

Trowch *fry* eich golygon, a sychwch i ffwrdd  
Eich dagrau; daw bore cewch eto ei gwrdd.

IRLWYN.

Y FFORDD I BEIDIO GRWGNACH.

**R** oedd esgob Italaidd unwaith yn nghanol profedigaethau mawrion, eto yn ymddangos yn hollol dawel, ac heb adael i'r un gair grwgnachlyd dd'od dros ei wefus. Gofynodd cyfaill iddo,

"Beth yw y dirgelwch am eich bod yn gallu bod mor dawel yn nghanol cymaint o amgylchiadau croesion?"

"O, y dirgelwch i gyd yw, fy mod yn gwybod y ffordd i wneyd defnydd da o fy llygaid; dyna i gyd," ebai'r esgob duwiol.

"Defnydd o'ch llygaid? eglurwch i mi beth ydych yn feddwl."

"Gwnaf yn ewyllysgar," ebai'r esgob; "ymlaenaf oll yr wyf yn codi fy llygaid ac yn edrych i'r nefoedd, ac yn cofio mai yno mae y cartref y dylwn ymestyn ato & fy holl egni. Yr wyf yn troi fy llygaid eilwaith at y ddaear, ac yn meddwl am y lle bychan gaf feddiannu ynddi hi, ryw ddiwrnod. Yr wyf yn edrych drachefn ar y byd, ac yn gweled fod miloedd lawer ynddo yn llawer mwy anhapus na mi. Yna yr wyf yn gallu amgyffred gwir ddyben bywyd—ymha beth y mae dedwyddwch yn gynnwysedig, a pha mor feis fyddwn i gwyno a grwgnach."

PA UN, GYFAILL?

**D**ARLLENYDD! mae dwy ffordd i ddechreu y diwrnod;—trwy weddi, neu heb weddi. Yr ydych chwi yn dechreu y dydd trwy un o'r ddwy ffordd hyn. Trwy ba un?

Mae dau ddosbarth o ddynion yn y byd,—y cyfiawn a'r drygionus. Yr ydych chwi yn perthyn i un o'r ddau ddosbarth hyn. I ba un?

Mae dau feistr mawr yn y byd,—Duw a Diafol. Yr ydych chwi yn gwasanaethu un o'r ddau feistr hyn. Pa un?

Mae dwy ffordd yn arwain trwy amser i dragywyddoldeb,—y ffordd gul, a'r ffordd lydan. Yr ydych chwi yn teithio ar un o'r ddwy ffordd hyn. Ar ba un?

Mae dau fath o farw,—“marw yn yr Arglwydd,” a “marw yn eu pechodau.” Byddwch chwi farw o'r naill neu y llall. O ba un?

Mae dau le ag y mae dynion yn myned iddynt yn y byd arall,—nefoedd ac uffern. Byddwch chwithau yn un o'r ddau le hyn. Ymha un?

Meddyliwch am y gofyniadau hyn; gweddiwch drostynt; a frowch rhag “y llid a fydd.”—*O'r Treasury.*

## GWEDDI A GWAITH.

**A**NFONODD cyfaill atom am ddau blentyn bychan, brawd a chwaer, oedd yn ddiweddar yn croesi ar blanc dros y camlas sydd rhwng Pontrhydyfen a Chwmafon. Collodd yr ieuengaf, y bachgen, ei droed ar y planc, syrthiodd i'r dwfr. Dychrynodd ei chwaer fechan. Yr oedd y camlas yn ddwfn, ac nid oedd dyn na thŷ yn agos. Yr oedd ei brawd bach yn boddi, ac ofnai hithau, os elai i'r dwfr, y boddent ill dau. Ymhen hanner mynydd, dacw yr eneth ar ei gliniau, ac yn gwaeddi gyda dagrau, "Arglwydd! rho help i gwni (codi) fy mrawd bach o'r canal!" Yna neidiodd i fyny, ac i mewn i'r camlas; cafodd afael yn ei brawd, ac er syndod mawr, daethant i'r làn ill dau yn fyw.

Thâl ddim gweddio heb weithio, na gweithio heb weddio. Os mynwn lwyddo, rhaid i ni arfer gweddi a gwaith.



## DYDDANION.

ENWAU CYWBRAIN WEDI CWRDD.

**D**ALIWYD dwy ddynes yn ddiweddar o'r enw *Mary Pigeon* ac *Emma Lark* yn lladrata ieir oddiar ddyn o'r enw *Aviary* (tŷ adar). Cymerwyd y carcharorion i fyny gan heddeidwad o'r enw *Parrot*, yr hwn wedi eu dwyn o flaen yr ynadon, a'u cauodd i fyny yn eu cell.

EDRYCH AR ERAILL YN BWYTA.

**H**R oedd boneddwr wedi galw ar un o'i ddeiliaid tlawd i ddyfod i'w ystafell ato, tra yr oedd ef a nifer o'i wahoddedigion yn eistedd o amgylch y bwrdd ac yn bwyta. "Pa newydd ydych chi, Hodge?" gofynai'r boneddwr. "Dim, am wn i, syr," oedd ymateb, "oddigerth fod fy hwch i wedi dyfod â thri ar ddeg o foc bach, ac nad oes ganddi ond deuddeg têth!" "Wel, beth wna yn eiddo sydd dros ben y tethau, druan," ebai'r boneddwr. "Gwneuthur yr un peth a finnau, syr, edrych tra byddo y lleill yn bwyta."

CRYS GLAN.

**A**RFERAI Coleridge adrodd y stori yma am ei dad. Yr oedd ei dad, yr hwn oedd offeiriad, yn myned oddicartref ar ddiwrnod am dridiau neu bedwar. Rhoddodd ei wraig grys glân iddo ar gyfer pob diwrnod, gyda siars iddo roi un glân am dano bob dydd. Wedi dychwelyd, pan aeth y wraig i chwilio y trwm, ei syndod nid oedd yno yr un crys! O'r diwedd cafodd fod y Ficer wedi ufuddhâu i orchymyn ei wraig, ac wedi rhoddi ei crys glân am dano bob dydd, ond iddo anghosio tynu yr un o'r crys isaf i fwrdd.



## TRYSORFA Y PLANT.

RHIF. XL.]

EBRILL, 1865.

[CYF. IV.

### BLWCH YR ARLWYDD.

**A**E llawer o'n darllenwyr ieuainc yn cadw blwch i drysori y ceiniogau a'r sylltau y maent yn gynnilo. Gwyddom am rai yn dewis poced y tad neu y fam yn fanc cynnilo. Mae eraill â'u "Christmas Box;" ac eraill yn eu gosod bob yn swllt, neu goron, neu bunt, yn manc y *Post office*, neu fanciau cynnilo y trefi.

Gwaith da yw arfer plant o'u mebyd i wneyd hyn. Y mae yn llawer gwell na'u gadael i wario pob ceiniog a gaffont ar deganau dibwrpas, a melusion ariach. Gwyddom am rai plant wedi dyfod yn gyfranddalwyr (*shareholders*) ymysg cwmnioedd cyfrifol, a hyny gyda'u harian eu hunain, cyn eu bod yn bum' mlwydd oed. Mae peth o'r fath yn foddion rhagorol i gynnyrchu ysbryd cynnildeb mewn plant yn eu dyddiau boreuol.

Eto mae perygl ynglŷn â hyn. Hawdd yw myned o un clawdd i'r llall. Mae yn beth digon posibl arwain plentyn yn y cyfeiriad hwn i roddi ei holl fryd ar arian, ac i feddwl mai dyben mawr bywyd yw eu casglu. Y perygl yw meithrin ysbryd ariangar a chybyddlyd yn y plant. Mae anghen dylanwad cyferbyniol i fantoli y galon, a'i chadw yn ei lle. Mae digon o anghen hyn, yn wir, ar rai mwy na phlant; oblegid y mae ariangarwch wedi dyfod yn farn ac yn felldith i lawer calon, a llawer cynulleidfa. Ond y ffordd i wella yw dysgu yr iawn ysbryd i'r plant.

Y diogelwch rhag y perygl hwn—a chareu i'r plant oll ymgymeryd âg ef—yw, mynu blwch, a gosod arno mewn llythyrenau amlwg,—

### BLWCH YR ARGLWYDD,

ac yr ydym am i'r plant dafu i hwnw yn gyson gyfran wastadol o'r arian a gaffont. Rhodder ceiniog bob wythnos; neu rhodder ceiniog allan o bob chwe' cheiniog fyddo yn myned i'w blwch eu hunain; neu yn ol unrhyw gynllun y penderfynwr arno mewn ymgynghoriad â'u rhieni.

Bydd y blwch hwn yn cynnwys trysorfa i'r plant i gyfranu o honi, wrth gyfarwyddyd eu rhieni, at unrhyw achos crefyddol neu ddyngarol y byddo galw.

O Flwch yr Arglwydd y dylai y plant dalu at lyfr yr eglwys; oblegid dylai pob plentyn gael ei arfer i roddi rhywbeth yn yr eglwys, pe na byddai ond ceiniog yn y mis.

Byddai gan y plant felly hefyd drysorfa eu hunain i gyfranu o honi at gasgliadau neillduol y gwahanol gymdeithasau daionus, ac achosion lleol; a delai y plant i deimlo mwy o ddyddordeb yn yr achosion hyny, ac mewn cyfranu atynt.

Byddai ganddynt hefyd gyflëusdra i gynnorthwyo ambell gardotyn tlawd fyddo yn galw heibio, pan fyddai eu llygaid yn llenwi o ddwfr mewn tosturi ato. A bydd yn fwy o iechyd i'w calon o'r hanner i roddi o'r peth y maent wedi ei gasglu eu hunain, na chario ceiniogau dros y tad neu y fam iddynt. A gallwn ni sicrhâu iddynt y bydd yr Arglwydd yn ddigon boddllawn iddynt roddi o'i flwch ef i'r tlodion; oblegid dywedodd Iesu Grist, "Yn gymaint a'i wneuthur o honoch i un o'r rhai hyn, fy mrodyr lleiaf, i mi y gwnaethoch."

Yn wir, byddai blwch fel hwn yn llawn mor briodol i ddynion mewn oed, yn wŷr a gwragedd, rhieni a phlant. Gwyddom am lawer sydd wedi ymgymeryd â'r cynllun, a thystiant fod cyfranu at achosion crefyddol, oddiar hyny, wedi dyfod yn beth mwy dedwydd o lawer, a'u bod yn cyfranu mwy na dwbl eu rhoddion blaenorol, a chyda mwy o hawsder; a gallwn ninnau ychwanegu fod y cyfryw lwybr o gyfranu yn un llawer mwy Ysgrythyrol. Yr ydym yn clywed am rai yn rhoi o swllt i wythswllt yn wythnosol yn y blwch; rhai yn rhoddi y ddegfed ran, a rhai gymaint a'r bummed ran o'u holl dderbyniadau. Ac y mae gan y cyfryw "drysor" parod, i'w gyfranu yn llawen pa bryd bynag y delo y galw am dano. Dyma gynghor Paul:—"Megys yr ordeiniais i eglwysi Galatia, felly gwnewch chwithau. Y dydd cyntaf o'r wythnos, pob un o honoch rhodded heibio yn ei ymyl, gan drysor fel y llwyddodd Duw ef."

Ynglŷn â'r annogaeth at Flwch yr Arglwydd, fe allai nad anmhriddol rhoddi y penderfyniadau canlynol a roddodd gweinidog i'r plant ac eraill, mewn cyfarfod cyhoeddus ychydig wythnosau yn ol:—

PENDERFYNIADAU AM Y FLWYDDYN.

1. Yn ystod y flwyddyn hon byddaf byw i Grist. Yna, os byddaf farw yn ystod y flwyddyn, caf ei gorphen *gyda* Christ.

2. Mynaf ryw faes penodol i lafurio ynddo dros Dduw, ac er lles i'm cyd-ddynion. Gwnaf fy ngoreu, yn nghymhorth Duw, i fod yn foddion i achub *un* enaid o leiaf.

3. Rhoddaf y ddegfed ran o'm holl ennill at achosion crefyddol, a chymaint dros ben hyny ag a allaf. Os ceir fi yn "yspeilio Duw," cymered ymaith fy ennill, ac na adawed fi mwy yn oruchwyliwr.

4. Ni chyffyrddaf â'r cwpan meddwol yn ystod y flwyddyn; ac nid âf i un lle y byddai arnaf gywilydd cyfarfod â'm gweinidog yno, neu gyfarfod â'm Harglwydd.

5. Ni ddywedaf air y flwyddyn hon am ddrwg neb yn ei gefn.

6. Gwnaf fy ngoreu i chwilio bob dydd a oes genyf sail dda i'm gobaith am fywyd tragwyddol. Fe allai mai hon fydd fy mlwyddyn ddiweddaf.



Y CHWARTER DOLER YN Y TYBACO.

**I**AN oedd llanc o'r Indiaid un diwrnod yn rhodio ymhlith ei gymydogion gwynion, gofynodd ganddynt am ychydig o dybaco. Un o honynt â chanddo beth yn rhydd yn ei logell, a gymerodd lonaid ei law allan ac a'i rhoddodd iddo. Y dydd canlynol daeth yr Indiaid yn ei ol, gan holi am roddwr y tybaco, gan hysbysu ei fod wedi cael chwarter doler o arian yn y tybaco, a'i fod am ei ddychwelyd i'r perchenog. Dywedwyd wrtho, yn gymaint ag iddo ei gael, y gallai ei gadw iddo ei hun. Atebai yntau, gan daro ei law ar gyfer ei galon, "Mae genyf ddyn da a dyn drwg yma, ac y mae y dyn da yn dywedyd nad ydyw yn eiddo i mi—fod yn rhaid i mi ei ddychwelyd i'r perchenog; ond mae y dyn drwg yn dywedyd, 'Beth, oni roddodd efe hwy i ti, a thi a'u piau yn awr;' a'r dyn da yn dywedyd 'nad ydyw hyny yn gywir, oblegid y tybaco sydd yn eiddo i ti, ac nid yr arian.' 'Na ofala,' meddai y dyn drwg, 'yr wyt wedi ei gael; dos a phryn wirod âg ef.' 'Na, na,' meddai y dyn da, 'ni ddylit wneyd hyny.' Felly nis gwyddwn beth i wneyd. Amcenais fyned i gysgu, ond yr oedd y dyn da a'r dyn drwg yn parhâu i ddadlau trwy y nos, ac yn fy ngofidio, fel nas gallwn gysgu llygedyn. Ac yn awr yr wyf yn dychwelyd yr arian i'w hiawn berchen, ac yr wyf yn teimlo yn ddedwydd wrth wneyd hyny."

Mae pawb yn teimlo yn ddedwydd wrth arfer gonestrwydd.

DOLAU BACH.



## DOS YMLAEN, GRISTION.

*(Breast the wave, Christian.)*

GAN J. CEIRIOG HUGHES.

**D**OS ymlaen, Gristion,  
Na ddigalona;  
Gwisg dy nerth, Gristion,  
Gwylia, gweddïa;

Megys y dyfroedd tros yr holl eigion,  
Gair Duw deyrnasa—dos ymlaen, Gristion.

Dos ymlaen, Gristion,

Nofia 'n egnïol,

Ti gei 'r lân, Gristion,

Tangnef tragwyddol.

Dal dy dir, Gristion,

Gafael yn Satan;

Ar dy lin, Gristion,

Ymladd ef allan:

Digon yw cymhorth myrdd o archengyl,  
Cadarn yw 'r Ceidwad a saif yn dy ymyl.

Dos ymlaen, Gristion,

Nofia 'n egnïol,

Ti gei 'r lân, Gristion,

Tangnef tragwyddol.

Cwyd y groes, Gristion,

Cymer hi 'n llawen:

Dilyn Ef, Gristion,

Trwy yr Iorddonen.

Cariad Crist Iesu byth ni 'n gwahana,  
Ynddo byth byddwn, seiniwn Hosanna.

Dos ymlaen, Gristion,

Nofia 'n egnïol,

Ti gei 'r lân, Gristion,

Tangnef tragwyddol.

## Y FUDDUGOL AR Y "OWESTIYNAU GWOBWRWYEDIG."

**S**YR,—Fe allai y bydd yn dderbiniol genych chwi, fel golygydd, yn gystal a chydymgeiswyr Jane Hughes, gael ychydig o'i hanes gan un sydd wedi cael mantais i'w hadwaen yn dda. Adwaenai y J. H. hon lythrenau ei hiaith pan yn fiwydd a hanner oed; a gallai ddarllen yn dda yn bedair oed.

Pan ddaeth "TRYSORFA Y PLANT" allan y fiwyddyn gyntaf, nid oedd neb yn y gymydogeath yn ei dosbarthu; ond mynodd hi ei chael o ardal arall, dros bymtheng milldir o ffordd, yn ail llaw. A chymerwch chwithau galon, anwyl Olygydd, mae eich cyhoeddiad wedi dal ei dir wrth ei werthu yn ail llaw, &c.

Wedi i J. H. gael y gyfrol gyntaf, darllenodd hi bob gair; a gwnaeth yr un modd â phob rhifyn a ddaeth allan o'r dechreu hyd yn hyn. A cheir crynodeb o bob TRYSORFA—yn farddoniaeth ac yn rhyddiaith, wedi ei ail argraffu yn ei chof, a hyny mor gwir ag ydyw yn yr argraffiad gwreiddiol.

Gyda golwg ar y llafur yr ymgymerodd hi âg ef i ateb eich cwestiynau chwi, bu tu hwnt i ddesgrifiad, mewn meddwl a darllen. Yr oedd wedi penderfynu, er y dechreu, mynu eu hateb, costied a gostiai.

Ac nid TRYSORFA Y PLANT yn unig a fydd hi yn ei ddarllen, ond y *Drysorfa* arall hefyd; *Y Faner*, a'r *Herald Cymraeg*; y *British Workman*, a'r *Band of Hope Review*; pa rai sydd yn cael eu hanfon iddi gan H. Owen, Ysw., Llundain; a'r *Box of Books* hefyd gan gyfaill o Manchester. Gellir eich sicrhâu ei bod yn fwy hyddysg yn hanesiaeth y gwledydd, helyntion teyrnasoedd, a symudiadau y Senedd, na llawer gwladweinydd.

Ac nid dyna y llyfrau sydd yn cael y sylw blaenaf, a'r argraffiadau dyfnaf ar ei meddwl chwaith. Gofala am i'r Bibl gael y flaenoriaeth ymhob ystyr; oblegid y mae eisoes bron wedi ei ddarllen ddwywaith drosodd o'i gwr, ynghyd a llawer iawn o Esboniad y diweddar Barch. James Hughes arno.


Dechreu a bob diwrnod gyda'r Bibl, gan ddarllen dwy bennod, o leiaf, yn union ar ol boreufwyd.

Myn aberthu pob peth er mwyn cael amser i ddarllen. Pryd y caiff gwmni wrth ei bodd, medr chwareu cân gystal ag unrhyw blentyn arall. Ond y mae yn ammheus genyf a oes un yn Nghymru, o'i hoedran, wedi darllen a meddwl cymaint a hi.

Meddianna dalent naturiol o'r radd uchaf, a hono wedi ei gwrteithio yn dda, fel y gellir canfod ynddi y plentyn a'r henafwraig yn hapus gydgyfarfod. Mae ei pharch, ei gofal, a'i hufudd-dod i'w rhieni, yn addurno ei chymeriad yn y modd prydferthaf.

Pan oedd tua naw mlwydd oed, daeth i edrych am ysgrifenydd hyn o linellau, pryd yr ydoedd ar wely cystudd, ac yn ammheu cael byw. Gofynnodd iddi, a wnai hi weddio drosto? Methodd ag ateb yn y fan, ond wedi myned allan o'r ystafell, dywedodd y gwnai hi dreio. Ac ar ei dychweliad adref, prysurai i'w hystafell i gyflawni ei haddewid; ac nid oes ammheuaeth ganddo heddyw nad ei gweddi hi a wrandawyd ar ei ran. Bydd yn son llawer am Olygydd TRYSORFA Y PLANT.

Fel Mair rasol, mam yr Iesu,  
 Neu Eliza a Lois lân,  
 Y bo Jane i'w duwiol deulu,  
 Ac i Gymru, gwlad y gân;  
 Dringo i fyny byddo beunydd,  
 Mewn anrhydedd, dysg, a hedd,  
 Nes cyrhaeddyd pen yr ysgol,  
 Sy'n ymylu ar wlad y wledd.



## Y PLANT A'R PLEDRENI.

CEFAIS lawer o ddifyrwrch ac addysg i mi fy hun un diwrnod wrth eistedd ar hen "Gadair y Green" i edrych ar y plant y chwythu pledreini o ddwfr a sebon, ac yna ymlid ar eu holl geisio eu dal.

Yr oedd eu cyfansoddiad yn gywrain iawn, ac ymddangosent y ardderchog o brydferth yn mhelydrau tyner yr haul. Yr oedd plant henaf mor ddifrifol eu hysbryd, a boddhaol eu calon, wrt eu gwneyd, a phe buasent bob un yn "sofren" felen, a'r plant lleiaf lawn mor frwd ac awchus yn ceisio eu dal. Ond can gynta ag y cyffyrddai eu dwylaw â hwynt, yr oeddent yn *addim*.

Nis gallaswn lai na meddwl fod y pledreni sebon yn arddangosiad tarawiadol o bethau y byd hwn, a'r plant o honom ninnau yn ein holl ffwdan yn ymlid ar eu hol. Nid pawb sydd yn gallu eu dal; ac ar ol eu dal, "gwagedd yw y cwbl." Nid yw dyn ychwaith, a'i holl ogoniant, fel y mae yn grëadur y byd hwn yn unig, yn ddim amgenach na'r bledren sebon. "Efe a gilia fel cysgod, ac ni saif. Canys y gwynt a ä drosto, ac ni bydd mwy o hono; a'i le nid edwyn ddim o hono ef mwy." "Ond gair ein Duw ni a saif byth;" ac fe saif hefyd y bywyd a'r cysuron a gawn ninnau trwyddo.



YSTORI ADA.

(Parhâd o du dal. 61.)

SOFYNODD unwaith am gael dyfod i lawr y grisiau, gan ychwanegu, "Fe allai fod mafon (*strawberries*) i lawr y grisiau."

"Yr wyf yn ofni," meddwn wrthi, "mai cariad at y mafon sydd yn peri i chwi geisio dyfod i lawr, ac nid serch at eich mam."

Dywedodd, "Na; caru *dynion* wyf—yr wyf yn hoffi *pethau*. Nid wyf yn caru mafon." Nid oedd y pryd hwn ond dwyflwydd oed.

Nid yw yn beth tebygol am blentyn a allai ymresymu fel hyn y buasai yn cymeryd i fyny ymadroddion ysbrydol fel y gwnelai, heb fod yn teimlo gwirionedd yr hyn oedd yn ddywedyd.

Yr oedd o bwys peidio dysgu ond can lleied ag oedd yn bosibl i un oedd yn feddiannol ar y fath feddwl. Felly ni ddysgwyd dim iddi ond ffeithiau mwyaf syml y Bibl, ac yn neillduol y ffeithiau oedd yn dal y cysylltiad mwyaf uniongyrchol â'r Gwardwr. Wrth weled nad oedd yn cael gwersi fel y dymunai, arferai ffurfio y llythyrenau â'i bysedd, neu eu copio â'r pensil, a gofyn i'r cyntaf a gyfarfyddai beth oedd enw y llythyren hono. Gadewid hi i chwarae hyd ag oedd yn bosibl, ac ar y Sabbath yn unig y dysgai ystoriau Ysgrythyrol, neu emynau, gan Edith yn gyffredin, cyn myned i'r oedfa y bore. Dyma yr hyn a alwai yn Ysgol Sabbathol, ac yr oedd yn rhaid iddi gael *shawl* fechan ar ei hysgwyddau, a napcyn ar ffurf bonet am ei phen, bob amser wrth fyned i gael y gwersi hyn, iddi gael bod yn debyg i'r plant tlodion wrth fyned i'r Ysgol Sul.

Un Sabbath cefais hi yn ei hystafell ysgol yn adeiladu tŷ â'i phriddfeini. Dywedodd, "A ydych chiwi yn meddwl y bydd Iesu Grist yn malio fod fy mhriddfeini genyf ar y Sabbath?"

Dywedais fy mod yn meddwl na w'nai, am ei bod yn eneth mor fechan.

Sabbath arall, daeth ataf a dywedodd, "Mae M—— yn dyweyd na ddylwn gael fy nheganau ar y Sabbath. A ydych chiwi yn meddwl y malia yr Iesu am hyny?"

Dywedais eto fy mod yn meddwl na wnelai.

Dywedodd hithau, "Nid wyf yn meddwl y gwna, am fy mod yn ferch mor fach. Pe buaswn yn ferch fawr fel Edith, ac yn gallu darllen ac ysgrifenu, ni fuasai eisieu fy nheganau ar y Sul arnaf, waith buaswn yn gallu darllen am yr Iesu. Ond nis gallaf ddarllen—felly nid wyf yn meddwl y malia ef."

Ond yr oedd bob amser yn barod i adael ei theganau i wrando ystorïau o'r Bibl, y rhai a wrandawai yn astud cyhyd ag yr adroddid hwynt iddi.

Weithiau byddai raid i mi ddyweyd wrthi, "Ni ddywedaf ychwaneg yn awr, aroschwch hyd ryw dro eto."

Un Sabbath, wedi i mi orphen, dywedodd,—“Mae lawer well gen' i dy' Sul na'r un o'r dyddiau eraill, am fy mod yn cael clywed cymaint am yr Iesu.”

Yr oedd yn naturiol yn blentyn o dymher gyndyn, wyllt ei thymher, a chyffrous. Pan tua dwyflwydd oed, bu ei hiechyd yn wael, a chafodd dipyn o'i "phen yn y blaen" y pryd hwnw. Cynnyddodd ei thymherau drwg yr amser hwn, a bloeddiad weithiau, "Gwnaf!"—"Mynaf!"

Oblegid hyn bygythiodd ei thad droion y wialen arni. Pan tua thair oed, rhag iddi dybied nad oedd ei thad ond cellwair, cyflawnodd ei fwriad. Chwpiodd hi ddwywaith.

Yn lle digio am y cerydd, ymddangosai fel pe yn deall yn hollol mai dyledswydd ydoedd, yn costio cymaint i'w thad ag iddi hithau, ac anwylai ef yn fwy o'r herwydd.

Ar y cyntaf tueddai i ymresymu y pwnc â mi, a dywedai, "Pan y mae Eugene (ei dōl) yn ddrwg, nid wyf fi yn ei chwipio, ond ei chusanu, a dyweyd wrthi, 'Byddwch yn ferch dda!' ac y mae hyn yn ddigon i'w gwneyd yn dda ar unwaith."

Dywedais am un dyn oedd yn gwneyd felly â'i blant, ond i'r Arglwydd ddigio wrtho, ac i'w blant dyfu i fyny yn ddrwg iawn. "Ie, Eli oedd hwnw," ebai. "Wel, rhaid ceryddu ynte."

Nid wyf yn cofio iddi ar ol hyn ddadleu y pwnc o gwbl.

Ar ol cael ei chwipio, cymerai ofal mawr rhag cyflawni y trosedd hwnw wed'yn, os tybiai fod ei thad gerllaw.

Un diwrnod daeth ei thad i mewn yn annysgwyladwy, a daliodd hi mewn pang o dymher ddrwg. Pan yn myned i'w cheryddu, rhoddodd ei dwylaw bychain yn mhleth, ac edrychodd i fyny i'w wyneb gyda'r wedd fwyaf erfyniadol, a gofynodd, "O Dadi! oes raid i chwi fy chwipio?" Yr oedd hyn yn ormod i galon tad allu ei wrthsefyll.

Bu am gryn amser ar ol hyn cyn iddi, trwy ras mewn atebiad i weddiâu, gael ei galluogi i orchfygu yn llwyr ei thymherau drwg.

Un diwrnod dywedodd wrthyf, "O, bûm yn y fath nwydau! Gweddiais ar yr Iesu yn ei gylch, ond yr wyf yn meddwl na cheistais ei attal. "Thâl·dîm·gweddïo heb dreio; rhaid i mi weddio a threio hefyd."

Un tro arall, daeth ataf, a dywedodd, "Nid yw o un dyben yn y byd; nis gallaf beidio myned i dymherau drwg. Y tro hwn treiais a gweddiais hefyd, ac ar unwaith anghofiais ac ysgrechais, a

bŷm yn ddrwg iawn! Pam nad allaf beidio? Paham y gwnaeth yr Iesu fi mor ddrwg?"

Yr oedd, mae'n wir, yn gweddïo yn gyson am gael tynu y galon ddrwg allan, a safai weithiau yn nghanol pang o nwydau drwg, a dywedai mewn llais penderfynol, "I lawr â thi, ewyllys gyndyn! i lawr!" Yna syrthiai ar ei gliniau yn y fan, a gweddïai am help. Ond yn fuan ar ol codi oddiar ei gliniau, os croesid hi, ymgynhyrfai drachefn. Dywedodd ei nurse wrthi un diwrnod, "Nid oes genyf fi fawr olwg ar weddïau fel yna; y maent yn ymddangos i mi yn debyg i weddïau y Pabyddion, y rhai sydd yn credu y gallant fyned ar ol gweddïo, a gwneyd fel y mynont."

Yr oedd y sylw hwn, wrth gwrs, yn annealladwy i Ada; ond rhai wythnosau ar ol hyn, daeth ataf, a dywedodd, "Dywedwch wrthyf beth yw anwiredd; clywais hwynt yn son am rywun wedi dyweyd anwiredd."

Dywedais wrthi hanesyn am ferch fechan yr hon a dorodd ystên, ac a wadodd mai hi a'i torodd, a dywedais mai anwiredd oedd dyweyd neu gymeryd arnom rywbeth nad yw yn wir. Gan ei bod yn awyddus i glywed ychwaneg ar y pwnc, adroddais iddi hanes Gehazi ac Ananias.

Yna dywedodd, "Gwn yn awr beth mae anwiredd yn feddwl." Ymhen oddeutu awr, daeth ataf drachefn, a dywedodd, "Dywedwch ychwaneg wrthyf am anwiredd. Meddylwch fy mod i yn gweddïo ar yr Iesu, ac yn dyweyd, 'O Arglwydd, dyro dy Ysbryd Glân i mi, a gwna fi yn ferch dda!' ac yna mor fuan ag y gorphenwn fy mod yn myned i nwydau drwg, ac yn dyweyd, 'Mynaf! Na fynaf!' A fyddai fy ngweddï yn anwiredd?"

Dywedais y byddai, am nas gallai ddymuno yn wirioneddol fod yn ferch dda, ac anghofio mor fuan.

Edrychai Ada yn brudd, yna aeth ar ei gliniau, a gweddïodd yn dra difrifol, "O Arglwydd Iesu, dyro i mi dy Ysbryd Glân; gwna fi yn ferch dda, a phaid a'm gadael i fyned i dymherau drwg! O gwna fi yn ferch dda! Gwna, gwna, Arglwydd Iesu! Amen." Yna cododd, a dywedodd, "Nid anwiredd oedd y weddi yna!"

Nid ydym yn cofio iddi ar ol hyn fyned i nwydau drwg ar ol gweddïo. Tua'r amser yma, yn wir—sef oddeutu Tachwedd, 1860, mor bell ag y gallwn gofio—gadawodd fyned i dymherau drwg yn hollol. Rai misoedd ar ol hyn, dywedai, "Yr ydych yn gwled nad wyf yn myned i dymherau drwg yn awr. Y rheswm yw, i mi ofyn i'r Iesu beidio fy ngadael, ac y mae Ef yn fy nghadw."

Dywedodd dro arall, "Yr oeddwn yn arfer myned i'r fath nwydau! Ac yna weithiau gweddïwn ar Satan, a dywedwn, 'O Satan, gwna fi'n ddrwg!' Ond nid wyf yn gwneyd hyny byth yn awr, dim ond gweddïo ar yr Iesu am fy ngwneyd yn dda."

Oddeutu wythnos cyn ei chystudd, dywedais wrthi, "Y mae mor dda genyf eich bod wedi gadael myned i nwydau, fel y buoch unwaith."

Dywedodd hithau, "Ie, ond yr wyf yn meddwl y pethau drwg

yn fy nghalon o hyd, er nad wyf yn eu hysgrechain hwynt allan yn awr."

Yr oedd y dôn ofidus yn yr hon y dywedodd hyn yn bur darawiadol.

Yr amser y byddai yn myned i nwydau drwg, byddai yn arfer gwrthod cymeryd ei gwisgo. Wedi gwisgo delai i fy ystafell i, a rhoddwn gacen (*biscuit*) iddi, o'r hon yr oedd yn dra-hoff. O'r diwedd gwnaethum ef yn rheol nad oedd i gael y *biscuit* os na bu yn ferch dda wrth gael ei gwisgo; ac yr oedd hi ei hunan i ddyweyd wrthyf bob bore sut yr oedd wedi ymddwyn. Dywedai weithiau, "Mae yn flin genyf ddyweyd, bwm yn ddrwg iawn."

Costiai ddagrau iddi yn fynych pan ddeallai fod ei chyffes yn ei hamddifadu o'i *biscuit*, ond nid yw yn ymddangos iddi gymaint a meddwl erioed am guddio y gwir. Dywedai weithiau, "Yr wyf yn ofni y rhaid i chwi beidio rhoddi y *biscuit* i mi, waith nis gallaf ddyweyd i mi fod yn ferch dda. Ysgrechais a dywedais, 'Na wna!'"

Dywedodd un bore, "Bwm agos yn dda heddyw, dim ond fy mod dipyn yn falch; yr oeddwn am gael fy ffroc newydd, pan oedd Ninny yn dyweyd 'Na.'"

Ni chefais erioed iddi ddyweyd anwiredd wrthyf, ond cawn yn fynych y byddai yn dyweyd yn waeth am dani ei hun nag yr oedd yn haeddu.

Yr oedd ganddi, er pan yn dair oed, syniad hynod o glir am gymeriad yr Arglwydd Iesu; ac nid yn unig hyny, ond hefyd am ei waith mewn prunedigaeth a sancteiddiad. Ymddangosai yr argraff yma o'i gymeriad mor ddiysgog yn ei meddwl, fel na siglodd ei meddwl yn ei gylch erioed am foment.

Yr oeddem un diwrnod, cyn ei bod yn dair blwydd oed, yn edrych ar lyfr darluniau ("*Sunday Picture Book*"), a gofynnodd Ada i mi egluro darlun y wraig o Samaria. Dywedais, "Dyma'r Iesu, a gwraig ddrwg yw honyna sydd wedi dyfod i gyrchu dwfr."

"Dywedwch wrthyf," meddai, "beth mae'r Iesu yn ddyweyd wrthi."

I wneyd prawf arni, dywedais, "Fe allai ei fod yn dywedyd, 'Dos ymaith, ddynes ddrwg; yr wyt yn rhy ddrwg i ymddyddan â mi.'"

Edrychai Ada yn ammheus, a dywedodd, "Na, ddywedai Ef ddim fel yna."

Gofynais, "Beth feddylicch chwi y mae yn ddyweyd?"

Ar ol myfyrio ychydig, gan syllu arno, dywedodd, "Mi wn. Yn gyntaf cusanodd hi, ac yna dywedodd, 'O wraig, gwnaf di yn wraig dda.'"

Ychydig cyn ei bod yn dair oed, yr oedd yn chwaraeu gydag angel bychan wedi ei wneyd o briddyn *china*, o'r hwn yr oedd yn dra hoff. Rhedodd âg ef i'r ystafell fagu, a dywedodd, "Edrychwch, Ninny, mor wŷn a glân yw'r angel bach! Y mae yn edrych fel pe bae ei holl bechodau wedi eu golchi ymaith."

Atebodd y *nurse*, "Nis gall glanhâu oddiallan olehi pechodau"

dynion ymaith. Pe golchwn i chwi faint a fynwn, nis gallwn olchi eich pechodau ymaith."

Dywedodd Ada, "Na ellwch *chwi*; ond mi wn i pwy *all*."

Ar ddydd pen ei thrydedd flwyddyn, cafodd liaws mawr o anrhegion, ac yr oedd yn falch iawn o honynt. Aeth trwy y tŷ i'w dangos, ac wedi hyny daeth i'm hystafell innau, ac aeth ar ei gliniau i weddio. Yr oedd yn dywedyd mor isel fel nas gallwn gipio ond ambell frawddeg. Dybenai ei gweddi trwy ddiolch i'r Iesu am ei hanrhegion, bob yn un ac un, "fy nòl—fy *workbox*," &c.; ac ar ol myned drostynt oll, ychwanegai, "AC YR WYF YN DIOLCH I TI, O IESU, AM I TI GAEL DY GOSBI YN FY LLE."

Dro arall pan oedd yn gorphen ei gweddi yn yr un geiriau, a phan ddeallodd wrth godi fy mod i yn gwrando, dywedodd, "Yr ydych yn gwel'd fy mod i yn cofio ynghylch ei fod ef wedi ei gosbi."

Weithiau, pan gyfaddefai ei bod yn ddrwg iawn, dywedwn wrthi, "Y mae yn ddyledswydd ar eich tad eich cosbi chwi. Ydych chwi yn meddwl y cosba Duw chwi?"

Atebodd hithau, "Na wna Ef. Y mae yr Iesu wedi ei gosbi yn fy lle."

Delai ataf yn fynych a dywedai, "Dywedwch stori wrthyf; dywedwch yr hyn wnaeth y dynion drwg i'r Iesu—pa fodd y cosbwyd yr Iesu."

Ar ol dyweyd wrthi, gofynwn weithiau, "Paham y cosbwyd yr Iesu yn y ffordd ddychrynllyd hono? A wnaeth efe ryw ddrwg?"

Y mae yn anmhosibl anghofio y pwyslais hynod roddodd wrth ateb, "Na, *myfi* wnaeth. Achos fy mod i mor ddrwg, a'r Iesu yn fy ngharu mor fawr fel nad oedd yn foddolawn i mi gael fy nghosbi; AM HYN Y FE'I COSBWDYD EF YN FY LLE I."

Cyfeiriai at hyn yn fynych. "Nid oedd yr Iesu am i mi gael fy nghosbi," meddai; "achos ei fod yn fy ngharu mor fawr, ac yr oedd am i mi fyned i fyw i'r lle hyfryd hwnw." Yr oedd y gwirionedd hwn yn cynnyrchu casineb mwyfwy ynddi at ddrwg.

Yr amser y gadawodd fyned i dymherau drwg, cyfnewidiodd yn fawr yn ei hymddygiadau; daeth yn hynod o ufudd, a dywedai yn fynych, "Rhaid i mi beidio gwneyd hyn neu arall; dywedodd fy nhad wrthyf."

Un diwrnod, yn ngwyliau Nadolig, 1860, cyfarfyddais âg Ada yn y *passage*, yn wlo yn dost. Rhedodd i'm hystafell, ac nis gallwn ei thawelu. Ofnwn ei bod wedi anafu ei hunan, oblegid bu yn hir cyn gallu siarad gan wylofain. O'r diwedd, dywedodd, "O, nis gallaf ddyweyd beth ydyw—nis gallaf ei ddyweyd."

Wedi hir wasgu arni i ddyweyd, dywedodd, "Dywedais air cas, ac nis gallaf ddyweyd wrthyf beth ydyw, waith wrth hyny rhaid i mi ei ddyweyd eto. Dywedais air nad oedd yn iawn i eneth fel myfi ei ddyweyd."

Cefais mai gair disynwyr ydoedd, yr hwn oedd y bechgyn wedi ei gosod i'w ddyweyd. Can gynted ag y dywedodd ef, teimlai ei fod allan o le, a rhedodd allan o'r ystafell dan wlo.



Tua'r un amser arferai brawd iddi alw dynion yn fach. Dywedodd Ada yn ôl wrtho, "Mochyn ydych chwi." Ond nid cynt y dywedodd ef nag y torodd i wylo, ac ni fynai ei chysuro. "Nis gwyddwn," meddai, "i mi ei ddyweyd. Mae'n ddrwg genyf. Nid oeddwn yn bwriadu dyweyd y fath air drwg." Ac aeth i'w gwely yn ei dagrau.

Dywedai wrthyf ar ol hyny, "Mae Willy yn dyweyd geiriau drwg. Paham y mae yn eu dyweyd?"

Dywedais nad oeddynt yn eiriau drwg, ond geiriau gwrthun, ac yr oedd yn eu dysgu gan y plant yn yr ysgol. Dywedais fod plant yn yr ysgol oedd yn arfer dyweyd geiriau drwg, a bod yn dda genyf nad oedd Willy yn dyweyd y rhei'ny.

Rhoddodd yr esboniad hwn gryn dawelwch i'w meddwl. Yn ystod ei misoedd diweddaf, yr oedd meddyliau drwg yn ei gwneyd yn anhapus; a llawer gwaith y dywedodd wrthyf, "Ni bŵm yn dda iawn; meddyliais am, 'Mynaf,' a 'Na fynaf!'"

Mae hyn i'w weled mewn llythyr a fynodd ysgrifenu at ei thad yn Ionawr, 1861. Cafodd osod ei geiriau ei hun ynddo bob gair, a mynai ddal yr ysgrifell yn ei llaw ei hun. Yr oedd yn rhaid iddi gael y dyddiad ar ei ben, a'r lythyren W, marc y *Post Office*, am iddi glywed ei thad yn dyweyd fod y marc wedi newid o S.W. i W. Dyma y llythyr:—

"GREADUR PRYDFERTH (*Beautiful Creature*),—Gobeithio y de'wch yn fuan; ac wedi i chwi ddyfod, rhoddaf *present* i chwi ar ddydd pen eich blwydd. A rhoddaf saith cusan i chwi. Mae braich y *baby* yn dost iawn. Yr ydym wedi cael cerbyd, a gobeithio y cawn fyned allan yn fuan; ond y mae yn ddiwrnod niwlog, ac yr wyf yn meddwl y daw yn wlaw yn fuan. Mae Alice yn glaf, ac nis gall fyned allan.

"Anwyl Dada, yr ydym yn ddedwydd iawn yma. Yr wyf wedi bod yn dda iawn, ond nid trwy'r dydd. *Meddyliais rai geiriau drwg.* Gobeithio y de'wch yn ôl yn fuan, anwyl Dada. Yr wyf yn anfon saith cusan i chwi. Gobeithio y byddwch yn hoffi y llythyr *nice* yma. Rhoddodd Edith deganau *nice* i mi. Gobeithio eich bod yn dda iawn. Yr ydym wedi cael y *piano*. Daethant â hi yma mewn hen focs cas. Gobeithio eich bod yn hapus.—Yn serchog,

"ADA."

(*I'w barhau.*)

### YR IESU'N CAEL CAM.



! PWY yw a welaf draw yn y drych  
Yn fynych yn ewynfanu,  
A llu o ddynionach—rhaf diras hyll,  
Yn erchyll yn ei anmharchu?  
Pam, O! paham, fy enaid, paham  
Y gwnaed â'r diniwed hwn y fath gam?  
Dim ond am ein caru!

Neb llai na fy Ngheidwad mor llawn o ras,  
 Un addas fu 'n gweinyddu,  
 Gan siriol ddwyn, ie 'n fwyn o'i fodd,  
 Ein dyled oedd i'w dalu.  
 Pam, O! paham, fy enaid, paham  
 Y gwnaed â'r diniwed hwn y fath gam!  
 Dim ond am ein caru!

Y deigr 'ddiar ruddiau 'r hen weddw dlawd,  
 Gwnaeth er ei ffawd eu sychu;  
 Ond wele hwy eto 'n ei feio ef am  
 Wneyd y cloff yn ddinam i lamu!  
 Pam, O! paham, fy enaid, paham  
 Y gwnaed â'r diniwed hwn y fath gam!  
 Dim ond am ein caru!

I foddio 'i elynion, rhai culion cas,  
 O 'lanas wedi ymlenwi,  
 Cawn un yn troi ymaith o'r neilldu i bant,  
 O drachwant i'w fradychu!  
 Pam, O! paham, fy enaid, paham  
 Y gwnaed â'r diniwed hwn y fath gam!  
 Dim ond am ein caru!

Ow! wele i'r croesbren arweiniwyd yn awr  
 Ein Iesu mawr i drengu,  
 A'r galon oedd lawn o bob teimlad da,  
 Honyna wela' i'n gwaedu!  
 Pam, O! paham, fy enaid, paham  
 Y gwnaed â'r diniwed hwn y fath gam!  
 Dim ond am ein caru!


'R oedd geiriau heddwch yn fêl ar ei fin,  
 A'u bywiol rin yn dyferu  
 Yn falmaidd gysuron i euog ddyn;  
 Ond, wed'yn cael ei wadu!  
 Pam, O! paham, fy enaid, paham  
 Y gwnaed â'r diniwed hwn y fath gam!  
 Dim ond am ein caru!

8.

J. D.

DAU BETH NAD YW YN HENEIDDIO.

**D**YWEDAI y Parch. Thomas Jones, Caerfyrddin, wrth ei gyfaill, pan yn ymdrechu myned ar gefn ei geffyl:—"Yr wyf yn myned yn hen, fy nghyfaill; yr wyf yn teimlo hynny wrth wneyd pobpeth ond dau, sef *darllen* a *gweddio*. Yr wyf yn teimlo fy hun gyda'r rhei'ny mor ieuanc ag erioed."



### MYNU MYNED I'R MOR.

**D**WAENOM amryw o lanciau nad oedd "byw na bywyd" i gael, heb iddynt hwy gael myned i'r môr. Ond yr oedd yn hawddach siarad â hwy wedi iddynt gael tri mis o brawf beth ydoedd byw ar y dyfroedd mawrion. Mae llawer un, fel y llanc uchod yn y darlun, wedi rhedeg i ffordd o dŷ ei dad, ac o ganol yr

amgylchiadau mwyaf cysurus, ond wedi dychwelyd, a hynw mewn amser byr, yn feger tlawd, ac wedi anafu ei hunan am ei oes.

Pan oedd gŵr ieuanc trwsiadus, o'r enw Phillip Welmore, yn myned adref dros y Strand, yn Llundain yn ddiweddar, cyfarchwyd ef gan feger ieuanc, ond truenus yr olwg arno, yr hwn a ddygai ei law ddehau mewn *sling*, fel y gwelir yn y darlun. Teimlodd Phillip yn fawr wrth ei wedd. Nid oedd yr un geiniog yn ei boced, na dim llai na swllt. Nid oedd ei amgylchiadau yn caniatáu iddo roddi llawer o syltau i fwrdd; eto, yn nheimlad brwd y foment, estynodd swllt i law y cardotyn.

Edrychodd y cardotyn ar y swllt gyda threm annesgrifiadwy, a sychodd y dagrau oddiar ei wyneb gyda'i law ddehau rwymedig.

"Pam yr ydych yn wylo fel yna?" ebai Welmore; "deuwch gyda mi y naill ochr i mi gael gwybod rhywbeth o'ch helynt."

Parhâi y bachgen i wylo wrth fyned yn llaw ei gymwynaswr; ac wedi dyfod i ystryd fwy tawel, ac i'r bachgen lonyddu ei deimladau, dywedodd,—

"Morwr ydwyf; cyn myned i'r môr yr oeddwn yn byw gyda'm tad yn —"

"Nid Sydney — ydych?"

"Iâ, dyna pwy ydwyf!"

Adwaenai Phillip y teulu yn dda, ac yr oedd yn ei adwaen yntau gynt pan yn blentyn yn yr ysgol. Gofynnodd Phillip sut y bu arno, ac atebodd yntau:—

"Yr oeddwn yn fawr am fyned i'r môr; a phan ddeallais fod fy rhieni mor groes, rhedais ymaith yn ddystaw o'r ysgol. Aethum i Liverpool, lle y gwerthais fy nillad. Yr oedd arnaf ddigon o chwant dychwelyd adref cyn gadael Liverpool; ond yr oedd yn awr arnaf ormod o ofn fy nhad. Cyttunais i fyned gyda llong i'r Baltic. Yr oeddwn wedi hen fino cyn dychwelyd, ond rywfodd nid ysgrifenis gartref yr holl amser. Wedi dychwelyd i Hull, cyttunais â llong arall i fyned i Australia. Gadawyd fi yno yn glaf mewn *Hospital*, ac nid oes neb ŵyr faint ddyoddefais. Pan wellais ychydig, ceisiais wneyd amryw bethau, i ennill bara a chaws. Ymhen amser, cefais le ar fwrdd llong i ddyfod i Liverpool. Oddiyno cyttunais â llong i fyned i Norway, ac yno y rhewodd fy llaw, fel y mae yn hollol ddiffwrth; ac y mae yn syndod fy mod yn fyw. Yr wyf newydd dychwelyd i Lundain, heb arian, heb gyfeillion, ac heb wybod pa le i droi, na pha beth i'w wneyd."

Erbyn hyn yr oedd dagrau Phillip Welmore yn rhedeg yn rhwydd; dygodd ef gydag ef i'w gartref, a rhoddodd fwyd a dillad, a llety iddo; a chynnorthwyodd ef i dynu adref tua thŷ ei dad.

Mae gwersi yr hanesyn hwn yn ddigon amlwg i'n holl ddarllenwyr. Mae plant yn fynych iawn yn anghofio y rhan yma o'r pummed gorchymyn,—*"Anrhydedda dy dad a'th fam, fel y byddo yn dda i ti ar y ddaear."*

## ROSE A BLANCHE;

*Neu Gynllwynion y Jesuitiaid.*

## PENNOD IV.—FFOEDIGAETH.

YFARCHODD Morok yr ynad yn dra moesgar a gostyngedig. Dychrynodd Rose a Blanche wrth wedd annymunol y prophwyd, ac ymwasgasant at Dagobert. Teinilai y milwr ei ysbryd yn cyffroi trwyddo hefyd, at yr hwn oedd wedi bod yn achos o'i holl flinderau. Ond ni wyddai mai Goliah, wrth gyfarwyddyd Morok, oedd wedi bod yn yr ystafell yn lladrata y poced-lyfr a'r papyrau.

"Beth ydych yn geisio, Morok?" ebai'r ynad, dipyn yn anfoddog: "yr oeddwn wedi dyweyd wrth ŵr y tŷ fy mod yn dewis cael llonydd."

"Yr wyf wedi dyfod i wneyd gwasanaeth pwysig i chwi, syr."

"Pa wasanaeth, Morok?"

"Gadewais beth pwysig heb ei ddyweyd wrthyhych am y dyn hwn, oddiar ryw ffugdosturi; ond y mae fy nghydwybod yn aflonydd o'r herwydd. Yr wyf yn teimlo na wnaethum yn iawn wrth beidio hysbysu y cwbl i chwi."

"Wel, beth sydd genych i'w ddyweyd?"

Nesäodd Morok at y barnwr, a dywedai yn ddystaw yn ei glust. Edrychai y barnwr yn syn. Llygadai ar Dagobert, a gwgai ei ael, gan edrych yn fwyfwy cyffrous.

Yr oedd Dagobert yn hynod o anesmwyth. Gwyddai fod Morok yn tywallt anwireddau am dano i glustiau yr ynad, ac yn cyn-ddeiriogi ei feddwl yn ei erbyn.

"Nid wyf yn dyweyd fod y cwbl yn wir," ebai Morok, "ond —"

"Ond deg i un nad yw, Morok. Mae dynion o'r fath ag ydych chiwi yn son yn gyfaddas at bob gweithredoedd. Yr oedd y dyn wedi fy maglu yn hollol."

"Mae y dyn yna wedi bod —"

"At bwy ydych yn cyfeirio, Morok?" gofynai Dagobert, wedi methu cadw dystawrwydd yn hŵy.

"Nid wyf fi yn tystio dim," ebai Morok eto, gan ddal i ymddyddan â'r ynad. "Edrychwch, syr, yn graff yn llygaid y dyn yna—y mae golwg peryglus arno. Edrychwch yna!" meddai, gan estyn ei fys i wyneb y milwr.

Yr oedd hyn yn ormod i'r milwr. Yr oedd wedi llethu ei deimladau nes oedd ei galon yn rhwygo. Gwelai fod Morok wedi gwneyd ei frad gyda'r ynad, ac nad oedd dim i'w ennill o'r chwarter hwnnw mwy. Cerddodd ymlaen at Morok, plethodd ei freichiau ar draws ei fynwes, ymuniawnodd, a gofynodd mewn tön orchymynol, "Ai am danaf fi yr ydych yn siarad â'r ynad?"

"Ie," ebai Morok, mewn tön feiddgar.

"Pam na lefarwch chiwi allan, ynte?"

"Am fod yn perthyn i chwi bethau rhy gywilyddus i'w hadrodd

yn uchel," ebai Morok, yr hwn oedd yn gwneyd ei oreu i gynhyrfu Dagobert i nwydau drwg.

Yr oedd Dagobert wedi dal ei freichiau yn mhleth ar ei fynwes hyd yma. Ond gyda'r gair hwn, dacw hwy yn rhydd, a drwn mawr Dagobert o flaen gwyneb Morok, a'r milwr yn dyweyd wrth yr ynad oddirhwng ei ddannedd,

"Syr, gyrwch y dyn hwn allan, onidê, nis gallaf fi ateb dros of fy hun."

"Beth!" ebai'r ynad yn lliudus, "a ydych chwi yn fy ngorchymym innau beth i'w wneyd? Ydych chwi yn beiddio ——"

"Yr wyf yn dywedyd wrthy ch am geisio gan hwn fyned allan," ychwanegai Dagobert, "neu mae rhywbeth ar ddygwydd."

"O Dagobert, Dagobert! Ymbwyllwch, ymbwyllwch!" gwaeddai Rose a Blanche gyda'u gilydd, gan ymaflyd un ymhob llaw iddo.

"Y dyhiryn crwydraidd!" ebai'r ynad; "chwi yn myned i fy ngorchymym i! Yr ydych yn meddwl ei fod yn ddigon i mi i ddyweyd eich bod wedi colli eich papyrau! Yr ydych yn chwareu ystranc dda; ac yn llusgo y genethod yma gyda chwi ar hyd y byd, y rhai a allant fod, er eu golwg ddiniwaid, yn ——"

"Beth!" ebai Dagobert, gyda llais ac agwedd, nes tafu yr ynad ei hun i ormod dychryn i fyned rhagddo.

Mewn tarawiad, dygodd Dagobert y ddwy chwaer yn ôl i'w hystafell; clodd y drws arnynt hwy a'r ci, a gosododd yr allwedd yn ei boced. Dychwelodd yn ôl at Morok a'r ynad, gosododd ei law ar fraich y barnwr, a dywedodd:—

"Gwrandewch fi, syr! Mae y cyfaill yna," meddai, gan gyfeirio at Morok, "wedi fy sarhâu i. Goddefais, am nad oedd yn perthyn i neb ond myfi. Gwrandewais yn amyneddgar ar eich sylwadau ystyfnig chwithau, am yr ymddangosech unwaith fel yn teimlo dros gyflwr tralodus y plant amddifaid yma; ond gan nad oes genych na chalon, na thosturi, na chyfiawnder, yr wyf yn dyweyd yn eich gwyneb, er eich bod yn ynad, gwyliwch er eich perygl ddyweyd yr un gair yn erbyn y ddwy ferch fechan yma na ddywedech yn erbyn eich merch eich hun. Ydych chwi yn fy neall i, ynad?"

"Beth, a ydych yn beiddio," chwythai yr ynad allan yn hanner gwallgof, "os dywedaf am y crwydriaid yna ——"

"Eich het ymaith pan ydych yn siarad am ferched Duc Ligny," ebai Dagobert, gan ymaflyd yn nghap yr ynad oddiar ei ben, a'i dafu wrth ei draed.

Parodd hyn i Morok lanw o lawenydd.

Yr oedd Dagobert wedi colli pob goraith am gael cyfiawnder, ac am hyny rhoddodd ffordd rydd i'w deimladau. Yr oedd yr ynad wedi teimlo y diraddiad wrth weled ei gap ar y llawr yn gymaint nes y methodd lefaru yr un gair.

"Maddeuwch i mi, syr," ebai Dagobert; "methais lywodraethu fy nheimladau; mae yn ddrwg genyf am fy mai;" ac ymostyngodd iddo.

"Nid oes genyf ddim pardwn i neb o'ch bath chwi," ebai'r ynad. Nesäodd Dagobert yn ôl ychydig tua phen y grisiau, a thaflodd edrychiad cyflym o'i gwmpas.

"Aha!" ebai Morok, yr hwn oedd â'i law mewn *sling*, er dangos pethau yn yr olwg waethaf; "y mae yn edrych am le i ddianc yn awr!"

"Nid wyf fi ond adyn digon drwg, syr," ebai Dagobert, mewn tön edifeiriol; "dylech chwi sydd â chalon mor dda feddu ar dipyn o dosturi."

"Ar ol i chwi dafu fy nghap dan eich traed!"

"Chwi," ebai Dagobert, dan droi at Morok, "yw yr achos o hyn oll: tosturiwch wrthyf. Chwydychwi sydd yn ddyn sanctaidd; yr wyf yn attolwg arnoch, dywedwch air o leiaf yn fy ffafr wrth yr ynad."

"Yr wyf wedi dyweyd wrtho y peth ddylaswn ddyweyd," ebai Morok yn ysgornllyd.

"Yr ydych yn awr yn edifeiriol, y dyhiryn!" ebai'r ynad. "Yr oeddech yn meddwl gwneyd ffêl o honof â'ch ystoriau; ond mynaf weled pwy gaiff ddyoddef," meddai, gan nesu ymlaen at Dagobert; "cewch weled fod digon o ddaear dai yn ngharchar Leipsic, i yspiwyr Ffrengig, a'u benywod; waith nid yw eich merched yn ddim gwell na chwithau. Ewch," ebai, yn orlawn o lid, "ewch i lawr y grisiau yna o'm blaen i."

Yr oedd Dagobert, â chil ei lygad, wedi gweled drws hanner agored wrth ben y grisiau, gyferbyn a'r ystafell lle yr oedd y merched. Yr oedd wedi ei yru i gyfyngder. Nid oedd ond un ffordd i ddianc yn ymddangos iddo. Rhuthrodd ar yr ynad, llin-dagodd ef, a thaflodd ef yn rholian i'r ystafell dywell hon. Can-gynted a'r fellten, yr oedd â gafael yn ngheg a gwallt Morok eil-waith, a thaflodd ef ar ei ben ar yr ynad, nes oedd y ddau yn hurt ac archolledig. Clodd y drws arnynt, a rhoddodd yr agoriad yn ei boced. Yna rhedodd i lawr ac allan i'r cwrt; ond yr oedd y porth hwnw wedi ei gau, fel nad oedd yn bosibl dianc y ffordd hono.

Yr oedd y gwlaw yn tywallt, a'r nos yn dywell. Gwelai Dagobert, trwy ffenestr isel, ŵr y tŷ, ac amryw eraill, yn eistedd wrth y tân, yn aros am benderfyniad yr ynad. Clodd Dagobert eto ddrws arall oedd rhwng y grisiau a'r ystafell lle yr oedd y dynion hyn yn aros, a phrysurodd at Rose a Blanche i'w hystafell.

Yr oedd Morok erbyn hyn yn galw yn uchel am help; ond yr oedd y bobl yn rhy bell i glywed ei lais; ac heblaw hyn yr oedd swm y gwlaw yn gymaint fel nas gallasant ei glywed pe buasai yr holl ddrysau yn agored. Tybiai Dagobert fod ganddo awr beth bynag o amser at law, cyn y ceid sefyllfa Morok a'r ynad allan, a brysiodd i wneyd y goreu o'r adeg.

"Fy mhlant anwyl," ebai Dagobert, mewn brys mawr, "yn awr yw yr amser i brofi faint o waed milwr sydd ynoch."

"O, Dagobert! beth sydd yn bod?" gofynai Blanche.

"Beth ydych am i ni wneyd?" ebai Rose.

Heb ateb eu gofyniadau, cymerodd Dagobert *sheets* y gwely, a chylymmodd y naill wrth y llall. Ac mewn dim amser, lithrodd y merched allan trwy y ffenestr gyda chymhorth y dillad, a Dagobert yn dal y naill ben yn sicr yn ei ddwyllaw ei hun. Yna gorchymynodd i Killjoy neidio allan. Tafodd wedi hyn y cwdyn a'r pethau, a'r llen-groen a phob peth a berthynai iddynt. Nid oedd yr uchder ond oddeutu wyth troedfedd; a neidiodd Dagobert i lawr o'r ffenestr i'r ddaear.

"Yn awr, fy anwyliaid! y maent wedi lladd Jovial; rhaid i ni ddianc ar draed, a cheisio cyrhaedd Leipsic. Pan fyddoch wedi blino, cariaf chwi bob yn ail. A phe byddai raid i mi gardota yr holl ffordd, yr ydym yn rhwym o gyrhaedd pen ein taith erbyn yr amser penodedig. Yn awr, peidiwch ofni dim, ond ymddiriedwch ynof fi."

Ymhen chwarter awr wedi i Dagobert a'r merched ymadael, yr oedd Morok a'r ynad wedi llwyddo i dori drws eu hystafell, ac wedi rhoddi yr hysbysrwydd i'r dynion. Aethant yn gyntaf oll i ystafell y genethod, a chawsant y *sheets* yn hongian yn y ffenestr, yn arddangos eu ffœdigaeth.

"Ffordd yma yr aethant," ebai Morok; "ac y maent ar draed, a'r nos yn ystormllyd a thywell, ac nis gallant fod wedi myned ymhell."

"Na, ni a'u daliwn hwynt yn awr, ac mi fynaf ddial arnynt hyd yr eithaf—y fileiniaid!" ebai'r ynad. "Brysiwch, Morok!"

"Mae achos yn peri i mi frysio na wyddoch chwi ddim amdano," meddai Morok wrtho ei hun, wrth brysuro i lawr y grisiau.


"Goliah!" gwaeddai, "gollwng y cwn yn rhydd! A chwithau, ŵr y tŷ, deuwch â lanterni a ffaglau! Arfogwch eich dynion! Agorwch eich drysau! Rhedwch ar ol y ffoaduriaid! Rhaid i ni eu dal, yn fyw neu yn farw!"

(*I'w barhâu.*)



### ARDEB Y BABAN A'I NAIN.

Pan welodd Tegidon ardeb o faban ei gyfaill, Mr. Hugh Edwards, o Lundain, ar lin ei nain weddw, yr hwn a anwyd ymhen tair wythnos wedi marwolaeth ei daid, ac a dynwyd pan nad oedd ond tair wythnos oed, efe a rigymodd fel y canlyn:—

 *ARTE de visite*—beth yw?—pa law  
A phwyntil y golenni,  
Fu 'n tynu 'r heirdd linellau ac  
A bywyd bron a'u llenwi!

Y maban bach mewn gwênliw wisg,  
Yn arlun diniweidrwydd;  
Ar lin ei nain dan gymysg drem  
O alar a hapusrwydd.

Y dderwen deg llawn tŵf (ei daid)  
Gymynodd angen 'n sydyn;



Ar lin ei nain—winwydden wan,  
Y gorphwys y blaguryn.

Fe wel ei fam hardd ddelw deg  
Ei dad yn ei wynebpryd;  
Fe gred ei nain y gwel ei daid  
Yn y llinellau hefyd.

Pan roes y taid ei ben i lawr  
Yn mroydd oer marwoldeb;  
I'r bwlech y neidiai 'r baban gwan,  
Yn herodr\* mwyn sirioldeb.

\* *herald.*

Hir oes i'r baban bychan llon,  
Hir oes i'w riaint hefyd:  
Ac wedi oes—poed iddynt oll,  
Gyd-fyw mewn bythol wynfyd.

### YMDDIRIED YN NUW.

**D**ID oes dim yn ein taro mor rymus, wrth ddarllen hanes rhai o dduwiolion y Bibl, na'r ymddiried diysgog oedd ganddynt yn Nuw, a hyny hefyd gyda golwg ar bethau cyffredin y bywyd hwn. Sylweddolent Dduw yn holl amgylchiadau eu bywyd, a Duw ydoedd eu pob peth hwynt. Ag Ef yr ymgynghorent ynghylch pob dim, wrtho Ef y dysgwylent am bob dim, ac yn ei nerth Ef y gwnelent bob dim. Teimlent fod eu cyfaill penaf yn fwy na phawb, ac am hyny nid oedd neb na dim arall yn un achos dychryn iddynt hwy. "Yn Nuw yr ymddiriedais," medd Dafydd, "nid ofnaf beth a wnel dyn i mi." Yn nerth yr ymddiried oedd ganddo yn ei Dduw, yr oedd yn teimlo yn sicr o fuddugoliaeth cyn iddo fyned i'r frwydr. "Y dydd y llefwyf arnat, yna y dychwelir fy ngelynion yn eu gwrthol." Pa fodd y gwyddost, Dafydd? "Hyn a wn am fod Duw gyda mi." Dyna oedd Duw mewn modd amlwg i rai o dduwiolion y Bibl—Duw gyda hwynt. Yr oedd yn cael ei anrhydeddu mor fawr yn ffydd ac ymddiried rhai o honynt, nes yr oedd yn ymgyfenwi ar eu henwau. "Myni yw Duw Abraham, Duw Isaac, a Duw Jacob." Gelwir ef hefyd yn "Arglwydd Dduw Elias," fel pe na bae yn Dduw i neb ond iddynt hwy. Nid ydym i feddwl, modd bynag; ei fod yn ymgyfenwi fel hyn ar enwau y duwiolion hyn i ddangos mai eu Duw hwynt yn unig ydoedd, ond i ddangos ei fod yn Dduw i bwy bynag a ymddiriedo fel hwynt ynddo Ef. Os oedd Ef yn fwy amlwg gyda hwy nag ydyw Ef gyda ni, yr achos o hyny, yn ddiau, ydyw am nad ydym ni yn ymddiried fel hwynt ynddo Ef. Y mae ymddiried yn Nuw yn sicr o dalu ei ffordd eto. "Gobeithia yn yr Arglwydd a'th holl galon, ac nac ymddiried i'th ddeall dy hun. Yn dy holl ffyrdd cydnebydd Ef, ac Efe a hyfforddia dy lwybrau." Yr un ydyw Efe eto, os cydnabyddwn ni Ef yr un.

Gallwn dybied fod yr hanesyn prydfferth a ganlyn, yr hwn a adroddir gan Dr. Krummacher, yn dangos gefal Duw am yr hwn sydd yn dysgwyl wrtho Ef mor amlwg, ac mewn dull mor hynod bron ag a ddangoswyd am Elias, pan borthwyd ef gan y cigfrain yn Cerith. Y mae y Doctor yn dechreu yr hanes trwy ofyn,—

“Pwy ond Duw Elias a fu mor dirion a gwaredu dyn tlawd o gyfyngder yn ein cymydogiaeth ni yn ddiweddar? nid trwy gigfrain, y mae yn wir, ond trwy gantor o aderyn bach. Yr ydych yn hysbys o'r amgylchiad. Yr oedd y dyn yn eistedd yn gynnar ryw fore yn nrws ei dŷ; yr oedd ei lygaid yn goch gan wylw, ac yr oedd ei galon yn dolefain tua'r nef, oblegid yr oedd yn dysgwyl swyddog yno i'w attafaelu am ychydig o ddyled; a thra yr ydoedd yn eistedd fel hyn, â'i galon yn drom o'i fewn, ehedodd aderyn bychan drwy yr heol, gan ymchwyfian i fyny ac i lawr, fel pe buasai mewn cyfyngder, nes o'r diwedd yr ehedodd cân gyflymed â saeth dros ben y dyn da i mewn i'w fwthyn, ac a ddisgynodd y tu fewn i gwprwrdd gwag. Cauodd y dyn y drws, ac a ddaliodd yr aderyn, heb feddwl dim pwy a'i hanfonodd iddo, ac a'i gosododd ef mewn cage, lle y dechreuodd ar unwaith ganu yn beraidd, ac ymddangosai y dôn i'r dyn da yn un a genid yn gyffredin ar hoff emyn ganddo,

‘Nac ofna di pan daeno t'wyllwch du

Ei leni trwch uwch ben dy gartref cu;’

ac fel yr oedd yn gwrando, teimlai y beroriaeth hyfryd yn lliniaru ac yn cysuro ei feddwl trallodus. Yn ddisymwth curodd rhywun wrth y drws. ‘Ah!’ meddyliai y dyn yndo ei hun, ‘y swyddog ydyw;’ ac yr ydoedd yn dra ofnus. Ond na, morwyn rhyw foneddiges barchus ydoedd, yr hon a ddywedai fod y cymydogion wedi gweled aderyn bychan yn ehedeg i'w dŷ ef, a dymunai wybod ganddo a oedd ef wedi ei ddal ef. ‘O do,’ atebai y dyn, ‘dyma fe,’ a chariwyd yr aderyn ymaith. Ymhen ychydig o fynydau wedi hyny, daeth y forwyn yno drachefn. ‘Yr ydych wedi gwneuthur gwasanaeth mawr i fy meistres,’ meddai; ‘y mae hi yn gosod pris mawr ar yr aderyn a ddiangodd oddiwrthi hi. Teimla ei hun yn rhwymedig iawn i chwi, a dymuna arnoch dderbyn y rhodd fechan hon gyda'i diolchgarwch.’ Derbyniodd y dyn tlawd y rhodd yn dra diolchus, yr hon a drôdd allan i fod yn ddim mwy na llai na'r swm oedd yn ddyledus arno; a phan ddaeth y swyddog i'w dŷ, efe a ddywedodd wrtho, ‘Dyma swm fy nyled; yn awr, gâd fi mewn heddwch, canys Duw a'i hebryngodd i mi.’”

Fe ddechion y bydd llygaid rhywun sydd mewn trallod yn disgyn ar yr hanesyn prydfferth hwn. Os felly, dymunwn iddo fod dan fendith i adgyfnerthu ei ffydd a'i ymddiried yn Nuw. “Pwy yn eich mysg sydd yn ofni yr Arglwydd, yn gwrandaw ar lais ei was ef, yn rhodio mewn tywyllwch ac heb lewyrch iddo? go-beithied yn enw yr Arglwydd, ac ymddirieded yn ei Dduw.”

OFFA.



J. R., Treforia.

## Y BUGAIL DA.

“**D**YFI yw y Bugail da. Y bugail da sydd yn rhoddi ei einioes dros y defaid.”—Ioan x. 11. “Ein Harglwydd Iesu, Bugail mawr y defaid.”—Heb. xiii. 20.


“Fel Bugail y portha efe ei braidd; â'i fraich y casgl ei wŷn, ac a'u dwg yn ei fynwes, ac a goledda y mammogiaid.”—Ea. xl. 11.

“Y golledig a geisiaf, a'r darfedig a ddychwelaf, a'r friwedig a rwymaf, a'r lesg a gryfhâf.”—Ezec. xxxiv. 16.

“Canys yr oeddech fel defaid yn myned ar gyfeiliorn; eithr yn awr chwi a ddychwelwyd at Fugail ac Esgob eich heneidiau.”—1 Pedr ii. 25.

“Canys efe yw ein Duw ni; a ninnau fŷm bobl ei borfa, a defaid ei law.”—Psal. xcvi. 7.

“Yr Arglwydd yw fy Mugail, ni bydd eisieu arnaf.”—Psal. xxiii. 1.



### CI Y BUGAIL.

**C**'R holl amrywiol fathau o gŵn, dywedir mai ci y bugail yw y mwyaf call a gwasanaethgar, ac y mae yn dysgu y cwbl hefyd o hono ei hun. Y mae yn anmhosibl desgrifio gwasanaethgarwch y cŵn hyn i'r bugeiliaid, tuag at arwain ac amddiffyn eu defaid. Y maent yn deall ewylllys eu meistriaid mor dda, fel y mae gair neu awgrym yn fynych yn ddigon iddynt.

Heblaw eu medr i gasglu, arwain, ac amddiffyn defaid, y maent lawer gwaith wedi bod yn foddion i gadw bywydau dynol. Collodd bugail yn Ysgotland blentyn tair blwydd oed unwaith, mewn niwl ar y mynydd. Bu yn chwilio am dano trwy y nos, ond heb ei gael. Wrth chwilio, collodd y ci hefyd. Drannoeth daeth y ci adref, ac wedi cael clwt o fara, aeth ymaith nerth ei draed. Bu chwilio mawr am y plentyn yr ail ddydd, gan y tad a'r cymydogion, ond y cwbl yn ofer. Y trydydd diwrnod, daeth y ci adref eilwaith; ac wedi cael clwt o fara, aeth ymaith eilwaith mewn brys mawr. Penderfynodd y bobl ddilyn y ci. Dilynasant ef i ogof fechan yn nghesail craig, ac yno yr oedd y plentyn, a'r ci wedi bod yn ei wyllo yr holl amser, oddigerth y prydiau y byddai yn rhedeg am fwyd iddo.

Ond yr hanesyn rhyfeddaf, a digrifaf, a ddarllenasom am gi bugail, cyffelyb i'r un yn y darlun uchod, yw yr un canlynol:—Penderfynodd bugail unwaith ladrata nifer go fawr o ddefaid. Casglodd hwynt ynghyd ar noson o "oleu leuad," a dechreuodd eu harwain ar hyd y ffordd tuag Edinburgh. Ond cyn ei fod wedi eu dwyn yn hollol oddiar fferm eu perchennog, tarawyd ef gan ei gydwybod, a phenderfynodd adael y defaid yno, a myned ymaith. Aeth ar gefn ei geffyl, galwodd ar y ci, a marchogodd i ffordd.

Pan oedd wedi myned tua thair milldir, tybiai ei fod yn clywed

trwst o'i ol. Safodd, a gwrandawodd, ac ymhen mynyd neu ddau, wele ei gi yn dyfod â'r holl ddefaid ar ei sawdl. Yr oedd y ci a'r defaid yn mygu gan chwys, gan fod y ci mor awyddus am ddilyn ei feistr. Tafodd hyn y bugail i drallod blin. Ofnai y dilynid ef gan y perchenog; ac yr oedd yn awr ymhell ar y bore, ac nis gallasai eu dwyn yn ôl cyn dydd. Beth bynag, penderfynodd eu gadael yn y fan; ceryddodd y ci yn llym, a gwnaeth y goreu o'i ffordd, a'i gi wrth ei sawdl.

Wedi myned oddeutu milldir, canfu eto fod y ci wedi ei adael. Yr oedd yn awr mewn cymydogoeth weddol adnabyddus iddo, ac ofnai alw yn uchel ar ei gi. Bu yn petruso am dipyn beth i'w wneyd. Penderfynodd gymeryd at ffordd gul oedd yn arwain ar draws y wlad, a gadael rhwng y ci a'r defaid. Daeth o'r diwedd at glwyd (*gate*), gerllaw ffermdŷ, lle yr oedd perthynas iddo yn byw. Trôdd i'r tŷ, a chymerodd ei frewest yno. Ymhen ychydig amser, daeth dyn i mewn ar ei ol a dywedodd fod y defaid yn ddiogel gan y ci wrth y "glwyd gam." Atebodd y dyn mewn cyffro,—

"Nid fy nefaid i ydynt; defaid Mr. Thomson ydynt; y mae wedi eu gadael dan fy ngofal, ac yr wyf yn edrych am ddyn i'w gyru."

Yr oedd yn awr wedi ymddyrsu, a phrofaei ei euogrwydd. Y diwedd fu, cyhuddwyd ef o'r lladradd, a cholodd ei fywyd o'r herwydd.

Fel hyn bu y ci yn foddion, yn llaw Rhagluniaeth, i gosbi bwrriad drwg y dyn, ac i gyflawni geiriau y Bibl:—"GWYBYDDWCH Y GODDIWEDDA EICH PECHODAU CHWI!"

### O ROBIN GOCH ANWYL



ROBIN Goch anwyl,  
O Robin Goch dlws,  
Sy 'n dysgwyl am damaid  
Ar riniog y drws;  
Mewn oerni ac eira  
Heb damaid o fwyd,  
Mae Robin Goch anwyl,  
Ar ol d'od o'i glwyd.  
Mae Robin yn dlws,  
Mae Robin yn dlws,  
Yn dysgwyl am damaid  
Ar riniog y drws.

"O mam," meddai 'r hogyn,  
"Rhowch damaid i Bob;"  
"Dos odd'na di, Huw cyn,  
A siarad fel lob:"

Mae mam yn un galed  
 Tuag at yr un bach,  
 A digon o wenith  
 A haidd yn y sach.  
 Mae Robin yn dlws, &c.

Siw! siw! heda, Robin,  
 I hela i'th fol,  
 Rhag ofn i'r gath flewog  
 Dy larpio 'n ddi-lol:  
 Cei fyned i'r ydlan,  
 I ben y das yd;  
 Cei fwyd faint a fynot,  
 A bwyta hi i gyd.  
 Mae Robin yn dlws,  
 Mae Robin yn dlws,  
 Yn dysgwyl am damaid  
 Ar riniog y drws.

*Rugan wen.*

ANNE HUGHES.



MATTHIAS A'R CABLWR.

**T**N o'r hen dadau duwiol, a gweinidog ffyddlaw'n yr efengyl, oedd Matthias. Pregethodd lawer drwy Gynru a Lloegr, yn rhodd a rhad; a byddai weithiau yn gorfod talu am ei lety o'i logell ei hunan. Pan oedd un o'i frodyr yn y weinidogaeth yn cyflwyno penadur iddo yn ei hen ddyddiau, dywedai, "Pan oeddwn i yn pregethu, 'doeddwn i yn cael *dim*, ond yn awr, wedi methu, yr wyf yn cael *llawer*. Mor ddoeth yw yr Arglwydd, yn eu cadw erbyn y pryd y mae fwyaf o'u heisieu!" Pan ofynid iddo unwaith sut y teimlai wrth feddwl am fyd arall, dywedai, "Yr wyf wedi fy mhacio, a'r *address* arnaf yn barod; dim ond dysgwyl y *coachman* i alw am danaf."

Ond, i fyned at ein hanesyn. Un tro, ar ei daith, galwai mewn gwesttŷ; a phan aeth i mewn, yno yr oedd tŵr o ddynion ieuainc gwyllt ac annuwiol yn chwareu cardiau. Ond fel y dywed Paul, "Y barbariaid a ddangosasant i ni fwyneidd-dra nid bychan;" felly, ebai un o'r cwmni, "Trowch, chwareu teg i'r hen ŵr parchus gael lle yn y cornel wrth y tân, gan ei bod yn oer a gwlyb." Derbyniodd yntau y teimlad yn ddiolchgar. Gan wneyd y defnydd goreu o'r tân, eisteddodd yn dawl a dystaw yn y cornel, ac aethant hwythau yn y blaen gyda'u cardiau fel cynt, gan newid ymadroddion pur annheilwng, a chablu enw Duw yn aml. Ond trôdd un o honynt yn serchog a *jokeful*, a chyfarchodd yr hen ŵr gan ddywedyd, "Yr ydych yn bur ddystaw—beth, a oes dim tafod i'w gael?" Gyda deigr yn o dosturi yn nofio yn ei lygad, atebai yntau, "Oes, oes, y mae tafod i'w gael, ond ni ddeallais erioed fod neb wedi cael tafod i gablu Duw." Tarawyd y cwm-


peini & mudanrwydd cywilyddgar, a disgynodd yr ateb fel dwfr oer ar y grechwen annuwiol. Llithrodd y llanc allan o'r ystafell at wraig y tŷ, a dywedodd, "Byddwch cystal a rhoi ystafell i'r hen ŵr parchus yna ar ei ben ei hun; yr wyf yn ofni nad ydym ni yn deilwng gwmpeni iddo." Felly y bu; cafodd ystafell a thân cysurus iddo ei hun. Cyn hir, dyma swper danteithiol ac anrhydeddus yn dyfod i mewn i'r hen weinidog, heb ei gofyn; ond gan nad oedd ganddo ond ychydig sylltau yn ei logell, dychrynwyd ef gan yr olwg arno, a dywedodd wrth wraig y tŷ nad oedd yn abl fforddio y fath swper danteithiol a moethus—mai tamaid o fara a chaws yn unig a wnai y tro yn burion iddo ef, os gwelai yn dda. Atebai hithau yn garedig, "Ho, peidiwch meindio dim am y fforddio; cymerwch chwi eich swper yn gysurus, ni a gawn setlo hyny bore fory." Rhwng bodd ac anfodd, fel y dywedir, cymerodd ei swper; a chafodd ystafell barchus a gwely hyfryd i gygu ynddo. Cododd bore drannoeth, a chyn bo hir dyma frecwast llawn mor foethus a'r swper yn dyfod i mewn i'r hen Fathias—pob peth fel pe buasai dywysog. Penderfynodd y tro hwn gymeryd yr hyn oedd weddus, heb ofyn dim. Yna canodd y gloch, a dyma y westŷes i mewn, a gofynodd yn bryderus am ei *fil*. Rhoddodd hithau ei llaw yn ei llogell, a thynnodd allan ddernyn o arian pum' swllt, a thafodd ef i'r bwrdd, gan ddywedyd, "Dyna eich *bil* chwi." Yna hysbysodd iddo y dirgelwch, fod y gŵr ieuanc i'r hwn y rhoddasai yr ateb dwys a phriodol y nos o'r blaen wedi gorchymyn iddi roddi swper, lletŷ, a boreufwyd, ynghyd a'r dernyn arian pum' swllt iddo, a'i fod wedi talu y draul bob ceiniog. Nid bychan oedd syndod a dystaw orfoledd yr hen weinidog; ac er na chafodd gyfle i ddiolch iddo, talodd iddo drwy weddio llawer drosto; ac y mae yn drathebyg i'r gweddiau fod, dan fendith Duw, yn foddion i ddwyn y cablwr yn weddiwr. Ie rhaid dyweyd *cablwr*, oblegid felly yw pob un a gymero enw Duw yn ofer. Yn wir yr wyf yn tosturio wrth weled dynion ieuainc o dymher mor hynaws a boneddigaidd yn gwarthruddo eu henwau mor fawr.


Yn awr, fy mhlant, dysgwch yn 1. Gan y gŵr ieuanc, fod yn foneddigaidd a hynaws bob amser tuag at hen ŵr, yn enwedig hen weinidog duwiol. 2. Cofiwch ateb tarwiadol a difrifol yr hen weinidog—nad oes neb wedi cael tafod i gablu Duw, ond pob perchen tafod, fel pob perchen anadl, molianned yr Arglwydd.

W.



### Y CWESTIYNAU GWOBRRWYEDIG.

7.  A lythyrenau o'r egwyddor roddodd yr Arglwydd Iesu yn enwau arno ei hun?
8. Nodwch ddwy adnod ag y sonir ynddynt am wyth ar hugain o wahanol nwyddau gwerthadwy.



BRON A BODDI.

**B**R oedd dŵl gan Kate, ac yr oedd eisieu golchi ei dillad. Yn lle gofyn i'w mam am ddwfr i'w golchi mewn llestr bychan cyfleus, aeth i'r twba mawr, a phlygodd i lawr i gyrhaedd y dwfr oedd ar ei waelod. Gan fod y twba mor uchel, a hithau mor fer, collodd ei mantoliad, a syrthiodd ar ei phen i mewn i'r twba. Ac oni bae i'r forwyn ddyfod i mewn ar y pryd, buasai wedi boddi yn y fan.

Aeth plentyn yn ddiweddar, yn Abertawy, i chwareu â dwfr newn llestr dwfn fel hwn, pan oedd y fam allan. A phan ddyshwelodd y fam, cafodd ef ar ei ben yn y llestr, ac wedi boddi.

Blant! peidiwch byth a chwareu fel hyn uwch ben dwfr. Vis gellwch ei wneyd heb gyflawni dau ddrwg:—

1. Anystyriaeth; ac
2. Anufudd-dod i rieni.

TORIAD Y WAWR.

**M**AE'r nos yn marw, ac y mae  
 Ei hysbryd hi yn disgyn  
 I freichiau tragwyddoldeb pell,  
 Trwy borth y dwyrain dillyn;—  
 Mae'r wawr yn d'od fel gwyrif deg,  
 A'i gwallt yn aur gymylau;  
 Ymwrido mae'r ffurfafen fawr  
 Yn ngwydd ei phorpher ruddiau.

Mae'n gwennu'n dyner ar ein byd,  
 Dros ddysglauer bŷst o arian,



Mae 'i llygaid yn gwreichioni gan  
 Arddunedd mawredd anian;  
 Mae 'n d'od ymlaen, mae lleni 'r nos  
 Yn wyl ymgrymu iddi,  
 Mynyddoedd am yr uwchaf ddyrch  
 Eu penau i edrych arni.

Mae 'r llanw mawr yn d'od i fewn  
 O eigion tragwyddoldeb,  
 Yn lluchio 'i donau 'n uwch, yn uwch,  
 Mewn mawredd a sirioldeb;  
 Mae 'r nos a'i phell gysgodion prudd,  
 Y lloer a'r ser yn soddi,  
 Yn ddystaw i ddyfnderoedd môr  
 Anhysbydd y goleuni.

Mae bywyd yn y llechwedd draw,  
 Mae 'r eigion yn sirioli,  
 Mae 'r 'hedydd bach yn esgyn fry,  
 Mae 'r wlg yn ferw drwyddi;  
 Mae 'r wŷn yn pranciaw ar y ddôl,  
 Mae sw'n ymhell ac agos,  
 Mae 'r byd yn codi at ei waith,  
 Mae 'r huan yn ymddangos.

GAERWENYDD PRITCHARD.



## DYDDANION.

### AR EICH GLINIAU.

**D**YWEDAI gweinidog yr efengyl unwaith wrth hen ŵr oedd yn tori ceryg ar y ffordd fawr, "Pe gallwn i dori calonau celyd pechaduriaid mor hawdd ag yr ydych chiwi yn gallu tori y ceryg yna, byddai yn dda genyf." Trodd yr hen ŵr ei ben ato. a dywedodd,—“Pe byddech yn treulio hanner cynaint o amser ar eich gliniau a mi, chiwi dorech fwy.”

### PWNC MAWR PLENTYN.

“**H**EIDIWCH chwareu â'ch morthwyl bach ar y Sabbath, rhag ofn i chiwi gael eich codi i'r lleuad, fy mhlentyn,” meddai mam wrth ei bachgenyn yn ddiweddar (gan gyfieirio wrth gwrs at y dyn a'r baich drain yn y lleuad). “Dyna lwc, 'mam,” ebai'r plentyn, “i chiwi ddyweyd mewn pryd. *Taswa i'n cael fy nghodi yno, Sut y daethwn i lawr i gael bwyd?*”—**EI FAMGU.**



## TRYSORFA Y PLANT.

RHYF. XLI.]

MAI, 1865.

[CYF. IV.

### GWIWER YN PLANU DERW.

**M**AE yn ffaith hynod, meddai "*Merry's Museum*," ac yn un nad yw yn hysbys i'r cyffredin, fod y rhan fwyaf o'r derw *damweiniol* yn cael eu planu gan wiwerod. Fel hyn, mae y creadur bychan hwn wedi gwneyd y gwasanaeth pwysicaf i'r llynges Brydeinig.

Cerddai boneddwr un diwrnod trwy y coed sydd yn perthyn i'r Duc o Beaufort, yn agos i Trevhouse, yn Sir Fynwy, a thynwyd ei sylw gan wiwer yn eistedd yn hamddenol ar y ddaear. Safodd i wyllo ei hysgogiadau. Yn y man neidiodd y wiwer i fyny, ac i frig y pren o dan yr hwn yr eisteddai. Y foment nesaf yr oedd wedi disgyn & mesen yn ei phen; yna dechreuodd grafu twll yn y ddaear.

Wedi gwneyd y twll, gollyngodd y fesen o'i genau, a chuddiodd hi & r pridd yr oedd wedi ei grafu, ac i fyny & hi i'r pren drachefn. Dygodd y nesaf i lawr, a gwnaeth & hi yr un modd. Daliodd wrthi cyhyd ag y daliodd amynedd y dyn i'w gwyllo.

Amcan y wiwer wrth guddio y mäs yw, darparu tamaid iddi ei hun erbyn y gauaf. Ond tebygol nad yw yn gallu cofio am bob mesen a guddiodd, a bod rhai bob tymmor yn cael eu hanghofio a'u gadael yn y ddaear. A'r canlyniad yw i'r rhai hyn dyfu i fyny i lenwi lle yr hen goed a dorir i lawr. Fel hyn y mae Prydain yn ddyledus, i ryw fesur, am ei mawredd masnachol, i ddarbodaeth, a chof drwg y wiwer.

Mae llawer o blanu derw yn y byd heblaw gan wiwerod. Tafodd plentyn unwaith draethodyn i mewn dan ddrws teulu annuwiol. Bu hwnw yn foddion trôedigaeth iddynt, ac yn achlysur sefydliad eglwys yn yr ardal. Dyna blanu derwen.

Wylai merch fechan unwaith, yn y Bala, am nad oedd Bibl i'w gael i ddysgu testunau y pregethwyr. Aeth ei dagrau i galon Mr. Charles; ymgynghorodd â dynion da yn Llundain, a ffurfiwyd Cymdeithas y Biblau, yr hon sydd bellach wedi taffu ei changenau dros yr holl fyd. Dyna ferch fechan wedi planu derwen ardderchog yn ddiarwybod.

Yr ydys yn gwneyd hyn mewn drwg yn gystal ag mewn da. Dysgodd rhieni caredig a chrefyddol eu bachgen bath, unwaith, i sipian gwin a gwirod gyda hwy yn y parlwr gartref. Magwyd blys ynddo atynt. Tyfodd i fyny yn feddwyn. Treiwyd llawer moddion i ddymchwelyd y blys, ac attal yr arferiad; ond yn ofer. Torodd galon ei fam, tafodd ei dad i'r *workhouse*, a bu yntau farw yn druenus yn y carchar. Dyna blanu derwen.

Mae llawer o blanu derw bob dydd, yn y pregethau, yn yr Ysgol Sul, ar ein haelwydydd, wrth anfon cenadau, a Biblau, a thraethodau ar hŷd a llêd y byd. Mae amgylchiadau distadl yn fynych yn esgor ar y canlyniadau mwyaf pwysig. Dylai hyn wneyd pawb yn ddifrifol a gwyliadwrus gyda holl orchwylion bywyd.



## Y TYWYSOG ALBERT YN CERYDDU EI BLENTYN;

### NEU Y FFORDD I GERYDDU PLANT.

**M**AE yn bosibl fod amryw o ddarllenwyr y **DRYSORFA** fach wedi gweled yr hanesyn tarawiadol yma o'r blaen; ond y mae yn werth ei argraffu drachefn a thrachefn, er dysgu rhieni pa fodd i geryddu eu plant; ac yr ydym yn ddiolchgar i "Gwilym Ceinewydd" am ei ddanfon i ni.

Safai Tywysog Cymru, y pryd hwnw yn llanc ieuanc, wrth ffenestr ei ystafell yn Nghastell Windsor. Yr oedd ganddo wers i'w dysgu ar ei gof, ond yn lle ei dysgu, difyrai ei hun trwy edrych allan trwy y ffenestr, a chwareu ei fysedd ar y gwydr. Canfu ei athrawes—Miss Hillyard, yr hon oedd ddynes grefyddol iawn—canfu ef yn ddibris o'i wers, a dywedodd wrtho yn garedig am feddwl am dani.

Atebodd y tywysog hi yn sychlyd, "Nid wyf am ei dysgu."

Dywedodd Miss Hillyard, "Wel, rhaid i mi eich rhoddi yn y cornel acw."

Atebodd y tywysog gyda thôn awdurdodol, "Ni wnaf ddysgu y wers, ac ni safaf yn y cornel ychwaith—myfi yw Tywysog Cymru!" A chyda'r gair rhoddodd droediad i'r ffenestr nes tan un o'r cwareli yn chwilfrw.

Cododd Miss Hillyard ar ei thraed, a dywedodd, "Syr, y mae

yn rhaid i chwi ddysgu eich gwers, neu rhaid i mi eich rhoddi i sefyll yn y gongl."

"Na wnafl!" ebai yntau, gan dori gwydr arall o'r ffenestr.

Canodd yr athrawes y gloch, a gorchymynodd alw ei dad, y Tywysog Albert, i mewn.

Daeth y tad i mewn, ac adroddodd Miss Hillyard yr holl ymddyddan wrtho. Yna trôdd y tad at ei fab, a dywedodd, "Eisteddwch fan yma hyd nes y dychwelwyf."

Aeth allan o'r ystafell, a dychwelodd yn fuan, â Bibl yn ei law.

"Gwrandewch yn awr," ebai wrth y tywysog ieuanc, "beth ddywed yr apostol Paul wrthyh, ac wrth bawb yn yr un sefyllfa a chwi."

Yna darllenodd Gal. iv. 1, 2: "A hyn yr wyf yn ei ddywedyd, dros gymaint o amser ag y mae yr etifedd yn fachgen, nid oes dim rhagor rhyngddo a gwas, er ei fod yn arglwydd ar y cwbl; eithr y mae efe tan ymgeleddwyr a llywodraethwyr, hyd yr amser a osodwyd gan y tad." Ychwanegodd, "Mae yn wir mai chwi yw Tywysog Cymru; ac os gwnewch dywys eich hun yn dda, gellwch ddyfod i sefyllfa uchel, ac ar ol marwolaeth eich mam ddyfod yn frenin Lloegr; ond nid ydych eto ond bachgenyn, dan lywodraethwyr. Heblaw hyn, rhaid i mi argraffu ar eich meddwl eiriau eraill o eiddo Solomon ddoeth, sef Diar. xiii. 24,—'Yr hwn a arbedo y wialen sydd yn casâu ei fab; ond yr hwn a'i câr ef a'i cerydda mewn amser.'"

Yna cymerodd ei dad wialen, a rhoddod hi yn drom ar gefn etifedd coron Lloegr.

Wedi hyny rhoddodd ef yn y cornel, a dywedodd wrtho,— "Sefwch fan yna, a dysgwch eich gwers, hyd nes y caffoch ganiatâd Miss Hillyard i ddyfod oddiyna; a pheidiwch o hyn allan byth ag anghofio eich bod dan ddysgawdwyr a llywodraethwyr, ac yn rhwym o ufuddhâu iddynt; ac uwchlaw y cwbl, o dan gyfraith wedi ei rhoddi gan Dduw."



## UN PRAIDD, NID UN GORLAN.

**D**YWED Alford, Deon Canterbury, un o'r dysgedigion blaenaf yn iaith wreiddiol a hen ysgrifau y Testament Newydd, mai fel hyn y dylid darllen Ioan x. 16: "A bydd un praidd, un bugail," ac nid "un gorlan." Mae rhoi "corlan" yma, yn lle "praidd," meddai, yn gamsyniad blin a phwysig. Mae y geiriau gwreiddiol a ddefnyddir am gorlan a phraidd, bob amser yn hollol wahanol (*aulé*, corlan; *poimné*, praidd). Mae yn anmhosibl cyfiawnhâu cyfieithwyr y Brenin Iago o ryw annhegwch yma. Er fod cyfieithiad Tyndale, â'r gair hwn fel y dylasai fod, o'u blaen, eto defnyddiasant y gair anmhrïodol. Oblegid nid gwir yw y bydd yn yr Eglwys Gristionogol *un gorlan*; un praidd sydd, ond ei fod yn trigo mewn llawer o gorlanau.

## HEIBIO GETHSEMANE BRUDD.

*(Yon bright world.)*

GAN J. CEIRIOG HUGHES.

**H**EIBIO Gethsemane brudd,  
Heibio bryn yr Olew-wydd,  
Hedwn ar adenydd dydd,  
I'r nefoedd wên.  
Moliant Haleliwia, seinier Haleliwia,  
Mawl, mawl i Ddaw.

De'wch blant bychain gyda mi,  
Heibio mynydd Calfari :  
Tremiwn drwy y cwmwl du,  
I'r nefoedd wên.  
Moliant, &c.

Iesu Grist yn flaenor roed ;  
Deulu Sion o bob oed,  
Gawn ni ddilyni ôl ei droed,  
I'r nefoedd wên ?  
Moliant, &c.

Codwn enw 'n Ceidwad ni,  
Codwn gôrau 'r Jubili,  
Codwn fynydd Calfari,  
I'r nefoedd wên.  
Moliant, &c.

## MERCHEID, EU GWAITH A'U DYLANWAD.

LLYTHYRAU AT FY NOSBARTH.—LLYTHYR I.

**N**WYL FERCHED,—Y mae Rhagluniaeth wedi fy symud am ryw dymnion oddiwrthych, ac y mae arnaf hiraeth mawr ar eich ol. Er fy mod wedi dyweyd llawer wrthych o dro i dro yn bersonol, ac yn y dosbarth, yr wyf yn teimlo fy nghalen yn fwy llawn yn awr nag erioed ; ac nid oes genyf yr un flurdd i geisio trosglwyddo y pethau hyny i'ch calonau chw! ond trwy lythyr. Yr wyf yn gwybod y darllenwch fy llythyrâu yn ystyriol a difrifol. Ac fel yr oeddem yn arfer gweddïo am fendith yr Arglwydd ar ddechreu ein dosbarth, y prydnewnsau y byddem yn cyfarfod â'n gilydd, yr wyf am i chwi weddïo yr un fath pan fyddwch yn cyfarfod â'ch gilydd i ddarllen fy llythyrâu.

Yr wyf fi wedi cyfarfod â thywydd garw iawn wedi i mi eich gweled chwi. Ysgol Iesu Grist yw trallodan y byd yma, ac yr wyf wedi dysgu llawer o wersi newyddion yn yr ysgol hon yn

ddiweddar; ac nis gallaf gelu oddiwrthych chwi, fy anwyl gyfeillion, y pethau wyf wedi bod yn eu meddwl a'u dysgu. Dyma un peth sydd wedi bod ar fy meddwl yn ddwys:—

*Fod yr Arglwydd wedi rhoddi lle a dylanwad mawr i ferched yn y byd.* Fe fu amser pan oedd merched a gwagedd yn cael eu dibrisio, a'u camdrin, a dyoddef caledi a chreulondeb mawr; ac y mae felly eto mewn lleoedd ag y mae goleuni yr efengyl heb gyrrhaedd. Ond mae y Bibl—y mae crefydd Iesu Grist, wedi dwyn iachawdwriaeth ddyblyg i ferched; ac nid yn unig dwyn gwaredigaeth iddynt, ond wedi dangos fod gwaith mawr yn cael ei ymddiried iddynt gan yr Arglwydd. Mae yr adnod yn dyweyd “nad oes neb yn byw iddo ei hun;” a dylech chwithau gofio nad ydych yn byw i chwi eich hunain.

Yr ydych chwi wedi eich danfon i'r byd i wneyd gwaith dros Dduw, yn gystal a neb o'i weinidogion enwocaf. Nid wyf yn meddwl wrth hyn fod yn rhaid i chwi grëu cynhwrf mawr yn eich harlal, na gwneyd eich henw yn gyhoeddus. Gellwch wneyd gwaith mawr heb gadw dim sŵn. Gellwch ddysgu, gweddio, a byw yn esiampl i'ch cyfoedion; gellwch ddysgu plant eraill, eu cynnorthwyo mewn caledi, a bod yn garedig i bawb. Yn wir, mae y gwaith mwyaf bob amser yn cael ei wneyd heb gadw dim sŵn. Mae yr haul yn codi bob dydd, ac yn bywhâu ac yn tyfu miliynau o blangion, heb gadw diu sŵn. Mae llwydrew y nos yn anafu ac yn dinystrio mwy filwaith na'r mellt a'r taranau, ac heb gadw dim sŵn. Cael eu teimlo mae y pethau hyn. Ac y mae eich dylanwad chwithau fel merched yn gyffelyb, i gael eu deimlo yn fwy na'i weled a'i glywed. Ac y mae bywyd pob un o honoch chwi, os cewch fyw, yn sicr o effeithio yn fawr yn eich cymydog-aeth, er da neu er drwg.

O fy anwyl ferched! byddwn yn myned allan o'r byd yma yn fuan. Myned i sefyll ger bron ein Barnwr i roddi cyfrif sut y darfu i ni wneyd ac ymddwyn. Dydd mawr i ni oll fydd “y dydd honno!”—dydd i gofio pob peth, i weled pob peth, i brofi ac i farnu pob peth, ac i dderbyn y ddedfryd dragywyddol! Yr wyf yn ofni y bydd cywilydd arnoch chwi a minnau i edrych o'r fan hono ar lawer darn o hanes ein bywyd, pan fyddwn ger bron gorsedd “wên fawr” y Barnwr, yr holl angelion o'i amgylch, a'r holl genedloedd ger ei fron. Mor gas fydd ein diogi a'n hesgeulusdra i'w gweld “y dydd hwnw!” Mor ddychrynllyd bydd ein pechodau yn ymddangos! Gobeithio na bydd yr un o honom ni yn llewygu gan ofn a pryd hwnw, a'r gair ofnadwy; “Ewch ymaith oddiwrthych, &c.” yn cael ei gyhoeddi wrthym; ond y cawn nerth i ddywedyd wrth y Barnwr, “O Arglwydd Iesu! ti fuost farw drosem. Ac er ein holl bechodau, yr ydym wedi credu ynot, ac yn pwyso ar dy iawn. Na wrthod ni!” Ac yr etyb yntau, “Deuwch, chwi feadgedigion fy Nhad, etifeddwch y deyrnas, &c.” Hyn fyddo eich rhan chwi a minnau.—Yr eiddoch yn gywir,

PRUDENCE LEWIS.



SYR ISAAC NEWTON.

WYR ein darllenwyr mai yr athronydd penaf a fagodd Prydain erioed ydoedd Syr Isaac Newton, ac un o athronwyr blaenaf yr holl byd. Ganed ef yn Swydd Lincoln, yn Lloegr, yn y flwyddyn 1642, a bu farw yn 1726. Ei brif ddarganfyddiad ydoedd “deddf dysgyrchiant,” yr hwn yr arweiniwyd ei feddwl ato pan yn dair ar hugain oed, trwy weled afal yn cwmpo oddiar y pren. Gofynnodd iddo ei hun, “Paham y syrthiodd at y ddaear yn fwy nag oddiwrthi?” Dyfais ragorol arall o’i eiddo oedd y *Reflective Telescope*. Y prif lyfr a ysgrifennodd yw yr un a elwir “*Principia*.” Er iddo fyw dros bedwar ugain oed, yr oedd wedi cyflawni ei holl orchestion cyn ei fod yn bump a dengain. Yr oedd yn ddyn crefyddol a defosiynol iawn, ac ysgrifennodd amryw lyfrau duwinyddol.

Pan symudodd i fyw i *Leicester Place* yn Llundain, yr oedd boneddiges weddw yn byw y drws nesaf iddo, yr hon ni wyddai ddim o hanes ei chymydog newydd. Galwodd un o’r dynion enwog a elwir “*Fellows of the Royal Society*” i weled y foneddiges un diwrnod; ac ymysg pethau eraill dywedodd wrtho fod rhyw foneddwr hynod iawn wedi dyfod i fyw y drws nesaf iddi, ac y rhaid nad oedd yn ei synwrau; oblegid ei fod yn treulio llawer o amser gyda thwba a golchion sebon o’i flaen yn y cefn, ac yn chwythu pledreni â phibell dybaco, ac yn gwyllo symudiadau y pledreni gyda’r dyddordeb mwyaf hyd nes y diflanent.

“Dacw ef wrthi y mynyd yma,” ebai, gan edrych allan trwy ffenestr y cefn; “de’wch yma i’w weled.”

Chwarddodd y boneddwr. Ac wedi edrych arno am dro, dy-

wedodd, "Fy anwyl madam, nid yw y dyn yna, y dywedwch ei fod yn wallgof, neb amgen na'r enwog Syr Isaac Newton, yn astudio gwrthdoriad goleuni ar lafnau teneu; ac nis gall gael cyflëusdra gwell nag ar y pledreni prydferth acw dan dywyniad dysglaer yr haul."

Yr oedd Syr Isaac yn hynod am addfwynder ei ysbryd, ac nid oedd yn bosibl ei gyffroi i dymherau drwg. Galwyd arno allan o'i ystafell unwaith; ac erbyn iddo ddychwelyd, yr oedd ei gi bychan, *Diamond*, wedi taffu y ganwyll i lawr ar ei bapyrau, nes llosgi yn ulw lafur blynyddoedd iddo. Ond dyoddefodd y brofedigaeth heb y cyffro lleiaf. Y cwbl a ddywedodd, a hyny yn y dymher addfwynaf, oedd, "O Diamond, Diamond! wyddost ti fawr faint o ddrwg a wnaethost!"

PSALM LXXXIV.

**M**OR hawddgar yw dy babell di,  
O Arglwydd Dduw y lluoedd;  
Hiraethu mae fy enaid i  
Am weled dy gynteddoedd.

Aderyn tō a gafodd dŷ,  
A'r wrenol nyth i'w chywion;  
Sef dy allorau di, O Dduw,  
Ar hyfryd fynydd Sion.

Gwyn fyd preswylwyr tŷ fy Nuw,  
Yn wastad y'th folianant;  
Yn dy drugaredd fawr a'th ras,  
Bob dydd y gorfoleddant.

Gwyn fyd a wnelo Dduw yn nerth,  
Ac yn ymddiried iddo,  
Gan ymhyfrydu yn ei ddeddf,  
Ac yn ei lwybrau 'n rhodio.

Trwy ddyffryn Baca teithio maent,  
Gan yfed dŵr pob ffynnon;  
O nerth i nerth ymlaen yr änt,  
Nes cyrhaedd mynydd Sion.

O Arglwydd Dduw y lluoedd, clyw,  
Fy nghais a'm gweddi wresog;  
Edrych, O Dduw, ein Tarian ar,  
Wynnebryd dy Eneiniog.

Mae un dydd yn nghynteddoedd Duw  
Yn well na mil o ddyddiau,  
Yn mhebyll yr annuwiol rai  
Sydd yn anghofio 'th ddeddfau.

Can's haul a tharian ydyw Duw;  
Rhydd ras i'r gostyngedig;  
Gogoniant hefyd yw y nef  
I bawb sy 'n dduwiolfrydig.



Nid yw yn attal dim sydd dda  
 Oddiwrth y rhai sy'n rhodio  
 Yn berffaith yn ei gyfraith Ef,  
 Ac yn ymddiried ynddo.

*Hensfordd.*

T. PHILLIPS.

YSTORI ADA.

(*Parhâd o du dal. 96.*)

**R** oedd ynnddi hoffder mawr at y *prydfferth* ymhobpeth. Pan aethom i F—— yn 1860, cymerwyd hi allan i roddi tro gerllaw yr Eglwys, a chafodd ei boddhâu yn fawr. Dywedodd, "Onid yw yn llawer mwy prydfferth na'r eglwys yn T——?" Yr hyn oedd yn berffaith gywir—y naill yn eglwys ddiolwg ddiweddar, a'r llall yn eglwys Seisonig foreuol dra phrydfferth.

"Byddai yn dda genyf," ebai, "pe codai dada dŷ bychan i mi yn ei hymyl, ac yna edrychwn arni o hyd."

Yn y gwanwyn, cyn ei bod yn dair blwydd oed, yr oedd ei hyfrydwch wrth weled y blodau yn annesgrifiadwy. Ychwanegai yn gyson at ei gweddiau, gan, weithiau, benlinio yn y fan, "Yr wyf yn diolch i ti, Iesu, am beri i'r egin bach prydfferth a'r blodau ddyfod."

Blodau, ac yn enwedig blodau gwylltion, oedd ei phrif ddfyrwch. Mynai wybod enw pob blodeuyn y delai o hyd iddo, a dywedai ef drosodd a throsodd nes ei gofio, a'i adnabod yn berffaith. Cymerai ofal mawr i adnabod y gwahaniaeth rhwng rhai tebyg—megys blodau ganmil, a llygad yr ŷch; ond gwahaniaethai rhwng y naill a'r llall o bell. Cai ddfyrwch mawr yn F—— wrth weled y corlanau defaid, a'r meusydd ŷd, ac wrth redeg dros y bryniau. Edrychai ar y bryniau yn berffaith brydfferth, a dywedai unwaith, "O, byddai yn dda genyf pe gallem fyned âg un o'r bryniau yna yn ôl i T—— *Park!*" Dewisai un o flodau gwylltion o flaen unrhyw nifer o flodau y gerddi, gan eu hystyried gymaint yn brydfferthach.

Yn Hydref, 1860, rheddodd i'm hystafell, taflodd ei hunan i lawr mewn gorlawenydd, a dywedodd, "Gwelais rywbeth *mor* brydfferth! Rhaid i chwi ddyfod i'w weled."

Rhoddodd y desgrifiad mwyaf bywiog a chyffrous o ddarlun gwraig a dau fachgen, a chanmolai y darluniau tu hwnt i bobpeth. Deallais innau mai darlun *Madonna della Seggiola* ydoedd, yr hwn oedd newydd ddyfod drosodd o Florence; yr oedd Ada wedi ei weled yn ystafell ei brawd.

Nid oedd byth yn prisio fawr am y darluniau yn y *Sunday Picture Book*, ond yn unig am yr ystoriau. Dywedai yn fynych, "Nid yw yr Iesu, mi dybygwn, yn debyg i hwnyna. Nid wyf yn meddwl ei fod."

Wedi cyrhaedd ei thair blwydd oed, dywedai yn barhâus, "Byddai yn dda genyf fyned at yr Iesu yn awr."

Pan ddywedais wrthi, "Cawn fyned ryw ddiwrnod," edrychai yn siomedig, ac atebodd, "Ie, ond y mae eisieu arnaf fyned yn awr."

Dywedai hyn yn gyson, ac ychwanegai gyda'r dagrau weithiau yn ei llygaid, "Yna ni byddaf yn ddrwg byth mwy."

Dywedai wrthyf yn fynych, "Dywedwch wrthyf ynghylch pan gaf fyned at yr Iesu, ac am y lle hyfryd."

Pan ddywedais nad allwn ddyweyd i ba beth yr oedd yn gyffelyb, ond ei fod yn brydferth iawn, dywedodd, "Tybiwn y bydd yn debyg i ardd y T—— *Park*. Ydych chiwi yn meddwl y gad yr Iesu i mi fyned â'm teganau? Gobeithia y gwna; ond fe allai y rhydd Efe deganau i mi yn eu lle. Fe allai tŷ-baby, ac un mwy prydferth na fy un i yn Llundain." Ond ei phrif syniad ydoedd, na byddai byth yn ddrwg wedi'n.

Dywedodd un diwrnod wrth Miss R——, "Yr wyf fi yn caru yr Iesu yn fwy na neb; yr wyf yn ei garu yn fwy na dada a mamna, waith yr wyf *fi* am fyned ato yn awr."

Tua'r un amser, pan ddywedai beth cyffelyb wrth y *nurse*, aeth ar ei gliniau, a gweddiodd am gael myned yn awr—ac ailadroddai "yn awr" mor ddifrifol, fel y gorfu i'r *nurse*, mewn ofn, ddyfeisio i droi ei meddwl at rywbeth arall.

Unwaith, pan oeddwn wedi bod yn gweddio gyda hi cyn myned i'rgwely, ac heb ddyweyd dim am ddyfodiad yr Iesu, galwodd arnaf yn ôl, a dywedodd, "Dywedwch wrth yr Iesu, 'Tyred yn fuan.'"

Gofynai i mi yn fynych i weddio am hyn; ac ar ol hyny dywedai, "Yn awr, fe allai y daw heddyw!"

Weithiau galwai ar Edith i fyned gyda hi i ystafell arall i weddio; ac yno gweddiai yn y modd mwyaf difrifol am iddo ddyfod yn fuan.

Ceisiai genyf o hyd i siarad am ei ddyfodiad, a dyweyd wrthi am ei chwaer fach Lucy, yr hon oedd wedi marw tua phymtheng mlynedd yn ol, oddentu yr un oedran a hi.

Nid oedd un amser yn fwy wrth ei bodd na phan gai weled teganau Lucy, a gwisgo mantell fechan oedd Lucy yn hoff o'i gwisgo.

Yr oeddem yn arfer sylwi y byddai yn edrych yn bruddaidd a myfyrgar iawn ar yr achlysuron hyn; a gofynodd unwaith, "Os daw yr Iesu yn awr, a dyfod â Lucy gydag Ef, fydd hi yn anfoddlawn fy mod i yn chwaraeu gyda'i theganau hi?"

Nid oedd byth yn blino clywed am Lucy; ond ei phrif awydd-fryd oedd gweled yr Iesu. Os clywai fod rhywun yn caru yr Iesu, gorchfygai ei gwyleidd-dra naturiol. Yn y cyffredin nid oedd yn hoff o ddyeithriaid, a rhedai ymaith ar ddyfodiad ymwelwyr; ac, hyd nes oedd yn dair oed, wylai yn fynych rhag ofn wneb dyn dyeithr.

Un diwrnod, pan oedd Mr. H—— yn dyfod i mewn i'r ystafell, a hithan yn rhedeg ymaith fel y byddai yn arfer, dywedais wrthi, "Nid oes raid i chiwi ofni Mr. H.; y mae yn caru yr Iesu." Yna daeth yn ôl, ac ysgydodd law âg ef.

Tua'r un amser, galwodd boneddwr gyda barf fawr, a gwnaeth ymdrech mawr i'w ysgoi. Dywedodd y *nurse* wrthi ar ol hyny, "Yr oeddech yn ifol i'w ofni; y mae hwna yn ddyn da, ac yn caru yr Iesu."

Atebodd Ada, "Nis gwyddwn hyny, onidê buaswn yn ysgwyd llaw âg ef."

Ar y cyntaf yr oedd arni gymaint o ofn Mr. P——, offeiriaid duwiol, fel yr wylai bob amser y gwelai ef. Pan tua thair oed, addawodd beidio ofni pan alwai. Cadwodd ei haddewid, a siaradodd âg ef pan ddaeth. Dywedodd, "Mae Ashley yn myned yn forwr."

Gofynnodd Mr. P. beth garai hi fod.

Atebodd ef, "Carwn i fod yn oen bach."

"Wyddoch chwi pwy yw'r Bugail Da?" gofynai Mr. P.

"Gwn—Iesu Grist yw'r Bugail Da," ebai. "Yr wyf fi am fod yn oen bach iddo Ef. Gwn hymn ynghylch hyna,

"Jesus, tender Shepherd, hear me!"

Ychydig o hymnau a ddysgodd, eto yr oedd ganddi ddwy neu dair ag yr oedd yn hoff o honynt.

Un diwrnod, ychydig cyn ei bod yn dair oed, gelwais arni i ddyweyd ei hymn; dechreuodd hithau adrodd gyda gwyneb difrifol,—

"T was God who made the pretty flowers  
So pleasant and so bright."

Yr wyf wedi anghofio y ddwy linell arall. Yr oedd yn gywir o ran mesur a chynghanedd, er nad wedi ei eirio yn dda. Gofynais iddi, "Pwy ddysgodd hwna i chwi, Ada?"

Atebodd, "Dynes fach ffol—mi fy hunan."

Cefais wedi hyny mai felly yr oedd, a'i bod wedi cyfansoddi amryw benillion.

Yr oedd bron bob amser yn adrodd ystorïau wrthi ei hun; ei hoff destunau oedd Iesu Grist, a phlant bychain. Yr oedd yn fynod hoff o blant. Nid oedd dim yn ei boddio yn fwy, wrth fyned i roi tro allan, na gweled plant ar ymyl y ffordd. Dywedai yn fynych, "O, gadewch i mi fyned allan o'r cerbyd i siarad â hwynt!"

Mor dda oedd ganddi edrych ar y merched bach yn lloffa ar y meusydd ŷd. Dywedai, "O, y ferch fach anwyl yna! Gyrwch yn ôl y ffordd hon eto, i ni gael ei gweled eto! Edrychai arnaf mor serchog!"

Pan yn cerdded, gofynai ganiatâd i gael siarad â phlant, a'u cusanu. Os byddent yn ofnus, rhoddai ei braich am danynt, a dywedai, "Peidiwch ofni, f' anwyl! siaradwch â fi."

Yr oedd yn hoff o fyned i ymweled â'r ysgol, a siaradai lawer am y plant. Dywedai unwaith am eneth fechan, "Yr oedd ffrôc ddu ganddi. Druan fach! fe allai ei bod wedi colli ei mam!"

Pan ddelai plant i'w gweled, byddai yn barod i roddi ei theganau iddynt; a chynnygiai iddynt y rhagorffaint benaf, dybygasai hi—sef cael yfed tê o'i chwpan bach hi.

Pan ddaeth Ashley yn ddigon hen i fyned â'i theganau hi ymaith, yr oedd ar y cyntaf yn anfoddlawn iawn. Ond ynhen amser daeth yn gwbl foddllawn iddo i'w cael, am ei fod ef yn llai

na hi ("because he was *littler*.") Pan fu Ashley yn glaf, ac y gosodwyd ef mewn dwfr cynhes, rhedodd allan o'r ystafell droion i weddio drosto. A phan fyddai yn ddrwg gwnai yr un peth, gan ddywedyd, "O Arglwydd Iesu, gwna Ashley yn fachgen da! O, gwna, gwna, Arglwydd Iesu!"

Ychydig ddyddiau cyn ei chlefyd diweddaf, daeth basged i mewn i'r ystafell yn llawn o bethau i'w gwerthu. Canfu Ada bellen fechan ynnddi o *worsted* o amryliw dysglaer, a swynwyd ei bryd arni. Dywedodd, "O mamma, prynwch hi i mi! dyna'r bellen dlysaf a welais erioed yn fy mywyd!"

Dywedais, "Aroschw, gadewch weled a oes yna un i Ashley, hefyd." Ond nid oedd yr un arall yno, a dywedais, "Wel, beth a wnaif? A roddaf fi hon i chwi, neu i Ashley?"

Atebodd hithau, "Yr wyf yn meddwl y byddai yn well i chwi ei rhoddi i Ashley, achos y mae gymaint yn llai na fi" ("he's such a much littler boy").

Dywedais y cawsai hi ei rhoddi iddo, yr hyn a wnaeth gyda'r plaser mwyaf.

Yr oedd yn awyddus iawn i gael Ashley i "wybod ynghylch yr Iesu." Cyn ei fod yn flwydd a hanner oed, ceisiai Ada yn gyson ei ddysgu i weddio. Un diwrnod dywedodd wrthyf gyda llawenydd mawr, "*Mae* Ashley yn deall ynghylch yr Iesu. Mae yn fach iawn, ac nid yw yn gwybod llawer; ond yr wyf yn meddwl ei fod yn gwybod am hyna, waith y mae yn penlinio, ac yn dywedyd "*Iesu*."

Galleu gofio llawer ychwaneg er dangos nerth yr efengyl ar ei meddwl, yn enwedig yn ystod misoedd olaf ei bywyd. Yr oedd yn hynod hefyd am geisio troi pob gwybodaeth i ddyben ymarferol. Yn Hydref, 1860, edrychai trwy y ffenestr ar y blodau tu allan, a rhedai yn awr ac yn y man i'w casglu. Dywedais wrthi am beidio rhedeg allan, rhag cael anwyd. "Rhaid i mi beidio edrych arnynt ynte, onidê, cŵyd chwant arnaf am danynt, fel Efa," ac aeth ymaith o'u golwg i chwareu. Yr oeddwn newydd fod yn dyweyd wrthi am demtasiwn y sarph i Efa.

Pan yn agos deirblwydd oed, rhoddodd ei modryb (awdures "*Peep of Day*") gopi o'i llyfr iddi. Daeth i hoffi hwn uwchlaw pob llyfr, a dygai ef gyda hi bob amser, a cheisiai gan bobl i'w ddarllen iddi. Daeth mor hoff o gynnwys tu dalen 21, fel y dysgodd ef bob gair ar ei chof. Arferai droi iddo, a'i adrodd fel pe buasai yn ei ddarllen.

Dysgodd ei thad un weddi fechan iddi, ac arferodd hi yn ofalus hyd y diwedd, "oblegid," meddai, "fy nhad a'i dysgodd i mi." Dyma yr unig weddi a wyddai ar ei chof, hyd ag y gwyddom ni.

Yr oedd ganddi barch difesur i bobpeth a ddywedai ei thad. Dywedodd wrthyf unwaith, "Ceisiwch gan fy modryb F— (awdures "*The Peep of Day*") i ysgrifenu llyfr am fy nhad. Y mae yn un mor rhyfedd, dylai llyfr gael ei ysgrifenu i ddyweyd wrth bobl yn ei gylch!"

(*I'w orphen yn y nesaf.*)

## TON.—MAE MYRDD O BLANT BYCHAIN.

Doh D. M. 120.

DUETT.

|   |                      |           |             |           |     |     |
|---|----------------------|-----------|-------------|-----------|-----|-----|
| { | : d . r              | m : m : m | m : . f : s | d : d : d | m : | : m |
|   | : d . t <sub>1</sub> | d : d : d | d : . r : m | d : d : d | d : | : d |

Mae myrdd o blant bych—ain fu'n dlawd fel ny—ni, Yn

|   |                                                  |                        |           |   |                      |
|---|--------------------------------------------------|------------------------|-----------|---|----------------------|
| { | r : r : r                                        | r : l : s              | m : — : — | : | : d . r              |
|   | t <sub>1</sub> : t <sub>1</sub> : t <sub>1</sub> | t <sub>1</sub> : f : m | d : — : — | : | : d . t <sub>1</sub> |

awr heb na blin—der na phoen, Yn

|   |           |             |           |                          |
|---|-----------|-------------|-----------|--------------------------|
| { | m : m : m | m : . f : s | f : l : l | d <sup>1</sup> : . t : l |
|   | d : d : d | d : . r : m | f : f : f | l : . s : f              |

can—u y gon—west ar ben Cal—far—i, O

|   |             |                        |           |   |   |
|---|-------------|------------------------|-----------|---|---|
| { | s : . f : m | f : m : r              | d : — : — | : | : |
|   | m : . r : d | r : d : t <sub>1</sub> | d : — : — | : | : |

am—gylch gor—sedd-faine yr Oen.

CHORWA.

|   |                |                        |               |                        |                        |
|---|----------------|------------------------|---------------|------------------------|------------------------|
| { | d <sup>1</sup> | t : f : f              | f : f : l     | s : m : m              | m : — : m <sup>1</sup> |
|   | Awn            | nia—au i'r nef—oedd at | Iz—su ei Hun, | A'n                    |                        |
|   | m              | r : r : r              | r : r : f     | m : d : d              | d : — : d <sup>1</sup> |
|   | s              | s : t : t              | t : t : t     | d <sup>1</sup> : s : s | s : — : s              |

|   |                                                  |                                     |           |   |                      |
|---|--------------------------------------------------|-------------------------------------|-----------|---|----------------------|
| { | m <sup>1</sup> : r <sup>1</sup> : d <sup>1</sup> | t : l : r <sup>1</sup>              | s : — : — | : | : s . f              |
|   | pryn-odd                                         | i Dduw trwy ei                      | waed;     | : | : Calif              |
|   | d <sup>1</sup> : t : l                           | s : fi : f <sup>1</sup>             | s : — : — | : | : t <sub>1</sub> . r |
|   | l : l : l                                        | r : r <sup>1</sup> : d <sup>1</sup> | t : — : — | : | : s                  |

|   |           |                                       |                                     |                                     |
|---|-----------|---------------------------------------|-------------------------------------|-------------------------------------|
| { | m : m : m | m : . f : s                           | f : l : l                           | d <sup>1</sup> : — : t . l          |
|   | fol—iant  | tra—gwydd—ol y                        | plant yn gyt—tan,                   | A                                   |
|   | d : d : d | d : . r : m                           | f : f : f                           | l : — : s . f                       |
|   | s : s : s | s : . d <sup>1</sup> : d <sup>1</sup> | l : d <sup>1</sup> : d <sup>1</sup> | f <sup>1</sup> : — : r <sup>1</sup> |

|           |             |           |           |
|-----------|-------------|-----------|-----------|
| d : d : d | d : . d : d | f : f : f | f : — : f |
|-----------|-------------|-----------|-----------|

|                |                  |                  |             |                |      |                  |  |                |    |    |  |   |
|----------------|------------------|------------------|-------------|----------------|------|------------------|--|----------------|----|----|--|---|
|                |                  |                  | <i>rit.</i> |                |      |                  |  |                |    |    |  |   |
| s              | : d <sup>1</sup> | : m <sup>1</sup> |             | r <sup>1</sup> | : l  | : t              |  | d              | :— | :— |  | : |
| chor—on        | pob              |                  |             | un             | wrth | ei               |  | draed.         |    |    |  | : |
| m              | : m              | : s              |             | f              | : f  | : f              |  | m              | :— | :— |  | : |
| d <sup>1</sup> | : d <sup>1</sup> | : d <sup>1</sup> |             | t              | : t  | : r <sup>1</sup> |  | d              | :— | :— |  | : |
| s              | : s              | : s              |             | s              | : s  | : s              |  | d <sub>1</sub> | :— | :— |  | : |



**M**AE myrddd o blant bychain fu 'n dlawd fel ayni,  
 Yn awr heb na blinder na phoen,  
 Yn canu y goncwest ar ben Calfari,  
 O amgylch gorseddfainc yr Oen.  
 Awn ninnau i'r nefoedd at IESU ei Hun,  
 A'n prynodd i Dduw trwy ei waed;  
 Caiff foliant tragwyddol y plant yn gyttân,  
 A choron pob un wrth ei draed.


**O**s yn yr anialwch 'r ym heddyw yn byw,  
 Ac angeu du rhyngom a'n gwlad,  
**Mae** genym Waredwr yn Frawd ac yn Dduw,  
 Fe 'n cyfyd i nefoedd ein Tad.  
 Awn ninnau i'r nefoedd at IESU ei Hun,  
 A'n prynodd i Dduw trwy ei waed;  
 Caiff foliant tragwyddol y plant yn gyttân,  
 A choron pob un wrth ei draed.

**Mae** Dirwest yn llwyddo, cyfodwn yn llu,  
 A medd'dod sy 'n dyfod i lawr;  
**Mae** baner plant bychain i fyny mewn bri,  
 Cydganant, eu moliant fydd mawr.  
 Mae dydd buddugoliaeth yn prysur nesâu,  
 A diwedd ar fedd'dod a fydd;  
 Mae rhyddid yn rhwygo caethiwed pob gwlad,  
 A'u caethion yn dyfod yn rhydd.

**Fe** safodd y cwmwl caddugol yn hir,  
 I dduo ffurfafen ein bro,—  
**Mae** 'r wawr yn y dwyrain, daw 'r haul yn ei nerth,  
 I'w ymlid yn fuan ar ffô.  
 Mae dydd buddugoliaeth yn prysur nesâu,  
 A diwedd ar fedd'dod a fydd;  
 Mae rhyddid yn rhwygo caethiwed pob gwlad,  
 A'u caethion yn dyfod yn rhydd.

I know thou art gone to the home of thy rest,  
 Then why should my soul be so sad;  
 I know thou art gone where the weary are blest,  
 And the mourner looks up and is glad.  
 I never look up with a wish to the sky,  
 But a light like thy beauty is there;  
 And I hear a low murmur like thine in reply,  
 When I pour out my spirit in prayer.

In the hush of the night, on the waste of the sea,  
 Or alone with the breeze on the hill,  
 I have ever a presence that whispers of thee;  
 And my spirit lies down and is still.  
 I never look up, &c.



## AR DAN.

**T**E allai nad oes nemawr o'n darllenwyr ieuainc wedi gweled tŷ erioed "ar dân." Golygfa arswydus. Nid oes nemawr o ddiwrnod yn Llundain nad oes tânau dychrynlyd yn tori allan, ac yn ysu tai, celfi, meddiennan, a bywydau yn aml. Dyma ddarlun da i chwi o dân diweddar a fu yno, pryd y dinystriwyd gwerth miloedd o bunnau o eiddo, ond yr achubwyd yr holl fywydau. Mae y fflamau yn gorchuddio yr adeilad. Yn nesaf at y tân, gwelir y *Fire Brigade* (dynion pwrpasol sydd yn cael eu cadw at ddiffodd tânau o'r fath) yn taflu dwfr â'r pibellau lle dr ar y tân i geisio ei ddiffodd, er ei fod yn llosgi mor ffyrnig fel nad yw y dwfr yn effeithio fawr arno. Mae un o honynt yn rhedeg

Ņ'r ysgol i fyned i ben y tai, i geisio attal y tŅn i gerdded trwy yr holl ystryd. Ac y mae yr heddgeidwaid ar eu goreu yn gwthio y dyrfa o edrychwyr ymaith oddiar y ffordd.

"Ar yr 2il o Fedi, 1666, torodd tŅn mawr Llundain allan, yn *Pudding Lane*, gerllaw Pont Llundain, ar y fan y mae colofn y tŅn wedi ei chodi; tŅn ydoedd hwn na fu ei fath yn Ewrop er llosgiad Rhufain yn nyddiau Nero. Gan fod awel gref yn chwythu o'r dwyrain ar y pryd, y tai wedi eu gwneyd o ddefnyddiau llosgadwy, a'r ystrydoedd mor gulion, ymledodd yn gyflym a dirwyst'r am bedwar diwrnod. Yr oedd yr olygfa yn arswydla'n! Yr oedd y fflam ddychrynlyd yn dyrchafu yn un golofn, dros filldir o dryfesur, ac yn gwneyd y nos mor oleu a dydd am ddeng milldir o gwmpas. Yn nghanol y fflam aruthrol, clywid trwst tai, eglwysi, a chlochdai yn cwmpo, ac yn ysgwyd y cwbl fel daeargryn. Yn ngoleuni y tŅn gwelid y bobl yn ffoi yn ddychrynedig i bob cyfeiriad, gyda beichiau o'r ychydig eiddo allent ddwyn. Attaliwyd ef o'r diwedd trwy chwythu tai i fyny Ņ phylor i rwystro ei ymlediad; ond nid cyn iddo losgi y cwbl yn ulw o'r TŅr i'r Temple, ac o'r afon hyd gyffiniau Smithfield—tua dwy ran o dair o'r ddinas. Ni chollwyd ond chwech neu saith o fywydau; ond dinystrwyd *tair mil ar ddeg* o dai, *pedwar ugain a naw* o eglwysi, a chyfrifid y golled yn fwy na saith miliwn a chwarter o bunnau. Taffwyd dau can' mil o'r trigolion yn ddiymgeledd i lechu mewn bythod ar hyd meusydd Islington a'r gymydogeath."\*

Os oedd dinas ar dŅn yn olygfa mor ofnadwy, beth am *fyd* ar dŅn! "Dydd Duw! yn yr hwn y nefoedd gan losgi, a ymollyngant, a'r defnyddiau gan wir wrŅs a doddant, a'r ddaear a'r gwaith a fyddo ynddi a losgir!" 2 Pedr iii. 10—12.



## ROSE A BLANCHE;

*Neu Gynllwynion y Jesuitiaid.*

### PENNOD V.—Y LLONGDDRYLLIAD.

**I**N o'r sefydliadau rhyfeddaf ar y ddaear yw yr urdd Jesuitaidd; ac y mae eu hofferynau a'u dylanwad dros y byd gwareiddiedig a hanner-gwareiddiedig tu hwnt i ddychymygalon. Y mae yn perthyn i'r urdd hon oruchwylwyr yn holl brif lrefi Ewrop, y rhai ydynt mewn cymundeb ymiongyrchol Ņ'r pen llywydd, yr hwn sydd yn preswylio yn Rhufain, yn ymyl y Fab.

Yn y swyddfa gyffredinol yn Rhufain y mae coflyfrau mawrion, yn y rhai y cofnodir gyda manylwch anghredadwy holl ysgogadau pob gwlad, a phob person o bwys ymhob gwlad, byddent iwy gyfeillion neu elynion. Pa bryd bynag y bydd anghen ennill

\* O "PRYDAIN FAWR, ei chodiad, ei chymmydd, a'i mawredd," gan y *sol.*—Abertawy: J. Rosser.



dylanwad, neu ddrygu amgylchiadau, unrhyw ddyd, nid oes achos ond agor y *Register*; ac yno ceir ei holl hanes—ei deulu, ei rinweddau, ei ddiffygion, ei gyfeillion, a'i holl gysylltiadau.

Dywedai llywydd yr urdd unwaith, Duc Brissac, "O'r ystafell hon, syr, yr wyf yn llywodraethu, nid Paris yn unig, ond China; ac nid China yn unig, ond yr holl fyd, a hyny heb fod neb yn deall pa fodd yr ydwyf yn ei wneyd." Nid yn unig bydd yr holl oruchwylwyr dirgelaidd yn rhoddi hanes personau a dygwyddiadau yn gyffredinol, ond hefyd yn rhoddi hanes eu gilydd gyda'r manylwch mwyaf, a hyny heb fod y naill yn gwybod dim fod y llall yn ysgrifenu dim am dano.

Yn amser yr erlidigaeth fu ar grefydd yn Ffrainc ryw ddau can' mlynedd yn ol, ymadawodd teulu cyfrifol a'r wlad, gan adael etifeddiaeth éang ar eu hol, yr hon oedd ymhen cant a hanner o flynyddoedd, sef ar y 13eg o Chwefror, 1832, i ddyfod yn ôl i'r etifeddiion, ar yr ammod iddynt fod, yn eu personau eu hunain, yn bresennol yn Paris ar y dydd penodedig. Yr oedd *medals* gan y disgynyddion hyn, a'r dyddiad a'r lle i gyfarfod arnynt.

Yr oedd saith o'r etifeddiion hyn yn fyw, ond yr oeddynt yn waagaredig ymhob parth o'r byd. Yr oedd rhai o honynt mewn amgylchiadau uchel a chysurus, a'r lleill yn dlawd. Yr oedd eu hanes oll yn fanwl gan y Jesuitiaid, ac yr oedd pob dyfais ar waith i rwystro eu presennoldeb yn Paris ar y dydd nodedig, fel y gallai y Jesuitiaid gael yr holl etifeddiaeth iddynt eu hunain. Mae hanes y personau eraill mor hynod a hanes Rose a Blanche, dwy o'r etifeddesau; ond rhaid i ni adael y lleill, a dilyn y rhai hyn yn unig.

Rodin oedd y prif oruchwylwr yn Paris. Y mae yn trigo mewn hen lofft ddirgel mewn ystryd gul, a'r olwg arno yn llwm a begeraidd. Nid oes neb o'r rhai agosaf ato yn gwybod dim am y drafodaeth y mae yn gario ymlaen. Ac nid oes yr un ystafell yn Paris ag y mae mwy o lythyrau yn cael eu derbyn, a'u hanfon allan o honi.

Y mae papyr ar y desc o flaen Rodin yn awr, a holl fanylion hanes Rose a Blanche, wedi ei gymeryd o'r *Register* yn Rhufain. Gwnawn ddyfyniad bychan o hono, er dangos natur ei gynnwysiad.

"Efeilliaid yw Rose a Blanche Simon; oedran, oddeutu pymtheg; wyneb swynol o lân, ac mor debyg fel mai anhawdd y gellir tynu y naill oddiwrth y llall; o dymher addfwyn ac ofus, ond yn ddarostyngedig i gyffrôadau nerthol; wedi eu dwyn i fyny gan eu mam yn Siberia, &c.

"Y Cadfridog Simon wedi ei wahanu oddiwrth ei wraig cyn eu geni, ac heb wybod hyd yr awr hon fod ganddo ddwy ferch.

"Meddylwyd eu bod wedi eu sicrhâu rhag dyfod i Paris erbyn Chwefror 13eg, trwy eu halltudio yr ail waith i le mwy anghysbell o Sibiria; ond, er fod llywydd y wlad yn eithaf ffafriol i'n crefydd ni, yn anffodus gadawodd y merched i adael ei diriogaeth ar eu ffordd tua Ffrainc, dan ofal hen filwr.

"Mae y genethod yn ddigon diniwed; ond mae y milwr yn un

cyflym, cyfrwys, penderfynol, a *phoryglus*. Ond y mae sail gref i obeithio eu bod erbyn hyn wedi eu hattal ar eu taith, gerllaw Leipsic."

Yr oedd Rodin wedi darllen yn fanwl ysgrifau cyffelyb am yr oll o'r lleill, pan ddaeth llythyr iddo eto o Leipsic, yn cynnwys y newydd canlynol:—

"Newyddion gwerthfawr! llwyddodd y ddwy ferch a'u harweinydd i ddianc ar hyd y nos o'r gwesty yn Mockern; ond ymlidiwyd ar eu hol, a daliwyd hwynt oddeutu milldir oddiyno. Y maent yn awr wedi eu lletya yn ddiogel yn ngharchar Leipsic, fel crwydriaid, a gellwch fod yn dawel yn eu hachos."

\* \* \* \* \*

Daeth Chwefror, 1832, i mewn fel llew. Yr oedd yn ddiwrnod ystormllyd. Yr oedd Rodin wedi gadael Paris ar neges swyddogol i Picardy, ar lanau Ffrainc, ac yn aros mewn castell yn ymyl y môr, rai milldroedd o St. Valery. Eiddo y Dywysoges Cardoville oedd y castell, ond nid oedd hi ond treulio ychydig amser yn yr haf yno; a chedwid y lle gan ei goruchwyliwr, Dupont. A phrif amcan ymweliad Rodin oedd perswadio Dupont i roddi ei ddylanwad o blaid offeiriad Jesuitaidd oedd yn ymgeisydd am fywioliaeth eglwysig yn yr ardal.

Dynion sirol, caredig, a chydwybodol, oedd yr hen Dupont a'i wraig; difeddwl drwg, ac yn barod a llawen i wasanaethu pawb. Yr oedd gan Rodin lythyr oddiwrth y dywysoges yn ceisio ganddynt roddi derbyniad croesawgar i Rodin. Ac yr oedd y Jesuit twyllodrus hwn wedi cymeryd mantais ar y llythyr hwnw i fygwth eu troi allan o'r lle, os na wnaent fel y ceisiai ef ganddynt.

"Y peth wyf fi yn geisio genych, Dupont," meddai Rodin, "yw arfer eich holl ddylanwad o blaid offeiriad Roiville, ac y mae ewyllys y foneddiges genyf hefyd."

"Nis gwn pa fodd i wneyd hyny, syr," ebai Dupont; "oblegyd mae yr holl le yn barod i goffeidio offeiriad Danicourt; ond yn barod i hwtio offeiriad Roiville. Ac, heblaw hyny, mae dynion yn dyweyd—yn dyweyd—"

"Dyweyd peth? Dywedwch allan."

"Wel, dyweyd mai Jesuit yw offeiriad Roiville."

"Jesuit!" ebai Rodin, gan gymeryd arno synu, a chwertthin allan yn uchel. "Wel, fy anwyl Dupont, esgusodwch fi am chwertthin. Jesuit yn wir! Yr wyf yn synu fod dynion o'eh synwyr a'ch gwybodaeth chwi yn sylwi ar y fath ffolineb! Ydych chi mor wirion a chredu fod y fath beth a Jesuitiaid yn bod yn yr oes oleu hon?"

"Mae yr ystorm yn enbyd!" ebai Mrs. Dupont, "ac yr wyf yn ofni y collir llongau ar y traeth peryglus yma heddyw."

"Yn wir, yr wyf ar fedr myned allan tua phen y creigiau yma gydag ychydig o'r dwylaw sydd gerllaw," ebai Dupont, "fel yr wyf yn arfer, i weled a gawn gyfle i wneyd gwasanaeth i arbed rhywrai. A buaswn wedi myned oni bae fy mod am gadw cwmni y gŵr dyeithr am ychydig oriau."

"Dyna y peth arall oeddwn yn ddysgwyl i chwi wneyd am gael cadw eich lle yma," ebai Rodin, "anfon pob gair o hanes pob dygwyddiad yn y cwmpasoedd yma yn gyfrinachol i mi."

"Yr wyf yn attolwg arnoch, syr, peidiwch rhoi ammodau mor galed ar ddyn yn fy oedran i. Yr ydych am wneyd yspiwr o honof," meddai Dupont, gan ymdrechu i wneyd gwên.

"Cewch ddau ddiwrnod i wneyd eich meddwl i fyny," ebai Rodin; "ond cofiwch mai dyna'r unig ammodau ar ba rai y gellwch gadw eich lle."

Gyda hyn clywid sŵn magnelau yn ymgymysgu â rhuad y gwynt a'r môr yn y creigiau o dan y castell.

"Dyna long mewn perygl," ebai Dupont, gan godi, ac ymbarotoi i fyned allan. Galwodd ar y gwas a gyrodd ef i gasglu cymaint o ddynion ag a allai yn ddiwed, a gorchymynodd i'w wraig barotoi tânau da, gan obeithio y gallasai yntau a'i ddynion fod yn offerynol i arbed bywydau oedd yn y peryglon gan yr ysturm.

Yr oedd yn awr gynnar o'r dydd; ond yr oedd golwg ddychrynllyd ar y mor: y tonau cynddeiriog fel brynau yn taro yn nannedd y creigiau, nes oedd yr ewyn yn codi yn gymylau mawrion. Yr oedd dwy long wedi eu colli ar y creigiau hyny ychydig wythnosau yn ol. Yn y man gwelid llong fawr heb hwyl na hwyllbren, yn cael ei chwythu yn union at gyfeiriad y graig, er ei bod eto lawn ddwy filldir oddiwrth y tir.

Gwelent hefyd agerlong yn dyfod o'r dwyrain, ac yn ymdrechu i gadw oddiwrth y creigiau, ond yn methu gwneyd ffordd yn erbyn y gwynt a'r tonau. Yr oedd eu sefyllfa yn bygwth y tarawent yn erbyn eu gilydd.

Yn y man yr oedd pymtheg neu ugain o ddynion gyda Dupont gerllaw y traeth; ond am hanner awr neu ychwaneg, nid oedd dim i'w wneyd ond edrych. Yr oedd y ddwy long yn dyfod nês nês i'w gilydd, ac yn nesáu at y lân. Nid oedd un gobaith am eu cadw. Weithiau gorchuddid hwy yn hollol gan y tonau, a chredwyd droion eu bod wedi suddo.

Gwelid y tonau yn golchi ymaith oddiar y bwrdd ddarnau o'r llestri, ac amryw o'r dwylaw a'r teithwyr, a chlywid ambell floedd o ddolefain y trueiniaid anobeithiol yn dyfod gyda'r awel. Yr oedd eu hystumiau hefyd yn ddigon i rwygo calon wrth edrych arnynt.

Perthyn i Loegr yr oedd yr agerlong, yn teithio o Alexandria i Portsmouth; a llong Ffrengig oedd y llall yn dyfod o'r dwyrain, ac yn rhwym i Havre. Yr oedd y ddwy yn awr o fewn ychydig gannoedd o latheni i'r graig, a gellid gwelid y teithwyr ar y bwrdd yn eglur, pan nad oedd y tonau yn eu gorchuddio.

Gwelid ar fwrdd yr agerlong ddyn tal, teneu, yn bennoeth, a threm brudd, ond dewr a gwronaidd arno. Yr oedd wedi cylymu rhaff am ei ganol, ac wedi ei sicrhâu wrth y llong. Yr oedd yn ei fynwes ddwy eneth ieuanc, wedi eu lapio mewn mantell groen, a'i fraich yntau yn dyn am danynt. Ac yr oedd ci mawr wrth

eu traed, yn wlyb sopyn, ac yn cyfarth yn ffyrnig ar y tónau oedd yn ymdafu drostynt.

Yr oedd y ddwy ferch wedi dychrynu cymaint nes oeddent yn awr yn ddisylw o bobpeth o'u cwmpas; ymaflent yn dŷn yn eu gilydd; cadwent eu golwg yn ddiysgog i'r nefoedd, gan ddysgwyl achubiaeth yn unig trwy gyfryngiad goruwchnaturiol.

Yr oedd ar fwrdd y llong Ffrengig ddyn ieuanc a'i olwg yn deb-ycach i angel nag i ddyn. Yr oedd wedi sylwi ar y ddwy eneth yn y fantell, ac wrth fod y tónau yn codi y naill long uwchlaw y llall, disgynodd trem y merched a'r gŵr ieuanc yma ar eu gilydd. Tybiodd ef iddo eu gweled yn estyn eu breichiau ato am ymwared. Penderfynodd y gŵr ieuanc wneyd ymgais i arbed y genethod.

Mynyd eto; dyna yr hen ŵr tál, penllwyd, oedd yn gofalu am y merched wedi ei daro i lawr gan blanc, neu ddarn o'r llong, ac wedi colli ei ymwybyddiaeth. Ac ar yr un foment dacw yr ager-long i fyny yn yr awyr uwch ben y llong Ffrengig, yn disgyn i lawr arni gydag ergyd dychrynlyd, ac wele y ddwy long yn ddrylliau, a'r dynion oll yn y tónau.

Nid anghofir byth mo'r grochfloedd angeuol gan gant o leisiau gyda'u gilydd wrth suddo, na'r olygfa arswydus a ganlynodd.

\* \* \* \* \*

Ymhen dwy awr wedi gadael y palas, dychwelodd Dupont, càn wlyped ag ysgadenyn.

"De'wch, fy anwylyd," ebai ei wraig, "a lwyddasoch chwi i arbed bywydau?"

"Do, dri, diolch i'r nefoedd," oedd yr ateb.

"Dim ond TRI, o'r ddwy long!"

"Ie, hyd ag y gwn i; ond fe allai fod y dynion eraill yn gwybod am fwy."

"De'wch," ebai'r wraig, "newidiwch eich dillad gwlybion, onidê byddwch yn sicr o gael dyoddef."

"Pa le mae y rhai achubwyd? a pha fath rai oeddent?" gofynai Rodin.

"Byddant yma yn union; nis gallent gerdded mor gyflym a mi, oblegid eu bod wedi diffygio. Dwy eneth ieuanc ydynt, a gŵr ieuanc, yr hwn fu yn foddion i'w hachub—y gŵr ieuanc dewraf a welais i eto. Dygodd y ddwy ferch trwy'r tónau i fyny; ac wedi eu gosod yn fy ngafael i, aeth yn ei ol i ganol y tónau drachefn, a bu agos iddo golli ei fywyd wrth geisio llusgo un arall i'r lân; ond methodd gyda hwnw. Dygodd y môr ef ymaith, ac o'r braidd yr achubwyd y gŵr ieuanc ei hun.

"Rhai o ba le yw y merched?" gofynai Rodin.

"Nis gwn o ba le; ond y ddwy ferch debycaf i'w gilydd a welais erioed," ebai Dupont.

"Druain bach!" ebai'r wraig. "Chwiorydd, ond odid."

"Y maent wedi ymwisgo mewn dtŷ, ac yr oedd *medal* am wddf un o honynt, a daliai ef â gafael angeuol yn ei llaw oer, pan nad oedd eto wedi dyfod ati ei hun."

"Beth oedd ar y *medal*, wyddoch chwi?" gofynai Rodin yn gyffrous.

"Na wn ddim; nid oedd genyf amser i sylwi. Y peth cyntaf a wnaeth y ddwy wedi dyfod atynt eu hunain ydoedd myned ar eu gliniau a diolch i'r Nefoedd am eu gwardedigaeth."

"Druain o honynt!" ebai Mrs. Dupont.

"Pa faint allai eu hoedran fod?" ebai Rodin.

"O bymtheg i un ar bymtheg, dybygwn i. Yr oeddent yn edrych o'u cwmpas hefyd yn hiraethlawn, ac fel pe buasent wedi colli rhywun agos."

"Dyma hwy gyda'r gair!" ebai Mrs. Dupont. Yr oedd y gŵr ieuanc yn eu tywys, un dan bob braich iddo.

"Af â'r genethod i'r ystafell arall ar unwaith i newid, y mae genyf yno dân da, a dillad yn barod," ebai'r wraig.

Dyma un o'r gweision yn dyfod at y drws, ac yn gwaeddi, "O meistr! mae dau eto wedi eu hachub!"

"Pa le y maent?" gofynai Dupont.

"Dyma un yn cerdded â'i holl nerth? ac y mae y llall yn cael ei gario gan y dynion." Yr oedd hwn yn holi yn wyllt am y ddwy ferch; ac er ei fod wedi ei glwyfo yn dost, ni wnai aros gymaint ag i siarad â neb. Dyma fe."

Erbyn hyn yr oedd y merched wedi ei weled trwy y ffenestr yn dyfod, ac wedi rhedeg i lawr yn eu dillad gwlybion i'r drws i'w gyfarfod.

"O, Dagobert anwyl!" gwaeddi y ddwy gyda'u gilydd, gan ymdastu i'w fynwes.

Bu yno wyllo ac ocheneidio am rai mynyddau, cyn eu cael o afael eu gilydd; a'r ci, yr hwn a ddaeth gyda'r dyn, mor brysur a neb yn llyfu dwylaw ei feistr a'r merched.

Mae y darlennydd eisoes yn deall mai Rose a Blanche a Dagobert oeddent, a'u ci ffyddlawn Killjoy.

(I'w barhadu.)

---

## YR ADERYN DU.

TON.—"*Toriad y Dydd.*"

**R** fore oer o'r ganaf,  
 Fe ddaeth aderyn du,  
 Ynghyd ag adar eraill hald,  
 Newynog at ein tŷ:  
 Dyeithriol ini ydoedd,  
 Ni welsem ef o'r blaen,  
 Gan hyny ofni, crynu, wnai,  
 Rhag cnoc â ffon nen fasn:  
 Fe 'i gweegid gan ei anghen  
 Yn agos at ein traed,  
 Chwennychai gael o'r briwsion hwy,  
 A briwsion hefyd gaed;

Ar hyn i'r eodd ehedodd,  
 A'i aden nid oedd wan,  
 A ohlywid ef ar frigyn fry  
 Yn canu yn y man.

Nos drannoeth ar fy ngliniau  
 Yn eglwys Dduw a'i dŷ,  
 Y cês mai fi fy hunan tlawd  
 Oedd yr aderyn du;  
 Na welsai 'm Tad trugarog  
 Fy wyneb euog byth,  
 Nes bron i farw o newyn du  
 Fy nharfu o fy nyth;  
 Er hyn Efe 'n drugarog  
 Wrandawodd ar fy llais,  
 Gan roddi im', heb ddannod dim,  
 Nac edliw 'r drwg a wnais;  
 Nes imi ddechreu canu  
 A phyncio yn ei dŷ,  
 Oddiwrth y wers a ddyagwyd im'  
 Gan yr aderyn du.

HUGH DERFEL HUGHES.

CARLO A'R BRUSHES.

**B**R oedd gan foneddwr yn York gi rhagorol o'r enw Carlo; neidiai i ganol yr afon, a dygai ffon ei feistr, neu unrhyw beth cyffelyb, i fyny yn union. Iâ, mwy na hyny, elai ar arch ei feistr tua'r siop, a dygai unrhyw neges oddiyno mor ddiogel a neb. Weithiau prynai ei feistr rywbeth yn y siop, galwai sylw y ci ato ar y *counter*, ac yna elai ymaith hebdo: Wedi myned encyd o ffordd, dywedai wrth y ci, "Cerdda yn ôl, Carlo, a chyrhaedd y parcel hwnw i mi." Ymaith â Carlo mewn mynyd, a byddai â'r neges adref yn ddiogel ymhen ychydig o amser.

Un diwrnod tynodd y ci sylw, a pharodd chwerrthin rhyfeddol. Prynodd ei feistr *frush*, a dangosodd ef yn y siop i Carlo. Ymhen ychydig gyrwyd Carlo tua'r siop am dano. Yr oedd y siopwr wedi esgeuluso tynu y *brush* yn rhydd oddiwrth fwndel o *brushes* eraill. Ymaflodd Carlo yn y *brush* iawn, ac ymaith âg ef, gan luso yr holl fwndel ar ei ol: yr oeddent oddeutu dwsin o nifer. Rhedodd y siopwr ar ei ol; ond pan gynnygiodd ymaflod ynddynt, rhoddodd Carlo ar ddeall iddo yn eglur ei fod ef yn credu fod ei feistr wedi talu am danynt oll. Rhedai y ci â'r bwndel *brushes* o ystryd i ystryd, a'r holl bobl yn rhedeg ac yn synu, ac ni orphwysodd nes eu rhoddi i lawr wrth draed ei feistr synedig. Ni wna i Carlo ildio yr un o honynt ar un cyfrif, hyd nes i'w feistr ymyryd. Yr oedd yn anhosibl peidio chwerrthin wrth weled y ci yn lluso y *brushes*, a'r siopwr anffodus yn rhedeg ar ol ei nwyddau yspeiliedig.—*Our Dumb Companions.*



## OFFER AWCH.

“MAM! 'mam!” meddai John bach, gan wylo a syllu ar y gwaed yn dyferu oddiar ei fys.

“Wedi tori 'mys! O, dear anwyl!”

“A pha beth y torsoch chwi ef, John?” gofynai ei fam.

“A'r fwyall,” atebai y plentyn. Yn awr ddarllenwyr, edrychwch ar y darlun. A oedd synwyr i fachgen mor fychan a'r un acw gymeryd bwyall fawr finiog i naddu â hi? Beth oedd i'w ddysgwyl ond damwain?

Mae plant yn hoff iawn o drin offer awch, ond mae llawer yn gorfod talu yn ddrud iawn am hyny. Gwelsom fachgenyn tua'r un oed a John, ys rhai blynyddau yn ol, wedi myned â bwyall finiog ei dad allan at y plocyn; aeth yno i dori brigau â hi. Cyn pen ychydig fynyddau yr oedd ei fys wedi myned ymaith, a'i fam a'i ffeindiodd ef ymysg y brigau. Dylai plant benderfynu un o ddau beth:—

(1.) Naill ai gadael offer awch yn llonydd nes y delont yn ddigon mawr i wybod y ffordd i'w trin.

(2.) Neu foddloni ar gael eu dwylaw yn ddarnau ac yn greithiau tra fyddont byw.

## Y CWESTIYNAU GWOBWRWYEDIG.

9. M ba le y dywedodd yr Arglwydd fod dau beth rhinweddol wedi ei wneyd yn hurt?

10. Pa forwyn a adawodd ei gwasanaeth, ac a ddychwelwyd i'w lle trwy ymyriad goruwchnaturiol?



J. Watkins, Treforla.

TEMTASIWN WILLIE.

**I**N dydd fe safai Willie bach  
 Wrth fôn y pren afalau,  
 O gylch ei ben yn nhês yr haul,  
 Yr hongiai 'r addfed firwythau.

“Pam d’wedai ’nhad,” murmurai ’r llanc,  
 “Na chawn i ddim eu tynu ?  
 A'r cangau llawn a'r 'falau glân,  
 Oddiar eu blaen yn gwenu.



“Pe tynwn un, ni ddelai 'nhad  
I wybod dim am dano;  
Mae cannoedd wedi 'n ar y pren,—  
Gall ef gael faint a fyno.”

Estynai 'i law at afal coch,  
Ond rhedodd trwyddi gryndod;  
A d'wedai angel bach o'i fewn,  
A alwir yn “Gydwybod,”—

“Paid, Willie bach! O, paid yn wir!  
Os yw dy dad o'r golwg,  
Ac os na wél, ac os na chlyw,  
Mae Duw yn gwel'd yn amlwg.

“Mer fin y teimli ar ol hyn,  
Os clywi di yr Iesu,  
Yn d'weyd, 'Mor ddrwg gwnaeth Willie bach,  
Lladratodd afal heddy'.”

Trôdd Willie ffwrdd, ac aeth i'r tŷ,  
Heb gyffwrdd un o'r 'falan,  
Ac i'w ystafell aeth ar frys,  
A chwypodd ar ei liniau;—

“E wy 'n diolch,” meddai, “Arglwydd da,  
Am i ti heddyw f' attal;  
O! paid a dyweyd i Willie bach  
Fod bron lladrata afal!”



## LLYFRAU NEWYDDION.

[PURITAN DIVINES. Edinburgh: James Nichol.]

**S** bydd plant ac ieuentyd yr Ysgolion Sabbothol am gydnabod eu rhwymedigaeth, neu ddangos eu parch, i'w pregethwyr ieuainc a hen, dyma ffordd hawdd ac effeithiol iddynt wneyd hyn, sef eu hanrhegu â'r gyfres ragorol hon o weithiau yr Hen Buritaniaid. Nid oes eisieu ond tanygrifio *gini y fwyddyn*, a derbynia y pregethwr bum' cyfrol hardd am bob gini a danygrifir. Bydd y gwelthiau hyn yn llyfrgell dda eu hunsin; a bydd y neb a'u darlleno yn sicr o'u profi yn

“Borfa fras,  
Ar lân dŵr gloewlas araf.”

Gellir eu cael trwy unrhyw lyfrwerthydd, neu trwy anfon at *Mr. James Nichol, Publisher, Edinburgh*. Dymunem hefyd roddi yr un awgrym i foneddwyr cyfoethog a haelfrydig, ag y mae pregethwyr tlodion yn trigo gerllaw iddynt.

[HOLWYDDOREG AR HANES IESU GRIST, *ei Ddammegion a'i Wyrthiau, ynghyd a Thaflen Ddaearyddol o'r lleoedd a enwir yn yr Efengylau; gan G. PARRY (Tecwyn), Beddgelert. Rhagdraith gan y Parch. J. OWEN, Ty'nllwyn. Pris 6 cheiniog.*]

**A**E y llyfryn hwn yn cynnwys tri chant o holiadau ac atebion ar brif ddygwyddiadau hanes bywyd yr Arglwydd Iesu, ynghyd a lle ac amser y dygwyddiadau. Rhoddir cipolwg gryno hefyd ar ystyr ac amcan y dammegion, &c., mewn holiadau ac atebion. Mae cynllun y llyfr yn dda, a gallai fod o gryn gymhorth i'r gŵr ieuanc gyda'r gorchwyl pwysig o efrydu yr Efengylau.

[Y TRAETHODYDD. *Ebrill, 1865.*]

**I**D oes unrhyw gyhoeddiad wedi gwneyd cymaint dros lēnyddiaeth Gymreig yn yr ugain mlynedd diweddaf a'r TRAETHODYDD. Mae y rhifyn presennol yn un *da iawn*, ac allan yn brydlawn,—fel yr addawa fod o hyn allan. Bobl ieuainc! os ydych am wrteithio eich meddwl, casglu nerth, a dyfod yn llenorion Cymreig da, *darllenwch y Traethodydd.*



### Y GWYDDEL BACH FFRAETH.

**T**fachgen o Wyddel meddylgar a ffraeth,  
Offeiriad Pabyddol un diwrnod a ddaeth;  
Gofynai yn sarug, "Wel, fachgen, paham  
Gadewaist ti grefydd dy dad a dy fam?  
Ai gwir yw mai d' arfer yw myned i fysg  
Y cās Brotestantiaid i dderbyn dy ddysg,  
Trwy ddarllen a dysgu en Testament hwy?  
Yn sicr it', fachgen, os gwnei hynny mwy,  
Ti ddigi yn arw y Forwyn Fair fwyn  
Fel na rydd hi mwyach wrandawriad i'th gŵyn;  
A'i gofal am danat, erioed, a fu mawr,  
Ond ni chymer sylw o honot yn awr."

Y Gwyddel atebodd, â gwên ar ei bryd—  
Atebiad a d'rawodd 'r offeiriad yn fud,  
"O! 'ch Parchedigaeth, yn fy Nhestament cair  
Mai colli ei bachgen bach cu a wnaeth Mair,  
Pan ydoedd i fyny 'n Jerusalem gynt,  
Heb wybod, dri diwrnod, ddim oll am ei hynt;  
Gan hyny, serch digio 'r Offeiriad a'r Pab,  
'R wy 'n meddwl, os ffaelodd ei gofal am *fab*,  
Ac yntau mor agos, ni bydd hi ddim gwell  
Ei gofal am Wyddel, sy' oddiwrthi mor bell!"

J. E. J.



J. R., Treforia.

## Y PLANT A'R HEN.

**D**ID oes dim a esbonia gymeriad plentyn yn gynt na'i ymddygiad at yr hen. Yr ydym yn adwaen rhai plant sydd yn arfer gwatwar, a chwerthin am ben hen bobl. Plant diddysg a drwg yw rhei'ny. Gŵyr ein darllenwyr hanes truenus twr o blant drwg a fu yn gwatwar hen ŵr duwiol, y cawn eu hanes yn y Bibl, a'r modd y rhuthrodd dwy arth arnynt, ac y lladdasant ddau blentyn a deugain. Os nad ydych yn cofio, darllenwch 2 Bren. ii. 23, 24.

Mae pawb yn sicr o garu y plentyn a ymddygo yn garedig at hen ŵr. Yn y darlun uchod gwelwch ein hewythr William yn myned tua'r cwrdd. Yr oedd ei gluniau yn ddrwg iawn, ac nis gallasai gerdded ond yn araf. Ond yr oedd John bach yn ei wyllo bob bore Sabboth, yn myned yn ei ochr, ac yn dyweyd, "Pwyswch ar fy ysgwydd i, newyrth William." Yr oedd pawb wedi dyfod yn hoff o John o'r herwydd. Os bydd John byw i fyned yn hen, gofala yr Arglwydd am rywun iddo yntau i bwysu ei law arno. Oblegid dywedodd, "Rhoddwch, a rhoddir i chwi."



EMMA A'R BABI.

“DYCH chwi ddim yn ffrynd i'r babi, Emma?” gofynai y fam i'w merch bedair oed oedd yn sefyll o'i blaen.

“Nac ydwyf, mamma, nid wyf fi am ei gadw yma. Gyrwch ef i ffwrdd, 'mam.”

Nid aml y bydd plant yn teimlo fel hyn, ond y mae yn dygwydd weithian.

Yr oedd Emma yn blentyn da iawn. Bob amser yn ufudd i'w mam, ac yn llawn bywyd a sirioldeb. Ond er y dydd y ganed y babi, yr oedd cwmwl ar ei gwyneb. Ni theimlai yn hapus tra fyddai y peth bach yn ei golwg. Treiwyd amryw ffyrdd i gymmodi ei meddwl â'r dyn bach newydd, ond y cwbl yn ofer. O'r diwedd aeth y peth i beri blinder mawr i feddwl y fam.

"Yr ydwyf yn *rhwym* o ddysgu Emma i garu ei brawd bach," meddai wrthi ei hun un diwrnod—"ie, i'w *garu*."

Eisteddai ar yr aelwyd un diwrnod â'r babi ar ei harfed, a galwodd Emma ati.

"Cydiwch yn nhroed bach y babi, Emma," ebai. "Dyna un bach gwŷn, tew, onidê? Duw a'i gwnaeth Emma. Welwch chwi y bysedd, a'r ewinedd bach; rhoddwch eich llaw arnynt."

Yr oedd calon Emma, erbyn hyn, yn dechreu toddi. Dywedodd ei mam wrthi mor ddiymgeledd oedd y babi; y byddai raid iddo farw heb iddynt hwy ofalu am dano, a bod yn dyna iawn wrtho. Ac ychwanegodd,

"Nis gall eich brawd bach fyw hebddoch chwi. Mae Duw wedi ei anfon atom i chwi gael ei garu, a gofalu am dano; ac os na wnewch chwi hyny, daw yr Arglwydd yma i fyned âg ef ymaith, ato ef i'r nefoedd."

Yr oedd Emma yn awr yn sefyll yn fud, ac yn edrych gyda llygaid llaith yn ngwyneb ei mam, ac yr oedd yn hawdd deall wrth ei threm fod ei chariad wedi ei gyffroi at y baban.

"A wnewch chwi fy helpu i wisgo yr un bach?" ebai'r fam.

"Dyma ei esgidiau i chwi, rhoddwch hwy ar ei draed; a chaiff neb ond chwi eu dodl."

Yr oedd Emma, erbyn hyn, yn falch o'i brawd bach, ac yn llawen ei bod hithau yn abl gwneyd rhywbeth i'w helpu. O'r awr hono allan newidiodd ei theimlad at y babi, ac nid oedd neb mwy tyner a gofalu am dano na hi.

Y fath lwybr doeth a gymerodd y fam i ennill serch ei phlentyn at y baban! Y mae yma wers bwysig i famau, yn gystal ag i blant. Yr oedd yn gwneuthur y gorchymyn Ysgrhythrol tuag at Emma, "Na yrwch eich plant i ddigio, ond maethwch hwynt yn addyeg ac athrawiaeth yr Arglwydd," Eph. vi. 4.



## DYDDANION.

### CYFRIFOLDEB TAFARNWR.

“**M**AM,” ebai merch fechan saith mlwydd oed yn ddiweddar, “a raid i bawb roddi cyfrif yn y farn?” “Rhaid, i bawb, fy mhlentyn,” ebai'r fam. “Wel,” ebai'r plentyn, yn syn, “sut mae W——, *Black Lion*, yn meddwl am fyned yno, ar ol meddwi fy nhad mor fynych?”—*DIRWESTWR.*

### GORMOD O YSBRYD.

“**N**ID oedd y bregeth yna yn llawn o ysbryd?” ebai gŵr ieuane wrth foneddiges yn ddiweddar ar ddrws yr addoldy wrth ddyfod allan. Atebodd y foneddiges, “Mor llawn o ysbryd, fel nas gallaewn i weled dim *corff* o gwbl.”



## TRYSORFA Y PLANT.

RHIF. XLII.]

MEHEFIN, 1865.

[CYF. IV.

### Y DRWS HEB EI GAU.

**M**EWN glyn yn ucheldiroedd Ysgotland, trigai unwaith wraig weddw dlawd. Yr oedd ganddi ferch—ei hunig blentyn—wedi myned i un o'r prif drefi, ac wedi ymollwng yno i fywyd pechadurus.

Un diwrnod, aeth y fam i chwilio am dani. Ar ol ymchwiliad maith a dyfal, daeth o hyd iddi. Ymbiliodd arni ddychwelyd adref gyda hi. O'r diwedd ildiodd y ferch i erfyniadau y fam. Ond cyn cyrhaedd adref, cyfarfyddodd y ferch & themtasiwn newydd, a llithrodd yn ôl i'w llygredigaeth drachefn.

Nid oedd gan y fam alarus ddim i'w wneyd ond myned adref i'w bwthyn tlawd wrthi ei hun, a thafu ei hunan ar drugaredd y Duw sydd yn "Farnwr y gweddwon."

Ar noswaith, pan oedd y weddw wedi eistedd i lawr yn hwyr, a'r ychydig bentewynion olaf ar losgi allan yn yr aelwyd o'i blaen, a'i meddwl hithau yn gyffrous gan wahanol deimladau, clywai drwst troed o'r tu cefn iddi. Pan drôdd i edrych, pwy oedd wedi dyfod i mewn ond ei hanwyl ferch.

Wedi i'r ferch dafu ei hunan ar wddf ei mam, a chyda chalon rwygedig, gyffesu ei phechodau, ac wedi adferu ei theimladau, gofynodd i'w mam,—

"Sut yr oeddech, ar awr mor hwyr, fy mam, a'r drws heb fod y caud (*latch*) arno?"

Atebodd y fam, "*Ni fu yr un caud ar y drws yna, Mary, na*

*dydd na nos, er pan aethoch chiwi ymaith.* Yr oeddwn yn ofni, os daethech at y drws, a'i gael yn gauad, y buasech yn troi ymaith, ac yn peidio dychwelyd byth!"


Enaid anwyl! Yr wyt tithau wedi gadael tŷ dy Dad, gan gau y drws ar dy ol, a rhoddodd cyfiawnder folltau cedyrn arno. Ond fe agorodd Iesu Grist y drws wrth farw ar y groes, ac nid oes yr un caudad wedi bod arno hyd yr awr hon. Ië,

"Mae drws y nef o led y pen."

Tro adref, mae dysgwyl mawr am danat; ti gei dderbyniad croesawus, maddeuant rhad, a chartref tragywyddol.

"De'wch, hen ac ieuainc, de'wch,  
At Iesu, mae 'n llawn bryd;  
Rhyfedd amynedd Duw  
Ddysgwylodd wrthym cŷd!  
Aeth yn brydnawn, mae yn hwyrhau,  
Mae DRWS TRUGAREDD HEB EI GAU."

### DILYN Y COPI.

 YLWODD Gotthold un diwrnod ar fachgenyn yn yr ysgol yn ysgrifenu, a'i lygad yn craffu yn fanwl ar linell o gopi oedd wedi ei hysgrifenu o'i flaen. Yr oedd yn gwneyd ei oreu i ysgrifenu cystal a'r copi. Edrychwch, meddai, wrth y rhai oedd gydag ef, fel y mae perffeithrwydd yn codi o anmherffeithrwydd, ac fel yr ydym, gyda llawer o wallau, yn dysgu gwneuthur yn dda. Ni ddysgwylir i'r bachgen hwn wneyd cystal a'r linell sydd o'i flaen. Mae ei feistr yn foddllawn ar y boen a gymer wrth geisio; mae hyn yn sail gobaith am ei gynnydd, ac y daw yn y diwedd i ysgrifenu yn gyflym a chywrain.

Y mae genym ninnau gopi i'w ddilyn. Gadawyd ef i ni gan yr Arglwydd Iesu (1 Pedr ii. 21), yn ei fywyd perffaith a sanctaidd. A pheidiwch meddwl ei fod yntau yn dysgwyl mwy oddiwrthym nag y mae yr ysgolfeistr oddiwrth yr ysgolor. Nac ydyw yn wir: os gwêl ni yn sylwi yn graff a gofalus ar ei esiampl, ac yn ddiwyd yn ceisio ei efelychu, y mae yn ymarhous wrth ein gwendidau, a thrwy ei ras a'i Ysbryd yn ein nerthu i wellâu. Yn ysgol Crist, yr ysgoleigion goreu yw y rhai sydd yn para i ddysgu hyd y diwedd; sef y rhai sydd yn sylwi yn fwyaf manwl ar esiampl eu Meistr, ac yn ymroddi yn fwyaf diffino i'w ddilyn.

Rhaid i ninnau, wrth wneyd hyn, ymdrechu i ochelyd dan ddifffyg, sef esgeulusdra a digalondid. Mae y naill yn cenedlu segurddod, a'r llall anobaith. Mae y nefoedd yn agored, nid yn unig i'r perffaith a'r cryf, ond hefyd i'r egwan a'r crwydredig, os gwnânt, gydag edifeirwch a gostyngeddwrwydd gydnabod eu bai, a cheisio gras Crist i gyflawni eu holl anghenion.

O fy Arglwydd! na ddirmyga fy anfedrusrwydd. *Cofia nad*

*wyf ond un yn yr ysgol, a bydd foddllawn i fy nghyflawniadau amherffaith.* Mae fy mwriadau goreu yn fynych yn methu. Ond a yw yn iawn i mi roddi i fyny o herwydd hyny? Na ato Duw! Tra byddaf byw, dechreuaf o hyd o'r newydd; ac yn y nefoedd, yn dy amser da dy hun, gosodaf fy ngorchestwaith wrth dy draed.  
—*Gotthold's Emblems.*

MAE 'R PAC YN BAROD.

(*Miss HANNAH DAVIES, Braichmelyn, Bethesda, Arfon.*)

**B**U farw, marw bellach sydd  
I'r byd yn ffordd gynnefin;  
Mae galarwisgoedd, ochain dwys,  
I bawb yn ddull cyffredin;  
Ond dan y cyffredinedd hwn  
Y mae rhyw neillduolrwydd,  
Yn dwyn y byd i deimlo 'r bwch.  
Yn gyfyng fwch unigrwydd.

Bu farw Hannah Davies, do,  
Os marw oedd ei symud  
O gesail oer y marwol fydd  
Fry, fry i fynwes bywyd:  
Wrth farw, hwnt diflanai 'r byd  
Fel niwl o wydd ei llygaid,  
A theimlai lanw 'r nefoedd yn  
Ymlori ar ei henaid.

Nid rhyfedd ydoedd iddi fyn'd  
I mewn i'r dawel Wynfa,  
Y Wynfa yn ei henaid oedd  
Yn dyner elfen yma:—  
Fel afon droella' lawr i'r môr,  
Neu golofn fwg i'r wybren,  
Aeth Hannah yn naturiol iawn  
I'r nefoedd yn ei helsen.

Mor glŵs yw gwylder yn ei le,  
Mor anwyl ydyw purdeb,  
Mor brydferth ydyw natur dda,  
Mor werthfawr yw duwioldeb;—  
Yr holl amryliw berlau hyn  
Oedd yn arddunol enfys,  
Yn ffurfio aur linellau byw  
Yn mywyd Hannah Davies.

Ei pheraidd lais wrth ganu mawl  
Oedd arian lif toddedig,  
Yn tori dros lanerchau 'n serch  
Yn swynion dyrechafedig.  
Os ca'dd y bedd ei lluniaidd gorff,  
A'r nef ei henaid nwyfus;



Mae'r ddau yn un ar faes ein cof  
*Yn ieuanc Hannah Davies.*

Y mae 'i thystiolaeth hi ei hun  
 Yn gwneyd bywgraffiad cryno,  
 O'i bywyd diwyd yn y byd,  
 A'i hymgais wrth fyn'd trwyddo;  
 Pan oedd o fyd i fyd yn myn'd,  
 Yn myn'd yn mraich ei Phriod,  
 A'i hanadl olaf sibrawd wnaeth,  
 "Mam bach, mae'r pac yn barod."

JOHN GARWENYDD PRITCHARD.

“NA, MAE F'ENW I LAWR.”

OLLODD boneddwr fodrwy oddiar ei fys mewn priodas yn ddiweddar, mewn treflan fechan yn Sir Aberteifi. Codwyd y fodrwy gan fachgenyn ieuanc, a rhedodd â hi ar ol y boneddwr i'r dafarn.

“Da, 'machgen i,” ebai'r boneddwr, “yf hwn,” gan estyn y cwp an iddo.

“Na, mae f'enw i lawr,” ebai'r bychan, gan sefyll yn syth a phenderfynol.

“Dy enw i lawr; ymha le?” gofynai'r boneddwr.

“Yr wyf yn aelod o'r *Band of Hope*, syr.”

“Yfi di ddim o'm llaw i?” gofynai y boneddwr eilwaith, gan edrych yn myw llygaid y bach.

“*Na wnaif, yn wir, syr.*”

“Da machgen anwyl i—dyma dri swllt i ti am godi y fodrwy, ac am dy ymlyniad wrth dy ardystiad.” Estynodd dri swllt iddo, ac ychwanegodd, “Dal wrth dy ardystiad tra fyddych byw!”

Mae ymddygiadau y plentyn bach naw oed, a'r boneddwr ystyr- iol, yn dra chanmoladwy.

GWEDDI THOMAS DAFYDD O'R GROES.

R oedd y diweddar Thomas Dafydd o Groes Margam, Morganwg, yn dra adnabyddus, er nad oedd ond dyn go gyffredin, oblegid mai yn ei dŷ ef yr arferai y pregethwyr aros. Yr oedd yn hen gristion syml a chywir. Cafodd ei boenydio yn fawr cyn marw gan y clefyd blin a elwir y *cancer*. Pan mewn poenau dirfawr ychydig cyn marw, dywedai wrth ei Dad nefol:—

“O Arglwydd! cymer fi o fy mhoenau! Pe buaswn i yn dy le di, a thithau yn fy lle i mewn poenau mor fawr, buaswn i yn dy gymeryd di!”

MAE GWAWR I DD'OD AR SION.

GAN J. CERIOG HUGHES.

**M**AE gwawr i dd'od ar Sion,  
 O fendigedig awr!  
 Daw 'r llwythau at eu gilydd  
 I garu Iesu mawr:  
 O cŵyd dy galon, gristion,  
 Uwch ben y tryblith trist;  
 Daw creadigaeth newydd  
 Yn nheyrnas Iesu Grist.

Mae gwawr i dd'od ar Sion  
 Yn nghariad Mab y Dyn;  
 Fe gyll pob plaid ac enwad  
 Ei enw hoff ei hun:  
 Mae engyl glân goleuni  
 A'u bysedd ar y tant,  
 I daro anthem newydd  
 Pan una Duw ei blant.

Mae gwawr i dd'od ar Sion,  
 A haul o newydd wres;  
 Mae Sabboth ar ol Sabboth  
 Yn d'od â'r dydd yn nês:  
 Pob emyn a phob gweddi,  
 Anadlant yn fy nghlust,  
 Am grädigaeth newydd  
 Yn nheyrnas Iesu Grist.

PROFIAD PLENTYN WRTH FARW.

**T**HU Thomas Conwil, plentyn 13 oed, ac un o ddarllenwyr ffyddlawn y DRYSORFA fach yn Mhont Senni, Sir Frycheiniog, farw ar yr 8fed o Fawrth diweddaf. Dywed ein hysbysydd, R. M., ei fod yn blentyn hynod o rinweddol, ac iddo, naw diwrnod cyn marw, ysgrifenu pennill allan o DRYSORFA Y PLANT am Chwefror, 1864, a'i estyn i'w fam, gan ddywedyd, "Dyma fy mhrofiad i, 'mam." Awdres y pennill yw Beatrice, o Lanrwst, ac ni fydd yn ddrwg ganddi wybod fod un o blant bach y DRYSORFA wedi gwneyd ffon o'i phennill i'w helpu wrth groesi glŷn cysgod aneu. Dyma y pennill:—

"Dymuno 'r wyf, O Iesu,  
 Am dd'od i'r nef i fyw;  
 Dymuno 'r wyf yn amal  
 Am fod yn caru Duw;  
 Dymuno, Arglwydd Iesu,  
 Am galon newydd lân,  
 A chartref yn y hefoedd  
 Lle myn'd i uffern dân."



## GWAITH Y BOTEL.

**D**R ydych, ond odid, wedi darllen neu glywed ystori y paentiwr a dynodd ddarlun un o'r bechgyn prydferthaf a welodd erioed, ag oedd yn chwilio am y dyn hagraf eilwaith er mwyn cael ei ddarlun i fod yn gymhar i'r llall. Wedi llawer o flynyddoedd cafodd ef mewn carchar—yr hagraf a welodd erioed. Ond y peth oedd yn syn, erbyn chwilio yr hanes, cafodd mai yr un gŵr oedd y ddau, ac mai bywyd meddw oedd wedi anurddo ei wedd felly. (Gwel TRYSORFA Y PLANT, 1864, tu dal. 216.)

A welwch chwi y ferch uchod yn y darlun, wedi bod yn rhedeg dros y meusydd, yn casglu y blodau, ac yn eu gwau yn goronbleth? Y mae yn ddarlun byw o brydferthwch, iechyd, a sirioldeb.

Edrychwch ar y tu dalen arall, yr hen wreigan garpiog, droednoeth, yn eistedd allan yn nghanol y gauaf oer, wedi hanner rhewgan yr oerfel, a'i llaw deneu esgrynog yn crafangu y botel. Er nad yw ond triugain, y mae yn edrych mor hen a phe byddai yn



an' mlwydd oed. Pwy allai ddychymygu mai yr un yw â'r plent-  
n prydferth sydd ar y ddalen flaenorol? Eto, dyna yw y gwir.  
lafodd ei magu i fyny mewn teulu lle yr arferid diodydd  
neddwol. Meithrinwyd blys ynddi atynt, a'r diwedd fu iddi ym-  
llwng dros bob terfynau gweddeidd-dra yn ei gwanc am danynt.

Mae llawer merch heddyw yn Nghymru, rhai a adwaenom yn  
da, ag y mae y botel wedi gwneyd gwaith cyffelyb arnynt.  
tobeithio nad oes neb o ddarllenwyr anwyl TRYSORFA Y PLANT  
'r fath dynged yn eu haros. Rieni! edrychwch ar y ddau  
darlun uchod, a chymerwch wers. *Blant!* edrychwch ar y  
arlluniau hyn, a phenderfynwch yn ngwydd eich Tad o'r nef na  
hyffyrddwch â'r botel na dim ag sydd ynddi byth bythoedd.

*Darlun 1.*—"Purach oedd ei Nazareaid hi na'r eira, gwynach  
eddent na'r llaeth, gwridocach oeddent o gorff na'r cwrel."

*Darlun 2.*—"Duach yw yr olwg arnynt na'r glöyn; nid ad-  
vaenir hwynt yn yr heolydd; eu croen a lŷn wrth eu hesgryn;  
wywodd, aeth yn debyg i bren."

## ROSE A BLANCHE;

*Neu Gymhwynion y Jesuitiaid.*

## PENNOD VI.—CYRHAEDD PARIS.

**D**GWR ieuanc dewt a achubodd fywyd Rose a Blanche yn y llongddrylliad ydoedd Genadwr o'r enw Gabriel, yr hwn yr oedd Rodin wedi anfon am dano i Paris, o Ynysoedd Azores, yn Môr y Canoldir. Yr oedd Gabriel yn un o'r etifeddion oedd â hawl i'r etifeddiaeth; a chan ei fod ef wedi ei hudo, rhwng bodd ac anfodd, i ymuno â'r Eglwys, yr oeddent yn meddwl gwneyd defnydd o hono ef ar y l3eg o Chwefror, i drosglwyddo yr etifeddiaeth i'r Jesuitiaid.

Yr oedd y Tywysog Djalma, o India, hefyd ymysg y teithwyr ar fwrdd y llong, ac ymysg y rhai a achubwyd yn y llongddrylliad, yr hwn oedd hefyd yn un o'r etifeddion. Yr oedd yn ddygwyddiad hynod fod cynifer o'r etifeddion wedi cydgyfarfod; a mwy rhyfedd byth fod Rodin ei hun yn dyst o'u glaniad diogel yn Ffrainc o fewn ychydig ddyddiau i'r diwrnod penodedig.

Prydnawn diwrnod y llongddrylliad, yr oedd Rose a Blanche a Gabriel yn siarad â'u gilydd ar aelwyd ystafell yn y castell, ac yn dechreu adrodd helyntion eu bywyd i'w gilydd, pan ddaeth Dagobert i mewn, a rhwymyn ar draws ei dalcen, wedi ei osod gan y meddyg, oblegid fod ar ei ben archoll drwg. Neidiodd Rose a Blanche ato, a dywedasant gyda'u gilydd,

"O Dagobert anwyl! ydych chi wedi anafu yn dost?"

"Nac ydwyf, ddim o bwys; ond yr oedd yn rhaid i'r meddyg gael rhoddi y rhwymyn yma am fy mhnen. Y mae wedi gwneyd bwbach o honof. Pe buaswn wedi cael tafellu fy mhnen â chleddyf, ni fuasai yn cymeryd mwy o boen gyda mi. Ond," meddai yn ddystaw, "pwy yw y boneddwr yna oeddech yn siarad mor wresog âg ef?"

"Pwy ydyw, Dagobert? Oni bae hwna, ni chawsem ni eich cyfarch chi fan yma!"

"Beth ydych yn feddwl?" ebai Dagobert yn gyffrous.

"Efe yw ein hangel gwarcheidiol," ebai Blanche. "Buasem wedi boddi ein dwy oni bae ei gymhorth dewr ef ar ein rhan."

"Yn wir! a ydyw yn bosibl! ai ef ydyw!" Nis gallasai Dagobert ddyweyd ychwaneg: ymchwyddai ei galon agos hyd rwygo: llanwai ei lygaid o ddagrau; cerddodd ymlaen ato gyda braich estynedig, a dywedodd gyda thôn gyffrous annesgrifiadwy,

"Syr, yr wyf yn ddyledus i chi am fywyd y plant anwyl yma: Y mae wedi fy ngosod dan faich a ddiolchgarwch tragywyddol i chi!"

Tra yn syllu yn ei wyneb glân ac ieuengaidd, ac ar ei wallt llac a phrydferth, ychwanegodd, "Beth, ai nid chi fu â gafael yn ofi yn y môr, ac yn ceisio dringo â mi i afael y clogwyn, pan syrth-

iasom ein dau yn ôl, ac y collasom ein gilydd? Braidd nad allwn wneyd fy llw mai dyma y wyneb hwnw."

"Yn anffodus, syr, pallodd fy nerth yn lân, a chefais y bliuder o'ch gweled eilwaith yn cwmpo i'r tonau cynddeiriog."

"Nid oes genyf ddim-i gynnyg i chwi ond llonaid calon o ddi-olchgarwch," ebai Dagobert mewn cyffro. "Ac wrth arbed bywyd y ddwy eneth anwyl yma, yr ydych wedi gwneyd peth can' mil mwy i haeddu fy niolchgarwch i, na phe buasech yn arbed fy mywyd i drosodd a throsodd. Y fath wroldeb! Y fath ysbryd rhagorol!"

"Beth, a ddaeth ein Gabriel i'ch cynnorthwyo chwithau hefyd?" ebai Blanche.

"Gabriel!" ebai Dagobert mewn syndod. "Ai Gabriel yw eich enw?"

"Ie, syr."

"Gabriel!" ailddywedai Dagobert, a'i syndod yn cynnyddu fwy-wy. "Offeiriad hefyd? a chenadwr tramor? Pwy a'ch dygodd fyny?"

"Gwraig o'r mwyaf rhagorol, yr hon wyf yn barchu fel y fam reu erioed; oblegid bu yn fam anwyl i mi. Cymerodd fi yn blentyn bach diymgeledd, a magodd fi fel ei mab ei hun."

"Ai Frances Boudoin ydych yn feddwl?" gofynai Dagobert.

"Ie," ebai Gabriel yntau, mewn syndod; "ond sut y daethoch hwi i wybod hyn?"

"Gwraig milwr yw, onidê?" meddai Dagobert.

"Ie," ebai Gabriel, "gwraig un o'r milwyr dewraf a sangodd y llaear: y mae yn treulio ei fywyd mewn alltudiaeth oddiwrth ei mraig a'i blentyn, oddiar ysbryd caredig at drneiniaid tlodion y nae wedi aberthu ei hun i'w gwasanaethu."

"Pa bryd—O, pa bryd, yr ymadawsoch â fy ngwraig—â fy an-ryl blentyn Agricola?"

"Ai chwi ydyw? ai chwi yw tad Agricola? A ydyw hyn yn osibl!" meddai Gabriel, gan edrych yn syn yn wyneb y milwr.

"A wyddoch chwi rywbeth am fy ngwraig—a fy mhlentyn? dywedwch rywbeth am danynt?"

"Clywais oddiwrthynt dri mis yn ol," ebai Gabriel, "yr oeddent pryd hwnw yn iach a chysurus."

"Wel, wel, y mae hyn yn ormod," ebai Dagobert, gan wyllo ac eheneidio—"dyma lawenydd gormod i'w ddal!" Gyda hyn eis-ddodd yn ôl yn ei gadair, a chuddiodd ei wyneb yn ei ddwyllaw.

Dyma y tro cyntaf y cofiodd Rose a Blanche am lythyr oddiwrth i tad yn hysbysu fod gwraig Dagobert wedi mabwysiadu plentyn, i enwi yn Gabriel. Ac yr oedd y meddwl fod y Gabriel hwnw i awr o'u blaen, yn peri teimlad o lawenydd annesgrifiadwy dynt.

Cododd Dagobert eto mewn cyffro, a dywedodd, "Fy mhlentyn! anwyl blentyn! rhoddwch eich llaw i mi! Fy machgen i fy nman—waith onid brawd fy mab Agricola ydych?"

"O, syr," ebai Gabriel, "yr wyf yn fwy rhwymedig —"

"Peidiwch son am rwymedigaeth, os gwelwch yn dda," meddai Dagobert, "ar ol yr oll ydych wedi wneyd i mi."

"A ydyw fy mam yn gwybod am eich dychweliad i Ffrainc?" ebai Gabriel.

"Ysgrifenis ati er ys pum' mis yn ol; ond nis gwn a gafodd fy llythyr neu beidio. Ai yr un man y mae yn byw yn awr a chynt?"

"Ie, yn Heol Fach y Bara, yn nghanol y ddinas."

"Felly rhaid eu bod wedi cael fy llythyr i," ebai Dagobert; "buaswn wedi ysgrifenu ati o'r carchar yn Leipsic, pe gallaswn; ond yr oedd yn anmhosibl i mi wneyd."

"Carchar!" ebai Gabriel; "a fnoch chwi yn y carchar?"

"Do, fy machgen i; ond rhaid gadael yr hanes hyd ryw amser eto. A'r ddwy eneth yma fedr ei roddi oreu; oblegid y maent hwy yn ei wybod yn well na mi."

"Gabriel, yr wyf fi yn barod!" ebai llais crâs yn y drws, nes dychrynu y gwmniaeth ddifyr. Rodin ydoedd, yn galw am Gabriel i fyned gydag ef i Paris. Gwrthwynebodd Dagobert yn gryf; ond nid oedd modd llwyddo. Yr oedd Gabriel dan awdurdod Rodin, ac yn rhwym o ufuddhâu i'w holl orchymynion.

"Peidiwch teimlo mor ddwys," ebai Gabriel; "nid yw ond diwrnod. Caf eich gweled nos yfory yn eich hen gartref. Da b'och hyd hyny."

\* \* \* \* \*

Mewn ystryd fechan dlodaidd, er ei bod yn nghanol dinas Paris, y trigai Frances Boudoin, a'i mab Agricola, gôf wrth ei alwedigaeth, yr hwn oedd yn awr yn 24 oed; yr oedd hefyd wniad-yddes yn lletya gyda hwynt, ac yn gweithio allan y dydd. Dynes grefyddol a rhinweddol iawn oedd gwraig Dagobert, ac yr oedd yn cadw ei thŷ bychan tlawd mor lân a threfnus â neb yn Paris. Yr oedd yn awr tua deg o'r gloch y nos, yn nechreu mis Chwefror, a'r tri a nodwyd yn eistedd wrth y tân, ac yn siarad am ŵr y tŷ. ei absennoldeb hirfaith, fod pedwar mis er pan y cafwyd y llythyr diweddaf oddiwrtho, yr ofnau fod rhywbeth wedi dygwydd iddo, a'r dagrau yn gwlychu wyneb ei wraig, pan gurodd rhywun yn drwm wrth y drws. Aeth Agricola i'w ateb. Wedi mynyd o siarad â chymydog y tu allan i'r trothwy, dychwelodd Agricola at ei fam â'i wyneb yn welw, a'i galon yn berwi gan gyffro.

"Beth sy'n bod, Agricola?" ebai'r fam.

"O fy mam!" ebai'r bachgen gan syrthio ar ei liniau o'i blaen, a'i ddagrau yn llonaid ei lygaid, a'i gyffro yn tagu ei lais.

"Agricola, fy mhlentyn! pa ddrwg sydd wedi dygwydd? llefarwch!" gwaeddai y fam.

"O, dim drwg, mam. Daioni ydyw; newydd da—rhy dda i'w oddef."

"Beth ydyw, Agricola, dywedwch wrth eich mam?"

"Gwnaf, ond i chwi addaw meddiannu eich hunan. Wel, dyma y newydd,—mae fy nhad ar ddychwelyd."

"Ar ddychwelyd! Sut y gwyddoch, Agricola? Pwy gafodd llythyr?"

"Y mae wedi dychwelyd, fy mam. Y mae yn awr yn y ddinas Gallwn ei ddsygwyl i mewn bob mynyd. Mae ein cymydog nesaf wedi bod yn ymddyddan âg ef. Mae dwy foneddiges ieuanc gydag ef."

"O fy anwyl Boudoin!" ebai Frances, gan ymollwng i'w theimladau. "Ar ol deunaw mlynedd o'i absennoldeb! Y mae yn ormod i'w gredu! A yw yn wir! A yw yn bosibl! Pa bryd y daw?"

"Y mae yma, fy mam. Ni wnaeth ond gyru y cymydog i mewn i hysbysu, rhag y buasai ei ymddangosiad sydyn yn ormod i chwi. De'wch i mewn, fy nhad!" gwaeddai Agricola, gan ddynesu tua'r drws.

Gyda hyn yr oedd Dagobert yn y *passage* yn arwain Rose a Blanche, un ymhob llaw.

Y peth cyntaf wnaeth y wraig oedd syrthio ar ei gliniau, a diolch i'r Nefoedd, am ddychweliad diogel ei gŵr. Wedi codi, ymdaflodd i freichiau ei gŵr, a chofleidiasant eu gilydd mewn dagrau dystaw am enyd, a'r lleill yn edrychwyr mud arnynt, ond eu bod oll yn wylu.

Wedi meddiannu ychydig arnynt eu hunain, dywedodd Dagobert wrth Rose a Blanche, "Dyma fy ngwraig, a dyma fy mab Agricola." A dywedodd wrth ei wraig, "Dyma Rose a Blanche, merched y Cadfridog Simon."

"Merched y Cadfridog Simon?" gofynai Frances mewn syndod.

"Iâ, fy anwyl wraig. Yr wyf wedi eu dwyn o bell, ac nid heb beth trallod; dywedaf y cwbl wrthych pan gaf gyflêusdra."

"Druain bach!" ebai'r wraig. "Y maent yn edrych fel angelion. Cânt bobpeth a allaf fi wneyd iddynt."

(*I'w barhadu.*)



### TI FABAN NEWYDD ENI.

I faban newydd eni,  
 A'th wefus wrth y fron,  
 Wylofain wyt yn chwerw,  
 A phawb o'th gylch yn llon;  
 Bydd fyw fel gelli eto,  
 Wrth adael hyn o fyd,  
 I wenu 'n llon, tra eraill  
 O'th gylch yn wylu i gyd.



## ABRAHAM LINCOLN, LLYWYDD AMERICA.

**L**YDD ein darllenwyr oll, ond odid, wedi clywed am lofruddiad creulawn Llywydd Unol Daleithiau America; a charent ond odid wybod ychydig am brif ffeithiau ei hanes.

Ganed ef yn Kentucky, Chwef. 12, 1809; felly yr oedd yn awr yn 56 mlwydd oed. Gweithiwr oedd ei dad, a gweithiwr caled fu yntau am flynyddoedd lawer. Symudodd pan yn blentyn gyda'i deulu i Dalaeth Indiana, lle y bu yn gweithio blynyddoedd ar y fferm gyda'i dad. Ni chafodd nemawr ddim o fanteision addysg, ond a allai gasglu trwy ei lafur ei hun. Pan yn 20 oed symudodd i Dalaeth Illinois, ac yr oedd ei fam weddw ganddo ef, a phlant eraill, i ofalu am dani er yn ieuanc.

Wedi llafurio yn galed ar y fferm, nes cyrhaedd oedran gwâr, gosododd siop i fyny. Wedi hyny ymunodd â'r rhyddfrydwyr, ac aeth allan i'r rhyfel yn Florida. Yr oedd yn ddyn main, tâl, tywyll, esgyrnog; a'i gyfansoddiad yn hynod o wyd'n a hoew. Ennillodd glod nid bychan yn y fyddin, a chodwyd ef i fod yn gadben.

Wedi terfynu y rhyfel, dychwelodd i Springfield, prifddinas Illinois; ac yn 1832, bu yn ymgeisydd (aflywyddiannus) am le yn senedd y dalaeth.

Ymgwymerodd eilwaith â bywyd masnachol, ac ymroddodd gyda llaw i astudio y gyfraith. Yn 1834 llwyddodd i gael sedd yn y ddeddfwriaeth, yr hon a gadwodd am bedair neu bum' mlynedd; ac ymgododd yn y cyfamser i beth bri fel cyfreithiwr. Yn 1846 daeth yn aelod o'r *Congress*—Senedd America, ac enwogodd ei hun fel rhyddfrydwr, ac fel un zelog am ryddhâd y caethion. Yn 1860 etholwyd ef yn Llywydd Unol Daleithiau America, yr hyn fu yn achlysur o doriad allan y rhyfel diweddar. Ailetholwyd ef i'r gadair lywyddol yn 1864; ond cyn pen dau fis ar ol ei ailetholiad, ar ddydd Gwener y Groglith, pan oedd yn eistedd yn dawel yn ymyl ei wraig yn *Ford's Theatre* yn Washington, daeth dyhiryn i mewn ato, a saethodd ef yn ei ben. Ni ddywedodd air mwy; a bu farw bore drannoeth.

Yr oedd ef, yn gystal a'r holl wlad, yn hynod o lawen, yn ei ddyddiau olaf, wrth ganfod pob argoelion fod y rhyfel gwaedlyd ar derfynu. Parodd y newydd am ei farwolaeth alar mawr trwy America, a'r byd oll. Pan glywodd Lee, llywydd byddinoedd y Dê, am ei lofruddiad, efe a wylodd fel plentyn, ac a ddywedodd fod ysbryd caredig Lincoln yn fwy nerthol na holl fagnelau Grant. Bydd yr ychydig nodiadau canlynol yn gipolwg i'n darllenwyr ar gymeriad Abraham Lincoln:—

## TROEDIGAETH LINCOLN.

Dywedai y Parch. J. E. Carey, o Freeport, Illinois, mewn

pregeth yn ddiweddar,—Ceisiwyd gan foneddwr oedd yn myned ar ymweliad â Lincoln i Washington, ychydig ddyddiau yn ol, ofyn i'r Llywydd *a oedd ef yn caru Iesu Grist*.

Ar ol gwneyd ei neges, gofynodd y boneddwr y cwestiwn yn syml a charedig. Cuddiodd Lincoln ei wyneb yn ei napcyn, ac wylodd. Wedi hyny, trôdd at y boneddwr, a dywedodd,

“Pan adewais fy nghartref (bedair blynedd yn ol) i ddyfod i eistedd ar y gadair lywyddol hon, ceisiais gan fy nghydwladwyr weddio drosof; nid oeddwn y pryd hwnw yn Gristion. Pan fu farw fy mab, profedigaeth fwyaf fy mywyd, nid oeddwn yn Gristion. Ond pan aethum i Gettysburg (lle bu y frwydr fawr hono), ac edrych ar feddau ein gwroniaid meirw, y rhai oeddent wedi syrthio wrth amddiffyn eu gwlad, yno, y pryd hwnw, rhoddais fy hunan i'r Arglwydd Iesu. *Yr wyf yn caru Iesu Grist.*”

#### LINCOLN A'R BIBL.

Adrodda y Parchedig Dr. Adams o Philadelphia hanes ymweliad diweddar o'i eiddo âg Abraham Lincoln, fel y canlyn:—

Codais yn fore, a physurais, fel yr oeddwn wedi cyrhaedd *waiting room* y Llywydd erbyn chwarter cyn pump o'r gloch y bore. Gofynais i'r porthor,

“A allaf fi gael gwelod Mr. Lincoln?”

“Na ellwch,” ebai.

“Yr wyf wedi ymrwymo i'w weled,” meddwn innau.

“Am beth o'r gloch?” gofynai y gwas.

“Am bump,” oedd fy ateb.

“Wel, gellwch gael ei weled am bump,” atebai y gwas.

Cerddais ychydig yn ôl a blaen, ac wrth glywed llais cryf, fel mewn cydymddyddan difrifol, o fewn, gofynais eto i'r gwas,

“Pwy sydd yn siarad o fewn?”

“Y Llywydd, syr,” ebai wrthyf.

“A oes rhywun i mewn gydag ef, ynte?”

“Nac oes, syr; darllen y Bibl y mae.”

Gofynais innau, “A yw yn arfer darllen y Bibl mor fore a hyn?”

“Ydyw, syr,” ebai'r gwas; “y mae yn treulio o bedwar i bump o'r gloch bob bore mewn darllen y Bibl a gweddio!”

*Dyma wers i ni, ddarlennydd!*

#### GWAED AM WAED.

Dyweddodd Lincoln, yn ei araeth ar ol ei ailetholiad,—“Os yw Duw yn ewyllysio i'r rhyfel barhâu, nes treulio yr holl olud a wnaed trwy galedwaith didâl y caethion am ddau cant a hanner o flynyddoedd, ac hyd nes y telir am bob dyferyn o waed a dynwyd â'r fflangell gyda gwaed a dynir â'r cleddyf, fel y dywedwyd dair mil o flynyddoedd yn ol, rhaid dyweyd eto, ‘Barnau yr Arglwydd ydynt wirionedd; cyfiawn ydynt i gyd.’”



## YSTORI ADA.\*

(Parhad o du dal. 123—y diwedd.)

**D**R oedd wedi dyfod yn hynod am ei hufudd-dod yn y pethau mwyaf distadl, ac elai i drafferth fawr i wneyd pob peth a geisid ganddi.

Cyn gadael T. Park y tro olaf, yr oedd wedi mayned yn hoff iawn o baentio darluniau pan ddelai i lawr i'r parlwr. Er mwyn ei dysgu i fod yn gryno gyda'r taclau paentio, rhoddwyd arni i osod llian ar y bwrdd bob tro, ac ar ol gorphen, i godi y llian a'r

\*Dyma ddarlun cywir o Ada, wedi ei gerfio o bwrpas i TRYSORFA Y PLANT, oddiwrth *photograph* a gafwyd o honi gan ei mam.

lliwiau a'r cwbl, a'u gosod mewn drâr y gallasai hi ei gyrhaedd. Gofynodd am gael ei dysgu i blygu y llian i fyny, a gwnaeth hyny drosodd a throsodd, nes dysgu ei wneyd yn gryno.

Yr oedd yn olygfa bur gyffrous wrth fyned i T. Park, ychydig ddyddiau cyn ei marwolaeth, i weled ei phethau bychain wedi eu gosod i fyny yn daclus yn y drâr, a'r cwpan bach yn hanner llawn o ddwfr yno gyda hwy.

Yr oedd yr amser olaf wedi cyfnewid llawer yn ei pharodrwydd i wneyd rhywbeth dros arall. Bu yn groes iawn i hyn. Unwaith, er enghraifft, yr oeddwn i fy hunan wedi ceisio ganddi godi pellen fechan oddiar y llawr i mi. Ar ol cydsynio i wneyd, edrychai fel pe buasai yn beth rhy isel iddi hi, a dywedai, "*Mae ambell Ada na fuasai yn gwneyd hyn.*"

Wedi dyfod yn dair blwydd oed, yr oedd yn gwbl wahanol. Nid oedd dim yn fwy o bleser iddi na helpu arall. Difyrwch mawr ganddi oedd cymeryd arni fod yn forwyn-ferch dlawd, yn gweini ar ei mam glaf.

Pan yn glaf ac yn methu myned o'm hystafell yn Hydref, 1860, mynai gael aros gyda mi tra yr oeddwn yn bwyta; "achos," meddai, "nis gellwch chwi newid y plâd, na chyrhaedd y pethau." Ni cholodd un diwrnod am bythefnos gyfan. Weithiau delai ataf â llonaid plâd o'i phwddin ei hun, gan ddywedyd, "Yr wyf wedi d'od â thipyn o bwdin *nice* wna *les* i chwi." Ac mor falch y byddai fy ngweled yn bwyta. Galesid ymddiried unrhyw lestr i'w llaw, mor ddiogel a phe buasai ddyn mewn oed.

Un diwrnod yn nechreu Chwefror, 1861, yr oedd yn son am galon newydd. Gofynais iddi, "A oes genych chwi galon newydd?"

Atebodd, "Yr wyf yn ofni nad oes; yr wyf mor fynych yn ddrwg. Yr wyf yn meddwl nad wyf yn gweddio digon am dani." Penliniodd yn y fan, a gweddiodd yn daer am galon newydd, ac am iddi beidio myned yn ddrwg byth mwy.

Tua'r un amser dywedodd ei bod yn gweddio dros ei holl frodyr a'i chwiorydd, a llawer eraill. Gofynais, "A ydych yn gweddio dros Ninny a Diddy?" (y ddwy *nurse*.)

"Nac ydwyf," ebai; "gallant hwy ofalu drostynt eu hunain." Eglurais iddi nad allent.

Diwrnod neu ddau ar ol hyn clywais hi yn gweddio am y tro elaf! Nid oeddwn yn gallu gwneyd allan y rhan gyntaf; ond yr oedd y diwedd fel hyn, "O Arglwydd, cymer ofal am Diddy, a gwna ei bawd yn iach. A chymer ofal am Willy a Roly yn yr ysgol. O gwna, gwna, gwna ofalu am danynt! Paid gadael iddynt fod yn ddrwg, a dysgu dyweyd geiriau cas. O gwna, gwna ofalu am danynt, Arglwydd Iesu! Ac yr wyf yn diolch i ti am yr holl bethau *nice* wyt yn eu rhoddi i mi. *Ac yr wyf yn diolch i ti, O Iesu, am i ti gael dy gosbi yn fy lla. Amen.*"

Yn nghanol Chwefror, 1861, dygodd Ada lyfr bychan i mi yn cynnwys 52 o draethodau. Yr oedd wedi cael darlun o'r Arch ynddo, a dywedai, "Dywedwch wrthyf am hona."

Dywedais yr hanes wrthi; a dywedais hefyd nad dwfr, ond tân, fydd yr Arglwydd yn ddwyn nesaf i gosbi dynion drwg.

"A gaiff pawb eu llosgi?" gofynai.

Dywedais, "Na, caiff y rhai sydd yn caru Iesu Grist eu dwyn ymaith i le diogel cyn y daw y tân."

Edrychodd yn brudd a myfyrgar am dipyn; yna atebodd yn uchel a phenderfynol, "Yr wyf *fi* yn caru Iesu Grist."

Cymerodd y llyfr gyda hi i'r *nursery*, a chariai ef gyda hi i bob man am lawer o ddyddiau.

Ar ol tē, yr un dydd, gofynodd Ashley iddi ddyfod i chwareu gydag ef i'r *passage*.

Dywedodd hithau, "Yr wyf wedi blino yn fawr, fy mrawd anwyl, ond deufaf am dipyn bach, os ydych chiwi yn dewis."

Pan ddaeth i newid ei ffroc, dywedodd, "Mae dau waew yn fy mhen, a rhywbeth nad wyf yn hoffi yn fy ngwddf; ac yr wyf wedi blino yn fawr; ond gwell i mi fyned i lawr."

"Yr wyf yn meddwl mai gwell i chiwi beidio," ebai'r *nurse*, "nid ydych yn edrych yn iach." Ond dywedodd Ada, "Na, mi af i lawr, achos mae fy nhad am i mi fyned."

Wedi dyfod i lawr, edrychai yn wael, a syrthiodd i gyagu yn fuan ar lin ei thad. Rhoddwyd hi yn y gwely; ac ymhen dwy awr yr oedd yn ddwfn mewn twymyn.

Ymddangosai yn well drannoeth, a phan ofynais iddi sut yr oedd, dywedodd, "Yr wyf wedi gwella yn awr; ond carwn gael fy mrecwast yn y gwely."

Yr oedd am gael ei brecwast yn y gwely amryw foreuan o'r blaen, ond dywedai, "Gwell i mi beidio, achos mae fy nhad am i mi fod i lawr yn y ddyledswydd."

Y bore hwn dywedodd, "Fe allai na bydd fy nhad yn anfoddlawn i mi gael fy mrecwast yn y gwely."

Erbyn hyn yr oedd cochni yn tori allan trwy ei chnawd, a dywedodd y meddyg ei bod yn y *scarlet fever*. Cymerwyd Ashley yn glaf yr un dydd, a symudwyd hwy i ben y tŷ, fel y cedwid hwynt ar wahân oddiwrth y lleill.

Ymhen diwrnod neu ddau anfonodd Ada i lawr i'r *nursery* am ei llyfryn a'r traethodau, a gwnai i Adeline eu darllen iddi yn barhâs.

Yr oedd yn gweddïo o hyd, ond nid bob amser yn uchel; ac mor gynted ag y daeth yn abl, mynai gael ei chodi o'r gwely, fel y gallai fyned ar ei gliniau a'r lawr yr ystafell. "Y mae yn well gwneyd fel hynny," meddai.

Teimlai yn groes iawn i'r meddyg roddi cyfferiau poeth ar ei gwddf dolurus; llefai ar y cyntaf, a digiai wrth y meddyg. Wedi hynny, yr oedd yn teimlo yn ofidus, a dywedai wrth Adeline, "O, yr wyf yn gobeithio y caf fyned at yr Iesu heno! Yna ni chaf ychwaneg o dymherau drwg."

Ar ol hyn daeth yn dawel, o dan law y meddyg; agonai ei gorau, ac ni wnai yr un llais na gwrthwynebiad. Ymhen ychydig wythnosau, pan aeth ei gwddf yn waeth, ac y gorfu i'r meddyg i'w fnyddio *caustic* ato, cafwyd esboniad ar yr achos o'i thawelwch.

Fel yr oedd y meddyg yn myned at y gorchwyl poenus, dywedai y fechan, "Aroswech fyny, nes byddwyf wedi gweddio ar Iesu." Yna gweddiodd, ond nid yn uchel; ac wedi hyny agorodd ei genau, a bu mor dawel a phe buasai wedi marw.

Pan ddaeth yn well o'i chlefyd, yr oedd yn fwy serchog wrth bawb, ac yn fwy gofalus am eu cysuron nag erioed. Nid yn unig pobl y tŷ, ond ei chyfeillion eraill, a'r tlodion y gwyddai hi am danynt. Pan welodd *jacket* gynhes a *shawl* am Adeline un diwrnod, dywedodd, "Yr wyf yn meddwl, Diddy, y byddai yn well i chwi roddi y *jacket* gynhes, a'r *shawl* yna, i Mary Wheeler; cadwent hi mor gynhes, ac nid oes ganddi hi fodd i brynu pethau fel chwi." Gwnaed hyn, yn ol ei dymuniad.

Cafodd garedigrwydd mawr oddiar law y meddyg, Mr. L, yr hwn a ymwelai â hi bob dydd. Dywedodd wrthi i ferch fach fod ganddo yntau, ond iddi farw a myned at Iesu Grist tua'r un oedran a hi. Boddiodd hyn hi yn fawr, a dywedodd wrth y *nurse*, "Wedi i mi fyned at yr Iesu, caf weled y ferch fach hono."

Yr oedd yn wir destun diolch i ni, i Ada fod drwy ei chlefyd dan ofal diball *nurse* oedd, nid yn unig yn ei charu yn fawr, ond a allai hefyd o'i chalon siarad â hi am y Gwardwr a garai.

Daliodd ei gafael yn y llyfr a'r traethodau, a mynodd eu darllen hyd y diwedd. Yr oedd yr emynau ar eu diwedd yn ei boddio yn fawr, yn enwedig y pennillion adnabyddus,

"Here we suffer grief and pain."

Y pummed pennill oedd ei hoff un; dysgodd ef ar ei thafod, a chanai ef yn barhaus:—

"O how happy we shall be,  
For the Saviour we shall see!—  
O that will be joyful!"

Ymhen mis ar ol dechreuad ei chlefyd, penodwyd diwrnod i symud y plant i Norwood. Gwelsom hi yn y ffenestr, ychydig ddyddiau cyn hyny, yn edrych mor iach a dysglaer, a mwy serchog, nag erioed. Pan ddaeth y dydd i symud (dydd Iau, Mawrth 21), nid oedd yn ddigon iach i fyned; yr oedd dolur y gwddf eto yn gwella ei afael. Pan oedd y *nurse* yn dwyn Ashley ymaith, dywedodd wrth Ada, "*Good bye, fy anwyl! gobeithio y de'wch chwithau yn fuan.*"

Cusanodd Ada hi drosodd a throsodd, ac atebodd hi, "Na, ni ddenaf byth i Norwood."

O'r pryd hwn aeth yn waeth waeth, a hyny yn gyflym iawn. Ymhen deuddydd (dydd Sadwrn) dywedwyd wrthym ei bod mewn perygl. Yn y cyfamser siaradai lawer am ei chwaer Lucy, a gofynai am gael myned i weled ei bedd, ar ol dychwelyd i T. Park. Siaradai hefyd am ei brodyr a'i chwïorydd, ac yr oedd yn llawen glywed fod Roly wedi dyfod adref o'r ysgol. Wrth siarad am ei brawd bach lleiaf—y baban—"Darling little fellow!" meddai, "arferwn chwarae ag ef, ac yr oedd yn fy ngharu mor fawr." Ond y meddwl a ymddangosa' yn llenwi ei henaid ydoedd am yr Iesu.

Ymddangosai y dyddiau olaf hyn fel pe buasai eisoes yn y nefoedd. Canai un o'i hoff emynau;

“Around the throne of God in heaven.”

Mynai gael darllen y traethodau iddi, a'r “*Peep of Day*” yn y Ffrancaeg. “Ydych chwi yn ei ddeall?” gofynai Adeline. “O ydwyf!” atebai, “ynghylch yr Iesu y mae. Darllenwch ychwaneg am Iesu i mi!”

Ymddangosai yn hapus a llawen tu hwnt i ddesgrifiad. Yr oedd yn berffaith syndod i bawb fu yn ei golwg.

Parhâodd ei meddwl yn glir a hapus nes oedd ymhell ymlaen ar fore y Sabboth. Yna suddodd yn gyflym, nes prin yr oedd yn ymwybodol. Ond yn y prydawn, edrychodd i fyny gyda gwên ddysglaer, fel pe buasai yn sefydlu ei llygaid ar ryw beth oedd yn peri yr hyfrydwch dyfnaf iddi. Ymaflai yn llaw Adeline, a dywedodd, “O, anwyl, serchog Diddy!” ac fel pe buasai am iddi edrych i fyny. Fel yr oedd y wên ar ei gwyneb yn cynnyddu, dywedodd, “Arglwydd Prydferth!” (*Pretty Lord!*) Arferai y gair “*pretty*” bob amser am wychder a gogoniant, ac yn eu cysylltiad â pherson am y frenines yn utig.

“Ydych chwi yn gweled yr Iesu, fy anwyl!” ebai Adeline. “Y mae yn dyfod i'ch cymeryd chwi ato ei hun.”

Nid atebodd ddim, yn unig gwneyd awgrym â'i phen i ddangos ei bod yn deall. Daliodd i edrych i fyny, ond ni lefarodd mwy, oddigerth dyweyd “Na,” pan gynnygid rhywbeth iddi.

Tri o'r gloch y Sabboth hwnw (Mawrth 24, 1861), yr hunodd Ada yn yr Iesu. Sul y Blodau ydoedd, ar yr hwn y dywedodd yr Iesu, “Oni ddarllenasoeh chwi erioed, O enau plant bychain, a rhai yn sugno, y perffeithiaist foliant?”


Y dyddiau canlynol gosodwyd hi i orwedd yn ymyl Lucy, i aros dydd ei ymddangosiad Ef.

Nid yw yn beth anghredadwy i'r Gwarddwr, yr hwn yr oedd hi yn ei garu mor fawr, wrando ei gweddi, a chaniatâu iddi gael “myned ato ef yn awr.”

Ni fu byw yn ein mysg ond tair blynedd a naw mis—bywyd byr; ond nid rhy fyr, er mai baban ydoedd, i ddangos nerth rhyfeddol gras Duw, a pheri iddi ddibrisio holl bleserau y byd gan awydd bod gyda Christ. “Gwlad well yr oedd hi yn ei chwen-nych, hyny ydyw, un nefol. O achos paham nid cywilydd gan Dduw ei alw yn Dduw iddi; oblegid efe a barotôdd ddinas iddi.”

## Y CWESTIYNAU GWOBWRWYEDIG.

11. **A** ddyn, y rhoddir ei waith yn priodi merch o deulu annuwiol fel rheswm am ei fywyd drygionus?
12. Am bwy y dywedir iddo yn ei glefyd dirfawr gaelio y meddygon yn lle ceisio yr Arglwydd?



"FEL Y DDISYN HAUL BELYDRAU ;  
AR Y MEUSYDD FFRWYTHLAWN I'R."

BYW I BWRPAS.

(ALLAN O HEN JONATHAN.)

REULIA 'th fywyd nid yn segur;  
Gwel o'th gylch rhyw waith o' hyd;  
Nid eisteddan a breuddwydio—  
GWEITHIO ydyw elw 'r byd;  
Dwylaw plêth ynt fiin yn wastad,  
Calon ddiles nid yw 'n llon;  
D' einioes fyddo 'n llawn gweithgarwch,  
Gweithia 'n lew tra paro hon.



Gwasgar ffafrau o dy ddentu,  
 Geiriau lleddf a gwenau llon;  
 Gwell nag aur ac arian ydynt  
 'Ladd gofidiau tan y fron:  
 Fel y disgyn haul belydrau  
 Ar y meusydd ffrwythlawn fr,  
 Felly boed i gydymdeimlad  
 Wasgar bendith dros y tir.

Llawer calon sydd ar dori  
 Eisieu cydymdeimlad pur;  
 Sibrwd gysur i rai felly,—  
 DYRO, d' obrwy ddaw yn wir:  
 I dy fynwes daw llawenydd,  
 Ffrwythau dedwydd ar dy waith;  
*Cofia*, fel y gwnei, derbyni  
*Yma*, ac *yno* ar dy daith.

LLYWELYN.

## Y SAESON A'R ALMAENWYR.

**H**AN glywir rhai yn dywedyd fod yr Almaenwyr (*Germans*) fel ysgoleigion a duwinyddion yn rhagori ymhob ystyr ar ysgrifenywyr y wlad hon, y mae hyny yn arwydd sicr o anwybodaeth neu hunan, ac fe allai bob un o'r ddau. Twyll i gyd yw haerriad o'r fath yma, ac y mae yn bryd ei' ddynoethi. \* \* \* \* O'r holl ddysgedigion a gynnrychodd yr Almaen hyd heddyw, enwer un sydd yn haeddu ei gymharu â Bentley. Yn ngwaith pwy o honynt y ceir y fath grynoded o hufen dysgeidiaeth ag yn ei feirniadaeth ef ar lythyrau Phalaris? A dyma un gwahaniaeth rhwng yr Almaenwyr a'r Saeson; mae yr Almaenwyr yn ddigon llafurus i gasglu llawer o ddysgeidiaeth, ond ni fedrant *hufenu* eu dysgeidiaeth. Y maent yn casglu defnyddiau o bob parth o'r byd; ond ni feddant y gallu i roddi yr hyn sydd anghenrheidiol at eu gilydd i wneyd un dodrefnyn, a gadael y gweddill o'r neilldu. Yn Bentley, nid y defnyddiau a welir, ond adeiladaeth. \* \* \* \* Ac i ddyfod i lawr at yr amser presennol, pa le ar y Cyfandir y ceir ysgoleigion mor drwyadl a'r diweddar Syr George Cornwall Lewis (Cymro, onidê?), neu Iarll Derby, neu y ddau gydfrawd yn nghyfraith, Mr. Gladstone ac Arglwydd Lyttleton; heb son am y rhai sydd wrth eu swyddau yn athrawon mewn gwahanol barthau o'r deyrnas.

\* \* \* \* \*  
 Os chwiliwn am y llyfrau goreu ar hanes Rhufain dan deyrnasiad yr Ymherawdwyr, y mae yn rhaid i ni droi at Gibbon a Merivale. Mewn perthynas i amseryddiaeth Groeg a Rhufain, yr awdurdod uchaf yw Fynes Clinton o Rydychen. Gyda golwg ar hanes Groeg, nid oes un dyn cymhwys i farnu ar y Cyfandir a feddylis am wadu mai yr awdwyr goreu tu hwnt i bob cymhariaeth yw

Dr. Thirlwall a Mr. Grote. Mewn hanesyddiaeth eglwysig, gyda phob parch i Neander, prin y gellir cystadlu ei waith ef â *Milman's Latin Christianity*. Ac, fel y cydnabyddir yn y Rhagymadrodd i weithiau Dr. Shedd o America, mae gweithiau Hooker a Bull, Pearson a Waterland, ymhob ystyr yn deilwng o gael eu gosod with ochr yr eiddo Baur a Dorner.—*Y Traethodydd am Ebrill, 1865.*



BAND OF HOPE CEFNCOEDCYMER.

**D**IS gwyddom am un lle ag y mae yr achos Dirwestol, oddiar y dechreu, wedi cael gwell gafael, nag yn eglwys y Methodistiaid ar y Cefn, yn ymyl Merthyr. Mae acw un o'r *Bands of Hope* hefyd mwyaf bywiog a llafurus ag y gwyddom am dano. Cawsom bleser mawr yn ddiweddar wrth eu gwrando yn myned dros amryw o'u tŷnau. Rhoddodd Mr. Bowen, ei ysgrifenydd, yn ein llaw daflen o holl gyfrifon y *Band of Hope*, o'r hon yr ydym yn dyfynu a ganlyn:—

“Sefydlwyd ef yn 1858, ar egwyddorion hollol Ddirwestol. Cyferfydd ddwywaith yn yr wythnos—nos Fercher, ac am 1 o'r gloch y Sabbath.

“Rhif a llafur, &c., o Nadolig, 1863, hyd Nadolig, 1864:—

|                                                                    |      |
|--------------------------------------------------------------------|------|
| Y nifer ar ddechre y flwyddyn.....                                 | 113  |
| Ardystiodd o'r newydd .....                                        | 46   |
| Diaelodwyd, 15; symudodd o'r lle, 10 .....                         | 25   |
| Cynnydd yn ystod y flwyddyn.....                                   | 21   |
| Cynnaliwyd o gyfarfodydd arferol .....                             | 100  |
| “ “ cyhoeddus .....                                                | 6    |
| Dysgwyd o ddarnau i'w hadrodd .....                                | 77   |
| “ o dŷnau newyddion .....                                          | 25   |
| “ o bennillion at y tŷnau .....                                    | 63   |
| Darnau wedi eu cyfansoddi gan yr aelodau .....                     | 4    |
| Pynciau Dirwestol .....                                            | 5    |
| Traddodwyd o anerchiadau i'r <i>Band</i> .....                     | 12   |
| Y nifer yn bresennol yn y cyfarfodydd arferol ar gyfartaledd ..... | 76.” |

Yr ydym yn credu yn ddiysgog nad oes yr un moddion yn gyffelyb o ran ei ddylanwad ar y genedl ieuanc sydd yn codi a'r cyfarfodydd hyn, ac yn cyhoeddi y nodiad byr hwn am y *Band of Hope* ar y Cefn, i'r dyben o gyffroi ardaloedd eraill i fyned a gwneuthur yr un modd.



## CHWAREUON PERYGLUS.

**M**AE rhai plant wrth chwareu yn fynych yn ymhel â phethau peryglus; dringo muriau, neu goedydd, neu gerdded yn rhy agos i'r dyfroedd, neu ymyl y graig. Mae y rhai hyn yn gyffredin yn dyfod i ryw ddrwg.

Yr oedd merch fechan unwaith wedi myned â'i llestr i gyrchu dwfr, ac yr oedd yn rhaid iddi gael cerdded yn ôl ar hyd pen gwâl



uchel. Colodd ei throed a syrthiodd i lawr ar ei phen. Torodd asgwrn ei hysgwydd, ac ni ddaeth yn hollol iach byth.

Un bachgenyn arall, nid oedd pleser ganddo yn gyffelyb i lithro




i lawr dros ganllaw grisiau y *Town Hall*. Y diwedd fu iddo yntau syrthio y tu allan i'r ganllaw i'r heol, a thori ei goea.



Dringodd bachgen unwaith i ben gwâl yr ardd, yr hon oedd yn uchel iawn. Wrth redeg ar hyd-ddi, colodd ei droed, syrthiodd ar ei ben ar gàreg, a lladdwyd ef yn y fan.

Blant! peidiwch byth anturio gyda chwareuon peryglus; y mae hyn y bob amser yn esgor ar flinderau.



### LLYFRAU NEWYDDION.

[COFIANT A PHREGETHAU Y PARCH. JOHN HUGHES, LIVERPOOL; gan y Parchn. R. EDWARDS, Wyddgrug, a J. HUGHES. Gwreccsam: R. Hughes a'i Fab.]

**H**AE y cofiant hwn am ddyn mor llafurus a defnyddiol, yn drysor gwerthfawr; a diau y prisir ef felly gan y Cymry am oesau i ddyfod. Heblaw y cofiant, y mae yn y gyfrol hon 22 o bregethau "y brawd anwyl, a'r gweinidog ffyddlawn." Ac y mae y pregethau hyn mor syml eu cyfansoddiad, mor bur mewn chwaeth, mor efengylaidd eu hysbryd, ac mor ddifrifol eu hamcan, fel y mae yn anmhosibl eu darllen heb dderbyn lleshâd.

[COLL GWYNFA: *Cyfieithiad o "Paradise Lost"* JOHN MILTON, gyda chofiant, sylwadau ar ei athrylith, &c., gan JOHN EVANS (I. D. Ffraid). Gwreccsam: R. Hughes a'i Fab.]

**R**Oedd gwir anghen cyfieithiad o Coll Gwynfa, cyn y galleid dysgwyl i'r Cymro uniaith allu deall a mwynhâu y llyfr anghymharol hwn. Mae cyfieithiad Dr. Pughe mor anhawdd ei ddeall i'r darlennydd a phe byddai mewn iaith ddyeithr. Ond, er nas gellir dysgwyl i gyfieithiad llyfr fel hwn fod cystal a'r gwreiddiol, eto mae y cyfieithiad newydd wedi gwneyd y llyfr yn

ddealladwy i unrhyw ddarllenyydd Cymreig. Wrth ddarllen y mesur diodl, dylid talu mwy o sylw i'r attalnodau, a llai i derfyniad y llinellau. Yr ydym yn ddiolchgar iawn i Mr. Evans am y cyfieithiad. Ychydig flynyddoedd yn ol, pan yn methu deall iaith Milton na iaith Pughe, rhoddasem y cwbl oedd yn ein meddiant am y gyfrol newydd a thlôs hon. Er mwyn dangos yr anhawser i droi llinellau grymus o un iaith i'r llall, a dangos cymaint eglurach yw y cyfieithiad newydd na'r hen—gan fod y tri llyfr o'n blaen—rhoddwn enghraifft fer o tu dalen 10, lle mae y llyfr yn dygwydd bod yn agored. Fel hyn y dywed Satan wrth gael ei fwrw o'r nefoedd i uffern yn geiriau Milton:—

“Farewell, happy fields  
Where joy for ever dwells! Hail, horrors; hail,  
Infernal worlds! and thou, profoundest hell,  
Receive thy new possessor; one who brings  
A mind not to be changed by place or time.  
The mind is its own place, and in itself  
Can make a heaven of hell, a hell of heaven.”

Dyma fel y cyfieitha Dr. Pughe hwynt:—

“Mensydd cain,  
Lle mae llawenydd byth, hanfyddent gwell:  
Wi! ddychryniadau, gethern fyd, a thi  
O uffern ddofn dy gynosb arfollâa;  
Un yw a chanddo fryd nas trôa lle  
Nac amser chwaith. Ei le ei hun yw bryd,  
Ac ynddo ei hun gwna Nef o uffern, ac  
Yn uffern nef.”

Dyma fel y dywed Mr. Evans:—

“Yn iach, chwi ddedwydd faesydd, lle y trig  
Gwastadol loniant! Henffych, frawiau mwy!  
A chrosaw, fyd uffernol! a thydi  
Afagddu, ddyfnaf lynclyn, derbyn fi  
Dy berchen newydd, un a ddwg i'th fewn  
Feddwl nas gellir newid gan na lle  
Nac amser. Y meddwl yw ei le ei hun,  
Ac ynddo ei hun all wneyd o uffern nef,  
Ac o nef uffern.”

[CANIADAU, gan IOAN MAETHLU (J. M. JONES). Gwrecsam: R. Hughes a'i Fab.

**D**YMA gyfrol fechan hardd, yn cynnwys barddoniaeth o'r iawn ryw. Mae awen ein bardd ieuanc yn hynod o bur a choethedig, a'r syniadau wedi eu bedyddio â difrifoldeb crefyddol. Mae y frawddeg ganlynol o'r rhagymadrodd yn nodwedd arbenig

n yr holl ganiadau :—“Y mae i'r Awen ei chyfrifon mewn eilfyd, ganlyniad cadwed Duw fi rhag ei gollwng i ofera.” Y prif darn yn y gyfrol yw “Y Sabbath yn Nghymru;” ac y mae hwn i hun yn llawn gwerth y pris sydd ar y llyfr. Mae amryw emnau hefyd yn niwedd y gyfrol. Mae yn hawddach gwneyd cân riodol i *un* mewn amgylchiad neillduol, na gwneyd emyn briodol gynnulleidfa gyfan i ymdafu iddi. Mae y pennill hwn sydd ar tu dalen olaf ond un, yn profi nad yw y bardd yn anfedrus ar nynu :—

“Dros fynyddau o bechodau  
 Mi edrychaf tua'r Groes,  
 Am faddeuant, am fy mywyd,  
 Am fendithion Dwyfol loes;  
 Dysgwyl 'r wyf y cyfyd seren  
 O ffurfafen Calfari,  
 Arwain f' enaid, cyn machludo,  
 I oleuni 'r nefoedd fry.”

MEIRIAU MOLIANT; *sef Emynau gan R. J. DERFEL, Manchester.*  
 Rhuthyn: I. Clarke. Pris Swlt.]


YMA Derfel eto ger ein bron mewn emynau, ac y mae yn llawer gwell nag y buasem yn dysgwyl. Nid pob bardd fedr wneyd emyn dda. Rhaid cael y *celfydd* a'r *profiadol* at hyn; a cael profiad mor ddwfn nes cuddio y gelfyddyd. Mae yr awdwr wedi llwyddo yn dda i uno y symmrwydd a'r teimlad anghenrheidlyn yn yr emynau hyn; a siomir ni os na bydd llawer cynnulleidfa ymreig yn arfer aml i bennill o honynt i foliannu Duw pan bydd wedi gadael ei drigfan ddaearol.

OLWYDDOREG AR BECHADURSRWYDD MEDDWDOD, *gan y diweddar Mr. J. EVANS, Dolgellau, &c.* Dolgellau: D. Jones. Pris 2 geiniog.]

LYFRYN buddiol i ieuencyd ac eraill i'w ddysgu a'i adrodd. Mae anghen holwyddori mwy gyda'r pwnc Dirwestol. Mae y llyfr hwn yn cynnwys y gris cyntaf yn y cyfeiriad yn.

ANEUON Y PLANT. B. M. Williams, Rhuthyn.]

ARDIAU yw y rhai hyn, a thôn ynghyd a phennillion cyfaddas ati, ar bob cerdyn. Y mae y tônau a'r pennillion yn felus, ac wedi eu gosod i fyny yn hylaw a phwrpasol, ac y mae y plant awchus am danynt, ond cael rhywrai i'w harwain.



GIRAFFE.

## THE AFRICAN'S HYMN.

**A**LLDO' me be von African,  
 Dat vanders in de vood,  
 Me pray to God both day and night,  
 For dat is very good.  
 Come, vont you, vont you, &c., &c.,  
 Come, come to God;  
 O come dat vee may all agree,  
 To spread his name abroad.

Alldo' me be von slave on earth;  
 Me do my God adore;  
 For when poor Negro he do die,  
 He 'll live for evermore.  
 Come, vont you, &c.

My God, he vill not me despise,  
 Alldo' me be von black;  
 For he did send his only Son,  
 To bring poor Negro back.  
 Come, vont you, &c.

Alldo' dey floggy me on earth,  
 Me vill dem all forgive;

For when poor Negro he do die,  
He only die to live.  
Come, vont you, &c.

Alldo' dey do me all despise,  
De people on de earth,  
But when poor Negro he do die,  
He 'll see God's heavenly mirth.  
Come, vont you, &c.

Oh, no more floggy will dere be  
In dat bright world above,  
For dere poor Negro he can shout  
His great Redeemer's love.  
Come, vont you, &c.

NIS GELLWCH LOSGI Y PENNODAU A DDYSGAIS.

YFARFYDDODD offeiriad Pabaidd â bachgenyn yn yr Iwerddon yn dyfod o Ysgol Sabbothol y Protestaniaid. Galwodd ef i'w dŷ, a cheryddodd ef yn llym am ei ymddygiad.

"Beth yw y llyfr yna sydd dan dy gesail?" gofynai.

"Y Bibl," ebai'r bachgen.

"Llyfr peryglus yw hwna i fod yn dy law di," ebai'r offeiriad; "dyro ef i mi."

Gwrthododd y plentyn, ond treisiodd yr offeiriad ef oddiarno, a thafodd ef ar y tân.

Edrychai y plentyn yn syn a gofidus wrth weled ei Fibl bach yn ffiamio ar y tân; ond yn y man gwenodd.

"Paham yr wyt yn chwerthin?" ebai'r offeiriad.

"Fedraf fi ddim peidio," ebai'r bachgen.

"Wel, paham? dywed i mi ar unwaith!" ebai'r dyn, gyda thôn sarug.

"Meddwl oeddwn i," ebai'r bachgen, "os yw eich parchedigaeth yn llosgi fy Mibl, nas gellwch losgi y pennodau a'r adnodau wyf wedi ddysgu allan o hono."

Ymroddwch, ddarllenwyr ieuainc, i symud yr holl Fibl oddiar y dail i'ch cof, yna nis gellir ei losgi, ac fe erys yn drysor i chwi yn dragywydd.

LLAN—

DYDD GENEDIGAETH JOHN.

(J. H. P., Ll—t, Mawrth 8, 1865.)

GAN EI DAD.

WN ydyw 'r dydd mae John Hughes Parry  
A'i oed yn *un ar ddeg* o flwyddi:  
Ei Dad a'i Fam sy 'n gwir ddymuno  
Pob llwydd a gras a bendith iddo.



Bendithier John, fy machgen hawddgar,  
 Ar ben ei flwydd â chalon ddiolchgar,  
 I'w nefol Dad am gael mor ryfedd  
 Estyniad oes, a phob trugaredd ;  
 Am gael ei eni 'n blentyn dedwydd,  
 Mewn gwlad sy 'n llawn o Air yr Arglwydd ;  
 Mewn cartref clyd a llawn o gysur,  
 Ac nid yn grwydryn neu ffoadur.

Caed weled llawer *birth-day* eto, .  
 Pob un yn well na 'r nesaf ato :  
 Caed iechyd, cysur, a phob llwyddiant  
 Am einioes hir, yw 'm gwir ddymuniant.

Ond GRAS yw 'm prif ddymuniad iddo,  
 I garu Duw, a'i fore-geisio,  
 A threulio 'i oes i'w wasanaethu  
 Yn filwr dewr yn myddin Iesu.

Na chaed y diafol awr o'i fywyd,  
 Caed Iesu Grist ei oes, o'i febyd ;  
 Caed hyd y diwedd weithio drosto,  
 Ac yn y diwedd fyned ato.

## DYDDANION.

### PENNILL SIENCYN PENHYDD.

**G**AWSOM y pennill hwn o waith yr hen Siencyn gan gyfaill sydd yn byw yn ardal Penhydd. Yr oedd William, druan, yn ddyrnwr diog ac anfedrus, a Siencyn o'i gornel yn tŷ yn gwrando arno, ac yn deall ei fod yn fynych yn taro y llawr â'r ffust, yn lle taro yr ŷd ;—

“Ow, William Prosser brysur (?)  
 Sy 'n llwfw'r ddyrnw'r llafur ;  
 Rhyw ergyd crâs ac ar y llawr  
 Bob hanner awr, fe 'i clywir.”

### Y LLEUAD YN YMDROCHI.

**T**N noswaith wrth dd'od adref o'r oedfa, cododd ei dad Johnny bach o'r Glyn—rhwng pedair a phump oed—i ben canllaw y bont i weled darlun y lleuad yn y llyn odditanodd. Cyffrowyd y plentyn yn fawr gan yr olygfa, a gwaeddodd, “O, wel, wel! mae y lleuad wedi dyfod i lawr i ymdrochi.”

### GOLUD ANWADAL.

**G**OLUD anwadal yw ei enw a'i swrnâm ef. Gwyddoch mai Robert ydyw fy enw i, ac mai Thomas yw fy swrnâm ; a fy enw ar ei hyd yw Robert Thomas. Felly, Golud yw ei enw yntau, ac Anwadal yw ei swrnâm ; a'i enw ar ei hyd yw, *Golud Anwadal.*”



## TRYSORFA Y PLANT.

REI. XLIII.]

GORPHENAF, 1865.

[CYF. IV.

### CYFLOG Y FAM.

“**M**AGA ef i mi, a minnau a roddaf i ti dy gyflog,” meddai merch Pharaoh brenin yr Aipht wrth Jochebed, pan estynai ei baban tri mis oed i’w fam ei hun i’w fagu. Y eth a olygai merch Pharaoh ydoedd rhoddi arian yn dâl am fagu plentyn; ond derbynai y fam gyflog well ac uwch na hono. ‘r oedd yn derbyn cyflog gan’ mil mwy yn y llawenydd a fwynâi wrth ei fagu—yn ughariad ei phlentyn tuag ati—yn y gwasnaeth a wnaeth ei phlentyn wedi hyny i waredu pobl yr Arlwydd o’u caethiwed—ac yn y bendithion y mae yr Arglwydd n arfer roddi bob amser i’r mamau sydd yn magu eu plant i’rny yn ei addysg a’i athrawiaeth ef.

Bob tro y mae yr Arglwydd yn gosod plentyn yn nwyllaw tad a mam, y mae yn dyweyd wrthynt, “Megwch ef i mi, a minnau a roddaf chwi eich cyflog.” Mae hwn yn ymddiried mawr. Campwaith tuw yw y plentyn, yn gorff ac yn enaid; ac y mae i barhâu byth! Mae cael gofal dygiad i fyny enaid anfarwol yn fwy ymddiried na chael llywodraeth un o deyrnasoedd y ddaear.

Ac nid oes dim yn hanes y byd yn fwy amlwg na bod yr Arlwydd yn gofalu am y gyflog hon yn ol y gwaith a gyflawnir. Iid yw un amser yn attal cyflog mamau da, ac y mae y gyflog ono mewn gwerth uwch nag aur ac arian. Os cymerodd Hannah rafferth fawr i fagu ei phlentyn Samuel i’r Arglwydd, wele y achgen hwnw wedi ei ddyrchafu i fod yn farnwr ar holl Israel


—dyna ei chyflog! Os cymerodd Jochebed drafferth fawr i fagu Moses, edrychwch arno yn sefyll gyda Duw yn y mynydd—dyna ei chyflog. Os cymerodd gwraig Jesse lafur diflino i fagu Dafydd ei mab i'r Arglwydd, edrychwch ar y bachgen hwnw, dan ei goron, yn frenin "wrth fodd calon" Duw; a gwrandewch ar ei ganiadau clodforus, sydd wedi cael adsain galonog yn mhrofiad yr oesau a'r cenedlaethau hyd heddyw—dyna gyflog y fam. Beth yw y lleoedd uchel, a'r dylanwad pwysig, sydd gan y rhan fwyaf o weinidogion Iesu Grist heddyw? Beth hefyd, ond cyflog y Nefoedd i'r mamau duwiol fu, mewn llafur a lludded, yn eu magu i'r Arglwydd?

Mae cyflog o fath arall hefyd yn cael ei thalu i famau yn fynych. Mae annoethineb, diefalwch, ac esgeulusdra rhieni yn dwyn cyflog drom a blin. A welwch chwi y ferch falch, ffroenuchel, ac anufudd acw, sydd yn dirmygu y fam a roddodd sugn iddi? A welwch chwi y mab cyndyn yna, wedi ei lusgo yn feddw at drothwy ei dad, sydd yn rhegu yn ei wyneb y tad a'i cenedlodd? A welwch chwi rychiau gofid yn wynebpryd gofidus y tad? A welwch chwi y fam a'i chalon wedi ei thori, ac yn syrthio yn an-amserol mewn gofid i fedd? Beth yw hyn oll? **CYFLOG Y MAGU!**

A wna y mamau y dygwydd i'r llinellau hyn ddyfod i'w dwylaw osod y geiriau hyn, fel oddiwrth eu Barnwr, at eu calon,—**"MEGWCH EICH PLANT I MI, A MINNAU A RODDAF I CHWI EICH CYFLOG."** Gofynwyd i fam unwaith, sut yr oedd ei phlant hi yn rhagori ar holl blant y gymydogiaeth. Atebodd hithau,—**"Pan yn eu golchi bob dydd, yr wyf yn gweddio am i'r Iesu olchi eu heneidiau yn ei waed; pan yn eu gwisgo, yr wyf yn gweddio am iddo eu gwisgo hwy â'i gyfiawnder; pan yn eu bwydo, yr wyf yn ceisio ganddo borthi eu heneidiau & gwirionedd, fel y cynnyddont hwythau yn gyffelyb i'r 'Bachgen Iesu.'"**

Famau anwyl! dilynwch chwithau ei hesiampl!

### SAM, Y BACHGEN DRWG.

 R' rhybudd tad a chynghor mam,  
'R oedd Sam yn byw 'n annuwiol;  
A mynai beunydd daro tant  
Ar delyn plant y Diafol;  
A'r aelwyd gartref (hapus fan)  
Oedd iddo 'n annymunol.

Yn fore rhoddodd gam neu ddau  
I lwybrau anufudd-dod;  
O hyny allan rhedeg wnaeth,  
Nes aeth i ddyffryn trallod;  
Mewn ardal bell, o dan y wae,  
Y mae ei dlawd breswylfod.

Wrth arfer dilyn cwmni drwg  
 Fe dynodd wg rhieni;  
 A chredai pawb drwy 'r wlad ei fod  
 Yn hynod mewn drygioni;  
 Rhy brin y gwnaeth mewn oes mor fer  
 Un weithred er daioni.

Aeth bywyd Sam, a'i ddiwedd chwith,  
 A'r fam i blith marwolion;  
 A'i dad yn ddystaw dd'weyd ei gri,  
 Ar hanner dori calon;  
 Dybena yntau ei oes frau  
 O dan gymylau duon.

Ddarllenydd! gwylia fod fel Sam,  
 Heb feddwl am dy ddiwedd;  
 A threulio oes mewn bywyd ffol,  
 Croes hollol i'r *gwirionedd*;  
 Arweinied Duw ni ymhob man  
 I rodio mewn anrhydedd.

*Tregeiriog.*

EINION DDU.

DOSBARTH Y BIBLAU.

**MATTHEW XXV.**—1. At ba beth y cyfeiria y gair “yna” yn yr adnod flaenaf?

2. Ar ba ddefod y mae dammeg y deng morwyn wedi ei seilio?

3. Cyfeiriad at ba beth sydd yn y nifer “deg” yn ei gysylltiad â'r morwynion?

4. A yw y geiriau “call” a “ffol” yn golygu cyflyrau da a drwg y morwynion?

5. A oedd rhywbeth yn ychwaneg gan y rhai call nad oedd gan y rhai ffol, heblaw mewn graddau?

6. Beth yw y brif wers a ddysgir i Gristionogion trwy y ddammeg?

7. Ar ba amgylchiad arferol neu dybiedig y seilir dammeg y talentau?

8. Beth oedd gwerth talent o arian, a thalent o aur, wrth yr arian presennol?

9. Yn ol gallu pwy a feddylir yn y 15fed adnod?

10. Beth oedd dyben y gwas drwg yn cuddio yr arian yn y ddaear?

11. Pa adeg y cyfeirir ati yn nyfodiad arglwydd y gweision?

12. Beth a feddylir wrth osod y gwas da “ar lawer,” a “llawenydd ei arglwydd?”

13. Beth yw ystyr cyhuddiad y gwas drwg yn adn. 24? ac a yw ei arglwydd yn cydnabod ei wirionedd yn adn. 26?

14. Beth oedd graddau y manteision neu yr anfanteision o guddio yr arian, eu rhoi at y cyfnewidwyr, a marchnata â hwynt?

15. Sut y gellir dëall, "I bob un y mae ganddo y rhoddir?"
  16. Beth a olygir wrth y tywyllwch eithaf (adn. 30)?
  17. Ymha le y bydd yr ðrseddafinc yr eistedda Mab y dyn arni (adn. 31)?
  18. Beth fydd y prawfnod mawr wrth ba un y bydd tynghed pawb yn cael ei phenderfynu yn y farn?
  19. At ba beth y cyfeiria Crist pan ddywed iddo fod yn newynog, sychedig, &c.?
  20. Ar gyfer pwy y dywedir fod "y deyrnas," a'r "tân tragwyddol," wedi eu parotoi?
  21. Pwy y mae Crist yn alw yn frodyr (adn. 40)?
  22. A ddywedodd Crist grioed "fy mrawd," neu "fy mrodyr," yn bersonol wrth rywrai?
  23. A yw y Bibl yn galw Crist yn frawd i ni?
  24. Paham na ddywed Crist "fy mrodyr" wrth dyrfa yr aswy law, fel tyrfa y ddeheulaw (adn. 40, 45)?
  25. Pa un o'r ddwy dyrfa a fernir gyntaf, a pha un a ymedy gyntaf oddi ger bron y frawdle?
- PENNOD XXVI.—I. Rhoddwch hanes sefydliad y pasg, ei ddefnyddiau, a'i ddybenion.
2. Sonir yn adn. 3 am archoffeiriaid—a oedd mwy nag un yn bod, beth oedd y llwybr presennol o wneyd archoffeiriaid, a chan bwy yr oedd yr awdurdod i'w gwneyd?
  3. Paham na fynai yr Iuddewon ddal Crist ar yr wyl?
  4. Ai yr un eneniad y sonir am dano yma (adn. 7) ag sydd yn Ioan xii.? Os felly, sut y gwahaniaethir yn y manylion?
  5. Beth oedd Crist yn feddwl wrth ddyweyd i'r wraig ei eneinio i'w gladdu (adn. 12)?
  6. Pa wirionedd a ellwch gasglu oddiwrth waith Crist yn sicrhâu anfarwoldeb i goffadwriaeth y wraig a'r weithred?
  7. Paham y gelwid Judas yn Iscariot?
  8. Pa fath ddynion a werthid gynt ymysg yr Iuddewon am ddeg ar hugain o arian?
  9. Pa berthynas oedd rhwng y pasg a gŵyl y bara croew, a pheth oedd dyben yr olaf?
  10. Paham y gelwid gwaith Judas yn "fradychu?"
  11. A oes hanes i Judas erioed alw Crist yn Arglwydd?
  12. A gyfranogodd Judas o'r swper?
  13. A gyfranogodd Crist ei hun o'r swper?
  14. Paham y gwahaniaethai Crist rhwng ei "gorff" a'i "waed," a pha beth a feddyliai wrth y naill a'r llall?
  15. Cyfeiriad at ba ddefod sydd yn y geiriau, "Hwn yw fy ngwaed o'r testament newydd?"
  16. Pa gysylltiad sydd rhwng "myned o'ch blaen chwi i Galilea" (adn. 32) a chymhariaeth yr adnod flaenorol?
  17. Ai ato ei hun neu at ei ddysgybllion y cyfeiria Crist pan ddywed (adn. 41), fod yr ysbryd yn barod, ond y cnawd yn wist?
  18. Pa gysondeb sydd yn ngeiriau Crist (adn. 45, 46), "Cysgwrch bellach"—a "Codwch, awn!"

19. Sut mae esbonio, "Pawb a'r a gymerant gleddyf a ddyfethir â chleddyf" (adn. 52)?

20. Pa faint yw "lleng," a phaham y soniai Crist am "ddeuddeg" lleng?

21. A oedd yr archoffeiriad yn tori gorchymyn wrth rwygo ei ddillad (adn. 65)?

22. Pa le mae y gyfraith wrth ba un y condemnid Crist gan y cynghor yn ysgrifenedig?

23. Beth oedd y gwahaniaeth rhwng y cyhuddiadau a ddygid yn erbyn Crist o flaen y cynghor Iuddewig, ac o flaen Pilat, y rhaglaw Rhufeinig?



Y GWYNFYDAU.

(MATTH. V. 3—11.)

**G**WYN fyd y rhai ysbrydol dlawd,  
Y deyrnas gânt yn feddiant;  
Gwyn fyd y rhai 'n galarn sydd,  
Dyddanwch hwy a brofant.

Gwyn fyd y rhai o galon bur,  
Yr Arglwydd Dduw a welant;  
Gwyn fyd y trugarogion rai,  
Trugaredd a dderbyniant.

Gwyn fyd y rhai a wnânt eu rhan  
I dangnefeddu pleidiau;  
Meibion i Dduw y gelwir hwy,  
A mawr iawn yw eu breintiau.

Gwyn fyd y rhai erlidir 'n awr,  
O achos eu rhinweddau;  
Fel hyn erlidiwyd seintiau gynt,  
Yn y boreuol oesau.

*Henffordd.*

T. PHILLIPS.



GENETH BEDAIR BLWYDD OED A'R GWAED.

**D**R oedd geneth fechan bedair oed yn Nhrawsfynydd wedi troseddu, a gyrodd ei thad hi i'r llofft i weddio ar Iesu Grist am faddeuant. Ar ol dychwelyd ymken tua phum' mynyd, gofynodd y tad sut y pasiodd. Trodd Gwen fach ei gwyneb siriol ato, a dywedodd yn fyfyrgar a dwys, "O, 'mad! Gwaed Iesu Grist ei Fab ef sydd yn ein glanhau ni oddiwrth bob pechod." Tarawyd y tad yn fud â syndod.



## YR AFR.

**M**AE yr afr yn grëadur mor adnabyddus fel nad oes eisieu dyweyd dim an dani. Cydborant yn gyffredin â'r defaid; ond y maent yn fwy tueddol i grwydro, yn fwy hoff o ddringo y creigiau, ac yn fwy parod i ymlynu wrth ddyn. Yn Switzerland y mae agos bob teulu yn meddu ychydig o eifr. Mae eu llaeth yn hynod o iach a maethlawn.

Mae y geifr hefyd, er nad mor ddefnyddiol a defaid, yn fwy call a beiddgar. Ychydig dros gan' mlynedd yn ol, ar ol brwydr Preston, rhedodd un oedd wedi bod yn blaenori yn y gwrthryfel, i ffoi i ogof yn ucheldiroedd Ysgotland. Wedi ymwasgu i mewn trwy agen gul, yr oedd gafr a myn ieuanc ganddi yno. Canfu ei bod mewn poenau dirfawr; ac wedi chwilio, cafodd ei bod wedi tori ei choes. Cylymodd hi â'i ardas, a chynnygiodd fwyd iddi; ond gwrthododd ei gymeryd. Estynai ei thafod allan i ddangos fod syched arni. Rhoddodd y dyn ddwfr iddi, ac wedi drachtio yn helaeth o'r dwfr, cymerodd fwyd ganddo.

Bu y dyn yn ei phorthi am ddyddiau lawer, trwy fyned allan yn nyfnder y nos i gasglu porfa iddi, a daethant yn gyfeillion mawr. Un diwrnod gyrwyd bwyd i'r dyn oddiwrth ei gyfeillion gyda gwas na fu o'r blaen. Deallodd yr afr mai gŵr dyeithr oedd hwnw, a safodd yn nrws cul yr ogof i'w rwystro i ddyfod i mewn. Ac ni chawsai ddyfod i mewn hyd nes i'r dyn oedd o fewn ymyrd, a dangos ei fod ef yn foddllawn. Credai y dyn y buasai yr afr yn marw i'w amddiffyn.

Fel y mae earedigrwydd yn ennyn ffyddlondeb hyd yn nôd mewn crëadur direawm!





GWYLIWCH Y BACH.

“**I**Y mam!” meddai 'r pysgodyn bach,  
 “Wel dacw abwyd braf!  
 Mae newyn arnaf fi, fy mam,  
 I'w lyncu yn union af.”

“Na,” meddai 'r fam, “y gwirion, paid,  
 Os caret fyw yn iach;  
 Waith credaf fi, mae 'nghudd o dan  
 Yr abwyd acw *fâch!*”

Ond prin y credai air y fam,  
 A syllu 'r oedd o hyd,  
 A dyweyd yn fynych, “D oes yn hwn  
 'R un bachyn yn y byd.—

“Mi dreiaf dsauid, gan nad beth,  
 Yn awr, yn ara' deg.”  
 A chyn pen mynyd 'r oedd y bâch  
 A gafael yn ei geg.

Cyn trengu d'wedodd wrth ei fam,  
 Mewn blin wylofus gri,—  
 “Ni fuaswn farw heddyw pe  
 Gwrandawswn arnoch chwi.”

Mae gwers o bwys i fyrdd o blant  
 Yn y pysgodyn ffol;  
 A wrthyd gynghor tad a mam,  
 Daw chwerwder ar ei ol.



## DAEARYDDIAETH GWLAD CANAAN.

## PENNOD III.—DYFFRYNOEDD A GWASTAD-DIROEDD.

1. **GWASTADEDD** *Lebanon neu Caele-Syria* sydd yn gorwedd rhwng mynyddoedd Libanus ac Anti-Libanus. Y mae ei hŷd o'r gogledd i'r deheuol oddeutu 90 milldir, a'i lled ar gyfartaledd sydd tuag 11 milldir. Desgrifir y lle hwn fel un o'r lleoedd ffrwythlonaf o fewn y wlad.

2. *Dyffryn Jezreel* sydd yn cyrhaedd o Fôr y Canoldir i afon yr Iorddonen, ac felly o'r dwyrain i'r gorllewin oddeutu 30 milldir o hŷd, ac yn 18 milldir o lled. Gelwir ef ar amrywiol enwau, megys gwastadedd Esdraelon, dyffryn Megido, &c. O du y gogledd iddo y mae mynyddoedd Galilea; o du y dwyrain y mae Tabor, a Hermon, a Gilboa; ar yr ochr ddeheuol y mae mynyddoedd Ephraim; ac ar y gorllewin mynydd Carmel. Perthynai i lwyth Issachar, ac yr oedd yn hynod am ei ffrwythlondeb; Deut. xxxiii. 18. Y mae y dyffryn hwn yn nodedig yn benaf o herwydd y brwydrau lliosog a ymladdwyd ar ei wyneb. Yma y gorchfygodd Gideon y Midianiaid; Barn. vi. 33. Yn y dyffryn hwn yr ymladdodd Saul ei frwydr ddiweddfaf; 1 Sam. xxix. 1. Yma hefyd y gorchfygwyd Sisera gan Deborah a Barac; Barn. iv. a v.; a'r Syriaid gan Ahab; 1 Bren. xx. 26; ac y lladdwyd Josiah dduwiol pan yn ymladd â Pharaoh Necho; 2 Cron. xxxv. 20, 26.

3. *Y gwastadedd tua'r môr.* Y mae y gwastadedd hwn yn gorwedd rhwng y mynyddoedd a'r môr, ac yn ymestyn ar hyd glanau Môr y Canoldir; o fynydd Carmel i ben deheuol Palestina. Gelwid y rhan ddeheuol o hono yn gyffredin "y gwastadedd," a chynnwysai bum' prifddinas y Philistiaid, sef Gaza, Asdod, Gath, Ecron, ac Ascalon. Yr oedd y rhan hono ag oedd yn ymestyn rhwng Joppa a Charmel yn myned o dan yr enw Saron, ac yr ydoedd yn nodedig am ei ffrwythlondeb a'i borffeydd rhagorol; 1 Cron. xxvii. 29; Esa. xxxv. 2; lxxv. 10. Y mae ei rosynau yn cael eu nodi yn neillduol gan Solomon; Can. ii. 1.

4. *Gwastadedd neu ddyffryn Nablous.* Y mae y dyffryn hwn yn gorwedd rhwng mynyddoedd Ebal a Garizim, ac ynddo y saif dinas Sichem neu Sichar, y fan y pabellodd Abraham ar ei ddyfodiad i Ganaan; Gen. xii. 6. Y mae yn hynod ffrwythlawn, ac yn dwyn digonedd o ffigys a ffrwythau eraill. Yn agos i'r fan hon y safai y darn hwnw o dir a brynodd Jacob gan feibion Hemor, tad Sichem, ac a'i rhoddodd i'w fab Joseph; Gen. xxxiii. 19. Tra ar ymweliad yma y gwerthwyd Joseph i'r Ismaeliaid, ac yma hefyd y dodwyd ei esgyrn pan ddaeth Israel o'r Aipht; Jos. xxiv. 32. Yn y fynedfa i'r dyffryn y mae ffynnon Jacob, ar yr hon yr eisteddodd yr Iesu pan yn flinedig gan y daith, ac yr ymddyddanodd â'r wraig o Samaria; Ioan iv.

5. *Gwastadedd yr Iorddonen.* Wrth y lle hwn y meddylir y tir gwastad hwnw trwy yr hwn y mae yr Iorddonen yn llifo. Gelwir ef gan yr Arabiaid yn *El Ghor*, neu *y dyffryn dwfn*. Ei hŷd o Fôr

Galilea i'r Môr Marw sydd oddeutu 75 milldir, a'i léd tua'r pen gogleddol yn 5 milldir, ond yn y dehau y mae yn fwy o lawer. Y mae rhai rhanau o hono yn dir ffrwythlawn, ac yr ydym yn cael i Lot ymsefydlu yno o herwydd hyny; Gen. xiii. 10. Yn y dyffryn hwn y treuliodd Ioan Fedyddiwr ran fawr o'i amser, ac y dechreuodd efe bregethu, gan ddywedyd, "Edifarhêwch, canys nesâodd teyrnas nefoedd;" Matth. iii. 2.

6. *Gwastadedd Jericho* sydd oddeutu 18 milldir o hŷd, a 7 neu 8 milldir o léd. Dywedir fod y fan hon unwaith yn un o'r lleoedd ffrwythlonaf yn holl Judea. Erbyn hyn y mae wedi myned bron yn ddiffeithwch, ac ychydig iawn o'i hen gynnyrchion a geir yno yn bresennol. Nid oes yn awr ond un balmwydden yn aros yn y fan ag oedd mor llawn o honynt gynt, fel y galwyd Jericho yn "ddinas y palmwydd."

7. *Dyffryn Jehosaphat*. Y mae y dyffryn hwn yn gorwedd rhwng Jerusalem a Mynydd yr Olewydd. Y mae yn hynod o gul, ac nid yw ond tua milldir o hŷd. Gelwir ef weithiau yn "ddyffryn Cedron," am fod yr afon hono yn rhedeg trwyddo. Adnabyddir ef hefyd wrth yr enwau "dyffryn Jafeh" a "dyffryn y brenin;" Gen. xiv. 17; 2 Sam. xviii. 18. Defnyddid y lle hwn mewn amseroedd boreuol fel claddfa gyffredin i trigolion Jerusalem. Ymhlith eraill yno, y mae beddau Zechariah, Absalom, a Jehosaphat, oddiwrth yr hwn y derbyniodd y lle ei enw. Tybia rhai oddiwrth Joel iii. 2, mai yma y cymer y farn ddiweddaf le.

8. *Dyffryn Hinnom*. Y mae hwn yn gorwedd o du y dwyrain i Jerusalem. Nid ydyw ond tua milldir o hŷd, a thua 50 llath o léd. Yn y fan hon y llosgodd Ahaz arogldarth, ac y llosgodd ei blant yn tân," &c.; 2 Cron. xxviii. 3. Gelwid ef hefyd Tophet, oddiwrth y gair Hebraeg TOPH (*taburdd*), am y byddai y cyfryw offerynau yn cael eu defnyddio i rwystro clywed cri y trueiniaid a aberthid i'r eilundduw Moloch. Arferid yr enw gan ein Hiachawdwr i arwyddo tân uffern, dan yr enw *Gehenna*; Matth. v. 30. Halogwyd y lle hwn gan Josiah i attal yr eilunaddoliaeth creulawn yno; 2 Bren. xxiii. 10, 11. Tybir i luoedd o'r Iuddewon gael eu llosgi yno, y rhai a laddwyd gan y Caldëaid wrth gymeryd Jerusalem; Jer. vii. 32; xix. 6, &c. Wedi hyn gwnaed ef yn dderbynfa cyrff meirw a phob ffieidd-dra, a chedwid yno dân gwastadol i'w llosgi.

9. *Dyffryn Rephaim*, neu *Glyn y Cewri*, sydd yn ymestyn tua'r dehau-orllewin rhwng Jerusalem a Bethlehem. Derbyniodd ei enw, mae yn debyg, oddiwrth y cewri a breswyliai yno ar y cyntaf. Gorchfygodd Dafydd y Philistiaid ddwywaith yma; 2 Sam. v. 18, &c. Ac y mae Eesaiâ, pan yn prophwydo dinystr Jerusalem, yn cymharu ei chwmp "i gasglydd tywysenau yn nglyn Rephaim;" Esa. xvii. 5.

10. *Dyffryn Elah*. Saif y lle hwn o du y dehau-orllewin i Jerusalem. Yma yr oedd byddinoedd Israel yn gwersyllu pan yr ymladdodd Dafydd â Goliah; 1 Sam. xvii. Y mae yr afon o'r hon y cafodd efe y ceryg llyfnion yn rhedeg trwy y dyffryn.

11. *Dyffryn Mamre* sydd yn agos i Hebron, a derbyniodd ei enw oddiwrth Mamre, brawd Aner ac Escol, y rhai a gynnorthwyasant Abraham yn erbyn Cedorlaomer; Gen. xiii. 18; xiv. 13. Yn y gymydogeaeth hon y treuliodd Abraham, Isaac, a Jacob, ran fawr o'u bywyd; ac yn ogof maes Machpelah, yn agos i Mamre, y claddwyd Abraham, Sarah, Isaac, Rebecca, a Leah, a gorchymynodd Jacob i'w feibion ei gladdu yntau gyda'i dadau yn yr ogof hon; Gen. xlix. 29.

12. *Dyffryn Escol*. Y mae hwn hefyd yn agos i Hebron. Gelwid ef felly, naill ai oddiwrth Escol, neu oddiwrth "y swp grawnwin" a ddygodd yr yspïwyr oddiyno pan aethant i weled y wlad; Num. xiii. 23. Y mae yn parhâu yn hynod ffrwythlawn, ac y mae y gwinwydd a gynnyrchir yno yn bresennol, ymhlith y rhai goreu yn y wlad.

13. *Dyffryn yr Halen*. Gellir ystyried y dyffryn hwn fel y rhan hono o wastadedd yr Iorddonen, sydd yn gorwedd yn y pen deheuol i'r Môr Marw, a chafodd yr enw, mae yn debyg, oddiwrth y tyllau halen oedd ynddo. Ennillodd Dafydd fuddugoliaeth yn y fan hon ar y Syriaid; 2 Sam. viii. 13 (yr Edomiaid; 1 Cron. xviii. 12); ac "Amasiah a darawodd o'r Edomiaid, yn nyffryn yr halen, ddeng mil," &c.; 2 Bren. xiv. 7; 2 Cron. xxv. 11, 12.

### Y TYMMOR HAF.

**D**AETH eto 'n rhagor un hawddgar dymmor  
 Ar gylch i'n goror gu,  
 Pobpeth ynddi fel yn dadebru  
 'N awr i'w roesawu sy;  
 Mae adar llwynydd yn galw eu gilydd  
 Yn ngwres y tywydd teg,  
 I ganu yn hylon eu tŷnau mwynion  
 Yn nghoed y fron ddiifrêg:  
 Y fronfraith hardd o fri,  
 Ar uchel bren ceir hi,  
 Y gwrach a Robin, a'r hardd benfelyn,  
 Ynghyd a'r 'deryn du.  
 Boed 'n awr i ninnau ar ryw destunau  
 Gyweirio 'n tŷnau ter,  
 A deffro 'r 'wenydd i ganu clodydd  
 O'r newydd eto i'n Ner:  
 A gaiff mwyalchen ddu,  
 A'i meibion hoewon hi,  
 I ganu clodydd am g'lanmai newydd  
 Mewn awydd mwy na ni?  
 Na chânt yn ddiâu, cydunwn ninnau  
 A'n lleisiau bawb yn llon,  
 I ganu 'n llafar, uwch medr adar  
 Yr hygar ddaear hon.



NERTH CAREDIGRWYDD.

**WYDDOM** am ddyn nad yw byth yn arfer chwip, nac yn dyweyd gair garw wrth ei geffyl. Mae bob amser yn ei gyfarch yn y geiriau mwyaf caredig, yn chwervthin arno, ac yn ei ganmawl. Ac y mae yn syndod y dylanwad y mae hyn wedi ei gael ar yr anifail; y mae yn gweryru ar y dyn mor gynted ag y clywo ei lais, yn cydio â'i ddannedd yn esmwyth ynhen ei ysgwydd, i'w gogleis, ac yn canlyn ar ei ol fel pe byddai gi.

Dymunem gymhell yr un llwybr ar eraill sydd yn trin ceffylau. Nid oes dim cyffelyb o ran ei ddylanwad, ar ddyn ac anifail, a CHAREDIGRWYDD.

Y CWESTIYNAU GWOBWRWYEDIG.

13. **WY** a gosbodd yr Arglwydd â barnau tost am eu camymddygiad tuag at eu gweision a'u morwynion?
14. Pa bobl y mae yr Arglwydd, o herwydd eu creulondeb tuag at y tlawd, yn eu cyfarch ar enw anifeiliaid tra defnyddiol?

## TON.—“MI A FY CHWAER.”

Doh A. M. 160.

BALL


|       |            |            |       |                        |                 |                           |            |            |
|-------|------------|------------|-------|------------------------|-----------------|---------------------------|------------|------------|
| {     | $s_1$      | m :— : m   |       | r : d : l <sub>1</sub> |                 | $s_1$ :— : l <sub>1</sub> |            | $s_1$ :— : |
|       | Hoff       | gen—       | ym    | fyn'd                  | i'r             | Ys—                       | gol        | Sul,       |
|       | $m_1$      | $s_1$ :— : | $s_1$ |                        | $f_1$ : $m_1$ : | $f_1$                     |            | $m_1$ :— : |
| $d_1$ | $d_1$ :— : | $d_1$      |       | $d_1$ :— :             | $d_1$           |                           | $d_1$ :— : | $d_1$ :— : |

|                       |                   |            |            |           |           |        |        |            |
|-----------------------|-------------------|------------|------------|-----------|-----------|--------|--------|------------|
| {                     | r : m : r         |            | r :— :     |           | m : f : m |        | m :— : | $s_1$      |
|                       | Mi                | a          | fy         | chwaer,   | Mi        | a      | fy     | chwaer; Os |
|                       | $t_1$ : d : $t_1$ |            | $t_1$ :— : |           | d : r : d |        | d :— : | $m_1$      |
| $s_1$ : $s_1$ : $s_1$ |                   | $s_1$ :— : |            | d : d : d |           | d :— : | $d_1$  |            |

|            |            |       |            |                        |       |            |                |       |            |            |
|------------|------------|-------|------------|------------------------|-------|------------|----------------|-------|------------|------------|
| {          | m :— :     | m     |            | r : d : l <sub>1</sub> |       | $s_1$ :— : | l <sub>1</sub> |       | $s_1$ :— : | $s_1$      |
|            | gwlaw      | neu   | hin—       | dda,                   | oer   | neu        | glyd,          | Os    |            |            |
|            | $s_1$ :— : | $s_1$ |            | $f_1$ : $m_1$ :        | $f_1$ |            | $m_1$ :— :     | $f_1$ |            | $m_1$ :— : |
| $d_1$ :— : | $d_1$      |       | $d_1$ :— : | $d_1$                  |       | $d_1$ :— : | $d_1$          |       | $d_1$ :— : | $d_1$      |

|            |            |       |            |                          |        |        |      |        |        |       |            |                     |       |            |                 |
|------------|------------|-------|------------|--------------------------|--------|--------|------|--------|--------|-------|------------|---------------------|-------|------------|-----------------|
| {          | r :— :     | r     |            | r : d : r                |        | m :— : | m    |        | m :— : | m     |            | f :— :              | m     |            | m : r : d       |
|            | peid—      | is'r  | teu—       | lu                       | dd'od  | i      | gyd, | Ni     | awn    | ni    | yn—        | o                   |       |            |                 |
|            | $t_1$ :— : | $t_1$ |            | $t_1$ : l <sub>1</sub> : | $t_1$  | d :— : | d    |        | d :— : | $s_1$ |            | l <sub>1</sub> :— : | $s_1$ |            | $s_1$ : $f_1$ : |
| $s_1$ :— : | $s_1$      |       | $s_1$ :— : | $s_1$                    | d :— : | d      |      | d :— : | $d_1$  |       | $d_1$ :— : | $d_1$               |       | $d_1$ :— : | $d_1$           |

|            |                        |       |            |            |                 |                 |         |            |            |                 |                 |       |            |
|------------|------------------------|-------|------------|------------|-----------------|-----------------|---------|------------|------------|-----------------|-----------------|-------|------------|
| {          | r : d : l <sub>1</sub> |       | $s_1$ :— : |            | r : m : r       |                 | r :— :  |            | d : r : d  |                 | d :— :          |       |            |
|            | er—                    | byn   | pryd,      | Mi         | a               | fy              | chwaer, | Mi         | a          | fy              | chwaer.         |       |            |
|            | $f_1$ : $m_1$ :        | $f_1$ |            | $m_1$ :— : |                 | $f_1$ : $s_1$ : | $f_1$   |            | $f_1$ :— : |                 | $m_1$ : $f_1$ : | $m_1$ |            |
| $d_1$ :— : | $d_1$                  |       | $d_1$ :— : |            | $s_1$ : $s_1$ : | $s_1$           |         | $s_1$ :— : |            | $d_1$ : $d_1$ : | $d_1$           |       | $d_1$ :— : |


 OFF genym fyn'd i'r Ygol Sul,  
 Mi a fy chwaer, mi a fy chwaer;  
 Os gwlaw neu hindda, oer neu glyd,—  
 Os peidia 'r teulu dd'od i gyd,  
 Ni awn ni yno erbyn pryd,  
 Mi a fy chwaer, mi a fy chwaer.

Mae 'n'hathraw 'n anwyl genym ni,  
 Mi a fy chwaer, mi a fy chwaer;  
 Yn siriol iawn ein dysgu wna,  
 A d'wêd am fyd heb boen na phla,  
 Lle cawn fod gyda'r "Bugail Da,"  
 Mi a fy chwaer, mi a fy chwaer.

Hoff iawn yw 'n tad a'n mam i ni,  
 Mi a fy chwaer, mi a fy chwaer;  
 Mae llawer mab a llawer merch  
 Heb roi ar eu rhieni seroh,—  
 Arswydwn ni 'r fath fywyd erch,  
 Mi a fy chwaer, mi a fy chwaer.

Ond dylem garu Crist yn fwy,  
 Mi a fy chwaer, mi a fy chwaer;  
 Os carwn ef uwch pawb i gyd,  
 Cawn orphwys yu ei fynwes glyd,  
 A chanu byth mewn nefol fyd,  
 Mi a fy chwaer, mi a fy chwaer.

We love to go to Sabbath School,  
 Sister and I, sister and I;  
 And be the weather foul or fair,  
 We purpose to be always there,  
 To listen to the opening pray'r,  
 Sister and I, sister and I.

Our teacher we do dearly love,  
 Sister and I, sister and I;  
 She comes and takes us by the hand,  
 And points us to the better land,  
 And tries to make us understand,—  
 Sister and I, sister and I.

Our father—mother too, we love—  
 Sister and I, sister and I;  
 While many boys and girls there are,  
 Whose parents for them do not care,  
 We of the good things richly share,—  
 Sister and I, sister and I.

We ought to love the Saviour most—  
 Sister and I, sister and I;  
 For if we love and serve him best,  
 In his own bosom we shall rest,  
 And be in heav'n for ever blest,—  
 Sister and I, sister and I.



GOLUD BYDOL FEL CNAU.

**G**OLUD bydol, meddai Thomas Fuller, yn debyg i gnau,  
 wedi rhwygo dillad llawer wrth eu casglu, wedi dinystrio  
 llawer o ddannedd wrth eu tori, ond heb dori newyn neb  
 wrth eu bwyta; ond mor wydn fel ag i rwystro y cylla i wneyd  
 ei waith, a llenwi yr ymysgaroedd & gwyntogrwydd.



## GEIRIAU DUW.

**D**A ollwng fy nghyfraith dros gof; ond cadwed dy galon fy ngorchymynion; canys hir ddyddiau, a blynyddoedd bywyd, a heddwch, a chwanegant hwy i ti.—DIAR. iii. 1, 2.

## ROSE A BLANCHE;

*Neu Gynllwynion y Jesuitiaid.*

## PENNOD VII.—CYNLLUNIAU A BLINDERAU.

**D**R oedd llawenydd a mwynhâd teulu Dagobert Boudin ar y noswaith y cyrhaeddodd ef a'r ddwy ferch Paris, yn ddifesur. Gan ei bod yn hwyr arnynt yn cyrhaedd, ac na chaed amser i wneyd darpariadau, trefnwyd i'r genethod gysgu gyda gwraig Dagobert, a Dagobert ei hun gyda'i anwyl fab Agricola.

Pan oedd wedi deuddeg o'r gloch y nos, cyn i'r teulu fyned i orphwys, dyma guro wrth y drws; a chyn i Agricola fyned i agor, yr oedd y dyn wedi ei agor, a dyfod ddau neu dri o gamrau i mewn.

"Holo!" ebai Agricola: "ydych chwi ddim yn gwybod y dylech aros i rywun agor y drws i chwi cyn dyfod i mewn?"

"Begin eich pardwn, filwaith," meddai y dyn, yr hwn oedd yn ymddangos yn dra boneddigaidd. "A welwch chwi fod yn dda i'm hysbysu ai yma y mae dynes a elwir Mary Fach yn lletfa?" Wrth ddywedyd hyn, syllai yn fanwl ar Dagobert, a Rose a Blanche, oedd yn eistedd ar yr aelwyd.

"Nac oes yma neb o'r enw yn lletfa," ebai Agricola yn o sarug; "a phe buasai, y mae yn rhy hwyr i chwi ddyfod ar hyd tai yr amser yma o'r nos i chwilio am dani."

"Yr wyf yn dra gostyngedig eto yn dymuno eich esgusodiad, ac esgusodiad y cwmni acw sydd ar yr aelwyd," meddai, gan gadw ei olwg o hyd ar y dyeithriaid oedd newydd ddychwelyd.

"Dyma ddigon bellach ar y pen yna," meddai Agricola, gan wneyd awgrym i'r dyn fyned allan.

Gosododd Agricola ei ben allan trwy y drws ar ei ol, a gwelai fod dau wŷr eraill yn ei aros yn yr ystryd.

Aeth y teulu i orphwys, heb feddwl fawr am y cynllwynion oedd yn cael eu prysur wan trwy y nos i'w maglu gan eu gelynion.

Boreu drannoeth, pan gododd Agricola, cafodd lythyr dienw yn ei hysbysu yn ddirgel fod magl yn cael ei darparu iddo, ac y buasai yn well iddo fod ar ei wyladwriaeth. Yr oedd wedi cyhoeddi pennillion ar ryddid fisoedd cyn hyny, ac yr oedd y sí allan y buasant yn ei gymeryd i fyny ar yr esgus fod syniadau politicaidd croes i'r awdurdodau yn y rhei'ny.

Cafodd gwraig Dagobert lythyr yr un bore oddiwrth foneddwr swyddogol yn Chartres yn dymuno arni geisio gan ei gŵr dalu ymweliad dioed ág ef, gan fod ganddo bapyrâu iddo yn dal cysylltiad â merched y Cadfridog Simon, ac nas gallasai eu hymddiried i law neb ond Dagobert ei hun.

"Y mae yn fiin i'r eithaf genyf feddwl am eich gadael yma y dydd cyntaf ar ol fy nychweliad; ond gan fod y peth yn dal cysylltiad â'r genethod yma, a bod y dydd pwysig mor agos, rhaid i mi fyned," ebai Dagobert.



Yr oedd calon Agricola yn crynu gan ofn; nid ofn oblegid gwneuthur drwg, ond ofn rhag iddo gael ei gymeryd i fyny, a'i gadw yn rhwym am fis neu ddau cyn cael prawf ar ei achos, yn enwedig gan fod ei fam a'i dad, a'r ddwy foneddiges ieuanc, i bwysio bellach yn unig ar ei ennill ef.

Yr oedd yn ddiweddar, trwy ddamwain hynod, wedi dyfod yn gydnabyddus â boneddiges ieuanc o fri, oedd yn cadw tŷ cyfrifol iawn mewn ystryd arall; ac yr oedd hono wedi dyweyd wrtho dridiau cyn hyny, "Os bydd taro arnoch am rywbeth, cofiwch alw gyda mi."

Nid oedd Agricola wedi dyweyd gair yn y tŷ am gynnwys y llythyr dirgelaidd a dderbyniodd. Ofnai beri trallod i'w rieni a'r boneddigesau dyeithr. Ond meddyliodd y buasai yn rhedeg hyd i'r *Pavilion*, tŷ Miss Cordoville, i ofyn a fuasai hi mor garedig a myned yn feichiau drosto, os delai cyhuddiad yn ei erbyn, er mwyn iddo ef gael dilyn ei waith, a chynnal ei deulu, nes dygid yr achos i brawf.

"Yr wyf yn myned allan am ychydig o fynyddau," ebai Agricola, gan roddi ei gap ar ei ben, ac agor y drws yn frysiog. Yr oedd yn awr yn ddeg o'r gloch fore Sabbath.

Ymhen pum' mynyd yr oedd Agricola yn curo wrth ddrws cefn un o'r palasau bychain prydferthaf yn y rhan hono o ddinas Paris.

Atebwyd y drws gan forwyn, yr hon a'i harweiniodd ef i'r parlwr—un o'r ystafelloedd gwychaf a welodd Agricola erioed yn ei fywyd.

"Yr oedd ar fy meistres eisieu eich gweled," ebai'r forwyn; "eisteddwch yna; daw atoch yn union."

"Bore da i chwi, Agricola," ebai Miss Cordoville—boneddiges ieuanc o'r mwyaf prydferth, yn mlodau ei hoedran—"yr oeddwn am eich gweled. Olywais fod rhyw ddrwg yn eich bygwth. A glywsoch chwi rywbeth?"

"Do, ma'm, elywais ryw air. Cefais lythyr cyfeillgar dienw y bore hwn yn fy rhybuddio, ac yn awgrymu y cawn fy nghymeryd i fyny heddyw neu yfory. Nid wyf yn meddwl fod dim yn y llinellau a gyhoeddais yn sail i'r cyhuddiad; ond gallant beri blinder i mi, ac i fy anwyl fam, trwy fy nghadw yn rhwym yn hir, cyn dyfod â'r achos i brawf. Ac y mae yn waeth genyf yn awr, oblegyd mae fy nhad wedi dychwelyd neithiwyr gyda merched y Cadfridog Simon, ac nid oes dim ond fy ennill i ar eu cyfer."

"Y maent wedi cyrhaedd, a ydynt?" ebai Miss Cordoville. "Olywais eu bod wedi glanio yn y castell, o'r llongddrylliad. Gwyddwn eu bod ar y ffordd. Bendith arnoch am y newydd! Ao y maent wedi cyrhaedd?"

"Ydynt, neithiwyr, ma'm. Ond fy neges i wrth redeg hyd yma, oedd—gobeithio na dderbyniwch ef yn angharedig—gofyn, a welech chwi fod yn dda i ateb drosof fi, os bydd achos, er mwyn i mi gael fy rhyddid i weithio i gynnal y teulu, nes daw prawf. Heb hyny, beth ddaw o fy mam a'r lleill o'r teulu?"

Atebodd, "Gwnaf! A chan nad sut y bydd, ni chaiff eich mam oddef dim anghen. Y mae genyf ychwaneg i'w ddyweyd; y mae merched Simon, sydd wedi cyrhaedd yma dan ofal ffyddlawn eich tad, yn ddwy gyfnither i mi. Dof acw i edrych am danynt y pryd-nawn; neu o leiaf gyraf am danynt yma."

Yr oedd Agricola wedi synu. Ymaflodd yn ei gap, ar fedr myned allan; ond dywedodd y foneddiges wrtho, "Nid yw yn ddiogel iawn i chwi gerdded allan yn awr. Aroschwch yma; rhaid i mi fyned am hanner awr i dŷ modryb i mi, y mae wedi anfon am danaf ar neges bwysig. Bydd ychwaneg genyf i'w ddyweyd wrthyhych wedi i mi ddychwelyd."

"Gwell genyf gael myned, ma'm. Waith os cymerwch chwi ofal am fy mam, nid wyf yn prisio cymaint am gael fy nal. Ac heblaw hyny ni charwn gael fy nghymeryd i fyny yn eich tŷ chwi, rhag i hyny ddwyn blinder arnoch chwi."

"Na, gwell i chwi aros yma hyd nes y dychwelaf. Ac y mae genyf le diogel i chwi ymguddio, na fedr unrhyw gwnstabl yn Paris eich ffeindio allan."

Yna galwodd ei morwyn, a cheisiodd ganddi arwain Agricola i'r ystafell ddirgel, a'i adael yno hyd nes y dychwelai hi, ymhen oddeutu awr. Erbyn hyn yr oedd y cerbyd wrth y drws yn ei haros.

\* \* \* \* \*

Yr oedd Miss Cordoville hefyd yn un o'r perthynasau ag yr oedd etifeddiaeth yn werth miliwn a hanner o bunnau i ddyfod iddynt, os ceid hyd i'r *medals* anghenrheidiol, ymhen ychydig ddyddiau. Yr oedd wedi ei dwyn i fyny dan ofal gwarcheidiol ewythr a modryb, y rhai oeddynt yn Jesuitiaid penboeth. Yr oeddent wedi gwneyd eu goreu i berswadio eu nith i fyned yn fynaches, ond wedi methu. Yr oedd yn ddynes ieuanc gall, dalentog, ac o ysbryd annibynol iawn, ac yn teimlo y gwrthwynebrwydd mwyaf i grefydd reibus ei hewythr a'i modryb. Yr oedd ei hewythr yn Abad yn un o'r sefydliadau Pabaidd, a'i modryb yn cael ei had-waen wrth yr enw Tywysoges Dagrín. Yn ddiweddar cawsant ar ddeall fod y foneddiges ieuanc yn gwybod am drafodaeth y 13eg o Chwefror. Yr oedd amryw bwyllgor wedi ei gadw i ddyfeisio ffordd i'w gyru o Paris dros yr amser penodedig, ond y cwbl yn ofer. Yr oedd un o forwynion Miss Cordoville yn offeryn i Rodin, ac yn anfon pob cyfrinach o'r teulu iddo. Trwy hono deallasant fod y foneddiges ieuanc wedi clywed am diriad y gwahanol berthynasau yn Ffrainc, ac am ddyfodiad merched y Cadfridog Simon i Paris. A chyn pen hanner awr yr oedd Rodin yn gwybod fod Agricola yn ymguddio yn y Pavilion.

Beth bynag, yr oedd y ddyfais i droi Cordoville oddiar y ffordd yn awr wedi ei chael. Pan gyrhaeddodd Cordoville balas ei hewythr, Abad Dagrín, yr oedd Barwn Tripe, a Dr. Bales, gyda'r Abad a'r Dywysoges, yno yn ei haros. Yn ystod ymddyddan ar wahanol faterion, cymerodd geiriau cryfion le rhwng y nith a'r fodryb. Yn y man, dyma un o'r gweision yn tafu llythyr i

mewn i'r Dywysoges. Yr oedd hwnw yn hysbysu fod y *police* wedi dal gôf o'r enw Agricola Boudin yn mhalas y Pavilion, wedi ei guddio yno gan y foneddiges ieuanc ei hun, a'i fod wedi ei gymeryd i garchar.

Tarawodd hyn galon Cordoville. Dechreuodd ei modryb ddannod iddi mewn digofaint gwatwarus, a gwneyd awgrymiadau cas a brwnt i'r eithaf. "Mae peth fel yna yn warth i'r holl deulu," meddai y Barwn Tripe.

"Trueni eich bod oll yn curo ar Miss Cordoville," meddai y meddyg; os cafwyd y dyn yno, nid oedd ond lleidr wedi myned i mewn gyda bwriad drwg; a beth allasai hi oddiwrtho?"

Hyd yn hyn yr oedd cyffro digofus y foneddiges wrth awgrymiadau brwnt a geiriau pigog ei modryb, a'i theimlad gofidus dros Agricola, wedi ei tharo yn fud. Ond yn awr, dywedodd,

"Diolch i chwi, Dr. Bales, am ddyweyd gair o fy mhlaid. Yr ydych chi yn gyfaill calon; ac yr oeddech yn gyfaill i'm tad o'r blaen."

"Ydwyf, fy mhlentyn," ebai'r meddyg, "a chewch gyfaill ynof fi tra fyddwch byw."

"Yr wyf yn credu hyny; ac y mae genyf ymddiried mawr ynnoch."

"Os ydych yn barod i ddyfod gartref," ebai'r meddyg, "mae fy ngherbyd i o flaen y drws, ac ni fydd nemawr oddiar y ffordd i mi yru heibio eich drws."

"Diolch i chwi—yr ydych yn garedig iawn," ebai Miss Cordoville, ac aeth y ddau allan.

Cyn myned i'r cerbyd, dywedodd y foneddiges wrth y meddyg, "Yr ydych chi yn gyfarwydd â gweinidog y llywodraeth; a fyddwch chi mor garedig a dyfod gyda mi hyd yno? Ni chymer i chi lawer o amser i gyd. Yr wyf am ei weled yn achos y dyn y clywsoch iddo gael ei ddal yn fy nhŷ heddyw. Mae yr achos yn deilwng o'n gwasanaeth ein dau."

Yr oedd yn dda gan y meddyg twyllodrus glywed y cais hwn, oblegid yr oedd yn fantais fawr iddo tuag at gario y ddyfais ddrygionus allan, gan y byddai yn rhaid iddynt fyned trwy ran anadnabyddus i Cordoville o'r ddinas.

Wedi siarad â'u gilydd yn gyfeillgar ar hyd y ffordd, a'r meddyg yn tystio o hyd ei barch mawr i Miss Cordoville a'i pherthynasau, ymhen tua chwarter awr, safodd y cerbyd o flaen adeilad mawr.

"Ai hwn yw tŷ y gweinidog?" gofynai Cordoville.

"Dyma fe; yr wyf fi yn gyfarwydd ac yn arfer myned i mewn trwy ddrws *private*. Disgynwyd, canwyd y gloch, agorwyd y drws, cerddwyd i mewn trwy *passage* tywyll, trôwyd i ystafell drymaidd ar y deheu, ac yno dywedodd y meddyg,

"Eisteddych fan yna am ychydig fynyda," ac aeth allan, gan gau y drws ar ei ol, a gadael Miss Cordoville wrthi ei hun.

Edrychai y lle yn ddyeithr. Yr oedd barau ar y ffenestr, a mur mawr uchel o amgylch y tŷ; muriau yr ystafell yn foel, ac

heb ddim celfi oddigerth bwrdd ac ychydig o gadeiriau cyffredin. Synai y foneddiges at y lle, ac at ymddygiad y meddyg.

Ymddangosai pob mynyd cyhyd ag awr. Aeth at y drws ar fedr myned allan; ond yr oedd hwnw wedi ei gloi. Curodd a thurodd drachefn, ond nid oedd neb yn ateb.

Ymhen tua dwy awr, pan deimlai ei bod bron gwallgofi, wele ldwy ddynes gyffredin, fel morwynion, yn dyfod i mewn. Yr oedd yn dda gan y foneddiges weled gwyneb rhywun. Dechreuodd holi, "Pa le mae y Dr.? Beth yw y lle hwn? Pwy sydd yn byw yma?"

Edrychai y benywod arni yn hurt a difater. "Mae ei golwg yn lyweyd ei bod yn ffit i'r gwallgofdŷ, druan," ebai un wrth y llall.

"Ai gwallgofdŷ ydyw?" ysgrechai Miss Cordoville. "Agorwch y drws—gollyngwch fi allan—gyrwich am gerbyd i mi—ewch ar unwaith—rhoddaf i chwi bob un gan' punt!"

"Os na fyddwch yn llonydd, rhaid i ni roddi y *strait jacket* yma am danoch," ebai un o'r benywod. Ond cyn pen pum mynyd, yr oedd y foneddiges mewn llewyg, a dwylaw geirwon y benywod yn trafod ei dillad sidanaidd, a'i dwylaw gwynion bychain, yn ystafell dywell y gwallgofdŷ.

Y mae Dagobert wedi myned i Chartres, Agricola yn y carchar heb fod ei deulu yn gwybod, a Miss Cordoville yn y gwallgofdŷ, a Rose a Blanche wedi eu gadael wrthynt eu hunain gyda gwraig Dagobert.

(I'w barhadu.)

## YMGOM ROBIN GOCH A'R PLENTYN.

**P**LENTYN. O Robin bach! dyma y tro cyntaf i mi glywed dy lais y gwanwyn hwn. Pa le buost ti, Robin, trwy y mis—oedd diweddfaf? Mae yr eira mawr wedi fy nghadw i a'r plant eraill heb fyned allan dros y trothwy er ys llawer dydd. Yr oeddwn wedi hen flino ar y tywydd oer, a fy nghalon wedi myned mor swrth a marwaidd; ond pan glywais dy lais di yn awr, neidiodd fy nghalon o orfoledd ynof, a meddyliais fod yr haf yn dyfod eto. Ai ar y brigyn fan yna wyt ti, Robin?

**Robin.** Iâ, ond ni ddylit ti gwyno ar y tywydd oer. Beth pe buaset ti allan trwy y gauaf, fel myfi? Nid oedd genyf fi yr un tŷ i droi iddo, na dilledyn mwy nag arfer, oddigerth cymaint a ddaliai fy nghefn o eira.

**Plen.** Pam na fuaset ti, y peth bach gwirion, yn troi i mewn i'n tŷ ni? Cawset bob croesaw yma. Buasai Betsi y forwyn yn sicr o roi briwion i ti, lonaid dy grombil.

**Rob.** Iâ, ond y mae gormod o ofn arnaf i anturio i'ch mysg. Ehedais unwaith i mewn, ac yr oedd hanner dwsin o ddwyllaw mawrion yn estyn am afael ynof. Sut y teimlet ti yn nghanol tŵr o rai cymaint yn fwy na thi?

*Plen.* Ië, nid i dy ladd, ond i gael dangos caredigrwydd i ti, Robin.

*Rob.* Ond y mae cael fy nal a fy ngwasgu o law i law yn fy anafu. Yr wyf wedi cael ceryg ar fy ol droion hefyd wrth ddi-gyn i bigo tamaid gerllaw eich drws. Fe saethwyd brawd i mi y llynedd pan oedd yn canu yn ddiniwed ar gangen ymhe'n draw y cae yna; a chafais innau fy archolli gan yr un ergyd. Sut y gallaf, felly, anturio i'ch mysg yn ddiiofn?

*Plen.* O, pe buaset yn dyfod i'n tŷ ni, Robin, ni chawsai neb dy gwrdd. Mae pawb yn ein tŷ ni yn dy garu.

*Rob.* Mae cathod genych yn eich tai oll, ac y mae y rhei'ny yn elynol iawn i ni. Os down i mewn, mae bron yn anmhosibl i ni ddianc o'u crafangau. Ac y mae genych ryw beth a elwch yn ffenestri sydd yn fagl i ni. Y maent fel tyllau i ni i ddianc allan, ond nid yw bosibl myned allan trwyddynt fwy na thrwy y mur. Ac yn y ffenestri yn fynych delir a chamdrinir ni.

*Plen.* Nid oes yr un amcan drwg atat ti, Robin bach, wrth wneyd ffenestr, nac wrth gadw cath. Mae y ffenestr at oleuo y tŷ, a'r gath at ddal y llygod. Mae yn wir fod rhai plant yn ceisio niwed i chwi; ond plant drwg yw y rhei'ny. Mae pob plentyn da yn hoff iawn o adar, ac yn caru eich clywed yn canu. Yr wyf yn sicr am danaf fy hun, na wnaif fi ddim niwed i'r un o honoch byth. Ond dywed, Robin, sut yr ymdarewaist yn ystod y gauaf?

*Rob.* Wel, cefais damaid i'm cadw yn fyw; ond yr oeddwn weithiau yn brin, ac weithiau yn well.

*Plen.* Yn brin o ddillad, wyt yn feddwl?

*Rob.* Nage; mae yr un dillad genyf er pan ddaethum i'r byd, haf a gauaf, gwres ac oerfel, yr un fath.

*Plen.* Pwy sydd yn eu golchi i ti?

*Rob.* Y gwlaw.

*Plen.* A oes genyt ti rhyw ddilledyn dan y wasgod fach goch yna?

*Rob.* Nac oes yr un.

*Plen.* A oes dim esgidiau a 'sanau genyt?

*Rob.* Nac oes ddim.

*Plen.* Ai wedi eu gwario am gwrw ydwyf, fel y dywed fy nhad fod dynion ofer yn gwneyd?

*Rob.* Nage; ni fu genyf esgid na hosan erioed.

*Plen.* Poor fellow bach! A ddoi di gyda mi i dŷ y crydd i gael mesur dy droed? Fe dâl fy nhad am bâr o esgidiau i ti. A chais-iaf gan fy mam, os myni, wau pâr o hosanau i ti.

*Rob.* Na fynaf; ond diolch i ti am dy deimlad caredig. Yr wyf fi fel y trefnodd fy Nghrëawdwr i mi fod, ac yr wyf yn gwbl hapus.

*Plen.* Wel, yr wyf fi yn synu sut yr wyt yn gallu canu fel yna, Robin. Gallwn i feddwl fod dy galon mor llawn o glodforedd nes mae dy big yn ffaelu agor digon i'w ollwng allan.

*Rob.* Ydyw, mae fy mynwes yn llawn awydd i glodfoni fy Nghrëawdwr. Ac, yn wir, yr wyf fi yn synu peth na byddet

athau yn ei ganmawl yn fwy. Yr wyt ti wedi cael cant o fenlithion ganddo am bob un a gefais i; tŷ i dy gysgodi rhag yr serfel a'r ystorm, tân i dy gynhesu, gwely i orwedd arno bob nos, lillad i'w gwisgo, bwyd yn ei bryd, a rhieni i ofalu am danat, a miloedd heblaw y rhai hyn. Yr wyt ti yn rhagori llawer ar yr adar, a dylai dy fawl i Dduw fod yn rhagori.

*Plen.* Yn wir, Robin, yr wyt wedi rhoddi gwers dda i mi—gwers nad anghofiaf yn fuan. Ceisiaf fod yn fwy diolchgar i Dduw, yn fwy serchog at fy rhieni, ac yn fwy caredig at yr adar bach o hyn allan.

*Rob.* Am dy fod yn fachgen mor dyner a serchog, mi gânaf dôn i ti cyn ymadael.

*Plen.* Diolch yn fawr i ti, anwyl Robin. Ond cyn ei chanu, lywed i mi pwy dy ddysgodd i ganu y tŷonau yna?

*Rob.* Y Gŵr a'm gwnaeth sydd wedi eu gosod ynof; 'does genyf i ddim ychwaneg o esboniad i'w roddi. Ond yn awr am y dôn:—

“Dirwestiaeth, Dirwestiaeth yw testun fy nghân,  
Ac yna chwi welwch fel hwyliaf ymlaen;  
Bum 'nawr yn y ffynnon yn gwlychu fy mhig,  
A bellach cydgordiaf â theulu y wig;  
*Dur gloew, DWR GLOEW, ie, dyna fy nghân,*  
A gallwn ei chanu trwy 'r dydd heb wahân.”

SULAMEES.

TEIMLO AM DDUW.

WYR ein darllenwyr, ond odid, fod Biblau yn awr wedi eu darparu i ddeillion i'w darllen. Mae y llythyrenau yn cael eu gwrthio i fyny yn wrym mewn papyr tew, fel y gallo y dall eu teimlo â'i fysedd.

Dywedai Esgob Janes o America, yn nghyfarfod blynyddol Cymdeithas y Bibl, yn Exeter Hall, Llundain, mis Mai diweddfaf:—Mae Cymdeithas y Bibl yn New York wedi cyhoeddi yr holl Bibl mewn llythyrenau wedi eu gwasgu i fyny, ar gyfer y deillion; ac yr ydym wedi gwasgar pum mil o gopiau o honynt rmysg y trueiniaid anffodus hyn.

Cefais y rhagorffaint o roddi un o'r Biblau hyn i ddynes ddall llawd, yr hon oedd yn naw mlwydd a deugain oed. Cafwyd cyfdeillion i'w dysgu i'w ddarllen; a chymaint oedd ei hawydd, fel y lysgodd ei ddarllen mewn amser byr iawn. Yr oedd ei llafur tyddiol, er hyny, yn rhwystr mawr iddi, gan ei fod yn caledu ei bysedd. Cymerai gyllell yn fynych i dori y cnawd i ffwrdd ar benau ei bysedd, er mwyn gallu teimlo y llythyrenau yn well. Fmhen amryw fisoedd, pan elwais i'w gwyled, yr oedd amryw o'r adalenau yn goch gan ei gwaed wrth deimlo am Dduw.

Gallasai honi ddyweyd, gydag Ioan, “Yr hyn a deimlodd ein lwyllaw am Air y bywyd.”



## FY MRAWD BACH.



WILLIAM bach, fy anwyl frawd,  
 Mor anwyl, *anwyl*, wyt i mi;  
 A llawen ydwyf—llawen iawn,  
 Dim ond cael gwel'd dy wyneb di.

Dy gyrliog wallt, dy lygad du,  
 A'th fwyn wefusau melfed coch!  
 Mor sawr yw swyn dy wyneb cu!—  
 Gad im' gael cusan ar dy fôch.

Ysgydwa di, fy angel bach,  
 Dy degan, uwch fy mhen y sy;  
 Os blina eraill gan ei drwst,  
 Mae 'i swn yn fwsig genyf fi.

Fy mrawd! fy mherlyn bychan tlws,  
 Chaiff dim dy wneuthur di yn drist;  
 Cei gyfaill ffyddlawn ynof fi,  
 A chyfaill gwell yn Iesu Grist.



## LLECH YN CADW YSGOL.



AE Dr. Hunt yn adrodd yr hanesyn difyr yma am dano ei  
 hun, pan oedd yn cadw ysgol yn Boston, America:—  
 Yr oedd cefnder i mi yn Charleston wedi marw, ac yr

oeddwn innau am fyned i'w gladdedigaeth. Yr unig anghen arnaf oedd cael rhywun i gymeryd gofal yr ysgol am y prydawn. Nid oeddwn yn foddllawn tori yr ysgol i fyny, ac nid oedd yr ysgolorion yn foddllawn i fs-athraw. Rhwng y ddau beth hyn, penderfynais ar y llwybr canlynol:—

Yr oedd genyf hen lech (*slate*) fawr hen ffasiwn—hen lech fy nhad—yn yr ysgol. Gosodais hono yn y gadair yn mhen yr ysgol, wedi ysgrifenu enwau y plant i gyd arni. Cyn eu gadael, dywedais wrth yr ysgolorion, “Yn awr, blant, pan darawo y cloc bump, ewch bob un i fyny at y llech yn araf, yn ol y drefn yr ydych yn eistedd; ac os byddwch wedi bod yn blant da, rhoddwch l ar gyfer eich enw; ond os buoch yn ddrwg, rhoddwch †. Wedi i mi ddychwelyd, âf yn union i edrych y llech i wybod sut y bydd wedi pasio. A bore 'fory darllenaf yr holl enwau yn eich gwydd oll, er mwyn cadarnhâu yr hyn fydd wedi ei ysgrifenu. Yn awr, fy mhlant, yr wyf yn ymddiried ynoch.”

Wedi dychwelyd, aethum i edrych y llech. Nid oedd ond un croes (†) i lawr, a hwnw ar gyfer yr enw diweddaf y buaswn yn ei ddysgwyl: yr oedd gyferbyn âg enw geneth fechan brydferth, ac un o'r rhai goreu yn yr ysgol. Nid yn unig yr oedd yn dda am ddysgu, ond yr oedd mor agored, mor onest, a dewr; pob peth yn hynod o addawol ynddi, heb ddim yn anffafriol, oddigerth fod ganddi rieni cyfoethog. Er gweled y marc ar gyfer ei henw, yr oedd yn anhawdd i mi gredu ei bod hi yn euog o ddim drwg.

Y bore ddaeth; darllenasais yr enwau; cydnabyddai pawb fod pobpeth yn gywir. Ond pan ddaethum at enw yr eneth fach a'r marc a nodwyd, dywedais,—

“Fy anwyl blentyn, rhaid i chwi egluro. Sut y mae hyn? Beth wnaethoch chwi?”

Trôdd ei golwg serchiadol, feddylgar, a'i chalon fechan yn llonaid ei gwyneb, ac atebodd,

“Chwerddais yn uchel. Chwerddais fwy nag unwaith—nis gallwn oddiwrtho—*wrth weled y llech yn cadw ysgol!*”



### EI GAIR OLAF.

“LLON'D EI ADDEWID YW.”

**B**U farw 'r epeth hawddgar,  
 Ond marw 'n hyfryd wnaeth;  
 Hi fu yn nwyllaw angeu,  
 Ond prin y teimlai 'i-saeth:  
 Aeth drwy yr hen Iorddonen,  
 Yn ngofal Iesu gwiw,  
 A chyda gwên, dywedai,—  
 “Llon'd ei addewid yw.”

Mae 'i rhiaint, druain, heddyw  
 Yn nghanol trallod mawr,



Gan lymder dwys eu hiraeth  
 Hwy wylant lawer awr;  
 Ond aml y cânt, er hyny,  
 Fawr esmwythâd i'w briw,  
 Wrth gofio 'r melus eiriau,—  
 "Llon'd ei addewid yw."

Cael gwasanaethu ei Harglwydd,  
 Dyrchafu 'n hardd ei fri,  
 A' byw yn sanctaidd iddo  
 Ddymunai 'i henaidd hi:  
 Er na cha'dd fod yn hirfaith  
 Yn gwasanaethu ei Duw,  
 Ca'dd dd'wedyd wrth noswyllo,—  
 "Llon'd ei addewid yw."

Y diwrnodd rhyfedd hwnw  
 Y canai 'n iach â'r byd,  
 Hi roddodd fythol ffarwel  
 I'w flin ofidiau i gyd;  
 Mae erbyn heddyw 'n dawel  
 Yn mynwes Iesu gwiw;  
 'R oedd nefoedd yn yr awgrym,—  
 "Llon'd ei addewid yw."

'R wyf finnau 'n myn'd i farw,  
 A'r dydd yn fuan ddaw,  
 Pryd caf fy hun yn nghanol  
 Ofnadwy ing a braw;  
 Ond os caf Iesu 'n Geidwad,  
 Caf ddyweyd wrth orphen byw,  
 Yn floesg â'm hanadl olaf,—  
 "Llon'd ei addewid yw."

*Rhydygwystl.*

GWYDDNO.

### DEFNYDDIAU TEML SOLOMON.

**TRADDODAI** y Proffeswr Silliman (un o enwogion America) ddarlith yn ddiweddar yn Nevada, yn yr hon y gwnaeth un sylw pur hynod. Wrth ddangos fod trysorau y ddaear yn anhysbyddadwy, dywedodd:—"Gellir profi cyflwr anhysbyddadwy y gwythïenau yn Nevada wrth eu cymharu â gwythïenau Cornwall yn Lloegr. Y mae yn hysbys fod gwythïenau Cornwall yn cael eu gweithio yn amser Solomon. Oddiyno y daeth yr alcan i ffurfio y presliw (*bronze*) â'r hwn yr addurnid y deml. Mae y gwythïenau hyny wedi cael eu gweithio am floedd o flynyddoedd; ac nid yw holl Dduciaeth Cornwall, o'r hon y mae y fath swm dirfawr o fetel wedi ei gloddio, ddim hanner cymaint a Swydd Lander, yn Nevada. Ac y mae gweithiau Cornwall yn cynnyrchu cymaint o fetel yn awr ag erioed, a gwythïenau newydd yn cael eu ffeindio yn fynych mor werthfawr a'r rhai

sydd wedi bod mewn gwaith parhâus am ganrifoedd. Gwythienau teneu yw rhai Cornwall, ac yn gorwedd mewn ithfaen (*granite*), yr un fath a gwythienau Awstin, Swydd Lander. Os yw y rheiny wedi para am gynifer o filoedd o flynyddoedd, ac wedi troi allan y fath swm aruthrol o fetel, pahan nad all y gwythienau hyn wneyd hyny?"

ERGYD I UNDODWR.

**D**YGWYDDODD i D. M., saer maen o Geredigion, fod yn treulio Sabbath mewn ardal Undodaidd, ac aeth i'r Ysgol Sabbothol. Y bennod a ddarllenid yn y dosbarth yr aeth ef iddo oedd y 5ed o Marc, lle y ceir hanes Iesu Grist yn iachâu y wraig â'r dyferlif. Wedi i Daniel ddarllen y 30ain adnod, gofynodd yr athraw iddo,

"Wel, Daniel, a ydych chiwi yn credu fod Iesu Grist yn hollwybodol?"

"Ydwyf, oblegid yr wyf yn credu ei fod yn Dduw," oedd yr ateb.

"O, felly; dyna yw eich barn chiwi, druan."

"Ië," ebai Daniel, "a dyna yw barn y Bibl hefyd."

"Pe buasai yn hollwybodol," ebai'r athraw Undodaidd yn watwarus, "pa raid fuasai iddo ofyn, 'Pwy a gyffyrddodd â'm dillad?'"

"A ydych chiwi yn credu fod Duw y Tad yn hollwybodol?" gofynai Daniel.

"Ydwyf, oblegid mae Psalm cxxxix. yn profi hyny."

"Os felly, pahan y gofynai i Adda yn ngardd Eden, 'Adda, pa le yr wyt ti?'"

Aeth yr Undodwr yn fud, a chymerodd Daniel y cyflêusdra i ddyweyd mai amcan Crist yn gofyn y cwestiwn oedd er cyhoeddi ffydd a gostyngeddrrwydd y wraig; a bod y gair a ddywedodd,— "fyned rhinwedd allan o hono"—yn brawf eglur o'i Dduwdod. Ni ddywedir hyn am neb dynion, ac yr oedd yr Apostolion bob amser yn cydnabod fod y rhinwedd i iachâu yn dyfod o le arall.—*Oddiworth Awyrydd.*

ARFAETH IOR.

(*Yr awdwr yn anadnabyddus.*)

**H**AWS f'ai i'r aderyn egwan  
 Gario 'r Andes yn ei big,  
 Llawer haws i'r brithyll bychan,  
 Lyncu Môr y Dê mewn dig;  
 Haws a fyddai i'r morgrugyn  
 Yru 'r Alps o'i flaen i'r môr,  
 Nag i ddyfais dyn na diafol  
 I ddymchwelyd Arfaeth Iôr.



### Y DANADL A'R VIOLET.

**D**R oedd Danadl a blodeuyn bach *Violet*, neu 'sanau'r gôg (gwel y darlun), yn tyfu yn ymyl eu gilydd ar y clawdd, ar ddiwrnod hyfryd yn y gwanwyn diweddaf.

"Bore da i ti, Miss Violet," ebai'r Danadl garw.

"Bore da i tithau, Mr. Danadl, ebai'r Violet, mewn llais mwyn-aid a charedig.

"Roddwn i ddim llawer am dy fywyd di, Miss, os oes llawer o'r dyddiau hyn i fod," ebai'r Danadl; "gelli fod yn sicr y daw rhywrai heibio i dy dori, a rhoi pen ar dy fywyd."

“Mae hyny yn ddigon posibl,” ebai'r Violet; “ond gobeithio na idaw. Byddai yn well genyf gael aros yma am ychydig i fwynhâu yr haul a'r awel hyfryd.”

“Cei weled, y peth bach, fy mod i yn dyweyd y gwir,” ychwanegai y Danadl yn ffrostfalch. “Dyna fel mae y byd yn arfer gwneyd â thi, druan, ond y mae yn fy mharchu i. Pa bryd y gwelaist neb yn beiddio casglu y Danadl? Na, na! os cyffyrddant i mi, yr wyf yn rhoddi rhywbeth iddynt a bâr iddynt gofio am lanaf. A phe buasai genyt tithau gelyn llym neu ddau, rhoddaswn fy ngair y gadawsent di yn llonydd.”

“Fe allai hyny,” ebai'r Violet, “ac eto y mae yn well genyf fi fod fel yr ydwyf, heb yr un colyn. Waith, os ydynt yn fy nghasglu, y maent yn ei wneyd oddiar gariad ataf; ac os ydynt yn dy adael dithau yn llonydd, nid am eu bod yn dy garu cymaint. Nid wyf am gael fy nhori oddiar y clawdd; ond os torir fi, fy nhori i'm dwyn i ystafell y claf y byddant, neu i fy rhoddi yn arheg i ryw anwylyd; ac fe allai y geysd hono fi rhwng dail llyfr hoff ganddi, lle y caf fy nghadw yn barchus am flynyddoedd, i fod yn destun sylw y plant a'r wryon. Ni chei di byth gymaint o barch, Mr. Danadl. A phe torid fi yn awr, byddet ti dy hunan yn rhwym c brofi colled, oblegid yr wyt yn hoffi cadw yn fy ymyl, a ffroeni fy arogl hyfryd ddydd ar ol dydd. Ni charwn ddyweyd dim cas, ond gallaf ddyweyd hyny yn eöfn, dy fod di dipyn gwell o fy mod i yn tyfu yn dy ymyl. Yr wyt yn gwybod, ac yn barod i gyfaddef hyn, onid wyt?”

Cyn iddo gael amser i ateb, yr oedd y dyn a'r cryman yn medi y Danadl i lawr, a gadawyd y Violet yn ddiogel wrthi ei hun, i fwynhâu gwenau yr haul, ac anadl gynhes yr awel.

“Ië,” ychwanegai y Violet fechan, “Os bydd eraill yn ein drygu ni, y mae yn well teimlo *nad oes ynom ni duedd na gallu i'w drygu hwy.*”—*Blind Amos.*



## GWAS'NAETHWCH EICH HUNAIN, BLANT.

**P**ETH da iawn yw arfer plant o'u mebyd i fyny i wneyd pob peth a allont iddynt eu hunain, ac nid galw ar y fam, y chwaer, neu y forwyn, i wneyd pobpeth iddynt. Mae plant yn llawn gweithgarwch; rhaid iddynt wneyd rhywbeth yn barhâus; ac wrth eu harfer a'u dysgyblu, delent i wneyd pethau fyddo eisieu eu gwneyd iddynt eu hunain.

Dylid eu harfer i adael eu hystafell wely bob bore mewn trefn weddus a chryno: dillad y gwely yn eu lle; y llestri ymolchi, y tywel, y crib, a'r brush, a'r cadeiriau oll, fel y cawsant hwynt. Dylent gadw eu dillad eu hunain yn lân a chryno; a myned i geisio pob peth fydd arnynt eisieu, ac nid galw ar arall i ddyfod âg ef. Peidied y plant byth a galw am eu hesgidiau. Elent eu

hunain i'w ceisio; rhoddent hwy ar eu traed, gan eu cau a'u cylymu eu hunain. Nid oes unrhyw blant yn rhy uchel fel na ddylid eu harfer, hyd ag y byddo yn bosibl, i fyw arnynt eu hunain. Bydd yn addysg werthfawr iddynt erbyn tyfu i fyny.



## DYDDANION.

### CWYMPO ALLAN.

**M**AE rhai yn ymddangos yn anfoddog os na byddant yn cwmpo allan â rhywrai. Dywedai Dr. Johnson am un o'r cyfryw, "Pe buasai ganddo gymaint a dau ddrychfeddwl yn ei ben, y buasai un o honynt yn sicr o gwmpo allan â'r llall."

### DYFAIS I GAEL ARIAN.

**P**R oedd PHILLIP THICKNESSE, tad Arglwydd Audley, unwaith mewn anghen arian; ceisiodd help gan ei fab, ond gwrthododd ei fab ei gais. Yn y fan aeth a chymerodd ystafell cobler, oedd gyferbyn a phalas ei fab, gosododd estyllen uwch ben yr ystafell, a'r geiriau canlynol mewn llythyrenan breision arni, "Cyweirir yma fotasau ac esgidiau yn y modd goreu a rhataf, gan Phillip Thicknesse, tad Arglwydd Audley." Parodd ei Arglwyddiaeth symud yr astell, a rhoddodd arian i'w dad.

### PENBLETH Y BEIRDD.

**M**AE Cottle, yn ei "Hanes bywyd Coleridge," yn adrodd yr hanesyn digrifol a ganlyn:—Dygais fy ngheffyl i'r ystabl, tynais yr harnes i fwrdd, ond yn fy myw nis gallwn dynu y coler oddiam ei wddf. Wedi methu, gelwais ar Mr. Wordsworth (bardd enwog arall), i ddyfod i'm cynnorthwyo. Ond wedi amryw gynnygion egnïol gan fy nghyfaill, rhoddodd yntau y gorchwyl i fyny fel peth anhosibl. Treiodd Coleridge ei law yn drydydd, ond heb fod yn fwy llwyddiannus na ninnau; oblegid ar ol troi a nyddu gwddf y ceffyl nes agos ei dagu, rhoddodd y tasg i fyny, gan ddyweyd y rhaid fod ei ben wedi tyfu ar ol gosod y coler hwnw drosto, am ei fod yn beth anhosibl i benglog mor fawr fyned trwy dwll mor fychan. Erbyn hyn yr oedd morwyn fechan wedi dyfod i mewn i'r ystabl, ac wrth edrych ar ymdrech Coleridge, dywedodd, "Ha! syr, nid dyna y ffordd." Ymasfodd yr eneth yn y coler, trôdd ef â'r pen uchaf i lawr, a thynodd ef i fwrdd gyda'r hawsder mwyaf, er ein mawr syndod a'n cywilydd. Gwelsom ein tri fod gwybodaeth lawer vn y byd eto, nad oeddem ni wedi ei gyrhaeddyd.



## TRYSORFA Y PLANT.

RHIF. XLIV.]

AWST, 1865.

[CYF. IV.

### CYNIFER O ALWADAU.

**B**R oedd yn brydnawn clir ac iachus yn niwedd mis Rhagfyr, pan ddychwelodd Mr. Andrews o'i swyddfa i ganol cysuron tân glo dysglaer, a chadair fraich esmwyth, yn ei barlwr gartref. Newidiodd ei esgidiau am bâr o *slippers*, taflodd ei hun yn ôl yn ei gadair, ac edrychai i fyny ac oddiamgylch fel dyn wrth ei fodd. Eto, wrth sylwi yn fanwl, gellid gwled fod cwmwl bychan ar ei ael.

Beth allai fod y mater? Hyn ydoedd, a dyweyd y gwir yn blaen. Yr oedd goruchwylwr un o'r Cymdeithasau Crefyddol wedi galw gydag ef yn ei swyddfa, ac wedi dangos iddo trwy gymhellion rhesymol y dylasai ddyblu ar ei dansgrifiad blynyddol arferol.

"Mae y bobl yn meddwl, mi dybiwn," meddai wrtho ei hun, "fy mod i wedi fy ngwneyd o arian. Dyma y pedwerydd achos y flwyddyn hon y buwyd yn gwasgu arnaf i ddyblu fy nhangrifiadau atynt. Ac y mae y flwyddyn wedi bod yn gostus iawn i mi gyda phethau teuluaidd—celfi, carpedau, lleni, ac ni wn i ddim faint o bethau. Wn i ddim, yn sicr, sut y gallaf roddi un geiniog yn ychwaneg mewn tansgrifiadau. Heblaw hyn, dyna filiau y bechgyn a'r merched; ac y maent yn dyweyd y rhaid i bod un o honynt gael cymaint arall wedi i ni symud i'r tŷ hwn. Mae yn ammheus genyf a wnaethum yn iawn wrth ei adeiladu."

Fel hyn y bu yn siarad âg ef ei hun, ac yn meddwl, ac yn

myfyrio, nes o'r diwedd iddo syrthio i gwsig. Yn ei gwsg tybiai glywed rhywun yn curo wrth y drws. O'i flaen safai dyn tlawd ei wedd, mewn gwisg gyffredin, a gofynai mewn llais mwynaid am genad i siarad ychydig fynyddau â'r gŵr. Galwodd Mr. Andrews ef i'r parlwr, a rhoddodd gadair iddo o flaen y tân. Estynodd y gŵr dyeithr bapwr iddo, a dywedodd, "Dyma eich tansgrifiadau am y flwyddyn ddiweddfaf tuag at y cenadaethau; gwyddoch fod galwadau trymion yn awr, ac yr wyf wedi galw i weled a ellwch chwi roddi tipyn yn ychwaneg."

Yr oedd agwedd isel a llais tyner a gostyngedig y dyeithr wedi cael argraff dwfn ar feddwl Mr. Andrews, ac wedi ei dafu i gryn ddyrswch. Bu am ychydig yn fud, heb wybod beth i'w ateb. O'r diwedd dechreuodd gasglu yr esgusodion y bu yn meddwl am danynt trwy y prydawn, ac yn cwyno at galedi yr amseroedd, yr anhawsdra i gasglu arian, a threuliadau trymion y teulu.

Tafodd y dyeithr drem dawl dros yr ystafell, y celfi drudfawr, a'r darluniau costus oedd ar y muriau; ond heb ddyweyd yr un gair, cymerodd y papwr yn ôl o law gŵr y tŷ, a rhoddodd iddo bapwr arall yn ei le.

"Dyma," ebai, "eich tansgrifiad at Gymdeithas y Traethodau; a oes genych rywbeth i ychwanegu ato? Gwyddoch faint mae yn wneyd, a faint yn ychwaneg garai wneyd, pe gwnelai Cristionogion ei hanrhegu â'r moddion. Ydych chwi yn teimlo ar eich calon i ychwanegu ychydig at hon?"

Gwnaeth y cais yma feddwl Mr. Andrews yn bur anesmwyth; ond yr oedd rhywbeth yn null tyner a thawel y gŵr dyeithr yn ei gadw rhag dyweyd dim yn arw; ond dywedodd fod yn ddrwg ganddo nad oedd ei amgylchiadau yn caniatáu iddo wneyd dim yn ychwaneg y flwyddyn hon.

Derbyniodd y gŵr dyeithr y papwr yn ôl heb unrhyw atebiad; ond estynodd yn ei le yr un foment bapwr tansgrifiadau Cymdeithas y Bibl, gan adgofio iddo ei hawliau, a dymuno arno ychwanegu at ei dansgrifiad.

Collodd Mr. Andrews ei amynedd. "Oni ddywedais eisoes," ebai, "nas gallwyf roddi ychwaneg y flwyddyn hon at yr un o'r Cymdeithasau? 'Does dim diwedd ar y galwadau y dyddiau hyn. Ar y cyntaf, dim ond rhyw dri neu bedwar o achosion y gelwid arnaf i gyfranu atynt, ac ni ofynid ond symiau cymedrol. Ond yn awr mae yr achosion yn cynnyddu bob dydd, a galwadau am arian atynt. Ac ar ol rhoddi unwaith, dysgwylir i ni ddyblu a threblu ein rhoddion. 'Does dim diwedd i'r peth. Cystal rhoddi terfyn i'r peth mewn un man a rhyw fan arall."

Cymerodd y gŵr dyeithr y papwr yn ôl. Cododd ar ei draed, sefydlodd ei lygad ar ŵr y tŷ, a dywedodd mewn llais dreiddiodd trwy ei holl enaid, "Blwyddyn i heno yr oeddech chwi yn tybied fod eich merch yn marw; nis gallech orphwys mynyd gan ing meddwl; ar bwy y darfu i chwi alw y nos hono?"

Cyfrôdd y masnachwr drwyddo, ac edrychodd i fyny; gallasai feddwl fod holl wedd ei ymwelydd wedi newid, yr hwn oedd o

hyd yn cadw ei drem dawel a threiddgar arno. Gogwyddodd Mr. Andrews yn ei ôl, gorchuddiodd ei wyneb, ond ni roddodd unrhyw atebiad. Wedi mynyd o ddystawrwydd poenus, nesäodd y dyeithr yn nês eto, a dywedodd mewn llais is, ond mwy treiddgar fyth,—

“Ydych chwi yn cofio bymtheng mlynedd yn ol, pan oeddech yn teimlo eich hunan yn golledig, yn ddiymgeledd, a diobaith; pan dreuliech y dydd a'r nos mewn gweddi; pan roddasech yr holl fyd am wybod fod eich pechodau wedi eu maddeu? Ar bwy oeddech chwi yn *galw* y pryd hwnw, a phwy a wrandawodd?”

“Ar Dduw, Duw fy lachawdwr!” ebai'r masnachwr mewn cyffro edifeiriol.” “O, ie, Efe ydoedd!”

“Ac a ddarfu iddo ef erioed gwyno fod y galwadau arno yn rhy aml!” gofynai y dyeithr mewn tön mor dynner, fel yr oedd yn fflangell drom ar y grwgnachwr. “Dywedwch,” ychwanegai, “ydych chwi yn foddolawn i ddechreu heno i beidio gofyn dim mwy ganddo Ef, os gwna yntau beidio gofyn dim mwy genych chwi?”

“O, nac ydwyf, nac ydwyf, nac ydwyf!” ebai'r masnachwr, gan ymdafu wrth ei draed. Ond gyda'r geiriau hyn diflanodd y gŵr dyeithr o'i olwg, a deffrôdd yntau o'i gwsg, a'i holl enaid wedi ei gynhyrfu ynddo.

“O Arglwydd Dduw fy lachawdwr! pa beth wyf wedi wneyd?” gwaeddodd y masnachwr mewn dagrau. “Cymer y cwbl—cymer fy holl feddiant! Beth yw y cwbl sydd genyf fi wrth yr hyn wyt Ti wedi wneyd drosod fi!”



SEFYLLFA PABYDDIAETH YN MHRYDAIN.

**PA** AE y cyfrifon canlynol wedi eu cymeryd o Almanac y Pabyddion (“*Roman Catholic Almanack*”) am y flwyddyn hon, ac y mae yn dra theilwng o sylw difrifol Protestaniaid ein gwlad;—

Yn 1829. Yn 1861. Yn 1865. Cynnydd oddiar 1829.

|                                |     |     |      |     |      |     |      |
|--------------------------------|-----|-----|------|-----|------|-----|------|
| Offeiriaid Pabaidd yn Nghymru, |     |     |      |     |      |     |      |
| Lloegr, ac Ysgotland .....     | 447 | ... | 1388 | ... | 1521 | ... | 1074 |
| Capeli, &c. ....               | 449 | ... | 1019 | ... | 1132 | ... | 683  |
| Mynachlogydd .....             | 0   | ... | 50   | ... | 58   | ... | 58   |
| Mynachdai .....                | 16  | ... | 162  | ... | 201  | ... | 185  |
| Colegau .....                  | 2   | ... | 12   | ... | 12   | ... | 10   |

Dengys y daflen ganlynol eto fod Llywodraeth ein gwlad yn cyfranu swm mawr o arian bob blwyddyn er cynnal Pabyddion a Phabyddiaeth. Telir yn flynyddol—I gapleniaid Pabaidd yn y fyddin, £10,262; at Ysgolion Pabaidd yn Mhrydain, £32,108; at Ysgolion Diwygiadol (*Reformatory Schools*), £14,127; at Goleg Maynooth, £26,000; at Ysgolion i ddysgu plant Pabaidd yn Iwerddon, £244,000; Capleniaid mewn carchardai a gweithdai yn Iwerddon, £10,000; i Babyddion yn India a'r Trefedigaethau, £40,000; Ysgolion Diwygiadol yn Iwerddon, £8965. Cyfanswm taliadau blynyddol, £385,462.



## BIBL FY MAM.

*(My Mother's Bible.)*

GAN J. CEIRIOG HUGHES.

**D** CYFAN oll sydd geny 'n awr  
 Yn y cyfanfyd crwn,  
 Yw 'r fendigedig gyfrol hon  
 Y Bibl anwyl hwn.  
 Mae 'n dechreu gyda dalen deg  
 Ein pren teuluaidd ni:  
 Fy mam wrth farw—megys mam  
 A roddodd hwn i mi.

'R wy 'n cofio 'n dda rai enwan hoff,  
 Ar ddechreu 'r gyfrol hon;  
 Fy mrawd, fy chwaer, a'r baban bach  
 Fu farw wrth y fron.  
 'R wy 'n cofio 'r hwyr darllenai 'nhad  
 Am Grist ac angeu loes:  
 Ac fel y codai 'r Bibl hwn  
 Wrth son am angeu loes.

Mi dreuliais lawer awr erioed  
 Wrth feddwl am y fan:  
 'R wy 'n gwel'd y teulu 'n fyw er fod  
 Eu beddau yn y Llan.  
 'R wy 'n gwel'd y plant ar derfyn dydd,  
 A'r bychan byr ei gam  
 Yn myned ar ei liniau bach  
 Wrth lin fy anwyl fam.

Mae 'r byd yn wag, cofleidiaf di  
 Fy Mibl anwyl iawn:  
 Y fynwent a'th ddalenau di  
 Yw 'r unig bethau llawn.  
 Esmwythi di fy ffordd i'r bedd  
 Wrth ddysgu 'r ffordd i fyw:  
 Crynedig ddwyllaw fo 'n dy ddal,  
 Fys anweledig Duw!

*Lledgyfeithiad.*

## Y CWESTIYNAU GWOBRWYEDIG.

15. **D**A le mae yr adnod sydd yn dyweyd am ddynion yn cyflawni defodau addoliad i'r offer trwy ba rai yr enmillent eu bywioliaeth?
16. Pwy oedd y dyn y dygwyd ei ben gan ei elynion, eilw addolgar i'w arddangos i'w delwau?

YMYL Y FARIL.

**M**EWN man yn ddiweddar, cwynai dyn oedd yn arfer mynychu tafarndai, wrth y frawdoliaeth, fod ei blant yn llithro y naill ar ol y llall i feddwod. Ar ol gwrando ei adroddiad yn astud, atebwyd ef gan ddiakon parchus â'r hanesyn pwrpasol a ganlyn:—Mae yn gofus genyf, Siôn, fod gau yr hen wraig acw faril wrth gefn y tŷ i gadw bwyd môch. I hono y byddai yn taffu y crystiau, a gweddillion prydiau bwyd. Un tro, yr oedd genym iâr yn maga haid o gywion. Un daer am ei thamaid oedd yr iâr, a byddai yn fynch yn esgyn i ymyl y faril, a gyda'i cheg hir yn codi tameidiau o fara o'r faril, ac yn ei daffu i lawr i'r cywion i'w fwyta. Mor gynted ag y daethant yn abl, dechreuodd y cywion ehedeg i ymyl y faril; ond nid oeddent mor fedrus i sefyll fan hono a'r hen iâr, a'r canlyniad oedd iddynt syrthio i mewn a boddi. Yr wyf yn meddwl mai dyna fu diwedd yr holl gywion. Yr ydych chwithau, Siôn, wedi bod yn rhy hoff o ymyl y faril, ac y mae eich plant, wrth ddilyn eich esiampl, wedi syrthio i mewn.

Rieni! peidiwch gwneyd dim ag y bydd perygl i'ch plant eich dilyn.

T. H.



YR HAUL.

**H**R heulwen ddysglær emog,  
Mal coron aur odidog,  
Gwiw frenin y ffurfafen gref,  
A llygad nef gwmpasog.

Crwn begwn cry', y peiriant  
Wnaeth Brenin y Gogoniant;  
Dyferyn o'r doethineb oedd  
Yn foroedd yn ei feddiant.


Mae 'r purdeb coeth ganfyddir  
Yn ddysglær yn dy natur,  
Yn dyweyd mai pur oleuni yw  
Crëawdwr pob crëadur.

A'i fod fel ti yn hanfod,  
Sy 'n gwrthod gwneuthur cymmod  
Ag unrhyw erchyll weithred hyll,  
Yn nhywyll deyrnas pechod.

Cyfranu wyt yn wastad  
Oleuni i'n byd amddifad,  
Gan ddyweyd mai hael yn wir yw Duw,  
A'i hanfod ydyw cariad.

*Maes y Pwll.*

AMICUS.



## YSTLUM.

**GR**ADUR yw hwn yn tebygu mewn rhan i anifail, ac mewn rhan i aderyn. Eheda fel aderyn trwy estyn allan fath o groen neu bilen, sydd gysylltiedig â'i draed blaen; ond safn anifail, ac nid pig neu gylfin sydd ganddo. Arwisgir ef â blew, ac nid â phlu; dŷg ei rai ieuainc yn fyw, ac nid o wŷau, ac y mae ei gorff yn debyg i lygoden. Mae dwy ddiaden neu deth gan y fenyw, ac eppilia ddau ar unwaith. Eheda weithiau â'i rai ieuainc yn glynu wrth y didenau. Yn y gauaf ymorchuddiant â'u hadenydd, a chysgant yn ngrôg mewn ogofeydd neu hen adeiladau. Yn yr haf, ymguddiant y dydd, ac ehedant oddiamgylch yn yr hwyr, i ddal ednogiaid. Ymborthant ar ednogiaid, gwêr, olew, caws, &c. Dywedir fod rhai cymaint ag ieir yn China, a Golconda, a bod y trigolion yn eu bwyta. Mae ystlumod mawrion hefyd yn Brazil a Madagascar, y rhai, os cânt ddyn yn cysgu â rhan o'i gorff yn noeth, a ddisgynant arno, ac a sugnant ei waed i farwolaeth. Gwelir ei fod yn grëadur aflan dan gyfraith Moses; Lef. xi. 19; Deut. xiv. 19.—*Geiriadur Charles.*

OND LLWYBR Y CYFLAWN SYDD FEL  
 Y GOLEUNI, YR HWN A LEWYRCHA  
 FWYFWY HYD GANOL DYDD.—DIAB-  
 EBION PEN. IV. ADN. 18.

Y DECHREU A'R DIWEDD.



Y DECHREU.

YN bwyd na gwisgo, gwelwch Gwen,  
 Yn dringo i ben y gader,  
 A myn'd i'r cwpbwrdd bach yn glic  
 Gael llymaid bach o licer.  
 Ond "moddion doctor" chwerw, poeth,  
 Yn annoeth lyncodd Gwenny,  
 A llefodd allan dros y tŷ,—  
 "Mae 'nhafod wedi llothgi!"



Y DIWEDD.

Mae 'n awr yn hen, heb ffydd na ffawd,  
 Yn dlawd, a drwg ei hanel;  
 Heb dda, heb ddyn, heb Dduw yn wir,  
 Na chysur ond y botel.

## CATECISM DIRWESTOL.

(I'r Band of Hope.)

## PENNOD I.—BETH A DDYWED YR YSGRYTHYR?

- Q**OF. A yw y Bibl yn son llawer am ddiodydd meddwol?  
**A**teb. Ydyw, lawer iawn, yn yr Hen Destament a'r Newydd.
- Q**. Dan ba enwau y sonir am danynt yn y Bibl?  
**A**. Dan yr enwau gwin, a diod gref, neu ddiodydd gadarn.
- Q**. Ai yr un ddiodydd feddylir bob amser wrth y gair *gwin* yn y Bibl?  
**A**. Nage; ond y mae lliaws o wahanol ddiodydd yn cael eu galw yn *win* rhai yn feddwol, a rhai heb fod yn feddwol.
- Q**. Pa beth ydoedd "diod gref" y Bibl?  
**A**. Gwinoedd wedi eu cymysgu â chyfferi meddwol.
- Q**. Ai am fod y ddiodydd hono yn cryfhâu y cyfansoddiad y gelwir hi yn ddiodydd gref?  
**A**. Nage; ond am ei bod yn rhy gref i'r cyfansoddiad ddal dani heb feddwi, neu ddyrysu y synwrau. Rhoddwyd siars i Samson—y dyn cryfaf—ac i'w fam cyn ei eni, i beidio yfed gwin na diodydd gadarn; Barn. xiii. 7.
- Q**. Beth yw yr hanes cyntaf a geir yn y Bibl am ddiodydd meddwol?  
**A**. Hanes galarus Noah yn syrthio i feddwod; Gen. ix. 21.
- Q**. A fu canlyniadau gofidus i'w feddwod?  
**A**. Do; pechodd yn erbyn Duw, diraddiodd ei hun, a dygodd felldith ar ei hiliogaeth; Gen. ix. 21—25.
- Q**. A oes hanes yn Genesis am feddwod dyn duwiol arall?  
**A**. Oes; meddwyd Lot gan ei ferched, ar ol ei waredu o Sodom; Gen. xix. 32.
- Q**. A ddaeth drygau mawr o'r meddwod hwn?  
**A**. Do; cyflawnodd Lot bechodau rhyfygus, a dygodd ei feddwod ddwy genedl elynol i'r Arglwydd a'i bobl i fod—sef y Moabiaid a'r Ammoniaid; Gen. xix. 37, 38.
- Q**. Onid oedd gwin, neu ddiodydd gadarn, yn cael eu defnyddio gyda'r offrymau gynt yn ngwasanaeth yr Arglwydd?  
**A**. Oedd; ond rhoddwyd siars Ddwyfol i'r offeiriaid ymgadw yn hollol oddiwrthynt; Lef. x. 9.
- Q**. A yw y Bibl yn rhybuddio eraill, heblaw yr offeiriaid, i'w gochelyd?  
**A**. Ydyw; "Nid gweddaidd i freninoedd yfed gwin, na phenaduriaid ddiodydd gadarn;" Diar. xxxi. 4.
- Q**. A oes rhybuddion mwy cyffredinol eto ynddo?  
**A**. Oes; dywed Solomon, y doethaf o ddynion—"Gwatwarus yw gwin, a therfysgaidd yw diodydd gadarn; y neb a siomir ynddi nid yw ddoeth;" Diar. xxi. 1.
- Q**. A ydych yn cofio rhybudd arall o eiddo Solomon yn eu cylch?

A. "Nac edrych ar y gwin pan fyddo coch, pan ddangoso ei liw yn y cwpan, pan ymgynhyrfo yn iawn; yn y diwedd efe a frath fel y sarph, ac a biga fel neidr;" Diar. xxiii. 31, 32.

G. Beth a ddywed yr Arglwydd trwy y prophwyd Esaiah am y diodydd hyn?

A. "Gwae y rhai a gyfodant yn fore i ddilyn diod gadarn, a arosant hyd yr hwyr, hyd oni ennyno y gwin hwynt;" Esa. v. 11. "Chwerw fydd diod gref i'r rhai a'i hyfant;" Esa. xxiv. 9.

G. A yw y Testament Newydd yn dyweyd yn erbyn y diodydd sydd yn meddwi?

A. Ydyw; "Na feddwer chwi gan win." "Ni chaiff meddwon etifeddu teyrnas Dduw;" Eph. v. 18; 1 Cor. vi. 10.

G. A oes gorchymyn pendant yn y Bibl i ymwrthod yn llwyr â'r diodydd hyn?

A. Nac oes, yr un gorchymyn ffurfiol; ond dywed y dylem ymwrthod â phobpeth sydd yn niwed i ni ein hunain, neu yn llygru eraill.

G. Pa adnod a ellwch nodi yn cynnwys egwyddor llwyr-ymwrthodiad?

A. "O achos bwyd na ddinystria waith Duw. Da yw na fwyt-äer cig, ac nad yfer gwin, na dim, trwy yr hyn y tramgwydder, neu y rhwystrer, neu y gwanhäer dy frawd;" Rhuf. xiv. 20, 21.

G. Onid yw yr un gŵr ag a lefarodd y geiriau yna yn annog Timotheus i "arfer ychydig win?"

A. Ydyw, yn feddyginiaethol; ond y mae hyny yn profi nad oedd Timotheus yn arfer yfed gwin. Ac nid oes un sail yn annogaeth Paul i neb arfer gwin fel diod gyffredin.

G. Onid oedd Crist ei hun yn yfed gwin?

A. (1.) Nid oes neb yn dyweyd hyny ond ei elynion; ac os credwn ei fod yn "yfwr gwin" ar eu hachwyniad hwy, rhaid credu ei fod "yn ddyn glwth" hefyd.

(2.) Mae yr achwyniad hwn yn dangos fod yfed gwin yn y dyddiau hyny yn cael ei ystyried yn gymaint drwg a glyth-ineb.

G. Oni thrôdd Iesu Grist lonaid chwe' dyfrlestr o ddwfr yn win yn Cana?

A. Na, nid oes yr un sail i dybied i'r holl ddwfr gael ei wneyd yn win, ond yn unig yr hyn a ollyngwyd o honynt; ac nid oes un sail i dybied fod hwn yn feddwol.

G. Oni ddywedir mai "y gwin goreu" ydoedd?

A. Y "gwin goreu," fel y deallid ef y dyddiau hyny, oedd y gwin lleiaf meddwol.

G. Onid oes llawer o Ysgrythyrau yn son am y gwin mewn modd ffafriol?

A. Mae oedentu ugain o adnodau yn y Bibl yn son am win mewn modd cymeradwyol; ond bernir gan ddynion dysgedig mai cyfeirio at win anfeddwol y mae y rhei'ny oll.

G. Pa faint o Ysgrythyrau sydd yn arfer ymadroddion anghymeradwyol am y diodydd hyn?

A. Y mae oddeutu *cant a deg ar hugain* o rybuddion a gochel-iadau yn y Bibl yn eu cylch; a dylem garu y Bibl yn fwy, am ei fod yn gosod ei wyneb mor gryf yn erbyn meddwdod, ac yn erbyn pob temtasiwn sydd yn arwain iddo.



## Y NOS.

**A**'I wedd mal dysglær em,  
Machluda 'r huan draw,  
A gwel ei euraidd olaf drëm,  
Dros gopa 'r bryn gerllaw;  
A'r dywell nos yn d'od,  
O dragwyddoldeb pell,  
Gan araf deg ymwithio i fod  
O anweledig gell.

Mae anian dlos yn brudd—  
Gwlith ddagrau 'n treigle i lawr  
Dros aml-liwiog wylaidd rudd  
Ddillynaidd daear fawr;  
Ymblygu 'n wylaidd iawn,  
Gan ber-lewygu 'n brudd;  
Mae 'r blodau pur yn ol eu dawn,  
Yn wylo 'r ol y dydd.

Mae myrdd o ednod mân  
Yn gwneyd y wig yn fyw,  
Wrth brudd alawi galar-gân,  
Ar ol yr huan gwiw;  
Fe sia 'r awel iach,  
Gan uno yn y côr;  
A dwys sisiala 'r afon fach  
Wrth droelli tua 'r môr.

Ymddyrrha 'r bryniau fry,  
Daw cymyl fyrdd i lawr,  
I wneuthur un alarwisg ddu  
Ar ol yr huan mawr:  
Mae 'r lleuad ddystaw wên,  
A'r myrdd ganwyllau mân,  
Yn chwilio 'r dolydd mawr uwch ben.  
Am wên yr huan glân.

Aeth anian enyd awr,  
Mor ddystaw ag erioed;  
Mae pawb—pob peth—yn fach a mawr,  
Am glywed trwst ei droed;  
Ond Ha! yr huan cân,  
Dros gaerau 'r dwyrain sydd  
Mewn cerbyd gwyech yn d'od i'r lân,  
Gan agor dorau 'r dydd.



YR ADEILADWYR IEUAINC.

**D**R oedd pedwar o fechgyn unwaith yn chwaraeu ar dwmpath cèrygog; ac ar ol difyru eu hunain gydag amryw chwareuon, dywedodd un,

“Hoi, fechgyn, gadewch i ni gael adeiladu tyrau o’r cèryg yma.”

“O’r goreu, de’wch,” ebe’r llall, “ac am yr uchaf ei dŵr erbyn amser cinio.”

Aethant ati ill pedwar o ddifrif; ac ymhen oddeutu awr, yr oedd dau o honynt wedi codi eu tyrau yn uchel iawn, tra yr oedd y ddau eraill ymhell ar ol, ac un ond yn brin wedi gosod y sail. Yr oedd hwnw yn cymeryd traferth i gloddio i gael sylfaen dda, tra yr oedd y lleill wedi brysio i adeiladu heb ddim sail, a’r cèryg isaf ganddynt yn anwastad a sigledig.

“Halo, Tom!” gwaeddai un o honynt, “y mae fy nhŵr i agos c’uwch a fy mhnen, tra nad yw dy un di c’uwch a dy ben lin.”

Carasai Tom fod â’i dŵr yn uwch, ond yr oedd yn gweithio yn ddystaw, mor ddyfal a’r un o honynt, ac yn fwy diogel.

Ymhen ychydig amser, syrthiodd adeilad uchel William yn garn, a tharawodd un o’r cèryg ef ar ei droed nes ei archolli yn dost. Cwmpodd un Dafydd eilwaith, ond diangodd ef heb gael anaf. Erbyn hyn yr oedd Tom a’i dŵr yn uwch na’r un o honynt, a mwy na hyny, yr oedd wedi cymeryd amser a phwyll i’w seilio yn dda. Mae yn aros yno yn ddiysgog hyd yr awr hon.




Mae gwers bwysig i'r plant i'w dysgu yn hyn. Peidiwch bod yn rhy fryslog i redeg dros bethau; ond beth bynag a wneloch, gwnewch ef yn dda. Os yw yn werth ei wneyd o gwbl, mae yn werth ei wneyd yn dda.

Peidiwch rhedeg yn fryslog dros eich llyfrau; cymerwch bwyll i'w dysgu yn fanwl a da; dyna'r addysg fydd yn aros. Peidiwch brysio dros yr adnodau a'r pennodau; darllenwch a dysgwch hwy yn dda; ac yna, byddant fel adeilad Tom, yn aros o hyd yn eich meddwl. Peidiwch rhedeg dros eich gweddïau rywfodd; cymerwch bwyll ac amser, onidê byddwch yn y diwedd heb sail.

Mae Iesu Grist wedi dyweyd dwy adnod am Tom, a dwy adnod am William a Dafydd; ac yr ydym am i chwi eu dysgu. Y maent yn y viifed bennod o Matthew. Adnodau Tom yw y 24 a'r 25ain; ac adnodau y ddau arall yw y 26 a'r 27ain.



### Y PLENTYN YN MARW.

 R liniau 'i mam yn llwyd ei gwedd,  
Eisteddai geneth fach,  
A'i llygaid bychain, duon, tlws—  
I'r byd yn canu 'n iach.

Gan godi 'i llaw fach tua 'r nen;  
Dywedai 'n wan ei llef,  
"O! 'mam, 'r wy 'n clywed miwsig mwyn  
Y seintiau yn y nef;

"'R wyf finnau 'n myn'd i uno 'r gân  
Am gonwest Calfari."

"Mae 'r daith ymhell, fy ngeneth wên,  
A'r ffordd ni wyddost ti."


"Mae gan fy Nhad angylion fyrdd,  
A wŷr y ffordd bob cam,  
Ac yn eu llaw mi af i'r nef,  
Ffarwel, ffarwel, fy mam."

*Birkenhead.*

GARMON.



### CYFARFOD BLYNYDDOL Y FIBL-GYMDEITHAS.

 YNNALIWYD y Cyfarfod Blynyddol yn Neuadd Exeter, Llundain, ar ddydd Mercher, y trydydd o fis Mai, ac yr oedd y Neuadd eang mor llawn ac arferol. Cymerwyd y gadair gan y Llywydd, y Gwir Anrhydeddus Iarll Shaftesbury; ac wedi i'r Parch. C. Jackson ddarllen a gweddïo, darllenwyd yr Adroddiad gan yr Ysgrifenydd arall, y Parch. S. B. Bergne. Hysbyswyd fod y dosbarthïadau am y flwyddyn yn 2,450,127 o gopïau o'r Gair sanctaidd mewn gwahanol ieithoedd; a bod y Dosbarthïadau o'r dechreuad yn 47,989,579 o gopïau. Yr oedd derbyniadau y

Gymdeithas yn ystod y flwyddyn yn diweddu Mawrth 31, 1865, yn cyrhaedd i £181,807. 12s. 9c. Yr oedd y derbyniadau cymhwysedig at ddybenion cyffredinol y Gymdeithas yn cyrhaedd i £102,684, yn cynnwys £53,410. 4s. 10c. o Rydd Gyfraniadau oddiwrth Gymdeithasau Cynnorthwyol. Derbyniwyd at India a China yn benodol y swm o £733. 18s. 4c. Y derbyniadau am Fiblau a Thestamentau oeddynt £78,389. 11s. 8c. Derbyniwyd hefyd £5646. 19s. at adeiladu y Tŷ a'r Ystorfa newydd. Mae *cyfanswm y derbyniadau* o bob parth yn cyrhaedd i £187,454. 11s. 9c. Yr oedd y Treuliadau yn ystod y flwyddyn yn £169,742. 13s. 10c. Yr oedd ymrwymadau y Gymdeithas yn cyrhaedd i £91,943. 15s. 10c.

Traddodwyd areithiau rhagorol a chymhwys gan y boneddigion canlynol:—Esgob Rochester; Arglwydd Stratford de Redcliffe; Dr. Janes, Esgob Wesleyaidd o New York; Parch. Newman Hall; Dr. Anderson, diweddar Esgob Rupert's Land; Canon Champneys; Parch. E. E. Jenkins, o'r India; Parch. Daniel Wilson; Parch. Dr. Bliss, Cenadwr yn Syria, &c.

TLWS, OND TLYSACH.

TON,—“*Nos Galan.*”


**T**LWS yw gwawr y myrdd rhosynau  
 Ar y fron yn gwrido sydd;  
 Chwery iechyd ar eu gruddiau,  
 Chwarddant yn yr awel rydd:  
 Tlysach ganwaith yw rhosynau  
 Sobrwydd yn eu nefol wrid,  
 Plant yn gwreiddio mewn rhinweddau—  
 Uwch pob 'storm i wywo 'u pryd.

Mwyn yw si y dlôs a fonig  
 Yn y dyffryn teg islaw;  
 Una 'r adar yn y miwsig,  
 Dawnsia 'r goedwig werddlas draw:  
 Mwynach ydyw sain canigau,  
 “Lluoedd Gobaith” yn ein tir,  
 Pan yn arllwys brwd deimladau  
 Mewn anthemau sobrwydd pur.

Hardd yw 'r wawr ar ben y brynian  
 Yn ymlidio gwyll y nos,  
 'R haul yn saethu ei belydrau,  
 Gan roi bywyd yn y rhos:  
 Harddach gwel'd morwynig sobrwydd,  
 Yn ymlidio 'r meddwol gawr;  
 Duw o fangre ei sancteiddrwydd  
 Yn rhoi gwên a nerth i lawr.

*Rhymni.*

IRLWYN.



## MERCH Y DYN MEDDW.

“**I** AHAM yr eisteddych ar y ceryg oer yna, blentyn?” ebai boneddwr cyfrifol wrth eneth fechan tua phedair blwydd oed, oedd yn eistedd yn droednoeth a phen-noeth ar y grisiau o flaen drws dyeithr, ar un o ystrydoedd Llundain. Yr oedd yn ddiwrnod oer iawn yn mis Rhagfyr, a thraed, a breichiau, a bochau y plentyn yn duo gan anwyd. “Rhedwch adref at eich mam, fy ngeneth i,” ebai'r hen ŵr, “onidê byddwch siŵr o rewi.” “Mae fy mam wedi marw,” ebai'r plentyn yn bruddaidd; “nasai yn dda genyf pe buasai yn fyw.”

"Wel, well i chwi redeg adref, gan nad beth, mae yn dyfod yn eira."

"Na, rhaid i mi aros i fy nhad fyned allan yn gyntaf," ebai'r plentyn, "waith y mae wedi rhegi y dryllia fy esgyrn i."

"Ydych chi wedi bod yn ferch ddrwg, ynte?"

"Na, ond y mae yn fy nghuro ar ol meddwi bob amser, pa un a fyddaf yn ddrwg ai peidio."

"Ydych chi yn gwybod rhywbeth am Iesu Grist, fy ngeneth i?"

"Do, clywais fy mam yn dyweyd am dano, pan nad oedd wedi marw. Yr oedd hi yn doddi fi i weddio arno. Ond 'does gen' i yr un fam, na Iesu Grist, na neb yn awr," a thorodd y plentyn i wylo yn chwerw.

Gyda hyn yr oedd rhyw ddynes sarug yn dyfod i'w llusgo adref, ac yn dyweyd fod ei thad yn barod iddi.

Blant! diolchŵch nad yw eich tad yn feddw. Nid oes neb ŵyr gymaint y mae plant yn ddyoddef oblegid meddwdod eu tad. Gweddiŵch drostynt ar yr Arglwydd.



## ROSE A BLANCHE;

*Neu Gynllwynion y Jesuitiaid.*

PENNOD VIII.—Y GYFFESGELL.

**D**IWRNOD helbulus i wraig Dagobert oedd y Sabbath y cymerwyd Agricola i fyny, y cauwyd ar Miss Cardoville yn y gwall-gofdŷ, ac yr ymadawodd Dagobert i Chartres. Yr oedd y fam ofalus yn ymboeni a dyfalu, ond yn methu deall beth ddaethai o'i mab. Ceisiai guddio ei gofid oddiwrth Rose a Blanche, ond deallai y merched yn dda fod arni faich trwm o flinderau. Aroedd ar lawr y noson hono hyd dri o'r gloch y bore, a chlustfeinia wrth drwst troed pob un a basiai.

Am dri o'r gloch ymdafodd ar y gwely yn ymyl y chwïorydd, a chysgodd. Dihunodd ymhen awr, a rhedodd i fyny y grisiau i ystafell Agricola, gan dybied y gallasai ddyfod i mewn tra fu hi yn gorwedd.

Yr oedd Rose a Blanche hefyd wedi bod yn effro trwy gydol y nos yn clywed trwst traed y wraig yn cerdded yn ôl a blaen, a'i hocheneidiau pryderus, ac yn ymddyddan â'u gilydd ynghylch eu cyflwr diymgeledd. Pan gawsant gefn Mrs. Boudoin yn awr, dywedodd Rose,

"Mae rhyw ofid mawr iawn arni. Beth all fod, tybed?"

"Fe allai mai gofidio y mae," ebai Blanche, "mewn pryder am lwybr i gael bwyd a chynnalïaeth i ni oll. Nid oes neb ond Agricola yn ennill, a dyma Dagobert a ninnau wedi dyfod yn faich ychwanegol arnynt."

"Wyddoch chi am beth yr oeddwn i yn meddwl yn awr, Rose?"

“Am beth, fy chwaer?”

“Y buasem yn ymgymeryd â gweithio ein dwy i ennill ein bywioliaeth, hyd nes y daw ein tad, os daw ef byth hefyd. Mi wn na fydd Dagobert yn foddllawn i ni; ond rhaid i ni gael. Y mae wedi dyweyd wrthym droion am ddangos fod gwaed milwr ynom; wel, dangoswn hyny trwy weithio i ennill ein tamaid.”

“Yr oeddwn i wedi meddwl yr un peth, fy chwaer, ac yr wyf yn gwbl barod i gydsynio â chwi. Yn wir, mae dychryn wedi fy nharo rhag cael ein gadael heb gyfaill na pherthynas yn nghanol y ddinas fawr hon.”

“Yn hynod iawn, fel arfer,” meddai Blanche, “mae yr un peth wedi fy nharo innau; yr wyf wedi gwneyd fy ngoreu i wthio y meddwl dychrynllyd i fwrdd; ond y mae yn ymgripio drosaf er fy ngwaethaf.”

“Peidiwch siarad am dano, anwyl chwaer,” ebai'r llall, “y mae yn fy llethu. Gwell genyf fi feddwl am y peth arall—am weithio. Mae Mary, y wniadyddes sydd yn llettfa yma, yn gwneyd bywioliaeth gysurus, dybygem. Fe allai y gall hi ein cyfarwyddo i gael rhywbeth i wneyd.”

“Wel, ni a siaradwn â hi y cyfle cyntaf.”

Gyda hyn, dychwelodd gwraig y tŷ o ystafell Agricola, a'i hwyneb yn welw gan ofid.

“Anwyl madam,” ebai Rose, “beth yw y mater?”

“Och fi! fy anwyl foneddigesau, nis gallaf gelu fy ngofid yn hŵy rhagoch, “ebai gwraig Dagobert, dan dori allan i wylo yn uchel. “Mae Agricola heb ddyfod adref byth, ac nid wyf yn gallu dyfalu beth sydd wedi dyfod o hono.”

“Fe allai,” ebai Blanche, “iddo gael ei alw i'w waith, a'i fod wedi cael ei gadw yn rhy hwyr i ddyfod adref.”

“Na, na, na! Ni fu yn rhy hwyr erioed iddo ef ddyfod adref. Mae yn rhaid fod rhywbeth wedi dygwydd. A pha beth a wnaif nis gwn! Ac heblaw hyn, trôais i mewn i ystafell Mary, y ferch sydd yn aros yma, ac er fy syndod nid oedd yno, ac nid yw wedi bod yn ei gwely neithiwr. Mae hono yn arfer bod i mewn bob amser. Mae yn syndod i mi beth yw hyn i gyd! O Arglwydd, cymhorth fi!”

Yr oedd y ddwy chwaer yn edrych ar eu gilydd, a'u llygaid yn llawn o ddagrau, heb wybod beth i ateb, pan chwalwyd eu hoinau ar darawiad, trwy ddau guriad ysgafn ar y drws. Mewn moment yr oedd Mrs. Boudoin yn y drws, a Mary yn dyfod i mewn o'r eirwlaw oer oedd yn disgyn yn dew.

“O Mary anwyl, pa le buoch chiwi? mae fy nghalon ar dori!” ebai gwraig Dagobert.

“Yr wyf yn dwyn gair i chiwi am eich mab,” ebai'r wniadyddes fechan.

“Am fy mab!” gwaeddai y fam, gan grynu o'i phen i'w thraed. “Beth ddygwyddodd? welsoch chiwi ef? Pa le mae ef?”

“Peidiwch dychrynu, madam,” ebai Mary, “mae yn iach, ac allan o berygl.”

Gyda'r gair, yr oedd y fam ar ei gliniau yn dyrchafu ei llef, "Bendigedig wyt, O fy Nuw! am y drugaredd hon i bechadur tlawd. Y dydd o'r blaen y dychwelaist fy ngŵr i mi. Ac ar ol fy holl bryder neithiwy'r, wele fy ofnau yn cael eu chwalu trwy sicrwydd fod fy mab anwyl yn ddiogel. Diolch, Arglwydd bendigedig!"

Wedi mynyd o ddystawrwydd, yr oedd ar ei thraed eto yn gofyn i Mary, "Sut na ddaeth Agricola adref neithiwy'r? Pa le y mae? Sut y daethoch chiwi i wybod am dano, Mary?"

"Yr wyf yn sicrhâu i chiwi, Mrs. Boudoin," ebai Mary, "fod Agricola yn iach, ond rhaid i mi ddyweyd wrthy'ch y bydd beth amser cyn y delo —"

"Mary! beth sy'n bod! llefarwch allan! mae fy ngwaed yn rhewi yn fy ngwytheni! Pa le mae Agricola?"

"Och fi! madam, mae wedi ei ddal," ebai Mary, gan dori allan i wylu.

"Wedi ei ddal!" ebai Rose a Blanche gyda'u gilydd.

"Ewyllys yr Arglwydd a wneler!" ebai'r fam drallodus, gan blethu ei dwylaw. "Dyma brofedigaeth! Wedi ei ddal! y bachgen goreu, mwyaf gonest yn Paris! Am ba beth y mae wedi ei ddal?"

"Yr oeddwn i wedi cael llythyr dienw y dydd o'r blaen, yn rhybuddio Agricola fod rhai ar fedr ei gymeryd i fyny am y darn a gyfansoddodd ychydig amser yn ôl, '*Cân y gweithiwr*.' Ac yr oeddwn i ac yntau wedi barnu mai y peth goreu fuasai iddo alw gyda'r foneddiges uchel a charedig hono yn y *Pavilion*, i ofyn ganddi ateb drosto, os delai taro; ac yno yr aeth mor fore ddoe."

"Ond pam na fuasech chiwi neu fy mab yn sôn wrthyf fi am y peth?"

"Yn unig i'ch cadw rhag blino yn ei gylch. Yr oeddwn i yn dysgwyl Agricola yn ôl bore ddoe bob mynyd. Bum yn ei ddysgwyl fy hunan mewn pryder mawr, nes oedd yn hwyr neithiwy'r. O'r diwedd penderfynais redeg trwy y tywydd a'r tywyllwch hyd dŷ y foneddiges i weled a gawn wybod rhywbeth yn ei gylch."

"Wel, beth glywsoch yno?"

"Gorfu i mi aros oriau wrth ddrws y cefn cyn cael agoriad. Wedi iddi ddechreu dyddio, anturiais ganu y gloch; ac ymhen ychydig daeth un o'r morwynion i'r drws. Wedi i mi ddyweyd mai galw yr oeddwn i holi am y gŵr ieuanc alwodd yno bore ddoe, dros ei fam, derbyniodd fi yn garedig, ac yr oedd yn wylu dagratu wrth adrodd. Yr oedd ei meistres wedi cuddio Agricola yn ei thŷ, tra fyddai hi yn myned i wneyd neges drosto. Ond yn ei habsenoldeb hi, daeth y swyddogion i mewn, daliwyd Agricola, a dygwyd ef ymaith i'r carchar."

"Pan ddealla y foneddiges garedig," ebai'r fam, trwy ei dagrau, "fod yr holl deulu yn dibynu ar fy machgen am eu cynnal-iaeth, bydd yn sicr o wneyd rhywbeth eto tuag at gael ei ryddid iddo."

“O, madam!” ychwanegai Mary, “dywedodd y forwyn wrthf fod y foneddiges wedi ei chymeryd ymaith ddoe i'r gwallgoffd, a'i synwyrâu wedi dyrysu.”

“O drychineb iddi hi, ac i ninnau!” ebai Mrs. Boudoin. “Dyma ni wedi ein gadael yn ddiobaith—heb neb i ddysgwyl wrtho. Beth ddaw o honom, heb fy anwyl Agricola! O fy Arglwydd, pa beth a wna!” Gyda hyn tafodd ei hun yn ôl ar y gadair, cuddiodd ei gwyneb yn ei dwylaw, ac ymollyngodd i wylofain truenus. Yr oedd Mary a'r ddwy chwaer ieuanc yn edrych ar eu gilydd mewn dystawrwydd, a'u mynwesau yn ymrwygo gan drallod. Truenus, yn wir, oedd y sefyllfa yr oeddent oll wedi eu taflu iddi.

Ymhen oddeutu awr, wele lythyr yn dyfod at wraig Dagobert, oddiwrth offeiriad pabaidd, yn ceisio ganddi ddyfod ato ef i'r gyffesgell ar unwaith. Yr oedd Mrs. Boudoin wedi arfer cyffesu ei phechodau iddo bob wythnos am yr ugain mlynedd diweddaf. Heblaw hyn yr oedd trallod ei meddwl hithau y fath yn awr, fel yr oedd yn dda ganddi gael cyflëusdra i fyned at yr offeiriad i ymgynghori âg ef. Wrth iddi fyned allan, dywedodd wrth Mary,—

“Aeth fy ngŵr â phob ceiniog o arian oedd yn y tŷ i dalu ei draul i Chartres, a gwn nad oes gan fy mab yr un geiniog yn ei boced. A fyddwch chwi mor garedig a myned â'r *shawl* newydd yna gefais i y mis diweddaf, y cwpan a'r llwyau arian, a'r ddau bâr *sheets* goreu yna i'r *pawnshop*, a chymeryd cymaint a gewch am danynt. Yr wyf am yru eu hanner i fy mab, a chadw yr hanner arall at draul y tŷ.”

“Gwnaf bob peth fel y ceisiwch, madam,” ebai Mary.

Ymhen ychydig amser yr oedd Mrs. Boudoin ar ei gliniau yn nghyffesgell eglwys St. Mary. Mewn ystafell arall yr oedd hen ŵr bychan, wedi gwisgo yn dlodaidd, ac *umbrella* yn ei law, yn siarad â'r offeiriad. Rodin ydoedd. Edrŷchodd yr offeiriad trwy y twll, a dywedodd,—

“Hi ydyw; y mae wedi dod.” “Wel cofiwch y cyfarwyddyd;” ebe Rodin, “a chaf ddysgwyl y ddwy ferch (Rose a Blanche) o hyn i ben teirawr yn y mynachdŷ. Yr wyf yn ymddiried arnoch.”

“Gobeithio hyny, er mwyn eu heneidiau hwy,” ebai'r offeiriad mewn tŷn ddifrifol. Gyda hyn aeth Rodin allan.

Dynesodd yr offeiriad at dwll y gyffesgell a dywedodd, “Chwi gawsoch fy llythyr?”

“Do, dad sanctaidd,” ebai'r wraig.

“Wel, dechreuwch, yr wyf fi yn barod i wrando arnoch.”

“O dad, yr wyf yn cyhuddo fy hunan o beidio dyweyd fy ngweddiau nos Sadwrn diweddaf. Daeth fy ngŵr adref, a pharodd gymaint o gyffro i fy meddwl nes y llwyr anghofiais.”

“Wel, beth eto?” ebai'r llais o'r tu fewn yn gyffrous.

“Dad sanctaidd, yr wyf yn cyhuddo fy hunan o syrthio i'r un pechod ysgeler neithiwydr drachefn. Yr oedd fy mab wedi myned

allan, a bŷm yn y pryder mwyaf am dano trwy y nos, a thrwy hyno esgeulusais fy nyledswydd."

"Wel, ewch rhagoch."

"Dad sanctaidd, yr wyf yn cyhuddo fy hunan o ddyweyd anwiredd wrth fy mab trwy yr wythnos, pan ofynai i mi os oeddwn yn yfed peth o'r gwin, oblegid fy ngwendid. Dywedwn fy mod, ond yr oeddwn yn ei gadw oll iddo ef. Yr oedd mwy o'i anghen arno, achos y mae yn gweithio mor galed."

"Oes ychwaneg?" gofynai y llais.

"Dad sanctaidd, yr wyf yn cyhuddo fy hunan o un peth arall, sef teimlo gwrthryfel yn fy ysbryd y bore hwn, yn lle ymostwng i ewyllys Duw, pan glywais fod fy mab wedi ei ddal."

"Wythnos ddrwg iawn," ebai'r llais mewn tŷn arw. "Ond a oes genych chwi ddim dwy foneddiges ieuanc dan eich cronglwyd, heb gael eu bedyddio, heb fod yn adrodd gweddïau, yn baganiaid hollol, yn byw felly mewn pechod damniol?"

"Oes, y mae, dad sanctaidd, ac y mae eu cyflwr wedi costio blinder mawr, a dagrau a gweddïau lawer i mi. Y maent wedi eu gadael yn ngofal fy ngŵr a minnau, hyd nes y daw eu tad, y Cadfridog Simon, i'w cyrchu."

"Dylech ddeall fod holl bechod y plant yna yn gorwedd arnoch chwi, am beidio rhoi yr addysg briodol i'r plant, ac y mae yn gyfrifoldeb dychrynlyd."

"Trugaredd, O dad sanctaidd! Yr ydym yn rhy dlawd i'w gosod allan i'w haddysgu, onidê buasem yn gwneyd ar unwaith. Nid oes genyf neb ond fy mab yn ennill, ac yr ydym yn awr yn deulu mawr, ac yr wyf finnau â'm golygon yn ddiweddar wedi myned yn ddrwg iawn."

"Wel, mae yr holl bechod damniol yn gorwedd wrth eich drws chwi."

"Mae yn galed arnaf, dad sanctaidd; ond ymgynghoraf â'm gŵr mor gynted y daw adref. Yr wyf yn ei ddysgwyl heno neu bore 'fory."

"Beth dâl i chwi ymgynghori â'ch gŵr? Nid yw ef mewn cymundeb â'r eglwys lân Gatholig. Mae ef a'ch mab yn nhywyllwch pechod. Ac ni fydd ymgynghori â hwy ond ychwanegu'r pechod."

"Bachgen da yw Agricola—ni fu neb mwy ufudd a charedig i'w fam erioed."

"Ie," meddai'r offeiriad, "ond bachgen annuwiol ydyw. A beth all ef na'i dad gynghori am ffordd achub?"

"Wel beth sydd i'w wneyd, dad sanctaidd; a ellwch chwi fy nghyfarwyddo?"

"Yr wyf wedi trefnu i'ch cynnorthwyo. Rhaid i chwi eu gyru i dŷ orefyddol, y mynachdŷ perthynol i'r eglwys hon, i gael eu haddysgu, ac ni edrychaf fi am ddwyn eu traul."

"Yr wyf yn dra diolchgar i chwi, dad sanctaidd. Gosodaf y peth o flaen fy ngŵr mor gynted ag y dychwelo."

"Yr wyf eto yn dyweyd, nasgellwch ddyweyd yr un gair yn eu



cylch wrth eich gŵr. Rhaid iddynt fod yn y mynachdŷ ymhen teirawr, a rhaid i chwi wneyd llw ger bron Duw na ddywedwch wrth eich gŵr pa le y byddant hyd nes y cewch genad i ddyweyd oddiwrthyf fi."

"Y mae yn beth anmhosibl, dad sanctaidd! Ni feiddiaf wneyd y fath beth yn absennoldeb fy ngŵr. Y mae ef wedi cael gofal y plant gan eu mam pan oedd yn marw; y mae wedi dyoddef mwy na mwy i'w dychwelyd i Paris, a byddai yn greulondeb i mi adael y boneddigesau i fyned ymaith eto heb ddyweyd wrtho. Heblaw hyny, milwr ydyw; byddai ymddygiad o'r fath yn ddigon i gyffroi ei gynddaredd, ac ni wyddys beth allai y canlyniad fod."

"Nid yw y pethau hyn oll ond esgusodion gwael," ebai'r offeiriad (er, mae yn debygol, nad oedd yr offeiriad yn gwybod di am gynllwyn drygionus Rodin). "Mae eneidiau y merched mewn perygl; gallai Duw eu taro y foment nesaf dan ei lid yn dragwyddol. Nid oes moment i'w cholli. Eich dyledswydd yw rhoddi y plant i fyny ar unwaith."

"Ond beth a ddywedaf wrth fy ngŵr pan ofyno am danynt?" gofynai'r wraig drallodus, â'r dagrau ar ei gruddiau. "A yw yn iawn i mi ddyweyd anwiredd wrtho?"

"Nid anwiredd fydd dystawrwydd. Nid oes genych ddim i'w ddyweyd, ond nad ydych yn rhydd i ateb ei gwestiynau."

"Ië, ond er ei fod y goreu o wŷr, byddai yn beryglus i mi ymddwyn felly ato."

"Wel, gadewch fod perygl. Onid yw yn werth dyoddef dros eich crefydd? Beth pe lladdai chwi? Cofiwch pwy a fu farw drosom ni i'n cadw rhag damnedigaeth. Ac a ydych chwi yn gwrthod peryglu eich hun i gadw'r eneidiau yna rhag damnedigaeth?"

"Ond, pan ddaw tad y plant i'w ceisio, beth ddywedir wrtho ef am danynt?"

"Rhaid i chwi fy hysbysu i y foment y daw y Cadfridog," ebai'r offeiriad, "a chyfarwyddaf chwi y pryd hwnw sut i wneyd."

Wedi amryw fynyddau o ddystawrwydd, dywedodd Mrs. Boudoin, yr hon oedd yr holl amser ar ei gliniau, a llun Crist ar y groes o'i blaen, "Ewyllys yr Arglwydd a wneler."

Yna tyngodd i'r offeiriad i gadw y peth yn hollol iddi ei hun, ac nad ynganai air wrth Dagobert, na'r Cadfridog Simon, ond wrth ei gyfarwyddyd ef.

"A chwi ddeuwch ataf fi i hysbysu y cwbl a ddygwydd ar ddychweliad eich gŵr?" gofynai'r offeiriad.

"Deuaf, dad sanctaidd. A pha bryd y cymeraf y merched amddifad i'ch mynachdŷ?"

"Deuwch â hwy yma ataf ymhen awr, ac yna cymeraf fi eu gofal i'w trosglwyddo yn ddiogel i'r mynachdŷ."

Dychwelodd gwraig Dagobert adref yn drymach ei chalon nag erioed.

(I'w barhau.)


AR WELY CYSTUDD.



DDUW! rho nerth i bara  
 I fyn'd ymlaen,  
 Er yfed dyfroedd Mara,  
 Ymlaen, ymlaen!  
 Dal fi dan demtasiynau,  
 A swyn pob gwag bleserau,  
 A llonaid byd o rwystrau,  
 I fyn'd ymlaen.

Rhyfeddod fydd fy ngweled  
 Mewn nefoedd wên,—  
 Yn canu am fy arbed,  
 Tu fewn i'r llen;  
 Er cystudd blin, 'r wy 'n credu  
 Y caf fod gyda 'r teulu,  
 Yn cydgoroni 'r Iesu  
 Tu fewn i'r llen.

ESTRON.



Y WENYNEN.

PENNOD VI.

**M**AE yn syndod y parch a ddangosir i frenines y cwch, gan y gwenyn. Pan fyddo y frenines yn symud yn araf a mawreddog o amgylch y llestr, bydd yr holl weithwyr yn troi eu penau ati, a chyda gwylder mawr yn cydnabod ei huchafiaeth. Pa le bynag yr ä, bydd ffordd glir yn cael ei gwneyd iddi. Pan orphwysa oddiwrth ei llafur, dynesant ati yn barchus, llyfant ei gwyneb, cynnygiant fêl iddi, a dangosant bob arwydd o ymstyngiad.

Pan fyddo brenines farw, nid ymddengys fod y gwenyn ar y cyn-taf yn wybyddus o hyny, ac änt ymlaen gyda'u gorchwylion fel arfer. Ond ymhen ychydig oriau, dechreuant derfysgu, gan ddechreu yn agos i'r fan lle y trigai y frenines. Ymleda y dyrswch yn fuan, a gedy llawer eu gwaith a'u rhai bychain. Pan gyferfydd y gwenyn ä'u gilydd yn y llestr, safant, a chroesant eu cynn ar draws eu gilydd. Ymddengys eu bod yn adrodd yr hanes y naill wrth y llall, trwy eu taro yn ysgafn ä'u cynn.

Ymleda y newydd nes byddo yr holl haid mewn dyrswch. Rhedant ar draws eu gwaith, ac ar draws eu gilydd, allan o'r llestr, ac i mewn drachefn. Parhânt felly am oriau. O'r diwedd ymlonyddant, dychwelant at eu gwaith, a dechreuant ar foddion i adferu y golled.

Os rhoddir brenines newydd i'r haid o haid arall cyn pen deuddeg awr ar ol eu colled, ni dderbyniant hi, ond ymddygant ati

fel at estron. Ond os gadewir cymaint arall o amser i fyned heibio cyn ei rhoddi, derbyniant hi yn dawel fel eu brenines.

Y foment y dodir y newydd i mewn, try y gweithwyr nesaf ati, gosodant eu cynr hychain ar ei chorff, gan ei deimlo drosto yn ofalus, ac yna trôant ymaith i roddi lle i eraill, y rhai a'u cyfarchant yr un modd, gan gynnyg mêl iddi i'w fwyta. Yna curant eu hadenydd oll, ac ymfurfiant yn gylch o'i chwmpas. Wedi rhoddi cyflëusdra iddynt oll i'w chyffwrdd, curo eu hadenydd, ac ymfurfio yn y cylch, dechreua y frenines symud, ac egyr y cylch i wneyd ffordd iddi. Yna canlynant hi, ac felly cydnabyddir hi yn frenines gan yr holl haid.

Dywed Dr. Evans iddo unwaith weled brenines yn marw. Yr oedd chwech o wenyn yn gylch o'i chwmpas, yn ysgwyd eu hadenydd i wneyd awyr-iddi, a'u colynau allan fel bidogau yn cadw gwyliadwriaeth arni. Cynnygiodd fêl i'r gwylwyr, ond gwrthodasant ef; yr oedd eu sylw wedi ei lyncu yn gwbl gan farwolaeth eu brenines. Aeth y Dr. i edrych y dydd ar ol y farwolaeth, ac yno yr oedd y corff marw yn y canol, a'r chwech gwylwyr o hyd o'i amgylch yn ffyddlaw, ac o hyd yn gwrthod profi ymborth. Ymhen y trydydd dydd, cafwyd cyrff marw y chwech wedi syrthio o amgylch corff eu brenines—oll wedi trengu o newyn.

Mae un peth hynod ynglŷn â chodiad y breninesau ymysg y gwenyn. Mae y pryfaid o ba rai mae breninesau yn dyfod, yn cael eu deor yn olynol, un ar y tro; ac os na bydd anghen am danynt i arwain heidiau newydd allan, cedwir hwy yn garcharorion mewn celloedd wedi eu gorchuddio â gorchudd o gŵyr, gan y gweithwyr-wenyn. Gwneir hyn er eu cadw rhag lladd eu gilydd, neu gael eu lladd gan y frenines fyddo yn teyrnasu ar y pryd. Gan y rhaid porthi y carcharorion hyn, gadewir twll bychan yn y gorchudd cŵyr, trwy yr hwn y bydd y carcharor yn gwthio ei thafod allan, ac yn derbyn ymborth oddiwrth y mamogiaid. Mae y carcharorion yma yn gwneyd sŵn isel cwynfanus.

Pan y bydd anghen brenines newydd, at yr haid hono, neu haid newydd, bydd y gweithwyr bob amser yn gollwng yn rhydd yr henaf o'r breninesau ieuaine fyddo mewn ystôr. Bernir eu bod yn deall eu hoedran wrth eu tôn, gan fod hono yn cryfhâu gyda'u hoedran.

Peth nodedig iawn yw, y medr y gweithwyr godi brenines mewn taro, o ŵyau gwenyn cyffredin, yn unig trwy eu magu mewn celloedd gwahanol, a'u porthi â bwyd breninol, yr hwn sydd yn llawer mwy cryf a chwerw nag ymborth gwenyn cyffredin. Mae brenines hefyd yn gallu gwneyd sŵn cclyd, yr hwn a elwir yn "llais breninol." Bydd yn gosod ei hedyn ar draws dros ei chefn, ac yn gwneyd "clic, clic," mor gras, nes byddo yr holl haid yn dychrynu, ac yn sefyll yn llonydd a syn. Dyma y sŵn fydd yn wneyd pan yn eu galw allan i wynebu unrhyw elyn fyddo yn ymosod ar yr haid; neu pan fyddo yn eu harwain allan, bydd yn arwydd iddynt oll i'w chanlyn. Mor rhyfedd mae doethineb a daioni Duw i'w weled yn nheyrnas y gwenyn!



DR. WATTS.

**D**ID oes nemawr o'n darllenwyr ieuainc nad yw wedi clywed ain enw Dr. Isaac Watts; ond ychydig, mae'n bosibl, sydd yn gwybod dim am ei hanes. Gweinidog yr efengyl ymysg yr Ymneillduwyr ydoedd, ac un o'r emynwyr goreu a melusaf erioed ymysg y Saeson. Yr oedd Watts a Williams Pantycelyn yn cydoesi,—dau brif emynwyr Prydain Fawr. Mae llawer o Salmâu a Hymnau Watts wedi eu troi i'r Gymraeg, ac yn cael eu canu yn holl addoldai Cymru.

Pan aned Dr. Watts (1674) yr oedd yn amser erledigaethus ar grefydd, a dynion yn cael eu carcharu am addoli Duw. Taflwyd ei dad i'r carchar pan nad oedd Isaac ond baban, yn unig am y mynai addoli yr Arglwydd yn ol argyhoeddiad ei gydwybod. Tra yr oedd yn y carchar, arferai ei wraig fyned âg Isaac yn faban bach yn ei braich, ac eistedd llawer awr ar gâreg y tu allan i ddrws y carchar. (Gwel y darlun). Dechreuodd y plentyn ymhoffi mewn llyfrau yn ieuanc, a dechreuodd gyfansoddi pennillion. Cysegrodd ei fywyd i wasanaeth yr Arglwydd Iesu, ac y mae ei weithiau yn para hyd heddyw yn fendith i'r byd.

“Mae genyf feddwl mor fawr o addewidion Duw,” meddai, “ag y gallaf fentro tragywyddoldeb arnynt. Ar addewidion eglur yr efengyl yr ydwyf yn ymgynnal; a diolch i'r Arglwydd am eu bod mor eglur. Nid oes genyf ddim yn awr ond edrych am ryw addewid a byw ar hono.” Dywedai yn fynych wrth fyned i'w wely, “Gallaf orwedd yn dawel heno, heb bryder pa un ai yn y byd hwn ai yn y byd arall y dihunaf.”

## Y TADAU METHODISTAIDD.

## VII.—LEWIS EVAN, LLANLLUGAN.

**P**R oedd Lewis Evan yn un o'r gwir dadau Methodistiaidd. er nad yw ei enw mor gyhoedd ag eraill o'i gydoeswyr. Cenad o'r iawn ryw ydoedd; canwyll yn llosgi ac yn goleuo; a bu Methodistiaeth ieuanc yn ewyllysgar i orfoleddu dros fwy na hanner can' mlynedd yn ei oleuni ef.

Ganwyd ef yn mhlwyf Llanllugan, yn Sir Drefaldwyn, yn y flwyddyn 1719. Gwëydd ydoedd wrth ei alwedigaeth, a phreswyliai gyda'i daid yn Crygnant. Dychwelwyd ef i'r ffydd trwy weinidogaeth Howel Harris, pan oedd tuag ugain mlwydd oed. Rhoddodd ei holl fryd ar unwaith ar ddarllen a myfyrio yr Ysgrythyrau. A daeth i gael cymaint o flas ar yr hen lyfr, fel y dechreuodd fyned âg ef yn ei law i dai y cymydogion, i'w ddarllen yno, a "chynghori" tipyn oddiwrth yr hyn a ddarllenai. Yn fuan dechreuodd y cymydogion dyru i'r tai i'w wrando; ac wedi darllen a chynghori, gorphenai Lewis ei ymweliad trwy weddi. Nid oedd yn gwneyd hyn oddiar gyfarwyddyd nac esiampl neb arall, nac unrhyw gynllun darparedig o'i eiddo ei hun. Nid oedd ond yn ymollwng gyda theimlad brwd ei grefydd bersonol ddysglaer, heb unrhyw ymwybyddiaeth ei fod yn gwneyd dim anarferol. Yr oedd hyn yn beth mor newydd a dyeithr yn y wlad, fel yr aeth y sôn am dano ymhell ac yn agos; ac fel y gallesid dysgwyl, cynnyrchodd ei waith wrthwynebiad ac erlidigaethau trymion arno oddiwrth elynion crefydd.

Dechreuodd Lewis Evan bregethu yn fuan. Cydnabyddir ef fel "cynghorwr" yn Nghymdeithasfa Glan yr afon, yn Sir Gaerfyrddin, yn Mawrth, 1742, a phenodid arno fel cynnorthwywr i un Morgan Hughes i ofalu am amryw eglwysi yn Sir Drefaldwyn. Cawn goffa mynych am dano ynglŷn â'r achos Methodistiaidd o hyn hyd ddiwedd ei oes. Dyn bychan, siriol, a bywiog ydoedd. Nid oedd yn bregethwr mawr, ond yr oedd yn ddyn cadarn yn yr Ysgrythyrau, yn barod a ffraeth ei atebion, ac yn ddiball yn ei lafur a'i zel gyda theyrnas yr Arglwydd Iesu. "Dywedid am y gŵr hwn," meddai "*Methodistiaeth Cymru*,"—"gan mor ddiwyd ydoedd yn y tai, ar y ffordd, ac yn y pulpud, yn adrodd yr Ysgrythyrau, ei fod yn cadw Ysgol Sabbothol hanner can' mlynedd cyn sôn am dani. Dysgu rhywun y byddai yn wastad, o fore hyd hwyr, —y plant, y gweision, a'r morwynion, yn gystal a phenau y teulu—oedd y dygwyddai fod ynddynt, a'r dyeithrddynt a gyfarfyddai ar y ffordd." Dyma y fath ddynion oedd y tadau Methodistiaidd, y rhai y bendithiodd yr Arglwydd eu llafur mor hynod; a dynion o'r unrhyw ysbryd sydd yn eisieu eto i ddwyn gwaith ein Harglwydd ymlaen. Bu farw Lewis Evan yn y fl. 1792, yn 72 mlwydd oed, wedi bod yn gweithio â'i holl nerth yn y winllan am tua 52 o flynyddoedd.

Cafodd lawer iawn o erlidiau yn ei fywyd. Diangodd droion o

ddwyllaw ei elynion yn orchuddiedig gan waed, ac y mae yn syndod iddo ddianc gynyfer o weithiau heb golli ei fywyd. Pan oedd yn pregethu un Sabbath yn y Bala, gyrodd boneddwr o'r lle, yr hwn oedd heddynad, swyddogion i'w ddal, a'i ddwyn ato ef i'w dŷ. Cymerodd yr ymddyddan canlynol le yn mharlwr y boneddwr:—

*Ynad.* Ai ti fu yn pregethu yn y Bala?

*L. Evan.* Ië, syr, myfi fu yn rhoi gair o gynghor i'r bobl.

*Ynad.* Un o ba le wyt ti?

*L. E.* O blwyf Llanllugan, yn Sir Drefaldwyn.

*Ynad.* Beth yw dy orchwyl gartref?

*L. E.* Gwëydd ydwyf, syr.

*Ynad.* A oedd genyt ddim gwaith gartref?

*L. E.* Oedd, ddigon.

*Ynad.* I ba beth, ynte, y daethost ffordd yma?

*L. E.* I roi gair o gynghor i'm cydbeckaduriaid.

*Ynad.* Nid oes yma ddim o dy eisieu. Mae genym ni bersoniaid wedi eu dwyn i fyny yn Rhydychain, trwy draul fawr, at y gorchwyl o bregethu.

*L. E.* Mae digon o waith iddynt hwy a minnau, oblegid mae y bobl yn myned tua dystryw yn lluoedd er y cyfan.

*Ynad.* Anfonaf di i garchar am dy waith.

*L. E.* Bu fy ngwell i yn ngharchar o'm blaen. Carcharwyd yr Arglwydd Iesu ei hun, yr hwn a ddaeth i'r byd i gadw pechaduriaid.

Aeth y gwëydd ymlaen i sôn am ddyoddefiadau Crist, ond ataliwyd ef gan yr Ynad, yr hwn a ddywedodd,

“Wyt ti yn meddwl myned i bregethu yn fy mharlwr i?”

“Nid wyf yn meddwl, syr,” ebai Lewis, “fod eich parlwr yn rhydda i sôn gair am Iesu Grist ynddo.”

Ar ol yr ymddyddan, anfonwyd ef i garchar Dolgellau, lle y cadwyd ef yn anghyflawn am chwe' mis. Ond gorfu i'r boneddwr ei hun fyned yno i'w ryddhâu, a gallasai y gwëydd ei gosbi, pe mynasai, am garchariad diachos.

Yr oedd haid o elynion creulawn gyda phastynau ar ei ol unwaith, ac yntau yn rhedeg o'u blaen, mewn ardal o'r enw Cefn yr hosan, gerllaw Machynlleth. Wrth groesi rhôs Hendron, colodd ei gam, a syrthiodd i ffos ddofn. Gan ei bod yn sych, penderfynodd lethu ynddi. Bu mawr chwilio am dano; ond gorfu i'w elynion droi yn eu hól gan dybied fod y ddaear wedi ei lyncu.

Cwyna awdwr “*Methodistiaeth*” yn fawr na buasai Lewis Evan wedi cadw dyddlyfr, gan y gallasai fod o werth mawr i hanes dechreuad a chynnydd yr achos. Beth bynag, mae yn dda genym gyflwyno ei enw i sylw darllenwyr ieuainc TRYSORFA Y PLANT, gyda dymuniad calon am i lawer o honynt dderbyn deuparth o'i ysbryd. Dyma un pennill o'i farwnad, gan nai iddo:—

“Hunodd un o'r hynaf dadau,  
Mewn tawelwch 'hedodd adrau;  
Ffyddlawn fu i'r Gŵr a'i galwodd,  
Tros ddeg a deugain o flynyddoedd;

Lewis Evan oedd ei enw,  
 Hysbys iawn i bawb oedd hwnw;  
 P' le byna' i le, mewn gwlad a thre',  
 Fe fydde 'n ofalus,  
 O lwybrau 'i berchen byddai 'n barchus,  
 O flaen y byd ynghyd a'r eglwys.  
 Dywedai 'i brofiad yn bur groew,  
 Wrth un o'i frodyr cyn ei farw;  
 'Tawelwch mawr sydd yn awr,  
 Tan ddwyllaw 'r cawr creulon,  
 Mae 'r Iesu imi yn llawn ddigon,  
 Ffarwel! 'r wy 'n myn'd i ffrydiau 'r afon.'"



### TAIR BRICSEN AT DY'R BIBL.

**A** DRODDAI y Parch. T. Phillips, Henffordd, Goruchwyliwr y Fibl-Gymdeithas, hanes hynod am ferch fechan dlawd yn Swydd Dorset. Mae tŷ y Gymdeithas yn Llundain i gael ei dynu i lawr, ac un llawer mwy i gael ei godi yn ei le. Mae y tŷ newydd i fod yn werth tua deng mil ar hugain o bunnau, ac y mae casgliad ar droed tuag at gynnorthwyo y Gymdeithas i'w godi. Pan ddeallodd y ferch fechan y peth, anfonodd lythyr at Ysgrifenydd y Bibl-Gymdeithas, a'r swm o *dair ceiniog* ynddo; a dywedai, "nas gallasai roddi ychwaneg; ond y tybiai y buasai y tair ceiniog yn ddigon i gael tair bricsen, ac y buasai yn llawen ganddi roddi tair bricsen yn nhŷ newydd y Bibl."

Mae ymysg darllenwyr **TRYSORFA Y PLANT** lawer o ferched a bechgyn a rydd o'u calon fricsen, neu ddwy, neu dair, at y tŷ rhagorol.


Os nad ellwch wneyd llawer gydag unrhyw achos da, gwnewch yr hyn alloch—rhowch **FRICSEN!**

### Y GAREG ATEB.

**A** RTH rodio ger fy mwthyn ar ddystaw foreu gwŷn,  
 Yn uchel, uchel canu wnawn, yr anwyl eiriau hyn;  
 O! lanerch wynfydedig, fy nghartref byth wyt ti;  
 O! lanerch wynfydedig, fy nghartref byth wyt ti,  
 Adseiniai 'r "Gareg Ateb" o'r glŷn islaw i mi,  
 A phob peth ganwn yn y lle, 'r un fath y canai hi.

Tra 'r oedd ei pheraidd nodau yn tramwy trwy fy nghlyw,  
 O fryniau tragwyddoldeb pell fel hyn llefarai Duw;  
 Nid dyna 'th gartref, Gristion, y nef yw 'th gartref di;—  
 Nid dyna 'th gartref, Gristion, y nef yw 'th gartref di,  
 Atebai y *gydwybod* o ddwfn fy ysbryd i:—  
 Y "Gareg Ateb" roes yr Ion mewn enaid ydyw hi.

GAEHWENYDD.



## BWYTAWR MORGRUG.

**M**AE y créadur bychan hagr hwn yn ddyeithr i ni, ond mae llawer o honynt mewn gwledydd tramor, yn enwedig yn Neheubarth America. Ei brif ymborth yw morgrug, ac y mae ei drwyn main a hir wedi ei gyfaddasu yn hynod tuag at eu dal. Lle mae toraeth mor fawr o forgrug, y mae yn ofynol cael rhyw attalfa ar eu cynnydd, pe amgen, heidient dros yr holl wlad.

## I CAN PUSH A POUND.

**P**R oedd llong o rai miloedd o dunnelli yn cael ei *launchio* yn ddiweddar yn un o borthladdoedd Lloegr, a miloedd o bobl wedi ymgasglu i'r lle ar yr awr benodedig. Tarawyd y *wedges* i ffwrdd, ond nid oedd y llong fawr yn syflyd. Yr oedd bachgen bychan yn sefyll yn yr ymyl; ac wrth weled y llong yn aros yn llonydd, rhedodd ymlaen, a dechreuodd wthio â'i holl nerth. Torodd yr holl dyrfa i chwerthin. Teimlodd y bychan oddiwrth y gwawd, trodd at y dyrfa, a dywedodd, "*I can push a pound,*" (gallaf wthio pwys,) ac ymosododd i wthio drachefn. Ac er mawr foddhâd y miloedd, dacw y llong aruthrol yn dechreu llithro, yn unig trwy gyffyrddiad y plentyn, ac mewn mynyd yr oedd yn nofio yn ardderchog ar gefn y tônau. Nerth llaw egwan y plentyn oedd y cwbl oedd yn anghen i gychwyn y llong.

Nid oes neb a wŷr pa faint allai ei ddylanwad ef effeithio gydag unrhyw symudiad daionus. Mae un gronyn yn ddigon i droi y fantol. Mae un ysgogiad, neu air cefnogol, neu hyd yn nôd edrychiad siriol, wedi cychwyn symudiad pwysicach lawer gwaith na chychwyn y llong fawr oddiar y blociau i'r dyfroedd. Cofiw'n oll ddywediad y plentyn, "*I can push a pound.*"



## DYDDANION.

NID MOR WALLGOF.

**H**AN ddygwyd cŵyn yn erbyn Iarll Bradford fod ei feddwl wedi dyrysu, dygwyd ef o flaen yr Arglwydd Ganghellydd i'w holi er profi ei wallgofrwydd. Gofynnodd yr Arglwydd Ganghellydd iddo, "Pa sawl coes sydd gan ddafad?" "Ie," ebai'r Iarll, "ond pa un ai ddafad fyw ai ddafad farw a feddylwch?" "Pam, a oes rhyw bwys pa un?" gofynai'r Canghellydd. "O oes, fy Arglwydd," meddai Bradford, "oblegid gall ddafad fyw fod & phedair coes; ond am ddafad farw nid oes ganddi ond dwy; oblegid ysgwyddog (*shoulder*) yw ei choes flaen."

Y GWAITH YN CYDFYNED A'R DON.

**H**AN oedd gwas Rowland Hill unwaith yn glanhâu y cyllill a'r ffyrc, ac yn canu tŵn ysgafn, gyflym, a masweddol, dywedodd ei feistr wrtho, "Fachgen, paid canu ffolineb fel yna; os wyt yn canu, cana dŵnau araf a gweddus ar bennillion synwrol." Cymerodd y bachgen yr awgrym. Ond wrth weled fod ysgogiad llaw y gwas wedi arafu i gyfateb i arafwch y dŵn, gorfu ar y gweinidog ddywedyd wrtho eilwaith, "Cymer at dy hen dŵnau eto, onidê ni fydd y cyllill a'r ffyrc yn barod erbyn cinio."

MYNED I'R NEFOEDD HEB Y SPECTOL.

**D**YNA, 'nawr!" meddai geneth fechan wrth chwilio y drŵr, "mae fy nhadcu (taid) wedi myned i'r nefoedd heb ei spectol! Beth a wna?" Yn fuan yr oedd yno berthynas oedranus arall yn glaf, a dywedwyd wrth yr eneth ei fod yn ymyl marw. Rhedodd at erchwyn ei wely & spectol ei thadcu yn ei llaw, "Ydych chwi yn myned i farw?" gofynai. "Y maent yn dyweyd fy mod," ebai'r claf. "Ydych chwi yn myned i'r nefoedd?" "Wel, gobeithio fy mod." "Dyma spectol fy nhadcu," ebai'r plentyn yn hollol ddiniwed, "a welwch chwi fod yn dda i fyned & hi iddo?"

PRYDYDD CHWECH OED.

**B**ACHGENYN hynod yw John Calvin Hughes. Mae rhai o'i ddywediadau wedi ymddangos o'r blaen yn NHRYSORFA Y PLANT. Prin chwech oed ydoedd pan aeth i geisio prydyddu pennill i'w gyfnither fechan, yr hon oedd tua blwydd oed. A dyma ei bennill heb newid yr un gair. Mae yr odl yn hynod wrth ystyried yr oed, er nad yw y gramadeg yn gywir. Cyfarch ei fam y mae;—

"How is Lizzie,  
Is she busy?  
Do she play,  
Night and day?"

Can she walk?  
And can she talk?  
Can you tell

Is she well?  
Bring her here,  
Let me see her."



## TRYSORFA Y PLANT.

RHIF. XLV.]

MEDI, 1865.

[CYP. IV.]

### MRS. TAYLOR A BETTY.

**D**RODDWYD yr hanesyn addysgiadol a ganlyn gan y Parch. Edward Morgan, Dyffryn, yn "seiat fawr" Liverpool y Sul-gwyn diweddaf, ar ol gwranddo darlleniad y cyfrifon am y flwyddyn. Yr oedd wedi ei gael oddiwrth y gweinidog o Manchester ei hun.

Yr oedd iechyd gweinidog yr efengyl yn Manchester yn wael, ac yntau yn gorfod myned ymaith unwaith a thrachefn i geisio adnewyddiad. Nid oedd ei eglwys yn gref, ac yr oedd baich mawr o ddyled ar y capel.

Yr oedd yn perthyn i'w eglwys ddwy wraig dduwiol o'r enw Mrs. Taylor, a Betty. Golchi o dŷ i dŷ oedd galwedigaeth Betty, a glanhâu dillad boneddigion yn ei thŷ ei hun oedd gorchwyl Mrs. Taylor.

"Wyddoch chwi beth, Mrs. Taylor," ebai Betty un diwrnod, pan gyfarfuasant, "mae rhywbeth yn blino ein gweinidog heblaw afiechyd corff."

"Aiê?" ebai Mrs. Taylor; "beth all hyn y fod?"

Atebodd Betty, "Yr wyf fi yn credu fod y baich dyled sydd ar y capel—pymtheg cant o bunnau—yn llethu ei feddwl, ac na idaw byth yn iach nes symud y baich hwn."

"Mae'n bosibl, wir," ebai Mrs. Taylor; "buasai yn dda genyf fi wneyd unrhyw beth a allaswn tuag at dalu y ddyled yna. Ac er iad ydym yn eglwys gref, nis gwn paham nad allem ysgafnhâu lawer arno wrth fyned ati o ddifrif."

“Wel, yr wyf fi wedi bod yn meddwl yn ddifrifol ar y pwnc yma,” ebai Betty, yr olchwraig dlawd, “ac yr wyf am gael rhyw lwybr i fyned ati. Yr wyf am i chwi gyttuno â mi, Mrs. Taylor, i gymeryd y peth yn destun gweddi am wythnos, a dyfod at ein gilydd eto i weled pa oleuni a ddaw ar y mater.”

Felly penderfynwyd. Ar ben yr wythnos cyfarfuwyd, a phenderfynwyd fod Betty i rododi swllt yr wythnos, a Mrs. Taylor yr un faint, tuag at dalu y ddyled. Yr oedd y symiau hyn yn fawrion yn ddiâu ar lyfr y nefoedd, oddiwrth ddwy wraig oedd yn ennill eu tamaid wrth olchi. Heblaw hyn, yr oedd gan Betty fachgenyn o fab yn ysgubo simneiau, ac yr oedd wedi doddi enw hwnw i lawr am swllt yr wythnos. Felly yr oedd wyth swllt y mis i fyned o dŷ tlawd Betty. *Well done*, Betty, yn wir! Fe gywilyddia miloedd yn nydd y farn wrth wrando dy hanes.

Dyma ddechreuad y casglu ar gyfer talu pymtheg cant o bunnau! Ond buan daeth rhwystr ar y ffordd. Clywodd rhai o'r diaconiaid fod y gwragedd yn cyffroi yn yr achos. Galwyd hwynt i gyfrif; ac ar ol gweinyddu cerydd llym arnynt am ymyryd & gwaith y diaconiaid, gollyngwyd hwy ymaith, gyda rhybudd ar iddynt ofalu rhaglawn am eu gorchwylion eu hunain.

Daeth y peth i glustiau un boneddwr haelfrydig. Galwodd gyda Betty, a gofynodd os gwir y peth, ac i'r diaconiaid dasfu dwfr oer ar yr ymgais.

“Ydyw, mae y cwbl yn wir, syr,” ebai Betty, yn ddigalon.

“Wel,” ebai'r boneddwr, “rhoddwch fy enw i i lawr am hanner can' punt, a chymerwch galon.”


Edrychodd Betty yn myw ei lygad, a gofynodd, “A ydych chwi yn ddifrifol, Mr. —?”

“Ydwyf, Betty, yn hollol ddifrifol.”

“Wel, bendigedig! dyma'r gwaith *wedi* ei wneyd,” ebai'r olchwraig dlawd, â'i gwadnau yn barod i adael y ddaear.

Ymhen tua chw' mis yr oedd Betty a Mrs. Taylor wedi casglu *saith cant a hanner o bunnau!* Yr oedd y diaconiaid hefyd, er mwyn anrhydedd eu henwau a'u swydd, wedi gorfod dyfod allan, ac wedi casglu saith cant a hanner arall. Talwyd y pymtheg cant punnau. Symudwyd y baich trwm oddiar feddwl y gweinidog, a gwnaeth hynny fwy o les i'w iechyd na dwfr unrhyw ffynnon yn y wlad.

Gymaint a allwn wneyd ond myned ati o ddifrif!



## CARTREF Y SAINT.

*(The Realms of the Bless'd.)*

GAN J. CEIRIOG HUGHES.



AE son am gerddorion y nef,  
 A son am gerddorion y byd :  
 Ond beth am y gân "Iddo Ef"  
 Gan nefoedd a daear ynghyd. Nef, nef, nef.

Mae preswyl dragwyddol o hedd,  
 Heb bechod na phoen o un rhyw :  
 Peth hyfryd cael cwag yn y bedd,  
 Ond beth fydd cael nefoedd a byw!

Fe ganwn am degwch a maint  
 Heolydd Jerusalem Duw :  
 Fe ganwn am gartref y saint,  
 Beth ganwn am fod yno 'n byw!

Ymgasglwn gyfoedion ynghyd,  
 I fyny mae llanw ein llef :  
 ae ffordd i gerddorion y byd  
 Gael uno cerddorion y nef.

*(Lledgyfeithiad.)*


---

 GWEDDIAU Y BIBL.

V. *Gweddi Jacob am ei gadw rhag Esau.*—Gen. xxxii. 9—12.

DDUW fy nhad Abraham, a Duw fy nhad Isaac, O Arglwydd, yr hwn a ddywedaist wrthyf, Dychwel i'th wlad, ac at dy genedl, a mi a wnaf ddaioni i ti. Ni ryglyddais y lleiaf o'th holl drugareddau di, nac o'r holl wirionedd a wnaethost â'th was; oblegid a'm ffon y daethum dros yr Iorddonen hon; ond yn awr yr ydwyf yn ddwy fyntai. Achub fi, attolwg, o law fy mrawd, o law Esau; oblegid yr wyf fi yn ei ofni ef, rhag dyfod o hono a'm taraw, a'r fam gyda'r plant. A thydi a ddywedaist, Gwnaf ddaioni i ti yn ddiâu; a'th had di a wnaf fel tywod y môr, yr hwn o amllder nid ellir ei rifo.

VI. *Gweddi Moses dros Israel wrth Sinai.*—Exod. xxxii. 31, 32.

Och, pechodd y bobl hyn bechod mawr, ac a wnaethant iddynt dduwiau o aur. Ac yn awr, os maddeui eu pechod —; ac os amgen, dilëa fi, attolwg, allan o'th lyfr a ysgrifenaist.

VII. *Gweddi Moses am y presennoldeb Dwyfol.*—Exod. xxxiii. 12, 13.

Gwel, ti a ddywedi wrthyf, Dŵg y bobl yma i fyny; ac ni

ddangosaist i mi yr hwn a anfoni gyda mi : a thi a ddywedaist,  
Mi a'th adwaen wrth dy enw, a chefaist ffafr hefyd yn fy ngolwg.  
Yn awr, gan hyny, o chefais ffafr yn dy olwg, hysbysa i mi dy  
ffordd, attolwg, fel y'th adwaenwyf, ac fel y caffwyf ffafr yn dy  
olwg ; gwel hefyd mai dy bobl di yw y genedl hon.



### Y WIALEN FEDW.

“Na thyn gerydd oddiwrth dy blentyn—cur ef â gwialen.” “Y wialen  
*fedw*, debyg gen' i,” meddai y diweddar J. Jones, Dreffynnon. “Byddent  
gynt yn crogi pobl ddrwg wrth fôn pren bedwen, er dangos, os esgeulusid  
defnyddio y brig, nad oedd dim sicrwydd am ochel ei bôn.”

**W**RTH fwthyn bychan yn y wlad,  
Blagurai gwerddlas fedwen ;  
A'i gwraidd estynai dyfiant mad  
Drwy 'r cangau i bob deilen.

O fewn i'r bwth 'r oedd bachgen bach  
Dan ofal ei rieni,  
Yn tyfu i fyny 'n fywiog iach,  
Heb neb na dim i'w groesi.

Gadewid iddo 'i ffordd ei hun  
Mewn pobpeth rhag ei ddigio ;  
Nis gallai 'i fam, dyneraf fun,  
Byth oddef iddo grio.

Cyn hir dechreuai (trwm yw d'weyd)  
Ladrata mân deganau ;  
Ond ni cheryddid byth am wneyd,  
Rhag briwio ei deimladau.

Y fedwen dyfai yn barhâus,  
Gan chwyfio ei changenau,  
Heb gwrdd â neb oedd mor drahâus,  
Na thori un o'i brigau.

A'r bachgen, fel y tyfai 'n fwy,  
Gynnyddai mewn drygioni ;  
A'i ddrwg ddechreuai roddi clwy'  
I deimlad ei rieni.

Ond er hyn oll, o'r fedwen lâs  
Ni thorid gwialen fedw ;  
Yr oedd ei guro 'n waith rhy gas—  
Gwell godde' 'i ddrwg na 'i dwrw.

Am hyn ymlaen o ddrwg i waeth  
Anturiai 'r bachgen eon,

A dwyn pêrffrwythydd ganwaith wnaeth  
O erddi ei gym'dogion.

A hyfach, hyfach, deuai ef  
Fel 'r ydoedd yn cynnyddu;  
A'r fedwen dyfai 'n goeden gref,  
Heb neb i'w haflonyddu.

A'r bachgen wedi tyfu 'n fawr,  
A dorai *shop*, rhyw noswaith;\*  
Ac yr oedd cyn pen y deuddeng awr  
Yn ngafael caeth y gyfraith.

Fe 'i rhoed o fewn y carchar caeth  
I aros cael ei dreio;  
Ac yno 'n amlwg euog daeth,  
'R ol hir a manwl chwilio.

A dacw 'r Barnwr â'r cap du  
'N cyhoeddi barn marwolaeth  
Uwch ben y llanc, yn ngwydd y llu,  
Heb obaith gwaredigaeth.

Y fedwen lwydlas oedd fel cynt  
A'i changau yn eu cyfri',  
Yn cyhwfanu yn y gwynt,  
Fel pe i fythol oesi.

Ond Ow! fe ddeuai nerthol ddyn  
A bwyall ar ei ysgwydd,  
A dyrnai 'r goeden yn ei wŷn  
Nes syrthiai i lawr yn ebrwydd.


Gofynai dyn oedd bron gerllaw  
"Beth y'ch chwi 'n tori 'r fedwen?"  
Atebai yntau 'n lled ddiifraw  
"Mae 'n rhaid ei chael yn grogbren!"

"Wel, wel," sibrydai 'r dyn yn brudd,  
"Am esgeuluso 'i brigau,  
Rhoir corff y fedwen, oll heb ludd,  
I gosbi dyn hyd angau."

Wel, hoff rieni, pan bo raid,  
Arferwch frig y fedwen,  
Ac yna ni bydd anghen-rhaid  
Am gael ei chorff yn grogbren!

I. GLAN CLEDR.

\* Yr oedd crogi flynyddau yn ol am dori tai, lladrata defaid, &c.



### LLADEDIGION Y BARILAU.

**D**R oedd cartwr meddw yn gyru ei gart a barilau yn ddiweddar ar un o ystrydoedd Glasgow. Syrthiodd yn ynyl y ceffyl, ac aeth olwyn y cart drosto, a thorodd asgwrn ei forddwyd. Dygwyd ef i'r clafdy; ond cyn fod effaith ei feddwod wedi ei adael, yr oedd twymyn wedi ei gymeryd, ac aeth i dragwyddoldeb yn y tywyllwch, heb wybod ei fod yn myned, ac heb ddeall yr achos.

Mae lladedigion y barilau yn Nghymru yn llawer mwy lliosog nag y dychymygir eu bod. Yr ydym bob dydd yn cael hanes rhai yn myned dan olwynion, yn syrthio i byllau, yn cael eu boddi gan y dwfr, yn cael eu llosgi gan y tân, yn dihoeni yn

nghelloedd y gweithdai a'r carchardai, ac yn dringo i esgynlawr ddychrynlyd y crogbren.

Y dydd o'r blaen, o fewn tair milldir i'r fan hon, y cafwyd tad ag y mae ganddo blant heddyw yn troi yn nghylchoedd uchaf cymdeithas, wedi rhostio yn fyw ar ben o dyn galch. Bu unwaith yn un o ddyinion mwyaf cyfrifol y dref oedd yn byw ynddi; ond ymollyngodd yn raddol dan hudoliaeth a chaethiwed y faril. Ymlusgodd yn feddw, ganol nos, i ben yr o dyn; a phan welwyd ef y bore, yr oedd ei gnawd yn syrthio yn dalpiau oddiwrth yr esgryn rhostiedig. Bu farw mewn poenau dychrynlyd yn yr *hospital*.

Mae dyn yn awr yn ngharchar Abertawy, dan gollfarn marwolaeth, yn aros dydd ei grogi, a hyn y'n achos cynnwys y faril. Tŵr o forwyr yn myned allan o dafarn yn y dref am hanner nos, a'r naill ar yr ystryd yn brathu y llall i farwolaeth â chylllell.

Gallm nodi cannoedd o'r cyffelyb o bob parth o'r deyrnas. Mae miloedd yn y wlad heddyw, yn wŷr, gwragedd, a phlant, os nad o ran eu cyrff, o ran eu meddyliau a'u hamgylchiadau, mewn cyflwr cyffelyb i'r dyn acw yn y darlun, yn ysgrechain dan orthrwm marwol y barilau. Rhoddwch help eich dwylaw, ddarllenwyr hynaws, i'w gwaredu! Gellwch wneyd hyn trwy beidio yfed dyferyn byth eich hunain, a gwneyd eich goreu i berswadio eraill i wneuthur yr un peth.

## DAEARYDDIAETH GWLAD CANAAN.

### PENNOD IV.—AFONYDD.

1. **D**R unig afon o bwys yn Palestina ydyw yr *Iorddonen*. Y mae y rhan fwyaf o'r lleill yn sychu i fyny yn fynych yn ystod yr haf. Tarddiad uchaf yr *Iorddonen* sydd yn agos i Hasbeiya, yn ngodre gorllewinol Hermon. Y mae ei ffrydiau cangenol eraill yn tarddu mewn lleoedd o'r enwau Tell-el-Kadhi a Bania. Y mae y tair ffrwd hyn yn ymuno, gan ffurfio "dyfroedd Merom." Wedi dyfod allan o'r llyn, rhed yn gyflym trwy ddyffryn cul i Fôr Galilea. Dywedir fod yr afon yn rhedeg trwy ganol y llyn heb ymgymysgu â'i ddyfroedd. Ar ol gadael Llyn Genesaret, y mae yn rhedeg am tua 60 milldir, ac yna yn ymarllwys i'r Môr Marw. Cyfrifir, ag ystyried ei throadau, nas gall ei gyrfa fod yn llai na 200 milldir, ac yn fwyaf cyffredin gosodir ei llêd ar gyfartaledd yn oddeutu 30 o latheni, a'i dyfnder yn 3 llath. Y mae ei dyfroedd, ar y cyfan, yn loew ac yn iachus. Mae gan yr *Iorddonen*, yn ystod y rhan fwyaf o'i gyrfa, ddwy res o geulanau, sef y tufewinol a'r allanol. Cynnwysa y cyntaf wely yr afon, ac y mae y llall yn gwasanaethu fel terfyn iddi ar ei gorlifriad dros ei glanau. Y mae y rhai hyn, mewn rhai manau, yn llawn corsenau a phrysgwydd, ac ynddynt y llochesa llewod a bwystfilod eraill, y rhai a yrir allan ar gyfodiad y dyfroedd;



Jer. xlix. 19. Y mae yn ddiammheu fod y darllenydd yn cofio ddarfod i ddyfroedd yr Iorddonen unwaith sefyll megys pentwr, a hyny ar adeg ei gorlifiad, fel y gallai plant Israel fyned trwodd yn ddiogel i wlad yr addewid; Jos. iii. Rhanwyd ei dyfroedd ddwywaith, sef gan Elias ac Eliseus; 2 Bren. ii.; ac yn yr afon hon y bedyddiwyd ein Ceidwad bendigedig, pan y daeth llef o'r nefoedd yn dywedyd, "Hwn yw fy anwyl Fab," &c.; Matth. iii. 17.

2. *Afon Oison.* Y mae'r afon hon yn tarddu yn mynydd Tabor, ac yn ymarllwys i Fôrgilfach Acre, yn agos i odre Carmel. Y mae y rhan hono o honi sydd yn rhedeg trwy ddyffryn Jezreel yn sychu yn yr haf, ond fel y mae yn agosau at y môr, y mae yn chwyddo yn ddirfawr oddiwrth ffrydiau nifeiriol a ddylifant o'r bryniau cyfagos. Yr afon hon a ysgubodd ymaith lu Sisera. Gelwir hi yn nghân Deborah yn "ddyfroedd Megido;" Barn. v. Ar lanau yr afon hon y lladdwyd prophwydi Baal; 1 Bren. xviii. 40.

3. *Besor.* Y mae tarddiad yr afon hon yn agos i Hebron, ac y mae yn llifo i Fôr y Canoldir o du y dehau i Gaza. Gorfodwyd Dafydd, pan yn erlid ar ol yr Amaleciaid, i adael dau cant o'i wŷr wrth yr afon hon, gan eu bod yn rhy flinedig i fyned ymhellach; 1 Sam. xxx. 10. Tybia rhai mai yma y bedyddiwyd yr eunuch gynt; Act. viii. 36—38.

4. *Cerith.* Y mae hon yn codi yn y mynyddoedd sydd i'r gorllewin o Jericho. Y mae yn rhedeg tua'r dwyrain trwy wastadedd Jericho, ac yn y diwedd yn ymarllwys i'r Iorddonen. I'r fan hon y gorchymynwyd i Elias ffoi ac ymguddio rhag Ahab, "A'r cigfrain a ddygent iddo fara a chig y boreu a'r prydawn, ac efe a yfai o'r afon nes iddi sychu;" 1 Bren. xvii. 3, 6, 7.

5. *Cedron.* Y mae yr afon hon yn llifo trwy ddyffryn Jehosophat, rhwng Jerusalem a Mynydd yr Olewydd. Y mae yn tarddu o du y gogledd i'r ddinas, ac yn rhedeg tua'r dehau nes cyrhaedd y Môr Marw. Nid ydyw ond bechan yn gyffredin, ond yn amser gwlawogydd trymion chwydda yn erwin. Gan mai ystyr yr enw Cedron ydyw *pygddu*, tybia rhai iddi gael ei galw felly am mai iddi hi y rhedai holl fudreddi y ddinas, tra y mae eraill yn haeru iddi dderbyn yr enw oddiwrth y cedrwydd a dyfai unwaith ar ei glanau. Yn y dyffryn gerllaw y llosgodd Aza, Hezeciah, a Josiah, ddelwau eu tadau gwrthgiledig; 2 Cron. xv. 16; xxix. 16; 2 Bren. xxiii. 12. Yr oedd Dafydd a'i ganlynwyr yn ei chroesi pan yn ffoi rhag Absalom; a'r Iesu wrth fyned i ardd Gethsemane ar "y nos y bradychwyd ef;" Ioan xviii. 1.

6. *Afon Arnon.* Y mae'r afon hon y tu hwnt i'r Iorddonen, ac yn tarddu yn mynyddoedd Gilead. Ar ol rhedeg oddeutu 80 milldir, ymarllwysa i'r Môr Marw. Yr afon hon ydoedd yn gwahanu gynt rhwng yr Ammoniaid a'r Moabiaid. Hi hefyd ydoedd y terfyn deheuol i diriogaethau yr Amoriaid, ac yn gwahanu llwyth Reuben oddiwrth y Moabiaid. Ar lanau yr afon hon y gorchfygodd Israel Schon brenin yr Amoriaid, gan oresgyn ei dir o Arnon hyd Jabboc; Num. xxi. 24; Barn. xi. 18; Es. xvi. 2

7. *Y Jabboc* sydd yn codi yn mynyddoedd Gilead ; ac wedi gyrfa gyflym o 50 milldir, y mae yn rhedeg i'r Iorrdonen oddeutu 30 milldir o du y dehau i Fôr Galilea. Yr afon hon ydoedd y terfyn gynt rhwng yr Amoriaid a'r Ammoniaid, ac yn agos i'r fan hon yr ymdrechodd Jacob gyda'r angel pan ar ei daith o Mesopotamia, ac y galwyd ei enw ef Israel ; Gen. xxxii. 28 ; Num. xxi. 24.

## LLYNAU.

1. *Dyfroedd Merom*, ydyw y llyn uchaf a'r lleiaf o'r tri a ffurfir gan yr Iorrdonen yn ei rhedfa. Y mae ei faint yn amrywio mewn gwahanol adegau o'r flwyddyn ; ond yn y gwanwyn, pan y mae yn llawn, y mae yn oddeutu 7 milldir o hŷd, ac yn oddeutu 6 milldir o léd. Bu ymladdfa ar lánau y llyn hwn rhwng Josua a breninoedd Canaan, pan y dinystriodd efe hwynt yn llwyr ; Jos. xi. 8.

2. *Môr Galilea*. Y mae hwn yn sefyll tua 13 milldir o du y dehau i ddyfroedd Merom. Ei hŷd sydd oddeutu 12 milldir, a'i léd o 5 i 6 milldir. Gelwir ef hefyd Llyn neu Fôr Tiberias, Môr Cinnereth, a Llyn Genesaret ; Ioan vi. 1 ; Jos. xii. 3 ; Luc v. 1, &c. Amgylchynir ef â brynïau, yr hyn sydd yn ei wneyd yn ddarostyngedig i ystormydd enbyd a disymwth. Y mae y wlad oddi-amgylch yn nodedig o brydferth a ffirwythlawn, ac yn amser Crist yr oedd amryw ddinasoedd blodeuog ar ei lánau. Y mae y dyfroedd yn loew ac o archwaeth ddymunol. Ar lánau y llyn hwn y galwodd Crist ei apostolion ; Matth. iv. 18, &c. Yma y cyflawnodd amryw o'i wyrthïau, megys yr helfedd rhyfeddol o bysgod, Luc v. 1 ; Ioan xxi. 6 ; tawelu y gwynt, Matth. viii. 23 ; rhodio ar y môr, Matth. xiv. 25 ; ac ymddangosodd i'w ddysgybïion ar ei lánau wedi iddo adgyfodi, Ioan xxi. 1.

3. *Y Môr Marw*, sydd yn sefyll yn y pen deheuol i'r Iorrdonen. Gelwir ef wrth yr enw hwn, am nas dichon pysgod fyw ynddo. Adnabyddir ef hefyd wrth enwau eraill, megys, "Y Môr heli," am fod ei ddyfroedd yn hynod heilltion a chwerw ; Llyn Asphaltites, oddiwrth yr *asphaltum* neu *bitumen* a geir yn nosis ar ei wyneb ; Môr y Dwyrain, Joel ii. 20 ; Môr Sodom, am ei fod yn cuddio y gwastadedd lle yr oedd Sodom, &c., yn sefyll arno cyn i Dduw ei dinystrio. Oddiwrth hyn, meddylid unwaith nad oedd y llyn hwn yn bodoli cyn dymchweliad y dinasoedd uchod, ac felly fod yr Iorrdonen yn rhedeg y pryd hyny trwy y gwastadedd, ac yn y diwedd yn ymarllwys i un o gangenau y Môr Coch ; ond tybir yn awr fod yno llyn yn flaenorol, i'r hwn y rhedai yr Iorrdonen, ond ei fod wedi ymestyn tua'r dehau, gan ffurfio y Môr Marw presennol. Y mae tua 40 milldir o hŷd, a 9 neu 10 milldir o léd. O du y dwyrain a'r gorllewin iddo y mae mynyddoedd uchel a serth, y rhai sydd yn ymddyrchafu i'r uchder o 2000 i 2500 o droedfeddi. Dywedir yn aml nas dichon adar ehedeg drosto heb eu mygu gan dardh y dyfroedd ; ond y mae'r hanesion a rydd

teithwyr diweddar yn dangos fod y dyb hon ac amryw eraill cyffelyb yn hollol ddisail.

Y mae amryw *ffynnonydd* neu *bysgodlynoedd* (*pools*) i'w canfod mewn amryw barthau o'r wlad, ond ni chaniata lle i ni nodi ond un neu ddau o honynt yn bresennol.


(1.) *Llyn Siloam*. Yr oedd hwn mewn dyffryn wrth droed fynydd Sion, tu allan i Jerusalem. Yr oedd dwy ffrwd yn rhedeg allan o ffynnon Siloam, y rhai a ymdywalltent i ddau o lynoedd, sef, "y llyn uchaf," a elwid Gihon, 2 Cron. xxxii. 30; Es. vii. 3; a'r llyn isaf a elwid "Siloam," Es. xxii. 9. Y mae y dyfroedd yn loew ac yn rhedeg yn araf, Es. viii. 6. O'r llyn hwn yr anfonid dwfr i'r ddinas, ac am hyny galwyd ef Siloam, neu anfonedig. Yma yr anfonwyd y dyn dall i ymolchi wedi i'r Iesu iro ei lygaid, Ioan ix. 6.

(2.) *Llyn Bethesda*. Safai hwn yn agos i "Borth y defaid," yn Jerusalem. Ei hŷd ydoedd 120 o gamrau (*paces*), ei lēd 40 o gamrau, a'i ddyfnder oddentu 75 o droedfeddi. Yr oedd pump o rodfeydd wedi eu hadeiladu oddiamgylch iddo, ymha rai y gorweddai y lliaws cleifion a ddygid yno i ymdrochi yn ei ddyfroedd. "Canys yr oedd angel ar amserau yn disgyn i'r llyn ac yn cynhyrfu y dwfr, yna yr hwn a elai i mewn yn gyntaf ar ol cynhyrfu y dwfr, a äi yn iach o ba glefyd bynag a fyddai arno," Ioan v. 4. Yma yr iachäodd yr Iesu yr hwn fuasai glaf namyn dwy flynedd deugain; Ioan v. 9.



## DECHREUAD 'JOHN ANGELL JAMES.

YMAINT o ddaioni allwn wneyd yn fynych trwy esiampl ddystaw. Mae dim ond edrych ar arall yn gwneyd ei ddyledswydd wedi profi yn fendith i lawer un, heblaw Mr. James o Birmingham. Gŵyr llawer o'n darllenwyr ieuainc, ond odid, mai un o weinidogion mwyaf duwiol a defnyddiol ei oes oedd Mr. James. Mae yn dyweyd yn un o'i ddarlithiau,—“Os oes genyf fi hawl i ystyried fy hun yn Gristion, os wyf wedi cyrhaedd i ryw ddefnyddioldeb yn eglwys Crist, yr wyf yn ddyledus am dano, fel moddion, i weled cyfaill oedd yn cysgu yn yr un ystafell a mi, yn myned ar ei liniau bob nos wrth fyned i'w wely. Deffrôdd yr olygfa hono fy nghydwybod gyaglyd, a thaflodd saeth i fy nghalon. Oblegid, er i mi gael fy nghodi mewn addysg grefyddol, yr oeddwn wedi esgeuluso gweddi, a thafu ymaith ofn yr Arglwydd. Effaith yr olygfa hon oedd fy nychweliad at Dduw, a'm darpariad ar gyfer y weinidogaeth. Mae agos hanner canrif wedi myned heibio oddiar hyny; ond y mae yr ystafell fechan hono, a'r gŵr ieuanc ynddi ar ei liniau, o hyd o flaen fy meddwl; i.e, nid anghofir hwy byth, hyd yn nôd yn nghanol gogoniant a llawenydd y nesoedd, a thrwy oesoedd tragywyddoldeb.”



THE FOUNTAIN.

I
 INTO the sunshine,  
 Full of light,  
 Leaping and flashing  
 From morn till night.

Into the moonlight,  
 Whiter than snow,  
 Waving so flower-like  
 When the winds blow !

Into the starlight,  
 Rushing in spray,  
 Happy at moonlight,  
 Happy by day !

Glorious Fountain !  
 Let my heart be  
 Fresh, changeful, constant,  
 Upward like thee !

FY HOLL FFYNNONAU SYDD YNOT TI.—PSALM lxxxvii. 7.

## TON.—WELE FI YN DYFOD.

Do! F. M. 76.

|   |                            |         |                                                                    |                  |
|---|----------------------------|---------|--------------------------------------------------------------------|------------------|
| { | m., r : m . l              | s : d   | r., d : r . m                                                      | r :              |
|   | Wel—e fi yn                | dy—fod, | Llef—s!r Meichiau                                                  | gwiw;            |
|   | d., t <sub>1</sub> : d . f | m : d   | t <sub>1</sub> ., l <sub>1</sub> : t <sub>1</sub> . d              | t <sub>1</sub> : |
|   | d., d : d . d              | d : d   | s <sub>1</sub> ., s <sub>1</sub> : s <sub>1</sub> . s <sub>1</sub> | s <sub>1</sub> : |

|   |                            |         |                                          |                  |
|---|----------------------------|---------|------------------------------------------|------------------|
| { | m., r : m . fe             | s : m   | r., s : t . l                            | s :              |
|   | Ad—sain creigiau           | Sa—lem, | Wel—e'n d'od mae                         | Duw:             |
|   | d., t <sub>1</sub> : d . d | m : d   | t <sub>1</sub> ., t <sub>1</sub> : r . d | t <sub>1</sub> : |
|   | d., d <sub>1</sub> : d . d | d : d   | r., r : r . r <sub>1</sub>               | s <sub>1</sub> : |

|   |                                                                    |                                 |                            |      |
|---|--------------------------------------------------------------------|---------------------------------|----------------------------|------|
| { | f., s : l . f                                                      | r : s                           | m., r : m . l              | s :— |
|   | Gad an-feidr—ol                                                    | fawr—edd                        | nef y nef yn               | awr; |
|   | r., m : f . r                                                      | t <sub>1</sub> : t <sub>1</sub> | d., t <sub>1</sub> : d . f | m :— |
|   | s <sub>1</sub> ., s <sub>1</sub> : s <sub>1</sub> . s <sub>1</sub> | s <sub>1</sub> : s <sub>1</sub> | d., d : d . d              | d :— |

|   |                             |                                    |                                                                    |        |
|---|-----------------------------|------------------------------------|--------------------------------------------------------------------|--------|
| { | d <sup>l</sup> ., s : s . s | t . l :—                           | l., s : s . t <sub>1</sub>                                         | d :    |
|   | Ar aw—el—on                 | car—iad.                           | Brys—ia i barthau'r                                                | llawr. |
|   | m., m : m . m               | s . f :—                           | f., r : t <sub>1</sub> . s <sub>1</sub>                            | d :    |
|   | d., d : d . d               | f <sub>1</sub> . f <sub>1</sub> :— | s <sub>1</sub> ., s <sub>1</sub> : s <sub>1</sub> . s <sub>1</sub> | d :    |

## CHORWS.

|   |                 |                    |                                                                    |       |
|---|-----------------|--------------------|--------------------------------------------------------------------|-------|
| { | s., l : s . s   | d <sup>l</sup> : m | f., m : f . l                                                      | s :—  |
|   | Can—wn, can—wn, | can—wn,            | Am y Ceidwad                                                       | gwiw; |
|   | m., f : m . m   | m : d              | r., d : r . f                                                      | m :—  |
|   | d., d : d . d   | d : d              | s <sub>1</sub> ., s <sub>1</sub> : s <sub>1</sub> . f <sub>1</sub> | d :—  |

|   |                 |                    |                                                                    |                   |
|---|-----------------|--------------------|--------------------------------------------------------------------|-------------------|
| { | l., s : l . t   | d <sup>l</sup> : s | f., m : r . m                                                      | d :—              |
|   | Can—wn, can—wn, | can—wn,            | Crist yr Arglwydd                                                  | yw.               |
|   | f., m : f . f   | m : m              | r., d : t <sub>1</sub> . t <sub>1</sub>                            | d :—              |
|   | d., d : f . r   | d : d              | s <sub>1</sub> ., s <sub>1</sub> : s <sub>1</sub> . s <sub>1</sub> | d <sub>1</sub> :— |

*Y Geiriau Cymreig, oddigerth y Cydgan, gan IEUAN GWYLLT.*

**E**LE'fi yn dyfod,  
Llefai 'r Meichiau gwiw;  
Adsain creigiau Salem,  
Wele 'n d'od mae Duw:

Gad anfeidrol Fawredd  
Nef y nef yn awr;  
Ar awelon cariad  
Brysia i barthau 'r llawr.  
Canwn, canwn, canwn,  
Am y Ceidwad gwiw;  
Canwn, canwn, canwn,  
Crist yr Arglwydd yw.

Pa ryw fwyn beroriaeth  
Dreiddia trwy y nen?  
Pa ryw waredfgaeth  
Heddyw ddaeth i ben?  
Miloedd o angelion  
Yn 'n seinio sydd,  
Ganwyd y Messiah,  
Heddyw daeth y dydd.  
Canwn, canwn, &c.

Draw yn maesydd Bethle'm,  
Clywch y nefol gôr;  
O mor bêr eu hanthem  
Pr anfeidrol Iôr!  
Diafol a'i angelion  
Saif o'i gylch yn syn,  
Gan grynedig sibrawd,  
Ow! pa beth yw hyn?  
Canwn, canwn, &c.

Dyma 'r Hollalluog  
Heddyw ini 'n Frawd!  
Dyma holl dysorau  
Duwod yn y cnawd!  
Moroedd rad drugaredd  
Lanwodd dros y llawr,  
Periau gwlad gogoniant  
Ynddo ddaeth i lawr.  
Canwn, canwn, &c.

**M**ARK the angels singing,  
Wake the happy morn,  
Joyful tidings bringing,  
"Christ the Lord is born."

In a lowly manger,  
This shall be the sign,  
See the newborn stranger,  
Hail the Babe divine.  
Glory, glory, glory,  
In the highest sing,  
Glory, glory, glory,  
To our God and King.

Sisters dear, and brothers,  
Sing, O sing away,  
This of all the others  
Is the children's day;  
Hear the blessed story,—  
Once as young as we  
Christ, the Prince of glory,  
Slept on Mary's knee.  
Glory, glory, &c.

In the highest regions,  
Now upon the throne,  
All the blood-bought legions  
Claim Him Lord alone;  
But of all who 'dore him,  
With triumphant song,  
Children stand before him,  
In the greatest throng.  
Glory, glory, &c.

This of all the others,  
Is the children's day,  
Sisters dear, and brothers,  
Sing, O sing away;  
Bless him for the story,—  
Once as young as we  
Jesus, Lord of glory,  
Slept on Mary's knee.  
Glory, glory, &c.

Y CWESTIYNAU GWOBRYWYEDIG.

17. **M** ba wlad y dywed y Bibl y gwnelai rhywun ei gwisgo fel ei ddillad?
18. Ar ba amgylchiad y bu tyrfa fawr o bobl, rhai yn gorfoleddu, a rhai yn wylo, fel nas gellid adnabod sŵn y gorfoledd oddiwrth sŵn yr wylofain?



### YDYCH CHWI'N FEDDW HENO, 'NHAD?

“YDYCH chwi'n feddw heno, 'nhad?” gofynai Alice fach, bum' mlwydd oed, i'w thad. Yr oedd yn dyfod adref am unwaith yn sobr, ac Alice yn chwareu yn yr ystryd. Pan welodd yr eneth ef, dechrenodd redeg adref oddiar ei ffordd. Cafodd waith mawr i'w pherswadio i aros iddo.

Wedi iddo ei chodi i'w fraich, y gair cyntaf a ofynodd y plentyn, rhwng ofn a gobaith, “Ydych chwi ddim yn feddw heno, 'nhad?”  
 “Nac ydwyf, fy mhlentyn,” ebai'r tad, gan ei chusanu.

"Ydych chwi byth yn fy nghuro i, ond pan fyddwch yn feddw, 'nhad," meddai yr un fechan, gyda thôn mor serchog nes llenwi llygaid y tad â dagrau. Nid atebodd ddim, ond teimlodd i waelod ei galon.

"Rhoddaf fi ugain a chant o gusanau i chwi, oddiyma i'r tŷ, 'nhad," ebai eilwaith, a dechreuodd ei gusanu; gan wasgu ei breichiau bychain am ei wddf, nes ei hanner figu.

Yr oedd mam Alice wedi marw, ac wedi myned i'r nefoedd, a hithau wedi cael colled fawr ar ei hól. Y noswaith cyn hon, yr ymaflodd y tad acw, yn y plentyn tyner acw sydd yn awr yn ei fraich, ac yn ei gusanu, ac y tafodd hi ar draws yr ystafell, fel pe buasai gi drwg, ac y torodd archoll mawr ar ei braich fechan. Mae rhwymyn am ei braich sydd yn blethedig am ei wddf yn awr.

Cymaint mae plant bychain ac anwyl yn ddyoddef o herwydd meddwod eu rhieni! O dadau tyner! gadewch y cwpan meddwol er mwyn eich hanwyliaid bychain!

## ROSE A BLANCHE;

*Neu Gynllwynion y Jesuitiaid.*

PENNOD IX.—COLLI ROSE A BLANCHE.

**T**RA yr oedd gwraig Dagobert allan gyda'r offeiriad yn cyffesu, safodd cerbyd o flaen drws ei thŷ. Disgynodd y cerbydwr, ac agorodd ddrws y cerbyd. Yr oedd boneddiges gorffol, a gwedd sarug arni, yn eistedd o fewn, a chi bychan ar ei harffed. Pen morwyn y Dywysoges Dagrín ydoedd, ac offeryn ffyddlawn i gario allan ei dichellion creulawn. "Gofynwch," meddai wrth y cerbydwr, "ai yma y mae Mrs. Boudoin yn byw?"

"Ie, meistres,—yr wyf wedi gofyn yn barod," ebai'r cerbydwr.

Disgynodd Mrs. Grivois o'r cerbyd, a churodd wrth y drws. Daeth Mary Fach, y wniadyddes, i ateb y drws, a dywedodd nad oedd gwraig y tŷ i mewn.

"Wel, arosaf yma nes delo," ebai Mrs. Grivois, "oblegid yr wyf wedi galw ar neges bwysig." Gyda hyny aeth ymlaen i'r cornel, ac eisteddodd mewn cadair freichiau. Gyferbyn a hi, eisteddai Rose a Blanche, ar y rhai y syllai y foneddiges gyda manylder mawr.

Yr oedd wedi cario ei *fancy dog* yn ei braich i mewn, ond wedi eistedd meddyliodd y gallasai ei roddi ar y llawr yn ddiogel; ond nid cynt y dodwyd *Master* (dyna ei enw) i lawr, nag y clywyd Killjoy o'r tu cefn i'w chadair yn chwyrnu.

"Beth, a oes ci yma?" ebai Mrs. Grivois, yn ddychrynedig, gan godi *Master* i'w harffed; "gyrwch ef allan."

Erbyn hyn yr oedd Killjoy ar ei draed, yn aroglu gwisg y foneddiges, ac yn edrych yn ddifater, ond gwronaidd, ar y peth bach oedd yn cyfarth ar ei harffed.

"Gyrwch y ci allan, eto," ysgrechai y ddyeithr.



"Gorwedd, Killjoy," ebai Blanche. Gyda'r gair, aeth y ci ymlaen, a gorweddodd â'i drwyn rhwng ei draed blaen, yn ymyl y ddwy eneth, gan gadw cornel ei lygad yn ddiysgog at arfed Mrs. Grivois.

"Nid oes raid i chwi ofni'r ci, ma'm," ebai Rose; "nid yw un amser yn ymosod ar neb, ond mewn amddiffyniad."

"Ond mae ei olwg yn fynychrynu," ebai'r foneddiges; "y mae yn fwy tebyg i arth nag i gi."

Yr oedd Mary y pryd hwn yn brysur yn pacio amryw bethau i fyned i'r *pawnshop*, yn ol cyfarwyddyd Mrs. Boudoin; ac yn wir, wedi ychwanegu amryw bethau o'i heiddo ei hun, er mwyn cael ychwaneg o arian i gyfarfod anghenion y teulu trallodus. Yr oedd hi fel un o'r teulu; yn ymddwyn ei hun, ac yn cael ymddwyn tuag ati felly. Barnai llawer fod yna serch a gobeithion dirgel yn codi yn ei chalon tuag at Agricola Boudoin, ond nid oedd hi wedi yngan gair ar y mater wrth neb erioed.

Gyda hyn dyma nodyn bychan yn dyfod i mewn i'r tŷ oddi-wrth Dagobert. Yr oedd wedi dychwelyd o Chartres yn gynt braidd na'r dysgwylid; ond yr oedd ei arian wedi myned yn brin; nid oedd ganddo ddigon i dalu i'r cerbydwr, ac nid oedd am adael y swyddfa nes ei dalu; felly yr oedd yn dymuno ar ei wraig anfon dau swllt iddo, "am ei fod wedi *pawmio* ei hun nes eu cael."

"Nid oes dim arian yn tŷ," ebai Mary, "ond gwn i lle mae arian i'w cael. Rhedaf fi â'r sypyn yma i'r *pawn*, ac oddiyno i'r swyddfa, a byddaf fi a Dagobert yma ymhen hanner awr."

Gyda'r gair yr oedd Mary allan, gan adael y genethod eu hunain yn un cornel, a Killjoy yn eu gwyllo, a Mrs. Grivois a'i chi bach ar ei harfed yn y cornel arall. Druain o honynt! Pe buasent yn gwybod beth oedd neges ddichellgar y foneddiges ddeythr, buasai eu calonau yn llewygu o'u mewn.

Gyrodd y newydd ddaeth gyda'r nodyn Mrs. Grivois i benbleth a dyrschwch. Os dychwelai Dagobert cyn iddi hi gael y merched i'w dwylaw, buasai yr holl ddyfais yn ofer. A beth i'w wneyd? Nis gallasai eu llusgo ymaith o'u hanfodd. Yr oedd y ci dychrynllyd yn eu gwyllo. Ac heblaw hyny, buasai yn codi cyffro yn yr holl ystryd.

Yn nghanol pryder cyffrous ei meddwl, tarawyd hi gan gynllun newydd. "Gan nad yw Mrs. Boudoin wedi dychwelyd," ebai wrth y ddwy chwaer, "âf allan am ychydig fynyddau; mae arnaf eisieu galw mewn tŷ arall gerllaw. Dywedwch wrthi y dychwelaf yn union." Felly aeth Mrs. Grivois allan ymhen mynydd neu ddau ar ol Mary.

Nid oedd Mary ond merch wanaidd o gyfansoddiad, ac yr oedd ei gwendid wedi ei fwyhâu fyth gan bryder a llafur, ynghyd ag esgeuluso bwyd a chwsig am ddeuddydd gydag amgylchiadau teulu Dagobert. Ond er fod ei baich yn drwm a hithau yn wan, yr oedd yn hanner redeg trwy yr ystryd, yn ei hawydd a'i brys i wneyd gwasanaeth i'r teulu trallodus.

Brysiodd Mrs. Grivois at heddeidwad, a dywedodd wrtho, 'Rhedwch ar ol y ddynes fechan acw, y nae ganddi fwndel o amrywiol bethau wedi eu lladrata. Gall pawb ddeall wrth ei hagwedd mai lladrones ydyw.'

Ar ol rhoi yr awgrym i'r swyddog, cerddodd Mrs. Grivois yn ei hol yn frysiog tua thŷ Dagobert. Ei hamcan yn y fath ffalsder ydoedd, peri cymeryd Mary i fyny, a'i rhwystro i fyned â'r arian i ryddhâu Dagobert. Yr oedd am gael absennoldeb Dagobert rywfodd am gymaint ag awr neu ddwy, o leiaf.

Daliwyd Mary; agorwyd ei bwndel, ac ymddangosai y pethau oedd ynddo mor amheus, fel y dygwyd hi, er pob ymgais o'i heiddo i brofi ei diniweidrwydd, i swyddfa y *police*, nes gwneyd ymchwiliad.

Erbyn i Mrs. Grivois gyrhaedd tŷ Dagobert, agorodd y drws, yr hwn oedd wedi ei adael yn gilagored, heb guro, ac er ei mawr syndod a'i siomedigaeth, pwy oedd yno ond Dagobert, a'i wraig, a Rose a Blanche.

Yr oedd y merched wedi dyweyd eisoes fod yno foneddiges wedi galw, a bod ganddi neges bwysig â Mrs. Boudoin, ac y galwai drachefn. Ac yr oedd gwraig y tŷ wedi tybio ei neges, a'i chalon yn crynu mor drwm, fel yr ofnai i'w gŵr a'r merched ganfod ei churiadau trwy ei gwisg.

Yr oedd Mrs. Grivois yn ddynes gyfrwys, ac wedi bod yn hir yn ngwasanaeth un llawer cyfrwysach fyth, sef y Dywysoges Dagrin, ac yr oedd yn fedrus am wneyd y goreu bob amser o'r gwaethaf.

"Esguswch fi," ebai, "am ruthro i'ch tŷ mor fyrbwyll. Gwelais olygfa druenus yn awr ar yr ystryd. O, madam, y mae wedi peri loes i fy nghalon!"

"Beth sydd yn bod?" gofynai Dagobert.

"Gelwais yma ychydig fynydau yn ol, ac yr oedd yma ferch yn gwneyd bwndel i fyny ar y ford yna. Wedi i mi fyned allan i'r ystryd, tynwyd fy sylw gan dyrfa yn ymgasglu. Ac erbyn edrych yr oedd yr eneth ddiniwed yn cael ei chymeryd i fyny fel lladrones, a'i llusgo gan yr heddeidwad. Druan o honi!"

"Druan o Mary!" ebai Mrs. Boudoin; "y créadur gonestaf a goreu dan haul."

"Pam na fuasech chwi yn myned yno, madam," ebai Dagobert, "ac yn dyweyd gair drosti?"

"Amcenis wneyd hyny, syr, ond yr oedd y dyrfa a'r terfysg mor fawr, fel nad oedd modd dyweyd na gwneyd dim."

"O, druan o Mary!" meddai Rose a Blanche gyda'u gilydd.

"I ba le y dygwyd hi?" gofynai Dagobert.

"Nid wyf yn gwybod yn sicr," ebai Mrs. Grivois, "ond y mae yr ystryd yn llawn o bobl, a bydd yn hawdd i chwi gael gwybod."

Gyda'r gair, yr oedd Dagobert wedi ymaffyd yn ei het, ac yn myned allan. Mor gynted ag y trodd Dagobert ei gefn, galwodd y foneddiges ar ei wraig o'r neilldu, a dywedodd wrthi, "Yn awr, nid oes dim amser i'w gollu. Dyma i chwi lythyr oddiwrth yr

Abad Dubois yn gorchymyn i chwi roddi y merched i fyny yn ddioed, i'w gosod dan addysg grefyddol, er rhagflaenu eu damnedigaeth."

Yr oedd mynwes Mrs. Boudoin yn cael ei dirdynu gan wahanol deimladau. Sut oedd hysbysu y peth i'r merched? Beth wnelai i'r gŵr pan ddeallai? A pha ddyben oedd tori ei llwon i'w chyffesydd, yr Abad Dubois? Deallai Grivois ei therfysg, a throdd at y genethod a dywedodd,—

"Mor falch y bydd eich perthynas eich gweled, foneddigesau!"

"Perthynas i ni?" gofynai Rose mewn syndod.

"Ie, perthynas i chwi; y mae newydd glywed am eich dyfodiad, ac wedi fy ngyru i a'i cherbyd i'ch cyrchu ati. Nis gall heddyw eich gweled ond am ychydig fynyddau; ond yfory neu dreudd, dysgwylia fod yn abl i'ch derbyn am ddyddiau. Os byddwch mor garedig a doddi eich hunain yn barod, cewch fod yn ôl yma ymhen awr. Yn wir, y mae am i chwi wneyd eich cartref gyda hi, am nad yw yn hapus i chwi fyw ar draul y teulu caredig hwn."

"A allwn ni fyned cyn y daw Dagobert yn ôl?" gofynai Rose i Mrs. Boudoin.

"Gellwch," atebai nithau, mewn tŷn isel, "gan fod yr amser mor fyr, fe allai y byddwch yn ôl o'i flaen."

Yr oedd y syniad am gael byw ar draul perthynas gyfoethog, yn hytrach na gwasgu ar deulu tlawd, wedi gwneyd argraff ddofn ar feddyliau y merched.

"De'wch, foneddigesau ieuainc," meddai Mrs. Grivois, yn llosgi gan ofn gweled Dagobert yn dychwelyd, "gwnewch frys: esgusodwch fi, siarad ydwyf yn enw eich perthynas."

"Yr ydym ni yn barod, ma'm," ebai'r genethod.

"Wel, cusenwch eich ail fam," ebai, gan gyfeirio at wraig Dagobert, "a ffwrdd â ni."

Teimlai Mrs. Boudoin yn ddwys wrth fod y merched diniwed yn ei choffleidio. Bu agos iddi dori allan i wylo; ond ymattaliodd. Er yr ofnai ei bod yn gwneyd rhywbeth na ddylasai, eto credai mai hyn fyddai y peth goreu i'r merched.

Y fynyd nesaf yr oedd Rose a Blanche a Mrs. Grivois yn y cerbyd, ynghyd a chi bach yr olaf, yr hwn oedd wedi cau arno yn y cerbyd rhag ofn Killjoy. Yr oedd Killjoy hefyd wedi myned allan yn ddjarwybod ar ol y merched, yr hwn ni adawai iddynt byth fyned o'i olwg os na fyddai Dagobert gyda hwynt.

"Ust, Master, dyma dy feistres yn d'od," meddai Mrs. Grivois wrth y ci, yr hwn oedd yn cyfarth yn ffyrnig pan aethant i mewn. "Do, cefaist dy gau fan yma wrthyt dy hun. Fy anwylyd bach, tyr'd di i arffed dy feistres!"

Cyn myned i mewn, yr oedd Grivois wedi dyweyd yn nghlust y cerbydwr am yru at ddrws mynachdŷ St. Mary. Yr oedd y ci o fewn eto wedi myned i gadw sŵn, ac ni wyddent beth allai fod arno. Yn y man, cawsant esboniad. Neidiodd Killjoy i mewn trwy ffenestr y cerbyd, yr hwn oedd wedi dilyn y cerbyd am fwy na milldir trwy ystrydoedd y dref. Dychrynodd Mrs.

Grivois allan o'i chof. Neidiodd Master at ei drwyn, a rhoddodd gnôad tost iddo. Cyffrodd tymher Killjoy. Ymaflodd yn ugheg y ci bychan, a thagodd ef âg un gwasgiad.

Ni chymérod y cwbl chwarter mynyd o amser. Ni chafodd Rose a Blanche ond amser i waeddi ddwywaith,—“Paid, Killjoy! Gorwedd, Killjoy!”

“Wb! wb! gyrwch yr hen anifail o gi yna allan,” ysgrechai Mrs. Grivois. “Mae yn sicr o anafu Master! Waeth i ni ddwyn arth gyda ni! Gyrwch ef allan!”

Yr oedd yn ddigon anhawdd gan y merched yru Killjoy allan, ac yn ddigon anhawdd ganddo yntau fyned; ond ar gais taer, a thrwy wthio â'u traed a'u dwylaw, ildiodd y ci ffyddlawn i fyned.

Pan aed i chwilio am Master, cafwyd ef yn gelain farw wrth eu traed. Yr oedd cyffro digofus a gwallgof Mrs. Grivois yn annesgrifiadwy. Pe buasai plentyn iddi wedi ei ladd, nis gallasai fyned i fwy o gyffro, na dyweyd geiriau casach, na thywallt melldithion mwy ar ben Killjoy. Yn y diwedd torodd i wylo. Ar ol yr wylofain, canlynodd rhai mynydau o ddystawrwydd.

“Druan o honi,” ebai Rose, “mae yn ddrwg iawn genyf; yr oedd mor hoff o'i chi ag ydym ninnau o Killjoy.”

“Mae yn ddrwg genyf finnau,” meddai Blanche, “ond efe ddechreuodd ar Killjoy.”

Yr oedd Mrs. Grivois yn gweled hefyd na thalai ddim i fyned ymlaen fel hyn, rhag iddi fethu yn ei neges.

“Esgusodwch fi, foneddigesau,” ebai, “am y geiriau cryfion a ddywedais; fy nheimladau cyffrous yn achos y ci a'u parodd.”

“Mae yn ddrwg iawn genym am yr anffawd,” ebai'r merched.

“Gadewch ef yna yn awr; bûm i yn ffol i ddyfod âg ef gyda mi; ond yr oedd mor ffol am danaf! De'wch i ni gael siarad am rywbeth arall. Y mae wedi fy nharo i mor debyg ydych i'ch gilydd, nid yn unig yn eich gwedd, ond yn eich geiriau a'ch teimladau.”

“Iê; a sut y gallem beidio bod yn debyg, pan na fuom am gymaint ag un awr oddiwrth ein gilydd, o'r dydd y ganed ni hyd yr awr hon?”

“A yw yn bosibl?”

“Naddo erioed,” ebai'r ddwy gyda'u gilydd, gan ymaflyd yn nwyllaw eu gilydd.

“Mae yn debyg y teimlech yn anghysurus iawn pe caech eich gwahanu?”

“Ond chawn ni byth mo'n gwahanu,” atebai Blanche, gyda gwên.

“Sut yr ydych yn gwybod?”

“Pwy allai fod o'r galon i wneyd hyny?”

“Neb, yn sicr, ond dynion drwg iawn feddyliai am y fath beth,” ebai Mrs. Grivois.

“Nid oes neb yn ddigon drwg i hyny,” ebai Blanche; “nid oes neb mor greulawn a meddwl am ein gwahanu ni.”

“Goreu i gyd, fy ngenethod; ond sut y meddyliwch fod hyny yn anhosibl?”

"Am y byddem ein dwy farw o hiraeth," ebai Rose.

"Ië, fe dorai ein calon," ebai Blanche.

"Druain bach!" ebai Mrs. Grivois.

Safodd y cerbyd; taffwyd porth mawr yn agored. "Dyma ni yn awr wrth dŷ eich anwyl berthynas," ebai Mrs. Grivois.

Aeth y cerbyd i mewn i gyntedd éang o fewn muriau uchel.

"Dyma le prydferth!" ebai'r merched.

"Nid yw y tu allan yn ddim at yr hyn yw y tu fewn," ebai Mrs. Grivois; "aroswch i fyned i mewn, ac yna yn wir cewch eich synu."

Agorwyd drws y cerbyd, a phwy oedd yno yn cyfarfod Rose a Blanche ar eu dyfodiad allan ond Killjoy, yn llyfu eu dwylaw ac yn ysgwyd ei gynffon, wedi dilyn ei feistresi ieuainc gyda'r gofal ffyddlonaf.

"Wfft iddo!" ebai Mrs. Grivois, "dyma yr hen anghenfil wedi ein dilyn bob cam!"

"Ci ardderchog yw hwna, Misus," ebai'r cerbydwr. Ni syflai oddiwrth droed y ceffyl. Mae ef wedi arfer âg ef. Dyna frest gan gi! Mentrwn y gorchfygai y ddau ddyn goreu yn Paris."

Tynodd Mrs. Grivois wrth gloch yn ymyl y drws, tra yr oedd Rose a Blanche yn tolach â'r ci. Daeth dynes mewn gwisg fynach-aidd i'r drws, wrth yr hon y dywedodd Grivois, "Dyma fi wedi dwyn y ddwy ferch oeddech yn ddysgwyl. Gorchymyn yr Abad Dagrín a'r Dywysoges yw, iddynt gael eu gwahanu oddiwrth eu gilydd ar unwaith, a'u gosod yn y *celloedd llym*—yr ydych yn deall, chwaer, y *celloedd llym*, a rhoddi iddynt yr ymborth a'r driniaeth a roddir i'r caled a'r anedifeiriol."

"Dywedaf wrth y fam sanctaidd," ebai'r fynaches, "a chaiff pob peth ei wneyd yn ol eich gorchymyn."

"Yn awr, foneddigesau," ebai Mrs. Grivois, "de'wch, i mi gael eich arwain at eich perthynas, y mae yn barod i'ch derbyn. Cedwch y ci yn ol, gerbydwr. Deuaf i'ch cyrchu yn ol ymhen awr."

Arweiniwyd y ddwy ferch i mewn trwy ddrws bychan, yr hwn a gauodd ar eu hol, gan adael Mrs. Grivois a Killjoy y tu allan.

"Nicolas," ebai'r foneddiges ddigofus wrth y porthor, "rhoddaf ddeg swllt i chwi, os gellwch ladd y ci bwystfilaidd yna."

"Na," ebai Nicolas, "byddai yn well genyf fi dalu deg swllt na chynnyg ei ladd, oddigerth i mi gael dryll i'w saethu."

"Wel, gyrwch ef allan o'r cwrt, ynte."

"Mae hyny yn llai o anturiaeth na chynnyg at ei fywyd," ebai Nicolas.

Aeth y cerbyd a Mrs. Grivois ymaith; cerddodd Killjoy o hono ei hun, fel pe yn deall geiriau y foneddiges, y tu allan i'r porth; cauwyd hwnw gan y porthor, a gorweddodd Killjoy yn dawel y tu allan iddo i wyllo dychweliad y merched. Am ychydig, rhaid i ni adael Rose a Blanche o fewn muriau mynachdŷ St. Mary, yr hwn oedd yn cydio â'r gwallgofdŷ lle yr oedd Miss Cordoville wedi ei chaethiwo.

(I'w barhau.)

## YR ANMHRYDLON I FODDION GRAS.\*

**O**EED Arthur Jones yn fachgen del, pan gynt ar lin ei fami,  
Ac felly bu ef am gryn *spel* tra 'n cael ei gario ganddi;  
Ond fe ddaeth ato ddiogi mawr,—a'r mwyaf yn ddiammheu  
Oedd d'od i'r capel hanner awr ar ol i'r oedfa ddechreu.

A dyma 'r pam y galwyd ef yn "Arthur Jones Anmhrydlon,"  
Ac ni fu enw dan y nef yn bod ar ddyd, mwy cyson;  
O herwydd ni bu ef erioed, er dydd ei enedigaeth,  
Yn brydlawn at yr adeg roed i ddechreu y gwasanaeth.

A d'weyd y gwir, nid oedd ei dras i gyd yn fawr iawn amgen;  
'R oedd bod ar ol yn moddion gras i'r teulu fel rhyw elfen:—  
Fe fyddai 'i dad, medd gŵr y Rhos, yn hynod am fod felly,  
Ond addef wnai fod Arthur Jones yn ymhell o'i flaen er hyny.

Pan ddaw i'r capel ar rhyw bryd, i wrando unrhyw foddion,  
Fe fydd y dorf o'r braidd i gyd yn sisial, "Yr Anmhrydlon;"  
A chael ei watwar bydd gan rai, a'i ddiystyru 'n greulon;  
Ond er pob gwarth ac er bob bai 'r un fath y bydd yn union.

Cael ei gynghori i dd'od mewn pryd, bydd weithiau yn dyner odiaeth,  
Yn lle cael gwawd o hyd, o hyd, a d'rysu y gwasanaeth;  
Ond nid yw cynghor iddo ond ffol—ar ol y mae yr unwedd;  
Ac mae lle i ofni mai ar ol y bydd ef yn y diwedd.

Poen a baich ar grefydd yw y drwg o anmhrydlondeb,  
Mae 'n diystyru achos Duw, mae 'n gwadu pob moesoldeb:  
Ei adael b'om fel ffaidd beth, a chilio oddiwrtho 'n hollol,  
Nes elo i ffordd i gyd heb fêth i ebargofiant bythol.

*Cae Engan.*

W. WILLIAMS.

## Y FFORDD I BEIDIO FFRAEO.

**D**YCH chwi a'ch meistres byth yn ffraeo—sut mae hyny  
yn bod?"

"Wel, mi ddywedaf wrthyhch; mae yn rhaid cael dau i  
ffraeo. Yn awr, os dygwydd i mi fod mewn tymher ffraeo, a thori  
allan mewn geiriau pigog, nid yw fy ngwraig byth yn dyweyd  
gair. Neu os dygwydd i'r wraig gyffroi, a dangos ysbryd nad yw  
yn gweddu i wragedd, byddaf finnau yn sefyll mor fud a diysgog  
a delw; neu byddaf yn perswadio fy hunan mai gwranddo ar sŵn  
o'r nefoedd fyddaf. Nid ydym un amser yn ffraeo ond un ar y  
tro. Ac y mae yn syndod, os gadewch y ffrae yn llonydd, mor  
fuan y derfydd.

"Dyna y dirgelwch, madam, ac annogwn chwithau i wneyd  
prawi ar yr un llwybr."

\* Buddugol yn nghystadleuaeth Talysarn.



### BETH WNAETH DWY ENETH FACH.

“A le yr ydych wedi bod, Annie Roberts?” gofynai Mary a Julia, wrth fyned i'r Ysgol, ar y Sabboth.

“Yn casglu blodau,” oedd atebiad Annie, yr hon oedd mewn gwisg wael, ac yn droednoeth, a basged fechan a blodau ar ei braich.

“Nid yw yn iawn myned i grwydro a chasglu blodau ar y Sabboth, Annie,” meddai Mary, yn serchog; “garech chwi ddim dyfod i'r Ysgol gyda ni?”

“Carwn i, os caf gan fy mam,” ebai y ferch fach dlawd, yr hon oedd yn synu fod merched bach mor daclus a chyfrifol yn gwneyd cymaint o sylw o honi, ac yn siarad mor serchog.

“Gwnawn ni alw am danoch Sul nesaf,” ebai Julia, “a chewch ddyfod i'r dosbarth atom ni.

Rhedodd Annie adref, a dywedodd wrth ei mam fod merched bach Mr. Jones wedi bod yn siarad â hi, ac yn gofyn am iddi fyned gyda hwy i'r ysgol. O'r diwedd addawodd ei mam drwsio ei dillad, fel yr oeddent, yn barod erbyn y galwai Mary a Julia.

Galwodd y merched, yn ol eu haddewid, ac aeth Annie gyda hwy i'r Ysgol. Os oedd ei dillad yn dlawd, yr oeddent mor lân ag y gallai dwfr a sebon eu gwneyd. Daeth i hoffi yr Ysgol yn fuan, gymaint a neb oedd yn ei mynychu. Dysgodd adnodau, Salmau, a hymnau, a byddai yn eu hadrodd a'u canu yn barhâs yn tŷ.

Yr oedd ei thad yn feddwyn; ond cafodd adnodau a hymnau

ei ferch fach afael nerthol arno. Un Sabboth, ymhen amryw fis-oedd, penderfynodd ei thad fyned gydag Annie i'r oedfa. Gyda'i fod yn myned i ddrws yr addoldŷ, clywai y gweinidog yn darllen ei destun; a'r geiriau cyntaf ddisgynodd ar ei glust oedd, "Pe byddai eich pechodau fel ysgarlad, änt cân wyned a'r eira." Suddodd y geiriau i'w galon, a gwrandawodd am drugaredd Duw hyd ddiwedd yr oedfa gyda gruddiau gwlybion.

O hyn allan daeth y tad yn ddyn newydd, a thrwyddo ef daeth yr holl dŷ felly. Bendithiodd yr Arglwydd waith y ddwy eneth fach yn cymhell Annie i'r Ysgol Sabbothol, ac yn ymdrechu i'w dysgu, i fod yn foddion dychweliad teulu cyfan.

Ferched ieuainc! ewch chwithau a gwnewch yr un modd.



## LLYFRAU NEWYDDION.

[TESTAMENT Y CYFEIRIADAU, neu y naill adnod yn rhoddi esboniad ar adnod arall, at wasanaeth yr Ysgol Sabbothol, gan ADAM EVANS, Machynlleth. Cyf. I.]

**D**ID Testament y cyfeiriadau gymaint yw hwn, ond Testament y dyfyniadau. Y mae, yn lle cyfeirio y darllenydd trwy yn unig nodi y bennod a'r adnod lle mae adnodau cyffelyb, yn gosod yr adnodau hynw i lawr yn gyflawn mewn llythyren fanach. Mae ar ffurf "*Carpenter's Scientia Biblica*," ond nad yw mor fanwl. Mae llawer o wir yn y sylw yn y Rhagymadrodd, "Credwyf fod ymwneyd yn ormodol äg esboniadau a chredöau eraill, wedi bod yn niweidiol i lawer, ac y buasai eu meddwl yn gryfach, yn oleuach, ac yn brydferthach, pe buasent wedi ymroddi yn fwy i chwilio yr Ysgrhythrau drostynt eu hunain, gan gymharu Ysgrhythyr äg Ysgrhythyr." Ond y mae yn gofyn galluoedd ac addfedrwydd barn anarferol i ddwyn y naill Ysgrhythyr i esbonio y llall. Mae y myfyriwr ieuanc mor agored i gael ei gamarwain y ffordd hon, ag ydyw gan unrhyw esboniad. Ac er cystal yw y gyfrol hon, tybiwn nad yw yr awdwr wedi bod yn llwyddiannus iawn mewn llawer o'i ddyfyniadau. Gormod o sylw sydd yn cael ei dalu i eiriau neu amgylchiadau, a rhy fach i feddyliau. Carpenter yw y goreu o'r fath yma a welsom, ond y mae hwnw yn dair cyfrol wythplyg ar y Testament Newydd. Mae y gyfrol hon o waith Evans sydd o'n blaen yn cyrhaedd dros yr Efengylau, a thros chwe' chant o du dalenau 12plyg. Carem i'n darllenywyr ei darllen, a barnu drostynt eu hunain.

[BUDDUGOLIAETHAU GWIRIONEDD. *Darlith gan y Parch. W. H. EVANS. Bangor: J. M. Jones. Pris tair ceiniog.*]

**B**AI mynych yn erbyn darlithiau yw eu bod yn rhy ysgafn, difyr, neu arwynebol; ond y mae hon yn rhydd oddiwrth y cyfryw feiau. Gallwn sicrhâu fod yma waith i feddwl y darllenydd.



Ofnwn fod yr awdwr weithiau yn rhy aneglur i'r darlennydd ei gallyn. Edrycher ar y gosodiad hwn :—"Gwirionedd, yn y lle nesaf, ydyw yr egwyddor hopo yn y meddwl sydd yn cydsynio yn llawn â'r hyn sydd iawn yn wrthddrychol, ac yn llywodraethu yr holl fodaeth i gydffurfiad âg ef, a hyny oddiar argyhoeddiad llawn o ragoriaethau iawnder ynddo ei hun. Dyma yw gwirionedd deiliadyddol." Yr ydym yn hollol anghyttuno hefyd â'r awdwr yn y frawddeg hon :—"Nid ydym i feddwl mai Duw a wnaeth y deddfau o dan ba rai y mae ei grëaduriaid wedi eu gosod. Efe a'u hadnabyddodd, efe a'u dabblygodd, ac efe a'u dewisodd i wneyd bodaeth grëedig oddidanynt." Pwy, tybed, wnaeth y deddfau! Ond er hyn, annogwn ein meddylwyr ieuainc i ddarllen y ddarlith, er mwyn ychydig o ddysgyblaeth i'w meddyliau.

## LLYTHYRAU PLENTYN.

### LLYTHYR I.—Y PREGETHWYR.

**M**R. GOLYGYDD,—Mae 'nhad yn dyweyd y dylwn ddyweyd Mr. Golygydd wrth ddechreu, er nad wyf yn gwybod beth mae hyny da. Yr wyf yn ffrynd mawr i DRYSORFA Y PLANT. Yr wyf yn gallu deall mwy o honi nag un llyfr arall—wn i ddim beth yw yr achos o hyny ychwaith. Yr wyf wedi dymuno llawer am weled y dydd y bydd llythyr bach i minnau yn ymddangos ynddi. Ac os caiff hwn ei ddodi i mewn, âf â'r DRYSORFA gyda fi i'r gwely bob nos. Yr wyf wedi bod yn meddwl wythnosau am ryw destun bach i ysgrifenu arno. Dywedodd fy nhad ddoe wrthyf am ysgrifenu ar ryw bethau, *fel yr wyf fi yn meddwl*. Bâm am dipyn yn ffaelu ei ddeall; ond y peth ddywedai ef oedd nad yw plant bach fel fi yn meddwl yr un fath a dynion mawr, am ddim. Wel dyma fi yn treio ysgrifenu fel yr wyf fi yn meddwl am *Bregethwr*.

Yr wyf fi yn meddwl mai pregethwr yw y dyn mwyaf yn y byd. Efe sydd nesaf at Iesu Grist. Byddai yn well genyf fi ganwaith fod yn bregethwr na bod yn *goachman*, neu yn frenin. Y peth cyntaf wyf fi yn gofio yw fod pregethwr yn tynu ei law dros fy mhen, ac yn dyweyd, "Dyna fachgen da!" O fel oeddwn yn rhedeg adref gael dyweyd wrth fy mam! Yr wyf yn teimlo ei law byth ar fy mhen, a sŵn, "dyna fachgen da" yn fy nghlust.

Y pregethwr goreu genyf fi yw yr un sydd yn gwaeddi, os bydd yn gwaeddi mewn tŷn hyfryd. Llawer gwaith y byddaf yn dyweyd wrthyf fy hun, ar ol i'r pregethwr ostwng ei lais, "Wn i a waedda efe eto? Gobeithio y daw i waeddi unwaith, ta beth, cyn terfynu."


Yr wyf yn cael fy nharo yn fynych â syndod i weled pregethwr yn gallu pregethu ar ol cau y Bibl. Nid pawb sydd yn gwneyd hyny. Ond bydd ambell un yn cau y Bibl yn fuan ar ol darllen ei destun; a bydd hyny yn fy nharo y rhaid fod hwnw yn bregethwr medrus iawn.

Cefais fy synu yn fawr unwaith wrth glywed fy nhad yn dyweyd fod y pregethwr blaenaf wedi bod yn rhy hir, a'r olaf yn rhy fyr. Yr oedd y fath ddywediad yn newydd i mi. Fy meddwl i yn wastad yw fod pob pregethwr yn para cyd ag y byddo Duw yn doddi peth yn ei feddwl; a phan beidio Duw a rhoddi, fod yn rhaid iddo yntau dewi.

Yr wyf fi yn meddwl mor uchel am bregethwr, nes yr wyf yn ei ystyried yn fraint fawr i gael sangu yn ôl ei droed wrth gerdded ar hyd y ffordd. Byddat yn fynych yn gwneyd hyn. Yr wyf yn gallu rhoddi cam cyd a Mr. D. C. Davies, a Mr. Edward Morgan, ac yn gallu rhoddi pob troed ar ol eu traed hwythau. Yr wyf yn methu gwneyd hyny â Mr. Rees, Liverpool. Mae ef yn rhoi cam mor fawr—cyd a dau gam i fi yn union. Tawn i yn cael myn'd yn bregethwr, byddwn yn foddolawn bod heb dop na marblen byth.

Rhoddaf fy enw fel mae fy nhad a fy mam yn fy ngalw,

DAFYDD BACH.



PE BYDDWN FARW 'R FYNID HON.

**P**E byddwn farw 'r fynid hon!  
 A ydwyf mewn parodrwydd?  
 A allwn roddi cyfri 'n llon  
 Heb wrido i fy Arglwydd?  
 A wnes ymostwng wrth ei draed  
 Erioed yn edifeiriol;  
 Gan waeddi, Golch fi yn dy waed  
 Rhag bod yn adyn damniol?

Pe byddwn farw 'r fynid hon!  
 B'le byddai 'm rhan anfarwol?  
 Pa un ai fry yn moli 'r Oen,  
 Neu yn y gwae tragwyddol?  
 Mor hyfryd im' yw clywed si  
 Hoff eiriau Iesu 'i hunan;—  
 "Pwy bynag ddelo ataf fi,  
 Nis gwnaf ei fwrw allan."

Pe byddwn farw 'r fynid hon!  
 Mewn hedd â'm hanwyl Geidwad,  
 Cawn help ei law wrth groesi 'r don,  
 Fel nad ai yn llongddylliad;  
 I mewn i'r hyfryd Ganaan wlad  
 Y cawn fynediad helaeth;  
 A'r Iesu 'n Briod,—Duw yn Dad,—  
 A'r nef yn etifeddiaeth.

*Pumsaint.*

BRITHYLL MARLAIS.



Y LLAMA.

**M**AE y creadur hwn yn debyg i gymysg dafad a chamel, ac y maent i'w cael yn doreithiog yn Neheubarth America. Defnyddir hwynt i gludo beichiau ysgafn, ac arferai yr Ys-paeniaid yn Peru eu marchogaeth. Y maent yn wasanaethgar iawn, gan eu bod yn hawdd i'w cynnal, ac y gallant fod am bedwar neu bum' niwrnod heb ddwfr. Mae eu cnawd hefyd yn gigfwyd rhagorol.

Mae tri math o honynt, y rhai a elwir, Llama, Alpaca, a Vicugna. Mae eu gwlan yn ddefnyddiol iawn, ac yn tyfu yn gnydiog rhyfeddol. Gelwir y defnyddiau a wneir o'u gwlan ar enw y creaduriaid, ac yr ydym ninnau yn bur gyfarwydd & hwynt. Pa faint o ddarllenwyr y DRYSORFA sydd â dillad Alpaca, neu Umbrella Alpaca? Mae defnyddiau y rhei'ny wedi tyfu ar y creadur y mae ei ddarlun uchod.



### PREGETHWYR YMYSG Y MEIRW.

**M**AE mab i Dr. Eastman, Yagrifenydd Cymdeithas y Traeth-odau, yn bregethwr neu gaplan gyda'r fyddin yn America. Mewn brwydr yn ddiweddar, syrthiodd ei geffyl dano; ac wrth syrthio, rhoddodd droediad iddo ar badell ei benlin, nes i'w lin chwyddo a myned yn hollol ddi-defnydd iddo. Gorfu iddo adael i'w geffyl fyned, a gorwedd ar y ddaear mewn poenau dirfawr.

Yn fuan yr oedd y nos dywell wedi ei orchuddio. Cyn hir, clywai lais yn ochain, "O fy Nuw!" a gweddi eilwaith yn canlyn. Milwr clwyfedig ydoedd, a byd tragwyddol yn ymagor o'i flaen. "Sut y gallaf fyned ato?" ebai'r pregethwr wrtho ei hun.

Treiodd amryw weithiau i godi ar ei draed, ond yr oedd ei glun yn rhy boenus, a syrthiai yn ôl bob cynnyg. Yr oedd ei galon yn berwi eisieu gallu gwini help i'r milwr trengedig; ac eto, sut y gallai?

Wrth fyfyrto, dywedodd, "Os nad allaf godi a cherdded, gallaf ymdreiglo ato." Wedi clustfeinio yn y tywyllwch o ba gyfeiriad yr oedd y llais yn dyfod, dechreuodd ymrolio dros y ddaear, er fod ei glun yn boenus iawn i oddef hyny. Yn fuan yr oedd yn myned trwy lŷnau o waed, a thros gyrff meirw, neu agos a marw, a daeth o'r diwedd at y milwr oedd yn gweddi; ac ar ei orwedd yn ei ymyl pregethodd Grist iddo, a gweddiodd drosto, nes oedd ei galon yn gysurlawn.

Yn y man, wele un o'r swyddogion yn dyfod ac yn gwaeddi allan, "Pa le mae y Caplan? mae un o'r swyddogion yn trengu, ac yn galw am dano."

"Dyma fe! dyma fe!" gwaeddai y truan gwronaidd ar ei hŷd ar y ddaear, a'i holl gorff yn rhuddgoch o waed.

"Mae y swyddog a'r swyddog yn marw; ellwch chwi ddim dyfod i'w weled?"

"Nis gallaf syflyd: ymrôlio at hwn wnaethum i ddyweyd gair wrtho."


"A ewch chwi os gyraf ddau ddyn i'ch cario?"

"Af, äf!" ebai'r pregethwr ymroddedig.

Codasant ef i fyny, a chludasant ef o fan i fan dros y maes, gan ei osod i lawr mewn gwaed yn ymyl clwyfedigion gwaedlyd ar ddarfod am danynt. Dywedai wrthynt am Iesu Grist, a gweddiäi ä'i holl galon drostynt. Nis gallai edrych ar y dyoddefwyr, dim ond edrych i fyny i'r nefoedd, a chyda'r ffurfafen fawr cddiarno, a ser Duw o honi yn ysmician arno, ddywedyd wrth y marwolion am "Frawd a aned erbyn caledi."



LLE NAD YW DUW.

44  S ateb wnai i mi yn awr  
Y cwestiwn mawr a dyfal,  
P' le preswyl Duw, dy Gröwr di, —  
Mi roddaf i ti afal."

A'r afal ga'dd y bachgen ffraeth,  
Can's ateb wnaeth yn anwyl—  
"Dau afal, syr, ro'f fi i chwi  
Os d'wedwch p' le ni phreswyl."

J. P. J.

## GEIRIAU OLAF.

**N**NAML y mae calonau mor galed na theimlant oddiwrth eiriau olaf dynion wrth ymadael â'r byd.

Geiriau olaf *Dr. Johnson* oedd ei gyfarchiad i Miss Morris : —“Yr Arglwydd a'ch bendithio, fy anwylyd.”

*Syr Walter Scott*:—“Nid oes genyf ond mynyd i siarad,” meddai wrth ei fab yn nghyfraith, “fy anwylyd, byddwch yn ddyn da; nid oes dim arall rydd gysur i chwi pan ddeuwch i'r amgylchiad hwn.”

*Washington*:—“Doctor, yr wyf yn marw—ac wedi bod yn marw am hir amser; ond nid oes arnaf ofn marw.”

*Nelson*:—“Diolch i Dduw! gwnaethum fy nyledswydd.”

*George IV.*:—“Watty!” ebai yn gyffrous wrth ei was, *Syr Wathen Waller*; “Watty, beth yw hyn? Angeu ydyw, fy machgen i! Y maent wedi fy nhwylo!”

Ddarllenwyr ieuainc! gosodwch y geiriau olaf hyn fel rhybudd o'ch blaen wrth fyw. A chofiwch mai wrth *fyw* yn unig mae gwneyd *marw* yn gysurus.



## DYDDANION.

## Y RHESWM AM DYFU.

**D**AVID JONES, de'wch i fyny i ddyweyd eich gwera, meddai yr ysgolfeistr. “Dywedwch wrthyf beth sydd yn peri i blant dyfu?” “Y gwlaw, syr,” ebai David. “Ond sut na bae dynion mewn oed yn tyfu?” “Am eu bod yn cario *umbrellas*, syr, i gadw y gwlaw ymaith.”

## DWYN CAMDYSTIOLAETH.

**D**N arholiad ysgol y plant ieuengaf yn Windsor, gofynwyd i fachgenyn egluro beth oedd dwyn camdystiolaeth yn erbyn ei gymydog. “*Cario clecs*,” ebai'r plentyn. “Na, nid hyny yn hollol ydyw. Beth ddywedwch chwi?” ebai wrth ferch fechan. Atebodd y fechan yn union, “Pan bydd neb yn gwneyd dim, a rhywun yn myned a'i ddyweyd ef.” “Perffaith gywir,” ebai'r arholwr yn nghanol chwerthin mawr.

## FFEINDIO Y FFWL.

**D**R oedd yr enwog Sheridan un noswaith yn cael ei flino yn fawr wrth wneyd araeth yn Nhŷ y Cyffredin gan un o'i gyd-aelodau yn gwaeddi, “*Hear, hear!*” Yn y man, wedi desgrifio gwrthwynebydd politicaidd, gofynodd Sheridan, “Ac ymha le y gellwch ffeindio cnaf mor ynfyd?” “*Hear, hear!*” ebai'r gwaedwr, ac eisteddodd Sheridan i lawr yn nghanol bloeddiadau dilywodraeth o chwerthin.



## TRYSORFA Y PLANT.

RHIF. XLVI.]

HYDREF, 1865.

[CYF. IV.

### FEL Y TAD Y BYDD Y TEULU.

**AIR** mawr yw y gair TAD; teimlad rhyfedd yw teimlad tad; a chyfrifoldeb pwysig yw cyfrifoldeb tad. Y gallu mwyaf o eiddo y byd hwn, er da neu er drwg, yw tad. Y mae yn trosglwyddo ei hunan, mewn ystyr, i eneidiau a chymeriadau ei blant, a'r tylwythau dyfodol.

Mae dylanwad mawr, a mawr iawn, gan y fam; ond ar un olwg mae dylanwad y tad yn llawer mwy. Efe sydd â'r llaw flaenaf i greu ysbryd ac awyrgylch yr holl deulu. Dwg y plant ddelw a sawyr cymeriad y tad gyda hwynt i America, neu Australia, neu pa le bynag yr elont.

"Fel y tad y bydd y teulu," sydd frawddeg o bwys mawr i'r neb a'i hystyrio. "Asglodyn ydyw o'r hen flocyn," meddai un gŵr yn y Senedd, wrth wrando William Pitt yr ieuengaf yn ar-eithio. ("He is a chip of the old block.") "Na," meddai Burke, "yr hen flocyn ei hun ydyw." Nid yw hyn yn fwy gwir mewn dim nag ydyw mewn moesoldeb a chrefydd. Os bydd y tad yn dduwiol, yn gydwybodol i'w broffes, a'i fryd yn nghyfraith yr Arglwydd, deg i un nad adgynnyrchir yr unrhyw ysbryd yn y teulu. Ond os bydd y tad yn ddifater, yn esgeulus, yn dorwr Sabbath, yn gablwr, neu yn feddwyn, bydd yn cynneu tân fydd yn llosgi wedi iddo ef adael y byd. "Y tadau," medd y prophwyd, "oedd yn cynneu tân, a'r plant yn casglu cynnud." Pa dân bynag a gynneua y tad, bydd y plant yn sicr o gasglu cynnud iddo.

Dywedai un gweinidog poblogaidd yn ddiweddar, nad oedd yn ei eglwys liosog ef nemawr o blant tadau diweddi wedi eu dychwelyd. Os bydd teulu o blant yn codi i fyny yn ddrwg ac annuwiol, gellwch fod yn sicr fod rhyw ddiffyg mawr yn nghymeriad neu lywodraeth y tad. Mae ymddygiad gwrthwynebol y tad yn gryfach yn fynych nag addysg y pulpud a'r Ysgol Sabbothol.

Os arian, arian, arian, fydd pwnc ymddyddan y tad, bydd yn debyg o godi ei blant i wasanaethu mammon. Os siarad y bydd am geffylau, rhedegfeydd, a chwmnioedd llawen, odid na ddwg ei blentyn i fyny yn oferddyn. Os erys allan o'i dŷ hyd un ar ddeg o'r gloch, yn y clwb, neu y dafarn, erys ei blant hyd ddeuddeg, a chyda gwaith fyddo gwaeth. Os bydd y tad yn arwain bywyd annuwiol, nid oes dim ond gwyrth o eiddo gras Duw yn abl cadw ei blant rhag ei ddilyn i golledigaeth. Mor fynych y gellid ysgrifenu geiriau y Bibl am blant y Cymry:—"Efe a rodiodd yn holl bechodau ei dad, y rhai a wnaeth efe o'i flaen ef."

Iâ, "fel y tad y bydd y teulu." Dadau! edrychwch ar y frawddeg hon yn ngoleuni y farn, a byd tragwyddol. Byddwch yn onest a difrifol yn eich crefydd. Nid gweddio gyda'ch teulu am gymhorth i fyw i Dduw, ac actio y cybydd trachwantus yn y fan o'u blaen. Nid gweddio am iachawdwriaeth eich mab, a chodi y cwpan dinystriol at eich genau eilwaith yn ngwydd ei lygaid. Nid nesâu gyda gwyneb difrifol at fwrdd yr Arglwydd, a myned oddiyno adref i glebran ffolineb ac adrodd ystoriau cellweirus, heb byth wyllo y cyflêusdra i arwain meddwl y teulu at bwnc y bregeth neu y bennod, ac at Grist y Gwardwr. Beth raid i blentyn meddylgar gasglu oddiwrth y fath broffes a gweddiau?

O dadau! dywedwn eto, peidiwch sefyll yn ffordd iachawdwriaeth eich teuluoedd! Gwyddom am lawer mam dduwiol yn gwneyd ei goreu ddydd a nos gyda lloaid aelwyd o blant, tra y mae y tad yn dwyn holl nerth bywyd meddw ac annuwiol i wrthweithio ei hymdrechion. Mae yn llafurio wrthi ei hun, yn gweddio wrthi ei hun, yn gweithio, ac yn wlo wrthi ei hun, uwch ben peryglon ac esiampl ddinystriol ei haelwyd ei hun. Trugarhâed Duw wrthi, a chynnorthwyed hi! Y mae yn gwneyd yr oll a all i ddwyn ei phlant anwyl, fel ar ei hysgwyddau, at Grist; ond dan lawer cronglwyd gellid ysgrifenu y geiriau hyn uwch ben ei methiant gofidus,—"*Fel y tad y bydd y teulu!*"

FY MAB, CADW FY NGEIRIAU,  
A CHUDDIA FY NGORCHYMYNION  
GYDA THL.—DIAREBION vii. 1.

## PECHADUR A'I 'WAREDWR.\*

**P**WY fu oddiwrth eu gilydd cy'd,  
Yn awr, 'r ol iddynt gwrdd ynghyd,  
'D oes a'u gwahana yn y byd?  
Pechadur a'i Waredwr.

Pechadur ydwyf fi, ond pwy  
Dan goron ddrain ei weled wy'  
A'r pigau câs yn rhwygo clwy' ?—  
Pwy yw, ond fy Ngwaredwr ?

Dilynais ôl dy droed yn hir,  
Dy nefol lais trwy d' eiriau pur,  
Gyffrôdd fy nghalon oer yn wir  
I geisio fy Ngwaredwr.

Dy geisio bŷm a methu 'th gael,  
Ac oeddwn, wrth anghofio 'n ffael  
Fy mod i yn bechadur gwael,  
Heb 'nabod fy Ngwaredwr.

Canfyddais di 'n dibrisio d' hun,  
I dd'od yn gyfaill isel ddyn,  
Gwnes di yn nôd i mi fy hun,  
Heb eto wel'd Gwaredwr :

Nes gwel'd fy Nuw ar groes brydnawn,  
Yn rhoi ei Hunan mawr yn IAWN,  
Pryd hyn y cefais olwg lawn  
Ar euog a Gwaredwr !

Beth geisiaf chwaneg? elwyf fi  
Yn fwy pechadur byth i Ti,  
A thithau elo fyth i mi  
Yn fwyfwy fy Ngwaredwr.

Pechadur dros fy nyddiau gyd,  
Pechadur wedi rhoi ei fryd  
Ar lwy'r groeshoelio cnawd a byd,  
Er mwyn fy hoff Waredwr.

Yn gado 'n llwyr bob llwybr ffol,  
A beunydd ffyddlawn ddilyn ôl  
Yr Hwn wyf am fod yn ei gôl,—  
Yr Iesu, fy Ngwaredwr.

Bydd imi 'n gefnffordd blaen dibleth,  
Yn Gyfaill, Brawd, a Thŵr difêth,  
Ond blaenaf, penaf, uwch pob peth,  
Bydd imi yn Waredwr.

\* Efelychiad o "The Sinner and his Saviour" yn y *Sunday Magazine* am Awst.



'D wyf fi, rhaid dyweyd, yn gwybod fawr  
Am ddoeth gynlluniau f' Arglwydd mawr;  
Ond gwn, ar ei ddeheulaw 'n awr  
Saif un i mi 'n Waredwr.

Yn hyn 'r wy 'n derbyn gair fy Nuw,—  
"I'r Iesu farw i mi gael byw;"  
'R wy 'n teimlo yn fy nghalon wyw  
Ei anghen yn Waredwr.

A all'sai Duw roi bywyd im'  
Ryw ffordd heblaw? 'd wy 'n gwybod diin;  
Bendithiaf ef tra ynof rym  
Am f' achub trwy 'm Gwaredwr.

Am iddo dd'od o'r nefoedd fry,  
I lawr i farw drosom ni,  
Ai synu 'r y'ch? nid felly fi  
'R ol nabod fy Ngwaredwr.

'D oedd yn y nef 'r un pechod câs.  
Na gwarth i'w ddwyn i'r Dwyfol Was,  
I'r ddaear daeth o'i ryfedd ras  
I fod i ni 'n Waredwr.

A phe na buasai i'w gael i gyd  
Ond f' enaid i o fewn y byd,  
Rhoddasai ef ei fywyd drud  
I fod iddo yn Waredwr;

Un ysbryd clwyfus, llesg, a gwan,  
Yn rhwyfo 'n hir heb haul na glân,  
Ac heb orphwysdra mewn un man,  
Ond mynwes ei Waredwr,—

Wnai iddo adael gorsedd fâd,  
A holl ogoniant tŷ ei Dad,  
A rhoi dros hwnw 'i werthfawr wa'd,  
Fel byddai ei Waredwr.

O! gweled ynof, er ei fri,  
O lafar mawr ei enaid eu,  
A chaed ei foddio ynof fi,  
Fel fi yn fy Ngwaredwr.

Wrth fyw a marw ffrydia mwy,  
Fy nerth a'm holl gysuron trwy  
I'm Iesu ddyoddef marwol glwy',  
Er bod i mi 'n Waredwr.

## LLAETH Y GAIR.

AFODD offeiriad Pabaidd allan yn ddiweddar fod Gwyddel oedd yn byw gerllaw iddo yn darllen y Bibl. Galwodd gydag ef un diwrnod, a dywedodd,—

“Yr wyf wedi clywed eich bod yn darllen y Bibl, Patrick?”

“Y mae yn eithaf gwir, eich parchedigaeth,” ebai y Gwyddel, “a llyfr bendigedig ydyw.”

“Dyn anwybodus ydych chiwi,” ebai'r offeiriad, “ac ni ddylech ei ddarllen.”

“Wel, rhaid i chiwi brofi y pwnc yna, eich parchedigaeth, cyn y rhoddaf i fyny ddarllen y Bibl.”

Trôdd yr offeiriad at y geiriau hyn: “Fel plant bychain newydd eni, chwennychwch ddiwyll laeth y gair.” Ychwanegai yr offeiriad, “Dyna, baban ydych chiwi, a dylech fyned at rywrai sydd yn deall i wybod beth yw laeth y gair.”

Llaethwr oedd Patrick, ac atebodd, “Bûm i yn glaf, eich parchedigaeth, a gosodais ddyn i gario y laeth yn fy lle; ond twyllodd fi; gosododd ddwfr ynddo; ac yr wyf yn ofni y gwna yr offeiriad yr un peth â mi, eich parchedigaeth.”

Dyryswyd yr offeiriad, a dywedodd, “Wel, Pat, nid ydych yn llawn cymaint o faban ag oeddwn yn meddwl. Darllenwch eich Bibl, ond peidiwch ei ddangos i neb o'ch cymydogion.”

“Yn wir, eich parchedigaeth,” ebai Patrick,” y mae genyf un fawch yn rhoi laeth rhagorol; a thra mae fy nghymydog heb ddim, yr wyf yn rhwym o roddi cyfran o hono iddo, gan nad pa un a fydd eich parchedigaeth yn foddllawn ai peidio.”

Yr oedd ysbryd y Bibl wedi llenwi calon Patrick.



## RHOWCH EICH CEINIOGAU AM LYFRAU.

“**P**R arian cyntaf a weriais erioed,” meddai boneddwr wrth ddangos ei lyfrgell i ni, “ydoedd am lyfr. ‘Taith y Pererin’ ydoedd. Yr wyf yn cofio yn dda mor falch eddwn arno. Myfi oedd biau yr holl lyfr, y darlleniad, y darlunau, y dail gwynion a'r cwbl, ac ysgrifenydwyd fy enw ar ddalen rên yn ei ddechreu. Y llyfr hwnw oedd dechreuad fy llyfrgell. Iadwn bob ceiniog a gawn gan fy ewythr i brynu llyfrau. Ac yr eddwn yn awyddus iawn i ddarllen pob llyfr a gawn, a chadwai yny fi rhag gwario fy amser, yn gystal a'm harian, yn ofer. Cyn rynu llyfr, byddwn yn ymgynghori â dynion mwy gwybodus yn gylich, ac felly yn ymgadw rhag gwario fy arian ar lyfrau iwerth. Dymunwn ddyweyd wrth bob mab a merch, peidiwch wario eich arian piced ar ffol bethau, ond defnyddiwch hwynt i sod sail llyfrgell dda i lawr. Cewch gyfeillion doeth a ffyddlawn iawn llyfrau da.”

“Cael doethineb, O mor well yw nag aur coeth! a chael deall, wy dymunol yw nag arian.”—Diar. xvi. 16.



### MYNED A'R GOBENYDD I'R NEFOEDD.

“GAF fi fyned â'm gobenydd bach i'r nefoedd, 'mam?' meddai plentyn yn ddiweddar, pan yn troi ei ben dolurus ar ei obenydd bach ar ei wely marw.

“Na, ni fydd anghen gobenydd arnat yno, fy mhlentyn,” ebai'r fam.

“Ie, ond a gaf fi fyned âg ef yno, 'mam?’ ebai eilwaith.

“I ba beth, fy machgen i?”

“I Iesu Grist gael rhoddi ei ben arno; achos clywais fy nhad yn darllen, ei fod 'heb le i roddi ei ben i lawr.’”

Ymhen ychydig ddyddiau yr oedd y bychan wedi myned a gadael ei wely a'i obenydd bach ar ol. Ond yr oedd wedi gadael ar ei ol hefyd dystiolaeth bendant o dynerwch ei feddwl at Iesu Grist.

### Y CWESTFYNAU GWOBRWYEDIG.

19. **R**WY ba nod y dywed un o ysgrifenyddyr y Bibl y gellir adnabod ei ysgrifau ef?

20. Am ba anweddeidd-dra y dywed y Bibl fod y neb a'i harfero yn farw, er ei fod yn fyw?



JOHN A'I SUM.

**D**R oedd John yn eistedd yn y parlwr â'i lech (*slate*) ar ei glun, a'i dad yn darllen llyfr gyferbyn ag ef. Yr oedd ganddo *sum* i'w gwneyd erbyn myned i'r ysgol bore drannoeth. Nid oedd John yn ei deall, ac yr oedd yn faich calon iddo feddwl am dani. O'r diwedd dywedodd yn rwgnachlyd,

"Dallaf fi ddim gwneyd yr hen *sum* yma!"

"Tyred yma, fy machgen," ebai'r tad, "i mi gael ei hegluro i ti."

Wedi i'r tad ei hegluro yn bwyllog a serchog, ymroddodd John ati â'i holl egni, ac ymhen chwarter awr yr oedd wedi ei gorphen.

"Dyma hi, 'nhad," ebai'r plentyn yn llawen, "a welwch chwi fod yn dda edrych drosti?"

Edrychwyd drosti, ac yr oedd yn hollol gywir. "Dyna, fy machgen," ebe'r tad, "paid byth a dyweyd, 'd allaf fi ddim;" ond cofia fod dyfalbarhâd yn sicr o lwyddiant."

Aeth John i'r gwely, a chododd bore drannoeth gyda chalon lawen. Yr oedd yn carlamu tua'r ysgol, ac yno o flaen y plant i gyd. Pan alwyd ar yr ail ddosbarth i ddyfod â'u *sums* i fyny, cafwyd *sum* John yn gywir, a dywedodd ei feistr wrtho, "*Well done, John*; dim ond i chwi ymroddi, de'wch yn ysgolor da."

Suddodd y geiriau i galon John, a bu ymddygiad ei dad a'i feistr yn gyfnod yn hanes y plentyn. Y mae heddyw yn llenwi sefyllfa uchel, ac yn cofio y noswaith yn y parlwr, a'r ysgol bore drannoeth, gyda llawenydd.

## HOLL FAMAU CAERSALEM.

*(When Mothers of Salem.)*

GAN J. CEIRIOG HUGHES.

**H**OLL famau Caersalem ddygasant at yr Iesu  
 Eu plant anwyllion o bob oed, i dderbyn bendith bur:  
 Atebodd Crist, "Os hoffant fyw,  
 Am dragwyddoldeb gyda Duw,  
 Heddyw, blant bychain, O dowch ataf fi."

Dysgyblion yr Iesu pan welsant blant yn dyfod,  
 Dd'wedasant wrtho Ef, am droi o'r neillidu rhagddynt hwy:  
 "O na," medd Crist, â serchus drem,  
 "Bfwm innau 'n fach yn Methlehem,  
 Heddyw, blant bychain, O dowch ataf fi."

Ond plant y paganiaid ni chlywsant ei leferydd,  
 'D oes neb a wŷr am Iesu Grist ymysg eu mamau hwy.  
 O gyfrol sanctaidd dos i'th daith,  
 Mae 'r Iesu 'n galw ymhob iaith,  
 "Heddyw, blant bychain, O dowch ataf fi."

Boed bendith y nefoedd ar lafur ein hathrawon,  
 A phlant Caersalem eto 'n d'od i freichiau Iesu Grist—  
 Wrth yru 'r Bibl tros y dôn,  
 Gweddied plant yr ynys hon,  
 "Dysga ni, Arglwydd, i dd'od atat Ti."

*(Lledgyfieithiad.)*

## DR. VAUGHAN A'I GINI GYNTAF.

**D**R wyf yn cofio yn dda, pan yn bur ieuanc, meddai y Parchedig  
 Ddr. Vaughan, pryd y daethum i feddiannu gini am y waith  
 gyntaf. Cofiwf hefyd fod yr amgylchiad hwnw wedi costio  
 imi gryn drafferth a phryderwch. Tra yr oeddwn yn cerdded yr  
 heol, yr oedd ofni colli fy ngini yn peri i-mi ei thynu yn fynych  
 allan o'm llogell i edrych arni. Yn gyntaf mi a'i rhoddwn mewn  
 un boced, ac yna mi a'i tynwn allan, ac a'i rhoddwn mewn poced  
 arall; ymhen ychydig mi a'i cymerwa hi o'r ail boced, ac a'i gosod-  
 wn mewn poced arall, yn wir drafferthus beth a wnawn o honi.

Yn lled fuan tynwyd fy sylw at arwerthiad llyfrau. Aethum  
 i mewn, ac edrychwn o'm cwmpas. Rhowd un sypyn i fyny, ac  
 un wed'yn, a'u gwerthu i'r cynnygiwr uchaf. O'r diwedd mi  
 fentrais at y bwrdd, pan yr oedd yr arwerthwr ar rodidi i fyny  
 "Hanes y Byd" yn ddwy gyfrol fawr unplyg. Yn ebrwydd  
 gwthiais fy llaw i'm llogell, a dechreuais droi a throsi fy ngini,  
 gan betruso o hyd a oedd genyf ddigon o arian i brynu y sypyn  
 hwn. Aeth y cynnygion ymlaen; o'r diwedd mentrais innau i

gynnyg hefyd. "Hwi, fy nyn bach i," ebai'r arwerthwr, "pa beth, dim yn foddllawn ar lai na'r byd, ai ie?" Darfu i'r gair hwnw fy nyrysu nid ychydig, a thynu sylw yr holl gwmpeni arnaf fi, pa rai, wrth fy ngweled yn awyddus i feddiannu'r llyfrau, a ymattaliasant rhag cynnyg dim yn fy erbyn; ac felly tarawyd "y Byd" i lawr i mi am bris bur gymedrol.

Pa fodd i gael y llyfrau anferthol hyn adref ydoedd yr ystyr-iaeth nesaf. Cynnygiodd yr arwerthwr i'w danfon i mi; ond myfi heb wybod pa fath ddynion ydoedd yr arwerthwyr yn gyffredin, a benderfynais eu cymeryd ymaith fy hunan, ac felly, wedi i'r gwas eu cylymu i fy, mi aethum allan o'r ystafell â'r "Byd" ar fy ysgwydd, fel Samson â phyrth Gaza, yn nghanol chwerrhin-iaid y gwyddfodolion oll.

Pan gyrhaeddais gartref, ac wedi i'r forwyn agoryd y drws, y neb a gyfarfyddais gyntaf oedd fy seintiedig fam. "Fy machgen anwyl," ebai hi, "pa beth sydd genyt yna? Yr oeddwn yn meddwl na buasit yn cadw dy gini yn hir." "Na fyddwch yn ddig wrthyf, 'mam," ebai fi, gan eu tafu i lawr ar y bwrdd; "yr ydwyf wedi prynu'r byd am naw swllt!" Dygwyddodd hyn ar ddydd Sadwrn; a chofwyf yn dda, fy mod wedi aros ar fy nhraed, yn agos hyd hanner y nos, yn troi dalenau ac yn chwilio i mewn i "Hanes y Byd," oeddwn newydd brynu. Daeth y llyfrau hyn i fod yn hyfrydwch imi, a darllenais hwynt drosodd yn fanwl, fanwl.

Fel y daethum yn hynach, daethum hefyd i fod yn Gristion, ac yr oedd fy hoffder o lyfrau yn naturiol yn cynnyrchu ynof y dymuniad i fod yn weinidog yr efengyl. I fy ngwaith yn dyfod i feddiant o'r llyfrau hyn yr ydwyf yn priodoli, i fesur mawr, bob arhwydedd ynglŷn â llenyddiaeth, sydd yn gysylltiedig â'm henw. Nid ydwyf wedi crybwyll yr hanesyn hwn i'r dyben i foddloni unrhyw deimlad gwirionffol, ond yn hytrach i gefnogi yn y gwyr ieuainc yna, a welaf ger fy mron, yr hoffder hwnw o lênyddiaeth, pa un a roddodd i mi y fath bleser annhraethol—pleser na fuaswn hebdo am holl gyfoeth y ddwy India fawr i gyd.

JOSEPH WILLIAMS.

*Liverpool.*



Y DUWIOL.

**D**OR hapus mae y duwiol ddyn!  
 Pan bo ar fin y beddrod,—  
 Ar ddianc mae o boen a chur  
 I wynfyd pur diddarfod.  
 Os ydyw 'n awr yn ddefnydd gwawd—  
 Os yw yn dlawd ei wisgoedd,—  
 Ar fyr caiff ganu "Iddo Ef,"  
 A byw yn nef y nefoedd.

Os ydyw 'n awr yn cario 'r groes  
 Trwy ddyddiau 'i oes yn ffyddlon,  
 Mae Duw yn d'wedyd yn ei Air,  
 Caiff wisgo auraidd goron :  
 Os bu raid iddo hyd ei fedd  
 I gario 'r cleddyf beunydd ;  
 Ni chaiff ei wel'd yr ochr draw,  
 Ond yn ei law bydd palmwydd.

Os ydyw 'n awr am lawer hin  
 Yn cael ei flin gystuddio,  
 Mae 'n gweled draw â llygaid ffydd  
 Fod hyfryd ddydd ar wawrio ;  
 Pan fydd pob galar wedi ffoi,  
 Y cwyno 'n troi yn ganu, —  
 Gorchfygu holl helbulon byd,  
 A thrigo gyda 'r Iesu.

Ddarllenwyr hoff TRYSORFA 'R PLANT,  
 Mae arnaf chwant i ofyn  
 Rhyw *gwestion* i chwi—dyma fe, —  
*B' le bydd eich cartre' n sydyn?*  
 Os y'm am fyn'd i'r nef i fyw,  
 Rhaid gweddïo Duw 'n bresennol,  
 Am 'nabod Iesu Grist yn ffrynd  
 Cyn myn'd i'r byd tragwyddol.

*Pumsaint Caio.*

NATHANIEL AB DAFYDD.



## DEIGRYN Y DALL.

OLYGFFA a'n tarawodd yn fawr neithiwyr yn y bregeth oedd  
 gweled deigrin inawr ar rudd dyn dall. Collodd Mr. D. D. un  
 llygad er ys amryw flynyddoedd trwy ddamwain, ac yn ddiweddar,  
 collodd y llall, ac y mae mor ddall a'r mur. Dyn duwiol  
 o'r cymeriad uchaf ydyw. Gofynasom iddo yn ddiweddar, sut  
 oedd yn teimlo yn y byd tywyll yr oedd yn byw ynddo yn awr.  
 Atebodd,

“Cefais dringain a phymtheg o flynyddoedd i weled, a'm gwaith  
 yn awr yw diolch am hyny, ac nid grwgnach am fy nallineb  
 presennol.”

Mae y llygad wedi peidio derbyn, ond heb beidio rhoddi. Yn  
 ofer y tywyna yr haul, y lloer, y ser, a'r ganwyll iddo ef. Ond os  
 nad all dderbyn y goleuni, na chanfod llythyren o air Duw, na  
 gwyneb siriol yr hwn sydd yn cyhoeddi tangnefedd, mae ganddo  
 aberth i'w gyflwyno. Dacw ef yn ddeigrin crwn tryloew, yn  
 treiglo yn araf a dystaw dros ei rudd, fel offrwm diolch am yr  
 “addewidion mawr iawn a gwerthfawr” y sonia y pregethwr am  
 danynt. Yr oeddwn yn edrych a welwn i gostrel Duw yn dyfod  
 i'r golwg, waith gwyddwn y buasai yn dyferu iddi.



PENDERFYNIAD DINYSTRIOL.

“**J**ANE! y mae yn llawn bryd i chwithau ddechreu ceisio yr Arglwydd Iesu,” meddai athrawes ddifrifol yr Ysgol Sul wrth ferch ddeunaw oed oedd newydd ymuno â'i dosbarth. Cyttunai Jane â rhesymoldeb cynghorion ei hathrawes, ond ar yr un pryd atebodd hi,—

“Ond yr wyf fi yn benderfynol i fwynhâu pleserau bywyd tra yr wyf yn ieuanc.”

“Wel, yr ydych yn ieuanc, mae'n wir,” ebai'r athrawes; “ond gellwch er hyny fod yn agos i angeu.”

“Nac wyf fi, ddim yn agos i angeu; pa argoel welwch? Yr wyf yn hollol iach, ac yr wyf yn meddwl cael oes go hir, ac yn meddwl hefyd fyndu fy rhan o bleserau bywyd.”

Pythefnos ar ol hyn i'r diwrnod, yr oedd yr athrawes yn sefyll yn ymyl ei harch (*coffin*), ac yn cynghori amryw o'i dosbarth uwch ben corff marw Jane. Taräwyd hi gan dwymyn; ymhen tridiau, yr oedd ei synwyr wedi dyrysu; ac ar y degfed dydd bu



farw. Ac yn lle cael mwynhâu pleserau bywyd, cafodd fyned o flaen ei Barnwr yn anmharod.

Ddarlleneydd! cymer rybydd oddiwrth yr eneth ryfygus hon. A wyt ti yn ymlid ar ol pleserau bywyd, ac yn esgeuluso y Ceidwad? Cofia, mai yr awr ni thybiot y daw Mab y dyn.



## Y BIBL.

### VI.—LLYFR LEFITICUS.

**OF.** Pwy oedd awdwr y llyfr hwn, a phaham y galwyd ef yn Lefiticus?

*Ateb.* Moses oedd ei awdwr, a galwyd ef yn *Lefiticus* neu llyfr y Lefiaid, yn y *Septuagint*, neu gyfieithiad y Deg a Thriugain, am ei fod yn cynnwys cyfreithiau i'r Iuddewon ynghylch eu crefydd, yr hon a gynnwysid yn benaf mewn aberthau; gofal yr hon oedd wedi ei ymddiried i Aaron y Lefiaid a'i feibion, y rhai yn unig o lwyth Lefi a ddalient y swydd offeiriadol.

*Gof.* Dros ba faint o amser y mae hanesiaeth y llyfr hwn yn cyrhaedd?

*Ateb.* Dros un mis (Exod. xl. 17; Num. i. 1), sef o gyfodiad y tabernacl i gyfrifiad y bobl gymhwys i ryfel; hynny yw, o ddechreuad yr ail flwyddyn wedi ymadawiad Israel o'r Aipht, i ddechreuad yr ail fis o'r un flwyddyn—blwyddyn o oed y byd 2514, a chyn Crist 1490.

*Gof.* Beth yw prif bynciau y llyfr hwn?

*Ateb.* Cyfreithiau ynghylch yr aberthau, yr offeiriadaeth, purdigaethau, a'r gywllian, &c.

*Gof.* Pa beth ydoedd yr aberthau?

*Ateb.* Offrymau i'r Arglwydd gyda thywallt gwaed.

*Gof.* Pa sawl math o honynt oedd?

*Ateb.* (1.) *Poethoffrum*, pan ddygid y créadur at yr allor, y rhoddai yr offrymwr ei ddwyllaw ar ei ben, y cyffesai ei bechodau, ac y gweddïai ar i fywyd y créadur gael ei dderbyn fel iawn dros ei fywyd, ac y llosgid y créadur yn gyfangwbl ar allor y poethoffrum.

(2.) *Yr aberthau dros bechod*, sef pechod mewn anwybodaeth, pan losgid holl frasder yr anifail ar yr allor, ac y dygid ei gorff i'w losgi o'r tu allan i'r gwerysll.

(3.) *Yr offrum dros gamwedd*, sef dros bechodau a wnelid trwy wybod.

(4.) *Aberth hedd*, sef aberth o ddiolchgarwch am fendithion neu waredigaethau.

*Gof.* A oedd aberthau cyson yn cael eu hoffrymu, heblaw gan bersonau unigol?

*Ateb.* Oedd, *aberthau cenedlaethol*,—(1.) *Yn ddyddiol*, sef oen, bob bore am naw, a phob prydawn am dri, er cyffesiad y genedl o'i

pechod. (2.) *Wythnosol*, sef dau oen y bore a dau y prydawn ar y dydd Sabbath. (3.) *Misol*, sef ar y newydd-loer, yn cynnwys dau fustach, un hwrdd, a saith oen, yn boethoffrwm, gyda mŷn yn bechaberth. (4.) *Blymyddol*, ar adeg y gŵyliau blynyddol.

*Gof.* Pa fath oedd cyfreithiau yr offeiriadaeth?

*Ateb.* Dewiswyd Aaron a'i deulu hyd byth i fod yn offeiriad, o ba rai yr oedd un i gael ei ddewis yn *archoffeiriad*; a nodwyd allan gyda manylrwydd mawr eu holl wisgoedd a'u harferion.

*Gof.* Beth oedd gwaith yr archoffeiriad?

*Ateb.* Barnu y bobl; gwneuthur cymmod dros eu pechodau unwaith y flwyddyn; ac ymgynghori â Duw mewn achosion anhawdd.

*Gof.* Beth oedd gorchwylion yr offeiriad?

*Ateb.* Offrymu aberthau; cadw y tân sanctaidd i losgi; llosgi aroglarth; gwneuthur y bara dangos; addysgu y bobl; profi gwahangleifion; puro yr asfan, &c. *Wedi* hyn dosbarthwyd hwy yn 24 o ddosbarthiadau, i wasanaethu ar gylch yn wythnosol, a phenodid llywydd ar bob dosbarth; a byddai y llywyddion hyn ar brydiau yn sefyll yn lle yr archoffeiriad.

*Gof.* Beth oedd gorchwylion y Lefiaid?

*Ateb.* Gweini yn benaf ar yr offeiriad; canu yn ngherddoriaeth gysegredig y deml; a chynorthwyo yn addysgiad y bobl. Ymgymerent â'r gwasanaeth yn 25 oed, a gwasanaethent y swydd am 20 mlynedd.

*Gof.* Pa rai oedd y prif ŵyliau?

*Ateb.* (1.) Gŵyl y Pasc (yn y gwanwyn).

(2.) Gŵyl y Pentecost (Sulgwyn).

(3.) Gŵyl y Pebyll,

(4.) Gŵyl yr Udgyrn, } yn yr Hydref.

(5.) Gŵyl y Cymmod, }


*Gof.* A sefydlwyd gŵyliau ychwanegol ar ol hyn?

*Ateb.* Do, ond nid trwy orchymyn Dwyfol; sef, (1.) *Gŵyl y Pwrim*, neu y Coelbren (Esther ix. 26), yn goffadwriaeth o waredigaeth yr Iuddewon o frad Haman, 510 o flynyddoedd cyn Crist; (2.) a *Gŵyl y Cysegriad*, yr hon a sefydlwyd gan Judas Maccabeus, yn goffadwriaeth o ailgysegriad y deml ar ol ei halogiad gan Antiochus Epiphanes, 160 o flynyddoedd cyn Crist.

CHARLES LAMB A'I FAM.

“A beth na roddwn,” meddai yr enwog Charles Lamb, “am gael fy mam yn ol i'r ddaear am un diwrnod, i ofyn ei phardwn ar fy ngliniau am bob peth a wnaethum i roddi blinder i'w hysbryd addiwyn!”

Tybed fod rhai o ddarllenwyr ieuainc TRYSORFA Y PLANT fydd yn gofidio am ymddygiadau annheilwng at eu mamau, pan fydd eu mamau wedi ehedeg ymaith o'u cyrhaedd am byth? Os mynwch fendith y nefoedd arnoch, BYDDWCH DYNER WRTH EICH MAM.



## Y BUARTH.

**T**N' o bleserau fy mywyd plentynaidd ydoedd rhanu bwyd i'r fowls yn y buarth. Myfi oedd yn gofalu am eu bwydo bob dydd, ac yr oeddent yn rhedeg ataf, gan estyn eu gyddiau hirion, mor gynted ag y gwelent fi. Yr wyf yn cofio fod fy mam yn dyweyd wrthyf un diwrnod fod gan yr Arglwydd fuarth mwy na'n heiddo ni, a mwy o grëaduriaid i'w bwydo, a'i fod yn llawer mwy gofalus o honynt, ac yn fwy hoff o'u porthi, nag oeddwn i Dysgodd i mi hefyd ddwy adnod o Salm cxlv.; "Llygaid pob peth.

a ddysgwylant wrthyt; ac yr ydwyf yn rhoddi eu bwyd iddynt yn ei bryd; gan agoryd dy law, a diwallu pob peth byw a'th ewyllys da." Cynnyrchwyd ynof feddwl uchel a charedig am Dduw, y pryd hwnw, yr hwn sydd yn aros hyd y dydd hwn. Wrth edrych ar ein buarth ni, yr wyf yn meddwl yn fynych am fuarth mawr Duw.



## ROSE A BLANCHE;

*Neu Gynllwynion y Jesuitiaid.*

### PENNOD X.—DYLANWAD Y GYFFESGELL.

**M**OR gynted ag y gadawodd Rose a Blanche dŷ Dagobert, syrthiodd gwraig Dagobert ar ei gliniau i weddio am gymhorth i fod yn ffyddlawm i'w hadduned i'w chyffesydd. Yr oedd ei chalon yn curo yn drwm; dychrynai rhag gweled ei phriod yn dyfod; a theimlai fod ganddo reswm digonol dros achwyn ar ei hymddygiad.

Ymhen rhai mynydau, dyma y drws yn agor yn drwsogl, a Dagobert yn dyfod i mewn. Edrychai yn brudd a sarug; tafodd ei het yn drwsogl i'r ford, ac eisteddodd ar y gadair, heb sylwi ar y foment ar absennoldeb y merched.

"Druan fach!" ebai, "y mae yn ddychrynlyd meddwl am y fath beth!"

"A welsoch chwi Mary?" gofynai y wraig, yr hon oedd yn ceisio gwnïo wrth y ford, ond yn cael gorchwyl caled i ddal pwysau y nodwydd.

"Gwelais; ond mewn cyflwr digon tost i beri i geryg deimlo. Dywedais dipyn o fy meddwl yn blaen wrthynt. Deuant â hi yma yn union, ac i dderbyn eich —. Ond pa le mae y merched?" ebai Dagobert yn gyffrous, dan edrych yn llygaid ei wraig.

Ymgripiodd iâs oer dros y wraig; glynai ei thafod wrth dafnod ei genau, ac nis gallai ateb. Yn y man dywedodd, "Anwyl ŵr, yr wyf —," ond nis gallai ychwanegu.

"Atebwch fi! pa le mae Rose a Blanche? Pa le mae fy mhiant? Nid wyf yn gweled Killjoy ychwaith."

"Attolwg, peidiwch cyffroi!" ebai'r wraig yn ofnus.

"Yr wyf yn gweled eich bod wedi eu gadael i fyned allan am dro gyda rhyw gyfaill. Ond pam na fuasech yn myned gyda hwynt eich hunan, neu yn aros i mi ddychwelyd cyn eu gollwng i ffwrdd? Mae eisieu tro allan arnynt; ond yr wyf yn synu hefyd iddynt fyned cyn clywed am dynghed Mary, achos mae eu calonau mor dyner â chalon angel. Beth sy'n bod," ychwanegai Dagobert, "yr ydych mor welw ag anghu. Beth sydd yn eich blino?" Ymafodd y wraig yn ei law, a chusanodd hi; a theimlai yntau ei dagrau poethion yn gwlychu ei law fawr haiarnaidd.

"Beth sydd yn tynu y dagrau yna i'ch llygaid, wraig? Paham

nad atebwch fi, Francoise? Ai am i mi siarad dipyn yn sarug am adael y plant i fyned allan? Rhaid i chwi gofio fod eu mam wedi eu hymddiried i'm gofal pan oedd yn huno yn yr angeu; ac yr ydych yn deall fod ymddiried felly mor gysegredig a bywyd—ie, ag enaid. Felly yr wyf fel iâr yn clochdar am ei chywion o hyd am y plant yna."

"Yr ydych yn gwneyd yn iawn eu caru fel yr ydych," ebai'r wraig.

"Y maent wedi gofyn eich cenad, mi dybygwn, i fyned allan am dro gyda Killjoy."

"Nac ydynt, anwyl briod; nid wyf —."

"Nac ydynt! I ofal pwy yr ydych wedi eu hymddiried? I ba le y mae wedi eu cymeryd? Pa bryd y dônt yn ôl?"

"Wn i ddim," ebai'r wraig, mewn llais crynedig.

"Wyddoch chwi ddim!" ebai Dagobert mewn cyffro digofus. "Pam na fuasent yn aros i mi ddychwelyd? Atebwch fi, wnewch chwi? Ar fy mywyd i," ebai gan daro ei droed ar y llawr, "yr ydych yn ddigon i yru sant i regu. A atebwch fi, neu beidio?"

Yr oedd y wraig druan yn dyoddef loesion annesgrifiadwy oddi wrth holiadau ei phriod; ond yr oedd wedi tyngu o flaen ei chyffesydd, a cher bron Duw, na fynegasai yr un gair i'w gŵr am y plant; ac yn awr, yn nghanol ing ei chalon, penderfynodd ddyweyd yr oll ar unwaith wrth ei gŵr. "Gwnewch a fynoch â mi," ebai, "ond peidiwch a gofyn ychwaneg o gwestiynau ynghylch y merched, oblegid nis gallaf eu hateb."

Pe buasai taranfollt wedi syrthio wrth ei draed, nis gallasai Dagobert gael ergyd mwy dychrynlyd. Aeth ei wyneb yn welw angenol; safai dyferynau o chwys oer ar ei dalcen, a safai yntau yn syth a mud fel delw ddychrynedig. Yn y man neidiodd ymlaen ati, ac ysgrechodd mewn llais taranlyd,—

"Y plant! Yr wyf yn rhwym o gael gwybod beth a wnaethoch iddynt!"

"O Arglwydd, trugarhâ wrthyf!" ebai'r wraig, mewn llais llewygol.

"Pa le mae y merched?" llefai Dagobert, ac ysgydwai ei wraig, nes oedd perygl i'w hesgryn grillian gan ei ffyrnigrwydd. "Mynaf wybod beth wnaethoch iddynt."

"Lladdwch fi, neu maddeuwch i mi," ebai'r wraig, "oblegid nis gallaf—ni feiddiaf ateb."

"Yr adyn!" ebai Dagobert, yn wallgof gan lid, gofid, ac anobaith, a chododd ei wraig i fyny oddiwrth y ddaear fel pluen, ac fel pe buasai ar fedr ei tharo yn ddarnau ar y llawr. Ond yr oedd gormod o galon gan yr hen filwr i wneyd hyny hefyd. Gollyngodd ei afaelion haiarnaidd, syrthiodd y wraig ar ei gliniau, rhoddodd ei dwylaw yn mhleth, ac yr oedd yn amlwg wrth ei gwefusau ei bod yn gweddio mewn yndrech galed.

Trôdd Dagobert o'r neilldu, ac eisteddodd mewn hurtwch syfrdanol. Cymerodd beth amser i ystorm gynddeiriog ei feddwl

dawelu. Yr oedd yn dyrysu yn lân wrth feddwl sut y gallai dynes mor dda a ffyddlaw'n a'i wraig, ymddwyn fel hyn tuag ato, yn enwedig gyda pheth mor annhraethol bwysig a diogelwch merched y Cadfridog Simon. Ond wedi ymdawelu ymresymodd âg ef ei hun fel hyn:—

“Fy ngwraig yn unig all ddadguddio yr achos dychrynlyd hwn, y dirgelwch anesboniadwy, felly ni osodaf fy llaw arni i'w drygu mewn un modd. Rhaid i mi dreio rhyw ffordd deg i'w hennill i'm hysbysu; felly ni thâl i mi roddi ffordd i dymherau digofus eto.”

Cymerodd gadair eto ar yr aelwyd, a dangosodd gadair arall i'w wraig, yr hon oedd o hyd ar ei gliniau yn gweddio, a dywedodd,—

“Eisteddwch yma!” Cododd y wraig ac eisteddodd.

“Yn awr, gwrandewch arnaf, anwyl Françoise,” ebai Dagobert, gan gymeryd arno fod yn llawer mwy tawel ei dymher nag ydoedd. “Y mae yn ddrwg genyf i mi fyned i gymaint o gyffro; ni wnaf hyny mwy, felly rhoddwch bob ofn o'r neilldu. Ond, yn wir, rhaid i mi gael genych fy hysbysu pa le mae'r plant anwyl; rhoddodd eu mam hwynt, yn ei mynyddau olaf, yn fy ngofal i; a chwi ddylech wybod na ddaethum â hwynt yr holl ffordd o Siberia i Paris, i chwi gael dyweyd wrthyf fel y dywedwch yn awr, ‘Peidiwch gofyn cwestiynau i mi, nis gallaf ddyweyd wrthyfch beth a wnaethum iddynt!’ Nid rheswm yw geiriau fel yna—’does dim synwyr ynddynt. Meddyliwch fod *Marshal* Simon yn cyrhaedd, ac yn dyfod ataf i ofyn am ei blant, beth a atebwn iddo? Chwi welwch fy mod yn siarad yn synwrol â chwi, ac yn dawel. Rhoddwch chwi eich hunan yn fy lle. Beth ddywedech chwi wrth y *Marshal*?—eh? Dywedwch—atebwch fi—pa grogi nad atebwch fi?” Yr oedd ei dymher yn cyffroi eto.

“Och fi!” ydoedd unig ateb y wraig.

“Nid yw, Och fi, yn un ateb i'm gofyniad i. Beth a ddywedaf wrth y Cadfridog?”

“Dywedwch wrtho mai fi yw yr euog. Dyoddefaf fi ei lid. Dywedaf y cwbl wrtho.”

“Beth ddywedwch chwi?”

“Dywedaf i chwi ymddiried y merched i'm gofal, ac i chwi fyned allan, a chyn eich dychweliad fod y merched wedi myned yn eisieu, ac i minnau beidio ateb yr un cwestiwn i chwi yn eu cylch.”

“Ydych chwi mor ffol a meddwl y derbyn y Cadfridog y fath esboniad disynwyr,” ebai Dagobert, a'i gyffro meddwl yn ei ddirdynu.

“Yn anfodus,” ebai'r wraig, “dyna yr unig esboniad allaf fi roddi iddo ef, ac i chwithau; pe cawn fy nharo y fynydd hon yn farw, ni feiddiaf roddi ychwaneg.”

Neidiodd Dagobert eto ar ei draed bron rhwygo gan dymherau drwg; ond yn hytrach na'u gollwng mewn dialedd ar ei wraig, cerddodd at y ffenestr, a gwthiodd ei ben purboeth allan i gael

oeri ychydig arno yn yr awyr oer; yna cerddodd am ychydig yn ôl a blaen dros yr ystafell, ac yn y diwedd eisteddodd eto yn ymyl ei wraig, yr hon oedd yn awr yn wylu fel y gwlaw.

"Gallwn gasglu nad clefyd na damwain yw yr achos o absenoldeb y merched," ebai eto wrth ei wraig.

"Na, moliant i'r nefoedd, y maent yn eithaf iach; a dyna'r oll allaf ddyweyd wrthyich."

"Ai wrthynt eu hunain yr aethant ymaith?"

"Nis gallaf ateb eich gofyniad."

"Ai bob yn un yr aethant?"

"Och fi! anwyl Dagobert, paham y blinwch fi â chwestiynau? yr wyf eisoes wedi dyweyd nas gallaf eu hateb."

"A ddychwelant yma?"

"Nid wyf yn gwybod."

Yr oedd Dagobert eto yn ymwylltio, a chododd i gerdded yn ôl a blaen dros y tŷ.

Wedi amryw gynnygion drachefn ar ei wraig, dywedodd, "Yr wyf yn meddwl nas gellwch gelu y peth oddiwrthyf pan ddywedwyf un peth nad wyf erioed wedi ei hysbysu wrthyich. Gwrandewch arnaf yn ddifrifol. Os na ddychwelir y merched erbyn prydawn y 13eg o Chwefror, yr hwn sydd bellach yn yr ymyl, byddwch yn fy ngosod i mewn sefyllfa fydd yn yspeilio merched y Cadfridog Simon o ffortun bwysig. Gwnaethum yr oll oedd yn fy ngallu i ddwyn y merched druain hyd yma, ac nid oes neb dan y nefoedd w'yr gymaint a ddyoddefais ar y daith hirfaith. Ond yr oeddwn yn dal danynt yn llawen, yn y gobaith o gael dyweyd un diwrnod wrth y Cadfridog dewr, 'Dyma eich merched.'" Gyda hyn, torodd Dagobert i wylu dagrau mawrion yn hidl, ac yr oedd yn griddfan fel pe buasai ei galon ar dori.

Bu dagrau ac ocheneidiau Dagobert agos myned yn drech na phenderfyniad ei wraig; ond galwodd yn fuan i gof ei hadduned ddifrifol i'w chyffesydd, a chan dybio mai po mwyaf o wroldeb a ddangosai, goreu oll fyddai ar eneidiau y merched. Felly, penderfynodd na ddywedai ddim ond gofyn, "Beth oeddech yn feddwl wrth ddyweyd y byddech yn ysbeilio y merched?"

"Y rheswm am yr holl deithio o Siberia i Paris yw, dysgwyliaid am ffortun fawr sydd i ddygwydd i'r merched ac eraill trwy fod yn bresennol yn heol St. Francis ar y 13eg o Chwefror. Os na byddant yn bresennol, collant bob siawns am byth, a hyny o'm hachos i; oblegid myfi sydd yn gyfrifol am bob dygwyddiad, ac am ganlyniadau dychrynlyd y peth ydych chi wedi wneyd heddyw."

"Y 13eg o Chwefror! Heol St. Francis!" ebai'r wraig mewn syndod; "mae hyna yr un fath a Gabriel yn union."

"Yr un fath a Gabriel?" ebai Dagobert.

"Ie, pan dderbyniais i ef gyntaf, yn blentyn gwrthodedig, yr oedd medal yn hongian am ei wddf."

"Medal am ei wddf!" ebai Dagobert mewn syndod; "a oedd y geiriau hyn arno, 'Byddwch yn Heol St. Francis, Paris, ar y 13eg o Chwefror, 1832?'"

"Dyna y geiriau yn hollol! Sut y daethoch chwi i'w gwybod?"

"Gabriel, hefyd!" ebai Dagobert, wrtho ei hun. "A yw Gabriel yn gwybod fod y *medal* hwnw yn ei feddiant?"

"Dywedais wrtho am dano," ebai'r wraig, "wedi iddo ddyfod i oedran i ddeall. Cefais amryw bapryau hefyd, mewn *case* bychan, y rhai oeddynt mewn iaith ddyeithr. Dygais y papyrau a'r *medal* i'm cyffesydd, y Tad Dubois; a phan gymerodd boneddwr caredig o'r enw Rodin at addysgiad Gabriel, trosglwyddodd y Tad Dubois y *medal* a'r papyrau iddo ef, a dywedwyd wrthyf nad oeddent o ddim gwerth."

Wrth fod y wraig yn son am ei chyffesydd, tarawodd pelydryn o oleuni ar draws meddwl Dagobert, yr hwn oedd yn hollol anwybodus hyd yma o'r cynllwynion aneirif oedd ar droed yn erbyn Gabriel a'r ddwy chwaer, Rose a Blanche. Meddyliodd y milwr yn awr fod llaw gan ryw offeiriad Pabaidd yn hyn oll, ac mai hyny oedd yn rhoddi cyfrif am ymddygiad dyeithriol y wraig. Dywedodd wrth ei wraig mewn tŷn lem,

"Mae rhyw offeiriad â'i law gyda chwi yn y drafodaeth hon."

"Dagobert! er mwyn y —"

"Does dim rheswm y buasech chwi o honoch eich hun yn cadw y fath beth byth oddiwrthyf. Ni chafodd dyn erioed well gwraig na chwi. Yr ydych yn gweled cymaint wyf yn ddyoddef yn yr achos hwn; a phe buasech chwi yn actio o honoch eich hun, buasech yn sicr o dosturio wrthyf—nis gallasech oddef edrych ar fy nhrallod."

"Anwyl ŵr, yr wyf yn erfyn arnoch ymattal."

"Yr wyf eto yn dyweyd eich bod yn fy aberthu i a'r plant am-ddifaid yna i ewyllys greulawn eich cyffesydd. Cymerwch ofal; mynaf wybod y lle y mae yn byw, a gweled pa un ai efe ai myfi sydd i fod yn ben ar yr aelwyd hon; ac os gwrthyd fy ateb," meddai, â'i lygaid yn gwreichioni tŷn, "dangosaf y ffordd iddo cyn pen fawr amser."

"Arswydwch, Dagobert! arswydwch! A ydych chwi yn ystyried y fath gabled yw dyweyd peth fel hyn am offeiriad!"

"Offeiriad sydd yn dwyn terfysg, bradwriaeth, a thrueni i deulu! Y mae yn waeth na'r dyhiryn mwyaf dirmygedig sydd yn rhodio'r ddaear! ac y mae yn rhwym o ateb am y drwg y mae wedi achosi i mi, ac i'm heiddo. Am hyny, unwaith eto, yr wyf yn gofyn i chwi, ac am y tro diweddaf, dywedwch wrthyf pa le mae y merched? Ac os nad ydych yn dyweyd, âf rhag blaen at eich cyffesydd i'w gofyn ganddo ef."

"Dagobert! yr ydych yn camsynied os ydych yn meddwl y gall eich cyffro chwi ddychrynu dyn cyfrifol fel hwnw, i'r hwn yr wyf wedi ymddiried gofal fy enaid am ugain mlynedd."

"Nis gall oedran nac arall ei gadw rhag fy nigofaint cyfiawn i," ebai Dagobert, gan ymaflud yn ei het i fyned allan.

Neidiodd ei wraig rhyngddo â'r drws, ac ymaflodd ynddo ar fedr ei ddal, gan waeddi, "Ymatteliwch! ni wyddoch beth ydych



yn wneyd! Tynwch felldith ar eich pen. Gwrandewch arnaf, yr wyf yn attolwg arnoch!"


Ond yr oedd Dagobert wedi tynu ei hun o'i gafaelion fel pe na buasai hi ond plentyn. Ond yn y drws cyfarfu â'r Ynad yn arwain Mary adref, gyda'r heddgeidwad, a'r parcel oedd Mary wedi ei ddwyn allan ar fedr myned i'r *parnshop*.

"Dyma'r Ynad," ebai Dagobert. "Y mae wedi dyfod mewn pryd; ni ddaeth erioed i un man ar adeg ag yr oedd mwy o'i anghen."

(*I'w barhau.*)

## Y CASGLIAD CEINIOG AT DY AC YSTORFA NEWYDD Y FIBL-GYMDEITHAS FRYTANAIDD A THRAMOR.

*Anerchiad at Athrawon ac Aelodau yr Ysgolion Sabbothol.*

 NWYL GYFEILLION,—Goddefwch i ni alw eich sylw at y pethau canlynol:—

1. Mae y Gymdeithas yn awr mewn amgylchiadau neill-duol. Wedi dwyn ymlaen ei gwaith mawr yn 10 *Earl Street, Blackfriars*, er y flwyddyn 1816, y mae yn bresennol dan yr anghenrheidrwydd o rododi i fyny y Tŷ a'r Ystorfa, oblegid fod y cynewidiadau a wneir gan awdurdodau dinas Llundain yn gofyn am y lle fel rhan o heol newydd. Mewn rhan o'r heol newydd hon y bwriedir adeiladu y Tŷ a'r Ystorfa Newydd, mwy helaeth a chyflëus i gyfateb i helaethiad a chynnydd y gwaith. Yn hytrach na chymeryd dim oddiwrth y derbyniadau blynyddol at amcanion cyffredinol y Gymdeithas, bwriedir casglu y swm o *ddeng mil ar hugain o bunnau* at hyn yn benodol. Y mae Swyddogion a Chyfeisteddfod, a phrif Gyfeillion y Gymdeithas yn y brif-ddinas, wedi rhoddi esiampl dda trwy gyfranau eu hunain yn agos i wyth mil o bunnau. Mae y swm a danygrifiwyd eisoes yn cyrhaedd dros dair mil ar ddeg o bunnau.

2. Rhag peri blinder na dyrswch i, Swyddogion a Chasglyddion arferol y Gymdeithas, cymerir yr hyfdra i gyfarch yr Ysgolion Sabbothol mewn modd uniongyrchol, i ofyn eu cynnorthwy a'u cydweithrediad yn y modd mwyaf hawdd a dichonadwy. Byddai yn dda iawn genym i'r Ysgolion gael cyflëusdra i gysylltu eu hunain â'r ysgogiad hwn, oblegid mai anghenrheidiau Ysgolion Sabbothol Cymru a fu yn brif achlysur o sefydliad y Gymdeithas, a diwallu yr anghenrheidiau hyny oedd ei gorchwyl cyntaf. Heblaw hyny, dylid cadw mewn cof fod yr Ysgolion yn derbyn cymwynasau parhâus o'r Gymdeithas. O fewn yr un mlynedd ar hugain diweddfaf, y mae *Ysgolion newydd Cymru a Lloegr* wedi derbyn gwerth tair mil ar ddeg o bunnau o Fiblau a Thestamentau *am ddim*, tra mae gostyngiad y pris i'r holl Ysgolion wedi costio llawn cymaint, o fewn yr un tymmor.

3. Dyma gyflëusdra yn awr, am unwaith, i bob aelod o'r Ysgol Sul ddangos cydymdeimlad â'r Gymdeithas yn ei sefyllfa bresennol, trwy gyfranau UN GEINIÖG at y Tŷ a'r Ystorfa Newydd. Bydded i'r Gweinidog, neu yr Arolygwr, neu un o'r Athrawon, ddarllen yr Anerchiad hwn ar un o'r *Sabbothau cyntaf yn mis Medi neu Hydref*, a rhoddi rhybudd y gwneir y casgliad *Ceiniog y pen* y Sabbath canlynol, os yw yn ddichonadwy; ac yna o fewn un mis dechreuir a gorphenir yr ymdrech. Pan hysbysir i'r plant fod *Ceiniog* yn fwy na digon i dalu am un *fricksen*, pwy o honynt na ddymunai gael rhan yn y gwaith? Y teimlad a'r llais cyffredinol fydd, "Duw y nefoedd, efe a'n llwydda, a ninnau ei weision ef a gyfodwn ac a adeiladwn."

SHAFTESBURY, *Llywydd.*

C. JACKSON, } *Ysgrifenyddion*  
S. B. BERGNE, } *Cyffredinol.*

T. PHILLIPS, *Ysgrifenydd Taleithiol.*

Awst 17eg, 1865.



BETH YW DOLUR?

**B**ETH yw dolur? Pang corfforol,  
A wfreiddia ysbryd dyn;  
Llais o ddyfnder trag'wyddoldeb,  
Yn dyweyd,—parotô dy hun!

Beth yw dolur? Ffrwyth ewylllys  
Duw, yn argyhoeddi 'r byd,  
Fod cadernid ei lywodraeth  
Ef yn para 'r un o hyd.


Beth yw dolur? Gwas i Angeu,  
Leinw 'r fynwes gyda braw;  
Sisial wna yn nghlust yr enaid,  
"Mae fy meistr erch gerllaw."

Beth yw dolur? Cenad rhyfedd,  
Yn rhybuddio ambell un;  
Cyffwrdd mae linytau 'r galon,  
Gwneyd cydwybod yn ddihân.

Beth yw dolur? Rhyw ddaeargryn,  
Ysgwyd bob gwrhydri 'n garn;  
Dwyn i'r meddwl mae yn union  
Goffadwriaeth am y farn!

ALARCH CRAIG Y LLYN.

*Llundain.*



### EFFAITH MADDEUANT.

**D**CHYDIG flynyddoedd yn ol, dygwyd milwr o flaen ei ben swyddog, am gamymddygiad. Pan welodd y swyddog ei enw, dywedodd,

“Dyma enw Jones eto! Beth wnawn iddo? Yr ydym wedi treio pob ffordd gydag ef, ac nid yw ond myned waethwaeth.”

Nesäodd un o'r is-swyddogion ymlaen, a dywedodd, “Esgusodwch fi, syr, am ymyrd; ond yr oeddwn yn dymuno dyweyd fod un ffordd eto heb ei threio.”

“Beth yw y ffordd hono?” gofynai y penswyddog.

“Ni roddwyd erioed faddeuant iddo,” ebai'r llall.

“**MADDEUANT!**” ebai'r swyddog, “ond welwch chwi ei enw i lawr ar y llechres?”

“Ydyw, syr, y mae ei enw i lawr, ond gellwch alw y dyn ger eich bron, a rhoi pardwn iddo.”

Wedi rhoddi ychydig fynyddau o fyfyrddod i'r peth, parodd y swyddog alw y milwr o'i flaen, a gofynodd iddo beth oedd ganddo i'w ddyweyd am y cyhuddiad oedd yn ei erbyn.

“Dim, syr,” oedd yr ateb, “ond fod yn ddrwg iawn genyf am y peth a wnaethum.”

Ar ol ychydig o sylwadau pwrpasol dywedodd y swyddog,  
 “Wel, yr ydym wedi penderfynu maddeu i chwi.”

Tarawyd y milwr â syndod, dechreuodd wylo yn hidl, a chod-  
 odd ei law ar ei wyneb i guddio ei dagrau.

Teimlodd y swyddog a'r lleill oedd gydag ef yn fawr wrth  
 weled cyffro a dagrau y milwr. Diolchodd y milwr i'r swyddog  
 yn gynhes am ei garedigrwydd, ac aeth ymaith.

Bu adroddwr yr hanes yn cadw llygad manwl ar y milwr hwn  
 am ddwy flynedd a hanner ar ol hyn, ac yn ystod yr holl amser ni  
 ddygwyd yr un cyhuddiad o gamymddygiad yn ei erbyn. Gorch-  
 fygwyd ac ennillwyd y dyn gan garedigrwydd y swyddog yn  
 maddeu iddo.

Dyma y ffordd y mae yr Arglwydd yn arfer gymeryd i drechu  
 calonau troseddwr, ac y mae yn barod i'w harfer heddyw.  
 “Gadawed y drygionus ei ffordd, a'r gŵr anwir ei feddyliau, a dy-  
 chweled at yr Arglwydd, ac efe a gymer drugaredd arno; ac at  
 ein Duw ni, o herwydd efe a arbed yn helaeth.”



EFFEITHIOLDEB Y GAIR.

“Efe a wna yr hyn a fynwyf.”

**M**AE 'R Gair fel tân i'm sorod oll i gyd,  
 Fel lamp i'm tywys trwy yr anial fyd;  
 Mae 'n ddrych i wel'd holl frychau drwg y cnawd,  
 Yn aur i gyfoethogi f' enaid tlawd.

Mae fel y mêl, yn felus ymhob man,  
 Yn ddiwyll laeth i feithrin baban gwan;  
 Mae 'n wlaw i'r galon sydd yn sychlyd iawn,—  
 Disgyned arnaf fore a phrydnawn.

Y mae fel rhwyd, yn dala yn ddiri',  
 Fel udgorn aur 'n cyhoeddi Jubili;  
 Fel cleddyf llym yn concreto yma a thraw,—  
 Boed nerth i'w ddal yn wastad yn fy llaw.

CADBEN O'R BORTH.



MERCHED, EU GWAITH A'U DYLANWAD.

LLYTHYRAU AT FY NOSBARTH.—LLYTHYR II.

**F**Y ANWYL FERCHED,—Yr wyf yn cael hamdden i ysgrifenu  
 llinell atoch eto. Y mae yn llawen iawn genyf ddeall fod fy  
 llythyr blaenorol wedi gwneyd argraff mor dda ar eich medd-  
 yliau. Cawn wasgu eilwaith ar eich hystyriaethau fod genych  
 chwi, fel dosbarth o ferched, *waith i'w wneyd*, a gobeithio y cewch  
 un ac oll ysbryd boddlongar wrth ei gyflawni.

Yr wyf wedi bod yn myfyrio ar sefyllfa pcb un o honoch; ac

er eich bod oll yn yr un dosbarth, yr ydych yn amrywiol eich sefyllfäoedd. Mae rhai o honoch yn gwasanaethu mewn teulu-oedd; rhai yn dysgu myned yn *dressmakers*, a *milliners*; a'r lleill adref yn cynnorthwyo eu mamau. Er nad ydych oll "ar eich gwasanaeth," yr ydych oll yn gwasanaethu; a gair ynghylch hyny yn benaf oeddwn am ysgrifenu atoch y tro hwn.

Yr wyf yn clywed achwyn mynych ar forwynion y dyddiau hyn, ac y mae hyny bob amser yn peri blinder i mi. Yr hen stori yw, "Nid yw morwynion yn awr y peth oeddynt gynt; 'does dim morwynion da i'w cael yn awr!" Beth bynag am wirionedd yr achwynion hyn, yr wyf fi yn sicr, os bu morwynion da erioed, y *dylent* fod yn awr. Ni fu erioed gan ferched gymaint o fanteision i fod yn forwynion da. Ni fu erioed gynifer o Ysgolion Sabbothol, dosbarthiadau Biblau, pregethau, a llyfrau o bob math. Ni chymerwyd cymaint o drafferth i ddysgu bechgyn a merched erioed o'r blaen. Ac yr wyf yn sicr y dylai merched fel chwi, wrth droi allan, wneyd morwynion da, a da iawn. Ac y mae rhai da iawn i'w cael, er yr holl achwynion; ac mor wir a hyny, y mae rhai *drwg iawn* i'w cael hefyd.

Mae rhai merched yn ei ystyried yn iselhad arnynt i fyned ar eu gwasanaeth, ac yn dychymygu ei fod yn fwy *respectable* iddynt ddysgu *dressmaking*, neu fyned i weithio i'r weithfa. Ond y mae hyn yn codi yn fynych oddiar gamsyniad a balchder. Yr wyf fi yn adnabod rhai merched wedi ymgymeryd â bywyd eisteddol i wnïo, y maent yn welw, gwanaidd, ac afiach, ac nid yw eu hennill ond prin iawn; ond pe buasant wedi myned ar eu gwasanaeth, buasant yn gryf a hoew, ac wedi dysgu y ffordd i lywodraethu achosion teuluaid yn llawer gwell.

Peidiwch coleddu y meddwl ffol fod dim yn isel mewn gwasanaeth. Yr ydych yn cofio y peth a ddywedodd un dyn da:—Pe buasai yr Arglwydd yn anfon dau o'r angelion penaf, un i lywodraethu teyrnas, a'r llall i ysgubo yr ystryd, y buasai y naill mor foddllawn i'w wasanaeth a'r llall; oblegid buasai yr ysgubwr yn teimlo ei fod yn ufuddhâu ac yn gwasanaethu Duw, fel y llall wrth lywodraethu teyrnas. Gan hyny, fy anwyl ddosbarth, peidiwch byth a chodi eich penau mewn balchder o'r fath, ond cofiwch yr hen ddywediad, "lle mae'r pen yn uchel, mae'r galon yn isel."

Cofied pob un o honoch hefyd dalu y parch dyledus, nid yn unig i'ch rhieni, ond i'ch meistresi. Yr wyf fi fy hunan wedi clywed ambell forwyn yn y gegin yn rhoddi atebiad sarug, ac yn dyweyd geiriau rhy gas i'w hadrodd ar ei hol. Dylech gofio fod baich o bryder gan eich meistres i'w ddwyn nad ydych chwi yn gwybod am dano, a dylai gyffroi eich cydymdeimlad. Na fydded i air nac ymddygiad anweddaidd o'ch heiddo chwi byth ychwanegu blinderau a phryder eich meistres. Mae hanes i feistr unwaith newid ei le am wythnos â'i was grwgnachlyd; ond cyn fod yr wythnos ar ben, yr oedd y gwas yn dymuno am gael ei le yn ôl, ac ni ddywedodd air grwgnachlyd byth wed'yn.

Fe allai y byddwch yn barod i ddyweyd fod y feistres yn fynych yn galed a grwgnachlyd. Wel, a gadael ei bod, gwyddoch fod gair gan yr Apostol Pedr y dylech ei gofio a'i actio, "Byddwch ddarostyngedig, nid yn unig i'r rhai da a chyweithas, ond i'r rhai anghyweithas hefyd." Y gamp yw ymddwyn yn dda mewn lle drwg. Dyna y lle i rinwedd ddangos ei hun, ac i ninnau wasanaethu ein Harglwydd a'n crefydd. Dylech ddysgwyl am beth blinderau, a chofio fod y blinderau hyny yn foddion dysgyblaeth i chwi yn llaw Crist. A bydd cofio eich bod yn gwasanaethu Crist wrth ymddwyn felly yn help mawr i chwi. Ie, gwasanaethu Crist—yr un Arglwydd ag y mae yr archangel penaf yn y nefoedd yn ei wasanaethu; a chofiwch y cewch cyn hir fyned ato i'w ogoniant a'i deyrnas. Fy anwyl gyfeillion, gwneled yr Arglwydd chwi oll yn deilwng o'r fath anrhydedd. Byddwch wych.

Yr eiddoch yn wir,

PRUDENCE LEWIS.



### ANADLWCH TRWY EICH FFROENAU.

**B**AN fyddwch yn myned allan am dro i gael ychydig o awyr iach, neu dipyn o ymarferiad, cofiwch gadw eich genau yn nghau, ac anadlu trwy eich ffroenau.

Cofiwch mai y ffroenau fwriadodd y Crëawdwr i anadlu. Nid yn ngenau dyn, ond yn "ei ffroenau, yr anadlodd anadl einioes."

Ond gwnewch brawf ar "*walk*" trwy yr awyr agored gyda'r genau yn agored, ac un arall â'r genau yn gauedig, cewch brofi y gwahaniaeth yn eich teimlad a'ch nerth.

Dywed dynion o farn fod agos holl ddoluriau y gwddf a'r ys-gyfaint yn cael eu cynnyrchu gan yr arferiad ffol ac annaturiol o anadlu trwy y genau yn lle y ffroenau.

Mae rhai yn chwysu yn flin yn y nos, a'r prif achos o hyny yw yr arferiad niweidiol o gysgu â'r genau yn agored.

Ni ddylai plant un amser gael eu goddef i sefyll, neu gerdded, mwy na chysgu, â'u genau yn agored. Oblegid heblaw ei fod yn anharddu eu hedrychiad yn fawr, y mae yn sicr o gael ei ganlyn gan beswch, anwyd, a gwddf tost.



### GAIR AT Y PLANT.

**B**MAE genyf flys rhoi cynghor i chwi trwy eich TRYSORFA am y waith gyntaf. Yr ydym ni y bobl mewn oedran yma yn esgeuluso gormod ar y plant. Yr oedd yn ddrwg genyf weled fod y Golygydd yn cwyno yn ddiweddar cân lleied o'r pregethwyr oedd yn ysgrifenu i'ch TRYSORFA; ac i aros pregethwyr dd'od allan, fe allai y cymerwch gynghor gan ŵr gwladaidd fel fi sydd bellach ar y ffordd yn myn'd yn hen. (Ni welais i neb eto a addefai ei fod wedi myn'd yn hen.) Y mae rhai

plant bach wedi eu bendithio â rhieni call, doeth, a duwiol, y rhai a'u cyfarwyddant yn llwybrau uniondeb. Dysgant iddynt pa fodd i chwareu, a chyda phwy i chwareu—pa bethau sydd ddrygau a pha bethau sydd yn rhinweddau—pa beth i'w ddysgu—pa beth yw eu dyledswydd at eu rhieni ac atynt eu hunain. Addysgant eu plant pa fodd i ymddwyn at eu huwchradd, at eu hisradd, ac at eu cydradd. Mewn gair, y mae y plant bach flortunus hyny yn cael eu haddysgu yn eu holl ddyledswyddau tuag at Dduw a thuag at ddynion. A rhag fod rhai o ddarllenwyr y DRYSORFA heb y cyfryw rieni, cymeraf fi y cyfle presennol i'ch hanerch.

Yn gyntaf oll, perchwch eich rhieni; gwnewch yn fawr o'ch tad a'ch mam. Cawsant hwy drafferth fawr i'ch magu chwi. Beth a ddaethai o honoch hebddynt? Yr ydwyf fi yn gweled llawer o blant yn diystyru eu rhieni. Wedi i'r bachgen neu yr eneth dyfu i fyny ac ennill ychydig o gyflog, rhaid i'r tad a'r fam eu trin fel trin gwydr, neu torant yn ddarnau. Y nhw gymeryd hyn a chymeryd y llall—na wnânt byth. O! fel y cewch chwi glywed ambell rai yn tafodi eu rhieni; y maent yn ddireswm yn eu dymuniadau. Pan y bydd y rhieni yn pryderu pa le y cânt ychydig arian i brynu dillad, a moddion i foddio blysiâu eu plant, dyna ddywed y plentyn gwrthryfelgar, "Os na chaf fi y pethau sydd yn eisieu arnaf, fe af oddicartref i fyw; wedi hyny caf fy ffordd fy hun, a gwneyd fel y mynaf â'm harian fy hun." O fy mhlant! cofiwch mai fel yna yn gymhwys y cychwynodd miloedd eu gyrfa, a derfynodd mewn cywilydd a gwarth yn y byd yma, ac uffern dragywyddol yn y byd arall.

Y mae y Bibl yn ddigon gwir ar hyn fel ar bob peth arall: "Y neb a felldithio ei dad neu ei fam, ei ganwyll a ddiffoddir yn y tywyllwch da." Y mae y bachgen wedi myned oddiar aelwyd ei dad yn meddwl cael mwy o ryddid. O hunan dwyll! y bachgen sydd yn gadael aelwyd ei dad felly, y mae yn ei werthu ei hun i gaethiwed gwaeth na'r eiddo y Negro. Y mae bod yn gaeth i ddilyn pleserau, blysiâu, a chwantau llygredig, yn un o'r pethau mwyaf ofnadwy. Mae ei bleserau a'i flysiâu fel cadwynau o'i amgylch—pob blys a gyflawnir yn tynhâu y gadwyn—pob gwydryn o ddiod feddwol a yfir yn creu chwant am fwy—pob tro yr â i leoedd anghyfreithlawn, y mae yn gwneyd llw wrth eu gadael y bydd iddo fyned yno drachefn. O'r diwedd, tynhâ y cadwynau nes ei wasgu i afael anghyfeirdd. "O'r diwedd iti ochain wedi i'th gnawd a'th gorff gario; a dywedyd, Pa fodd y caseais i addysg, a pha fodd y dirmygodd fy nghalon gerydd!"

Dyna fel yr oedd hi efo y Muller hwnw a laddodd Mr. Briggs yn y *railway train*. Ei ofid mwyaf ef pan yn myned i farw oedd ddarfod iddo fynd ei ryddid er gwaethaf ei rieni i wneyd fel y mynai. Methu cael ei ryddid (fel y camenwir o gan blant) a barodd iddo adael cartref. Yr oedd cyfraith Moses yn gorchymyn rhoi i farwolaeth y neb a ddiystyrai ei dad neu ei fam, ac nid ydyw y gyfraith hono eto wedi ei diddymu. Cofiwch mai eich ryddid i lywodraethu gartref; ac os ceisiwch chwi fyned â'r

llywodraeth o'i law ef, trwy fynu eich ffordd eich hun, bydd barn Duw yn sicr o'ch goddiweddyd. Yr ydych chi yn cofio hanes Absalom, mab Dafydd. Fe dybiodd Absalom un diwrnod y gallasai llywodraethu yn well na'i dad; ond yn ei ymgais i gymeryd y llywodraeth, fe'i daliwyd gerfydd gwallt ei ben mewn derwen, a chafodd ei frathu gan bicellau Joab nes ei farw. "Dyn ffel a ddiystyra addysg ei dad." Eich rhieni, fy mhlant i, yw y rhai sydd yn caru eich lles fwyaf o bawb. Beth bynag a wnânt, a pha fodd bynag yr ymddygant atoch, gellwch fod yn sicr mai eich lles chi yw yr amcan.

Cofiwch eich rhieni wedi iddynt fyned yn rhy hen i weithio. Cadwasant hwy chi am lawer o flynyddoedd pan oeddych chi yn rhy *wan* i weithio; telwch chwithau eich dyled iddynt trwy eu cadw hwythau pan elont yn rhy *hen* i weithio.

Rhaid gadael ar hyn y tro hwn.

J. DAVIES.

*Broughton.*



PEIDIWCH YMHEL A'R LLESTRI.

PEIDIWCH 'mhel, rhai bychain,  
A'r llestri ar y bwrdd,  
Y coffi-pot a'r te-pot,  
Gochelwch byth eu cwrdd;

Fe dynodd Mary Davies,  
Chwi welwch acw 'i llun,  
Y tepot lawr yn ddrylliau  
Nes ysgaldannu 'i hun.



## FECHGYN, CERWCH EICH BIBL.

“**F**ECHGYN!” ebai dyn dysgedig unwaith, â'r Bibl ar ei liniau, wrth ddau fachgen oedd yn ei ymyl, “Yr wyf, yn ystod bywyd hirfaith, wedi darllen pob math o lyfrau, mewn amrywiol ieithoedd, ond y mae un sydd yn eu gorbwyo i gyd mewn gwerth—hwnw yw y BIBL. Mewn *trallod cysurodd* fi; mewn *gwendid cryfhäodd* fi; mewn *temtaswn attaliodd* fi; i mi, sydd yn *bechadur*, dangosodd *Iachawdwr*; ie, i mi sydd yn *dres-eddwr* euog, dygodd genadwri o *faddeuant a heddwch*. Nid oes un llyfr ond y BIBL all wneyd hyn. Fechgyn, *cerwch eich Bibl!*”

“Darllenwch i mi,” ebai arianydd enwog yn Llundain, pan yn ymyl marw. Gofynwyd iddo, “Pa lyfr ddarllenwn ni?” Ei ateb oedd,—“Nid oes ond un llyfr o werth genyf yn awr, hwnw yw y BIBL.”

“A oes genyf Fibl, oeddech yn ofyn?” ebai gwraig weddw dlawd yn Llundain. “Oes, y mae genyf Fibl, diolch i'r Arglwydd. Beth wnawn heb fy Mibl? Efe oedd arweinydd fy ieuencyd, ac efe yw ffon fy henaint. Clwyfodd, a iachäodd fi; condemniodd, a rhyddhäodd fi. Dangosodd i mi fy mod yn bechadur, ac arweiniodd fi at Iachawdwr. Rhoddodd i mi gysur trwy fy mywyd, ac yr wyf yn ymddiried y rhydd i mi obaith pan yn marw.—*Band of Hope Review*.”

## DYDDANION.

## DRYCH YR AMSEROEDD.

**G**OFYNODD gŵr parchedig yn ddiweddar i efrydydd ieuanc mewn arholiad, gyfieithu i'r Saesoneg y frawddeg gyffredin, “*Drych yr Amseroedd*.” Wedi cryn ddyfalu, y cyfieithiad a'i boddlonodd ydoedd, “*The Spectacle of Time*” (Yspectol Amser). Gwelir fod yr hen “*Ddoctor Time*,” ys dywed Morgan Howell, yn heneiddio, gan y rhaid iddo wrth ei spectol.

## LLAI O DARANAU A MWY O FELLT.

**D**R oedd un pregethwr poblogaidd yn y wlad hon flynyddoedd yn ol, yr hwn oedd ar ddechreuad ei weipidogaeth yn hynod am floeddio a chadw sŵn mawr wrth bregethu. Ond ymhen amser newidiodd ei ddull i ymresymu yn dawel a charedig. Gofynodd un o'i frodyr y rheswm iddo am y cyfnewidiad, atebodd yntau, “Yr oeddwn yn arfer meddwl pan yn ieuanc mai y *darau* oedd yn lladd dynion, ond wedi dyfod yn gallach, deallais mai y *fellten* oleu, ddystaw, oedd yn lladd. Felly penderfynais innau o hyn allan roddi *llai o daranau a mwy o fellt*.”



## TRYSORFA Y PLANT.

RHIF. XLVII.]

TACHWEDD, 1865.

[CYF. IV.

### GWEDDIO DROS ERAILL.

**D**R ydym yn ofni fod y gorchymyn Apostolaidd, "gweddiwch dros eich gilydd," yn cael ei esgeuluso yn fawr. Mae y ddyldedswydd hon yn cael ei mynychu yn y Bibl, mewn esiamplau yn gystal ag mewn gorchymynion. Yr oedd Iesu Grist yn gweddio dros eraill—nid yn y cyfanswm, ond yn bersonol. "Mi a weddiais drosot," meddai wrth Pedr. Dywed Paul hefyd ei fod yntau yn gweddio dros yr holl eglwysi. Tebyg ei fod yn cymeryd yr eglwysi bob yn un i weddio drostynt, a byddai y prif bersonau ymhob eglwys yn dyfod o flaen ei feddwl, fel y gallai weddio drostynt. Ac y mae yn bur debyg ei fod yn gwneyd hyn yn ol siampl yr Arglwydd Iesu.

Un o ddiffygion gweddiau y dyddiau hyn yw eu bod yn rhy gyffredinol, anhnenodol, a dibwynt. Clywsom am un gweinidog oedd yn enwi personau yn ei weddïau cyhoeddus. Y mae yn bosibl myned i eithafoedd ar bob llaw. Ond os bydd dyn yn gweddio yn gyhoeddus, dylai ef ei hun, a dylai y neb fyddo yn ei wrando, wybod am ba beth y mae yn gweddio. Y mae rhai rhieni yn arfer enwi y plant yn yr addoliad teuluaidd, ac y mae hyn yn burion, os bydd ysbryd y gweddiwr yn ddigon difrifol, a'r teulu yn ddigon neillduedig; ond y mae yn bur hawdd cythryblu teimladau wrth fod yn *rhy* gyfeiriol. Beth bynag, dylai pob rhieni fyned âg achos eu plant bob yn un ac un ger bron yr Ar-

glwydd mewn gweddi. Y mae yn anghwedd ymarfer gormod â gweddio dros ein gilydd; a phae drwygiem yn hyn, diau y byddai y ffrwyth yn dororhiog a dymunol.

*Gallai ragflwyn llawer o siarad isel am eraill.* Un o ddrygau yr oes yw chwilio am feiau, a siarad am ddiffygion pobl eraill yn eu cofnau. Ac nis gwyddom am ddim allai wella hyny yn fwy effaithiol na'r arferiad o fyned âg achos y cyfryw dan eu hawau at Dduw mewn gweddi. Byddai yn iechyd mawr i ysbryd y dyn ef hun, a pharai iddo gydymdeimlo mwy â diffygion y rhai y gweddiat drostynt.

*Gellid dysgwyl i weddïau dros eraill fod y mwyaf llwyddiannus.* Mae yn dangos ysbryd mwy rhagorol. Gall fod llawer o hunan-oldeb yn ein gweddïau drosom ein hunain, ond rhaid i weddïau dros eraill darddu oddiar deimlad uwch, a bod yn fwy llwyddiannus gyda'r Arglwydd. Aeth plentyn unwaith at ei fam i geisio afal, ond gwrthodwyd ef. Ymhen hanner awr aeth at ei fam i geisio afal i John bach ei frawd, a chafodd ef. Mae ceisio dros arall yn dangos rhyw ragoroldeb teimlad ag sydd raid iddo fod yn dra chymeradwy ger bron yr Arglwydd.

*Mae yn gyflëusdra rhagorol i wneyd rhywbeth gydag achos Crist.* Y mae Dr. Beecher o America yn adrodd hanes ei ymweliad â; un o'i aelodau yn East Hampton, yr hon oedd wedi bod yn goredd mewn cystudd blin am rai blynyddau. Yr oedd yn cwyno wrth y gweinidog fod ei bywyd yn hollol ddiffwrwyth. "Diffwrwyth?" ebai'r gweinidog; "O, nac ydyw; chwi yw yr aelod mwyaf defnyddiol yn fy eglwys i." "Nid wyf yn eich deall, Mr. Beecher," ebai; "beth ydych yn feddwl?" "Yr wyf yn gwybod," ebai'r gweinidog, "eich bod yn gweddio drosaf fi yr holl amser, ac yr wyf yn credu fod yr Arglwydd yn gwrandao eich gweddïau; ac y mae yn llawer gwell i mi gael dynion i siarad â Duw drosaf, na chael dynion i siarad â mi." "Wel," ebai'r wraig, "yr wyf yn gweddio drosoch bob dydd yn ei ddydd; ac yn wir gallaf ddywedyd ychwaneg—yr wyf yn gweddio drostynt i gyd. Yr wyf yn negyed o ran fy meddwl i un tŷ, ac yn gweddio dros bob un ynddo, ac yn myned i'r tŷ nesaf wedi'n, ac yn gweddio dros hawb yn hawb." Un o'r hen fasiwn bentrefi ydoedd, lle yr oedd pawb yn adnabod eu gilydd. "Yr wyf yn gweddio yr ystryd i lawr un ochr," meddai, "ac yn ei gweddio i fyny yr ochr arall; ac, os ne fyddaf wedi blino gormod, byddaf yn dechre eilwaith, ac yn myned dros yr un tir drachefn." Mae yn bosibl y gall llawer un o'i bath fod eto yn byw bywyd o weddio dirgel, ac nad oes ond dydd y farn a'u dwg i'r goluni, pryd y dadguddir hafyd effaithiau llwyddiannus eu taer weddïau.

Wrth y sawl sydd yn llawn o wendidau a diffygion yn eu bywyd crefyddol, dywedwn eto yn ngeiriau Iago, "*Gweddïau dros eich gilydd, fel y'ch iachier.*" Mae bendith gweddïo dros eraill yn ddyblyg. Pan weddiodd Job dros ei gyfeillion, maddodd yr Arglwydd iddynt, a dychwelodd gaethiwed Job ei hun gyda llaw.

YR YSGOL SABBOTHOL.

(Wedi ei gymeryd o adroddiad blynyddol Ysgolion Sabbathol y Methodistiaid yn Nosbarth Abertawy.)

**NWYL GYFPELLION**,—Wrth gyflwyno yr adroddiad hwn o rifedi a llafur y gwahanol Ysgolion Sabbathol yn y Dosbarth am y flwyddyn 1864 i'ch sylw, y mae yn iawn cofia fod y figyrau ar y wyneb ddalen arall yn dangos fod yr Ysgol Sabbathol yn allu pwysig yn y wlad, yn galw am ddoethineb mawr yn ei llywodraethiad, ac ymdrechion dyfal a diffino o'i phlaid.

Yr Ysgol Sabbathol yw un o brif sefydliadau ein gwlad a'n cenedl. Nid oes un parth o'r byd ag y mae wedi cael hinsawdd mor gydnaws i fyw a thyfu ag eiddo Cymru; ac y mae llawer o nodweddion yn perthyn iddi yn ngwlad ei genediggaeth, sydd yn ychwanegu at ei phwysigrwydd, nad ydynt i'w cael ymysg ein cymydogion yn y gwledydd cylchynol.

Nid oes anghen cofia gwasanaeth yr Ysgol i'r weinidogaeth, ac i'r eglwys. Disgynai yr had a heuir o bulpudau Cymra i dir tra gwahanol, oni bae llafur athrawon yr Ysgolion Sabbathol. Hwyt-hwy sydd yn digaregu y tir, yn ei chwynu a'i fraenaru i'w dderbyn. Yr Ysgol yw coleg mawr yr eglwys, i hyfforddi ei haelodau ieuainc yn egwyddorion pwysig eu crefydd. Dyma fagwrfa gweinidogion a chenadau Crist ymhob gwlad. Dywedir fod pedwar ar bymtheg o bob ugain o'r cenadau sydd yn myned allan i'r gwledydd paganaidd wedi eu magu yn yr Ysgol Sabbathol; a bod llawn ddwy ran o dair, ac ychwaneg, o'r holl weinidogion sydd dan ddeugain oed, yn blant iddi hi. Dengys hyn fod yr Eglwys a'r Ysgol yn perthyn yn agos i'w gilydd, ac y dylai y berthynas hon gael ei theimlo a'i meithrin fwyfwy.

Fe allai nad anfuddiol, ynglŷn â'r adroddiad yma, fyddai awgrymu ychydig o bethau allent fod o fantais i'r Ysgolion yn y Dosbarth hwn.

1. Edrych bob amser am wasanaeth y dynion cymhwysaf i arolygu yr Ysgol. Dylid rhoi ar ddeall i'r Ysgolion nad oes raid, ac nad yw gymhwys, *newid* yr arolygwr bob blwyddyn. Prin yw y dynion sydd yn medda cymhwysder i arolygu Ysgol. Y mae yn iawn rhoddi cyfluedra i'r athrawon i ddewis eu harolygwr bob blwyddyn, ond pan geir o hyd i'r dyn cymhwysaf, cadwed yr Ysgol wasanaeth hwnw i'w llywyddu.

2. Na laeser dwylaw gyda myned o gwmpas y tai a chonglau y ffyrdd i gymhell plant ac ieuencyd i'r Ysgol. Mae "Ymfynwyr" cymhwys a ffyddlawn bob amser o wasanaeth mawr.

3. Hyd ag y byddo yn gyflëus, dysger y plant ar wahân oddi-wrth y dosbarthiadau darllen. Heblaw fod eu cadw ynghyd yn fwy anfanteisiol i'r plant a'r dysgawdwyr, y mae hefyd eu presennoldeb a'u swm yn aflonyddu y dosbarthiadau.

4. Cofier mai llafur yr athrawon ydyw y prif foddion i wneyd yr Ysgol yn lle o ddyddordeb i'w deillaid. Pan fyddo yr athraw

yn llafurus ac ymroddgar, caiff ffyddlondeb mawr yn ei ddosbarth. A chofied yr athrawon mai eu prif waith yw *hyfforddi* y rhai sydd dan eu gofal, a hyny trwy *arholi* yn fwy na thrwy *draethu*; a bod cymeriad uchel a *difrifol* yn gymhwysder anheggorol mewn athraw yn yr Ysgol Sabbothol.

5. Ymdrecher i gadw yr Ysgol Sabbothol yn lân oddiwrth ymarfer â diodydd meddwol. Mae y ffaith fod yr arferiad llygredig yma yn rhwystr mor fawr ar ffordd ein llwyddiant, ac yn anafu cymaint ar ein pobl ieuainc, yn galw yn uchel ar yr athrawon, a phawb sydd yn caru llwyddiant yr Ysgol, ac yn caru eneidiau eu deiliaid, i osod eu hwynebau yn gryf yn ei erbyn.

6. Ymdrinier yn fynychach âg achos yr Ysgol Sabbothol yn y cyfarfod eglwysig, er annog pawb i ddyfod iddi, annog yr athrawon i lafur ac amynedd, a'u hannog i weddio mwy dros achubiaeth y neb sydd dan eu gofal.

Mae yr awgrymiadau yma yn cael eu rhoddi yn yr ysbryd mwyaf caredig, a gobeithio y derbynir hwy felly, ac y rhydd yr Arglwydd ei fendith ar yr Ysgolion, ac ar eu llafur.—Yr eiddoch yn wir,

T. L.

Treforis, Ebrill 28, 1865.



## FFARWEL, GANTORION

(*A awgrymwyd mewn cyfarfod canu.*)



CENWCH, gôr anwylgu,  
Bob un mewn hedd a hoen,  
Eich cân yn llon âg ysgafn fron  
Heb arnoch fraw na phoen:

A mi 'r fan hon wrandawaf  
Ar lais dd'wed dan fy mron,  
Y cenwch chwi ar ol i mi  
Ymado â'r ddaear hon.

Ffarwel, ffarwel, gyfeillion,  
Yn iach b'och calon chwi,  
Unigrwydd prudd y fynwent fydd  
Fy oer gartrefle i:  
Edrychwch ar y fangre  
Fan acw dan yr Yw,  
Lle nad oes cân gan fawr na mân—  
Bro dawel angeu yw.

A oes o'ch plith a gerais,  
Wrth gofio am danaf rydd  
Ochenaid, wir fynegiant clir,  
O fod ei fron yn brudd?  
Ai ynte gyda 'r awel  
Fach gyntaf drosto chwyth

Y gŷr ar ffô yn llwyr o'i gô',  
Bob adgo' am danaf byth?

Rho'i bleser imi feddwl  
Y deuai dim ond un,  
O'ch plith sy 'n awr mor deg eich gwawr,  
Mor lwys a hardd eich llun;  
Pan dd'ai ar hynt trwy 'r fynwent,  
I rodio 'nawn y dydd,  
At làn fy medd yn drist ei wedd,  
A deigryn ar ei rudd.

Os de'wch, cewch gwmni anian,  
Bydd yno 'n wyllo 'n ddwys,  
Am roddi un o'i meib ei hun  
A'i ben o dan y gwys:  
Hi wlych fy medd â'i dagrau  
Cyn tori 'r wawr bob dydd;  
Y gwynt rydd gerdd, a'r ywen werdd  
A chwery alaw 'n brudd.

O cenwch, gôr anwylgu,  
A minnau 'hedaf fry,  
I'r byd uwch ben—i'r nefoedd wên—  
I 'muno â'r dedwydd lu;  
A minnau a gâf yno  
Gyduno âg engyl glân,  
I foli 'r Oen, heb ing na phoen  
I attal mwy fy nghân.

A. C. L.

### CHWILIWCH YR YSGRYTHYRAU.

“**CHWILIWCH** yr Ysgrythyrau,” meddai Crist; ac y mae mwy yn y cyngor hwn nag y mae nemawr yn feddwl.

Dywedai Syr William Jones, ysgolaig penaf ei oes, fod y Bibl yn cynnwys moesoldeb mwy pur, hanesiaeth mwy pwysig, hyawdledd mwy godidog, nag unrhyw lyfrau eraill a ysgrifenydd mewn unrhyw iaith.

Gair Duw oedd agos unig destun efrydiaeth John Locke, yr athronydd, yn ei amser diweddfaf. A phan ofynwyd iddo pa un oedd y ffordd oreu i ddyn ieuanc gyrhaedd gwybodaeth o'r grefydd Gristionogol, ei ateb oedd, “Myfyrio yr Ysgrythyrau sanctaidd, yn enwedig y Testament Newydd. Oblegid mae gan y llyfr hwn Dduw yn awdwr, iachawdwriaeth yn amcan, a gwirionedd pur heb unrhyw gyfeiliornad yn fater.”

Pan oedd yr enwog Salmasius yn ymyl marw, dywedai, “Pe gwelai yr Arglwydd yn dda roddi un flwyddyn yn ychwaneg i mi, treuliwn hi oll i ddarllen Salmau Dafydd ac epistolau Paul.”

*O ysgrif* GELERT.



### DIOLCH I'R ARGLWYDD AM Y DDOL.

**D**YNIR ni yn fynych gan y difyrwch y mae merched bychain yn gael i drin a magu darn o bren neu gŵyr dan yr enw dŏl. Daeth geneth fechan â chryn hanner dwsin o honynt i'w dangos i ni yn ddiweddar, ac yr oedd ganddi enwau ar bob un o honynt, a'r hagraf o honynt oedd yn garu fwyaf. Pan oedd yn myned am wythnos o gartref gyda'i mam, ei gofal mwyaf oedd, pwy ofalai am y doliau, ac a'u rhoddai i gysgu bob nos yn yr amser priodol. Ac ar ei dychweliad, ni fu yr un fam erioed yn fwy awyddus am weled ei phlant nag oedd Mary fach am weled y *dolls*.

Yr oedd merch fach arall yn ddiweddar wedi cael dŏl yn anrheg gan fodryb iddi. Yr oedd yn falch iawn o honi; ac wedi ei magu a'i lwlian i gysgu, gosododd hi i orwedd ar y gadair, a gosododd ei breichiau bychain ynghyd, ac aeth ar ei gliniau uwch ei phen, a dywedodd yn uchel, "Diolch i'r Arglwydd am y dŏl yma!" Er mai ei modryb oedd wedi prynu y dŏl, a'i hanfon iddi hi, eto teimlai Jane fach mai yr Arglwydd oedd wedi gosod yn ei chalon i wneyd hyny. Byddai yn dda i ddynion mewn oed, yn gystal a phlant, gofio nad yw ein difyrion lleiaf islaw sylw yr Arglwydd.

Mae miloedd o ddynion yn treulio eu holl fywyd i wneuthur a gwerthu *dolls* i blant; ac nis gall y byd fyned ymlaen hebddynt. Mae dŏl yn un o ddifyrion anheborol plentyn, ac yn un o'i brif bleserau. Gorchwyl mwyaf dedwydd y plentyn benywaidd yw ghanhâu ei dŏl, ei haddurno, ei gwisgo, ei dadwisgo, ei gwisgo

eilwaith, ei dysgu, ei cheryddu, a'i lwlian i gysgu. Tra yn clebran â'i ddòl, gwnio ffroc fach a ffedog iddi, daw y plentyn yn llances, a'r llances yn dynes. Nid yw y plentyn cyntaf, fel y dywedodd un, ond parhâd o'r ddòl ddiweddaf. Dywed un awdwr enwog fod merch heb ddòl agos mor anhapus, ac mor anhosibl i fod yn gysurus, â gwraig heb blant.

YN NES, YN NES.

(Return, O Wand'rer, to thy home.)

GAN J. CEIRIOG HUGHES.

“DOWCH, blant bychain, staf fi,”  
 I'r deyrnas uchod sydd;  
 At fynwes Iesu caffed ni  
 Yn myn'd o ddydd i ddydd, yn nês, yn nês.

Aed mebyd Sion ar eu taith,  
 I geisio porth y nef:  
 Yn bellach bellach o'r byd hwn,  
 Ond at ei fynwes Ef, yn nês, yn nês.

Yn nês bob dydd mewn gweddi daer,  
 Yn nês mewn mawl a chân;  
 Nesâwn at Dduw â chalon bur,  
 Ac fe ddaw 'r Wynfa lân, yn nês, yn nês.

CATECISM DIRWESTOL.

(I'r Band of Hope.)

PENNOD II.—ESIAMPLAU YSGRYTHYROL O LWYRYMWRTHODWYR.

**OF.** A oedd rhai o enwogion y Bibl yn llwrymwrthodwyr â diodydd meddwol?

**Ateb.** Oedd, amryw; a dangosai yr Arglwydd ei foddlonrwydd ar hyny.

**G.** Pwy oedd y dirwestwyr cyntaf y mae genym hanes am danynt?

**A.** Yr ydym yn sicr fod holl genedl Israel yn ddirwestwyr am y deugain mlynedd y buont yn yr anialwch.

**G.** Ai nid am nas gallent gael diodydd cynhyrfus yr oeddent felly?

**A.** Nage; oblegid gallasai yr Arglwydd beri i win lifeirio iddynt o'r graig yn gystal a dwfr, neu yn gystal a gwlawio manna iddynt o'r nefoedd.

**G.** A oes tystiolaeth bendant nad yfasant ddim ond dwfr yn yr anialwch?



A. Oes; "Gwin, neu ddiod gref, nid yfasoch, fel y gwybyddech mai myfi yw yr Arglwydd eich Duw chwi;" Deut. xxix. 6.

G. Pwy oedd y dirwestwr cyntaf dros ei fywyd y gwyddoch am dano?

A. Samson, y cryfaf o ddynion.

G. A oedd ei waith yn llwrymwrthod yn unol âg ewyllys yr Arglwydd?

A. Oedd; oblegid prophwydodd gan yr angel y byddai felly, a rhybuddiodd ei fam cyn ei eni i ymgadw yn hollol oddiwrth win a diod gadarn; Barn. xiii. 7.

G. Pwy oedd Samuel?

A. Mab Hannah, ac un o farnwyr enwocaf Israel.

G. A oedd ef yn ddirwestwr?

A. Oedd, o groth ei fam. Addunedodd ei fam i'r Arglwydd cyn ei eni y codai ef yn Nazaread i Dduw, sef yn llwrymwrthodwr; 1 Sam. i. 11.

G. A ellwch nodi ychwaneg o siamplau Ysgrhythrol?

A. Yr oedd Daniel a'r tri llanc yn ddirwestwyr, a daliasant at eu hegwyddorion dan y temtasiynau mwyaf; Dan. i.

G. A oes sicrwydd fod rhai o enwogion y Testament Newydd yn ddirwestwyr?

A. Oes; yr oedd y mwyaf o blant gwragedd yn ddirwestwr perffaith, sef Ioan Fedyddiwr; Luc i. 15.

G. A raghysbyswyd y byddai yn ddirwestwr?

A. Do, gan angel: "Nid yf win na diod gadarn."

G. Beth hysbysodd yr angel fuasai ynglŷn â'i lwrymwrthodiad ef?

A. Y byddai yn fawr yn ngolwg yr Arglwydd, ac y llenwid ef o'r Ysbryd Glân.

G. Beth oedd y Nazareaid?

A. Dynion wedi ymneillduo i wasanaeth yr Arglwydd, y rhai a ymwrthodent yn hollol â phob diodydd cynhyrfus; Num. vi. 3.

G. Paham yr oedd ymwrthod â'r diodydd hyn yn ammod ea Nazareaid?

A. Am y gallent trwy hyny fod yn fwy cymhwys i astudio y gyfraith, cyflawni gwasanaeth crefyddol, a rhoddi esiampl dda i eraill.

G. Pwy oedd y Rechabaid?

A. Llwyth cyfan o ddirwestwyr pur, a dynion enwog am eu hufudd-dod a'u duwioldeb; Jer. xxxv. 6.

G. A ddangosodd yr Arglwydd arwydd neillduol o'i gymeradwyaeth o'r bobl hyn?

A. Do; "Am hyny, fel hyn y dywed Arglwydd y lluoedd, Duw Israel, Ni phalla i Jonadab mab Rechab wr i sefyll ger fy mron i yn dragywydd;" Jer. xxxv. 19.

G. A oes a fyno yr esiamplau hyn â ni?

A. Y maent yn dangos fod llwrymwrthod â diodydd meddwol yn beth cymeradwy gan yr Arglwydd, a bod yr holl esiamplau hyn wedi eu cadw yn y Bibl er addysg i ni.

DECHREU CERDDED.

**R**OEDD Gwynedd bach er 's llawer dydd  
 Yn dangos awydd symud;  
 A chropian wnai & llaw a glin,  
 Nes d'wyno 'i hun yn enbyd.

Nis gwyddai Gwynedd yn ei fyw—  
 'R oedd hyny 'n hawdd i'w weled—  
 Pa un ai 'r traed ai 'r dwylaw roed  
 I un o'i oed at gerdded.

Fe welai 'i dad heb fraw na brys,  
 Yn hwylus gerdded heibio;  
 Ond ofnai Gwynedd dreio 'i draed,  
 Gwell oedd cael *traed a dwylo*.

Un diwrnod mentrodd rod-di cam  
 O law ei fam i'r gader;  
 Fe dreiodd wedi 'n rod-di dau,  
 Ond pallu wnai ei feder.

Ond ni ro'i fyny er ei ffael—  
 Fe fynai ef gael cerdded;  
 Mae erbyn heddyw 'n gerddwr mawr,  
 Gall groesi 'r llawr heb ludded.

Ni cherddwch chwithau, blant sydd fawr,  
 Un cam 'r hyd lawr hynodedd,  
 Heb feddu 'r ysbryd "*try again*,"  
 A lanwai 'r bachgen Gwynedd.

JOHN.

LLYFRAU NEWYDDION.

[GWIRIONEDD A CHYFELLIORNAD, neu Lythyrâu at gyfaill ar rai o brif bynciau dadleugar y dydd, gan y Parch. H. BONAR, D.D., Golygydd y "Christian Treasury." Cyfieithiedig i'r Gymraeg, ac ar werth, gan T. WILLIAMS (Hafrenydd), Llanidloes. Pris 3s. 6c.]

**M**AE y dyn duwiol a galluog hwn yn cymeryd i fyny brif bynciau y Grefydd Gristionogol yn y gyfrol uchod, ac yn eu trin gyda medr ac eglurder ag y gall y darllenydd cyffredin ei ddilyn yn hawdd. Gwyddom fod llawer o Gristionogion yr oes hon yn wahanol eu barn i Dr. Bonar ar Etholedigaeth, Rhyddid yr ewyllys, Iawn Crist, Gwaith yr Ysbryd Glân, &c., ond hon yw "yr hen fordd dda;" a charem yn fawr weled darlleniad cyffredinol ar y gyfrol hon gan ieuentyd yr oes. Ceir yma, nid yn unig eglurhâd ar y pynciau pwysig eu hunain, ond hefyd ar y gwahaniaeth rhwng golygiadau Calфинаidd ac Arminaidd arnynt. Mae y gyfrol wedi ei gosod i fyny yn bur daclus, ond nid yw yr argraffwaith na'r orgraff yn ganmoladwy.

[TRAETHAWD AR BWYSIGRWYDD CYFRIFOLDEB DYN, gan ROBERT THOMAS, *Gardd Eden, Gaerwen, Mbn; ynghyd a Rhagdraith gan y Parch. R. HUGHES, Gaerwen. Caernarfon: J. Rees. Pris 6c.*]

**G**ELLIR dyweyd yn ddibetrus, ag ystyried mai "gweithiwr cyffredin" yw yr awdwr, fod y traethawd hwn yn glod i'w ben a'i galon. Rhoddir golwg gryno, fedrus, ar gyfrifoldeb dyn, a hyny mewn ysbryd gwylaidd a difrifol. Darllenir ef gan ieuentyd meddylgar gyda blas a buddioldeb.

[Y DELYN AUB, *sef Caneuon Crefyddol a Moesol at wasanaeth yr Ysgolion Sabbothol, Cyfarfodydd Llênnyddol, &c., priodol i'w canu ar yr Alawon Cymreig, ynghyd a'r Gerddoriaeth yn nodiant y Tonic Sol-Fa, gan RHUDDENFAB. Llanfyllin: L. Jones.*]

**B**MDDENGYS fod yr awdwr, fel y byddwn ninnau yn fynych, yn cyfansoddi y pennillion hyn, nid cymaint dan gyffrôd yr awen, ag oddiar anghen at wasanaeth yr Ysgolion, &c. Mae hyn yn ddiau yn waith mwy rhinweddol, er na fydd y cyfansoddiadau mor boblogaidd. Mae y llyfryn bach wedi cael wynebpryd tlws iawn. Mae *wyneb* "aur" gan y "Delyn" hon, beth bynag.

[BLODAU Y BALMWYDDEN WEDI EU HAGOR; *neu Fysfyrdodau ar Fywyd, Cymeriad, a Marwolaeth T. Glynne Jones, Mostyn, gan JOHN PARRY, Llanasa. Treffynnon: P. M. Evans. Pris 3c.*]

**B**LAENOR gyda'r Methodistiaid yn Sir Fflint, dybygem, oedd Mr. T. G. Jones, a threuliodd oes hirfaith o lafur diflino gydag achos ei Arglwydd. Math o Farwnad, mewn pedair cân, ar ei goffadwriaeth, yw y llyfryn hwn, a hyny gan un fedr ganu. Nis gwyddom ychwaneg am yr awdwr na'r hyn a welir uchod; ond yr ydym yn synu fod bardd mor dda â'i enw mor ddyeithr. Mae ganddo rai pennillion tlysiyn a gwir farddonol. Gan fod rhagdraith ynglŷn â'r llyfr, buasai yn dda cael ynddo ychydig o brif ffeithiau hanes Mr. Jones.

### BETH YW Y BIBL?

**B**R wyf yn defnyddio yr Ysgrhythrau, meddai Boyle, nid fel tŵr arfau yn unig, i fyned am arf pan fyddo anghen arnaf, ond fel teml anghymharol, lle yr wyf yn ymhyfrydu mewn myfyrio ar ei phrydferthwch, ei chymesuredd, ac ardderchogrwydd yr adeilad; er cynnyddu fy ofn, a chyffnoi fy addoliad, i'r Duwddod a bregethir ac a addolir ynddi.

Prin, meddai Payson, y gallwn roddi ein llygaid ar un adnod o'r llyfr rhyfeddol hwn, nad yw wedi fforddio cysur ac addyg i filoedd, ac wedi tynnu dagrau o edifeirwch neu lawenydd o lygaid na wylant byth mwy. Ac meddai Pollock,—

“Y Bibl hwn, lamp oleu yw  
 Oddiar orsedd y tragwyddol Dduw;  
 Ar ddunos amser, pan heb wawr,  
 Trugaredd dygodd hi i lawr;  
 Safedd uwch ben y t'w'llwch du,  
 Mewn graslawn wedd cyfarchodd ni;  
 Hyd heddyw deil hi yn ei llaw,  
 Gan ymbil arnom yn ddi-daw,  
 Mewn dagrau ac och'neidiau briw,  
 'Darllenwch—credwch—a byddwch fyw.' ”



DIAREBION I. 10.

OS PECHADURIAID A'TH DDEMNANT, NA  
 OHYTTUNA.

## TON.—Y PLENTYN UFUDD.

Doh A.

|                         |                            |                                                  |                                  |
|-------------------------|----------------------------|--------------------------------------------------|----------------------------------|
| $\frac{m . r}{Yn}$      | $d : l_1 \mid l_1 : d$     | $s_1 . f_1 : m_1 . f_1 \mid s_1 : s_1$           | $s_1 : d \mid r : d . r$         |
|                         | blentyn uf-udd             | bydd—af o hyd, I'r                               | cwrdd a'r ysgol yr               |
| $\frac{s_1 . f_1}{d_1}$ | $m_1 : f_1 \mid f_1 : f_1$ | $\frac{m_1 . r_1 : d_1 . r_1}{d} \mid m_1 : m_1$ | $m_1 : m_1 \mid s_1 : l_1 . t_1$ |
|                         | $d_1 : d_1 \mid f_1 : f_1$ | $d : d_1 . d_1 \mid d_1 : d$                     | $s_1 : s_1 \mid s_1 : s_1 . s_1$ |

|                            |                            |                                                    |
|----------------------------|----------------------------|----------------------------------------------------|
| $m : s \mid s : m . r$     | $d : l_1 \mid l_1 : d$     | $s_1 . f_1 : m_1 . f_1 \mid s_1 : s_1$             |
| af mewn pryd, I            | ddysg—u dar—llen           | geir—iau fy Nuw, A                                 |
| $d : m \mid m : s_1 . f_1$ | $m_1 : f_1 \mid f_1 : f_1$ | $\frac{m_1 . r_1 : d_1 . r_1}{s_1} \mid m_1 : m_1$ |
| $d : d \mid d : d_1 . r_1$ | $m_1 : r_1 \mid f_1 : l_1$ | $s_1 : d_1 . d_1 \mid d_1 : d_1$                   |

|                                  |                            |                            |
|----------------------------------|----------------------------|----------------------------|
| $s_1 : d \mid r : d . r$         | $m : s \mid s : m . r$     | $d : l_1 \mid l_1 : d$     |
| dysg—u'r ffordd i fyn'd          | ato i fyw. O               | de'wch, O de'wch, ar       |
| $m_1 : m_1 \mid s_1 : l_1 . t_1$ | $d : m \mid m : s_1 . f_1$ | $m_1 : f_1 \mid f_1 : f_1$ |
| $d_1 : d_1 \mid s_1 : s_1 . s_1$ | $d : d \mid d \quad s_1$   | $d_1 : d_1 \mid f_1 : f_1$ |

|                                        |                            |                    |
|----------------------------------------|----------------------------|--------------------|
| $s_1 . f_1 : m_1 . f_1 \mid s_1 : s_1$ | $s_1 : d \mid r : s$       | $m : d \mid d$     |
| le—su rhown ein bryd, I'r              | cwrdd a'r ys—gol           | de'wch i gyd.      |
| $m_1 . r_1 : d_1 . r_1 \mid m_1 : m_1$ | $m_1 : m_1 \mid s_1 : t_1$ | $d : s_1 \mid m_1$ |
| $d_1 . d_1 : d_1 . d_1 \mid d_1 : d_1$ | $d_1 : d_1 \mid s_1 : s_1$ | $d_1 : d_1 \mid d$ |

**D**N blentyn ufudd byddaf o hyd,  
 I'r Cwrdd a'r Ysgol yr af mewn pryd,  
 I ddysgu darllen geiriau fy Nuw,  
 A dysgu 'r ffordd i fyn'd ato i fyw.  
 O de'wch! O de'wch! ar Iesu rhown ein bryd,  
 I'r Cwrdd a'r Ysgol de'wch i gyd.

Caiff Crist fy serch tra 'n fyw ac iach,  
 A help gwastadol fy nwyllaw bach;  
 Fy nhraed gaiff rodio yn ei lwybrau ef,  
 Tra yma 'n byw ac yn nheyrnas nef.  
 O de'wch! O dew'ch! &c.

Oh! I'll be a good child as ever I can be,  
 I'll mind what my teacher says to me,  
 I'll read my Bible and keep the rule,  
 And early come to the Sabbath School.  
 Oh yes, Oh yes, I love my teacher still;  
 I'll be a good child, indeed I will.

When wicked children tempt me to play,  
I'll ask my Saviour to send them away;  
And if they want me to do any wrong,  
I'll go to the Lord with my little song.  
Oh yes, Oh yes, &c.



## GWEDDIAU Y BIBL.

VIII. *Gweddî Moses ar gychwyniad yr arch.*—Num. x. 35, 36.

YFOD, Arglwydd, a gwasgarer dy elynion, a fföed dy gaseion  
o'th flaen.

*A phan orphwysai, y dywedai,*

Dychwel, Arglwydd, at fyrddiwn miloedd Israel.

IX. *Gweddî Moses dros Miriam.*—Num. xii. 13.

O DDUW, attolwg, meddyginiaetha hi yr awr hon.

X. *Gweddî Moses am faddeuant i Israel o herwydd eu tuchan.*—  
Num. xiv. 17—19.


YR awr hon, gan hyny, mawrhäer, attolwg, nerth yr Arglwydd, fel y lleferaist, gan ddywedyd, Yr Arglwydd sydd hwyrirydig i ddig, ac aml o drugaredd, yn maddeu anwiredd a chamwedd, a chan gyfiawnhâu ni chyfiawnhâ efe yr euog; ymweled y mae âg anwiredd y tadau ar y plant, hyd y drydedd a'r bedwaredd genedlaeth. Maddeu, attolwg, anwiredd y bobl yma, yn ol dy fawr drugaredd, ac megys y maddeuaist i'r bobl hyn, o'r Aipht hyd yma.

XI. *Gweddî Moses am apwyntiad olynydd iddo.*—Num.  
xxvii. 16, 17.

GOSODED yr Arglwydd, Duw ysbrydion pob cnawd, un ar y gynnulleidfa, yr hwn a elo allan o'u blaen hwynt, ac a ddelo i mewn o'u blaen hwynt, a'r hwn a'u dygo hwynt allan, ac a'u dygo hwynt i mewn; fel na byddo cynulleidfa yr'Arglwydd fel defaid ni byddo bugail arnynt.

XII. *Gweddî Moses am gael myned i Ganaan.*—Deut. iii. 24, 25.

O ARGLWYDD DDUW, tydi a ddechreuaist ddangos i'th was dy fawredd, a'th law gadarn; oblegid pa Dduw sydd yn y nefoedd, neu ar y ddaear, yr hwn a weithreda yn ol dy weithredoedd a'th nerthoedd di? Gad i mi fyned drosodd, attolwg, a gweled y wlad dda sydd dros yr Iorddonen, a'r mynydd da hwnw, a Libanus.



### Y PRYF COPYN.

“Y pryf copyn a ymafaela Łi ddwylaw, ac y mae yn llys y brenin.”  
—DIAR. xxx. 28.

**D**YMA un o'r pedwar peth bychan sydd ar y ddaear ag sydd yn ddoeth iawn. Mae y bobl ddysgedig sydd wedi astudio y creadur bychan hwn, yn dyweyd fod yn perthyn iddo lawer o ryfeddodau nad ydym ni erioed wedi sylwi arnynt, na meddwl am danynt.

Dywedant fod pob rhaff o'i eiddo yn cael ei gwneyd i fyny o bedair mil o geinciau gwahanol. Y mae yn perthyn iddo bedwar

o offer nyddu, a phob un o'r offer hyny yn gollwng allan fil o raffau bychain, a phob mil yn ymblethu yn un rhaff; ac y mae y pedair rhaff yma eilwaith yn ymblethu â'u gilydd i gyfansoddi yr un sydd yn ymddangos i ni, fel y mae hon yn cael ei gwneyd i fyny o bedair mil o llynau gwahanol.

Y mae rhai o'r crëaduriaid hyn mor fychain, fel nad yw pedair miliwn o'u rhaffau ddim yn fwy o drwch nag un o wallt ein pen.

Gwnaeth un dyn er ys blynyddoedd yn ol bâr o hosanau o wë y pryf copyn, ac yr oeddynt yn 'sanau rhagorol o dda,—mor gryf ac mor barhâns a phe buäsent o sidan. Y mae ymgais wedi ei wneyd at iagu y pryf copyn fel pryfyn y sidan, er mwyn defnyddio ei wëoedd; ond y mae hyny yn anhhosibl, am fod y crëaduriaid yn bwyta eu gilydd. Maent mor eilynol i'w gilydd fel na fynant gydfyw.

Mae edafedd y pryfyn sidan yn llawer cryfach a dysgleiriach nag edafedd y pryf copyn. Deil un edafedd y pryf sidan gymaint o bwysau a phump o edafedd y pryf copyn. Ac fe wna un pryfyn sidan gymaint o edafedd a deuddeg pryf copyn.

Rhyfedd yw doethineb y Crëawdwr, onidê? pan y mae wedi dyegu crëadur direswna mor fychan i fod y nyddwr cywreiniaf yn y byd.



DAN GYMYLAU.



MAE ryw gymylau tewion trwch  
Yn peri i'm dristwch dybryd,  
Nes methu gwel'd y ffordd yn glir  
Odd'yma i dir y bywyd.

O! Haul Cyfiawnder, dysglaer, cu,  
Gwne ymlwyrchu arnaf;  
Gad imi wel'd dy hyfryd wedd  
Cyn yn y bedd yr hunaf.

Pan draidd i'r galon belydr gwyn,  
Mae bywyd yn cydredeg;  
O chaf fi brofi 'r fawrfraint hyn,  
Ni chwynaf yn ychwaneg.

Cryfhâ fy ffydd bob dydd, a dwg  
I'm golwg, modd y gwelwyf  
O bell yr addawedig fro,  
Lwyr odiaeth, o'r lle 'r ydwyf.

Try hyn fy nos yn oleu dydd,  
A chawn yn rhydd fawrygu  
Anfeidrol ras fy Nuw, fy nerth,  
A choron gwerth ei charu.

IGAN FRONYDD.



## ROSE A BLANCHE;

*Neu Gynllwynion y Jesuitiaid.*

## PENNOD XI.—DARGANFYDDIAD.

**D**AETH yr ynad i mewn i dŷ Dagobert gyda Mary fach, ar ol ei thrallod annysgwyladwy. “Yma y mae Mrs. Boudoin yn byw?” ebai'r ynad.

“Ië, syr,” ebai'r wraig. “O fy anwyl ferch!” ebai, gan droi at Mary, a thafu ei breichiau am ei gwddf, a dyweyd, “maddeuwch i mi; o'n hachos ni eto yr ydych wedi dyoddef yr holl flinder hwn.”

Ar ol y cyfarchiadau mwyaſ serchog, trodd Mary at yr ynad, a dywedodd, “Chwi welwch, syr, nad wyf wedi lladrata.”

“Fy mhethau i yw y cwbl sydd yn y parsel yma, syr,” ebai Mrs. Boudoin; “dygodd hwynt ymaith drosof fi, er gwneyd gwasanaeth pwysig mewn awr o gyfyngder.”

Trodd yr ynad at yr heddeidwad, a dywedodd yn sarug, “Syr, yr ydych wedi gwneuthur yr hyn na ddylasech; cyhoeddaf chwi, fel eich cosber. Ewch.” Yna trodd at Mary, a dywedodd, “Yr wyf yn teimlo yn flin iawn drosoch.”

“Yr wyf yn gwybod hyny, syr,” ebai Mary, “ac yr wyf yn dra diolchgar i chwi.”

Yr oedd yr ynad ar gymeryd ei genad i fyned allan, pan ddywedodd Dagobert wrtho, ar ol ychydig fynyddau o fyfyrdd;—

“Y mae genyf beth i'w osod ger eich bron, os gwnewch wrando arnaf.”

“Dywedwch ef, syr,” ebai'r ynad.

“Y mae y peth yn bur bwysig, syr,” ebai Dagobert, “ac yr wyf yn ei wneyd o'ch blaen chwi fel ynad, er mwyn i'r gyfraith gael ei ffordd.”

“Fel ynad yr wyf yn gwrando arnoch.”

“Deuddydd yn ol y daethum i Paris, o Rwssia, a dygais gyda mi ddwy ferch ieuanc, y rhai a roddwyd yn fy ngofal gan eu mam, boneddiges y Maeslywydd Simon. Yr oeddwn wedi myned allan o'r tŷ ddoe ar neges bwysig, ac aeth y ddwy yn eisien, ac yr wyf yn sicr y gwn pwy a'u dygodd ymaith.”

“O Dagobert!” ebai'r wraig mewn dŷchryn.

“Mae yr achos yn un gwir bwysig,” ebai'r ynad,—“dwyn personau ymaith felly, ac, mae yn bosibl, trwy drais; ond a ydych yn sicr am yr hwn a'u dygodd?”

“Yr oedd y merched yma, syr, ys awr yn ol, a dygwyd hwynt ymaith yn fy absennoldeb.”

“Ië, ond a ydych yn sicr pwy a'u dygodd ymaith? Rhaid i chwi gofio mai o flaen ynad yr ydych yn siarad, ac y mae yn rhaid i mi roddi yr achos yn llaw cyfiawnder; ac os nad oes genych sail i'ch cyhuddiadau, gallai y peth ddisgyn yn drwm ar eich pen chwi eich hun. Yr wyf am roddi y gocheliad hwn i chwi mewn prydd.”

"O fy anwyl ŵr," ebai'r wraig, "peidiwch, O peidiwch! a dyweyd yr un gair yn ychwaneg."

"Er mwyn i chwi roddi y peth yn llaw cyfiawnder, syr, yr wyf yn ei ddyweyd," ebai Dagobert yn gyffrous. "Yr wyf o'ch blaen chwi, syr, yn cyhuddo cyffesydd fy ngwraig o fod yn awdwr, neu yn gynnorthwywr, yn yr achos o ddygiad y boneddigesau ymaith."

Am fynyd, yr oedd pawb yn fud mewn synfyfyrdod. Yn y man dywedodd yr ynad, "Dylech fod yn ddwbl ofalus, syr, wrth ddwyn cyhuddiad yn erbyn yr offeiriad."

"Wel, syr," ebai Dagobert, "dylai dyn o fy oed i fod yn meddu ar synwyr cyffredin; dyma y ffeithiau. Mae fy ngwraig i yn un o'r benywod goreu yn Paris. Os gofynwch, fe ddywed pawb hyny. Ond y mae yn gwbl wrth ewyllys ei chyffesydd, ac heb weled dim ys ugain mlynedd ond trwy lygaid hwnw. Mae yn fy ngharu i, ac yn addoli ei mab; ond y mae yngosod ei chyffesydd o'n blaen ni ein dau. Gollyngodd y merched allan o'r tŷ o fewn yr awr hon, ac ni ddywed, pe lladdwn hi, pa fodd neu gyda phwy yr aethant."

"A yw hyn yn wir, madam?" gofynai yr ynad.

Yr oedd y wraig yn wylo yn hidl, ac yn cael ei chynnal gan Mary.

"Nid yw teg na garw, bygythion nac erfyniau, yn tycio dim, syr," ebai Dagobert. "Yr unig beth ddaw o'i genau yw, 'Nis gallaf ddyweyd dim.'"

"Yr ydych yn clywed beth mae eich gŵr yn ddywedyd, madam?"

"Ydwyf, syr."

"Beth sydd genych i'w ddyweyd ar hyn?"

"Dim, syr."

"Ai gwir i'ch gŵr adael y merched dan eich gofal chwi pan aeth allan?"

"Ie, syr."

"Ai gwir eu bod wedi myned ymaith pan ddychwelodd?"

"Ie, syr."

"Ai gwir yw eich bod yn gwrthod rhoddi uurhyw gyfrif i'ch gŵr yn eu cylch?"

"Ie, syr."

"A yw yn bosibl eich bod yn gwrthod peth mor rhesymol i'ch gŵr, er pob erfyniau a bygythion? Y mae hyn bron yn anghredadwy."

"Y mae'n wir, syr," ebai'r wraig.

"Madam, rhaid i mi ofyn i chwi, fel ynad, Beth ddaeth o'r merched?"

"Nis gallaf ddyweyd dim am danynt, syr; gwrthodais ddyweyd wrth fy anwyl ŵr, ac yn sicr ni ddywedaf wrth neb arall."

"Wel, syr, oni welwch fy mod i yn fy lle?" ebai Dagobert; "ac yr wyf yn berffaith sicr mai yr offeiriad sydd wrth wraidd hyn oll."

"Yr wyf yn rhwym o ddyweyd y gwir wrthyh yn eglur,

madam," ebai'r ynad. "Os ydych yn gwrthod fy hysbysu beth ddaeth o'r merched a roddwyd dan eich gofal, rhaid i mi eich cymeryd chi, a chwi yn unig, i fyny ar y cyhuddiad o'u dwyn ymaith."

"Myfi!" ebai'r wraig mewn dychryn.

"Fy ngwraig i?" ebai Dagobert—"na wnewch byth. Y cyffesydd, ac nid hi, wyf yn gyhuddo."

"Yr ydych chi yn awr wedi rhoddi eich hachos i mi. Rhaid i'r gyfraith bellach gael ei ffordd, a rhaid i mi gymeryd eich gwraig o flaen y Cyfreithiwr Cyffredinol. Yn awr, peidiwch cyffroi na gwrthwynebu, oblegid ni bydd o un pwrpas i chi."

"Yn wir, yn wir, syr, nid hi wyf yn gyhuddo, ond yr offeiriad."

"Gadewch iddo, Dagobert, ebai'r wraig; "yr wyf fi yn foddolawn dyoddef y cwbl, a byddwn wrth fy modd pe gallwn ddwyn eich baich chi oll arnaf fy hun. Ond nis gallaf ddyweyd mwy yn y carchar nag wyf wedi ddyweyd yma."

"Y mae yn ddrwg iawn genyf, syr," ebai'r Ynad, "orfod gwneyd hyn, yn enwedig yn awr tra yr ydych chi yn y fath flinder, a thra mae eich mab eisoes wedi ei roddi yn y carchar —"

"Beth!" ebai Dagobert, mewn gwylltineb. "Beth mae yn ddyweyd i—fy mab i—"

"Beth, ai ni wyddech am dano? O, y mae yn ddrwg genyf i mi ei goffa—maddeuwch i mi."

"Fy mab! wedi ei ddal! yn y carchar! fy mab!"

"Ie, dim ond am drosedd gwladol, peth pur ddibwys," ebai'r ynad.

"O! fy nhrallod," ocheneidiai Dagobert; "mae hyn yn ormod! Mae y cwbl yn dyfod ar unwaith." Gyda hyn syrthiodd ar y gadair, a chuddiodd ei wyneb â'i ddwyllaw.

Dygwyd y wraig ymaith, ond gwrthododd Dagobert fyned yn dyst yn erbyn ei wraig. Yr oedd yn awr yn gorwedd ar draws y bwrdd ac yn ocheneidio,—*"Ddoe,"* meddai, "yr oedd genyf wraig, mab, a'r ddwy ferch, ond heddyw dyma fi heb neb—dim ond fy hunan!"

\* \* \* \* \*

Yr oedd yn perthyn i Fynachd<sup>†</sup> St. Mary amryw sefydliadau er gwasanaethu amcanion y Jesuitiaid. Heblaw y sefydliad mynachaid, a'r gwallgoff<sup>†</sup>, yr oedd yno sefydliad addysg cyn-northwyol, neu fath o "*Charity School*," lle y derbynid merched tlodion i'w haddysgu, a lle y cymhwysid morwynion i wahanol deuluoedd, y rhai a wasanaethent yn offerynau pwysig i'r Jesuitiaid twyllodrus.

Yr oedd teulu Dagobert mewn profedigaethau chwerau, a Mary y wniadyddes wedi myned allan o waith. Wrth chwilio am orchwyl, cyfarwyddwyd hi i alw yn ysgol y mynachd<sup>†</sup>, aza y byddent yn cyflogi gwniadyddesau yn fynyoh yno.

Arweiniwyd hi yno gan ddynes gareddig gyfarwydd a'r lle. Ond gan fod y pen-fynaches yn brysur ar y pryd, trowyd Mary i ystafell o'r neilldu i aros ei thro i fyned o flaen penaethes y lle.

Yr oedd y Dywysoges Dagrín i mewn gyda'r benaethes, enw priodol yr hon oedd Mrs. Perpet, dynes o olwg synwrygall, tua deugain mlwydd oed.

"Beth yw hynt merched y Maeslywydd Simon?" gofynai y Dywysoges.

"Y maent o hyd ar wahân," ebai'r Fam Perpet, "ond y maent wedi teimlo mor ddwys o'r herwydd, fel y gorfu i mi anfon am y meddyg atynt; ac y maent ill dwy yn cwyno yn union yr un fath."

"Yn awr, sanctaidd fam," ebai'r Dywysoges, "y mae yfory yn ddydd mawr i ni oll, a fy neges i wrth alw heddyw ydyw eich rhybuddio i fod ar eich gwyladwriaeth. Yr wyf wedi clywed fod yr hen filwr, Dagobert, wedi dychwelyd eto i Paris, a phe deallai pa le mae y ddwy eneth, ni phrisiai dori i mewn yma trwy drais, a'u dwyn ymaith. Y mae ef yn ddyn peryglus."

"Gellwch fod yn dawel ar y pen yma, anwyl Dywysoges, y mae genyf y wyladwriaeth fanylaf ar bob peth."

"A yw fy nith, Miss Cordoville, wedi dyfod yn weddol dawel erbyn hyn?" gofynai y Dywysoges.

"Ydyw, yn dawel," ebai'r feistres, "ond ei bod yn brudd a thawedog; nid yw am siarad dim."

"Ond eu cadw oll yn ddiogel am 24 awr, bydd y perygl drosodd," meddai y Dywysoges. "Felly, erfyniaf arnoch eto, fam sanctaidd, byddwch wyladwrus."

Tra yr oedd hyn yn myned ymlaen yn y parlwr, yr oedd Mary Fach wedi darganfod golygfa gyffrous trwy ffenestr yr ystafell y tröwyd hi i mewn iddi. Gwelai foneddiges ieuanc hynod o brydferth, mewn cwrt bychan yn y cefn, yn edrych trwy reiliau heiyrn, ac yn gwneyd arwyddion ar rywun o'r tu arall. Tybiodd yn y fan, wrth y disgrifiad oedd wedi ei gael yn flaenorol, mai Miss Cordoville ydoedd. Ac yn y man, er ei syndod dirfawr, gwelai, Rose Simon yn dynesu ati o'r tu arall i'r reiliau haiarn. Siaradent yn gyflym â'u gilydd, ac edrychent fel mewn dychryn rhag i neb eu canfod. Llanwyd Mary â braw wrth y darganfyddiad hwn, ac ni wyddai beth i'w wneyd—pa un ai aros i weled meistres y lle, ai rhedeg allan.

Derbyniwyd Mary gan y fam-fynacheg gyda charedigrwydd mawr. Dywedodd fod ganddi le yn barod iddi, ac y cawsai am ei gwasanaeth ddau swllt y dydd. Yr oedd Mary yn llawen a diolchgar dros ben. Ond pan ddywedwyd fod yn rhaid iddi gario pob newyddion o'r teulu i'r mynachdŷ, a hyny yn ddirgel, syrthiodd wynebpryd y wniadyddes dlawd, a dywedodd,—

"Er fod arnaf eisieu gwaith yn fawr, ac nas gwn pa le i droi am damaid, a'm bod yn falch dros ben i glywed am le mor ennillfawr; eto byddaf farw o newyn cyn y gallaf fradychu unrhyw deulu fyddo yn garedig i mi. Felly, er mor dda, rhaid i mi wrthod eich telerau, madam."

Gwelodd Mrs. Perpet nad oedd gobaith gallu gwneyd offeryn cymhwys o Mary, felly agorodd y drws, a dywedodd wrthi am

fyned yn ei blaen ar hyd y *passage*, a throi i'r grisiau ar ei deheu-law, ac y cawsai yno un i'w gollwng allan.

Gan fod drws yr ystafell y bu yn aros ynddi eto yn agored, beiddiodd droi i mewn iddi eto, i edrych a welai Miss Cordoville. Yr oedd yno o hyd, yn pwysu yn erbyn y bâuau heiyrn, a thybïai ei bod yn gweled llwybr bychan yn arwain ati, o waelod y tŷ yr oedd hi ynddo.

"Byddai yn well genyf na hanner Paris," meddai Mary wrthi ei hun, "pe gallwn fyned hyd ati, i gael sicrwydd mai Miss Cordoville ydyw. Fe allai y gallwn wneyd rhyw wasanaeth iddi hefyd."

Aeth yn y blaen ar hyd y *passage*, a disgynodd dros y grisiau i gegin äang. Nid oedd neb yno. Gwelai ddrws yn arwain allan i'r cefn, at gyfeiriad y lle y canfu y foneddiges. Mentrodd fyned trwyddo, gan barotoi esgus, os byddai raid, na wyddai y ffordd allan, a daeth i ymyl y caud haiarn y tu arall gyferbyn â'r foneddiges.

"Ai chwi yw Miss Cordoville?" gofynai yn wylaidd ac ofnus.

"Ië," ebai Miss Cordoville, gan neidio ar ei thraed, a gofyn mewn syndod, "Pwy ydych chwi, a beth ydych yn geisio?"

"Esguswch fi, ma'm, yr wyf yn galw gyda chwi dros Agricola"

"Beth, Agricola Boudoin? Pwy ydych chwi, ynte?"

"Ei chwaer fabwysiedig, gwniadyddes dlawd, sydd yn byw yn yr un tŷ ag ef."

"O, mi wn," ebai'r foneddiges; "onid ar eich cais chwi y galwodd ef gyda mi? Ond beth ar y ddaear ddaeth â chwi yma?"

Adroddodd Mary yr holl hanes wrthi, a'r modd y gwelodd hi trwy y ffenestr, ac yr anturiodd wneyd ei ffordd ati.

"Yr wyf yn synu sut y daethoch yma, a pha fodd y daeth y syniad i'ch meddwl am danaf fi, ac am ddyfod i siarad â mi. Yr ydych wedi clywed fy mod wedi fy nghau yma, ar y cyhuddiad twyllodrus fy mod yn wallgof. A welwch chwi arwydd gwallgofrwydd arnaf?"

"Na welaf yn wir, madam," meddai Mary.

"Y mae merched y Cadfridog Simon hefyd, fy mherthynasau, wedi cau arnynt yma yr un fath, a hyny i wasanaethu amcanion melldigedig o eiddo ein gelynyon. Ond nid oes dim amser i siarad yn awr. Y mae eich anturiaeth chwi yn un beryglus, ond gobeithio ei bod o werth mawr i mi. A wnewch chwi un peth a geisïaf genych?"

"Gwnaf yn wir, madam, bob peth sydd yn fy ngallu."

"Ewch â'r fodrwy hon, ynte, a rhoddwch chwi i Iarll Montbron, No 7, Vendome Place—a gofiwch chwi y lle?"

"Gwnaf yn wir, nid oes raid i chwi bryderu," ebai Mary.

"Wel ewch, eneth anwyl," ebai Miss Cordoville, "rhag i ni gael ein gweled," a chusanodd law Mary, rhwng y bâuau.

Ymhen tri mynyd yr oedd Mary wedi myned allan o'r tŷ, a thrwy y porth; a'r cyntaf a welodd ar yr ystryd oedd Killjoy; ar ei ol, gwelai Dagobert yn cerdded yn frysiog i'w chyfarfod. Yr

un foment clywai drwst dyn yn rhedeg ati o gyfeiriad arall; a chyn iddi droi ei phen i edrych, clywai lais yn gwaeddi,—“Fy anwyl Mary!” Agricola, mab Dagobert ydoedd.

(*I w barhau.*)

DOSBARTH Y BIBLAU.

**M**ATTHEW XXVII.—1. Bore pa ddydd cedd hwn (adn. 1) yr ymgynullodd y Cynghor?

2. Pa awdurdod oedd Pontius Pilat yn ddal yn y wlad hono?

3. Pa brophwydoliaeth a gyflawnwyd (adn. 9) yn mhryniad y maes yn gladdfa dyeithriaid?

4. Beth gymhellodd Pilat i gondemnio yr Iesu, er tystiolaethu nad oedd yn cael dim bai ynddo?

5. Gŵr o ba le a chenedl a gynnorthwyodd yr Iesu i ddwyn ei groes?

6. Paham y gelwid y lle y croeshoeliwyd Crist yn Golgotha neu Calfaria?

7. Pa sawl gwaith y cynnygiwyd peth i yfed i'r Iesu wrth ei groeshoelio, a phaham y gwrthodai yfed unwaith, ac yr yfai dro arall?

8. Pa sawl gwaith y llefarodd yr Iesu ar y groes, a pha beth a ddywedodd bob tro?

9. Pa bryd y bywhawyd y meirw (adn. 52, 53); pan fu Crist farw, neu pan adgyfododd?

10. Ai y bore canlynol a feddylir wrth drannoeth (adn. 62)? ac os felly, onid allasai y dysgyblion fod wedi lladrata y corff cyn gosod y wyliadwriaeth?

**PENNOD XXVIII.**—1. Pa amser y daeth y gwragedd at y bedd? Dywedir yn niwedd y Sabbath—yn fore iawn—a bod yr haul wedi codi.

2. Oni ddywed un efengylwr fod dau angel, a'u bod yn *sefyll* un wrth ben, ac un wrth draed y bedd? Sut y cysonwch hyn â'r ail adnod?

3. Pa sawl gwaith yr ymddangosodd Crist ar ol adgyfodi, ac i bwy?

4. A ddywedodd Crist erioed “fy mrawd,” neu “fy mrodyr,” yn bersonol wrth neb?

5. Nodwch allan nifer tystion, a chadernid y dystiolaeth am adgyfodiad Crist, yn y bennod hon.

6. Beth yw sail y comisiwn a rydd Crist i fyned i'r holl fyd i wneyd dysgyblion a bedyddio?

7. Beth a feddylir wrth fedyddio yn *enw* y Tri Pherson, ac a arferwyd y fath eiriau erioed o'r blaen wrth fedyddio?

8. Ymha ystyr y mae Crist gyda'i bobl bob amser?



## HEN GLOC Y BWTHYN.

(O'r Oenig.)

! yr hen gloc cu, o holl gelfi 'r tŷ,  
 Oedd y gwychaf un a'r tlysaf;  
 A'i hen fysedd claer, a chyffyrddiad o aur,  
 Ac â'i gloch rhoddai 'r dôn felusaf:  
 A chyf'rwyddwr fu in', er o eiriau 'n brin,  
 Buont fyw er i oesau newid;  
 Gwnai lais rhybudd cryf i bob oed yn hyf,  
 Pan llais cyfeillgarwch ddystewid.  
 Tic, tic, medd-ai, i'r gwely yn glau,  
 Rhybuddiais ddeg fy ngoreu;  
 'N awr codwch—ewch, neu gwybod gweh  
 Nas gellwch byth godi yn foreu!

Rhyw lais llawn swyn oedd yr hen gloc mwyn,  
 Fel y safai 'n y gongl yn gwenu,  
 A bendithio 'r pryd â'i dôn fwyn o hyd,  
 Nes oriau 'r gauaf wnai ddenu:  
 Ond hen lais croes oedd 'r un alwai 'n ddifoes,  
 Ar doriad y dydd mor ëon,  
 Tra 'n llwyd oedd y wawr dros y niwlog lawr,  
 Ac y chwythai 'r oer awelon.  
 Tic, tic, medd-ai, o'r gwely yn glau,  
 Rhybuddiais bump fy ngoreu;

Dim iechyd fwynheweh—dim golud a gewch,  
Oni fydd i chwi godi yn foreu !

Bob awr o hyd, nid a'i dôn yn fud,  
Troi 'n ei gyleh un pryd ni phallwyd :  
Tra mae'r dagrau 'n llu am wych ddyddiau fu,  
A chyfeillion dros byth a gollwyd !  
Ei galon a gur, er myn'd o rai 'n wir,  
A garai 'n fwy cryf a thwymugar ;  
Ei fysedd a dry, er i ddwyllaw eu  
Fyn'd o'n gafael mwy ar y ddaear.  
Tic, tic, medd-ai, i'r gwely o glai,  
Rhybuddiodd y bedd ei oreu ;  
'N ol hyn codwch chwi, a'ch golwg fo fry,  
A phar'towch erbyn nefol foreu.



HARRIETT FACH.

**ANWYD** Harriett fach mewn plwyf gwledig yn Ngheredigion, ac yno y treuliodd ei hoeddi o un mlynedd ar ddeg. Yr oedd yn blentyn hynod o hardd. Meddai ar wallt gwineu goleu ; ar dalcen mawr, uchel ; ac ar lygaid gleision, mawriou, rymnegol. Ond ei rhagoriaeth oedd ei meddwl craff a threiddgar. Er nad oedd ond plentyn mewn oedran, eto yr oedd yn wraig mewn pwyll a synwyr. Yr oedd llinellau ei chymeriad yn anghyffredin



o amlwg. Soniai pawb yn y gymydogoeth am dani fel un hynod am ei synwyr, ei geirwiredd, ei mwyneidd-dra, a'r cariad cynhes a fynwesai at bawb a phobpeth. Yr oedd yn hoff iawn o ddarllen, yn enwedig llyfrau crefyddol. Yr oedd wedi trysori ugeiniau lawer o hymnau, a channoedd o adnodau yn ei chof; ac yn hyn yr oedd yn esiampl ddysglaer i ieuenctyd ei chymydogoeth. Gallir dyweyd ei bod wedi ei neillduo i'r Arglwydd o'r groth.

Fe allai mai y llwybr goreu i ddwyn Harriett fach ger bron ein darllenwyr ieuainc fyddai cofnodi rhai o'i dywediadau yn ystod y misoedd olaf y bu fyw. Cof genyf glywed ei mam yn dyweyd ei bod wedi myned â hi i newid awyr, ychydig wythnosau cyn ei marwolaeth. Yn yr ystafell wely yr oedd yn crogi ar y pared ddarlun o Iesu Grist yn cael ei groeshoelio. Syllai gryn lawer arno; ond yr oedd yn methu canfod yn eglur rywbeth oedd wrth droed y groes. Gofynnodd i'w mam beth ydoedd. Dywedodd hithau wrthi mai darlun o ryw wraig ydoedd, mam yr Iesu, fel y tybiai. "O ie," meddai, "yr oedd Mair yno, canys dywedodd Iesu Grist wrth Ioan am ofalu am dani." "Yr oedd yn galed iawn," meddai ei mam, "ar y fam i edrych ar ei Mab yn cael ei groeshoelio, heb allu gwneyd dim erddo, on'd oedd hi?" "Oedd," meddai Harriett fach; "*ond y mae yn llawenydd mawr iddi heddyr ei weled Ef ar yr orseddfainc, serch hyny*"—ateb yn union yn ysbryd y geiriau hyny o eiddo yr apostol Paul, "Yr wyf yn cyfrif nad yw dyoddefiadau yr amser presennol hwn yn haeddu eu cyffelybu i'r gogoniant a ddadguddir i ni."

Yn mis Mai diweddaf, darllenodd ganig fechan yn NHBYSORFA Y PLANT,—“Cân Willie Bach,” yr hon a effeithiodd yn hynod arni. Pan ddaeth at y ddwy linell olaf o'r gân hono,

“O paid a d'weyd i Willie bach  
Fod bron lladrata afal,”

torodd i wylo a dywedodd, “Mam, buais innau ‘bron lladrata afal’ y llynedd. Yr oeddech chwi wedi d'weyd wrthyf am beidio tynu 'falau: thynais i yr un, oblegid allwn i byth dd'weyd wrthyf chwi na wnes i, a finnau wedi gwneyd; *ond mi fwytais i sawl un oddiar y goeden*.” Yr oedd y fach yn barnu ei bod yn cadw y gyfraith deuluaidd ond iddi yn unig beidio tynu yr afalau, ac felly bwytaodd hwynt, a gadawodd y calonau ar ol ar y goeden.

Ddechreu mis Mawrth diweddaf, cymerodd cyfnewidiad er gwaeth le arni. Dechreuodd besychu yn enbyd, a pharhâodd y peswch mawr arni yn ddibaid nos a dydd hyd ei marwolaeth. Yn ystod y ddeufis diweddaf o'i hoes, ar ol iddi fyned yn rhy wan i ddarllen llawer ei hunan, yr oedd yn hynod awyddus am glywed darllen y Bibl neu Hymnau. Oddeutu dechreu mis Mehefin aeth ei mam i'w hystafell wely a gofynnodd, “A leiciat 'merch fach i, i fi ddarllen rhywbeth iddi?” “Leiciwn,” meddai. “Beth ga' i ddarllen?” “O, hanes Iesu Grist.” “Pwy ran o hono?” “Oddeutu yr amser y ca's E'i groeshoelio,” meddai. A dyma y gyfran o'r gair Dwyfol a garai ei glywed bron bob amser.

Yr oedd un peth yn gwasgu yn fawr ar ei meddwl ar ol iddi fyned yn wan iawn—ofn na fyddai ei gweddi yn gymeradwy [canys 'doedd Harriett fach *byth* yn anghofio gweddio hwyr a bore yn wastadol], os na fyddai iddi fyned ar ei gliniau i weddio, a hithau yn ffaelu. "Mam," meddai ryw dro, "rwy'n ffaelu myn'd ar fy ngliniau 'nawr i dd'weyd fy mhader, y mae yn codi peswch arna' i yn union; a wnaiff Iesu Grist wrando arna' i os bydd i fi ei d'weyd hi ar fy eistedd neu ar fy ngorwedd yn y gwely?" Ac yr oedd yn gysur ac yn esmwythder mawr i feddwl y fechan i gael sicrwydd y gwnai; ac weithiau, ymhen amser maith ar ol myned i'r gwely, byddai yn dyweyd rhywbeth yn ddystaw, a phan ofynai ei mam iddi "A ydyw 'merch fach i yn d'weyd rhywbeth—a oes eisieu rhywbeth arni?" "Na," dywedai, "'nawr o'wn i yn dybenu d'weyd fy mhader."

Un o anwyliaid ffyddlonaf TRYSORFA Y PLANT er dydd ei hym-ddangosiad cyntaf oedd Harriett; ac y mae yn llawen genym fod plant mor rhinweddol a hi yn hoffi cynaint ar y DRYSORFA fach.



Yr oedd yn hoff iawn o flodau, a chanddi ddarn o'r ardd yn "ardd fach" iddi ei hun. Yr oedd yn ofalus iawn o'r ardd fach, ac yn ei chadw bob amser yn llawn o flodau. Yr oedd pren afalau wedi ei sicrhâu wrth y mur, a'r ceinciau ar un ochr yn ymestyn uwch ben gardd fach Harriett.

Un diwrnod gofynodd i'w mam a gaffai hi yr afalau ddelai ar y cangau oedd uwch ben ei gardd fach. Caniatâodd y fam. Blod-euodd y pren drosto oll; ond er mawr syndod, ni ddaeth un afal ond ar y ceinciau uwch ben yr ardd fach; yr oedd y rhei'ny oll' yn pyngio. Gwyliai Harriett hwynt gyda'r dyddordeb a'r pryder mwyaf. Nis gwyddom beth a fwriadai wneyd o honynt.

Ond byd rhyfedd iawn yw hwn o hyd. Cyn fod yr afalau wedi addfedu digon i Harriett fach i'w tynu, yr oedd Harriett ei hun wedi llwyr addfedu i'r nefoedd, a thynwyd yr aurafal addfed, a dygwyd ef gan yr angelion i fynwes yr Iesu, ar Sabboth y 25ain o Fehefn diweddf. Erbyn heddyw, pan ydym yn ysgrifenu y llinell hon, y mae hi yn nghanol paradwys Duw, a'i hafalau braf, uwch ben ei "gardd fach," yn gwbl addfed, ac yn cael eu gwerth-fawrogi gan ei theulu galarus uwchlaw desgriafad. Ac y maent yn ceisio edrych trwy y tarth a'r niwl sy'n tõi y glÿn, i'r ochr draw, ac yn barod weithiau i gyfaddef, er y carent ei chadw,

Mai gwell oedd myn'd â'r wisg yn lân  
I'r dawel nefoedd, gwlad y gân;  
Nid oes o'i mewn na phoen na chri  
Ond pyncio anthem Calfari.

PETHAU BYCHAIN YN MYNED YN FAWR.

 S ydyw mân ddefnyddau o wlaw wrth dd'od i lawr,  
Yn gwneyd i'r ffrydiau bychain bâs ymchwyddo a myn'd yn fawr:  
 Os lleinw ffrydiau bychain y llynau tros eu glân—  
Os ydyw pridd a thywod mân yn gwneyd mynyddau ban—

Ac os yw byr eiliadau wrth dreiglo ar eu taith  
Yn gwneyd pob mis a blwyddyn gron, ac hefyd oesoedd maith :  
Gan hyny mae pechodau, er lleied fyddant hwy,  
Yn myn'd yn fawr, ac hefyd maent yn arwain i rai mwy.

Ac os na cheir maddeuant yn haeddiant gwaed yr Oen,  
Arweiniant i rhyw ddiwedd du, sef i dragwyddol boen :  
Gwareder ni gan hyny oddiwrth bechodau mân,  
Fel byddom oll ar hyd ein hoes yn meddu calon lân ;  
O Arglwydd, rho dy gariad yn llon'd ein c'lonau ni,  
Fel bo'm yn cilio oddiwrth bob drwg, ac yn dy ofni Di ;  
A dyro nerth dy Yspryd, i'n cadw yn ddi-lyth,  
I rodio 'th ffyrdd heb bechu mwy, a byw yn sanctaidd byth.

W. WILLIAMS (*Ab Einion*).



### Y LLYFRGELL YN EIRIADUR.

**D**ID oes nemawr i ddyn hoff o lyfrau nad yw wedi cael y  
geiriau hyn yn ei wyneb lawer gwaith, "Pa eisieu ychwaneg  
o lyfrau sydd arnoch—darllenwch gymaint sydd genych."  
Dywedir hyn weithiau gan y wraig, gan y tad, neu y fam, neu  
berthynasau eraill; a gorchwyl digon anhawdd weithiau fydd  
goleuo y cyfryw ar y pwnc. Fe allai y bydd yr ymddyddan  
canlynol yn dipyn o help i'r gwancus am lyfrau newydd i ddadleu  
ei achos, neu i amddiffyn ei hun.

Dygwyd yr anghenrheidrwydd am ychwanegu nifer y llyfrau  
mewn llyfrgell léol unwaith o flaen y pwyllgor. Mynai un gŵr  
dysgedig gael nifer mawr o lyfrau ychwanegol, ond yr oedd yno  
fasnachwr yn dadleu yn gryf yn erbyn hyny.

"Mae arnom eisieu ychwaneg o lyfrau," meddai y gŵr dysgedig.

"Ychwaneg o lyfrau!" meddai y masnachwr; "a ydych wedi  
darllen yr holl lyfrau sydd genych yma yn barod drwyddynt?"

"Nac ydwyf; na byth yn meddwl gwneyd hyny," ebai y  
dysgedig.

"Paham ynte y ceisiwch ychwaneg?"

"Attolwg, syr, a ydych chwi wedi darllen eich *Dictionary*  
drwyddo?"

"Nac ydwyf, yn enw dyn," ebai'r masnachwr.

"Wel," ebai'r llall, "fy *nictionary* i yw y llyfrgell."



### Y TELEGRAPH

**T**RYDAN mal gwyllt dân pan felltana—rhêd  
Trwy 'r gwiŵr ar ei ynfa;  
Hynt gymer hwnt ac yma,  
I eisiau dyn yn was da.

IOAN BRONYDD.

CYNGHOR MELANCTHON I'W FAM.

**P**AN oedd Melancthon ar ei daith i Gymanfa Spires yn 1529, aeth gryn bellâer oddiar ei ffordd i dalu ymweliad â'i fam. "Carwn gael cynghor genych, fy machgen," ebai'r fam; "beth wyf i gredu pan y mae cymaint o ddadleuon crefyddol yn ffynnu yn y wlad?" Yna adroddodd iddo ei gweddïau, y rhai oeddent yn hollol rydd oddiwrth bob ofergoeledd. "Deliwch chwi ymlaen, fy mam," ebai Melancthon, "i gredu a gweddïo fel arfer, a pheidiwch a blino eich hunan byth ynghylch pynciau dadleugar."

Y CWESTIYNAU GWOBRRWYEDIG.

21. **B**ETH yw y ddau beth y mae yr holl fyd yn eu ceisio, ond y dywed Solomon mewn un adnod eu bod yn profi yn ddinystr i'r dyn drwg?
22. Pa fuddugoliaeth bwysig ennillodd Israel, aeth yn alar i'r braniau a'r holl bobl?

MAWREDD DYN.

**D**ID yw dyn ond corsen egwan,  
Y gorsen waelaf braidd yn fyw;  
Ond er gwaeled—dyma 'i mawredd—  
Corsen sydd yn *meddrol* yw:

Ni raid i'r bydysawd ehang  
Ymarfogi er ei ladd!  
Na, rhyw delpyn bach o honi  
A'i dyfetha ac a'i cladd.

Ond pe deuai 'r holl fydysawd,  
Yn yr oll ag ydyw 'mlaen—  
Yn ei maint a'i phwys aruthrol  
A'i ddyfetha 'n chwilfriw mân,—  
Mil mwy gogoneddus wed'yn  
Fyddai 'r gorsen hanner byw,  
Na 'r mawreddog beth a'i lladdai—  
Corsen sydd yn *meddrol* yw.

Pan yn marw dan ei phwysau  
*Gwyddai* ef fod hyny 'n bod;  
Pan, am y bydysawd anferth,  
Ni fu 'n *gwybod* dim erioed.  
Gan dy fod yn meddu meddwl—  
Peri mor ddrud—ddarllenydd, clyw,—  
*Na ddyweder byth am danat*  
*Yn dy feddwl nid yw Duw.*

## GOCHELWCH FEDDWDOD.

|                                  |                                  |
|----------------------------------|----------------------------------|
| <b>D</b> MAE yn ysgymuno rheswm; | Yn lleidr i'r pwrs;              |
| Yn boddi y cof;                  | Yn gyfaill cardotwyr;            |
| Yn difa nerth;                   | Yn ddychryn gwraig; ac           |
| Yn ennynu y gwaed;               | Yn drallod plant;                |
| Yn annhymheru y corff;           | Y mae yn gwneyd dyn yn           |
| Yn archolli o fewn ac allan;     | hunan-lofrudd;                   |
| Y mae yn rheibiaeth i'r syn-     | Yn gwneyd iddo yfed iechyd       |
| wyrau;                           | da arall; ac                     |
| Yn elyll i'r enaid;              | Yn ei yspeilio o'i eiddo ei hun. |



## DYDDANION.

## CREFFT IESU GRIST.

“**B**ETH oedd crefft Joseph, gŵr Mair, fy mhlant i?” meddai Mr. H., wrth holi plant yr ysgol y Sul o'r blaen. “Saer,” ebai'r plant. “Beth oedd crefft Iesu Grist?” Ar ol ychydig o ddystawrwydd, atebodd un bychan, “*Cadw pechaduriaid.*”

## TARDDIAD YB ENW SPINSTER.

“**I**AHAM y gelwir merch heb briodi yn *Spinster*, neu nyddferch, nhad?” ebai merch ieuanc yn ddiweddar. Rhoddodd y tad yr atebiad dyddorol a ganlyn:—Yr amser gynt ni oddefid i ferched briodi hyd nes y byddent wedi nyddu set gyflawn o ddillad gwely. Felly, hyd amser priodi, *Spinsters* y gelwid y merched, am y cesglid fod pob un oedd yn y cyflwr hwnw yn brysyr yn nyddu. Mae yr enw wedi dyfod i arferiad cyffredinol, er ei fod wedi hen golli ei ystyr; oblegyd nid oes un o gant o'n merched yn awr yn gwybod y ffordd i nyddu.

## GWNEUTHUR DIM.

**D**ID oes unrhyw blentyn nad yw wedi dyoddef llawer am “wneuthur dim.” Beth yw'r mater, John,—pam wyt ti yn wylo?” “Ofn sydd arnaf y gwnewch chwi fy nghuro, nhad,” ebai'r bachgen. “Pam—beth wyt wedi wneyd?” “Nid wyf wedi gwneuthur dim.” “Wel, pa bryd y gwelaist fi yn dy geryddu am wneuthur dim? Cerdda i'r tŷ.” Yr un noswaith daeth y tad adref yn ddigofus, a rhoddodd y fflangell yn drwm ar gefn John. “Oni ddywedais i wrthyt am balu yr ardd?” “Do, nhad, ond dywedasoeh hefyd nad oeddech byth yn ceryddu am *wneuthur dim!*”



## TRYSORFA Y PLANT.

RHIF. XLVIII.]

RHAGFYR, 1865.

[CYF. IV.

### MAG AC ELEN.

**D**R oedd bwthyn yn sefyll wrtho ei hun ar dafod o dir yn ymestyn i'r môr, a morwr, gyda gwraig a phlentyn, yn byw arno. Dynes dduwiol oedd y wraig, ond morwr garw ac anystyriol oedd y gŵr; yr oedd yn hoff iawn o'i eneth fach, Mag, ond nid oedd ddigon caredig i'w wraig. Yn wir, nid oedd ganddo ddim serch at y Bibl, na phethau crefyddol.

Collodd Mag ei mam pan nad oedd ond tair oed. Nid oedd ond ei thad a hithau; ond yr oedd llawer o weddïau a dagrau wedi eu gadael gan y fam dros ei hanwyl blentyn.

Penderfynodd y tad y buasai yn cadw Mag oddiwrth hen dybiau crefyddol y fam. Dysgodd hi ei hunan i ddarllen ac ysgrifenu, ond ni chai fyned i ysgol nac i wrando pregeth, a gofalai na chai neb arall ddyfod i wneyd argraffiadau crefyddol ar ei meddwl. Felly cododd y plentyn i fyny yn wyllt, ac mor anwybodus am Dduw, a Iesu Grist, & Phagan.

Ond yr oedd gweddïau ei mam o hyd yn aros ar ran ei hanwyl Mag, ac nid oedd Iesu Grist wedi eu hanghofio; ond yr oedd yn parotoi y ffordd i'w hateb.

Daeth teulu crefyddol i'r gymydogoeth i dreulio haf ar làn y môr. Yr oedd gan y rhieni eneth ddeng mlwydd oed wedi bod yn glaf iawn, a chynghorodd y meddyg ei dwyn i dreulio tymmor yn awyr y môr. Elen oedd ei henw—geneth fechan mor brydferth, ac mor fawr ei chariad at Iesu Grist, ag a welwyd erioed.

Yr oedd yn pasio bob dydd heibio tŷ Mag, ac at ymyl y graig ar y traeth, lle byddai Mag yn treulio llawer o'i hamser i gasglu cregyn a mângerygach prydfferth. Yr oedd Mag wedi tynu sylw Elen droion, a gwnaeth i'w mam unwaith stopio y cerbyd i ymddyddan â hi. Ond cywilyddgar a diddysg yr ymddygai Mag.

Yn fuan gwellhäodd Elen yn fawr, a daeth un diwrnod ei hunan ar ei thraed at y traeth. Yr oedd Mag hefyd ar y traeth, a gwelodd Elen yn dyfod, ac ymguddiodd yn nghysgod càreg. Dechreuodd Elen gasglu y cregyn mân gwynion, dan hymian canu.

"Pam yr ydych chi yn myned â'm cregyn i?" gwaeddaï Mag o'r diwedd mewn llais garw.

Dychrynodd Elen, a chododd ei phen. Gwelai Mag yn ei hymyl, â dillad carpiog, ac heb ddim am ei thraed. "Wyddwn i ddim mai chwi oedd eu pïau," ebai Elen yn addfwyn. "Cewch chi hwynt oll, os ydych yn dewis. A gaf fi gasglu peth o hesg y môr, neu ai chwi bïau hwnw hefyd?"

"Fi bïau pobpeth sydd ar y graig hon," ebai Mag, dipyn yn fwy serchog; "ond gellwch chi gymeryd peth. Gallaf fi gael gwell rhei'na i chwi." Dringodd â'i thraed noethion dros y graig, ac ymhen ychydig fynyddau yr oedd ganddi lonaid ei dwylaw o honynt. "Dyma rai prydfferthach nas gallech chi ffeindio," ebai, gan estyn rhai o amrywiol liwiau iddi.

"Ie yn wir," ebai Elen, "y rhai prydfferthaf a welais erioed. A ydynt oll i mi? O, diolch yn fawr i chwi. Oedd dim ofn arnoch i fyned allan fel yna?"

"Ofn! nac oedd; nid oedd genyf fi esgidiau fel chwi i'w gwlychu," meddai Mag, gan edrych ar esgidiau prydfferth Elen. "Pam na fyddech yn myned allan yn y cerbyd yn awr? Mae mwy o bleser fel hyny na cherdded."

"Y mae yn well genyf fi gerdded yn awr, achos 'dwyf fi ddim yn blino fel yr oeddwn."

"Yr oeddech yn edrych mor glaf o'r blaen, yr oeddwn i yn meddwl y buasech yn marw. Oeddech chi ddim?"

"Do, bum yn meddwl hyny weithiau, cyn i mi dd'od yma; yr oeddwn yn waelach lawer y pryd hwnw."

"Oedd dim ofn arnoch?" gofynai Mag. "Leiciwn i ddim marw. O, cadwo ni!"

"Na, 'doedd dim ofn arnaf," ebai Elen, gyda gwên foddhäol, nes synu Mag pa fodd y gallai siarad mor ysgafn am farw. "Nid yw marw yn ddim ond myned gartref, os byddwn yn caru Iesu Grist."

"Pwy yw Iesu Grist?" gofynai Mag; "dwyf fi ddim yn ei nabod. Nid wyf yn caru meddwl am farw, ond yr wyf yn gorfod gwneyd hyny weithiau hefyd. O, byddai yn ddychrynlyd pe bawn i yn gorfod marw wrthyf fy hun, pan fyddai fy nhad ymaith!"

"Ond 'does dim raid i chwi farw eich hunan. Bydd yr Iesu gyda chwi, os gwnewch geisio ganddo."

"Wel, ie, ond dywedais i nad wyf fi ddim yn nabod yr Iesu, ac nid wyf yn credu y delai ataf pe galwn arno. Pwy yw yr Iesu?"

"Ydych chwi ddim yn nabod yr Iesu, ein Gwardwr bendigedig!" ebai Elen, â'i llygaid yn gloewi gan dagrau, mewn teimlad tyner a synedig. "Duw yw Iesu Grist, yr hwn a ddaeth i lawr o'r nefoedd i farw drosom ni, fel y gallom ninnau, pan fyddwn farw, fyned yno i fyw yn hapus gydag ef am byth."

"Sut y gall dd'od yma ataf, os yw wedi marw?" ebai Mag.

"Achos iddo dd'od yn fyw eilwaith; ac yn awr gall ein clywed ni bob gair a ddywedom wrtho, er ei fod yn y nefoedd."

"Pe byddech chwi yn dyweyd rhywbeth wrtho, fan hyn, yn awr, a glywai ef chwi?"

"Clywai, cystal a chwithau, a gwell. Y mae yn clywed pob gair, ymhob man, bob amser."

"Byddai yn dda genyf, ynte," ebai Mag, "pe byddech yn ceisio ganddo ddyfod i aros gyda mi pan fyddaf wrthyf fy hun, ac yn ofnus."

Aeth Elen ar ei gliniau yn y fan, ar oehr yr hen graig, ar lân y môr, rhoddodd ei dwylaw bychain yn mhleth, a dywedodd,—

"O anwyl Waredwr! a weli di yn dda ddysgu Mag i dy nabod, ac i dy garu, a bod gyda hi pan fydd wrthi ei hun, ac yn ofnus. A gwna ni ein dwy yn blant da ac ufudd, fel y caffom ddyfod i'r nefoedd pan fyddom farw. Amen."

Bu y plant yn fud am dipyn; yna dywedodd Mag mewn tôn isel, "Bu fy mam farw pan nad oeddwn i ond baban. Wn i a oedd hi yn nabod yr Iesu; wn i aeth hi i'r nefoedd."

Cyn myned adref, rhoddodd Elen ei Thestament bach i Mag, a dywedodd, "Fe ddywed hwn y cwbl wrthyf am yr Iesu. A ddarllenwch chwi ef?"

"Gwnaf yn wir, achos y mae arnaf fi eisieu ei adnabod."

Bu y plant am rai dyddiau ar ol hyn heb gyfarfod â'u gilydd. Rheddodd Mag i gyfarfod Elen, a dywedodd, "Yr wyf wedi darllen y cwbl a ddywedasoch wrthyf, ac yr wyf yn ei garu mor fawr. Mor garedig oedd Iesu Grist i'r cleifion! Ond sut y gall ein clywed ni yn awr os yw yn aros i fyny yn y nefoedd?"

"Am ei fod yn Dduw yn gystal a dyn, ac y mae Duw ymhobman."

"Wel, dywedais wrtho fy mod am ei nabod," ebai Mag, "ond nis gallaf ddyweyd a glywodd ef fi neu beidio. Sut yr ydych yn deall ei fod yn eich clywed?"

"Am y dywed ei fod yn ein gwrando, ac yr wyf hefyd yn teimlo ei fod. Nis gallaf ddyweyd wrthyf yn awr pa fodd; ond rhaid i chwi gredu ei fod yn eich clywed, am ei fod wedi addaw, yna de'wch chwithau i wybod hyny. Gawn ni ddarllen tipyn am y nefoedd yn awr?"

Eisteddodd y ddwy fechan i lawr yn mhelydrau dysglaer yr haul, a darllenasant am Iesu Grist, ac am y ddinas sanctaidd, y Jerusalem newydd; a chanodd Elen amryw o'i hymnau melus oedd wedi ddysgu yn yr Ysgol Sabbothol.

Bu Elen a Mag yn crwydro gyda'u gilydd am wythnosau, a phrif destun eu myfyrdod â'u siarad ydoedd Iesu Grist a'r nefoedd.



O'r diwedd, daeth tad Mag i wybod am y cwbl, trwy i Mag ofyn iddo ar noswaith ystormllyd i ddarllen pennod y nei Testament bach.

"Pa le y cawsoch chwi y llyfr yna, Mag?" gofynai y tad mewn tŷn ddigofus.

Dywedodd hithau wrtho am ei holl helyntion gydag Elen, yr hon a'i rhoddodd ef yn anrheg iddi.

"A dyma yw diwedd fy holl ofal am danoch!" ebai'r tad, gan dafu y Testament i lawr ar y bwrdd, a gadael yr ystafell.

"Mae y plentyn yna yn tyfu i fyny yr un fath a'i mam yn union," meddai wrtho ei hun; "tybed mai crefydd sydd yn ei wneyd?" Ond nis gallai oddef y myfyrdodau hyn. Ni ddywedodd ychwaneg wrth Mag, ond cuddiodd ei Testament dan glo, gyda Bibl ei mam; ac yn hytrach na gadael Mag i weled Elen mwy, aeth & hi ymaith mewn cwch, ar y diwrnod yr oedd Elen yn ymadael â'r ardal i fyned gartref, i'w rhwystro i weled eu gilydd i ffarwelio.

Yr oedd yn ddiwrnod hyfryd; ond yn ddamweiniol, tarawodd agerlong ar draws eu cwch, taflodd ef â'i wyneb i waered, a chuddiwyd Mag a'i thad dan y tŷnau. Codwyd y tad i fwrdd yr agerlong, ond boddodd Mag.

Atebwyd gweddiâu y fam, ac aeth Mag i'r nefoedd ati, yr un dydd ag yr ymadawodd Elen â'r ardal.



## Y MEDDYG IUDDIEWIG.

**D**R ydym yn ddiolchgar i'n cyfaill o Lundain am anfon yr hanesyn tarawiadol a ganlyn i ni.

Yr oedd dynes dlawd yn ymyl marw yn un o *hospitals* Llundain. Ymysg y meddygon oedd yn gweini arni, yr oedd meddyg ieuanc o Iudew. Safai un diwrnod yn ymyl ei gwely, a dywedai wrthi,

"Yr ydych yn edrych yn wael iawn, ac yr wyf yn ofni nad adferir chwi. A fedraf fi wneuthur rhywbeth drosoch chwi?"

"Diolch yn fawr i chwi," ebai y ddynes; "mae y Testament Newydd dan fy ngobenydd, a byddaf ddiolchgar iawn i chwi os gwnewch ddarllen pennod i mi."

Dyryswyd y meddyg ychydig gan y cais; ond yr oedd ganddo galon dyner, a gwnaeth yn ol ei dymuniad. Parhæodd i ddyfod ati, ac i ddarllen cyfran o'r Testament iddi am rai dyddiau; a synid ef yn fawr gan y cysur a'r tangnefedd a ddylifai i feddwl y ddynes glaf trwy yr adnodau.

Y fynyd olaf y bu byw, rhoddodd y ddynes y Testament i'r meddyg ieuanc, a dymunodd arno ei ddarllen drosto yn ystyriol. Dywedodd y meddyg y gwnelai y cais hwnw hefyd. Dygodd y llyfr adref, a darllenodd ef yn ofalus. Do, darllenodd, a darllenodd, nes y daeth o hyd i'r Hwn yr ysgrifennodd Moses a'r pro-

phwydi am dano—Iesu, y Messiah; a chredodd ynddo fel “Oen Duw, yr hwn sydd yn tynu ymaith bechodau y byd.”

Y FAM A'I PHLENTYN CLAF.

**P**N y bwthyn bychan aew,  
 'Mysg y coed wrth droed y bryn,  
 Y mae tristwch yn teyrnasu  
 Gyda nerth y dyddiau hyn;  
 Plentyn bach cyntafanedig  
 Oedd y ddoe yn iach a llon;  
 Heddyw sydd ar gefnfor cystudd,  
 Bron a suddo dan bob tòn.

Uwch ei ben mae 'r fam yn sefyll,  
 Gofid, galar, ar ei gwedd,  
 Wrth wel 'd angeu 'n dwyn ei phlentyn  
 I ystafell oer y bedd;  
 Y mae cwmwl ar ol cwmwl  
 Yn ymgasglu drosti hi;  
 Y mae deigryn ar ol deigryn  
 Hyd ei gruddiau 'n treiglo 'n lli'.

Gweled angeu du a'i gleddyf  
 'N dysgwyl am orchymyn Duw,  
 I ddifodi ei holl obaith—  
 Dwyn ei mab o dir y byw;  
 Gwel'd ei egwan nerth yn pallu,  
 Myn'd yn llai, yn liai o hyd;  
 Hithau 'n sefyll heb y gallu  
 I roi cynhorth yn y byd.

Gwrandewch ar ei galar, druan,  
 “Ffarwel, ffarwel byth i hedd,  
 Ar ol rhoi fy mhlentyn anwyl!  
 Yn hen fynwes oer y bedd;  
 O! nas gallwn innau farw,  
 'Mh lentyn anwyl, gyda thi,  
 A dy gadw ar fy mynwes  
 Yn ei mynwes oerllyd hi.”

Yn yr adeg gyfyng yma  
 Aeth y fam o flaen ei Duw,  
 A gofynodd trwy daer weddi  
 Ga'i y plentyn bychan fyw.  
 Cipiodd angel gwyn y weddi  
 Gyda 'i dagrau fry i'r ne';  
 A dychwelodd gynt na 'r fellten  
 Gyda bendith yn ei lle.

Safodd uwch y môr a'i dônau,  
 Gwyliodd yr un bach rhag cam;

Ailgyfododd seren gobaith  
 Yn ffurfafen ddu y fam :  
 Ciliodd anguen brwnt o'r golwg.  
 Rhoddwyd yn y wain ei gledd ;  
 Ac fe safodd angel dysglaer  
 Rhwng y plentyn bach a'r bedd.

Dygodd mwyn awelon boreu,  
 Iachus wrid i'w ruddiau llwyd,  
 A disgynodd llef o'r nefoedd,  
 "Cwyd, fy mhlentyn bychan, cwyd ;"  
 Yntau, fel planigyn tyner,  
 'R ol gauafaidd rewlyd wynt,  
 Yn adfywio gyda 'r gwanwyn,  
 A adfywiodd megys gynt.

*Wyddgrug.*

AB ALUN.

• GWEDDIAU Y BIBL.

XIII.—*Gweddi Hannah am blentyn.*—1 Sam. i. 11.

**D**ARGLWYDD y lluoedd, os gan edrych yr edrychi ar gystudd dy lawforwyn, ac a'm cofi i, ac nid anghofi dy lawforwyn, ond rhoddi i'th lawforwyn fab ; yna y rhoddaf ef i'r Arglwydd holl ddyddiau ei einioes, ac ni ddaw ellyn ar ei ben ef.

XIV.—*Gweddi Samson er dial am ei lygaid.*—Baru. xvi. 28.

O ARGLWYDD IOR, cofia fi, attolwg, a nertha fi, attolwg, yn unig y waith hon, O Dduw, fel y dialwyf âg un dialedd ar y Philistiaid am fy nau lygad.

XV.—*Gweddi Jabes am fendith ddwyfol.*—1 Chron. iv. 10.

O NA lwyr fendithit fi, ac na ehengit fy nherfynau, a bod dy law gyda mi, a'm cadw oddiwrth ddrwg, fel na'm gofidier.

GENETH FACH A'I THAID.

**D**R ydym yn dyfynu a ganlyn o lythyr un o'n gohebwy. "Yr wyf yn wael iawn, fy ngeneth i," meddai hen ŵr wrth ei wyres fach, tua chwech oed. "I ba le yr ewch ar ol marw, taid ?" gofynai y plentyn. "I'r nefoedd, gobeithio," oedd yr ateb. "Yr wyf finnau yn gobeithio yr ewch yno, ond rhaid i chwi beidio tyngu, onidê ni chewch fyned yno byth. Ydych chwi yn gweddio, taid ?" Aeth y cwestiwn diweddaf at galon ddiweddi yr hen ŵr, a bernir iddo fod yn foddion dychweliad iddo. Mae cwestiynau syml ond difrifol plant yn gwneyd pethau mawrion.



## Y PLENTYN YW TAD Y DYN.

“YMA fi wedi cael allwedd yr ardd, Dafydd. Os deui, cawn eithaf pryd o afalau,” meddai John wrth ei frawd, ar noson o oleu-leuad.

Gardd cymydog caredig ydoedd, a chawsai John bryd o afalau gan Mr. Williams, y perchenog, unrhyw amser, pe buasai ddim ond myned ato i’w gofyn.

“Na ddof fi ddim gyda thi, John,” ebai Dafydd; “yr wyf fi yn myned i’r capel, a gwell i tithau beidio ymhel â pheth fel yna.”

“Wel, chei di ddim afal o honynt, os na ddeui gyda mi, gelli fod yn siŵr. Gwna di fel y mynot, yr wyf fi yn myned.”

Aeth Dafydd ymaith ac i’r oedfa, ac aeth John i berllan Mr. Williams, a daeth â llonaid ei bocedau o afalau adref. Ond gwelodd y forwyn ef yn dyfod allan, a dywedodd wrth ei meist. Dywedodd Mr. Williams wrth dad John, a chafodd John gystal pryd o wialen ag o afalau. Aeth i’w wely y noson hono mewn blinder a dagrau, tra yr oedd ei frawd yn llawen ac esmwyth arno.

Mae y ddau heddyw wedi tyfu i fyny, ac yn berchen teuluoedd; ond y mae eu hanes yn profi fod y plentyn yn dad i’r dyn. Y mae John yn ddyn ofer, diymddiried, a lladronaidd, ond y mae Dafydd yn un o ddynion mwyaf parchus yr ardal, ac wedi dyweyd er ystalm, “Myfi a’m tylwyth a wasanaethwn yr Arglwydd.”

## Y TADAU METHODISTAIDD.

## VIII.—JOHN HARRIS, SIR BENFRO.

**C**R nad yw enw John Harris, Treamlod (*Ambleston*), Sir Benfro, yn adnabyddus i liaws yr oes hon, bu yn un o'r pregethwyr ffyddlonaf am 46 o flynyddoedd, ac ystyrid ef fel tad i Fethodistiaeth yn y Sir hono. Mab iddo ef ydoedd y Parch. Evan Harris, Sir Benfro; ac ŵyr iddo, dybygem, yw y Parch. T. Harris, Hwlfordd gynt, yr hwn sydd yn gweini yn awr fel offeiriad yn yr Eglwys Sefydledig yn yr un Sir.

Ganwyd John Harris tua'r flwyddyn 1721, a bernir iddo ymuno â'r Methodistiaid tua'r flwyddyn 1742, pan oedd yn 21 oed. Cawn fod gofâl amryw o gymdeithasau crefyddol y Sir yn cael ei roddi arno mewn "Cymdeithasfa Fisol" a gynnaliwyd yn y "*Long house*," Sir Benfro, Mehefin 8, 1743. Y mae yn rhaid ei fod yn meddu ar dduwioldeb a chymhwysderau anarferol cyn y buasid yn ymddiried cymaint i ddyn ieuanc 22 oed. Ac y mae ei holl hanes yn profi ei fod yn ddyn Duw, yn meddu ar ysbryd apostolaidd, ac iddo ddal wrthi hyd y diwedd fel milwr da i Iesu Grist. Cawn y byddai yn teithio yr holl Sir unwaith y mis i blanu eglwysi, ac i'w dyrhâu; a dywedir iddo fod am flynyddoedd heb gysgu mwy nag un noswaith y mis gartref, o herwydd ei ofal a'i ddiwydrwydd gyda'r achos yn y Sir. Yr oedd yn gallu gwneyd hyn trwy fod ei wraig a'i fab yn cymeryd gofâl am y fferm oedd yn ei dal.

Heblaw yr enwog Howell Davies, yr oedd yn cydlafurio âg ef John Harris, John Gibbon o'r Gelli, Benjamin Thomas, a William Gambold. Bu John Harris yn cydoesi ac yn cydlafurio â Howell Harris am oddeutu 18 mlynedd ar ol claddu Howell Davies. Byddai yn pregethu yn fisol yn Woodstock. Ar un adeg yn ystod ei fywyd, y pedwar oedd yn gweini yn fisol yno oeddent, Rowlands, John Harris, Henry Richard, a William Griffith; a gelwid y Suliau ar enw y pregethwyr.

Yr oedd Rowland Hill yn adnabyddus iawn o John Harris, ac yn meddwl yn uchel iawn am dano. Bu yn pregethu unwaith yn y tŷ lle yr oedd Harris yn byw, pan oedd yn meddiant ei fab, y Parch. E. Harris. Yr oedd gweddwr yr hen bregethwr yn fyw ar y pryd, a dywedai Mr. Hill wrthi, "Os eweh i'r nefoedd o'm blaen i, cofwch fi at John Harris, a dywedwch wrtho fy mod innau hefyd yn dyfod." Dro arall, pan alwodd ei ŵyr, y Parch. T. Harris, i weled Mr. Hill yn Llundain, gofynodd iddo, "Pwy ydych chiwi?" "Wyr i John Harris, Treamlod." "Wel," ebai Mr. Hill, "os oes neb o'n byd llygredig ni yn y nefoedd, y mae yr hen John Harris yn siŵr o fod yno." Bu farw yn nhŷ offeiriad yn Tref-draeth, yn y flwyddyn 1788, yn 67 oed.

Mae ei lythrau yn hynod o nefol ac apostolaidd. Dyma dam-eidian bychain o lythyr go faith, yn rhoddi golwg ar yr achos dan ei ofal i'r Parchn. D. Rowlands a H. Davies, yn y fl. 1743, pan nad oedd ond 22 oed:—

“Ar y 13eg o'r mis hwn, cyfarfyddais âg wŷn Pendergast ac Ismason yn Phonton (25 o rifedi), pryd yr agorwyd ffenestri y nefoedd, ac y tywalltwyd arnom wllith cariad Duw, nes oeddem ar goll i boddi yn y môr mawr, ac y rhoddwyd i minnau deimlo doethineb, gwybodaeth, a deall, gostyngeiddrwydd a chydymdeimlad â fy wŷn anwyl, yn llifo i fy nghalon, fel y gallwn ddywedyd, '*Teyrnas Dduw sydd o fewn i mi;*' ac hefyd, mai '*Duw, cariad yw.*' Yr oedd y ddeadell fel asgwrn o'm hasgwrn i, a chnawd o'm cnawd i. Canasom âg un anadl ganiad newydd. \* \* \*

“Yn Llawhaden—11 o rifedi; ond yr oedd fy serch yn parhâu ac yn chwaneu. Nid digon oedd penlinio mewn gweddi, syrthiodd dau ar eu hwynebau ar y llawr, a phrin y medrent gyfodi. A thra yr oeddwn yn gosod cariad Duw o'u blaen, ni allent aros yn yr ystafell, ond aethant allan o un i un, gan ymfreiglo yn y llwch, a gwaeddi, '*Cân di, Michael (yr angel), yr ydym ni yn methu.*'

\* \* \* \* \*

“Y Gelli dawel.—O'r dechreu hyd yma, ni chymerodd yr anwyl Oen ei wên oddiwrthyf, ond a'm dyddanodd megys ar ei lin, nes fy llenwi i, a'r ddeadell hefyd, o gariad, a pheri i ni lefain ar lu y nef,—'*O, chwi wryfon gogoneddus! cenwch, oblegid rhyddhäwyd chwi oddiwrth y clai. Treblwch eich cân nes y deuw, ninnau atoch!*'

“Yn y modd yma, anwyl frodyr, fel y galwaf chwi, y'm gwnaethpwyd i yn gyfranog o'ch gofal a'ch pryder yn eich gwaith mawr. Tybiwyf fy mod yn cyd-ddwyn y baich gyda chwi. A chan fy mod yn credu fod ein hanwyl Archoffeiriad yn eich cynnorthwyo, ac mai efe yw Awdwr, yr wyf yn coelio y bydd hefyd yn Berffeithydd y gwaith. \* \* \* \* \* Ewch ymlaen; yn wir, y mae gan Oen Duw law yn y gwaith y mae a wneloch chwi âg ef; a chwithau a gewch fedi o ffrwyth eich llafur, &c. Hyn oddiwrth yr annheilyngaf o bawb ag sydd yn ceisio gwynneb yr Oen, JOHN HARRIS.”

Dyma y fath ddynion fu yn llafurio i arloesi Cymru, y rhai yr aethom ni i mewn i'w llafur hwynt. Ddarllenwyr ieuainc, darllenwch eu hanes, nes y tanier chwi gan eu hysbryd. Fe allai y rhoddwn mewn rhifyn dyfodol lythyr John Harris at Howell Harris, yn dangos sut y bu arno gyda Maer Tenby.

Y CWESTIYNAU GWOBWRWYEDIG.

23. **B**A rodd fawr a ofynodd un gan arall ar yr ammod, os caffai hi, y dychwelai hi i'r rhoddwr yn union ac am byth?
24. Ar ba amgylchiad y cymerodd llawer o bobl fod yn perthyn i genedl arbenig pan nad oeddent?

[Mae yr Atebion i'r holl Gwestiynau i fod yn llaw y GOLYGYDD erbyn Ionawr 1, 1866, wedi eu hysgrifenu ar y ddalen a ddarparwyd i hyny. Gellir cael y ddalen, yr hon sydd yn cynnwys pob hysbysrwydd chwanebol, trwy anfon dwy stamp i'r Cyhoeddwr (MR. P. M. EVANS, *Howell*).



### MARY A CHARLIE BACH.

*Mary.*

**D**E'WCH yma, Charlie bach, fy mrawd,  
Rhowch heibio 'ch pethau chwareu;  
Cymerwch gan eich chwaer yn awr,  
Y tusw mawr o flodeu.

*Charlie.*

A gâf fi 'r blodeu hyn *i gyd*?  
B'le cawsoch gymaint, Mary?  
'R y'ch chwi yn rhoi pob peth i fi—  
Mor fawr y'ch yn fy ngharu!

*Mary.*

Cewch, Charlie bach, cewch, cewch *i gyd*,  
Waith mae fy mryd ar rod-di;  
Fy mhleser penaf yn y byd,—  
Rhoi "gyd i gyd" i Charlie.

'R wy 'n caru 'r blodeu dysglaer, glân,  
Sy 'n gwenu yn y *posi*,  
Y rhosyn coch o ben yr ardd,  
Y tulip hardd a'r lili;

Ond can' mil gwell yw *mrawd* gen' i,  
Na blodeu 'r byd yn gyfan;  
Mae rhos a lili 'r nef yn fyw,  
Yn lliwiau 'ch bochau bychain.

*Charlie.*

O! f' anwyl chwaer, rho'f am eich gwddf,  
Yn dŷn fy mreichiau egwan;  
'D oes genyf dâl i chwi, fy chwaer,  
Ond serchus air a chusan.

ROSE A BLANCHE;

*Neu Gynllwynion y Jesuitiaid.*

PENNOD XII.—YCHWANEG O OLEUNI.

YFARFYDDODD Mary a Dagobert ac Agricola wrth borth y mynachdŷ perthynol i St. Mary. Dygwyd Dagobert yno gan ei gi, Killjoy. Yr oedd wedi myned adref yn dom a llaid, yn cyfarth a chwynfan, gan ymaflŷd yn ngwisg ei feistr, ac fel pe buasai am ei lusgo allan.

Cymerodd Dagobert yr awgrym, a chanlynodd ei gi. Rhedai o'i flaen ar hyd yr ystrydoedd, gan siglo ei gynffon, a dangos pob arwyddion o lawenydd, am fod ei feistr yn ei ganlyn. Elai weithiau o olwg ei feistr, ond arosai eilwaith hyd nes gwelai fod ei feistr yn ei ganlyn. Dywedai Dagobert wrth y ci ar hyd y ffordd,—

"Fy ffyddlawn Killjoy, yr wyt ti wedi bod yn ffyddlonach i'r merched na mi. Dilynaist hwynt yn ofalus, a chedwaist wyliaeth arnynt ddydd a nos, heb fwyd na chysgod; ac wrth eu gweled yn peidio dychwelyd, dyma ti yn dyfod i'm ceisio i atynt. Fy anwyl Killjoy! yr wyt yn gallach a ffyddlonach na'r un dyn a welais erioed! Yr wyf yn credu y cawn weled Rose a Blanche yn fuan."

Pranciai y ci mewn gorfoledd wrth glywed enwau Rose a Blanche, a dangosai frys mawr am fyned ymlaen. Y ci oedd y cyntaf i weled Mary, a dangosai y croesaw mwyaf iddi. Ond prysurodd y ci at ddrws y porth y daeth Mary allan o hono.

"Beth ddaeth â chwi i'r fan hon, Mary?" ebai Dagobert ac Agricola ar unwaith.

"O Dagobert!" ebai Mary, "y mae genyf newydd da i chwi—mae Rose a Blanche wedi eu cael. A newydd da i chwithau, Agricola,—nid yw Miss Cordoville yn fwy gwallgof na chwithau; yr wyf wedi bod gyda hi heddyw!"

"Ddim yn wallgof!" ebai Agricola. "Diolch i'r nefoedd! mor falch wyf i wybod!"

"Beth am y plant?" gofynai Dagobert, gan wasgu llaw fechan Mary rhwng ei ddwyllaw mawr ei hun—"pa le maent—a welsoch chwi hwynt?"

"Gwelais, un o honynt, gan nad beth; y maent wedi eu gwahanu, ac yn ymddangos yn bur ddigysur; ond ni chefais gyfie i siarad â hwynt."

"Pa le maent, Mary?"

"Y maent o fewn y mynachdŷ hwn."

"Yr oeddwn yn gwybod fod Killjoy yn fy arwain atynt: a welwch chwi fel y mae yn fy nghymhell yn awr at ddrws y porth?"

"Y mae pethau yn troi allan yn well na'n dysgwyliad eto, fy nhad," ebai Agricola.



"Mae fy nghalon yn llawn diolchgarwch i Dduw," ebai Dagobert. "Bendith arnoch, Mary, fy merch ffyddlawn, ac arnat tithau, fy anwyl fab. Ond nis gallaf aros i siarad, dyma fi yn myned am y merched," ebai, gan nesu ymlaen, ar fedr curo wrth y porth oedd yn arwain i mewn i gyntedd y mynachdŷ eang.

"Na, peidiwch, Dagobert!" gwaeddai Mary, "onidê chwi spwylwch y cwbl. Y maent wedi eu caethiwo yna yn groes i'w hewyllys, ac yn groes i'ch ewyllys chwithau. Mae gwyliadwriaeth fanwl yn cael ei chadw ar yr holl le. Os ewch i mewn i hawlio rhyddid y merched, chwi ddinystriwch bob gobaith am eu gwaredigaeth."

"Lol i gyd!" ebai yr hen filwr, "nid wyf yn prisio gwelltyn am holl fynachod a mynachesau y byd. Y merched wyf fi yn geisio, a mynaf hwy, pe byddai raid i mi osod yr holl le ar dân!"

"Fy nhad," ebai Agricola, "yr ydych yn anghofio mai tŷ cysegredig yw hwn, ac heb ystyried y perygl o dori i mewn iddo trwy rym fel yna."

"Y mae genyf fi well ffordd i'w chynnyg o lawer," ebai Mary.

"Beth ydyw, Mary? dywedwch ar unwaith, oblegid yr wyf yr un fath a phe byddai fy ngwadnau noethion ar farwor."

"Dywedodd Miss Cordoville wrthyf y buasai arfer gorthrech yn dinystrio y cwbl; a rhoddodd i mi nodyn i fyned at foneddwr galluog—Iarll Montbron, 7, *Vendome Place*, a rhoddi y fodrwy hon iddo, fel y gallo fod yn sicr mai cenadwri oddiwrthi hi ydyw. Gall hwnw ddyfeisio ffordd gyfreithlawn ar unwaith i'w gwaredu hi, a Rose a Blanche."

"Nid yw y lle hwnw ymhell oddiyma, a byddai yn well i chwi, 'nhad, fyned â'r llythyr a'r fodrwy i'r Iarll; fe allai y cewch gyflê i osod achos y merched hefyd o'i flaen. Gwell gwneyd pobpeth trwy deg, os gellir."

"Dyna ceddwn i am gynnyg," ebai Mary.

"Oeddech chwi yn deall fod Miss Cordoville yn awyddus am ei rhyddid, Mary?" gofynai Agricola.

"Ydyw, mor awyddus ag y gall neb fod, ac yn credu mai rhyw frawdriaeth o eiddo ei hewythr a'i modryb, ynghyd a'r frawdoliaeth Jesuitaidd, yw yr achos o'i chaethiwed. Dywedais wrthi yr hyn a ddywedasoeh yn eich nodyn i mi neithiwyr, sef fod genych rywbeth o bwys i'w hysbysu iddi."

"Beth sydd genych, fy mab, i'w hysbysu i'r foneddiges hono, a phwy yw Miss Cordoville?"

"Y foneddiges hono oedd wedi addaw dyfod yn feichiau drosof, os byddai galw am hyny. Y peth sydd genyf i'w hysbysu yw, i mi gael llythyr seliedig mewn blwch bychan yn yr ystafell ddirgel yn ei thŷ, lle y cuddiwyd fi, a medal gydag ef, ac arno yn argraffedig, 3 Heol St. Francis. Ac yr oedd ar y llythyr orchymyn i'w agor mor gynted ag y ceid ef."

"Dyna yr un fath medal ag eiddo y merched—rhaid, gan hyny, ei bod hithau yn un o'r etifeddion," ebai Dagobert.

"Dywedodd ei hunan wrthyf fi ei bod yn berthynas i Rose a

Blanche," ebai Agricola; "ac yn awr yr wyf yn gweled yr achos o'i symudiad i'r gwallgofdŷ. Yr wyf newydd alw yn ei thŷ, ar fedr hysbysu iddi am y medal a'r llythyr; ac yna y deallais ei bod yn y gwallgofdŷ; ond ni wyddent ymha wallgofdŷ. Gofynais pwy oedd ei meddyg; a phan ddeallais mai Dr. Bales ydoedd, gelwais yn ei dŷ yn awr i holi; ond nid oedd ef i mewn. Yn awr, ewch chwi at Iarll Montbron, i weled beth all ef wneyd; âf finnau at yr ynad fu'n foddion i gael fy rhyddhâd i'w hysbysu y lle mae y merched wedi eu suddio. Y mae yn awr yn bwnp o'r gloch, a gallwn gyfarfod â'n gilydd yn ein tŷ ni tua saith."

Cafwyd gwaith mawr i berswadio Dagobert i ymgymeryd â'r cynllun hwn; ond wedi hir berswadio, ufuddhâodd; galwodd ar Killjoy yn ôl oddiwrth ddrws y porth, yr hwn oedd yn anufudd iawn i ymadael, ac ymwahanodd y tri, pob un i'w ffordd.

Erbyn wyth o'r gloch yr oedd Dagobert wedi cyrhaedd y tŷ, ac nid oedd yno i'w dderbyn neb ond Mary; ac yr oedd yntau yn rhy gyffrous a thrallodus ei feddwl i siarad dim. Yr oedd wedi chwilio yr holl dŷ, ac wedi casglu at eu gilydd i ben y ford ddau lawddryll poced, bwr bychan o haiarn, a dwy neu dair o raffau, a mân bethau eraill. Yn y man daeth Agricola i mewn.

"Wel, fy mab, pa fath lwyddiant a gawsoch?"

"Dim, er fy ngalar, fy nhad," ebai'r bachgen. "Nid oedd yr ynad yn gweled yn briodol wneyd dim cyn canol dydd yfory, a bydd hyny yn rhy ddiweddar. Gelwais eilwaith gyda chadben y milwyr, a dywedais yr holl achos wrtho. Buasai ef yn mynu y merched i mi ar unwaith, oni bae mai mewn tŷ crefyddol yr oeddent; ond nis gallasai fyned i mewn yno ond trwy ganiatâd yr awdurdodau eglwysig. Ond sut lwyddiant gawsoch chwi, fy nhad?"

"Dim! Yr oedd yr iarll wedi myned oddicartref am dridiau Felly, y mae ar ben o ran pawb ond fy hunan. Ond yr wyf wedi gwneyd cynllun cyflawn, a bydd y merched yma cyn deuddeg heno."

"Beth yw hwnw, fy nhad."

"Toraf i mewn heno, a gwaredaf y plant a'r foneddiges hono, neu collaf fy mywyd yn yr ymgais."

"Yr wyf yn awr yn gweled y peth mor bwysig, fy nhad," ebai Agricola, "fel na chynnygiaf eich rhwystro yn mhellach; a deudaf gyda chwi, droed yn mhwill—byw neu farw."

"Na, rhaid i chwi aros gartref, fy mab, i ofalu am eich mam a Mary."

"Rhaid i mi dd'od gyda chwi, fy nhad, a byddaf o wasanaeth i chwi, a pheidiwch dyweyd gair yn fy erbyn."

"Or goreu, ffwrdd â ni," ebai Dagobert.

Cyn myned allan, yr oedd gwraig Dagobert wedi dyfod i mewn, a'i phriod a'i mhâb wedi ei chofleidio gyda dagrau.

"O, maddeuwch i mi, anwyl Dagobert," meddai y wraig, "gwnaethum gam truenus â chwi; ond nid o'm gwirfodd."

"Yr wyf yn maddeu i chwi," ebai Dagobert, "a gwyddwn mai

gwaith yr offeiriad drygionus oedd y cwbl. Onid hyny ddywedais i?"

"Yr wyf wedi cael goleuni newydd yn awr, wedi i mi ymgynghori â fy anwyl Gabriel, ac yn deall fy mod wedi pechu, wedi gwneyd cam â chwi, ac â'r merched. Ond cael fy arwain a wnaethum."

Yna adroddodd yr holl helynt o'r dechreu, y modd yr arweinwyd hi i dyngu llŵ ger-bron ei chyffesydd i gelu pob peth, a'r modd y penderfynodd dywallt ei holl galon o flaen Gabriel, ei mab mabwysiedig, yr hwn oedd hefyd yn offeiriad, a'r modd y cafodd hwnw allan ei fod yntau wedi ei dwyll-arwain gan gynllwynion ei uwchafiaid, ac nad oedd y cwbl oll ond ystrywiau o'u heiddo i yspeilio trueiniaid o'u meddiannau. Ac O! mor dda oedd ganddi gael y rhwystrau wedi eu symud i gael hysbysu y pethau hyn oll i'w hanwyl briod.

Yr oedd y tri erbyn hyn yn wylo dagrau yn hidl, ac wedi syrthio ar wddf eu gilydd.

"Dywedwch wrthyf, fy ngwraig," ebai Dagobert, "ai gwir i chwi gael medal a phapyrau gyda Gabriel pan yn blentyn bach gwrthodedig?"

"Digon gwir," ebai'r wraig, "a rhoddais hwynt i'm cyffesydd y pryd hwnw, ac ni chlywais am danynt fyth."

"A fu Gabriel ei hun yn son erioed am danynt wrthyf?"

"Naddo, erioed, yr un gair," ebai'r wraig.

"Fel yna, mae gan Gabriel hefyd hawl i'r etifeddiaeth," ebai Agricola, "ac *interest* mewn bod yn bresennol yn Heol St. Francis yfory, fel y merched a Miss Cordoville?"

"Oes, yr un fath," ebai Dagobert, "ac yr wyf yn cofio iddo ddyweyd ar y dydd y glanasom, y buasai arno anghen ein cynnorthwy ar fater pwysig ymhen ychydig ddyddiau."

Wedi hysbysu i'r wraig eu cynllun i dori i mewn i'r mynachdŷ y noson hono, a gwaredu y merched, ac ymdrechion a dagrau hono i geisio eu rhwystro, ac wedi ffarwelio, unwaith ac eilwaith, a gweddio dros eu gilydd, aeth y tad a'r mab a Killjoy allan i dywyllwch a gwlaw noswaith ystormllyd, a chwdyn *rice* ac amryw offer ynddo ar gefn Agricola.

Yr oedd yn hanner awr wedi un-ar-ddeg o'r gloch y nos pan gyrhaeddodd Dagobert a'i fab borth y mynachdŷ. Cerddasant ymlaen gyda'r mur uchel oedd yn ei gylchynu, nes y daethant at fainc oedd wedi ei gosod yn erbyn y mur. Eisteddasant fan hono, lle y caent ychydig gysgod rhag gerwinder yr hin.

"Agricola," ebai Dagobert, "y mae yn well genyf i chwi fyned gartref. Gwnaf fi a Killjoy y cwbl sydd yn eisieu yma, a bydd eich diogelwch a'ch cwmni chwi i'ch mam yn fwy pwysig na dim. Dychwelwch yn awr, a gadewch rhyngof fi a'r gorchwyl."

"Na wnaif, fy nhad, ar un cyfrif. Yr wyf yn sicr y byddaf o wasanaeth i chwi yn yr hynt beryglus hon; ac yr wyf wedi penderfynu, fel Ruth, 'Lle yr elych di, yr âf finnau.' Byddaf fyw neu farw gyda chwi. Ac er ein bod yn ymddangos fel lladron ac

yspeilwyr, y mae yr amcan sydd genym yn ganmoladwy, ac yr wyf yn credu y byddwn yn llwyddiannus."

Cofleidiodd Dagobert ei fab, a dywedodd, "Yr ydych yn fab teilwng o hen filwr yr Ymherawdwr, ac yr wyf yn annhraethol falch o honoch. Cadwed Duw chwi rhag niwed, beth bynag ddaw o honof fi. Yn awr gwell i ni aros fan yma nes tarawo y cloc ddeuddeg, yna dechreuwn ar y gorchwyl. Y mae Killjoy yn deall yn dda ei fod gerllaw ei hen ffryndiau, ac yn barod i ymosodiad."

(*Fw barhâu.*)

[Yr oeddem wedi bwriadu gorphen hanes Rose a Blanche yn y rhifyn hwn, ond yr ydym dan orfod ei estyn dros ychydig o rifynau yn ychwanegol.]



### FFYDD Y FAM.

“**N** i beth ddywed fy mam am yr Arglwydd erbyn hyn!” meddai y bachgen deg oed acw, sydd â’r fasedd yn ei law, a’r llech ar ei fraich. Y mae y tŵr plant yn ymbarotoi i fyned i’r ysgol heb damaid o frechwast, a’r ddau ieuengaf yn llefain o eisieu bwyd.

Yr oedd y fam yn arfer dysgu y plant fod yr Arglwydd yn gofalu am fwyd i’w bobl, ac nad oedd yn eu gadael byth mewn eisieu. Yr oedd y tad wedi bod yn gorwedd yn glaf am rai mis-oedd, a’r arian bellach, a’r bwyd, a’r glo, wedi darfod.

Clywodd y fam o’r ystafell arall ei phlentyn yn gofyn i’r plant eraill, “Beth ddywed fy mam am yr Arglwydd erbyn hyn, wn i?” ac aeth fel saeth i’w chalon. Yr oedd ei thlodi yn ddigon o flinder arni, ond a oedd i golli ei ffydd yn Nuw hefyd!

Syrthiodd ar ei gliniau yn y fan, a gweddiodd â'i holl galon am ymwared. Y peth cyntaf yr agorodd ei llygaid arno trwy y ffenestr, wrth godi oddiar ei gliniau, ydoedd llwyth o ddefnydd tân wedi ei anfon yn anrheg iddi. Dilynwyd y llwyth yn fuan â defnydd bwyd o le arall. Cadarnhawyd ffydd y fam a'r plant yn yr Arglwydd, a gwiriwyd yr adnod yn y Salm (xxxvii. 3),—“Gobeithia yn yr Arglwydd, a gwna dda; felly y trigi yn y tir, a thi a borthair yn ddiau.”



### MAE 'R WAWR ETO 'N LLWYD.

(Canig—“*The Winds whistle cold.*”—BISHOP.)

GAN J. OETIRIOG HUGHES.

**M**AE 'r wawr eto 'n llwyd,  
 Ac mae 'r haul ar ei daith :  
 Y gweithiwr a gwyd,  
 Ac ymafl yn ei waith.  
 Ar ei fainc y mae 'r crydd,  
 Efo 'r gwê y mae 'r gwýdd,  
 Ac mae 'r teiliwr yn parotol ;—  
 Wel gwaded a fyn,  
 Ond dynion fel hyn,  
 Sy 'n cadw 'r byd i droi.

Y mae un efo 'r meirch,  
 Ac mae 'r llall efo 'r praidd :  
 Ac fe ddyrnir y ceirch,  
 A nithir yr haidd.  
 Megys cloch yr holl fro,  
 Sain morthwyl y go',  
 Trwy 'r pentref wna bawb ddeffroi ;—  
 Wel gwaded a fyn,  
 Ond dynion fel hyn,  
 Sy 'n cadw 'r byd i droi.



### ENWOGION YR OES.

VII.—BENJAMIN DISRAELI.

**M**AE pob un o'n darllenwyr sydd yn arfer darllen y newydd-iaduron, yn gyfarwydd âg enw Disraeli ; oblegid y mae yn un o'r areithwyr mwyaf poblogaidd yn y Senedd er ys llawer o flynyddoedd, ac yn awdwr lliaws mawr o lyfrau adnabyddus i ddarllenwyr *novels*. Mab ydyw i ŵr o'r un enw, awdwr llyfr o'r enw “*Curiosities of Literature*,” ac Iuddew o ran cenedl. Ganwyd y presennol yn Llundain tua'r flwyddyn 1805, felly y mae yn awr yn 60 oed. Derbyniodd ei addysg yn Llundain, a gosodwyd ef ar

y cyntaf mewn swyddfa cyfreithiwr. Dechreuodd ddyfod i sylw llênnyddol gyntaf trwy ei ei ysgrifau i'r newyddiaduron, a gelwid ef "*Disraeli the Younger*" (yr ieuaf).

Y llyfr cyntaf o'i eiddo, yr hwn a gylchredodd yn gyflym, ac a wnaeth ei enw yn gyhoeddus, ydoedd ei "*Vivian Grey*." Yn fuan ar ol hyny ymddangosodd ei "*Young Duke*;" wedi hyny "*Henrietta Temple*;" ac o hyny hyd yn awr, y mae ei *novels* wedi dirwyn allan mewn lliosogrwydd mawr—y maent yn ddigon o lyfrgell fechan eu hunain erbyn hyn. Yr oedd wedi gosod ei lygad er yn blentyn ar gael eistedd yn y Senedd, a chadwai hyny mewn golwg yn ei holl lafur boreuol. Cymerodd daith i'r Dwyrain yn 1829, a thalodd ymweliad â Chaercystenyn, Syria, yr Aipht, a Nubia, a dychwelodd ymhen dwy flynedd.

Yn 1832, daeth yn ymgeisydd am aelodaeth Seneddol dros Chipping Wycombe; ond methodd unwaith, eilwaith, a thrachefn. Ni wyddid beth oedd ei olygiadau politicaidd y pryd hwnw, os gwyddai ef ei hun. Yn wir, yr oedd yn bobpeth yn ei dro. O'r diwedd daeth allan yn rhyddfrydwr eithafol, dros Senedd dair-blwyddol, a phleidleisio drwy y *ballot*, &c.; ond er hyn nid oedd drws y Senedd yn agoryd. Ymgeisiodd am gynnrychiolaeth Taunton, ar egwyddorion Toriaidd; ond methodd eilwaith. Llwyddodd o'r diwedd i fyned i mewn dros Maidstone.

Wedi myned i mewn, prysurodd gyda brys annoeth i beri clywed ei lais yn y gymanfa feirniadol o fewn Tŷ y Cyffredin; ond tynodd gawd o ddirmyg am ei ben, a gorfu iddo eistedd ar ganol ei araeth wedi "tori lawr." Ond wrth eistedd dywedodd,—“Fe ddaw amser pan y gwnewch wrando arnaf.” Ac y mae ei brophwydoliaeth wedi ei chyflawni er ys blynyddoedd. Yn 1841 etholwyd ef dros Amwythig, ac yr oedd y pryd hwnw yn gefnogwr gwresog i weinyddiaeth Syr Robert Peel; ond wedi hyny daeth yn wrthwynebydd penderfynol i Peel, a Stanley (Derby yn awr). Yn etholiad cyffredinol 1847, dychwelwyd Disraeli i'r Senedd dros Swydd Buckingham, yr hon y mae yn ei chynnrychioli hyd y dydd hwn.

Yn 1852, cafodd y swydd uchel o Ganghellydd y Drysorgell, yn ngweinyddiaeth Arglwydd Derby. Yr oedd gweled ysgrifenydd ffugchwedlau wedi ei osod mewn sefyllfa mor bwysig yn neddf-wriaeth y wlad, yn destun gwawd i filoedd; ond derbyniwyd ei *Budget* er hyny gyda mwy o ffafr nag a ddysgwylasid gan neb. Ond cyn diwedd y flwyddyn yr oedd y weinyddiaeth wedi ei dymchwelyd, a Disraeli anffodus wedi colli swydd ag ydoedd mor falch o honi. Ymhen chwe' blynedd, yn 1858, daeth Derby eto yn brif-weinidog, a chafodd Disraeli ei swydd ar y Drysorgell yn ei hol; ond colodd hi yn fuan eilwaith, trwy ddymchweliad y weinyddiaeth, a ffurfiad gweinyddiaeth (bresennol) Arglwydd Palmerston, yn Mehefin, 1859. Er mai ychydig a drwg yw amser Disraeli mewn swydd wedi bod, y mae wedi codi i fri mawr fel areithiwr talentog yn y gymanfa wladyddol flaenaf yn y byd. Efe yw blaenor y blaid Doriaidd yn Nhŷ y Cyffredin; ac er nad

yw yn sefydlog o ran ei olygiadau politicaidd, ac yr ystyrir ei fod yn fynych yn symud heb unrhyw argyhoeddiad o egwyddor yn ei gymhell, eto nid oes neb ymysg ei blaid yn y Tŷ isaf all gystadlu âg ef mewn doniau a ffraethineb arcithyddol.



### SUT NA BAE'R BIBL YN DYWEYD MWY.

“UT na bae'r Bibl yn dyweyd am fwy o bethau, 'mam?' meddai Henry wrth ei fam. Yr oeddent yn eistedd yn y llyfrgell, a Henry newydd osod y Bibl i lawr yn agored wrth ei draed. “Y mae yr Arglwydd yn gwybod llawer mwy nag y mae wedi ei ddyweyd, onid yw, 'mam?'”

“Ydyw, fy machgen, y mae Ef yn gwybod pob peth, a gallasai ddyweyd pob peth mewn llyfrau wrthym ninnau; ond buasai yn rhaid iddo roddi mwy o lyfrau na'r cwbl sydd ar yr estyll yna; a phwy fuasai yn eu darllen ar ol eu cael?”

“Ydych chi ddim yn meddwl y buasai pawb yn eu darllen, 'mam?’”

“Na fuasai, yn ddiammheu. Mae llawer heb allu darllen; ac y mae llawer sydd yn gallu darllen heb fodd i brynu llyfrau. Ac y mae mwy na hanner y bobl sydd yn prynu llyfrau heb ddarllen ond ychydig arnynt.”

“Ydyw y llyfrau yn ddrud iawn?”

“Ydynt, fy machgen i; mae y cyfrolau sydd ar yr astell yna yn bunt yr un. Mae ar yr astell ddeg ar hugain—dyna werth

deg punt ar hugain. Ac nid llawer allasai gael gwerth deg punt ar hugain o lyfrau."

"Nid yw yr Arglwydd yn y Bibl wedi dyweyd dim am longau, a balloons, a steam engines, a phethau fel hyny : pam na fuasai yn dyweyd, 'mam?'"

"Ychydig fuasai yn hoffi darllen am bethau fel hyny, pe buasai yn gwneyd. Y mae ef wedi ysgrifenu pethau sydd eisieu ar bawb eu gwybod, a phethau nad allasai neb ond efe eu dyweyd. Ac y mae ei lyfr ef yn ddigon bychan i chwi, mewn ychydig fisoedd, ei ddarllen i gyd drosto, ac yn ddigon rhad i'r tlotaf allu ei brynu."



DIWEDD Y FLWYDDYN.

(*Efelychiad o'r Saesoneg.*)

**A**E 'R hâf yn myn'd heibio,  
A'r blodau yn gwywo,  
Y dail sydd yn syrthio,  
I lawr dan y coed :

Yr adar sy 'n tewi,  
A noethion yw 'r perthi,  
Yr awyr ar rewi,  
Ac felly bu 'rïoed.

Daw gauaf yn rhuthro,  
Y cenllysg yn neidio,  
A'r gwyntoedd yn rhuo  
Tros fynydd a bryn.

Gan oerfel, pesychu,  
Bydd henaint a chrymu,  
Heb fodd i'w ddyddanu—  
Annifyr, bryd hyn !

Bydd da cael rhyw loches,  
Ac aelwyd yn gynhes,  
Ac eistedd o'i gwmpas  
Y gauaf oer blin :  
Mor werthfawr addfedu  
Y ffrwythan a'u casglu,  
I gynnal y teulu,  
Pan ddelo 'r fath hin.

Bydd well bod yn barod  
At auaf diddarfod,  
Sy 'n brysur yn dyfod,  
Yn dyfod bob dydd' :—  
O hyn daw llawenydd,  
A chysur na dderfydd,  
Tros oesau tragywydd,  
Tragywydd y bydd.



## DYDDANION.

## YR ATHRONYDD A'R BADWR.

“DYCH chwi yn deall athroniaeth?” gofynai athronydd i'r badwr, yr hwn oedd yn ei hwylio yn ei fâd dros yr afon. “Nac wyf—ni chlywais yr enw erioed o'r blaen,” ebai'r badwr. “Mae yn ddrwg genyf hyny,” ebai'r athronydd, “oblegid dyna un chwarter o'ch bywyd wedi ei golli.” Gofynnodd eilwaith, “A ydych chwi yn deall rhifyddiaeth?” “Nac wyf,” ebai'r badwr. “Wel, dyna chwarter arall o'ch bywyd wedi ei golli.” Gyda hyn tarawodd y bad yn erbyn craig guddiedig nes hollti yn ddau. Yr oedd y badwr ar ei draed mewn moment, ac yn tafu ei gôt, ac yn gofyn i'r athronydd dysgedig, “A fedrwrch chwi nofio?” “Na fedraf,” oedd yr ateb. “Wel, dyna eich holl fywyd chwi wedi ei golli,” ebai'r badwr.

## CROES DROM.

R oedd un Mr. Lee, pregethwr Wesleyaidd yn America, wedi bod yn pregethu mewn tŷ pan ar daith genadol, oddiwrth y geiriau, “Os myn neb ddyfod ar fy ol i, ymwaded âg ef ei hun, a chyfoded ei groes beunydd, &c.” Yr oedd wedi dangos fod gan bob dyn ei groes, ac mai ei ddyledswydd oedd ei chodi. Pan oedd yn myned at yr oedfa i'r lle nesaf, daliodd ddyn bychan yn cario dynes fawr ar draws ei ysgwyddau. “Beth yw'r mater—oes damwain wedi bod?” ebai'r pregethwr. “Ond wed'soch chi, nad oes un gobaith cael myn'd i'r nefoedd heb gario y groes,” ebai'r dyn odditan ei faich; “yr wyf finnau am fyn'd i'r nefoedd, gan nad beth; a'r wraig yma yw y groes fwyaf sydd gen' i yn yr holl fyd; a dyma fi wedi ei chodi yn ol eich gair.”













